UNIVERSITY OF TORONTO
3 1761 01483392 5

*From the Library*

*of*

PÁDRAIG Ó BROIN

Rhodd i
William Owen Williams
Oddiwrth ei fodryb
Jane Roberts

35 High St
Louant 1886.

15
JUL
1976
OF TORONTO

# METHODISTIAETH CYMRU:

SEF

HANES BLAENOROL A GWEDD BRESENOL

Y

# METHODISTIAID CALFINAIDD

## Yn Nghymru;

O DDECHREAD Y CYFUNDEB HYD Y FLWYDDYN, 1850.

GAN Y PARCH. JOHN HUGHES, LIVERPOOL.

"Eto cofiaf flynyddoedd deheulaw y Goruchaf. Cofiaf weithredoedd yr Arglwydd, ie, cofiaf dy wyrthiau gynt."—ASAPH.

CYFROL II.

GWRECSAM:
CYHOEDDWYD GAN R. HUGHES A'I FAB, HEOL-ESTYN.
MDCCCLIV.

# RHAGDRAETH I'R AIL GYFROL.

Nid oes genyf nemawr i'w ddyweyd ar orpheniad y Gyfrol hon, ond ei chyflwyno i sylw a hynawsedd fy nghydgenedl. Nid oeddwn ar y dechreu yn dysgwyl y derbyniaswn gymaint swm o ddefnyddiau, a bernais nad oedd modd eu cyfleu gyda chysondeb dan unrhyw ben cyffredinol, gan eu bod o natur lleol; am hyny, tybiais mai gwell oedd eu trefnu yn y modd goreu ag a ellir dan enw y gwahanol siroedd. Dyry hyn, yn ddiau, ddyddordeb mwy i'r hanes, i'r graddau y bydd yn cyffwrdd â chartref pob un; ond yr oedd hyn ar y llaw arall yn fy arwain i ymhelaethu yn llawer mwy nag a feddyliaswn ar y cychwyniad. Ar yr un pryd, gan mai y gwaith hwn yw yr unig hanes cyffredinol ar gael o'r cyfundeb, a chan y collid dros byth lawer o amgylchiadau dyddorol perthynol iddo, os na ddefnyddid yr adeg presenol; ac hefyd, gan fy mod yn cael fy anog yn daer gan eraill, ac yn teimlo fy hunan radd o aidd i wneuthur y gwaith mor gryno a chynwysfawr ag a allwn, mi a ymollyngais i osod gerbron gymaint o'r defnyddiau ag a farnwn yn fwyaf dyddorol i'r darllenydd, heb adael allan ddim o wir bwys.

Ond er ymhelaethu yn y modd hyn, yr wyf yn dyfalu y bydd llawer un yn teimlo yn anniddig, am na fydd yn cael un crybwylliad am ei le ei hun ac am na roddasid mwy o hanes personau adnabyddus iddo;—personau, yn

ol ei farn ef, llawn mor deilwng o goffâd anrhydeddus a neb arall. Wrth y cyfryw, dywedwyf, na ellir gosod y gwall hwn wrth fy nrws i, gan na ddaeth yr hysbysiad a dybid mor ddyddorol ddim i law; ond gwnaethum fy ngoreu i wneuthur cyfiawnder â'r defnyddiau a dderbyniwyd.

Mae hanes amrywiol siroedd mewn Dê a Gogledd eto ar ol; ynghyda hanes Methodistiaeth yn nhrefydd Lloegr. Mae hanes yr Henaduriaeth Newydd yn siroedd Caer a Lancaster—Hanes y Methodistiaid yn America—Bras hanes y ddwy Genadaeth a'r ddwy Athrofa; hefyd, desgrifiad o gyfansoddiad, dylanwad, cyfrifoldeb, diffygion, a rhagoriaethau Methodistiaeth Cymru, i fod yn gynwysiad y drydedd Gyfrol; yn gysylltiedig â'r hon y bydd Mynegair manwl o'r tair Cyfrol. Gwelir wrth y bras ddarluniad hwn y bydd llawer o amrywiaeth, a hwnw o natur tra dyddorol, yn y Gyfrol ddiweddaf; yr hyn a'i gwna o werth a phwys neillduol, yn llawn cymaint a'r un o'r ddwy a'i blaenorodd, ac yn gyfryw na fydd y gwaith mewn un modd yn gyflawn hebddi.

JOHN HUGHES.

MOUNT-STREET, LIVERPOOL,
*Ebrill*, 1854.

# CYNWYSIAD.

## Y PEDWERYDD DOSBARTH; SEF, HANESIAETH Y SIROEDD.

### Y PRIF LINELLAU YN HANES SIR ABERTEIFI.

PEN. I.—HANESIAETH CYNTEFIG Y SIR.

Ansawdd crefydd yn y wlad ar ddechread 1700—Methodistiaeth yn ymgorffori yn y sir tua 1740—Rhestr o'r mân eglwysi boreaf a ffurfiwyd—Y wedd oedd arnynt, a'r effaith a gafodd yr ymraniad arnynt—Moddion eu hadferiad.......... ... *Tudal.* 1—10.

PEN. II.—HANES LLANGEITHO.

Cynghorwyr yn codi dan weinidogaeth Rowlands—Sefyllfa Rowlands fel gweinidog yr eglwys sefydledig—Troi ysgubor Rowlands yn dŷ cwrdd—Hen gynghorwyr Llangeitho—Adeiladu y capel cyntaf yn 1760—Syniad Rowlands am ei gysylltiad ag eglwys Loegr—Effaith ei droad allan—Dysgrifiad o'r ail gapel a'r trydydd—Y dull y cedwid y moddion—Marwolaeth Rowlands—Diwygiadau ............ *Tudal.* 10—20.

PEN. III.—EGLWYSI BOREAF Y SIR.

Ansicrwydd yr hanesiaeth o barth amser eu cychwyniad—Hanes Llechryd—Lledrod—Llangwyryfon—Pont-rhydfendigaid—Twrgwyn—Capel Waunifor—Swydd-ffynon—Pennant—Aberteifi—Rhiwbwys,Llanrhystyd—Soar, plwyf Llanddewi-brefi. 20—44.

PEN. IV.—PARHAD O HANES EGLWYSI BOREAF Y SIR.

Tregaron—Aberffrwd—Cwmystwyth—Cynon—Ponterwyd—Llwyn-rhys a Llwyn-pïod—Ffosffin ac Abermeirig—Y Parch. Thomas Gray—Blaenpenal—Taliesin, Tre'r-ddol, a Llanilar .............................. ..................... .............. *Tudal.* 44—65.

PEN. V.—PARHAD HANESIAETH YR EGLWYSI.

Llanon—Penmorfa—Blaenanerch—Capel-y-Drindod, a Llanbedr...... *Tudal.* 65—78.

PEN. VI.—PRIF LINELLAU HANESIAETH Y SIR.

Gwahanol Gyfnodau yr hanes—Gweinidogaeth y Diwygwyr cyntaf—Gweinidogaeth Rowlands—Anamledd y capelau—Dafydd Morris—Parch. John Williams, Lledrod ........................ ................................... .................. *Tudal.* 78—91.

PEN. VII.—PARHAD O BRIF LINELLAU HANESIAETH Y SIR.

Peirch. Ebenezer Morris—John Thomas, Aberteifi—Ebenezer Richards a Jenkin Davies—Amryw bregethwyr eraill—Gwasanaeth dosbeirth eraill i Fethodistiaeth—Hanesyn am dair benyw, ac am Daniel Rowlands—Ceinewydd a chapel Afan—Y modd y cododd lleoedd diweddarach........................ ....................... *Tudal.* 91—122.

### Y PRIF LINELLAU YN HANES SIR GAERNARFON.

PEN. I.—GOLYGIAD RHAGARWEINIOL.

Agwedd y wlad ar ddyfodiad Howel Harris iddi gyntaf—John Williams ac Ellis Rowlands—Eglwys ymneillduol Pwllheli—Agwedd yr offeiriaid—Griffith Williams, esgob Kilkenny, a Rhys Parri y clochydd—Llafur Jenkin Morgan—John Griffith Ellis, Evan Williams, a John Jones, Llaniestyn—Pregethu yn erbyn Methodistiaid—Cangenau eglwysi yn cael eu ffurfio—Cynghorwyr cyntaf Lleyn ac Eifionydd. *Tudal.* 122—140.

PEN. II.—PARHAD HANESIAETH CYNTEFIG Y SIR.

Prif bregethwyr y Methodistiaid yn Ngwynedd yn y tymhor bore hwn—Dyfodiad Daniel Rowlands i'r wlad yn y fl. 1747—Capel Tŷ-mawr, Bryn-croes—Siarl Marc—Pregethu yn ardal Port-yn-Lleyn ac Edeyrn—Capelau Uwch-y-mynydd a Chlynog—Llanberris—Cyhoeddiad Dafydd Morris yn y fl. 1771................... *Tudal.* 140—149.

PEN. III.—BYR HANES EGLWYSI HENAF Y SIR.

Hanes Methodistiaeth yn ardaloedd Brynengan—Y Waunfawr—Clynog—Y Parch. Mr Nanney—Berthddu-bach.................................. ............ *Tudal* 149—165.

PEN. IV.—EGLWYSI BOREAF Y SIR.

Llanllyfni—Y Buarthau—Cymdeithasfa yn Llanllyfni yn y fl. 1769—Pregethwyr Llanllyfni—Pregethu yn Ffridd-bala-deulyn—Nant Nantlle a Thalsarn—Pregethu yn

Saethon-bach—Argyhoeddiad hynod—Adfywiad nodedig—Nefyn—Pregethu yn Cae-rhŷg—Arferion llygredig—Pwllheli—Michael Roberts ............ *Tudal.* 165—186.

PEN. V.—HELYNTION LLEYN AC EIFIONYDD.

Robert Jones a'i amserau—D. Rowlands yn pregethu'n Tydweiliog a Gellidara—L.Rees yn cael ei erlid yn Aberdaron—Amryw erledigaethau—Cyfarfod pregethu yn Mhenmorfa—Cyfarfod misol yn Dolydd-byrion—Griffith Siôn, Ynys-y-pandy, a'i helynt—Dechread a chynydd Methodistiaeth yn Medd-gelert a'i hamgylchoedd. 186—207.

PEN. VI.—CYNYDD METHODISTIAETH AR OL YR ADFYWIAD YN Y FL. 1762, YN ARFON.

Llanrug a'i hardaloedd—William Jones, Pen-yr-allt—Pregethu yn dechreu yn Llanrug tua'r fl. 1776—Pregethu yn Nhwll-y-clawdd—Ffurfio eglwys yn 1783—Pregethu yn Cae-Howel, Waunwina, Tŷ'n-yr-hendre', &c.—Chwedl am Evan Evans, Waunfawr, ac am John Thomas, Llanberris—John Roberts, Castell—Hugh William, y gof, Pentir-isaf—Holland Griffiths, Ysw., Môn.......................... *Tudal.* 207—216.

PEN. VII.—CYNYDD METHODISTIAETH YN ARFON.

Dechread yr achos yn Mryn-yr-odyn—Evan Siôn, Tyddyn-mawr—Siôn Griffith a'i wraig—William Evan—Byr hanes Bwlan, Rhostryfan, a Charmel—Tref Caernarfon—Parch. E. Richardson—Ei hanes, ei ddefnyddioldeb, a'i gymeriad. *Tudal.* 216—246.

PEN. VIII.—METHODISTIAETH YN MANGOR A'I CHYFFINIAU.

John Williams, Llandegai—Dechread Methodistiaeth yn Llandegai a Llanllechid—Ansawdd y wlad ar y pryd o ran gwybodaeth ac arferion—Gwedd hynod y bobl mewn oedfa mewn ardal fynyddig—Pregethu yn yr Achyb—Dechread yr ysgol Sabbothol a'i llwyddiant—Methodistiaeth yn Aber—Parch. Daniel Jones—William Jones, Abercaseg.............................................................. *Tudal.* 246—258.

PEN. IX.—HANES AMRYW O HEN BREGETHWYR Y SIR.

John Pierce—John Roberts, Llanllyfni—Robert Roberts, Clynog—Robert Dafydd, Bryn-engan—John Williams, Llandegai—John Jones, Edeyrn—A Richard Jones, Wern ............................................................ *Tudal.* 258—281.

## Y PRIF LINELLAU YN HANES SIR BENFRO.

PEN. I.—GWEDD GYCHWYNOL METHODISTIAETH YN Y SIR.

Cydgychwyniad Howel Davies, Howel Harris, a Daniel Rowlands—H. Harris yn sir Benfro yn y fl. 1742—Adroddiad William Pritchard—Yr hen Gynghorwyr—Arferion ac ofergoelion y wlad ....................................................... *Tudal.* 282—290.

PEN. II.—EGLWYSI BOREAF Y SIR.

Tŷ-Ddewi—Ymweliad cyntaf H. Harris â'r ddinas—Ymosodiad ar Harris yn cael ei atal—Ymweliad Daniel Rowlands ac eraill—Pregethu yn y Llew-du, ac yn nhŷ Richard Bowen—Mr. Thomas Rees, Trepuet, a Mr. George Williams—Cyfarchell—Mr. Sampson Thomas—Solfach—Rhyd-y-gele—William Edward. *Tudal.* 290—302.

PEN. III.—EGLWYSI BOREAF Y SIR.

Woodstock—Hynafiaeth a Hynodrwydd y lle—Howel Davies yn Llys-y-fran—John Harris. Treamlod—Cydlafurwyr John Harris—Lleoedd y gweinyddid y Sacramentau—John Harris yn Tenby—Parch. Nathaniel Rowlands—Parch. Evan Harris, a Siams Thomas ei was—Casgwys—Gosen—Bumaston Hall—Cas'mael—Y Gwastad—Mounton—Narberth—Burness-hill—Begeley ................................ .. *Tudal.* 302—319.

PEN IV.—EGLWYSI BOREAF Y SIR A'U CANGENAU.

Capel Newydd—Cychwyniad yr achos—Cynulliadau pen mis—Bwlch-y-groes—Bychander ei gychwyniad—Oedfa hynod gan Jas. Matthias—Ffyddlondeb Thos. Griffith—Josiah Evans—Codiad y capel—Geo. Griffiths—Pont-gareg—Glanrhyd—Cilgeran—Thomas Morris—Adfywiad cyffrous a darostyngiad hen arferion... *Tudal.* 319—326.

PEN. V.—EGLWYSI BOREAF Y SIR A'U CANGENAU.

Abergwaun—Erlid hen bregethwyr—Whitfield yn pregethu yn y dref—John Harris yn Tre-llau yn pregethu—Adeiladu y capel—John Dafydd —Croen-Llwyn—Mr. Thomas Davies a Mr. Jones, Llangan—Pregethwyr Abergwaun—Wdig a Thre'-Ddafydd—Carnachen-wen a Threfin—Milford ... ......................... *Tudal.* 326—337.

## Y PRIF LINELLAU YN HANES SIR DREFALDWYN.

PEN. I.—EGLWYSI BOREUAF Y SIR.

Llanbrynmair—Y crefyddwyr cyntaf—Adeiladu y capel—Dyfodiad Howel Harris i'r wlad — Pregethwyr ac adfywiadau Llanbrynmair — Darowen—Thomas Dafydd —

Wm. Lewis ac Ellis Edward—Machynlleth—Samuel Lloyd yn pregethu—Yr erlidiwr Lumley—Y gymdeithasfa gyntaf—Dr. Edwards—Mr. a Mrs. Foulkes. *T.d* 337—355.

PEN. II.—EGLWYSI BOREAF Y SIR.

Howell Harris yn pregethu yn Llanidloes—Jenkin Lloyd, Ysw., yn amddiffyn y Methodistiaid—Y Tyddyn—Pregethu yn y dref—Adeiladu y capel—Yr hen cynghorwyr—Edward Watkin—John Pierce—Jeremiah Williams—Humphrey Gwalchmai—Yr ysgol Sabbothol—Cynydd yr achos—Cymdeithasfa 1819—Aflonyddu ar y Parch. John Elias—Rhaiadr-ar-wy ........ *Tudal.* 355—368.

PEN. III.—EGLWYSI BOREAF Y SIR A'U CANGENAU.

Cychwyniad Methodistiaeth yn Nhref-eglwys—Teulu Bowen y Tyddyn, a Woosnam y Tŷ-mawr—Garth-bwt—Adgofion hen ŵr am y tymhor hwnw—Adeiladu capelau Gleiniant a Saron—Capel y Graig a Llawr-y-glyn—Mochdre—Llandinam—Caersws—Carno—Y Drefnewydd ........ *Tudal.* 368—381.

PEN. IV.—YMEANGIAD METHODISTIAETH AR LANAU AFON DYFI.

Cemaes—Owain Siôn, Plas-ucha'—Mallwyd—Mrs. Sinai Pierce—Adfywiad grymus—Richard Jones, Cwm-eidrol—Helyntion John Parry—Thomas Miles—Llanwrin—Erlid pregethwyr yn y Foel—Parch. William Jones, Dol-y-fonddu ...... *Tudal.* 381—390.

PEN. V.—EGLWYSI BOEUAF Y WLAD A'U CANGENAU.

Llanwyddelan—Ysgogiadau cychwynol—Yr hen gynghorwyr—Erlid gan foneddwr—Howel Harris yn pregethu—Llangynog—Morgan James mewn penbleth—Hirnant—Rhos-y-brithdir—Llanrhaiadr-yn-Mochnant—Carneddau—Croesoswallt 390—410.

PEN. VI.—EGLWYSI CYNTAF GWAELOD Y SIR.

Terfynau y Saeson—Y Sarnau—Morris Evans, Melin-y-Mardy—Evan Williams, o'r Fegin—Erlid—Y Groeslwyd—Thomas Mason, y gof—Pont-Robert-ap-Oliver—Meifod—Parch. Evan Griffiths—Llanfyllin ........ *Tudal.* 410—422.

Y PRIF LINELLAU YN HANES SIR GAERFYRDDIN.

PEN. I.—HEN EGLWYSI GOGLEDD-DDWYRAIN Y SIR.

Cofnodau Trefecca—Tal-llychau—Mrs. Lloyd, Pant-yr-esgair—Rhys Morgan, Capel-hir—Cyrchu i Langeitho—Mrs Griffiths, Glan-yr-afon-ddu-ganol—Adfywiadau—Llanfynydd—Dafydd Evan, Briscen, ac Evan, Tir-clai—Dafydd Rhys—Cornelius Cobner—Llansawel—Caio—Mr. Lloyd, Henllan ........ *Tudal.* 423—433.

PEN II.—CYRAU DWYREINIOL Y SIR.

Hynodion y sir—Adgofion John Bowen—Yr adfywiad yn y fl. 1828—Llanddeusant—Adfywiad yn llan y plwyf—Dafydd Thomas Dafydd—Griffith Rhys Dafydd—Parch. John Thomas—Miss Bowen, Waunifor a'i brawd—Myddfai—Llandeilo-fawr—Cefn-byrach a Llanlluan ........ *Tudal.* 433—445.

PEN. III.—PARHAD O EGLWYSI DWYREINIOL Y WLAD.

Cli-y-cwm—Gwedd foreuol Methodistiaeth yn y lle—Parch. W. Williams, Pant-y-celyn—Y crefyddwyr cyntaf—Adfywiad—John Evans—Mr. Llwyd, Caio—Risiart Ifan—Dafydd William, o'r Beili-glas—Mr. a Mrs. Jones, Ystrad-wallter—ysgol Sabbothol gyntaf yn y sir—Llanymddyfri—Adfywiad—Llangadog—Llansadwrn...... 445—457.

PEN. IV.—EGLWYSI GOGLEDD-ORLLEWIN Y SIR.

Castell-newydd-yn-Emlyn—Chwaer D. Rowlands—Philip Dafydd y clocsiwr—Hanesyn am Dafydd Morris a Williams, Pant-y-celyn—Y gymdeithasfa gyntaf—Davies, Llanfyrnach, a James Matthias—John Evan, Cenarth, a John James, barcer—Cynfil—Brechfa—Clos-y-graig........ *Tudal.* 457—466.

PEN. V.—EGLWYSI GORLLEWINOL Y SIR.

Caerfyrddin—Whitfield yn pregethu—John Bowen, Ysw.—Gweini yr ordinhadau yn y dref—Yr ysgol Sabbothol—Cymanfa yr ysgol—Parch. David Charles—Parch. T. Jones, ac eraill—T. Morris, Ysw.—Capel Saesonaeg—Llanddowror—Banc-y-felin—Meidrim—Llandyfaelog—Llanstephan ........ *Tudal.* 467—480.

PEN. VI.—EGLWYSI DE-ORLLEWIN Y SIR.

Bettws—Jacob Jones—Adfywiad yn y fl. 1829—Capel-yr-Hendre—Siôn Thomas Owain—Pentwyn—John Davies—Parch. John Evans—Llanedi—Henry Pugh—Llangyndeyrn—Llandybie—Llanddarog a Nantgaredig—Cwmaman—Cydweli—Llansaint—Llanelli—Pen-y-bre ........ *Tudal.* 480—495.

## Y PRIF LINELLAU YN HANES SIR FON.

PEN. I.—YSGOGIADAU CYCHWYNOL METHODISTIAETH YN Y WLAD.

T. Pritchard, Tŷ-gwyn, a'i deulu—P. Williams—Evan Griffith, Chwaen-hen—Glan-y-gors—Erlid yn Chwaen-hen—Llanrhuddlad—Adeiladu y capel—Cemmaes—Symud o'r Tŷ-du i Ystordy—Adeiladu capel Bethesda—Llanfechell—Erlid gwŷr dyeithr yno—Mr. Bulkeley o'r Brynddu—P. Williams—Bethlehem, neu y Gareg-lefn. *T. d.* 495—506.

PEN. II.—HEN EGLWYSI DEHEUOL Y WLAD.

Niwbwrch—Richard Jones—Siôn Dafydd, Tŷ'n-yr-allt, a'i feistr tir—Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid—Adeiladu y capel—Dychweliad Mr. Rice Hughes—Sel hen wraig dduwiol o'r enw Annas—Brynsiencyn a Dwyran—Owain ac Ann Williams, Tai-cochion—Mr. Owen Jones, Cwyrt—Adfywiad—Llangristiolus—Robert y cowper—John Parry, Tŷ'n-y-pwll—Y capel cyntaf yn Môn—Capel Bethel—Erlid tost—Rowland a Jane Owen—Cynydd yr achos ........................................... *Tudal.* 506—519.

PEN. III.—HEN EGLWYSI DEHEOL Y SIR.

Pregethu achlysurol yn Aberffraw—Dwy hen ferch yn llochi'r achos—Wil William Prys y gof—Gwawdio pregethu—Mr. Williams, Lledrod—Y gymdeithas eglwysig gyntaf—Capel-huddygl—Dyfodiaid crefyddol yn lloches i'r achos—John Owens, Plas, Llangwyfan—Adeiladu capel newydd—Griffith Edward—William Evans—Sefydliad Methodistiaeth yn Bethania, ac yn Nhre-gwalchmai—Parch. RichardLloyd. *Tudal.* 519—532.

PEN. IV.—DECHREAD A CHYNYDD METHODISTIAETH YN NGHAERGYBI.

Y crefyddwyr cyntaf—Lleoedd pregethu rhwng 1755 a 1777—Erlidiau creulawn—Moddion yn Cerig-y-ddraenog—Siomi erlidwyr yn eu hamcan—Dyfodiad Richard Jones i'r dref—Cymeryd tŷ i bregethu ynddo—Codi ysgol ddyddiol—Dyfodiad Mr. Griffith Owen i'r dref—Adeiladu capel—Diwygiad—Richard Jones, mab y cyntaf—Cynydd yr achos, &c.—Hanes Owen Thomas ...................... ..... *Tudal.* 532—545.

PEN. V.—HEN EGLWYSI GORLLEWINOL Y WLAD.

Caergeiliog—Hynafiaeth yr achos—Pierce Pritchard a Robert Pierce—T. Williams a'i wraig—Mynediad y wraig i Drefecca, a'i dychweliad yn ol—Ei hynodion—Adeiladu y capel—Ymeangiad yr achos yn dair cangen—Tŷ'n-y-maen—Dafydd Llwyd—Adeiladu capel—Cynulliad eglwysig—Llanfwrog—John Thomas y gof—Cyfodiad ysgol Sabbothol, &c................................................................ *Tudal.* 545—555.

PEN. VI.—HEN EGLWYSI GOGLEDDOL Y WLAD.

Amlwch—Pregethu yn y Tŷ-du—Dafydd Morris a H. Harris—Pregethwyr a gododd yn y dref—Y Capel-coch—Cae-maes-gafr a'r Cerig-llithir—Penrhos-llugwy—Llanerchymedd—Cychwyniad yr achos a'i gynydd—Glasinfryn, a'r Waun-eurad. 555—567.

PEN. VII.—EGLWYSI DWYREINIOL Y WLAD.

Beaumaris—Dafydd Morris, Michael Thomas, ac Owen Thomas Rolant, yn pregethu yn y dref, y terfysg a'r erlid cysylltiedig—Y gymdeithasfa gyntaf—Parch. Richard Lloyd—Llangoed—Campau Marian-dyrys—Aflonyddu addoliad a dynwarediad pregethu—Gorthrymu y crefyddwyr—Llanfair—Risiart Morris—Hugh Pritchard, o'r Depra-bach—Risiart Evans, yr ysgolfeistr—Marwolaeth Risiart Morris, ac adfywiad ........................................................................ *Tudal.* 567—581.

PEN. VIII.—PRIF LINELLAU HANESIAETH MON.

Prif Gyfnodau yr hanes—Nodweddiad y Cyfnod cyntaf—Y crefyddwyr cyntaf—Eu hysbryd a'u hanfanteision—Prinder pregethwyr, a bychander eu doniau—Tai pregethu—William Lewis—Yr ail Gyfnod—Y pregethwyr a gododd—John Jones, Bodynolwyn—Adeiladu capelau—Doniau pregethu yn cynyddu, ac erlid yn lleihau—Cyfodiad yr ysgol Sabbothol—Y trydydd Cyfnod—Nodweddiad y Cyfnod—Ysgrifenu yn erbyn y Methodistiaid. ...... ............................................ *Tudal.* 581—596.

PEN. IX.—OES Y PARCHEDIG JOHN ELIAS.

Bore ei oes, ei ddygiad at grefydd, a dechread ei weinidogaeth—Ei ymroddiad i gyrhaedd gwybodaeth—Ei ddyfodiad i Fôn—Ei lafur a'i lwyddiant yno—Ei ddoniau gweinidogaethol—Effaith ei lafur ar y cyfundeb—Ei olygiad ar y neillduad—Ei afiechyd a'i farwolaeth ......... ............................................ *Tudal.* 596—603.

## PARHAD Y PEDWERYDD DOSBARTH;

SEF,

# HANESIAETH Y SIROEDD.

## PRIF LINELLAU YN HANES METHODISTIAETH SIR ABERTEIFI.

### PENNOD I.

### HANESIAETH CYNTEFIG Y SIR.

CYNWYSIAD:—

ANSAWDD CREFYDD YN Y WLAD AR DDECHREUAD 1700—METHODISTIAETH YN YMGORFFORI YN Y SIR TUA 1740—RHESTR O'R MAN EGLWYSI BOREUAF A FFURFIWYD—Y WEDD OEDD ARNYNT, A'R EFFAITH A GAFODD YR YMRANIAD ARNYNT—MODDION EU HADFERIAD.

Yr ydym eisoes wedi rhoddi bras olwg ar y modd y cychwynodd Methodistiaeth yn y sir hon, lle hefyd y gwelir bod cyffelyb ysgogiad yn cymeryd lle, ar yr un pryd, yn sir Frycheiniog, trwy Howel Harris; ac yn sir Benfro, trwy y Parch. Howel Davies. Yr oedd sir Aberteifi yn isel ei gwedd, mewn pethau crefyddol, ar y pryd y dechreuodd Daniel Rowlands gyffroi y wlad trwy ei weinidogaeth rymus ac effeithiol. Pa faint bynag o lafur a fu yn y wlad hon, gan ddynion duwiol o fysg yr anghydffurfwyr, mewn dyddiau pell yn ol, eglur yw fod diflaniad gofidus wedi disgyn ar yr hen eglwysi Presbyteraidd yn y wlad hon, fel mewn gwledydd eraill, erbyn dechreu y deunawfed canrif. Yr oeddynt wedi colli iachusrwydd yn yr athrawiaeth, a phurdeb yn y ddysgyblaeth. Gwyrasant yn mhell mewn Ariaeth a Sosiniaeth;—yr oedd gwir nodweddau yr efengyl wedi colli o'u mysg, a marweidd-dra digyffro, fel sydd yn mro a chysgod angau, wedi eu gorchuddio.

Yr oedd yma, er hyny, ychydig o eglwysi, yn mhlith yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, yn cynal gair y bywyd, yn nghanol y dirywiad mawr hwn. Eto nid oeddynt ond ychydig iawn mewn rhifedi ar ddechreu 1700, a lled farwaidd a digynydd. Yr oedd gan y Bedyddwyr rai eglwysi, mwy neu lai eu maint, yn y wlad; a'r un modd yr Annibynwyr. Yr oedd achos gan yr enwad olaf hwn yn Llechryd, Ffosffin, Llwyn-piod, Abermeirig, a'r Cilgwyn. Gan y Bedyddwyr nid oedd ond naw eglwys reolaidd yn holl Gymru, yn y fl. 1715, ond ni allai fod eu hachos ond gwanaidd yn y sir hon yn mhen ugain mlynedd wedi hyny.

Am agwedd ysbrydol crefydd yn eglwys Loegr, nid oes lle genym i feddwl fod dim gwahaniaeth yn y wlad hon, wrth oedd arni yn siroedd eraill y dywysogaeth. Yr oedd y weinidogaeth yn nwylaw dynion cnawdol, gan mwyaf; a pha beth a ellid ddysgwyl oddiwrth y fath rai ond athrawiaeth

unol â syniadau y cnawd, a buchedd unol â thueddiadau natur. Nid oedd y manteision a gawsent mewn dysgcidiaeth, mewn un modd yn sicrhau santeiddiad y galon, er iddynt eangu y deall. Ac nid oedd yr urddiad a fu arnynt gan yr esgob, chwaith, yn gwella dim ar natur lygredig. Os yn y cnawd o'r blaen, yn y cnawd y byddent eto, o ran dim cyfnewidiad a allai eu hurddiad gynyrchu. Ar yr adeg y cyfeiriwn ati, gan hyny, sef dechreu 1700, nid oedd yma nemawr o wir grefydd i gael yn mysg neb, eglwyswyr nac ymneillduwyr. Ond fe ddaeth yr amser bellach i drugarhau wrth Sion, ïe, yr amser nodedig;—Duw a ollyngodd ei Ysbryd, a bu swn a chyffro yn mysg yr esgyrn sychion;—daeth bywyd a goleuni i fro marwolaeth, ac "adnewyddwyd wyneb y ddaear."

Afreidiol yn awr a fydd ail adrodd y modd y dechreuwyd hyn, ond cyfeirio y darllenydd at yr hyn a ddywedwyd eisoes,* a myned rhagom yn awr i olrhain gradd ar gynydd y gwaith yn mysg y Methodistiaid, yn y wlad hôn. Yn y flwyddwyn 1734, nid oedd un aelod o'r enwad hwn i'w gael trwy holl Gymru, ond erbyn hyn y mae, yn y sir hon yn unig, fwy na saith mil o gymunwyr. Y pryd hyny, nid oedd yma un tŷ addoliad,—yn awr, y mae, o fewn ychydig, rhwng capelau ac ysgoldai, ddeg a phedwar ugain. Nid oedd y pryd hyny yr un plentyn dan addysg grefyddol ar y Sabboth,—yn awr, y mae tros pymtheg mil dan addysg bob Sabboth. Nid ydym yn dweyd hyn mewn ffordd o ymffrost, ond i'r dyben i ddangos pa beth a wnaeth llaw Duw yn y wlad hon, yn ystod ychydig gydá chan' mlynedd. Nid wyf yn sicr a ellir cyfeirio at un wlad nac oes, yn hanesiaeth Cristionogaeth, o ddyddiau yr apostolion i waered, lle y ceir mwy o lwyddiant ar bregethu Crist, nag a geir yn Nghymru drwy y Methodistiaid; ac wrth fwrw golwg ar y gwahanol siroedd sydd yn rhanu y wlad, y mae y sir hon yn dal lle uchel ac arbenig. Gellir edrych ar Llangeitho hefyd, yn fwy nag un man arall, yn gryd Methodistiaeth Cymru. Goleuwyd yma ganwyll ddysglaer; ac fe'i gosodwyd hi ar ganwyllbren, i oleuo i bawb o amgylch. Fe fu y cyrchu i Langeitho, o wahanol gyrau Cymru, am ysbaid triugain mlynedd a mwy, yn foddion nodedig i gyffroi ac i oleuo preswylwyr y gwledydd. Trwy y sylwadau a wnaed o'r blaen, gwelir fod y fath at-dyniad rhyfeddol, a'r fath rym anarferol, yn ngweinidogaeth Rowlands ei hun, am hanner can' mlynedd, fel ag i roddi ysgogiad grymus i grefydd efengylaidd trwy yr holl wlad.

Yn fuan ar ol i Rowlands a Harris ddechreu pregethu, yn y modd cyffrous a soniwyd, a d'od yn gydnabyddus â'u gilydd, ymgynghorasant yn nghyd, mewn undeb a'r Parch. W. Williams, Pant-y-celyn, a'r Parch. Howel Davies, am y moddion a'r dull a ddylasid eu defnyddio i hyrwyddo mynediad yr adfywiad yn ei flaen. Yr oedd lluaws o ddynion eisoes wedi eu deffro yn ngwahanol barthau y wlad hon, fel siroedd eraill, ac yr oedd yn angenrheidiol eu crynhoi yn gymdeithasau, er mwyn eu harolygu a'u hymgeleddu. Ymddengys fod rhyw gymaint o gychwyniad ar hyn wedi cymeryd lle tua'r fl. 1740. Yr

* Gwel tu dalen 66-73.

oedd eisoes amryw o wŷr lleŷg wedi dechreu cynghori eu cyd-ddynion, mewn amrywiol barthau o'r Deheubarth; ac er mwyn trefn a chadernid, rhaid oedd disgyn ar ryw gynllun cymeradwy i weithredu wrtho, ac i bawb fod yn ddarostyngedig iddo. Yr ydym eisoes wedi cyfeirio sylw y darllenydd at hyn yma,* fel nad rhaid ychwanegu. Ar yr un pryd, teg ydyw rhoddi gerbron pa beth a wnaed yn y llwybr hwn yn sir Aberteifi.

Yn y fl. 1742, yr oedd lluaws mawr o fân ganghenau eglwysig wedi tarddu trwy holl siroedd y Deau, ac yn nghŵr sir Drefaldwyn. Ymgynullai y rhai hyn mewn tai anedd gan mwyaf. Rhanwyd y gwledydd yn ddosbarthiadau, a gosodwyd gweinidog urddedig yn gymedrolwr y cyfarfodydd perthynol i bob dosbarth. O dano ef yr oedd arolygwyr; i'r rhai y perthynai fugeilio y dosbarth, neu ran o ddosbarth, trwy bregethu i'r mân gynulleidfaoedd a ddechreuent ymgrynhoi, a phorthi y praidd ar ol eu corlanu. O dan yr arolygwyr hyn, yr oedd pregethwyr neu gynghorwyr fel eu gelwid; rhai o honynt yn gynghorwyr cyhoedd, ac eraill yn gynghorwyr anghyhoedd. Nid oedd i'r rhai olaf hyn gynghori ar gyhoedd ond yn unig yn yr eglwysi, tra y caniateid i'r cynghorwyr cyhoeddus faes helaethach, trwy bregethu i'r cynulleidfaoedd, ac mewn ardaloedd dyeithr hefyd.

Y Parch. Daniel Rowlands oedd cymedrolwr y dosbarth yr oedd sir Aberteifi ynddo: ac ni a gawn ei fod ef yn fynych, os nad yn gyson, yn nghyfarfodydd misol y dosbarth, heblaw bod yn fwy cyson mewn cyfarfodydd mwy corfforedig, y rhai a arolygent yr holl ddosbarthiadau gyda'u gilydd; ac i ba rai yr oedd cyfarfodydd y dosbeirth yn ddarostyngedig.

Yr oedd pregethu wedi dechreu mewn amrywiol fanau yn y sir, mor gynar a'r fl. 1740, neu cyn hyny, heblaw y lleoedd cysegredig. Yr oedd Howel Harris yn ddiflin yn gwibio, ar ei hynt ar hyd yr holl wlad, ymron, ac yn bur gyffredin yn gadael effeithiau dwysion ar ei ol, yn mhob man; dynion yn cael eu hysgytio yn ddiarbed gan ei weinidogaeth finiog a tharanllyd, nes yr oeddynt fel rhai newydd ddeffroi o gwsg maith a thrwm, yn ymofyn gyda phrysurdeb a braw, "Pa beth a wnawn?"

Yn y fl. 1743, yr ydym yn cael fod yn sir Aberteifi saith o gymdeithasau bychain, at y rhai y chwanegwyd dwy eraill yn y flwyddyn ganlynol.†

Yr oedd y pump ganlynol o dan arolygiad un William Richard, yr hwn hefyd a arolygai amryw o gymdeithasau yn sir Benfro, ar hyd glan y môr, hyd Dyddewi.

1. Dyffryn-saeth: cynwysai hon 23 o aelodau.
2. Blaen-hownant: cynwysai hon 10 o aelodau.
3. Twrgwyn: cynwysai hon 9 o aelodau.
4. Llwyn-dafydd: cynwysai hon 10 o aelodau.
5. Aberporth: cynwysai hon 20 o aelodau. Yr oedd un Watkin Watkins yn *steward*, neu ddiacon, ar yr ail, y drydedd, a'r bedwaredd gymdeithas,—a William Evan, a Daniel Evan, ar y bumed.

* Tu dal. 158. † Trefecca Minutes.

Yr oedd y cwbl o'r cymdeithasau uchod yn gorwedd tua gwaelod y sir, ac wedi eu gosod o dan yr un arolygiaeth a chymdeithasau sir Benfro.

Yr oedd hefyd ddwy gymdeithas arall yn nes i'r rhan uchaf o'r wlad, ac wedi eu gosod dan arolygiad un James Williams, mewn cysylltiad â chymdeithasau yn sir Gaerfyrddin, sef CAIO, CIL-Y-CWM, LLANFYNYDD, ac eraill. Y ddwy hyny oeddynt:—

1. CAPEL GWYNFIL: cynwysai hon 64 o aelodau.

2. LLANGWYRYFON: cynwysai hon 25 o aelodau.

Yn y fl. 1744, chwanegwyd—

3. COED-Y-BRAIN: } Ni osodir nifer yr aelodau i lawr.
4. FFRWD-WENITH: }

Y cyfryw ydyw yr olwg ar sir Aberteifi yn y blynyddoedd 1742-5. Ac nid yw ein hanes yn cyrhaedd ddim pellach. Yr oedd yma achos bychan wedi ei gychwyn mewn naw o fanau, a rhyngddynt yn cynwys tua 170 o aelodau. Gan fod yr hanes a roddir yn fyr, a gwedd mor hynafiaethol arno, yn rhoddi golygiad ar gychwyniad Methodistiaeth yn sir Aberteifi, gan ddadlenu ysgogiadau ein hynafiaid yn eu llafur crefyddol a swyddol, mi dybiwn y gwnawn yn anffyddlawn pe peidiwn a gosod yr holl adroddiad gerbron.

*Adroddiad y brawd James Williams, yr hwn oedd yn Arolygwr dros y cymdeithasau ag oedd mewn rhan o sir Aberteifi, a sir Gaerfyrddin.*

"CAPEL GWYNFIL.—Aelodau 64,—32 o ba rai ydynt wedi eu rhyddhau gan y Mab, ond nid yw y gweddill yn gallu gweled yn eglur eu rhan yn Nghrist.

Yn y lle hwn y gwelir gwaith Duw yn eglur, a phrofir ef yn rymus ar eneidiau yr aelodau: y maent mewn undeb nefol â'u gilydd, ac yn cyrhaedd gradd mwy o ryddid o bryd i bryd yn yr hyn a berthyn i'w hiachawdwriaeth, ac yn cynyddu gan gynydd Duw.

LLANGWYRYFON.—Aelodau 25,—8 o honynt yn rhydd trwy waed Crist, ond y gweddill, i raddau mwy neu lai, dan anghrediniaeth.

Mae Duw yn dda i'w heneidiau, ac y mae rhai o honynt yn rhodio yn agos at Dduw, ac yn mwynhau llawer o'i bresenoldeb; a'u gelynion a ddygir fwy-fwy o dan eu traed.

CWMAN.—Aelodau 38,—4 o honynt wedi cyrhaedd llawn ryddid, ond y lleill oll o dan y ddeddf.

Mae Duw yn fynych yn dyfod i'w mysg, ac eto y mae rhagfarn yn eu mysg, ac fel brodyr Joseph, y maent yn ymryson yn nghylch rhyw bethau; ond credu yr wyf, y daw Duw i lawr i'w plith eto yn fwy."

Yn yr adroddiad uchod, nid yw enwau yr aelodau, na phrofiad pob un wrtho ei hunan, wedi ei osod i lawr; yn unig fe'u dosberthir yn ddwy ran, y naill yn rhydd, a'r lleill dan radd mwy neu lai o gaethiwed.

Ond y mae yr adroddiad a ganlyn, am y cymdeithasau bychain yn mhen

isaf y wlad, yn fwy manwl, ac yn cynwys enwau yr holl aelodau, yn nghyda'u profiadau.

---

*Adroddiad y brawd William Richard o'r cymdeithasau dan ei ofal yn sir Aberteifi.*

Cyfrif y gymdeithas cynulledig yn DYFRYN-SAETH (rhwng Penmorfa a'r môr, tybygid).

Gwŷr priod.*

*Thomas Dafydd.*—Yn credu, ond dan amheuon trwy rym temtasiynau; mae yn dymuno ac yn hiraethu am fwy o ryddid.
*Dafydd Morgan.*—Wedi profi llawer o gariad Duw; mae yn credu yn feunyddiol, a'i brofiad sydd oleu iawn.
*Dafydd Rhys.*—Yn credu, ond o dan llawer cwmwl; wedi dyfod trwy lawer o brofedigaethau, ond yn gorchfygu fwy-fwy.
*Jenkin John.*—Dan brofedigaethau dros dymhor; tywyll a sych yn ei ysbryd.

Meibion heb briodi.

*Jenkin Dafydd.*—Weithiau yn credu, weithiau yn amheu; ond yn fanwl ei rodiad allanol.
*Griffith Thomas.*—Rhodiodd hwn yn agos at Dduw, a phrofodd llawer o'i ddaioni, ond yn awr y mae dan lawer o gymylau.
*Rhys Dafydd.*—Ar hwn y mae argyhoeddiad yn ysgogi yn araf iawn.
*James Morgan.*—Yn cynyddu yn hyfryd yn mhob gras, yn credu yn wastad, ac yn rhodio yn agos at Dduw.
*Owen Evan.*—Dan argyhoeddiad,—yn teimlo ei lygredd yn gryf iawn, gyda llawer o anghrediniaeth.

Merched heb briodi.

*Jane Rhys.*—Yn meddu amlygiad eglur o'i chyfiawnhad, yn rhodio mewn rhydd-deb mawr, ond yn awr dan rai profedigaethau.
*Mary Evan.*—Cristion dirodres a phrofiadol; yn adnabod llawer o'r Arglwydd ac o honi ei hun.
*Elizabeth Thomas.*—Yn credu yn wastad, ac yn hiraethu am gael bod gyda Duw.
*Jane John.*—Yn meddu heddwch â Duw; yn myned rhagddi yn hyfryd, gan bwyso ar ei hanwylyd.
*Mary Evan.*—Yn meddu cymdeithas â Duw, eto i lawr ac i fyny, ac mewn ymdrech galed i fyned yn mlaen.
*Elizabeth Owen.*—Yn credu yn gadarn yn yr Oen, ac yn teimlo undeb ag ef.
*Mary John.*—Yn meddu llawn sicrwydd ffydd.
*Sarah Thomas.*—Yn meddu tystiolaeth amlwg o'i hachubiaeth trwy Grist, ond mewn llawer ymladdfa â phechod.
*Mary Hugh.*—Wedi profi cariad Duw, ond o dan rai amheuon, ac ofnau, a phrofedigaethau trymion.
*Elizabeth Thomas.*—Yn absenol.
*Catharine Thomas.*—Yn byw mewn anesmwythder mawr, ac o dan awdurdod anghrediniaeth.
*Margaret Thomas.*—O dan fesur o argyhoeddiad, ond yn lled dywyll.
*Ann Jenkin.*—Dan argyhoeddiad.
*Elinor Thomas.*—Dan argyhoeddiadau, ond yn bur dywyll.
*Ann Dafydd.*—Dan y ddeddf.

---

Cymdeithas BLAENHOWNANT, (amaethdy, tybygid, oedd hwn, rhwng Penmorfa a Thwrgwyn,) *steward* neu ddiacon, WATKIN WATKINS, yr hwn sydd yn rhodio gyda yr anwyl Iesu, eto nid heb deimlo cynhyrfiadau llygredig-

* Gwel enghraifft byr o'r gymdeithas fechan hon, tu dal. 166-7.

aeth weithiau, ond ei ffydd yn gorchfygu fwy-fwy ; yn mwynhau ei gyfiawnhad mewn gweddi ddirgel.*

Gwŷr priod.

*Thomas Dafydd.*—Mae wedi cyrhaedd llawn sicrwydd ffydd, ac yn gwybod yn feunyddiol i bwy y credasai.

Gwŷr ieuainc.

*Dafydd George.*—O dan argyhoeddiadau ;—wedi profi peth cariad, y mae arno hiraeth am yr Iesu, ond eto o dan lawer o amheuon.

*John Rhys.*—O dan lawer o amheuon ac ofnau ; yn cael ambell gip-olwg ar yr Iesu, ond o dan ymosodiadau cryfion oddifewn, ac yn hiraethu am i Grist ei ryddhau.

*Thomas John.*—Mae hwn yn ffydd yr Iesu, yn credu yn feunyddiol, ac yn rhodio llawer gyda Duw, ond yn awr dan *dreialon* trymion, ac yn dyhëu am ymwared.

*John Dafydd.*—Mae ei droedigaeth yn bur amlwg ; dyn dirodres, gonest, difrif, a sylweddol iawn, ac wedi profi gradd o gariad, ond yn awr dan amheuon.

Gwragedd priod.

*Mary Rhys.*—Yn y ffydd, wedi profi arwyddion o gariad Duw, ond o dan gymylau lawer, ac yn profi temtasiynau oddiwrth Satan.

Merched ieuainc.

*Elizabeth Rhys.*—Yn llawn sicrwydd ffydd, ac wedi profi llawer o gariad Duw, mewn modd na all tafod draethu ; y mae yn gyffredinol yn rhodio gyda Duw.

*Mary Evan.*—Mae ganddi lawn sicrwydd ffydd, y mae yn rhodio gyda Duw yn wastadol, gan foliannu ei enw santaidd am y pethau mawrion a wnaed *er* ac *yn* ei henaid, ac y mae yn cwbl gredu na wrthyd yr Arglwydd ddim iddi ag sydd yn Nghrist.

*Elizabeth Evan.*—Mae hon yn cysgu mewn clauarineb a marweidd-dra ysbryd, eto y mae ynddi beth hiraeth am ymwared.

*Mary Richards* (gwraig weddw).—Mae yn byw ar ei theimladau,—y mae wedi profi llawer o gariad Duw yn ei henaid, a phrydiau eraill y mae yn amheu y cwbl, ond gan belled ag y medrwn ni ddeall y mae yn ddynes ddiwyd a thyner-galon.

*Judith Rue.*—O dan awdurdod anghrediniaeth.

---

Cymdeithas TWRGWYN.—*Steward* neu ddiacon, WATKIN WATKINS.

Gwŷr priod.

*Griffith Evan.*—Dan argyhoeddiad ; wedi cael cip-olwg ar ei hawl yn Nghrist, ond o dan lawer o ofnau ac o amheuon, a chorff y farwolaeth yn gwingo yn dost.

Gwŷr ieuainc.

*Jenkin John.*—Yn rhodio mewn llawn sicrwydd ffydd, a chanddo adnabyddiaeth brofiadol o Dduw, o Grist, ac o hono ei hun, ac wedi profi llawer o'r cariad adfywiol sydd yn Nghrist.

Gwragedd priod.

*Mary Evan.*—Wedi cael profiad hyfryd o gariad Duw yn ei henaid, yn rhodio yn ffydd yr Iesu, ond yn cael ei phrofi yn bresenol gan rai ymosodiadau llymion.

*Thamar John.*—Yn absenol.

Merched ieuainc.

*Mary Lewis.*—Wedi dyfod trwy lawer o drallodion llymion, y mae yn awr wedi ei chyfiawnhau, a'i selio gan yr Ysbryd Glan ; y mae yn rhodio llawer gyda Duw, eto o dan rai cymylau.

*Catherine Thomas.*—O dan deimlad dwys o'i gwaeledd ; mae arni rai argoelion o droedigaeth, eto dan y ddeddf.

*Margaret Bowen.*—Y mae yn cael ei hennill bob yn ychydig, mae llawer o arwyddion o ffydd a chariad arni, dan ymladdfeydd caledion â phechod, ac o dan rai amheuon.

* "*Justified in secret prayer*" yw yr ymadrodd—arwydda, tybygwyf, ei fod yn profi ymwared yn fynych mewn gweddi oddiwrth "ofn drwg."

*Elinor Evan.*—Un ag argoel amlwg o droedigaeth arni, ac wedi profi cariad Duw, gan hiraethu a sychedu am Grist, ond o dan rai amheuon.

---

Cymdeithas Llwyn-dafydd (pentref gerllaw Pensarn), diacon Watkin Watkins.

Gwŷr priod.

*Thomas John.*—O dan argyhoeddiadau, yn gweled mwy-fwy o waeledd ei galon, ei annheilyngdod, a'i gyndynrwydd wrth naturiaeth.
*James Thomas.*—O dan ddwys deimlad o'i bechodau, ac yn dymuno yn gryf am Waredwr.
*Morgan Evans.*—O dan rai argyhoeddiadau, ond yn dra thywyll ac anwybodus am dano ei hun.
*Evan Evans.*—O dan argyhoeddiadau, wedi profi peth cariad a hyfrydwch, ond o dan amheuon trymion.

Gwragedd priod.

*Susanah John.*—Dan argyhoeddiad, a chanddi ddymuniad cryf am gael ei gwaredu; ond hyd yma o dan awdurdod anghrediniaeth.
*Catherine John.*—Sydd ganddi galon ddrylliog am bechod.
*Diana John.*—Sydd yn credu, a chanddi lawer i'w fynegu am ymweliadau grasol Duw â'i henaid.

Merched ieuainc.

*Jane Rhys.*—Sydd ganddi lawer o adnabyddiaeth o Dduw, o'i Fab, ac o honi ei hunan.
*Elizabeth Rhys.*—A brofasai beth cariad, ond yn awr dan awdurdod anghrediniaeth.
*Susanah Rhys.*—Sydd yn credu, ond yn teimlo yr hen ddyn a'i lygredd yn gryf iawn.
Mae y ddwy ganlynol ar brawf, ac i gael eu holi eto :—
*Jane Edward.*—Ymddengys ei bod dan beth argyhoeddiad, ond yn dywyll ac anwybodus.
*Gwen Hugh.*—O dan rai argyhoeddiadau.

---

Cymdeithas Aberporth.—Diaconiaid, William Evan a Daniel Evan.

Mae y ddau ddiacon yn credu ;—mae y cyntaf yn gorchfygu ei elynion ; a'r olaf yn hiraethu am fuddugoliaeth trwy waed yr Oen.

Gwŷr priod.

*Evan Hugh.*—O dan argyhoeddiadau, yn canfod llawer o ddrwg ei galon, ac yn hiraethu am Waredwr.
*Thomas Griffith.*—Nid amlwg iawn yw ei droedigaeth, ond y mae yn profi gradd o waith Duw ar ei enaid.
*Jeremiah Evan.*—O dan argyhoeddiadau, ond mewn tywyllwch mawr, eto wedi profi peth hyfrydwch.
*Thomas John.*—O dan y ddeddf, ac yn teimlo ei hun yn euog yn mhob peth a wna, mewn dyledswydd a galwedigaeth.
*Thomas John.*—Wedi derbyn ffydd i gredu yn yr Iesu.

Gwŷr ieuainc.

*Dafydd William.*—Sydd yn credu ;—wedi profi llawer o ddaioni Duw, ac wedi myned trwy lawer o drallodion meddwl, ac yn dysgwyl gwybod pa fodd, a pha le, y mae iddo ogoneddu Duw.
*Nicholas Dafydd.*—Wedi bod yn hir dan awdurdod anghrediniaeth, a themtasiynau Satan, ond yn awr y mae weithiau yn teimlo llawer o nerth Duw yn ei enaid, a'r prydiau hyny y mae yn credu.
*Evan Rhys.*—Wedi profi llawer o gariad Duw, yn Gristion sylweddol iawn, ac wedi dyfod trwy lawer o drallodion dwysion.
*John Evan.*—O dan rai argyhoeddiadau, ond mewn llawer o dywyllwch.

Merched ieuainc.

*Ann Evan.*—Y mae yn rhodio yn ffydd yr Iesu ;—wedi profi cariad mawr, ac yn dyhëu am ryddhad.

*Lettice Evan.*—Sydd yn rhodio yn y ffydd;—wedi profi llawer o brofedigaethau trymion, a llawer o gariad hefyd.
*Jane Evan.*—O dan argyhoeddiadau; yn fficiddio ei hun, gan edrych arni ei hun yn benaf o bechaduriaid, ond wedi profi peth cariad.
*Margaret Thomas.*—Sydd yn rhodio yn ffydd yr Iesu.
*Margaret Evan.*—Wedi ei hargyhoeddi o'i phechodau, eto mewn llawer o dywyllwch, ac yn hiraethu am yr Iesu.
*Jane Phillips* (gwraig weddw).—Dan argyhoeddiadau, ond mewn llawer o dywyllwch.
*Ann Rhys.*—Yn cael ei hennill bob yn ychydig, ac yn gweled mwy-fwy o'i gwaeledd ei hun.
*Margaret John.*—Dan argyhoeddiadau, ac yn llawn o amheuon ac ofnau.
*Mary Dafydd.*—Sydd yn credu yn feunyddiol ac yn hiraethu am ryddhad.
*Magdalen Thomas.*—Dan amheuon ac ofnau, heb allu credu fod Crist yn abl, nac yn ewyllysgar i'w hachub hi.
*Jane John.*—O dan y ddeddf.

---

## Cymdeithas Twrgwyn.

Am Gymdeithas y Twrgwyn, fe ddywed yr arolygydd, yn mis Medi, 1743, fel hyn:—

"Yr oeddym yn arfer a mwynhau llawer o bresenoldeb Duw yn gyffredinol;—anaml y deuem yn nghyd na fyddai yr Arglwydd yn ein plith; ac hefyd y mae y diafol wedi rhuthro arnom yn aml ac yn rymus, gan geisio ein gosod oll yn mhenau ein gilydd. (Deallwch, fy mrodyr, fod mwy na hanner y gymdeithas hon yn ymneillduwyr.*) Dyma'r ail waith y cafodd ef fantais arnom, i weithio anghydfod yn ein mysg, a'r cwbl yn nghylch rhyw eiriau."—Ymddengys fod amryw o'r rhai a achlysurodd anghydfod wedi ymadael â'r gymdeithas.

Mae yr arolygwr arall, James Williams, yn anfon ei adroddiad ar yr un amser i'r gymdeithasfa, gan olygu y rhan uchaf o'r sir, mewn undeb â rhyw gyfran o sir Gaerfyrddin. Yn adroddiad y brawd hwn, nid ydym yn cael yr un manylrwydd ag a roddid yn yr un o'r blaen. Ond fe ddyry yr arolygwr olwg gyffredinol ar ei ddosbarth, a nifer yr aelodau yn mhob lle, yn nghyda dysgrifiad cyffredinol o ansawdd eu meddyliau, megys yn y swm, ond heb roddi enwau yr aelodau, ac ansawdd profiad pob un wrtho ei hunan, fel y gwelwn i'r llall wneyd. Nid yn fynych y mae crybwylliad am ddim ymosodiadau ffyrnig gan erlidwyr yn yr adroddiadau hyn, yr hyn a'n harwain i'r penderfyniad, fod y Deheubarth, ar y cyfan, yn llawer mwy rhydd oddiwrth erlidigaeth nag oedd Gwynedd; eto er hyn, ni a allwn gasglu oddiwrth ambell awgrym a roddir, yn awr ac eilwaith, fod yr un ysbryd yn achlysurol yn dangos ei hun yno hefyd. Ymddengys hyny yn yr adroddiad a ganlyn:—

"Cyfrif y cymdeithasau, dan arolygiaeth y brawd James Williams, arolygwr dan y Parch. Mr. Rowlands—mewn ffurf o lythyr.

Anywl Frodyr yn yr Arglwydd,—

Hyn sydd i'ch hysbysu pa ddrws mor eang a agorwyd gan yr Hollalluog Dduw, yn y cymdeithasau a enwir isod, ac o fynediad llwyddiannus yr efengyl

* Gweddillion yr hen eglwysi Presbyteraidd, ond odid.

yn mlaen yn eu mysg; a chredu yn ddilys yr wyf eu bod yn rhagori ar bob rhan arall o fewn cylch fy adnabyddiaeth i, trwy dywysogaeth Cymru, mewn cariad at Dduw a'r efengyl;—mewn gwyliadwriaeth i rodio yn ei hol, ac mewn undeb yn mysg eu gilydd, heb erlidigaeth nac aflonyddwch oddiwrth neb, ond yr ychydig a brofwyd yn ddiweddar yn Llanbedr.

"Pan oedd aelodau y gymdeithas yn gytun yn canu salmau ac yn gweddio Duw, daeth Ustus Heddwch a'i weision i mewn i'w haflonyddu, a chymerwyd yr hwn ag oedd y pryd hwnw yn gweddio, yn garcharor. Ond trwy ragluniaeth Duw y mae yr ymosodiad yn lliniaru, a'r carcharor crybwylledig eisoes yn rhydd; ond y mae yr Ynadon yn parhau i'n bygwth eto."

Yma y canlyn cyfrif yr eglwysi, yn benaf yn sir Gaerfyrddin, a'r tair a enwyd o'r blaen yn y sir hon, sef capel Gwynfil, Llangwyryfon, a'r Cwman.

Yn y flwyddyn ganlynol, ysgrifena William Richard at y gymdeithasfa, gan hysbysu y brodyr, fod dwy gymdeithas o newydd wedi eu casglu, un yn Nghastell-newydd, a'r llall yn Llanllwch-haiarn. Fel hyn yr ysgrifena:—

"Mae dwy gymdeithas wedi eu gosod i fyny yn ddiweddar yn y rhan yma o sir Aberteifi;—un yn Nghastell-newydd, yn cynwys *wyth enaid*, a'r rhan fwyaf o honynt mewn agwedd tra hyfryd,—y llall yn Llanllwch-haiarn, yn cynwys tri-ar-ddeg o eneidiau. Y maent yn sychedu am y gair, ac yr oeddynt yn ymgynull unwaith yn yr wythnos, am ysbaid dau fis, cyn i mi fyned atynt. Y mae yr Arglwydd yn ymweled â'r lleoedd sychion a charegog hyn â'i rad ras. Gogoniant i Dduw."

Yr holl gymdeithasau a osodasid i fyny yn sir Aberteifi, yn ystod y blynyddoedd 1736-44, sef wyth mlynedd ar ol i Rowlands a Harris ddechreu cyffroi y wlad drwy eu gweinidogaeth, oeddynt y rhai a enwyd, sef i gyd yn 12 o rifedi. Yr oedd y cymdeithasau hyn yn fychain iawn, ac ar lawer golygiad yn isel eu gwedd. Yr oeddynt yn ddarostyngedig i lawer o gyfnewidiadau, trwy blentynrwydd eu profiad, ac anwadalwch eu teimladau,—trwy newidiad lleoedd eu hymgynulliad, ac amgylchiadau eraill. Ac nid oes amheuaeth genyf, na ddiflanodd amryw o'r cymdeithasau a enwyd, yn ystod y blynyddoedd dylynol, trwy i amryw o honynt ymuno â chynulleidfaoedd eraill, neu ymgorffori yn ynghyd, pan ddaeth yr amser i ddechreu adeiladu capelau yn y wlad. Cyn pen llawer o amser ar ol hyn, hefyd, y cymerodd yr ymraniad le yn y cyfundeb; am yr hwn y soniasom eisoes: ac nid oes lle i amheu na theimlwyd i ryw raddau effeithiau yr amgylchiad gofidus hwnw, yn y wlad hon hefyd, er, o bosibl, i raddau llai nag mewn gwledydd eraill. Yn y wlad hon, yr oedd dylanwad gweinidogaeth Rowlands mor fawr, fel na thueddwyd cynifer o'r dysgyblion i ymlynu wrth Harris, ac i ymadael ag apostol eu gwlad eu hunain. Ar yr un pryd, barnu yr ydym, y rhoes enciliad Harris i neillduaeth Trefeca, ddyrnod angeuol i'r gyfundrefn a osodasid i fyny, yn benaf, trwy ei ddyfais a'i ymdrech ef, ac a arolygid ganddo ef. Mae genym sail gref i feddwl, mai efe oedd prif ysgogydd y gyfundrefn hòno; ac felly, y byddai ei hysgogiadau yn rhwym o arafu yn y fan y ciliai efe oddiwrthi: trwy hyny yr oedd yr arolygiaeth gyffredinol yn colli, a'r arolygwyr dosbarth-

iadol yn colli eu cefn, ac fe ddichon eu cynaliaeth. Effeithiai hyny drachefn ar yr holl fân gynulliadau eglwysig, gan nad oedd neb ar gael, wedi colli eu bugeiliaid gosodedig, i gymeryd eu gofal; a hwythau, eto, yn rhy eiddil a phlentynaidd i ofalu am danynt eu hunain. I ba raddau y disgynodd y diflaniad hwn ar gymdeithasau a chynghorwyr y sir hon yn neillduol, nid oes genym fodd i wybod. Diau genym na allodd y wlad yma ddianc heb deimlo rhyw gymaint oddiwrth yr ysgytiad, er y credwn, ar yr un pryd, iddi deimlo llai na rhai gwledydd eraill.

Gan i'r diflaniad hwn barhau am amryw flynyddoedd, hyd y fl. 1762, mewn llawer o barthau y dywysogaeth, y mae yn rhaid i mi edrych ar y tymhor hwn fel math o *fwlch* yn Methodistiaeth Cymru; ac yn rhanu ei oes yn ddwy ran, fel y gwnaeth y diluw yn oes y byd. Rhaid oedd i Fethodistiaeth ail ddechreu, megys, ar ol y diflaniad hwn. Collodd yr hen gyfundrefn, ymron i gyd, yn y tro; dystawodd llawer o'r cynghorwyr; gwywodd llawer o'r eglwysi; ciliodd llawer o'r dysgyblion, mewn rhai cyrau o'r wlad, at enwadau eraill; mewn gair, y byd Methodistaidd, ag oedd y pryd hwnw, wedi ei orchuddio â dwfr yr ymraniad, a ddyfethwyd. Eto fe adawyd y gweddill i fod yn had i fyd newydd. Parhaodd y dosbarth mwyaf eu gwybodaeth, eu doniau, a'u dylanwad, gyda'u gilydd yn yr amgylchiad galarus hwn, a hwy a aethant rhagddynt, gan bregethu y gair gyda nerth ac effeithioldeb mawr. Yn y parthau hyn o'r wlad yn neillduol, yr oedd gweinidogaeth anghydmarol Rowlands, yn nghyda yr eiddo Howel Davies yn sir Benfro, a William a Peter Williams yn sir Gaerfyrddin, yn foddion, o leiaf i gadw Methodistiaeth yn fyw; ac fe fu eu gweinidogaeth hwy, mewn undeb ag eraill, megys David Williams, John Harris, John Belcher; a dyfodiad atynt o ddynion grymus, megys Christopher Basset, William Davies, Castell-nedd, a Jones, Llangan, yn ystod y diflaniad, yn foddion arbenig, dan fendith Duw, i adnewyddu y gwaith da eilwaith, a pheri i'r diffeithwch flodeuo fel y rhosyn.

## PENNOD II.

## HANES LLANGEITHO.

CYNWYSIAD:—

CYNGHORWYR YN CODI DAN WEINIDOGAETH ROWLANDS—SEFYLLFA ROWLANDS FEL GWEINIDOG YR EGLWYS SEFYDLEDIG—TROI YSGUBOR ROWLANDS YN DY CWRDD—HEN GYNGHORWYR LLANGEITHO—ADEILADU Y CAPEL CYNTAF YN 1760—SYNIAD ROWLANDS AM EI GYSYLLTIAD AG EGLWYS LOEGR—EFFAITH EI DROAD ALLAN—DYSGRIFIAD O'R AIL GAPEL A'R TRYDYDD—Y DULL Y CEDWID Y MODDION—MARWOLAETH ROWLANDS—DIWYGIADAU.

YR oedd Mr. Rowlands eto yn parhau i weini yn yr eglwys sefydledig, er y byddai yn myned o amgylch y prif ffyrdd a'r caeau, i gymhell dynion i ddyfod i wledd yr efengyl; ac yr oedd ei weinidogaeth yn defnynu fel y gwlaw ar ddaear gras. Cynyddai ei ganlynwyr yn feunyddiol yn Llangeitho mewn rhifedi, ac yn yr holl wledydd; ac yn mysg y rhai a gawsent les trwyddo yn Llangeitho, daeth i'r golwg rai dynion yn meddu awyddfryd a chymhwysder i gynghori

eu cyd-ddynion, yn y pethau a berthynent i'w heddwch. Gwelodd Mr. Rowlands yn y fan, fod cyfreithiau caeth yr eglwys wladol yn gwarafun i'r fath ddynion bob mantais i gyfarch eu cyd-greaduriaid, heb iddynt fyned trwy y cylch gosodedig; ac felly, rhoddid attalfa buan ac effeithiol ar yr adfywiad a ddechreuasid. Rhaid oedd, gan hyny, ysgogi ar ryw law; naill ai gadael i'r diwygiad ddihoeni a nychu, o fewn y ffiniau arferol, ai defnyddio rhyw foddion chwanegol, er mwyn rhoddi cryfhad ac eangiad arno. Disgynodd Rowlands, mewn undeb a brodyr eraill, ar yr olaf; bydded y canlyniad a fyddo. Nid oedd ond ychydig iawn o dai addoliad wedi eu hadeiladu yn un man trwy holl Gymru, gan y Methodistiaid, cyn yr ymraniad yn y fl. 1751; fe allai llai na chwech o nifer; ond yr oedd amgylchiadau a syniadau yn prysur addfedu i ryw gyfnewidiad.

Dywedir fod Rowlands, yn y tymhor hwn, wedi cael cynyg ar bersonoliaeth dda yn Ngogledd Cymru; ac wrth feddwl mai curad i'w frawd ydoedd ar y cyntaf, ac i'w fab henaf ei hunan, ar ol hyny, dros ryw dymhor; ei fod yn gwasanaethu dan ei frawd am £10 y flwyddyn; a bod swn bygythiol oddiwrth ei uwchafiaid, na oddefid iddo, yn hir, fwynhau yr ychydig a roddid iddo, ond y rhoddid taw hollol arno o fewn muriau yr hen eglwys;—y mae yn hawdd i ni ddyfalu y gallasai cynygiad o'r fath (os rhoddwyd ef hefyd), fod yn demtasiwn gref iddo ei dderbyn; ac yn enwedig, gan fod golwg mwy tywyll a chymylog ar y diwygiad o herwydd yr ymraniad, nag a fuasai. Dywedir hefyd, fod Mr. Rowlands yn gogwyddo, fwy na pheidio, i gydsynio â'r cais. Parodd hyn deimladau pryderus iawn yn mynwesau ei gyfeillion crefyddol, y rhai ni fynent ar un cyfrif yn y byd iddo eu gadael, ac arferasant bob ymresymiad a thaerni ag oedd ddichonadwy i'w attal. Ond ni phriodolir ei arosiad i'r cyfeillion hyny, ond i hen wraig weddw pur dduwiol, yr hon a fawr berchid ganddo. Hon a ddaeth ato, a chyda dagrau a'i cyfarchodd, "Mr. Rowlands bach, pa beth a wna yr hen wraig weddw am damaid o fara y bywyd, ar ol eich ymadawiad chwi?" Cyffyrddodd hyn â'i deimladau, a phenderfynodd aros lle yr ydoedd.

Yr oedd Mr. Rowlands, ar y pryd, yn dal dau dyddyn bychan, sef y Wenallt a Meidrim, un ar bob ochr i Langeitho. Gan fod y persondy, ei le trigiannol ef, yn gydiol â'r Wenallt, efe a ddygai holl gynyrch y tyddyn arall i'r lle nesaf at ei dŷ; a thrwy hyny yr oedd adeiladau perthynol i Meidrim i raddau yn ddiddefnydd iddo at achosion y tir; ac felly trowyd hwy yn dai anedd i'w weithwyr. Ond yr oedd ysgubor Meidrim yn sefyll ar ei phen ei hun, tua lled cae bychan oddiwrth yr adeiladau eraill. Ond fe ddichon y gofyna y darllenydd, paham y sonir am y fath bethau?—beth sydd a wnelo Methodistiaeth Cymru â thyddynod Llangeitho, a'r Wenallt, nac â Meidrim chwaith:—a llai fyth â'r ysgubor, ac â thai yr anifeiliaid? Na; pwylled y darllenydd ronyn bach, ac fe gaiff weled fod a wnelo ysgubor Meidrim â Methodistiaeth Cymru! Fe fu cysylltiad rhwng peth mwy â lletty anifeiliaid cyn hyn; "ar yr hyn beth y mae yr angylion yn chwennychu edrych!"

Yr oedd dynion, fel y dywedwyd, yn dechreu codi o dan weinidogaeth

Rowlands, o'r un ysbryd ag ef ei hun, ac yn llosgi gan awydd i hyrwyddo yr un amcan ;—dynion wedi cyrhaedd gradd helaethach o wybodaeth ysgrythyrol nag eraill o'u cyd-gristionogion, ac wedi eu cynysgaethu â mesur helaethach o hyawdledd. Yr oedd rhwystr anarfod ar eu ffordd i gynorthwyo dim ar Rowlands yn ngwasanaeth y llan, ac ymddangosai llawer mwy o barodrwydd, mewn llawer man, i fwrw Rowlands allan, nag i'w derbyn hwy i mewn. Pa beth ynte a wneid?—ai llethu a lleithio yr awyddfryd ag oedd ar eu meddyliau? Rhaid oedd ei lethu ar unwaith, neu ei lywodraethu ; ei attal yn llwyr, neu ei gyfeirio yn mlaen. Y cyntaf ni allai,—ni feiddiai—Rowlands ei wneyd. Penderfynodd, gan hyny, roddi achles i'r awyddfryd crybwylledig dd'od i weithrediad. A'r *ysgubor wag* a fyddai mangre eu cyfarfodydd! Ie, dyma ddechreuad Methodistiaeth y tu allan i furiau y llan yn yr ardal hon !

Nid oedd yr hen ysgubor ond adeilad wael, a phrin y buasai yn werth traddodi ei henw trwy y wasg, o'i rhan hi ei hunan. Adeilad fechan ei maint ydoedd ; ei muriau oeddynt o bridd a chlai ; chwe' troedfedd i'r bargod oedd ei huchder ; a brwyn, a gwellt yn gymysg, oedd ei thô. Dyma loches gyntaf Methodistiaeth Llangeitho ! Yr oedd yr adeilad hon yn cael ei dal gan Rowlands ei hun ; nid heb yn *wybod* iddo, gan hyny, a llawer llai, heb yn *waethaf* iddo, y gwnaed y defnydd dyeithr hwn o honi. Dywedir hefyd y byddai Mr. Rowlands ei hun, yn aml, yn rhoddi ei bresenoldeb yn y cyfarfodydd a gynelid yn yr ysgubor, ond yn *ddirgel*, gan fod ofn yr esgob o flaen ei lygaid, os oedd arno ei ofn hefyd.

Mae ychydig o drafferth a gofal wedi cael eu defnyddio gan amryw ; — mwy, tybygaf, nag a fuasai raid wrtho, i ddangos Rowlands yn eglwyswr o *egwyddor*, ond yn ymneillduwr o *orfod;* pryd y gellid meddwl, ar lawn cystal seiliau, ei fod yn eglwyswr o *ddamwain*, a *dygiad i fyny*, ond yn ymneillduwr o *gydwybod*. Neu mewn geiriau eraill, na oddefid iddo ryddid cydwybod ond ar dir ymneillduaeth. Nid mympwy ynddo ef a'i harweiniodd i'w gadael, gan fod tuedd ei ragfarn yn hytrach o'i phlaid hi ; ac nid cecraeth meddwl, ac anniddigrwydd ysbryd, a barodd iddo gydsynio i wneyd ei ysgubor yn dŷ cwrdd ymneillduol, ond barnu a wnaeth mewn pwyll, ac ystyriaeth, mai ei *ddyledswydd* ydoedd. Buasai awgrym o anfoddlonrwydd oddiwrtho yn ddigon, ar y pryd o leiaf, a thros ryw dymhor, i lethu pob ysgogiad o'r fath, gan faint y parch a lochesid i'w farn ef, a'r ymostyngiad a roddid i'w ewyllys ef. Ond yr oedd ei waith yn caniatâu yr ysgubor yn ffaith na ellir ei gwadu, ac yn arwyddo, hwnt i ddadl, pa fath ydoedd ei syniadau.

Mae yn ymddangos oddiwrth yr ysgrif a dderbyniais oddiwrth ŵr * oedranus a chall yn y gymydogaeth, mai oddeutu y fl. 1757 y bu hyn. Yr oedd hyn tua chwe' blynedd cyn ei droad o'r llan. Yr oedd amryw o gynghorwyr, fel eu gelwid, mwy neu lai eu derbyniad, ar gael y pryd hwn ; megys, William Richard Llwyd ; Griffith Lewis Siôn ; Evan Dafydd Jenkin ; a Dafydd Lewis. Yr oedd Evan Dafydd Jenkin yn daid i Mrs. Richards, gweddw y

* Mr. David Jones, Dolau-bach.

diweddar Barch. Ebenezer Richards, Tregaron. Yn yr hen ysgubor y byddai y cyfarfodydd eglwysig, cyfarfodydd gweddio, ac oedfaon gan y cynghorwyr, yn cael eu cynal; ond i'r llan yr âi pawb pan y byddai Mr. Rowlands yn pregethu, neu yn gweinyddu swper yr Arglwydd.

Ymddengys hefyd mai am ychydig amser y bu y fath ddefnydd yn cael ei wneuthur o'r hen ysgubor, gan y caed lle mwy helaeth a chymhwys i'r dyben yn mhen tair blynedd ar ol dechreu ei defnyddio; a'r pryd hwn trowyd yr ysgubor yn dŷ anedd, lle y bu gŵr tra adnabyddus i holl Gymru yn byw, am lawer o flynyddau, sef John Williams, yr hwn hefyd a fyddai yn arfer cynghori yn achlysurol, ac yn cael ei gyfenwi, gan rai, oddiwrth ei anedd, yn Siôn y 'Sgubor. Yn y fl. 1760 yr adeiladwyd y capel cyntaf. Mae angenrheidrwydd craffu ar yr amser, oblegyd y casgliad naturiol sydd i'w dynu oddiwrtho. Daeth ein hysbysydd i feddiant o'r amser uchod trwy foddion lled ddamweiniol, ac eto moddion cwbl sicr. Ni roddwyd, mae'n wir, yr un maen yn y mur i goffa i genedlaethau dyfodol, pa bryd y codwyd ef, a phrin yr oedd maen digon o faintioli yn y muriau i osod argraff o'r fath arno; oblegyd o bridd, gan mwyaf, y gwnaethpwyd muriau y tŷ hwn, a gwellt hefyd oedd ei dô ef; ac erbyn hyn, yn y fl. 1852, buasai yn anhawdd os nad yn anmhosibl, cael neb yn fyw i dystio weled y tŷ cyntaf hwn yn cael ei godi. Ond fe ddygwyddodd amgylchiad, tua 14 blynedd yn ol, fod y gŵr a enwyd eisoes yn ymddyddan â hen wraig 93 ml. oed, yr hon oedd yn byw y pryd hyny ger Tal-y-sarn, tua phum' milldir i'r de-orllewin o Langeitho. Pan oedd yr hen wraig hon yn llances 15 ml. oed, yr oedd wedi bod yn yr ysgol, a'r ysgol hòno a gynelid yn y capel newydd. Y feistres a arolygai yr ysgol oedd Miss Ann Rowlands, merch Mr. Rowlands, a gwraig ar ol hyny i bregethwr o'r enw Mr. Daniel Jenkins. Pan y bu y llances y soniwn am dani yn yr ysgol gyntaf, fe'i cynelid hi yn yr *ysgubor*, sef tymhor y gauaf yn y fl. 1759-60; ond y gauaf canlynol, pan aeth y llances drachefn i'r ysgol, yr oedd yr ysgol wedi ei symud i'r lle newydd. Yn yr adeg y bu hi yn yr ysgol y tro diweddaf hwn, gweithiodd *sampler*, fel y gwnai genethod yn fynych, ac arno y flwyddyn y gwnaed ef. Pan oedd ein hysbysydd yn ymddyddan â'r hen wraig, ac yn ei holi yn nghylch amser codiad y capel cyntaf, galwodd ar yr herlodes a'i gwasanaethai, i ddwyn iddi o'r gell y cedwid ef yn ofalus, y *sampler;* ac ynddo yr oedd wedi ei gordeddu â gwniadwaith, y fl. 1761. Bernir, gan hyny, fod hwn wedi ei orphen tua dechreu y flwyddyn ganlynol ar ol adeiladu y capel newydd: a bod yn rhaid fod y capel wedi ei godi yn ystod yr haf o'r blaen, sef y fl. 1760.

Nid oedd y tŷ hwn, fel y soniwyd, ddim yn un gorwych: gyda bod ei furiau o bridd, a'i dô o wellt, nid oedd ei faint ond bychan;—10 llath oedd ei hyd, a 6 llath ei led o fewn ei furiau. Gelwid ef, meddai yr hen wraig, yn Dy Seiat (*society*). Dyma oedd y gorlan yr ymgasglai y defaid iddi. Bernid mai anhawdd a fuasai ymgeleddu y sawl a archollasid trwy y weinidogaeth yn y llan, heb le o'r fath yma; lle y gallasai dynion di-urddau gynghori, gweddio, a chanu, ïe, a chanmol eu Hiachawdwr, heb fod yn gyfrifol i lywodraeth

wladol, nac yn ddarostyngedig i warafuniad yr arglwydd esgob. Yr oedd hwn ar yr un tir ag yr oedd y tai anedd, yn ngwahanol barthau y wlad, lle y byddai y cynghorwyr yn gweini, a'r cymdeithasau eglwysig yn ymgynull.

Ymddengys hefyd fod Rowlands yn canfod nad oedd obaith iddo gael llonyddwch nemawr yn hwy yn y llan; a'i fod eisoes yn cynllunio erbyn yr amser y troid ef allan. Yr oedd amryw o'i gyd-lafurwyr wedi eu troi allan eisoes, sef Howel Davies a'r ddau Williams; a hawdd y gallasai yntau ddyfalu pa oruchwyliaeth a'i cyfarfyddai. Fe dystiai yr hen wraig grybwylledig hefyd, ei bod hi, pan yr oedd ysgol yn y capel newydd, yn arfer myned i dŷ tafarn yn y pentref, gyda phlant y tŷ tafarn, y rhai oedd gyda hi yn yr ysgol; y lle hefyd yr eisteddai pregethwyr ac eraill i aros amser y moddion, cyn fod yr un tŷ perthynol i'r capel i'w gael; ac iddi sylwi unwaith fod Mr. Rowlands yno gyda rhyw ŵr boneddig; a bod Mr. Rowlands yn dangos iddo gynllun capel mawr; a bod y gŵr boneddig yn gofyn iddo, a oedd yn penderfynu ei adeiladu? ac yntau yn ateb ei fod; "Ni chaf lonydd," meddai, "gan yr eglwyswyr; ac yr wyf yn penderfynu gadael y llan iddynt hwy; ond fe ddaw y bobl gyda fi."

"Yna," ebe y boneddwr, "os adeiledwch chwi gapel, minau a roddaf gôr *(pew)* ynddo, yn ddioed."

Yr ydym eisoes wedi dangos i Mr. Rowlands gael ei droi allan o'r llan yn y flwyddyn 1763, sef tua thair blynedd ar ol adeiladu y capel bach cyntaf, ac yn mhen chwe' blynedd ar ol yr ymneillduad i'r hen ysgubor. O'r blaen yr oedd y gweinidog yn eglwyswr, a'r gynulleidfa neu yr aelodau yn ymneillduwyr, ond bellach fe'i ceir ef a hwythau ar yr un tir a'u gilydd. O'r blaen deuai atynt yn ddirgel i'r tŷ cwrdd, ond bellach ar g'oedd. O'r blaen yr oedd cyfraith yr esgob ag awdurdod arno; y mae yn awr yn rhydd i arfer pob cydwybod i orsedd Duw, heb fod dan gaethiwed i osodiadau dynol.

Pan y trowyd ef allan, aeth y capel bychan 10 llath o hyd yn llawer iawn rhy fychan; cymaint yn rhy fychan ag oedd y llanau a adawsid ganddo yn ormod. Cafodd y sefydliad gwladol, mae'n wir, yr hen adeiladau, ond fe gafodd gŵr Duw y bobl. Nid wrth y sefydliad dynol yr oedd eu hymlyniad hwy, ond wrth yr efengyl a bregethid, ac wrth y gweinidog a'i pregethasai iddynt, er ys mwy na 25 o flynyddoedd, gyda'r fath eneiniad a grym. Rhaid oedd, gan hyny, ymosod at ryw ddarpariaeth gogyfer â'r amgylchiad; ac yn y fl. 1764 fe adeiladwyd capel arall, llawer mwy na'r cyntaf; muriau cerig oedd i hwn, a llechau yn dô. Yr oedd yn 45 troed. o hyd, a'r un faint o led, o fewn y muriau. Yr oedd iddo hefyd ddau nen *(roofs)*, a cholofnau llathraidd ysgwar dan bob cwpl, yn nghanol yr adeilad, i gynal y nenau; ac felly yn rhanu y tŷ megys yn ddwy ran, y rhai a elwid y Tŷ-nesaf, a'r Tŷ-pellaf. Gan fod y tir yn codi yn serth ar un ochr i'r capel, gosodwyd y pulpud yn yr ochr hòno, a drws bychan i fyned o hono allan; yr hwn ddrws oedd yn gyd-wastad â'r llawr yn y cefn. Yr oedd hyn yn gyfleusdra mawr lawer gwaith, gan y byddai y capel, y rhan amlaf, yn orlawn cyn y deuai Mr. Rowlands i mewn; ond nid oedd raid iddo, o herwydd hyn, ymwthio trwy y gynulleidfa i gyrhaedd y pulpud. Nid oedd oriel *(gallery)* yn y capel hwn, ond yr oedd dwy

res o gorau wedi eu gwneyd gyda'r muriau, ar draul y teuluoedd a'u defnyddient, y rhai a ystyrid yn feddiant i'r teuluoedd o oes i oes. Er mwyn chwanegu y lle, yr oedd bwrdd y cymundeb, neu yr *allor*, fel y'i gelwid, yn cael ei godi a'i ostwng gan chwerfanau *(pulleys)* yn ol yr angen. Gan fod yr adeilad hwn, o herwydd y ddau nen oedd iddo, a'r colofnau a'u cynalient, yn cael ei ranu yn ddau hanner, fe barai edrych ar y ddwy ran, fel cynteddau y deml gynt, y naill i'r cenedloedd a'r llall i blant Israel. Pan y canfyddid un o'r crefyddwyr yn nesu i'r parth pellaf oddiwrth y pulpud, edrychid arno yn argoel o wrthgiliad; a phan y gwelid un dibroffes yn dynesu i'r parth arall, edrychid ar hyny yn gystal arwydd o'r teimlad gwrthgyferbyniol. Yr oedd y flwyddyn yr adeiladwyd y capel yn gerfiedig ar y cwpl, ac ar y pulpud, sef y flwyddyn 1764. Caed y gweithredoedd am y tir yn y fl. 1760, oblegyd ar yr un tir yr adeiladwyd y ddau gapel cyntaf hyn, a hwnw yr un llanerch ag y mae y capel presenol yn sefyll arno.

Adeiladwyd y tŷ presenol rhwng 1813 a 1815. Gosodwyd ei sail yn y cyntaf, a gorphenwyd ef erbyn yr amseriad olaf. Costiodd hwn tua dwy fil o bunau; addawyd ato o fewn cylch yr eglwys £864, cyn chwalu yr hen gapel, ac erbyn hyn nid oes ond ychydig iawn o'r ddyled heb ei thalu oll. Mae cynulleidfa luosog iawn yn parhau i wrando yn Llangeitho hyd heddyw, er nad oes cyffelyb gyrchu yma ag oedd gynt. Ar yr un pryd, gallwn feddwl fod yr ymgynulliad, ag a ellid ei olygu yn briodol i'r ardal, yn llawn cymaint, os nad yn llawer mwy, nag ydoedd y pryd hyny. I gael golwg gymhariaethol teg ar nifer y gwrandawyr, rhaid ystyried y canghenau a heidiasant oddiyma, ac ydynt bellach wedi ymsefydlu mewn cychod o'r eiddynt eu hunain. Gellir nodi y rhai hyny. Yn gyntaf Bethania:—ardal tua phedair milldir i'r gorllewin. Bu pregethu yn yr ardal hon am flynyddau mewn tŷ anedd, ond yn awr y mae capel wedi ei adeiladu. Sefydlodd haid arall yn Bwlchllan, yn mhlwyf Llangwnlle; a thrydydd haid yn Mhenuwch, plwyf Llanddewi-brefi, tua dwy filldir i'r gogledd-orllewin o Langeitho. Mae yn y canghenau hyn rhyngddynt tua 450 o aelodau. Yr oedd llawer o bobl allan o gymydogaethau Abermeurig a Llwynpiod, yn dal cymundeb â Llangeitho yn amser Mr. Rowlands, yn yr amser yr oedd Mr. Gray yn weinidog ar y cynulleidfaoedd yn y lleoedd hyny; ond y mae yr aelodau sydd yn preswylio yr ardaloedd hyny, er ys maith flynyddoedd bellach, wedi cilio o Langeitho, ac ymsefydlu gartref, wedi i'r capelau hyny a'r cynulleidfaoedd ddisgyn i ofal y Methodistiaid. Ni a welwn fod pump o gynulleidfaoedd, mewn rhan neu yn hollol, wedi canghenu allan o Langeitho, y rhai pe daethent i'r un man, a gyfansoddasent gynulleidfa llawer mwy nag oedd cynulleidfa Llangeitho yn amser Mr. Rowlands ei hun.

Mae cryn ddiwygiad yn ymddangos yn awr ar ddull y gwrandawyr cyffredin gynt. Y pryd hyny, yr oedd y gynulleidfa yn fwy rhanedig yn y tŷ o'r blaen nag yn yr un presenol. Yn awr y mae teuluoedd, crefyddol neu beidio, yn britho pob rhan o'r tŷ addoliad fel eu gilydd; ac aelodau pob teulu, crefyddol neu beidio, yn yr un côr yn ddiwahaniaeth. Nid oes yn awr neb yn aros

y tu allan i'r addoldy, fel y byddai ar amserau o wres gynt. Yr ydym eisoes wedi sylwi, pa mor dueddol ydyw y natur ddynol wrth heneiddio i edrych yn dywyll a phruddaidd ar bethau yr adeg, a gwynfydu na ddychwelai pethau i'r wedd ddymunol ag oedd arnynt yn nhymhor boreuach eu hoes. A gwir ydyw fod dirywiad yn gysylltiedig â'r ddynoliaeth, os gadewir hi yn gwbl iddi ei hunan ; eto, er hyn, gellir priodoli peth o'r gwahaniaeth i ymollyngiad y natur gan henaint, ac nid y cwbl i ddirywiad yn yr olygfa ei hun. Gellid meddwl ar ryw olwg fod achos crefydd wedi colli tir yn Llangeitho er dyddiau Mr. Rowlands, mewn rhifedi yn gystal ag mewn ysbrydolrwydd, ond mewn golygiad arall, gellir amheu cywirdeb y syniad hwn. Tuag wyth cant, meddir, a fu y nifer mwyaf o gymunwyr perthynol i Langeitho, yn amser Mr. Rowlands. Nid ydym yn cynwys yn y cyfrif hwn y dyeithriaid a ddeuent o gymydogaethau eraill, ac o barthau pell y dywysogaeth, y rhai a chwyddent y nifer yn fawr iawn. Yn awr, pan y cymerom i ystyriaeth y cynulleidfaoedd ag sydd wedi ymneillduo ar eu penau eu hunain, ni a gawn fod cyfanswm yr aelodau yn awr yn llawer mwy nag oedd y pryd hwnw ; ac, yn yr ystyr yma, nid oes achos galaru na llwfrhau.

Gan faint y dyddoreb a'r hynodrwydd a berthynai i Langeitho yn hanner canrif cyntaf Methodistiaeth, y mae yn naturiol i'r meddwl ymofyngar ymholi i amgylchiadau, dibwys ynddynt eu hunain, ar gyfrif eu cysylltiad â lle mor gynefin i Fethodistiaid Cymru trwy hanes; ac er mwyn gallu gwrthgyferbynu, neu gydmharu, yr hyn ydyw yn awr â'r hyn a fu gynt. Ymddengys fod rhai defodau yn aros yma, y rhai na cheir mo honynt mewn manau eraill, a'r rhai na ellid eu codi i fyny, pe gwneyd cais at hyny ; ond yma y maent yn aros fel arferiad wedi ei sefydlu er ys tymhor maith, ac wedi ei choroni â buddioldeb boreuol, fel na ellir yn hawdd ei newid na'i diddymu. Fe fyddai codi y cyfryw arferiad i fyny mewn man arall, mor anhawdd ag ydyw ei dynu i lawr yn y lle hwn. "Mae pob peth o ran ffurf moddion cartrefol," medd fy hysbysydd, "yn parhau fel yn amser Rowlands, oddieithr ychydig o eithriadau. Yn ei amser ef, yr oedd yma ddwy bregeth ar y Sabboth, sef 10 o'r gloch a 3 :—mae yma ddwy eto, ond fe'u cynelir hwy 10 o'r gloch yn y boreu, a 6 o'r gloch yn yr hwyr. Yn ei amser ef, yr oedd pregeth 12 o'r gloch bob wythnos, ar ddydd Mercher, a chyfarfod eglwysig mewn cysylltiad ; a'r un modd y mae eto. Dydd Sadwrn o flaen Sul y cymundeb, yr oedd oedfaon cyhoeddus am 12 o'r gloch, a thrachefn am 3 o'r gloch yn y prydnawn ; yr un olaf hon, yn benaf, er mwyn y dyeithriaid a ddeuent o bell i'r cymundeb. Yn awr hefyd, y mae oedfa a chyfarfod eglwysig mewn cysylltiad â hi, yn cael eu cynal, ar yr un dydd Sadwrn o flaen y cymundeb, yn lle ar y dydd Mercher, fel wythnosau eraill. Ac y mae yn beth syn pa mor rymus ydyw greddf ymarferiad. Yr oedfaon 10 o'r gloch boreu Sabboth, a 12 o'r gloch ddydd gwaith, yw y rhai mwyaf poblogaidd yma hyd heddyw, a'r hyn a barai iddynt fod yn fwyaf poblogaidd ar y dechreuad, oedd, mai ar yr oriau hyny y byddai Rowlands yn arfer pregethu." Yr oedd achos neillduol i'w gwneuthur yn fwy poblogaidd ar y cychwyniad, ond hwy a barhant felly yn

mhell ar ol i'r achos hwnw ddiflanu, trwy rym arferiad. Yr oedd yr oedfaon ddydd Sadwrn o flaen Sabboth y cymundeb yn nyddiau Rowlands, yn ateb dyben cyfarfodydd misol i'r sir hon, ac i raddau, i wledydd eraill hefyd; gan y cyrchu a fyddai i Langeitho gan bregethwyr a blaenoriaid pob rhan o'r wlad. Rhoddid iddynt fantais trwy yr ymgynulliad hwn i weled eu gilydd, ac i ddarpar gogyfer ag anghen eu hamrywiol ardaloedd yn ystod y mis dyfodol.

Ond fe fu yr oedfa ganol dydd ddydd Mercher, yn achles, trwy ei chyson a'i hir barhad, i ddwyn cryn lygredigaeth i mewn. Rhoddid mantais i lawer gyfarfod â'u gilydd ar ddybenion bydol, ac i gyflawni amcanion eu masnach; a thrwy hyny, fod mwy o wedd ffair ar y cynulliad, na chwrdd crefyddol; a rhaid a fu yn y canlyniad ei roddi heibio, er maint a fuasai ei fuddioldeb blaenorol, rhag y buasai ei ddrwg yn fwy na'i dda. Nid rhyfedd genym ddeall mai fel hyn y bu; oblegyd nid dyma y tro cyntaf i brynwyr a gwerthwyr halogi teml Dduw, a throi tŷ Dduw yn ogof lladron. Rhaid fod llygredigaeth y natur ddynol yn rymus iawn, pryd y blagura gymaint mewn awyrgylch mor anghydweddol ag ef; mewn cyfarfodydd ag y dynoethir pechod, ac y rhybuddir dynion i'w ochel ef gymaint; cyfarfodydd y mae tuedd uniongyrchol y gwasanaeth priodol iddynt, i wrthweithio y llygredigaeth hwnw. Pa ryfedd, ynte, os bydd cyfarfodydd mawrion y byd hwn yn llygredig, lle na theimlir dim oddiwrth egwyddorion gwrthwynebol? Os ydyw cyfarfodydd i *addoli* yn dirywio ac yn achlesu llygredigaeth, ai rhyfedd ydyw i gyfarfodydd difyrwch a gloddest fyned yn ddrwg eu sawyr? Os ydyw gweinidogaeth pur eiriau Duw, a chyflwyniad gwasanaeth iddo mewn gweddi a mawl, yn aneffeithiol i attal cenllif drwg-arferion i dori i mewn, pa beth a ellir ddysgwyl oddiwrth gyfarfodydd a gynelir heb y cyfryw attalfeydd ynddynt? Ai mwy effeithiol y delyn, y bibell, y cellwair, a'r dawns, na gweddio Duw a phregethu ei air? Ac os ydym yn petruso a ddylid cynal cyfarfodydd mawrion, ar ddybenion crefyddol, er cael sicrwydd fod llawer enaid yn cael ei achub ynddynt, o herwydd yr achlysur a gymer dynion i ymlygru ynddynt, pa fodd y gallwn lai nag anghymeradwyo cyfarfodydd eraill, yn y rhai ni chynelir un gwasanaeth crefyddol, ac nad oes enghraifft ar gael o fod neb erioed wedi derbyn llesiant ysbrydol trwyddynt?

Ond i ddychwelyd at hanes Llangeitho. Ni a welsom o'r blaen fod yr Arglwydd wedi ymweled yn rhyfeddol â'r lle hwn ag adfywiadau grymus iawn, a hyny mewn amserau boreuol ar Fethodistiaeth. Ië, gwelir iddo dori allan gyntaf dan weinidogaeth Rowlands yn llan y plwyf, a hyny, pryd nad oedd neb yn y lle, nac yn yr holl wlad, wedi gweled y cyffelyb erioed o'r blaen. Ond heblaw yr adfywiadau cynaraf, am y rhai y gwnaethom grybwylliad eisoes, ac am y rhai ni allem wneyd nemawr fwy na'u crybwyll, o herwydd diffyg yr hanes;—heblaw y rhai hyny, meddaf, fe sonir am un, dan yr enw "*y diwygiad mawr*," yr hwn a gymerodd le tua'r fl. 1781. Dywedir fod Mr. Rowlands wedi pregethu tua blwyddyn ar yr un testyn, ac mai tua diwedd y flwyddyn hòno y torodd yr adfywiad grymus hwn allan.

Cafwyd ymweliad cyffelyb drachefn yn y fl. 1790, yn mhen tua mis ar ol

ymadawiad yr hen weinidog i'r nefoedd. Barna llawer ddarfod achlysuro hwn, i ryw raddau, trwy ei farwolaeth. Temtir ni i feddwl wrth edrych dros hanes bywyd y dyn hynod hwn, fod y Duw mawr wedi arfer ardderchogi gwahanol gyfnodau ei oes ag adfywiadau cyffelyb, a bod ei farwolaeth wedi ei hynodi yr un modd. Torodd un allan yn fuan ar ol iddo gael ei ddeffro am ei gyflwr ei hun, ac ar ol iddo ddechreu pregethu yr efengyl yn ei hysbryd ei hunan; fel pe rhoddasid iddo, trwy hyny, brofion o'i anfoniad. Dygwyddodd un arall yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol yr anghytundeb â Howel Harris, megys i ardystio nad oedd y cwmwl ddim eto wedi cilio. Cafodd un arall yn ebrwydd ar ol ei droad allan o'r llan, megys i dystio boddlonrwydd y nef i'w lafur ymneillduol; ac i ddangos nad oedd Ysbryd Duw ddim yn rhwym wrth fympwy na gosodiadau dynion. Yr un modd, ar ei dderbyniad i'r nef, fe orchymynwyd cawod helaeth o'r gwlaw graslawn i wacred!

Gallem feddwl pa mor ofidus a allai fod teimladau yr eglwys a'r gynulleidfa yn Llangeitho, ac yn wir y cyfundeb drwyddo, pan y galwyd "apostol Cymru" oddiwrthynt. Nid oedd bellach nemawr neb yn fyw yn cofio y byd crefyddol hebddo, ac yn ddiau ni fu y byd Methodistaidd erioed o'r blaen heb ei ddawn, ei lafur, a'i ddylanwad. Yr oedd ysgogi hebddo yn beth cwbl ddyeithr iddynt. Llanwasai le mawr iawn yn eu plith tra y bu efe gyda hwy, ac nid oedd neb mewn golwg ychwaith i wneyd y bwlch i fyny. Hyd yn hyn yr oedd llawer o fywyd a llwyddiant Methodistiaeth Cymru, yn cael ei amaethu trwy gynulliadau Llangeitho, a Daniel Rowlands; neu yn hytrach, y *Secinah* a'u hardderchogai oedd yr at-dyniad yno. Wedi colli yr offeryn trwy yr hwn, gan mwyaf, y byddai y llaw yn arfer gweithio, ofnid yn fawr y collasid y gweithiwr hefyd. Ond gwelodd Duw yn dda, gan gyd-ddwyn â gwendid ffydd ei bobl, roddi iddynt brawf nad oedd ei Ysbryd ef ddim yn rhwym wrth offerynau, pa mor ardderchog bynag; ac y mynai ef iddynt hwythau ddyrchafu eu llygaid heibio i bawb ato ef ei hun.

Dywedwyd gan yr hen bobl ag oeddynt yn cofio yr adfywiad hwn yn y fl. 1790, ddarfod iddo ddechreu i raddau yn wahanol i'r rhai blaenorol. Dechreuodd hwn, meddant, mewn *addoliadau teuluaidd*; ac iddo ymwasgaru felly tros y wlad; eto, er hyn, nid oedd y moddion cyhoeddus yn amddifad o hono. Yn y flwyddyn 1796, bu adfywiad arall, a chwanegwyd cannoedd at yr eglwys trwyddo. Un arall, ond nid mor rymus a chyffredinol, yn y fl. 1804. Dechreuodd un arall tu a'r Pasg yn y fl. 1811; gelwid hwn y *diwygiad mud*, am nad oedd cymaint o dori allan mewn mawl a chlodforedd yn y moddion cyhoeddus; a pharod oedd rhai i werthfawrogi y chwanegiad a wnaed at yr eglwys y tro hwn yn llai ar y cyfrif hwn. Ond y fl. 1812, torodd adfywiad mor nerthol, yn ol cyfaddefiad pawb, ag un a welsid o'i flaen; a pharodd chwanegiad o lawer o gannoedd at yr eglwysi drwy yr holl wlad. Yn y fl. 1824, yr oedd y Parch. David Evans, Aberaeron, yn pregethu yn Llangeitho, ar y geiriau, "Paham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?" a disgynodd effeithiau grymus ar y gynulleidfa, yr hwn amgylchiad a fu gychwyniad i

adfywiad grymus, fel y chwanegwyd at yr eglwys y tro hwn, sef yn ystod yr adfywiad, tua dau cant o eneidiau. Cafodd yr adfywiad hwn amaethiad effeithiol trwy weinidogaeth y Parch. Ebenezer Richards, Tregaron.

Yr olaf a gaed oedd yn y fl. 1832, ar ddydd olaf y gymdeithasfa flynyddol, pan oedd y Parch. William Evans o sir Forganwg, yn pregethu ar y geiriau, "Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ, &c." Chwanegwyd at yr eglwys y tro hwn hefyd yn agos i ddau cant o aelodau. Y mae weithian tuag ugain mlynedd, ymron, er pan y cafodd y lle hwn adfywiad grymus. "Mae llawer o honom," medd fy hysbysydd, "yn dymuno yn fawr weled amser o'r fath eto; a diau fod tywalltiadau grymus o'r fath a soniwyd yn dra effeithiol i ddarostwng gwlad i barchu crefydd, ac i ymostwng iddi, er yr holl amgylchiadau gofidus a fydd yn fynych yn gysylltiedig â hwy."

Mae nodwedd cyhoeddus Mr. Rowlands yn llawer mwy adnabyddus na'i ymddygiadau cyffredin a lleol. Y mae pob rhyw hysbysiad, gan hyny, a ddyry radd o olwg i ni arno mewn cylch llai, yn fwy dyddorol am ei fod yn fwy anghyffredin. Fe ddyry yr hyn a ganlyn radd o foddhad ar y cyfrif hwn. Wedi iddo sefydlu achos ymneillduol, megys, yn y capel a godwyd yn yr ardal, efe a ymroddodd ymron yn hollol i'r weinidogaeth gyhoeddus, heb ymyryd ond ychydig â bugeiliaeth yr aelodau, mewn ffordd o dderbyn i mewn na bwrw allan. Fe adawodd hyn yn gyfangwbl i ŵr o flaenor eglwysig o'r enw William Williams. Fe allai fod Mr. Rowlands tra yr oedd eto heb ei fwrw allan o'r eglwys, yn teimlo gradd o betrusder i ymyraeth â helyntion y capel yn gyhoeddus; ac fe allai hefyd, ei fod yn argyhoeddedig mai yn ei weinidogaeth gyhoeddus y gorweddai ei fawr nerth. Ymgysegrodd, gan hyny, yn llwyr i'r gwaith o bregethu yn unig. Nid ydym yn cael ei fod ar un adeg yn flaenllaw mewn llywyddu a threfnu yr achos Methodistaidd, ond yr oedd brodyr eraill yn mhell islaw iddo mewn talent, a rhai ieuengach nag ef, yn dangos mwy o barodrwydd, ïe, a mwy o gymhwysder nag efe, mewn arolygu a llywio y peiriant crefyddol. Ymddengys yr un tueddfryd ynddo gartref hefyd. Ni chymerai nemawr neu ddim llaw yn llywodraethiad yr achos, fel y dywedwyd, ond cyflwynai hyny i'r gŵr a enwyd. Gŵr oedd William Williams o sir Gaernarfon o enedigaeth, ond a ddaethai i Langeitho ar gyfrif y manteision crefyddol. Gwniedydd ydoedd o ran ei grefft, a gelwid ef y rhan amlaf, William y *teiliwr*. Yr oedd wedi ymsefydlu yn y gymydogaeth trwy briodi, ac iddo ef yr ymddiriedai Mr. Rowlands ymron bob peth ond y pregethu. Efe, yn enwedig yn y blynyddoedd diweddaf, a fyddai yn dechreu yr oedfaon iddo,—yn darllen, yn gweddio, ac yn rhoddi y gair i ganu;—pob peth ymron ond pregethu. Nid arferai Mr. Rowlands ddyfod i'r golwg nes y tybiai fod y gynulleidfa wedi canu digon, a blin iawn a fyddai ganddo iddynt ganu dim yn hwy nag y codai ef i bregethu. Dywedir fod y gynulleidfa unwaith wedi anturio canu y pennill drosodd, neu ran o hono, wedi iddo ddod i'r golwg, ac ar hyny iddo yntau droi allan, a chaled a fu y gorchwyl i'w gael yn ol. Gallwn ddychymygu oddiwrth hyn, ac oddiwrth amgylchiadau eraill, fod llawer o dân a bywiogrwydd yn ei natur, yr hyn, wedi ei santeiddio, a roddai

gymhwysder ynddo i roddi grym ac awchlymder yn ei weinidogaeth, ond nid mor gymhwys, fe allai, ydoedd i lywodraethu a bugeilio.

Yr oedd yn anewyllysgar iawn i droi neb allan o'r eglwys, ïe, er fod y bai yn galw am gerydd trwm iawn. Ei farn ef ydoedd ceryddu yn y tŷ, ac nid troi allan o hono, fel y gwna rhieni naturiol â'u plant hwy. "Clywais," medd ein hysbysydd, "am un amgylchiad pan oedd un o'r aelodau wedi troseddu, ac yn ol barn y diacon William Williams, yn galw am ei fwrw allan, ond nid oedd felly yn gwbl yn ol barn y gŵr parchedig ei hun. Ond mewn cyfarfod eglwysig ryw ddiwrnod, galwyd y dyn i gyfrif, a diarddelwyd ef. Pan ddaeth hen forwyn Mr. Rowlands adref o'r cwrdd, galwodd arni i'r parlawr, a gofynodd beth a wnaed i'r dyn? 'Meistr bach,' ebe hithau, 'fe'i trowyd ef i maes.' 'Dyna hi,' ebe yntau, 'fe wasgar Wil y *teiliwr* fwy nag a gasglaf, fi a gwneyd fy ngorau.'" Nid oes dim amheuaeth nad oedd llawer o danbeidrwydd naturiol yn nhymherau Mr. Rowlands, yr hyn, oni bai gras, a allasai ei arwain i eithafion nwyd a gorphwylledd.

---

## PENNOD III.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR.

CYNWYSIAD:—

ANSICRWYDD YR HANESIAETH O BARTH AMSER EU CYCHWYNIAD—HANES LLECHRYD —LLEDROD—LLANGWYRYFON—BONT-RHYDFENDIGAID—TWRGWYN—CAPEL WAENIFOR—SWYDD-FFYNNON—PENNANT—ABERTEIFI—RHIWBWYS, LLANRHYSTYD—SOAR, PLWYF LLANDDEWI-BREFI.

MAE yn ymddangos fod Methodistiaeth wedi dechreu rhoddi ei droed i lawr mewn amrywiol barthau o'r wlad hon er dyddiau Howel Harris. Yr ydym wedi crybwyll am rai manau yn rhanau uchaf ac yn rhanau isaf y sir, y planwyd eglwysi neu gymdeithasau bychain, fel y mynid eu galw, tua'r blynyddoedd 1743-5. Gan nad oedd capelau yn cael eu codi yn y tymhor hwnw, rhaid oedd fod gradd o ansicrwydd ac anwadalwch yn gysylltiedig ag arosiad yr achos mewn lle; ac nid ydym yn alluog, wedi treigliad cymaint o amser, i olrhain gwahanol amgylchiadau y cymdeithasau hyny, yn y blynyddoedd dylynol, yn enwedig gan na chadwyd dim cyfrif rheolaidd o'u hanes. Ac hefyd, fe ddaeth difrod yr ymraniad i fwrw ei effaith gauafaidd dros ran fawr o'r wlad, fel y mae yr anhawsdra i olrhain yr hanes gyda manyldra yn fwy, oblegid y bwlch galarus hwn. Y mae yn hysbys, pa fodd bynag, fod rhai capelau wedi eu cyfodi tua'r blynyddoedd 1760-5, a rhai cyn hyny; fel y mae eu hanes yn ardystio. Yn mysg y lleoedd henaf yn y sir hon, y mae y rhai canlynol:—Pennant, Lledrod, Llanrhystyd, Llangwyryfon, Aberteifi, Soar, Aberffrwd, Pont-rhydfendigaid, Tregaron, a Llechryd.

Nid ydym wrth eu henwi yn y modd yma yn sicrhau mai yn y drefn y mae pob un yn sefyll uchod, y dylai fod o ran ei hynafiaeth. Na: o ran hyny, fe ddichon fod yr olaf a enwyd, sef LLECHRYD, yn mysg y lleoedd hynaf. Y mae yn rhy anhawdd, yn ol dim a fedr yr ysgrifenydd gasglu, oddiwrth y defnyddiau mewn llaw, nodi yn benderfynol pa ryw amser penodol y sefydl-

wyd achos Methodistaidd mewn llawer man; o herwydd, mewn rhai manau, yr oedd pregethu achlysurol cyn ei fod yn gyson a sefydlog; mewn ambell i fan hefyd, gwnaed crynhoad o amrywiol fân ganghenau, yn y rhai y buasai achos bychan a gwanaidd, er ys maith amser yn flaenorol, i le newydd a diweddar mewn cymhariaeth; ac anhawdd fyddai nodi yr amser penodol y gellir dweyd i'r achos gael ei sefydlu arno. Hefyd, yr oedd pregethu mewn amrywiol ardaloedd, a hyny yn lled gyson; ac am gryn dymhor, cyn bod un math o addoldŷ, gwael na gwych; sef mewn tai anedd, ac yn symudol o fan i fan. Mae yr amgylchiadau hyn oll yn tueddu yn fawr, yn absenoldeb hen groniclau neu adroddiadau wedi eu gwneyd ar y pryd, i ddyrysu y manylrwydd hwnw, am yr amser, a'r dull, ag y buasai da fod genym, mewn gwaith o'r fath hwn: ac nid oes genym ond gwneyd y defnydd goreu o'r defnyddiau sydd genym.

### LLECHRYD.

Pentref bychan yw Llechryd ar lan afon Teifi, tua thair milldir uwchlaw tref Aberteifi. Mae traddodiad fod gan y Puritaniaid achos boreu yn yr ardaloedd hyn, sef yn y Tirllwyd, plwyf Llangoedmor, yn gyntaf; a thrachefn, yn Rhos-y-gilwen, cwm yn sir Benfro, tua dwy filldir o Llechryd; ac wedi hyny yn nghastell Malgwyn, o fewn hanner milldir i'r pentref hwn. Dywedir eu bod wedi dyoddef llawer erlidigaeth ffyrnig, yn y canrif yr ail-ar-bymtheg, ond wedi i'r tywydd blin fyned heibio, iddynt anturio adeiladu capel Llechryd, tua'r fl. 1709, y capel ymneillduol cyntaf, meddynt, o'r cwbl yn swydd Ceredigion.

Nid hir chwaith ar ol ei gychwyniad y bu Methodistiaeth heb roddi ei droed i lawr yn y lle hwn. Howel Harris, meddir, oedd y cyntaf o'r diwygwyr hyn a bregethodd yma. Gwnaeth hyny ar ddarn o dir gwag, cyferbyn â'r bont, lle y mae masnachdy yn awr. Nid oes wybod am effeithiau neillduol y bregeth hon o eiddo Harris, ond y mae y ffaith fod cymdeithas eglwysig fechan wedi ei ffurfio o fewn milldir i Llechryd; lle o'r enw Cerig-gwynion, yn sir Benfro, a hyny cyn i Howel Davies a Daniel Rowlands fod yn adnabyddus yn y fro, yn profi mai nid dieffaith a fu ei lafur ef, a'r eiddo eraill o'i gyd-leŷgion. Nid yw yn ymddangos fod Mr. Rowlands wedi bod erioed yn pregethu yn Llechryd, "ac ni chlywais," medd fy hysbysydd, "ei fod wedi bod ond unwaith yn y Capel Newydd, yr hwn oedd yn neillduol dan olygiad y Parch. Howel Davies."

Cododd yr Arglwydd gysgod i'r blanigfa ieuanc a thyner hon, trwy osod yn meddyliau dwy ferch foneddig yn y gymydogaeth, y rhai oeddynt yn aneddu yn y lle a elwir y Pentre, i roddi nodded a lloches iddi. Hyn a wnaent drwy roddi lluniaeth a llety i'r pregethwyr, ac ymborth i'w ceffylau. Ar eu traul hwy hefyd y goleuid y lle, er nad oeddynt yn cael eu hystyried yn aelodau o'r gymdeithas yn Llechryd. Aent i wrando, tybygid, i eglwys y plwyf, sef Manor-deifi; a phob 'mis aent i'r cymundeb yn y capel newydd, lle y gweinyddid swper yr Arglwydd yn rheolaidd, gan y Parch Howel Davies.

Ond er nad oedd y boneddigesau hyn yn dal aelodaeth uniongyrchol yn Llechryd, eto hwy fuont garedig iawn at yr achos yno yn ei febyd a'i wendid, ac y mae y coffa am eu henwau yn barchus hyd heddyw yn y lle.

Cyfarfyddwn â chrybwylliad am Llechryd yn nghofnodau Trefecca, mewn adroddiad o eiddo William Richards yr Arolygwr, i'r gymdeithasfa yn y fl. 1743. Fel hyn y mae yr ysgrif:—"Daethum i LLECHRYD, lle y cyferfydd dwy gymdeithas. Yr oedd yr Arglwydd yn amlwg yn eu plith. Yr oeddwn o'r farn na allent yn gyfleus gyfarfod yma i barhau; felly barnwyd yn oreu i'r sawl ag oedd o sir Benfro, gyfarfod yno ar eu penau eu hunain, a chymdeithas Llechryd wrthi ei hunan. I'r rhan gyntaf, yr oedd 18 o aclodau, pedwar o feibion heb briodi, a phedair ar ddeg o ferched; mae llawer o honynt yn eneidiau gostyngedig a hawddgar. Nid oes yn Llechryd ond chwech o rifedi; un mab ieuanc, a phedair o fenywod. Mae yma ddau yn ychwaneg ar brawf, sef James Thomas ac Elin James."

Pan dorodd y Parch. Howel Davies allan, fe ddaeth, yn mysg manau eraill, i Lechryd, a phregethodd yn y capel a berthynai i'r eglwys sefydledig; ond fe aeth y capel hwn yn llawer iawn rhy fychan i'r gynulleidfa a ymgasglai i wrando; am hyny, arferai bregethu yn y fynwent, llenwid y fynwent hefyd, a'r holl le oddiamgylch sef y lle a elwir 'Banc Llechryd.' Soniai yr hen bobl lawer iawn am y llwyddiant a ddylynai ei weinidogaeth; am yr effeithiau grymus a ddisgynai ar y bobl wrth ei wrando, nes y byddent yn dyrfa fawr yn tori allan mewn mawl a gorfoledd hyd y nos. Yn y cyfamser, âi y pregethwr ymaith yn y prydnawn, ac wedi cyrhaedd bryn a elwir Craig-cilfowyr, efe a safai am enyd, ac a edrychai yn ol ar y dyrfa orfoleddus, gyda syndod a diolchgarwch. Sonir hefyd am un tro neillduol, pan y cyd-bregethai Howel Harris ag ef yn y lle hwn. Yr hyn yn benaf a barai arbenigrwydd ar y tro hwn ydoedd, fod un Howel yn pregethu y tu fewn i'r fynwent, a'r Howel arall y tu allan. Yr oedd un wedi bod dan law yr esgob, a'r llall heb fod: nid oedd caniatâd, gan hyny, i Howel Harris ddiurddau bregethu'r efengyl ar dir cysegredig. Er mai brodyr oeddynt yn yr Arglwydd, ac er mai yr un gwirionedd a gyhoeddent, ac mai at yr un nod yr amcanent, eto angenrhaid oedd gwneuthur cymaint a hyny o wahaniaeth! Y cyfryw ydyw ynfydrwydd llawer o osodiadau dynol!

Ni sonir fod llawer o ymosodiadau o erlid wedi bod ar y Methodistiaid yn y fro hon, mewn ffordd o faeddu a gorthrymu, er iddynt gael eu rhan yn ehelaeth mewn dirmyg a gwawd. Pan y byddai rhan o'r gynulleidfa mewn hwyl yn moli yr Oen, fe fyddai tŵr arall o wawdwyr ar eu cyfer, ac ar uwch tir, yn curo trybeddau â darn o haiarn â'u holl egni, ac yn gwaeddi yn wawdus, "Dewch, ymrowch iddi; mae y gwenyn wedi codi." Yr oedd un gŵr o'r enw Griffith Evan â gradd o hynodrwydd arno, yn mysg y rhai a dorent allan i foliannu, ac yr oedd hefyd yn nod arbenig i sarhad yr erlidwyr. Lluchiodd gŵr boneddig ddyrnaid o drewlwch *(snuff)* i'w wyneb pan ydoedd yn yr hwyl. Dro arall, mewn cymdeithasfa yn Aberteifi, gorchfygwyd Griffith druan, a thorai allan i lefain yn uchel; a hyny yn nghanol poen dir-

fawr oddiwrth y ddannodd. Ceisiasiai ei dynu y boreu hwnw, cyn dyfod i'r cyfarfod, a methodd, a rhyfedd o boenus ydoedd ganddo. Ar ei waith yn tori allan i waeddi, dygwyddodd fod hen wraig erlidgar yn sefyll gerllaw iddo ar y pryd, yr hon a ddywedai gyda dygasedd, "Beth yw yr hen darw yma, sydd yn buguned," a chyda hyny hi a'i tarawodd â'i dwrn *ar y dant tost;* "a pheidiodd y gwayw," meddai yr hen ŵr gyda digrifwch, "am byth."*

Yn nechreuad gweinidogaeth Howel Davies yn yr ardal hon nid oedd yr un capel gan y Methodistiaid yn y broydd hyn; ond trwy fod yr Arglwydd yn gwenu ar ei ymdrechiadau, a thrwy fod ei weinidogaeth yn foddion i gasglu cynulleidfaoedd mawrion i wrando, canfyddwyd yr anghenrheidrwydd i gael lle i addoli. A hyn a fu yr achlysur i adeiladu yr addoldy hwnw yn sir Benfro, a elwir Capel Newydd: aeth rhai o'r aelodau yno, a daeth y lleill o'r Cerig-gwynion i arfer ymgynull o hyn allan yn Llechryd. Lle eu cyfarfod oedd tŷ tyddynwr cyfrifol o'r enw Sephaniah Davies; enw y Tyddyn oedd Penoraig. Yr oedd y gynulleidfa a fyddai yn arfer gwrando yma yn llawer gormod yn fynych i'r tŷ, ac ar yr achlysuron hyny pregethid yn muarth (*close*) y tŷ. Yr oedd yn perthyn i'r gymdeithas hon rai gwŷr o ddawn a gwybodaeth, yn nghyda gwir grefydd, y rhai a fuont yn addurn i'r achos dros eu tymhor, megys Owen Jones y gof, Griffith Evan y pysgotwr, a Sephaniah Davies y tyddynwr. Mae enwau y gwŷr hyn yn arogli yn beraidd yn eu coffadwriaeth hyd heddyw. Cryfhawyd eu dwylaw hefyd, trwy ddyfodiad amaethwr cyfrifol arall atynt o sir Benfro, o'r enw Mr. Evans; yr hwn oedd wedi teimlo grymusder gweinidogaeth Howel Harris, neu yn hytrach, nerth yr Ysbryd trwy ei weinidogaeth, ac yn awr yn cael ei arwain gan ragluniaeth i dyddyn yn agos i Lechryd, o'r enw Llwyn-y-grawys. Fe fu y gŵr hwn yn ffyddlawn a llafurus gyda yr achos hyd ei fedd, a dylynir ei gamrau gan ei fab Mr. B. Evans, yr hwn sydd yn preswylio yn yr un anedd, ac yn blaenori yn yr un eglwys hyd heddyw.

Crybwyllir, gan yr hen bobl, fod yma gymdeithasfa wedi bod mewn adeg pur fore ar Fethodistiaeth. Adroddai Griffith Evan am dani gyda phleser mawr, gan dystio ei bod yn gyfarfod llewyrchus ac effeithiol iawn, a bod y Peirch. W. a Peter Williams yn pregethu ynddi, yn nghydag amryw o bregethwyr diurddau.

* Adroddir hanesyn arall am yr hen Griffith. Yr oedd wedi bod yn glaf am rai misoedd, a chan y dibynai yn gwbl am ei gynaliaeth ar lafur ei ddwylaw, yr oedd mewn dirfawr dlodi, a phrin yn cael digon o luniaeth i ddiwallu ei natur. Yr oedd hefyd wedi rhedeg rhyw gymaint yn ol o'i adduned ar lyfr yr eglwys. Ac er nad oedd hyny ond swm bychan, eto yr oedd yn llawer iddo ef; a mawr oedd ei bryder i gyflawni ei ammod. Wedi iddo led wellhau, galwodd am ei ddillad gorau, y fath ag oeddynt, gan y bwriadai fyned i'r cyfarfod eglwysig y diwrnod hwnw. Yna rhoes dro allan, i edrych pa un a fedrai gerdded yno ai peidio, ac wrth roddi ei law yn ei logell, cafodd yno swllt er ei fawr syndod. Ond cododd ymryson yn ei feddwl, pa un ai at anghenion y corff y rhoddid ef, ai at dalu ei adduned eglwysig; penderfynodd mai at yr olaf y dylasai ei roddi; ac felly y gwnaeth. Y prydnawn hwnw denodd un o'i feibion ef gydag ef i'r cwch i bysgota, oblegid pysgotwr ydoedd, a chyn pen awr, yr oedd wedi ennill deg swllt a chwe' cheiniog.

Parodd un amgylchiad fod y gymdeithas hon yn fwy cofiadwy i elynion a chyfeillion crefydd; sef, darfod i geffyl un o'r pregethwyr, Benjamin Thomas (gwel tudal. 178) fel y tybir, syrthio dros ddibyn i gloddfa gerig gerllaw, a threngu yn y fan. Parodd hyn, fel y gellid dysgwyl, gryn lawer o siarad yn y fro, a chan rai fe dynid casgliadau atgas a blin, oddiwrth yr anffawd.

Yr oedd yr efengyl, er pob peth, yn para i ennill tir. Yr oedd y moddion yn cynyddu mewn cysondeb yn Mhencraig, ac yn ymwthio i leoedd newyddion amryw, yn y fro. Sonir yn neillduol am un lle, o'r enw Wernynad, a fu yn enwog iawn gynt. Saif y lle hwn mewn cwm, tua hanner y ffordd o Lechryd i Blaenanerch. Cynelid moddion cyhoeddus ac eglwysig yn y lle hwn, gyda llewyrch a llwyddiant mawr; ac yn mysg y rhai y bu eu llafur yn nodedig, crybwyllir am ddwy wraig, o'r enw *Pegi* ac *Esther*. Soniasom o'r blaen, a chawn achos i son eto, am wragedd a fu yn nodedig o ddefnyddiol yn nghychwyniad yr achos Methodistaidd, mewn llawer ardal a gwlad. Y cyfryw, tybygid, oedd y gwragedd clodwiw hyn. Hwy a lafurient yn orchestol am bregethwyr i ddyfod i draethu gair y bywyd i'w cymydogion, a pharod oeddynt, yn ol eu gallu, ac uwchlaw eu gallu, i gyfranu o'u meddiannau tuag at dalu rhyw fân gostau anhebgorol. Gwnaent hyn, ar lawer achlysur, o'u dirfawr dlodi, a rhoddent brawf trwy hyny o rym angherddol eu cariad at Grist a'i deyrnas, fel nad oedd dim o fewn eu cyrhaedd yn rhy werthfawr ganddynt i'w aberthu er ei fwyn. Mab i un o honynt oedd Rhys Davies, yr hwn a fu bregethwr adnabyddus a pharchus yn y cyfundeb hyd ei farwolaeth.

Parodd y llwyddiant a roddasid ar y gwaith eisoes i'r crefyddwyr yn Llechryd, neu ei chymydogaeth, ddechreu meddwl am addold y.Mae hwn yn amgylchiad difrifol bob amser i gyfeillion crefydd; ond yn enwedig yn y tymhor bore hwnw, pryd yr oedd y draul yn anghyfartal â nifer y crefyddwyr, a'r anhawsder yn llawer mwy nag yn awr i gael llecyn o dir i adeiladu arno, trwy fod meddiannwyr tir, o fawr i fân, yn wrthwynebol iawn i'r sect newydd a gyfodasai yn eu plith. Teimlwyd gradd o hyn yn yr ardal hon. Meddyliwyd unwaith am y lle y pregethasid arno y bregeth gyntaf gan Howel Harris, a'r lle hefyd y bu pregethu mynych ar ol hyny, ond ni cheid ef er dim gan y boneddwr a'i piai. Buont yn llygadu ar y naill fan a'r llall, ond yn cael eu siomi yn feunyddiol, er eu holl ymdrechion, nes oeddynt ymron wedi llwyr ddigaloni. Ond yn y cyfwng, agorodd rhagluniaeth ddrws o ymwared iddynt, a chafwyd ammod-weithred ar faes helaeth o dir gan Thomas Lloyd, Ysw., Goetmor, am un swllt ar hugain yn y flwyddyn. Yr oedd y tir yn ddigon helaeth i gael tŷ arno gyda'r capel, a gardd helaeth wrtho, ac i gael digon o wair a phorfa i geffylau y pregethwyr dros ystod y flwyddyn.

Ymddengys fod ymddygiad hen bobl Llechryd wedi amrywio gradd oddiwrth lawer eraill o'u brodyr, gan iddynt nacâu yn hollol roddi enwau yr offeiriaid yn ngweithred y capel fel ymddiriedolwyr, eithr mynasant ddewis ymddiriedolwyr o'u plith eu hunain; a da fu hyn iddynt yn y canlyniad;

oblegid hysbys ydyw fod cyflwyno yr ymddiried yn hollol i ddwylaw yr offeiriaid wedi achosi llawer o drafferth, gofid, a cholled, ar ol y fl. 1811, pryd y cymerodd y neillduo gweinidogion le yn y cyfundeb. Gwrthodasant hefyd yn lân a myned i gymuno i'r capel a berthynai i eglwys Loegr, lle y buasai y Parch. Howel Davies yn arfer gweinyddu iddynt gynt; a phan y daeth yr amser, cytunasant â'r ymneillduad yn unllais, ac o un galon.

Ond er na pharodd yr ymneillduad nemawr niwaid a cholled yn y lle hwn, eto yr oedd yr eglwys fechan wedi teimlo yn ddwys ar achlysur blaenorol, sef yr adeg y bwriwyd allan y Parch. Peter Williams o'r cyfundeb. Effeithiodd y tro hwn yn ddwys ar rai o'r gwŷr blaenaf yn y lle; ac er iddynt oll gael eu hadferu, eto collodd yr achos lawer o'i sirioldeb ar y pryd, a bu am gryn dymhor yn isel ac adfeiliedig. Yr oedd yr eglwys yn llesg a diepiledd, a'r cyfeillion yn llwfr a digalon; cymaint felly ag i'w temtio i feddwl mai diffodd a wnai yr achos yn y lle. Ond yn y cyfwng tywyll hwn yr ymwelodd yr Arglwydd â hwy "godiad haul o'r uchelder." Dynoethodd ei fraich, a gwnaeth rymusderau. Rhoes enyniad bywiog yn yr holl achos, a chodwyd ef i anrhydedd a bri y fath na welsid ef hyd yn hyn. Dygwyddodd hyn tua'r flwyddyn 1792-3.

Yr amgylchiad nesaf a roes ysgogiad yn mlaen i'r achos, oedd sefydliad yr ysgol Sabbothol. Gwnaed cynyg ar godi hon i fyny yn y fl. 1804. Yr oedd Charles er ys rhai blynyddoedd wedi bod yn gweithio yn egniol gyda'r gwaith hwn yn y Gogledd, ac yr oedd rhai manau eisoes wedi dechreu medi y ffrwyth. Yr oedd y diweddar Barch. Thomas Jones, Caerfyrddin, wedi bod ar daith yn Ngwynedd, ac yn dyst o'i effeithiau daionus yno. Wedi iddo ddychwelyd adref, ac ar ei ymweliad â Llechryd, efe a fynegodd ei syniadau i un neu ddau o'r cyfeillion, gan ddywedyd, "Beth pe gwnaech chwithau gynyg arni yn Llechryd?" Cipiwyd y peth i fyny, a dechreuwyd gweithredu yn gyfatebol. Ond fe brofwyd cryn anhawsder i gael pawb i anadlu yn rhydd a siriol o blaid yr ymdrech, ac wedi ychydig gyffro yn y cychwyn, adfeiliodd drachefn. Ni chafodd yr athrawon ond annogaeth bychan, a llaesodd eu hymdrechion, ac mewn canlyniad rhoddwyd yr ysgol i fyny. Ail-gychwynwyd hi drachefn gyda gwell golwg, a chyda mwy o sirioldeb. Cawsant gefnogaeth rhyfeddol yn y gwaith trwy fod y Parch. Ebenezer Richards wedi dyfod erbyn hyn i Aberteifi, ac yn rhoddi ei ysgwydd gref, mewn undeb â'r Parch. Ebenezer Morris, o dan y gwaith, ac yn ei ddwyn yn mlaen yn rymus a llwyddiannus. Dywedir mai yn y fro hon y cynaliwyd cymanfa perthynol i'r ysgol Sabbothol, gyntaf o un man yn Nghymru; ac os felly yr oedd, gellir ychwanegu mai y gyntaf a gynaliwyd yn y byd ydoedd, gan nad oes hanes am gyfarfodydd o'r fath wedi cael eu cynal erioed ond yn Nghymru. Cynaliwyd y gymanfa hon yn y flwyddyn 1808, ar ddydd Llun y pasg. Y lle y cynaliwyd hi oedd Blaenanerch, a chyfarfod lluosog a llewyrchus ydoedd.

Parhaodd yr achos mewn gwedd gyffredin, heb lawer o gyfnewidiad arno, er gwaeth nac er gwell, am flynyddau ar ol hyn. Yr oedd golwg brydferth a siriol arno, er nad oedd dim yn anghyffredin. Yn y blynyddau hyn yr oedd

y pwnc o ordeinio neu neillduo gweinidogion iddynt eu hunain, wedi bod yn destyn ymddyddan mynych yn mysg y Methodistiaid, ac yn wir yn destyn ymddadleu hefyd. Profodd rhai eglwysi yn y cymydogaethau hyn yn chwerw iawn oddiwrth y newidiad, trwy fod yr aelodau yn wahanol eu golygiadau ar y pwnc. Ond ni fu niwaid oddiwrth hyn yn Llechryd, eithr derbyniasant y cyfnewidiad yn llawen ac unfrydol. Galwyd yn fuan ar ol i'r neillduad hwnw gymeryd lle, ar y Parch. John Thomas o Aberteifi, i'r lle i fedyddio; ac efe oedd y cyntaf a wnaeth hyny o'r rhai a neillduasid gan y cyfundeb ei hunan.

Yn y fl. 1822, cafwyd adfywiad neillduol ar yr achos drachefn. Yr oedd yr ymweliad hwn yn rymus a nerthol iawn. Dychwelwyd ugeiniau o gyfeiliorni eu ffordd, rhoddwyd cychwyniad adfywiol i'r eglwys yn ei blaen, a holl ddeiliaid yr ysgol Sabbothol a ennillwyd, oddieithr ychydig nifer, i fod yn aelodau eglwysig. Yr oedd yma rai yn hiraethu ac yn ocheneidio am y fath ymweliad, gan yr ofnent fod y gwrandawyr yn ymsefydlu mewn diofalwch, a deiliaid yr ysgol Sabbothol yn ymgynefino â'r Beibl heb brofi ei awdurdod. Ac er eu llawenydd hwy a gawsant ddymuniad eu calon. Dechreuodd y diwygiad hwn mewn dull lled ddisymwth. Ar brydnawn Sabboth yn mis Awst, 1822, yr oedd dau ŵr * yn pregethu, disgynodd peth rhyfedd iawn ar y gynulleidfa. Yr oedd gwlith hyfryd yn disgyn tra y bu y gŵr cyntaf yn llefaru, a'r holl gynulleidfa yn gwrando gydag astudrwydd anarferol; ond ar waith yr olaf yn darllen ei destyn, "A phan ddel, efe a argyhoedda y byd o bechod, &c.," fe gerddodd y gair fel mellten trwy y gynulleidfa, a thorodd ugeiniau allan yn un fonllef i waeddi fel rhai wedi eu brathu â chleddyf. Nid oedd un dyben, bellach, i'r pregethwr geisio dywedyd un gair; yr oedd ef ei hun wedi ei lwyr orchfygu, ac ni allai ond sefyll yn syn a rhyfeddu y peth a wnaethpwyd. Parodd yr ymweliad hwn chwanegiad mawr at y gynulleidfa, y gymdeithas eglwysig, a'r ysgol Sabbothol, fel y bu raid meddwl am ail-adeiladu y capel.

Yr anhawsder y tro o'r blaen i adeiladu oedd yn codi oddiwrth rai adgas oddi allan—oddiwrth erlidwyr a gwrthwynebwyr cyhoeddus; ond nid oedd hyny yn bod yn bresenol, ond y perygl yn awr oedd i'r aelodau anafu eu gilydd trwy annoethineb a gorphwylledd. Y tro cyntaf, hi fu yn anhawdd cael tir i adeiladu, ac addefodd y boneddig a ganiataodd y tir, ei fod wedi derbyn llonaid ei freichiau o lythyrau o bob cŵr yn ei wrth-annog i ganiatâu y tir, ond yn awr yr oedd y tir mewn meddiant. Y tro o'r blaen, yr oedd anhawsdra cael cerig, gan nad oeddynt i'w cael ond mewn un man, ac yr oedd eu perchenog yn gwbl wrthwynebol iddynt gael un gareg ganddo. Ond wrth ddyfod adref ryw noson tra yr oedd hyn ar droed, syrthiodd y boneddwr oddiar ei geffyl, a bu farw yn y fan. Boreu dranoeth, anfonodd y wraig ddyn yn unswydd at y Parch. Howel Davies, i ddywedyd fod y cerig i'w cael gyda chroesaw. Ond yn yr ail-adeiladu nid oedd anhawsder o'r fath yma chwaith. Eto, ofnid rhwystrau a thramgwyddiadau oddi mewn; ond trwy gymeryd

* Mr. David Davies, Trefecca; a Mr. David Hughes, sir Benfro.

pwyll, ac arfer amynedd, cafwyd modd i ochel hyn hefyd, a gwnaed yr ail adeilad mewn heddwch a chysur. Estynodd y gŵr boneddig, T. Lloyd, Ysw., Coetmor, mewn modd hynaws, y weithred ar y tir i fil o flynyddoedd, ar yr un ammod ag o'r blaen, sef un swllt ar hugain yn y flwyddyn.

Ymddengys hefyd fod cymdeithasau bychain wedi cael eu ffurfio yn Llangwyryfon, Lledrod, Penlan, Rhydfendigaid, a Than-yr-allt, y rhai a arolygid dros ryw dymhor gan gynghorwr o'r enw Morgan Hughes; ond ar ol i'r gŵr hwnw eu gadael, ni ddywedir am ba achos, nac i ba le yr aeth, cafwyd gan y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, ymweled â hwy yn awr ac eilwaith, a rhoddi adroddiad o honynt i'r gymdeithasfa. Rhoddwn yma un adroddiad o eiddo y gŵr parchedig gerbron y darllenydd.

Y cyfrif a anfonodd y parchedig frawd William Williams, o'r cymdeithasau nad oes arolygwr arnynt yn awr, ond a arolygid gynt gan Morgan Hughes.

Cymdeithas LLANGWYRYFON. Mae y gymdeithas hon dan olygiaeth Thomas Griffiths a Benjamin Rees, y rhai sydd yn eu holi ac yn eu cynghori unwaith yn yr wythnos.—Mae yma tua 25 o aelodau—rhai yn siriol a gwresog—a rhai yn oerion. Yr oedd chwech yn ymgais am aelodaeth y tro diweddaf; derbyniwyd tri, a gwrthodwyd y tri eraill hyd nes y ceffid mwy o sicrwydd am eu cywirdeb.

Cymdeithas LLEDROD. Mae hon dan olygiaeth Dafydd William, yr hwn sydd yn eu holi ac yn eu cynghori ddwywaith yn yr wythnos. Mae yma tua 40 o aelodau, y rhai a barhant yn eu gwres, a'u cariad cyntaf, ac a gynyddant yn rhyfedd mewn gras a santeiddrwydd. Mae dau gwpl o honynt ar fedr priodi (ac hyd eithaf ein gwybodaeth) yn yr Arglwydd, wedi ymgynghori cyn ymddyddan â'u gilydd. Mae yma rai aelodau wedi eu chwanegu. Mae y gymdeithas hon fel dinas ar fryn—nid oes gan y byd annuwiol ddim a allant yn gyfiawn ei osod yn eu herbyn.

Cymdeithas PENLAN. Arolygir hon gan Rhys Thomas, yr hwn sydd yn byw yn eu plith, ac yn eu cynghori yn fynych. Mae yma 28 o aelodau; rhai yn gredinwyr cedyrn, ond eraill yn lled ddeddfol. Mae yma bump neu chwech newydd ddod i mewn, rhai ymneillduwyr, a rhai gwrthgilwyr. Mae llawer yma yn meddu llawer o wybodaeth ysgrythyrol.

Cymdeithas RHYDFENDIGAID. Hi gynwys tua 15 o aelodau gwresog. Rhys Thomas ydyw eu cynghorwr: y mae yn ymweled â hwy unwaith yn yr wythnos. Nid oes neb yma wedi gwrthgilio.

Cymdeithas TAN-YR-ALLT. Mae hon yn parhau yn ei gwres, ei sel, a'i chariad, ac yn cynyddu mewn gwybodaeth a santeiddrwydd. Mae yma tuag 20 o aelodau. Mae y gwragedd yn fwy eu sel na'r gwŷr. Mae Dafydd William a Rhys Thomas yn eu cynghori unwaith yn yr wythnos. Yr wyf fi fy hun yn ymweled â hwy unwaith yn y chwech wythnos, ac yn cadw cwrdd eglwysig gyda hwy, fel y gwypwyf eu syniadau a'u sefyllfa, &c.

Teimlwyf gariad ac ymlyniad atynt, ac felly hwythau tuag ataf finau. Y mae derbyniad caredig i'w cynghorwr anghyhoedd yn gyffredinol yn eu mysg, a da ganddynt gael eu holi ganddo ef a chenyf finau. Yr wyf yn sylwi mai y fath a fydd y cynghorwr, pa un ai selog, siriol, a ffyddlawn, ai ynte claiar, &c.,—y cyfryw hefyd a fydd y bobl o dan ei ofal.

WILLIAM WILLIAMS.

Gan fod crybwylliad yn yr adroddiad uchod am rai lleoedd ag y mae Methodistiaeth yn blaguro ynddynt eto, megys LLEDROD, LLANGWYRYFON, a'r BONT-RHYDFENDIGAID, nid annaturiol ydyw olrhain ychydig ar eu hanes yn mlaen, cyn myned at leoedd eraill nad oes son am danynt yn nghofnodau Trefecca.

## LLEDROD.

Y lle y dechreuwyd pregethu yn yr ardal hon ydoedd Pwll-pridd. Y

prif offerynau a ddefnyddiwyd i'r dyben hwnw oedd William Richard Llwyd, a David Williams. Anfonwyd y gŵr olaf hwn, mewn undeb â John Belcher, a dau eraill, gan y gymdeithasfa yn y Deheudir, i lafurio yn Ngwynedd, mewn adeg nad oedd odid un pregethwr i'w gael trwy holl siroedd y Gogledd ;—mewn adeg hefyd yr oedd erlidigaeth yn ffyrnig, ac yr oedd anwybodaeth dudew yn gordoi y trigolion oll. Hwn, fel y tybiwyd, a anfonwyd drachefn i fro Morganwg ar annogaeth Mr. D. Rowlands i lafurio yno, lle yr ymsefydlodd ac y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes.* Ymddengys fod y gymdeithas eglwysig yn y lle hwn yn blaguro dan ofal D. Williams, a bod yma nid llai na 40 o aelodau yn y fl. 1744-5.

Adeiladwyd yma gapel bychan yn ymyl tŷ Rhydlwyd, yn bur gynar ar y diwygiad, ond nid oes sicrwydd am yr amser. Tŷ bychan iawn oedd hwn, a gwael yr olwg arno. Pridd oedd ei furiau, a brwyn oedd ei dô. Yr oedd y pulpud yn ei dalcen, a chôr o'i flaen yn debyg fel y gwelir lle y cymundeb mewn rhyw addoldai. Ond nid oedd fawr o wychder ar y côr hwn. Yr oedd y canllaw wedi ei wneyd yn rhwyllog ag ais, fel ag a fyddo o flaen y gwartheg mewn beudai. Yr oedd simdde yn y talcen arall, ac ar y llawr neu yr aelwyd, yr oedd ychydig o dywyrch, lle y byddid yn achlysurol yn cyneu y tân, yn enwedig ar gyfarfodydd eglwysig, pan y byddai yr hin yn oer iawn. Gall y meddwl ystyriol gael golwg ar ddirodresrwydd Methodistiaeth wrth ddarlunio yn ei feddwl y tŷ addoliad hwn. Ni allai fod yn y fath fwthyn bychan llwyd un math o at-dyniad daearol; os oedd yma rhyw beth yn tynu ato yma, rhaid mai nid gwychder y lle na'r cwmni; eto, yr oedd yma sugn o natur uwch a mwy ysbrydol. Rhoddid yma ryw arwyddion o'r presenoldeb dwyfol, yn awr ac eilwaith, ag a lanwai y lle tlawd â gogoniant ac â mawredd, na cheir mo hono yn nghanol gorwychder ysblenydd y byd hwn.

Ni a allwn feddwl y gwelid achos gwneyd tŷ newydd cyn hir amser, oddiar fod y tŷ hwn wedi ei gyfansoddi o ddefnyddiau mor ddarfodedig. Yr oedd y muriau pridd eisoes yn dechreu agenu, a'r adeilad yn prysuro i adfeiliad, pan y bu raid meddwl am adeilad well. Yn y fl. 1783, gan hyny, adeiladwyd addoldy newydd, nid yn ydlan Rhydlwyd, fel yr un cyntaf, ond y fan y mae y capel presenol yn sefyll. Yr oedd y tŷ cyntaf wedi sefyll tua 30 mlynedd, yn ol dim a fedrwn ni gasglu, cyn adeiladu y newydd, ond yr oedd achos wedi ei ddechreu ddeng mlynedd cyn hyny. Yr ydym yn casglu fod y gymdeithas eglwysig wedi arfer ymgynull, er amser cynar ar Fethodistiaeth, i'r Pwllpridd, ac nid annhebyg na buasai y moddion yn cael eu cynal yno yn hwy, oni bai y bu raid i'r tyddynwr ymadael â'r tyddyn o herwydd ei grefydd, ac felly y chwalwyd y nyth oedd ganddynt yn Mhwllpridd, ac y gosodwyd math o angenrheidrwydd ymofyn am le arall.

Nid oedd y capel a godwyd yn 1783 ond tŷ bychan, er ei fod yn rhyw gymaint mwy na'r un cyntaf. Parwydydd pridd oedd i hwn, a thô gwellt oedd iddo. Yn mhen 26 mlynedd, adeiladwyd capel newydd drachefn, yn yr

* Gwel ei hanes yn sir Forganwg.

un man, ond yn fwy ei faintioli; ac yn mhen 24 mlynedd wedi hyny ail-adeiladwyd hwn drachefn, gan ei wneuthur yn llawer mwy ei faintioli, na'r un o'i flaen. Yr oedd hyn yn y fl. 1833.

Mae y lle hwn wedi ei enwogi trwy fod yn gartref i amryw o bregethwyr enwog a defnyddiol yn eu tymhor. Fe fu Dafydd Morris yn byw yma yn hir, yr hwn a wnaeth i Ddeau a Gogledd grynu dan ei weinidogaeth, ac am yr hwn y cawn grybwyll eto yn mlaen. Yma hefyd y bu Jenkin Morgan yn aelod. Cafodd y gŵr hwn oes faith, a threuliodd hi er dyddiau ei ieuenctyd yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Ganesid ef yn y fl. 1742; ymunodd â'r eglwys yn y fl. 1761; a dechreuodd bregethu mewn dwy neu dair blynedd ar ol hyny. Bu farw yn 1824. Yr oedd y gŵr hwn, gan hyny, wedi bod yn pregethu am ysbaid 60 mlynedd; ac er na ddywedir dim yn hynod am ei dalentau gweinidogaethol, yr oedd o ysbryd rhagorol fel Cristion cywir, a gweithiwr diwyd a ffyddlawn yn ngwinllan ei Feistr, am yr holl amser hyny. Mae y lle hwn hefyd yn gysylltiedig ag enw y Parch. John Williams, am yr hwn y bydd genym air eto i'w ddywedyd yn mlaen. Fe fu yma un Evan Jones, ac un William Morgan, yr hwn a fu farw yn 1797, ac un Evan Morgan, yr hwn a fu farw yn 1805. Symudodd Theophilus Jones oddiyma i Dregaron yn 1806, ac yn y fl. 1808 y daeth un Rees Jones i breswylio yma o'r Cwrt, yn sir Gaerfyrddin, ac a fu farw yma.

Yn y fl. 1795, ffurfiwyd yma ysgol ar nos Sabboth, a hyn dan anfanteision lawer, o ddiffyg Beiblau. Y llyfrau a ddefnyddid amlaf y pryd hwnw, oeddynt "Llyfr Egwyddor," gan y Parch. Griffith Jones, a'r "Llyfr Gweddi Cyffredin;" ond fe esgorodd hon yn y fl. 1807 ar yr ysgol Sabbothol mewn gwedd newydd, yr hon sydd yn aros hyd heddyw, ac i'r hon y mae effeithiau mor ddaionus trwy yr holl dywysogaeth.

### LLANGWYRYFON *(Tabor).*

Ni a welsom eisoes fod pregethu wedi dechreu yn yr ardal hon er yn gynar ar y diwygiad Methodistaidd, pryd yr oedd Harris a Rowlands eto yn cyd-weithredu. Y lle y dechreuodd pregethu ynddo yn y gymydogaeth oedd Tref-clawdd. I'r lle hwn fe ddeuai y Parch. Daniel Rowlands yn aml i bregethu, ac i le a elwir yr Arddgoed fe ddeuai yr un gŵr i gadw cyfarfodydd eglwysig. Dywedir hefyd fod Howel Harris yn arfer dyfod yn ei amser yntau, ac mai mewn lle o dan Pen-y-cwm y byddai efe yn pregethu.

Yr oedd y dechreuad yn y lle hwn, fel mewn llawer o leoedd eraill, yn fychan iawn:—y crefyddwyr yn ychydig iawn o rif, yn fyr iawn eu gwybodaeth, ac yn gwta iawn eu dawn. Gan leied oedd nifer y pregethwyr, a chan anamled oedd pregethu, nid oedd gan yr ychydig grefyddwyr ond gwibio yn mhell yn fynych i wrando pregeth, lle y dygwyddent glywed fod pregethwr i'w ddysgwyl, neu ynte, gyfarfod â'u gilydd i ddarllen a gweddio. Ac nid mor hawdd oedd cynal y cyfarfodydd hyn ychwaith, gan nad oedd, y pryd hwnw, ond ychydig nifer yn medru darllen, a llai na hyny yn meddu ar ddawn cymhwys i weddio mewn cynulleidfa. Dywedir yn hanes y lle hwn, mai

mynych y dygwyddai i ŵr, wedi dechreu gweddio, fethu yn lân a myned rhagddo; ac weithiau dywedai arall air yn nghlust y gweddiwr i'w gynorthwyo i fyned yn mlaen. Yr un modd yr ydoedd, i raddau, gyda'r cynghorwyr cyntaf. Gan faint yr angen, rhoddid cyfleusdra i ryw rai o'r brodyr i ddywedyd gair wrth ei gymydogion; ac nid anfynych y dygwyddai fod ambell un yn ymosod at y gorchwyl, yn fwy ei awydd na'i fedrusrwydd, ac yn fwy ei sel na'i wybodaeth. Dywedir fod y cynghorwyr weithiau yn y lle hwn, yn gorfod tewi yn llwyr, *heb un gair i'w ddywedyd.* Nid ydym yn synu cymaint at hyn chwaith. Yr oedd manteision yr hen bobl hyn yn fychain iawn. Hyd yn ddiweddar nid oeddynt, fe allai, wedi gweled Beibl erioed, na gwrando efengyl. Nid oedd maes eu drychfeddyliau ond cyfyng iawn, ac ni allai fod eu dawn ymadrodd mewn pethau crefyddol ond cwta a phrin iawn. Fe ddichon eu bod, i raddau, dan lywodraeth y syniad, "Nad oedd myfyrdod a llafur rhagflaenorol ddim yn angenrheidiol, ond y rhoddid iddynt ar y pryd y gair a lefarent wrth y bobl." Os felly, nid syn ydoedd eu bod dan ryw amgylchiadau, pryd y gadewid hwy i raddau i'w hadnoddau eu hunain, yn methu yn lân ag ysgogi yn mlaen. Eto yr oedd aidd eu hysbryd, symledd eu hamcan, a daioni eu cais, yn esgusawd da drostynt; ac yr oedd newyn a syched eu gwrandawyr am air y bywyd, a'u hymddifadrwydd trwm o hono, yn eu tueddu i edrych heibio i lawer o waeleddau; pryd yr oedd eu dull siriol a thoddedig yn gwrando eu cynghorwyr dirodres, yn llawer o gynorthwy i'r llefarwyr draddodi eu meddyliau. Sonir hyd heddyw am ryw ŵr yn Llangwyryfon a fyddai yn fynych yn cyffroi yr holl gynulleidfa trwy ei ddull gwresog o waeddi, "Gogoniant."

Y mae Llangwyryfon yn un o'r lleoedd hyny yn y sir hon yr adeiladwyd capel bychan ynddo yn bur foreu, sef y fl. 1769. Nid oedd y pryd hwn ond ychydig iawn o gapelau yn y wlad; ar yr un pryd, yr oedd mwy na 30 o flynyddoedd wedi myned heibio er pan gychwynasai y diwygiad Methodistaidd. Yr oedd yr achlysur o'i godi yn y fan y gwnaed, sef ar dir Mr. Williams, Rhandir, y fan y mae y capel presenol arno, yn amgylchiad hynod. Yr oedd yn y lle hwn ffynon, lle y byddai lluaws o bobl, wrth fyned a dychwelyd o Langeitho, yn arfer eistedd i fwyta y tamaid a ddygent gyda hwy, gan dori eu syched o ddwfr y ffynnon. Yr oedd y niferi a gydgyfarfyddent yma o bryd i bryd, o bobl sychedig am air yr Arglwydd, yn ddigon i roddi awgrym fod yn y lle hwn gyfle i bregethu yr efengyl, ac y byddai adeilad a wasanaethai i'r dyben hwnw yn dra manteisiol. Nid oedd y capel cyntaf hwn, ond odid, ond cyffelyb i rai eraill a godwyd tua'r amser hwnw, bychan ei faint a gwael ei olwg, eto yr oedd yno goffadwriaeth o enw y gwir Dduw; pregethid ynddo Geidwad pechaduriaid, ac ymgasglai iddo lawer o wrandawyr gwresog eu calonau at efengyl Mab Duw. Cyn hir, fe godwyd tŷ cysylltiedig â'r capel, yn benaf er cyfleusdra i'r teithwyr crybwylledig; a dywedir mai hwn oedd y "*Tŷ'r capel*" cyntaf a gyfodwyd, ac mai i'r dyben hwn yn unig y cyfodwyd ef.

Yr oedd yr achos crefyddol yn y tymhor boreu hwn yn wanaidd iawn, ac

er fod y draul o gynal moddion yn y lle pan y ceid hwy ond bychan, eto ni ellid eu cynal heb beth traul, a pharai beth ymdrech yn mhlith yr ychydig "bobl druan dlodion" i gyfarfod â'r draul, er lleied ydoedd. Disgynai y gofal hwn, tybygid, yn benaf ar yr hen ŵr a fyddai yn arfer dal ei *het* yn y cyfarfod eglwysig, ac, wedi bwrw iddi ryw swm yn gyntaf, a waeddai ar yr aelodau oll, "Dewch, gyfeillion bach, cyfrenwch at achos yr Arglwydd." Ac ni fyddai ei gyfarchiad ef ddim yn ofer. Yr oedd y gymdeithas eglwysig y pryd hwn tua 30 o nifer. Yn y blynyddoedd rhwng 1742 a 1745 yr oedd y nifer, fel y soniwyd o'r blaen,* yn 25, ac yma wedi i fwy nag ugain mlynedd fyned heibio, nid oeddynt ond 30. Ond yn ystod yr 20 mlynedd hyny y bu yr ymraniad alaethus y soniasom am dano yn y gwersyll Methodistaidd, yn nghyda'r gauaf du ddylynodd yr ymraniad hwnw, nid oes llawer amheuaeth na chwalwyd yr eglwys gyntefig yn llwyr ar y pryd, er nad yw ein hanes yn sicrhau dim o hyn, fel ag y bu raid yn mhen blynyddoedd roddi cychwyniad i'r achos megys o newydd, yr un modd ag y bu mewn llaweroedd o fanau eraill.

Yn y fl. 1789, fe fu yma adfywiad siriol ar grefydd, a chwanegiad mawr at yr eglwys. Yn mhen saith mlynedd, fe fu yma adfywiad grymus drachefn, pryd y chwanegwyd at yr eglwys 200 o eneidiau. Dan effeithiau yr adfywiad hwn, aeth y capel yn rhy fychan, a bu raid adeiladu un newydd llawer helaethach a chryfach na'r cyntaf; lleihaodd y nifer drachefn trwy wrthgiliad rhai, symudiad eraill o'r ardal, a rhai a fuant farw yn eu cariad cyntaf. Parhaodd yr adfywiad hwn am ysbaid dwy flynedd. Yn mhen tuag wyth mlynedd cafodd yr ardal ymweliad grasol drachefn, sef yn y fl. 1804, pryd y chwanegwyd at nifer yr aelodau tua 150 o rifedi, llawer o ba rai sydd yn aros hyd heddyw.

Yn yr un fl., sef 1804, y dechreuwyd yr ysgol Sabbothol; ond hi gyfarfu yma, fel mewn llawer o fanau eraill, â pheth gwrthwynebiad, ac â mwy o ddifaterwch, fel ag yr aeth i lawr drachefn; ac ar lawr y parhaodd am yspaid pedair blynedd; ond yn y fl. 1808, daeth Mr. Charles y Bala heibio, yr hwn, trwy osod allan yr effeithiau daionus a'i dylynai yn y Gogledd, a'u hanogai i ymaflyd ynddi drachefn; a hyn hefyd a wnaed, ac hyd yma y mae yn cael ei dal i fyny. Yr oeddid eisoes, er ys tua blwyddyn o amser, wedi dechreu ysgol Sabbothol, mewn lle a elwir Pentre-y-mynydd, a bu hyny yn ddechreuad canghen Fethodistaidd newydd, yr hon a elwir erbyn hyn yn Bethel.

Cyn y fl. 1820, adeiladwyd y capel y drydedd waith, ac o hyny hyd y fl. 1830, fe fu yma dri o adfywiadau mwy neu lai nerthol. Yn yr un a gymerodd le yn y fl. 1822, fe chwanegwyd at yr eglwys tua 220 o aelodau.

Yn y fl. 1834, ymadawodd tua 93 o'r aelodau, ac ymsefydlasant yn gangen neillduedig yn Bethel.

Fe fu amryw bregethwyr yn preswylio yn Llangwyryfon o bryd i bryd. Fe fu un Dafydd Edwards yn pregethu dros ysbaid maith o amser, o'r fl.

* Gwel tudal. 6.

1769 hyd 1817, nid llai na 48 o flynyddoedd. Yr oedd yma hefyd un Dafydd Richard, ond fe aeth i orphwys yn y fl. 1781, wedi un mlynedd ar ddeg o lafur cyhoeddus. Sonir hefyd am Dafydd a Rees Lewis, a John Moses. Dechreuodd Dafydd Thomas bregethu tua'r fl. 1782, a bu farw yn y fl. 1825. Fe fu yma un Rees Evans yn pregethu, yr hwn, wedi deuddeng mlynedd o lafur gweinidogaethol, a fu farw yn y fl. 1805; ac un Edward Williams. Nid oes gan yr ysgrifenydd ddim mwy o hanes y gwŷr hyn na'u henwau, ond nid oes amheuaeth na wnaeth pob un ei ran yn ngwasanaeth ei Arglwydd, er adeilad corff Crist o fewn cyfundeb y Methodistiaid, a bod pob un o honynt bellach "yn derbyn ei briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun." 1 Cor. iii. 8.

### PONT-RHYDFENDIGAID.

Dechreuodd y Methodistiaid ymosod ar y gymydogaeth hon, trwy ddyfodiad y Parch. Daniel Rowlands i bregethu i Lan y Fynachlog, yr hyn hefyd a wnaeth amryw weithiau. Yr oedd rhai o aelodau perthynol i gapel Llwyn-piod, dan olygiad y Parch. Philip Pugh, gweinidog ymneillduol yn mysg yr Annibynwyr, yn preswylio yn yr ardal hon eisoes, ac arferai Mr. Pugh, er ys amryw flynyddoedd, bregethu mewn lle yn y gymydogaeth o'r enw Llwyn-y-gof. Wedi marwolaeth Mr. Pugh ac i Mr. Gray, ei olynwr, ymuno â'r Methodistiaid, rhoddwyd heibio bregethu yn Llwyn-y-gof; ac ymwreiddiodd Methodistiaeth yn fwy-fwy yn y fro.

Heblaw oedfaon achlysurol gan Mr. Rowlands, fe ymwelid â'r ardal gan amryw o'i gynorthwywyr boreuaf, megys, William Richard Llwyd; Dafydd Jones, Pwll-march; John Dafydd Daniel, Camer; a Dafydd William y gôf, Swydd-ffynon; yn nghydag eraill o gynghorwyr yr oes hòno. Pregethid y pryd hwnw mewn amryw fanau; weithiau wrth fur, ar bwys yr hen bont; weithiau yn y felin, ac weithiau yn yr hen "*Red Lion:*" bryd arall mewn tŷ gerllaw y fan y mae y capel arno yn awr, a thrachefn mewn tŷ y tu arall i'r bont. Cafodd amrywiol dai ar hyd y fro yr anrhydedd o agor eu drysau i bregethiad yr efengyl. Nid yw yn ymddangos pa beth a ddarfu i'r ddeadell fechan y soniai y Parch. W. Williams yn ei adroddiad am dani, yr hon a arolygid gan Rhys Thomas. Fe ddichon iddi chwalu yn y cyffro a gymerodd le trwy ymraniad 1751; ac nid oes genym hanes fod cymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio yma drachefn am lawer o flynyddoedd. Pa fodd bynag, yr oedd yma "ychydig enwau" yn aros yn y tymhor tywyll hwnw, y rhai a ymgynullent mewn undeb ag eraill yn Swydd-ffynon. Ai rhai o honynt bob boreu Sabboth i Langeitho i wrando, a phawb o honynt yno i gymuno bob mīs; ac wedi bod yn Llangeitho y boreu yn gwrando, aent drachefn i Swydd-ffynon y prydnawn.

Yn amser boreuaf pregethu gan y Methodistiaid yn y lle hwn, fe brofwyd gradd o chwerwder erlidigaeth, fel yr ymddengys oddiwrth yr hanesyn canlynol. Pan oedd un Morgan Hughes, yn pregethu mewn tŷ, yn agos i'r fan y mae y capel arno yn awr, daeth yno ryw nifer o ddyhiriaid â phastynau yn

eu dwylaw, gyda bwriad o guro a baeddu y pregethwr, a dyrysu ei amcan. Nid oes wybod pa drychineb a ganlynasai, oni bai i'r pregethwr ddianc o'r tŷ trwy y ffenestr; tynodd hefyd ei *got* oddiam dano, i'r dyben o ddyrysu ei erlynwyr, a methu yn eu gwrthddrych. Yn y wedd yma cafodd egwyl i gyrhaedd Llwyn-y-gog; a diangodd heb niwaid.

Tro arall, pan oedd gŵr yn pregethu yn y tŷ ar gyfer y ffordd i'r Fynachlog, daeth bagad o derfysgwyr i'r lle, wedi ymarfogi â ffyn, ac un Rhys Goch, fel y'i gelwid, mwnwr o sir Fflint, yn flaenor y llu, i faeddu y truan a geisiai wneyd lles iddynt; ond dyryswyd eu hamcan, gan i ŵr cyfrifol ag oedd yn preswylio yn mhalas y Fynachlog, o'r enw Mr. Williams, gael ei gynhyrfu i sefyll yn eu herbyn, a mynu llonyddwch i'r pregethwr. Ymddengys fod Rhys Goch yn fwy blaenllaw gyda y gwaith hwn na neb arall, gan y cawn ei enw drachefn, ar achlysur arall, wedi dyfod i aflonyddu yr addoliad, ac i faeddu y pregethwr, ond iddo fethu eilwaith yn ei amcan, trwy i un Rhys Thomas, o Lwyn-y-gog, waeddi arno gydag awdurdod a grym, nes oedd ef yn delwi o'i flaen, "Gosteg, Rhys Goch:"—a gosteg a gafwyd.

Yn y fl. 1794, adeiladodd un a elwir Martha, o Ddolfawr, gapel bychan, ar ei thraul ei hun, yn y fan y mae tŷ y capel yn awr; gadawyd hwn ganddi yn feddiant arosol i'r cyfundeb, am chwecheiniog yn y flwyddyn. Bellach cedwid cyfarfod eglwysig yn y lle, a chaed gan y Parch. John Williams ddyfod yma i weinyddu swper yr Arglwydd i'r aelodau hen a methedig yn unig; ond ni oddefid i neb arall ddyfod at y bwrdd, gan y dysgwylid i bawb a allai fyned i Langeitho ar Sabboth pen mis. Yn y flwyddyn 1802, adeiladwyd capel drachefn, ac ar ei agoriad darllenai Mr. Williams wasanaeth yr eglwys sefydledig, ac nid hir ar ol cael y capel hwn y buwyd heb gael gweinyddiad o swper yr Arglwydd hefyd yn y lle. Fel prawf o rym a dylanwad arferiad a dygiad i fyny, gallwn grybwyll ffaith yn y lle hwn, ag sydd yn ymddangos i ni bellach yn beth chwith dros ben; sef, fod gwrthwynebiad a gwawd mawr yn cael ei ddangos pan y dechreuwyd bedyddio y troau cyntaf yn y capel! Bedyddio yn y tŷ cwrdd! Codai rhai eu dwylaw mewn syndod, a chwarddai eraill mewn gwawd! Cymerai rhai arnynt fod mor ddoeth ag awgrymu, nad oedd bedydd a weinyddid yn y *fath le* o ddim gwerth, ac ymgroesent rhag dylni trwch y trueiniaid a gyflwynent eu plant i ddynion cyffredin a diurddau i'w bedyddio, a hyny mewn tŷ cwrdd!

## TWRGWYN.

Mae y lle hwn yn un o'r lleoedd hynaf gan y Methodistiaid yn sir Aberteifi. Crybwyllir yn nghofnodau Trefecca am gymdeithas Twrgwyn, yr hon, yn y fl. 1743, a gynwysai naw o aelodau.* Yr oedd gŵr yn byw mewn tŷ yn y gymydogaeth, o'r enw Tanglwst, yr hwn oedd ffafriol iawn i grefydd, a'r hwn a dderbyniai bregethu i'w dŷ yn awr ac eilwaith, pan y gellid ei gael. Symudwyd yn fuan i Twrgwyn, lle mae yr achos yn aros hyd heddyw. Fe

* Gwel tudal. 5.

fu tadau y diwygiad yn arfer pregethu yn y lle hwn, ac hyd heddyw y mae son am ryw bregeth nodedig o'r eiddo Howel Harris. Safai, meddant, yn yr awyr agored, wrth dalcen tŷ yn agos i'r Twrgwyn, a dylynid ei weinidogaeth ar y pryd â'r fath rym, nes oedd y bobl yn syrthio ar y ddaear megys meirw o'i flaen.

Yn y fl. 1749, meddir, yr adeiladwyd y capel cyntaf yn yr ardal hon. Adeiladwyd hwn mewn lle a elwid y Garnedd. Yn y lle hwn yr oedd claddfa i'r meirw yn bod yr amser hwnw, a thybid, gan yr hen bobl, fod capel esgobawl wedi bod yn y lle ryw bryd. Yn y lle hwn, gan hyny, megys ar le *cysegredig*, yr adeiladwyd y tŷ cwrdd cyntaf, a galwyd ef yn ol enw y tyddyn y cynalient y moddion eisoes ynddo, sef Twrgwyn. Y pryd hwn nid oedd yr aelodau, medd yr ysgrif sydd o fy mlaen, ond *chwech* o nifer, ac fe ddywed cofnodau Trefecca, eu bod chwe' blynedd cyn hyn, yn naw o rifedi. Yr oedd yr olwg, gan hyny, ar y cynydd, neu yn hytrach ar y lleihad, yn olwg ddigalon iawn i adeiladu capel. Nid oedd yn mysg y chwech, chwaith, meddir, yr un gŵr i gymeryd y blaen yn eu mysg, ond fe wneid hyny, dros ryw dymhor, gan hen wraig ag oedd y pryd hwnw yn byw yn Penlan-las ;* eto nid hir a fuont heb chwanegu atynt rai dynion a fu o ddefnydd gyda'r achos.

Yn y modd yma yr aeth blynyddoedd lawer heibio, a'r rhai hyny yn cynwys blynyddoedd y diflaniad, yr hwn a ddisgynodd ar Fethodistiaeth y gwledydd trwy yr ymraniad galarus ; ond am y 25 o flynyddoedd hyn, nid oes genym un hanes; ond yn y fl. 1774, symudodd Dafydd Morris, o Ledrod, i'r ardal hon i aneddu, a hyny ar gais y gynulleidfa fechan yn Twrgwyn. Galwyd ef i roddi heibio ei alwedigaeth, ac ymroddi yn llwyr i bregethu, ac i gynal cyfarfodydd eglwysig ar hyd yr wythnos, a chynabyddent ef yn flynyddol am ei lafur. Nid mor ddyeithr i Fethodistiaeth y blynyddoedd hyny oedd galw dynion a ystyrid yn meddu cymhwysderau i ymroddi yn llwyr i waith y weinidogaeth, gan gyfranu yr hyn oedd angenrheidiol at eu cynaliaeth. Y mae y darllenydd, ond odid, yn cofio mai fel hyn y gwneid â'r arolygwyr cyntaf, a drefnwyd yn amser Howel Harris, i gymeryd dosbarth o wlad dan eu gofal. Gwnaed yr un modd â David Williams a John Belcher, pan anfonodd y gymdeithasfa hwy a dau eraill, pob un ei dymhor, i lafurio yn Ngwynedd, ac yn neillduol yn y Bala. Y mae cynaliad y weinidogaeth, ynte, yn bwnc a gydnabyddid gan yr hen Fethodistiaid, yn llawn mwy na chan rai o'u holynwyr yn awr. Fe ddadleua ambell hen ŵr yn erbyn cynaliad dynion i lwyr ymroddi i'r gwaith, am ei fod yn beth newydd yn y cyfundeb, pryd, mewn gwirionedd, mai nid felly yr oedd, ond ei fod yn hytrach yn cael ei addef fel pwnc, ac yn cael gweithredu arno mor aml ag y goddefai amgylchiadau.

* Y wraig hon oedd yn blaenori yr achos yn y lle. Arni hi y disgynai cyhoeddi yr oedfaon dyfodol ; ac yr oedd ganddi ddull priodol iddi ei hunan, meddir, i wneyd hyny. Cyn i'r pregethwr gymeryd ei destyn i bregethu, arferai y wraig hon godi i fyny a gofyn, "A oes neb o honoch yn dywedyd fod hwn a hwn yma yr amser a'r amser ?—A bod y gŵr arall i fod yma y pryd a'r pryd."

Yn fuan ar ol dyfodiad Dafydd Morris i aneddu i'r fro, dylynwyd y weinidogaeth ag effeithiau grymus, nes chwanegu lluaws mawr at yr eglwys; rhoddwyd gwedd siriol ar yr achos; ac er i rai droi yn ol, eto parhaodd llawer o'r dysgyblion yn ffyddlawn hyd y diwedd. Y pryd hwn, sef tua'r fl. 1776, fe godwyd Methodistiaeth i olwg y fro, darostyngwyd gradd helaeth ar ragfarn y trigolion, a chymaint oedd chwanegiad rhif y gwrandawyr, fel y bu raid, yn y fl. 1778, helaethu y capel, am fod yr un o'r blaen yn rhy gyfyng. Gan mai y flwyddyn hon ydyw amseriad yr hen weithred am y capel, gellir barnu na fu dim gweithred gyfreithiol am y tŷ cwrdd cyntaf, yr hwn o bosibl oedd adeilad gwael a diwerth, ond pan yr adeiladwyd tŷ mwy ei faint, a mwy ei werth, yn y fl. 1778, gwelwyd yn oreu ei sicrhau â gweithred gyfreithiol.

Yn y fl. 1784, fe fu adfywiad grymus iawn yn y lle. Torodd allan dan weinidogaeth Dafydd Morris, ar foreu Sabboth, a chyrhaeddodd y gwrandawyr yn gyffredinol, a lluaws mawr o honynt a argyhoeddwyd, ac a ddychwelwyd at Dduw. Parhaodd yr adfywiad hwn am hir amser.

Yn y fl. 1789, daeth y Parch. Ebenezer Morris adref at ei dad. Yr oedd wedi bod oddi cartref dros dymhor yn cadw ysgol yn Mrycheiniog, lle y dygwyd ef i wybodaeth y gwirionedd, a'r lle hefyd y dechreuodd bregethu. Nid oedd ond ugain oed pan ddychwelodd at ei dad i Twrgwyn, ond yr oedd wedi bod flwyddyn yn pregethu eisoes. Bu farw ei dad Dafydd Morris, yn mhen dwy flynedd ar ol ei ddychweliad adref o Dref-castell, yn 47 ml. oed; a mawr iawn oedd y galar ar ei ol gan yr eglwys a chan y wlad yn gyffredinol, oblegid yr oedd ei weinidogaeth wedi tynu sylw yr holl wlad oddiamgylch, a'r preswylwyr a ddeuent yn lluoedd i wrando arno.*

O'r fl. 1792 hyd y fl. 1832, fe gafodd y lle hwn, fel yr ymddengys, amrywiol ymweliadau adfywiol, nid llai na saith o weithiau. Sonir am un oedfa neillduol gan y Parch. W. Davies, Cynwil, ar y geiriau, "Ynot ti y caiff yr ymddifaid drugaredd," fel un dra effeithiol, ac un a fu yn foddion i chwanegu llawer at y gynulleidfa, y rhai, gan mwyaf, a fu yn ffyddlawn hyd y diwedd. Cafwyd amryw adfywiadau ar ol dechreuad y ganrif hon. Sonir yn neillduol am bregeth o eiddo y Parch. John Elias yn nghymdeithasfa Aberteifi, yn y fl. 1819, fel un a fendithiwyd i lawer o bobl yr ardal hon; a phrofwyd drachefn gyffelyb ymweliad yn Twrgwyn, pan ydoedd y Parch. D. Jones, Llanllechid, yn pregethu. Yr olaf hon a gafwyd oedd yn y fl. 1832.

Yn y fl. 1800 y dechreuwyd yr ysgol Sabbothol yn y lle hwn. Yn y fl. 1816, adeiladwyd y capel o newydd; a gwnaed hyny drachefn yn y fl. 1846.

### CAPEL WAUNIFOR.

Mae cyfodiad y capel hwn, a Chapel y Drindod, am yr hwn y sonir eto, yn wahanol i'r cyffredin o gapelau y Methodistiaid, yn gymaint ddarfod eu hadeiladu gan deuluoedd boneddig ar eu traul eu hunain, a'u cyflwyno wedi hyny i'r cyfundeb. Nid llawer o gapelau o'r fath a geir yn y dywysogaeth, o leiaf gan y Methodistiaid. Codwyd y rhan fwyaf o lawer gan y *lluaws*

* Gweler mwy o hanes y gwŷr hyn yn mlaen.

*llodion,* ond y rhai hyn gan yr *ychydig cyfoethog.* Codwyd capel Waunifor gan y diweddar Thomas Bowen, Ysw., o Waunifor, yn y fl. 1760, o fewn ychydig i'w balas. Yr oedd Mr. a Mrs. Bowen yn hoffi yr efengyl yn fawr, ac, yn ddiamheuol, yn wrthddrychau ei hymgeledd. Heblaw codi y capel ar eu traul eu hunain, lletyent hefyd yr holl bregethwyr a weinyddent ynddo, a chyfranent yn haelionus tuag at draul yr achos yn ei holl ranau.

Ar ol eu marwolaeth hwy, fe fu eu merch, Miss Bowen, yn swcr da i'r achos am flynyddoedd lawer. Yr oedd brawd iddi yn offeiriad yn eglwys Loegr, eto ar ol marwolaeth ei chwaer, dangosai yntau garedigrwydd i bregethwyr y Methodistiaid a ddeuent i wasanaethu i Waunifor bob Sabboth, er na fyddai ef ei hun yn ymgymysgu dim â'r cyfundeb.

Gadawyd yr hawl i'r capel hwn i'r Methodistiaid Calfinaidd dros byth, yn ewyllys Mr. Bowen, yn yr hon ewyllys y gosodwyd fod Mrs. Bowen i gadw y capel mewn cywair da, tra byddai hi byw. Profwyd yr ewyllys hon yn y llys priodol yn Nghaerfyrddin yn y fl. 1806, gan y weddw, yr hon a adawyd yn unig *Executrix* i'r llythyr cymun. Drwg gan yr ysgrifenydd nad yw ei ddefnyddiau yn caniatâu iddo roddi helaethach hanes am y teulu gwir grefyddol hwn.

## SWYDD-FFYNNON.

Yr oedd cymdeithas fechan yn y fro hon, sef Pen-lan, fel y gwelsom yn adroddiad Mr. W. Williams, er dyddiau Howel Harris; ond y mae hanes Methodistiaeth yn y gymydogaeth hon, fel llawer o fanau eraill, yn gorwedd mewn llawer o dywyllwch ac ansicrwydd dros lawer blwyddyn oddeutu yr ymraniad. Mae yn hysbys, pa fodd bynag, fod pregethu achlysurol yn y fro yn fuan ar ol i'r adfywiad gychwyn yn Llangeitho; oblegid yr oedd yma bregethwr yn byw gerllaw, o'r enw Dafydd William, Ystradmeurig. Yr oedd y pregethu, yn yr amser bore hwnw, mewn lle a elwid y Capel-croes; adeilad ydoedd wedi ei godi ar dir Tŷ-mawr, yn ymyl y groes-ffordd. Yn y fl. 1781 y derbyniwyd y Parch. John Williams, Lledrod, fel yr adwaenid ef oreu, i gymdeithas y Methodistiaid yn y lle hwn, yr hwn a lafuriodd yn ffyddlawn dros lawer o flynyddoedd yn y cyfundeb, ac am yr hwn y bydd yn dda genym eto allu rhoddi mwy o hanes gerbron y darllenydd, yn enwedig gan ei fod yn un o'r offeiriaid hyny a ddangosodd leiaf o ymlyniad sectaidd wrth yr eglwys wladol yn adeg yr ordeiniad, a chwedi hyny, fel y soniasom eisoes.

## PENNANT.

Cychwynodd Methodistiaeth yn fore yn yr ardal hon. Sicrheir gan yr hen bobl ei fod wedi dechreu yn y fl. 1738. Fe fu Mri. Rowlands a Harris yn arfer dyfod yma yn gynar ar yr adfywiad. Dechreuwyd pregethu mewn tŷ ardrethol agos i'r lle y mae y capel presenol arno. Pregethid yn y tŷ hwnw gan un Mr. Pugh, Blaen-penal, ac hefyd gan gynghorwr ag ydoedd yn byw yn y lle, o'r enw Morgan Evan Hugh. Ni fu yma ddim amgylchiadau blinion o erlidigaeth o'r dechreuad; ond yn y gwrthwyneb, fe brofwyd yma

llawer adfywiad grymus, a chaed profion lluosog a nerthol o allu gras Duw yn bendithio y weinidogaeth, a moddion eraill o ras, er dychwelyd llawer o bechaduriaid o gyfeiliorni eu ffordd ato ef ei hun.

ABERTEIFI.

Fe fu gweinidogaeth Whitfield a Howel Harris yn foddion i ddeffroi meddyliau rhai dynion yn y dref a'r gymydogaeth hon mewn amser lled foreu ar Fethodistiaeth; oblegid yr ydym yn cael fod rhan o dŷ anedd yn pentre Aberteifi wedi cael ei neillduo i bregethu ynddo, mor foreu a'r fl. 1740. Yr oedd y tŷ hwn yn sefyll yn y fan y mae y tŷ capel arno yn awr, a'r wraig oedd yn byw ynddo oedd un Rachel Evan. Nid oedd un capel ar y pryd gan un enwad ymneillduol. Y tŷ anedd hwn oedd yr unig le y byddai pregethu heblaw yn llan y plwyf; ac nid y Methodistiaid yn unig a bregethai ynddo, ond enwadau eraill hefyd, yn enwedig y Bedyddwyr. I'r dyben i ddiogelu y lle a llonyddwch i'r cyfarfodydd crefyddol a gynelid ynddo, cofrestrwyd ef yn ol y gyfraith, fel lle ymneillduol i addoli. Yr oedd yn haws cael hyn o amgylch, tybygid, oddiar fod enwadau eraill yn cyd-gynal moddion ynddo. Heb hyny, nid hawdd a fuasai gan y Methodistiaid, yn y tymhor hwnw, ymofyn am nodded y gyfraith drostynt ar dir ymneillduaeth, gan nad oeddynt yn ystyried eu bod eto yn sefyll ar y tir hwnw; ac nid oedd y gyfraith yn canfod angenrheidrwydd am roi amddiffyn i neb arall. Cofrestrwyd y tŷ hwn, pa fodd bynag, yn ol cyfraith y Goddefiad. Y rhai a lafurient yn fwyaf cyson yma oeddynt John Harris, Benjamin Thomas, a Dafydd George, o sir Benfro. Y gwŷr hyn a ddeuent atynt yn fisol, i bregethu ac i gynal moddion eglwysig, a hyfryd fyddai gan yr hen bobl son am yr oedfaon llewyrchus a fwynhasent yn y tŷ cyntaf hwn. Yr oedd gŵr hefyd yn byw o fewn pum' milldir i'r dref, o'r enw Mr. Williams, yr hwn oedd weinidog ar eglwys i'r Bedyddwyr; dywedir i'r gŵr da hwn fod yn swcr da i'r ychydig ddysgyblion tlodion a ymgynullent yn nghyd y pryd hwnw, trwy ddyfod atynt yn fynych i'w cyfarfodydd eglwysig. Mynych gwna yr hen bobl grybwylliad parchus am enw y gŵr hwn, fel un y cawsent hyfforddiant ac ymgeledd trwy ei addysgiant yn eu plith.

Yn y fl. 1760 yr adeiladwyd y capel cyntaf yn y dref, dan yr enw Tabernacl, enw a roddid ar gapelau Whitfield ymron yn mhob man. Nid oedd achos y Methodistiaid y pryd hyn ond gwan ac isel. Ychydig o rif, a thlodion o sefyllfa, oedd yr aelodau. Ond hwy gawsant gyfnerthiad cyn hir trwy ddyfodiaid a ddaethant yma i fyw o ardaloedd cymydogaethol. Daeth un Cadben Rogers a'i wraig yma o Aberdyfi, y rhai a fuont o fawr wasanaeth i'r achos yn ei wendid. Yr oedd Mrs. Rogers yn rhagori mewn duwioldeb, a bu ffyddlawn dros ben yn gwasanaethu ei chenedlaeth yn ei thymhor, a pharhaodd felly hyd ddiwedd ei hoes. Y pryd hyn yr oedd y cynghorwyr yn amlhau, a'r moddion crefyddol yn chwanegu. Ymddangosai sirioldeb cynyddol ar y gynulleidfa fechan. Ymunodd amryw o wragedd parchus eraill â'r gymdeithas,

y rhai y coffeir eu henwau hyd heddyw gyda llawer o barch, a'r rhai a lywodraethid gan raddau helaeth o gariad at deyrnas y Cyfryngwr.

Yn y tymhor hwn hefyd, fe ddaeth offeiriad efengylaidd o Forganwg, o'r enw Mr. Jones, i fyw i Landudoch, pentref o fewn milldir i dref Aberteifi. Priododd y gŵr yma ferch grefyddol yn y gymydogaeth, a bu y ddau yn garedig a gwasanaethgar i'r achos Methodistaidd am dymhor hir ar y cyntaf. Fe ddeuai y gŵr parchedig yn fynych i'r cyfarfodydd eglwysig, a pharod ydoedd ef a'i briod i ddangos pob lletygarwch i'r dyeithriaid a ddeuent i bregethu o bryd i bryd i'r dref. Cynelid y moddion y pryd hwnw yn Aberteifi yn y dydd, a'r gynulleidfa a âi yn yr hwyr i Landudoch i wrando Mr. Jones. I Landudoch yr âi llawer o'r aelodau i gymuno, ond rhai o honynt a aent mor bell a Llangeitho, i'r dyben hwnw, ar Sul y cymundeb. Cychwynent boreu ddydd Sadwrn, a dychwelent yn llawen eu gwala nos Sabboth i'w cartrefi, o leiaf ddeng milldir ar hugain o ffordd.

Rhyw dymhor ar ol hyn, byddid yn arfer myned i'r Capel Newydd yn nghŵr sir Benfro, i'r un dyben, ar Sul y cymundeb, gan yr arferid gweinyddu swper yr Arglwydd yn y capel hwn er dyddiau y Parch. Howel Davies, yn nyddiau a than olygiad yr hwn yr adeiladasid ef.

Gwedi hir ddysgwyl, cafwyd gweinyddiad yr ordinhadau arwyddol yn Aberteifi ei hun, ond fe fu hyn yn ddechreuad oerfelgarwch, ac yn y diwedd yn llwyr ymadawiad, rhwng y cyfeillion crefyddol â Llandudoch. Yn y fl. 1811, pan y bu urddo ar weinidogion gan y Methodistiaid eu hunain, fe ymadawodd yn y lle hwn rai oddiwrthynt, tua 22 o rifedi, ac a aethant, rai at eglwys y plwyf yn y dref, ac eraill i Landudoch. Amser blinder a fu hwn dros ryw dymhor, ond fe chwythodd y dymhestl heibio, a bu tawelwch mawr yn ol llaw.

Ni phrofwyd yma nemawr o erlidigaeth, heblaw mesur helaeth o wawd a dirmyg, fel yn mhob man arall ar y dechreuad. Yr oeddid yn ofni y buasai y dref a'r gymydogaeth yn sefyll yn erbyn cynaliad y gymdeithasfa gyntaf yn y lle. Ar ddiwrnod y cyfarfod, yr oedd y gwrthwynebwyr wedi ymgasglu, ac yn penderfynu attal y pregethu, a gwasgaru y bobl, ond arosent i Farchog y dref, Syr Herbert Lloyd, Ffynnon-bedr, ddyfod i'r dref yn gyntaf. Y gŵr boneddig a ddaeth yn ol y dysgwyliad am dano, ond er mawr syndod a chywilydd i'r gwrthwynebwyr, fe roes ei wyneb i'r cyfarfod, ac nid ei ŵg; parodd i'r gwrthwynebwyr ymwasgaru, ac nid y gynulleidfa; ac efe ei hun a ddaeth i'r cyfarfod, a chyfarfod ardderchog ydoedd. Ni fu dim gwrthwynebiad o bwys byth wedi hyny.

Mae son mawr am y gymdeithasfa a gynaliwyd yma yn y fl. 1796, pryd y pregethodd Robert Roberts, Clynog, Ismael Jones, Mr. Lloyd, Henllan, ac eraill. Y cyfryw oedd yr ardderchogrwydd y gwisgwyd y pregethwyr ag ef, a'r cyfryw ydoedd yr arddeliad ar y gwirionedd, ag a gododd grefydd yn gyffredinol, a Methodistiaeth yn neillduol, yn uwch yn syniadau y bobl, heblaw y llesâd tragwyddol a brofodd eneidiau lawer. Caed aml gymdeithasfa lewyrchus ar ol hon, a thrwyddynt oll, mewn undeb â moddion eraill, y

mae teyrnas y Cyfryngwr, yr hon nid yw o'r byd hwn, wedi cyrhaedd graddau helaeth o uchafiaeth a bri yn y dref hon.

### CAPEL RHIWBWYS, LLANRHYSTYD.

Mae y lle hwn yn un o'r llefydd hynaf yn perthyn i'r Methodistiaid yn y wlad hon. Nid oes sicrwydd manwl am yr amser y dechreuwyd pregethu yma, ond fod hyny wedi cymeryd lle yn fuan ar ol toriad y wawr adfywiol yn Llangeitho. Nid oedd y pellder oddiyma i Langeitho ond bychan, tuag wyth milldir o ffordd, a hawdd y gallwn ddirnad fod gweinidogaeth Rowlands wedi effeithio i ryw raddau, mwy neu lai, yn lled gynar ar y lle hwn; naill ai trwy i Rowlands ddyfod at y trigolion, neu trwy iddynt hwy fyned ato ef, neu yn wir, pob un o'r ddau. Cadarnheir y dyb hon gan draddodiad yr henafiaid, y rhai a ddywedent y byddai yr hen bobl yn arfer myned i Langeitho bob Sabboth erbyn yr oedfa 10 o'r gloch y boreu. Yr un modd hefyd y gwneid mewn llawer ardal o amgylch Llangeitho. Ni chedwid dim moddion cyhoeddus ar foreu Sabboth o fewn rhyw gylch, er mwyn rhoddi mantais i bob ardal a fyddai o fewn pellder cyfleus, i fyned i wrando Rowlands. Ond ar ol oedfa y boreu yno, chwalai y pregethwyr, a lluaws o'r gwrandawyr, bawb i'w lle, yn llawn o wres a grym i wneyd a allent dros Dduw.

Y lle yr ymgynullai yr ychydig gyfeillion crefyddol * a breswylient y fro hon, ar y cyntaf, oedd amaethdy bychan, o'r enw Trefeglawdd, oddeutu tair neu bedair milldir o Lanrhystyd. Yr oedd yn eu plith rai a fyddai yn arfer cynghori ychydig, sef Dafydd William, Pen-y-graig, Dafydd Richard, Wernfach, ac un Siôn Jeremiah. Yr oedd Dafydd Richard yn cael y gair o fod yn bregethwr cymeradwy. Yr oedd hefyd yn eu plith un hen ŵr arall a deimlai gynhyrfiadau i gynghori yn achlysurol, o'r enw Robert Siôn. Perchid y gŵr hwn fel Cristion gloyw a phrofiadol, yn fwy nag fel pregethwr. Ac un rheswm dros hyny oedd, y byddai ei bregeth yn para yn bur hir, nes y byddai amynedd ei wrandawyr wedi lled ddiffygio. Lloffa y byddai lawer iawn yn amgylchiadau ei destyn; ac er y cymerai efe destyn fel rhyw bregethwr arall, yr oedd yn dygwydd yn wastad y byddai yn hir iawn cyn dyfod ato, ac wedi treulio dwy awr yn fynych yn ymlwybro tuag ato, efe a roddai ben ar ei gynghorion, mewn cyfarchiad tebyg i hyn, "Wel, gyfeillion bach, rhaid i mi, mae'n debyg geni', roi i fyny; y mae geni' ragor i'w ddywedyd, oni bai fy mod yn eich gwel'd chwi yn pendrymu." Un o *Four Crosses*, sir Gaernarfon, y dywedir ei fod o enedigaeth a dygiad i fyny; dyfod a wnaeth i'r ardal hon er mwyn manteision crefyddol. Byddai yn arfer dyfod o'i wlad i Langeitho yn awr ac eilwaith erbyn y "Sabboth mawr;" ac wrth weled lle i gael ei damaid yn y fro hon, a manteision crefyddol hefyd, efe a ymsefydlodd yn y gymydogaeth, gan ennill parch diffuant i'w gymeriad fel dyn cywir a duwiol.

* Mae enwau rhai o honynt ar gael eto, sef William Siôn, Tŷ-hen, taid i'r blaenoriaid presenol, Mri. David ac Evan Evans;—Dafydd William, Simon Dafydd, Tŷ'n-y-beili;—Thomas Morgan, Penfor;—Daniel Lewis, Mabusen, a William Evans, Rhydlas.

Yn wyneb prinder moddion gras, a'r gwrthwynebiad a brofai llawer un oddiwrth berthynasau, neu uwchafiaid dyeithr i grefydd, i fwynhau y moddion a fyddai ar gael, fe geir llawer o enghreifftiau tra hynod, yn mysg yr hen bobl, o'u hawyddfryd a'u hymroddiad i ddefnyddio pob cyfle o fewn eu cyrhaedd i ymofyn llesâd ac ymborth ysbrydol i'w heneidiau. Sonir am hen wraig o'r fath hyn yn yr ardal hon. Yr oedd yr hen ŵr yn gwbl ddyeithr i grefydd, ac yn lled wrthwynebol iddi, o leiaf yr oedd yn ffyrnig yn erbyn fod dim a wnelai yr hen wraig â hi. Yr oedd hithau, o'r ochr arall, gymaint ei syched am y moddion, ag oedd yr hen ŵr o wrthwynebol iddynt. Y ddyfais a ddefnyddiai yr hen wraig i ochel anghysur yn y teulu, fyddai perswadio yr hen ŵr i fyned i'w wely; cymerai hithau arni fyned i fwrw golwg ar y "dâ;" ac yn y beudy yr ymdrwsiai ronyn cyn cychwyn i'r cyfarfod eglwysig, ac yno eilwaith, ar ei dychweliad, yr ymwisgai yn yr hen ddiwyg drachefn.

Nid oes gwybodaeth pa faint o amser y bu yr achos yn Trefeglawdd; ond fe'i symudwyd, wedi rhyw dymhor, i Pen-y-graig, i dŷ Dafydd William. Fe fyddai pregeth a chyfarfod eglwysig yno bob dydd Mawrth am 12 o'r gloch. Byddai pregeth yn achlysurol yn Rhydlas, yn nhŷ William Evan, ac yn fuan dechreuwyd pregethu yn mhentref Llanrhystyd, am dri o'r gloch y Sabbothau, ar ol dychwelyd o Langeitho o'r oedfa y boreu.

Pan beidia erlidigaeth yn ei ymgyrchion gormesol, dyna yr amser peryglaf i lygredigaeth ddyfod i mewn. Ymddangosodd hyn i raddau yn cyfodi ei wyneb hagr yn yr ardal hon, yn enwedig yn mysg ieuenctyd, y rhai a gymerent achles oddiwrth gyfarfodydd crefyddol, bellach, wedi colli yr hen gyfarfodydd gwarthus, i gwrdd â'u gilydd, ac i ymlygru y naill yn nghwmni y llall. Eithr yn drugarog, yr Arglwydd a wrandawodd gri ei bobl, ac a ddygodd adfywiad siriol ar yr achos, yr hwn a dorodd rym yr annuwioldeb a flagurai yn yr ardal. Parodd osod yn y weinidogaeth rym anorchfygol, a chipiodd rai o flaenoriaid y llygredigaeth fel pentewynion o'r tân, ac a'u gwnaeth yn glodfawr ac yn enwog yn holl dir eu gwarth. Aeth y tŷ cwrdd yn Mhen-y-graig yn rhy gyfyng i'r gynulleidfa, a rhaid oedd meddwl am le helaethach; ac wedi peth dadl am y lle, cytunwyd am ei gael rhwng y pentref a'r bryniau, tua hanner milldir o'r pentref ar y ffordd i Lanbedr, a galwyd ef yn Gapel Rhiwbwys, yn ol y rhiw y mae yn sefyll arno. Yr oedd Methodistiaeth, bellach, yn ymwreiddio yn y fro, a dangoswyd llawer o barodrwydd i gyfranu a gwasanaethu yn mhob dull tuag at adeiladu y tŷ cwrdd. Ymddangosodd gradd o anfoddlonrwydd ar y dechreu oddiwrth berson y plwyf, ond diflanodd y gwrthwynebiad hwn yn fuan, trwy i foneddwr a heddynad yn yr ardal gynghori yr offeiriad er dim, i adael y Methodistiaid yn llonydd; "Dynion rhyfedd ydynt," ebe fe, "hwy a'ch gweddiant chwi o'r byd." Ymddengys yn y canlyniad ddarfod i'w ymadroddion effeithio ar y gŵr urddasol, gan iddo fod yn bleidiol iawn o hyny allan i'r bobl a wrthwynebid ganddo gynt.

Gorphenwyd yr adeilad yn y fl. 1781, a daeth yr "hen apostol" o Langeitho i bregethu ar ei agoriad. Yn mhen pump neu chwe' blynedd ar ol hyn, ymwelodd cyffroad crefyddol â'r ardal drachefn, a cheid aml un y pryd

hwnw yn moliannu ar hyd y nos. Drachefn, fe adfeiliodd yr achos, a syrthiodd i iselder mawr; ond yn nyfnder yr iselder hwn, torodd diwygiad grymus drachefn, ac ennillwyd amrywiol o wŷr da, cadarn, a nerthol, at y gwaith, ac yn eu plith yr oedd y Parch. Evan Rees, yr hwn a fu am flynyddau yn bregethwr cymeradwy a defnyddiol iawn, ac a barhaodd felly hyd ei farwolaeth yn y fl. 1834.

CAPEL SOAR, PLWYF LLANDDEWI-BREFI.

Nid yn aml y ceir tŷ addoliad mewn sefyllfa o'r fath ag y mae y capel uchod ynddo. Prin y gallwn dybied fod cymaint ag un cyffelyb iddo mewn bodolaeth. Cydgyferfydd siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, a Brycheiniog, mewn mynyddoedd hirfaith ac oerion, y rhai a gyfansoddant un o'r rhanau mwyaf mynyddig, os nad y mwyaf oll, yn Nghymru. Yn y man culaf arno, y mae y mynydd hwn, pa un a elwir *Mynydd Dewi*, yn 13 o filldiroedd ar ei draws, ond yn llawer iawn mwy na hyny ar ei hyd. At y lle yma y cyfeiria bardd Pant-y-celyn yn ei farwnad i'r Parch. D. Rowlands, pan ddywed,—

Daeth y swn dros fryniau Dewi,
Megys fflam yn llosgi llîn,
Nes dadseinio creigydd Tywi,
A hen gapel Ystradffin.

Yn ngheseiliau ac ar lechweddau y mynydd hirfaith hwn, gwelir ambell amaethdy. Ni chenfydd y llygad ond y naill fryn y tuhwnt ac uwchben y llall ymron yn ddiderfyn. Braidd y cyfarfyddir â'r ddraenen gwta yn yr holl eang randir. Ni ddarnodir y tir gan gloddiau na gwrychoedd, ac ni lonir y llygad gan goedwigoedd cysgodol. Nid oes gymaint a phentref bychan i'w gael, heb gymeryd taith bell i'w chwilio. Twrf y rhaiadrau gorwyllt, a brefiadau y defaid, ydynt ymron yr unig seiniau sydd yn achlysurol dori pruddaidd ddystawrwydd yr awel. Eto, ar ochrau y bryniau tawel a digynhwrf hyn, canfyddir ambell aneddle lonydd, ac fe'ch cyferchir gan ambell breswylydd gwledig; ond y mae y tai yn anaml iawn, ac yn mhell oddiwrth eu gilydd. Mae oddeutu milldir rhwng y rhai agosaf â'u gilydd; felly, y mae y gymdeithas yn brin rhwng y preswylwyr â'u gilydd. Anhawdd dychymygu am le mwy annhebygol i gasglu cynulleidfa o ddynion at eu gilydd, a mwy diobaith i sefydlu achos crefyddol ynddo; ac eto, yn yr hen anialdir mynyddig hwn y ceir capel Soar. Mae naw neu ddeg milldir, meddir, rhyngddo â Thregaron, a'r un faint rhyngddo a Llanddewi ar y naill law, ac â Llanwrtyd ar y llaw arall, y pentrefi a gyfrifir agosaf ato. O fewn chwe milldir i'r deau o Soar, saif hen gapel Ystradffin, at yr hwn y cyfeiria y pennill uchod. Arferai Rowlands fyned yn fynych i'r hen gapel hwn, a thros fryniau Dewi y byddai yn myned. Yn nghymydogaeth y capel hwn y mae creigiau Towy. Mae syndod yn dal y meddwl fod achos yn y fath le a Soar, ac yn enwedig gan y Methodistiaid, gan fod newid y pregethwr mor arferol yn eu mysg hwy, a'i newid ar yr un pryd mor anhawdd. Er hyn oll, y mae yn y lle hwn gynulleidfa, a hyny yn perthyn i'r Methodistiaid. Fe'i gwneir i fyny o breswylwyr conglau y mynyddau. Mae gan rai o honynt o

dair i wyth milldir o ffordd i ddyfod i addoli, ac i ymofyn am ymgeledd ysbrydol, ac nid oes ond ryw ddau deulu mor agos a milldir i'r lle.

Y mae gan bob gwlad ryw ddull o bechu arbenig iddi ei hun. Nid llawer o ymarfer â'r bêl droed a fu un amser ar y mynyddoedd hyn, oddigerth y dangosid rhyw duedd i ddynwared hyny ar ddydd Nadolig. Ymgadwai y trigolion yn lled glir oddiwrth feddwdod hefyd, hyd nes y dygwyddai angenrheidrwydd i hebrwng y marw i Landdewi-brefi i'w gladdu. Hwy a fyddent yn lled sicr o dalu yn ddau-ddyblyg y pryd hyny am yr hir ddirwest blaenorol; ac nid oedd ystyriaeth o'r ffordd faith rhyngddynt a chartref yn ddigon i attal eu blys ar yr achlysuron hyn. Ond y pechod a osodid yn benaf yn eu herbyn cyn i'r efengyl osod ei gwersyllfa yn eu plith, oedd halogiad y Sabboth. Nid oedd yma y cyfleusderau i bechu, na'r hudoliaethau i ddrygioni, ag a geir mewn gwlad boblogaidd, neu drefydd mawrion; eto, yn y peth yr oedd ymosod arnynt, nid oedd diffyg prawf i'w gael o lygredigaeth y natur ddynol yn y lle hwn hefyd. Prif orchwyl y broydd hyn, fel y gellid dyfalu, ydyw bugeilio defaid. Mae crwydriadau y rhai hyn yn peri cryn lawer o flinder. Felly, yn ddiau, yr oedd gan mlynedd yn ol; a phan âi rhai o honynt ar ddisberod, boed hyny y dydd a ddygwyddai o'r wythnos, nid oedd neb yn meddwl ymsymud cam ar ol y grwydredig hyd y Sabboth. Y diwrnod hwnw, codent yn blygeiniol at y gorchwyl hwn. Ymwasgarent, un y ffordd hyn, ac arall y ffordd draw, a dygent adref yn yr hwyr, os llwyddent yn eu cais, gynifer ag a allent ar gefn yr anifeiliaid.

Ond y mae gwedd pethau yn y mynyddau hyn wedi newid er ys maith amser. Pan ddaeth goleuni dadguddiad i dywynu ar y gydwybod, nid oedd nerth ynddynt mwyach i ddal yr arferiad didduw yma i fyny yn hwy. Y cyntaf a bregethodd yma, fel mewn lluaws o fanau eraill yn y De a'r Gogledd, ydoedd Howel Harris, a hyny mor foreu a'r fl. 1740. Y lle yn mha un y pregethodd ydoedd dyddyn o'r enw Rhiwhalog, o fewn milldir i'r Soar sydd yn awr. Yr oedd rhai o'r preswylwyr eisoes wedi clywed Mr. Rowlands yn pregethu yn Ystradffin. Yr oedd y son ag oedd am dano, a'r clod a roddid iddo, wedi sugno rhai o drigolion y bryniau anhygyrch hyn i wrando arno. Eto Howel Harris a ddaethai yma gyntaf o neb. Galwyd gwraig Rhiwhalog trwy ei weinidogaeth, a gwnaed cryn argraff ar feddwl y gŵr; cymaint felly ag a barodd iddo brynu Beibl, yr hyn oedd yn gryn beth, gan ddruted ydoedd y Beiblau y pryd hyny.

Fe fu Mr. Harris yma rai gweithiau ar ei ffordd i sir Aberteifi, a bu ei ymweliadau yn foddion i ddeffro amryw o'u diofalwch, ond ni ddechreuwyd cadw cymdeithas eglwysig hyd 1747; felly fe fu yma bregethu achlysurol, o leiaf tua saith mlynedd cyn bod yma un gymdeithas eglwysig wedi ei threfnu; a phan ddaeth yr amser i hyny, daeth Mr. Williams, bardd Pant-y-celyn, yma yn unswydd i'r dyben hyny. Cafodd ei chynal flynyddoedd yn y tŷ y cadwyd y cyfarfod cyntaf ynddo, sef yn y Cwmdu, ynghyd â thyddyn arall o'r enw Bron-yr-helem. Arferid pregethu mewn amryw leoedd eraill ar y mynydd, hyd oni chodwyd y capel yn y fl. 1822. Nid yn fynych y mae

amgylchiad o'r fath yma chwaith, sef fod pregethu mewn ardal, o dŷ i dŷ, am fwy na 80 o flynyddoedd, heb fod yr ymgais wedi ei roddi i fyny, neu wedi esgor ar gael tŷ i addoli ynddo. Ac y mae hyn yn fwy syn, gan y cawn fod yr Arglwydd wedi gweled yn dda roddi arwyddion amlwg, yn enwedig ar rai tymhorau, o'i foddlonrwydd i'r ymgais, ac wedi coroni y llafur â llawer o fendith.

Yr ymweliad cyntaf a fu yma, mewn ffordd o adfywiad grymus, oedd yn y fl. 1779. Yr oedd eglwys wedi ei ffurfio bellach er ys 32 o flynyddau, ond nid oedd yr eglwys ar y pryd ond bechan ei nifer, er fod cryn lawer yn arfer gwrando. Dechreuodd y diwygiad yn mis Ebrill, 1779. Yr oedd gŵr a elwid y pryd hyny, Jack Edward Watkin, o Landdewi, yn pregethu yma ar brydnawn Sabboth. Bernid y pregethwr yn hen ŵr da o ran ei grefydd, eto cynghorwr lled ganolig o ran ei ddawn ydoedd. Yr oedd yr eglwys fel pe buasai wedi dechreu ymysgwyd ychydig o'i chwsg eisoes; ond ar y prydnawn Sabboth crybwylledig, torodd y gynulleidfa allan i lefain ac i waeddi mewn modd anarferol, y rhai crefyddol a digrefydd ynghyd, ac yn eu mysg dau o feibion y tŷ, a pharhausant i waeddi a moliannu hyd doriad y wawr ddydd Llun. Clybu Mr. Rowlands am y cyffro, ac o wir lawenydd am dano, anfonodd ei gyhoeddiad yn ebrwydd i fyned yno, a bu yn rhyfeddach yno y Sabboth hwn na'r un o'r blaen. "Tân grug yw hwn," ebe Mr. Rowlands, oblegid iddo ddechreu ar y mynydd, "a pheth i fyned yn ei flaen ydyw hefyd," ebe fe; ac yn ei flaen yr aeth. Cyrhaeddodd yr adfywiad a ddechreuasid fel hyn yn y mynyddoedd hyn, i lawer o barthau De a Gogledd cyn pen tair blynedd, a pharhaodd yn y lle y dechreuodd, heb lwyr ddiffodd, am bedair blynedd. Daeth llawer i'r eglwys yn yr adfywiad hwn, y rhai a fuont yn ddynion tra defnyddiol dros eu holl oes.

Ni fu un adfywiad neillduol yn yr ardal hon ar ol hyn am 33 o flynyddoedd, sef hyd y fl. 1812. Torodd y gynulleidfa allan fel o'r blaen, ond nid mewn ffordd o ddynwared yr un o'r blaen, gan fod yr adfywiad cyntaf ymron wedi ei anghofio mewn ysbaid mor faith o ddystawrwydd. Yn yr adfywiad hwn hefyd, fe chwanegwyd llawer at aelodau yr eglwys, rhai o ba rai a arosant hyd heddyw. Nid oedd y cyffro hwn agos mor rymus a'r un o'i flaen, ac nid oedd megys ond rhag-redegydd i'r un a'i dylynodd yn 1819. Ystyrid hwn y grymusaf o'r cwbl, a pharodd chwanegiad mawr at yr eglwys. Dechreuodd mewn amaethdy o'r enw Nantllwyd, gerllaw y lle y mae y capel yn awr, ar gyfarfod gweddio, a'r un modd y bu mewn lle arall y prydnawn. Parhaodd hwn yn lled nerthol am ysbaid dwy flynedd.

Ond er i chwanegiadau lawer gael eu gwneyd, o bryd i bryd, yn y modd a enwyd, eto nid oes yn y mynyddoedd hyn achles i niferi mawr artrefu; ond y mae y preswylwyr, yr un modd a'r defaid a'r dyniewaid, yn cael eu magu i barthau eraill o'r byd. Felly y mae symudiadau, rhai i'r bedd, a rhai i froydd eraill mwy neu lai pellenig, yn cadw preswylwyr y mynyddoedd hyn yn ychydig o rif, o genedlaeth i genedlaeth. Gan hyny, nid yw yr eglwys yma eto nemawr fwy na 40 o aelodau; yr ysgol Sabbothol yn 70; a nifer y

gwrandawyr oddeutu 100. Mae llawer o lafur a ffyddlondeb wedi ei ddangos gan rai gwŷr yn neillduol, a'u teuluoedd; ac yn eu plith y mae enw Mr. William Davies yn deilwng o'i goffâu, oblegid mai yn ei dŷ ef y cynaliwyd y gymdeithas eglwysig gyntaf, ac am iddo barhau yn hir i olygu yr achos crefyddol yn y lle, nid llai na 55 o flynyddoedd, ac yr oedd ef a'i wraig yn mysg y rhai cyntaf yn y lle a alwyd trwy yr efengyl. Fe fydd llawer mwy o sylw yn y farn ar yr hyn a wnaeth Cristionogion o'r fath yma, nag a fydd ar holl ymgyrchion gorchestol Alexander Fawr.

---

# PENNOD IV.

## PARHAD O HANES EGLWYSI BOREAF Y SIR.

CYNWYSIAD:

TREGARON—ABERFFRWD—CWMYSTWYTH—CYNON—PONTERWYD—LLWYNRHYS A LLWYNPIOD—FFOSFFIN AC ABERMEIRIG—Y PARCH. THOMAS GRAY—BLAENPENAL—TALIESIN, THRE'R-DDOL, A LLANILAR.

### TREGARON.

Dechreuwyd pregethu yn yr ardal hon yn fore ar y diwygiad. Y lle y dywedir i bregethu ddechreu gan y Methodistiaid yma oedd, mewn lle a elwir Nant-y-lles, ond nid hir y mae yn ymddangos yr arosodd yma cyn ei symud i Dan-yr-allt. Yr ydym eisoes wedi gweled yn adroddiad y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, i'r gymdeithasfa, fod cymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio yn Tan-yr-allt, yn y fl. 1744,* a bod y gŵr parchedig yn arfer ymweled â'r gymdeithas hon, dros ryw dymhor, bob chwech wythnos. Yr oedd pregethu lled gyson yn Nhregaron cyn y fl. 1750. Sonir fod yma ddau gynghorwr, o'r enw Dafydd William a Rhys Thomas, yn aneddu yn y gymydogaeth, ac yn cynghori eu cydwladwyr y pryd hyn. Yr oedd hyn tua 30 ml. cyn bod un capel yn yr ardal. Rhyw bryd yn y tymhor rhwng 1744 a 1750, y daeth un John Dafydd Daniel i'r ardal hon i wasanaethu. Yr oedd y gŵr hwn eisoes yn arfer cynghori, ac yr oedd gair da iddo gan bawb a'i hadwaenai. Ganwyd y gŵr hwn yn y fl. 1720. Ymwelwyd ag ef yn fuan iawn ar ol cychwyniad yr adfywiad yn Llangeitho, tua'r fl. 1738, pan nad oedd ond deunaw oed. Dechreuodd bregethu pan yn ugain oed, a pharhaodd yn ddiwyd a ffyddlawn am ysbaid 54 o flynyddoedd, a bu farw yn hen ac anrhydeddus ei gymeriad yn y fl. 1794. Ei ddywediad ar ei wely angau wrth y Parch. Evan Richardson, Caernarfon, oedd, "Ni chelais ddim a ddaeth ar fy meddwl, heb ei fynegu wrth bob un, pwy bynag; ac nid wyf yn teimlo anghysur cydwybod o herwydd dywedyd gormod wrth neb, dros ystod fy ngweinidogaeth." Rhaid fod hwn yn was *ffyddlawn a doeth;* yr hwn a osododd ei Arglwydd ar ei deulu. Ni chuddiai eiriau Duw oddiwrth neb, ac ni phrysurai i ddadgan yr eiddo ei hun. Yr oedd yn *ffyddlawn* am na attaliai ddim o'r pethau buddiol, ac yn *ddoeth,* am y deallai pa bethau oedd fuddiol.

* Gwel tudal. 27.

Sonir fod cyfarfod misol wedi cael ei gynal yn y lle hwn, o dan ryw dderwen sydd gerllaw tŷ Tan-yr-allt, yn yr hwn yr oedd Mr. Rowlands yn pregethu; ac yn fuan wedi hyny, fod yr oedfaon a'r cyfarfodydd eglwysig wedi cael eu symud i Penlan, wrth ymyl y dref. Adeiladwyd y capel cyntaf yma tua'r fl. 1775, ar y tir y mae y capel presenol arno, a galwyd ef yn ol enw y lle, Bwlch-gwynt. Nid oes lle genym i feddwl fod yr achos yn flodeuog iawn yn Nhregaron y pryd hwn, oblegid ni a gawn yn mhen ugain mlynedd ar ol adeiladu yr addoldy, nad oedd yn perthyn iddo ond 40 o aelodau. Mae hyn yn ymddangos yn fwy rhyfedd fyth, wrth ystyried fod 48 o aelodau yn perthyn i Tan-yr-allt a Phen-lan, hanner can' mlynedd o'r blaen, sef yn y fl. 1744, ac yn y fl. 1794 nid oedd ond 40, a'r rhai hyny yn hen bobl. Diau fod llawer tymhestl wedi chwythu ar yr achos yn ystod y blynyddoedd hyny, nad oes un crybwylliad am danynt. Yn y tymhor hwn y bu yr ymraniad rhwng Harris a Rowlands, ac er na ddywedir dim yn neillduol pa effaith a gafodd ar Dregaron, y mae yn hawdd i ni feddwl nad aeth y rhuthr hwnw ddim heibio heb ryw gymaint o anghysur ac aflwydd.

Yn y flwyddyn 1794 y bu farw John Dafydd Daniel, ond ni adawodd efe mo'r maes heb adael un cynghorwr ar ei ol; gŵr o'r enw John Edwards. Yn y flwyddyn 1806, daeth Theophilus Jones i fyw i Dregaron, yr hwn a fu farw yn yr un flwyddyn a John Edwards, sef 1829. Yn mhen tair blynedd ar ol Theophilus Jones y daeth y Parch. Ebenezer Richards i fyw yma mewn canlyniad iddo briodi, a bu ei sefydliad yma yn fendith fawr dros ben, nid yn unig i'r lle hwn, ond i'r sir oll, ac yn wir i holl Gymru. Ond nid ydym yn awr yn gwneuthur namyn crybwylliad am dano; cawn alw sylw y darllenydd eto at ei hanes ef ac eraill, gyda mwy o fanylrwydd.

### ABERFFRWD.

Ymddengys i Fethodistiaeth ddechreu yn y lle hwn trwy ddyeithr-ddyn a ddaethai yno i weithio. Mwnwr ydoedd o sir Fflint, ag addaethai yma, ond odid, yn unig er mwyn tamaid o fara; ond Duw a fwriadodd hyny er daioni iddo ef ei hun, ac i eraill. Bendithiwyd ef, a gwnaed ef yn fendith. Ei enw ydoedd William Jones. Cafodd oedfaon i'w dŷ, ac yn mhen ychydig amser ar ol hyny, dechreuwyd cadw cyfarfodydd eglwysig yn ei dŷ. Yr oedd hyn tua'r fl. 1756. Y pryd hwnw, yr oedd nifer y crefyddwyr yn bur ychydig, ac yn dyoddef llawer gan wawd a gwaradwydd. Arferent dros rai blynyddau gadw y cyfarfodydd eglwysig yn Aberffrwd a Llwyn-iorwerth bob yn ail wythnos. Ond tua'r fl. 1770, sefydlwyd yr achos yn y lle hwn trwy adeiladu ysgoldy bychan. Nid oedd ei faint ond 4½ llath wrth 4: pridd oedd ei barwydydd, a gwellt oedd ei dô. Nid oedd nifer y dysgyblion y pryd hwnw ond 12 neu 15.

Fe fu yma aml adfywiad er y pryd hwnw hyd yn awr; adeiladwyd yma addoldy fwy nag unwaith neu ddwy, mewn canlyniad i'r chwanegiadau a wneid o bryd i bryd at y gwrandawyr, ac at yr aelodau.

Mab i'r William Jones uchod oedd Dafydd Jones, pregethwr a fu byw y rhan ddiweddaf o'i oes yn Llanilar.

CWMYSTWYTH.

Dechreuwyd pregethu yn y lle hwn hefyd tua'r un amser ag y dechreuwyd yn Aberffrwd, sef tua'r fl. 1756. Yr oedd yma ŵr o'r enw Edward Jones, yr hwn oedd yn byw yn Mhengwerni, ac yn aelod, tybygid, yn Llangeitho. Dygodd hwn bregethu i'w dŷ, ac âi rhai o'r gymydogaeth hon i Pengwerni i wrando, ac wedi cael blas ar yr efengyl, mynasant gael pregethu yn Cefn-yr-esger. Yr oedd lle pregethu yn symudol o bryd i bryd, hyd y fl. 1783. Yn y flwyddyn hon, cymerwyd hen adeilad a fuasai unwaith yn efail gôf, a threfnwyd hon yn lle cymhwys i bregethu ynddi. Y pryd hwn, cadwent gyfarfod eglwysig yn Tŷ'n-ddol ar nos Sadwrn, a phregethid yn yr hen efail foreu Sabboth. Wedi hanner cant o flynyddau o bregethu, mwy neu lai cyson, nid oedd yma ond 16 o aelodau, a dyma'r pryd hefyd, sef tua'r fl. 1805, yr adeiladwyd yma y capel cyntaf, a hyny yn mhen tua thair blynedd ar ol sefydlu yr ysgol Sabbothol. Cafwyd yma adfywiadau mynych, pryd y chwanegwyd lluaws, o bryd i bryd, at nifer yr aelodau proffesedig.

CYNON.

Ymddengys fod pregethu wedi dechreu gan y Methodistiaid yn yr ardal hon er yn gynar. Yr oedd gŵr o'r enw William Davies yn byw yn y Pyllau-isaf; anfonodd y Parch. D. Rowlands at y gŵr hwn i ofyn ei ganiatâd i bregethu yn ei dŷ. Cafodd ganiatâd, ac mewn canlyniad bu llawer o bregethu yn y Pyllau-isaf, ac yn achlysurol yn Brena-bach hefyd. Byddai Rowlands yn arfer dyfod i fyny i'r ardal, ar nos Sabbothau, erbyn chwech o'r gloch yn yr hwyr. Symudwyd y pregethu drachefn mewn blynyddau dylynol, yn gyntaf i Dol-pandy, ac wedi hyny i Tŷ'n-lon. Yr oedd hyn tua'r fl. 1772, pryd yr oedd rhifedi yr aelodau yn 30. Yr oedd crefyddwyr boreuaf yr ardal hon yn cyfarfod â llawer o warth a gwawd, ac weithiau ag aflonyddwch. Byddent ar amserau, ar y dechreu, yn cilio tua glàn yr afon Rheidiol, i dŷ bychan, yn ddirgel, i gadw eu cyfarfodydd eglwysig, a chyfarfodydd gweddio, oblegid yr erlid oedd arnynt. Symudodd yr achos yn ddiweddaf oll i Cynon, lle yr ymsefydlodd, a lle y mae yn aros hyd heddyw. Yr oedd hyn tua'r fl. 1773. Fe fu yma lawer o bregethu ac o foliannu, er nad oedd y wedd allanol ond gwael a dystadl. Tua'r fl. 1791, adeiladwyd capel ar dir Glanystwyth, lled cae islaw y capel presenol. Yr oedd y tŷ cwrdd hwn, fel eraill a grybwyllwyd eisoes, yn fychan ei faint, a gwael yr olwg. Parwydydd pridd oedd iddo, a thô gwellt. Gwiail wedi eu plethu am bolion coed wedi eu gyru i'r llawr, ac astell ar eu penau, a wasanaethai yn bulpud. Yr oedd y gwiail plethedig hyn wedi eu dwbio â chymysgedd o glai a thail, a'r llawr y safai y pregethwr arno, a wnaed o bridd a cherig. Profodd y lle hwn hefyd aml adnewyddiad ar wahanol dymhorau, pryd y rhoddid gwedd mwy siriol ar y gwaith, a chwanegiad mawr at nifer y dysgyblion. Yn y lle

hwn y bu gŵr o'r enw Dafydd Rowland yn pregethu am lawer o flynyddoedd, nid llai na 41. Yr oedd y gŵr hwn yn meddu doniau helaeth, ac ennillai, trwy ddichlynrwydd ei rodiad, a'i ddefnyddioldeb fel meddyg, raddau helaeth o barch ei gydwladwyr. Bu farw yn y fl. 1843 yn 74 ml. oed.

## PONT-ERWYD.

Tua'r fl. 1765 y dywedir i un o'r Methodistiaid bregethu yn yr ardal hon gyntaf. Nid oedd ynddi ddim moddion gras cyn hyny, ond a oedd yn y llan. Traddodwyd y bregeth gyntaf hon yn ymyl clawdd mynwent Yspytty Cynfin. Nid yw enw y pregethwr yn adnabyddus. Ar ol hyn, fe geid ambell bregeth yn achlysurol, am ysbaid deg neu ddeuddeng mlynedd, weithiau allan ar y maes, neu fin y ffordd, ac weithiau mewn tai anedd ar hyd y gymydogaeth. Ond tua diwedd y tymhor hwn, gwelodd yr Arglwydd yn dda beri i'r weinidogaeth effeithio yn fwy grymus ar feddyliau amryw o'r rhai a'i gwrandawent. Daeth y rhai hyn i drallod am eu hachos ysbrydol, ac i sychedu am foddion gras yn fwy helaeth a chyson. O dan y teimladau deffrous hyn, aent weithiau i Langeitho, ac weithiau i fanau eraill, yn ol y cyfle a roddid i wrando gair y bywyd. Ond nid oedd ond prinder moddion yn y fro hon,—nid oedd eto un gymdeithas eglwysig, na golwg ar neb i'w chadw, er fod yma "ychydig enwau" yn dyheu am gyfarwyddyd ac addysg mewn pethau ysbrydol.

Tua'r fl. 1777, fe gydymgynghorodd rhyw nifer o'r dynion a chwennychent wybod ffordd Duw yn fanylach, pa fodd y gallent gydymgyfarfod i ymddyddan am bethau pwysig y "byd a ddaw." Ond nid oedd yr un o honynt yn gwybod dim am y fath gyfarfod, mwy na chlywed fod y fath un yn cael ei gynal mewn manau eraill. Teimlent hwythau anghen am y fath gyfarfod, a pharod oeddynt i wneuthur cais at gyflenwi y diffyg. Mewn canlyniad, cyfarfuant â'u gilydd mewn tŷ amaethwr, o'r enw Bryn-chwith. Nid oedd yr aelodau ar y pryd ond pump neu chwech. Cynaliwyd y cyfarfodydd hyn, yn nghyda phob moddion crefyddol eraill, yn Bryn-chwith, Nant-cae'r-hedyn, ac un lle arall, am ysbaid 20 mlynedd neu ragor. Yn y tymhor hwn, chwanegwyd llawer at yr eglwysi o bryd i bryd, nes oedd y tai anedd yn rhy gyfyng ac anghyfleus i gynal moddion ynddynt gyda chysur a buddioldeb. Penderfynwyd, gan hyny, ymofyn am le i adeiladu capel. Yn y fl. 1797, prynodd gŵr o'r enw William Morgans, Cwmesgyr, dyddyn, a elwid Pont-erwyd, yn benaf er mwyn cael lle i adeiladu capel arno. Y flwyddyn ganlynol, dygodd hyny i ben; a chan mwyaf ar ei draul ei hun. Gwir ydyw nad oedd y tŷ hwn ond bychan ei faintioli, tua phump llath neu chwech o hyd y tu fewn i'r muriau, eto yr oedd ar wedd gryfach a gwychach na rhai o'r capelau bychain y soniwyd o'r blaen am danynt. Yr oedd muriau hwn o gerig ac nid o glai, a'i dô o lechau ac nid o wellt, yr oedd ei bulpud hefyd o wneuthuriad y saer, ac nid o wiail a chlai.

Gwenodd yr Arglwydd ar ei bobl yn y lle hwn, gan roddi llwyddiant mwy neu lai ar eu hymdrechiadau; ac yn neillduol tua'r fl. 1805, sef yr amser y sefydlwyd yr ysgol Sabbothol. Y pryd hwn y bu ymweliad nerthol o eiddo

Ysbryd Duw â'r fro, a dychwelwyd llawer at yr Arglwydd. Aeth y capel yn raddol yn llawer rhy fychan i'r ysgol ac i'r oedfaon, ac yn y fl. 1821, adeiladwyd y capel presenol, yr hwn sydd yn llawer helaethach na'r hen, a thalwyd am dano trwy ymdrechiadau haelfrydig ac ewyllysgar yr ardal ei hunan, heb gymorth o un man arall.

### LLWYN-RHYS A LLWYN-PIOD, FFOSFFIN AC ABERMEIRIG.

Mae y cynulleidfaoedd uchod yn cael eu cysylltu yma gyda'u gilydd, am fod yn nghlyn â hwy amgylchiadau a hanesiaeth wahanol i gapelau eraill y Methodistiaid, yn neillduol am eu bod yn eu cychwyniad, a thros gryn dymhor, yn perthyn i enwad arall, o dan olygiad yr hybarch Mr. Gray, ond sydd yn awr yn gwbl mewn undeb â'r Methodistiaid. Ymddengys fod hanes Llwyn-piod yn cyrhaedd yn mhell iawn yn ol, tua dau can' mlwydd, hyd at ddyddiau y Puritaniaid a'r Anghydffurwyr. Pan basiwyd deddf yr unffurfiad, ac i ddwy fil o'r dynion gorau a feddai eglwys Loegr droi allan am na allent yn gydwybodol gydsynio â gosodiadau caethion y llywodraethwyr gwladol ac eglwysig, caed yn eu mysg dri o'r sir hon, sef Rhys Powel, Llanbedr; John Harris, Tregaron; a Thomas Evans, Ystrad. Yr oedd hwn yn amser blin iawn i ddynion cydwybodol; amser yr oedd rhyddid cydwybod heb ei ddeall, nac y caniateid mwynhad o hono, gan faint oedd traha a gormes llywodraethwyr gwlad ac eglwys.

Yn yr amser borau a blin hwn, ymddengys fod rhyw nifer o ymneillduwyr presbyteraidd yn arfer ymgynull i weddio ac i bregethu yn Llwyn-rhys (tyddyn o'r enw heb fod yn mhell o Lwyn-piod, ac yn mro Llangeitho); a hyny ar hyd y nos, rhag cael eu carcharu a'u hysbeilio o'u meddiannau. Yr oedd yn byw yn Llwyn-rhys, ar y pryd, ŵr o'r enw Dafydd Jones, yr hwn oedd yn bregethwr, ac yn dad i'r Parch. Dafydd Jones, Llanbadarn-fawr. I hwn yr oedd mab yn filwr, ac am yr hwn ni dderbyniasai ei rieni un math o hysbysiad dros rai blynyddau. Rhyw ddiwrnod, fe ganfu Dafydd Jones ŵr o wedd foneddig, ac yn marchogaeth ar farch glâs, yn dynesu at y tŷ. Yn yr adeg erlidigaethus hòno, nid oedd dyfodiad boneddwyr dyeithrol o'r fath i'r wlad, yn gyffredinol, yn argoeli dim ond y drwg a'r blinder; a'r cyfryw ydoedd daroganiad Dafydd Jones ar waith y boneddwr yn nesâu at Llwyn-rhys; tybiodd ef a'i wraig mai swyddog gwladol ydoedd yn ddiau, wedi ei anfon i'w dwyn i afaelion y gyfraith am ryfygu addoli Duw yn amgen nag a orchymynasid. Penderfynodd y ddau, pa fodd bynag, i gyfaddef y cwbl, heb gelu dim o'r gwir, a deued arnynt y canlyniad a ddeuai. Daeth y marchog at y tŷ, a gofynodd,—

"Ai hwn yw Llwyn-rhys?" Daeth yr hen wraig i'r drws ac atebodd,

"Ië."

"Ai dyma lle y mae Dafydd Jones yn byw?" gofynai y gŵr. Ar hyn syrthiodd yr hen wraig mewn llewyg ar y llawr, wedi ei llwyr orchfygu gan ofn. Pan ddeallodd yr hen ŵr hyn, daeth yntau yn araf at y drws, a dywedodd wrth y gŵr,

"Peidiwch a gwneyd dim i'r hen wraig;—canys y mae hi yn eithaf diniwed."

Ar hyn ni allai y gŵr ymattal yn hwy, gan fod ei ymysgaroedd wedi cyffroi, a gwaeddodd allan,—

"O fy nhad!—ni wnaf fi un niwed iddi,—fy mam yw hi!" Ac ar hyn rhuthrodd atynt i'w cofleidio, gan hòni mai ei mab hwy oedd! Codasid ef yn swyddog yn y fyddin o wŷr meirch, ac o barch iddo, dywedir i'w dad a'i deulu gael eu cadw rhag llymder yr erlidigaeth ar y pryd.

Yr oedd ystafell eang fel adeilad groes wedi ei chodi o'r tu cefn i dŷ anedd Llwyn-rhys, lle y byddid yn ddirgelaidd yn ymgyfarfod i addoli, tra y parhaodd y tymhor blin hwnw. Ond yn y fl. 1689, daeth deddf y goddefiad i fod, a gosodwyd Llwyn-rhys dan nawdd y gyfraith, a pharhaodd i fod yn lle o addoliad ar ol y cofrestriad am ysbaid mwy na 60 mlynedd. Yn y fl. 1753, adeiladwyd tŷ addoliad tua milldir i'r gogledd oddiwrth Llwyn-rhys, a galwyd ef yn ol enw y tyddyn yr oedd yn sefyll arno, yn Llwyn-piod. Y Parch. Philip Pugh oedd y gweinidog a ofalai yn benaf am yr eglwys hon, yr hwn hefyd a arolygai y cynulleidfaoedd yn y Cilgwyn, Abermeurig, a Chiliau-aeron. Yr oedd y gŵr hwn yn ŵr duwiol a llafurus iawn, yn feddiannol ar gryn gyfoeth, ac wedi cyrhaedd graddau helaeth o ddysgeidiaeth. Fe fu byw i oedran teg, ac a fu farw yn 81 mlwydd oed, yn y fl. 1761, wedi bod yn llafurio yn y weinidogaeth 52 mlynedd.

Fel yr oedd y gŵr da hwn yn nesâu at derfyn ei oes, teimlai gryn bryder ar gael gŵr addas i arolygu yr eglwysi ar ol ei ymadawiad. Fe ddichon ei fod yn teimlo yn ddwysach yn yr achos, wrth ganfod fod gogwyddiad trwm yn amryw o eglwysi blaenaf y wlad hon at Ariaeth a Sosiniaeth.* Wedi marwolaeth Mr. Pugh, galwyd un Thomas Gray i fod yn olynwr iddo.

Gŵr ieuanc oedd hwn o gymydogaeth Abertawe, isel, tybygid, ei amgylchiadau, ac isel hefyd o ran ei arferion yn nyddiau ei ieuenctyd. Gweithiai mewn gwaith glo, a chyffelyb ydoedd o ran ei gymeriad moesol i'r glowyr yn gyffredin, yn enwedig yn yr amseroedd hyny. Ond yr oedd gan Dduw lygad ar Thomas Gray, "a meddyliau o hedd" am dano. Un diwrnod, anfonwyd ef gan arolygwr y gwaith, ar neges drosto, i Gastell-nedd. Yn y cyfamser, aeth ei gydweithwyr at eu gwaith, ac wrth eu llaesu i lawr i'r pwll, torodd y rhaff, a gollyngwyd hwy i lawr i'r dyfnder, a buont feirw oll yn y fan. Pan oedd Gray yn dychwelyd adref o'i neges, canfyddwyd ef gan un a'i hadwaenai, yn cysgu yn ei feddwdod ar ochr y ffordd. Aeth hwn at y meddwyn, ac wedi ei ddeffroi, efe a ddywedai wrtho, "Pa beth, Twm Gray, ai ti sydd yma?—yr oedd wn yn meddwl dy fod di yn uffern er ys wyth o'r gloch y boreu, gyda dy gyd-weithwyr." Yna hysbysodd ef o'r gyflafan a ddygwyddasai i'r dynion eraill. Effeithiodd hyn yn ddwys iawn ar ei feddwl.

* Dywedir fod chwech o'r eglwysi a elwid yn Henaduriaethol, wedi dirywio i'r cyfeiliornadau uchod, sef, Llwyn-rhydowen, Pant-y-defaid, Capel-y-fadfa, Gallt-y-placa, Capel-y-groes, Cilgwyn, a Chiliau-aeron

Credodd mai yn uffern y buasai mewn gwirionedd, oni bai cyfryngiad rhagluniaeth drosto. Daeth y gŵr ieuanc, bellach, i ddechreu ystyried ei ffyrdd, i weled eu drwg, eu casâu, a'u gadael. Dan y teimladau cyffrous hyn, ymofynai am ymgeledd ysbrydol, ac arweiniwyd ef i wrando y gair yn y Mynydd-bach, ger Abertawe; ymwasgodd â'r dysgyblion yno, a derbyniwyd ef yn aelod.

Fel y daeth rhagddo yn ei yrfa grefyddol, canfyddwyd ynddo ryw ansoddau a argoelai gymhwysder i'r weinidogaeth, a thrwy annogaeth ei gyfeillion dechreuodd bregethu, ac anfonwyd ef yn mhen rhyw dymhor i athrofa y Fenni i ddysgu. Wedi bod yno yn yr ysgol dros ryw dymhor, dygwyddodd i Daniel Rowlands ddyfod i bregethu mewn llan yn y gymydogaeth; a chan faint y son am dano, teimlai efrydwyr yr athrofa awydd i gael ei glywed, er y gallai fod eu rhagfarn yn erbyn eglwyswr yn ddigon ymron i'w hattal. Cymhellasant Gray hefyd i fyned gyda hwy, yr hwn, ar ol peth petrusder, a gydsyniodd. Bendithiwyd y bregeth hon yn rhyfeddol i'r myfyriwr ieuanc, a theimlodd argraffiadau dwysach na dim a deimlasai o'r blaen;—ïe, cymaint oedd y dylanwad ar ei feddwl, fel y bu am ddyddiau yn analluog i ddefnyddio dim ar ei lyfrau. Gwibiai ar hyd y meusydd fel hurtyn, gan weddio weithiau, a syn-fyfyrio bryd arall; a chododd dymuniad yn ei galon, yr hwn hefyd a anfonodd at orsedd Llywydd Mawr y bydoedd, mewn gweddi, am iddo weled bod yn dda drefnu ei goelbren i ddisgyn mewn rhyw fan o'r byd lle y rhoddid cyfleusdra iddo i wrando yr offeiriad hwnw. Nid oedd ar y pryd yn gwybod pwy oedd y dyn hynod a glywsai, nac o ba le y daethai.

Pan oedd ei amser yn yr athrofa ymron ar ben, daeth ymofyniad oddiwrth yr eglwys yn Llwyn-piod at yr athraw, ar iddo anfon atynt ŵr ieuanc a dybiai efe gymhwysaf, ar brawf, i fod yn weinidog iddynt. Yntau a anfonodd Thomas Gray. Daeth yr ymgeisydd ieuanc i'r gymydogaeth ar nos Sadwrn, a lletyai y noson hòno yn nhŷ un o'r diaconiaid, yr hwn a ddywedodd wrtho, y dysgwylid iddo bregethu am wyth o'r gloch y boreu Sabboth, gan chwanegu, mewn ffordd o eglurhad am foreuder yr awr, eu bod hwy, y pryd hwnw, yn arfer myned, ar Sabboth pen mis, i Langeitho i wrando offeiriad o'r enw Daniel Rowlands. Synai Mr. Gray at hyn, a phrin y gallai ymattal rhag teimlo yn anniddig, gan nad oedd yn mhlith yr ymneillduwyr ddim arfer o'r fath. Pa fodd bynag, ni ynganodd ddim yn y gwrthwyneb, ond cydsyniodd â'u cais; ac ar ol pregethu, aeth gyda hwy i wrando yr offeiriad; a mawr oedd ei syndod pan ganfu y pregethwr, a deall mai hwn oedd yr un a glywsai efe gynt gerllaw y Fenni, gweinidogaeth yr hwn a fu mor effeithiol iddo; ciliodd yr anniddigrwydd bellach o'i feddwl, os oedd dim yn aros, a diolchai yn hytrach fod ei weddi wedi ei hateb yn y fath fodd.

Rhoes yr eglwys hòno alwad iddo, ac yntau a gydsyniodd â'u cais, ac a ymsefydlodd yn eu plith. Daeth i fod yn gyfaill mawr â Rowlands, yr hwn a gafodd ganddo bregethu yn nghapel Gwynfil unwaith yn y mis, sef prydnawn y Sabboth y byddai Rowlands wedi pregethu yno yn y boreu. Yr oedd Rowlands, y pryd hwn, wedi ymadael ag eglwys Loegr, ac yn rhydd i ofyn iddo i bregethu yn ei gapel, ac felly y parhaodd Mr. Gray i wneyd tra

y bu Mr. Rowlands fyw. Dygodd hyn Mr. Gray a'r Methodistiaid i ryw fath o undeb â'u gilydd; yr hyn a barodd ar y pryd gryn anniddigrwydd yn meddyliau llawer o'r hen aelodau, cymaint felly, fel y bygythiodd Mr. Gray ymadael ar ryw dymhor; ond trwy fod gradd o ysbryd y diwygiad wedi disgyn ar ei eglwysi, a chryn chwanegiad atynt, darfu y gwrthwynebiad. Yr oedd Mr. Gray yn sefyll ar dir cyffelyb i Richard Tibbot;—pregethai y ddau yn nghapelau y Methodistiaid, a chymerent ran yn eu cyfarfodydd cyhoeddus, fel y pregethwyr eraill, pryd yr oeddynt yn gweinyddu i gynulleidfaoedd annibynol fel gweinidogion sefydlog. Trwyddynt hwy lefeiniwyd eu heglwysi â'r un ysbryd i fesur mawr, nes yr ymhoffent yn ngweinidogaeth y Methodistiaid, ac y carent gymdeithasu a chydweithredu yn fwy â hwynt nag y mae yn arferol rhwng eglwysi o wahanol enwadau.

Llafuriodd Mr. Gray yn y modd yma dros amser maith, nemawr lai na 50 ml. Yn yr ysbaid maith hwn, bu feirw y tô cyntaf o aelodau yr eglwysi dan ei ofal, y rhai y gellid meddwl oedd fwyaf gwrthwynebol i Fethodistiaeth, neu yn fwyaf tyn at egwyddorion cynulleidfaol yr ymneillduwyr, a chyfododd cenedlaeth arall, oddieithr ychydig weddillion, na welsent ond y cydweithrediad a'r undeb rhyngddynt â'r Methodistiaid, fel erbyn marwolaeth Mr. Gray, yn y fl. 1810, nid oeddynt yn ystyried eu bod weithian yn perthyn i neb arall. Yr oeddynt wedi ymarfer mwy â gweinidogaeth y Methodistiaid na'r eiddo neb arall, gan fod y pregethwyr mor fynych yn mhulpudau Mr. Gray ag oedd ef yn eu pulpudau hwy. Yn unig hònent eu dull gwreiddiol o gymuno a dysgyblu. Wedi marwolaeth Mr. Gray, pa fodd bynag, cytunasant ymron yn un fryd, neu gydag ychydig eithriaid, i ymuno yn llwyr â'r Methodistiaid; a chwanegwyd yr eglwysi Llwyn-piod, Abermeirig, a Ffosffin, at y cyfundeb, ac felly y parhant yn berffaith heddychol hyd heddyw.

## BLAENPENAL.

Dywedir fod crefydd wedi ymsefydlu yn y fro hon yn agos er dechreuad ymneillduaeth yn Nghymru. Tua'r fl. 1656, cafodd un Morgan Howel, gŵr o'r ardal hon, ei argyhoeddi dan bregeth Walter Cradoc, yn Nhregaron. Yn y canlyniad fe fu Morgan Howel yn gweinidogaethu yn yr ardaloedd oddiamgylch am lawer o flynyddoedd. Yn yr ardal hon hefyd y preswyliai y Parch. Philip Pugh, enw yr hwn y cawsom achos ei grybwyll amrywiol weithiau o'r blaen, mewn anedd a elwir yr Hendre. Ganwyd y gŵr hwn tua'r fl. 1679, ac urddwyd ef i'r weinidogaeth yn y fl. 1709. Yr oedd yr Hendre wedi ei gofrestru fel lle i addoli ynddo yn ol y gyfraith, a chasglwyd yma eglwys gynulleidfaol dan ofal Mr. Pugh. Ymddengys hefyd fod yma ddau o wŷr eraill yn perthyn i'r gynulleidfa hon, sef Thomas Griffiths, Tan'r-allt, a Benjamin Rees y Felin, yn cynorthwyo Mr. Pugh yn ei lafur gweinidogaethol.

Bu farw Mr. Pugh yn y fl. 1761, yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau, a dywedir mai ei gynghor ef i'r gynulleidfa hon wrth farw, gan yr ansicrwydd pwy fyddai yn weinidog iddynt ar ei ol, oedd, ar iddynt wneyd yn fawr o weinidogaeth Rowlands, Llangeitho. Yr oedd doniau a llwyddiant Rowlands

ar y pryd wedi effeithio yn rhyfeddol ar yr holl froydd hyn; a chan na ddaeth olynwr i Mr. Pugh o fysg yr Annibynwyr, i ymsefydlu yn yr ardal hon, ond i'r gynulleidfa ymuno â'r Methodistiaid yn Llangeitho, mae yr amgylchiadau yn argoeli gwirionedd y traddodiad uchod. Dywedir i Howel Harris ar ei hynt ymweled â'r ardal hon, ac iddo bregethu ar y maes ar gefn tir Esgersaeson; ond wedi ymuno o'r gynulleidfa â'r Methodistiaid, daeth yr offeiriaid a'r cynghorwyr a berthynai i'r cyfundeb, i ymweled â Blaen-penal gyda mwy o gysondeb. Y lleoedd y pregethid ynddynt cyn bod un capel wedi ei godi, oedd, Tan-'r-allt, Tŷ-newydd, a'r Felin. Yn fuan ar ol dechreu pregethu yn y lleoedd hyn, sefydlwyd cyfarfod eglwysig yn yr ardal, ond nid adeiladwyd yma gapel hyd y fl. 1783. Fel hyn, gwelwn fod yma bregethu gan yr ymneillduwyr yn mhell dros gan' mlynedd cyn bod yma dŷ addoliad. Yr oedd yma tua 50 o aelodau eglwysig ar y pryd yr adeiladwyd y capel, y rhai a arferent fyned yn gyson i Langeitho i gymuno, ac felly y parhausant i wneuthur dros flynyddoedd. Ymddangosodd yma rai yn lled wrthwynebol i neillduad gweinidogion o fysg pregethwyr, eto ymostyngodd pawb i'r drefn newydd heb derfysg nac ymraniad.

Dechreuodd yr ysgol Sabbothol yma tua'r fl. 1800. Yr oedd dechreuad y sefydliad yma yn wanaidd iawn yn y lle hwn. Nid oedd ynddi, yn fynych, ond un neu ddau o blant, a phryd arall chwyddent i 15 o rifedi! Cedwid hi gan ddau athraw, pob un ei Sabboth, pryd yr âi y naill yn niffyg y llall i Langeitho i wrando. Ystyrid ei chadw, yn ddiamheuol, yn iau lled anesmwyth. Yr oedd y gorchwyl yn newydd, a'r athrawon heb gynefino ag ef. Yr oedd sugn cryf yn ngweinidogaeth apostol Llangeitho, yn peri mwy o anniddigrwydd fyth yn neb i aros gartref, yn enwedig i gyflawni gwaith a brofid yn anhawdd gan faint oedd anwareidd-dra yr ysgolorion, ac anfedrusrwydd yr athrawon. Ond yn mhen tua 10 mlynedd ar ol ei chychwyniad, ymddangosai sirioldeb ac adnewyddiad yn yr ysgol, a bywiogodd y gynulleidfa nes bu raid helaethu y capel yn y fl. 1813.

Er y fl. 1790, fe fu yma bump neu chwech o ddiwygiadau neu adfywiadau crefyddol. Cafwyd y cyntaf yn y flwyddyn y bu Rowlands farw, a'r olaf yn y fl. 1834. Yn yr adfywiad a fu yn y fl. 1814, chwanegwyd at yr eglwys 66 o aelodau, ac yn yr un a gaed yn y fl. 1825, yr hwn a dybid oedd y grymusaf, chwanegwyd tua 110 at nifer yr aelodau.

### TALIESIN A THRE'R-DDOL.

Yr oedd rhanau uchaf sir Aberteifi, fel y'u gelwir, yn gwbl amddifaid o bregethu yr efengyl gan un enwad o ymneillduwyr, hyd nes cododd y Methodistiaid. Yn hyn yr oedd peth gwahaniaeth rhwng y naill ran o'r sir a'r rhan arall. "Yr oedd parthau uchaf sir Aberteifi fel rhyw anialwch hollol wyllt, heb eu gwrteithio erioed â moddion gwybodaeth, na'u hau â hadau efengyl; ac felly yr oedd holl siroedd y Gogledd, oddieithr ychydig fanau. Cawsant hwy [y Methodistiaid] y lleoedd hyn fel maes agored iddynt eu hunain, oblegid nid oedd yno un enwad crefyddol arall wedi llafurio nemawr.

Yr oedd yr eglwys sefydledig yno yn gwbl ddiymdrech i wneuthur daioni; ac felly aeth y Trefnyddion i'r maes megys gweithwyr yn llawn bywyd, nerth, ac egni; a llwyddasant i lenwi pob congl ag efengyl mewn ychydig amser."*

Cyffelyb i agwedd Gwynedd, a rhanau uchaf sir Aberteifi, oedd agwedd foesol Tre'r-ddol. Nid oedd aradr ymneillduaeth wedi rhwygo dim ar y tir diffaeth hwn. Gorweddai y preswylwyr yn ddiofal ddigon mewn anystyriaeth dybryd am bethau byd tragwyddol. Ac fel y gellid dysgwyl, yr oedd yr hen ofer-gampau yn y broydd hyn yn eu llawn rwysg. Mewn ysgrif o fy mlaen darlunir ardal Tre'r-ddol yn debyg i hyn, "Prif arferion y canrif diweddaf oeddynt nosweithiau llawen, y rhai a gynelid ar gylch agos bob wythnos, a gwylmabsantau. I'r diweddaf ymgynullai yr holl blwyf ymron; cynelid ynddynt redegfeydd ceffylau; ymrysonai gwŷr ieuainc, ïe, a hen wragedd, redeg â'u gilydd; a mawr yr hyfrydwch a fwynheid yn yr arferiad farbaraidd o ymladd ceiliogod. I'r un graddau ag y ffynai yr arferion isel hyn yn y fro, i'r un graddau y ceid gwrthwynebiad y trigolion i bob ymosodiad o eiddo'r efengyl ar eu difyrwch. Gwnaeth Mr. Rowlands gais ar gael pregethu yn Tal-y-bont, pentref o fewn dwy filldir i Dre'r-ddol; ond gan faint oedd ffyrnigrwydd y preswylwyr, bu raid iddo gilio ymaith, a da oedd cael dianc i ffordd heb ei anafu. Ymlidiwyd ef o Dal-y-bont â cherig. Yr oedd wedi bwriadu pregethu yn Tre'r-ddol yr un Sabboth, a chlybu y bobl hyny; a phenderfynasant ei labyddio â cherig. Hysbyswyd eu bwriad gwaedlyd i Mr. Rowlands, a cheisiwyd ganddo yn daer i beidio myned trwy y pentref, ond dychwelyd ar hyd ryw ffordd arall. Ond â hyn ni chydsyniodd, gan fwriadu, ond odid, arfer cyfrwysder, a dianc o ddwylaw yr erlidwyr trwy ystryw ddiniwed. Aeth trwy y pentref ar garlam gwyllt, ac wrth fyned heibio i'r dorf a'i dysgwyliai, efe a waeddai yn groch arnynt, 'Beth ydych chwi yn ei wneyd yn y fan hyn, blant y diawl?' Dyrysodd hyn y cynllwynwyr;—tybiasant mai nid iaith pregethwr oedd hon. 'Nid hwn yw efe,' ebe un, 'Gŵr boneddig yw hwn,' ebe arall, a chafodd Rowlands trwy y ddichell hon fyned heibio yn iach a diogel." Darllenwn fod y cyffelyb ddichell wedi cael ei defnyddio ganddo ef ar achlysuron eraill, a chan bregethwyr eraill, pan y bernid y gellid trwy hyny ochel ymosodiad yr erlidwyr.

Peter Williams, meddir, oedd y cyntaf o'r Methodistiaid Calfinaidd a fu yn pregethu yn Tre'r-ddol, a hyny yn y fl. 1776. Safai y pregethwr ar y pryd wrth dalcen tŷ tafarn, wedi cael caniatâd y tafarnwr i hyny. Dywedir fod effeithiau da wedi dylyn yr oedfa hon, ac i amryw gael eu dwysbigo yn eu calonau. Ond nid oedd yma un lle wedi ei agor eto i dderbyn pregethu, ac nid oedd eto yr un cynulliad eglwysig, nac yn wir, ddim moddion cyhoeddus mewn cysonedd. Tua'r fl. 1781, fe brofodd gŵr ieuanc o'r enw Thomas Edwards rym y gwirionedd ar ei galon a'i gydwybod, wrth wrando rhyw bregethwr a ddygwyddai ymweled yn awr ac eilwaith â'r ardal y dyddiau

* Parch. D. Morgan ar Ymneillduaeth.

hyny; a hwn oedd y cyntaf sydd a chrybwylliad penodol am ei enw a arferai weddio yn ei deulu. Yr oedd gweddi deuluaidd, y pryd hwnw, yn beth anarferol iawn, ac yn peri sylw neillduol a siarad lawer, ac yn peri gwaradwydd mawr oddiwrth lawer. Pa fath bynag a fyddai y canlyniad, penderfynodd y gŵr hwn na chai ei dŷ ef ddim bod yn ddiweddi. Aeth son am dano yn fuan trwy y gymydogaeth, fel un a arferai weddio bob dydd yn ei dŷ, ac ymgasglai nifer o wragedd ato ar adeg y weddi. Ymddengys fod mwy na ffurf yn ngweddi Thomas Edward, oblegid disgynai yn aml arno ef ac ar y gwragedd a ddeuent yno, ryw deimladau anarferol, nes tori allan i foliannu a chanu mewn hwyl nefolaidd; a pharhaent weithiau yn yr hwyl hon am rai oriau, pryd y byddai yr erlidwyr, hwythau, yn sefyll gerllaw i'w gwawdio a'u dirmygu.

Yn nhŷ mam y gŵr ieuanc a enwyd y cafwyd lloches i'r efengyl; yma y cynelid y moddion cyhoeddus a neillduol, hyd nes yr aeth yr ymgrynhoad yn fwy, ac y bu galw am le eangach. Yr oedd yma oddeutu 12 o aelodau wedi ymuno mewn cymdeithas eglwysig, rhai o honynt yn perthyn i'r Eglwys-fach, lle y byddid yn arfer cynal y moddion neillduol ar gylch gyda Thre'r-ddol, hyd y gwelwyd angen am hyny. Bob yn ychydig, cymerwyd tŷ anedd i'r dyben o'i neillduo yn dŷ addoliad, ac yn y tŷ hwn y cynelid y moddion, bellach, hyd nes adeiladwyd y capel, yr hyn a gymerodd le yn y fl. 1792. Chwe' blynedd cyn hyn y neillduwyd Thomas Edward yn flaenor, y blaenor cyntaf erioed yn y lle, a chafodd ei gynysgaethu a bywyd, ac â gras i barhau gyda'i orchwyl hyd ei farwolaeth, ysbaid 55 o flynyddoedd.

Cafwyd tir y capel ar weithred *(lease)* o 60 mlynedd gan Charles Griffiths, Ysw., Pen-y-bont-bren. Wedi bod 38 mlynedd yn y capel hwn, barnwyd yn angenrheidiol ymofyn am estyniad amser y *lease* (er mwyn helaethu yr addoldŷ, o bosibl) ond yr oedd y tir, erbyn hyn, wedi newid ei berchenog, a chan wrthwynebrwydd y perchenog newydd i ymneillduwyr, nid oedd obaith cael estyniad ar yr amser;—"Ewch i'r eglwys," meddai y boneddwr, "mae yno ddigon o le i chwi, ac nid oes yma angen am yr un capel." Methwyd hefyd a chael tir ddim nes na phentref Taliesin. Yno cafwyd darn o dir gan Morris Davies, Ysw., Aberystwyth, ac adeiladwyd capel arall, helaethach na'r hen, lle y gorphwys yr achos hyd heddyw.

Ymwelodd yr Arglwydd â'r lle hwn ag adfywiadau grymus amryw weithiau, pryd y chwanegwyd llawer at yr eglwys. Sonir yn neillduol am ddau o honynt, hynotach, tybygid, na'r lleill, sef y cyntaf a'r diweddaf. Cafwyd y cyntaf yn mhen dwy flynedd ar ol codi y capel cyntaf. Yr oedd yr adfywiad hwn yn rymus iawn o ran ei effeithiau ar deimladau y bobl, ac efe a barhaodd hefyd dros hir amser. Ond yn yr olaf y chwanegwyd fwyaf at yr eglwys. Dywedir fod y chwanegiad y tro hwn yn cynwys 100 neu 120 o aelodau.

Profwyd gradd o erlidigaeth hefyd yn y lle hwn ar y dechreuad. Y rhai a gymerent y blaen yn y gorchwyl peryglus hwn oeddynt yr offeiriad a phrif oruchwyliwr Gogerddan. Trowyd gŵr o'r enw Dafydd Evans o'i dŷ am iddo ymuno â'r Methodistiaid. Bygythiwyd un arall, yr hwn oedd yn

dal tyddyn bychan, ac yn cael llawer o waith gan y goruchwyliwr, y byddai raid iddo naill ai gadael ei grefydd, neu ynte y collai ei dyddyn a'i waith hefyd. Fe fu y brofedigaeth hon yn rhy danllyd iddo allu ei dal ar y pryd, ac wedi peth petrusder a chloffni, addawodd gilio oddiwrth y bobl grefyddol, er mwyn cael aros yn ei le. Ond nid llawer o fwyniant a gafodd, ond dechreuodd ei feddwl drallodi; troes y temtiwr iddo yn gyhuddwr, a'r hwn a fynai o'r blaen iddo goelio nad oedd berygl, a fynai iddo goelio yn awr, nad oedd obaith. Meddyliodd ei fod wedi pechu yn erbyn yr Ysbryd Glân, ac nad oedd obaith maddeuant iddo mwy. Collai y gŵr ei gwsg, a churiai ei gnawd gan ing ei ysbryd. Ond wedi bod yn y "clai tew a'r pridd tomlyd" am gryn dymhor, cymerodd ei daith i Langeitho, i gael gair o ymddyddan â Mr. Rowlands. Wedi gwrando ei gŵyn, gofynai Mr. Rowlands iddo, a oedd arno ofn ei fod wedi pechu yn erbyn yr Ysbryd Glan? "Oes," ebe y gŵr, "y mae arnaf ofn hyny yn fy nghalon." "Wel," ebe Rowlands, "yr ydych heb wneyd hyny eto, ond cymerwch ofal na wnewch yr un peth ag a wnaethoch mwy." Bu yr ymddyddan hwn yn foddion gwaredigaeth i'r truan trallodus, a dychwelodd adref gan lawenhau fod "dydd iechydwriath" heb derfynu.

Gostegwyd gradd ar yr erlidigaeth trwy ddylanwad un Mr. Williams, Castle Hill, Aberystwyth, yr hwn wedi deall pa fodd yr ymddygai gwŷr galluog y fro at y crefyddwyr tlodion, a edliwiodd eu traha iddynt, gan roddi amnaid iddynt mai gwell oedd eu gadael yn llonydd, rhag y dygwyddai iddynt yr hyn na ddymunent. Cafodd hyn yr effaith ddymunol, a lliniarodd yr erlidigaeth.

Mae y dull y cychwynwyd yr ysgol Sabbothol yn y lle hwn yn galondid i bob dyn wneyd a all ef tuag at hyrwyddo unrhyw achos da, heb ymollwng ar gyfrif nad oes ar ei law ef ddim awdurdod na gallu i wneuthur dim, pryd, o bosibl, y gallai gair bychan o annogaeth i arall fod yn foddion i roddi cychwyniad i beth mawr a phwysig. Y modd y cychwynwyd hi yn y lle hwn oedd fel hyn:—Yr oedd gŵr o'r enw Rhys Owen yn byw yn Tre'r-ddol, ac ar ryw foreu Sabboth, galwodd gŵr o'r enw Mr. Williams, Llanbedr, wrth ei dŷ, gan ofyn iddo, A fedrai efe ddarllen Cymraeg? Yntau a ddywedodd y medrai ychydig. Yna gofynodd iddo, a oedd yn ewyllysgar i gadw ysgol wythnosol i ddysgu plant y gymydogaeth i ddarllen gair yr Arglwydd? "Nid wyf fi," ebe Rhys, "wedi cael fy nwyn i fyny at y gorchwyl, ac y mae genyf alwedigaeth arall mewn llaw."

"Wel, ynte," ebe Williams, "gwnewch ymgais i gadw ysgol Sabbothol." Ac er mwyn ei gymhell, dangosai y mawr angenrheidrwydd i ryw rai ymaflyd yn y gorchwyl, a'r gresyni blin oedd fod cynifer o eneidiau anfarwol yn colli o eisiau gwybodaeth, heb neb yn ymgais o ddifrif am eu dysgu. Dywedodd hefyd yr ymdrech a wneid gan Mr. Charles i ddeffroi y wlad at y gorchwyl pwysig. Y boreu hwnw, gan hyny, yn ddiymaros, aeth Rhys o amgylch y fro i grynhoi cynifer ag a allai i ddod i'r capel i roddi cychwyniad i'r gwaith da. A hyn a fu ei dechreuad yn y lle hwn. Yr oedd hyn tua 50

mlynedd yn ol, a rhy anhawdd fyddai dywedyd pa sawl cant a ddysgwyd, nid yn unig i ddarllen y Beibl, ond hefyd i adnabod y pethau a berthynent i'w heddwch, o'r pryd hwnw hyd yn awr. Mae ei nifer yn bresenol yn terfynu ar 300.

### LLANILAR.

Y Parch. Daniel Rowlands, meddir, oedd yr un a wnaeth y cais cyntaf i bregethu yr efengyl yn y pentref hwn, o neb o'r Methodistiaid. Ond ni wnaed y cais hwn heb i wrthwynebiad gael ei ddangos. Erbyn i Mr. Rowlands ddyfod i'r lle, yr oedd un Mr. Jones, Abermaud, a thorf o bobl gydag ef, wedi dyfod yno hefyd, ar fedr rhwystro yr oedfa. Ar waith Mr. Rowlands yn cynyg pregethu, ymosodasant arno mewn modd ffyrnig, gan ei luchio â cherig, nes oedd ei waed yn llifo. Pan welodd y gŵr parchedig nad oedd obaith seibiant, efe a gymerth ei anifail, ac a ymadawodd ar ffrwst, gan ysgwyd y llwch oddiwrth ei draed yn dystiolaeth yn eu herbyn, a dywedyd, "Dwyn yr ydwyf yn fy nghorff nodau yr Arglwydd Iesu." Parodd gwrthwynebiad Mr. Jones, Abermaud, yn nghyda gŵr eglwysig o'r enw Mr. Hughes, yr hwn oedd yn byw yn Nglan-yr-afon, gerllaw Llanilâr, na fu un cynyg ar bregethu drachefn, dros amryw flynyddau.

Cymeriad isel ac anfoesol iawn oedd i'r Mr. Jones hwn. Hen fab gweddw, neu fel y dywed eraill, hen lanc oedd. Yr oedd ganddo ddau was nodedig am baffio; y penaf oedd un Richard James, a'r llall oedd wyddel, o'r enw Mic Daniel. Dygwyddodd i Mr. Rowlands, er y maeddu a fu arno y tro cyntaf yn yr ardal hon, gael ar ei feddwl roddi cynyg eilwaith arni, ond nid yn gwbl yn yr un lle. Anfonodd air, gan hyny, y byddai efe yn pregethu yn Llanilar ar ryw ddiwrnod penodol, a chlybu Jones, a dechreuodd ymbarotoi i ymosod arno. Cytunodd â'r ddau ddyhiryn gweision uchod i'w faeddu, a rhoes iddynt arian i'w gwario yn gyntaf yn y dafarn, modd y byddent wedi ymlenwi â diod gref yn gymhwysach at y gorchwyl, ac anfonodd hwy yn ddigon buan i'r fangre ryw gymaint cyn i'r oedfa ddechreu. Ymgasglodd lluaws o bobl yn nghyd, a dechreuwyd y gwasanaeth, a phan oedd y pregethwr yn gweddio, wele y ddau erlidiwr yn ymddangos. Ebe un wrth y llall, "Aros ronyn yn llonydd, a gwrandawn pa beth a ddywed y pregethwr." Craffodd Dic Siams ei fod yn dywedyd rhyw beth sobr iawn, ac yn wylo yn drwm, ac ymaflodd ynddo yntau deimladau yn y fan, na ddilewyd mo'nynt yn llwyr tra y bu byw. Yr oedd gan y gwyddel bastwn mawr yn ei law, a dywedai wrth ei gydymaith, "Mi âf fi yn mlaen ac a'i tarawaf."

"Na chynyg ddim o'r fath," ebe Dic, "os tydi a wnei, mi a'th darawaf dithau, ac ni fydd raid i ti wrth ddim ychwaneg."

Fel hyn, yn annysgwyliadwy, y cafodd Mr. Rowlands, y tro hwn, lonyddwch i bregethu yn ddiwarafun. Dychwelodd pawb i'w man, a'r ddau was hefyd at eu meistr i Abermaud. Galwyd hwy i mewn at y gŵr boneddig a gofynwyd,—

"A gur'soch chwi ef i bwrpas?"

"Naddo," ebe Mic.

"Paham hyny," gofynai y *squire?*

"Dic Siams am rhwystrodd i," ebe yntau, "ac yr oedd yn fy mygwth i yn lle y pregethwr."

Bellach gofynai i Dic, "Paham na wnaethai fel yr addawsai?" "Pan ddaethum," ebe yntau, "i olwg y pregethwr, yr oedd yn edrych yn ddifrif iawn, ac yn wylo yn anghyffredin,—all'swn i ddim ei daro, a'r gŵr *yn llefain.*"

"Wel, wel," ebe Jones, "mi welaf fod eich ofn chwi arno, ac mi *waranta'* na welir mo'no yma mwy, ar frys." "Ond," ebe efe drachefn, "mae yn rhaid i ti Dic ddyfod i mewn i'r Plas, myned i ben 'stôl, a phregethu yr un fath ag ef." Ar hyn galwodd ei holl deulu yn nghyd i wrando Dic yn pregethu. Yr oedd y dyn hwn yn hynod o gryf ei gof, a pharai lawer o ddigrifwch i'w wrandawyr gan ei fedrusrwydd yn y gorchwyl. Gyda ei fod yn terfynu, gan ddweyd "Amen," brathwyd ef, gan ei gydwybod, fel un a wnaethai ar fai, a bu y tro hwn yn achlysur cychwynol ei argyhoeddiad, a blin a fu ganddo o'i blegid tra fu fyw. Dangosodd Richard James ar ol hyn gywirdeb ei grefydd mewn llawer amgylchiad. Sonir am un tro neillduol o'r fath. Yr oedd ef a chrefyddwr arall, o'r enw Moses Siôn, crydd, yn gweithio dan foneddwr tra gelynol i grefydd, yr hwn oedd yn byw yn Llidiardau. Daeth cyhoeddiad rhyw bregethwr i fod yn Llanilar, i bregethu, ac i gadw cwrdd eglwysig ar ol y bregeth. Arwyddai y ddau gydymaith awydd cryf i gael y cyfarfod, ond yr anhawsder oedd ei gael, a chadw eu lle yn ffafr y meistr. Nid oedd ond colli eu gwaith neu golli yr oedfa; ac yr oedd pob un yn bwysig. Penderfynodd Moses, pa fodd bynag, fyned at ei waith a gadael yr oedfa, ond ei gyfaill a wnaeth yn y gwrthwyneb. Gofynasai ganiatâd y dydd o'r blaen gan ei feistr, ond yr ateb a gafodd oedd, "Os ti a ei, na thyred yn agos i fy nhŷ tra fyddech byw, ac ni chei un awr o waith genyf mwy." Eto, er hyn, aeth Dic Siams i'r oedfa, gan adael y canlyniad i Dduw. Boreu dranoeth dyma was y *squire* wrth dŷ Dic yn ei orchymyn at ei waith. "Af yn union," ebe yntau. Ac at ei waith ag ef, ac erbyn cyrhaedd y fan lle yr oedd ei gyfaill, wele y boneddwr yno er mawr ddychryn i'r truan. Ond y gair cyntaf a ddywedai oedd, "Wel, Moses, mi welaf fod gan Dic Siams grefydd,—ond am danat ti nid yw dy grefydd yn werth ffyrling." Mab i'r Richard hwn oedd Isaac James y pregethwr, a mab, meddir, i *squire* Jones, Abermaud, oedd Ishmael Jones, Llandinam.

Eto, nid oedd y lle wedi ei roddi i fyny; a phan y mae yn cau ar ddynion, y mae ymwared gyda Duw;—"Eithaf dyn," medd y ddiareb, "ydyw cyfle Duw." Felly y torodd allan yn y lle hwn. Gan na chai neb ddyfod i Lanilar i ddwyn y marworyn gydag ef, anfonodd yr Arglwydd ŵr ieuanc o Lanilar i Ledrod i'w gyrchu, a hyny heb yn wybod iddo ei hunan. Yr oedd gŵr ieuanc o'r enw John Parry, yn byw yn y Tŷ-ucha', yn nyffryn Llar, yr hwn, ar y pryd, oedd yn ymroddi yn llwyr i hoywder a nwyfiant ei natur, yn ol esampl ei gymydogion, a'i dueddiadau ei hunan. Ar ryw dro daeth hwn

i Ledrod, gyda brawd iddo, i'r oedfa, nid er mwyn iddo gael cyfle i wrando gair yr Arglwydd, ond i gael difyrwch iddo ei hunan, trwy weled y bobl grefyddol yno yn neidio, a'u clywed yn moliannu, ac fel hyn dysgwyliai ei wala o ddigrifwch ei hunan, a thestynau o wawd i ddifyru eraill yn ol llaw. Eithr Duw a fwriadodd yn wahanol. I'r oedfa yr aeth, ond nid hir y bu yn gwrando y bregeth cyn teimlo y gwirionedd yn ymaflyd yn ei galon; anghofiodd ei neges yn dyfod i'r lle, gan ddifrifwch ei achos ysbrydol;—dwysbigwyd ef yn ei galon, ac ni allai ymattal, ond torodd allan i waeddi am ei fywyd, a ffôdd i gymeryd gafael yn ngobaith yr efengyl. Dychwelodd adref yn wahanol iawn ei deimlad a'i syniad:—"Yr hen bethau a aethant heibio, a gwnaethpwyd pob peth o newydd." Wele'r marworyn yn cael ei ddwyn bellach i Lanilar. Daeth ar ei feddwl yn fuan bregethu yr efengyl i'w gyd-bechaduriaid, ac anturiodd i Lanilar i roddi bloedd ar y trigolion yno i ddeffroi. Yr oedd y ddau ŵr boneddig a enwyd uchod yn para i fytheirio eu bygythion yn eu herbyn, ond nid oedd y gŵr ieuanc yn gofalu dim am eu bygythion. Yr oedd yn ŵr ieuanc grymus o gorff, a gwrol o feddwl;—yr oedd y tro a wnaed arno mor hynod a thrwyadl, a'i weinidogaeth danbaid yn ennill meddyliau ei gymydogion gymaint, nes oedd nerth yr erlidwyr yn diflanu, a'u breichiau yn gwywo, ac i raddau mawr fe ddarfu yr erlidigaeth.

Ond ni ddaethai yr amser eto i Lanilar gael achos crefyddol wedi ei sefydlu yn yr ardal. Syrthiodd John Parry, wedi rhedeg yn gyflym ei yrfa fer, yn ysglyfaeth i'r frechwen. Collwyd ef yn fuan oddiar y maes. "Yr oedd," meddai Rowlands, "fel canwyll yn llosgi yn y ddau ben ar unwaith," a buan y diffoddodd. Ond er ei symud ef mor fuan oddiwrth ei waith at ei wobr, ni wnaed hyny, heb arwyddion fod rhai pentewynion wedi eu cipio o'r tân yn ei fro ei hun, y rhai a ymunasant â'r gymdeithas eglwysig yn Lledrod, y lle yr oedd John Parry ei hun yn aelod.

Yn mhen ychydig amser ar ol hyn, galwyd ar William a Jenkin Morgan, Pencareg-fawr, a David Edward, Pwll-clai, i bregethu. Cyd-lafuriodd y tri phregethwr hyn i arloesi y gymydogaeth o'r drygau a'i gorchuddiai, ac i ddeffroi y preswylwyr i ystyriaeth ddifrifol am eu sefyllfa euog a pheryglus, a gwelodd yr Arglwydd yn dda fendithio eu llafur. Ymddangosai arwyddion ar amryw na fu dyfodiad yr efengyl atynt ddim yn ofer. Sefydlwyd yma gymdeithas fechan, yr hon a gyfarfyddai mewn gwahanol dai, dan gryn lawer o anfanteision. Tua'r fl. 1788 y bu hyn; o hyny hyd yn awr, er cyfarfod â gwahanol dywydd, y mae yr achos Methodistaidd yn yr ardal hon, nid yn unig heb ddiffoddi, ond wedi cynyddu llawer.

Ymddengys fod cyfarfod misol wedi cael ei gynal yn yr ardal hon cyn fod yma yr un tŷ addoliad;—cynaliwyd ef yn Pen-careg-fawr, ac un o'r rhai a bregethodd yn y cyfarfod oedd Dafydd Morris, gweinidogaeth yr hwn a arddelwyd mewn modd amlwg a nerthol, fel y bu yr amgylchiad yn gryfhad i'r achos yn ei fabandod.

Tua'r fl. 1715 neu 1797, cafwyd caniatâd gan J. Williams, Ysw., Castle-hill, i adgyweirio hen dŷ ar bwys mur y fynwent, i fod yn dŷ cyfarfod, a chafwyd

gweithred arno am 60 mlynedd, ar yr ammod, os anfoddlawn a fyddai yr etifedd pan y deuai i'w oed, fod y lle yn cael ei roddi i fyny, a chostau yr adgyweiriad yn cael eu dychwelyd, a hyn a wnaed yn mhen 27 mlynedd ar ol y taclu a fu arno. Gweddus ydyw chwanegu ddarfod i'r boneddwr uchod, yn nghyda T. Parry, Ysw., Llidiardau, ddangos llawer o garedigrwydd i'r achos pan oedd eto yn ei wendid. Cafwyd darn o dir i adeiladu capel arall arno, ar ol ofni na cheid yr un; mae hwn yn eiddo cyflawn i'r cyfundeb, a golwg siriol ar yr achos yn ei holl ranau.

Yn fuan ar ol trefnu yr adeilad cyntaf, fe ddechreuwyd yr ysgol Sabbothol, sef tua'r fl. 1798, ond gwywedig iawn a fu dros lawer o flynyddoedd. Ond er pob rhuthr a fu arni, ac er pob petrusder a fu am ei pharhad, y mae yn aros hyd y dydd hwn; ac er ys maith amser bellach y mae wedi ymwreiddio yn ddwfn yn serchiadau y trigolion, ac ynddi oddeutu 300 o aelodau; ac nid oes un amheuaeth chwaith nad ydyw wedi bod yn foddion iachawdwriaeth i lawer o eneidiau.

### ABERYSTWYTH A'I HAMGYLCHOEDD.

Nid yn fynych y byddai tadau y Methodistiaid yn anturio yn uniongyrchol i'r trefydd, ond ymdrechent sefydlu achos yn rhai o'r ardaloedd cylchynol yn gyntaf, ac yna, yn mhen enyd o amser, mwy neu lai, pan y rhoddai rhagluniaeth arwydd fod drws yn agor, hwy a aent i mewn i'r dref. Ac er fod gan y Methodistiaid achos blodeuog mewn llawer o drefydd Cymru, eto y mae eu llwyddiant a'u cynydd, i raddau helaeth, wedi codi oddiar y llwyddiant a fuasai eisoes yn y wlad oddiamgylch, trwy fod lluaws o breswylwyr y wlad yn dyfod i'r trefydd i breswylio, ac felly yn chwyddo llawer ar y gynulleidfa. Mae gradd o hyn yn wir am Aberystwyth, fel am lawer o drefydd eraill. Nid oes un lle yn awr, o bosibl, yn sir Aberteifi, lle mae Methodistiaeth yn uwch nag yn Aberystwyth; eto yr oedd wedi ymwreiddio mewn llawer o fanau yn y wlad cyn iddo gael lle i roddi troed i lawr yma.

Cyn dyddiau Mr. Rowlands, nid oedd dim pregethu yn y dref, ond a geid yn eglwys y plwyf, a hyny yn anaml a difywyd iawn. Ymddengys fod yma rai gwŷr, pa fodd bynag, wedi blino ar y druth ddisylwedd a glywid yn y llan, ac yn dyheu am ryw amgen gweinidogaeth. Pa un ai trwy ddarllen neu ymddyddan â'u gilydd, ai trwy ryw foddion eraill, y cynyrchwyd y teimladau hyn, nis gwyddom; ond tra yr oedd y dynion hyn yn teimlo eu hymddifadrwydd, clywsant fod offeiriad rhagorol yn Llangeitho, lle oddeutu deng milldir oddiwrthynt; ac aeth amryw o honynt yno; ac yn eu mysg yr oedd Morgan Llwyd, Bach-y-rhew, Jenkin Morris, Tŷ-llwyd, Dafydd Evans, Tŷ'n-yr-helyg, Humphrey Pugh, Pen-y-graig, a Harri ei frawd o Aberystwyth, Dafydd y Gwŷdd, ac un Lewis y *Cartman.* Symudodd y gŵr a enwyd olaf i le a elwir Tan-y-castell. Fe fu y gŵr yma, a'i fab-yn-nghyfraith, yr hwn oedd yn byw gydag ef, yn gymhorth mawr i'r achos, yn gymaint felly, meddir, a neb yn y wlad hon. Yr oedd gŵr yn byw yn Tan-y-bwlch, o'r enw John Jenkin, a ddangosai lawer o garedigrwydd tuag at y rhai a gyrch-

ent i foddion gras; gelwid ei dŷ yn "Llety fforddolion," gan y cyniwair a fyddai iddo, a'r caredigrwydd a geid ynddo, yn neillduol gan y crefyddwyr a ddeuent heibio o sir Gaernarfon ar eu ffordd i Langeitho. Cyrhaeddent Tan-y-bwlch erbyn nos Sadwrn, aent i Langeitho erbyn y gwasanaeth boreuol, a dychwelent i'r un man i letya y noson drachefn. Fel hyn y gwnai llawer o grefyddwyr boreuol ac effro sir Gaernarfon dros lawer o flynyddoedd, a llawer o esamplau sydd o'r fendith a fuont yn y teuluoedd lle y lletyent ar y ffordd.

Cafodd yr efengyl ei throed i lawr yn ardal Rhyd-y-felin yn lled foreu. Prynodd Mr. Rowlands ddarn o dir yn y lle hwn i adeiladu capel arno, yr hwn oedd y cyntaf oll yn y gymydogaeth hòno. Pan y clywodd Dr. Powell, Nant-yr-eos, hyn, cyffrodd yn fawr iawn, a galwodd yn ddioed am ei oruchwyliwr Mr. Davies, Crigiau, tad Gen. Davies, Tan-y-bwlch, a dywedodd yn gynhyrfus iawn, "Onid yw yn gywilydd dybryd fod y penau-cryniaid yn cael eu goddef i godi capel rhwng dwy eglwys? A fu erioed y fath hyfdra? Moeswch eich cynghor i'w hattal."

I hyn yr atebodd Mr. Davies yn bwyllog ac arafaidd, gan ddywedyd, "Mi a'ch cynghorwn chwi, syr, i adael llonydd iddynt; oblegyd os o ddynion y mae hyn, fe ddaw yn fuan i'r dim, ond os o Dduw y mae, rhy beryglus ydyw i chwi na minau eu gwrthsefyll." Llonyddodd hyn y gŵr bonéddig, a chafwyd rhwyddineb i fyned â'r capel yn mlaen yn ddiwarafun. Cafodd teulu Nant-yr-eos foddlonrwydd mai da fu ymddwyn yn ol cynghor y goruchwyliwr, gan y cawn fod lle i adeiladu capel yn Aberystwyth wedi ei ganiatâu, yn mhen amser ar ol hyn, ar eu tir hwynt.

Fe fu pregethu yn cael ei gynal yn y capel hwn dros lawer blwyddyn, a chyfarfodydd eglwysig, cyn bod neb wedi anturio i'r dref. Yn y cyfamser, daeth un John Pritchard, gŵr duwiol a defnyddiol iawn, i gadw ysgol ddyddiol Gymreig i'r capel, dan arolygiaeth Madam Bevan; a bu cynghorion ac esamplau y gŵr hwn yn dra bendithiol yn y fro hon, fel y bu y cyffelyb ysgolion mewn lluaws o fanau eraill yn Nghymru. Ond hyd yma, nid oedd neb wedi anturio dros y bont i dref Aberystwyth, er fod ambell bregeth yn cael ei thraddodi yn nghyffiniau y dref, megys yn Pen-maes-glas, ac yn y Dref-fechan.

Ond ar ol i Fethodistiaeth ymwreiddio yn Rhyd-y-felin, ac ennill rhai dysgyblion yn Aberystwyth, yr oedd y bwriad yn cryfhau o ddwyn pregethu at breswylwyr y dref. Yr oedd cyfarfodydd eglwysig yn cael eu cynal, yn y cyfamser, yn Rhyd-y-felin, i ba rai y deuai yr ychydig enwau a breswylient yn y dref; a pharhausant dros ryw dymhor i ddod yma i'r cyfarfod eglwysig, ie ar ol i bregethu ddechreu yn y dref. Rhyd-y-felin oedd yn parhau yn fam-eglwys. Y lle y dechreuwyd pregethu ynddo yn Aberystwyth oedd allan ar Pen-maes-glas, ac wrth yr hen gaer, wrth gefn y gwestty a elwid y *Talbot*. Fe fu Dafydd Morris, a Lloyd o Gaio, yn nghydag eraill llai eu henwogrwydd, yn pregethu yn y lleoedd hyn.

Tua'r fl. 1771, neu cyn hyny, dechreuodd pregethu, fel y soniwyd, yn Tref-

fechau, er maint y gwrthwynebiad a ddangosid i hyny gan yr erlidwyr. Sonir am un tro neillduol y bu ymosodiad ffyrnig ar y pregethwr yn y lle hwn. Pan glywodd yr erlidwyr fod pengrwn yn sefyll i fyny i bregethu yn y Dref-fechan, wrth dŷ Morgan Dafydd Evan, cynhyrfwyd hwy gan benderfyniad i'w attal ac i'w faeddu. Yr oedd gŵr o'r enw Charles Price yn brif swyddog ar gyllidau y goron yn y lle, wedi cymeryd arno flaenori yr ymosodiad hwn, ac wedi cyflogi lluaws o oferwyr dyhiraf y dref i'w ganlyn. Lluchiodd un o honynt gareg at y pregethwr, a disgynodd ar y Beibl a ddaliai yn ei law, ond heb wneyd un niwaid i'r pregethwr ei hun. Y mae y Beibl hwnw ag ôl y gareg eto arno, yn meddiant gŵr yn Aberystwyth, sydd yn awr yn fyw, o'r enw Richard Jones. Nid yw yr hanes yn hysbysu pa fodd y dybenodd yr aflonyddwch hwn, ond yn unig fod un ferch wedi cael ei tharo â chareg, a cholli ei llygad mewn canlyniad.

Mae enwau pedwar o feibion yn cael eu crybwyll, y rhai oeddynt yn byw yn Aberystwyth y pryd hwn, ac yn cyrchu i Rhyd-y-felin i'r cwrdd eglwysig, sef Dafydd y gwehydd, Griffith Griffiths, Lewis Lewis, James James, a Richard Jones. Tua'r fl. 1774, pa fodd bynag, dechreuwyd cadw cwrdd eglwysig yma ambell dro, nid yn gyson, ond yn achlysurol. Ymddengys y byddai Mr. Williams, Pant-y-celyn, ar ei ddyfodiad i'r dref, bob amser yn cadw cyfarfod neillduol yma gyda'r ychydig aelodau, er mai yn Rhyd-y-felin yr oedd y fam-eglwys. Gellir cael drychfeddwl am ansawdd Methodistiaeth yn y dref tua'r pryd hwn trwy yr hanesyn canlynol. Yr oedd Ismael Jones, Llandinam, sir Drefaldwyn, pan yn ddyn ieuanc, yn dyfod i'r dref i bregethu; ond yr oedd wedi clywed fod y trigolion yn ffyrnig iawn yn erbyn y pengryniaid, ac mai nid diberygl oedd i neb o honynt ddyfod i'r dref, os deuai hyny yn adnabyddus i'r erlidwyr. Yr oedd y newydd trwm hwn wedi creu arswyd yn meddwl y pregethwr ieuanc, a threfnodd ei lwybr fel ag i gyrhaedd y dref cyn goleuo y dydd. Pan daeth gerllaw y Porth-tywyll, canfu oleu mewn ffenestr, nesaodd ato, a chlybu lais un yn llefaru; ac wedi ymwrando yn ddyfalach, deallodd mai rhyw un yn gweddio Duw oedd; ar hyn aeth i mewn yn hyderus, a chafodd mai tŷ un o'r Methodistiaid boreu ydoedd, ac mai cadw dyledswydd deuluaidd yr oedd y penteulu cyn dydd, rhag ei aflonyddu gan yr erlidwyr. Y gweddiwr hwn oedd Dafydd y gwehydd. Bu Ismael Jones, a Dafydd y gwehydd, yn gyfeillion calon dros eu hoes.

Tua'r fl. 1784 y cadwyd y gymdeithasfa gyntaf yn y dref hon. Yr oedd pobl y dref, ar y pryd, yn edrych yn ddirmygus iawn ar y penau-cryniaid, ond fe fu y cynulliad hwn yn foddion arbenig i ddarostwng rhagfarn llawer yn eu herbyn. Canfu dynion y byd, y rhai a farnent wrth y golwg yn unig, fod mwy o wychder a rhwysg yn perthyn i'r crefyddwyr nag a dybiasent fod. Syndod a'u daliodd wrth weled boneddigion yn eu cerbydau yn dyfod i'r dref, sef Mr. Bowen, Llwyn-y-gwair, Griffiths o Nefern, Lloyd o Bronwydd, ac eraill, a dechreuodd y lluaws newid eu syniadau am y crefyddwyr, oddiar weled rhai o'r penaethiaid yn eu mysg. Nid oedd nifer y crefyddwyr a breswylient y dref, ar y pryd, ond tua deg o rifedi, a'r rhan fwyaf o honynt yn

dlawd ac isel eu hamgylchiadau. Disgynodd y dyeithriaid, lawer o honynt, yn y Talbot, a chytunasant â gŵr y tŷ hwnw am ystafell fawr yn y gwestty i gynal y cyfarfodydd neillduol. Cyfodwyd areith-glwyd *(stage)* ar bwys y llan, yr hon oedd heb ei chwbl orphen. Yr oedd Mr. Jones, Llangan, yn un o'r pregethwyr yn y gymdeithasfa, a dywedai, gan gyfeirio at y lle y safent, "Ni a ddaethom yn agos iawn i'r eglwys, pwy ŵyr, cyn hir, na chawn fyned iddi?" Dywedir fod y Parch. W. Davies, Castell-nedd, John Pierce, a Dafydd Morris, heblaw y lleill a enwyd, yn pregethu ynddi.

Ymddengys fod y gymdeithasfa gyntaf hon wedi bod yn fendithiol iawn i amlhau nifer y crefyddwyr yn y dref, ac i godi Methodistiaeth yn llawer uwch yn ngolwg y preswylwyr. Coronwyd y pregethau â nerth a gogoniant mawr. Ac nid yn unig yr oedd y pregethu cyhoeddus wedi ei wisgo ag ardderchogrwydd, ond yr oedd moddion llawer mwy disylw a llai cyhoeddus felly hefyd. Noson y gymdeithasfa, dywedir fod cyffro a gorfoledd mawr wedi tori allan mewn tŷ bychan yn y dref, lle yr oedd Mr. Williams, Lledrod, yn aros, a phan oedd yn cadw dyledswydd deuluaidd yn y tŷ. Ar hyn cerddodd y newydd yn gyflym trwy y dref, a lluaws mawr a ddaeth i'r lle. Arweiniwyd y dorf i'r marchnad-dŷ, lle y bu y crefyddwyr yn neidio ac yn moliannu Duw hyd y boreu; ac, fel yr oedd yn rhyfedd, yr oeddynt "yn cael ffafr gan yr holl bobl." Nid oedd neb o'r edrychwyr yn gallu eu gwawdio na'u haflonyddu, ond ymddangosent fel pe disgynasai dychryn Duw arnynt, a dychwelent i'w cartrefi, gan ddywedyd, "Bys Duw yw hyn." Llaesodd grym yr erlidwyr o hyn allan. Ni fu ychwaneg o sarhad ar y Methodistiaid yn Aberystwyth, ond ychydig o eiriau cas a chwedlau disail, ac yr oedd y rhai'n yn anamlach nag y gallesid eu dysgwyl wrth gofio y ffyrnigrwydd blaenorol.

Ymddengys fod y gymdeithasfa grybwylledig wedi effeithio yn rymus iawn ar y dref a'r cymydogaethau, oblegid, nid yn unig fe ddarostyngwyd rhagfarn llawer yn erbyn yr achos, ond fe chwanegwyd llawer at yr eglwys, cymaint felly nes penderfynwyd codi addoldy yn ddioed yn y dref; a hyny a wnaed yn y fl. 1785. Yr oedd y capel hwn yn cael ei ystyried yn un helaeth ar y pryd; ac wedi ei wneyd yn ol y ffurf arferol yn y dyddiau hyny, â chroes iddo, fel yr oedd ac y mae llawer o lanau y plwyf. Aed o amgylch y dref o dŷ i dŷ i gasglu at y draul, a chafwyd llawer o ffyddlondeb a charedigrwydd ar law y trefedigion, fel nad oedd dyled yn aros ar yr adeilad. Defnyddid yr adeilad i bregethu, cadw ysgol ddyddiol, cyfarfodydd i weddio, ac yn achlysurol cyfarfodydd eglwysig; ond hyd yma, yr oedd y fam-eglwys yn Rhyd-y-felin, ac felly y parhaodd hyd y fl. 1798, pryd y barnwyd yn addas ymneillduo oddiwrth Rhyd-y-felin, a ffurfio cangen o eglwys yn y dref.

Agorwyd y capel yn yr Hydref y flwyddyn hono; ac ar achlysur ei agoriad pregethodd y Parch. Peter Williams i gynulleidfa fawr o bobl. Dygwyddodd damwain alaethus ar y pryd yr oedd oedfa yn cael ei chadw. Aethai cwch pysgota allan, a phump o ddwylaw ynddo, ac wrth iddo fyned dros y *Bar*, trôdd y cwch, a boddodd tri o'r pump. Ar ddyfodiad y newydd, disgynodd

ofn a dychryn ar y preswylwyr, a rhai a hònent mai argoel o anfoddlonrwydd yr Arglwydd oedd y ddamwain, am ddiystyru o honynt weinidogaeth yr efengyl. Effeithiodd yr amgylchiad, pa fodd bynag, er nad oedd dim gor-naturiol ynddo, i genedlu rhyw fath o barch i grefydd. Ac nid oes llawer o amheuaeth nad y rhai parotaf, gan ragfarn, i erlid a baeddu o'r blaen, oedd y rhai parotaf yn awr, gan ofergoeledd, i ddelwi gan fraw. Pa fodd bynag am hyny, fe droes yr amgylchiad hwn yn fantais i'r efengyl.

O hyn allan, cynyddodd achos y Methodistiaid yn fawr yn y dref. Edrychid ar yr achos yn y dref, ac yn Rhyd-y-felin, megys un teulu. Deuai y naill gangheu at y llall yn fynych i gynal eu gwahanol gyfarfodydd, a pharhausant felly dros flynyddau meithion, mewn undeb a brawdgarwch diragrith. Ai torfeydd o honynt bob mis i Langeitho, ar Sul y cymundeb, erbyn naw o'r gloch y boreu, a dychwelent i'r oedfa a gynelid am bump o'r gloch yn Rhyd-y-felin. Sonir hyd heddyw gan yr hen bobl am y gyfeillach hyfryd a fwynhaent â'u gilydd mewn ymddyddanion ysbrydol, wrth fyned a dychwelyd o Langeitho. Llyncid hwy i fyny, weithiau, gan felused yr ymddyddanion hyn, nes anghofio eu hunain, ac weithiau torent allan mewn mawl a diolch ar hyd y ffyrdd a'r meusydd, wedi anghofio yn llwyr eu blinder a'u lludded.

Rhoddwyd aml ysgogiad i'r achos yn ei flaen, trwy ddyfodiaid o wahanol barthau o'r wlad, a thrwy adfywiadau mwy neu lai nerthol o bryd i bryd, ac yn neillduol trwy yr adnewyddiad a fu ar yr ysgol Sabbothol, yn y fl. 1799, trwy offerynoldeb Mr. Owen Jones a Mr. Robert Davies,* yn y modd y soniwyd eisoes. Sonir yn neillduol am un adfywiad mwy grymus na'r un arall, yn y fl. 1800, pryd y chwanegwyd at yr eglwys yn agos i gant o aelodau;—y mae rhai o honynt yn aros hyd y dydd hwn. Ond er nad oes genym ryw amgylchiadau hynod i'w coffâu yn y tymhor hwn, eto teg ydyw cydnabod gyda diolchgarwch fod Methodistiaeth wedi bod, ac felly hefyd yn aros hyd heddyw, dan amddiffyniad neillduol perchen y gwaith; nid yn unig mewn lluosogiad mawr ar nifer yr aelodau a gwrandawyr, ac ar wedd allanol y gwaith, ond hefyd yn nhrefnusrwydd a dyfalwch ei ddygiad yn mlaen, ac yn heddwch a chyd-weithrediad cyffredinol yr eglwys yn mhob canghen o'r gwaith. Y cyfryw ydoedd trefn ac effeithioldeb yr ysgol Sabbothol yn y lle hwn, ag a dynai ganmoliaeth iddi oddiwrth awdwyr y "*Llyfrau Gleision;*" ac yn hyn y mae yn sefyll yr unig un ymron yn mhlith cannoedd. Dywedir yno eu bod yn cynwys o 700 i 800 o aelodau! Rhaid fod yma ddirfawr lafur a llwyddiant er pan gychwynwyd hi gan Mri. Jones a Davies yn y fl. 1799.

Tua'r un amser, yr oedd Methodistiaeth yn ymledaenu i'r ardaloedd cylchynol, sef Penllwyn, y Garn, y Graig, y Borth, a Chapel Dewi. Y mae un amgylchiad cysylltiedig â'r Garn yn teilyngu ei goffâu o herwydd ei hynodrwydd, ac yr ydwyf yn fwy parod i'w grybwyll, gan ei fod yn eithriad yn amgylchiadau y blynyddoedd hyny. Sonir fod yn y lle hwn offeiriad o'r enw Mr. Pugh, yr hwn oedd yn ffafriol iawn i'r Methodistiaid, ac yn arfer

* Gwel tudal. 341-343. Cyf. I.

eu gwrando yn fynych pan y rhoddid cyfleusdra iddo. Fe fu y gŵr hwn hefyd yn foddion i dynu i lawr y campau annuwiol ag oeddynt y pryd hwnw yn fawr eu rhwysg yn y fro. Gresyn na fuasai ei holl frodyr yr offeiriaid o'r un naws â'r gŵr hwn!

Nid yw Blaen-y-plwyf yn mhell o Aberystwyth, eto fe ddiangodd yr ardal hon heb nemawr o bregethu cyson ynddi hyd ddechreuad y canrif presenol. Yr oedd pregethu wedi dechreu mewn llawer o fanau cyfagos i'r ardal hon er ys hanner can mlynedd, eto ni chaed drws agored i ymsefydlu yn y fro hyd y fl. 1802. Buasai pregethu achlysurol ychydig amser yn ol mewn lle a elwid y Corn, yn nhŷ un Dafydd Morgan y teiliwr; ond yn y fl. 1802 y ffurfiwyd yma ganghen fechan o eglwys, a bechan, tybygid, oedd hi, yn cynwys 8 neu 10 o aelodau. Gosodwyd ar y ddeadell fechan hon, yn mhen rhyw gymaint o amser, bedwar o ddiaconiaid, o ba rai nid oes yn aros ond William Rowland, Cwrt-y-cwm. Y mae yn syn meddwl fod gwybodaeth gyffredinol, ac yn enwedig gwybodaeth ysgrythyrol, mor brin yn yr ardal hon ag y dywedir ei fod mor ddiweddar a dechreuad y canrif yma. Bernir nad oedd y pryd hwnw ragor na deuddeg o ddynion a fedrent ddarllen y Beibl yn yr holl blwyf. Yr oedd yn hen arferiad gan lawer i fyned i'r llan ar foreu Sabboth, ond gwneid hyn, fel yr ymddengys, oddiar y rhoddid cyfleusdra i nifer o'r cymydogion gyfarfod â'u gilydd i drefnu materion yr wythnos ganlynol. Ar ol y gwasanaeth y byddai y ffermwyr yn cyflogi dynion i weithio iddynt yn ystod yr wythnos; a dyma y pryd y cytunid ar wahanol gynlluniau a ddygwyddai fod yn galw am sylw yn mysg eu gilydd.

Ar ol bod yn y gwasanaeth boreuol, yr oedd yn arferiad hefyd yn mysg y rhai a dreulient y Sabboth i ymbleseru, i fyned y prydnawn i làn y môr i gyflawni rhyw ofer-gampau, neu i ymdrochi, yn ol y tymhor; ac yn yr hwyr ymgasglent i dai eu gilydd i adrodd hen chwedlau ofergoelus, a helyntion yr amser, yn nghyda llawer o ddychymygion disail am ysbrydion a gweledigaethau. Yn y modd yma y treulid y Sabbothau; ac ni all fod prawf sicrach o grefyddoldeb neu anghrefyddoldeb ardal neu deulu, na'r modd y treulir y Sabboth ganddynt.

Tua dechreu y canrif yma, fel y dywedwyd, yr oedd i'w cael rhyw bump neu chwech o ddynion ar hyd yr ardal, y rhai a brofasent radd o bryder yn nghylch achos eu heneidiau eu hunain, ac eneidiau rhai eraill, ac yn ymgrynhoi i dai eu gilydd i gadw cyfarfodydd i weddio; ond yr oeddynt dan angenrheidrwydd yn fynych i alw ar rywun dibroffes i ddarllen cyfran o'r Beibl, gan nad oedd un o'r proffeswyr eu hunain yn medru darllen; eto ni roddent heibio wneyd a allent i godi coffadwriaeth o enw Duw yn mysg eu cymydogion. Ond oddeutu yr amser a nodwyd, cymerwyd tŷ bychan yn addoldy, yr hwn a aeth yn fuan yn rhy fychan; ac wedi cael tir i adeiladu gan Col. Powell, helaethwyd lle y babell, a chodwyd capel helaeth a chysurus. Yn y capel newydd, lluosogodd yr ysgol Sabbothol, yr hon, er y gwrthwynebid ac y rhoddid drygair iddi ar y dechreu, a fu y prif foddion i ddarostwng y campau ffol, a'r cynulliadau llygredig, ac hefyd i chwalu tywyllwch

ac ofergoeledd yr ardal. Y mae yma, bellach, gynulleidfa luosog yn gwrando ar y Sabbothau, a'r ysgol Sabbothol hefyd wedi cynyddu i fwy na 200 o rifedi. Dylasid dywedyd fod yr ysgol Sabbothol wedi ei chychwyn yn nhŷ William Rowland, a thŷ brawd-yn-nghyfraith iddo, ychydig amser cyn myned i'r capel, eto nid oedd ond eiddil ac isel; yr oedd ar yr un pryd yn dda ei gwaith, ac yn ardderchog ei hamcan, a choronwyd hi â llwyddiant mawr. Wedi profi ei heffeithiau daionus yn yr ardal hon, ac wedi i nifer gael eu cymhwyso i raddau i fod yn athrawon, anfonwyd dau o'u mysg i ddechreu ysgol Sabbothol arall yn y gymydogaeth; a hyn a wnaethant. Ac wedi cael prawf o'r ysgol Sabbothol am ychydig amser, caed moddion eraill mwy cyhoeddus, sef cyrddau gweddio a phregethu, nes y bu galwad uchel am gapel yn yr ardal hon eilwaith. Codwyd hwn yn y fl. 1832, a galwyd ei enw Elim. Dyma enghraifft chwanegol o wasanaethgarwch yr ysgol Sabbothol i rwyddhau cynydd ac ymledaeniad yr efengyl mewn gwlad.

---

## PENNOD V.

### PARHAD HANESIAETH EGLWYSI Y SIR.

CYNWYSIAD:—

LLANON—PENMORFA—BLAENANERCH—CAPEL DRINDOD A LLANBEDR.

#### LLANON.

Cyffelyb oedd agwedd y bobl, o ran gwybodaeth ac arferion, yn yr ardal hon ag ydoedd yn gyffredin drwy yr holl wlad. Dangosai llygredigaeth ei hunan yn arbenig yn y dull y treulid y Sabboth. A hwn oedd y prawf sicraf o agwedd y wlad, o ran dylanwad crefydd ar y trigolion. Yn hyn yma y rhoddid gollyngiad diwarafun i egwyddorion y galon, yn y pethau a berthyn i Dduw. Yr oedd rhwymau cymdeithas, callineb dynol, a chyfreithiau y wlad, yn gosod gradd o attaliad ar ddrygioni dynion, o ran lladd, lladrata, twyllo, a gorthrymu;—yr oedd cariad dyn at ei air da, ac at ei amgylchiadau bydol, yn ei gadw o fewn rhyw derfynau, o ran meddwdod a phuteindra, ond am anwybodaeth, ofergoeledd, a halogiad y Sabboth, nid oedd dim o'r egwyddorion uchod yn eu gwahardd, ond yr oedd pob achles a maeth yn cael ei roddi iddynt yn ddigêl a diwarafun. Ac os ydyw eangder gwybodaeth, cywirdeb syniadau, a defnyddiad priodol o ddydd ac ordinhadau Duw, yn argoelion cywir o'r graddau y mae gan grefydd ddylanwad ar wlad, neu genedl, gallwn weled yn dra amlwg, pa mor amddifad oedd Cymru o hono yn y canrifoedd blaenorol. Fel y canlyn y mae ein hanes yn dysgrifio agwedd cymydogaeth Llanon a'i hamgylchoedd:—

Ar ol bod yn y llan yn gwrando darlleniad y llithau, dywedir y byddai rhyw rai yn y fynwent yn darllen "llyfr y chwareuon," ac yn ymroddi yn ol ei gyfarwyddiadau, i ddawnsio a chwareu fel ynfydion. Yr oedd yma lanerch fwy cysegredig at y chwareuon hyn, o'r enw "*Banc y dawns*," (bryn oedd hwn ar dir yr Allt-goch,) lle yr ymgynullai y lluaws ar y Sabbothau i ymddifyru mewn dawns a phob digrifwch. Ië, cymaint oedd grym arferiad, ac awydd am ddifyrwch, fel y gwneid trais ar deimladau natur, ac ar synwyr

dynol i'w gyrhaedd. Ar achlysur o farwolaeth neb yn yr ardal, ymgynullent i dŷ y trengedig i chwareu rhyw gamp a alwent, "*Chwareu y Glocsen.*" Ac nid rhyw amser maith iawn sydd er pan ddiddymwyd yr arferiad annaturiol hon, trwy gynal cyfarfodydd i weddio yn nhŷ y marw. Hefyd, yr oedd yn yr ardal hon ryw gamp, a elwid "*Cyntaf i'r Bwlch,*" yr hon a gynelid ar ŵyl y pasg, ac yn yr hon y byddai y merched yn cymeryd eu rhan, tra y byddai y meibion yn troedio y bêl-droed. Parhaodd y campau hyn, gyda mwy neu lai o rwysg, yn mhell ar ol cychwyniad Methodistiaeth yn y fro. Ceisiwyd darostwng y campau hyn trwy gynal cyfarfod i bregethu ar y pryd, ond canfuwyd fod hyny yn rhoddi achles i chwyddo a chryfhau y cyfarfodydd llygredig, a newidiwyd y dull o ymosod yn eu herbyn, trwy gynghori pob un yn ei le a'i ardal; ac felly, yn raddol, diflanodd yr holl gampau ffol, a hyny mor llwyr, fel mai prin, erbyn hyn, y gŵyr llawer un yn y fro ar ba adeg yn y flwyddyn y mae y pasg yn disgyn. "Côf genyf," medd fy ngohebydd, "pan oeddwn blentyn, i mi weled ychydig o segurwyr yn chwareu pêl wrth y clochdy, ar ddydd *Llun* y pasg, ond erbyn hyn y mae y twmpath chwareu wedi ei orchuddio â beddau, fel pe cyferchid y chwareuwyr gan breswylwyr cysgod angau, "Oni fu ein cynghorion yn ein bywyd yn ddigon i attal eich ynfydrwydd, caiff ein cof-adeiliau, wedi ein marw, wneuthur hyny."

Nid oes gwybodaeth fanwl yn nghylch yr amser y *dechreuodd* pregethu gan y Methodistiaid yn yr ardal hon. Y mae yn adnabyddus, pa fodd bynag, fod pregethu yn bod mewn amaethdy rhwng Llanon ac Aberaeron, o'r enw Morfa-mawr, rhyw gymaint o amser cyn adeiladu capel yn y pentref. Tystiai yr hen bobl, y rhai fyddai yn arfer gwrando yn y Morfa-mawr, eu bod yn cael llawer o'u gwawdio a'u haflonyddu yno. Sonir yn neillduol am un tro, pan y safai y pregethwr i gyfarch y gwrandawyr wrth dalcen tŷ oddi allan, fod dau o heddynadon wedi dyfod heibio, ac wedi ymosod at y gorchwyl o aflonyddu y cyfarfod. Ond wrth wneuthur hyny, dygwyddasant ddod ar draws gŵr o'r enw Yarry, Gwyddel o waedoliaeth, a gwyllt iawn o dymher, yr hwn oedd yn preswylio yn ardal Pennant, ac a ddaethai i'r lle hwn i'r oedfa;—hwn wedi cael rhyw gil-gwthiad gan y boneddwyr yn yr ymgyrch, a ffyrnigodd atynt, a chwiliodd, mewn gwylltineb, am geryg i ddial arnynt am y sarhad a gawsai, a bu gorfod ar y gwŷr mawr ddianc ar frys, a chafodd y pregethwr lonydd, trwy wylltineb y Gwyddel, i orphen y bregeth. Ond cyn iddynt adael y maes, gwaeddasant ar y pregethwr, gan fygwth, os efe a barhäai i bregethu am fwy nag awr, yr edrychent hwy am ei gosbi. Teimlai yntau yn lled ddiofn, gan fod ganddo drwydded, a dywedai wrthynt, y gwyddai ef, yn llawn cystal a hwythau, pa faint i barhau. Felly rhwng ffyrnigrwydd y gwrandawr Gwyddelig, a gwroldeb y pregethwr Cymreig, ni chafodd y gwŷr anrhydeddus (?) nemawr o wobr am eu llafur.

Gwraig weddw, o'r enw Margaret, oedd y pryd hwnw yn dal y Morfa-mawr, yr hon, meddir, oedd yn wraig o gallineb a haelioni mawr. Symudodd y pregethu yn mhen rhyw gymaint o amser o'r Morfa-mawr, ar symudiad y wraig weddw oddiyno i fyw, i'r *Storehouse:* yn y lle hwn y bu am ychydig o

amser, hyd nes adeiladwyd y capel. Dywedir mai dyn o'r enw Siôn Alban a adeiladodd y tŷ cwrdd cyntaf, ymron yn gwbl ar ei draul ei hun. Adeiladwyd ef ar ryw gyttir *(common)*, nid ar unwaith, ond ar deirgwaith. Gwnai hyn, meddir, i edrych, wedi iddo gychwyn adeiladu, a gai ef lonydd gan elynion crefydd, i sefyll ar y cyttir, heb ei dynu i lawr. Ond wrth weled ei fod yn cael llonyddwch, gorphenodd ef. Costiodd iddo, meddir, tua £15. Yr oedd hyn, medd fy ngohebydd, tua'r fl. 1762. Wedi treigliad amser priodol, ac i'r lle ddyfod yn feddiant iddo yn ol y gyfraith, rhoes weithred arno i'r cyfundeb am fil o flynyddoedd ond un. Cyffelyb oedd y capel hwn i lawer tŷ anedd y pryd hwnw,—tŷ hir a thô gwellt arno, y pulpud yn ei dalcen, a grisiau cerig mawrion a charbwl o'r tu allan i fyned i'r pulpud. Yr oedd clwyd isel a rhwyllog o dan y pulpud yn ffurfio math o gôr mawr. Nid oedd yr olwg arno ond salw, fel yr oedd yr holl dai cyrddau ymron y pryd hwnw. Eto ymddengys i'r Hwn sydd yn preswylio y goruchelder a'r cysegr, weled bod yn dda roi ei bresenoldeb yn y moddion a gynelid ynddo, fel ag i achub llawer o bechaduriaid, ac i chwanegu nifer eglwys Dduw.

Tua'r fl. 1795-6, bu adfywiad mawr trwy y wlad, a chwanegwyd llawer o aelodau at yr eglwys yn Llanon y pryd hwnw; ac o honynt y mae rhai yn aros hyd heddyw. Yn fuan ar ol hyn, sef tua'r fl. 1797, daeth Mr. Herbert yn weinidog i lan y plwyf, ac yn fuan wedi hyny daeth Mr. Nathaniel Williams i'r ardal, trwy iddo briodi gweddw Siôn Alban, Penlan. Fe fu yr achos yn derbyn swer a maeth trwy wasanaeth y gwŷr hyn am flynyddau, hyd nes y cymerodd neillduad gweinidogion le yn y corff, pryd y dyrysodd yr achos i raddau, a thros ryw dymhor; pryd hefyd y caed gwg y gŵr eglwysig yn lle ei wên, a gwrthwynebiad Mr. Williams yn lle ei nawdd.* Ond er y cwbl, parhaodd y Duw mawr i fendithio llafur ei bobl, mewn mesur mwy neu lai, hyd y dydd hwn.

Y mae yr oes a welodd weithredoedd nerthol Duw yn yr hen gapel a'r tô gwellt, wedi myned oll, ymron, o'r golwg; ond y mae ambell un eto ar gael, y rhai a fynegant i ni yn wresog iawn am yr ymweliadau grymus a brofwyd y pryd hwnw, y mwynhad a gaent wrth gyd-deithio â'r hen bobl gyntaf i Langeitho, a'r llewyrchiadau tanllyd a roddid yno ar y weinidogaeth. Ond er maint a sonir am ryfeddodau y tymhor hwnw, y mae anhawsdra mawr i gael dim ffeithiau penodol, a hyny mewn ffurf a threfn i'w dodi i lawr mewn ysgrifen. Crybwyllir, pa fodd bynag, am un Edward Evans, yr hwn a fu farw yn y fl. 1850, ac a fuasai flaenor am 50 o flynyddoedd, ei fod ef yn arfer myned i'r hen gapel pan yn wyllt ac anystyriol iawn; a phan yr elai yno, gofalai am fyned i'r gongl bellaf oddiwrth y pregethwr i wrando; ond un tro pan yn gwrando, gafaelodd y weinidogaeth yn ei gydwybod, nes ei lyncu yn llwyr gan ystyriaeth a difrifoldeb; ac ar ddiwedd yr oedfa, cafodd ei hunan yn ymyl y pulpud, wedi ei sugno yno, o gam i gam, heb yn wybod iddo ei hun. O hyny allan, ni feddyliodd am fyned i'r gongl bellaf mwy:

* Gwel tudal. 469, Cyf. I.

ond os canfyddai neb o'r aelodau yn rhyw encilio ychydig tuag ati, parai i'r hen flaenor amheu ei ysbryd; ac oddiar y syniad hwn, clywid ef weithiau yn dywedyd, "Os gwelwch ddafad yn cilio oddiwrth y ddeadell, chwi ellwch fod yn sicr fod rhyw afiechyd arni."

Yn mis Ebrill, 1803, y dechreuwyd yr ysgol Sabbothol yn Llanon. Gwnaed hyn ar annogaeth y Parch. Ebenezer Richards, a thrwy gynorthwy Daniel Davies, John Matthews, a John Rees. Nid oedd y wedd oedd arni yn ei chychwyniad ond isel iawn. Am rai misoedd nid oedd nifer ei deiliaid ond o 5 i 10. Hònid gan yr hen bobl mai annheilwng oedd aros i addysgu plant i ddarllen, ac esgeuluso myned i wrando pregethau, os byddai pregethau i'w cael o fewn cyrhaedd. Ië, cymaint oedd y difaterwch tuag ati, fel y bu gorfod penodi pedwar o bersonau, a'u rhwymo i fod yno y naill yn niffyg y llall bob Sabboth. Ond er lleied oedd ei chychwyniad, ac er cymaint y gwrthwynebiad a fu iddi dros ryw dymhor, hi aeth yn mlaen, ac a lwyddodd, ac nid yw ei rhifedi bellach nemawr llai na 250. Yn fuan ar ol cychwyniad yr ysgol Sabbothol, y bu raid ail-adeiladu y capel. Gwnaed y newydd yn llawer helaethach na'r hen gapel a'r tô gwellt, ac yn y fl. 1844, fe'i hadeiladwyd y drydedd waith, ac yn awr y mae yn adeilad eang, hardd, a chyfleus.

Yn Llanon, y bu y Parch. Evan Rees yn preswylio; am yr hwn y gellid dywedyd ei fod ef yn "ŵr da, ac yn llawn o'r Ysbryd Glân ac o ffydd." Fe fu farw cyn cyrhaedd 60 oed. Yr oedd yn bregethwr gwlithog a chymeradwy iawn, a theimlid colled fawr ar ei ol.

## PENMORFA.

Fe adeiladwyd y capel cyntaf yn y gymydogaeth hon yn y fl. 1796, ond fe ymddengys fod pregethu yn y fro er ys 40 mlynedd cyn hyny. Adroddai gwraig yn yr ardal, yr hon a adwaenid yn gyffredin wrth yr enw Pegi, Ffynnonberw, wrth y Parch. William Griffiths, Browydd, mai yn y modd canlynol * y dygwyd y Methodistiaid i ddechreu pregethu yn y lle hwn. Yr oedd teulu, ar y pryd y cyfeiriwn ato, yn byw yn Mlaen-y-cwm, cynwysedig o ŵr a gwraig a chwaer y wraig. Yr oeddynt yn cadw *siop* fechan, ac yn dal ychydig o dir hefyd. Nid oedd nemawr o bregethu yr efengyl yn y fro. Yr oedd llyfrau crefyddol o bob math yn brinion iawn; ond yr oedd "Canwyll y Cymry," gan Ficar Pritchard, wedi cyrhaedd y gymydogaeth hon, ac yn meddiant y teulu hwn. Arferai y ddwy chwaer ei ddarllen gyda gradd o ddwysder, ac nid yn ofer a diffrwyth a fu eu gwaith. Parodd ei ymadroddion dirodres argraff ddifrifol ar feddwl y chwiorydd, yn enwedigol un o honynt, nes peri anesmwythder yn nghylch eu hachos ysbrydol, a syched am adnabyddiaeth helaethach o bethau Duw. Nid oedd y gŵr yn profi dim o'r cyffelyb weithrediadau, ond byw yr oedd yn ol helynt y byd hwn, heb "ofalu am ddim o'r pethau hyn." Arferai yn fynych halogi y Sabboth trwy werthu nwyddau o'r *siop*, a syrthiai yn fynych o dan rym nwydau drwg, i'r arferiad

* Cadarnheir yr hanes uchod gan y Parch. John Jones, Penmorfa.

isel o dyngu a rhegi. Parai yr ymddygiadau hyn gryn ofid i'r wraig, yr hon yn fynych a ymliwiai ag ef o'r herwydd.

Dygwyddodd i'r wraig unwaith ar ei ffordd i ffair y Rhos, glywed gŵr yn pregethu mewn pentref, o'r enw Talsarn, ar lan Aeron. Y pregethwr ydoedd William Richard Llwyd, Llangeitho; ac allan yn yr awyr agored y pregethai. Safodd y wraig ysbaid o amser, sef hyd ddiwedd yr oedfa, ar ei cheffyl, i wrando y bregeth; yr hon oedd wedi dwysâu teimladau crefyddol ei mynwes i raddau mawr. Wedi darfod y bregeth, aeth at y pregethwr, gan daer erfyn arno addaw ymweled â'i chymydogaeth hi mor fuan ag y gallai. Cydsyniodd y pregethwr â'i chais, a phenderfynwyd ar yr amser a'r modd yr oedd iddo ddyfod. Ar ei dychweliad adref, mynegodd i'w gŵr pa beth a ddygwyddodd iddi yn ei thaith, yn enwedig y modd y clywsai y bregeth, ac y cawsai addewid gan y pregethwr i ddyfod i bregethu i Flaen-y-cwm, ar ryw amser penodol. Cyffrôdd y gŵr yn fawr wrth glywed hyn, a chyda llŵ a ddywedodd, na "cha'i neb o'r fath ddyfod i'r tŷ hwnw, tra y byddai ei ddau lygad ef yn agored." Parodd hyn gryn bryder i'r wraig, a cheisiodd â'i holl egni ymliw â'i gŵr, a chael ganddo roddi derbyniad i'r gŵr dyeithr; ond y cwbl yn ofer;—ni fynai mewn un modd gydsynio â'i chais; a chan mor benderfynol yr ymddangosai yn ei wrthwynebiad, nid doeth a diberygl hollol oedd i'r pregethwr ddyfod yno.

Yn y dyryswch hwn, aeth y wraig at frawd iddi, yr hwn oedd yn byw yn y gymydogaeth, mewn tyddyn o'r enw Nant-tŷ-mawr, ac a fynegodd iddo ei phenbleth, gan daer ddymuno arno ef roddi caniatâd i'r gŵr dyeithr bregethu yn ei dŷ ef. Yntau, er mwyn boddloni ei chwaer, ac nid er mwyn cariad at yr efengyl, a addawodd y ca'i ef bregethu yno, os gwnai efe hyny dan berthi drain ag oedd yn ymyl y tŷ; ond nid oedd yn foddlawn iddo ddyfod i'r tŷ. Ar yr addewid hon y bu raid i wraig Blaen-y-cwm foddloni. Daeth yr amser a benodwyd rhyngddi â'r pregethwr i ben, ac yntau a fu cystal â'i air. Ond er maint oedd gwrthwynebiad Thomas, Blaen-y-cwm, i dderbyn y pregethwr i'w dŷ, nid oedd heb deimlo rhyw ysfa i gael ei wrando; naill ai oddiar ddichell, gan ddysgwyl clywed rhyw bethau a fyddent yn ddefnydd achwyniad yn ei erbyn, ac yn gryfhad i'w elyniaeth tuag at y penau-cryniaid, neu ynte, y gorchfygid ef gan ryw ysfa gywrain i glywed y cwbl. Pa fodd bynag, fe ddaeth yntau i'r oedfa, yn fwy fel ysbïwr nag fel gwrandawr. Ond er nad oedd ganddo ef neges â'r efengyl, yr oedd gan yr efengyl neges ag ef. Bu gorfod i'r ysbïwr droi yn wrandawr. Teimlodd lewyrchiadau y gwirionedd yn goleuo ei feddwl, ac yn deffro ei gydwybod. Aeth yn drech na'i gyndynrwydd; a gwnaed ef o hyny allan yn ufydd ddysgybl i'r addfwyn Iesu. Ac nid gŵr Blaen-y-cwm oedd yr unig un a orchfygwyd gan y weinidogaeth ar y pryd, ond fe fu yr oedfa hòno yn fenditbiol i bedwar-ar-ddeg o eneidiau.

Pan agorodd yr Arglwydd galon Lydia i ddal ar y pethau a lefarid gan Paul, hi a ddywedodd wrth Paul a Silas, "Deuwch i'm tŷ ac aroswch yno. A hi a'u cymhellodd hwynt." Yr un modd y bu gyda Thomas, Blaen-y-cwm. Ar ddiwedd y bregeth, aeth at ei wraig yn fwynaidd iawn, a dywedodd,

"Cais gan y pregethwr ddyfod i'n tŷ ni heno i gysgu." Yn llawen iawn, yn ddiau, y gwnaeth hithau hyny; felly cafodd y gŵr fendith dragwyddol i'w enaid, y wraig ei hewyllys, a'r pregethwr ei lety. Ac nid yn waglaw, meddir, yr anfonwyd y pregethwr ymaith boreu dranoeth. Rhoes y gŵr iddo ddefnydd rhyw ddilledyn, cyn iddo ymadael, fel prawf o'i gywirdeb, a ffrwyth ei gariad.

Yn Mlaen-y-cwm y bu y pregethu am lawer o flynyddoedd. Yn y tŷ hwn y dechreuwyd y cyfarfod eglwysig gyntaf; ac yn y teulu hwn yr oedd Pegi, Ffynnon-berw, yn forwyn ieuanc ar y pryd y soniwn am dano; ac yma yr ymunodd â'r eglwys fechan, pan oedd tua un-ar-bymtheg oed. Nid oes hanes genym yn mha fodd, gyda manylrwydd, yr aeth yr achos yn ei flaen yn y lle hwn; ond nid oes amheuaeth nad trwy foddion cyffelyb ag a ddefnyddid trwy yr holl wlad, sef gweinidogaeth y gair, ac ymarferiadau crefyddol eraill, yn nghyda llafur a diwydrwydd personol rhai a garent enw Mab Duw.

Dywedir fod y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, wedi rhagfynegu am lwyddiant yr achos yn y lle, ac am y lle yr adeiledid capel arno, tuag ugain mlynedd cyn i hyny gymeryd lle. Fel yr oedd y gŵr parchedig unwaith yn myned o gymydogaeth Blaen-anerch i ffiniau Llangranog i bregethu, ac yn myned heibio y fan y mae y capel arno yn awr, efe a safodd ar ei geffyl, ac a ddywedodd wrth y dynion a gyd-deithient ag ef, "A welwch chwi bridd y waudd acw?—yn y fan yna y pregethir llawer ar yr efengyl, ac yr achubir cannoedd o ddynion." Yr oedd hyn 20 mlynedd cyn meddwl am gapel yn y lle. A gadael heibio y syniad fod un rhagfynegiad dwyfol yn y dywediad, y mae y cyd-darawiad rhwng y daroganiad â'r ffaith yn hynod.

### BLAENANERCH.

Fe ymddengys mai yn y fl. 1794 yr adeiladwyd y capel cyntaf yn y lle hwn. Ond nid oes i ni feddwl mai dyma oedd y tymhor cyntaf y rhoes Methodistiaeth ei droed i lawr yn y fro; oblegid yr ydym yn cael yn nghofnodau Trefecca am bregethu mewn lle a elwir Ffrwd-wenith,* mor foreu a'r blynyddoedd 1742-5. Am y lle hwn y dywed yr arolygwr William Richard, yn ei adroddiad i'r gymdeithasfa, yn y fl. 1745:—

"Mae amryw o'r brodyr yn y gymdeithas hon yn dra siriol, ac wedi eu cadarnhau yn y ffydd, yn cynyddu yn hyfryd yn mhob gras, ac yn ngwybodaeth y gwirionedd. Mynych y gorchfygir hwy gan allu Duw, ac y llenwir hwy â llawenydd yn yr Ysbryd Glân; eto y mae yma rai nad yw gras Duw ddim yn llewyrchu mor ddysglaer ynddynt. Chwanegwyd un ar ol fy adroddiad diweddaf, a hyderwyf ei bod yn ferch i Abraham."

Yr ydym wedi son eisoes am hanes Llechryd,† fod yn y fro hon ddwy wraig a elwid Pegi ac Esther, y rhai a fu yn nodedig o lafurus a ffyddlawn gydag achos y Gwaredwr, mewn tymhor nad oedd iddo nemawr o nodded a sylw. Yr oedd un o'r gwragedd duwiol hyn yn byw yn Wernynad, lle

* Gwel tudal. 5, Cyf. II. † Gwel tudal. 31, Cyf. II.

rhwng Llechryd a Blaenanerch; ei henw priodol oedd Margaret Dafydd Rhys. Ymddengys y bu pregethu dros ryw dymhor yn Ngwerynad ac yn Ffrwd-wenith. Yr oedd Margaret Dafydd Rhys yn arfer myned o amgylch y wlad gyda rhyw fasnach oedd ganddi, ac yn cymeryd y cyfleusdra a roddid iddi trwy hyny i gyfarfod ag amryw bregethwyr a chynghorwyr, ac i gael ganddynt addaw dyfod i'w hardal i bregethu. Y pryd hyny hefyd, yr oedd yn haws gan bregethwyr fyned ar gais cyfeillion crefyddol i bob man y clywent fod drws agored i'w derbyn. Yr oedd Pegi, Werynad, yn y modd yma yn llwyddo i gael llawer o wŷr dyeithr i ymweled â'i chartref, o Langeitho, a manau eraill yn sir Aberteifi, a'r siroedd cyfagos. Disgynai cynaliad yr achos yn y lle, ymron yn llwyr, arni hi, mewn undeb ag ychydig nifer yn y lle a garent yr efengyl.

Yn mhen rhyw ysbaid, symudwyd y pregethu o'r Ffrwd-wenith i Dremain. Yn y lle hwn cynelid y moddion yn nhŷ un Nicholas, Tŷ'r-groes, ond y llety a geid yn nhŷ Margaret Dafydd Rhys. Cedwid y cyfarfod eglwysig yn y lle hwn bob pymthegnos. Yr oedd hefyd gyfarfod eglwysig yn cael ei gynal yn Aberporth, neu mewn cwm uwchlaw Aberporth, ac fe allai fod y cwrdd eglwysig yn y lle olaf hwn wedi ei gychwyn o flaen yr un yn y Ffrwd-wenith. Sonir am gymdeithas Aberporth yn ysgrifion Trefecca, a hyny mor foreu a'r fl. 1743, fel yr hysbyswyd eisoes mewn lle arall; ac nid annhebyg ydyw na fyddai crefyddwyr y ddau le yn cyd-gyfarfod â'u gilydd yn fynych. Tua'r fl. 1776, sef tua 30 mlynedd ar ol cychwyn y gwaith yn Ffrwd-wenith, nid oedd nifer y dysgyblion ond 30. Gellid meddwl fod cryn anwadalwch yn perthyn i amryw o'r dysgyblion ieuainc, a llawer o anwybodaeth, yn gymysg â thymherau gwylltion, fel ag y ceid amryw o honynt yn cilio yn amser profedigaeth. Yn ystod y tymhor a nodwyd, yr oedd awelon gwenwynig yr ymraniad wedi chwythu ar y planhigion ieuainc, fel nad yw ryfedd, wrth ystyried holl amgylchiadau y tymhor crybwylledig, nad oedd y nifer yn y fl. 1776 ond 30.

Tua'r fl. 1792 y dechreuwyd pregethu ar y Sabboth yn Tremain. Y rhai a ddeuai yma i bregethu oeddynt, William Lloyd, Caio; William Richard Llwyd; Dafydd Morris; Jones, Llangan; Sampson Thomas; Jones, Llandudoch; a Griffiths, Nefern. Yr oedd y ddau olaf yn arfer pregethu yn y llan, yn y Mant, yr un Sabboth ag y byddent yn Tremain. Disgynodd dafnau o'r cawodydd bendithiol, a roddwyd ar y wlad wedi marwolaeth Rowlands, ar y lleoedd hyn hefyd, sef tua'r fl. 1793; ac yn y flwyddyn ganlynol, adeiladwyd yma gapel, gan ei alw yn Blaenanerch, oddiar y llain tir, meddir, yr adeiladwyd ef arno. Yr oedd hyn tua 50 o flynyddoedd ar ol dechreu pregethu yn y Ffrwd-wenith ac Aberporth.

Dechreuodd yr ysgol Sabbothol yn y lle hwn tua'r fl. 1806, i'r hon y bu y Parch. Ebenezer Morris yn noddwr rhagorol, fel y cawn weled yn mlaen pan y deuwn at ei hanes. Cynaliwyd yma gymanfa ysgolion * tua'r fl. 1808, a phrofwyd gradd helaeth o adfywiad ar yr achos yn y lle, fel y bu raid hel-

* Dywedir mai hon oedd y gymanfa ysgolion gyntaf a fu, o leiaf, yn y Deheubarth.

aethu y capel. Tua'r amser hwn y sonir am bregeth neillduol i Mr. Ebenezer Morris, pryd y daeth un-ar-ddeg i'r un cwrdd eglwysig mewn canlyniad iddi. Bu yma adfywiadau eraill drachefn, yn neillduol yr un yn y fl. 1823, pryd y daeth tua 140 o aelodau i'r eglwys, y rhai gan mwyaf a barhausant yn ffyddlon yn eu proffes hyd eu diwedd.

Yn y lle hwn y dechreuodd y Peirch. John Jones a Daniel Davies, bregethu, y rhai ydynt eto yn aros ar y maes, yn nghryfder eu nerth a chanol eu dyddiau. Ail-adeiladwyd y capel yn y fl. 1838.

## CAPEL-Y-DRINDOD.

Dechreuodd yr achos Methodistaidd yn yr ardal hon yn Llandyfriog, yn nhŷ Mr. Griffiths yr offeiriad, yr hwn oedd yn dra ffafriol i'r diwygiad Methodistaidd. Cynelid y gymdeithas eglwysig, ar y pryd, yn nhŷ yr offeiriad, ac yn y llan y derbyniai yr aelodau y cymun, eto er hyn, ystyrient eu hunain yn Fethodistiaid, ac ystyrid hwy felly gan eraill. Y cyfryw oedd teimlad cyfeillgar yr offeiriad hwn, fel ag y byddai pregethwyr y Methodistiaid yn pregethu, fel y dywedwyd, yn ei dŷ, ac yn cael eu croesawu dan ei gronglwyd.

Yn y fl. 1792, tueddwyd meddwl Thomas Lloyd, Ysw., Bronwydd, at grefydd. Nid yw yr hysbysiadau sydd genyf yn mynegu pa fodd y dygwyd y cyfnewidiad mawr ar Col. Lloyd. Hysbys ydyw ei fod, yn flaenorol i'r tro hwn, yn ddyn anystyriol a chwbl ddifeddwl am ei ddiwedd; dylynai, fel y rhan fwyaf o foneddwyr, y cŵn hela, a difyrwch cyffredin y dosbarth yr ysgogai ynddo; ond trwy ba foddion bynag y bu hyny, cyfnewidiad mawr ac amlwg a wnaed arno. Rhoes heibio, ar unwaith a thros byth, yr arferion a dybiai yn ddiles; dyfethodd y cŵn hela, gan ymroddi i wasanaethu ei Dduw a'i genedlaeth, mewn llwybrau llai amheus, a llawer mwy sylweddol. Dywedir ei fod ef a Mrs. Lloyd yn meddu ar dduwioldeb nodedig. Dywedai y Parch. Thomas Jones o Gaerfyrddin, yr hwn a gyfeillachai llawer â hwynt, na chyfarfu ef â gŵr a gwraig duwiolach na hwy yn ei oes.

Yn mhen tua dwy flynedd, sef yn y fl. 1794, ar ol dychweliad y milwriad at grefydd, efe a osododd yn ei fryd i adeiladu addoldy ar ei dir, ac ar ei draul ei hun; a hyny hefyd a wnaeth, ac a'i galwodd Capel-y-Drindod, gan awgrymu, o bosibl, ei wrthwynebiad cryf i syniadau yr *Undodiaid*, y rhai oeddynt, ac ydynt eto, yn lluosog yn y parthau hyny. Yr oedd y capel hwn, ar y pryd, yn un o'r rhai harddaf, os nad yr harddaf o gapelau y sir; ac wedi ei gwbl orphen, aeth y gŵr boneddig ei hunan i gyfarfod misol y Methodistiaid, yr hwn a gynelid yn Mhen-y-morfa,* i'w gyflwyno yn anrheg i'r cyfundeb; a hyn a wnaeth, meddai yr hen bobl, mewn dull gostyngedig a hunan-ymwadol iawn. Yr oedd y milwriad hwn yn fwy ei gyfoeth, ac yn uwch ei swydd, na'r canwriad gynt, ond yn gyffelyb iddo o ran naws ei ysbryd,

* Cynelid y cwrdd misol yn yr Esger, tŷ fferm yn nghymydogaeth Pen-morfa, sir Aberteifi.

a'i gymeriad uchel, am yr hwn y dywedodd yr Iuddewon, "Y mae efe yn caru ein cenedl ni, ac efe a adeiladodd i ni synagog."

Nid yn fynych y gwelir milwriaid yn mysg crefyddwyr o un enwad, ac anfynych, yn wir, yn mhlith y Methodistiaid; ond odid na fu yn ystod y can' mlynedd sydd wedi pasio yr un milwriad *(colonel)* mewn cwrdd misol, yn anrhegu y Methodistiaid â thŷ hardd, diddyled, i addoli ynddo, ond hwn. Ac nid codi y capel oedd yr unig arwydd a roes Mr. Lloyd o'i gariad at yr efengyl, eithr efe a gyfranai yn helaeth tuag at gynaliad y weinidogaeth yn y lle. Dewisodd hefyd bedwar o weinidogion i bregethu yn y capel ar 'n ail, fel y dywedir, neu ar gylch. Y rhai cyntaf a ddewiswyd oedd y Peirch. Samuel Lloyd, Abertawe; John Williams, sir Benfro, gynt yn *student* yn Nhrefecca; Hughes, offeiriad, a Benjamin Evans, Drewen, Annibynwr; a Morgan Jones, Trelech. Ar ol marwolaeth Samuel Lloyd, nodwyd Thomas Jones, Caerfyrddin, ac Ebenezer Morris, i gyflawni y Sabboth hwnw bob yn ail. Rhoddai Mr. Lloyd hanner gini i'r pregethwr a wasanaethai y Sabboth, a thri swllt tuag at draul yr oedfa a gynelid yn y capel bob dydd Mercher y boreu!

Yn mhen tua phedair blynedd ar ol adeiladu y capel, cafwyd caniatâd gan y gymdeithasfa i weinyddu swper yr Arglwydd ynddo; yr hyn, mae'n debyg, ni chawsid oni bai fod dylanwad y boneddwr yn cyrhaedd yn mhell, a Mr. Griffiths, offeiriad Llandyfriog, yn cydsynio. Arferai Mr. a Mrs. Lloyd gymuno yn y capel hyd ddydd eu marwolaeth, er eu bod yn ystyried eu hunain yn aelodau o eglwys Loegr, ac yn arfer cyfranogi o swper yr Arglwydd yno hefyd. Tuag at barhad y weinidogaeth yn y lle ar ol ei farwolaeth, gadawodd y milwriad £600 yn ei lythyr cymun, dyddiedig Gorphenaf 2, 1795, i ofal ymddiriedolwyr, i'w gosod allan ar lôg, a'r llôg o flwyddyn i flwyddyn, i gael ei ddefnyddio i gynal pregethiad yr efengyl ddwywaith bob Sabboth, os byddai bosibl; ac i dalu pob traul arall a ddygwyddai, ond na thelid gan deulu y Bronwydd eu hunain.

Yn y fl. 1808, bu farw y boneddwr parchus a duwiol; ond yr oedd Mrs. Lloyd yn feddiannol o'r un ysbryd a'i phriod, ac yn wraig hynod am ei synwyr cryf, yn gystal ag am ei duwioldeb. Rhoes Mrs. Lloyd £600 yn ychwanegol at yr un swm a roddasid o'r blaen, i ofal yr ymddiriedolwyr, i'w gosod allan yr un modd, ac i'r un dyben. Y mae y £1,200 hyn yn awr dan ofal yr un ymddiriedolwyr, a'r rhai hyny yn dri o foneddigion o feddiannau helaeth yn y wlad, a'r llôg yn cael ei ddefnyddio, hyd yma, gyda chysondeb, at y dybenion gosodedig, a'r capel hefyd yr un wedd yn cael ei gyflenwi yn Sabbothol â gweinidogaeth gyson. Un Sabboth yn y mis a gyflenwir, yn ol yr hen arfer, gan weinidog Annibynol, a'r tri eraill gan Fethodistiaid; ond er y cymysgiad hwn yn y weinidogaeth, nid oes yno ond un gangen o eglwys, a hono yn Fethodistaidd.

Fe ymgynyg, yn ddiau, i feddwl y darllenydd, fel y gwnaeth i'r ysgrifenydd, paham y bu yr ymgymysgiad hwn? Ar ryw gyfrifon fe ymddengys yn annaturiol, pan yr ystyriom nad oedd y milwriad yn proffesu ei hun yn aelod gyda'r Methodistiaid, a llawer llai gyda'r ymneillduwyr; a phan yr ystyriom

hefyd, ei fod yn cyflwyno y capel i'r Methodistiaid yn unig. I gyfarfod â'r ymofyniad hwn, dywedir, yn gyntaf, fod Mr. Evans, Drewen, y gweinidog Annibynol yno ar y pryd, pan y clybu am y cyfnewidiad a ddaethai ar y boneddwr, a'r trallod ysbrydol a ddaliasai ei feddwl, wedi myned i ymweled ag ef, i'w gyfarwyddo a'i ddyddanu; ac mewn teimlad o garedigrwydd ato, ddarfod i'r boneddwr ofyn iddo ddyfod i'w gapel un Sabboth yn y mis i bregethu, ac iddo yntau gydsynio â'r cais. Yn ail, dywedir fod pregethwyr ac offeiriaid Methodistaidd, o bob cwr o'r wlad, yn arfer myned y pryd hwnw i'r ŵyl fisol i Langeitho, fel ag y byddai anhawsdra cael gweinidog cymhwys i gyflenwi y Sabboth hwnw gyda chysondeb; ac mai yr ystyriaeth o hyn a barodd i Mr. Lloyd ofyn cynorthwy Mr. Evans ar y Sabboth hwnw. Pa un bynag, hysbys ydyw mai Sabboth cymundeb Llangeitho ydyw Sabboth yr Annibynwyr yno hyd heddyw.

Mewn geiriau yn unig y trosglwyddodd y Milwriad Lloyd feddiant o'r capel i'r Methodistiaid, heb wneyd hyny trwy weithred gyfreithiol, gan na thybid, ar y pryd, mae yn debygol, fod hyny yn angenrheidiol. Ond y diffyg hwn a wnaed i fyny gan ei fab a'i etifedd, sef y diweddar Thomas Lloyd, Ysw., yr hwn, yn y fl. 1819, a roddodd weithred *(lease)* am 900 ml. ar y capel, ac ar ddarn o weirglawdd-dir gerllaw iddo, a roddasid gan ei dad yn gysylltiedig â'r capel, i ymddiriedolwyr. Mae yr ymddiriedolwyr hyn i gael eu dewis o bryd i bryd, o blith aelodau y Methodistiaid, i'r rhai y perthyn yr hawl i nodi pregethwyr i gyflenwi y Sabbothau.

Ysgrifena fy hysbysydd ataf gan ddweyd, "Mae rhyw beth a fyno teulu Bronwydd â chrefydd hyd y dydd hwn. Mab y dywededig foneddwr, yr hwn yntau a fu farw tua phedair neu bum' mlynedd yn ol, oedd ŵr boneddig a gerid yn fawr yn ei wlad. Yr oedd yn bleidiol iawn i wir grefydd, ac yn barchus o bobl dduwiol, o ba enwad bynag. Yr oedd yn llywydd i gangen o Feibl gymdeithas yn ei ardal; ac ar ei chylchwyl flynyddol, areithiai yn gampus o'i phlaid. Arferai ef a'i foneddiges, yr hon sydd eto yn fyw, ddyfod i wrando, ymron bob Sabboth, i Gapel-y-Drindod, tra bu ef byw; ac hyd heddyw, parod ydyw y weddw i ddangos pob caredigrwydd i achos yr efengyl. Mae Thomas Lloyd, Ysw., ŵyr i Col. Lloyd, yn ŵr hynaws a chrefyddol. Aelodau ydyw ef a'i foneddiges yn eglwys Loegr, a dangosant lawer o ymroddiad i wneuthur daioni yn y gymydogaeth, er darostwng pob anfoes yn mhlith y genedl, ac er lledaenu addysg a rhinwedd, trwy bob moddion o fewn eu cyrhaedd.

Fe fu y Milwriad Lloyd farw, fel y dywedwyd, tua thair blynedd cyn i'r *neillduad* gymeryd lle yn mysg y Methodistiaid; ac yn mhen tua thair blynedd wedi i'r amgylchiad hwnw fyned heibio, fe fu ymraniad yn y gynulleidfa hon. Aeth tua'i hanner at yr offeiriad i'r llan, a bu y blaid hon yn cadw cymdeithas eglwysig yn y capel hyd y fl. 1836, sef ysbaid dwy flynedd ar hugain; ond yn y flwyddyn grybwylledig, bu rai o wŷr blaenaf y blaid feirw; ac yn raddol bu farw y gymdeithas hefyd. Ymddengys hefyd, na roddid caniatâd i neb weinyddu swper yr Arglwydd yn y capel hwn ond offeiriaid yn unig, am

lawer o flynyddoedd ar ol y neillduad yn 1811. A'r cyntaf a gafodd ganiatâd i weinyddu, heblaw offeiriaid wedi derbyn cyflawn urddau, oedd y Parch. John Evans, New Inn, fel y gelwid ef unwaith, o herwydd fe'i hystyrid ef yn *hanner offeiriad.* Yn y flwyddyn 1831 y bu hyn, sef yn mhen 20 ml. ar ol y neillduad. Ar ol i'r bwlch hwn gael ei wneuthur yn y mur, daeth y Parch. Thomas Richards, Abergwaen, a Jenkin Davies i mewn. O'r diwedd daeth y capel hwn yn rhydd, fel capelau eraill, i holl weinidogion y cyfundeb i weinyddu yr ordinhadau ynddo.

Yn y lle hwn y dechreuodd Daniel Evans bregethu, yn y fl. 1808. Y mae enw y gŵr hwn yn dra adnabyddus mewn De a Gogledd, fel pregethwr cymeradwy. Teithiodd lawer ar y dywysogaeth, am 38 o flynyddoedd, a bu farw yn y fl. 1845, yn 71 mlwydd oed. Neillduasid ef i holl waith y weinidogaeth yn y fl. 1826.

Yn y lle hwn y dechreuodd Joseph Rees bregethu yn y fl. 1829, yr hwn oedd ŵr call a da, ac yn bregethwr derbyniol. Symudodd oddiyma i Bont-rhyd-fendigaid, yn y fl. 1839;—ordeiniwyd ef yn y fl. 1841;—ond ni fu ei yrfa weinidogaethol ond bèr;—bu farw yn y fl. 1847, ac y mae ei goffadwriaeth yn arogli yn beraidd yn mysg ei holl frodyr.

## LLANBEDR.

Fe ymddengys wrth gofnodau Trefecca, fod pregethu yn y dref hon, neu ei chyffiniau, wedi dechreu mor foreu a'r fl. 1745; ac nid yn unig yr oedd yma bregethu, ond hefyd yr oedd yma gymdeithas eglwysig, dan arolygiad cynghorwr o'r enw James Williams, yr hwn a osodasid ar y dosbarth hwn o'r wlad. Fe ysgrifenai y gŵr hwn at y gymdeithasfa, yn y fl. 1745, gan gyfeirio at Lanbedr, fel hyn;—"Y mae cymdeithas fechan, oddeutu 22 o rifedi, yn Llanbedr, y rhai a ymgadwant mewn cymdeithas agos â'u gilydd, ac hefyd, mor bell ag y gallaf fi farnu, ymgadwant yn ddyfal gyda'r Arglwydd Iesu, a mwynhant llawer gwledd nefolaidd. Y mae yma ychwaneg ar brawf, y rhai y dysgwyliwn a ddaw yn mlaen, fel y mae hefyd mewn llawer o fanau eraill. Mae llawer o eneidiau yn y Gogledd yn gwaeddi am fwyd, gan hiraethu am weled teyrnas yr Arglwydd Iesu yn uchel; yr hyn caniataed Duw er mwyn Crist. Amen."

Yn mhen ychydig fisoedd ar ol ysgrifenu yr adroddiad uchod, y mae yr un gŵr yn ysgrifenu drachefn, fel hyn:—"Y mae yma yn Llanbedr 29 o aelodau. Yr wyf yn credu fod rhai o honynt yn mwynhau llawer o Dduw, fel y mae yn hyfryd bod yn eu plith." JAMES WILLIAMS.

Y crybwylliad cyntaf a gawn am Lanbedr yn nghofnodau Trefecca, ydyw yn y fl. 1743, pryd y profwyd gradd o aflonyddwch oddiwrth Ustus Heddwch a'i weision.* Pa hyd y parhaodd y nifer dysgyblion hyn i ddyfod at eu gilydd, nis gwyddom. Gallwn feddwl fod dyryswch wedi dyfod i ran y cyfarfodydd eglwysig hyn, yn yr adeg y ciliodd Harris oddiwrth y Method-

* Gwel tudal. 9, Cyf. II.

istiaid; ac mai eu harfer, yn yr ardaloedd o amgylch Llangeitho, oedd myned yno, lawer o honynt yn Sabbothol, ac eraill yn fisol, pryd yr oedd y cyfarfodydd lleol a gynelid unwaith yn eu mysg wedi eu gollwng i lawr, neu ynte yn cael eu cynal yn achlysurol, pan y damweiniai iddynt gael cynorthwy at hyny; ond pa wedd bynag oedd arnynt, nid oes genyf ddim hanes ysgrifenedig am danynt wedi y fl. 1746-7.

Dywedir fod y Parch. George Whitfield wedi bod yn pregethu yn Llanbedr; ei fod yn sefyll allan ar yr heol, a chynulleidfa fawr iawn yn ei wrando, ar brydnawn Sabboth. Bernir mai gŵr boneddig o'r enw Syr Herbert Lloyd, yr hwn, y pryd hwnw, a artrefai yn Ffynnon-bedr, hen balas gwych iawn gerllaw y dref, a fu yn offeryn i gymhell Mr. Whitfield i ddod i ymweled â'r parth hwn o Gymru. Nid oedd nemawr o arwyddion crefydd ar y boneddwr ei hun, eto yr oedd ganddo barch i grefyddwyr, ac i'r diwygiad Methodistaidd. Hwyrach ei fod yn awr ac eilwaith yn gwrando ar Rowlands yn pregethu yn Llangeitho, a thrwy hyny fod ei farn wedi ei hennill o blaid crefydd, er na fynai ei ewyllys ei chofleidio. Tybir, hefyd, y gallai ymddyddanion ac esamplau dwy foneddiges dduwiol, y rhai oeddynt, tybygid, yn berthynasau iddo, ac yn byw yn y Foel-allt, yn Llanddewi-brefi, fod yn foddion i liniaru ei ragfarn, a'i ennill i fod yn bleidgar i grefyddwyr.

Ymddengys ddarfod gosod gradd o hynodrwydd ar yr oedfa grybwylledig, trwy mai y gŵr mawr uchod a gafodd ganddo ddyfod; a thrwy fod y pregethwr ei hun yn hynotaf yn ei oes; ac hefyd trwy fod pregethu allan ar yr heol yn newyddbeth, y fath na welsid erioed o'r blaen. Dywedir fod y bregeth hon wedi effeithio yn fawr ar lawer, cymaint, o leiaf, ag a barodd iddynt son am dani dros amser maith, a meddwl yn well am bregethu y tu allan i eglwys y plwyf, nag a wnaethent cyn hyny; eto nid oes son am neb wedi cael ei ddychwelyd at Dduw trwyddi.

Yn fuan ar ol hyn y bernir i foddion crefyddol gael eu sefydlu hwnt i'r afon, y tu allan i'r dref, mewn lle a elwir Ty'n-yr-heol. Fe ddichon mai dyma oedd y lle y cyfeiria cofnodau Trefecca ato, lle yr oedd pregethu achlysurol gan ambell gynghorwr, a chyfarfodydd eglwysig yn cael eu cynal, dan arolygiaeth James Williams, fel y crybwyllasom eisoes, ac i'r achos ag oedd yma gael ei chwalu wedi i beiriandrefn Howel Harris ddyrysu yn y fl. 1751. Pa fodd bynag, nid oes genym ddim ychwaneg o hanes yr achos am ysbaid 24 o flynyddoedd, sef hyd y fl. 1775. Y pryd hwn fe adeiladwyd addoldy yn nes i'r dref, mewn lle mwy cyfleus na Thy'n-yr-heol, mewn man a elwid y Creigiau. Bernir fod yr addoldy hwn, i raddau helaeth, dan olygiaeth Mr. Rowlands, Llangeitho, a'i gynulleidfa; mai efe a biai y tir y safai arno, a bod gofal y lle, i fesur, ar ryw hen ddiacon a berthynai i Langeitho. Yn y wedd yma yr ymddengys i'r achos gael ei gynal am flynyddau. Ai amryw o'r crefyddwyr i Langeitho, tua 10 milldir o ffordd, ar foreu Sabboth, ac wedi mwynhau y gwasanaeth yno, dygent gyda hwy ryw bregethwr i'r Creigiau yn yr hwyr. Yr oedd yr achos yn ymwreiddio yn raddol yn y modd yma, a Methodistiaeth yn ymeangu. Ennillid mwy o sylw y werin, a llawer

a ddeuent i wrando y gair. Cynelid moddion yn achlysurol mewn amrywiol fanau yn y broydd o amgylch, megys yn Tan-y-fforest, Deri Ormond, Pant-y-log, Nanteifiol, &c. Yr oedd gweinidogaeth Llangeitho wedi ennill rhyw nifer o ddysgyblion, yn yr holl barthau hyn oddi amgylch, y rhai a agorent eu drysau i dderbyn pregethu i'w tai, ac a sychedent am i air y bywyd gael ei gyfranu iddynt, bob un yn ei fro ei hun. Ar Sul pen mis, aent oll ymron i Langeitho, yr unig le y pryd hwnw y gweinyddid swper yr Arglwydd iddynt.

Yn mhen rhyw nifer o flynyddoedd, symudwyd yr achos o'r Creigiau i'r dref, i dŷ Mr. David Jenkins.* Nid yw yn ymddangos fod cynydd Methodistiaeth wedi bod mor helaeth yn y fro hon, yn ystod ei arosiad yn y Creigiau, ag y bu mewn llawer o fanau eraill yn y wlad; a barnwyd y gallai ei symudiad i le mwy cyfleus fod yn fuddiol. Cafodd yr achos nyth glyd yn nhŷ Mr. Jenkins am lawer blwyddyn. Yn y tŷ hwn yr ymgynullai yr eglwys; yma hefyd y cynelid y pregethu. Yr oedd y moddion cyhoeddus yn chwanegu o flwyddyn i flwyddyn, fel yr oedd doniau gweinidogaeth De a Gogledd yn lluosogi, ac yn nhŷ Mr. Jenkins yr oeddynt oll yn cael eu cadw. Cynaliwyd yma hefyd amryw o gyfarfodydd misol y sir, a chofir yn hir am rai pregethau a draddodwyd yn y tŷ hwn, am eu coroni ag ardderchogrwydd tra nodedig. Sonir yn neillduol am un oedfa a gynaliwyd yma ar ddydd marchnad; y pregethwyr oeddynt y Peirch. T. Richards, Abergwaun, a John Roberts, Llangwm. Cerddodd y fath awdurdod a grym gyda'r weinidogaeth y tro hwn, nes oedd y gynulleidfa yn toddi mewn dagrau, y farchnad a'i helynt wedi eu hanghofio dros enyd, a'r meddwl wedi ei orlenwi gan bwysigrwydd pethau tragwyddoldeb.

Nid oedd yr eglwys eto ond ychydig o rifedi; ond yr oedd ansawdd dymunol ar eu hysbrydoedd, gan eu hoffder at eu gilydd, a chan eu syched i fwynhau moddion gras, fel nad oedd raid eu rhybuddio i beidio esgeuluso eu cydgynulliad eu hunain. Yr oeddid, ar yr un pryd, yn llygadu am dir i godi addoldy arno, gan na allai lai na fyddai tŷ anedd, ar lawer tro, yn anghyfleus i luaws i ddod yn nghyd iddo; ond nid oedd un man yn dod i'r golwg am dymhor maith, ond wedi hir ddysgwyl, deallwyd fod darn o dir yn y dref ar werth. Wedi cyd-ymgynghori â'r cyfeillion, ac ar anogaeth y Parch. Eben. Morris, yr hwn a ddaethai i'r dref i bregethu ar y pryd, aeth Mr. David Jenkins i ffordd i Langadog, yn sir Gaerfyrddin, ar dywydd trwm o rew ac eira, i geisio prynu y darn tir; oblegid yno yr oedd ei berchenog yn byw. Llwyddodd yn ei amcan, a sicrhaodd y tir ar y telerau y cytunwyd arnynt; ac ar ol hyn y deallodd y gwerthwr i ba ddyben y prynodd ef; parodd hyny ofid a blinder mawr iddo, pan mynegwyd iddo ei fod wedi gwerthu tir i'r Methodistiaid godi capel arno. Gweinidog yn eglwys Loegr oedd y gwerthwr, ac ni fynasai er dim werthu tir i'r Methodistiaid, gan faint oedd ei wrthwynebiad iddynt; ond yr oedd y weithred drosodd, ac ni ellid, bellach, ei galw yn ol.

* Tad-yn-nghyfraith y Parch. John Jones, Llanbedr.

Yr oedd adeiladu addoldy yn gryn anturiaeth i ddeadell fechan; ac nid oedd y crefyddwyr yn Llanbedr ddim heb deimlo yn bryderus wrth wynebu arno, rhag na fyddai ganddynt a'i gorphenai; eto yn mlaen yr aed dan annogaeth eu brodyr yn y sir. Yr oedd yr hen dŷ cwrdd, y Creigiau, fyth ar ei draed, ond yn ddiddefnydd; ac nid oedd, tybygid, yn debygol o ddyfod i ddefnydd o herwydd anghyfleusdra ei sefyllfa; ond yr oedd ynddo ddefnyddiau a allai wasanaethu i'r adeilad newydd, os ceid cenad yr ymddiriedolwyr i'w cludo ymaith. Un o honynt oedd y Parch. Nathaniel Rowlands, ac fe allai yr unig un ar y pryd yn fyw, ac yr oedd yntau eisoes wedi ei fwrw ymaith oddiwrth y corff. Dygwyddodd y gŵr hwn ddyfod i Lanbedr tua'r adeg yr oedd y brodyr yn parotoi at yr adeilad newydd, a gofynwyd iddo ganiatâu i ddwyn defnyddiau yr hen adeilad at y newydd. Yntau gyda pharodrwydd a gydsyniodd â'u cais; ysgafnhaodd hyn ychydig ar y baich, a dygwyd yr adeilad newydd yn mlaen yn llwyddiannus hyd ei orpheniad. Ar ei agoriad, fe bregethodd y Peirch. John Williams, Lledrod; T. Gray, Abermeirig; Eb. Morris, Twrgwyn; a J. Thomas, Aberteifi.

Ni ellir crybwyll am lawer o gyffroadau mawrion mewn ffordd o ddiwygiadau yn y dref hon; eto fe fu yma rai tymhorau o adfywiad, pryd yr ysgafnhaodd yr awyr grefyddol i raddau helaeth, er na fu yma effeithiau mor gyffrous a manau eraill. Sonir llawer am oedfa hynod, pan y pregethai Mr. Richards, Tregaron, ar y geiriau, "Y golledig a geisiaf, y darfedig a ddychwelaf, &c.;" oedfa a goronwyd yn nodedig gan awdurdod ac effeithioldeb. Chwanegwyd amryw at yr eglwys mewn canlyniad i'r bregeth hon, y rhai yr ymddangosai ynddynt arwyddion eglur o ddwysbigiad calon, ac a roisant brofion o hyny yn nghysondeb eu proffes yn ol llaw.

Ni fu eglwys Fethodistaidd Llanbedr erioed yn lluosog iawn o rifedi, eto cynysgaeddwyd hi â diaconiaid rhagorol; yn ddynion call, pwyllog, a phrofiadol. Yn awr, nid oes o'r cedyrn cyntaf o honynt yr un yn ngweddill; hunasant oll yn yr angau, a gorphwysasant oll oddiwrth eu llafur. Casglwyd y diweddaf o honynt at ei frodyr, tua thair blynedd yn ol, yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau, nid amgen na naw a phedwar ugain mlwydd oed.

Y ddau bregethwr a gododd yn yr eglwys hon oeddynt y Parch. John Jones, yr hwn sydd eto ar y maes, ac un David Davies, yr hwn wedi ymddangos dros enyd fechan yn gyhoeddus, a fu farw yn y fl. 1833.

## PENNOD VI.

### PRIF LINELLAU HANESIAETH Y SIR.

CYNWYSIAD:

GWAHANOL GYFNODAU YR HANES—GWEINIDOGAETH Y DIWYGWYR CYNTAF—GWEINIDOGAETH ROWLANDS—ANAMLEDD Y CAPELAU—DAFYDD MORRIS—PARCH. JOHN WILLIAMS, LLEDROD.

Wrth graffu ar holl helynt Methodistaidd y wlad hon, tueddir ni i feddwl fod rhyw gyfnodau arbenig yn perthyn iddo—cyfnodau y perthyn iddynt ryw *amgylchiadau* neillduol—cyfnodau yn meddu gwasanaeth a dylanwad

rhyw *bersonau* neillduol—ac wedi eu coroni â rhyw *sefydliadau* neillduol. Gyda'r defnyddiau sydd ganddo, nid yw yr ysgrifenydd yn proffesu y gall gyrhaedd nemawr o fanyldra a chywirdeb, o ran *amser* a *threfn*, gan na chadwyd cofnodau teg am ddim o'r amgylchiadau dan sylw, er ys mwy na chan mlynedd. Eto, gyda'r defnyddiau sydd mewn llaw, hwyrach y gellir rhoddi bras-ddarlun o brif linellau yr ysgogiad, ag a etyb yr un dyben a phe buasai yn fwy manwl a chywrain.

*Y cyfnod cyntaf, o'r fl.* 1736 *hyd y diwygiad yn y fl.* 1762,—*ysbaid* 26 *o flynyddoedd.*

*Yr ail gyfnod, o'r fl.* 1762 *hyd gyfodiad yr ysgol Sabbothol tua'r fl.* 1795,—*ysbaid* 33 *o flynyddoedd.*

*Y trydydd cyfnod, o'r fl.* 1795 *hyd yn awr.*

---

## Y CYFNOD CYNTAF, HYD Y FL. 1762.

Yr ydym eisoes wedi olrhain graddau ar y cyfnod hwn, ac anfuddiol fyddai ail-adrodd yn awr yr amgylchiadau sydd eisoes wedi eu crybwyll: yr unig beth yr amcanwn ato yn bresenol ydyw rhoddi golygiad mwy unedig a chyffredinol ar Fethodistiaeth y wlad hon yn ystod y cyfnod boreol hwn.

1. Y peth cyntaf sydd yn tynu ein sylw ydyw yr arloesi cyntaf a fu trwy weinidogaeth y diwygwyr ar wahanol ardaloedd yn y wlad. Yn hyn fe fu gweinidogaeth rymus Howel Harris yn wasanaethgar iawn. Gresyn na chadwasid dyddlyfr o'i deithiau a'i bregethau: diau y buasai yn syndod i'r byd. Prin y gallwn olrhain hanes un gymydogaeth yn Nghymru, na chawn allan fod Howel Harris wedi bod yno rywbryd yn ysgythru yr anial gwyllt. Ac er fod gweinidogaeth Rowlands yn fwy sefydlog na'r eiddo Harris; eto y mae yn nodedig gynifer o fanau yn y sir hon y ceir hanes am dano yntau yn pregethu, pryd nad oedd ond naill ai cwbl ddifaterwch, neu eithaf gwrthwynebiad. Ac yn hyn yn ddiau yr ymhelaethodd ar ol iddo ymryddhau oddiwrth wasanaeth y llanau. Yr oedd y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, a'r Parch. Peter Williams, yn achlysurol yn cynorthwyo yn y wlad hon fel gwledydd eraill.

Yr oedd yn y tymhor hwn amryw o gynghorwyr, fel y'u gelwid, yn gwasanaethu i'r un amcan, rhai yn fwy a rhai yn llai effeithiol. Sonir yn neillduol am un David Williams, yr hwn a fu yn ddefnyddiol iawn ar ddechreuad yr achos yn Lledrod, a manau eraill o'r wlad. Bu gweinidogaeth hwn yn dra bendithiol mewn amrywiol barthau o'r Gogledd, ac wedi hyny yn sir Forganwg, lle y treuliodd y rhan fwyaf a'r rhan ddiweddaf o'i oes.

Mae coffa mynych yn cael ei wneyd am William Richard, yr hwn oedd arolygwr ar amrywiol fân gymdeithasau yn ngwaelod y sir hon, ac hefyd ar hyd làn y môr yn sir Benfro, ond nid oes genym ddim hanes oll am dano ond sydd yn "Nghofnodau Trefecca;" ac yno nid oes ond hanes ei lafur. Yr ydym wedi taraw wrth farwnad o waith bardd Pant-y-celyn i un o'r enw

William Richard o Abercarfan, yn mhlwyf Llanddewi-brefi, yr hwn a fu farw yn y fl. 1770, ond nid ydym yn sicrhau mai hwn oedd yr arolygwr crybwylledig. Am hwn y dywed y bardd,

> Gwelais ef ar oriau hyfryd,
> Yn moreuddydd braf ei fywyd,
> Yn molianuu, yn proffwydo,
> Yn flaena' o'r werin yn Llangeitho ;
> Chwys fel nentydd clir yn llifo,
> Tarth trwy'i wisgoedd tew yn sïo.
> Cariad pur, gwerthfawr clir, yn gywir enynu,
> Nes oedd corff yn gorfod helpu
> Enaid allan i'w fynegu.

Y mae enw William Richard Llwyd hefyd yn dyfod dan sylw yn fynych. Yr oedd hwn yn perthyn i gynulleidfa Mr. Rowlands yn Llangeitho, ac yn arfer pregethu yn yr ysgubor a drefnwyd yno i bregethu ynddi. Wrth ryw weddillion a gawn o'i hanes, yr ydym yn cael lle i feddwl fod y gŵr hwn yn feddiannol ar ddoniau helaethach na llawer o'i frodyr o'r un dosbarth ag ef, a bod ei weinidogaeth wedi bod yn dra gwasanaethgar, nid yn unig yn ei wlad ei hun, ond hefyd mewn parthau eraill o Dde a Gogledd. Gyda'r rhai hyn, yr oedd rhyw nifer o gynghorwyr eraill, megys Morgan Evan Hugh, Penant; John Dafydd Daniel, Tregaron; Dafydd William; Rhys Thomas; Dafydd William, Pen-y-graig; Dafydd Richard, Wernfach; Robert Siôn, Rhiwbwys. Nid oes genym nemawr fwy o'u hanes na'r crybwylliad am eu henwau, ac nis gallwn, gan hyny, ond myned heibio heb ychwaneg o sylw.

2. *Effaith gweinidogaeth Rowlands yn Llangeitho ar y broydd cylchynol.* Yr ydym wedi dangos o'r blaen fod gweinidogaeth apostol Methodistiaeth yn effeithio, mewn graddau mwy neu lai, ar gylch eang o'r wlad o amgylch Llangeitho. Ymgynullai lluaws o bobl i'r lle hwnw, ar foreuau Sabboth, allan o lawer o'r cymydogaethau cylchynol, o fewn 10 neu 12 milldir o amgylch, a rhai o barthau llawer pellach. Y rhai hyn a garient yr had da gyda hwy yn eu cof, yn eu calon, ac yn eu genau, i'w cartrefi, nes y teimlid ei ddylanwad ef hyd yn mhell. Wedi eu hadnewyddu yn y modd yma yn y boreu, gwasgarai y cynghorwyr a fyddent yn Llangeitho, yn nghyda'r crefyddwyr, i'r holl gymydogaethau o fewn eu cyrhaedd; ac yr oeddynt yn fwy cymhwys i fyned allan wedi gwresogi eu calonau ar aelwyd danllyd Llangeitho.*

* O herwydd fod yr awdwr yn byw yn mhell oddiwrth y cyhoeddwr, trwy ryw amryfusedd ni ymddangosodd y sylwadau hyn yn eu lle priodol ; darllener hwy yn niwedd pen. ii., yn nhudalen 20 o'r gyfrol hon.

Ni allwn roddi heibio ein hysgrifell, a dybenu ein sylwadau ar nodweddiad "Apostol Cymru," heb gyfeirio at y cyhuddiad a godwyd yn *ddiweddar* yn ei erbyn. Aeth 60 mlynedd heibio cyn i neb feiddio cyhoeddi y cyhuddiad ! Pa fodd yr arbedwyd ei enw da cyhyd nis gwyddom ; ac wedi ei arbed cyhyd, paham yr ymosodwyd arno yn awr, nis gwyddom. Os oedd Rowlands yn euog o'r hyn y dywedir gan ei absenwr am dano, pa beth a allai luddias i hyny ddod i amlygrwydd yn mhell cyn hyn ? Rhaid fod Rowlands yn un o fil, ïe, yn un o fyrddiwn, i allu gochel tafod yr athrodwr dros ystod oes faith a chyhoeddus, a rhaid fod hynodrwydd rhyfeddol yn ei goffadwriaeth i ddianc rhag y llychwin budr hwn am 60 mlynedd ar ol ei gladdu ! Pa fodd y bu hyn ? Ai rhy fychan o ddygasedd oedd yn ei elynion i'w warthruddo yn gynt ? Ai ynte rhy

3. *Anamledd y capelau.* Yn y cyfnod hwn nid oedd ond ychydig iawn o gapelau gan y Methodistiaid trwy holl Gymru. Yr un modd yr oedd yn y sir hon. Mewn tai anedd, gan amlaf, yr oeddynt yn arfer pregethu, a hyny dros lawer o'r cyfnod hwn. Mae anhawsder mawr, gan hyny, i wybod gyda dim manyldra a sicrwydd pa bryd y dechreuodd Methodistiaeth ymwreiddio mewn llawer ardal; oblegid yr oedd lleoedd pregethu yn ansefydlog, weithiau yma ac weithiau acw mewn ardal; bryd arall dechreuai mewn cymydogaeth, a pharhâai yno dros dymhor, ac a symudai eilwaith i gymydogaeth arall. Fe godwyd ambell gapel, neu dŷ cwrdd bychan, yn ystod y cyfnod hwn. Yr oedd *ysgubor* Llangeitho yn cael ei defnyddio i'r dyben; a chan fod hon o fewn y cwmwd a elwid Gwynfil, nid yw yn annhebyg mai y lle hwn, wedi ei droi yn dŷ cwrdd, a elwid yn nghofnodau Trefecca, yn Gapel Gwynfil, yr hwn hefyd yw yr enw sydd eto ar yr addoldy a berthyn i'r Methodistiaid yn y lle hwnw.

Yr oedd lleoedd cyffelyb wedi eu codi yn Llechryd, Aberteifi, Penant, ac fe allai Lledrod hefyd. Heblaw y rhai hyn, nid oes sicrwydd am un lle arall fel addoldy yn bod gan y Methodistiaid yn y tymhor boreu hwn. Yr oedd y gwrandawyr, er hyny, yn amlhau, a'r tai anedd yn cael eu gorlenwi; yr

fychan o onestrwydd yn ei gyfeillion i'w ddynoethi? Os gwir y cyhuddiad, anonest fu ei holl gyfeillion trwy fwrw mantell cêl dros y bai am gynifer o flynyddoedd; os gau y cyhuddiad, yna rhaid oedd aros hyd y *dyddiau diweddaf* hyn i gael athrodwyr digon eofn a haerllug i gyhoeddi yr anwiredd!

Ymddangosodd y cyhuddiad mewn cyhoeddiad uch-eglwysaidd o'r enw y "*Quarterly Review*,"—cyhoeddiad Saesonaeg; ond wedi ei ysgrifenu yn ddiau gan Gymro, yr hwn a broffesai ei hun yn gyfarwydd yn helyntion y dywysogaeth. Parodd yr ysgrif, fel y gellid dysgwyl, lawer o syndod, a pheth cyffro yn y rhai a'i darllenasant, am y cynwysai, fel y barnai llawer o honynt, ddifriad anwireddus ar goffadwriaeth un yr edrychasid arno ganddynt yn un o brif enwogion eu gwlad a'u cenedl. Yr oedd y cyhuddiad hefyd yn fwy syn, am mai yn ddiweddar y gwnaed ef, wedi i fwy na hanner canrif fyned heibio ar ol claddu y cyhuddedig! Disgynodd y syndod ar ddynion yn perthyn i bob enwad o Gristionogion, ymron fel eu gilydd; nid ar aelodau y cyfundeb y perthynai y cyhuddedig iddo yn unig, ond hefyd ar aelodau a gweinidogion yr eglwys wladol, i'r hon hefyd. y perthynai y cyhuddwr Esgorodd y synedigaeth ar ymholiad, a'r ymholiad ar ymchwiliad. Teg ydyw cydnabod mai gweinidogion yr eglwys wladol oedd yn blaenori yn yr ymchwiliad hwn; a gwnaed ef mewn modd ag a ddangosai eu bod yn ddiffuant a phenderfynol i fynu gwybod ar ba sail y gwnaed y cyhuddiad; ac i'w ddynoethi ar g'oedd y byd, os ceid allan ei fod yn gamgyhuddiad.

Swm y cyhuddiad ydoedd, mai dan effeithiau diodydd meddwol y pregethai Rowlands mor rhagorol.* Cadarnhawyd y cyhuddiad drachefn gan olygydd y "*Quarterly Review*" mewn geiriau mwy amlwg a phenderfynol. "Arferai Daniel Rowlands yn fynych," meddai, "*yfed i ormodedd*,"—hefyd, "teimlid anhawsdra, weithiau, i gelu effeithiau yr arferiad hwn, pan y byddai ar fedr pregethu." Caed allan hefyd yn yr ymchwiliad mai clerigwr o Gymro, o'r enw William Williams, mab i un John Williams, Llangeitho, yr hwn a adwaenid fynychaf wrth yr enw Jack 'sgubor, neu Siôn y 'sgubor; yr hwn hefyd a fu yn gwasanaethu i Rowlands dros ryw dymhor, ac yn arfer cynghori yn achlysurol yn mysg y Methodistiaid;—mai mab i hwn, meddaf, a wnaeth y cyhuddiad! Fe ddygwyddodd hefyd, fod mab arall i'r un gŵr yn fyw yn awr, yr hwn sydd ŵr oedranus, ac yn cofio Rowlands yn dda; yr hwn hefyd y mae iddo yr enw o fod yn ŵr gonest a diwyd. Hwn a ddywed yn y gwrthwyneb, na chlywsai efe erioed ei dad na neb arall yn dywedyd y fath beth am Rowlands; ei eiriau ydynt, "ni chlyw-

* "His (Rowland's) wife proved unworthy of his affection, and he *drank deep consolation* at a source which undoubtedly contributed to give his preaching its peculiar energy."

oedd yr amser yn prysur nesâu, gan hyny, pryd y gwelid yr angerheidrwydd, os ewyllysid cyfarfod ag angen y cynulleidfaoedd, i ddarpar lleoedd helaethach, mwy cyfleus, a mwy arosol, i addoli ynddynt. Yr oedd y crefyddwyr hefyd yn amlhau yn feunyddiol, a'r cynghorwyr yn lluosogi, fel ag yr oedd moddion i godi capelau yn chwanegu, a'r gobaith o gael pregethu cyson ynddynt hefyd yn cryfhau. Yn y cyfnod a ganlynai hwn, ni a gawn weled fod y cynydd yn myned rhagddo gyda phrysurdeb mwy nag arferol; o leiaf wedi i effeithiau yr ymraniad gael eu dileu drwy y tywalltiad nodedig a gaed tua'r fl. 1762.

YR AIL GYFNOD, O'R FLWYDDYN 1762 HYD GYFODIAD YR YSGOL SABBOTHOL AR DDIWEDD Y GANRIF DDIWEDDAF.

Parhaodd gweinidogaeth Rowlands i gyffroi y wlad hyd ddiwedd y cyfnod hwn ymron. Fe fu y cwmwl llawn hwn yn para i ddefnynu ar y wlad hyd y fl. 1790. Tua dechreuad y cyfnod hwn, y daeth Dafydd Morris i sylw, gweinidogaeth yr hwn a fu mor rymus trwy Ddê a Gogledd i ddeffroi y trigolion o'u cwsg. Yn nechreuad y cyfnod hwn hefyd y daeth y Parch.

ais erioed gan *dad* na *mam*, na chan neb arall, yr *awgrymiad lleiaf*, fod y diweddar Mr. Rowlands yn arfer diotta, nac ddarfod ei weled yn feddw *un amser erioed*." Fe ymddengys, ynte, mai ar dystiolaeth y Parch. William Williams *yn unig* y mae y cyhuddiad yn sefyll, a hyny trwy iddo *ef* glywed hyny gan ei dad. Naturiol bellach ydyw gofyn, pa fath ddyn ydoedd hwn? pa fath nodweddiad oedd iddo? Ai nid oedd rhagfarn wedi ei lenwi? neu, ai nid oedd ganddo rhyw ddyben gan i'w ateb trwy gyhoeddi y sarhad hwn? Am y gŵr, fe ddywed ei gyd-weinidogion ar g'oedd y dywysogaeth, "mai dyn oedd a *yrwyd allan o esgobaeth Llandaf o achos ei ymddygiad tra ysgeler*." Wele'r ffynnon y tarddodd y cyhuddiad o honi!—A thystiolaeth hwn ydyw yr unig sail iddo! Gresyn na ymofynasai gohebwr y "*Quarterly Review*" yn well cyn anturio difrio gŵr llawer rhagorach nag ef ei hun!

Heblaw tystiolaeth brawd y cyhuddwr, yn dadgan yn gryf na chlywsai efe ei rieni erioed yn dywedyd am Rowlands ei fod yn ddiotwr neu yn feddw, y mae tystiolaeth hen ŵr arall, o'r enw John Jones, yr hwn a fuasai was i Rowlands am ystod y saith mlynedd olaf o'i oes, ac i Mrs. Rowlands ar ol hyny, a thrachefn i'w fab yn nghyfraith, Mr. Lloyd, Cilpyll, hyd nes y bu y boneddwr hwnw farw yn y fl. 1837; yr hwn hefyd sydd eto yn fyw, wedi cyrhaedd 84 ml. oed; mae y gŵr hwn yn sicrhau yn y modd dwysaf na welsai ef erioed yr arwydd lleiaf o feddwdod ar y diweddar Daniel Rowlands, gartref nac oddi cartref. Y mae yn barod i gymeryd ei lw ar hyn un amser, ac mewn un lle y gelwir arno.

Heblaw y rhai uchod, y mae lluaws mawr o wŷr credadwy, gwŷr llên a gwŷr llëyg, adnabyddus o hanes D. Rowlands, ac wedi troi llawer yn mysg y rhai ag oeddynt gyfarwydd iawn yn nodweddiad y gŵr hynod hwnw, yn tystio na chlywsent erioed yr achwyniad nes ei ddarllen yn y cyhoeddiad Seisonig crybwylledig. Mewn gair, y mae yn anhawdd darllen am wrthdystiad cadarnach nag a geir i'r cyhuddiad. Ac wrth feddwl mai i wrthbrofi chwedl un dyn, a'r dyn hwnw o nodweddiad gwarthus, y gosodir gerbron yr holl dystiolaethau uchod, cymhellir ni ar unwaith i farnu fod digon, ïe, a mwy na digon wedi ei ddywedyd. Eto, gan y parch a lochesir i goffadwriaeth Rowlands, a chan uched y safai ei enw fel Cristion cywir, ac fel pregethwr bendithiol, yr oedd hyn oll yn ofynol, modd y symudid ymaith yn llwyr a thros byth y sclafoeriad difriol oddiar ei enw a'i goffadwriaeth.

Diolchgar ydym i'r gwŷr urddasol am eu parodrwydd i ymaflyd yn y gorchwyl o chwilio gwirionedd y cyhuddiad, ac am eu medrusrwydd ynddo. Addefwn yn rhydd eu bod wedi rhoddi prawf mai mwy o bwys ganddynt ydyw gwirionedd a thegwch, na rhwymedigaethau plaid—na allant oddef i dwyll gael ei ledaenu gan glerigwyr, heb ei ddynoethi, nac i ddifriad diachos gael ei roddi ar ymneillduwr, heb ei amddiffyn.

Thomas Gray i'r wlad hon, ac yr ymunodd mor drwyadl â'r Methodistiaid. Cyfnerthwyd yr achos yn neillduol trwy ymuniad y Parch. John Williams o Ledrod. Cafwyd cryfhad chwanegol oddiwrth weinidogaeth achlysurol, ac efengylaidd, Jones o Langan, a Davies, Castellnedd; a chyn diwedd y cyfnod hwn y daeth y Parch. Ebenezer Morris, Twrgwyn, i'r golwg, yr hwn a fu yn un o'r ser dysgleiriaf yn awyrgylch Ceredigion, ac a fu yn offeryn neillduol yn ei ddydd "i wasanaethu Duw yn efengyl ei Fab ef," ac i wasanaethu ei genedlaeth trwy ewyllys Duw am agos i ddeugain mlynedd. Nid ydwyf yn awr yn crybwyll am y Parch. Ebenezer Richards, am y daw ef dan ein sylw yn y cyfnod nesaf, ond dylasem grybwyll enw yr hybarch dduwinydd o Aberteifi, y Parch. John Thomas, yr hwn oedd gydoeswr a chydlafurwr dros dymhor maith ag Ebenezer Morris, ond a fu fyw 25 mlynedd ar ei ol.

### DAFYDD MORRIS, LLEDROD.

Mae yn ofid genyf fod y defnyddiau am y gŵr hwn mor brinion. Nid yw yn ymddangos fod neb wedi ysgrifenu dim o hanes bywyd iddo. Un rheswm paham na wnaed hyny yn ddiamheu, os nad yr unig reswm, oedd yr anmharodrwydd a deimlid yn gyffredinol ymron i ddefnyddio y wasg Gymreig, yn yr oesau a aethant heibio. Nid oes genym yn awr, pa fodd bynag, ond ceisio cipio ychydig o adgofion am dano, a'r rhai hyny wedi llwydo llawer trwy dreigliad tri ugain mlynedd o amser, rhag i'r coffa am dano lwyr ddiffoddi.

Ganwyd ef yn Lledrod, swydd Aberteifi; bu iddo bedwar o blant, o ba rai Ebenezer oedd yr hynaf. Dechreuodd bregethu pan oedd yn ddyn ieuanc tua'r fl. 1765, pan nad oedd eto ond 21 ml. oed; a buan y cyrhaeddodd enwogrwydd mawr yn y weinidogaeth, oblegyd yr oedd ei enw a'i boblogrwydd yn y Gogledd mor hynod a nemawr a ddeuai yno. Nid ydym yn cael ei fod wedi cael dim manteision dysgeidiaeth yn ei ieuenctyd, eto efe a gyrhaeddodd fesur helaeth o wybodaeth dduwinyddol; ac a ddysgodd ddeall awdwyr Saesonig yn dda. Yr oedd hefyd yn medru ysgrifenu yn dda, ac felly yn rhagori, wrth ystyried yr oes yr oedd ef yn byw ynddi, ar lawer o'i gyd-wladwyr. Yr oedd golwg barchus arno o ran ei wynebpryd; yn ei ieuenctyd yn llyfndeg ei wedd; ei wallt yn wineu-felyn; ac yn disgyn yn deneu ar hyd ei dalcen;—yr oedd ei lygaid yn fawrion ac yn fywiog, a'i lais yn gryf, eglur, a soniarus. Daliodd tewder mawr ef yn ddyn lled ieuanc, a chynyddodd arno i raddau anarferol, nes oedd yn anghysurus iddo ei hun, ac yn syndod i eraill. Parhaodd felly hyd ei farwolaeth—amgylchiad a'i goddiweddodd yn nghanol ei ddyddiau.

Prif nodwedd ei weinidogaeth oedd *grymusder*. Nid ydym yn deall fod neb yn cyfrif iddo gywreinrwydd neillduol yn nghyfansoddiad ei bregethau, er fod mwy o hyn, fe ddichon, nag oedd yn mhregethau llawer o'i gyd-oeswyr, am yr *ysgrifenai* ef brif faterion ei bregethau, a hyn nis gwnai ond ychydig y dyddiau hyny. Mae genyf yn awr o fy mlaen gynlluniau amryw o'i bregethau, wedi eu hysgrifenu ganddo ef ei hun; rhai o honynt wedi eu

hysgrifenu yn y fl. 1771, eraill yn 1779, ac eraill yn 1789. Nid oes un math o gywreinrwydd yn y pregethau hyn;—yn eu trefn nac yn eu cyfansoddiad. Ymddengys ynddynt fod y pregethwr yn arfer defnyddio llawer ar ysgrythyrau, ac mai nodiadau dysglaer a llewyrchus ar yr adnodau a ddefnyddid ganddo, gyda chymhwysiad deffrous o honynt at gydwybodau ei wrandawyr, oedd prif ardderchogrwydd ei bregethau. Yr oedd cymhwysder arbenig yn ei weinidogaeth i ddeffroi dynion cysglyd a diofal, a'u cyffroi i ddianc am eu bywyd at Grist y Gwaredwr.

Mae yn ymddangos, hefyd, fod Dafydd Morris yn parhau i gyfansoddi llawer o bregethau ar hyd ei oes gyhoeddus. Yn y fl. 1789, sef dwy flynedd cyn ei farwolaeth, y mae o fy mlaen ysgrifion o *saith* o bregethau, wedi eu cyfansoddi o fewn *chwech* wythnos o amser; ac nid oes un prawf fod hyn yn beth anarferol iddo, ond mai ei ddefod ydoedd cyfansoddi llawer o bregethau ar hyd ei oes. Dywedai Mr. John James, Castell-newydd, am dano, ddarfod iddo ef ei wrando saith-hugain o weithiau, mewn un flwyddyn, a phob un o'r pregethau yn newydd. Yr oedd hyn yn nifer mawr mewn un flwyddyn, ond nid mwy, fe allai, nag oedd yn bod; oblegyd fe ymddengys oddiwrth ei ysgrifion, ei fod yn cyfansoddi llawer o bregethau. Yr ydym yn casglu, gan hyny, ei fod yn ŵr o feddwl bywiog a dychymyg parod; ac hefyd, yn arfer cryn lafur. Os ydoedd yn cyfansoddi saith o bregethau mewn chwech wythnos, pan oedd ei oes weinidogaethol agos ar ben, a phan oedd tewdra ei gorff yn ddigon, tybygasid, i lesteirio iddo wneuthur dim o'r fath, y mae yn hawdd genym gredu y byddai amrywiaeth mawr iawn yn ei bregethau, pan nad oedd eto ond ieuainc, ac yn llawer llai corffol.

Meddai y Parch. Christmas Evans am dano, "Yr oedd Dafydd Morris yn bwysig a thra deffrous yn ei anerchiad at gydwybodau a serchiadau ei wrandawyr. Nid hawdd yw darlunio yr effeithiau oedd yn canlyn ei ddawn yn y dyddiau tanbaid a deffrous hyny, trwy siroedd Caernarfon, Mon, Dinbych, &c. Yr oedd dwysder yn nodwedd berthynol i'w ddawn, yr hwn oedd yn dra chyffrous; gellir gweled ei ddelw yn ei fab Mr. E. Morris."

Mawr y sôn a fyddai gan yr hen bobl am rymusder gweinidogaeth Dafydd Morris. Crybwyllasom eisoes am bregeth y golled fawr.* Mawr fyddai y gwahaniaeth ar wedd llawer un cyn ei bregeth ag a fyddai ar ei hol. Cyn yr oedfa, weithiau, fe'i derbynid yn lled oeraidd, yn enwedig pan y dygwyddai ymweled ag ardal y tro cyntaf erioed, ond ar ol ei wrando fe ddangosid iddo y serchogrwydd mwyaf. Yr oedd unwaith, tua dechreu ei weinidogaeth, yn teithio yn sir Ddinbych, ac yn dyfod o'r Bont-uchel i Adwy'r-clawdd, y ddau le nesaf at eu gilydd y pryd hwnw, ond erbyn cyrhaedd pen y daith, nid oedd iddo gyhoeddiad yn yr Adwy;—trwy ryw anffawd neu gilydd nid oedd yno neb yn ei ddysgwyl, ac nid oedd yno neb yn ei adnabod, gan mai hwn oedd y tro cyntaf iddo fod yn y wlad hòno. Cyfarfu, pa fodd bynag, â rhai o'r gwragedd ag oedd yno yn proffesu, i'r rhai yr hysbysodd ei hun, a'i fod wedi

* Tudal. 231, Cyf. I.

dyfod yno i bregethu, ac yn gofyn ai nid oedd modd anfon y gair ar led y gymydogaeth, a chynull rhyw nifer o bobl yn nghyd? Gyda hyn, wele y blaenor yn dyfod i'r lle, ac yn edrych ar y pregethwr dyeithr yn lled chwith, gan ofyn iddo, Pwy oedd efe? Ac a oedd efe yn werth i anfon allan am wrandawyr iddo? Ymddangosai hefyd yn afrywiog ddigon ei dymher, a bustlaidd ei ysbryd. Ond yr oedfa a ddaeth, a deallwyd yn bur fuan mai nid dyn cyffredin oedd y pregethwr. Disgynai ei weinidogaeth ar ei wrandawyr gyda nerth anarferol; llynewyd hwy i fyny gan rhyfeddod, ac yn fuan rhoddid arwydd o deimladau y galon yn y dagrau a redent yn llifogydd ar ruddiau pob wyneb, ac nid oedd amgen ar yr hen flaenor talgryf. Wedi yr oedfa, daeth hwn ato, gan ymesgusodi a dywedyd, "Dafydd Morris bach, gobeithio y maddeuwch i mi am fy ymddygiad atoch cyn yr oedfa." "Y dyn," ebe yntau, "mi welaf mai ci wyt ti;—dangos dy ddannedd a wneit cyn yr oedfa, ac ysgwyd dy gynffon yr wyt ti yn awr" Un felly hefyd y dangosodd y blaenor ei fod;—yn fuan ar ol hyn, fe droes ei gefn ar yr achos, gan ymdrybaeddu mewn anfuchedd cyhoeddus, ac mewn gwrthwynebiad i achos yr efengyl.

Sonir hefyd hyd heddyw am bregeth hynod iddo yn Llanarmon-dyffryn-ceiriog;—pregethai dan goeden frigog o fasarn yn muarth Sarphle, ar y gair, "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth, canys ni elli fod mwy yn oruchwyliwr." Dan y bregeth hon, torodd pawb ymron yn y lle i waeddi, neu i wylo;—i foliannu neu i weddio. Yr oedd Duw yn ei lef, a chyrhaeddai galonau. Nid oedd anystyriaeth rhai, na gwrthwynebiad eraill, yn gallu dal,—toddai calonau creiglyd fel cŵyr o flaen y tân. Golygfa ydoedd na welsid erioed ei chyffelyb yn y wlad hòno, ac nid oedd gan edrychwyr paganaidd y fro un cyfrif i roi am y fath beth, ond fod chwiw o *wallgofrwydd* wedi disgyn yn ddisymwth ar y gwrandawyr.

Teithiodd Dafydd Morris lawer trwy Ogledd a Dê, ac edrychid am ei ddyfodiad trwy y wlad gyda llawer o lawenydd a dysgwyliad, fel un a fendithid yn fawr gan yr Arglwydd i droi pechaduriaid o gyfeiliorni eu ffordd. Anaml y cynelid cymdeithasfa yn ei ddydd na fyddai Dafydd Morris yn un o'r rhai a arferai bregethu ynddi. Yr oedd yn un o'r llëygwyr grymusaf ei weinidogaeth yn mysg ei frodyr. Yr ydym yn casglu ei fod mor adnabyddus yn y Gogledd ag oedd yn y Dê, a'i fod yn teithio cymaint yn y naill ag yn y llall, gan y son sydd eto am dano yn mysg gweddillion o'r henafiaid ar hyd y gwledydd.

Mae genyf o fy mlaen gyhoeddiad, neu gynllun, o'i daith yn sir Gaernarfon, yn y fl. 1771, wedi ei ysgrifenu ganddo ef ei hun; a chan ei hynafiaeth, gellir meddwl mai dymunol fydd gan y darllenydd gael golwg arno:—

Tachwedd 23, 1771,—am 12, Waunfawr,—nos, Llwyn-celyn.
Dydd Mawrth,—Llanllyfni 2, a chadw yn *brifat* (cyfarfod eglwysig.)
Dydd Mercher, am 10, Tŷ-newydd, a'r nos, Bryn-y-gadfa.
Dydd Iau, am 12, Nefyn,—nos, Tydweiliog.
Dydd Gwener, am 10, Tŷ-mawr,—prydnawn, am 3, Lôn-fudr.
Dydd Sadwrn, am 12, Saethon-bach.
Bore Sul, Pwllheli,—Cricieth am 2.
Dydd Llun am 10, Bryn-engan, a chadw yn *brifat* yn y Garn am 5

Ychydig, fe ddichon, os dim, oedd o leoedd agored i bregethu ynddynt y pryd hwnw, yn sir Gaernarfon, ond y rhai uchod gan y Methodistiaid, er fod mwy na 30 ml. wedi myned heibio er pan ddaethai Howel Harris gyntaf i'r wlad; felly, wedi llafurio am ddeng mlynedd-ar-hugain, nid oedd ond tua deuddeg neu bymtheg o leoedd agored i bregethu ynddynt. Prin yr edrychasid ar hyny, yn y dyddiau hyn, ond llwyddiant bychan; a pharod ydym i feddwl fod llwyddiant Methodistiaeth yn cerdded yn llawer arafach yn y parthau hyny o'r maes yr ymosodir arnynt yn awr, sef maes y genadaeth gartrefol, nag oedd yn y tymhor uchod, ond ni a welwn nad yw y ffaith ei hun ddim yn gosod sail i'r meddwl hwnw.

Yr oedd Dafydd Morris yn un o'r pregethwyr hyny a gysegrodd ei oes i lafur teithiol gyda gweinidogaeth y gair. Fe wnaeth hyn hefyd, pryd yr oedd dan anfantais fawr, o herwydd ei faintioli corfforol. Yr oedd mor dew o gnawd, fel y profai anhawsdra yn fynych i allu myned trwy ddrysau y pulpudau. Yr oedd mor dew a braisg, fel yr oedd dan demtasiwn i gysgu wrth farchogaeth ei geffyl, neu pan y byddai brawd yn dechreu yr oedfa iddo. Defnyddiai glustog o'i flaen ar y cyfrwy i'w alluogi i farchogaeth gyda gradd o esmwythder. Tynai lygaid pawb arno, ar hyd y ffyrdd a gyniweiriai, gan ei faintioli. Yr oedd y fath dewchder yn anghyfleusdra mawr iddo i deithio, eto cysegrodd ei oes i hyny. Edrychid arno ef yn gyffelyb fel yr edrychid ar Robert Roberts, Clynog, yn un o'r cynghorwyr galluocaf ei ddawn, a grymusaf ei weinidogaeth o neb yn ei amser, a chroesawid ei ddyfodiad trwy y gwledydd gyda dysgwyliad a hoffder mawr. Yr oedd ei bregethau, pan y deuai yn achlysurol trwy'r ardaloedd, yn effeithio fel y gwna pylor wrth ergydio craig i'w dryllio, pryd y byddai y cynghorwyr eraill llai eu talentau, yn dyfod ar ol, â'u pigau bach, i godi y meini a ddrylliasid ganddo ef. Yr oedd ganddo lais cryf a soniarus iawn, deall da, a dychymyg cyflym, fel pan dywynai llewyrchiadau ar ei feddwl, fel y gwneid yn fynych, yr oedd nerth anarferol yn ei weinidogaeth; cymaint felly, fe allai, a nemawr un yn ei oes. A chan iddo aberthu ei oes i deithio y gwledydd, nid oes amheuaeth na fu ei lafur gweinidogaethol o ddefnydd tra mawr i achos y Cyfryngwr yn mhlith y Methodistiaid, mewn adeg yr oedd dirfawr angen. Ni fu ei oes yn faith, ond hi fu yn effeithiol. Cyffrôdd lawer ar y wlad pan yr oedd yn cysgu yn drwm—anfonodd saeth argyhoeddiad i lawer calon anystyriol; a chyfeiriodd gamrau llawer ffoadur ofnus i'r ddinas noddfa.

Addefwn yn rhwydd nad oedd y pregethwr grymus hwn ddim heb ei waeleddau. Yr unig goll y sonir am dano ynddo, ydoedd y byddai yn anwagelog pa faint a yfai, pan y rhoddid iddo ddiodydd meddwol. Hawdd ydyw i ni ddychymygu fod syched dyn o'i dewder ef yn fawr iawn, tra yr ydoedd yn llafurio yn egniol; a hawdd ydyw i ni ddychymygu, mewn adeg y tybid fod y diodydd meddwol mor fuddiol ac angenrheidiol; ac mewn tymhor hefyd nad edrychid ar yfed yn ehelaeth yn fai mor wrthun, ac yn wir yn ddim bai,—hawdd, meddaf, mewn adeg fel hyn, y gallwn ddychymygu pa wyliadwriaeth mor fawr oedd yn angenrheidiol i ymgadw o fewn terfynau. Nid ydym

yn dywedyd hyn i esgusodi y bai mewn un modd. Ond yr ydym yn meddwl na all neb dan amgylchiadau gwahanol yr oes bresenol wneuthur yn gyffelyb, heb fod ysgelerder llawer mwy yn y bai. Gwnaethant hwy hyny mewn gradd o anwybodaeth, a than rym temtasiwn lem; ond yn awr, byddai raid gwneuthur yr un peth yn wyneb goleuni, ac o wir galedwch a rhyfyg. Goddefwyd ynddynt hwy yr hyn ni oddefir ynom ni. Yr oedd yn argoeli anwyliadwriaeth ac anwybodaeth ynddynt hwy, ond fe fyddai yn arwydd o ryfyg digywilydd ynom ni. Ni soniaswn air am y gwaeledd hwn yn gysylltiedig â gŵr a fu mor ddefnyddiol yn ei oes, oni bai y gallai rhyw rai dybied y buasai dirgeliad llwyr o'r ffaith yn anffyddlondeb tuag at y gwirionedd;—trwy na roddasid ergyd ar y bai, a rhybudd i bawb i'w ochel ar bob tir, ac i bob gradd.

Buasai yn ddifyr genym allu olrhain llawer mwy o'i hanes, ond nid yw ein defnyddiau na'n terfynau ychwaith yn goddef i ni ymhelaethu. Bu farw Dafydd Morris yn ardal Twrgwyn, lle y buasai yn byw am enyd o amser, ar ol symud o Ledrod, yn nghanol ei ddyddiau, ar y 17eg o fis Medi, 1791, yn 47 ml. oed: wedi bod yn pregethu, fel y bernir, tua 26 o flynyddoedd. Claddasai ei wraig dair blynedd o'r blaen, a dau o'i feibion, Theophilus ac Eleazer, yn nyddiau eu hieuenctyd; ond gadawodd ar ei ol un mab, yr hwn oedd eisoes yn pregethu, sef Ebenezer, yr hwn a lewyrchodd yn ddysglaer yn ffurfafen Methodistiaeth am lawer o flynyddoedd. Dybenwn hyn o hanes anmherffaith am dano trwy osod i lawr fraslun o daith a wnaeth yn ei wlad ei hun, tua dwy flynedd cyn ei farw. Y mae wedi ei ysgrifenu ganddo ef ei hun.

GORPHENAF 18, 1789.

| | |
|---|---|
| Capel—Twrgwyn | Isai 55. 3. |
| Glyn-y-rhedyn | Luc 1. 74. |
| Aberteifi | Can. 7. 1. |
| Llandudoch | Luc* |
| Llechryd | 1 Cor. 3. 21, 22. |
| Tremain | Luc 1. 47. |
| Morfa-uchaf | 1 Cor. 3 21, 22. Mewn angladd. |

TRO I SASIWN LLANGEITHO.

| | |
|---|---|
| Yn y sasiwn yn gyntaf | Can. 7. 1.† |
| Llanddewi-brefi | 1 Cor. 3. 21, 22. |
| Tregaron | Act. 16. 30, 31. |
| Swydd-ffynon | Heb. 6. 7, 8. |
| Lledrod | 1 Cor. 3. 21, 22. |
| Llangwyryfon | Luc 1. 74. |
| Llanbadarn-fawr | Heb. 4. 3. |
| Aberystwyth | Act. 16. 30, 31. |
| Rhyd-y-felin-fach | Zech. 12. 10. |
| Llanrhystyd | Phil. 3. 20, 21. |
| Llanon | Heb. 2. 3. |
| Pennant | Act. 16. 30, 31. |
| Y Gelly | Act. 16. 30, 31.‡ |
| Llanarth | Heb. 2. 3. |
| Geuffos | Zech. 12. 10. |

* Nid yw y testyn ar lawr. † Ymddengys yma ei fod yn pregethu yn nghymdeithasfa ei wlad
‡ Ymddengys fod ganddo saith o wahanol bregethau ar y testyn hwn.

### Y PARCH. JOHN WILLIAMS, GYNT O LEDROD.

Y mae yn beth hynod ddarfod i'r gŵr parchedig hwn ddianc heb un math o gofiant iddo: yn enwedigol wrth ystyried yr amser maith y bu yn llafurio ar y maes Methodistaidd, a'r lle anrhydeddus ydoedd iddo yn serchiadau ei frodyr. Ond rhyw amryfusedd a fu; a drwg ydyw gan yr ysgrifenydd nad ydyw yn ei allu yntau, o herwydd diffyg defnyddiau, i wneyd y gwall i fyny.

Ymddengys, pa fodd bynag, ei fod yn fachgen gwyllt iawn yn nyddiau ei ieuenctyd, er fod ei rieni yn bobl grefyddol, ac mewn undeb â'r Methodistiaid. Anfonwyd ef i ysgol Ystradmeirig; yn y lle hwn y cafodd gymaint o ddysgeidiaeth a dybid yn angenrheidiol i'w gymhwyso i fod yn weinidog yn yr eglwys wladol. Yr oedd Mr. Williams, ar y pryd, yn ddigon rhydd oddiwrth bob rhith o grefydd, eto teimlai radd o barch i'r Methodistiaid, a gwyddai trwy adnabyddiaeth bersonol o honynt, mai disail oedd y rhagfarn a goleddid yn eu herbyn, ac mai anwireddus oedd y chwedlau a ledaenid am danynt. Ond pan ddaeth yr amser iddo ymofyn am ei urddo, deallodd fod sibrwd wedi myned ar led ei fod yn gogwyddo yn ormodol at Fethodistiaeth. Yr oedd hen offeiriad yn y gymydogaeth, adnabyddus o hono, wedi addaw bod yn gyfaill iddo, yn yr adeg oedd arno, a'i gyflwyno i'r esgob i dderbyn urddiad. Ond pan aeth Mr. Williams ato i ofyn iddo am y cyflwyniad, dangosai yr offeiriad betrusder i gydsynio â'i gais, gan ddweyd ei fod wedi clywed ei fod yn tueddu at y Methodistiaid. Cymerodd yntau arno fod yn ddyeithr iawn iddynt, a gofynodd i'r offeiriad pa fath bobl oeddynt. Yntau a'u darluniai yn dra echryslawn gan ddweyd, mai eu gorchwyl oedd cyniwair ar hyd y wlad i dwyllo pobl ddiniweid, gan hau heresiau gwenwynig a dinystriol. Ar hyn, dywedai Mr. Williams yn ei ddull cyflym a chyffrous ei hun, "Nid adwaen i neb o'r *fath ddiawliaid*, Syr. Ac os mynwch, mi geisiaf brofion oddiwrth ddynion cyfrifol nad oes a fynwyf fi â'r pethau diffaith." "Na, na," ebe yr offeiriad, "nid rhaid i chwi drafferthu i geisio y fath beth, oblegid y mae eich *iaith* yn sicrhau i mi nad oes a wneloch chwi â hwy." Ar hyn, rhoddodd iddo yr hyn a geisiai, a derbyniodd yntau ei urddau yn y canlyniad!

Fe fu Mr. Williams, am ryw dymhor, ar ol ei urddiad i'r weinidogaeth, yn rhoddi arwyddion amlwg iawn ei fod hyd yma yn berffaith amddifad o'r cymhwysderau angenrheidiol i'r gwaith, trwy ei fod yn rhoddi ffrwyn yn ddiymattal i'w dueddiadau llygredig, a chydredeg yn heinif gyda'i gyfoedion i'r unrhyw "ormod rhysedd." Ar ol darllen yn y llan, arferai yn fynych dynu ei *gôt* yn y fan, gan ymroddi â'i holl egni i chwareu pel gyda chwmni cyffelyb iddo ei hun. Ar ryw brydnawn dydd Sadwrn, yr oedd wedi bod yn chwareu pêl â'i holl egni am ryw wobr neu wystl *(wager)*, dywedodd ar ddiwedd y chwareu, "rhaid i mi fyn'd i ysgrifenu pregeth erbyn y fory."

"Na ofala fymryn," ebe un o'i gyfeillion, "mae gen' i bregeth o eiddo Mr. Rowlands; cei ei benthyg genyf."

"Nid oes eisiau ei gwell hi," ebe yntau, er na wyddai nemawr am Mr. Rowlands, ond trwy glywed eraill yn ei ganmawl.

Nid oes sicrwydd am yr amser y dwysbigwyd y rhith-bregethwr gwyllt hwn, nac yn mha le, ond hyn sydd sicr, mai trwy wrando Daniel Rowlands y cyrhaeddodd y saeth ei galon, ac mor sicr a hyny, fod yr argyhoeddiad a brofodd, ar y pryd, yn ddwfn iawn; ac i'r cyfnewidiad a ganlynodd fod yn un amlwg a llwyr. Os blaenorodd cyn hyn mewn gwylltineb ac oferedd, yr oedd bellach mor hallt a thanbaid yn erbyn pechod a phob ynfydrwydd. Yr oedd ei bregethau erbyn hyn yn daranllyd a llymion iawn, nes oeddynt yn peri braw aruthrol ar yr annuwiolion a'i gwrandawai. "Clywais ef yn adrodd," meddai fy hysbysydd, "wrth gydfyned ag ef i gymanfa Aberteifi, am un amgylchiad a ddygwyddodd, 'Dyma lan,' meddai, 'am Blaen-porth, y bum yn pregethu, flynyddau maith yn ol, am eangder a manylrwydd gofynion deddf Duw yn gofyn pechadur, ac yntau yn euog yn ei hwyneb ac heb ddim i dalu,' fel yr effeithiodd mor rymus ar feddwl yr hen offeiriad y lle, yr hwn oedd ar y pryd yn gwrando, nes y collodd ei synwyrau, ac ni fu yn alluog o hyny allan i gyflawni ei swydd fel gweinidog y llan."

Fe fu Mr. Williams yn gweinidogaethu yn yr eglwys sefydledig, ryw dymhor ar ol ei ddeffro dan bregeth Rowlands. Ac er mai yn Lledrod yr oedd efe yn gwasanaethu yn sefydlog, eto yr oedd yn barod i bregethu yn mhob llan a roddai ddrws agored iddo. Ryw Sabboth yn Lledrod, pan oedd ei ysbryd yn eiddigeddu yn danbaid am achubiaeth ei wrandawyr, rhoes hysbysiad ar ddiwedd y gwasanaeth, y byddai dda ganddo gyfarfod â rhyw rai o'i wrandawyr, ar ryw noson o'r wythnos ganlynol, os oedd neb yn eu mysg dan drallod meddwl, a gofid ysbryd yn nghylch achos eu heneidiau, i'r dyben o'u cyfarwyddo a'u dysgu; ac annogodd yn serchiadol y cyfryw rai i ddyfod i'r llan, ar ryw awr a benodai, gan addaw y deuai yntau yno i'w cyfarfod. Yr amser a ddaeth, ond ni ddaeth ond tri i'w gyfarfod; un hen ŵr, a dwy hen wraig. Ar ol dechreu y cyfarfod trwy ddarllen a gweddio, troes at yr hen bobl i ymddyddan â hwy, ac i wybod eu helynt, er mwyn eu hyfforddi a'u cysuro:—

"Pa beth," ebe fe, wrth un o'r ddwy hen wraig, "sydd yn blino eich meddwl chwi?"

"Rhyw wayw rhyfedd o boenus," ebe'r hen wraig, sydd yn fy ochr i, nes wyf yn methu cysgu y nos, na cherdded, na dim arall ymron; ac mi ddaethum yma, Syr, i ofyn a oedd gyda chwi yr un cynghor i mi rhagddo."

"A oes dim trallod ar eich meddwl am eich enaid, druan?" gofynai yntau.

"Nac oes," atebai yr hen wraig, "yr wyf yn hollol dawel am fy enaid."— Aeth at yr hen wraig arall, a gofynai iddi,—

"Pa beth yn neillduol oedd yn ei blino hi?"

"Mi a ddaethum yma," ebe'r hen wraig, "i ofyn eich cymhorth chwi, Syr, i ymliw â'r *overseer;* y mae wedi tynu fy nogn i o'r plwyf i lawr, ac ni allaf fyw ar y swm bychan a roddir i mi yn awr."

Yr oedd Mr. Williams, bellach, yn flin ei ysbryd wrth weled y fath gaddug o anwybodaeth, a'r fath ddiofalwch perffaith am bethau ysbrydol, a dechreuodd draethu yn ddifrifol wrthynt am eu sefyllfa druenus, gan ofyn, pa fodd

yr ymdarawent yn ngwyneb byd ar ol hwn;—fod iddynt afon fawr a dofn i'w chroesi, wrth fyned o'r byd hwn i'r byd hwnw;—wrth glywed hyn, neidiodd yr hen ŵr ar ei draed, a dywedodd, "A wyddoch chwi, Syr, yr oedd genyf fi hen geffyl a fuasai yn nofio un afon yn y byd, ond gresyni yw ei fod wedi ei werthu!" Y cyfryw ydoedd dysgyblion cyntaf Mr. Williams. Ac er mor ddigrifol ydoedd atebion y trueiniaid tywyll, ni allai Mr. Williams, ac ni all neb ystyriol, lai na gresynu dros hen greaduriaid a ddangosent y fath ddideimladrwydd llwyr yn nghylch eu hachos tragwyddol. Ar yr un pryd, y cyfryw ydoedd agwedd a chyflwr cannoedd a miloedd o'r Cymru a fagwyd yn yr un amser a hwy.

Yr oedd Mr. Williams tua 32 ml. oed pan yr ymunodd ef gyntaf â'r Methodistiaid, sef yn y fl. 1781. Dywedasom o'r blaen ddarfod ei dderbyn at y Methodistiaid yn Swydd-ffynon,* ac o hyny allan edrychid arno yn aelod ac yn weinidog yn eu mysg. Dywedir ei fod wedi treulio 62 o flynyddoedd yn y weinidogaeth; rhaid, felly, ei fod wedi cychwyn arni yn 20 neu 21 oed. Gan mai yn y fl. 1781 y derbyniwyd ef yn aelod at y Methodistiaid, yr oedd wedi treulio 12 ml. o'i weinidogaeth yn y llanau, a pha faint o'r 12 ml. hyny a dreuliwyd yn oferedd ei feddwl, nid oes genym hysbysiad. Parhaodd, pa fodd bynag, dros ystod yr hanner can' mlynedd y bu gyda'r cyfundeb, i lafurio yn ddiwyd a didramgwydd, a gorphenodd ei oes yn y fl. 1831, yn 82 ml. oed, "yn hen ac yn llawn o ddyddiau."

Yr oedd Mr. Williams yn un, fel y soniwyd o'r blaen, o'r ychydig nifer a safodd gyda'r Methodistiaid ar ol yr ymneillduad a fu ar bregethwyr y cyfundeb i weinyddu bedydd a swper yr Arglwydd. Dangosodd ei hun yn ŵr rhydd a diymhongar yn yr amgylchiad hwnw; ac ennillodd iddo ei hun, trwy hyny, lawer o barch ac ymddiried ei frodyr, yn mysg y rhai y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes; er iddo ddyoddef cryn lawer o edliwiad a gwg oddiwrth ei hen frodyr urddedig am na safasai yn dŷn dros hawliau yr urdd, a rhagorfreintiau yr offeiriadaeth. Eto, er hyn, nid ydym yn cael lle i feddwl ddarfod i'r gŵr parchedig gael lle i edifeirwch am y rhan a ddewisasai, ond yn hytrach, ddarfod iddo gymeryd ei le gyda'i gyd-lafurwyr yn berffaith siriol a heddychol, gan fod "yn gyd-ostyngedig â'r rhai isel-radd."

Fe fu Mr. Williams yn cyd-lafurio yn nhymhor boreuaf ei oes gyda hynafion ei sir, megys y Peirch. D. Rowlands, T. Gray, a D. Morris, a'u cydoeswyr,—a pharhaodd i gyd-lafurio am amser hwy, gyda'r Peirch. Ebenezer Morris, David Evans, John Thomas, ac Eben. Richards, a'u cyd-oeswyr hwythau. Rhaid ei fod ef, gan hyny, wedi gweled achos y Methodistiaid yn ei febyd;—gwelodd ef yn tyfu ac yn ymgadarnhau;—bu yn cyd-lafurio â'r dynion hynotaf a fu yn y cyfundeb erioed;—gwelodd ef bob cyfnewidiad o bwys a fu arno, ar ol ymneillduad Howel Harris, hyd o fewn ugain mlynedd yn ol. Gwelodd ef gychwyniad bychan yr ysgol Sabbothol, a bu fyw i weled ei llwyddiant rhagorol;—yr oedd ef ar y maes pan y chwythodd

* Gwel hanes Swydd-ffynon, tudal. 36, Cyf. II.

tymhestl yr *ordeinio* ar y corff, daliodd rym hòno, pryd yr aeth rhai o'i frodyr i ffordd. Cychwynodd ei yrfa gyda'r Methodistiaid, pan nad oedd ond tuag 16 o gapelau wedi eu cyfodi ganddynt yn y sir, a bu fyw i'w gweled, rhwng capelau ac ysgoldai, yn agos i 90 o rifedi. Nid maint ei ddawn oedd yn ei hynodi gymaint, ond heddychlonedd ei ysbryd, cywirdeb ei amcan, a gwastadrwydd ei lafur. Yr oedd Mr. Williams yn y De, yr hyn oedd Robert Jones, Tŷ-Bwlcyn, yn y Gogledd, sef yn ddolen gysylltiol rhwng y tadau cyntaf Methodistiaid eu gwlad, a'r rhestr o'r gweinidogion henaf hyny sydd ar y maes yn awr. Cawsant hwy gyfrinachu a'r tadau cyntaf, ac â'r plant hefyd, a thrwyddynt hwy y mae ein cydnabyddiaeth ni o'r ganrif hon yn cyrhaedd y tadau yn y ganrif o'r blaen.

## PENNOD VII.

### PARHAD O BRIF LINELLAU HANESIAETH Y SIR.

CYNWYSIAD:—

PEIRCH. EBENEZER MORRIS—JOHN THOMAS, ABERTEIFI—EBENEZER RICHARDS A JENKIN DAVIES—AMRYW BREGETHWYR ERAILL—GWASANAETH DOSBEIRTH ERAILL I FETHODISTIAETH—HANESYN AM DAIR BENYW—A DANIEL ROWLANDS—CEINEWYDD A CHAPEL AFAN—Y MODD Y CODODD LLEOEDD DIWEDDARACH.

### PARCH. EBENEZER MORRIS.

MAR y gŵr hwn yn dra theilwng o goffâd helaeth yn hanesiaeth Methodistiaeth ei wlad, mwy felly o lawer nag a ganiatâ ein defnyddiau, a mwy hefyd nag a ganiatasai ein terfynau, pe buasai y defnyddiau byth gan helaethed, am ei fod yn un o'r ser dysgleiriaf a ymddangosodd yn ffurfafen Methodistiaeth Ceredigion, ac am i Dduw ei ddefnyddio, mewn modd arbenig, i roddi ysgogiad grymus i'r diwygiad yn ei flaen yn mysg ei genedl.

Ganwyd ef yn mhlwyf Lledrod, yn y fl. 1769. Efe ydoedd fab hynaf Dafydd Morris y soniasom eisoes am dano. Nid oes dim neillduol yn cael ei grybwyll am ddyddiau ei ieuenctyd, ond ei fod yn fachgen bywiog ei gyneddfau, a llawn o ddyhirwch ieuenctyd. Gall y darllenydd gael drychfeddwl cywirach pa fath un ydoedd y pryd hwn, oddiwrth un hanesyn fer, na phe traethid yn faith am dano. Gosodwyd ef pan yn fachgenyn mewn athrofa *(Grammar school)* yn mhlwyf Troed-yr-aur, yr hon a gynelid gan hen offeiriad o'r enw Davies. Yr oedd afon Ceri yn llifo gerllaw; ac yn yr afon hon, arferai y bechgyn ymdrochi yn fynych ar dywydd teg. Dygwyddodd fod mewn rhyw fan ar yr afon lygedyn a elwid y "Pwll-dwfn," am fod y dwfr yn y fan hòno yn llawer dyfnach nag oedd yr afon yn gyffredin;—man oedd hwn na feiddiai neb anturio iddo ond a fedrai nofio. Rhyw ddiwrnod pan oedd amryw o'r bechgyn yn ymddifyru yn y dwfr, ac Eben. Morris yn eu plith, fe safai gŵr ieuanc gerllaw y Pwll-dwfn; i'r tu ol i hwn y daeth Eben, ac er ei fod yn llawer llai na'r gŵr ieuanc, efe a roes hergwd disymwth iddo â'i holl nerth, nes oedd yn nghanol y pwll. Nid oedd y llencyn yn gallu nofio, a bu agos iddo golli ei fywyd. Achwynwyd ar y dyhiryn bychan

wrth yr athraw, a galwyd ef i gyfrif. Ni cheisiodd yntau wadu y bai, ond cyn gosod y fflangell ar ei wâr, gwaeddodd allan, mewn ffordd o ymesgusodiad yn groch, "Beth wyddwn i na allai nofio fel pysgodyn?" Yr oedd Eben ei hun yn medru nofio fel pysgodyn, cymaint felly, fel y dywedid am ryw nofiedydd mwy campus nag arall, "Y mae yn gystal nofiwr ag Eben. Morris." Pa fodd bynag, gan mor ffraeth yr ymesgusodai y tro hwn, lliniarodd gŵg yr hen athraw, ac arbedwyd y wialen.

Ymddengys oddiwrth yr hanesyn uchod fod gwrthddrych ein sylw wedi cael rhyw raddau o fanteision dysg; cymaint, fe allai, ag a allesid dysgwyl iddo gael yn y tymhor hwnw ar y genedl, ac yn yr amgylchiadau yr oedd y teulu ynddynt. Pan oedd oddeutu dwy ar bymtheg oed, aeth oddi cartref i Drecastell, i sir Frycheiniog, ac efe a fu yno, dros ryw dymhor, yn cadw ysgol. Hyd yn hyn nid oedd dim arwyddion o ofn Duw ar y lleucyn, ond efe a rodiai yn ol helynt y byd hwn, ac yn oferedd ei feddwl, "heb obaith ganddo ac heb Dduw yn y byd." "Ond fe welodd Duw yn dda, yr hwn a'i neillduasai o groth ei fam, ei alw ef trwy ras, i ddadguddio ei Fab ef ynddo;" a hyn a wnaeth trwy weinidogaeth gŵr y crybwyllasom ei enw eisoes, fel un o bregethwyr boreaf y Methodistiaid, sef Dafydd William Rhys, a daeth yn fuan bellach i fod yn aelod yn eu mysg yn y lle uchod.

Pan yn bedair ar bymtheg oed, dechreuodd bregethu. Nid oedd ond ieuanc o ran oed, ac nid oedd chwaith ond ieuanc o ran crefydd, eto, fe ymddengys ddarfod i'r brodyr gael graddau helaeth o brofion ynddo o dduwioldeb a gras, yn gystal ag o wybodaeth a dawn, cyn ei annog at y gwaith pwysig o bregethu'r efengyl i'w gyd-ddynion. Yr oedd hyn tua'r fl. 1788. Yn fuan ar ol iddo ddechreu pregethu, efe a aeth gyda'r hybarch weinidog, y Parch. David Parry, Brycheiniog, trwy Ogledd Cymru, ac hwn oedd y tro cyntaf erioed iddo fod yn pregethu yn Ngwynedd. Nid oes dim yn cael ei ddweyd am effaith y daith hon ar ei feddwl ef ei hun, nac ychwaith am y lle a ennillodd yn meddyliau y brodyr a'i clywsai yn pregethu.

Ar farwolaeth ei dad, yr hyn a gymerodd le yn y fl. 1791, y flwyddyn ar ol i Rowlands, Llangeitho, farw, symudodd Ebenezer Morris i hen gartref ei dad, yn mhlwyf Troed-yr-aur, yn sir Aberteifi, pan nad oedd eto ond dwy-ar-hugain oed.

O ran ei gorff, nid oedd Ebenezer Morris yn ddyn tal iawn, ond yr oedd o gyfansoddiad cryno a chorffol. Yr oedd o ymddangosiad hardd, o wynebpryd agored a theg, yn meddu ar bob cymhwysder golwg a gwedd i beri sylw a pharch. Newidiai lawer ar ei wedd ac ar ei lais wrth bregethu. Medrai eu cyfaddasu at y materion mewn llaw gyda deheurwydd tra naturiol, ac mewn modd tra effeithiol. Yr oedd ei ymddangosiad yn y pulpud yn hardd dros ben; yr oedd gwedd gonestrwydd a challineb yn ei wynebpryd; yr oedd pereidd-dra a grym yn ei lais; a gweddusrwydd ardderchog yn ei ymadroddion.

Nid oedd neb i'w gael â llai o rodres a choegedd nag efe yn y pulpud; ni ddysgasai wenieithio i neb, nac mewn un man; ac er mor wrol ydoedd o

feddwl, ac er lleied oedd arno o ofn neb, nid oedd neb yn arfer llai o drais ar y gweiniaid;—medrai fod yn fwyn heb weniaeth, a medrai fod yn hyf heb anweddeidd-dra. Ymddangosai y tri pheth hyn yn eglur ac ardderchog ynddo, *gwroldeb, gonestrwydd, a challineb.*

Yr oedd Ebenezer Morris yn feddiannol ar dalentau helaeth fel pregethwr, a'r rhai hyny yn naturiol ganddo. Ni chafodd lawer o seibiant gan amgylchiadau i gysegru llawer o amser i astudio areithyddiaeth, i amaethu a choethi ei ddawn naturiol, nac i gyfansoddi ac ysgrifenu ei bregethau. Hawdd ydyw i ni gasglu na allasai gael seibiant i hyny, pe buasai ei fryd ar hyny, oblegid fe ddechreuodd bregethu yn ieuanc, ac yn fuan ar ol ei attal yn ei wylltineb; fe briododd yn 20 ml. oed; disgynodd arno ofalon teulu, a thrafferthion bydol, mewn canlyniad, ac efe a fu am ysbaid y 14 neu 15 ml. cyntaf ar ol priodi yn isel a thrafferthus iawn ei helyntion. Pan y cymerom yr amgylchiadau hyn i ystyriaeth, a chofio hefyd fod yr alwad arno i bregethu yn ei fro ei hun, ac i deithio gwahanol siroedd Dê a Gogledd, yn trethu ei amser i'r eithaf, nid ydym yn synu os na allwn ganfod cymaint o ol celfyddyd ac efrydiaeth ar ei bregethau ac ar ei ddawn. Cyneddfau naturiol ac ymarferiad a'i gwnaeth y peth oedd. Nid oedd naturiaeth, er hyny, ddim wedi ei gadael i redeg yn wyllt ynddo ef, fel y ceir hi weithiau mewn rhai mawr eu dawn a bychan eu coethder; ond ynddo ef yr oedd ei ddawn naturiol yn cael ei llywodraethu gan synwyr cryf, ac yn cael ei heneinio gan ras mawr.

Nid yn fynych y cyfarwyddwn â neb a ddaliodd ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb yn fwy gwastad nag a wnaeth ef. Yr oedd yn boblogaidd anarferol ar ei ymddangosiad cyntaf, ond nid yn fwy felly, nac yn gymaint felly, ag yn ei flynyddoedd diweddaf. Meddai y diweddar Barch. David Charles, Caerfyrddin, yn y cofiant byr a ysgrifenodd am dano, i gyhoeddiad Saesonaeg,* "Ei lais ydoedd hynod o ran ei bereidd-dra a'i awdurdod. Ni phallai un amser i ennill a sefydlu sylw ei wrandawyr, a hyny gan amrywiaeth, hyawdledd, a bywiogrwydd, ei ddull. Ei gôf cryf, ei barodrwydd, a'i ffraethineb, a'i cariai trwy froddegau hirion, cynwysfawr, a nerthol, yn eglur ac ardderchog, er mawr syndod i'r gwrandawyr."

Dysgleiriai ryw luchedau tanllyd yn fynych yn ei bregethau, a fyddent yn wir anorchfygol. Teimlai ei wrandawyr yn aml, pan y gollyngai allan fygythion Duw yn erbyn anwirfyd, mewn llais grymus, a chyda gwedd arswydlawn, eu bod megys ar ddibyn distryw, a theimlent eu gwallt yn sefyll yn syth, a'u cnawd yn crynu gan fraw. Cerddai nerth ac awdurdod anarferol yn fynych gyda rhyw air a draethai;—gair a adroddai drosodd a throsodd, nes y byddai pob wyneb yn lli' o ddagrau. Cofus gan yr ysgrifenydd ei wrando yn nghymdeithasfa y Bala, flynyddoedd lawer yn ol, pan yn pregethu ar y testyn, "Hwn a osododd Duw yn iawn," &c., ac yn adrodd eilwaith ac eilwaith y gair Iawn! Iawn! Iawn! gyda llais grymus, ac ysbryd toddedig, nes oedd y miloedd pobl wedi eu meddiannu â theimladau annhraethadwy.

* Evangelical Magazine for April, 1826.

Yr oedd Mr. Morris unwaith yn pregethu yn Llangeitho, ychydig o amser cyn i'r neillduad gymeryd lle ar weinidogion i'r cyfundeb, a dygwyddodd fod yn yr ardal hòno wraig ag oedd yn teimlo yn gaeth a rhagfarnllyd atto, am y tybiai ei fod ef yn brif offeryn i ddwyn y neillduad hwnw oddi amgylch; a chymaint oedd chwerwder ei theimladau tuag ato, ar y cyfrif yma, fel y siaradai yn ddifriol am dano, ac y mynai nad oedd yn deilwng o'r parch a delid iddo gan y bobl; ond er hyn oll, pan y dysgwylid iddo fod yn Llangeitho yn pregethu, ni allai y wraig hon lai na dyfod i'w wrando. A hi a ddaeth i'w wrando y tro hwn. Yr oedd yn pregethu ar y gair, "Cyflog pechod yw marwolaeth, &c." Yr oedd y bregeth dan arddeliad dysglaer iawn;—effeithiodd hefyd gymaint ar y wraig grybwylledig, nes oedd wedi cwbl ddyrysu;—disgynodd arni y fath syfyrdaudod, fel na wyddai pa le yr oedd. Yr oedd cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth, a phwy a welwyd yn mysg y bobl a safent ar ol ond y wraig hon. Nid oedd mewn undeb eglwysig, ac nid oedd neb yn dysgwyl ei gweled hi yn aros, yn enwedig ar y pryd yr oedd Mr. Morris yno. Nodwyd hi allan gan ryw un, a gofynwyd iddi a oedd hi yn bwriadu ymuno â'r eglwys? Ar hyn hi a ddaeth ati ei hunan; deallodd bellach pa le yr ydoedd; dadebrodd o'i syfrdandod, a hi a aeth allan.

Prif nodwedd ei weinidogaeth ef, fel yr eiddo ei dad, oedd *grymusder a helaethrwydd.* Nid oedd ei bregethau yn gyffredinol ond byrion; parhaent y rhan amlaf o 20 i 40 munud; anfynych iawn y cyrhaeddent awr gyfan, ond y mae crybwylliad iddo unwaith bregethu awr a hanner, a hyny mewn cyfarfod yr oedd dysgwyliad mawr wrtho, ac ar ol i frawd arall fod yn fyr iawn o'i flaen. Dywedai hen flaenor, gyda'r Annibynwyr am dano, yr hwn oedd wedi ei wrando gannoedd o weithiau, ac yn byw yn ei gymydogaeth, na chlywodd ef yn terfynu ei bregeth erioed "*heb gael gafael yn y bobl.*" Defnyddiai lawer ar ymadroddion ysgrythyrol, a defnyddiai hwynt, nid cymaint i harddu ei bregeth ei hun, ond i fachu cydwybodau ei wrandawyr. Deallai y bobl yn bur fuan ei fod yn llefaru *wrthynt hwy, ac am danynt hwy,* a hyny o ddifrif. Nid boddlon oedd y gŵr da hwn i brydferthu ei bregethau ag ymadroddion tlysion, ac â brawddegau coeth; llafuriai yn hytrach i ddwyn y gwirionedd (dan sylw) a'r gwrandawyr i gyfarfod â'u gilydd, modd y teimlid awdurdod y *gwirionedd,* yn hytrach na chanmawl y *pregethwr.*

Yr oedd llafur gweinidogaethol Mr. Morris yn fawr iawn. Dywed un wrthyf mewn ysgrif sydd o fy mlaen, ei fod yn pregethu unwaith bob dydd yn yr wythnos, ond dydd Llun a dydd Sadwrn, a chadw cwrdd eglwysig, yn nghyda thair gwaith ar y Sabboth. "Gellir dywedyd yn gadarn," meddai y gŵr, yr hwn oedd yn gymydog iddo, ac yn dra chydnabyddus ag ef, "ei fod at eu gilydd, yn pregethu unwaith bob dydd am flynyddau diweddaf ei oes. Arferai bregethu mewn amser ac allan o amser, ïe, nid oedd yn ol i'r diwygwyr penaf yn hyn." Arferai bregethu mewn tai anedd, lle bynag y gofynid iddo, ar hyd y cymydogaethau, ac mewn angladdau, ac ar fwrdd y llongau, ïe, tybid na fyddai llwyddiant i long newydd, oni fyddai Ebenezer Morris wedi bod yn pregethu ar yr achlysur o'i *launchio.* Yr oedd yn gyson iawn yn

nghyfarfodydd misol ei sir, ac yn nghyfarfodydd chwarterol y cyfundeb, ac nid llawer llai na hanner ei amser a dreuliai efe yn y modd hyn oddi cartref. Nid oedd neb yn fwy awyddus i ddarllen nag ef, nac yn fwy dyfal wrth hyny pan y ca'i ychydig o seibiant, ond nid oedd ei amser yn caniatâu iddo ysgrifenu nemawr, ïe, o'i bregethau ei hun, mewn trefn a chyda manyldra. Yr oedd ei bregethau yn llawn o gyfeiriadau ysgrythyrol, y rhai a adroddid ganddo gyda mawreddusrwydd rhyfeddol, ac a gymhwysid ganddo gyda sylwadau dysglaer a grymus. Hyn, fel ei dad o'i flaen, oedd swm ei bregethau.

Ennillasai Mr. Morris le mawr yn mysg ei frodyr. Collwyd Rowlands oddiar y maes pan oedd Mr. Morris eto yn ieuanc, ac wedi bo dyn pregethu ond dwy flynedd. Y flwyddyn ganlynol, aeth ei dad Dafydd Morris i'w gartref hir. Yr oedd Mr. Williams, Lledrod, wedi cychwyn ei daith weinidogaethol gyda'r Methodistiaid ychydig o'i flaen, a John Thomas o Aberteifi newydd osod ei law ar yr aradr. Gyda'r gwŷr hyn, yn nghyda Mr. Gray, y llafuriai Mr. Morris yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth; ac nid gormod chwanegu ddarfod iddo gyrhaedd llawn cymaint o ddylanwad, a llenwi llawn cymaint o le, yn ei wlad, a neb o'i gydoeswyr. Ac nid oedd ganddo ddim dylanwad chwaith ond a ennillodd. Pwys a chysonedd ei gymeriad personol, purdeb a grym ei weinidogaeth, a dyfalwch cyson ei lafur, a ennillodd iddo y dylanwad. Yr oedd yn iach oddiwrth y gwaeleddau a anurddai rai gwŷr da yr oes o'i flaen; yr oedd mwy o farn a chydwybod yn ei lywodraethu, os oedd llai o dymherau a hwyliau. Gellid ymddiried mwy iddo, er ei fod yn llawer ieuangach. Gosododd ei wyneb yn erbyn pob gogwyddiad at benrhyddid mewn barn a buchedd, a safodd yn erbyn y genllif fel mur pres; ac ni allai na gwawd, na rhagfarn, na dylanwad neb, ei ysgogi. Yr oedd cadernid a diysgogrwydd yn nodwedd hynod yn ei gymeriad.

Ond er ei fod yn hallt a diblygu mewn pethau cydwybod, nid oedd neb tynerach nag ef tuag at y gweiniaid, a'r amryfus. "Yn y cyfarfodydd misol yr oedd fel tywysog tangnefedd yn ein plith," medd un o'i frodyr am dano. Dangosodd ambell un duedd i guro ei gyd-weision, ond Mr. Morris a agorai ei enau dros y mud, ac a ddywedai, "Nid curo ein gilydd sydd i fod yma, ond cynghori ein gilydd fel brodyr." Ei air ef a fyddai yn ddeddf yn y cymydogaethau lle yr oedd yn troi amlaf ac yn cadw cyfarfodydd eglwysig fynychaf; nid am y mynai ef lywodraethu, ond am y mynai yr eglwysi ei barchu. Yr oedd wedi tynu eu calonau ar ei ol, a hawdd oedd iddo gael ganddynt wneyd y peth a fynai, am na cheisiai ganddynt wneyd dim ond a ddylasent.

Yn y gymdeithasfa yr oedd llygad pawb arno. Er ei fod dros ugain mlynedd yn cael ei ystyried ond pregethwr diurddau, neu gynghorwr, eto yr oedd y cynghorwr hwn yn ennill tir ar lawer gŵr urddedig yn nghydwybodau ac yn serchiadau y brodyr. Cyrhaeddai y gair a ddywedai yn mhell, ac effeithiai yn ddwfn. Nid gŵr prysur ei dafod y cyfrifid Mr. Morris. Yr oedd yn meddu cryn fesur o bwyll ac arafwch, a llawer iawn o gallineb, fel ag i adnabod amser a barn. Nid hoff oedd ganddo siarad er mwyn siarad, ond

pan y llefarai fe lefarai i bwrpas. Ei frodyr a wrandawent arno, ac a ddysgwylient; dystawent wrth ei gynghor; ac ar ol ei ymadrodd ni ddywedent eilwaith." Ac nid lle oedd hwn yr ymwthiasai iddo, ond a ennillasid ganddo trwy gymhwysder; nid lle yr amcanai efe ei gyrhaedd, ond lle a roddid iddo heb ei geisio. Cyrhaeddasai hefyd y sefyllfa uchel yn mysg ei frodyr heb un fantais neillduol ar ei gychwyniad, ond yn gwbl trwy ennill ar eu serchiadau yn raddol, a thrwy roddi profion cyson o'i ras a'i ddoethineb.

Edrychid ar gymdeithasfa y Deheudir yn wag oni fyddai Mr. Morris ynddi, a braint fawr y cyfrifid cael ei bresenoldeb yn nghymdeithasfa y Gogledd; a mynych iawn y bwriodd y Goruchaf gwmwl gogoniant drosto, pan y byddai yn gweini yn y cyfarfodydd cyhoeddus hyn. Sonir yn neillduol am un tro mewn cymanfa yn y Capel-newydd, ar ffiniau siroedd Aberteifi a Phenfro, a fu yn fendithiol iawn i eneidiau lawer. Pregethai ar Diar. 4. 18. "Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, &c." Dylynwyd y bregeth hon â'r fath nerth ac awdurdod, nes y cyfrifwyd fod o 100 i 120 o ddynion wedi ymuno â'r eglwysi yn sir Aberteifi yn unig, mewn canlyniad iddi, heblaw yr holl rai a ddaeth i mewn yn sir Benfro. Sonir llawer hyd heddyw gan bobl oedranus am effeithiau tra rhyfedd a ddylynodd bregeth o'r eiddo ar Mat. xvi. 26; "Canys pa lesâd i ddyn os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?" ar hyd siroedd Dinbych a Fflint. Yr oedd nerth ei weinidogaeth y pryd hwn yn mhell y tu hwnt i'w ddysgrifio; cyffelyb, meddai yr hen bobl, oedd yr effeithiau a welsent hwy dan weinidogaeth ei dad, pan yn pregethu ar yr un testyn. Yr oedd amryw o wŷr craff a phwyllog yn barnu, fod rhai cannoedd yn y siroedd crybwylledig wedi cael eu gwir ddeffroi trwy ei bregethau ar y testyn uchod, yn ngwahanol barthau y wlad y tro hwnw.

Mae crybwylliad yn cael ei wneyd am dano yn pregethu mewn angladd gwraig lled gyfrifol, a fuasai farw ar enedigaeth plentyn,—pregeth a goronwyd ar y pryd ag awdurdod rhyfeddol, ac a ddylynwyd yn ol llaw â lles mawr. Ei destyn oedd, "Y rhai ni wyddoch beth a fydd y fory. Canys beth ydyw eich einioes chwi? &c." Iago iv. 13—15. Am y bregeth hon yr ysgrifena brawd o'r gymydogaeth,—"Y fath ydoedd yr awdurdod yn y bregeth hon, fel yr oedd tragwyddoldeb wedi llyncu amser, a'i holl amgylchiadau, yn meddyliau y gwrandawyr;—un gŵr cyfrifol, yn arbenig, a ddaliwyd â'r fath argyhoeddiad, ag y bu am ddyddiau rai yn crynu megys o flaen gorsedd Duw heb un olwg am ddiangfa; ac felly y parhaodd nes ei wrando eilwaith yn pregethu oddiar 1 Pedr i. 18. "Nid â phethau llygredig megys arian neu aur y'ch prynwyd oddiwrth eich ofer ymarweddiad, eithr â gwerthfawr waed Crist."

Teimlai weithiau gryn benbleth yn ei feddwl wrth bregethu ar achlysuron o'r fath. Teimlai yn neillduol anghysurus unwaith yn sir Frycheiniog, pan oedd Owen Enos gydag ef yno ar daith trwy y wlad. Galwyd arno i bregethu mewn angladd mab i ryw un cyfoethog; a bachgen annuwiol iawn a fuasai yr un trancedig. Y nos o flaen y bregeth, yr oedd Mr. Morris yn methu cysgu, gan feddwl am yr oedfa boreu dranoeth. Meddai wrth ei gyfaill, "Yr wyf yn methu yn lân a chael llonydd gan y gair hwnw, 'Ac yn uffern efe a

gododd ei olwg ae efe mewn poenau!" Ar y naill law, canfyddai gymhwysder yn y geiriau i'r amgylchiad, wrth ystyried cymeriad yr un a fu farw; ond ar y llaw arall, ofnai anafu teimladau perthynasau galarus, meddyliau y rhai, fe allai, oeddynt eisoes yn dra archolledig. Ni chauodd Mr. Morris ei lygaid trwy y nos, gan ymdrech ei feddwl; eto ni allai gael ei fyfyrdod i ymgymeryd ag un gair arall, ac ar y gair uchod y bu raid iddo bregethu. Ni ddywedir pa effaith a gafodd hyn ar y perthynasau, ond sicrheir fod y bregeth hòno wedi gwneyd ei hol am byth ar lawer.

Er fod Mr. Morris yn ŵr ffraeth ei atebion, ac er ei fod o dymher siriol, fel y teimlai yn ddwys oddiwrth ryw ddigrifwch diniwaid, eto ni ddefnyddiai byth mo'r pulpud i ddangos dim ffraethineb a derfynai ar gymhendod; ac ni ymollyngai byth i ysgafnder a digrifwch wrth ymdrin â phethau cysegredig. Fe roddir drychfeddwl i'r darllenydd pa fath ydoedd ei dymher naturiol ef trwy fân amgylchiadau a goffeir, yn llawer gwell na thrwy draethawd manwl, pe gallesid gwneyd y cyfryw: oddiar yr ystyriaeth yma tueddir yr ysgrifenydd i gyfeirio at rai o'r cyfryw, er y dichon fod yn rhai o honynt ddygwyddiadau lled ddigrifol.

Yr oedd ef ac Owen Enos, gŵr a ganlynai lawer arno yn ei deithiau, a gŵr yr oedd graddau helaeth o ddigrifwch yn ei dymherau, yn dychwelyd adref o gymdeithasfa yn sir Benfro, a chyda hwynt yr oedd blaenor o sir Aberteifi, o'r enw Thomas, yn dychwelyd hefyd. Ystyrid y blaenor hwn o'r ddau yn rhy ofalus am ei anifail; o leiaf, yr oedd Owen Enos wedi llochi y dyb hòno. Fel yr oedd y tri yn dyfod i fyny y rhiw, disgynodd yr hen flaenor oddiar ei farch i gerdded, gan adael ei geffyl i ofal Owen i'w arwain. Aeth yr hen ŵr yn mlaen gan bwyll, a chan sŷnfyfyrio. Ond Owen a gymerodd y cyfleusdra i fyned ar gefn ceffyl Thomas, gan arwain ei geffyl ei hun. Gwelodd Mr. Morris hyn, nes oedd ymron ag ymdori gan chwerthin wrth weled ystryw wagsaw ei gyfaill, ac wrth feddwl pa beth a feddyliai yr hen ŵr pan welai fod ei ofal am ei anifail wedi erthylu. Bob yn ychydig daethant i ben y rhiw, a throes Thomas ar fedr esgyn i'r cyfrwy eilwaith, ond er ei fawr syndod yr oedd yno farchog eisoes, ac nid oedd dim i'w wneyd bellach ond i bob un gymeryd ei geffyl ei hun, a phenderfynu, mae yn debyg, a wnaeth yr hen flaenor na roddai yr un fantais o'r fath i Owen drachefn. Y sylw a wnaeth Mr. Morris, pan allodd ef siarad oedd, "Wel, wel, Owen bach, y mae rhyw fath o gythreuliaid yn dy flino di na ŵyr pawb ddim am danynt, trwy drugaredd!"

Yr oedd llawer o ffraethineb parod a naturiol yn perthyn i Mr. Morris, yr hwn, oni bai ei liniaru a'i lywodraethu gan synwyr cryf, a gras mawr, a allasai gynyddu i eithafion niweidiol; ond ynddo ef fe'i cedwid o fewn terfynau ag oedd weddus i Gristion, ac i weinidog yr efengyl; eto rhoddai brawf, yn awr ac eilwaith, nad oedd wedi ei ladd, ond ei fod dan deyrnged. Yr oedd rhyw ŵr, nid pell o'i gymydogaeth, wedi treiglo oddiwrth un blaid grefyddol at un arall, ac mewn llythyr at rai o'i hen gyfeillion, efe a ganmolai y bobl yr ymunasai â hwy, gan ddweyd eu bod eisoes wedi ei anrhegu â *cheffyl a chyf-*

*rwy.* Damweiniodd i Mr. Morris weled y llythyr, ae wedi i'w lygaid ddisgyn ar y ddau air *ceffyl a chyfrwy*, efe a ddywedai, " Hawyr bach ! os na chafodd ef ffrwyn yn ei ben ef hefyd, nid oes wybod pa le yn y byd y delir ef eto ! " Unwaith, wrth glywed rhyw ddynion yn gollwng eu tafodau yn rhy chwerwon ar eu gilydd, dywedai, " Da chwithau, torwch eich ewinedd cyn rhoddi eich bysedd yn nghlwyfau eich gilydd. Gwell i chwi roddi aden ar glwy', na llaw drom."

Yr oedd yn eiddigeddu llawer dros y gwan a'r diamddiffyn na chai gam ar law y rhai cryfion. Yr oedd yn ymddyddan mewn rhyw eglwys â hen ŵr oedranus a pharchus o ran ei grefydd, gŵr nodedig o ddiargyhoedd ei rodiad dros ei holl fywyd, ond gŵr bychan iawn ei wybodaeth, a phlentynaidd ei amgyffred am egwyddorion crefydd, ac, o ganlyniad, lled drwsgl i adrodd ei brofiad yn drefnus. Yn ystod yr ymddyddan, cododd rhyw bregethwr, a dywedai, " Na wyddai ef yn y byd pa beth i feddwl am ddynion o'r fath ;—dynion," meddai, " wedi bod dros gynifer o flynyddoedd gyda chrefydd, ac heb fod ganddynt nemawr neu ddim i'w ddweyd am sylfaen eu gobaith am fywyd tragwyddol." Gwrandawodd Mr. Morris ar hyn, ac eiddigeddodd dros y diniwaid: troes at yr hen ŵr, a gofynodd iddo :—

" Beth yw eich oedran ? "

" Yr wyf," ebe yntau, " yn ddeunaw mlwydd a thriugain."

" Dros ba faint o amser yr ydych wedi bod gyda chrefydd ? "

" Mae mwy," atebai yr hen ŵr, " na deng mlynedd a deugain."

" A fuoch chwi ddim allan o'r eglwys dros yr holl amser hyny ? "

" Naddo, " oedd yr ateb, " er i mi haeddu cael fy mwrw allan lawer gwaith."

" A fuoch chwi ddim tan gerydd erioed yn yr eglwys ? " Dechreuodd yr hen ŵr wylo ar hyn, a'r bobl hefyd, a thrwy ei ddagrau efe a ddywedai :

" Naddo, ond yr wyf yn methu a deall pa fodd y ce's fy ngoddef cyhyd heb gerydd, gan faint a haeddais."

Ar hyn, troai Mr. Morris at y bobl, a dywedai, " Mae hynyna yn fwy nag a all llawer o ddynion ffraeth iawn ei ddweyd, a phe holwn chwi oll yn bresenol, fel yr holais yr hen ŵr, fe allai mai ychydig a geid yn abl siarad y *shibboleth* yna mor groyw ag ef." Troes y cyfarfod eglwysig hwn allan yn dra llewyrchus.

Yr oedd Ebenezer Morris yn meddu llawer o ysbryd barn a doethineb, yn enwedig i weinyddu cerydd yn y modd ac i'r graddau ag a atebai y dyben. Yn amser cyntaf yr ysgol Sabbothol, yr oedd rhai yn teimlo yn anfoddlawn iawn i'r gwragedd neu y merched ieuainc gael adrodd pennod ar ddechreu oedfa. Gallesid dysgwyl mai yn mysg yr hen bobl yr oedd yr anniddigrwydd hwn gan amlaf yn ffynu, o herwydd ni welsent hwy y fath arferiad yn eu dydd, ac ni allent hwy yn hawdd ddygymod â'r newydd-beth dyeithr. Dygwyddodd fod hen ŵr da o flaenor yn Blaenanerch, yn agos i gartref Mr. Morris, yn teimlo yn anesmwyth i'r ddefod newydd. Ni allai Michael Jones (oblegid dyna oedd ei enw ef) oddef i ferched a gwragedd ddechreu y cwrdd,

ac yn enwedig ar y Sabboth; a phe gallasai eu rhwystro, ni chawsai un o honynt agoryd ei genau. Ond pa beth oedd i'w wneyd? Yr oedd Ebenezer Morris, ac Owen Enos, yn rhy gryfion i Michael eu gorchfygu, nac yn wir sefyll yn eu herbyn. "Ond dygwyddodd," medd fy hysbysydd, "i'r hen Fichael gael gwared o Eben ac Owen am rai wythnosau; ac yn yr adeg hapus hon, cymerodd yr hen ŵr yr awenau yn ei law, a rhoes attaliad buan ar ryddid y merched a'r gwragedd druain i adrodd pennodau. Ond nid oedd dim i'w wneyd ond dyoddef; ac eto bygythient, os byth y gwelid yr awr i Mr. Morris ddyfod adref, y ca'i yr hen ŵr weled y drws yn agored, a'r heol o'i flaen i fyned lle y mynai. Ac nid oedd gan yr hen ŵr yntau lai nag arswyd. Edrychai y ddwy ochr gyda chryn bryder am ddychweliad Mr. Morris; canys byddai dynion yn dysgwyl wrtho fel wrth oracl o'r nef, a gellid cyfeirio ato eiriau Job, pen. xxix: "Pan elai allan i'r porth trwy'r dref, pan barotoai ei eisteddfa yn yr heol; llanciau a'i gwelent ac a ymguddient; a henuriaid a gyfodent ac a safent i fyny. Tywysogion a attalient eu hymadroddion, ac a osodent eu llaw ar eu genau." Y dydd, o'r diwedd, a ddaeth—y dydd yr oedd i'r farn eistedd ar yr achos, ac i benderfyniad gael ei roddi arno. Adroddwyd y cyhuddiad yn erbyn Michael druan; gwrandawai Mr. Morris; a gwyddai eisoes, er fod yr hen ŵr yn ŵr da a ffyddlon, eto fod ynddo gryn afrywiogrwydd. Ofnai hefyd ddweyd dim a gryfhäai afrywiogrwydd ei dymher, ar y naill law, nac a roddai un wyneb i'w ymddygiad ar y llaw arall. Teimlai fod yr hen ŵr yn un o blant Duw, ac ni fynai amgen na'i ymgeleddu, a theimlai hefyd fod yr ysgol Sabbothol, y pryd hwnw, yn ei babandod, ac yn galw am bob amddiffyniad.

Wedi gwrando yr achwyniad, trodd Mr. Morris at Michael, ac edrychodd yn sŷn arno, ac eto yn siriol, gan ddweyd dair gwaith neu bedair drosodd, 'O! yr hen Fichael dduwiol! O! yr hen Fichael dduwiol!'—a thra yr oedd yn ei gyfarch yn y modd yma, canfu fod llygaid yr hen ŵr yn gwlychu, a'i galon yn toddi, nes oedd yn llymaid, ac yn ddigon ystwyth i bob peth.

Yn awr, yr oeddid yn deall fod y barnwr wedi ei ystyried yn euog, ac yr oeddid yn dysgwyl y ddedfryd benderfynol o'i enau. Gofynai y naill i'r llall, 'Beth a ddali di a ddaw iddo, ai ei droi e' o'r eglwys a wneir, ai ei attal oddiwrth yr ordinhad?' Y llall a atebai, 'Mae'n *siwr* o gael ei droi i ma's, ac nid oes dim mater chwaith, canys fe *stopodd* Pegi ni i '*weyd* pennod.' Ond erbyn hyn dyma Eben yn codi ar ei draed, ac yn myned i ben y fainc, fel y gwnai yn fynych wrth osod penderfyniad i lawr;—a phawb yn dysgwyl beth a ddeuai allan: a thra na allai neb prin anadlu gan bryder, dyma'r ddedfryd i ma's:—'Wel, Michael, ti wyddost fy mod i bregethu yma prydnawn dydd Sabboth nesaf, ac y mae yn rhaid i ti ddechreu yr oedfa, a dewis di yr un a fyni o'r merched neu y gwragedd i adrodd pennod ar y dechreu.' Dyna'r ddedfryd! Boddlonodd yr hen ŵr iddi mewn mynud, oblegid yr oedd eisoes yn barod i un peth a ofynid iddo. Boddlonodd yr ochr arall hefyd, a phawb a ystyrient y cerydd yn briodol iawn i natur y bai. A phan ddaeth y Sabboth, yr oedd yr hen ŵr â'i lygaid fel ffynnonau, a'i wyneb fel gweirglawdd

ddyfradwy gan ddagrau, wrth wrando ar y ferch yn adrodd y bennod."

Yr oedd Mr. Morris yn byw ar derfyn y parth hwnw o sir Aberteifi, lle y mae Undodiaid neu Sosiniaid lawer yn byw, a deuai yn awr ac eilwaith i gyfarfod â rhai o'r tylwyth yma, neu gelwid arno i bregethu yn eu clyw, a cheid ef ar yr achlysuron hyn yn eofn a chadarn yn amddiffyn yr hyn a fernid ganddo yn wirionedd, heb ofni wyneb neb, nac attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder.

Pan yr oedd unwaith yn pregethu yn ngwlad y Sosiniaid, a llawer o honynt yn y gynulleidfa, daeth ar draws yr adnod—" Yr hwn sydd Dduw bendigedig yn oesoesoedd. Amen." Ar ol darllen ac eglurhau yr adnod gyda deheurwydd, a gwneuthur sylwadau grymus ar berson anfeidrol y Cyfryngwr, cyfarchai y Sosiniaid, gan ddweyd, " Yn awr, Sosiniaid, gadewch gael eich *Amen* chwithau am unwaith." Gofynai hyn gyda'r fath wên onest a siriol ag a'u llwyr orchfygai.

Bryd arall, yr oedd yn teithio am ysbaid ugain milldir yn nghwmni un o honynt, a dadleu a wnaethant yr holl ffordd; ond cyn ymadael gofynodd i'r Sosin yn araf bach,

" Beth y'ch chwi yn ei feddwl am Stephan?—pa un ai dyn duwiol ai annuwiol ydoedd?"

" Dyn duwiol yn ddiau, a duwiol iawn, oedd Stephan," oedd yr ateb.

" Os felly yr oedd," ebe yntau, " pa fodd, dybygech chwi, y caniatawyd iddo yn ei awr ddiweddaf orchymyn ei ysbryd i ddwylaw'r Iesu, os un fel y tybiwch chwi ydyw Crist, dim mwy na dyn?" Tarawodd y Sosin ef ar ei ysgwydd, gan ddweyd, " Dyna air na feddyliais i erioed o'r blaen am dano."

Yr oedd dylanwad Mr. Morris yn fawr iawn yn ei fro ei hun, ac yn fwy lle yr adwaenid ef oreu. Yr oedd gan bawb ymddiried perffaith ynddo. Yr oedd gonestrwydd a diduedd rwydd yn nodedig ac uchel yn ei gymeriad. Pell oddiwrtho oedd pob cyfrwysdra a dichell. Yr oedd ei gymeriad personol fel dyn a Christion, yn gystal a'i dalentau a'i ddefnyddioldeb, yn rhoddi iddo ddylanwad anarferol ar bawb a'i hadwaenai.

Ar un achlysur, galwyd arno i ymddangos fel tyst yn mrawdlys Aberteifi, ar ryw achos cyfreithiol. Pan alwyd arno i ddyfod yn mlaen, dywedir fod dystawrwydd parchus yn meddiannu pawb yn y lle, a phan y cynygiwyd estyn iddo y llyfr i gymeryd ei lŵ, i'r ustus warafun, trwy ddweyd nad oedd raid, y byddai ei dystiolaeth ef yn ddigon. Hyn a roes mewn dull mor ddirodres ac unplyg, fel ag i argraffu ar feddwl pob un mai gŵr Duw ydoedd.

Cyfarfu unwaith â Mr. Lewis, Llys-newydd, un o'r boneddwyr mwyaf yn y wlad hòno, ac ebe y gŵr boneddig wrtho;—" Yr wyf yn ddiolchgar iawn i chwi, Mr. Morris, am eich llafur a'ch medrusrwydd, i gadw heddwch rhwng pawb â'u gilydd yn y gymydogaeth;—yr ydych o werth mawr yn y wlad;—yr ydych o fwy o werth fel gwladwr nag ydyw dwsin o honom ni yr ustusiaid yma."

Yr oedd yr un boneddwr, dro arall, yn gadeirydd mewn cyfarfod perthynol

i'r Feibl Gymdeithas, yn Nghastell-newydd, yn yr hwn yr oedd Mr. Morris yn un o'r areithwyr. Wedi areithio rhyw gymaint, ymesgusodai Mr. Morris rhag cymeryd gormod o amser ei barchedig frodyr yr offeiriaid ag oedd yno ar y pryd, "O na," meddai y cadeirydd, "ewch chwi yn mlaen;" ac yr oedd ei ddagrau yn treiglo tra y bu Mr. Morris yn traethu.

Yr oedd unwaith yn pregethu mewn angladd mewn lle yn agos i Lechryd; ac ar yr un achlysur yr oedd gweinidog o enwad arall yn pregethu o'i flaen. Yr oedd yno gynulleidfa fawr wedi ymgynull; a thra yr oedd y gŵr arall yn pregethu, yr oedd y dorf yn wasgaredig, ac amryw yn siarad â'u gilydd, ond pan aeth Mr. Morris i fyny, wele yr holl gynulleidfa, megys mewn mynud, ac ar ffrwst, yn ymgrynhoi. Tybiodd rhyw ŵr boneddig o Sais ag oedd yn y lle, wrth ganfod y bobl yn arwyddo y fath frys, fod rhyw berygl yn eu bygwth, a gofynai gyda gwylltedd yn ei wedd, "Pa beth oedd yr achos?" "Dim," ebe yr atebydd, "ond Mr. Ebenezer Morris sydd yn myned i bregethu."

Adroddir hanesyn am dano, cyffelyb i'r un a draddodir am John Evans o'r Bala, yn dangos ei degwch a'i onestrwydd. Yr oedd rhyw dro, pan oedd yr anifeiliaid yn isel o bris, wedi prynu buwch. Ond y ffair gyntaf ar ol hyn cododd prisiau y dâ. Deallodd Mr. Morris fod y prisiau wedi gwellâu, a galwodd Owen Enos i fyned gydag ef i dŷ y gŵr a werthodd y fuwch iddo, a dywedodd wrtho, "Yn ol prisiau y ffair ddiweddaf, yr wyf wedi cael gormod o newid ar y fuwch,"—yna rhoes gini yn ychwaneg iddo, er nad oedd y dyn yn dysgwyl dim o'r fath. Ymwreiddiodd y syniad am ei onestrwydd a'i degwch yn fwy fyth trwy yr amgylchiad hwn, ac edrychai pob graddau arno gyda pharch diffuant, cyffelyb fel yr edrychai meibion Heth ar Abraham, "Tywysog Duw wyt ti yn ein plith." Deuai hyn i'r golwg weithiau mewn pethau bychain iawn, fel yr ymddengys oddiwrth yr hanesyn canlynol:—Yr oedd hen wraig, adnabyddus o hono, unwaith wedi anghofio ymofyn llaeth nos Sadwrn, a hi a aeth i'w gyrchu boreu Sul. Ond ar y ffordd wrth ddychwelyd, canfu Mr. Morris yn dyfod i'w chyfarfod. Meddyliodd mai anfoddhaol ganddo ef ydoedd ei gwaith yn ymofyn llaeth ar foreu Sabboth, ac fe ddichon hefyd fod ei chydwybod yn dweyd mai Mr. Morris oedd nesaf i'w le yn hyn; gan hyny, cyn iddo ei chyrhaedd, arllwysodd y llaeth ar y llawr, a drylliodd y *shiwc* yn yfflon yn y fan.

Mae hanesyn am dano yn sir Frycheiniog yn brawf ychwanegol o'r doethineb a'r awdurdod a feddiannid ganddo mewn amgychiadau dyrys o ddysgyblaeth eglwysig. Fe wyddai Mr. Morris yn lled gywir pa bryd i arfer *tynerwch*, a pha bryd i arfer *toster*. Yr oedd ef a'i gyfaill Owen Enos ar daith yn sir Frycheiniog; ac yn eu crwydriadau o fan i fan, daethant i le yr oedd dwy wraig pur gyfrifol wedi cwympo allan â'u gilydd yn yr eglwys. Yr oedd pob ymdrech wedi cael ei wneuthur, gan weinidogion a phregethwyr penaf Cymru, i'w heddychu, ond y cwbl yn hollol ofer. Hysbyswyd yr achos i Mr. Morris y nos o'r blaen, gan erchi arno geisio eu dwyn i gymod. Aeth i'r lle dranoeth; ac yn y cwrdd eglwysig, galwodd am y ddwy wraig yn mlaen.

Hysbysodd iddynt ei fod wedi dyfod yno dros Dduw i orchymyn iddynt hwy, *dwy forwyn y cythraul,* fyned allan, nes yr heddychent â'u gilydd. Ac allan yr aethant. Ond yn fuan, a thra yr oedd y cyfarfod heb derfynu, dyma y ddwy wraig yno yn ol, y ddwy yn barod i gofleidio eu gilydd, ac yn wylo yn hidl. Fe fu y ddwy wraig mewn heddwch â'u gilydd o hyny allan hyd eu beddau.

Yr ydym eisoes, ar achlysur blaenorol, wedi crybwyll am Mr. Morris yn y rhan a gymerodd yn neillduad gweinidogion. Tynodd yr amgylchiad hwnw arno ŵg yr offeiriaid, a rhai teuluoedd o gyfrif a dylanwad a deimlent yn wrthwynebol i'r symudiad hwnw. Hyn, yn ddiamheuol, a ddysgwyliasid ganddo, ond nid oedd colli gwên na mawr na bach o bwysau plyfyn ganddo ef, pan fyddai gwirionedd Duw, neu lwyddiant teyrnas Crist, yn y drafodaeth. Yr oedd yr offeiriaid wedi arfer llywyddu a threfnu pob peth yn mysg y Methodistiaid hyd ei ddyddiau ef; ac, mewn rhai amgylchiadau, ymddangosai y duedd o "chwennych y blaen" ynddynt yn rhy amlwg, ac o hòni y blaen hefyd, ar gyfrif eu hurdd, nes oedd eu llywyddiaeth yn dechreu myned yn flin gan lawer o'r bobl, a dechreuasant ocheneidio o herwydd eu caethiwed. Yr oedd dylanwad Ebenezer Morris, ar yr un pryd, yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, tra yr oedd dylanwad rhai o'r offeiriaid yn lleihau. Yn mysg y pregethwyr nid oedd neb, tybygid, ar y pryd yn meddu cymaint o ddylanwad ar y bobl ag efe. Yr oedd wedi bod yn pregethu, bellach, ugain mlynedd; yr oedd ei gymeriad personol yn hardd a diargyhoedd; yr oedd ei synwyr yn gryf, ei ddefnyddioldeb a'i lafur gweinidogaethol yn fawr; nes oedd ar lawer cyfrif yn gymhwysach na'r un pregethwr diurddau arall yn y De, i sefyll dros yr hyn a ystyrid ganddo yn wir angenrheidiol; ac nid Eben Morris oedd y dyn, yn anad neb, i gilio yn llechwraidd yn ol, pan y galwai dyledswydd arno yn mlaen.

Yn y drafodaeth hòno, fe gafodd ei wrthwynebwyr wybod mai nid hawdd oedd ei ddyrysu â ffug-resymau, na'i lwfrhau trwy goeg-haeriadau. Canfuwyd fod y rhesymau ganddo ef, a'r anwydau ganddynt hwy; a chaed prawf fod achos da yn llaw dyn gonest a chall fel efe, yn llawer cryfach na dysg, nac enw, nac urdd. Ar yr un pryd, fe gostiodd yr ymdrechfa hòno iddo lawer o bryder ac ofn; ac er iddo gario y dydd yn yr ymdrechfa, fe'i hysbeiliwyd ef o gymdeithas rhai gwŷr da a fawr berchid ganddo, a pharodd i eraill a gyfrifid yn gyfeillion ymddyeithro yn llwyr iddo. Ysgrifena un ataf ar hyn yn y modd yma,—"Diau i lawer o'r eglwyswyr ddigio yn aruthr wrtho am y rhan a gymerodd yn yr ymneillduad, yn y fl. 1811, ac na faddeuodd rhai o honynt iddo hyd y bedd; er hyny, yr oedd ymron bawb o'r cyfryw ag oedd yn gymydogion agosaf iddo, hyd yn nod y boneddwyr henaf, a adwaenent ei gymeriad ef oreu, wedi dyfod i gymod ag ef, pa un ai oddiar eu parch iddo ef ei hun, ai oddiar y dylanwad a wyddent oedd ganddo ar y werin, nis gwn; gwrandawent ef yn pregethu, ac anfonent am dano, pan yr ymwelid â hwy gan gystudd; argoelion yn profi na allent, er pob temtasiwn i'r gwrthwyneb, ymattal yn llwyr heb ddangos iddo y parch a deilyngai ei gymeriad.

Bu Mr. Morris fyw ddigon o amser ar ol yr ymneillduad i weled nad oedd achos iddo edifarhau am y rhan a gymerasai efe yn yr achos. Bu farw, mae'n wir, yn nghanol ei ddyddiau, yn y fl. 1825, pryd nad oedd onid 56 ml. oed; ar yr un pryd, yr oedd eisoes wedi bod ar y maes 37 o flynyddoedd. Collwyd hefyd, o fewn wythnos neu ddwy ar ei ol, frawd anwyl a gweinidog ffyddlon arall, yn y sir hon, sef y Parch. David Evans, Aberaeron. Yr oedd yr adwy a wnaed trwy y cyntaf a'r ail rwygiad hwn yn llydan iawn, ac yn peri dirfawr alar i'r brodyr a adawsid i lafurio ar y maes wedi eu colli. O'r ochr arall, yr oedd rhagluniaeth dyner y nef eisoes wedi dwyn y Parch. Ebenezer Richards i ymsefydlu yn y wlad, ac yr oedd y Parch. John Thomas, Aberteifi, eto ar y maes, a'r Parch. John Williams, Lledrod, eto heb ymadael. Da yw i Seion feddwl mai ei Duw hi sy'n teyrnasu; ac er fod y blaenoriaid, y rhai a draethasant i ni air Duw, yn cael eu symud ymaith, y naill ar ol y llall, gan angau, eto fod "Iesu Grist ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

### Y PARCH. JOHN THOMAS, SIR ABERTEIFI.

Nid oes ond ychydig gyda dwy flynedd er pan ymadawodd y gŵr hwn â'n byd ni. Cafodd oes hwy na nemawr un o'i frodyr, nid llai na 89 o flynyddoedd. Efe ydoedd yr olaf o'r holl bregethwyr a neillduwyd gyntaf yn mhlith y Methodistiaid, yn y fl. 1811. Ganwyd John Thomas yn y fl. 1760, a dechreuodd bregethu tua'r fl. 1794, pryd yr oedd ef tua 34 ml. oed. Yr oedd y rhan gyntaf o'i oes yn hynod o ran tlodi ei sefyllfa, ac amledd ei helbulon. Ond yn nghanol pob iselder, ni adawyd mohono i ymwylltio mewn oferedd, fel plant ei oes yn gyffredinol. Gwnaeth broffes gyhoeddus o grefydd pan yn bymtheg oed, a hyny gyda'r Bedyddwyr; ond nid arosodd gyda'r enwad hwnw ond pedair blynedd, pryd yr ymunodd gyda'r Methodistiaid, y rhai yr arferai eu gwrando o'r blaen yn fynych. Mawr oedd ei hoffder o wrando pregethau, a chyrchai yn mhell yn fynych i gael hyny. Ai weithiau gan belled â Chaerfyrddin i wrando rhyw hoff bregethwr, megys Mr. Lloyd, Henllan, ac eraill. "Soniai lawer am y Twrgwyn," medd ei fywgraffydd,* "ac am y modd y byddai gweinidogaeth Mr. David Morris yn trin ei gyflwr fel pechadur, ac am oruchwyliaethau yr Arglwydd tuag at ei blant."

Priododd John Thomas yn ieuanc iawn, a phrofodd i raddau helaeth pa beth oedd helbul magu plant mewn dirfawr dlodi, cymaint felly, nes iddo ymroddi i fyned i Lundain i weithio ei grefft o wniedydd, er mwyn gwella gradd, os oedd yn bosibl, ar ei amgylchiadau isel. Bu yno yn ddyfal gyda'i alwedigaeth fydol am ryw dymhor, ac ar yr un pryd yn achub pob cyfle a allai i wrando yr hen Romaine, er ei fod yn y cyfamser yn dal ei aelodaeth i fyny yn mysg y Cymry yn *Wilderness Row*. Yn mhen rhyw amser, dychwelodd at ei deulu, a sefydlodd yn Aberteifi, lle yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth. Dewiswyd ef i flaenori ar y gymdeithas eglwysig yn y dref hòno

* Gwel "Gofiant" dyddorol am dano, gan y Parch. T. Phillips, Henffordd.

fel diacon, yr hon swydd a gyflawnodd yn ffyddlawn a chydwybodol, hyd nes yr ymosododd ar y weinidogaeth.

Pan oedd tua 34 ml. oed, sef yn y fl. 1794, torodd diwygiad grymus yn Aberteifi a Llandudoch, a phrofodd John Thomas, yn mhlith eraill, fesur o'i rym, nes y byddai yn tori allan mewn gorfoledd a mawl yn y gynulleidfa. Ac yn yr adeg yma hefyd y syrthiodd arno awydd cryf i gynghori ei gydgreaduriaid yn y pethau a berthynent i'w heddwch. Eto, cadwai hyn iddo ei hun, heb yngan gair am awyddfryd ei fynwes wrth neb o'i gyfeillion, er ei fod, ar yr un pryd, yn lled ddysgwyl y byddai i'w frodyr, ar ryw adeg neu gilydd, ganfod fod yr awyddfryd hwn ynddo; yn enwedigol gan y gelwid arno weithiau i weddio mewn anghladdau, ac ar un tro o'r fath, ei fod wedi traddodi rhyw lun o bregeth. Ond yr oedd rhyw ysbryd mud a byddar wedi dal ei gyfeillion, fel nad oedd neb yn rhoddi un math o gymhelliad iddo at y gwaith, a pharai hyn gryn iselder i'w feddwl. Ond un prydnawn Sabboth, siomwyd y gynulleidfa am y pregethwr a ddysgwylid; ac yn y benbleth am ryw un i gynal moddion ar y pryd, annogwyd John Thomas i fyned i ddarllen pennod ac i weddio, gan addaw y byddai eraill i weddio ar ei ol. Aeth John i gôr bychan islaw y pulpud, a darllenodd y drydedd bennod o Ioan hyd y 14 a'r 15 adnod. Ond defnyddiodd yr adnodau hyn yn destynau i bregethu arnynt, a gwnaeth hyny, fel yr ymddengys, gyda llewyrch a buddioldeb mawr, nes oedd yr hen bobl ddigalon yn llon eu gwala.

Hyn oedd dechreuad ei weinidogaeth. Cafwyd mwy o foddlonrwydd fyth ynddo, wedi cael cyfleusdra ychwanegol i wrando arno. Cyflwynwyd ef yn lled fuan i'r cwrdd misol. Yr oedd y Parch. John Williams, ar yr hwn y disgynai y gorchwyl o ofyn rhyw gwestiynau iddo, wedi ei glywed ef eisoes yn pregethu rai gweithiau, a dywedai, "Nis gwn i pa beth i ofyn iddo; y mae wedi myned heibio i mi yn ddigon pell." Derbyniwyd ef yn fuan i'r gymdeithasfa, a chymhellwyd ef i ymweled â siroedd eraill y De. Ufyddhaodd yntau i'r gais, ac aeth ar ei draed i'r daith gyntaf hon. Pan glywodd y Parch. D. Jones, Llangan, ef yn pregethu yn y daith hon, sylwodd, "Y mae yr hen apostol Iago wedi adgyfodi yn y gorllewin, a gwae i grefydd benrhydd mwy." Ymddengys fod ei weinidogaeth yn hallt a manwl anarferol, yn olrhain gau-loches au dynion, ac yn dynoethi proffeswyr cnawdol a phenrhydd, cymaint felly, nes achlesu y dywediad, "Nid oes dim lle i bechadur gael ei fywyd dan ei bregethau." Sefydlwyd ei gymeriad fel pregethwr ymron yn y fan. Galwyd am dano i Ogledd Cymru, ac anfonwyd ef i wasanaethu yr eglwys Fethodistaidd yn Llundain, a chymaint oedd yr alwad am ei weinidogaeth, fel y cymhellwyd ef i roddi ei grefft heibio, ac ymroddi yn hollol i'r gwaith o bregethu yr efengyl, a gwasanaethu yr eglwysi.

Ni chafodd John Thomas ddim manteision i gyrhaeddyd dysgeidiaeth. O ddysg, fel y cyfryw, yr oedd yn gwbl amddifad, ond y mae yn syn pa fodd, er hyny, y cyrhaeddodd y fath gylch eang o wybodaeth, a'r fath fedrusrwydd destlus o draddodi ei feddwl. Yr oedd ei bregethau yn nodedig am eu trefn a'u sylwedd. Nid yn fynych y clywid neb yn dadgan gwirioneddau y

Beibl gyda llai o rodres, na chyda mwy o ddifrifwch. Yr oedd ei ymadroddion oll yn weddaidd a detholedig. Llefarai wrth y deall a'r gydwybod, heb amcanu cymaint yn uniongyrchol at y teimlad. "Syml a phrudd oedd ei olwg, a difrifoldeb mawr yn ei wedd." Dyn dystaw iawn ydoedd, anaml ei eiriau, ond dywedir y byddai yn dra siriol gyda'i gyfeillion mynwesol. Yr oedd golwg wanaidd arno; ac er ys blynyddoedd yr oedd yn cael ei flino gan ddiffyg anadl, eto dywedir ei fod o gyfansoddiad cryf, ac y gallai fyned trwy lafur trwm yn well na llawer un a golwg fwy heinyf arno.

Yr oedd John Thomas yn ddyn nodedig o *ddianaf* yn ei gymeriad fel pregethwr. Dywedai y Parch. Thomas Richards, yn y bregeth angladdol, am dano, "Cysurus yw ar y fath achlysur a'r un presenol, allu rhoi her i bawb ddangos un *spotyn* ar ei gymeriad,—un anaf ar ei weinidogaeth—nac archoll i frawdoliaeth."

Nid sothach gwael disylwedd
  Un pryd oedd ganddo ef,
Ond blwch o berlau gwerthfawr,
  O fwnglawdd mawr y nef;
A phawb yn gwrandaw arno
  'R un modd ag angel Duw,
Yn gwahodd pechaduriaid,
  At yr Iachawdwr gwiw.

'R oedd difrifoldeb hynod
  I'w ganfod yn ei wedd,
Trwy ystod maith ei fywyd,
  Nes myn'd i lwch y bedd;
Yn mysg y cyfoethogion,
  'R un modd y'mhlith y tlawd,
Yn ofn Duw y rhodiai
  Ein hybarch dad a brawd.

*Evan Davies, yn ei Farwnad.*

Yr oedd yr hen weinidog parchus wedi cael ei gyfyngu, er ys maith flynyddau bellach, gan afiechyd a henaint, ymron yn gwbl i'w gartref, a dangosai yn ei ddyddiau diweddaf berffaith dawelwch wrth feddwl am ei ymadawiad o'r byd. Dywedai wrth ŵr parchedig a aethai i ymweled ag ef, "Mae fy nghyrfa bron ar ben, a'm pregethu wedi darfod; nid oes genyf yn awr ond y tragwyddoldeb mawr o'm blaen! Mae fy Meistr yn fy ngalw adref." Mewn heddwch â'r byd, ac â'i frodyr, mewn heddwch â'i deulu, ac ag ef ei hun, am fod iddo heddwch â Duw, y llithrodd yn dawel i'r tragwyddoldeb hwnw, ar y 3ydd o Chwefror, 1849, yn 89 mlwydd oed.

Mae yr ysgrifenydd yn awr yn teimlo petrusder pa fodd i fyned yn mlaen â hanes pregethwyr eraill y sir. Deallwyf fod nifer y rhai a fu ar y maes, am dymhor mwy neu lai, y rhai sydd eisoes wedi eu cuddio yn y bedd, yn agos yn 60 o rifedi. Fe fyddai coffâu ond ychydig am bob un yn fwy nag a oddefai ein terfynau, ac yn fwy nag a ganiatâai ein defnyddiau, oblegid am lawer iawn o honynt nid oes genym ddim mwy na'r enw. Barnu yr ydym, gan hyny, y gorfydd i ni derfynu ein hanes am bregethwyr y sir gyda'r

crybwylliad byr a wnaethom am y rhai mwyaf cyhoeddus a fu yn gwasanaethu yr achos mawr yn mysg y Methodistiaid yn y wlad hon: er y buasai yn dda genym, o ran teimladau personol, grybwyll, yn fwy neu yn llai ehelaeth, am luaws o frodyr eraill, y rhai a fu yn ffyddlon iawn yn eu dydd ac yn eu cylch;—y rhai a lanwent eu lleoedd priodol, yn ol eu doniau a'u hamgylchiadau, mewn modd tra chanmoladwy a defnyddiol;—ac i'r rhai y perthynai nodweddiadau neillduol. Hoff fuasai genym helaethu ein hysgrif am y Peirch. David Evans, Aberaeron; Evan Rees, Llanon; T. Gray, Abermeurig; Daniel Evans, Capel-y-Drindod; a Joseph Rees, Bont-rhydfendigaid. Nid ydym, eilwaith, wedi anghofio hirfaith lafur aml un o'r hen bobl, megys John Dafydd Daniel, Tregaron; a Jenkin Morgan o Ledrod; ac Isaac James o'r Garn; na'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan yr hynod Theophilus Jones, Tregaron,—y mwynaidd William Davies, Pont-rhydfendigaid,—y dwys Dafydd Jones, Llanilar,—na'r effro Rhys Jones, Rhydlwyd. Ond paham y nodwn ni y rhai hyn, tra y mae brodyr eraill lawer, cyffelyb iddynt, y rhai ni welsom eu hwynebau erioed yn y cnawd, ac ni ddarllenasom nemawr fwy am danynt na'u henwau, eto, y rhai a gyd-wasanaethasant i gludo arch Duw Israel i'w bro ei hun. Ai nid gorchwyl cymhwys a dyddorol a fyddai i bob sir yn Nghymru gasglu hanes byr o'r holl hen bregethwyr a fu yn llafurio yn y wlad, gyda darluniad cryno o'u nodweddiad a'u sefyllfa gyhoeddus, yn nghyda phob amgylchiad tarawiadol a hynodai eu hoes, a'i gyhoeddi dan nawdd ac ar draul y cwrdd misol? O ddiffyg hyn, y mae llawer amgylchiad hynod wedi myned ar ddifancoll bythol, ac amgylchiadau cyffelyb a ânt eto felly, oni chyflawnir y diffyg. Ac oni ddylai hefyd fod cof swyddol yn cael ei gadw o gychwyniad yr achos crefyddol yn mhob ardal yn mhob sir?—o blaniad yr eglwysi?—codiad y capelau, ac o amgylchiadau hynod perthynol i'r lle?

Nid wyf wrth grybwyll y pregethwyr yn unig, yn bwrw mai eu gwasanaeth a'u llafur cyhoeddus hwy a fu yr unig foddion i rwyddhau mynediad Methodistiaeth yn ei flaen. Yn y gwrthwyneb, yr wyf yn argyhoeddedig fod mesur mawr o'u llwyddiant i'w gyfrif i ddiaconiaid, neu swyddogion eglwysig, fel offerynau, yn nghydag i ddynion caredig heb fod mewn swyddau eglwysig, y rhai, trwy letya pregethwyr, neu trwy gyfranu o'u meddiannau at wahanol ddybenion crefyddol, a wnaethant wasanaeth mawr i achos yr efengyl yn eu dydd. Dylid ar bob cyfrif grybwyll hefyd am y dosbarth lluosog hwnw o garedigion yr efengyl, athrawon yr ysgol Sabbothol, y rhai sydd wedi bod yn ddiwyd a ffyddlawn yn hyfforddi ieuenctyd yr oes, wrth y miloedd a'r miloedd, yn egwyddorion santaidd a chywir yr ysgrythyrau. Tra y mae adeilad yn cael ei chodi, y mae llawer dosbarth o weithwyr yn cael eu defnyddio. Heblaw y prif-adeiladydd, neu y "pen saer celfydd," y mae llawer o grefftwyr, pawb gyda'u gorchwylion priodol eu hunain; a nifer lluosog hefyd o lafurwyr, y rhai sydd yn cyflenwi diffygion pawb, ac yn gwasanaethu arnynt oll; ac y mae y cwbl o honynt yn angenrheidiol i ddwyn yr adeilad i ben. Yr un modd y dygwyd yr achos crefyddol yn mlaen yn y sir hon fel siroedd eraill

yn Nghymru; yr oedd llafur pob gradd, o'r gweinidog mawr ei ddawn, ac uchel ei swydd, hyd yr athraw bach dirodres yn yr ysgol Sabbothol, a'r penteulu diwyd gyda'i blant gartref, yn ofynol i ddwyn teml ysbrydol yr Arglwydd yn y blaen; "a phob un a dderbyn ei briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun." Barnu yr wyf, y bydd crybwylliad llawn mor anrhydeddus yn cael ei wneuthur yn y farn, gan "Farnydd yr holl ddaear," am garedigrwydd a ffyddlondeb personol a dystaw llawer gŵr disylw, ag a wneir ar lafur swyddol a mwy cyhoeddus rhai eraill;—ïe, barnu yr wyf y llenwir y fynwes â syndod, pan ddadguddir yn y dydd hwnw, pa wasanaeth ei faint a wnaeth aml fenyw dlawd, yr hon, dan ddirfawr anfanteision, a fu yn daer ei gweddiau, yn ddiwyd ei llaw, ac yn garedig ei chalon, at deyrnas ac amynedd Iesu Grist. Parodd yr hanesyn a ganlyn i mi feddwl, yn ddiau, mai felly y bydd. Nid wyf wedi cael allan yn mha barth o Ddeheudir Cymru y bu yr amgylchiad, ac fe ddichon hefyd nad yw yr hanes mor gyflawn ag y gallasai fod; eto, fel y mae, y mae yn ddrych i osod allan o ba faint o wasanaeth y bu personau anghyhoedd i achos yr efengyl.

Rhoddwyd cyhoeddiad y Parch. William Davies, Castell-nedd, medd yr hanes, i fyned un tro i ardal fynyddig ac anhygyrch, lle yr oedd yr achos yn isel, a'r bobl yn bur dlodion. I'r lle hwn yr aeth y gŵr parchedig yn ol ei gyhoeddiad, a chafodd brofiad fod y lle yn mhell, a'r ffordd yn afrwydd iawn, nes peri iddo ymresymu ynddo ei hun, "Paham y gwnaed â fi fel hyn?—pa fodd yr arweiniwyd fi ar hyd y fath ffordd anhygyrch, ac i'r fath ardal anghysbell? Wedi dyfod i'r lle, drachefn yr oedd yr olwg ar y fan, y tai a'r bobl, yn foddion i chwanegu ei anniddigrwydd ef felly yn fwy. Nid oedd yn y golwg ond ychydig o dai tlodion tô gwellt, mewn bro a ymddangosai yn fynyddig ac anghyfanedd. Nid oedd y tŷ cwrdd, chwaith, ond y fath a gydweddai â thlodi y fro. Arweiniwyd ef, pa fodd bynag, ar ei ddyfodiad i'r fan, i dŷ bychan gwael, lle y preswyliai tair chwaer, yn hen ferched heb briodi. Cymerwyd ei geffyl ef i'r stabl gan un; arweiniwyd ef i'r bwthyn bychan gan y llall; pryd yr âi y chwaer arall i agor y capel, a'i drefnu gogyfer â'r oedfa. Erbyn hyn yr oedd mynwes y pregethwr wedi cythruddo yn fwy fyth, am ei gyfarwyddo i'r fath le; meddyliai, ar y pryd, dan ruthr y brofedigaeth, ei bod yn ormod o ddarostyngiad i ŵr o'i fath ef ddyfod i'r fangre, a braidd nad oedd y gŵr llariaidd yn teimlo ei hun yn ymddigio fel un a gawsai sarhad trwm.

Dan y teimlad hwn yr ydoedd pan ddaeth yr amser i ddechreu yr oedfa. Fe ddaeth rhyw nifer yn nghyd, ond nid oedd y pregethwr mewn un modd yn gwerthfawrogi ei fraint o gael cyfarfod â'r fath gynulleidfa. Er hyn oll, wrth fyned rhagddo gyda'r addoliad, teimlai yr awyr grefyddol yn ysgafn; rhoddai darlleniad y bennod iddo ryw gymaint o bleser, a chwanegid ei hyfrydwch drwy y canu. Teimlai ei hun yn cael drws agored at Dduw yn y weddi, fel pe tynasid ei holl enaid ef allan mewn ymdrech gyda Duw. Cafodd rwyddineb anarferol drachefn i bregethu i'r bobl. "Yr oedd mor hawdd iddo wneyd hyny," meddai fy hysbysydd, "ag anadlu." Yr oedd ei ysbryd

bellach mewn gwell naws nag ydoedd pan yn dechreu yr oedfa. Parod oedd yn awr, nid i sylwi ar dlodi yr hen ferched, ond ar eu hysbryd llwyr ymroddgar hwy gydag achos yr efengyl. Yn yr agwedd hon y dychwelodd i'r bwthyn llwyd.

Gyda'i fod wedi eistedd, daeth un o'r chwiorydd â bwrdd bychan, cyfuwch â'i ben glin, o'i flaen. Ar y bwrdd y gosodwyd llian, bras yn wir, ond hynod o lân. Yr oedd yr hen ferch hithau wedi ymwregysu â llian bychan bras a gwyn. Prysurai ei hun, bellach, i godi ychydig o bytatws o'r lludw mawn ar yr aelwyd, y rhai a roddasid yno i'w crasu; ac wedi eu sychu yn lân, a thynu y croen, gosodai hwy ar y bwrdd, gan ofyn i'r gŵr boneddig erfyn bendith yr Arglwydd ar yr ymborth; ac nid ydyw yn ymddangos fod yno ar y pryd ddim ond bara ac ymenyn, heblaw y pytatws hyn. Synai y pregethwr wrth yr olwg. Canfyddai ddirfawr dlodi a charedigrwydd yn cydgyfarfod. Gwelai amgylchiadau isel, ac ysbryd o dduwiolfrydedd a chwbl ymroddiad i wasanaethu Duw, wedi ymblethu yn eu gilydd. Nid oedd yn amheu, bellach, er mor fynyddig ydoedd, nad oedd Duw yn y lle,—er mor anhygyrch y ffordd, mai *braint* oedd i ŵr boneddig gael ei theithio. Gofynai, erbyn hyn, i'r hen fenyw, pa nifer o aelodau a berthynai i'r eglwys yno? "Nid oes o honom (ebe hithau) ond *nyni ill tair.*"

"Pa fodd, ynte (gofynai Mr. Davies), yr ydych yn gallu dwyn yr achos yn ei flaen?"

"Mae i bob un o honom (ebe hithau) ei gorchwyl. Un chwaer a ofala am y tŷ cwrdd, y llall a edrycha ar ol y stabl a cheffylau y pregethwyr, a minau a gafodd y fraint o weini i'r pregethwyr eu hunain. Yr ydym ill tair yn cyfarfod yn y tŷ cwrdd unwaith yn yr wythnos i gadw cyfarfod eglwysig, gan adael y drws yn agored i bwy bynag a ewyllysio ddyfod atom, ac ymuno gyda ni."

Cyn i Mr. Davies ymadael, cynygiai yr hen ferch *chwecheiniog* iddo, yn daledigaeth am ei wasanaeth! Mynai yntau wrthod pob taledigaeth o'r fath, am y canfyddai eu dirfawr dlodi. Ond ni fynai yr hen ferch ei nacâu. Dywedai, nid yr eiddom ni, bellach, ydyw y dernyn arian: y mae eisoes yn gysegredig i'r Arglwydd, ac ni feiddiwn ei ddefnyddio at ddim arall. Yntau a'i cymerodd, rhag eu tristâu, gan ryfeddu at eu hysbryd cysegredig, a'u caredigrwydd at enw Mab Duw. Gwelai yr ystyrid hi yn fraint ganddynt roddi y cwbl a feddent, "a'u heneidiau eu hunain," er cynal ei deyrnas.

Pan oedd yn cychwyn ymaith, daeth y tair chwaer ato i ffarwelio ag ef, a gofynent iddo, "Pa bryd y tybiwch y cewch *y fraint* o ddyfod atom eto?" Erbyn hyn yr oedd ei enaid yn llawn. Aeth i ffordd gan ei gyfarch ei hun, "*Y cythraul balch,*" am iddo edrych yn isel ar waith Duw, oblegid y wedd dlawd oedd arno yn y lle. Yn mhen ychydig o flynyddoedd, *cafodd y fraint* o fyned i'r lle hwnw drachefn, ac erbyn hyny yr oedd yr eglwys wedi cynyddu i *naw ugain o rifedi.*

### Y PARCH. EBENEZER RICHARDS, TREGARON.

Er fod cofiant lled helaeth o'r gŵr parchus uchod yn nwylaw ein darllen-

wyr, a'r angenrheidrwydd oddiar hyny yn llai i osod hanes maith am dano yn y lle hwn; eto ni chyfrifem yn degwch â Methodistiaeth Cymru, nac â hanes sir Aberteifi, heb alw sylw arbenig at y gwasanaethgarwch a fu y gŵr duwiol hwn i'r genedl ac i'r cyfundeb. Angenrheidiol hefyd ydyw rhoddi bras-adroddiad o brif-linellau ei oes, gan fod rhyw gysylltiad rhwng y rhan fwyaf o honynt a'r bobl yr oedd Mr. Richards mewn undeb â hwy, ac felly fe fydd eu gosod i lawr yn berffaith gyson â'r amcan sydd genym yn y gwaith hwn.

Ganwyd Mr. Richards yn Nhrefin, sir Benfro, yn y fl. 1781, ac felly yr oedd tua 12 mlwydd ieuangach na Mr. Ebenezer Morris. Yr oedd ei dad, Henry Richards, yn ŵr duwiol iawn, ac yn bregethwr ffyddlawn a defnyddiol gyda'r Methodistiaid, yn mhlith y rhai y bu yn llafurio am ysbaid triugain mlynedd. Cafodd Mr. Richard, gan hyny, y fantais fawr o gael ei ddwyn i fyny yn grefyddol, a chafodd y fraint o ymgadw oddiwrth yr oferedd a'r gwylltineb a berthyn i lawer o ieuenctyd; ond yr oedd ei grefydd bersonol hyd yma heb fod yn amlwg a phenderfynol. Parhaodd felly, yn foesol ei fuchedd, addfwyn ei dymher, a thueddol at ddarllen a dysgu, ond heb arwyddion diymwad o dduwioldeb hyd nes ydoedd yn 15 mlwydd oed. Yn y tymhor hwn, sef y flwyddyn 1796, ymwelodd Duw ag ef mewn afiechyd trwm, trwy yr hwn y bu efe yn agos i angau; ond Duw a drugarhaodd wrtho ef, ac wrth ei rieni, gan roddi iddo estyniad oes, ac adferiad iechyd. Yn fuan wedi hyn, derbyniwyd ef yn aelod cyflawn o'r eglwys, ar ei ymgyflwyniad ei hun, ac nid mwyach, fel o'r blaen, ar gyfrif ei rieni. Yn mhen ysbaid o amser ar ol hyn, aeth i gadw ysgol i Brynhenllan, lle yn sefyll rhwng Trefdraeth ac Abergwaun. Crybwyllir yn ei hanes ei fod, tra yn aros yn y lle hwn, wedi profi argyhoeddiadau llymion iawn, cymaint felly ag y bu raid iddo roddi heibio ei alwedigaeth, a dychwelyd at ei rieni. Yr oedd ei deimladau ar hyn o bryd yn fwy ofnadwy nag a allasai na synwyr na bywyd eu goddef yn hir heb eu llethu. Yr oedd hyn tua'r fl. 1801, pan oedd yn ugain oed. Meddai ef ei hun am y noson olaf y bu yn y gwewyr hwn, "Y noswaith hon oedd y fwyaf ofnadwy yn fy mywyd, ond yr wyf yn gobeithio mai ynddi hi y dechreuodd dydd na bydd terfyn arno byth." Yr oedd, bellach, wedi cael golwg ar ddiangfa, ac wedi cael ei nerthu i ffoi i gymeryd gafael yn ngobaith yr efengyl. Cafodd ei fywyd yn Nghrist, wedi iddo ei lwyr golli ar bob tir arall.

Dychwelodd yn awr i Brynhenllan yn *ddyn newydd*, a buan iawn y daeth hynodrwydd ei ddoniau, ac amlygrwydd ei ras, i'r golwg, a cheisiwyd ganddo gan gyfeillion crefyddol y lle i arfer ei ddoniau yn gyhoeddus trwy ddechreu oedfaon, ac ymarferiadau eraill, fel ag y daeth ei gymhwysderau at waith y weinidogaeth yn amlwg, a chymhellwyd ef gan henuriaid yr eglwys i ddechreu llefaru. Yr oedd pwysigrwydd y gwaith, pa fodd bynag, yn peri iddo fod yn araf a phetrusgar; ofnai ruthro yn rhyfygus, ac heb ei alw at y gwaith goruchel, ac y mae yn ymddangos mai gwrthsefyll pob cymhelliad a wnaethai i barhau, oni bai ofni digio yr Arglwydd, a dwyn arno ei hun bechod mawr. Bellach yr ydym i'w olygu mewn gwedd gyhoeddus. Derbyniwyd ef a'i

frawd, y Parch. Thomas Richards o Abergwaun, i'r Cwrdd Misol, a hyny cyn hir ar ol iddynt ill dau ddechreu pregethu.

Yn y fl. 1806, symudodd i Aberteifi. Ymddengys fod iechyd Mr. Richards yn y tymhor hwn yn wanaidd iawn, a barnai llawer, wrth yr olwg oedd arno, ei fod yn prysuro i'r bedd dan rym y darfodedigaeth. Aeth i Aberteifi i ymgynghori â meddyg yno, yr hwn a ddywedai wrtho, os efe a arosai dros dymhor yn y dref, a chymeryd ei gyfferi yn gyson, ei fod yn lled sicr o'i wellâu. Cydsyniodd yntau i aros, a throes dadganiad y meddyg allan yn wirionedd. Yn yr adeg yma, yr oedd gŵr boneddig duwiol, o'r enw James Bowen, Ysw., yn byw yn Aberteifi. Hwn a archodd ar Mr. Richards i ddyfod i'w deulu ef, yn athraw i'w feibion; a chydsyniodd Mr. Richards â'i gais. Efe a arosodd yn y teulu anrhydeddus a charedig hwn am ysbaid tair blynedd, a pharhaodd i lafurio yn ffyddlawn a llwyddiannus yn y weinidogaeth, ac yn neillduol gyda'r ysgol Sabbothol, yr hon oedd, bellach, yn dechreu ymledu ac ymwreiddio yn y wlad.

Yn y fl. 1809, priododd Mr. Richards ferch ieuanc o Dregaron, yr hon oedd ŵyres i un o'r cynghorwyr boreuaf yn mhlith y Methodistiaid, sef David Evan Jenkin o Gysswch; ac yn ganlynol i hyny, daeth i breswylio i Dregaron, y lle hefyd y bu ef byw dros weddill ei oes. Yr oedd dyfodiad Mr. Richards i sir Aberteifi yn adgyfnerthiad gwerthfawr iddi, a dewiswyd ef yn ysgrifenydd cyfarfod misol y sir y flwyddyn ganlynol i'w ymsefydliad yn Nhregaron; a bu ei wasanaeth yn hyn o werth mawr dros weddill ei oes.

Bu gweinidogaeth Mr. Richards dan arddeliad neillduol, nid yn unig yn ei wlad ei hun, ond hefyd dros yr holl dywysogaeth, ac yn amryw o drefydd Lloegr. Defnynai ei athrawiaeth ef fel gwlaw. Fel prif nodwedd ei weinidogaeth, gellir dywedyd ei bod yn neillduol o *iraidd* a *thoddedig*. Yr oedd fel gweinidogaeth Apolos gynt, yn rhyfeddol am ddyfrhau. Coronid ef ar brydiau ag oedfaon yn mha rai y byddai rhyw dywalltiadau mawrion iawn yn cymeryd lle. Sonir yn neillduol am bregeth o'r eiddo yn Llangeitho, ar Luc xvi, 23, "Ac yn uffern efe a gododd ei olwg, ac efe mewn poenau." Coronwyd yr oedfa hon ag arddeliad neillduol. Yn y gymdeithas eglwysig ddylynol, ymunodd deg-ar-hugain o newydd â'r ganghen eglwys hono, a'r cwbl ond dau yn priodoli y cyfnewidiad i'r bregeth hon. Torodd y Parch. Mr. Williams o Ledrod allan, wrth ymddyddan â hwy ar eu derbyniad, "Garw gynifer o honoch a saethodd e' ar un ergyd." Ac yn ychwanegol at y nifer uchod, barnai dynion craff fod rhai cannoedd o eneidiau wedi cael eu cyffroi y tro hwn, rhwng Llangeitho a'r cymydogaethau cylchynol.

Llanwai Mr. Richards le mawr, a hyny yn esmwyth iawn, nid yn unig yn y pulpud, ond hefyd yn nghyfarfodydd misol a chwarterol y corff, ac yn fwy-fwy felly fel yr ydoedd yn heneiddio. Efe a fu am flynyddoedd lawer yn dal y swydd o ysgrifenydd i gyfarfod misol ei sir, ac hefyd i gymdeithasfa chwarterol y Deheubarth,—swydd y gŵyr y sawl a gafodd brofiad, sydd lawn o ofal, llafur, a manylrwydd; ond swydd, er hyny, a gyflawnwyd gan Mr. Richards gyda sel, dyfalwch, a deheurwydd anarferol, a hyny dros ei oes.

Y mae o'r pwys mwyaf i bob sefydliad neu gymdeithas, fod yr ysgrifenydd yn ŵr o ysbryd a medrusrwydd priodol. Y mae ar ei law ef i wneuthur llawer er rhwyddhau, neu er dyrysu, y gwaith. Oddiwrtho ef y deillia yr âlwad i bob un at ei waith, ac arno ef y disgyn gosod y drefn yn mha un y mae i bob un weithio. Efe ydyw llygad y gymdeithas, ei threfn, a'i heffeithiolrwydd. Cyflawnodd Mr. Richards y swydd bwysig hon ymron yn ddigyffelyb, o ran llwyr ymroddiad iddi, a chwbl fedrusrwydd ynddi.

Yr ydym eisoes fwy nag unwaith wedi crybwyll am ei wasanaeth arbenig i'r ysgol Sabbothol yn sir Aberteifi a'r Deheubarth. Nid oes un amheuaeth na fu ei lafur yn y ffordd hon mor fendithiol ag a fu mewn un ffordd arall. Yr oedd ei deimladau bywiog, ei ddull serchog a mwynaidd, yn dra ennillgar; yr oedd y cymhwysderau hyn hefyd wedi eu heneinio â duwioldeb ysbryd, ac ag eiddigedd i lesâu dynion. Peiriant ydoedd yr ysgol Sabbothol a fendithiwyd gymaint a dim moddion eraill i lesâu Cymru, ac i eangu Methodistiaeth yn mysg y genedl; ond fe fu Mr. Richards, Tregaron, yn un o'r offerynau mwyaf ffyddlawn a medrus yn tywallt olew i olwynion y peiriant hwn, ac yn hyrwyddo ei fynediad yn mlaen.

Anhawdd ydyw i'r anghyfarwydd ddychymygu faint oedd llafur y gŵr duwiol a defnyddiol hwn, mewn teithio, pregethu, myned i gyfarfodydd misol a chwarterol,—mewn gohebiaeth â De a Gogledd,—mewn ysgrifenu cofnodau y cymdeithasfaoedd, a chynal cyfarfodydd cyhoedd ac eglwysig, a hyny dros ysbaid deuddeg mlynedd ar hugain; ac nid oedd ei wobr am y cwbl nemawr fwy na'r lle a ennillodd yn serchiadau ei frodyr, a'r mwynhad a brofodd ef ei hun yn y gwaith. Ond dyddiau olaf Ebenezer Richards a nesasant. Blinid ef er ys blynyddau lawer gan fath o hûn-glwyf *(lethargy)*, yr hwn a fygythiai ei amgylchu â chadwynau mor dynion na ellid eu dattod. Cafodd gyrch trwm o'r clefyd hwn yn y fl. 1832. Syrthiodd y pryd hwn i'r fath drymgwsg tost, fel na ddeffrôdd yn hollol am rai dyddiau, ac ofnid y pryd hyny mai cysgu a wnaethai i farwolaeth, ond yr Arglwydd a fu drugarog wrtho, ac a'i hadferodd. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, ymosododd yr un anhwyldeb arno eilwaith, pan oedd yn gweinidogaethu yn Llundain; a'r tro hwn hefyd, efe a fu mewn enbydrwydd am ei einioes, eto estynwyd ei oes dros dymhor byr; ond yr oedd arwyddion lled ddiymwad fod ei afiechyd yn cryfhau, a'i gyfansoddiad yntau yn adfeilio, a chaed prawf galarus o hyny yn gynar yn y flwyddyn ganlynol, oblegid dychwelodd y cwsg arno gydag adnewyddol rym, ac a roes derfyn ar ei oes lafurus a defnyddiol, yn mis Mawrth, 1837, pan nad oedd eto ond 56 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Tregaron.

Yn y cofiant a ysgrifenwyd am dano gan ei feibion, at yr hwn y dymunwn gyfeirio y darllenydd am helaethach hysbysiad, y mae adroddiad am lawer o'i lafur cyhoeddus am ysbaid 22 mlynedd. Ymddengys y byddai Mr. Richards yn cadw cofnodau o'i deithiau a'i bregethau, yr hyn nis gwnaeth ond ychydig o bregethwyr y Methodistiaid, o leiaf cyn amser Mr. Richards; ac yn yr adroddiad a gasglwyd o'r cofnodau hyny, yr ydym yn cael ei fod wedi preg-

ethu, o'r fl. 1815 hyd ddiwedd y fl. 1836, chwe mil ac wyth cant a phedair-ar-bymtheg-a-deugain o weithiau,—at eu gilydd tua 312 o weithiau bob blwyddyn. Fe deithiodd yn yr un ysbaid amser, agos i 60 mil o filldiroedd, neu ddwy fil a chwe chant a deuddeg-a-thriugain bob blwyddyn, neu un-ar-ddeg-a-deugain o filldiroedd bob wythnos. Cadwodd, neu yr oedd yn un a'u cadwai, agos i 700 o gyfarfodydd cyhoeddus,—cyfarfodydd misol, chwarterol, a pherthynol i'r ysgol Sabbothol. Nid llawer a allasai ddangos dwy flynedd ar hugain wedi eu treulio yn gyffelyb. "Ond y mae yn awr yn gorphwys oddiwrth ei lafur, a'i weithredoedd yn ei ganlyn." Aeth y gwas da a ffyddlawn hwn i mewn i lawenydd ei Arglwydd. Wedi iddo wasanaethu ei genedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, efe a hunodd, ac a ddodwyd at ei dadau.

Nid ydyw ein terfynau yn caniatâu i ni ymhelaethu, ac nid ydym chwaith yn tybied ei fod yn cydweddu â natur y gwaith hwn i osod i lawr hanes pob pregethwr a fu yn ddefnyddiol yn mysg y Methodistiaid, mwy na rhoddi hanes pob eglwys a blanwyd, a phob capel a gyfodwyd, canys yna ni fyddai prin derfyn ar lafur yr ysgrifenydd, nac amynedd digonol gan y darllenwyr. Ein hamcan ydyw, gan hyny, rhoddi bras-olwg ar y modd yr ymwreiddiodd Methodistiaeth yn ngwahanol siroedd De a Gogledd,—adroddiad byr am yr eglwysi boreaf,—y prif offerynau a ddefnyddiwyd i'w planu,—a'r amgylchiadau hynotaf cysylltiedig â'r gwaith yn ei holl ranau.

### Y PARCH. JENKIN DAVIES, TWRGWYN.

Nid oedd Jenkin Davies yn un o dadau y diwygiad Methodistaidd, gan na anwyd mohono hyd nes oedd y canrif diweddaf ymron ar derfynu. Ni fu ychwaith ddim rhyw amgylchiadau hynod a tharawiadol yn gysylltiedig â'i redfa grefyddol; ni fu ei oes weinidogaethol ychwaith yn faith iawn, ac ni chododd i sylw cyffredinol De a Gogledd i'r graddau y gwnaeth ambell un; yr un pryd, barnwyf mai annheilwng fyddai myned heibio iddo gyda chrybwylliad o'i enw, gan y tybiwyf ei fod yn un o'r dynion teilyngaf ei efelychu o neb yn ei ddydd.

Yr ydym eisoes wedi crybwyll am ei dad fel un o brif gyfeillion Ebenezer Morris yn mhlith diaconiaid y wlad, ac fel un a gymerth ran arbenig yn neillduad gweinidogion y cyfundeb, yn gystal ag fel un tra theilwng ei gymeriad fel Cristion. Yr oedd ei fam hefyd yn wraig hynod yn ei chylch am ei gras a'i defnyddioldeb. Cafodd Jenkin Davies, gan hyny, y fraint o gael ei ddwyn i fyny yn grefyddol, a hyny gyda llawer o ofal, llafur, a gweddiau. Ymddangosodd ynddo yntau yn foreu arwyddion nodedig o gallineb y sarff, yn blethedig â diniweidrwydd y golomen. Nid oedd ond bychan o gorffolaeth, dystaw a hynaws ei fryd, hoff o neillduaeth a dystawrwydd, a thra ymroddgar i wybod pob peth a ddeuai dan ei sylw.

Ymddangosai ynddo ragoriaethau yn ei febyd, a dynai sylw, nid ei rieni yn unig, arno, ond dyeithriaid hefyd. Gofynai Ebenezer Morris i'w rieni yn fynych, oddiar ryw bethau hynod a ganfyddai ynddo, "Beth fydd y bach-

genyn hwn?" Gwelir, mewn gair, pa fath ydoedd ei gyneddfau a chraffder ei feddwl, yn yr atebiad a roddodd unwaith, pan nad ydoedd ond bachgen bychan, i gwestiwn a ofynwyd gan y gweinidog uchod i ysgol Sabbothol Pensarn;—cwestiwn na ofynid ond yn anfynych, ac a atebid yn fwy anfynych, sef "Pa bryd y dechreuodd yr oruchwyliaeth efengylaidd?" Gwedi bod hir ddystawrwydd, atebai Jenkin fychan yn wylaidd, "Marwolaeth Crist oedd terfyn yr hen oruchwyliaeth, ac adgyfodiad Crist oedd dechreuad y newydd."

Ymdrechodd ei rieni i roddi iddo fanteision dysgeidiaeth, y fath ag oedd i'w cael mewn cyfleusdra, ac i raddau mwy nag a dybid yn angenrheidiol gan luaws o rieni eraill ei roddi i'w plant;—gwnaent hyn, fe allai, oddiar ddirgel dybied fod rhagluniaeth y Nef, trwy ei gynysgaeddu â'r fath gyneddfau ac ysbryd, wedi ei fwriadu i fod o ddefnyddioldeb neillduol gydag achos Duw. Pa un bynag, cafodd y bachgen fanteision helaeth, a dybid felly o leiaf, i un o'i sefyllfa ef. Anfonwyd ef yn gyntaf i ysgol a gynelid mewn pentref a elwid Llwyn-dafydd; wedi hyny i Aberteifi, a thrachefn i'r Ceinewydd. Ac yn mhob man yr âi, parai argyhoeddiad yn y sawl a'i hadwaenai mai bachgen hynod oedd; a dywediad cyffredin gŵr y bu ef yn lletya yn ei dŷ am ryw ysbaid ydoedd, "*Mae hen ben ar Sianco.*"

Yr oedd Jenkin Davies wedi ymroddi i gyrhaedd gwybodaeth. Llosgai gan awyddfryd i feddiannu ac i ddarllen llyfrau;—"ni ddiffoddai ei ganwyll ar hyd y nos, gan lynu wrth ei lyfrau hyd hyfryd doriad y wawr:" a mynych y cymhellid ei fam, rhag niwed i'w iechyd, ei anfon oddiwrth y llyfr i'r gwely, pan yn aros yn hwyr i ddarllen. Cadwyd ef dros ystod ei febyd a'i ieuengtyd yn nhŷ Dduw; methwyd ei faglu gan hudoliaethau y byd, na'i ddyrysu gan dueddiadau y cnawd; gorchfygwyd y temtasiynau a ymosodai arno trwy awdurdod gair Duw. Er ei fagu yn eglwys Dduw gan ei rieni, yr oedd yn 16eg ml. oed cyn ei dderbyn yn gyflawn aelod. Yr oedd arbenigrwydd neillduol arno ar ol hyn, yn ngwresogrwydd ei weddiau, ac yn ei lafur diflino i ymgydnabyddu â'r Beibl yn ei holl ranau. A rhwng ei lafur cyson a pharhaus dros lawer o flynyddoedd, a'i gof cryf, yr oedd yn anhawdd cael neb yn ei oes yn fwy cydnabyddus na Jenkin Davies yn nghynwysiad ac yn ymadroddion yr ysgrythyrau. Yr oedd ei ddrychfeddyliau ymron oll wedi eu gwisgo ag ymadroddion, ac yn cael ei traddodi yn ffugurau a chyffelybiaethau, yr ysgrythyrau.

Yn yr ysbaid hwn yr oedd yn llafurio llawer gyda yr ysgol Sabbothol, a chododd i sylw neillduol a defnyddioldeb nodedig yn y rhan yma o waith yr Arglwydd. Derbyniai lawer o annogaethau o bryd i bryd i bregethu, ond ymddangosai Jenkin yn lled hwyrfrydig i anturio at y gwaith pwysig, ac ni wnaeth hyny ychwaith nes oedd yn llawn 28ain oed. Ofnai fod ganddo rhy fach o brofiad o bethau yr efengyl, yn ei ysbryd ei hun, i'w chyhoeddi i eraill;—rhy fach o wybodaeth yn athrawiaethau'r efengyl i'w hagoryd i eraill;—a rhy fach o hyfdra a dawn ymadroddi i fod yn fuddiol mewn lle mor gyhoeddus a'r pulpud,—"eto," eb efe wrth gyfaill iddo, "os bydd yr eglwys yn gyffredinol yn galw arnaf, nis gallaf anufyddhau yn hwy." Nid oedd eisieu

ychwaneg; yr oedd pob addfedrwydd yn meddyliau ei frodyr er ys amser maith, a llawen oeddynt ei fod yn boddloni i dderbyn eu galwad. Dechreuodd ar y gwaith o bregethu Crist yn gyhoeddus yn y fl. 1825. Yr oedd dysgwyliad mawr wrtho gan y rhai a'i hadwaenai, ac ni chawsant eu *siomi*. Fe fu yn ddyfal i osod ei hun yn brofedig gan Dduw, yn weithiwr difefl, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd. O hyn allan, nid oes genym nemawr o amgylchiadau hynod yn ei oes i'w coffâu. Yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, yr oedd y brawd hwn yn dyoddef gan yr un anfantais, a lluaws o'i frodyr o'i flaen ac ar ei ol ef, sef milwrio dros ei Arglwydd, ac ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn ar yr un pryd. Gweithiai yn galed ar hyd y dydd gan ddarparu dros yr eiddo, a'r nos a dreuliai i ddarllen a myfyrio. Nid ydym yn clywed ei fod yn edrych ar hyn ychwaith yn *iau drom*, ond fel un yr oedd ei galon yn y gwaith,—un a "roddai ei ysgwydd yn ngwasanaeth ei Arglwydd," âi rhagddo yn ddyfal a dystaw, gan gynyddu mewn gwybodaeth a dawn, ymwreiddio mewn gras a phrofiad, a dwysâu mewn cymeriad a dylanwad gyda'i frodyr.

Neillduwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn y fl. 1833, a pharodd yr ysgogiad hwn iddo ymgysegru yn llwyrach nag o'r blaen i weinidogaeth yr efengyl. "Anhawdd," medd ei fywgraffydd, "oedd cael un yn fwy derbyniol yn ei eglwys gartrefol, na'r brawd hwn; yn wir, yr oedd y proffwyd hwn mewn anrhydedd yn ei wlad ei hun. Ymddiriedid iddo lawer o achosion dyrys ei ardal;—byddai dynion digrefydd yn cyrchu ato, i ymgynghori ag ef, ac yn gyffredin boddlonid hwynt cyn ymadael; ac ni byddai yr eglwys chwaith yn foddlawn i drin unrhyw faterion yn ei absenoldeb. Mewn gair, efe oedd eu llygaid â pha rai y gwelent; a'u dwylaw â pha rai y gweithient. A hawddach dychymygu teimladau yr eglwys na'u hadrodd, pan glywsant ei fod yn bwriadu ymadael oddiwrthynt."

Wedi marwolaeth y Parch. Ebenezer Morris yn 1825, disgynai mwy o ofal yr eglwysi o amgylch ei gartref ar Jenkin Davies, nag arferol. Buasai y gŵr hynod hwnw, fel y crybwyllasom am dano, yn arolygu y dosbarth hyny o'r wlad, a'i dad Dafydd Morris o'i flaen, ond yn awr disgynodd y gofal hwnw, i raddau helaeth, ar Jenkin Davies, ac anhawdd iawn a fuasai cael neb cymhwysach. Arweiniodd hyn ymhen rhai blynyddoedd i'w symudiad o Bensarn i'r Twrgwyn i aneddu. Yr oedd ei lafur yn ystod y tymhor hwn, pa fodd bynag, yn cael ei gyfyngu i fesur helaeth o fewn y dosbarth ag oedd yn neillduol dan ei ofal; oblegid ni allai dori allan lawer dros y terfynau hyn, heb wneuthur cam â'i alwedigaeth fydol. Deallai ei frodyr hyn, ac annogasant ef i ymryddhau yn fwy oddiwrth orchwylion y bywyd hwn, modd y gallai deithio mwy oddi cartref, a rhoddi prawf helaethach i eglwysi eraill o'i weinidogaeth. Mae yr adroddiad a ddyry ef ei hun o'r amgylchiad hwn mor ddyddorol, fel na allaf lai na'i osod yn gyflawn o flaen y darllenydd. Fel hyn y dywed:—"Yr wyf yn teimlo fy natur yn llesgâu, gan bwys y llafur wyf ynddo mewn amrywiol ffyrdd;—y mae fy ngwraig yn fwy analluog nag y bu i edrych ar ol y fferm yn fy absenoldeb, yr hyn sy'n peri aflonyddwch i

fy meddwl pan oddi cartref. Hefyd, y mae fy mhlant yn rhy ieuainc, ac yn ddyeithr i orchwylion amaethyddiaeth, fel nas gellir eu hymddiried iddynt; a phe baent mewn oedran i weithio, yr wyf yn ei hystyried yn ddyledswydd arnaf fel tad, i roddi i'm plant gymaint o ddysgeidiaeth ag a allaf, er eu haddasu at orchwylion y bywyd hwn, mewn oedran aeddfetach. Ond yn ol arwyddion presenol yr amserau, ymddengys i mi os cadwaf fferm, ac hefyd aros yn fy swydd fel gweinidog, y bydd sefyllfa fy mhlant ymron fel yr eiddo caethweision,—yn mhell islaw plant amaethwyr o'm cydradd, mewn dysgeidiaeth. Wrth ystyried pethau fel hyn, penderfynais roddi y fferm neu y pregethu heibio. Ymgynghorais â'm priod pa beth i'w wneuthur. Hithau a ddywedodd, 'Na roddweh y pregethu heibio er dim, rhag i chwi, wrth hyny, ddigio yr Arglwydd. Hwyrach y gwna yr eglwys ystyried a gwrando ein cwyn.' Gwedi, hyn ymgynghorais â rhai o'm cyfeillion, hwythau a ddangosent yr anfoddlonrwydd mwyaf i mi son am hyny, gan fygwth os gwnawn felly, na chawn byth gydwybod dawel a dirwystr tuag at Dduw a dynion. A minau hefyd, a chenyf dystiolaeth yn fy nghydwybod fod Iesu Grist ein Harglwydd wedi fy nghyfrif yn ffyddlon, gan fy ngosod yn y weinidogaeth, a rhoddi i mi genadwri, a chymhorth i'w thraddodi, lawer pryd; gan hyny, penderfynais wrando ar eu llais, a rhoddais rybudd y rhoddwn y fferm i fyny yn Mihangel, 1838; ar yr hwn amser yr oedd cyfeillion Twrgwyn a Salem yn rhoddi gwahoddiad taer i mi ddyfod i fyw i'w hardal, gan addaw gwneyd cyfrif o honwyf er mwyn fy ngwaith. Ond yr oedd ymadael â'r ardal yn groes iawn i deimladau fy nheulu. Ni fynent, er dim, i mi goffa am y fath beth. Erbyn hyn, yr oedd fy sefyllfa wedi fy ngyru i gryn gyfyngder meddwl; rhoi y lle i fyny,—anfoddlonrwydd fy nheulu i ymadael â'r ardal,—yn nghyda rhyw siomedigaethau eraill, nes peri i mi, am wythnosau rai, i rodio yn alarus dan orthrymder y gelyn. Ond yr oedd cyfeillion dyffryn Troed-yr-aur yn parhau i erfyn arnaf ddyfod atynt. Yna, wrth sylwi ar arwyddion pethau oeddwn yn glywed a gweled, a chael hanner boddlonrwydd fy nheulu, penderfynais wrando ar eu cais; ac mewn canlyniad, cymerais dŷ cyfleus i fyw, sef y Maelon-uchaf. Pan oedd pethau yn y wedd hon, tua chanol yr haf, aethum i Lundain, yn ol penderfyniad y cyfarfod misol, i wasanaethu y dydd-gylch yno dros y sir. Tra fum yno, yr oedd achos fy nheulu yn lladrata fy meddwl yn aml, ac ofnwn y byddai anfoddlonrwydd fy nheulu yn debyg o fod yn anghysur i mi a hwythau; ond tra yr oeddwn i yma, yr oedd amgylchiadau wedi eu haeddfedu hwy, nes eu hennill i'r un cyffelyb feddwl a minau."

Yn yr amgylchad a adroddir yma gellir canfod, megys mewn drych, y benbleth a'r ymdrechfa a fu, ac sydd eto, yn terfysgu mynwes llawer o bregethwyr y Methodistiaid: yn enwedig y dosbarth hwnw o honynt y mae ysbryd y weinidogaeth yn rhoddi gogwyddiad cryf ynddynt i boeni yn y gair a'r athrawiaeth. Ofnent, ar y naill law, wneyd cam â'u teuluoedd, trwy esgeuluso eu hamgylchiadau, ac arswydent, ar y llaw arall, rhag eu cael yn anffyddlawn i'w 'Meistr yn y nefoedd.' A mynych y tybient mai eu lle ydoedd rhoi

heibio y naill neu y llall, gan eu bod yn argyhoeddedig na allent wneuthur cyfiawnder â'r ddau.

Wedi i Jenkin Davies gael ei ryddhau oddiwrth orchwylion bydol i raddau, ymroddodd yn gwbl at waith y weinidogaeth. Bellach, cafodd Cymru a threfydd Lloegr ei weled a'i glywed. Yn y ddwy flynedd cyn clafychu o hono, fe deithiodd lawer, fel un a fuasai dan yr ystyriaeth nad oedd iddo ond ychydig o amser. Pregethodd, yn y fl. 1840, 315 o weithiau, ac yn fl. 1841, 400 o weithiau. Ond yr oedd ei lafur a'i oes ymron ar ben. Yn y flwyddyn ganlynol, sef yn nechreu y fl. 1842, adfeiliodd ei iechyd i raddau mawr; ac er nad oedd ei afiechyd eto yn ei luddiais yn llwyr i bregethu, eto ni theimlodd yn iach byth mwy, ond prysurwyd ei symudiad gan lecheden, a'i enaid a ehedodd ymaith yn Awst 10ed o'r flwyddyn hòno.

Yr oedd Jenkin Davies yn un o'r pregethwyr hyny a lafuriai lawer wrth gyfansoddi ei bregethau,* a chynwysid eu harddercbogrwydd yn sylweddolrwydd eu materion, ac yn nhlysni eu cyfansoddiad. Nid oedd ei lais ond gwanaidd, a'i ystumiau ond ychydig ac unffurf. Ni chanfyddid ardderchogrwydd ei bregethau gan y werin ddifeddwl. Nid oedd ganddo lais cyffrous, i gynhyrfu y teimladau; ac ni amcanai at ennill sylw trwy frawddegau tanbaid a ffugyrau gwylltion, ond yr oedd ei bregethau yn un gadwen fawr o feddylddrychau wedi eu goreuro â phur air Duw.

---

Nid yw hanes y sir hon wedi ei hynodi â dim erlidigaethau trymion ar bregethwyr a phroffeswyr crefydd, fel rhai siroedd eraill, yn neillduol yn Ngogledd Cymru. Fel y sylwasom o'r blaen, yr oedd ymneillduaeth wedi ymledaenu yn fwy yn y De nag oedd yn y Gogledd, a gwerin a bonedd wedi

* Cyn llefaru, dwys lafuriai;
Yn y gair yn benaf poenai:
Hwn oedd ei gydymaith, ynddo
Treuliodd fywyd yn ddiflino:
I'w berfeddion dirgel cloddiodd,
Perlau glwys i'r golwg ddygodd:
  Defnydd iawn wnaeth o'i ddawn,
  Y llestr llawn gwybodaeth;
Pob rhyw *aeth* oedd at wasanaeth,
Oll yn gweini i'w weinidogaeth.

* * * *

Prydferth ydoedd yn y pulpud,
Heb un ystum hyll ac ynfyd;
Nid â swrn o goeg ddych'mygion,
Gemawg iaith am gibau gweigion,
Ystranc ffol, neu wag uchel-floedd;
Ond â *phethau* llonai'r lluoedd
  Nid mawr 'stwr gadwai'r gŵr,—
  Rhyw gynhwr' mal ffynon,
Wrth fyrlymu rhagorolion
Maes yn ffrydiau megys afon.

*Galareb gan W. Evans, Aberayron.*

ymgynefino mwy ag ef. Yr oedd Methodistiaeth hefyd yn cael ei olygu gan y cyffredin yn fwy fel cangen gysylltiedig ag eglwys Loegr, nag fel ymneillduaeth digymysg. Yr oedd llawer o offeiriaid efengylaidd, ac o foneddwyr crefyddol, yn dwyn cysylltiad ag ef. Nid oedd dim o hyn yn y Gogledd. Nid oedd yno yr un offeiriad wedi ymuno â'r Methodistiaid am hanner can' mlynedd ar ol y cychwyniad cyntaf, ac nid ymunodd ond tri offeiriaid â hwy yn ystod mwy na chan' mlynedd.

Ond er fod llai o erlid yn sir Aberteifi wedi bod nag mewn parthau eraill o'r dywysogaeth, nid oes i ni feddwl, er hyny, na chafodd y Methodistiaid boreuaf eu rhan yn ehelaeth o orthrwm a gwawd. Ac ni ddiangodd y Parch. Daniel Rowlands ei hun ddim yn gwbl a hollol; ond rhoddwyd iddo yntau, er bod yn weinidog urddedig yn eglwys Loegr, a chanddo ddylanwad mawr iawn fel pregethwr ardderchog, brofi, yn awr ac eilwaith, pa mor ffyrnig a chynddeiriog ydoedd gelyniaeth y byd yn erbyn y gwirionedd. Caiff yr hanesyn a ganlyn fod yn esiampl.

Tua'r amser yr oedd Mr. Rowlands yn dechreu tori allan i bregethu yn y prif-ffyrdd a'r caeau, dygwyddodd ar ryw Sabboth yn Llangeitho, ar ol dybenu yr oedfa, a myned o Mr. Rowlands i'r tŷ ac eistedd, fod amryw o ŵyr cyfrifol iawn yn dyfod ato, rhai o siroedd Penfro, Caerfyrddin, a Morganwg; ïe, rhai o honynt wedi dyfod i Langeitho yn eu cerbydau. Y boneddigion hyn a brofasent hyfryd flas yr efengyl, a thaer iawn oeddynt ar Mr. Rowlands i addaw dyfod i ymweled â'u gwledydd hwy. Yr oedd yntau, ar y pryd, yn ymddangos yn lled ddisylw o'u cais. Yn y cyfamser, yr oedd rhyw hen ferch dduwiol o Lanfihangel-y-creuddyn, a adwaenid gan Mr. Rowlands, yn sefyll ar bwys y drws ac yn wylo. Canfuwyd hi gan Rowlands, a sylwodd arni yn fwy nag ar neb o'r gwŷr mawr a'i hamgylchynai.

"Siani Evan Lewis," ebe fe, "paham yr wyt ti yn wylo?—pa beth sydd yn eisieu arnat?"

"O! Mr. Rowlands anwyl," ebe hithau, "eisieu eich cyhoeddiad chwi sydd arnaf, i bregethu i'r bobl annuwiol sydd aew gyda ni."

"Wel, Siani, mi ddeuaf y Sabboth nesaf am bump o'r gloch prydnawn."

Mawr oedd llawenydd Siani am iddi lwyddo, ac i ffordd yr aeth yn wisgi ei chamrau i hysbysu y newydd da i'w chymydogion; a mawr oedd syndod y bobl gerllaw, fod Mr. Rowlands yn sylwi mwy ar Siani Evan Lewis, nag ar y boneddigion o amgylch iddo. Gwnaeth Siani gyfiawnder â'r cyhoeddiad; hysbysodd drwy yr holl fro fod Mr. Rowlands i'w ddysgwyl; a bu Mr. Rowlands cystal a'i air. Ar yr amser a benodwyd, aeth yno; safodd i fyny yn ymyl clawdd y fonwent, (nid oedd yno un tŷ cwrdd,) a dechreuodd yr oedfa gyda rhyw nifer o wrandawyr a ymgynullasai. Yn mhen ychydig amser ar ol iddo ddechreu pregethu, wele haid o erlidwyr yn dyfod, a Siôn William y clochydd yn flaenor arnynt, a chanddynt bob math o offer yn eu dwylaw, ac yn tyngu yn filain y lladdent hwy oll. Canfu Mr. Rowlands nad oedd obaith cael llonyddwch, cymerodd gefn ei geffyl, ac i ffordd ag ef ar frys mawr; a rhyw nifer o wŷr traed yn rhedeg eu goreu i'w ganlyn. Yr

erlidwyr hwythau a ymlidient eu heithaf ar eu hol, gan eu lluchio yn dost â thom ac â cherig, am ddwy filldir o ffordd, sef hyd lan afon Ystwyth. Aeth y gwrandawyr trwy yr afon ar ol y pregethwr, gan gyfeirio megys tua Lledrod. Safasant, pa fodd bynag, yn nghongl rhyw gae, ac yn y fan hòno y cafodd Mr. Rowlands hamdden i orphen ei bregeth, i tua deuddeg o bobl ag oedd wedi ei ganlyn ef dros yr holl ffordd, pryd yr oedd lluaws mawr wedi methu gan flinder, ac wedi ymwasgaru tua'u cartrefi. Yr oedd oedfa congl y cae, medd yr hanes, yn oedfa ryfedd. Rhoddwyd i'r pregethwr a'r gwrandawyr daledigaeth lawn am y blinder a'r sarhad, yn y mwynhad a gawsant yn yr oedfa. Yr oedd tad Mr. William Rowlands, Cwrt-y-cwm, ger Aberystwyth, yn un o'r deuddeg.

---

Mae rhai manau yn y sir hon, fel mewn siroedd eraill, ac fe ddichon y rhan amlaf o honynt yn cynwys eglwysi lluosog a blodeuog, heb fod dim hynod a tharawiadol yn gysylltiedig â'u hanes;—dim henafiaeth mawr yn perthyn iddynt;—dim erlid erioed wedi bod ynddynt;—dim enghreifftiau nodedig o ddychweliad dynion anferth eu drygioni at grefydd, a hyny mewn modd disymwth a rhyfedd;—dim diwygiadau nerthol a grymus wedi bod ynddynt; ond yn lleoedd, er hyny, ag y mae yr achos crefyddol yn llawn mor gyson a siriol yn ei holl ranau ynddynt, ag ydyw yn un man arall yn y wlad. Mynych iawn y gwelwn ni hyn yn y manau hyny a gawsant eu cychwyniad o fewn y canrif presenol. Yn y lleoedd hyn, nid oes amgylchiadau hynod i'w croniclo, eto hawdd ydyw canfod effeithiau graddol moddion gras ar drigolion y fro—dylanwad y gwirionedd yn raddol yn gweithio ei ffordd i oleuo a chywiro y farn, i gyffroi y gydwybod, ac i ennill y galon. Yr ysgol Sabbothol, yn enwedig, a fu yn wasanaethgar iawn, megys i fagu dynion yn ngeiriau y ffydd, ac i blanu ynddynt egwyddorion santaidd, megys yn ddiarwybod iddynt pa bryd a pha fodd. Mae y desgrifiad hwn yn perthyn yn neillduol i'r holl ganghenau hyny sydd wedi blaguro a thyfu allan o'r eglwysi gwreiddiol a chyntefig, ac er bod rhai o honynt erbyn hyn wedi rhagori llawer mewn grymusder a rhifedi ar yr hen fam a'u hymddug, eto nid oes dim dygwyddiadau hynod yn gynwysedig yn eu hanes, a roddai ddyddordeb neillduol i'r darllenydd. Cawn esiampl o hyn yn hanes y

### CEINEWYDD *(New Quay)*.

Tua'r fl. 1794, yr oedd tua deuddeg o frodyr a chwiorydd yn byw yn y lle hwn, ac yn yr ardal gerllaw, y rhai oeddynt aelodau yn Ffosffin gyda'r hybarch Mr. Gray. Daethant yn raddol i deimlo eu sefyllfa wasgaredig, ac anghysbell o ran moddion, a barnasant mai buddiol fyddai, os oedd yn bosibl, cael moddion gras yn nes atynt, ac yn fwy cyfleus iddynt oll. Oddiar y syniad hwn y ceisiwyd gan yr hen frawd Siôn Dafydd, pregethwr neu gynghorwr yn Ffosffin, ddyfod yn awr ac eilwaith i bregethu i'w tai, a'r lle y pregethwyd gyntaf ynddo, oedd tŷ hen frawd o'r enw John Owen, o'r lle hwn.

Cynaliwyd hefyd gyfarfodydd eglwysig, a chyfarfodydd gweddio, yn nghydag

ambell bregeth, yn benaf gan Siôn Dafydd, yn y tŷ a enwyd, ac yn nhai brodyr eraill, yn eu cylch, hyd y fl. 1802. Y pryd hwn, trefnodd rhaglunieth i ŵr o'r enw Evan Evans ddyfod i breswylio mewn tŷ yn y lle, a elwid Pen-y-wig; i'r lle hwn, bellach, y symudwyd yr achos, ac yma y cynelid yr holl foddion. Ar yr un pryd, ystyrid y lle yn ganghen o Ffosffin, ac yno yr âi yr holl frodyr i gymundeb. Ond tua'r fl. 1807, pan oedd y gwrandawyr wedi lluosogi, a thŷ anedd yn rhy fach i'w cynal, barnwyd yn angenrheidiol adeiladu yma gapel. Cafwyd tir gan Evan Evans, Pen-y-wig, a thrwy ei gymhorth ef a brodyr eraill, codwyd a gorphenwyd yr adeilad cyn diwedd y flwyddyn a enwyd, sef 1807.

Yr oedd yr ysgol Sabbothol wedi ei chychwyn eisoes er ys tua phum' mlynedd cyn adeiladu y capel, ac fel arferol, hi a fu yn foddion i chwanegu y gwrandawyr, ac i roddi ysgogiad grymus i'r achos yn ei flaen, nes y bu raid ymofyn am le helaethach na thŷ anedd. Cynyddodd y gwaith yn raddol o flwyddyn i flwyddyn, nes y bu raid tynu y capel i lawr, ac adeiladu un llawer mwy. Mae y gwrandawyr cyffredin, erbyn hyn, yn llenwi y tŷ hwn, ac yn cyrhaedd tua 500 o rifedi, a'r un modd y mae cynydd yr eglwys a'r ysgol Sabbothol wedi bod yn cyfateb.

Gwelwn fod yma lwyddiant mawr wedi bod, a hyny heb ddim tarawiadol a hynod yn yr amgylchiadau cysylltiedig. Yr un fath ddysgrifiad y gellid ei roddi am luaws o leoedd eraill yn y wlad, yn benaf y rhai a heidiasant o'r mâm-eglwysi yn ystod y canrif presenol.

## CAPEL-AFAN.

Am y lle hwn y dywedir fod ei gynydd wedi bod yn arafaidd iawn, ac er na fu yma erlidigaeth greulawn, eto fe fu yma ymosodiadau ffyrnig i ymlid y pregethu ymaith yn llwyr; ïe, fe lwyddodd yr ymosodiad mor llwyr, fel ag i chwalu y rhai a gasglasid unwaith at eu gilydd. Nid oes hanes fod neb o dadau enwocaf y diwygiad wedi bod yma yn pregethu. Dywedir fod Mr. Rowlands wedi bod yn Llanfihangel-y-creuddyn; a bod Howel Harris wedi bod yn pregethu mewn tŷ rhwng y lle hwn a Llanilar, ac i'r gŵr boneddig oedd yn byw yn Abermaed ddod i'r oedfa ar y bwriad i'w attal. Ond nid gwaith mor hawdd oedd attal Mr. Harris. Troes i ymliw â'r gŵr boneddig, ac i'w amddiffyn ei hun. Yna gofynai y boneddwr iddo, a wyddai efe â phwy yr oedd yn siarad; a rhoes ar ddeall iddo ei fod yn hedd-ynad. "Gwn o'r goreu," ebe Harris, "llwch a lludw ydych a fydd yn crynu boreu y farn." Diflanodd nerth yr erlidiwr ar hyn, ac aeth ymaith, a chafodd Mr. Harris lonyddwch i bregethu i'r gynulleidfa.

Ond er i'r gwŷr hynod uchod fod yn gweini yn achlysurol mewn llanerchau heb fod yn mhell, eto ni fu yr un o honynt, tybygid, yn yr ardal hon. Ar yr un pryd, rhoddwyd iddi glywed holl gynghor Duw trwy ddynion ffyddlawn, y rhai y bu eu llafur dan fendith i laweroedd. Aeth llawer o'r blynyddoedd cyntaf ar yr achos heibio, heb ryw ymweliadau grymus, a chwanegiadau lluosog, fel y bu mewn manau eraill yn y wlad hon; eto yn ddiweddar, ïe,

mor ddiweddar â'r fl. 1843, fe ddisgynodd cawod hyfryd ac adfywiol o'r gwlaw graslawn ar y diffeithdir hwn nes peri iddo flodeuo fel y rhosyn. Bu chwanegiad at yr eglwys ar yr achlysur hwnw oddeutu 70 o aelodau.

Nid oes cwbl sicrwydd tua pha amser y ffurfiwyd yma eglwys; ond bernir mai tua'r fl. 1794 y gwnaed hyny, a bod y nifer y pryd hwnw yn 10 neu 12. Yr oedd pregethu ymhell cyn hyny, mor foreu a'r fl. 1774. Cynelid ef mewn tŷ anedd o'r enw Blaenddôl, yr hwn a breswylid gan un John Jones. Ond yn y fl. 1809, yr adeiladwyd yma y capel cyntaf, yr hwn a agorwyd gyda phregeth gan y diweddar Barch. John Williams, Lledrod.

Ymddengys hefyd, fod yr ysgol Sabbothol wedi ei sefydlu rai blynyddoedd cyn adeiladu y capel, ac iddi hi fod yn foddion effeithiol yn y lle hwn, fel yn mhob man arall ymron, i roddi ysgogiad grymus i'r achos crefyddol yn ei flaen. Mae deiliaid hon, bellach, yn gannoedd mewn rhif, a'r gwrandawyr Sabbothol felly hefyd.

---

Ar ol dechreuad yr ysgol Sabbothol y cododd heidiau mân allan o'r eglwysi henaf, gan ymsefydlu mewn ardaloedd eraill sydd eto heb eu henwi. Sefydlodd haid, o'r Bontrhydfendigaid, yn *Ysbytty*,—un arall o Cynon, ac Aberffrwd, yn *Trisaint*,—un arall o Swydd-ffynon, yn y *Berth*,—un arall o'r Rhydlwyd, yn *Bronant*; a lluaws craill tua gwaelod y sir, am ba rai ni chafodd yr ysgrifenydd yr un hysbysiad. Mae yr holl fanau diweddar hyn, ymron heb eithriad, wedi codi oddiar i ryw frodyr ymroddi i fyned iddynt i agor ysgol Sabbothol, cynal cyfarfodydd gweddio, a chael gan ambell bregethwr bregethu yn y lle yn achlysurol. Trwy y moddion hyn y crynhowyd y rhan fwyaf o'r eglwysi a ffurfiwyd yn ystod y ganrif hon, llawer o ba rai ydynt dra lluosog a llwyddiannus.

Mae y wlad hon yn fwy llwyr Gymreigaidd nag ydyw yr un wlad arall yn y De, ac hefyd yn fwy llwyr Fethodistaidd. Mae ei chapelau yn dra aml, a'r cynulleidfaoedd yn dra lluosog. Nid oes un parth o'r wlad nad yw Methodistiaeth wedi gwreiddio ynddi, ond y dosbarth a orwedd rhwng Llanbedr a'r Twrgwyn. Meddiennir y rhan yma o'r wlad gan yr Undodiaid, i raddau helaeth; y rhai, er maint ydyw y gwahaniaeth rhyngddynt o ran syniadau, a honant berthynas â hen eglwysi Presbyteraidd y wlad hon. Hòna y bobl hyn gymeriad uchel iddynt eu hunain ar gyfrif diragrithrwydd a gonestrwydd; gyda pha deilyngdod, neu ar ba seiliau, y gwneir hyn, nid wyf yn gwybod; bydded hyny fel y byddo, nid arwydd o onestrwydd, tybygwyf, ydyw ymlynu wrth y broffes o Bresbyteriaeth, ac ymffrostio o'u holyniaeth i'r hen Buritaniaid, pryd nad oes dim o rinweddau ysbrydol eu henafiaid yn aros, nac o iachusrwydd eu syniadau, ond eu henw yn unig. Gonestach a fyddai i'r tylwyth yma ymwrthod ag enw y Presbyteriaid, ïe, yn wir, ag enw Cristionogion, ac ymgyfenwi ar gyhoedd ac ar unwaith yn *anffyddiaid*, o ran dwyfoldeb yr ysgrythyrau, gan nad ydyw eu dull o'u hesbonio ond diddymiad ar eu synwyr, a thrais ar eu hymadroddion.

Nid ydym yn y sylwadau blaenorol wedi son dim ymron am un enwad heblaw am Fethodistiaid sir Aberteifi. Ni fynem, er hyny, i'r darllenydd ddychymygu mai yr unig cyfundeb o bobl grefyddol yn y wlad ydyw; oblegid ni fyddai hyny yn wir, gan fod ynddi gynulleidfaoedd lawer, a rhai o honynt yn dra lluosog, yn perthyn i'r Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, achos pa rai sydd mor hen neu henach, na'r eiddo y Methodistiaid. Nid llawer sydd o Wesleyaid yn y sir hon; daethant iddi yn ddiweddarach na'r enwadau eraill, ac nid ydynt hyd yma wedi ymwreiddio yn ddwfn yn y tir. Nid wyf yn gydnabyddus ag ystadegau rhifyddol neb o enwadau ymneillduol y wlad hon, oddigerth yr eiddo y Methodistiaid, ac nid wyf, o ganlyniad, yn gallu traethu, gyda sicrwydd, am ansawdd cydmhariaethol yr enwadau, pe buasai hyny hefyd yn ddoeth. Ond am Fethodistiaeth y sir, gellir dweyd ei fod yn amlach ei ddeiliaid yn y sir hon na'r un sir arall yn y Deheubarth; ac hefyd yn meddiannu serchiadau y preswylwyr yn fwy cyffredinol na'r un enwad arall yn y wlad. Nid oes ar hyn o bryd, tybygid, ddim amgen na chydfod a brawdgarwch rhwng yr holl enwadau â'u gilydd, tra y mae pob enwad yn ysgogi yn mlaen, mor egniol ag y gallo, pob un yn ei ffordd ei hun.

Mae cyfarfod misol y sir hon yn lluosog iawn ei aelodau. Fe gynwys tua 15 o weinidogion, 17 o bregethwyr, a thros 200 o ddiaconiaid, heblaw rhyw nifer fechan o ymgeiswyr am y weinidogaeth,—oll yn agos i 250 o rifedi, y rhai a gyfrifir yn *gynrychiolwyr* eglwysi y sir, ac yn cyfansoddi dirprwyaeth weithiol *(executive)* y wlad. Anhawdd fyddai dywedyd, pe byddai yn angenrheidiol dweyd, yn mha le y mae yr awdurdod penaf mewn gwirionedd yn gorwedd; oblegid y mae cynrychiolwyr yr eglwysi mor gyfrifol i'w heglwysi, ag ydyw yr eglwysi eu hunain i gorff y cynrychiolwyr yn y cyfarfod misol. Nid dyben y gyfundrefn o'r dechreuad oedd hòni na gweinyddu *awdurdod* y naill ddosbarth ar y llall, ond *cyd-weithrediad* a *threfn* y cyfan. Ië, amgylchiadau gofidus bob amser, a mawr eu perygl i lwyddiant y gwaith, ydyw y rhai a ddyry *eisteddle* yr awdurdod i brawf, neu a eilw am weinyddiad llym o hono. Nid wyf yn gwybod fod y sir hon wedi cyfarfod â nemawr o'r amgylchiadau gofidus hyny, mewn ysbaid can' mlynedd; a ffaith ydyw na ellir bod yn rhy ddiolchgar am dani, bod gwlad mor fawr, yn cynwys bellach dros 80 o gynulleidfaoedd, yn abl i fyned a'r achos crefyddol yn mlaen yn heddychol a llwyddiannus. Pa faint bynag o effaith y gyfundrefn sydd i'w gael yn y ffaith hon, gallwn yn hawdd briodoli y daioni hwn yn benaf i fywyd crefydd, neu ysbryd yr efengyl, heb yr hwn, ni atebai *yr un gyfundrefn* y dyben yn hir.

Ar y dechreu, nid oedd cyfarfodydd misol y sir hon ond bychain, ac yn gwbl yn nwylaw yr offeiriaid Methodistaidd a berthynai iddo, yn nghyda'r Parch. Thomas Gray, yr hwn, er ei fod o ran dygiad i fyny a threfn eglwysig yn perthyn i'r Annibynwyr, yr oedd, er hyny, o ran ysbryd a chyd-weithrediad yn llawn cymaint yn perthyn i'r Methodistiaid. Ond yn nwylaw y rhai urddedig hyn y bu arolygiaeth y sir am lawer o flynyddoedd. Yn nyddiau

Ebenezer Morris, a'i gydlafurwyr, y dechreuodd dynion diurddau gyfodi i sylw a dylanwad mwy nag arferol. Ond yr oedd hanner cant o flynyddoedd wedi myned heibio ar Fethodistiaeth eisoes, ac nid trwy fwriad penodol yn mlaenllaw y daeth y llywyddiaeth i ddwylaw gwahanol, ond yn hollol trwy rym ac arweiniaid amgylchiadau; a'r rhai hyny yn amgylchiadau na ellid eu hysgoi heb fod yn anffyddlawn i'r achos crefyddol ei hun, ac encilio odddiwrth luman Tywysog y llu.

---

## PRIF LINELLAU HANESIAETH SIR GAERNARFON.

## PENNOD I.

### GOLYGIAD RHAGARWEINIOL.

CYNWYSIAD:

AGWEDD Y WLAD AR DDYFODIAD HOWEL HARRIS IDDI GYNTAF—JOHN WILLIAMS AC ELLIS ROWLANDS—EGLWYS YMNEILLDUOL PWLLHELI—AGWEDD YR OFFEIRIAID—GRIFFITH WILLIAMS, ESGOB KILKENNY, A RHYS PARRI Y CLOCHYDD—LLAFUR JENKIN MORGAN—JOHN GRIFFITH ELLIS, EVAN WILLIAMS, A JOHN JONES, LLANIESTYN—PREGETHU YN ERBYN Y METHODISTIAID—CANGHENAU EGLWYSIG YN CAEL EU FFURFIO—CYNGHORWYR CYNTAF LLEYN AC EIFIONYDD.

Y MAE y sir hon yn cadw lle mawr yn hanes Methodistiaeth Cymru. Dechreuodd ysgogiadau y diwygiad ynddi yn gynar; cododd ynddi fwy o bregethwyr nag un wlad arall yn y dywysogaeth; ac y mae hyd heddyw yn amlach ei haddoldai, ac yn lluosocach ei haelodau eglwysig yn y cyfanswm, nag un sir arall yn y cyfundeb. Mae ei therfynau yn eang, a'i thrigolion yn lluosog; y mae yr iaith Gymraeg yn ffynu yn gyffredinol trwyddi; a Methodistiaeth wedi ei meddiannu mor llwyr a nemawr un wlad yn Nghymru. Mae yr ystyriaethau hyn yn galw arnom i osod lle arbenig i'w hanesiaeth yn y gwaith hwn.

Pan wynebodd Howel Harris arni gyntaf, yn y fl. 1741, nid oedd ond un capel ymneillduol o'i mewn, sef capel Pwllheli. Ychydig effaith, gan hyny, a gawsai un ymosodiad crefyddol a diwygiadol ar y wlad hon gan y cyffroadau a fu yn y deyrnas o ddyddiau Harri VIII i lawr. Ychydig o argraff a wnaethai cyffro ymneillduol 1640 ar y wlad hon. Effeithiodd hwnw yn llawer mwy ar y Deheudir nag ar y Gogledd, fel y traethwyd o'r blaen. Dywedir, pa fodd bynag, fod tri gŵr o'r sir hon wedi bod yn Rhydychain, a chael eu dwyn yno i wybodaeth y gwirionedd, ac ar ol dychwelyd adref, yn pregethu yr efengyl yn ei dysgleirdeb, tua'r fl. 1746. Mae un Mr. Whitelock yn dadgan, nad oedd yn Nghymru ddim cymaint o weinidogion efengylaidd ag oedd o siroedd ynddi, yn y fl. 1641; ond yn mhen deuddeng mlynedd wedi hyny, sef yn y fl. 1652, yr oedd ynddi dros 150 o weinidogion effro a grymus:* eto ni chafodd y Gogledd ond rhyw ddafnau o'r gawod fawr a bendithiol hon. Ac o ran dim hanes sydd genym, ni phrofodd sir Gaernarfon ddim o honi, ond a brofodd trwy weinidogaeth y tri gŵr

* Gwel tudal 32, Cyf. I, o'r gwaith hwn.

y cyfeiriwyd atynt. Nid oes hanes genym ond am un o honynt, sef John Williams: * am hwn ni a wnaethom grybwylliad o'r blaen, fel nad rhaid ychwanegu.

Crybwyllir hefyd am un Mr. Ellis Rowlands, yr hwn oedd yn trigo yn rhywle yn Arfon. Barnwn fod rhyw ddaioni cyhoeddus yn y dyn hwn hefyd, gan y bu gorfod arno ffoi, nid fel llofrudd neu leidr, i sir Gaer, lle y bu farw tua'r fl. 1683. Bu gorfod iddo ddyoddef llawer trwy orthrwm caled gelynion crefydd, a hyny dan dylodi dwfn, gan nad oedd ganddo at ei gynaliaeth ond a ennillid gan ei wraig trwy gadw ysgol.

Ond er i amryw o "ddynion Duw" ymosod, o bryd i bryd, ar y gorchwyl pwysig o ddeffro a goleuo preswylwyr y wlad hon yn yr ail canrif ar bymtheg, eto nid ydym yn cael fod dim o ôl hyny ar y wlad yn gyffredinol. Ychydig o seibiant a gawsant gan erlidigaeth i lafurio, a byr a fu arosiad amryw o honynt, fel nad oedd ryfedd fod can lleied o'u hol yn aros. Yr oedd "ychydig enwau," pa fodd bynag, wedi eu gadael, y rhai a ddygent gysylltiad â'r eglwys fechan ymneillduol yn Mhwllheli, megys wedi eu cadw i ffurfio dolen gysylltiol rhwng dysgyblion yr oes derfysglyd o'r blaen, â'r oes fwy llwyddiannus a ddylynai.

Mae yn ymgymhell, yn ddiau, i feddwl y darllenydd yn naturiol, i ofyn, "Yn mha le yr oedd offeiriaid y llanau yr holl amser hwn?" Nid hawdd ydyw rhoddi un ateb i'r gofyniad hwn, ond dywedyd eu bod oll, ymron heb un eithriad, yn cysgu mewn perffaith ddifrawder am lesâd ysbrydol eu cydwladwyr; a'r unig beth a allai beri gradd o gyffro yn eu mysg, oedd dyfodiad rhyw un i'r wlad i bregethu yr efengyl, a fyddai yn meddu gradd o'i hysbryd, ac yn eiddigeddu dros ei lledaeniad a'i llwydd. Yr oedd yn anhawdd, fel y gallem feddwl, gael dynion cymhwys i weinyddu yn ngwasanaeth y cysegr, yn Lloegr ei hun, gan mor isel ydoedd agwedd crefydd bur yn y wlad; ond yr oedd yn anhaws fyth i gael rhai felly i Gymru, gan leied oedd ar gael a fedrai yr iaith. Yr oedd y llanau plwyfol, gan hyny, yn gwbl ddifudd i'r trigolion mewn pethau crefyddol. Nid oedd athrawiaeth yr efengyl yn cael ei phregethu, na'i chyfreithiau yn cael eu harfer. Bedyddio y plentyn, cadw y gwyliau, myned yn achlysurol i'r gwasanaeth ac i'r cymun, oedd holl gylch crefydd preswylwyr y tir. Yr oeddynt mor anwybodus o'r ysgrythyrau â'r paganiaid eu hunain; llawer o honynt heb weled yr un Beibl erioed; yr oeddynt mor ddyeithr i Grist, fel mai prin yr adwaenent ei enw. Nid oedd neb yn dychymygu bod angen am brofiad o'r efengyl yn y galon, a bod yn rhaid ufyddhau iddi yn y fuchedd. Cyflawniad difywyd a diffrwyth o ryw ychydig o ddefodau oedd eu holl grefydd. Ac fel hyn y *dysgid* y werin dywyll i feddwl. Eu "cyfarwyddwyr oeddynt yn peri iddynt gyfeiliorni, a llyncwyd y rhai a gyfarwyddid ganddynt." (Esay ix. 16.)

Gweddus, er hyn, ydyw crybwyll yma am y gŵr hwnw o blwyf Llanllechid, yn agos i Fangor, yr hwn wedi hyny a wnaed yn esgob Kilkenny yn

* Tudal. 36, Cyf. I.

Iwerddon. Enw y gŵr hwn oedd Griffith Williams. Yr oedd yn berchenog ar dreftadaeth yn y plwyf hwnw, sef Plas-offa. Dygwyd ef i fyny yn weinidog yn eglwys Loegr, a chyrhaeddodd yn mhen rhyw amser i fod yn esgob. Yn amser Charles I, bu gorfod iddo ffoi o'r Iwerddon gan rym erlidigaeth, ac i'w dreftadaeth y daeth i ymguddio. Anfonwyd cenad ar ei ol i Blas Offa i chwilio am dano: cyfarfu hwnw ag ef gerllaw y tŷ mewn hen ddillad gwael, a chryman drain ar ei fraich; gofynodd iddo, a welsai ef yr esgob? "Do," ebe ynte, "yr oedd ef yma yn bur ddiweddar." Yn y modd yma ysgôdd ei ddal, a gorfu i'r genad fyned ymaith heb ei neges. Dygwyddodd fod ŵylnos yn ei hen gartref, tra yr oedd yn ymguddio yno, ac ar y pryd yr oedd yr esgob yn llechu yn y llofft. Yn yr ŵylnos, yr oedd y clochydd yn darllen rhyw lith neu gilydd, a chafodd yr esgob ryw foddlonrwydd i'w feddwl wrth ei glywed yn darllen fod ynddo ryw ddaioni mwy na'r cyffredin o ddynion y wlad y pryd hyny. Gyrodd am dano, gan hyny, pan gafodd hamdden, a chafodd le i farnu, wedi hir ymddyddan, fod y clochydd yn ddyn duwiol; ac annogodd ef i ddyfod ato i Kilkenny, wedi i'r dymhestl fyned heibio, i gael ei urddo yn gurad yn Llanllechid. Felly, wedi i'r esgob gael dychwelyd, dylynodd Rhys Parri (oblegid hyny oedd enw y clochydd) yr esgob i'r Iwerddon, a chafodd ei urddo ganddo, a bu yn gweinidogaethu yn Llanllechid amryw flynyddoedd. Darllen homili y bu, dros ryw amser, yn lle pregethu. Gelwid ef gan ei wawdwyr yn Syr Rhys, gan ei ddirmygu o herwydd ei fod o radd isel yn y byd, ac yn enwedig am ei fod yn tueddu at wir grefydd. "Ond er gwaeled yr offeryn (ebe Robert Jones), arddelodd Duw ef i ddychwelyd amryw o'u ffyrdd drygionus, ac i droi eu hwynebau at Dduw; ac er nad oeddynt ond "praidd bychan," cawsant eu herlid yn chwerw. Byddai gorfod arnynt ddianc i'r mynydd i ymgyfarfod i weddio, i ganu mawl, ac i hyfforddi eu gilydd yn nghylch mater eu heneidiau; ond nid oes hanes i'r symlrwydd oedd yn eu plith barhau ar ol yr oes hòno. Gadawodd yr esgob y Palas-offa i dylodion Llanllechid dros byth; ac y mae yr ardreth, sef yr arian, i'w rhanu bob hanner blwyddyn."*

Pan edrychom yn ol ar ansawdd y wlad hon tua dechreu 1700, a'i chydmharu â'r wedd bresenol sydd arni, gorfyddir ni i gydnabod daioni yr ymweliad a gafodd;—rhaid i ni addef fod cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle, a bod y cyfnewidiad hwnw yn un ardderchog a buddiol. Os ydyw meddiannu a darllen yr ysgrythyrau yn ddaioni, y mae hyny wedi ei ennill. Os ydyw pregethu yr efengyl yn well na rhigymau masweddol y beirdd; os ydyw cyfarfodydd addoli yn rhagori ar yr Interludiau; os ydyw yr ysgol Sabbothol yn well na'r twmpathau chwareu; os mwy dymunol ydyw dysgu ac adrodd y Beibl, nag adrodd hen chwedlau gwrachïaidd ac ofergoelion ffol; os ydyw dirwest yn well na meddwdod; os ydyw ofn Duw yn well nag anystyriaeth, a Christionogaeth yn rhagori ar anwybodaeth paganaidd;—y mae yn rhaid fod daioni annhraethol wedi ei wneuthur yn sir Gaernarfon yn

* "Drych yr Amseroedd," tudal. 37.

y can mlynedd diweddaf. Gwyddom yn dda fod llawer o waith eto i'w gyflawni, llawer o anwybodaeth i'w ymlid ymaith, a mwy na hyny o anystyriaeth a chaledwch; gwyddom fod graddau mawr o afreolaeth yn aros yn mysg y werin; fod llawer o ragrith a thwyll yn mysg y crefyddwyr, a llawer o gysgadrwydd ac anghysonedd yn mhlith y saint eu hunain; ac wrth gydmharu yr agwedd *sydd* â'r agwedd a *ddylai fod*, y mae genym destynau lawer i ymofidio; eto, wrth ei chydmharu â'r hyn a *fu gynt*, ni a welwn fod gwaith mawr wedi ei wneyd, a daioni annhraethol wedi ei ennill.

Yn nechreu 1700, nid ydym yn cael sail i gredu fod yr efengyl yn cael ei phregethu yn ei blas a'i phurdeb mewn nemawr un o'r llanau plwyfol trwy yr holl wlad; nid oedd gan ymneillduwyr, chwaith, ond un addoldy yn y sir. Yr oedd y gynulleidfa hòno, gan rym yr ymosodiadau a fu arni, yn fechan a digalon, a phrin yn gallu cadw tŷ. Nid oedd Methodistiaeth eto wedi cychwyn ei gyrfa, a'r Bedyddwyr a'r Wesleyaid oeddynt ar y pryd yn anadnabyddus yn y tir. Ond pa beth a welir yn awr? Deallwn fod moesau y clerigwyr yn llawer gwell, a bod llawer mwy o efengyl yn lliwio eu pregethau; mae Methodistiaeth wedi britho y wlad hyd ei chonglau pellaf â'i thai addoliad, ac enwadau ymneillduol eraill wedi lluosogi yn rhyfeddol yn ystod yr hanner canrif diweddaf.

Nid ydym, er hyn oll, yn edrych ar ddychweliad dynion oddiwrth un blaid grefyddol at blaid grefyddol arall, yn unig, yn un gradd o *wir elw*, tra na ddychwelir dynion at Dduw. "Agoryd llygaid dynion, a'u troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw," ydyw yr hyn a dry allan yn elw. Nid lluosogi sect, ond chwanegu duwioldeb, ydyw y gwir ennill. A llawenhau yr ydym am y cyfnewidiad a welir yn y wlad hon, nid oblegid fod un blaid wedi cael goruchafiaeth ar blaid arall, ac nid yn unig am fod *opiniynau* dynion wedi newid, nac ychwaith fod eu harferion wedi newid, ond am y credwn fod mwy o *wirionedd* yn eu syniadau, mwy o *burdeb* yn eu moesau, a mwy o *ofn Duw* yn eu calonau. Nid oes dim arall a ddeil brawf y tân. Fe fydd "y coed, y gwair, a'r sofl," yn cael eu llosgi, ond "yr aur, yr arian, a'r meini gwerthfawr," yn aros. Nid newid y naill opiniwn am opiniwn arall ydyw yr ennill, ond newid twyll am wirionedd. Nid newid y llan am y capel, neu y capel am y llan, a ddylai fod yn destyn llawenydd, ond newid y byd am eglwys Dduw, pechod am santeiddrwydd, y rhith am y sylwedd.

Ymddengys fod gweinidogaeth Howel Harris yn y fl. 1741, ac ar ol hyny, yn nghydag addysgiadau Jenkin Morgan yn yr ysgol a gadwai, ac yn y pregethau a draddodai, wedi eu bendithio yn fuan iawn ac i raddau helaeth mewn amryw barthau o Leyn yn enwedigol.

Yr ydym eisoes wedi crybwyll y modd y caed Jenkin Morgan i'r wlad. Nid oedd Harris eto ddim wedi ymweled â sir Gaernarfon, nac yn wir â'r Gogledd. Bu llafur Jenkin Morgan yn fendithiol i lawer, trwy yr ysgol a gadwai yn Nglasfryn-fawr, a thrwy bregethu o dŷ i dŷ, lle y rhoddid derbyniad iddo. Yr oedd agor y tŷ i dderbyn pregethwr iddo y pryd hwnw, yn amgylchiad difrifol iawn, ac yn fynych yn dwyn anghysur a cholled fawr i'r

neb a wnelai hyny. Parai hyn gryn anhawsder i gael caniatâd gan neb i dderbyn oedfa i'r tŷ. A phan yr agorid drws i dderbyn gŵr i bregethu, rhaid fyddai cadw hyny yn ddirgelaidd i fesur mawr, a gwahodd y cymydogion hyny i'r oedfa a dybid yn hoff o'r efengyl. Felly y gwneid gyda Jenkin Morgan. Llunid cyfarfodydd iddo i bregethu, a deuai cryn nifer i'w wrando, ac nid ofer ychwaith a fu ei weinidogaeth. Yr oedd merch ieuanc y pryd hyny yn byw gyda'i nain yn Towyn, gerllaw Tydweiliog, yr hon, trwy ryw foddion, a brofasai radd o argraffiadau crefyddol. Hon a glywodd son am yr ysgolfeistr; a thrwy daerineb, cafodd ganiatâd gan ei nain iddo ddyfod i Dowyn i gynghori, a bu ei ymweliad yn fendithiol yno. Ymunodd Jenkin Morgan â'r ymneillduwyr, rhoes yr ysgol heibio, gan ymroddi i bregethu yr efengyl; ac efe, meddir, oedd y gweinidog sefydlog cyntaf yn mhlith yr ymneillduwyr yn Mon.

Yr oedd yr efengyl, bellach, yn dechreu gwneuthur ei hol ar amryw bersonau trwy lafur Jenkin Morgan, a thraehefn trwy weinidogaeth rymus ac effro Howel Harris. Crybwyllasom eisoes am un o'r enw John Griffith Ellis a ddychwelwyd trwyddo, a than yr un bregeth, un o ferched y Tyddyn Mawr. Dan bregeth Jenkin Morgan y dychwelwyd un arall o'r enw Richard Dafydd, yr hwn, yn nghyda John Griffith Ellis, a fuont yn ddefnyddiol i gynghori eu cyd-ddynion yn y ffordd i'r bywyd.

Oddeutu yr amser hwn, daeth gŵr ieuanc duwiol arall o'r Deheudir i'r wlad hon i bregethu, gan fwriadu ymsefydlu ynddi. Ei enw ydoedd Evan Williams. Ni fu ei arosiad yn y wlad ond byr, ac nid yw yn ymddangos ei fod yn feddiannol ar wroldeb digonol fel dyn i sefyll yn ngwyneb ymosodiadau yr erlidwyr. Yr oedd yma hefyd ŵr o'r enw John Jones o'r Penrhyn, Llaniestyn, yr hwn hefyd a fu yn cynghori. Nodwyd y ddau hyn gan yr erlidwyr i'w dal, a llwyddasant i gael gafael yn John Jones. Ar ol hyny, ymroisant i chwilio am Evan Williams. Nid oedd un lle tebycach o'i gael na'r Tyddyn Mawr, am fod y lle hwnw yn adnabyddus eisoes fel prif loches y Pengryniaid. Daeth yr haid ddireol i'r Tyddyn Mawr, a John Jones mewn dalfa ganddynt, a chwiliasant y tŷ yn fanwl am Evan Williams. Ond gan i'r teulu gael amnaid blaenorol o'u bwriad, gwnaethant eu goreu i'w siomi yn eu hamcan, trwy guddio Evan Williams mewn cwpwrdd â chlo arno. Ar ol chwilio llawer, a methu ei gael, daeth un o honynt at y cwpwrdd, a chan ei daro â'i droed, efe a ddywedai gyda llwon a rhegfeydd, "Hwyrach mai yma y mae ef;" eto ni chawsant ef. A gwaeth na hyny, diangodd John Jones yn ddystaw i ffordd, tra yr oeddynt hwy yn ymofyn am Evan Williams; ac yn y modd yma siomwyd hwy o'r ddau.

Fe ganfu Evan Williams nad oedd nemawr obaith iddo gael llonyddwch gan ffyrnigrwydd yr erlidwyr, a phenderfynodd droi tua'i wlad ei hun. Dywedir fod ei iechyd wedi cael y fath ysgytiad yn yr adeg y bu ef yn y wlad, trwy ymosodiadau yr erlidwyr, fel na wellhaodd ef yn gyflawn byth mwy. Disgynodd arno y fath lwfrdra ac ofn, fel y tybiai, am ryw dymhor, fod ei fywyd mewn enbydrwydd bob awr. Danfonwyd ef ran o'r ffordd ar hyd nos,

ac hyd nes y croesodd ef afon Dyfi, a thirio yn nhir y Deheubarth, ni allai ymddyosg oddiwrth y dyb fod pawb a welai am ei ddal a'i niweidio, neu ynte ei ladd. Treuliodd weddill ei oes yn sir Gaerfyrddin fel gweinidog duwiol a llafurus, ond parhaodd effeithiau y driniaeth a'i cyfarfu yn Ngwynedd arno tra fu byw.

Yn nghylch yr amser hwn, sef rhwng 1741 a 1744, fe ddaeth gŵr ieuanc o'r enw Mr. David Jenkins, brawd i Mr. Daniel Jenkins, Llangeitho, i'r wlad, gan fwriadu aros rhyw gymaint ynddi. Yr oedd y gŵr hwn wedi ei fwriadu i fod yn offeiriad, ond nid ydym yn alluog i ddweyd pa un a dderbyniasai efe gyflawn urddau ai peidio. Yr oedd yn ŵr ieuanc o ysbryd a thalentau rhagorol, a llewyrchodd dros adeg fer fel seren ddysglaer, ond machludodd yn fuan, pan nad oedd ond pum'-mlwydd-ar-hugain oed. Yr oedd ei weinidogaeth, dros y tymhor byr y bu ef ar y maes, yn rymus ac effeithiol iawn, a chyfatebol â'i ddefnyddioldeb yn ei fywyd, oedd y galar am ei golli. Pan glybu Mr. Rowlands, Llangeitho, ei farw, dywedodd, gyda dwysder a galar, "Wele, fe dorwyd ymaith fy mraich ddeau." Gan ei fod yn offeiriad, fe dybiodd y cawsai bregethu mewn rhai, o leiaf, o lanau y plwyf, a chafodd led addewid o gael hyny gan berson Tydweiliog, ond gan ofni gwg ei frodyr parchedig, tynodd y person ei air yn ol; yntau a ymroddodd i bregethu yn y mynwentydd, ac ar y prif-ffyrdd a'r caeau, a hyny er mawr ddeffroad yn mhlith ei wrandawyr. Cafodd llawer eu dychwelyd trwyddo pan y nacawyd iddo lân Tydweiliog, ac y bu raid iddo sefyll gerllaw yr adeilad gysegredig, a phregethu gair y bywyd oddiar gareg fedd. "Un o'r oedfaon mwyaf neillduol oedd hon o un a fuasai o'r blaen yn y wlad."

Pan oedd unwaith yn pregethu ar brif-ffordd yn rhyw le yn Lleyn, daeth rhyw erlidiwr creulawn yno, a chareg fawr yn ei law; ergydiodd y gareg ato gyda ffyrnigrwydd, ond methodd ei nôd; aeth y gareg heibio i'r pregethwr, a soddodd yn y clawdd.

Fel yr oedd y pregethu yn llwyddo, a'r crefyddwyr yn lluosogi, yr oedd yr erlidigaeth hefyd yn trymhau. Yr oedd yr offeiriaid a'r boneddwyr yn anad neb yn cyffroi yn erbyn yr ysgogiad dyeithr, ac yn penderfynu gwneyd a allent i'w lethu yn llwyr. Ac nid oedd diffyg offerynau yn mysg y werin i osod eu cynlluniau creulawn mewn grym. Yr ydym eisoes wedi son am y Canghellwr Owens fel na raid chwanegu.* Ac nid trwy erlid, yn unig, y gwneid cais i lethu Methodistiaeth, ond hefyd trwy bregethu yn ei herbyn. Darlunid y pregethwyr yn ddynion peryglus, a'u hathrawiaeth yn wenwynig, a dinystriol i eneidiau dynion. Lluniwyd chwedlau celwyddog ar Jenkin Morgan yr ysgolfeistr, ei fod yn dysgu egwyddorion drwg i'r plant, a bod bwriad drwg ac ysgeler ganddo ef a'i blaid tuag atynt, o dan y broffes o'u dysgu mewn pethau crefydd. Haerid fod amcan gan y bobl i werthu y plant yn gaethweision, a bod cyngrair i'r dyben hyny rhyngddynt â rhyw ddyhiriaid mewn gwledydd tramor, i anfon llong i ryw borthladd cyfagos i'w cyrchu

* Cyf. I, tudal 101.

a'u cludo ymaith. Mynai eraill mai eu hamcan, wedi ennill rhyw nifer o ganlynwyr, oedd codi gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth, a dadymchwel pob trefn a sefydliad gwladol. Ond er yr holl chwedlau hyn a'r cyffelyb, ac er pob dyfais ystrywgar, a phob ymgyrch gormesol a wneid, llwyddo yr oedd yr achos. Po fwyaf y gorthrymid hwy, mwyaf oll yr amlhaent.

Ond er fod y crefyddwyr yn amlhau yn ngwahanol barthau Lleyn ac Eifionydd, eto nid oedd un addoldy ar gael, hyd yn hyn, ond yr un gan yr Annibynwyr yn Mhwllheli. Yno, gan hyny, yr ymgasglai y dysgyblion newyddion, i ymofyn am ymgeledd a chyfarwyddyd, hyd nes y daeth Howel Harris yr ail neu drydedd waith i sir Gaernarfon. Pan welodd ef fod y rhai a ddeffroasid trwy ei weinidogaeth ef ac eraill yn ymgasglu i Pwllheli, ac yn ymofyn am swper yr Arglwydd a chymdeithas eglwysig mewn cynulleidfa ymneillduol, efe a ddangosodd radd o anfoddlonrwydd, gan ddweyd, "na ddylent gasglu yr holl halen i'r un cŵd;" ac a'u cynghorodd i ymsefydlu yn fân-gymdeithasau ar hyd y wlad, ac ar eu penau eu hunain. Felly yn unol â'i gynghor ef y gwnaethant. Nid hawdd, wedi treigliad cymaint o amser, ydyw sicrhau oddiar ba egwyddorion y rhoddai Mr. Harris y fath gynghor iddynt, nac oddiar ba egwyddorion y buont hwythau mor ewyllysgar i ufyddhau; yn unig fe sicrheir fod hyn wedi cymeryd lle yn eithaf heddychol o bob tu; nid oddiar dramgwydd, nac mewn terfysg a nwyd, nac ychwaith oblegid gwahaniaeth barn am athrawiaeth, ond am y syrthient i'r syniad a osodwyd i lawr gan Mr. Harris.

Nid oes amheuaeth nad oedd parch mawr yn mynwesau y dychweledigion ieuainc i Mr. Harris, ar yr hwn yr edrychent fel eu tad a'u harweinydd, a pharod oeddynt i gydffurfio ag unrhyw amneidiad a roddai efe iddynt, ac yn enwedig, pan y byddai lle i obeithio fod yr hyn a argymhellid iddynt yn tueddu i lesâu. Nid oes amheuaeth chwaith mai y cynllun a osodai i lawr i'r brodyr yn Lleyn, oedd y cynllun y gweithredasai eisoes arno yn y Deheubarth; a'i fod ef yn cwbl gredu mai hwn oedd y llwybr goreu i ledaenu a chryfhau y Diwygiad; a diau genym ei fod yn fwy tueddol i edrych ar Fethodistiaeth mewn gwedd wasanaethgar i'r eglwys wladol nag i ymneillduaeth, ac felly, yn wrthwynebol i'r dysgyblion a ennillasid trwy ei weinidogaeth ef a'i frodyr, chwyddo cyfundeb o bobl na fu dim cymdeithas, hyd yn hyn, rhyngddo ef â hwy. Pa fodd bynag, ymadael a wnaethant; a dyma'r pryd cyntaf, yn y sir hon, yr ymgrynhôdd y dychweledigion hyn yn blaid wahanol i'r Annibynwyr, ar y naill law, ac i'r eglwys wladol, ar y llaw arall. Ar yr un pryd, edrychai yr ymneillduwyr arnynt fel brodyr, ond edrychai yr eglwyswyr arnynt fel gelynion. Cyfarfyddent â chydymdeimlad oddiwrth y naill, fel plant yr un tad, er byw dan gronglwyd arall, ond cyfarfyddent â gwrthwynebiad cryf oddiwrth y lleill, fel estroniaid gormeslyd. Ac er hyn oll, dysgid hwy i feddwl yn dynerach am yr eglwys wladol, ar gyfrif eu haniad o honi (fel y dywedid) nag am ymneillduwyr, ac i ystyried eu yn hytrach yn hunain chwanegiad ati nag yn enciliad oddiwrthi. Ac nid oedd rhai o'r tadau cyntaf yn foddlawn i gredu na oddefai y sefydlad gwladol

yr un *chwanegiad* mwy na lleihad, ond ar dir ymneilldusd oddiwrthi, hyd nes y bu *raid* credu.

Nid ydym eto wedi cyfeirio at lafur gweinidogaethol neb o'r brodorion dychweledig; er fod amryw o frodyr wedi cychwyn ar y gwaith o gynghori yn fuan ar ol dyfodiad Harris i'r wlad. Nid oes un sir yn Nghymru y cododd mwy o bregethwyr ynddi, yn nghyfundeb y Methodistiaid, na'r wlad hon, yn ol dim a allwyf fi gasglu, a sicr genyf nad oes yr un yn Ngwynedd wedi cynyrchu cynifer. Mae oddeutu 60 neu ychwaneg wedi meirw, ac y mae eto yn aros fwy na 50. Dechreuodd rhai o honynt yn bur foreu ar y diwygiad; symudodd deg neu ddeuddeg o honynt i lafurio gwledydd eraill; ac yr oedd doniau amryw o honynt yn dra ardderchog. Y mae yn ofid genyf na allwn gael y flwyddyn y dechreuodd pob un o honynt bregethu, ysbaid parhad ei weinidogaeth, a chyfnod ei farwolaeth. Ond am lawer o honynt y mae hyny yn anmhosibl. Nid oes ymron neb yn fyw yn awr yn cofio y cynghorwyr cyntaf, ïe, yn eu dyddiau diweddaf, a llawer llai yn eu cychwyniad allan. Nid oes genym, gan hyny, ond gwneyd y defnydd goreu a allwn o'r hyn a weddillir, fel na syrthio eu henwau i ebargofiant llwyr.

Yn mysg y rhai cyntaf a ddechreuodd gynghori, yr oedd John Jones, Penrhyn; Richard Dafydd, Lleyn; Evan Dafydd, Hafod-y-rhwyg; Hugh Thomas; Hugh Griffith; a Morgan Griffith. Yr oedd y rhai'n oll oddigerth Evan Dafydd, yn Lleyn. Crybwyllasom am enw Richard Dafydd o'r blaen. Daethai i Lasfrynfawr i wrando ar Jenkin Morgan yr ysgolfeistr yn pregethu, â cherig yn ei logellau, gan fwriadu eu taflu ato, ond gwaharddwyd hyn iddo. Anfonodd Duw ei air fel saeth i'w galon, a diflanodd ei fwriad creulawn yn y fan; gollyngodd y cerig i lawr bob yn un, ac ymostyngodd i awdurdod y gwirionedd ar ei feddwl. O hyny allan, cafwyd arwyddion amlwg o dduwioldeb arno, a chafodd ei annog, yn mhen rhyw gymaint o amser, i roddi gair o gynghor i'r bobl; a bu trwy hyny yn fendithiol i lawer.

John Jones, Penrhyn. Crybwyllasom enw y gŵr hwn hefyd eisoes, ac nid oes genym ddim i chwanegu am dano, ond ei fod ar adeg yr ymraniad a fu rhwng Howel Harris a Rowlands, wedi myned dros ryw dymhor i Drefeca, a pharhaodd i fynwesu parch mawr i Mr. Harris dros ystod ei oes. Bu mab iddo o'r un enw, yn pregethu am ysbaid maith, yr hwn oedd adnabyddus iawn yn ngwledydd y Gogledd a'r Deau, dan yr enw John Jones o Leyn.

Evan Dafydd, Hafod-y-rhyg-uchaf. Yn nghymydogaeth y Waunfawr yn Arfon, yr oedd cartref y gŵr hwn. Fe fu y gŵr hwn farw yn y fl. 1750. Ni bu gyrfa y gŵr yma ond ber; ac y mae yn debyg ei bod yn ddigon ystormus; dyoddefai lawer, nid oddiwrth y byd erlidgar, ond yn ei deulu ei hunan, gan fod ei wraig yn dra gelyniaethol i'w grefydd.

Morgan Griffith. Ganwyd y gŵr hwn yn Lleyn; saer ydoedd wrth ei grefft. Yr oedd wedi cael ychydig o ddysgeidiaeth yn ei ieuenctyd, ac wedi ei godi i fod yn athraw ar Ddatganwyr * ei ardal, gan ei fod yn fedrus ar

* Y rhai a arferent ganu gyda'r tânau, neu ganu yn y llanau.

donau a thôn-nodau. Wedi priodi, ymsefydlodd yn y tyddyn a elwir Bwlch-y-rhiw, yn mhlwyf y Rhiw, yn Lleyn; ac ymarferodd a gwneuthur gograu, a thrwy hyny ennillodd iddo yr enw "*Morgan y gogrwr.*" Tra yr oedd yn ymarfer a dysgu yr ieuenctyd i ganu, daeth i'w feddwl, megys yn ddigyfrwng, nad oedd eu canu ddim o'r fath a orchymynid gan Dduw yn ei air, ac o ganlyniad ei fod yn anfoddhaol ganddo. Deuai i'w feddwl eiriau o'r fath hyn, "Gan lefaru wrth eich gilydd mewn salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol; gan ganu a phyncio yn eich calon i'r Arglwydd."

Crybwyllasom o'r blaen fod clochydd Llanor wedi cyfansoddi *interlude*, am yr hon y derbyniodd arian lawer, a dyrchafiad uchel. Yr enw a roddwyd ar y gân isel hòno, oedd, "*Interlude Morgan y Gogrwr*," gan gyfeirio at y cynghorwr y soniwn am dano. Ond er ised yr edrychid ar Morgan Griffith gan y tylwyth hyn, yr oedd gan Dduw feddyliau o hedd am dano, a gwaith i gael ei wneyd trwyddo. Parhaodd yr anesmwythder ar ei feddwl yn nghylch y canu llygredig a ffynai yn eu plith, a dwyshaodd gymaint nes aeth yn ormod gorchwyl iddo allu dyweyd, wrth fyned i ddechreu canu yn y llan, "Canwn fawl a gogoniant i Dduw, &c.," gan yr edliwiai ei gydwybod iddo, mai twyll a rhagrith oedd hyny. Ymroes y gŵr yma, bellach, i ddarllen y Beibl, ac i wrando pregethau, pan yn y cyfleusdra, a daeth i brofi tangnefedd i'w fynwes derfysglyd trwy waed Crist. Bellach ni allai ymattal heb rybuddio ei gyd-ddynion, a'u cynghori i ffoi rhag y llid a fydd.

Rhaid ei fod, mi feddyliwn, wedi dechreu pregethu tua'r fl. 1744. Nid oedd ond tair blynedd wedi myned heibio er pan ddaethai Howel Harris gyntaf i'r wlad, ac ni allai fod yma nemawr gynghorwr yn y wlad ar y pryd y dechreuodd Morgan Griffith. Ac nid hir y bu ef yn cynghori, na chyfododd gwrthwynebiad ffyrnig yn ei erbyn, ac yn erbyn pawb a roddai wyneb iddo. Yn mhen rhyw gymaint ar ol iddo ddechreu, pan oedd yn dychwelyd adref o bregethu, ac yn agos i Sarn-folldeyrn, fe'i daliwyd ef gan ryw ddynyn gwael, y gwanaf bron, meddant, o holl ddynion Lleyn. Yr oedd Morgan Griffith yn ddyn nerthol a gwrol, a hawdd a fuasai iddo ymysgwyd oddiwrth yr hwn a'i daliodd, ond hyn ni fynai, gan y deallai fod ganddo wŷs i'w ddal. Yr oedd, ar y pryd, yn ŵr gweddw, a chanddo ddau o blant, rhy ieuainc i ofalu am danynt eu hunain. Y plant hyn a ddygwyd gan ewythr iddynt, brawd i'w mam, i Bwllheli, mewn cewyll, a'r olwg arnynt yn llwydion a thlodion, gan ddysgwyl, ond eu dangos i'r ynadon, y tosturient wrth yr amddifaid, ac y gollyngent eu tad yn rhydd, er eu mwyn. Eto cymaint oedd eu cynddaredd at yr ymosodiad dyeithr ar grefydd osodedig y wlad, fel nad oedd un tynerwch i gael ei ddangos at y tad, na mymryn o dosturi at y plant. Gofalodd rhagluniaeth Duw am y plant amddifaid, yn ol yr addewid; fel na bu arnynt eisiau dim. Dywedir fod yr ynadon, pan gosodwyd y plant o'u blaen, sef bachgen 8 ml. oed, a geneth 6 ml. oed, wedi gofyn i'r bachgen a fedrai efe darllen? a rhoddwyd llyfr iddo i'w brofi, yntau a'i darllenodd; gwnaed yr un modd â'i chwaer, a hithau a ddarllenodd. Gwelent ysgelerder ychwanegol yn hyn,—yr oedd dysgu ei blant i ddarllen yn drosedd na ellid

ei faddeu,—arwyddai hyn benderfyniad Morgan Griffith i ddwyn ei blant i fyny yn yr un heresi ag ef ei hun; ac i ddwyn ei fab i fyny, ond odid, i ddysgu dynion i gyfeiliorni oddiwrth grefydd eu tadau; a barnent mai gwell oedd llethu y drwg yn ei gychwyniad.

Dygwyd Morgan Griffith ymaith; efe a rhyw nifer o'i gyfeillion a ddaliesid am goledd yr un heresi ag yntau, a chludwyd hwy o Bwllheli, yn gyntaf i Gaernarfon, a thrachefn i Gonwy. Dygwyddodd ei bod yn fath o ddydd gŵyl yn Nghonwy ar y pryd, a chan fod dysgwyliad am ddyfodiad y carcharorion yno, yr oedd lluaws mawr o bobl wedi ymgynull yn nghyd, i'r dyben i gael golwg arnynt. Rhoddwyd hwy i orphwys yn y carchar, a thros ryw enyd hwy fuant yn ymholi yn nghylch gwirionedd eu crefydd, a phurdeb eu dybenion; ond wedi iddynt ddeall fod yno luaws o bobl oddiallan yn awyddus i'w gweled, fe safodd Morgan Griffith i fyny, ac a gyfarchodd y bobl, gan dystio eu bod hwy yno, nid am na lladd, na lladrata, nac am un trosedd arall ar gyfreithiau y wlad, ond am ddarllen yr ysgrythyrau, gweddio, a chynghori eu gilydd yn achos eu heneidiau. Ac wedi tystio eu diniweidrwydd eu hunain, yn y modd yma, cynghorodd Morgan Griffith y bobl, gyda difrifwch mawr, i ystyried eu ffyrdd, ac i droi at yr Arglwydd. "Ac am danom ni," ebe efe, "y mae ein cydwybodau yn dawel; ac yr ydym yn llawen am ein cyfrif yn deilwng i ddyoddef anmharch er mwyn enw Mab Duw." Dywedir mai nid dieffaith a fu y cyfarchiad hwn ar rai o'r gwrandawyr, ond fod ei eiriau fel saethau llymion wedi glynu yn nghalonau dau o ddynion ieuainc, y rhai a fuont ar ol hyn yn amddiffynwyr ac yn ymgeleddwyr i'r efengyl, yn eu hardaloedd, dros amser maith.

Symudwyd y carcharorion o Gonwy, a rhoddwyd hwy, tybygid, ar fwrdd un o longau y llywodraeth, yr hon, ar y pryd, oedd yn un o borthladdoedd Lloegr. Yn mhen amser, cafodd Morgan Griffith, ac un o'i gyd-garcharorion, ysgrif-drwydded *(furlough)* i ddychwelyd adref am ryw dymhor. Yr oedd llawer yn meddwl y cawsent aros gartref hefyd, pe yr ymattaliasent oddiwrth bob ymarferiadau crefyddol, ond a gyflawnid yn y llanau. Ond yr oeddynt hwythau, yn y gwrthwyneb, yn llwyr benderfynol i arddel yr achos y bu gorfod arnynt eisoes ddyoddef o'i blegid; ac ar eu dychweliad, addawodd Morgan Griffith bregethu ar Rhoshirwaun y Sabboth canlynol, yr hyn hefyd a wnaeth, ar ol i'w gyfaill weddio ar ddechreu y cyfarfod.* Mewn canlyniad i hyn, galwyd hwy i ffordd drachefn, cyn i dymhor eu *furlough* ddod i ben. Anfonwyd llythyr o'u blaen fod y ddau ddyn hyn yn para yr un ag oeddynt cyn eu hanfon o'u gwlad y tro cyntaf; eu bod yn peri aflonyddwch a therfysg yn y wlad, ac mai Morgan Griffith oedd ddyfnaf yn y bai.

Ar eu dychweliad ar fwrdd y llong, yr oedd eu huch-raddiaid yn barod i geisio trwy ystryw i roddi gorfod arnynt ollwng eu gafael o'u crefydd; ac i'r dyben hyny, dywedasant wrth Morgan Griffith eu bod wedi cael gorchymyn

* Mae un sydd yn cyfenwi ei hun yn G. Williams, yn dyweyd yn ei ysgrif i "Oleuad Cymru," yn y fl. 1823, ei fod ef ei hun wedi cael hyn gan ŵr oedd yn gwrando y bregeth hon.

gan y llywodraeth yn ei achos, ac yn achwyn arno fel blaenor y terfysgwyr, ac y byddai raid iddo ymddyosg oddiwrth ei arferion a'i syniadau crefyddol, a bod o hyny allan yn eglwyswr dystaw a llonydd, neu ynte y byddai raid ei osod ar y naill ben i'r llong, a'i saethu gan y milwyr. Penodwyd iddo amser i ystyried pa beth a wnai. Ond pan alwyd am ei benderfyniad, efe a ddywedodd, "'Rhaid yw ufyddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion.' Yr wyf yn cyflwyno fy hunan i ofal yr Hwn sydd abl i gadw yr hyn a roddir ato, ac yn penderfynu na chaiff na gwarth na dyoddefaint beri i mi waradwyddo fy Meistr." Ar hyn gosodwyd ef ar ben y llong a saethwyd ato; ond nid oedd dim yn y drulliau ond pylor. Troes yr amgylchiad hwn allan yn hytrach o'i blaid, a dangosid iddo fwy o barch nag a wnaethid cyn hyny; eto nid hir y bu efe byw ar ol hyn, ond clafychodd o glefyd trwm; a bu a farw.

Dychwelodd ei gyfeillion i'w gwlad, pan nad oedd eisiau eu gwasanaeth yn y llynges, y rhai a roisant yr hanes uchod, gan dystio mai diwedd Morgan Griffith oedd tangnefedd.

Hwyrach yr ymddengys yr hanes a roddwyd yma am Morgan Griffith yn anhygoel i lawer un; a thra naturiol ydyw iddo ymddangos felly i bob un nad yw eisoes yn gydnabyddus â hanesiaeth y tymhor hwnw. Parod fydd i ofyn, "Pa fodd y goddefid y fath anghyfiawnder i gael ei wneyd tuag at neb o ddeiliaid coron Lloegr? Pa fodd y gallai ynadon y siroedd draddodi dyn, heb yn waethaf iddo, ac heb brofi un bai yn ei erbyn, i ddwylaw swyddogion y gyfraith, a'i anfon ymaith o'i wlad? Pe gwneid y fath beth yn awr, clywid gwaedd yr holl bobl yn erbyn y fath orthrwm, hyd eithaf terfynau y wladwriaeth." Gwir: pe wneid felly, a disgynai y sarhad yn fuan ar ben y neb a feiddiai ei gyflawni. Ond nid oedd pethau felly y pryd hwnw. Ac nid yn Nghymru yn unig yr ymddygid yn y modd anghyfiawn uchod tuag at y bobl a elwid y Methodistiaid, fel y gwel y darllenydd wrth yr hanes canlynol.

Tua'r un amser ag yr oedd hyn yn dygwydd yn Nghymru, yr oedd y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleyaidd yn ymledaenu yn ddirfawr yn Lloegr, ac yn cyfarfod â phob math o ddirmyg a chreulondeb. Ni a grybwyllwn un amgylchiad yn unig, yr hwn oedd gyffelyb i'r hyn a gyfarfu â Morgan Griffith, ac a brawf nad oes dim yn anhygoel yn yr hanes a roddasom am dano.

Yn mysg Methodistiaid Lloegr yr oedd un John Nelson, yr hwn oedd ŵr diurddau, eto a bregethai'r efengyl gyda diwydrwydd, a grym, a llwyddiant mawr. Ond wrth grybwyll am dano, fe ddywed un ysgrifenydd, "Gan fod y gwarth cysylltedig â Methodistiaeth yn cryfhau, yr oedd yn agored i lawer o warth a dyoddefaint; y clerigwyr oedd ei elynion chwerwaf. Mewn rhai amgylchiadau, fe gymerid y fantais oddiwrth rhagfarn cryf y werin yn erbyn y Methodistiaid, i ddryllio eu drysau, ac ysbeilio eu tai; ac mewn manau eraill darostyngid hwy i greulonderau yn fwy o ran eu personau. Cafodd rhai o'r pregethwyr niweidiau trymion iawn; eraill a ddelid o dan ddwfr nes byddent ymron wedi trengu, ac am y gwragedd a'u dilynai, fe'u trinid gan y bobl

ddidoriad mewn modd mor anwaraidd ac anifeilaidd, fel na ddaethant byth yn llwyr atynt eu hunain. Mewn rhai manau, dwbiasant y pregethwr drosto â phaent; mewn manau eraill lluchiasant y gwrandawyr â phlisg-ŵyau, wedi eu llenwi â gwaed, a'u cyfanu â phŷg."

"Digon gwarthus i'r genedl oedd hyn; ond yr oedd ymddygiad rhai o ynadon y wlad yn llawer mwy felly, am yr ymostyngent, dan ddylanwad nwyd a drwg-deimlad, i gyflawni *gweithredoedd o orthrymder cywilyddus, dan rith cyfraith*. Tybiai ficer y lle yr oedd John Nelson yn byw ynddo, sef Berstal, mai teg oedd cael gwared, trwy ryw foddion, o'r fath ddyn allan o'r plwyf; dyn a bregethai gyda mwy o ddifrifwch a nerth nag ef ei hun; ac efe a gydsyniodd â chynygiad oddiwrth y tafarnwyr, *ar fod i Nelson gael ei ddal, a'i yru yn sawdiwr; arferiad a ffynai yn dost y pryd hwnw;* fel y daeth cipio morwyr i'r un dyben mewn tymhor diweddarach.—Daliwyd ef, gan hyny, a dygwyd ef ger bron yr ynadon yn Halifax, yn mysg y rhai yr oedd y ficer ei hun yn eistedd; ac er i nifer digonol o ddynion fod gerllaw i dystio dros ei gymeriad, dywedai yr ynadon y clywsent ddigon eisoes am dano, oddiwrth weinidog y plwyf, fel na fynent glywed dim yn ychwaneg. 'Felly, foneddigion,' ebe Nelson, 'mi a welaf nad oes i ddyn a elwir yn Fethodist, na chyfraith na chyfiawnder:' a chan gyfarch y ficer wrth ei enw, efe a ddywedai, 'Pa beth a wyddoch chwi am danaf sydd ddrwg? A phwy y gwnaethum gam? Neu i bwy sydd arnaf ddyled na allaf ei thalu?' 'Nid oes genych, yn y golwg, ddim moddion i gael bywiolaeth,' oedd yr ateb. I hyn yr atebodd, 'Yr wyf mor abl i gael fy mara trwy lafur fy nwylaw ag un dyn o fy nghrefft yn Lloegr, a hyny a wyddoch chwi.' Ond ofer oedd pob ymliw; ymaith y bu raid iddo fyned, ac yn Bradford, rhoddwyd ef mewn carchardy, trwy orchymyn yr ynadon, yn yr hwn, nid oedd cymaint a chareg i eistedd arni."

"Yr oedd rhyw druan arall gydag ef yn y sefyllfa annedwydd hon, yr hwn a allasai newynu i farwolaeth am ddim a ofalai yr ynadon, oni bai dwyn bwyd iddo gan gyfeillion John Nelson. Dangoswyd i Nelson lawer o garedigrwydd gan y rhai a'i hadwaenai, a chalonogid ef i barhau yn ffyddlawn gan ei wraig ei hun, yr hon a ddywedai wrtho, am beidio a rhagofalu am dani hi a'r plant, gan y gwyddai yr edrychid ar eu hol gan yr Hwn a borthai gywion y gigfran pan y bo eisiau arnynt.

"O Bradford cymerwyd ef i Leeds, a thrwy goelbren, rhoddwyd ef i ryw un o'r cadpeniaid; ond ni fynai Nelson fod yn filwr. Yr oedd lladd dynion yn wrthwyneb i'w gydwybod, ac ni chymerai arian y brenin: am hyny anfonwyd ef, a'i ddwylaw yn rhwym, i'r carchar yn ei ol. Cynaliwyd prawf-holiad milwraidd arno, a chynygiwyd arian iddo drachefn, ond ni fynai eu derbyn. Anfonwyd ef i'r llety milwraidd, gyda dillad milwr i'w rhoddi am dano; yntau a ymostyngai i'w gwisgo, ond yn ardystio na halogai mo'i gydwybod trwy eu defnyddio er dim. Bu farw ei gyfaill gan y driniaeth a gafodd, ond er maint y creulonder a gyfarfu Nelson ag ef, rhoddwyd iddo allu i ddal y cwbl heb gael llawer o niwaid i'w iechyd, na pheri llwfrhad i'w ysbryd. Yn mhen

amser, clywodd Iarlles Huntingdon am ei garchariad, a chafodd ymddyddan â Duc Marlborough, yr hwn oedd yn swyddog uchel yn y fyddin, ac wedi adrodd iddo yn deg yr amgylchiadau, hi a gafodd addewid y gollyngid ef yn rhydd; yr hyn hefyd a wnaed ar yr 28ain o Orphenhaf, yn y fl. 1742.

Gwelir wrth y dyfyniad uchod mai yr un gyffelyb driniaeth a dderbyniai Methodistiaid Lloegr a'r eiddo Cymru, ac mai oddiwrth yr un pleidiau y deillient, a'r rhai ffyrnicaf o honynt oedd athrawon cyflogedig yr eglwys wladol. Ond yn yr enghraifft uchod, nid oedd John Nelson prin mor ymostyngol ac ystwyth ag oedd Morgan Griffith. Yr oedd yn feddiannol ar helaethach gwybodaeth am y byd a'i arferion, ac ar ysbryd mwy gwrol i wrthsefyll ei ymosodiadau. Digon, pa fodd bynag, ydyw yr enghraifft uchod i ddangos nad oes dim yn hanes Morgan Griffith na allai fod yn wir, gan mai y fath a ddarluniwyd ydoedd ansawdd yr amseroedd hyny.

Hugh Thomas. Yr oedd y gŵr hwn, yn gystal a Hugh Griffith o Aberdaron, yr hwn a ffôdd i wlad Môn, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn arfer cynghori ei gymydogion; ac yn agored i'r un erlidigaeth a Morgan Griffith; ond fe gafodd Hugh Thomas egwyl i ddianc o Leyn i ardaloedd Caernarfon a Llanberis; a thrwy hyny ysgoi y ddrychin a ddisgynodd ar goryn Morgan Griffith. Ymddengys, pa fodd bynag, y bu ei ffoedigaeth yn ofid iddo, i raddau mwy neu lai, dros ei oes, am na safasai ei dir yn wrol fel y gwnaethai Morgan Griffith, a dyoddef y canlyniad, bydded y peth a fyddai. Meddai ef ei hun wrth yr un gŵr ag a ysgrifenodd y byr-hanes uchod am Morgan Griffith;—

"Fe wynebodd Morgan Griffith y brofedigaeth yn achos ei Arglwydd yn wrol; y mae yn friw i'm calon i, hyd heddyw, am i mi ogwyddo neu ysgoi oddiar ei ffordd, yn rhy debyg i'r hyn a wnaethai Jonah gynt. Pan roddwyd y gwŷsion allan i ddal y crefyddwyr, mi a aethum at gyfaill i mi, yr hwn a ddywedai wrthyf, os gallwn ond ffoi i'r Cwm-glas, amaethdy yn Llanberis,* ei fod yn credu y byddwn ddiogel. 'Mi fum i yno,' ebe y cyfaill, 'yn lladd gwair y ddau haf diweddaf; yr haf cyntaf, pan ofynais i'r teulu a ganiataent i mi ddarllen pennod a gweddio yn y teulu, ni chawn ganddynt un ateb, gan fath o gywilydd, am na welsent hwy erioed y fath beth; ond mi a anturiais wneyd, a gwelais yn fuan effeithiau da yn canlyn. Anfonwyd am danaf yno yr haf diweddaf, ac ar ol swper bob nos estynid y Beibl i mi, gyda phob parodrwydd; ac y mae arwyddion duwioldeb ar y teulu. Ffô yno; a dywed mai myfi a'th gyfarwyddodd atynt.' Felly, mi a gymerais gynghor fy nghyfaill, ac mi a aethum i'r Cwm-glas.

Wedi i mi gyrhaedd i'r lle, a dywedyd y gwir am fy helynt, dangosasant bob parodrwydd i fy niogelu, eto hawdd oedd canfod arwyddion o ofn, rhag eu dyfod i ryw benbleth o'm hachos. Yn y cyfwng hwn, penderfynwyd cyweirio gwely i mi mewn ogof yn y Wyddfa, ac i mi aros yno ddydd a nos, ac i'r bugail defaid ddwyn bwyd i mi gydag ef, pan ddeuai i fyny at y defaid

* Yr oedd tua 30 milldir rhwng Aberdaron a'r Cwmglas.

bob dydd. Bum yn yr ogof wythnosau; yn mhen rhyw amser, cefais ganiatâd i ddyfod i'r tŷ i gysgu y nos, a ffoi i'r ogof ar doriad y dydd, i lechu hyd yr hwyr; ac o'r diwedd, gan gredu fod yr ymofyniad am danaf yn marweiddio, cefais ganiatâd i aros yn y tŷ y dydd hefyd.

"Yr oedd fy ngwraig yr holl amser hwn yn anadnabyddus o fy helynt, a minau yr un modd o'r eiddo hithau, a chan fod hiraeth am ei gweled, bellach, ymron a fy llethu, mi a benderfynais fyned adref. Cychwynais o'r Cwm-glas ychydig cyn y nos, fel y gallwn gyrhaeddyd fy nghartref yn blygeiniol, a thra y gorchuddiai y tywyllwch y ddaear; oblegid yr oedd arnaf fwy o ofn fel yr oeddwn yn nesâu i fy mro fy hun, i neb fy ngweled, ac achwyn arnaf. Felly a fu: mi a gyrhaeddais adref cyn dydd, a llechais yn fy ngwely dranoeth. Pan ddaeth y nos drachefn, gan yr ofnwn aros yn hwy yn fy nhŷ fy hun, rhag i'r sî am danaf fyned allan, myfi a chyfaill i mi a wnaethom fwthyn, sef twll mewn clawdd pridd eithinog, yn agos i'm tŷ. Yr oedd yr eithin yn cuddio genau neu ddrws y twll, fel na ellid yn hawdd ei ganfod, tra y gellid goblygu yr eithin yn hawdd i roddi mynedfa i mewn ac allan.

"Gan nad oedd gan fy ngwraig fodd i fy nghadw yn yr ymguddfa yma yn segur, ymosodais at wau rhwydau bychain at achosion teuluaidd, a'r wraig a'u cymerai o amgylch i'w gwerthu, neu i'w newid am fwyd. Mi a fum yn llechu yn y clawdd hwn dalm o amser. Ar ol rhyw dymhor, anturiais fyned i'm tŷ i gysgu y nos, a chilio i'r ymguddfa yn ystod y dydd; ond o'r diwedd daeth son i'r wlad fod y rhai a ddaliesid gyda Morgan Griffith i gael dychwelyd; ac felly yn raddol y bu, a minau a gefais fy rhyddid."

Mae yr hanes uchod ar lawer cyfrif yn ymddangos yn anhygoel. Anhawdd genym ni, y rhai ydym wedi ymgynefino â rhyddid crefyddol dros ein hoes, ac wedi gweled Methodistiaeth yn ddyrchafedig yn y wlad, gredu y gallai neb ymddwyn mor greulawn tuag at eu cyd-ddynion. Clywsom, mae'n wir, am greulonderau pabyddion, ac nid gormod a fuasai coelio y fath erchyllbethau am danynt hwy; ond fod Protestaniaid yn gwneyd hyn,—fod gwŷr yn proffesu sêl dros Eglwys Lloegr, yn gallu gwneyd hyn, sydd yn ymddangos ymron yn anghredadwy. Ond am yr amgylchiadau a goffawyd uchod, nid oes genym un lle i'w hamheu, er mor erchyll. Ysgrifenir yr hanes gan y gŵr a adwaenai Hugh Thomas, a chafodd yr hysbysiad o'i enau ef ei hun.* Mae Robert Jones hefyd ar fyr eiriau yn cyfeirio at yr un amgylchiadau,† yr hwn yn ddiau oedd adnabyddus o Hugh Thomas. A phan y cofiwn y fath dywyllwch o anwybodaeth oedd y pryd hwnw yn gordoi yr holl wlad, a pha mor gryf oedd rhagfarn pob graddau yn erbyn y Methodistiaid, y rhai a gyhuddid gan rai, ac a gredid gan lawer, o fod yn euog o ddrygau anfad, yn enwedig o geisio dadymchwel llywodraeth a chrefydd y wlad, nid oes dim achos edrych ar yr hanes uchod, fel pe byddai gwedd anghredadwy arni.

Fe fu Hugh Thomas byw i fyned yn hen iawn. Nid oes genym nemawr o

* Gwel *Goleuad Cymru* am Awst, 1823. † Gwel *Drych yr Amseroedd*, tudal. 110.

son am ei *dalentau* fel pregethwr, ond ymddengys ei fod yn adnabyddus fel dyn tyner iawn ei gydwybod, ac yn rhagori mewn duwioldeb. Crybwyllir un amgylchiad am dano, yr hyn a ddengys y parch mawr oedd ganddo i enw Duw a'i addoliad. Dygwyddodd unwaith fod ei gyhoeddiad ef a'r eiddo Hugh Griffith, y naill o Leyn a'r llall o Fôn, tybygid, i fod i bregethu yn Llwyn-celyn, Llanberis, ar yr un dydd ac awr. Damweiniodd fod Hugh Griffith wedi cyrhaedd y lle o flaen ei gyfaill, a dechreuodd yr oedfa ryw gymaint cyn i Hugh Thomas ddod i'r fan. Ond ar waith yr olaf yn dynesu at y tŷ, efe a glywai sain cân ; yn y fan, ymdeimlai fel gŵr yn ngŵydd Duw, tynai ei het oddiam ei ben, a cherddai yn araf, ac yn ben-noeth tua'r lle, yr hyn oedd encyd o ffordd oddiwrth y tŷ. Gwyddai yn dda nad oedd yn y lle ddim ond tŷ cyffredin, a chynulleidfa fechan o bobl dlodion, eto fe ystyriai fod yno enw Duw a'i addoliad, a theimlai yn rhwym i ddangos pob parch iddo. Gresyn na byddai gradd mwy o'r gwylder hwn yn aros hyd heddyw, ac yn meddiannu pob gradd o ddynion wrth ddyfod i dŷ Dduw.

Tua diwedd ei oes, yr oedd ei lygaid wedi pallu, fel na allai ddarllen, eto ni roddai heibio gynghori ei gyd-ddynion, eithr efe a archai i arall ddarllen pennod, ac o'r bennod a ddarllenid y cymerai achlysur i draethu ei neges dros Dduw wrth y bobl. Dywedir hefyd ei fod ef yn hynod mewn gweddi.

CHARLES MARC. Yr oedd y gŵr hwn yn un o hen bregethwyr Lleyn, er na allwn sicrhau yr amser y dechreuodd bregethu gyda dim manyldra, nac ychwaith yr amser y bu ef farw.

Cyfrifid y gŵr hwn yn helaethach ei ddoniau na'i gyd-lafurwyr, a gelwid ef yn *bregethwr*, pryd yr ystyrid y lleill yn *gynghorwyr*. "Dihunwyd ef," meddai Robert Jones, "yn moreu ei ddyddiau; yr oedd yn ŵr o synwyrau cryfion, ac yn gadarn yn y wir athrawiaeth, a chanddo ddoniau eglur i draddodi ei genadwri; yr oedd yn barchus yn ei ardal, yn dderbyniol gan yr eglwysi, a'i rodiad yn addas i'r efengyl, ac yn ddeffrous, yn enwedig yn ei ddyddiau olaf." Collodd y gŵr hwn hefyd ei olwg yn mhell cyn marw, eto parhäi i bregethu felly; ac ymddangosai yn y pulpud, a'r Beibl yn agored o'i flaen, mor siriol a phe buasai yn gweled. Bu yn orweddiog am gryn dymhor cyn iddo farw, ond iradd a nefolaidd oedd ei ysbryd. Yn y sefyllfa gystuddiol yma oedd arno, cyfansoddodd amryw o hymnau, ac yn mysg eraill enwir yr un canlynol fel ffrwyth ei fyfyrdodau.

Teg wawriodd arnom ddydd,
A welwyd gynt trwy ffydd,
Gan rai sy'n awr o'r cystudd mawr yn rhydd :
Ac os oedd dyled arnynt hwy
Foliannu'r Oen, a'i farwol glwy',
Mae'n dyled ni genedloedd, fil miloedd foli mwy.

JOHN GRIFFITH ELLIS. Yr oedd y gŵr hwn yn mysg y tô cyntaf o bregethwyr sir Gaernarfon, ac yn seren o'r fath ddysgleiriaf yn eu plith. "Gellir dywedyd," meddai Robert Jones, "na chynysgaeddwyd neb yn Ngwynedd, yn moreu y diwygiad, â'r fath gyflawnder o ddoniau goleu,

iraidd, a gwlithog, ag efe; yr oedd Gogledd a Dê yn sychedu am ei weinidogaeth;—a pha ryfedd?—canys byddai effeithiau grymus a thoddedig yn dilyn ei genadwri." Sonir hyd heddyw am bregeth o'r eiddo yn nghymdeithasfa y Bala, ar y geiriau yn Zech. 13. 7, "Deffro gleddyf yn erbyn fy mugail, &c.,"—fod rhyw arllwysiad anarferol wedi disgyn ar y gynulleidfa, fel pe torasai cwmwl arnynt; a'i fod yntau ei hun, gan rym yr ysbrydoliad, wedi llesmeirio. Dylynid ei weinidogaeth yn achlysurol â'r fath rymusder, fel pe gollyngasid argaeau mawrion, ac yr ysgubid pob peth o flaen y cenllif rhyferthol. Ond y mae yn resyni ychwanegu ddarfod ei gloffi ef yn ei yrfa gyflym. Daeth cwmwl tywyll dros y goleuad dysglaer. Syrthiodd y Samson hwn i ddwylaw ei elynion, collodd ei wallt, difuddiwyd ef o'i nerth, a bylchwyd ei weinidogaeth dros flynyddau. Y ddiod feddwol a'i maglodd, ac a'i dyrysodd. Pwy na theimlai wŷn o ymddial arni am hyn! "Llawer a gwympodd hi yn archolledig; ïe, gwŷr grymus lawer a laddodd hi." Gallwn ddywedyd am dani fel y dywedodd y Philistiaid am Samson, "yr hwn oedd yn anrheithio ein gwlad ni, ac a laddodd lawer o honom ni." Eithr fe adferwyd John Griffith Ellis dalm o amser cyn ei farwolaeth, ond er iddo gael ei adferu o ran ei ysbryd, ac i'w le a'i swydd, ni fu cyffelyb arddeliad arno byth ar ol hyny.

Heblaw y rhai a enwyd, fe gyfododd yn Lleyn, yn gynar ar y diwygiad, fintai gref o gynghorwyr, megys:—Evan Roberts; Robert Williams, Drewen; Griffith Prichard a'i frawd; Charles Prichard; John Hughes; Robert Owen, Tŷ-gwyn; Richard Jones, Llanengan; Richard Dafydd; Edward Roberts; Daniel Roberts; John Jones, ieu., Penrhyn; William Daniel; Robert Owen, Bryn-gadfan; Robert Owen, Derwen-uchaf. Yn Arfon ac Eifionydd hefyd yr oedd rhai cynghorwyr wedi codi yn yr amser boreu hwn, megys:—Robert Ellis, Cwm-glas, Llanberis; Richard Hughes, Brynengan; Thomas Griffith, Waunfawr; William Dafydd, Llanllyfni; Thomas Evans, Waunfawr. Fe fu farw pedwar o bregethwyr y wlad hon, heb i Robert Jones, Rhoslan, eu gweled na'u clywed, sef,—

Robert Ellis o'r Cwm-glas. Fe ddichon mai ymddyddanion y pladurwr o Leyn, y soniasom am dano, neu yr eiddo Hugh Thomas, pan y bu yn y fro yn ymguddio, a fu yn fendithiol i hwn. Nid oes nemawr ddim o'i hanes ar gael.

Evan Dafydd. Ni adnabu Robert Jones erioed mo hwn chwaith; ond fe ddeallai ei fod yn ŵr amlwg iawn mewn crefydd. Wedi cael ei ddeffroi am ei gyflwr ei hun, pan y ca'i ychydig o'i gymydogion yn nghyd, fe ddarllenai y Beibl, a llyfrau da eraill iddynt, gan eu cynghori yn ddwys a difrifol i ffoi rhag y llid a fydd. Llawer taith a gymerth o fro Caernarfon i Leyn i wrando pregeth neu ddwy.

Morgan Griffith oedd y trydydd, am yr hwn y soniasom eisoes, ac Evan Robert oedd y pedwerydd. Gwnaeth yr olaf hwn a allodd o blaid teyrnas y Cyfryngwr. Nid hir y bu ar y maes, eithr galwyd ef yn gynar i'w orphwysfa.

Gan fod yr hybarch Robert Jones yn adnabod y rhai a ganlyn, ac wedi rhoddi arddrych byr o'u nodweddau, a chan nad oes ar gael ond ychydig o'u hanes, heblaw a draddodir i ni ganddo ef, nid wyf yn gwybod y gallaf wneyd yn gyfiawnach â'r darllenydd, na rhoddi y darluniad o honynt a geir yn "Nrych yr Amseroedd," a hyny, oddieithr ychydig eithriaid neu chwanegiadau, yn ei eiriau cymhwys ef ei hun.

*Robert Williams o'r Drewen.*—Nid oedd y gŵr hwn ond gwaelaidd o ran ei iechyd; eto ni fu na segur na diffrwyth i alw pechaduriaid at Grist. Yr oedd ei agwedd sobr, ei symlrwydd, a'i larieidd-dra, yn brawf amlwg o'i dduwioldeb.

*Griffith Pritchard, a Charles Pritchard ei frawd.*—Nid oedd doniau na gwybodaeth y brodyr hyn mor ardderchog a rhai o'u cydlafurwyr, eto hwy a wnaed yn fendith i lawer, a chynorthwywyd hwy i ddefnyddio eu talentau bychain yn ddiwyd ac yn ffyddlon hyd ddiwedd eu hoes.

*John Hughes.*—Gŵr isel yn y byd oedd hwn, ond o gymeriad diachwyn arno; ac os na chafodd ond megys un dalent, ni chuddiodd hòno yn y ddaear, ond defnyddiodd hi yn ffyddlawn dros ei Arglwydd.

*Robert Owen, o'r Tŷ-gwyn*, oedd gynorthwyol i achos yr Arglwydd, yn ol y doniau bychain a dderbyniodd, tra y bu byw.

*Richard Jones, Llanengan.*—Ni wnaeth ond ymddangos dros enyd fechan, a machludo yn angau.

*Richard Dafydd.*—Dywedir mai lled anfedrus oedd y gŵr hwn o ran doniau i draethu ei feddwl, eto y byddai ar amserau yn cael ei godi yn mhell uwchlaw iddo ei hun, ac yn cael ei wisgo ag arddeliad anghyffredin, tuhwnt i bob dysgwyliad, ac i'w weinidogaeth fod yn fendithiol i lawer.

*William Daniel*, o gymydogaeth Saethon-bach, yn Lleyn, lle y mae capel y Nant yn bresenol. Nid oedd y gwr hwn mor enwog am ei ddoniau ag oedd am ei ffyddlondeb a'i symledd. Ni chlybuwyd iddo dori un cyhoeddiad erioed, ond fe gadwai y cylch yr oedd yn troi ynddo yn ddifwlch. Arferai bregethu â'i lygaid yn nghauad; ac ni allodd orchfygu yr arfer hon hyd ei ddiwedd.

*Edward Roberts*, gerllaw Pwllheli.—Yr oedd cymeriad y gŵr hwn yn uchel fel Cristion diargyhoedd, ond nid oedd ei ddoniau yntau ond byrion, ond efe a fu ffyddlawn dros ei Feistr i wneuthur yr hyn a allai.

*Daniel Roberts.*—Galwai rhai y gŵr hwn, Daniel Roberts y gôf, o Leyn. Yr oedd y bachgen hwn, meddant, wedi derbyn doniau ystwyth, iraidd, ac o dymher hynod o ennillgar. Aeth i America, ac yno y bu efe farw.

*Robert Owen*, Bryn-y-gadfan, oedd yn rhagori ar lawer o broffeswyr crefydd, mewn symlrwydd duwiol; a'i ymddyddanion yn gyffredin a fyddent am bethau buddiol. Gŵyrodd yntau i gryn raddau at deulu Mr. Harris, ond adferwyd ef o'r amryfusedd hwn yn llwyr, amser maith cyn iddo farw. Lled gymysglyd oedd ei olygiadau ar rai o destynau y Beibl, ond nid mewn dim hanfodol i wir grefydd.

*Richard Hughes*, o Fryn-engan. Ymddengys fod y gŵr hwn wedi teithio

mwy, trwy Ogledd a Deheudir Cymru, na llawer o'i gyd-gynghorwyr. Yr oedd ganddo galondid a gwroldeb helaeth, er nad oedd ei ddoniau gymaint felly, a pharhaodd i lafurio yn egniol a diflino hyd nes y goddiweddwyd ef gan angau. Anrhydeddid ef weithiau ag oedfaon anarferol eu grymusder a'u heffeithiau. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau.

Yr oedd y cynghorwyr uchod gan mwyaf oll yn cyfaneddu Lleyn, a bernid yn well rhoddi y bras-ddarluniad o honynt oll gyda'u gilydd yn y modd uchod. Fe ddaw hanes rhai eraill yn Arfon dan sylw pan y crybwyllir am yr ardaloedd y cyfaneddent ynddynt.

Ni a grybwyllasom o'r blaen fod Methodistiaeth wedi cychwyn ei yrfa yn y wlad hon ar ddyfodiad Howel Harris gyntaf iddi, neu yn hytrach ar ddyfodiad Jenkin Morgan iddi, tur'r fl. 1741. Y manau y pregethodd Mr. Harris ynddynt y tro hwn oedd yn Nglasfryn-fawr, lle yr oedd William Pritchard yn byw y pryd hwnw. Yr ail lle y pregethodd ynddo oedd Ty'n Llanfihangel, gerllaw Rhyd-y-clafdy. Y trydydd lle oedd Rhydolion, yn agos i Lanengan, ac yn Mhorth-yn-lleyn, yn agos i Edeyrn. Nid oes son am nemawr o effeithiau wedi dylyn ei bregeth yn Rhydolion; yn hytrach, dywedir mai oedfa lled gymylog ydoedd, heb nemawr o arddeliad arni, o leiaf mewn cydmhariaeth i'r rhai blaenorol; ac nid oes son am effeithiau yr oedfa olaf a gadwodd. Yn fuan gyda hyn y cododd amrywiol gynghorwyr yn y wlad, i gynorthwyo Jenkin Morgan yr ysgolfeistr, megys Morgan Griffith, Hugh Thomas, John Griffith Ellis, ac eraill, y rhai y crybwyllasom eu henwau eisoes. Yr oedd y pregethu yn y tymhor boreu hwn yn ansefydlog iawn o ran y lleoedd, ac yn anwastad iawn o ran amserau. Nid oedd eto yr un capel wedi ei godi, ond fe bregethid gan amlaf mewn tai, ac allan yn y prif-ffyrdd a'r caeau. Ac er ei bod yn awr yn anhawdd olrhain mynediad yr achos yn mlaen gyda dim manyldra, yr oedd y cynghorwyr bychain yn gwneyd a allent i wasgar arogledd y wybodaeth am Dduw ar hyd cymydogaethau Lleyn ac Eifionydd, ac ambell un yn anturio yn achlysurol i Arfon. Yr oedd goleuni ysgrythyrol yn y modd yma yn cael ei wasgar. Yr oedd cyffro yn cael ei godi yn mysg y werin ddiofal yn nghylch eu hachos tragwyddol; ac i'r graddau yr oedd llafur y dynion dirwysg hyn yn llwyddo i hyny, i'r un graddau yr oedd cyffro gwrthwynebol yn codi yn mhlith yr offeiriaid a'r boneddwyr. Nid oedd un gynulleidfa sefydlog o ymneillduwyr i'w chael eto yn un man ond yr un ag oedd yn Mhwllheli, dan fugeiliaeth gŵr duwiol o'r enw John Thomas. Ag ef, gan hyny, yr ymunai llawer o grefyddwyr ieuainc yr ardaloedd, yr hyn a dynodd gawod o erlidigaeth ffyrnig ar y gynulleidfa hòno. Teflid cerig trwy ffenestri y capel mewn modd ag a beryglai fywyd y bobl oddifewn. A chan yr ofnai yr erlidwyr ruthro ar y gynulleidfa, pan yn yr addoldy, am ei fod wedi ei drwyddedu yn ol y gyfraith, dysgwylient am y trueiniaid i ddyfod allan, gan gynllwyn am danynt ar eu ffordd adref, a'u llùchio a'u baeddu mewn modd arswydus a didrugaredd iawn.

Ond er i amryw o'r crefyddwyr ieuainc hyn, y rhai a ddeffrowyd trwy

weinidogaeth Howel Harris, a'r hen gynghorwyr Methodistaidd, ymuno dros amser, ac o herwydd cyfleusdra, â'r eglwys Annibynol yn Mhwllheli; eto ni fu hyny yn barhaus. Bu farw y gweinidog duwiol ag oedd yno ar y pryd, a dylynwyd ef gan un Mr. Richard Thomas, tua'r fl. 1743, gŵr o ryw barth o'r Deheudir. Dywedir nad oedd y gŵr hwn mor enwog am ei dduwioldeb a'i ragflaenydd, er ei fod yn llawn mwy ei ddawn; achwynir hefyd arno nad oedd ei olygiadau ar athrawiaeth yr efengyl mor glir ac iachus ag y buasai da; a bod ysbryd y byd wedi ei lyncu yn ormodol i'w fasnach a'i ofalon. Nid yw yn annhebygol bod yr ystyriaeth o hyn yma wedi parotoi meddyliau y dychweledigion Methodistaidd i ymadael; gan ymsefydlu yn fân-gymdeithasau ar hyd y wlad, yn ol y cynghor a roddid iddynt gan Howel Harris.

## PENNOD II.

### PARHAD HANESIAETH CYNTEFIG Y SIR.

CYNWYSIAD:—

PRIF BREGETHWYR Y METHODISTIAID YN NGWYNEDD YN Y TYMHOR BOREU HWN—DYFODIAD DANIEL ROWLANDS I'R WLAD YN Y FL. 1747—CAPEL TY-MAWR, BRYNCROES—CHARLES MARC—PREGETHU YN ARDAL PORT-YN-LLEYN AC EDEYRN—CAPELAU UWCH-Y-MYNYDD A CHLYNOG—LLANBERIS—CYHOEDDIAD DAFYDD MORRIS YN Y FL. 1771.

O'R amser hwn, pryd y gallwn edrych ar Fethodistiaeth, nid wedi dechreu, ond wedi ymgorffori gradd, hyd ddyddiau Robert Jones, Rhoslan, yr oedd tuag ugain mlynedd. Y llafurwyr ar y maes yn ystod y tymhor hwn, oeddynt y rhai a nodwyd eisoes, neu y rhai henaf o honynt. Yn mysg y rhai blaenaf, fel y dywedwyd, o ran dawn a gweinidogaeth, oedd Charles Marc, a John Griffith Ellis. Yr oedd amryw wŷr o'r Deheudir, ac ambell un o'r Gogledd, yn cymysgu eu llafur ar hyd y wlad gyda'r brodyr cartrefol hyn. Dysgwyliwn fod David Williams a John Belcher yn ymweled yn achlysurol â'r sir; yr un modd y gwnai John Harris, sir Benfro; William Jones, Llancothi; a William Richard Llwyd, Llangeitho. Yr oedd Richard Tibbot a Lewis Evan, sir Drefaldwyn, hefyd yn mysg y cynorthwywyr. Yr oedd Dafydd Jones, Adwy'r-clawdd, y pryd hwn ar y maes, ac yn arfer teithio y gwledydd. Yr oedd y pregethwyr a nodwyd yn cael eu hystyried yn fwy eu doniau na llawer o'u brodyr, ac yn arfer teithio allan o'u gwlad eu hunain. Heblaw y pregwyr diurddau hyn, ymwelai offeiriaid y Deheudir â'r wlad hon, y naill neu y llall yn fynych, sef y Peirch. D. Rowlands, William Williams, Peter Williams, ac yn achlysurol Howel Davies, sir Benfro. Fe fyddai effeithiau mawrion yn fynych yn canlyn eu gweinidogaeth, nes adfywio y mân-eglwysi gorthrymedig, a'u lluosogi yn ddirfawr; am hyny, edrychid am eu dyfodiad i'r wlad gyda sirioldeb ac awyddfryd mawr, fel offerynau a fendithid yn neillduol gan Arglwydd y cynhauaf.

Yn y fl. 1747, meddir, yr anturiodd Daniel Rowlands gyntaf i sir Gaernarfon. Yr oedd wedi bod yn pregethu yn rymus er ys agos i ddeuddeng

mlynedd cyn hyn, ac wedi ei fendithio i raddau anghyffredin. Yr oedd yr erlid yn drwm yn y wlad. Pan ddaeth Rowlands i Benmorfa, y lle cyntaf yn y sir y gwnaed sylw o hono, gan yr erlidwyr, bygythiwyd ef yn chwerw, gan sicrhau iddo, os yn mlaen y mynai fyned, y byddai ei esgyrn yn ddigon mân i'w rhoddi mewn cŵd cyn y dychwelai. Eto yn mlaen yr aeth i Leyn; lle y cyfarfu ag ychydig gyfeillion siriol a charedig. Gan ei fod yn offeriad urddedig, ac yn gwasanaethu, hyd yn hyn, o fewn yr eglwys sefydledig, tybiwyd mai nid anfoddhaol fyddai gan y clerigwyr ganiatâu iddo bregethu yn y llanau. Felly ceisiwyd iddo gael pregethu yn Llan Folldeyrn, ond ni lwyddwyd. Safodd yntau, gan hyny, ar gareg farch, wrth borth y fynwent, a phregethodd i dorf luosog o bobl, ar Jer. xxx. 21, "Canys pwy yw hwn a lwyr roddodd ei galon i nesâu ataf fi?" Oddiwrth y gair fe draethodd am *lwyr ymroddiad* Crist i waith y prynedigaeth, gyda nerth a goleuni anarferol, nes i lawer yn y gynulleidfa dori allan mewn wylo a moliannu i'r fath raddau na allai fyned rhagddo. Bu côf am yr oedfa hon gan lawer dros eu holl ddyddiau.

Yn y tymhor hwn, sef 1744-52, y dychwelwyd Siân Lewis o Fadryn, a Miss Guines, fel y soniwyd* o'r blaen yn y gwaith hwn, trwy weinidogaeth un o offeiriaid y Deheubarth. Y Miss Guines hon a roes le i adeiladu capel Tŷ-mawr, Bryn-croes, yn y fl. 1752. Yr ymddiriedolwyr i'r capel hwn oeddynt y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho; John Belcher, Eglwys-llan, sir Forganwg; David Williams, Llys-y-fronydd; Charles Marc, Bryn-croes, sir Gaernarfon; Evan Roberts, Llangwnadl; John Griffith, Tydweiliog. Ymddengys fod yr addoldy hwn wedi ei godi yn y fan y gwnaed ar y pryd, oblegyd mai yno yr oedd y tir i'w gael, ac nid oblegid fod cynulleidfa yn arfer ymgynull yn y lle; gan y dywedir, y byddid yn pregethu mewn gwahanol dai anedd, lle bynag y rhoddid derbyniad. Cynalient eu cyfarfodydd eglwysig mewn tŷ yn Rhos-hirwaun, yn agos i Dref-graig, a hyny yn ddirgel yn y nos, rhag ofn yr erlidwyr. Yr oedd Charles Marc yn byw yn y gymydogaeth hon, ac yn arfer pregethu draw ac yma ar hyd y fro. Ei gydlafurwyr oeddynt Hugh Thomas, Aberdaron; John Griffith Ellis, a John Jones, Llaniestyn. Bu gorfod i Charles Marc ffoi, meddir, noson ei briodas, gan iddo ddeall fod haid o erlidwyr wedi penderfynu dyfod yn ddisymwyth, ac ymosod ar y tŷ; ond trwy iddo gael hysbysiad prydlawn o'u bwriad, diangodd ef, a siomwyd hwythau. Nid oedd nifer yr eglwys a ymgasglai i'r Tŷ-mawr ond bychan, a'r nifer hyny yn wasgaredig iawn ar hyd Aberdaron, Llaniestyn, Bottwynog, a manau eraill.

Yr oedd cymdeithas eglwysig yn dechreu ymgrynhoi y pryd hwn yn Rhyd-y-clafdy. Dywedir fod y gymdeithas eglwysig yn bod yma cyn adeiladu y capel; a bod y capel wedi cael ei adeiladu bellach er ys can' mlynedd, ac mai yn hen dŷ Tŷ-hwnt-i'r-afon y cedwid y cyfarfod eglwysig cyn adeiladu y capel.

Yr oedd pregethu boreu yn ardaloedd Tydweiliog, Lonfudr, Edeyrn, a

* Tudal. 319, Cyf. I.

Nefyn. Fe ddaeth Howel Harris i'r wlad yn 1741, ac fe ddywedir ei fod wedi ymweled â Phort-yn-Lleyn y pryd hwnw. Yr oedd gwraig o'r enw Mrs. Wynne yn byw y pryd hwnw yn amaethdy Port-yn-Lleyn. Yr oedd hon yn perthyn i deulu Wynne, Cefn-amwlch, gŵr boneddig yn y gymydogaeth; a chan y wraig hon y derbyniwyd Howel Harris i dŷ. Ennillwyd gwraig Mr. Wynne, Cefn-amwlch, at y Methodistiaid; ac er maint y gwaradwydd cysylltedig â'r amgylchiad, yr oedd Mr. Wynne yn ddigon goddefol i hyny. Ond yn mhen rhyw amser, ac ar ol enciliad Howel Harris oddiwrth y Methodistiaid, a'i ymneillduad i Drefecca, cafodd gwraig Mr. Wynne ar ei meddwl, fel amryw eraill y pryd hwnw, fyned i Drefecca, a chyhuddwyd Mr. Harris o fod yn euog o'i denu yno. Pa faint bynag o sail oedd i'r cyhuddiad yn erbyn Mr. Harris, amlwg yw fod mynediad Mrs. Wynne i Drefecca wedi achlysuro teimladau chwerwon iawn yn erbyn y Methodistiaid yn gyffredinol, ac yn erbyn Mr. Harris yn neillduol, yn nheulu Cefn-amwlch. Gan fod y teulu hwn yn meddiannu y rhan fwyaf o dyddynod y plwyfydd hyn, yr oedd ar eu llaw achosi cryn lawer o ddyoddefaint a cholled i'r sawl a ddygwyddai syrthio dan eu soriant, a chafodd y Methodistiaid boreuol brofi hyny.

Nid anhawdd ydoedd cael dynion isel a gwenieithgar, y rhai fyddent yn barod, er mwyn achosion personol, i wasanaethu y gwŷr mawr yn mhob dim. Yr oedd gŵr o'r fath i'w gael yn ardaloedd Tydweiliog a Llaniestyn—gŵr y soniwyd am dano eisoes; ond nid gyda dim anrhydedd, sef Harri *deneu*, yr hwn oedd yn ewyllysgar iawn, ïe, o hono ei hunan, a pha faint mwy pan y cyflogid ef gan eraill, i wneuthur pob budr-waith mewn ffordd o greulondeb a thrais. Yr oedd hwn yn gwylio fel gwilliad, pwy oedd yn fwyaf esgeulus o wasanaeth y llanau, ac yn fwyaf tueddol at y pen-gryniaid, modd y gallai ddwyn y chwedlau yn gryno i'r boneddigion. Parai y cyfryw wrthwynebiad gryn lawer o anghyfleusdra, anghysur, a cholled, i rai o'r crefyddwyr, er iddo lwyr fethu yn yr amcan o ddileu Methodistiaeth. Derbynid pregethu yn y tymhor hwn i dŷ fferm o'r enw Bryngwydd, lle y preswyliai gwraig grefyddol, ond bu raid iddi gau y drws yn erbyn y pregethu, neu golli y tyddyn, yr hwn oedd eiddo Mr. Wynne.

Yn y tymhor blin hwn, cafodd gŵr o'r enw Hugh Griffith,* ar ei feddwl brynu tyddyn a elwid Tŷ-mawr, Edeyrn. Yr oedd wedi ei ymlid allan o'r lle yr oedd, o herwydd ei grefydd, a chafodd y Methodistiaid loches, bellach, dan gysgod crefyddwr ag oedd uchelwr ar ei dir ei hun. Yr oedd pregethu yn y Tŷ-mawr tua'r fl. 1753. Yr oedd hefyd yn Mhen-y-bryn, amaethdy arall gerllaw Edeyrn, hen lanc o'r enw Thomas Humphreys, yn preswylio, yr hwn oedd etifedd y lle. Yr oedd y dyn hwn, meddir, yn rhagori llawer ar ei oes mewn gwybodaeth, a moesau da. Efe a gyfieithodd lyfr Gurnal gyntaf i'r Gymraeg. Daeth yntau i'r Tŷ-mawr i wrando, ac ennillwyd ef i'r *heresi* newydd! Bellach, yr oedd dau ddrws yn agored i bregethu ynddynt, Pen-y-

* Yr oedd y gŵr hwn yn hen daid i'r Parch. Griffith Hughes, Edeyrn.

bryn a'r Tŷ-mawr; ac yn y ddau dŷ yma, bob yn ail, y parhaodd y pregethu hyd nes y lluosogodd y gwrandawyr, ac y bu raid cael capel.

Codwyd y capel cyntaf tua 80 mlynedd yn ol, gan Hugh Griffith a Thomas Humphreys yn benaf. Codwyd y capel ar dir Pen-y-bryn, a dywedir na wyddai neb beth oedd y ddau ŵr yn ei wneyd, hyd nes adeiladwyd cryn gyfran o hono. Mae hen gof-lyfr cymdeithasfa Gwynedd o fy mlaen, lle y gwelir mai yn y fl. 1775 y gwnaed gweithredoedd y capel hwn. Fe ddichon fod y capel wedi ei adeiladu dymhor maith cyn gwneyd y gweithredoedd. Yr ymddiriedolwyr oeddynt: Robert Owen, Tŷ-gwyn; Robert Jones, Rhoslan; Richard Lewis, Madrin; Charles Marc, Tŷ-mawr, Bryncroes; Robert Owen, Lonfudr; John Jones, Las-ynys. Nid oes amheuaeth nad addoldy bychan oedd hwn, a buan y bu raid ei helaethu. Yn y fl. 1804, tynwyd ef i lawr, a gwnaed un newydd, ac yn y fl. 1842, fe wnaed yr un sydd yn awr ar gael.

Gadawodd Thomas Humphreys Pen-y-bryn i hen lances o forwyn a fu yn gwasanaethu iddo, gan orchymyn i'r lle fod yn gartref i bregethwyr yn wastadol, gan roi arwydd o hyny mewn maen-argraff uwchben y drws, sef, "Deuwch i mewn i'm tŷ, ac aroswch yno." Daeth etifeddes Pen-y-bryn ar ol hyn i fod yn wraig i'r Parch. John Jones, Edeyrn, am yr hwn y bydd genym air eto i'w ddyweyd; yr hwn hefyd a adawodd bedair erw o dir i fod yn gysylltiedig â'r capel, ac at wasanaeth y Methodistiaid, i barhau. Gerllaw y lle hwn yr oedd John Jones, Cil-llidiard, tad John Jones o Leyn, yn cyfaneddu. Fe fu hwn, fel y soniwyd o'r blaen, dros ryw dymhor yn Nhrefecca, ac er nad oes amheuaeth am gywirdeb ei grefydd, eto nid oedd ei wybodaeth ond cyfyng, a'i olygiadau ar egwyddorion ysgrythyrol ond cymysglyd.

Yr oedd capel Uwch-mynydd, Aberdaron, wedi ei godi ychydig o flaen capel Edeyrn, a chapel Pen-y-caerau ychydig ar ei ol; o leiaf, felly y mae amser y gweithredoedd yn dangos. Yr ymddiriedolwyr i gapel Uwch-y-mynydd oeddynt:—Harri Prichard, Pen-y-caerau; Griffith Evan, Hendre; John Jones, Robert William, a Charles Marc o Bryncroes.

Ymddiriedolwyr i gapel Pen-y-caerau oeddynt:—Parch. Nathaniel Rowlands, Parciau, sir Benfro; Mr. William Lloyd, Henllan, sir Gaerfyrddin; Mr. John Pierce, Brynengan; Robert Jones, Rhoslan; Richard Lewis, Madrin; William Daniel, Llain-ganol; a William Jones, Neigwl.

Tua'r fl. 1750, meddir, yr adeiladwyd capel Clynnog, sef ychydig o flaen capel Ty-mawr, Bryncroes. A thua'r amser hwn, yr oedd cyfarfodydd misol yn dechreu cael eu cynal yn y wlad hon. Ymddengys bod gradd o ansicrwydd yn nghylch eu cychwyniad, gan fod Robert Jones, yr hwn oedd ar y maes yn fuan wedi hyny, yn anadnabyddus o'u dechreuad. Fe ddywed, pa fodd bynag, mai mewn dau le yn sir Gaernarfon, sef y Ty-mawr, a'r Lônfudr, y cynelid hwy. "Nid oedd (meddai yr awdwr hybarch) un cyfarfod neillduol ynddynt y dyddiau hyny; yn unig y pregethwyr (rhyw nifer fechan iawn oeddynt) a ddeuent ynghyd ychydig cyn y bregeth, i drefnu eu teithiau sabbothol dros y mis i bregethu. Yna fe bregethai un o honynt i nifer fechan o wrandawyr; ar ol hyny ai pawb i'w cartrefi. Nid oedd yn y dydd-

iau hyny neb mwy na'u gilydd wedi eu sefydlu fel blaenoriaid yn mhlith y cymdeithasau neillduol; ac o herwydd hyny, am nad oedd neb yn myned tros ei ardal i'r cyfarfod misol, byddai llawer cŵr o'r wlad, amryw o Sabbothau, heb neb i bregethu. Ac fel yr oedd rhai o newydd yn cael eu cymhell i lefaru, a mwy o alwad am weinidogaeth y gair trwy y wlad yn gyffredin, barnwyd yn angenrheidiol i'r cyfarfod misol gael helaethu ei derfynau. A chan nad oedd cyfleusdra i'w dderbyn, na galwad am dano, ond mewn ychydig o fanau yn y wlad, gorfu ei anfon, fel yr arch gynt, o fan i fan trwy y wlad: weithiau mewn pentrefi, a rhai trefydd, ceid cenad i'w gynal gan amryw o'r tafarnwyr, er mwyn yr ychydig elw a gaent oddiwrtho. Diau yn ei gylchdro fel hyn, i'r Arglwydd ei arddel i fod yn fendith i lawer. Deuai cannoedd i wrando i leoedd cyhoeddus fel hyn, na ddeuent yn agos i bregeth mewn tŷ na chapel."

## LLANBERIS.

Er mai yn Lleyn y dechreuodd Methodistiaeth gymeryd meddiant o'r sir hon, eto nid hir o amser a fu cyn iddo dori allan mewn amrywiol ardaloedd yn Arfon, ac un o'r lleoedd cyntaf yr ymwelwyd ag ef oedd Llanberis. Nid oedd gwahaniaeth neillduol rhwng y lle hwn ag ardaloedd ereill o'r wlad o ran gwybodaeth a moesau. Yr oedd pob parth fel eu gilydd wedi suddo mewn anwybodaeth o Dduw, ac wedi ymroddi i chwareuon ofer, a champau llygredig. Yr oedd y trigolion o'r bron dan ddylanwad ofergoelion ynfyd, ac yn arfer ymgasglu at eu gilydd ar y nosweithiau i adrodd chwedlau hen a disail. Yr oedd meddwdod a godineb, er cymaint a ddywedir am ddiniweidrwydd yr hen bobl, yn ffynu yn arswydus yn y sir, ac ar y Sabbothau, nid oedd o gŵr bwy gilydd i'r wlad ond perffaith ddibrisdod arno, trwy chwareuon ofer, ymladd ceiliogod, meddwdod, ac yn aml ymladdau gwaedlyd. Yn yr agwedd yma yr oedd ardal Llanberis. Nid yw y gymydogaeth hon ond cyfyng o ran maintioli, ac ni allai, cyn agor y chwarelau ynddi, gynwys ond ychydig o drigolion. Amgylchynir hi gan greigiau llymion, a mynyddoedd uchel, ac yn ei mynwes y gorwedda llynoedd dyfnion, y rhai sydd hyd heddyw yn sugno trigolion o bellder byd i ddod i syllu gyda syndod ar ei rhyfeddodau anianyddol, ac i gryfhau eu natur trwy yfed ei hawyr iachusol. Gan y byddai y Methodistiaid cyntaf, o herwydd tanbeidrwydd erlidigaeth, yn arfer gochel y trefydd mawrion, ac yn cyfeirio eu hymdrechion tua chilfachau dystaw y mynyddoedd, yr oedd Llanberis yn llanerch tra thebygol o gael ymweliad boreu oddiwrthynt; ac felly hefyd, meddir, y bu.

Nid oedd digon o sicrwydd pwy a fu yn pregethu gyntaf yn yr ardal hon, heblaw gweinidogion yr eglwys sefydledig. Sonir am un William Parry, neu William Harry, gŵr o'r Deheudir, yr hwn, meddir, a fu yma yn y fl. 1733. Nid wyf yn cael dim sail i gredu fod neb o'r fath mor foreu a 1733. Yn y fl. 1742, y mae argoelion fod gŵr o'r enw William Harry wedi cael ei anfon gan y brodyr yn y Deheudir i sir Gaernarfon, i gadw ysgol ac i gynghori;

oblegid yr wyf yn cyfarfod, yn nghofnodau Trefeca, â phenderfyniad a basiwyd mewn cymdeithasfa a gynaliwyd yn Llanddeusant, Chwefror 3, 1742, fel hyn:—

"Bod i'r brawd William Harri gadw ysgol yn sir Gaernarfon, a chynghori cymaint ag a allo, rhwng oriau yr ysgol, yn y gymydogaeth."

Nid annaturiol oedd fod sylw ar sir Gaernarfon yn nghyfarfodydd y brodyr tua'r pryd hwn. Yr oedd Howel Harris wedi bod yn y sir y flwyddyn o'r blaen, ac yn ddiau wedi sylwi ar ansawdd amddifad y wlad, ac yn tosturio yn ddwys wrth y trigolion tywyll ac ofergoelus, ac iddo ymofyn a oedd neb yn mysg y cynghorwyr yn y Deheudir a ymroddai i fyned i'r Gogledd i addysgu y bobl trwy gadw ysgol, a thrwy bregethu, ac i William Harri gytuno i fyned. Nid oes sicrwydd ai fel hyn y bu, ond nid oes dim annaturiol yn yr amgylchiadau i feddwl mai fel hyn yr oedd, pan y cyfarfyddwn â'r fath benderfyniad a'r un a nodwyd, yn cyd-daro i ryw raddau â'r traddodiad sydd yn nghymydogaeth Llanberis. Nid yw bod yr enw yn Parry yn lle Harri o nemawr bwys, gan mai yr un ydynt, ond fod *ap* o flaen Harri yn cael ei adael allan. Ac nid yw yr amser a nodir yn bwysig chwaith, gan mai chwedl draddodiadol yw y naill, ac ysgrif yw y llall. Hawdd ydyw, wedi i fwy na chan mlynedd fyned heibio, fod wyth neu ddeng mlynedd o wahaniaeth yn dygwydd rhwng y traddodiad a'r gwir gyfrif.

Pa un bynag ai cywir neu beidio ydyw y dyb mai at yr un gŵr y mae cyfeiriad ysgrif Trefeca, a thraddodiad Llanberis, y mae yn ddiamheuol fod rhyw un o'r Deheudir wedi ymweled â'r ardal yn foreu iawn ar Fethodistiaeth; ïe, yn wir, cyn dechreuad Methodistiaeth, os yn y fl. 1733 y bu hyny. Ac os mai yn y fl. 1742 y bu, fel yr wyf yn hytrach yn barnu, yr oedd hyny hefyd ar gychwyniad Methodistiaeth yn Ngwynedd, ac yn ebrwydd ar ol yr *ymgorfforiad* cyntaf a fu ar Fethodistiaeth yn y Deheubarth. Dywedir hefyd am y gŵr hwn, ei fod yn "gryf o gorff ac yn wrol o feddwl;" ac yn wir, yr oedd yn rhaid ei fod felly i wynebu ar yr anturiaeth o ddyfod i'r Gogledd y pryd hwnw i bregethu. Clywodd William Harri, meddir, ar ei daith fod drws agored iddo yn Llanberis, ac iddo yntau benderfynu cyfeirio ei gamrau tuag yno. Cyrhaeddodd Ysbytty Ifan, a gofynodd yno i ryw ddyn, pa ffordd yr âi i Lanberis: a da y gwnai, gan nad oedd yn Nghymru, mae yn debyg, un llygeidyn o wlad mwy anhygyrch i'w gyniwair nag oedd y parth hwnw y pryd hyny. Yr holl ateb a gafodd gan y dyn oedd, fod Llanberis yn gorwedd yn mhell draw, gan gyfeirio ei law at fynyddoedd mawrion ac ysgythrog Eryri. Ac yr oedd iddo o'r Ysbytty Ifan tuag 20 milldir o bellder oddiwrth Llanberis, a hyny o'r fath mwyaf disathr a pheryglus o fewn y deyrnas oll. Yn mlaen yr aeth, pa fodd bynag, a phan oedd y dyeithr-ddyn wedi cyrhaedd Bwlch-rhiw-ychain, aeth yn nos arno; eto, yn rhyw fodd, ond ni wyddys pa fodd, ond fod "llaw ddaionus ei Dduw gydag ef," efe a gyrhaeddodd y Cwm-glas ryw bryd cyn y boreu.

Dranoeth aeth y gair ar led fod y fath ddyn wedi dyfod, trwy y fath le, yn y nos, ac heb arweinydd; a pharodd syndod fwy na mwy yn mhawb adna-

byddus o'r wlad. Edrychent ar y peth yn ddim llai na gwyrth. Nid oedd ffyrdd y pryd hwnw wedi eu gwneyd; a gorweddai yr ychydig lwybrau culion a geid ar lechweddau y creigiau, yn fynych, ar y llethrau mwyaf peryglus, uwchben nentydd dyfnion, a rhaiadrau gwylltion;—llwybrau y buasai cam gŵyr, lawer pryd, yn hyrddio yr ymdeithydd dros glogwyni certh i'r ceudod dwfn. Nid rhyfedd, yn wir, i drigolion y fro pan glywsant am yr amgylchiad, gael eu gorlenwi â syndod. Deallasant hefyd fod y gŵr dyeithr hwn i bregethu yn y Cwm-glas y nos ganlynol; a phenderfynodd gŵr o'r enw Pierce Williams, Gwastad-nant, y mynai efe ei wrando, "gan," eb efe, "fod yn rhaid fod rhyw hynodrwydd yn perthyn iddo, am iddo allu dyfod dros Fwlch-rhiw-ychain yn y nos, ac yntau yn ddyeithr!" Aeth i'r bregeth yn ol ei benderfyniad, a bendithiwyd hi iddo, a gwnaed ef yn wir ddysgybl i Fab Duw, ac yn ewyllysgar o galon i dderbyn pregethu i'w dŷ.

Mae y darllenydd yn cofio yr hyn a ddywedwyd o'r blaen am y Cwm-glas, sef y nodded a roddasid i Hugh Thomas o Leyn, ynddo, pan ydoedd ar ffô o'i gartref rhag ei ddal a'i anfon yn sawdiwr.* Yr oedd gradd o dynerwch wedi ei gynyrchu yn meddyliau preswylwyr y tŷ hwnw tuag at grefydd cyn i Hugh Thomas ddyfod yno, trwy ymddygiad crefyddol gŵr arall a ddeuai yno i weithio yn y cynhauaf. Yn ol a ddywedwyd eisoes, casglwn, fod ymweliad cyntaf y gweithiwr crefyddol hwn â'r Cwm-glas, wedi cymeryd lle tua'r fl. 1742, ac felly yr oedd yma barodrwydd i dderbyn y gŵr dyeithr o'r Deheudir. Mae hyn hefyd yn ein cadarnhau mai nid yn y fl. 1733 y bu y tro hwn. Trwy gyfeirio at yr hyn a ddywedwyd yn hanes Hugh Thomas, fe wel y darllenydd pa fodd y daeth fod derbyniad i'r pen-gryniaid yn y Cwm-glas; fe wel hefyd, fod Robert Ellis ei hun yn arfer cynghori ei gymydogion yn y pethau a berthynent i'w heddwch, ac iddo barhau i wneuthur hyny dros ei oes, yr hon, yn ol a ddeallwn, ni fu yn faith, am ei fod yn un o'r pedwar pregethwr a fuasent feirw cyn i Robert Jones, Rhoslan, gael cyfleusdra i'w gweled. Yr ydwyf oddiar hyn yn barnu fod Robert Ellis wedi marw cyn y fl. 1760.

Ond er i bregethu gychwyn yn gynar yn ardal Llanberis, eto nid oes lle i gasglu ei fod wedi llwyddo ond ychydig iawn am lawer o flynyddoedd. Dywedir nad oedd yma ond pedwar gŵr, ar ol marwolaeth Robert Ellis, yn *hoff* o wrando, ac yn dangos awyddfryd i glywed yr efengyl; sef Pierce Williams, Gwastad-nant; Dafydd Jones, Gareg-wen; Dafydd Griffith, Cwm-ael-hir; a William Jones, Pen-'r-allt, ardal Dinorwig. Fe fu y pedwar hyn yn fawr eu llafur i gael mwynhau moddion gras; aent yn fynych ar y Sabbothau, i le a elwir Helyg-hirion, rhwng Llangybi a Phwllheli, tua 26 milldir o bellder, i wrando pregeth neu ddwy. Rhaid oedd iddynt, i gael hyn, fyned trwy Nant-y-bettws cyn i'r trigolion godi y boreu, a dychwelyd drachefn wedi nos, gan faint oedd cynddeiriogrwydd y trigolion atynt, a chan y sarhad a'r anfri arswydus a ddysgwylient ar eu llaw, os dygwyddai iddynt eu cyfarfod. Yr oedd y gwŷr hyn yn gwneyd eu goreu hefyd, nid yn

* Gwel tudal. 134, Cyf. II.

unig i fyned lle yr enwid Crist, a lle y pregethid ei efengyl, er eu mwyn eu hunain, ond hefyd ymwthient i wahanol ardaloedd a chymoedd, o amgylch Llanberis, i gynal cyfarfodydd bychain i ddarllen a gweddio, neu ymddyddan; ac yn fynych iawn dros rhyw dymhor yn ycychwyniad, rhaid oedd cadw y cyfarfodydd hyn yn y nos, a dychwelyd adref erbyn y boreu, i ochel eu haflonyddu gan ryw rai a roddasent eu bryd ar lethu y cyfryw gyfarfodydd. Ai y pedwar gŵr a enwyd yn fynych i le a elwid Cwm-clorad, gerllaw Capel-curig, trwy ffordd arw iawn, dan orchudd y tywyllwch, i gadw math o gyfarfodydd neillduol gyda rhyw nifer bychan a garent gael eu hyfforddi yn ffordd y bywyd. Ond er maint eu llafur a'u lludded, dywedir fod mwynhad y gwŷr hyn, yn y cyfarfodydd bychain crybwylledig, yn fwy na thaledigaeth iddynt am yr holl draul; yr oedd difyrwch hyfryd eu mynwesau yn fwy na chyfartal i holl ludded eu cyrff.

Ar y dechreuad, nid oedd ond ychydig iawn o bregethwyr wedi cyfodi, yn enwedig yn Arfon; ac ychydig a fu eu nifer yn y parthau hyn am 30 o flynyddoedd. Deuai ambell bregethwr o'r Deheudir atynt, yn gymysgedig ag ambell gynghorwr o Leyn. Yr ydoedd gair yr Arglwydd yn werthfawr iawn yn y dyddiau hyny, eto yr oedd crefydd yn ymwreiddio fwy-fwy yn y tir; yr oedd rhagfarn y bobl yn llacio, goleuni gwybodaeth yn ymeangu, a rhyw nifer, o bryd i bryd, yn cael eu chwanegu at eu rhifedi.

Crybwyllir fod Dafydd Morris, tad y diweddar Barch. Ebenezer Morris, wedi dyfod unwaith ar ei daith i bregethu i'r Gwastad-nant, yn ol yr addewid a roddasai, mewn adeg yr oedd gŵr y tŷ oddicartref. Nid oedd y wraig, tybygid, ddim wedi ei hennill i garu yr efengyl; a phan ddaeth y pregethwr at y drws, efe a ofynodd i'r wraig, a oeddynt yn dysgwyl gŵr dyeithr yno ar y pryd? "Nac ydym," ebe hithau, "nid oes yma ond swp o boblach dlodion, ar eu goreu yn ceisio magu eu plant." Dywedodd hyn mewn tymher mor chwerw, fel y barnodd y pregethwr fod yn rhaid iddo ymofyn am dderbyniad yn rhyw le arall; ac ymaith yr aeth, heb iddo ef na'i anifail gael na lluniaeth na llety: ac ar y mynydd, meddir, y buont y noson hòno, rhwng Llanberis a Llanrug. Blin iawn a fu hyn i deimladau Pierce Williams, pan y deallodd ar ei ddyfodiad adref pa fodd y bu.

Yn mhen rhyw dymhor, a chyn marw y gwŷr a enwyd, ymagorodd drws arall, heblaw y Cwm-glas a Gwastad-nant, i dderbyn pregethu, sef Llwyncelyn, yn Nant-isaf, Llanberis. Yr oedd hyn tua'r fl. 1765. Rywbryd yn ystod yr amser rhwng 1765 a 1777, y dechreuwyd cadw cyfarfodydd eglwysig gyda chysonedd, a hyny tra yr oedd y pregethu yn aros yn Llwyn-celyn. Arferid pregethu hefyd yn y tymhor hwn mewn beudy, o flaen y Ddol-fawr, ac yn y Ceunant. Yr oedd rhai pregethwyr wedi codi, bellach, yn y cymydogaethau, yn enwedig yn y Waun-fawr, sef Thomas Evans, Thomas Griffith a'i fab, John Thomas. Y ddau olaf hyn, y tad a'r mab, a fu yn foddion i sefydlu y gymdeithas eglwysig, ac a arferent ddyfod trosodd o'r Waunfawr i Lwyncelyn dros ryw dymhor i'w chadw. Nid oedd yr aelodau yn mhen pum' mlynedd ar ol ei sefydlu ond 16. Cynaliwyd yma gyfarfod misol tua'r amser hwn, yr hwn oedd y cyfarfod cyntaf o'r fath a gynaliwyd yn yr ardal

erioed. Y pregethwyr oeddynt Charles Marc o Leyn, Thomas Evans o'r Waunfawr, a John Thomas, yr hwn a elwid ar ol hyn yn John Thomas o Lanberis. Nifer y gwrandawyr yn y cyfarfod hwn oeddynt tua 60.

Yn y fl. 1777, fe adeiladwyd capel yn Llwyn-celyn, yr hwn a elwid y *Capel Coch.* Llwyddodd y gwaith fwy-fwy nes bu raid ail-adeiladu y capel a'i eangu. Eangwyd ef drachefn yn y blynyddoedd diweddaf hyn, heblaw fod dwy gangen flodeuog wedi hànu o honi, sef Rehoboth a Dinorwig.

Gwelwn wrth gyhoeddiad Dafydd Morris,* fod y rhan fwyaf o lawer o leoedd pregethu gan y Methodistiaid yn y flwyddyn uchod yn Lleyn. Nid oedd, mewn cydmhariaeth, ond ychydig iawn yn Arfon ac Eifionydd; ac mewn cydmhariaeth i'r hyn ydyw yn awr, nid oedd ond ychydig yn un dosbarth, er fod 30 o flynyddoedd wedi myned heibio er pan ymwelsai Howel Harris â'r wlad y tro cyntaf. Ond dylem gofio hefyd, nad oedd y deng mlynedd cyntaf ond rhyw gychwyniad bychan, dan erlidigaeth, diffyg pregethwyr, ac anfanteision lawer; a bod yr ymraniad drachefn wedi hanner lethu y cychwyniad hwnw yn ei wendid, effeithiau dinystriol yr hwn a barhaodd yn drwm ar y wlad am lawer o flynyddoedd. Yr oedd unedd y proffeswyr a'r pregethwyr i raddau mawr wedi colli y pryd hwn, a syniadau penrhydd yn dechreu chwalu eu dylanwad difaol, ïe, yn mysg y rhai a dybid yn flaenoriaid ac athrawon. Amser tywyll a du oedd hwn ar Fethodistiaeth Cymru. Prin y gellid dysgwyl ei adferiad, gan mor eiddil ac archolledig yr ymddangosai. A llawer o flynyddoedd a aethant heibio, cyn iddo yn gwbl ddadebru. Ond yn y fl. 1762, sef 11 o flynyddoedd ar ol ymadawiad Harris, fel y dywedwyd mewn rhan flaenorol o'r gwaith, y torodd adfywiad nerthol ar Fethodistiaeth, mewn llawer o ardaloedd Cymru. Yn y diwygiad hwn "fe geid tyrfaoedd lluosog yn mawrygu Duw heb allu ymattal, (medd awdwr 'Drych yr Amseroedd;' †) ond weithiau yn llamu o orfoledd, fel Dafydd gynt o flaen yr arch. Treulid weithiau nosweithiau cyfain mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gŵyl. Clywais gan hen wraig dduwiol iddo barhau dri diwrnod a thair noswaith, yn ddigyswllt, mewn lle a elwir Lôn-fudr, yn Lleyn, sir Gaernarfon, y naill dyrfa yn cylchynu y llall; pan âi rhai adref, deuai rhai eraill yn eu lle; ac er myned i'w cartrefi dros ychydig, ni allent aros nemawr heb ddyfod yn ol. Pan ddaeth y tywalltiadau grymus hyn ar amryw gannoedd, os nad miloedd, trwy y Deheudir a Gwynedd, bu llawer o gynhwrf a dadleu yn ei gylch; daliwyd llawer â syndod, gan ddywedyd, 'Beth a all hyn fod?' 'Meddwon ydynt,' meddai rhai;—'O'u côf y maent,' meddai eraill; yn debyg iawn i'r rhai hyny ar ddydd y Pentecost; ond ni feiddiodd braidd neb wneyd niweid iddynt, ond yn unig eu gwneuthur yn nôd i gynen eu tafodau."

Rhoes yr adfywiad hwn ail-gychwyniad i Fethodistiaeth sir Gaernarfon; codwyd ef yn fwy i sylw, lluosogodd lawer ar ei ddeiliaid, cododd amryw o bregethwyr o newydd, a pharodd aidd ac egni adnewyddol yn mhawb i oleuo

* Gwel y cyhoeddiad, Tudal. 85, Cyf. II. † Tudal. 140.

ac efengyleiddio y rhanau eraill o'r wlad, y rhai, hyd yn awr, nid ymwelasid â hwynt.

## PENNOD III.

### BYR HANES EGLWYSI HENAF Y SIR.

CYNWYSIAD:—

HANES METHODISTIAETH YN ARDALOEDD BRYNENGAN—Y WAUNFAWR—CLYNOG—Y PARCH. MR. NANNEY—BERTH-DDU-BACH.

#### BRYNENGAN.

Y MAE Brynengan yn hen le yn hanes Methodistiaeth sir Gaernarfon. Nid yw yr ardal hon yn mhell oddiwrth Glasfryn-fawr a Phenmorfa, lleoedd a fu yn faesydd llafur i Howel Harris, Jenkin Morgan, a Daniel Rowlands. O Frynengan y cododd Lowri Williams, yr hon a fu yn offeryn nodedig i ddwyn Methodistiaeth i froydd Maentwrog, Ffestiniog, a Thrawsfynydd, yn sir Feirionydd. Un o'r fro yma oedd Jane Griffith, a aeth i gadw ysgol i ardal Dolgellau, ac a roes surdoes yn y blawd yn y lle hwnw. Yr oedd Brynengan yn orsaf sefydlog gan y Methodistiaid pan oedd Penrhyn-deudraeth yn ei fabandod, er fod y Penrhyn yn un o'r lleoedd hynaf yn Ngwynedd. Nid yn mhell o'r gymydogaeth hon yr oedd Rhoslan, hen le preswylfod yr hybarch Robert Jones. Yma hefyd y bu Robert Dafydd fyw y rhan fwyaf o'i oes, a'i fab-yn-nghyfraith Richard William. Mae Brynengan, fel llawer mam, wedi magu llawer o grefyddwyr da, ac wedi bod yn foddion i blanu amryw eglwysi blodeuog, ac eto heb ychwanegu llawer ar ei rhifedi parhaus ei hun. Y mae yn aros yn fwy anrhydeddus yn ei hynafiaeth, ac yn ei defnyddioldeb, nag ydyw yn ei hymddangosiad a'i rhif. Nid ydym yn deall fod un hanes arbenig erioed wedi ei roddi o'r lle hynod hwn; a phrofir mwy o anhawsder i gael ei hanes, nag a allesid dychymygu.

Mae hanes Brynengan, pa fodd bynag, yn ymgordeddu â hanes Robert Jones, Evan Richardson, Richard Jones o'r Wern, Robert Roberts o Glynog, a Robert Dafydd, ac at y crybwylliadau a wneir neu a wnaed am y gwŷr hyny y bydd raid i mi gyfeirio y darllenydd am oleuni ychwanegol ar hanes Brynengan.

Yr oedd y fro hon, fel y sir drwyddi, "yn eistedd yn dawel mewn tywyllwch, ac yn mro a chysgod angau," cyn i Howel Harris ymweled â hi. Fe ddichon, ar yr un pryd, fod rhyw ambell un wedi meddiannu y Beibl, ac wedi cael blas ar ei ddarllen, ïe, wedi cael o hyd i'r trysor cuddiedig ynddo, megis yn ddamweiniol, cyn bod nemawr o bregethu yr efengyl yn y wlad. Fe ddyry yr hanesyn byr canlynol ryw awgrym o'r fath i ni. Arferai nifer o gymydogion ymgaslu i odyn, sef y lle y byddai ceirch yn cael ei grasu, mewn lle yn Eifionydd, yn nechreu-nos gauaf, i adrodd hen chwedlau hynod, er difyru eu gilydd; a phan y deuai tro un gŵr yn eu plith i adrodd ei 'stori, yr hyn, tybygid, a wnaent bob un yn ei gylch, âi hwn dros hanes Joseph yn llyfr Genesis; a pharai syndod a hyfrydwch mawr i'r gwrandawyr. Yr oedd hyn cyn bod nemawr o bregethu gan y Methodistiaid yn y wlad.

Sonia Robert Jones* am gyfarfod crefyddol a gynelid allan yn Rhoslan, ar y Sabboth, pryd yr anfonodd yr offeiriad, yr hwn hefyd oedd hedd-ynad, ei was yno i aflonyddu. Y dull y gwneid hyny, oedd yn gyffelyb i'r dull y gwneid yn fynych, sef chwythu mewn corn, â pheri y fath swn fel na ellid clywed llais y pregethwr. Fe fu yr amgylchiad hwn yn achlysur i Robert Jones ysgrifenu a chyhoeddi traethodyn, dan yr enw "Lleferydd yr Asyn," mewn ffurf o lythyr at y gŵr boneddig. Addefir fod y gŵr urddasol yn ddyn tra hawddgar o ran ei dymher, a gresynir ei fod yn y tro uchod wedi darostwng cymaint ar ei enw da. Nid oes amheuaeth na welodd, wedi i'r tro basio, ei fod ar fai, oblegyd ni chlybuwyd iddo wneyd yn gyffelyb mwy. Prysurodd rhyw un ysgrifenu ateb i'r traethodyn crybwylledig, ond wedi ei ddangos i'r gŵr urddasol, barnwyd mai gwell oedd ei gadw yn guddiedig, ac felly y gwnaed.

Mae hanesyn tra rhyfedd o fy mlaen, wedi ei ysgrifenu gan y Parch. John Owen, Gwyndy, gerllaw Brynengan, gwirionedd yr hwn, fe allai, a amheuir gan lawer un. Adroddwyd yr hanesyn, pa fodd bynag, gan Robert Jones ei hunan; a'r achos na roddasid ef yn y llyfr a ysgrifenodd oedd, am nad oedd ganddo, y pryd hwnw, gymaint o sicrwydd am ei gwirionedd ag a gafodd ar ol hyny. Yr hanes sydd fel hyn:—

"Am yr afon â phalas y gŵr a fu yn erlid yn Rhoslan y mae ffermdy, yn yr hwn, cyn yr amgylchiad hwnw, y byddai y Methodistiaid yn pregethu. Yr oedd hyny yn anfoddloni y person oedd yn byw yn y palas yn fawr. Amlygodd hefyd ei anfoddlonrwydd, amryw weithiau, i ŵr y tŷ; ond parhau yr oedd i noddi y pregethu. O'r diwedd, blinodd y gŵr boneddig, ac anfonodd genad, ryw ganol dydd, i gyrchu y ffermwr. Wedi ei ddyfod at y palas, gwahoddodd y boneddwr ef i fyned gydag ef i roddi tro ar hyd un o'r meusydd. Dechreuodd holi y tyddynwr am enwau amryw o lysiau a welid yn tyfu yn meusydd; ac yn mysg eraill nododd un llysieuyn yn neillduol, gan ofyn ei enw. 'Y *bengaled* ydyw,' ebe y ffermwr, 'Wel,' ebe y person, 'cyffelyb i'r llysieuyn hwn, *pengaled* wyt tithau. Oni chrefais i arnat lawer gwaith rwystro y rhai yna i'th dŷ? Pe na byddent i'w clywed yn gwaeddi o'm tŷ, ni chwynwn.'

"Effeithiodd y dull tyner hwn o ymliw ag ef yn fwy o lawer ar y ffermwr, na phe bygythasid ef yn llym, a phenderfynodd, ac addawodd wrth y boneddwr, na chaent ddyfod i'w dŷ ef mwy. Ar hyn dychwelodd pob un i'w gartref, ac yr oedd bellach yn dechreu nosi. Fel yr oedd y ffermwr yn cerdded y nant, gerllaw yr afon, cyfarfyddai ag ef ŵr dyeithr, a chleddyf noeth yn ei law; yr hwn a'i rhybuddiai i beidio troi y pregethu o'i dŷ; ac yna aeth ymaith. Gyrodd hyn y dyn i benbleth flin. Gwelai fod ganddo achos i ofni awdurdod rhyw un, heblaw eiddo y person; a thuag at wneyd y goreu a allai o'r amgylchiad anghysurus, symudodd o'r wlad i fyw, a sefydlodd yn Môn."

Mi wn yn dda y rhoddir gwahanol esboniadau ar yr amgylchiad, gan

* Gwel "Lleferydd yr Asyn."

wahanol ddarllenwyr; rhai yn priodoli y ddrychiolaeth i ddychymyg cyffrous y ffermwr; rhai yn hòni mai cyfryngiad gor-naturiol yr Arglwydd ydoedd, mewn ffordd o amddiffyn ei achos dan amgylchiadau neillduol; a rhai, hwyrach, a haerant mai chwedl ddisail ydyw, heb ddim gwirionedd ynddi. Y cwbl a ddywedaf fi ar hyn ydyw, fod yr hanes yn disgyn i law trwy dystion cywir; fod amgylchiadau cyffelyb wedi eu croniclo yn yr ysgrythyrau; ac y sonia gwŷr da a duwiol, megis Flavel ac eraill, am ddygwyddiadau o'r un natur wedi cymeryd lle yn Lloegr, neu y bernid felly am danynt.

Fe wel y darllenydd yn yr hanes a roddir yn mlaen am y Parch. E. Richardson, o ba wasanaeth y bu y gŵr hwnw i Fethodistiaeth yn ystod yr amser y bu ef yn aros yn y Brynengan, a'r cymydogaethau gerllaw. Mae yn briodol edrych ar ledaeniad Methodistiaeth yn yr ardaloedd hyn, yn *ddau gyfnod.* Yn y cyntaf, yr oedd awch a thanbeidrwydd y pregethu yn cyffroi y wlad trwyddi. Yr oedd troedigaeth disymwth ambell bechadur nodedig ei ddyhirwch, yn peri syndod ac ymofyniad. Eto yr oedd anwybodaeth ac anfoesoldeb y wlad yn gyffredinol yn aros heb eu symud. Cyrchid, yn y dyddiau hyny, o gryn bellder i Frynengan i wrando pregethau; ac fe allesid dyfalu mai ychydig o flas a fyddai gan bobl a ddeuent o bell i wrando pregethu miniog yr oes hòno, ar ddiod na chwmni y dafarn, ar y Sabbothau. Eto rhaid addef fod gormod o hyn yn bod. Ai llawer o wrandawyr Brynengan i dafarndai Llangybi wrth fyned adref, ac nid mynych yr âi Sabboth heibio heb feddwi ac ymladd.

Yr ail gyfnod, oedd *sefydliad yr ysgol Sabbothol.* Dyma fu y moddion penaf i wareiddio a moesoli y wlad. Dechreuwyd trwy gadw ysgolion ar ddechreu-nos, yn nghanol ffermdai; ac yn raddol i'w cadw yn y capelau ar y Sabboth. Cawsom achlysur i grybwyll y gwrthwynebiad oedd gan yr hen grefyddwyr i'r ysgol Sabbothol yn ei chychwyniad; felly, hefyd, yr oedd yn ardaloedd Brynengan. Gwrthwynebid hi ar ddau gyfrif; yn gyntaf, amheuent y priodoldeb o addysgu plant ar y Sabboth, mwy na chyflawni rhyw orchwyl cyffredin arall; ac yn ail, edrychent arni yn llesteirio i niferi o bobl, fychain a mawrion, fyned o amgylch i wrando pregethau. Edrychent ar unrhyw beth a dueddai i ymddifadu y trigolion o hyn yn beth i'w ochel ar bob cyfrif, gan yr hyfrydwch a'r budd a gawsent hwy eu hunain ynddynt, a chan y barnent eu bod yn foddion arbenig i achub pechaduriaid. Yr oedd y gwrthwynebiad i sefydliad yr ysgolion Sabbothol, yn codi oddiar egwyddorion o wedd mor grefyddol, fel mai prin y gallem feddwl y llwyddasid i'w sefydlu oll, oni bai y dylanwad rhyfeddol a feddai Mr. Charles, Bala, yn y cyfundeb. Edrychid ar y gŵr parchedig a duwiol hwn, fel angel Duw, a derbynid ei gyfarwyddiadau gydag ymostyngiad, ar bob peth ymron; a thrwy fod ei ddylanwad ef mor helaeth, ei ysbryd mor addfwyn, a'i lafur dros yr ysgol Sabbothol mor ddibaid, fe lwyddodd i raddau helaeth i ddarostwng y gwrthwynebiad oedd i'r sefydliad newydd, hyd nes y caed prawf digonol o hono, fod ei darddiad yn ddwyfol, a'i effaith yn wir fuddiol; yna fe wywodd y gwrthwynebiad iddo, megis o hono ei hun.

"Sefydlu ysgol Sabbothol," medd y Parch. John Owen, "a fu yn foddion yn y nifer amlaf o ardaloedd Eifionydd i ddechreu achos crefydd. Cychwynid hi yn gyntaf mewn tŷ, mewn rhyw gymydogaeth ymddifad; yna ceid pregeth yn achlysurol;—yn mhen enyd codid ysgoldy, a chesglid cymdeithas eglwysig at eu gilydd, ac o'r diwedd adeiledid capel."

Peth arall a effeithiodd yn fawr, er llwyddo Methodistiaeth yn yr ardaloedd hyn, oedd gwaith yr hen bregethwyr yn cadw ysgolion dyddiol. Bu Robert Jones, Evan Richardson, Robert Roberts, John Roberts a'i fab Michael Roberts, ac eraill hefyd, yn offerynau, trwy hyn, i ddwyn cyfnewidiad rhyfeddol yn y wlad. Yr oedd yr hen bobl yn eu dyddiau wedi eu dwyn i fyny yn eglwyswyr, ac yr oedd llawer o honynt yn lled ddiystyrllyd o'r Methodistiaid, ïe, er y deuent, yn awr ac eilwaith, i'w gwrando. Ond y plant a fagwyd yn wahanol. Anfonid y rhai'n at y pregethwr i'r ysgol—derbynient ei hyfforddiant a'i gynghorion, y rhai a gymysgid â gweddiau drostynt. Ymlithrai fel hyn i'w serchiadau, a gosodai dystiolaeth yn eu cydwybodau o blaid ei grefydd; ac fel yr oedd y plant hyn yn dyfod yn raddol i le eu tadau, yr oedd syniadau ac arferion y wlad, yn naturiol, yn ymwisgo mewn gwedd newydd.

Cafodd yr ardaloedd hyn ymweliadau amryw o adfywiadau grymus, trwy y rhai y darostyngid rhagfarn y preswylwyr ymron oll, ac y rhoddid prawf, na ellid ei wadu, mai llaw Duw oedd yn gweithio. Ni cheid ond ychydig yn y wlad oll a'r na chydnabyddent mai tywalltiadau o'r nefoedd oedd y diwygiadau hyn. Ac anhawdd ydyw peidio cydnabod yr un peth am danynt eto, wrth feddwl y gweddio a fyddai gan bobl dduwiol am danynt, ac wrth edrych ar yr effeithiau a'u dylynent.

Dywedir am Robert Dafydd y pregethwr, yr hwn oedd yn byw yn Mrynengan, ei fod yn gweddio llawer am rai blynyddau am ddiwygiad, cyn i'r adfywiad yn 1832 dori allan. Yr oedd hyn yn destyn ei weddiau dirgel. Mynych y cyrchai efe i'w ystafell ar y neges yma yn arbenig. Rai prydiau, fe ddygwyddai rhai o'i deulu ei glywed ef yn ymdrechu â Duw ar yr adegau hyn. Yn ei weddiau, fe arferai enwi yr amaethdai yn y gymydogaeth, a gweddiai ar i'r Arglwydd achub eu hanneddwyr. "Ti wyddost (meddai), O Arglwydd, fod yma rai tai, a'r addolwyr a fuasai ynddynt wedi meirw, a bod yr hen allorau teuluaidd wedi eu bwrw i lawr. O fy nhad, gâd i mi weled un diwygiad eto cyn fy marw: gâd i mi weled fy nghymydogion wrth y degau yn troi eu hwynebau i dy dŷ, dan gerdded ac wylo; ac os caf, mi fyddaf foddlawn i farw y fynyd a fynech di."

Gwrandawodd yr Arglwydd ei weddi yn hyn, a chafodd weled tua 140 yn ymofyn o newydd am le yn nhŷ Dduw yn Mrynengan. Bellach, ei neges yn yr hen ystafell oedd, "O Arglwydd, gâd i mi gael byw flwyddyn i fagu y plant yma." Caniatawyd ei weddi yn hyn hefyd, a bu fyw 6 neu 7 mlynedd ar ol hyn. Yr oedd y diwygiad hwn yn un o'r rhai mwyaf sylweddol, meddir, a gafodd un gymydogaeth yn Nghymru erioed. Bendithiwyd yn neillduol bregeth Mr. Elias yn nghymdeithasfa Pwllheli, ar y geiriau, "Cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion, a ffoed ei gaseion o'i flaen," (Salm lxviii, 1,)

i roddi ysgogiad cychwynol i'r adfywiad hwn. Cerddodd yn rymus ar ol hyn trwy lawer o ardaloedd Lleyn ac Eifionydd, a chwanegwyd at yr eglwysi dros 600 o aelodau, heblaw niferi mawr o blant.

Nid ydym wedi cael hysbysiad sicr pa bryd yr adeiladwyd y capel cyntaf yn Mrynengan, na pha faint oedd nifer yr aelodau yno pryd y codwyd y capel. Yr unig amnaid a feddwn ydyw yr hyn a gynwysir, megys yn achlysurol, yn nghofnodau y gymdeithasfa, y rhai sy'n dechreu tua'r fl. 1780. Dywedir yno fod swm casgliad Brynengan, tuag at dalu dyledion capeli, yn £1 5s. 5c., yr hyn, yn ol dimai yn yr wythnos ar bob aelod, a ddengys fod y gymdeithas eglwysig yn cynwys tua 47 o rifedi. Rhaid addef, pa fodd bynag, nad oes eithaf sicrwydd yn y dull hwn o gyfrif, gan nad yw y cofnodau yn sicrhau pa un ai *un* chwarter neu ychwaneg a gynwysid yn y swm a roddid ar lawr.

Pa fodd bynag am rifedi yr eglwys, y mae sicrwydd fod capel wedi ei adeiladu yn Mrynengan cyn y flwyddyn 1780, gan fod cofnodiad ar lawr, fod pedwar swllt ar ddeg wedi cael eu talu gan y gymdeithasfa at lôg y ddyled oedd y pryd hwnw ar y capel. Ond pa faint o amser cyn hyny y codasid ef, nid yw hysbys, ond y mae yn eithaf sicr fod gan y Methodistiaid achos mwy neu lai blodeuog yn yr ardal hon er's mwy nag ugain mlynedd cyn hyny; ond fod y dysgyblion yn yr ardal hon, fel mewn lluaws o ardaloedd eraill, yn hwyrfrydig iawn i godi yr un capel, gan ymfoddloni i bob math o anghyfleusdra mewn tai annedd, ar y maes agored, neu mewn hen adeiladau, yn hytrach na chodi addoldai ar wahan oddiwrth yr eglwys wladol. Felly ond odid y bu yn Mrynengan.

## WAUNFAWR.

Y mae amaethdy yn y gymydogaeth hon o'r enw Hafod-y-rhyg. Yn y lle hwn yr oedd y gŵr y crybwyllasom ei enw eisoes yn byw, sef Evan Dafydd. Yr oedd y gŵr hwn yn gynghorwr dros ryw dymhor cyn ei farw, yr hyn a gymerodd le tua'r fl. 1750. Yr oedd y cynghorwr hwn yn un o'r pedwar pregethwr a gododd yn sir Gaernarfon, am y rhai y dywed Robert Jones na welodd ef erioed mo honynt. Pan y bu Evan Dafydd farw, nid oedd Robert Jones ond pum mlwydd oed. Nid oedd ond naw mlynedd cyn marwolaeth Evan Dafydd, Hafod-y-rhyg, er pan ddaethai Howel Harris gyntaf i'r sir. Oddiar hyn ni a welwn fod gan y Methodistiaid ryw achos bychan yn y fro hon yn fuan iawn ar ol cychwyniad Methodistiaeth yn Ngwynedd. Nid oes hysbysrwydd genym pa bryd, na thrwy ba foddion, y dygwyd Evan Dafydd i wybodaeth y gwirionedd: yn unig fe ddywedir y byddai Howel Harris yn arfer dyfod i Hafod-y-rhyg i bregethu. Ac nid Hafod-y-rhyg, medd rhai hen bobl, oedd y lle cyntaf y bu pregethu ynddo, ond mai Bryngoleu ydoedd, yr hwn le hefyd ydoedd ar dir Hafod-y-rhyg. Mewn cysylltiad â'r bregeth gyntaf hon, y mae traddodiad yn cyflwyno i ni ymddyddan a fu rhwng gŵr Hafod-y-rhyg a'i wraig, o'r fath a ganlyn:—

Ebe y gŵr,—"Y mae rhyw ddyn yn myned i bregethu yn y Bryn-goleu; a ddoi di i'w wrando?

"Na ddo'f fi (ebe'r wraig), y mae arnaf eisieu rhoi bwyd i'r moch."

"Wel yn wir, mi âf fi," ebe yntau. Ac i ffordd ag ef, ond fe ddychwelodd yn ol cyn i'r bregeth ddarfod; ac ar ei ddychweliad i'r tŷ, gofynai y wraig iddo, "Pa beth oedd gan y pregethwr i'w ddweyd?"

Yntau a ddywedodd, "Yr oedd y Beibl ganddo o'i flaen."

"Wel, ïe," ebe y wraig, "pa beth oedd ef yn ei ddweyd?"

"Yr oedd," atebai yntau, "yn edrych arnaf o hyd, ac yn dweyd mai dysgyblion y diafol oeddym, a bod nôd y diafol arnom."

"Pa'm," (ebe y wraig,) "na fuasit ti yn aros yno hyd y diwedd, fel y gall'sit ofyn iddo, ai bugail y diafol oedd efe, gan ei fod mor gyfarwydd ar ei nôd?"

Wedi marw Evan Dafydd, symudodd y pregethu o Hafod-y-rhyg i dŷ a elwir Tŷ-ucha'r-ffordd. Yr un oedd yn gofalu am yr achos, bellach, oedd un Thomas Griffith. "Yr oedd y gŵr hwn o gyneddfau cryfion," meddai Robert Jones, "craff ei olwg ar y wir athrawiaeth. Byddai yn arfer cynghori ei gydbechaduriaid, yn achlysurol, i gilio oddiwrth ddrygioni, ac i ffoi i'r wir noddfa." Tad oedd y gŵr yma i John Thomas, Llanberis, pregethwr a adwaenir yn dda, gan lawer sydd eto yn fyw; a thad hefyd i'r godidog fardd Dafydd Thomas, neu Dafydd-ddu-Eryri. Yr oedd Thomas Griffith cu tad yn byw yn Mhen-y-bont, ac yn cadw siop fechan. Arferai yn awr ac eilwaith ar foreuau Sabboth fyned i lan y plwyf i addoli, er mwyn dangos trwy hyny nad oedd ganddo ddim gelyniaeth at yr eglwys wladol; a chan ddysgwyl y rhoddid llonyddwch gwell i'r crefyddwyr i addoli yn Tŷ-ucha'r-ffordd. Yn y llan, arferai gyfarfod yn fynych â rhyw rai ag oeddynt yn ei ddyled am nwyddau o'r siop. Deallasai y bobl eisoes na dderbyniai Thomas Griffith ddim arian ar y Sabboth gan y rhai a fyddent yn ei ddyled, ac am hyny cymerent achlysur oddiwrth dynerwch ei gydwybod i'w ysbeilio yn annheg o'i feddiannau. Wrth iddo ddyfod allan o'r llan, cynygient daledigaeth iddo o'r swm dyledus, ac os gwrthodai yr arian, galwai y dyhiriaid ryw rai gerllaw yn dystion o hyny, a gomeddent dalu iddo byth mwy.

Nid oedd llawer o bregethwyr y pryd hwn yn teithio trwy y gwledydd, ond yn mysg yr ychydig hyny, yr oedd Richard Tibbot o Lanbrynmair yn un; a mawr oedd serchogrwydd y derbyniad a gaent gan yr ychydig grefyddwyr gorthrymedig ag oeddynt y pryd hwnw yn dechreu britho y gwledydd. Dywedir am Richard Tibbot,* pan ar ei hynt trwy y wlad, y deuai i olwg y Waunfawr, y dechreuai ganu; ac ar waith Thomas Griffith yn clywed ei lais, cynhyrfai drwyddo, a lluchiai bob peth allan o'i law dan ddadgan, "*Dyma Tibbot, yr wy'n tybied.*"

Ar ol colli Thomas Griffith, daeth un Thomas Evans yn swcr i'r achos

* Gwel ei hanes, tudal. 119, Cyf. I.

crefyddol yn y lle. Am y gŵr hwn y dywedir ei fod yn *bregethwr*: ystyrid ei fod uwchlaw *cynghorwr*. Yr oedd yn ymresymwr cadarn, ac yn gymeradwy iawn gan fyd ac eglwys. John Pierce, Robert Jones, ac yntau, oedd y tri blaenaf yn nghyfarfodydd misol y sir gynt; ond fe ddywed Robert Evans, gynt o Drefriw, yr hwn a'u hadwaenai hwynt yn dda, fod rhai pethau yn Thomas Evans yn rhagori ar y lleill. Cyfrifid ef yn un o'r rhai gonestaf a mwyaf didderbyn wyneb o neb yn sir Gaernarfon. Ar yr un pryd, yr oedd ei ysbryd yn hynaws a chyfeillgar; a derbynid oddiwrtho ef mewn ffordd o gerydd, a hyny heb archoll na thramgwydd, yr hyn ni dderbynid ymron gan neb arall. Fe ddywed Robert Jones am dano, yr hwn oedd gyd-oeswr a chyd-lafurwr ag ef:—"Yr oedd Thomas Evans, Waunfawr, o dymher addfwyn a chyfeillgar, gonest, a diddichell; yr oedd ei ddoniau i bregethu yn eglur a dealladwy; ac yn addas iawn i lawer o wrandawyr anwybodus y dyddiau hyny, a fyddai yn arferol o'i wrando. Yr oedd ei gynydd mewn doniau a defnyddioldeb yn amlwg fel yr oedd yn aeddfedu i ogoniant." Bu farw y gŵr da hwn o'r darfodedigaeth, pan nad oedd ond 48 ml. oed.

Dengys yr hanesyn a ganlyn y wedd oedd ar yr achos yn y tymhor boreu hwn arno, ac ansawdd blentynaidd eto serchog y crefyddwyr at eu gilydd. Daeth taer wahoddiad i Thomas Evans i ymweled â'i frodyr yn y Deheudir; yntau a betrusai gydsynio â'u cais, am nad oedd neb i gymeryd gofal yr achos bychan yn ei gartref. Hysbysodd ei betrusder yn y cyfarfod eglwysig, a dyma hen chwaer yn codi ac yn dweyd, "Ewch, ewch, Thomas bach, a rhoddwch lyfr i mi, minau a osodaf ar lawr ynddo bob peth a ddygwyddo yma heb fod yn iawn; chwithau a gewch ei weled wedi y dychweloch yn ol." Felly yn ol cynghor yr hen chwaer, i'r Deheudir yr aeth am ysbaid chwech wythnos. Ar ol ei ddyfodiad yn ol, galwyd yr eglwys at eu gilydd, modd y rhoddid cyfle i Thomas Evans i adrodd hanes ei daith, ac i'r hen chwaer gyflwyno llyfr ei goruchwyliaeth hithau. Wedi adrodd ei hanes ei hun gofynodd, "Pa le mae llyfr y beiau?"

"Dyma fe," ebe yr hen chwaer;—"ni fu yma ddim o'i le;—mae y llyfr yn *wŷn i gyd*."

"Wel, yn wir," ebe yntau, "ni welais i yr un eglwys erioed o'r blaen ar y ddaear, ac ni ddarllenais am yr un, wedi bod chwech wythnos o amser heb bechu. Yn hyn yr ydych wedi tra rhagori arnaf fi!"

Yn y blynyddoedd boreu hyn ar yr achos crefyddol, âi crefyddwyr ar foreu Sabboth i Lanbeblig, ger Caernarfon, i'r gwasanaeth, ac yn fynych byddai raid iddynt ffoi oddiyno ar ffrwst mawr, ar ol yr addoliad, rhag cynddaredd eu gelynion. Cilient i ochr mynydd Cefn-du, ac yno y byddent yn addoli mewn lle a elwir Crug-y-brain. Yn mysg yr erlidwyr yr oedd un William Williams, Llwynbedw, yr hwn oedd yn ffyrnig iawn yn erbyn i'w wraig ymuno â'r penau-cryniaid. Yr oedd y gŵr hwn, un diwrnod, ar ei ffordd i farchnad Caernarfon, pryd y damweiniodd iddo syrthio i ffrae ag un o'i gymydogion, ac mor boethlyd oedd eu nwydau nes iddynt ymroddi i gwffio eu gilydd. Yn y cyfamser, daeth gŵr dyeithr iddynt heibio, ac ôl baeddu tost arno mewn

gwaed ac archollion, a gofynodd i'r ddau a wnaent hwy gofio tri gair a ddywedai—ANGAU, BARN, A THRAGWYDDOLDEB;—ac ymaith ag ef yn ei flaen. Y naill a ddywedai wrth y llall, "Pwy oedd y gwalch yna a siaradai mor grefyddol?—Y mae ol ymladd arno yntau." A phwy hefyd oedd y dyn dyeithr?—a pha beth a ddygwyddasai iddo? Pregethwr ydoedd wedi cael ei faeddu yn greulawn am geisio pregethu i'w gyd-ddynion yn y Bont-newydd, gerllaw Caernarfon, ac yn awr ar ei daith tua Llanberis. Nid yw enw y pregethwr hwn yn adnabyddus; ond pwy bynag ydoedd, bendithiwyd y geiriau a draethodd i William Williams. Nid aeth yn mhell o'r lle na theimlodd awch y TRI GAIR yn gwaedu ei galon. Haws o lawer oedd iachau archollion y ffrae â'i gymydog, nag oedd cael esmwythdra i'w gydwybod euog. Yr oedd daroganau arswydus yn terfysgu ei fynwes, ac nis gwyddai pa beth i wneyd. Dychwelodd o'r farchnad heb wneyd ei neges; ac nid yn feddw, fel yr oedd ei arfer, ond yn berffaith sobr.

Y noson hòno ar ei ddyfodiad adref, gofynodd i'w wraig, ai nid oedd hi ar fedr myned i'r cyfarfod eglwysig? Synodd y wraig, ïe, dychrynodd, rhag fod ganddo ddyben drwg yn ei herbyn, ac mai hyny a barasai iddo ddyfod adref mor gynar. Wedi deall yn amgen, a pha fath oedd ansawdd ei feddwl, y mae yn haws dychymygu ei theimladau na'u traethu, a llawen fu ganddynt, o hyny allan, rodio i dŷ Dduw yn nghyd.

Ryw bryd, pan oedd pregeth yn Tŷ-ucha'r-ffordd, daeth dyn i mewn â gwedd hyf ac awdurdodol arno, yr hwn, gan gyfarch y pregethwr, a ddywedodd wrtho fod yn rhaid iddo dewi. Yr oedd y pregethwr yn ddyn cryf o feddwl ac o gorff; a thros ryw enyd ni chymerodd gyffro, ond âi rhagddo gyda'i waith. Ffromodd y terfysgwr o hyny yn fwy, a chan faint yr aflonyddwch, bu gorfod i'r pregethwr dewi. Wedi rhoi heibio pregethu, disgynodd yn ddigyffro o'r fan lle y safasai, ac ymaflodd yn yr erlidiwr, ac fel pe buasai ond plentyn yn ei law, ac a'i gosododd ar ei gefn ar gist gref ag oedd gerllaw, gan ei dylino fel toes, a hyny gyda nerth a phenderfyniad. Deallai yr erlidiwr enbydrwydd ei sefyllfa, a mynai ddianc, ond hyny ni roddid iddo, a gwasgai y pregethwr yn drymach arno. Ar hyn gwaeddai allan, "A wyddoch chwi gwas i bwy ydwyf?" "Gwn o'r goreu," ebe y pregethwr, "mai gwas i'r cythraul ydwyt; ond nid oes arnaf ddim o dy ofn di na dy feistr. A gwybydd na chei di ddim myn'd oddiyma, heb i ti addaw yn ngwydd yr holl bobl hyn, na ddywedi air mwy yn erbyn pregethu Crist i bechaduriaid."

Bellach, yr oedd yn dda gan y coryn gwael gael ymwared ar ryw ammodau; addawodd y cwbl a geisid ganddo, a hyny, ar y pryd, gyda phrysurdeb mawr; ac felly gollyngwyd ef yn rhydd, a chiliodd i ffordd yn llechwraidd, wedi cael digon ar y gwaith o erlid pregethwyr. Ar ol cael llonyddwch, aeth y pregethwr drachefn i'w le, gan fyned yn mlaen yn ddigyffro, fel pe na buasai dim o bwys wedi dygwydd.

Yr oedd yr achos wedi bod, bellach, am amser maith iawn mewn tai, fel yr arch gynt rhwng cortynau, ac heb un deml sefydlog i addoli ynddi. Rhwng

Hafod-y-rhyg, a Thŷ-ucha'r-ffordd, fe fu pregethu yn yr ardal hon tua 40 ml. cyn adeiladu capel ynddi. Ond tua'r fl. 1785 cododd erlidigaeth oddiwrth offeiriad Aber, a bu gorfod i'r crefyddwyr ymadael â Thŷ-ucha'r-ffordd;—lle y buasent yn aros ynddo cyhyd. Yn y cyfamser daeth John Evans o'r Bala, a Mr. Charles, yr hwn oedd newydd ymuno â'r Methodistiaid, heibio, a phrynasant ddarn o dir i adeiladu capel arno. Yr oedd hyn yn y fl. 1785. Yr ymddiriedolwyr oeddynt:—Thomas Evans, Waunfawr; Hugh Williams; Robert Jones; Parch. Thomas Charles; John Evans, Bala. Yn nghofnodau cymdeithasfa a gynaliwyd yn y Bala yn y fl. 1787, y cawn hyn:—Talwyd i glirio capel Waunfawr £5. Fe wel y darllenydd wrth yr hyn a ddywedwyd nad yw capel y Waunfawr ond diweddarach na llawer o gapelau Gwynedd, er fod achos Methodistaidd yn yr ardal yn fuan ar ol dyfodiad Howel Harris gyntaf i'r wlad.

Wedi cael capel yn y lle, caed merch i Thomas Griffith, yr hen bregethwr, i ofalu am y pregethwyr a ddeuai yno o bryd i bryd. Bu y fenyw hon yn gwasanaethu yn ffyddlawn a diwyd yn hyn o ran, a thros ei thymhor. Ac mor gymeradwy ydoedd ei gweinyddiaeth, nes y byddai dyeithriaid yn anelu eu teithiau i fod yn y Waun y nos. Yr oedd ei brawd Dafydd hefyd, trwy ei gwinniaeth, a'i farddoniaeth yn peri at-dyniad chwanegol i'r lle. Sonir am un tro, pan ydoedd Dafydd Morris, Twrgwyn, yno, yr hwn oedd nodedig yn anad neb a welwyd erioed, mae'n debyg, yn mhulpudau y Methodistiaid, o ran ei dewdra a'i gorpholaeth, ddarfod iddo ofyn i'r bardd gyfansoddi pennill iddo, cyn ymadael. Daeth yr amser, pa fodd bynag, i'r pregethwr fyned i ffordd, ac a aeth ar gefn ei anifail, pryd y gofynodd eilwaith am benill, a chafodd un, megys yn ddifyfyr, dyma fe:—

Am Dafydd Morris, yr wyf fi'n syn,
  Nid oes (mae hyn yn rhyfedd),
Berffeithiach Cristion mewn un plwy'
  Yn cario mwy o lygredd;
Ar fyr ehed ei enaid ef
  Yn iach i'r nef fendigaid,
A'i gorff a fydd yn ngwaelod bedd
  Ddanteithiol wledd i bryfaid.

Dylid crybwyll yma mai mab i Thomas Evans, Waunfawr, oedd Evan Evans; gŵr ieuainc o'r fath fwyaf gobeithiol o ran talentau gweinidogaethol. Llewyrchodd yn ddysglaer iawn am dymhor byr, ond buan y symudwyd ef o'r eglwys obry i'r un orfoleddus fry. Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo, ac ewyllysgar oedd niferi mawrion i aros yn ei oleuni, ond ni roddwyd iddynt. Daliodd afiechyd ef yn ieuanc, a symudodd am feddyginiaeth i fro Llanidloes, lle y dybenodd ei weinidogaeth a'i oes. Machludodd ei haul ef cyn cyrhaedd o hono ganol-ddydd oes cyffredin, er mawr alar i'r rhai a'i hadwaenent. Fe fu yma amryw o flaenoriaid * ffyddlawn ac effro, y rhai y

* Yn mysg y rhai boreuaf o'r blaenoriaid, enwir William Hughes, Glyn-afon; William Parry, Gwastad-faes; Thomas Jones, Gwridog; Humphrey Thomas, Hafod-oleu; Evan Griffiths, Bryn-yr-eithin; Henry Thomas, Crydd; Dafydd Jones, Pen-y-cae; John Hughes, Tŷ'n-twll; a Morgan Owen, Tŷ'n-cae-newydd.

mae eu coffa yn barchus a bendigedig hyd heddyw. Dechreuodd yr ysgol Sabbothol yma yn y fl. 1791. Y prif offerynau yn ei sefydliad oedd y rhag-grybwylledig Evan Evans, a John Prichard, yr hwn a fu yn aelod gyda'r Methodistiaid am 60 ml. Gellir edrych ar y Waunfawr fel mamaeth Methodistiaeth Caernarfon, Salem, Rhyd-ddu, a Drws-y-coed. Dywedai Thomas Evans am Gaernarfon, nad oedd neb yn y dref a roddai iddo gwpanaid o ddwfr oer, fel pregethwr. Yr oedd y dref y pryd hwnw, fel yr oedd llawer o'r trefydd, yn garedig yn erbyn yr efengyl, ïe, am amser maith ar ol iddo osod ei throed i lawr, a chael gorphwysdra yn y gymydogaeth gerllaw.

### CLYNOG.

Mae bro Clynog yn un o hen wersyllfaoedd y Methodistiaid, ac yn ddosbarth o wlad y mae wedi hen wreiddio ynddi. Sonia Robert Jones am ŵr eglwysig, o'r enw y Parch. Richard Nanney, yr hwn oedd yn ficar y plwyf, ac yn ddyn rhagorol. Yr oedd yn byw yn y Farchwen, ac yn ŵr hynaws a thirion. Rhagorai yn ei weinidogaeth ar bawb ymron o'i frodyr urddasol yn yr holl wlad. Yr oedd, meddant, wedi ymddyosg mor llwyr oddiwrth y byd a'i ofalon, fel nad adwaenai ei anifeiliaid ei hun, oddieithr yr un a farchogai. Fe ymddengys, er hyn, ei fod wedi parhau i lafurio dros dymhor maith heb nemawr lwyddiant, ond tua diwedd ei oes ymddangosodd megys goleuni yn yr hwyr. Coronwyd ei weinidogaeth ag arddeliadmawr; diferodd fel y gwlaw ar ddaear grâs, a phrofid hi fel olew a gwin yn archollion eneidiau trallodedig. Parodd hyn at-dyniad a sugn rhyfeddol i wrando arno, a chyrchai lluaws mawr o ddynion o'r wlad o amgylch, nes oedd eglwys fawr Clynog, yr hon sydd fel eglwys gadeiriol o faintioli, yn hanner llawn o wrandawyr astud a thoddedig. Gan ei henaint a'i lesgedd, yr oedd yn yn rhaid ei gynorthwyo i'r pulpud. Ar ol pregethu, eisteddai yn y pulpud i aros i'r gynulleidfa ganu salm neu hymn, a mynych, medd yr hanes, y byddai tywalltiadau o orfoledd yr iachawdwriaeth yn gorlenwi llawer o'r gwrandawyr, a'r adeilad fawr a ddadseiniai yn hyfryd gan haleluia i Dduw a'r Oen.

Mae yr ysgrif sydd o fy mlaen, gan breswylydd parchus yn y plwyf, yn dadgan, yn chwanegol at yr hyn a ddywed Robert Jones am dano, mai wrth wrando ar y Methodistiaid y cyrhaeddodd y gair galon Mr. Nanney. Os felly, y mae yn profi yn amlwg fod pregethu gan y Methodistiaid yn y lle hwn er yn foreu ar y diwygiad. Bu farw y Parch. Richard Nanney yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau, pan ydoedd dros 80 ml. oed. Ar y dechreu, a thros ryw dymhor wed'yn, nid oedd neb a dderbyniai bregethu i'w dŷ, ond cynelid y moddion achlysurol ar yr heol, yn yr awyr agored. Yr oedd effeithiau grymus anarferol, er hyny, yn cydgerdded â'r weinidogaeth y pryd hwn, nes byddai amryw yn tori allan i waeddi am eu bywyd, wedi eu dwysbigo yn eu calonau. Yr oedd y fath olygfa y pryd hwnw, yn amgylchiad dyeithr iawn, y fath na allai y bobl gyffredin ei ddeall, a thybient yn ddilâi, fod y cyfryw rai wedi gwallgofi: ac o dan y syniad hwn aent yn awr ac eilwaith i ymofyn am reffynau i rwymo y gwallgofiaid.

Ond os oedd y gair yn effeithio mor rymus ac iachusol ar rai, yr oedd eraill yn ymgaledu. Yn nghyfrif Whitfield gynt, nid oedd pregeth o nemawr o werth, oni byddai rhai o'r gwrandawyr yn bendithio ac eraill yn melldithio. Dyoddefodd rhai o'r pregethwyr cyntaf luaws mawr o helbulon, ac yn eu mysg yr oedd Lewis Evan, Llanllugan, yr hwn oedd un o'r pregethwyr boreaf yn Ngwynedd.* Pan oedd y gŵr hwn yn cynyg pregethu yn Nghlynog, daeth boneddwr ag oedd yn byw yn y plwyf ato, ac a roes ddyrnod iddo â choes ei chwip, nes oedd ei waed yn llifo. Ond prin y cyrhaeddodd y gŵr mawr ei gartref nad oedd ei gydwybod yn ei aflonyddu yn ofnadwy, ac ni allai lai nag anfon ei was ar ffrwst yn ol i'r pentref, i ofyn yn nghylch helynt y pregethwr. Ond pa faint bynag oedd pigiadau ei gydwybod o herwydd ei ymddygiad annynol at ddyn cyfiawnach nag ef ei hun, ni welwyd un arwydd yn y canlyniad, o wir edifeirwch arno, eithr parhaodd yn ddyn amlwg annuwiol tra fu byw, a bu farw mewn modd disymwth ac arswydus, ar lawr ei dŷ, yn ysglyfaeth, fel yr ymddengys, i anwydau gwylltion, ac wrth geisio troedio ei forwyn.

Yn fynych iawn, pan fyddai gweision yr Arglwydd mewn enbydrwydd gyda'i achos, fel yr oedd Lewis Evan, ar hyn o bryd, fe gynhyrfid rhyw un, a hyny, yn aml, heb ei ddysgwyl, i roddi nodded iddynt. Fe wnaed hyn y tro hwn. Nid oes wybod i ba raddau mor bell yr aethai y boneddwr yn ei greulondeb a'i wylltineb, yn baeddu y cynghorwr tlawd, oni bai i ŵr o'r enw Robert Prys, o'r Felin-faseg, sefyll drosto, fel na chafodd y pregethwr ail ddyrnod. Fefu yr un gŵr yn noddwr i weision yr Arglwydd amryw droau ar ol hyn.

Yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol y pregethu achlysurol hwn ar yr heol, fe gafodd gŵr o'r enw Hugh Griffith, neu Hugh Griffith Hughes, fel y'i gelwid, ar ei feddwl i roddi lle i arch yr Arglwydd. Dilledydd ydoedd o ran ei grefft, ac yn byw yn y Foel, tua dwy filldir o'r pentref. Ond nid hir y bu y seibiant hwn, oblegyd codwyd Hugh Griffith, o'r Foel, ac allan o'i dŷ gan ei feistr tir, am iddo dderbyn pregethu; a bu yr achos drachefn, dros ryw dymhor, heb un lle i roi ei droed i lawr. Yn yr amgylchiad hwn, cafodd gŵr ag oedd yn byw ar ei dir ei hun, ar ei feddwl adeiladu tŷ ar ei dir, a'i osod i grefyddwr i fyw ynddo. Enw yr uchelwr a wnaeth y gymwynas hon oedd Hugh Evans o'r Berthddu. Nid oes lle i feddwl fod y gŵr hwn, ar y dechreu, yn adnabod yr efengyl, nac wedi profi ei dylanwad ar ei galon; a phaham y mynai ddangos y caredigrwydd hwn i achos a ddirmygid gymaint gan wreng a boneddig, nis gwyddom; gyda y gwyddom hefyd, fod calonau pawb yn llaw Duw, i'w tueddu, ïe, yn ddiarwybod iddynt eu hunain, i fod yn offerynau i ddwyn ei amcanion gogoneddus i ben. Enw y crefyddwr a gymerodd y Berthddu-bach, fel y gelwid y tŷ newydd, oedd Dafydd Prisiart Dafydd; ac yn y tŷ hwn y bu yr efengyl yn cael lloches dros ryw ysbaid.

Yr oedd Hugh Evans, er ei dynerwch at y Methodistiaid, yn ymhoffi yn

* Gwel ei hanes, tudal. 123, Cyf. I.

fawr mewn canu a dawnsio, a phob difyrwch cnawdol o'r fath. Yr oedd yn berchen crwth neu *ffidil*, ac yn chwareuydd campus arni, ac ato ef yr ymdyrai lluaws o'i gymydogion diofal yn fynych, ar ddechreu-nos i ymddifyru mewn dawns a phleser. Dygwyddodd fod pregeth yn y Berthddu-bach, ar ryw noswaith, pryd y penderfynodd y cwmni llawen hyn, am y tro, roi heibio eu difyrwch, a myned i wrando y bregeth. Gwelodd Duw yn dda goroni y weinidogaeth y pryd hwnw ag awdurdod mawr, fel ag i gyrhaedd cydwybodau amryw o'r gwrandawyr, ac yn eu mysg yr oedd Hugh Evans, y pen campwr ei hun. Aeth adref o'r bregeth, a dywedodd wrth ei wraig, yn un o'r pethau cyntaf, "Mi doraf y *ffidil* yn ddarnau mân!"

"Na; gresyn!" meddai y wraig, "peidiwch ei dryllio, fe fydd yn dda gan Wil Evan ei chael."

"Nage," ebe yntau, "ni wna ond y drwg iddo yntau." Yna ymaflodd yn yr offeryn, ac a ddechreuodd ei churo yn erbyn hen gist ystyfflog oedd yn ei ymyl, nes oedd yn chwilfriw mân ar hyd y llawr. Un arall o'r gwrandawyr oedd hoff iawn o ymladd ceiliogod; yntau a ddywedodd mai y peth cyntaf a wnai, ar ol cyrhaedd gartref, fyddai tori pen y ceiliog; ac felly y gwnaeth. Yn y modd yma y dangosent eu hymddial, dan rym argyhoeddiad, ar yr hyn a fuasai yn fagl ac yn dramgwydd iddynt o'r blaen, a'u penderfyniad na chae fod felly byth mwy.

Yn y Berthddu-bach y cynalient eu cyfarfodydd eglwysig; ond mawr y rhagfarn oedd yn y fro yn erbyn y cyfarfodydd hyn yn anad dim rhai eraill. Rhaid oedd i'r aelodau ymlithro iddynt mor ddirgelaidd ag y gallent; gan lechu yn fynych yn nghysgod y gwrychoedd, rhag eu canfod gan eu herlidwyr, fel pe buasent yn ddrwg-weithredwyr erchyll, ac ofn arnynt gael eu dàl. Nid yn hir ar ol adeiladu y Berthddu, agorodd drws arall i dderbyn pregethu, sef Tŷ'n-lôn, lle tua dwy filldir o'r pentref, a cherllaw y lle y mae yr hen gapel yn awr yn sefyll.

Tra bu yr achos yn y ddau le crybwylledig, cymerodd adfywiad grymus le, yn enwedig yn mhlith y plant. Ar yr adeg hon, torai allan yn waeddi ac yn orfoleddu yn eu plith; deuent allan o Dŷ'n-lôn, ac arweinid hwy tua chartref, tra byddent yn moliannu ar hyd y ffordd. Dygwyddodd unwaith fod ficer y plwyf, yr hwn nid oedd o'r un ysbryd a'i ragflaenor Mr. Nanney, yn dychwelyd adref i'r Gwynfryn, ar ei geffyl, ar ol cyflawni y gwasanaeth, a chwip fawr yn ei law, fel gŵr yn dychwelyd o hela; pan ddaeth i'r fan a chlywed y plant yn gwaeddi, ei ysbryd a gynhyrfwyd ynddo, a'r olynwr apostolaidd (?) a ddechreuodd chwipio y plant mewn nwydau cyffrous, gan eu gorchymyn i dewi. Ond i'w gwaredu, daeth Robert Prys, y gŵr a amddiffynasai Lewis Evans rhag y gŵr boneddig, allan o'i dŷ, ac a ymaflodd yn mhen y ceffyl, gan ddywedyd wrth y ficer, "Dyma'r ffordd i'r Gwynfryn, Syr. 'Pe tawai y rhai hyn fe lefarai y cerig yn y fan.'" Nid gwiw oedd tynu yn groes, ac nid oedd bellach gan y ficer ond cyfeirio ei lwybr tua thref, rhag y dygwyddai iddo yr hyn a fyddai gwaeth.

Tua'r fl. 1759 y bu hyn. Yr oedd Hugh Griffith y dilledydd, yr hwn y

soniasom am dano o'r blaen, a'r hwn a drowyd allan o'i dŷ am dderbyn pregethu iddo, yn byw bellach mewn tyddyn a elwid Tŷ'n-y-coed. Yr oedd gwên rhagluniaeth yn amlwg arno, a'r Arglwydd a'i llwyddasai yn ngwaith ei ddwylaw, nes y daeth yn alluog, erbyn hyn, i brynu tyddyn iddo ei hun. Ei enw ydyw Bryscyni-isaf. Mor ebrwydd ag y daeth yn feddiant iddo, anrhegodd yr achos crefyddol â hanner erw o dir i adeiladu capel arno, yn rhad ac am byth. Anhawdd iawn yn aml, y pryd hwnw, oedd cael tir i adeiladu capel arno, gan fod perchenogion tiroedd, y rhan amlaf o lawer, yn gosod eu hwynebau yn benderfynol yn erbyn y crefyddwyr newyddion hyn. Eto dyma ŵr tlawd, trwy ddiwydrwydd gyda'i grefft, yn alluog, nid yn unig i roddi llain o dir i adeiladu addoldy arno, ond hefyd i bwrcasu tyddyn yn feddiant iddo ei hun.

Wedi cael y tir yn y dull annysgwyliadwy hwn, aed yn mlaen i ddechreu adeiladu. Yr oedd hwn, drachefn, yn orchwyl pwysig a gorchestol i nifer bychan o bobl dlodion, a phrin y gwyddent pa fodd i ymosod arno. Pwy a geid i godi y cerig, ac i'w cludo i'w lle? Yn mha le y ceid arian i dalu i'r crefftwyr am eu gwaith? Pa fodd bynag, cychwynodd gŵr o'r enw Robert Siôn Evan i ymofyn am gerig, a dywedir iddo fod yn tirio, wrtho ei hunan, am ysbaid tair wythnos, mewn chwarel gerllaw. Hen ŵr arall o'r enw Owen Hughes a roes fenthyg y càr-llusg, a'i ferlyn bychan, i'w llusgo at yr adeilad; a geneth fechan iddo, deg oed, oedd yr un a dywysai y merlyn. Daeth yr eneth fechan hon yn mhen amser i fod yn hynod mewn gras a defnyddioldeb. Bu yn aelod gyda'r Methodistiaid am 77 o flynyddoedd, ac yn ystod y tymhor maith hwn tynodd ei chŵys mor union, fel na fu achos gweinyddu un cerydd arni dros yr holl amser hwnw. Cyfrifai yn anrhydedd fawr iddi gael gweini yn rhyw fodd i achos y Cyfryngwr; a chrybwyllai yn ei hen ddyddiau yn aml, am y fraint a gawsai yn ei mebyd, o gynorthwyo i ddwyn yn mlaen deml i'r Arglwydd yn y lle, ïe, yr addoldy cyntaf,* neu y cyntaf ond un, yn sir Gaernarfon.

Heblaw rhyw nifer bychan o ddynion ffyddlon a roddent eu llafur, nid oedd ond pedwar o wŷr i fyned tan y baich o adeiladu, sef, Hugh Griffith, rhoddwr y tir; Morris Marc, Llangele; Robert William, Tan-yr-allt; a Robert Prys, Melin-faeseg. Wedi ei adeiladu, aeth dau o honynt allan i gasglu hyny a allent gael tuag at ei adeiladu. Yn mysg manau eraill, galwasant yn y Plas-newydd, gerllaw Glynllifon,† lle yr oedd amaethwr cyfrifol, o'r enw Ellis Hughes. Yr oedd y gŵr hwn yn eglwyswr tyn, ac yn ddyn annhebyg iawn i estyn un math o gymhorth i'r crefyddwyr dirmygedig hyn. Eto anturiasant osod eu cwyn o'i flaen, ac yn y fan y deallodd eu neges, bytheiriodd bob math o achwynion yn eu herbyn, gan eu cyhuddo o fod yn dwyllwyr; ac yn llwyr fwyta tai gwragedd gweddwon, ac mewn rhith yn hir weddio,

* Dywed Robert Jones mai hwn oedd y capel cyntaf yn sir Gaernarfon, ond mae o flaen fy llygaid, yn awr, lyfr o gofnodau y gymdeithasfa yn dadgan fod un capel, sef capel Tŷ-mawr, Bryncroes, wedi ei godi tuag 8 ml. o flaen yr amser y dywedir i gapel Clynog gael ei godi. Hwnw yn y fl. 1752, hwn yn y fl. 1760.

† Palas Arglwydd Newborough.

gan ddibrisio hen sefydliadau eu gwlad. Ond nid oedd y cenadau yn cyffroi wrth iddo eu cyhuddo o'r fath droseddau, nac yn cilio yn ol yn ebrwydd mewn llwfrdra, ond safasant eu tir, gan ymresymu ag ef o'r Beibl, yr hwn a ddygwyd i'r bwrdd ar yr achlysur; ac ymresymu y buont o ganol dydd hyd nes oedd ymron yn nos. Ymddengys, pa fodd bynag, er canmoliaeth i synwyr yr eglwyswr, neu i ddoethineb y crefyddwyr, neu i bob un o'r ddau, fod rhagfarn y gŵr yn llai ar ymadawiad yr ymwelwyr nag oedd ar eu dyfodiad, gan y cawsant anrheg o *gini* ganddo yn y diwedd.

Buwyd yn cynal moddion yn y Tŷ-newydd, fel y gelwid y capel ar y dechreu, am ysbaid pedair blynedd, heb ryw ymweliadau grymus ynddynt. Ond tua'r fl. 1765, torodd adfywiad allan, ond nid oes dim o hanes yr adfywiad hwn ond ei fod. Cafwyd adfywiad cyffelyb drachefn tua'r fl. 1779. Dechreuodd hwn mewn cyfarfod gweddio a gynaliwyd ar aelwyd tŷ y capel. Ar yr achlysur hwn disgynodd y fath ddylanwadau ar y rhai ag oedd yn bresenol, na anghofiwyd mo'nynt tros eu hoes. Y Sabboth canlynol yr oedd Richard Dafydd, o Leyn, yn pregethu yno. Nid oedd y gŵr hwn, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn meddu ar nemawr o ddawn a medrusrwydd gweinidogaethol, eto coronid ef yn achlysurol ag arddeliad anarferol. Felly y bu y tro hwn. Gwisgwyd ef â nerth o'r uchelder. Yr oedd yr hen ŵr dan y fath ddylanwadau nerthol, nes oedd ei eiriau fel gwreichion tanllyd yn disgyn ar y gynulleidfa, fel nad oedd modd eu gwrthsefyll. Yr oedd nerth cenllif aruthrol yn y weinidogaeth, a than ei grymusder yr oedd llawer mewn dychryn a braw yn gwaeddi am eu bywyd. Daeth 15 i ymofyn am ymgeledd ac aelodaeth eglwysig yn y cyfarfod cyntaf a gaed i hyny, a lluaws mawr ar ol hyny, dros ryw dymhor. Oddiar yr amgylchiad hynod uchod y bu galw Richard Dafydd yn *Rowlands o Glynog*, gan awgrymu ei fod, ar y pryd hwnw, yn pregethu yn llawer tebycach i Rowlands o Langeitho, nag i hen gynghorwr bychan o Leyn. Nid oes i ni feddwl fod y cyffro hwn yn ngwersyll y Methodistiaid yn ddisylw gan eu gwrthwynebwyr, ond nid oedd nemawr i'w cael, er hyny, yn ddigon eofn i ymosod arnynt; safai rhai yn syn fel rhai yn ymofyn beth allai y pethau hyn fod; eraill a droent draw, gan eu dirmygu yn eu calon. Fe gaed un, pa fodd bynag, a anturiodd yn mhellach, a hwnw oedd ficer y plwyf. Daeth hwn ryw Sabboth i mewn i'r capel, dan waeddi yn gethin, "Pa beth yw y swn drwg sydd yma, o bryd i bryd?" Yna, gan ymaflyd yn y pen meinaf i'r chwip oedd ganddo, gwnai ei ffordd tuag at y pregethwr, i'w fflangellu â'r chwip. Ond nis caniatawyd hyny iddo, oblegid ymaflodd gŵr o'r enw William Parry, yr hwn oedd yn byw yn y Mynachdy, yn yr offeiriad, gan roi ar ddeall iddo na chai gyffwrdd â'r pregethwr ar ei berygl.

Ond er fod yr achos crefyddol, yn y modd yma, yn raddol yn ymwreiddio yn ddyfnach yn serchiadau y bobl, a'i ddeiliaid yn lluosogi o bryd i bryd, eto nid oedd llawer o'i ddylanwad wedi cyrhaedd y werin yn gyffredin. Yr oedd anniweirdeb y fro yn uchel a brigog. Y Sabbothau yn cael eu halogi gan ieuenctyd yn ymdyru at eu gilydd, i gyflawni campau ffol a chwareuon ofer, heb neb yn "meddwl am eu diwedd." Ond nid oedd yr ychydig

grefyddwyr ddim yn segur, gan eiddigeddu dros lesâd ysbrydol y werin ddi-ofal. Esgorodd eu hawyddfryd ar foddion anarferol y pryd hwnw, sef agor ysgol nos i ddysgu i'r ieuenctyd ddarllen y Beibl. Nid oes genym nemawr o hanes y wedd oedd ar y cyfarfodydd hyn. Gallwn yn hawdd ddirnad fod eu deiliaid ar y cyntaf o leiaf yn anwaraidd iawn, a'u hathrawon, ond odid, yn rhai trwsgl ac anghyfarwydd ddigon, eto yr oedd eu hamcan yn gywir, a bendithiodd yr Arglwydd eu llafur. Ar ddiwedd un o'r cyfarfodydd hyn, ac ar ol i un o'r brodyr weddio, fe roddwyd allan benill i ganu, a hwn oedd y pennill—

Fel fflamau angherddol o dân,
Yw cariad fy anwylyd o hyd,
Fe losgodd bob rhwystrau o'i flaen,
Fe yfodd o'r afon i gyd;
Ymaflodd mewn dyn ar y llawr,
Fe'i dygodd â'r Duwdod yn un!
Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr,
Fe'i llanwodd â'i haeddiant ei hun.

Wedi rhoi y pennill allan, ni chaed neb yn mysg yr hen bobl i daro y dôn arno, er iddynt oll geisio at hyny. Ar hyn cynygiodd un o'r bobl ieuainc wneyd y diffyg i fyny, a llwyddodd. Parodd hyn awyddfryd yn y rhai ieuainc i'w gynorthwyo, nes oedd y canu, ar hyn o bryd, yn fwy grymus nag arferol. Cafwyd blas ar y gân, ac ar y geiriau; a chwanegwyd eu canu drosodd a throsodd, am gryn dymhor. Yn mhen enyd, torodd rhyw rai allan i lefain, a cherddodd yr un teimlad trwy y gynulleidfa, nes aeth pawb, yn hen ac ieuainc, i waeddi. Clybuwyd y swn o'r tai nesaf, a'u preswylwyr a ddaethant i mewn i edrych pa beth a allai fod yr achos; ond gan gynted ag y deuent i mewn, disgynai arnynt hwythau deimladau cyffelyb; parodd hyn i rai ofni myned i mewn, ond rhedasant yn ol i fynegu y newydd i dai eu cymydogion. Yr oedd, bellach, yn tynu tua chanol nos;—dywedent fod rhyw beth rhyfedd iawn yn y capel: cododd hyn fwy o gyffro fyth, a phawb a'r a allai a adawsant eu tai ac a aethant tua'r capel, a meddiannwyd hwy gan yr un ysbryd. Aeth un hen ŵr yno wrth ei ffon, a chan rym y cynhyrfiad, cipiwyd ef i'r un agwedd, a dechreuodd foliannu â'i holl egni, er nad oedd dim difrifol wedi bod ar ei feddwl erioed o'r blaen. Erbyn hyn, yr oedd tuag un o'r gloch y boreu, a'r capel yn llawn braw a chyffro, y fath na welsid yn yr ardal hon y cyffelyb.

Cyfrifid yr adfywiad hwn yn un o'r rhai grymusaf, a chwanegwyd at y gymdeithas eglwysig tua 80 o aelodau. Yr oedd hyn yn y fl. 1793. Yr oedd yr achos Methodistaidd wedi dechreu yn wanaidd yn y fro er ys mwy na 40 mlynedd cyn hyn, ond fe dderbyniodd yn yr amgylchiad hwn fwy o ysgogiad yn mlaen, megys mewn un noson, a hyny trwy foddion annhebygol iawn, nag a gawsai o'r blaen am ysbaid deugain mlynedd a mwy. Pa gyfrif bynag a ddyry neb o'r peth hwn, a llawer o wahanol syniadau, ond odid, a lochesir am dano, y mae y ffaith yr un; a'r ffaith hòno yw hyn:—Fod

teimladau toddedig a chyffrous wedi disgyn ar ryw nifer o bobl, hen ac ieuainc, wrth ganu pennill; a bod y teimladau hyn wedi cerdded o galon i galon, nes cyffro yr holl ardal, fod nifer mawr o bobl ddiofal y fro wedi eu cynhyrfu, ac yn y diwedd fod eu rhagfarn yn cael ei orchfygu, ac iddynt gael eu hennill i ymuno â'r bobl a ddirmygasent o'r blaen; a bod tua 80 o aelodau wedi eu chwanegu at y gymdeithas eglwysig.

Cafodd yr achos y fath ysgogiad a chynydd trwy yr adfywiad hwn, nes aeth y capel a adeiladasid yn y fl. 1760 yn rhy gyfyng, a helaethwyd ef yn y fl. 1796. Bellach, dechreuodd yr achos ymledaenu, ac estyn ei wreiddiau. Yn fuan wedi helaethu y capel, dechreuwyd pregethu tua'r Hen-derfyn-deu-blwyf. Bu pregethu yn y lle hwn dros flynyddau lawer; ond o'r diwedd codwyd capel Bryneurau; ac yn fuan wedi hyn chwalwyd yr hen gapel drachefn, a gwnaed yr un sydd yno yn awr. Adeiladwyd hwn yn y flwyddyn 1811.

Ymwelodd yr Arglwydd â'r ardal hon yn fuan ar ol adeiladu y capel y tro diweddaf hwn, mewn modd tra rhyfedd, ac i raddau tra helaeth. Yr oedd hyn tua'r fl. 1812. Dechreuodd yr adfywiad hwn mewn modd lled ddyeithr a disylw. Yr oedd yr ysgol Sabbothol, erbyn hyn, wedi dechreu ennill ei lle yn serchiadau y bobl, yn enwedig y bobl ieuainc, y rhai a arferent yn awr ac eilwaith adrodd pennodau o'r Beibl ar g'oedd y gynulleidfa. Y pryd hwnw, yr oedd newydd-deb yr arferiad, a dull effeithiol rhai yn adrodd pennodau, yn llenwi mynwesau y gwrandawyr â theimladau bywiog a chyffrous. Felly yr oedd yn Nghlynog. Yr oedd yma ferch ieuanc yn arfer tori allan yn fynych i waeddi yn yr oedfaon, ond yn lled wanaidd. Arferai hefyd, gyda chyfeilles iddi, adrodd pennodau ar g'oedd. Un tro pan yn gwneyd hyn, ymddangosai y geiriau, wrth iddi eu hadrodd, yn effeithio yn ddwys ar y ferch ieuanc arall, nes i hono hefyd, wedi ei llwyr orchfygu, dori allan i lefain. Bellach, yr oedd y ddwy yn tori allan i lefain yn fynych yn y moddion, ond nid oedd neb ond y ddwy. Cyhoeddwyd y byddai Robert Dafydd, Brynengan, a William Roberts, Clynog, yn pregethu gyda'u gilydd yno ar ryw amser penodol. Yr amser a ddaeth. Pregethodd William Roberts yn gyntaf oddiar Luc ix. 62, "Nid oes neb a'r sydd yn rhoi ei law ar yr aradr, ac yn edrych ar y pethau sydd o'i ol, yn gymhwys i deyrnas Dduw." Ond cyn iddo orphen pregethu, disgynodd dylanwadau mor rymus ar y bobl, nes aeth y rhan fwyaf o honynt i waeddi, eraill i wylo, a phawb a ddaliwyd a syndod. Nid anghofir y tro hwn byth gan y rhai a'i gwelodd. Ni roddwyd cyfleusdra i'r hen batriarch Robert Dafydd roddi gair i mewn. Safai yn y pulpud yn syn, gan grafu ei ben a dyrysu ei wallt, â'i ddwylaw, yn ol ei arfer;—rhoddai arwyddion fod ei lestr yntau yn orlawn, a'i fod yn barod i dori allan i waeddi â'i holl egni. Teimlid yn gyffredinol fod Duw yn y lle! Yr oedd dynion fel pe daliesid hwy â gwŷs oddiwrth orsedd y nef. Disgynai arnynt bryder a braw am eu hachos gyda Dduw, y fath na wyddent ddim am dano o'r blaen. Yr oedd y galon wedi ei phigo,—yr ystyriaeth wedi ei ddeffroi,—a'r gydwybod yn teimlo bys Duw yn ei chyffroi. Hawdd ydyw i ddynion wrth ddarllen

yr hanes, betruso am natur yr oruchwyliaeth, ond nid oedd yr un ci yn medru cyfarth ar y pryd. Teimlai pawb oedd yn bresenol yn rhy wylaidd i ymddadleu yn ei gylch, gan eu bod yn gwbl argyhoeddedig, fel Jacob am Bethel, fod "Duw yn y lle!"

Dygodd yr adfywiad hwn eilwaith effeithiau grymus ar yr achos, trwy chwanegiad helaeth at y dysgyblion, a thrwy ddarostyngiad hen arferion yn yr ardal, y rhai a ddaliesid i fyny er's oesoedd, a'r rhai na fynasai y trigolion, mewn un modd, eu gollwng yn wirfoddol i lawr. Chwanegwyd, y tro hwn, tua 100 o rifedi at yr aelodau, ac nid oedd bellach ond ychydig o dai yn y gymydogaeth nad oedd allor i'r Arglwydd ynddynt. Darostyngwyd hefyd yr ymgynulliad a elwid Gwylmabsant, yr hon a gynelid gyda rhwysg mawr yn y pentref er cyn cof. Ymgasglai cannoedd, os nad miloedd, ar ddydd Llun y Sulgwyn, i gampio, meddwi, ac ymgecru; a phrin y buasai un gyfraith, pe gwnaethid un i'r dyben, yn ddigon grymus i fwrw yr ŵyl wttresol hon i lawr, eto diflanodd o flaen y diwygiad hwn, megys heb orchest, fel y diflana tarth y boreu o flaen gwres yr haul: "diflanodd," meddai fy ngohebydd, "mor llwyr, nes y gwelais y pentref mor lân oddiwrth ddim cynulliad y diwrnod hwnw, mwy na diwrnod arall, ac ni chododd byth mo'i ben ond yn wanaidd iawn."

Bu adfywiadau eraill yn Nghlynog, mwy diweddar na'r rhai uchod;—un yn y fl. 1818, ac arall yn y fl. 1833. Yr oedd yr achos yn ymeangu mewn canlyniad i'r adfywiadau hyn. Ar ol y cyntaf o'r ddau olaf a enwyd, y codwyd capel Bryn-derwyn, a chapel Sïon. Codwyd yn ddiweddarach gapel yn mhentref Clynog, ac un arall yn mhen ucha'r plwyf. Felly, o'r dyrnaid bychan dysgyblion yn y Berth-ddu, wele yn awr chwech o gapelau! a'r achos gwanaidd, nad oedd iddo, ar y dechreu, ond prin ganiatâd i roddi ei droed i lawr, gan erlidwyr, yn awr wedi llwyr orchfygu y preswylwyr, ac wedi meddiannu yr holl fro!

---

# PENNOD IV.

## EGLWYSI BOREAF Y SIR.

CYNWYSIAD:—

LLANLLYFNI—Y BUARTHAU—CYMDEITHASFA YN LLANLLYFNI YN Y FL. 1769—PREGETHWYR LLANLLYFNI—PREGETHU YN FFRIDD-BALA-DEULYN—NANT, NANTLLE, A THALSARN—PREGETHU YN SAETHON-BACH—ARGYHOEDDIAD HYNOD—ADFYWIAD NODEDIG—NEFYN—PREGETHU YN CAE-RHYG—ARFERION LLYGREDIG—PWLLHELI—MICHAEL ROBERTS.

### LLANLLYFNI.

Er mai yn Lleyn y dechreuodd Methodistiaeth ymwreiddio, eto ni bu rhanau eraill o'r wlad yn hir heb brofi gradd o'i ddylanwad. Crybwyllwyd eisoes fod capel wedi ei adeiladu yn mhlwyf Clynog mor foreu, medd rhai, a'r fl. 1750, yr hwn oedd y cyntaf, neu y cyntaf ond un, a godwyd yn holl sir Gaernarfon; ac ar y pryd y codwyd y capel hwn, nid oedd pregethu gan y Methodistiaid ond

mewn ychydig o leoedd yn rhandir Arfon. Yr oedd pregethu yn y Waunfawr, a Llanberis, a'r Berthddu; ond heblaw hyny y mae yn ansicr a oedd pregethu yn un man arall, o Frynengan i Gonwy, oddieithr y gallai fod ambell oedfa yn achlysurol. Mae Llanllyfni hefyd yn cael ei ystyried yn hen sefyllfa Fethodistaidd, ac yn ardal ag oedd, cyn i ddylanwad yr efengyl ei darostwng, yn nodedig am ei hannuwioldeb. Yr oedd gweithfaoedd llechau *(slates)* a chopr gerllaw, ac fel y bydd yn fynych mewn ardaloedd o'r fath, yr oedd y manteision gwladol hyn yn achlysuro mwy o annuwioldeb. Yr oedd anwybodaeth yn gordôi yr holl fro, fel niwlen dew, ac ni ddywedai neb, "Pa le y mae Duw yr hwn a'm gwnaeth i?" eithr pawb oedd yn myned i'w ffordd ei hun, gan ddilyn tueddiadau ei natur lygredig. Meddwdod, llwon, halogiad y Sabboth, ymladd ceiliogod, a champau ofer eraill, a ffynent yn mhob man, a hyny yn ddiwarafun. Ar nos Sadyrnau, ymgasglai y bobl yn lluoedd i'r pentref i yfed diodydd meddwol, ac yno yr arosai llawer o honynt hyd y boreu, yn meddwi ac yn ymladd â'u gilydd.

Yr oedd yma amryw o faesydd neu dwmpathau penodol, lle y byddai ugeiniau yn ymgasglu ar y Sabbothau i gyflawni pob math o chwareuon. Y rhan fwyaf crefyddol o honynt a aent i eglwys y plwyf y boreu Sabboth, ac at y campau y prydnawn. Ond yn nghanol yr annuwioldeb trwch hwn, dygwyddodd i ŵr o'r enw William Williams glywed fod y Methodistiaid, ar amserau, yn dyfod i le yn mhlwyf Clynog, a elwir y Berthddu, i bregethu, a chododd blys arno i fyned i'w gwrando. Rhoddwyd cyfle iddo, ar ryw brydnawn Sabboth, i dori ei flys; a myned a wnaeth; ac efe, meddir, oedd y cyntaf o blwyf Llanllyfni a fu yn gwrando neb o'r pengryniaid. Ymddengys, pa fodd bynag, ei fod wedi cael cymaint o flas yn yr oedfa hon, ag a'i tueddai i fyned drachefn, a pha amlaf y gwrandawai, mwyaf oll oedd ei syched. Aeth wedi hyny yn achlysurol i amryw fanau eraill i'w gwrando, gan ddenu ryw rai o'i gymydogion i fyned gyflag ef. Bu y moddion hyn yn fendithiol i'w ddychwelyd ef, a thri o wŷr eraill, oddiwrth eu hofer ymarweddiad, yr hon a gawsent trwy draddodiad y tadau, ac i'w gwneuthur yn flaenffrwyth yr efengyl yn mro eu genedigaeth. Enw y tri eraill oedd, William Dafydd, William Jones, a William Roberts. Ychwanegwyd atynt yn fuan chwaer William Williams, yr hon, ar ol hyn, a fu yn wraig i'r Parch. John Roberts, Llanllyfni, y pryd hwnw, a Llangwm yn ei flynyddoedd olaf. Ai y dynion hyn i'r gymdeithas eglwysig a gynelid yn y Berthddu, oblegid nid oedd eto bregethu yn Llanllyfni. Aent hefyd i wrando ar y Sabbothau i ba le bynag y clywent fod pregethu; ac nid anfynych y gorfodid iddynt fyned i eithaf Lleyn, dros 20 milldir o ffordd, cyn cael oedfa; ond digŵyn iawn oedd hyny ganddynt, gan y graddau helaeth o fwynhad a brofent yn y moddion.

Tua'r fl. 1763, meddir, y dechreuodd pregethu yn Llanllyfni. Ar y cyntaf, cynelid yr oedfaon yn agos i'r Buarthau, lle y daeth William Williams ar ol hyny i fyw. Ni oddefid derbyn pregethu i'r tŷ gan berchenog y tir, yr hwn oedd y pryd hwnw yn byw yno. Yr oedd pob tŷ arall yn nghauad yn y gymydogaeth; a phe derbyniasai un neu arall o'r pedwar gŵr a enwyd y

pregethu i'w dŷ, rhaid a fuasai iddo ymbarotoi i ymadael â'i anedd oblegid hyny; dan yr amgylchiadau hyn yr oeddid yn pregethu, weithiau ar fin y ffordd, weithiau mewn cŵr o faes, a phryd arall mewn hen dŷ gwag oedd yn agos i'r Buarthau.

Yn y fl. 1766, priododd William Williams ferch grefyddol iawn, o'r enw Catherine Pritchard, o blwyf Clynog. Yr oedd y wraig hon wedi ymuno â'r Methodistiaid er y fl. 1756, ac yn wraig hynod am ei chariad at yr efengyl, a'i hymroddiad i'w gwasanaethu hyd eithaf ei gallu. Fe fu y wraig hon dros ryw ysbaid yn Nhrefeca er mwyn cael gwrando gweinidogaeth Howel Harris. Ac yn ddiweddarach, hi gyrchai yn fynych i Langeitho i'r gymdeithasfa flynyddol yno, a bychan ganddi oedd cerdded 10 neu 15 milldir o ffordd i wrando pregethau ar foreu Sabboth. Cerddai yn gyffredin i Glynog, ac oddiyno i'r Tŷ-mawr, Bryncroes, i wrando y dyeithriaid a ddeuent yn achlysurol drwy y wlad.

Wedi priodi, aeth i fyw gyda'i gŵr i'r Buarthau. Erbyn hyn, yr oedd perchenog y tyddyn hwnw yn fwy boddhaol, ac yn llochi tynerach meddwl am y Methodistiaid nag a wnaethai gynt; a chaniatawyd iddynt ddwyn y pregethu i'r Buarthau. Yma hefyd, bellach, yr ymgynullai y gymdeithas eglwysig. Nid oedd y gymdeithas hon ond bechan iawn—pedwar mab a dwy ferch; ond er lleied eu nifer, ac er mor ddirmygus gan y byd tywyll o'u hamgylch, yr oeddynt yn etholedig gan Dduw a gwerthfawr, ac yn dra hoff o'u gilydd. Fe ddywedir mai y Catherine Prichard uchod oedd y gyntaf yn sir Gaernarfon, a brofodd y fath hwyl ar ei hysbryd, nes *neidio* mewn gorfoledd. Yr oedd awelon cryfion wedi disgyn amrywiol weithiau, mewn gwahanol fanau, nes byddai y gwrandawyr yn llefain neu yn moliannu; ond hon oedd y gyntaf a *neidiodd*. Wrth wrando pregeth yn y Berthddu y bu hyn, a meddyliodd llawer o'r gwrandawyr mai cyrch gorwyllt o anmhwylledd ydoedd yn ddiau, ac o dan y syniad hwn ymaflodd rhyw un ynddi i'w dal. "Na ddeliwch fi," ebe hithau, "'canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist, oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un ag sydd yn credu,' a minau a'i profais felly." Cerddodd y son yn gyflym trwy'r fro hòno, fod dynes yn mhlwyf Clynog wedi myned allan o'i synwyrau, wrth wrando ar y Methodistiaid yn pregethu.

Wedi dyfod i'r Buarthau i fyw, bu hi a'i gŵr yn garedig iawn at achos yr efengyl dros dymhor maith o flynyddoedd, nid llai na deng mlynedd a deugain, gan gymeryd y draul ymron yn gwbl ar eu hysgwyddau eu hunain.

Ni a soniasom o'r blaen fod cymdeithasfa wedi cael ei chynal yn Llanllyfni, tua'r fl. 1769, ar y maes gerllaw pentref Llanllyfni.* Yr oedd y cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn ddefnyddiol iawn, y pryd hwnw, i dynu sylw y wlad at yr achos crefyddol—i roddi mantais i lawer i wrando na fynent, gan rym rhagfarn, ar un cyfrif, i neb eu gweled mewn pregeth, a gynelid mewn tŷ neu gapel; ac i symud ymaith y syniadau gau a dderbyniasid gan lawer trwy

* Gwel tudal. 382 o'r Gyf. I.

roddi clust i chwedlau celwyddog. Ond wedi clywed y pregethwyr eu hunain, a chael prawf na thraddodid ganddynt ond yr hyn oedd bwysig a da, lliniarai eu rhagfarn, a darfyddai eu gwrthwynebiad. Nid oedd y cyfarfodydd hyn, ar y dechreu, ond bychain iawn, mewn cymhariaeth i'r hyn ydynt yn awr, ond yr oeddynt yn fynych yn dra effeithiol, yn yr arddeliad a roddid arnynt, ac yn y gogoniant dwyfol â pha un y'u prydferthid.

Yn mhen blwyddyn neu ddwy ar ol y gymdeithasfa hon, lluosogodd y gwrandawyr gymaint, fel y bu raid ymofyn am le eangach; ac yn y fl. 1771, adeiladwyd capel ar dir y Buarthau; a mawr, meddir, oedd y cablu ar y crefyddwyr gan drigolion yr ardal, am ei wneuthur mor fawr, a sicrheid yn hyf a hyderus, na cheid byth ddigon o bobl i'w lenwi. A pha beth oedd ei faintioli? Wyth llath o hyd, wrth chwech o led! Nid mwy na chegin llawer amaethdy!

Fe fu yma, fel mewn manau eraill yn y sir, amryw adfywiadau ar grefydd, mwy neu lai eu grym, a gwasanaethodd y cwbl i chwyddo, nid rhestrau Methodistiaeth yr ardal yn unig, ond nifer saint y Goruchaf hefyd. Dechreuodd yr ysgol Sabbothol ei llafur yn yr ardal hon yn y fl. 1796. Yr oedd hon yn fechan iawn ar ei chychwyniad. Anhawdd iawn oedd cael neb yn foddlawn i fod yn athrawon ynddi. Rhaid oedd gosod math o orfodaeth ar ryw nifer, pawb yn eu cylch, i gymeryd y baich hwn arnynt. Ni cheid neb, y pryd hwnw, a edrychai ar y gwaith o addysgu plant ar y Sabboth yn amgen na llafur caled, i'r hwn yr ymostyngent oddiar fath o orfod. Eto, er hyn oll, hi a lwyddodd yn rhyfeddol. Ymgasglodd yr ieuenctyd iddi, yn lle i'r twmpathau chwareu. Ciliodd llawer o'r anwybodaeth a orchuddiai y wlad, trwy helaethach cydnabyddiaeth â'r ysgrythyrau; gwelodd y crefyddwyr yn fuan ei llesoldeb, ac ennillwyd hwy i roddi eu hysgwyddau dani gydag ymroddiad llwyr a siriol, gan edrych ar y gwasanaeth bellach, nid fel iau drom, ond fel rhagorfraint oruchel.

Yn fuan wedi dechreu cynal cyfarfodydd eglwysig yn yr ardal, cafodd Catherine Jones, mam y Parch. John Roberts, Llangwm, ar ei meddwl i ymuno â'r ychydig Fethodistiaid yn y Buarthau. Yr oedd ei gŵr, Robert Thomas, ar y llaw arall, yn dra amddifad o grefydd, ïe, yn dra gwrthwynebol iddi. Dywedir ei fod yn ei ieuenctyd yn ddyn gwyllt, cryf, ac ymladdgar; a chan rym ei elyniaeth at grefydd, ymddygai yn adgas at ei wraig, a bygythiai niwaid i'r cynghorwyr. Hysbyswyd iddo, gan ryw un, bod oedfa i fod ar ryw foreu Sabboth mewn lle a elwid Pencoed, yn Eifionydd, a phenderfynodd Robert fyned yno, nid i wrando ond i aflonyddu yr addoliad; ac efallai i niweidio y pregethwr; ac nid oedd un sicrwydd, gan leied o feddiant oedd ganddo arno ei hun, pan mewn cyffro digofus, nad allai fod yn euog o lofruddiaeth. Cyn cychwyn i ffordd, rhoes ar ddeall i'w wraig ei fod yn bwriadu myned i Bencoed, ac i ba ddyben. Hysbysodd iddi ei fod ar fedr dysgu gwers ddigon chwerw i'r twyllwr, a ddeuai ar draws y wlad i gamarwain ac i dwyllo dynion diniweid.

Yn yr ysbryd hwn, ac ar y bwriad gwaedlyd yma yr aeth ef i ffordd; a

chan adnabyddiaeth y wraig o dymher anhawddgar ei gŵr, ofnai yn fawr am y pregethwr, rhag y byddai iddo gael niwaid dwys, neu yn wir ei ladd. Parhaodd y wraig yn yr anesmwythder hwn trwy y dydd; a mynych yr âi hi allan i ysbïo a fyddai Robert yn dod yn ol. Dychwelodd i'r tŷ lawer gwaith yn siomedig ac yn bryderus, a'i hofnau yn trymhau bob tro: o'r diwedd hi a'i canfu ef o bell yn dyfod, a phrysurodd i'w gyfarfod. Pan ddaeth ato, deallodd ei fod yn ymddangos yn fwy dwys a difrifol nag y byddai yn arfer, yr hyn a barodd iddi ofni mwy, ei fod wedi tynu drwg yn ei ben, trwy niweidio neu ladd y pregethwr; a gofynodd iddo yn brysur iawn, "Robert bach, a wnaethoch chwi ryw niwaid i'r dyn dyeithr?"

"Na wnes i," ebe yntau, "ac nid o'm bodd i y caiff neb arall wneyd niwaid iddo?"

Deallodd y wraig yn bur fuan fod ei gweddiau wedi cael atebiad; bod daioni yr efengyl wedi gorchfygu drygioni ei gŵr; ac y byddai, bellach, yn gynorthwy, ac nid yn rhwystr iddi yn ffordd y bywyd. Ymunodd yn fuan ar ol hyn â'r gymdeithas eglwysig yn y Buarthau, a daeth arwyddion i'r golwg ei fod, bellach, gymaint ei bryder a'i awyddfryd am lesâd ysbrydol ei deulu, ag oedd ei ddiofalwch blaenorol. Codwyd addoliad teuluaidd yn ei dŷ, ac yn mhen ychydig, dechreuodd ymosod at y gwaith angenrheidiol o ddysgu ei blant i ddarllen. Yr oedd hyn yn fwy angenrheidiol o gymaint a bod ei deulu yn lluosog. Cadwai fath o ysgol gyda'i blant lluosog ar nosweithiau yr wythnos, ac ar y Sabbothau; a dyledus ydyw Cymru, hyd heddyw, i Robert Thomas, am y llafur hwn o'r eiddo, gan y bu yn foddion i wasanaethu ei ran er parotoi y ddau frawd, John a Robert Roberts, i weinidogaeth yr efengyl;—gwŷr hefyd a fu yn uchel am y gwasanaeth a wnaethant i'w cenedl, ac i'w brodyr y Methodistiaid.

Ac nid hyn oedd yr unig wasanaeth a wnaeth R. Thomas a'i wraig i grefydd, ond agorasant eu tŷ, sef Ffridd-bala-deulyn, i dderbyn pregethu iddo. Tua'r fl. 1768 y bu hyn, a pharhaodd y pregethu yn nhŷ Robert Thomas am 52 o flynyddoedd. "Bum yn y tŷ yn ddiweddar," medd fy hysbysydd, "mewn cyfarfod gweddio. Sylwais ar yr hen bulpud, ac ar yr hen ganwyllbren cymalog yn y pared. Yr hen bregethwyr a ddeuent yma i bregethu yn y tymhor boreuaf, oeddynt John Jones, Tŷ-gwyn; Robert Owen, Bryn-y-gadfa; Griffith Jones, Ynys-y-Pandy; Thomas Evans, Waunfawr; a William Dafydd, Llanllyfni."

Cododd yn yr eglwys hon, yn Llanllyfni, amryw o bregethwyr rhagorol ar ol William Dafydd, sef John Roberts, Robert Roberts, a Michael Roberts, am y rhai y bydd yn weddus dywedyd gair eto. Mae yr achos Methodistaidd yn Llanllyfni wedi ymledaenu llawer er y fl. 1763, pryd y dechreuwyd pregethu yma. Pan gychwynwyd cymdeithas eglwysig yma, nid oedd o aelodau ynddi ond chwech o bersonau; ond yn awr y mae chwech o *gynulleidfaoedd* blodeuog; sef Llanllyfni, Bryn-'rodyn, Bwlan, Rhos-y-tryfan, Talsarn, a Charmel. Ar y dechreu, rhy anhawdd ydoedd cael tŷ anedd i dderbyn pregethu ynddo, ond yn awr y mae dau gapel yn Llanllyfni, ac un yn mhob un

o'r manau eraill. Y mae genym sail hefyd, ni a obeithiwn, nid i lawenychu yn amledd ein capelau, ac yn lluosogrwydd ein heglwysi, am yr eangiad sydd ar ein cyfundeb, ond yn hytrach o lawer, am y seiliau sydd genym i gredu, fod yma nifer mawr iawn, o'r dechreuad hyd yn awr, "wedi credu, ac wedi troi at yr Arglwydd."

Nid oes genym hanes cyflawn am William Dafydd, y pregethwr cyntaf a gododd yn y lle hwn. Nid yw yn hysbys yn mha flwyddyn y dechreuodd, ac nid oes dim o amgylchiadau ei oes ef ar gael, o leiaf ni ddaeth dim o'r fath dan sylw yr ysgrifenydd. Dywedir ei fod yn ŵr doniol a dichlynaidd iawn, nodedig o barchus yn ei gymydogaeth a'i wlad. Ei ddull o bregethu oedd fyr a melys iawn. Yr oedd yn ŵr tirion, hynaws o dymher, a mwynaidd ei gyfeillach, a hynod o hoff o blant. "Ennillasai air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun." Yr oedd yn llwyr ymroddi o galon i wasanaethu ei Arglwydd Crist, ac i wneuthur lles i'w gyd-ddynion.

Am rai blynyddoedd cyn gorphen ei daith, yr oedd yn afiach a musgrell iawn. Rhaid oedd cael ystôl neu gadair i'w gynorthwyo i ddringo ar gefn y ceffyl, ac yn mhell cyn ei ddiwedd, byddid yn ei gario o le i le, ac yn ei gynorthwyo i esgyn i'r pulpud. Yn raddol aeth mor afiach, na allai symud o'i dŷ, eto, pregethai yn fynych yno, gan gyfarch y gynulleidfa o'i eistedd ar fwrdd, am na allai, bellach, sefyll ar ei draed.

"Treuliodd ei ddyddiau," meddai Robert Jones, "yn dra chyfeillgar a siriol yn mysg ei frodyr; teithiodd hyd y gallodd ar hyd y gwledydd i bregethu yr efengyl: yr oedd ei ymddygiad yn synwyrol ac addas, yr hyn oedd yn tueddu y cyffredinolrwydd i'w garu a'i fawr barchu." Ymddengys mai yr hyn oedd yn hynodi William Dafydd oedd hynawsedd ei ysbryd, ac iraidd-dra ei weinidogaeth. Agos oedd at ei frodyr, a magwriaethol iawn i bregethwyr ieuainc. Gallwn feddwl fod ganddo lygad craff, a sylw manwl ar ddynion ieuainc crefyddol ei amser a'i wlad, oblegid fe ddywedir iddo ddarogan am bedwar o ddynion ieuainc, adnabyddus iddo, y byddent yn weinidogion yr efengyl, cyn i'r un o honynt ddechreu. Y rhai y cyfeiriai atynt oeddynt y Peirch. John Elias; Richard Jones, Wern; Evan Evans, Waunfawr; a John Parry, diweddar o Gaer. Daeth tri o honynt yn dra adnabyddus i Fethodistiaid eu hoes, ond Evan Evans a fu farw yn ieuainc, ac yn fuan ar ol dechreu pregethu; ond nid cyn iddo roddi argoelion nad oedd ef ddim yn ol i'r un o'r tri eraill mewn doniau gweinidogaethol.

Yr oedd rhyw gymaint o ragfarn o blaid eglwys Loegr yn nawseiddio yr hen Fethodistiaid, er adgased yr ymddygai yr offeiriaid tuag atynt. Teimlent anhawsder i ymddyosg yn llwyr oddiwrth eu hen syniadau, ac i droi cefn yn llwyr ar eu hen arferion, yn enwedig gan yr ymwrthodai eu llywyddion ag enw ymneillduwyr. Nid ydym yn cael fod nemawr o ddylanwad barn yn hyn, ond mwy o lawer o ddylanwad dygiad i fyny; yr hwn ddylanwad a laciodd yn raddol yn ei rym, fel y daeth barn ac ystyriaeth i weithrediad. Yn yr hanesyn canlynol, rhoddir i ni ddrych i ganfod ansawdd y pleidiau hyn tuag at eu gilydd yn Llanllyfni, ar ddechreuad y diwygiad Methodistaidd.

Arferai yr hen Fethodistiaid, medd yr hanes, ddangos gradd o warogaeth i eglwys y plwyf, gan nad mor annheilwng y cyfrifid y gweinidog, yn enwedig ar ryw adegau neillduol, megys dydd ympryd neu y cyffelyb. Ar ddydd ympryd, deuent yn foreu i'r capel, tua naw o'r gloch; wedi i'r moddion ddybenu, aent yn gryno o'r capel i eglwys y plwyf; ac o'r eglwys aent yn ol i'r capel. Dygwyddodd, pa fodd bynag, ar un o'r dyddiau hyn, iddynt fyned i'r llan o'r capel, i'r gwasanaeth boreol, gan fwriadu dychwelyd i'r capel yn ol fel arferol; ond y gŵr eglwysig, ar ol darfod gwasanaeth y boreu, a darllen y gweddiau a berthynai i'r achlysur, a ddywedodd wrth y gynulleidfa, gan fod yn eu plith bobl o bell, yr âi efe rhagddo i ddarllen gwasanaeth y gosber iddynt. Deallwyd, yn bur fuan, mai ystryw y gŵr urddasol oedd hwn, i ddyrysu y moddion prydnawn yn y capel, a than y syniad hwn, cymerodd un gŵr, mwy ei sel dros y capel na chyffredin, o'r enw Owen Morris, ei *het*, ac a aeth allan o'r llan, a dylynwyd ei esampl gan yr holl gynulleidfa yn ddioed, gan adael y person i ddarllen y gosber iddo ei hun. Archolledig iawn, fel y gellid meddwl, oedd teimladau y gŵr eglwysig, o herwydd y sarhad hwn. Yr oedd pechod Owen Morris, yn anad neb, gan mai efe a gymerodd y blaen yn yr ysgogiad, yn anfaddeuol. Rhaid, gan hyny, oedd rhoddi ar ddeall iddo na ddyoddefid mo'r fath anfri ar ei law. Anfonwyd gwŷs iddo dranoeth i ymddangos o flaen y person, i sefyll ei brawf, ac i roddi cyfrif am ei gamymddygiad. Ufuddhaodd Owen yn ddibetrus a diofn i'r wŷs, ac ymddangosodd yn wrol o'i flaen. Y gŵr urddasol a'i bygythiai yn dost, gan sicrhau fod ei fai yn galw am ddirwy trwm, os nad hefyd am ysgymundod, a'i fod yn penderfynu rhoddi y gosb yn gyflawn arno, oni syrthiai ar ei liniau o'i flaen, a gofyn yn ostyngedig iddo am faddeuant. I hyn yr atebodd Owen Morris yn gryf, y byddai ef yn arfer gofyn maddeuant ar law y Duw mawr, am bechu yn ei erbyn ef, ond "am fyned ar fy ngliniau," ebe fe, "o'ch blaen chwi, Syr, a gofyn eich maddeuant, nid oes yn fy mryd i wneyd dim o'r fath beth; a mwy na hyny, Syr, yr wyf yn sicrhau i chwi, os dygwydd amgylchiad cyffelyb eto, mai yr un modd yr ymddygaf finau." Gwelwyd, bellach, nad oedd obaith dychrynu y gŵr hwn â bygythion, ac mai llawn cystal a fyddai gadael i'r amgylchiad anffodus syrthio i anghof mor fuan ag y byddai modd. Yr un gŵr oedd y person hwn â'r un y soniwyd am dano o'r blaen,* fel un a fu yn ceisio aflonyddu y gymdeithasfa gyntaf a gynaliwyd yn Llanllyfni.

Dywedasom eisoes fod pregethu wedi dechreu yn y Ffridd, yr hwn a elwir Ffridd-bala-deulyn, cartref rhieni John a Robert Roberts, yn y fl. 1768. Parhaodd pregethu yn hir iawn yn y Ffridd, nid amgen na 52 o flynyddoedd. Ar y dechreu nid oedd y gwrandawyr ond ychydig o nifer, a'r tŷ yn fwy na digon i'w cynwys; ond yn mhen amser, cynyddasant yn ddirfawr, nes byddai y tŷ mor llawn, ag i ddryllio y cwpgelloedd, a'r llestri pridd, yn deilchion. Dyoddefai Catherine Siôn y cwbl yn dawel, gan fod argoelion fod pechaduriaid yn cael eu darostwng trwy yr efengyl. Yr oedd yr achos yn y lle hwn

* Gwel tudal. 382, Cyf. I.

yn dechreu sirioli tua'r amser y dechreuodd y Parch. John Elias bregethu, ac nid oes amheuaeth na fu ef yn un offeryn arbenig i ddwyn y llwyddiant hwnw rhagddo. Mae hanesyn am dano yn dyfod i'r Ffridd i bregethu, pan ydoedd yn dilyn ei alwedigaeth gyda Griffith Siôn, Ynys-y-pandy, gerllaw Penmorfa. Yr oedd i bregethu yn y Ffridd ar foreu Sabboth, a chychwynodd oddi cartref trwy Nant-y-penant, tros Fwlch-tros-bern i Gwm-tal-y-mignodd; ond fe gollodd y ffordd ar y Cwm, mewn lle anial a pheryglus. Syrthiodd arno brofedigaeth dost, gan y teimlai ei hun wedi llwyr ddyrysu, a'r nos wedi ei ddal, fel nad oedd obaith iddo ddyfod i gyfanedd hyd y boreu. Ond gofalodd rhagluniaeth am dano, yn annysgwyliadwy. Dygwyddodd gwas yr amaethdy Tal-y-mignodd fod i fyny, yn yr hafod-dŷ, yn rhoddi hwyrbryd i'r gwartheg, a goleuni ganddo mewn llusern. Canfu y pregethwr y goleuni, a phrysurodd ato; felly cyfarwyddwyd ef yn ddiogel yn ei ffordd i'r Ffridd.

Yr oedd preswylwyr y fro hon, sef nant Nantlle, yn gyffelyb o ran eu moesau a'u harferion llygredig, ag oedd trigolion Llanllyfni, oblegid cymydogion oeddynt. Yr oedd chwarelwyr y Nant, a mwnwyr Drws-y-coed, yn cyfarfod â'u gilydd, ac yn calonogi eu gilydd mewn pob rhysedd ac annuwioldeb; eto fe fu pregethu ffyddlon a dirodres yn hen dŷ y Ffridd, yn foddion i oleuo a dofi y trigolion anwar hyn. Wedi i'r achos fod yn aros yn y lle hwn, dan lawer o anfanteision, am 52 o flynyddoedd, symudwyd ef i'r ochr arall i'r Nant, i le a elwir Tal-y-sarn, yn y fl. 1821, ac adeiladwyd yno gapel; aeth hwn hefyd yn rhy fychan, a bu raid ei helaethu yn ddiweddar i gynwys y gynulleidfa luosog a ymgasglai iddo. Yn fuan ar ol adeiladu y capel cyntaf, daeth y Parch. John Jones, o Ddolyddelen i Dal-sarn i fyw, sef yn y fl. 1823, ac yma y mae yn aros hyd heddyw, a'i weinidogaeth, fel yn mhob man arall, wedi ei choroni â llwyddiant mawr. Nid oedd ond dau neu dri yn nant Nantlle yn proffesu crefydd gyda'r Methodistiaid, 80 mlynedd yn ol, ond yn y fl. 1850, yr oedd yr aelodau yn 160, ac mewn capel arall, a elwir Cesarea, yr hwn a hanodd o Dal-y-sarn, y mae tua 50 o aelodau. Gwelir yma y dull yr ymeangai Methodistiaeth yn y fro hon, yr hwn nid yw ond cynllun o'r modd yr âi rhagddo mewn parthau eraill o'r wlad, ac yn wir dros holl Gymru i gyd. Dechreuai ymwreiddio mewn un man, a hyny mewn modd eiddil iawn, a thros lawer o flynyddoedd weithiau, heb nemawr o gynydd; ond o'r diwedd, torai allan ar y llaw dde, ac ar yr aswy, gan lenwi yr holl ardaloedd cylchynol.

### SAETHON-BACH NEU GAPEL-Y-NANT.

Ymddengys fod pregethu gan y Methodistiaid wedi dechreu yn y lle hwner yn foreu ar y diwygiad, ond fel y mae yn fwyaf gresynol, nid oes ond ychydig iawn o hanes y blynyddoedd cyntaf hyny, ac nid oes neb yn fyw yn cofio dim am amgylchiadau boreol yr achos yn y fro. Mae crybwylliad fod un Mr. Williams o'r Deheudir, yn pregethu unwaith yn y lle hwn, (ni ddywedir pa Williams;—Williams, Pant-y-celyn, ond odid, neu Peter Williams,) pan y

dychwelwyd un gŵr oddiwrth ei ofer ymarweddiad mewn modd tra hynod. Yn nghanol ei bregeth, dywedai y pregethwr, meddir, fod yn y gynulleidfa ryw ddyn mawr, yr hwn yr oedd yn rhaid i'r Arglwydd wrtho, ac yr oedd yn rhaid i'r Arglwydd ei gael! Yr oedd y gynulleidfa ar y pryd yn sefyll, rhan o honi allan o flaen y tŷ, a rhan arall o fewn y tŷ. Wedi dywedyd y geiriau uchod, edrychai y pregethwr ar y bobl oedd allan, fel un a yspïai yn fanwl am y *dyn mawr* y chwiliai yr Arglwydd Iesu am dano. Yn y cyfamser yr oedd math o arswyd wedi disgyn ar yr holl ddynion mawr a chorffol ag oedd yn y lle, a phob un yn ymofyn, gyda phryder a braw yn ei fynwes ei hun, "*Ai myfi yw?*" Ond wedi i'r pregethwr edrych yn graff ar y bobl oddiallan, a methu ei gael, fe droes, gan ddweyd, fod yn rhaid mai yn y tŷ yr oedd; ac edrychai yn fanwl am dano, ond nid hir y gadawyd iddo chwilio am dano, cyn bod rhyw ddyn, a elwid Robin y Bettws, yr hwn oedd hefyd yn ddyn mwy ei gorffolaeth na'r cyffredin, yn neidio i fyny fel un wedi ei ddal, gan lefain yn groch am ei fywyd! Trwy y dull hynod hwn, fe'i daliwyd ef megys â gwŷs brenin; teimlai argyhoeddiad sicr mai efe oedd yr un yr ymofynid am dano; a chan deimlo mai ofer oedd iddo wingo yn erbyn y symbylau, efe a ymostyngodd, gan lwyr ymroddi i Grist a'i wasanaeth o hyny allan. Yr oedd y dull a ddefnyddid gan y pregethwr yn un anghyffredin; ac yn ddull na fyddai yn weddus ei gymeryd yn esampl; eto fe ddichon i fath o ysbrydoliad weddeiddio a grymuso y dull, fel ag iddo fod yn foddion, o dan fendith Duw, i sobri a chyfnewid y pechadur anystyriol.

Yr oedd math o ymweliadau hynod o eiddo Duw, mewn trugaredd neu farn, yn awr ac eilwaith yn cymeryd lle yn y dyddiau hyny, nad ydym ni, erbyn hyn, yn gwybod nemawr am eu cael. Mae yr enghraifft uchod yn arddangosiad o'r dull hynod a ddefnyddiai gras Duw er dychwelyd dynion, ond y mae yr hanesyn a ganlyn, yn enghraifft o'r ochr arall, o'r modd disymwth a ddefnyddid gan gyfiawnder Duw, i gosbi dynion rhyfygus, ac i rybuddio eraill o'u perygl hwythau.

Yr oedd yn arferiad yn mro Saethon-bach, fel mewn llawer o fanau, yn yr amser y soniasom am dano, ïe, yn wir, fel yr oedd yn mhob man, ymron, trwy Gymru oll, i'r gwŷr ieuainc, ar ol y gwasanaeth yn yr eglwys, ymdyru at eu gilydd; ac wedi dyosg eu dillad at eu crysau, ymroddi i chwareu pêl ar dalcen yr eglwys am oriau; yr hwn chwareu a ddybenai, ymron yn wastad, mewn taeru, tyngu, ac ymladd a baeddu eu gilydd. Yr oedd yn mysg y campwyr hyn, dri o ddynion yn fwy hynod na'r cyffredin, o ran anystyriaeth a drygioni, ac yn blaenori ar halogwyr y Sabboth yn y fro. Un tro, pan aethai y dynion hyn i glirio rhyw gerig ymaith, i rwyddhau eu mynediad i mewn i ffau llwynog, llithrodd darn o ddaear garegog oedd uwch eu penau arnynt, a laddodd un o honynt yn y fan; un arall a anafwyd mor drwm, fel y bu farw yn mhen ychydig o ddyddiau; y trydydd, wrth weled y trychineb a ddamweiniodd i'w gyfeillion, a ddaliwyd â'r fath arswyd a braw, ac i'r fath raddau, nes, fel Nabal, "y bu ei galon farw o'i fewn, a myned fel careg," ac yntau hefyd a fu farw. Yr oedd yr amgylchiad hwn, wedi cyfarfod â thri o

bencampwyr y fro, yn naturiol iawn yn bwrw dychryn ar eu cymdeithion, ac yn foddion i ddyrysu eu cynulliadau, ac i chwerwi eu difyrwch, i raddau mawr, o hyny allan.

Fe fu yr achos Methodistaidd, yn Saethon-bach, yn ddigon isel ei wedd am lawer o flynyddoedd, cyn adeiladu y capel, sef capel y Nant. Ond er ised oedd ei wedd, yr oedd gofal gan Ben yr eglwys am dano; ac ar amserau, fe ddisgynai Ysbryd Duw, mewn nerthoedd grymus "i gynhyrfu y dwfr," fel yr âi aml un oddiwrtho yn iach o'u pla. Tua'r fl. 1780, torodd diwygiad grymus iawn yn y lle hwn, pan yr adfywiwyd yr achos gwywedig yn rhyfeddol,—yr oedd yn fath o wanwyn hyfryd ar ol gauaf llwm. Chwanegwyd rhifedi y gwrandawyr, a nifer y dysgyblion, fel y dechreuasant siarad yn groyw, "Cyfyng yw y lle hwn i ni, dod le i ni, fel y preswyliwn." Gofynent gyda syndod, "Pwy a fagodd y rhai hyn? Wele nyni a adawsid ein hunain, o ba le y daeth y rhai hyn?" Ac nid oedd ateb gwell i'w roddi na hyn, "Wele yr Arglwydd Dduw a gyfododd ei law at y cenedloedd, a dyrchafodd ei faner at y bobloedd." Esaiah xlix, 19—22.

Daeth yr angen am addoldy yn yr ardal i wasgu yn drwm ar feddyliau y sawl a ymgynullent i Saethon-bach; canfyddid a chydnabyddid yr angen, gan frodyr iddynt, mewn manau eraill, yn enwedig yn y Capel-newydd. Mewn cyfarfodydd eglwysig yn y capel hwn, dywedai un John Williams, Saethon, na wyddai efe ddim pa beth i'w wneyd i'r ddeadell oedd yn Saethon-bach. "Y mae yn amlwg," ebe efe, "fod yr Arglwydd yn eu plith, ac yn eu llwyddo, yn barhaus; ond y mae y lle yn rhy fychan, a hwythau yn rhy dlodion i godi capel; pa beth a wneir iddynt nis gwn." Ar hyn, cyffrodd calon rhyw ŵr yno, a dywedodd, "Mi ro'f fi bum' punt, tuag iddynt gael capel." Un arall o Lanengan a gododd, gan ddywedyd, "Mi ro'f finau bum' punt." Gŵr y Saethon hefyd a ddywedodd, "Minau hefyd a ro'f bum' punt." Addawsant oll gyda'u gilydd, yn y fan, o £40 i £50. Aeth dau ŵr yn ebrwydd i ddwyn y newydd i drueiniaid y Saethon-bach, y rhai oeddynt yr un noson yn gynulledig yn eu cwrdd eglwysig. Y canlyniad a fu codi y capel a elwir yn awr Capel y Nant. Yr oedd hyn yn y fl. 1782. Yr ydym yn cael fod y gymdeithasfa wedi cynorthwyo yn y gwaith da hwn. Yn y fl. 1784, meddir, yn nghofnodau y gymdeithasfa, talwyd at gapel yn Saethon-bach, £10. 9s.; a thrachefn yn y fl. 1786, talwyd i glirio Capel Nant, £9. 19s. Gwnaed hyn o gasgliad y ddimai yn yr wythnos oddiwrth bob aelod yn y cyfundeb; ac os cymerir swm y casgliad o bob lle yn brawf o nifer yr aelodau, yr oedd nifer yr aelodau yn Saethon-bach, yn y fl. 1780, yn 26. Yn ol yr un rheol, eglwys y Pentre-uchaf, a Phen-y-caerau, oedd y rhai amlaf eu rhif, y pryd hwnw, yn holl sir Gaernarfon, oddieithr Brynengan a'r Tirbach.

Nid ydym yn cael ychwaith fod y boneddwr a biai Saethon, fel llawer o foneddwyr Cymru y pryd hwnw, wedi arwyddo dim gwrthwynebiad i'r crefyddwyr hyn. Deallwn mai yn y Deheudir yr oedd yn byw, ac er y gwyddai yn dda, fod amryw o ddeiliaid ei dir yn arfer derbyn pregethwyr i'w tai, ac

yn aelodau proffesedig yn mhlith y penau-cryniaid, eto nid oes hanes iddo ddangos un gwg tuag atynt oblegid hyny.

Nid wyf yn cael fod dim nodedig i'w grybwyll am yr achos yn Nghapel y Nant dros flynyddoedd ar ol adeiladu y capel. Ymddengys i auaf trwm ddyfod ar ol y cynhauaf toreithiog, ac y bu yr ychydig grefyddwyr ag oedd yma yn dihoeni mewn gwedd nychlyd ac isel, am dymhor maith; ac nid oes hanes am un ysgogiad neillduol ar y gwersyll, nes fod blynyddoedd wedi treiglo heibio ar ol sefydlu yr ysgol Sabbothol yn y lle, yr hyn a wnaed, mae yn debyg, tua dechreu y canrif presenol. Yr oedd y fl. 1815, bellach, ymron wedi dirwyn i fyny, a'r rhai deffro yn mysg y bobl hyn yn poeni eu heneidiau, o herwydd aneffeithioldeb pob moddion o ras, ac o herwydd parhad y gwrandawyr, a deiliaid yr ysgol Sabbothol, mewn agweddau difraw a chaled. Pan oedd pethau yn y wedd yma, meddaf, cafodd arolygwr yr ysgol ar ei feddwl, i ofyn yn daer a difrifol, i bob un a fedrai ddarllen, ymroddi i ddysgu yr "Hyfforddwr" ar dafod leferydd. Effeithiodd ei gais ef hwnt i'w ddysgwyliad; disgynodd yn benderfyniad ar ddeiliad yr ysgol i ddysgu y llyfryn hwnw; a hyn fu tros ryw dymhor yn brif destyn yr ymddyddan, ac yn brif amcan y llafur. Eto nid oedd arwyddion fod y llafur hwn yn peri pryder yn nghylch eu hachos tragwyddol yn meddyliau ieuenctyd; o leiaf, nid oedd dim neillduol, hyd yn hyn, wedi tori allan i sylw.

Yn yr haf canlynol, sef 1816, gosododd yr arolygwr, yr hwn hefyd oedd un o henuriaid yr eglwys, yr achos i lawr o flaen y gymdeithas eglwysig; gan ddywedyd ei fod yn ofni, fod yr holl ddysgu diwyd ac egniol y gauaf wedi myned heibio yn aneffeithiol; a dymunodd ar i bob brawd a chwaer yno neillduo rhyw amser penodol bob dydd, i erchi ar i'r Arglwydd ymweled â hwy trwy ei Ysbryd; ac ar fod grymusderau achubol yn cyd-gerdded â phob moddion gras yn eu plith; a dywedai hefyd, y gofynid yn y cyfarfod eglwysig nesaf i bob un a wnaeth efe hyn. Y cyfarfod nesaf a ddaeth, ac wrth ymholi â'r aelodau, fe gaed fod pawb oddigerth un, yn y lle, yn argyhoeddedig fod y peth oddiwrth yr Arglwydd; ac mai nid hir y gadewid hwy i lefain arno, heb gael atebiad i'w gweddiau. Caed allan hefyd fod yr un peth wedi dechreu gyda'r plant, a'u bod hwythau yn gweddio am yr un fendith.

Fe ymddengys fod yr oedfa gyhoeddus yn cael ei chynal yn gyffredin am ddau o'r gloch, prydnawn Sabboth, a'r ysgol yn yr hwyr, o leiaf dros dymhor y gauaf. Yr oedd y drefn hon yn achlysuro fod llawer iawn o blant yn aros oddeutu y capel, heb fyned adref ar ol yr oedfa ddau o'r gloch; ac fel y gellid dysgwyl, nid bychan fyddai yr annhrefn yn eu mysg bob Sabboth. Dygwyddodd, pa fodd bynag, tua dechreu y gauaf fod un o'r bechgyn, a fuasai cynddrwg a neb o'i gyfoedion, yn arfer, bellach, ymneillduo oddiwrth y lleill, a chloi arno ei hun yn llofft y capel, gan gynted yr âi y gynulleidfa allan o'r bregeth y prydnawn. Fe wnai hyn, fel yr ymddangosodd yn ol llaw, am fod halogi y Sabboth wedi myned yn boenus iddo; ac am yr hoffai, bellach, gael llonyddwch oddiwrth y dyhiriaid eraill. Yr oedd y bachgen hwn yn gloff, ac ni allai, o herwydd hyny, fyned adref a dychwel-

yd mewn pryd i'r ysgol, gan fod iddo ffordd bell. Nid llawer o Sabbothau y bu ef wrtho ei hun yn y llofft, cyn i'w gyfoedion ddeall hyny; ac os oedd eu twrf a'u terfysg yn fawr o'r blaen, yr oedd, bellach, yn llawer mwy, gan eu cais i fyned ato trwy y ffenestri, neu trwy ryw foddion eraill. Caniatawyd, pa fodd bynag, i ryw rai ddyfod ato; yn gyntaf, cafodd genethig fechan hyn trwy ei thaerineb, a chan addaw yn sier na flinai hi mo'no,—gollyngwyd dau eraill i mewn yn mhen Sabboth neu ddau, ar yr un ammodau. Bellach, taer erfyniai eraill am gael derbyniad, a gollyngwyd cryn nifer i mewn, o un i un, ar eu gwaith yn addaw yn sier na roddent ddim poen i neb. Nid oedd neb oddiallan yn cael gwybod pa beth oedd yn myned yn mlaen oddifewn, ond yr oedd y mwynhad a'r lles a dderbynid, gan y rhai a dderbyniasid i fewn, yn eu cylymu yn dŷn wrth eu cynulliad, ac ni fynent er dim ei golli. Yn raddol, gan faint eu hawydd, penderfynasant ddyfod at eu gilydd ryw noswaith, ganol yr wythnos, mewn rhyw lechwedd eithinog a dyrys yn y gymydogaeth;—lle adnabyddus iddynt, fel llanerch ddirgel a neillduedig iawn, lle na welid ac na chlywid hwy gan neb. A pha beth oedd y gorchwyl cuddiedig a gyflawnid gan yr ieuenctyd hyn? Beth hefyd, ond gweddio o ddifrif am yr un peth ag y gweddiai yr hen bobl ar gyhoedd am dano. Dechreuodd y cyrddau gweddio hyn ar y pryd y cafodd yr enethig ganiatâd i fyned at y bachgen cloff i lofft y capel; ac ymddengys fod mesur o'r un ysbrydoliad yn disgyn ar bob un ar ei ddyfodiad atynt.

Yr oedd ysbryd gweddi yn amlwg wedi meddiannu y crefyddwyr, ac arferai amryw o honynt weddio trwy gydol y nos. Sonir yn neillduol am un wraig weddw, merch i un o'r Methodistiaid boreaf yn Lleyn, Robert Owen, Lônfudr;—a sicrheir y byddai y wraig hon am nosweithiau lawer yn ymdrechu â Duw mewn gweddi, yn ei hachos ei hun, ei theulu, a'i chymydogion. Yr oedd ganddi fachgen afradlawn a gwyllt iawn, yr hwn a adawsai ei fro ei hun, ac a aethai i Fon i wasanaethu. Nid oedd y weddw yn clywed dim oddiwrtho ond yn anfynych iawn, a hyny trwy iddi ymholi â rhai eraill. Nid oedd ei fam ddim wedi ei anghofio ef, ond ymdrechai lawer â Duw drosto. Ond yn ystod ei gweddiau, deallai fod rhyw gyfnewidiad wedi cymeryd lle yn sefyllfa ei bachgen; pa gyfnewidiad nid oedd hysbys iddi; tybiai ei fod naill ai wedi marw, neu ynte wedi ei ddychwelyd at Dduw trwy ras. Daeth gweinidog o Fon i'r ardal i bregethu, yn mhen enyd, trwy yr hwn yr hysbyswyd i'r weddw, fod ei bachgen gwyllt hi wedi ei dderbyn i gymundeb eglwys Dduw, er ys hyn a hyn o amser; adeg ag oedd yn cyfateb i'r teimlad a gawsai hi yn ei gweddiau. Nid oes genyf ddim ond gosod y ffaith ger bron y darllenydd. Gwn yn dda nad yw pob teimlad a ddaw ar draws ein mynwesau ni, mewn gweddiau, mwy na phob breuddwyd a derfysga ein penau mewn cwsg, yn galw am lawer o sylw; eto fe ddichon, dan ryw amgylchiadau neillduol, y teimlwn anhawsdra tra mawr i ymddyosg oddiwrth y naill a'r llall; a thra na fydd hyny yn ein harwain i droseddu egwyddorion amlwg y Beibl, nid oes berygl ynddo. Ymddengys fod y wraig hon, er ei thlodi, yn medru

ymaflyd yn Nuw mewn modd hynod yn ei gweddiau. Ymddyddanai â'i Harglwydd, "megys wyneb yn wyneb;"—rhoddid iddi nerth gyda Duw, a gorchfygai.

Ond i ddychwelyd. Yr oedd holl afreolaeth y plant wrth y capel wedi diflanu, a gweddio wedi cymeryd ei le. Yn nechreu y fl. 1817, ymddangosai arwyddion fod y gweddiau taerion hyn wedi dyfod mewn coffadwriaeth ger bron Duw. Ymddangosai fod y weinidogaeth yn meddu mwy o awch, ac yn cerdded gyda mwy o nerth. Torodd yr herlodes ieuanc a aeth gyntaf at y bachgen cloff i'r llofft allan, i lefain ac i foliannu yn gyntaf; wedi hyny chwanegwyd pedair eraill ati. Yn mhen pymthegnos yr oedd y nifer o 15 i 20, ac nid aeth llawer o wythnosau heibio nad oedd 80, rhai o bob oed, dan gyffelyb gyffro. Bellach, yr oedd dylanwad yr adfywiad hwn yn cyrhaedd ymron bawb yn y fro. Yr oedd pob llafur a masnach wedi arafu, gan rym yr ymweliad. Yr oedd rhai, am ddyddiau a nosweithiau, heb fedru na bwyta na chysgu, gan ddwysder yr argyhoeddiadau. Ymgadwai rhai yn llwyr o bob moddion, gan ofn rhag eu dal hwythau gan gyffelyb argyhoeddiadau; eraill a aent i'r moddion i wawdio, gan dyngu y cadwent hwy yn glir oddiwrth y fath wallgofrwydd. Ond nid oedd y naill na'r llall yn ddiogel. Ar rai, fe ddisgynai y cyffro gefn nos yn eu gwelyau; ac ar rai ar hyd y ffyrdd; ac ar eraill yn y maesydd. Yr oedd y dylanwadau nerthol hyn yn cyniwair, fel y gwna haint, trwy y fro. Nid oedd neb yn ddiogel na ymosodid arno gan y clefyd *iachusol* hwn! Syrthiodd ar was Nanhoron, palas boneddwr yn y gymydogaeth, pan oedd yn glanhau y ceffylau yn y stabl. Torodd allan i waeddi mor groch, nes oedd dychryn wedi meddiannu pawb o fewn y palas, ac allan o hono. Wedi myned a'r gweddau allan i'r maes dranoeth, ymaflodd y dylanwadau yn y llanciau yno drachefn, a disgynasant ar y ddaear ar eu gliniau i ofyn am eu bywyd, ac yn yr agweddau hyn y parhausant, hyd nes gollwng y gweddau ganol dydd. Y gŵr boneddig ei hun ni ddangosodd un math o ddiystyrwch arnynt, ond yn y gwrthwyneb; mewn gair, yr oedd math o arswyd wedi meddiannu gwreng a boneddig ar y pryd, fel na feiddiai neb symud ei dafod yn eu herbyn. Yr unig deulu a ddangosodd ddygasedd at yr ymweliad, oedd teulu person Llanengan. Hwn a ddaeth at yr hen ŵr boneddig, i erchi arno droi y gwas i ffordd, ac i arfer ei holl ddylanwad i roddi terfyn ar y gorfoledd. Ond yr ateb a roes y boneddwr iddo, oedd, "Na wnaf fi; gwell genyf glywed ei fod yn gweddio, nag yn rhegu y ceffylau, fel y byddai yn arferol o wneyd." Yr oedd gwraig y person yn fwy ffyrnig nag yntau. Un noswaith, pan oedd nifer yn dychwelyd gyda eu gilydd o gapel Llanengan, heibio tŷ yr offeiriad, a rhai yn eu mysg yn llefain ac yn canmawl, methodd ganddi ymattal, ond hi a ddaeth allan, gan ymosod ar y genethod i'w curo yn ffyrnig, a pharhaodd i wneyd hyny nes cynhyrfu rhyw wraig, gref o feddwl a chorff, i ymaflyd ynddi, a rhoddi gorfod arni droi o'r ffordd. Eto, hi a'u canlynai yr ochr arall i'r clawdd, gan eu lluchio â cherig, tra y buont yn ei chyrhaedd.

## NEFYN.

Tref a phorthladd bychan yw Nefyn, ar lan ddeheuol Lleyn, o fewn tua dwy filldir i Borth-yn-Lleyn. Ymddengys fod Methodistiaeth wedi ymosod ar y lle hwn yn lled fuan ar ol ei gychwyniad yn y wlad hon; mor foreu, meddir, a'r fl. 1757. Ymddengys fod pregethu cyn hyn yn y Lon-fudr, a'r Tŷ-mawr, Tydweiliog, a manau eraill; ond nid oedd ymosod wedi bod ar Nefyn cyn y flwyddyn a nodwyd. Gallai fod gwrthwynebiad trigolion y dref hon, fel trigolion y trefydd yn gyffredin, yn fwy ffyrnig na'r eiddo preswylwyr y wlad oddi amgylch; yr hyn a barai i'r pregethwyr cyntefig ymgadw, dros ryw enyd, heb ymosod ar y dref.

Cawsom achos lawer gwaith i grybwyll y gwasanaeth a fu y gwragedd i achos yr efengyl yn Nghymru, ac wrth olrhain hanes y lle hwn hefyd, ni a gawn enghraifft ychwanegol o'r defnydd a wnaed o wraig i ddwyn moddion gras i'r lle hwn. Hawdd ydyw dychymygu pa fath ydoedd ansawdd crefydd yn llan y plwyf, wrth y driniaeth a gafodd Rowlands, Llangeitho, gan y gynulleidfa pan oedd yn ewyllysio pregethu iddynt. Yr oedd, medd yr hanes, wedi cael rhyw led addewid, y caniateid iddo gael pregethu yn eglwys Nefyn, ac aeth apostol Llangeitho yno ar y dysgwyliad hwnw; ond attaliwyd ef trwy ystryw atgas a rhyfygus. Gorchymynwyd i'r cantorion dreulio amser y bregeth, trwy ganu yr 119 Salm ar ei hyd. Dan rith canu mawl i Dduw, buont "yn oerleisio am oriau," i'r unig ddyben i attal Rowlands i bregethu. Yn hyn hefyd y llwyddasant, ac ni roddasant gyfleusdra iddo gynyg pregethu. Yn Llangeitho, yr oedd gwaith Rowlands yn cyfodi yn y pulpud yn amnaid bob amser i'r canu ddybenu, ond nid felly yr oedd yn Nefyn y tro hwn; nid oedd y cantorion wedi derbyn y cyfryw orchymyn, ond cyfoded ef fynyched ag y mynai i bregethu, parhau yr oedd y canu, ac ni bu osteg i'r pregethwr hyd nes oedd yr amser oll wedi ei dreulio. Yr oedd y lle hwn, gan hyny, yn yr un agwedd foesol a rhanau eraill o'r wlad; y bobl "yn eistedd mewn tywyllwch, ac yn mro a chysgod angau:" "nid oedd neb yn deall, na neb yn ceisio Duw." Trwy ryw foddion neu gilydd, nid yw yn hysbys pa fodd, cawsai Lowri, gwraig un Richard Arthur, flas ar wrando; ac arferai fyned i'r Lon-dywell, Llangian, saith neu wyth milldir o ffordd, i'r moddion a gynelid yno. Mor fuan ag y cafodd hi ei hunan flas ar wrando gair yr Arglwydd, hi deimlai eiddigedd yn achos ei chymydogion, ar iddynt hwythau gael yr un rhagorfraint; a chan mai rhy anhawdd oedd eu darbwyllo i fyned i ymofyn am yr efengyl lle yr ydoedd, penderfynodd geisio dwyn yr efengyl atynt hwy.

Yr oedd amaethdy o'r enw Cae-rhyg, gerllaw Nefyn; lle a berchenogid ac a breswylid gan un John William Humphrey a'i wraig. Ymddangosai y tŷ hwn yn lle dymunol i gychwyn pregethu ynddo, ar amryw gyfrifon; yn un peth, yr oedd ychydig allan o'r dref, ac felly yn llai darostyngedig i ymosodiad yr erlidwyr; yr oedd ei breswylydd hefyd yn berchenog ar ei dir, a thrwy hyny, nid oedd achos iddo ofni meistr tir; ac fe ddichon hefyd y gwyddai

gwraig Richard Arthur, fod John William, a'i wraig, yn llai eu gwrthdarawiad i'r penau-cryniaid nag eraill yn y fro. Pa fodd bynag, gofynodd y naill wraig i'r llall, a roddai hi genad i bregethu ddyfod i Gae-rhyg? gan addaw os gwneid dim sarhad, neu golled yn y tŷ, y byddai hi yn atebol am hyny. Hawdd ydyw canfod nad oedd yma ddim llai na dysgwyl erlidigaeth. Wedi ymofyn â'i gŵr, sef â John Williams, cafodd y wraig arall ganiatâd i ymofyn am oedfa i'r tŷ. Ac fel hyn y gwnaed. Nid oes son am erlid wedi bod yn y lle hwn, eithr sicrheir ddarfod i ŵr a gwraig y tŷ, yn fuan gael eu bendithio ag adnabyddiaeth brofiadol o'r efengyl, a lochesid fel hyn ganddynt; a chynaliwyd pregethu yn eu tŷ am yr ysbaid maith o 28 o flynyddoedd.

O fesur ychydig ac ychydig, fe gasglwyd cymdeithas eglwysig fechan yn y tŷ hwn; ond gan nad oedd holl ddeiliaid y tŷ yn aelodau, gwelent yr angenrheidrwydd am ystafell y gallent ymneillduo iddi, a chadw y cyfarfodydd eglwysig ynddi. Wedi ymgynghori pa fodd y dygid hyn yn mlaen, penderfynwyd codi anedd fechan yn gydiol â'r tŷ i'r dyben hwn; ac ymosododd yr aelodau at y gorchwyl yn ddioed. Nid oedd yr ystafell hon yn fawr nac yn wych. Muriau pridd oedd iddi, a thô gwellt, ac nid hir y bu yr ychydig broffeswyr oedd yn y lle, un yn dwyn ei drawst, ac arall ei wellt, cyn iddynt orphen y gwaith. Yn y tŷ yr oedd y pregethu fyth, ond yn yr ystafell neillduedig hon yr oedd y cyfarfodydd eglwysig yn cael eu cadw. Chwyddai y gynulleidfa yn achlysurol yn fwy nag a gynwysai y tŷ; agorwyd ffenestr fechan yn y mur, modd y gallai y rhan a fyddai o'r gynulleidfa allan o'r tŷ glywed y pregethwr oddimewn, yr hon ffenestr sydd i'w gweled hyd heddyw.

Fe fu yr achos yn hir yn Nghae-ryg cyn anturio i'r dref, ac yn y cyfamser, mawr oedd anwybodaeth ac ynfydrwydd y preswylwyr. Aent yn gyffredin i'r llan foreu Sabboth, ac aent i chwareu y bêl, neu ryw beth arall, o hyny hyd yr hwyr. Ar ddydd Ynyd, y meibion ieuainc a aent trwy yr holl blwyf, gan alw am geiniog oddiwrth bob merch, yr hon a alwent, "*ceiniog yr iâr*," ac os na chaent eu dymuniad, casglent hen esgyrn ceffylau, os gellid eu cael, neu gwnaent ddyn gwellt; ac ar nos calanmai newydd, rhwyment y cyfryw wrth ben y corn simne; ond os caent y geiniog, rhoddent i'r merched dusw o frigau bedw. A'r arian hyn, neu ran o honynt, hwy brynent iâr, yr hon a ymlidid yn ddidrugaredd gan blant y dref, gan ei dal i fyny gerfydd ei thraed. Yna ymgasglent i faes helaeth, a rhoddid mwgwd ar lygaid dau lanc, gan alw un yn iâr, a'r llall yn geiliog, y naill o honynt yn rhedeg ar ol y llall, gan geisio ei ddal; ac ar yr ynfydrwydd hwn yr ymdyrai cannoedd i edrych! Y gweddill o'r arian, a'r gweddill o'r dydd, a dreulid yn y dafarn. Dyma ddiniweidrwydd ein hynafiaid.

Ar Sul y Pasg, yr oedd yma gyffelyb arferiad ag oedd yn Nghonwy, am yr hon y traethasom o'r blaen.* Ar ddydd Llun y Sulgwyn, codent bawl mawr ar ei ben, gan ei sicrhau yn y ddaear, a thrawstiau croesion iddo fel bwyl-

* Gwel tudal. 57, Cyf. I.

breu llong. Gwisgent y pawl a'r trawstiau hyn â chymaint o ddillad ag a gaent, gan ei alw *polyn-haf*. O amgylch hwn y dawnsiai hen wragedd y gymydogaeth, fel ynfydion, gan ymogoneddu yn eu cywilydd. Ond y mae yr hen arferion disynwyr a llygredig hyn, er ys blynyddau wedi diflanu. Edrychid yn awr ar bwy bynag a wnai y cyfryw bethau fel rhai gwallgof; ac anhawdd a fyddai cael neb, yn ddigon isel ei chwaeth, ac yn ddigon digywilydd ei wyneb, i geisio adnewyddu y fath arferion.

Ond er maint oedd rhwysg annuwioldeb y pentref hwn, anturiodd y Methodistiaid iddo, a llwyddasant, nid yn unig i ddarostwng yr arferion gwaelion crybwylledig, ond hefyd i ledaenu gwybodaeth o Dduw, ac o drefn yr iachawdwriaeth trwy Gyfryngwr, yn mhlith cannoedd o'r trigolion. Arweiniwyd lluaws o bechaduriaid colledig at Grist, a chawsant ddiogelwch a bywyd dan ei gysgod.

Adeiladwyd y capel cyntaf yn y fl. 1785. Ail-adeiladwyd ef yn y fl. 1805. Helaethwyd ef yn y fl. 1826. Trydydd-adeiladwyd ef yn y fl. 1833. Y mae yn y lle hwn, yn awr, gynulleidfa fawr yn gwrando yr efengyl, ac eglwys luosog ei haelodau wedi ei phlanu. Magodd hefyd amryw bregethwyr nid anenwog, y rhai sydd yn aros ar y maes hyd heddyw; y rhai y mae eu gweinidogaeth wedi gwasanaethu ei rhan i lesâu y genedl; a'r rhai, os estynir iddynt oes a nerth, y bydd eu gweinidogaeth yn foddion i amaethu crefydd yn mhlith y Methodistiaid dros flynyddoedd i ddyfod.

PWLLHELI.

Mae Methodistiaeth wedi hanfodi yn hir, ac wedi ymwreiddio yn ddwfn, yn y dref hon. Ond nid oedd Pwllheli mor amddifad o foddion gras ag oedd llawer tref a chwmwd o Gymru, gan' mlynedd yn ol, gan fod yma gapel gan yr Ymneillduwyr er yn foreu, fel y soniasom eisoes; ac ni phrysurodd y pregethwyr Methodistaidd i ymosod ar Bwllheli, mor gynar a rhai lleoedd eraill yn Lleyn ac Eifionydd; fe allai oddiar ganfod nad oedd cymaint o angenrheidrwydd; pa un bynag, fe fu y dref hon 25 o flynyddoedd heb un sefydliad Methodistaidd ynddi, ar ol dyfodiad Howel Harris y tro cyntaf i'r wlad. Yr oedd yma hen ŵr yn ddiweddar yn cofio y bregeth gyntaf gan y Methodistiaid; o enau yr hwn, gan mwyaf, y cafwyd yr hysbysiadau canlynol. Tua phedair blynedd yn ol y bu ef farw, yn 97 ml. oed. Y mae yr hanes a ddyry am y bregeth gyntaf hon yn fantais arbenig i'r darllenydd gael dirnadaeth gywir am agwedd y wlad, ac anwybodaeth y trigolion, am bethau crefyddol. Y bregeth gyntaf a glywodd yr hen ŵr crybwylledig yn mhlwyf Deneio, sef y plwyf y mae y dref yn sefyll ynddo, a gynaliwyd tua'r fl. 1769, mewn lle a elwir Pentafig, o fewn llai na chwarter milldir i'r dref, o du y gogledd iddi. Nid oedd yr hen ŵr yn alluog i ddweyd enw y pregethwr, er ei fod yn cofio ddywedyd wrtho, ar y pryd, mai mab ydoedd i un o'r enw Daniel y gôf, gŵr o Rhoshirwaun, Lleyn. "Yr oedd yn ddyn hardd a golygus," meddai, "a *gown* du am dano, ac yn rhoi pregeth wrth ddyfod heibio i edrych am ei deulu yn Lleyn, o athrofa Iarlles Huntingdon, yn Nhrefeca."

Dywedir ei fod yn pregethu yn eglur, ond heb waeddi dim. Yr oedd yr olwg arno yn gall dros ben, ac oddeutu tri neu bedwar dwsin o bobl yn gwrando arno. Ymddengys na fu y bregeth hon ddim yn ddieffaith. Addefai yr hen ŵr iddo ef ei hun brofi cryn gyffroad yn ei gydwybod trwyddi, a deallai fod llawer o'r gwrandawyr eraill wedi teimlo yn gyffelyb. Ac er nad oedd yn cofio y testyn, yr oedd yn gallu adrodd rhai ymadroddion o'r bregeth, a effeithiodd ar ei feddwl, ac yn enwedig y geiriau diweddaf, sef, "Rhaid i chwi sydd yma gael iawn adnabyddiaeth o'r Duw a roes fod i chwi, yn Dduw iachawdwriaeth i chwi, neu fyned i uffern." Effeithiodd y bregeth gymaint arno, ac ar y rhan fwyaf oedd yn gwrando, fel na allasant ddilyn eu campau dros weddill y Sabboth hwnw. Ond yr oedd yno eraill, yn lle gwrando, yn chwareu *tenis* tra parhaodd y bregeth, a hyny yn yr un maes. Yr oedd dau neu dri o dai bychain, tô gwellt, mewn pantle islaw y bryn y safai y pregethwr arno, ac yn nrws un o'r tai yr oedd hen wraig yn nyddu y droell bach, o ddechreu y bregeth hyd ei diwedd; ac wedi i'r pregethwr ddystewi, hi waeddodd, "Druan oedd ei galon o!—Y mae yn gwybod wmbredd!—Ewch, bellach, i chwareu *tenis*, da chwi bobl!" Dyma wedd Pwllheli 80 ml. yn ol!

Yn mhen tair neu bedair mlynedd gwedi y tro uchod, dechreuwyd pregethu yn achlysurol mewn hen dŷ anedd, yn lled agos i Lan Deneio, yr hwn, wedi hyny, oblegid y mynych bregethu ynddo, a alwyd y *Capel Deugorn*; ac wrth yr enw hwn yr adwaenir y fan hyd heddyw. Yr oedd yn gofus gan yr hen ŵr ei fod yn gwrando ar amrai o hen bregethwyr Lleyn; ac yn mhlith eraill ar Hugh Thomas.* Dyrnwr tlawd oedd Hugh Thomas, yn gweithio yn Madryn-isaf. Arferai ddyfod yn lled aml i'r Capel deugorn ar y Sabbothau; ond nid oedd fawr hamdden i gael hyd yr hwyr; ac at yr hwyr, y rhan amlaf, y deuai y pregethwr. Weithiau, hefyd, fe ddeuai nos Sadwrn, a thamaid yn ei *boced* i'w fwyta, yr hyn a bâr i ni gasglu, nad oedd neb i'w gael, ar y pryd, yn ewyllysgar ac yn alluog i groesawu y cynghorwr. Wrth wrando Hugh Thomas y daeth yr hen ŵr (ein hysbysydd) i graffu gyntaf fod pregethwr yn arfer cymeryd testyn, a chan fod y testyn, a rhan o un bregeth, yn fwy cofus ganddo nag eraill, efe a roddai ddrych o ddull yr hen ddyrnwr tlawd yn cynghori. "Wel, fy mhobl bach i, mae y testyn yn yr unfed Salm ar ddeg; 'Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, &c.' Y mae y ffaglau a fydd ar ochrau y bryniau yna weithiau yn fawr iawn, ac yn ymddangos yn ddychrynllyd iawn. Ond beth pe gwelech chwi ffaglau † fel yna yn cael eu gwlawio, ar y byd yma? Beth a wnaech chwi, fy mhobl anwyl i?—Wel mae hi yn *siwr* o ddyfod, *Efe* a wlawia; cofiwch Duw ydyw yr Efe yma. Mi ddywedaf i chwi, hefyd, ar bwy y disgyn y ffaglau tân;—ar yr annuwiolion! Wel, pwy, meddwch chwithau, ydyw y rhei'ny? Y rhai sydd yn halogi y Sabbothau ydynt, trwy roddi eeiliogod i

* Gwel tudal. 134. † Gellid meddwl fod yr hen bregethwr yn syniad mai *ffaglau* oedd i gael eu gwlawio, ac nid *maglau*.

ymladd, a thaflu maen a throsol, a chwareu *tenis*, ac arfer tesni; cymeryd enw y Mawredd yn ofer, a mwy na mwy o bechodau hyllion eraill; a chofiwch fy mhobl i, mae yn rhaid eu gadael i gyd, ac onide, rhaid dyoddef y gafod, ïe, y gafod nad eiff hi byth yn hindda! Cofiwch hyny hefyd, nad oes dim tô ar y *byd yma*, mwy nag ar *ddistryw*, i rwystro tân Duw i lawr. Mor wir y gwlawia efe ar y byd annuwiol eto, a'i fod *wedi* gwlawio ar Sodom a Gomorah gynt. Ond os dowch chwi yn awr i adael eich pechodau, ac i addoli mewn gwir ufydd-dod a pharch i orchymynion Duw, cewch *dô aur* uwch eich penau, na ddaw na dwr na thân drwyddo yn dragywydd. Mae Duw wrth ei fodd yn maddeu i'r annuwiol, ac yn cyfarfod a'r penaf o bechaduriaid ar y *cauad aur*. Cofiwch, fy mhobl, mae'r TO AUR * rhwng y saint a melldithion y gyfraith am byth."

Y cyfryw a'r cyffelyb oedd ymadroddion yr hen ddyrnwr gonest, wrth rybuddio ei gydwladwyr tywyll a diofal. Ac er mai trwstan y trinid y gydmhariaeth, eto bendithiwyd y gwirionedd. Tywynodd goleuni tanbaid i feddyliau y gwrandawyr, nes oedd y rhan fwyaf o honynt yn gwaeddi megys am eu bywyd, a thrachefn yn neidio gan lawenydd, gan ddiolch yn felus am y *tô aur*. Fel hyn y terfynodd y cyfarfod, a'r pregethwr, yntau, a eisteddodd i fwyta ei damaid bara oedd yn ei boced, gyda llymaid o laeth wedi ei dwymno, ac adref ag ef yn llawen ei wala, heb ddim am ei draed ond ei ddwy glocsen.

Fe fu amryw o enwogion y Deheudir yn y Capel Deugorn yn pregethu, megys Daniel Rowlands; Dafydd Morris; Davies, Cynfil, &c. Hefyd, bu bardd Pant-y-celyn, a Peter Williams, yma yn y cyfwng; ond nid yn y Capel Deugorn: dewisodd y ddau hyn bregethu *yn y dref*. Felly gwnaed; ar gŵr yr heol, wrth ddrws tŷ a adnabyddir hyd heddyw wrth yr enw y *College*. Yr oedd teulu yn byw yn y tŷ hwn, er mawr syndod i'r trefedigion oll, yn ffafriol iawn i'r penau-cryniaid, ac yn dangos parodrwydd i'w croesawu.

Nid hir y buwyd, ar ol hyn, heb ddyfod i'r dref i bregethu. Yr oedd yma rai teuluoedd yn cuchio yn gethin yn erbyn dyfodiad y crefyddwyr i sefydlu achos yn y dref, ac yn dangos eu cynddaredd, yn ol eu gallu, trwy wrthwynebu. Aflwyddo, er hyny, a wnaethant, ac y mae yn destyn sylw hyd heddyw, na fu dim gwawr ar y teuluoedd hyny, nac ar eu hiliogaeth, mewn unrhyw ffordd, hyd y pryd hwn. Yr oedd yma rai, er hyny, wedi rhoddi eu bryd i wneyd eu goreu o blaid achos y Gwaredwr, gan ddiystyru pob gwaradwydd a fwrid arnynt. Yn mysg y rhai hynotaf o'r hynafiaid hyn, fe grybwyllir am ddau ŵr, John Thomas a John Roberts, y rhai a "wasanaethasant swydd diaconiaid yn dda, gan ennill iddynt eu hunain radd dda." Yr oedd i'r gwŷr hyn "barch dauddyblyg." Nid oedd John Thomas yn ymadroddwr hyawdl, eto fe'i cyfrifid yn *weddiwr anghydmharol;* a thra defnyddiol yn y gymdeithas eglwysig; ac o'r ychydig o'i gydoeswyr sydd eto yn fyw, y maent yn cwyno eu colled ar ei ol hyd heddyw.

* Gan gyfeirio, tybygid, at y drugareddfa, sef y cauad auraidd oedd i arch y dystiolaeth.

Tua'r fl. 1781 y caed addoldy yn nhref Pwllheli, a thrwy ymdrech y John Thomas uchod, yn benaf, y caed ef. Pwrcaswyd tŷ anedd mewn lle a elwid Pen-y-mount; a chyfaddaswyd ef i fod yn lle addoliad, gan ei helaethu, a rhoddi darn ato. Caed arwyddion lled amlwg, yn fuan, o bresenoldeb yr Arglwydd gyda'i drueiniaid hyn; fel y bu raid, yn mhen ugain mlynedd ar ôl parotoi y tŷ cyntaf, ei helaethu gymaint arall. Yr oedd y gymdeithas eglwysig, bellach, yn 90 o rifedi, a'r hen dŷ anedd yn rhy gyfyng i gynwys yr aelodau yn unig. Yr oedd John Roberts, yr hwn y crybwyllwyd ei enw eisoes, ac a elwid neu a adwaenid, weithiau, wrth ei enw barddonol, Siôn Lleyn, yn gydolygwr, bellach, â John Thomas. Y ddau hyn a gydwasanaethent swydd henaduriaid yn yr eglwys dros ryw gymaint o amser ar ol parotoi y tŷ anedd yn lle o addoliad; ond symudwyd John Thomas i'w orphwysfa, cyn adeiladu y tŷ newydd yn y flwyddyn 1801. Bu farw John Roberts yn y flwyddyn 1817, a chladdwyd ef yn agos i'r fan y gorphwysai gweddillion ei gydwas yn mynwent Deneio. Yr oedd Siôn Lleyn yn ŵr a berchid yn fawr; bernid ef yn un o'r rhai cryfaf ei alluoedd o neb o'i gyd-grefyddwyr; ïe, bernid ef felly gan wŷr helaeth eu gwybodaeth, a chywir eu barn.

Y mae yn deilwng o sylw fod y ddau ŵr hyn wedi gwneyd cais ar gychwyn ysgol Sabbothol ymron mor foreu a Robert Raikes ei hun, a hyny ddwy neu dair blynedd cyn i Mr. Charles ymuno â'r Methodistiaid, ac ymsefydlu yn y Bala. Yr ysgrif o fy mlaen a ddywed, "Yr oedd John Thomas wedi cychwyn yr ysgol Sabbothol *ychydig cyn y fl.* 1783, ond nid bob Sabboth; weithiau, bob yn fis; bryd arall, bob yn ail Sabboth; ond ni welodd ef ei chadw yn gyson bob Sabboth, fel yn awr, tra fu byw."

Y pryd hwnw, gan anamled yr oedfaon, a chan yr awyddfryd i'w mwynhau, fe wibiai y crefyddwyr yn mhell, yn fynych, ar y Sabbothau, i wrando pregethau; ac felly elid o eithafion Lleyn i'r dyben yma; ond yr oedd gofal yr ysgol, yn y cyfamser, i gael rhyw un i'w chadw, yn disgyn ar John Thomas a John Roberts. Parhaodd yr ysgol hon (y gyntaf, fe allai, yn Nghymru) yn y wedd yma, o ran dim a allaf gasglu, hyd nes daeth ysgolion Sabbothol yn amlach eu nifer, ac yn uwch eu bri; a rhoddwyd iddi, bellach, ffurf mwy cyson, ac ysgogiad mwy grymus ac effeithiol.

Yr oedd cadw ysgol ar y Sabboth i ddysgu dynion i ddarllen y Beibl, yn gymaint trosedd yn ngolwg yr awdurdodau eglwysaidd, ag ydoedd i leygion bregethu, a dechreuasant chwyrnu yn erbyn yr ymgais bychan yn Mhwllheli. Y newyddion am y cyfryw ysgogiadau a ddygid i glustiau y clerigwyr yn gyffredin gan y clochyddion, y rhai trwy ymgymysgu mwy â'r werin, oeddynt yn fwy cydnabyddus â mân helyntion y trigolion, a rhai, oblegid eu cyflymder a'u medrusrwydd yn sawrio eu hysglyfaeth, a elwid yn gŵn. Yr oedd clochyddion Llanor wedi ennill enwogrwydd yn y ffordd hon. Cyfarfu clochydd Llanor unwaith â Siôn Lleyn, ar heol Pwllheli, a chododd ei ddwrn yn wyneb y bardd, a dywedai, "Wel, Siôn, y mae hi wedi dod atat tithau o'r di-

wedd;—yr wyt ti yn ngafael cyfraith Bangor; y maent yno wedi clywed dy fod yn gweithio ar y Sul."

"Pa waith yw hwnw?" gofynai y prydydd.

"Dysgu plant i ddarllen," oedd yr ateb.

Ar hyn edrychai Siôn yn llym ar y prysur-ddyn diddiolch, a dywedai yn ddifyfyr:—

Taw glochydd y dwl glechor,—ag yngan
A'n angof gŵn Bangor;
Cyfarth y maen' yr cwyn môr;—
Gâd lonydd, glochydd Llanor.

Heblaw y ddau ŵr a grybwyllwyd, fe fu llawer eraill yn wasanaethgar a ffyddlawn i achos y Gwaredwr yn Mhwllheli, y rhai ni ellir, gan ddiffyg lle, wneyd un crybwylliad am danynt; ond fe fyddai yn anfaddeuol gadael enw yr hynod Michael Roberts heb sylw mwy arbenig arno.

Ganwyd y gŵr defnyddiol hwn yn mhlwyf Llanllyfni, yn y fl. 1780. Daeth i Bwllheli yn y fl. 1802, pan oedd yn 22 ml. oed. Yr oedd wedi dechreu pregethu flynyddoedd cyn hyny, fe allai bump neu chwe' blynedd. Yn fuan ar ei ddyfodiad i Bwllheli, ymaflodd yn y gorchwyl o gadw ysgol;—gorchwyl ag y buasai amrai o bregethwyr sir Gaernarfon yn nodedig o ddefnyddiol ynddo i'w cenedl a'n gwlad—gorchwyl a gymhellwyd i'w sylw trwy esamplau y dynion goreu yn y wlad, megys Robert Jones, Rhoslan, Evan Richardson, Caernarfon; a thrwy esamplau ei berthynasau agosaf yntau, sef yr eiddo John Roberts, ei dad, a Robert Roberts, ei ewythr. Llafuriodd Michael Roberts yn ddiwyd gyda'r gorchwyl anrhydeddus hwn, dros flynyddoedd, a bu yn offerynol i wneuthur llawer yn gyfarwydd, nid yn unig yn wyddorion cychwynol dysgeidiaeth, ond hefyd yn "nechreuad egwyddorion ymadroddion Duw."

Yn y fl. 1806, fe briododd; a ganwyd iddo bedwar-ar-ddeg o blant, chwech o ba rai sydd eto yn fyw. I fagu y teulu hwn, gofynid llafur a diwydrwydd mawr, gan y dibynai eu cynaliaeth ar lafur y penteulu. Profwyd ef yn llym hefyd gan gystudd corfforol, yr hwn a ymaflodd ynddo yn lled ieuanc, sef diffyg anadl *(asthma)*, ac a barhaodd i'w ddilyn, mewn rhyw ffurf neu gilydd, hyd ei farwolaeth. Ond er ei holl lafur gyda yr ysgol, a'i holl ofal gyda theulu lluosog; nid mynych y byddai ei le yn wag yn nghyfarfodydd crefyddol yr eglwys. Arferai bregethu ar y Sabbothau ar hyd y wlad, a mynych y dychwelai adref ar ddydd Llun y boreu, erbyn amser ysgol, wedi llafurio yn galed y Sabboth, ac heb fod mynyd yn ei wely drwy y nos, o herwydd diffyg anadl. Pregethai bob nos Iau yn ei gartref, hyd y goddefai ei afiechyd, heblaw yn fynych ar y Sabboth. Oddeutu y fl. 1836, newidiodd ei afiechyd ei ffurf, a pharodd fylchiad galarus yn ei weinidogaeth am ysbaid 12 mlynedd, trwy effeithio ar ei synwyrau mewn mesur helaeth; ond cyn ei symudiad o'r byd, dychwelodd ei afiechyd i'w ffurf gyntefig, a chyda hyny adferwyd yntau i feddiant o'i alluoedd, er llawenydd annhraethol i'w holl

frodyr. Cafodd gyfleusdra, yn y modd yma, fod yn bresenol mewn pedwar neu bump o gyfarfodydd misol ei wlad, ac unwaith yn nghymdeithasfa y Bala, lle y pregethasai efe gynifer o weithiau o'r blaen gyda'r fath rym a chymeradwyaeth; ac ar ol lloni ei frodyr â'i bresenoldeb yn eu cyfarfodydd, ac ail-enyn eu dysgwyliad am adnewyddiad ei weinidogaeth, o leiaf dros rai blynyddoedd, yn ddisymwth iawn iddynt hwy, fe'i cipiwyd ef oddiwrthynt, a dygwyd ef i dangnefedd.

Yr oedd y Parch. Michael Roberts yn un o bregethwyr hynotaf ei oes. Er nad oedd ei gorff ond bychan a gwanaidd, yr oedd ei lais yn dreiddgar a chlir, mwynaidd a hyfryd ei sain. Darllenasai lawer yn ei dymhor; yr oedd ei gof yn gryf, a'i ddeall yn gyflym. Nid gormod fyddai dywedyd ei fod mor gyfarwydd yn yr ysgrythyrau a neb o'i frodyr. Rhyfeddol o ddysglaer a fyddai ei esboniadau ar ranau o'r Beibl. Bernid ef, gan rai, ymron yn gydradd a'i ewythr Robert Roberts; ac o ran cyflawnder ei wybodaeth, yr oedd yn ddiau felly, ïe, yn rhagori arno. Yn y cyffredin, yr oedd rhyw swyn hyfryd yn ei weinidogaeth, ac ar achlysuron yr oedd yn angherddol. Y rhan amlaf, fe deimlai y gynulleidfa wrth ei bodd yn ei wrando, ond ar ryw amserau fe barai i holl deimladau y galon ddychlamu, fel y gwna cerddor i dànau yr offer cerdd. Rhwng dwys-ddifrifwch ei ysbryd, cywair toddedig ei lais, cywirdeb difai ei iaith, ac ardderchogrwydd ysblenydd ei ddrychfeddyliau, yr oedd yn cyrhaedd meddiant perffaith yn ei wrandawyr, a mynych y gwelid ugeiniau a channoedd yn ymdoddi yn ddagrau, neu yn ymroddi i foliannu.

Yn Mhwllheli, fe ddeuai cynifer i'w wrando ef â neb; ac amlaf y pregethai, lluosocaf y gwrandawyr. Ac er nad oedd ei sefyllfa ond isel mewn cydmhariaeth, a'i deulu yn lluosog, eto yr oedd dylanwad rhyfeddol ganddo ar ei gyd-drefedigion, ac yn mysg ei frodyr crefyddol. Yn gyfatebol i'r parch a fynwesid tuag ato, yr oedd y galar a brofid pan gollwyd ei wasanaeth yn ystod ei neillduaeth a'i ddyryswch; ac er fod y deuddeng mlynedd hyny wedi lliniaru sydynrwydd yr oruchwyliaeth, eto yr oedd y teimlad yn gryf iawn yn meddyliau y rhai henaf, y rhai a'i hadwaenent ef oreu, fod "tywysog a gŵr mawr wedi syrthio," pan y symudwyd ef gan angau. Cymerodd hyn le ar y 29ain o Ionawr, 1848, pan oedd yn 68 ml. oed. Pregethodd y Parch. John Jones, Tremadoc, yn ei anghladd, ac anfonwyd ei weddillion i fynwent Deneio, gan "y dorf luosocaf," meddir, "a welwyd gynt na chwedi, yma. Yr oedd y canu ar hyd y ffordd yn troi yn wylofain tost gan deimladau galarus y bobl, y rhai a gofient ei werth, ac a gredent na welid ei wyneb ef mwy."

Yr oedd yr addoldy a adeiladwyd yn 1801, yn ystod y blynyddoedd a ddilynodd, sef y blynyddoedd y bu y Parch. Michael Roberts yn cyfaneddu ac yn llafurio yn y dref, wedi myned yn rhy gyfyng i gynwys y gynulleidfa, a'r eglwys hefyd wedi lluosogi nes oedd yn 250 o rifedi, a bernid yn angenrheidiol i adeiladu un mwy. Yr oedd hyn yn mryd yr hen weinidog, cyn ei oddiweddyd gan ei gystudd blin, ond ni ddygwyd hyny yn gwbl i ben hyd y

fl. 1841, pryd y gorphenwyd yr adeilad presenol, yr hwn a gynwys gymaint a thri o'r hen, neu fwy. Mae y capel hwn hefyd yn cael ei lenwi â gwrandawyr, a'r gymdeithas eglwysig, er pob ymosod ac ymddifadu a fu arni, yn cynwys 316 o rifedi.

## PENNOD V.

### PARHAD O HELYNTION LLEYN AC EIFIONYDD.

CYNWYSIAD:—

ROBERT JONES, RHOSLAN, A'I AMSERAU—D. ROWLANDS YN PREGETHU YN TYDWEILIOG, A GELLIDARA—LEWIS REES YN CAEL EI ERLID YN ABERDARON—AMRYW ERLIDIGAETHAU—CYFARFOD PREGETHU YN MHEN-MORFA—CYFARFOD MISOL YN DOLYDD-BYRION—GRIFFITH SION, YNYS-Y-PANDY, A'I HELYNT—DECHREUAD A CHYNYDD METHODISTIAETH YN MEDDGELERT A'I HAMGYLCHOEDD.

NID oedd nemawr fwy nag ugain mlynedd wedi treiglo heibio oddiar doriad y wawr Fethodistiaidd, cyn i'r hybarch Robert Jones, Rhoslan, fel y'i gelwid, ac awdwr "Drych yr Amseroedd," ddyfod i'r maes i gynorthwyo y diwygiad. Cafodd hefyd oes faith, yr hon a dreuliodd yn ngwasanaeth ei Arglwydd; efe a welodd lawer o ymosodiadau ar Fethodistiaeth, mewn gwaradwydd ac erlid oddiallan, ac mewn heresiau ac ymrysonau oddimewn, yn ysbaid mwy na 60 mlynedd y bu ef ar y maes. Yn ystod y triugain mlynedd hyny y bu y llwyddiant mwyaf ar Fethodistiaeth Cymru, y dygwyd i mewn y cyfnewidiadau mwyaf, ac y cododd y nifer mwyaf o bregethwyr defnyddiol ac enwog. Gan y cyfeiriad mynych sydd yn y gwaith hwn at y llyfr a gyhoeddodd, a chan hynodrwydd yr amserau y bu ef yn oesi ynddynt, yn gystal a'i enwogrwydd ef ei hun, dyddorol, yn ddiau, a fydd gan y darllenydd gael byr olygiad ar ei oes gyhoeddus.

Ganwyd ef yn y fl. 1745, yn Suntur, plwyf Llanystyndwy, sir Gaernarfon. Ychydig o fanteision ddysgeidiaeth a gafodd, fel y rhan fwyaf o ieuenctyd ei oes, ac oni bai y gogwyddiad cryf oedd yn ei feddwl ef ei hun i gyrhaedd gwybodaeth, ni allasai ragori yn hyn ar ei gydoeswyr. Fe fu farw ei fam pan oedd ef yn 11 ml. oed, a cholled fawr a fu hyn iddo, gan ei bod yn wraig o synwyrau cryfion, ac yn arfer a darllen llawer ar y Beibl a Llyfr Gweddi Cyffredin eglwys Loegr; ac yn awyddus iawn, yn ddiau, i'w hyfforddi yntau i wneyd yr un modd. Ni chafodd ond yn nghylch chwech wythnos o ysgol yn ei oes. Ei fam a'i cychwynodd, a'i lafur a'i ddiwydrwydd ei hun a'i dygodd rhagddo, nes daeth ef i fod yn un o'r dynion helaethaf ei wybodaeth gyffredinol o neb yn ei wlad.

Ymddangosodd syched angherddol ynddo am wybodaeth yn gynar, ïe, cyn ei ddwyn i gofleidio crefydd. Yr oedd ei fryd ar ddarllen, ac ni chollai un cyfleusdra i goethi ac eangu ei feddwl. Gosodai lyfr o'i flaen pan yn bwyta ei bryd bwyd, ïe, gwnaeth offeryn priodol i ddal y llyfr, modd y gallai ei ddefnyddio yn fwy hylaw pan y byddai yn bwyta. Yr oedd hyn yn beth anghyffredin iawn yn yr oes hòno, fod neb yn gosod ei fryd ar ddarllen.

Daeth rhyw wraig i'r tŷ un tro, pan oedd â'i lyfr o'i flaen yn y modd hyn, yn darllen, a thorodd allan yn fyrbwyll i ddywedyd,—"Ymgroesa, Robert!—oni wyddost ti mai trwy ddarllen wrth fwyta yr aeth A—— o'i gof?"

Yr ychydig ysgol a gafodd oedd gydag un Thomas Gough, yr hwn a arferai egwyddori ei ysgolheigion yn Nghatecism y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Daeth Robert Jones yn berchenog ar un o'r llyfrau da hyn pan oedd yn 17 ml. oed, darlleniad yr hwn, yn nghyda yr holwyddori blaenorol o hòno, a fu yn dra bendithiol iddo, er difrifoli ei ysbryd, ac eangu ei wybodaeth yn athrawiaeth yr efengyl. Tua'r pryd hwn y daeth Lewis Evan o sir Drefaldwyn, a gŵr dyeithr arall gydag ef, i'r ardal i bregethu; yntau a aeth i'w gwrando, a difyr iawn oedd ganddo graffu ar ystumiau ac ymadroddion Lewis Evan, yr hwn oedd y cyntaf a bregethodd, fel y gallai ei ddynwared wrth ei gyfoedion; ond ar y pregethwr arall bu raid iddo wrando; daliwyd ei feddwl, a sefydlwyd ei lygaid: ïe, pigwyd ei galon ag argyhoeddiad, nes peri iddo ymadael â'i ofer ymarweddiad, ac ymuno â chymdeithas eglwysig yn Mrynengan, yr unig un, ond odid, gan y Methodistiaid yn y fro hòno; ïe, fe allai, gan neb arall y pryd hwnw.

Dygwyd ef i fyny yn y grefft o saerniaeth coed, yr hon a fwriadai ei dylyn, a pherffeithio ei hun ynddi; ond y cyfnewidiad a gymerasai le ar ei feddwl, a arweiniodd i gyfnewidiadau eraill. Wedi ei ddeffroi am ei gyflwr ei hun, teimlai awyddfryd tanbaid yn ei fynwes i lesâu ei gydwladwyr, yn enwedig y plant a'i gyfoedion ieuainc. Dan y teimladau hyn, cymerodd ei daith, ar ei draed, i Lacharn, hwnt i Gaerfyrddin, gan' milldir a mwy, at Madam Bevan, i ddeisyf arni dosturio wrth blant tlodion diddysg Gwynedd, ac anfon ysgol-feistriaid i'w dysgu. Cerddodd yno, medd yr hanes, gan weddio bob cam; ond nid oedd y wraig foneddig gartref, a gorfu arno ddychwelyd heb ei neges. Eto, gadawodd anerchiad cwynfanus ati ar ei ol, a thaer ddymunai ei chynorthwy. Ond gan ei fod eisoes ar dir y Dehau, a chan faint a glywsai am Howel Harris, penderfynodd y mynai olwg ar Drefeca, ac ymddyddan ag awdwr y sefydliad yno. Ac felly y gwnaeth.

Aeth yr *ail waith* yr un modd at Mrs. Bevan, a hyny ar yr un neges. Cofied y darllenydd mai llencyn ieuanc ydoedd, tua 18 ml. oed; ac nad oedd un cyfeisteddfod o wŷr cyfrifol yn ei anfon, nac yn addaw talu iddo am ei amser, a'i draul; yn unig, awyddfryd ei fynwes ei hun a'i cymhellai, oddiar ddymuniad cryf i lesâu ei genedl a'i wlad, yn neillduol yn yr hyn a berthynai i'w heddwch tragwyddol. Fe fu yn fwy llwyddiannus y tro hwn. Cafodd y foneddiges gartref, a rhoddwyd cyfleusdra iddo osod ei gŵyn eilwaith o'i blaen; ond gan y siomedigaethau a gawsai y wraig foneddig eisoes mewn dynion, a droisent allan yn athrawon anffyddlawn, yr oedd yn anhawdd ganddi wrando ar ei gais, ond ar fedr ei nacâu yn hollol, er maint ei daerineb; ond cyn llwyr benderfynu, dywedai wrtho, "Os ewch chwi eich hun i'w chadw, yr wyf yn foddlawn i'w rhoddi." Yntau a gydsyniodd, gan nad oedd obaith cael ysgol heb hyny, er na feddyliasai ymosod ar y gorchwyl o'r blaen.

Ymddengys mai yn Nghapel Curig, ardal rhwng Bangor a Bettws-y-coed,

y dechreuodd ef ar y gorchwyl newydd; ac yma hefyd y dechreuodd bregethu. Arferai eisoes egwyddori plant yr ysgol mewn pethau crefyddol, eu cynghori, a gweddio gyda hwy, fel ag yr oedd y cam oddiwrth hyn at gynghori dynion, gan lleied eu gwybodaeth crefyddol â phlant, ond bychan a hawdd, a cham ydoedd a gymerwyd gan lawer o ysgol-feistriaid crefyddol yr oes hòno. Dygwyddodd fod gŵr dyeithr wedi ei gyhoeddi i bregethu mewn tŷ yn Nghapel Curig, ond ni allodd ddyfod, a chymhellwyd Robert Jones, yr hwn a ddaethai yno i wrando, i roddi gair o gynghor i'r ychydig bobl a ddaethai yno yn nghyd. Yntau a ufyddhaodd i'w cais, a pharhaodd ar ol hyny gyda'r un gwaith hyd ddiwedd ei oes.

Nid hir y byddai ysgolion Madam Bevan yn aros yn yr un gymydogaeth; symudid hwy, gan amlaf, wedi ychydig o fisoedd i ardal newydd, gan y bernid fod ychydig o fisoedd yn ddigon yn y cyffredin i ddysgu darllen y Beibl i Gymro; ac wedi cyrhaedd yr amcan hwn mewn un ardal, symudid i ardal arall, er mwyn rhoddi cyffelyb fantais i hòno. Fel hyn y bu gyda Robert Jones. Symudodd o Gapel Curig i sir Fflint,* ac oddiyno i Fryn-Siencyn yn Môn. Fe fu wedi hyny yn Llangybi, Brynengan, a Llanbadarn, yn sir Gaernarfon. Tra yr oedd yn y lle olaf a enwyd, âi i Lanllyfni, tua phum' milldir o ffordd, i gadw ysgol y nos; a bu ei lafur yn y ffordd yma yn fendithiol iawn. Fe ymddengys fod gan Robert Jones lawer o gymhwysder i ennill serchiadau ei ysgolheigion, a dull medrus ac effeithiol i gyfranu addysg iddynt. Yr oedd trwy hyn yn ennill yr ieuenctyd i'w hoffi yn fawr, er y byddai, yn fynych, yn dyoddef cryn warth ac erlid oddiwrth drigolion y lle y byddai yn cadw yr ysgol ynddo, ac nid oddiwrth neb yn fwy nag oddiwrth yr offeiriaid gelynol, fel y gwelir oddiwrth yr hanesyn a ganlyn:—

Cyn pen llawer o amser ar ol iddo ymsefydlu yn Mryn-Siencyn, ennillodd lawer o blant i'w ysgol. Cenfigenodd gweinidog y plwyf gymaint wrtho, nes gosod ei fryd ar ei symud o'r ardal. Gwraidd ei ddrwg deimlad tuag ato, tybygid, oedd fod cynghorwr Methodistaidd yn ennill gormod o ddylanwad yn ei blwyf. Ysgrifenodd, gan hyny, at Madam Bevan, gan ddarlunio yr ysgol-feistr oedd ganddi, yn ddyn peryglus i heddwch ei blwyf ef, ac i lwyddiant yr eglwys, ac erchi arni anfon ato orchymyn i ymadael â'r fro. Ond nid oedd y wraig foneddig ddim am roddi coel i bob gair a glywai, ïe, oddiwrth beriglor plwyf; ac yn yr amgylchiad hwn, hi a gawsai y fath foddlonrwydd yn Robert Jones pan yn ymddyddan ag ef, fel na roes un gwrandawiad i'r cyhuddwr, nac atebiad i'w lythyr. Yn mhen ysbaid o amser, daeth y person at Robert Jones, a gofynodd iddo:—

"A gawsoch chwi yr un llythyr oddiwrth Madam Bevan yn ddiweddar?"

"Naddo Syr," ebe Robert Jones.

Rhyfeddodd y gŵr boneddig yn fawr na wnaethai Madam Bevan fwy o sylw o'i lythyr; a rhag mai amryfusedd a fu, anfonodd lythyr arall i'r un

* Gwel ei hanes yn Rhuddlan, yn hanes dosbarth sir Ddinbych.

perwyl a'r cyntaf; yna galwodd ar yr ysgol-feistr eilwaith, i ofyn a glywsai efe ddim oddiwrth y wraig foneddig?

"Na chlywais i," ebe yntau.

"Mae hyn yn rhyfedd," ebe gweinidog y plwyf, "ond pa fodd bynag am hyny, y mae yn rhaid i chwi ymadael oddiyma; ni chewch chwi ddim cadw ysgol yma."

"Wel," ebe Robert Jones, "yr wyf yn cydnabod eich awdurdod chwi, Syr, i fy nhroi i ffordd, ond a fyddwch chwi gystal a dywedyd wrthyf am ba achos y gwneir hyny? Byddant yn gofyn i mi yn sir Gaernarfon, paham y daethum adref cyn pen fy nhymhor? am hyny, dywedwch yr achos, fel y byddo genyf beth i ateb i'm cymydogion."

"Wel," ebe y periglor, "yr ydych yn pregethu tua'r Bryn yna, ac yn hudo y bobl ar eich ol."

"Ho," ebe yntau, "ai dyna sydd yn fy erbyn? Nid wyf yn gwneyd amgen na darllen cyfran o air Duw, gweddio, a chanu mawl i'r Arglwydd, gan rybuddio y bobl i beidio halogi y Sabbothau, ac i ochel pechu yn erbyn Duw. Yr wyf yn meddwl, Syr, fod hyny yn well na bod y bobl yn chwareu pel ar hyd y Bryn ar ddydd yr Arglwydd, ac mi a fyddaf yn cymeryd gofal am derfynu cyn amser gwasanaeth yr Eglwys."

"Pa fodd bynag," meddai y gweinidog, "ni waeth beth a fo, y mae yn rhaid i chwi fyned oddiyma."

"Wel, Syr, os hyny sydd raid," ebe yr ysgolfeistr, "a fyddwch chwi gystal a rhoddi rhyw un i orphen addysgu y plant? yr wyf fi yn hoff o honynt, ac yn tosturio wrth eu sefyllfa; bydd yn dda genyf, os rhoddwch chwi ryw un i'w dysgu?"

"Na ofelwch chwi am hyny," meddai y periglor, "cerddwch chwi adref."

"Hyny a wnaf, Syr, ond cofiwch y bydd coffa am heddyw yn nydd y farn." Ac wedi dyweyd hyn, ymado a wnaeth yr ysgolfeistr, ond ni ofalwyd am y plant; trodd yr offeiriaid hwynt allan gyda thrahausedd, a than lefain aeth y plant i'w cartrefi, a phrin y gallent oll lai na darogan y deuai rhyw aflwydd i gyfarfod â'r gŵr urddasol cyn hir. Yr oedd gwraig foneddig yn agos i Benmorfa, Mrs. Lloyd o'r Gesail, yn gydnabyddus a chyfeillgar â'r periglor hwn, ac yn arfer ymweled â'u gilydd. Daeth y gŵr parchedig a'i wraig, ar un achlysur, i'r Gesail, i ymweled â Mrs. Lloyd. Yr oedd gŵr yn y gymydogaeth, yr hwn oedd yn byw mewn tyddyn o eiddo Mrs. Lloyd, yn derbyn pregethu i'w dŷ; ac er fod hyn yn bod, bellach, er ys amryw flynyddoedd, nid oedd neb, hyd yn hyn, wedi hysbysu y peth i Mrs. Lloyd. Yn ysbaid yr amser y bu y periglor yn aros yn y Gesail, aeth un tro i ymweled â gŵr ieuanc urddasol, o gyfaill iddo, oedd yn aros yn y gymydogaeth. Yn ystod eu hymddyddanion, mynegwyd i'r periglor fod tyddynwr i Mrs. Lloyd yn derbyn pregethu i'w dŷ; a hyny yn lled agos i'r palas; a'i fod yn ofni nad oedd neb eto wedi bod mor ffyddlawn a hysbysu hyny iddi.

"A ydyw y peth yn wir?" gofynai y periglor.

"O ydyw," ebe ei gyfaill, "yn ddigon siwr."

"Wel," eb y cyntaf, "ni fwytaf fi fy nghiniaw heddyw, nes ei wneyd yn hysbys."

Ond ar ei ddychweliad i'r palas, pan ofynwyd iddo ryw air gan forwynion y tŷ, ni cheid yr un gair ganddo, ïe, er gofyn eilwaith ac eilwaith. Parodd yr amgylchiad hwn gyffro mawr yn eu mysg, a rhedasant ar frys i gyrchu ei wraig ato. Hithau, druan, a ddaeth ar frys, a mawr oedd ei braw a'i dychryn, pan ddeallodd na allai ddyweyd un gair wrthi, er crefu arno lawer; ond nid oedd air i gael ganddo, ac ni chafwyd air mwyach ganddo tra fu byw, oddieithr rhyw air byr, ond bu farw yn mhen ychydig ddyddiau. Trwy yr ymweliad trwm hwn, fe waharddwyd iddo gan ragluniaeth Duw hysbysu y gyfrinach i'r wraig foneddig, fod ei thyddynwr tlawd yn derbyn pregethu i'w dŷ. Cafodd ef a'i wraig lonydd hefyd o hyny allan i gadw eu drws yn agored i'r efengyl, hyd ddydd eu marwolaeth. Ni ddywedir paham y cawsant barhad o'r llonyddwch, pa un ai oblegid cadw y gyfrinach oddiwrth ei feistres tir, ai ynte, yr hyn sydd debycach, fod amgylchiad marwolaeth y periglor wedi dod yn hysbys yn y fro, ac achosi gormod o fraw ar bawb ymyraeth dim yn ychwaneg â'r pregethu yn y lle. "Y rhai a ymrysonant â'r Arglwydd a ddyfethir."

Nid ydym yn hòni nad allai amgylchiad disymwth o'r fath ddygwydd ar lawer pryd, heb beri nemawr sylw. Ië, nid annaturiol ydyw meddwl fod y cyffro cryf a gynyrchwyd yn meddwl y periglor, ac yntau o bosibl yn ddyn o nwydau cryfion, wedi dwyn arno gyrch angeuol o'r parlys mud. Ond er addef hyn oll, ni allwn lai na meddwl nad oedd yn yr amgylchiad hwn gyfryngiad amlwg o eiddo rhagluniaeth Duw, mewn ffordd o amddiffyniad dros ei achos ei hun, o anfoddlonrwydd i ymyriad diachos y periglor, ac o rybudd i bawb eraill.

Ar ol rhoddi yr ysgol i fyny yn y Bryn, a chyn gadael Môn, aeth Robert Jones gyda gŵr eglwysig, sef un o'r offeiriaid Methodistaidd, nid yw ei enw ar lawr, ar gyhoeddiad trwy yr ynys, gan bregethu yn y prif-ffyrdd a'r caeau. Yr oedd cryn ymgasgliad, y pryd hwnw, i wrando offeiriaid a ddeuai o amgylch i bregethu, ond yr oedd llawer o ragfarn eto yn aros yn erbyn dynion diurddau a wnai hyny. Y tro hwn, fe ddarostyngwyd llawer o'r ragfarn hwnw, gan i'r bobl gael cyfleusdra i wrando gŵr diurddau ac un urddedig gyda'u gilydd, ac fe ymddengys fod y gydmhariaeth a wneid rhyngddynt yn tueddu i arwain y gwrandawyr ystyriol i weled fod llai o achos derchafu un a darostwng y llall, nag a dybiasant o'r blaen. Yr oedd Robert Jones yn bregethwr call a chynwysfawr; yr oedd ei lais yn beraidd, a'i faterion yn sylweddol, cymaint felly fel ag i ennill lle mawr yn syniadau y bobl gallaf yn mysg y gwrandawyr.

Wedi iddo ddarfod â'r ysgol yn Mrynengan, cymerodd dyddyn o dir, sef Tir-bach, Rhoslan, plwyf Llanystundwy, dan rwym-weithred *(lease)* am saith mlynedd. Adeiladodd dŷ helaeth ar y tir hwn, un rhan o'r adeilad yn dŷ anedd, a'r rhan arall yn gapel. Gwnaeth y weinidogaeth ei hol yn rymus yn y lle hwn tra y parhaodd y weithred, ond ar ol hyny, disgynodd y tir i

feddiant eglwyswr, yr hwn a'i cynygiodd i Robert Jones drachefn, ond ar yr ammod iddo droi pregethu allan o'r tŷ. Ni chytunai yntau â hyn, ac felly bu gorfod arno ymadael. Chwalodd y gymdeithas eglwysig a gasglesid yn y lle, i amrywiol leoedd, megys y Garn, Bont-fechan, &c. Symudodd oddiyno i dyddyn yn Lleyn, yr hwn a elwir Tŷ-Bwlcyn, gerllaw Garnfadryn, lle yr arosodd dros yr amser y bu ei wraig yn fyw. Ond wedi ei chladdu hi, efe a roes y tir i fyny, ac o hyny allan, efe a letyai gydag un neu arall, gan ymddyosg oddiwrth ofalon y bywyd hwn, ac ymroddi, tra y goddefai iechyd iddo, i wneyd a allai gydag achos y Cyfryngwr.

Yr oedd Robert Jones, trwy lafur ac ymdrech mawr, wedi ymeangu mewn gwybodaeth gyffredinol, yn fwy na nemawr un yn ei oes a'i wlad. Casglodd lawer o lyfrau da, a gwnaeth ddefnydd da o honynt. Yr oedd yn hoff o ddarllen hanesion oesoedd blaenorol, ac yn gofiadur campus o hanesion ei oes ei hun; yr oedd hefyd yn hoff o'u hadrodd, ac yn fedrus i'w croniclo, i oesoedd dyfodol. Iddo ef, gan mwyaf, yr ydys yn ddyledus am hanesiaeth boreol Methodistiaeth Gwynedd. Fe dramwyodd lawer ar Ogledd a De, gan bregethu ac athrawiaethu mewn dull iraidd, buddiol, a gwlithog. Safodd yn dyst cadarn yn erbyn penrhyddid ei oes, mewn athrawiaeth a buchedd. Yr oedd gwahanol gangenau athrawiaeth wedi eu mantoli yn dda yn ei bregethau, a chrefydd ymarferol yn blaguro yn iraidd yn ei rodiad. Ysgrifenodd amryw o lyfrau buddiol,* fel isod; yr un penaf, ac wrth yr hwn yr adwaenir ef fwyaf, bellach, ydyw "Drych yr Amseroedd." Yr oedd Robert Jones yn ddigon hen i gofio y rhan fwyaf o bregethwyr cyntaf Methodistiaid De a Gogledd; ac efe a fu byw ddigon o hyd i weled llawer o hen bregethwyr yr oes hon. Arferai ddyweyd yn ei hen ddyddiau, ei fod wedi gweled *tair oes* o Fethodistiaid. Safai megys yn nghanol oes Methodistiaeth am 60 mlynedd;—aethai 20 mlynedd a mwy heibio cyn ei eni, ac yn awr y mae 20 mlynedd a mwy wedi treiglo ymaith ar ol ei gladdu; yr oedd yntau yn ddolen fawr yn cysylltu yr oes foreuaf, a'r oes ddiweddaraf, gyda'u gilydd.

Treuliodd ei oes yn llafurus ac effro; gwasanaethodd ei genedlaeth yn ffyddlawn ac egniol; cadwodd ei lwybr yn ddiwyro mewn barn a buchedd; ei gymeriad yn ddiachwyn arno, a dybenodd ei yrfa mewn tangnefedd. Bu farw Ebrill 11, 1829, yn 84 ml. oed.

Fe fu Rowlands, Llangeitho, yn sir Gaernarfon aml waith ar ol y tro cyntaf yn y fl. 1747, am yr hwn y crybwyllwyd eisoes, ond nid oes genym un coflyfr yn ein hysbysu pa mor aml y bu, nac ar ba amserau; yn unig dywedir ei fod wedi cyfarfod â llawer o anfri a gwrthwynebiad oddiwrth y rhai nid adwaenent y gwirionedd. Sonir am un tro, pan oedd yn pregethu yn mhentref Tydweiliog, a rhyw ŵr cyfrifol, o'r enw Mr. Price, yn gweddio o'i flaen, i hwn gael ei daro â chareg gan ryw ŵr boneddig, nes oedd ei waed yn llifo,

* Cyhoeddodd gyfieithiad o'r gyfrol gyntaf o waith Gurnal :—Lleferydd yr Asyn :—Arweinydd i'r Anwybodus :—Ymddyddan rhwng Dr. Opium, Galio, a Discipulus :—Grawn Sypiau Canaan :—Drych yr Amseroedd.

ond nid yw awdwr "Drych yr Amseroedd" yn sicrhau a gafodd Rowlands lonyddwch i bregethu y tro hwn ai peidio.

Sonir am dano hefyd ryw bryd, wedi myned i le a elwir Gelli-dara, gerllaw Pwllheli, ar fedr pregethu; ac i haid o derfysgwyr ymgynull yno i aflonyddu. Dygasant dabwrdd *(drum)* gyda hwy, er mwyn cadw digon o swn, a boddi llais y pregethwr. Ond yn nghyfrif rhyw ddyhiryn nwydwyllt o Bwllheli, nid oeddynt yn cyflawni eu gorchwyl trystfawr yn ddigon egniol; enynodd ei ddigofaint atynt am eu hesgeulusdra, a'i sel dros yr amcan *anrhydeddus (?)* mewn golwg, nes iddo, mewn cyffro mawr, gymeryd ei ffon, a tharo y *drum* yn ddrylliau, gan ei gwneyd yn gwbl ddiddefnydd. Dyma'r pryd yr oedd y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, yn cyd-deithio gydag ef, ac yr aeth Mr. Rowlands i Fôn y tro cyntaf, pryd yr attaliwyd ef i bregethu yn eglwys Llangefni.*

Yr oedd rhagfarn y bobl, fawr a bach, gwreng a boneddig, yn erbyn pob ymneillduwr, yn fawr iawn, y pryd hyn. Dygid y pregethwyr gan yr erlidwyr at yr ynadon, a hwythau a'u traddodent eilwaith i ddwylaw yr erlidwyr. Nid oedd ofn y bobl yn lluddias y gwŷr mawr i wneyd cam â hwy, ac nid oedd ofn y gyfraith yn lluddias y bobl i'w baeddu. Edrychai pawb arnynt yn wrthddrychau rhy isel i'w parchu, a rhy ddrwg i'w dyoddef. Rhoddir drych cywir o ansawdd y bobl, ac o sefyllfa y crefyddwyr, yn yr adeg foreuaf arnynt yn y wlad hon gan Robert Jones, wrth ddysgrifio amgylchiad a gyfarfu â Lewis Rees, yn Aberdaron. Dywedir i'r gŵr da hwnw unwaith ddyfod i'r Tŷ-cerig i bregethu; ond erbyn ei ddyfod, yr oedd torf ddirfawr o erlidwyr wedi ymgasglu, ac un Mr. Morris Griffith yn flaenor arnynt. Pan ddaeth Mr. Rees i'r lle, cyfarfu Mr. Griffith ag ef â'i gleddyf noeth yn ei law. "Os meiddi ddywedyd gair yma heddyw," ebe fe, "mi a'th redaf â'r cleddyf." I hyn yr atebodd Mr. Rees, yn addfwyn, a pherffaith feddiant ganddo ar ei ysbryd, "Yr ydych yn llaw gŵr arall, Syr." Gyda'r gair hwn, gostyngodd ei gleddyf i lawr, fel pe na buasai grym ynddo i'w ddal i fyny. Eto ni phetrusai y dorf afreolus a myned yn mlaen gyda'u gorchwyl, a dechreuasant guro a baeddu, nid y pregethwr yn unig, ond cynifer ag a dybient ag oedd yno yn bleidiol iddo, mewn modd didrugaredd; ïe, y merched hefyd, trwy gael eu hannog, oeddynt mor flaenllaw a neb, os nad mwy.

Yn y cyffro direol hwn, cawsant y pregethwr i lawr dan eu traed, ac nid oes wybod pa beth a ddygwyddasai iddo, oni bai i ryw un caredig a gwrol orwedd arno, a derbyn y dyrnodiau a fwriedid iddo, yn ei le. Ar ol i'r terfysg liniaru ychydig, llusgasant Mr. Rees i ryw dŷ, i'w gadw yn garcharor hyd dranoeth. Pan ddaeth y boreu, dygwyd ef o flaen Owens, y canghellwr, meddai Robert Jones; ond o flaen Owens, periglor Llaniestyn, meddai Roberts,† Llanbrynmair, yr hwn oedd ustus heddwch. Yr offeryn a ddefnyddiwyd y tro hwn, fel ar amserau craill, yn y gorchwyl o erlid oedd Harri *deneu;* yr hwn, tybygid, oedd yn barod i unrhyw weithred wael o'r fath.

* Gwel tudal. 111, Cyf. I. † Gwel *Dysgedydd* am Ionawr, 1822.

Ni wnaeth ustus Llaniestyn iddo, medd Mr. Roberts, ond ei gynghori i beidio dyfod mwyach i'r wlad hòno heb ei *license* gydag ef. Rhoddwyd Mr. Morris Griffith yn llaw y gyfraith, a daeth swyddog o sir Ddinbych i'w ddal. Ond er ei fod yn ddyn cryf o gorffolaeth, ac yn peri ei arswyd yn nhir y rhai byw, eto, pan ymaflodd y swyddog ynddo, ciliodd ei holl wroldeb, a diflanodd fel bretyn dan ei law.

Parhaodd yr erlid am faith amser ar ol hyn, gan dori allan yn ol yr amgylchiadau, ar wahanol amserau, ac mewn gwahanol ddulliau, hyd nes y dofwyd y gwŷr mawr gan rym cyfraith, ac yr arafwyd gwylltineb y werin gan oleuni gwybodaeth. Daeth y bobl gyffredin yn raddol i ddeall mai anwireddau oedd y chwedlau gwrthun a ledaenid am y crefyddwyr; fod y bobl a erlidid ganddynt yn haeddu mwy o barch ganddynt na'r gwŷr a'u gosodent ar waith; felly yn raddol arafodd eu gwrthwynebiad a'u rhagfarn, yn enwedig yn y cymydogaethau hyny, lle yr oedd pregethu wedi hen roddi ei droed i lawr. Ond yr oedd ffyrnigrwydd eto yn aros mewn llawer iawn o'r wlad, lle nad oedd gweinidogaeth yr efengyl, hyd yn hyn, ddim wedi cyrhaedd. Yno yr oedd penderfyniad yn aros yn meddyliau y trigolion i luddias ei dyfodiad atynt, rhag y dygwyddai iddynt hwy, fel ag y bu mewn manau eraill, na ellid yn hawdd gael gwared o'r grefydd, os unwaith y caffai ddrws agored i ddod i mewn. Ond er pob penderfyniad o'r fath, yr oedd yr efengyl yn ennill ei ffordd. Dygwyddai, hefyd, yn awr ac eilwaith, ryw amgylchiad disymwth a brawychus, megys barn Duw ar erlidwyr, nes arafu rhyfyg a chreulondeb llawer o'r rhai a flaenorent yn y gorchwyl atgas. Lluniwyd cyfarfod i bregethu, meddai Robert Jones, nid yn mhell oddiwrth Penmorfa; ond erbyn i'r pregethwyr a'u cyfeillion ddod yn nghyd, gwelent nad oedd obaith cael fawr o seibiant i gynal cyfarfod, gan y dorf afreolus a ddaethai yno i derfysgu ac erlid. Yn eu plith yr oedd dyn ieuanc yn rhagori ar bawb arall mewn cellwair, gwawdio, a dirmygu y gwaith hyd y gallai. Bu farw y gŵr ieuanc hwn yn ddisymwth, ac o fewn ychydig oriau i'r amser y gwelwyd ef yn blaenori yr erlidwyr. Parodd marwolaeth mor ddisymwth, i'r fath un, ac o dan y fath amgylchiadau, fraw ar y lleill.

Yr oedd y Methodistiaid, ymron er y dechreuad, yn arferol, fel y dywedwyd, o gyfarfod â'u gilydd yn fisol, er mwyn cael cyfleusdra i gynghori a dyddanu eu gilydd gyda gwaith yr Arglwydd, ac er mwyn trefnu eu cyhoeddiadau Sabbothol am yr wythnosau dyfodol. Yr oeddid, ar yr achlysuron hyn, yn arfer pregethu yn gyhoeddus yn y lle y cyfarfyddent. Yn y dechreuad, a thros amser maith ar ol y cychwyniad, nid oedd ond ychydig o leoedd cyfleus i gynal y cyfarfodydd hyn, ond fe farnai y brodyr mai buddiol fyddai yn awr ac eilwaith gynal y cynulliadau hyn mewn lleoedd newyddion, ac mewn ardaloedd na fu nemawr o bregethu ynddynt o'r blaen, ac ymostwng yn ddiddig i'r anfanteision a berthynai i le o'r fath, er mwyn eangu dylanwad yr efengyl yn y wlad.

Penderfynwyd unwaith gadw cyfarfod misol mewn lle a elwir y Dolyddbyrion, a chytunwyd â gwraig oedd yn cadw tafarn yno i gael ganddi ryw

gyfleusderau angenrheidiol ar yr achlysur. Ond erbyn i'r pregethwyr a'u cyfeillion ddyfod i'r lle yn yr awr a benodasid i bregethu, yr oedd y tŷ yn llawn o ddynion, a ddaethent yno o bell ac agos, ar yr unig ddyben o rwystro y cyfarfod. Yr oedd y fintai mewn eithaf cywair at eu gorchwyl, ac yn eu mysg yr oedd amryw wŷr cyfrifol, oll yn benderfynol na chaniataent i'r penau-cryniaid fymryn o seibiant i gynal eu cyfarfod. Dygasant hefyd gyda hwy bob offer cymhwys, megys drulliau, a thabyrddau, i gynyrchu trwst a therfysg. Ac yr oedd hyn i gyd yn cael ei wneyd dan rith o amddiffyn yr eglwys, a phleidwyr y gwŷr eglwysig yr ystyrid pawb a roddai law o gymhorth yn y gwaith. Fe welwyd yn bur fuan nad oedd wiw cynyg ar bregethu yn y fath le, yn y tŷ na cherllaw iddo; am hyny cyhoeddodd rhyw un, ar fod i bawb a ewyllysient gael gwrando, ddyfod i le arall, heb fod yn mhell, sef i Rhos-y-tryfan. Yno, gan hyny, y ciliasant. Ond cyn dechreu y cyfarfod yno, clywsant dwrf y tabwrdd yn dynesu tuag atynt, ac yn y fan yn dystewi. Drachefn y clywent ef eilwaith, ond nid llawer nes atynt. Yr oedd y crefyddwyr yn synu, ac yn methu gwybod beth oedd hyn. Rhoddwyd ar ddeall iddynt, pa fodd bynag, yn mhen enyd, fod y tabyrddwr, ar ol cychwyn tua chan llath oddiwrth y tŷ tafarn, wedi dechreu crynu yn arswydus. Aeth ei gyfeillion ag ef yn ol i'r tŷ, gan ei borthi yn fwy â diod gref, i'w gymhwyso yn fwy at ei waith. Cychwynwyd eilwaith tua'r cyfarfod pregethu, ond ni allent fyned dim pellach yn mlaen na'r waith gyntaf; disgynodd y grynfa gerth ar y dyn fel o'r blaen. Yr oedd eu hysgogiadau yn y modd yma yn dyrysu, a'r adeg yn colli, ac o'r diwedd rhoisant heibio yr amcan yn gwbl, a dychwelasant yn ol i'r dafarn i orphen eu diwrnod gyda rhyw ddifyrwch arall. Yn y modd yma, cafodd y crefyddwyr lonyddwch i gadw y cyfarfod yn dawel a heddychol. "Wrth i ni ddyfod yn ol o'r cyfarfod," medd Robert Jones, yr hwn, tybygid, oedd yno ar pryd, "heibio iddynt, gollyngasant amryw ergydion dros ein penau. Cafodd un wraig feichiog oedd yn sefyll gerllaw iddynt, y fath fraw wrth iddynt ollwng ergyd yn ei hymyl, ag a fu yn achos o angau iddi."

Rywbryd yn y tymhor erlidigaethus hwn, anfonodd gŵr boneddig ei was i aflonyddu oedfa a gedwid ar y pryd, gan Griffith Siôn, Ynys-y-pandy, trwy chwythu mewn crogen, a boddi llais y pregethwr. Aeth y gwas yn ewyllysgar, gan ei fod, ond odid, yn caru gwneyd ei oreu yntau hefyd yn erbyn y crefyddwyr. Ond fe fu y gorchwyl yn angau iddo, oblegid ar ei waith yn chwythu yn y grogen yn egniol, efe a syrthiodd i lawr yn farw, er dirfawr ddychryn i'r holl gymydogaeth. Ni ddywedir pa fodd y bu hyn, pa un ai dryllio llestr gwaed a wnaeth trwy yr ymdrech a wnai i chwythu y corn, ai trwy ymweliad barnol mwy digyfrwng.

Yr ydym o'r blaen wedi galw sylw at Griffith Siôn, Ynys-y-pandy, neu y Sarnau, gerllaw y Bala, fel y gelwid ef yn mlynyddoedd olaf ei oes. Yr oedd y gŵr hwn yn ŵr crefyddol iawn :—nid oedd ei ddoniau a'i wybodaeth ond bychain, eto yr oedd o ysbryd rhagorol, ac o ymarweddiad difrychau. Cyfrifid ef yn gynghorwr bychan, ond efe a fu ffyddlawn ar ychydig, a gwnaed ef yn nod-

edig o ddefnyddiol yn ei dymhor i eangu teyrnas Crist yn mysg ei gyd-genedl, ac i ddychwelyd pechaduriaid at Dduw. Yr oedd o dymherau mwynaidd a gostyngedig, ac yn ei ieuenctyd yn ddyn cryf ei gorff, a gweithgar iawn. Arferid cynal cyfarfodydd gweddio yn ei dŷ yn fynych yn nechreuad ei oes grefyddol; daeth hyn yn adnabyddus i berson y plwyf, yr hwn a dybiodd fod hyny yn afreolaidd, a bod yn rhaid defnyddio rhyw foddion i roi terfyn ar yr arferiad. I'r dyben hwn aeth ef ei hun i'r tŷ yn amser y cyfarfod, i aflonyddu ac i godi terfysg, ac ni fynai beidio er neb. Aeth Griffith Siôn ato i erchi ganddo adael llonydd iddynt weddio Duw mewn heddwch, yn ei dŷ ei hun, gan nad oeddynt yn amcanu gwneyd drwg i neb. Ond po fwyaf yr ymresymid â'r gŵr urddasol mewn tiriondeb, mwyaf afrywiog yr ymddygai, gan dybied, ond odid, fod y tynerwch a ddangosid yn argoeli fod ei ofn ef ar y crefyddwyr. Ond yr oedd amynedd y crefyddwyr ymron wedi pallu, gan y sarhad a'r aflonyddwch a wnaed ganddo o bryd i bryd. Arferai guro y *dresser* â'i ffon, yn ddiarbed, nes byddai y llestri priddion yn disgyn yn ddrylliau, yr hyn, yn nghyda'i nwydau gwylltion, a'i eiriau cas, a gododd benderfyniad yn y dyoddefwyr, na chymerent lawer yn chwaneg o'r traha hwn oddiar ei law. Un Sabboth yr oedd cyfarfod i weddio yn nhŷ y gwehydd, ac wele y person, fel arferol, yn dyfod i mewn ar ganol y cyfarfod, pan oedd un o'r brodyr ieuainc yn gweddio. Ebe y person â llais uchel, "Ai ti sydd yna, Jaci?" Ac at y llanc ag ef, yr hwn oedd eto ar ei liniau, ac ymaflodd ynddo. Yr oedd eisoes wedi gwneyd difrod ar y llestri priddion â'i ffon. Pan welodd Griffith Siôn nad oedd heddwch i gael, ac nid oedd ymliw tyner, nac ymresymu ag ef, yn effeithio yn dda arno, efe a ymaflodd yn llaw y person, ac a'i gwasgodd yn arswydus, ac ni fynai, bellach, ei gollwng, ond a'i gwthiodd ef allan o'r tŷ, ac a'i bwriodd ar draws y domen dail. Bygythiodd y person roddi y cynghorwr yn ngafael y gyfraith, am y sarhad a wnaed iddo; ond fe'i cynghorwyd gan y tafarnwr, yr hwn oedd yn gallach o lawer na'i athraw, i adael i'r amgylchiad fyned heibio yn ddystaw, ac â'r cynghor hwn y cytunodd yntau ar y pryd. Eto nid oedd yn medru anghofio yr anmharch a gawsai gan Griffith Siôn y gwehydd, ac nid oedd yn foddlawn chwaith i'r bobl gael llonyddwch i ymgynull yn ei dŷ i ganu a gweddio, yn lle dod i'r llan, ac ymofynai ynddo ei hun, ai nid oedd modd symud Griffith o'r ardal. Wedi troi y cynllun yn ei feddwl, ol a blaen, efe a benderfynodd geisio gan ryw rai o'i blwyfolion roddi eu llaw wrth lythyr at feistr tir Griffith Siôn, sef at Mr. Price, Rhiwlas, yn agos i'r Bala, i achwyn arno, ei fod yn aflonyddu ar heddwch ei gymydogaeth, ac yn troi yn erbyn yr eglwys a chyfreithiau y tir.

Pan glywodd y gŵr boneddig hyn, ac heb amheu dim am wirionedd y cyhuddiad, efe a anfonodd rybudd i Griffith Siôn ymadael â'i dŷ. Deallodd Griffith, hefyd, o ba le yr oedd y dymhestl wedi codi, a pha fodd; am hyny ysgrifenwyd papyryn arall, ac arwyddwyd ef yn ewyllysgar gan ei gyfeillion, i ardystio wrth y boneddwr, mai holl fai Griffith Siôn, mewn gwirionedd, oedd darllen y Beibl, a gweddio Duw yn ei dŷ gyda'i gymydogion. Dygwyd

y llythyr gan Griffith ei hun i sir Feirionydd, ond ewyllysiai, yn gyntaf, cyn ei gymeryd ef at Mr. Price, ymgynghori â'r brodyr yn y Bala, yn enwedig â John Evans a Mr. Foulkes. Wrthynt hwy, gan hyny, efe a adroddodd yr holl amgylchiadau, ac a estynodd iddynt y papyryn i'w ddarllen. Hwythau a roisant eu dwylaw wrth yr ysgrif, i dystio i'r gŵr boneddig fod ganddynt bob sail i gredu fod ei gynwysiad yn gywir a didwyll, a rhybuddiasant Griffith i ochel hysbysu ei neges i'r garddwr, yr hwn, tybygid, a fyddai yn gweini cryn lawer ar yr hen ŵr boneddig, ond oedd yn dra gelynol i'r crefyddwyr.

"Aethum," meddai Griffith, "tua'r Rhiwlas yn lled ddigalon, ond, er hyny, yn dra phenderfynol fy meddwl, ac yn fuan cefais alwad at fy meistr. Traethais fy neges wrtho, a chyflwynais yr ysgrif; gofynais yn ostyngedig, a gawn i fy nhyddyn?"

"Na chei Griffith," atebai ei feistr, "yr wyf yn clywed dy fod yn cyfodi terfysg yn yr ardal, ac yn rhwystro y bobl i'r eglwys."

"Yn wir, fy meistr, nid wyf yn euog o'r un o'r pethau yna."

"Ni waeth i ti heb wadu;—ni chei di ddim byw o danaf fi. Onid wyt ti yn cadw y weddi dywyll, ac yn cynwys meibion a merched gyda'u gilydd i wneyd drŵg?"

"Yn wir, fy meistr bach," meddai Griffith drachefn, "nid wyf fi yn gwneyd dim o'r pethau hyn."

"Beth, ynte? yr ydych chwi yn cadw cyfarfodydd yn y nos."

"Ydym, syr, weithiau:—yr ydym yn cyfarfod â'n gilydd wedi i waith y dydd fyned heibio."

"Wel, pa beth fyddwch chwi yn ei wneyd yn y cyfarfodydd hyn?"

"Os gwelwch yn dda wrando, syr, mi a ddywedaf y gwir i chwi am yr hyn a wneir, heb gelu dim. Byddwn bob amser yn darllen y Beibl, syr, ac yn canu Salmau; yn cynghori ein gilydd i fod yn onest a geirwir, i dalu pob *rhent* a threth, ac yn gweddio dros yr eglwys, y brenin, a'r wlad. Dyna yn wir, syr, ydym yn ei wneyd, yn nghydag annog ein gilydd i beidio a phechu, ac ymofyn am ffafr Duw a bywyd tragwyddol. A chan nad ydym yn gwneyd dim drwg i neb, gobeithio, syr, os gwelwch yn dda, y caf fi aros yn fy *ffarm*."

"Wel, Griffith, os gwnei di addo y *rhoddi y cyfarfodydd hyn heibio*, ti a gei aros yn dy le."

"Teimlwn fy hun yn cefnogi," meddai yr hen bererin wrth adrodd yr hanes, "edrychais yn eofn yn ei wyneb, a dywedais â llais cryf a phenderfynol, 'Fy meistr, pe rhoddech i mi hanner eich *stât*, ni pheidiaf, yn wir.' Yr oedd ei eiriau wedi myned i 'nghalon, ac yr oedd meddwl rhoi heibio darllen fy Meibl, a chadw y cyfarfodydd anwyl, yn annyoddefol."

"Gyda hyn gwelwn y dagrau yn treiglo i lawr gruddiau y boneddwr, fel un wedi ei orchfygu, ac er fy syndod a'm llawenydd, dywedodd â gwedd doddedig 'Dos adre', dos adre', ti gei di aros yn dy le. A phan y byddi yn dyfod i *sassiwn* y Bala, tyr'd di a dy geffyl i Riwlas.' Felly hefyd y bu."

Daeth Griffith Siôn i fwy o sylw a pharch gan y boneddwr nag o'r blaen. Anrhegwyd ef ganddo yn mhen rhyw gymaint â chaseg wen, gan y deallai fod yr hen wehydd gonest a diniwed yn arfer myned o amgylch i gynghori ei gyd-ddynion, a hyny yn wastad ar ei draed. Fe fu y gaseg wen hon ganddo am amser maith, a thra adnabyddus a fu y pregethwr a'i anifail yn mysg Methodistiaid Gwynedd dros faith flynyddoedd.

Fe ddengys y chwedl ganlynol dyn o ba fath ysbryd oedd Griffith Siôn, a pha fath barch oedd gan ei feistr tir iddo. Yr oedd unwaith yn cerdded ar hyd yr heol yn Abermaw, a hyny yn lled foreu, pryd y clywai rhyw un yn galw yn uchel, "Griffith! Griffith!" Safodd yntau, gan edrych tua'r lle y deilliai y llais, ac fe welai ben rhyw un trwy ffenestr agored; aeth yn ol tuag ato, ac er ei fawr syndod, pwy ydoedd ond Squire Price o Riwlas.

"Pa beth," gofynai y boneddwr, "wyt ti yn ei wneyd yma, Griffith?"

"Wedi bod yr wyf, syr, tua'r Dyffryn yna, yn ceisio cynghori fy nghyd-bechaduriaid."

"Da iawn, Griffith;——ond rhaid i ti ddyfod ataf fi i gael *breakfast,*" ebe Mr. Price.

"Diolch yn fawr i chwi, meistr," ebe yntau, "yr ydwyf eisoes wedi ei gael."—"Ond oh," meddai yr hen sant, "yr oedd yn edifar genyf yn y fan, am ddywedyd o honof fy mod wedi bwyta y boreu-bryd. Hwyrach, yn wir, y cawswn ofyn bendith ar y bwyd, ac y cawswn gyfleusdra i roddi gair i mewn am yr Arglwydd Iesu; a phwy a ŵyr pa ddaioni a allasai ddylyn?"

Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyn, yr oedd cyfarfod ustusiaid yn y Bala, ac yr oedd gan Griffith neges gyda'i feistr. Safodd y tu allan i'r llysdŷ, wrth y drws, i ddysgwyl Mr. Price allan; yr hwn pan ddaeth, a chanfod yr hen Gristion, a'i cyfarchodd, "Pa bryd y daethai adref?" a gofyn iddo, mewn Cymraeg lled garpiog, "Ti eisiau fi, Griffith?" "Oes, syr,"—a mynegodd iddo ei neges, a chafodd ei gais, ac i ffordd ag ef. Dychwelodd Mr. Price at y boneddigion eraill, a gofynent iddo am Griffith, pwy ydoedd? "Pregethwr," ebe yntau. "A ydyw hwnyna yn bregethwr mawr?" gofynid iddo yn ol. "Nis gwn," ebe ei feistr, "ond y mae yn *ddyn duwiol beth bynag.*"

### BEDDGELERT.

Mae yr ardal hon yn hynod, fel Llanberis, am iachusrwydd ei hawyr, gwedd wyllt ac ardderchog yr olygfa naturiol, a thawelwch neillduedig y fro, fel y mae er ys blynyddoedd, bellach, yn meddu at-dyniad grymus i du-eddu dynion, wedi eu anmharu o ran eu hiechyd, neu wedi diffygio gan eu llafur, i droi heibio i gilfachau y mynyddoedd hyn, er mwyn adgyfnerthiad i gyfansoddiad gwan, a dadebriad i feddwl llwfr. Anhawdd ydyw dychymygu am newidiad llwyrach nag a brofa y dinasydd, wrth adael yr heolydd culion, a'r awyr fyglyd; wrth droi ei gefn ar fwrdd y cyfnewid, llafur gwyllt a gofal difaol y farchnadfa, a disgyn i gestyll creigiau Arfon, ac ymdroi yn dawel a diofal yn neillduedd hyfryd Beddgelert! Hyfryd fydd ganddo rodio ar

lanau y ffrydiau grisialaidd; anghofia ei flinder yn swn y rhaiadrau cryfion, a brefiadau y defaid. Dyry uchder a serthi y mynyddoedd uchel, noethni llym y creigiau ysgythrog, gwyrddlesni hawddgar y coed a'r llysiau, caniadau peraidd yr adar bach, a dystawrwydd tawel yr holl fro, y fath hyfrydwch i ysbrydoedd yr ymwelydd, ag sydd yn llawer haws ei ddychymygu na'i ddarlunio.

Ond er maint ydyw tlysni anianyddol y fro, yr oedd yr ardal hon, fel ardaloedd eraill yn Nghymru, wedi ei hanurddo ag arferion llygredig, ac wedi ei gorchuddio â thywyllwch ysbrydol trwch dros ben, a hyny er ys oesoedd. Nid oedd yr addysg a geid yn eglwys y plwyf yn tueddu nemawr i chwalu anwybodaeth y fro, nac i ddarostwng defodau ofer y preswylwyr. A rhaid cyfaddef, pa faint bynag o wybodaeth ysgrythyrol sydd yn awr ar gael yn mhlith y bobl; pa fanylrwydd bynag sydd mewn cadw y Sabboth; pa faint bynag sydd o ofn Duw; mai dyledus ydyw yr ardal i'r diwygiad Methodistaidd, fel moddion, am y cwbl. Yr oedd gan y bobl ryw feddwl mawr am yr *eglwys*, "gan," meddynt, "mae son am yr eglwys yn y Beibl, ond nid oes air am y sectau." Yr oeddynt, fel yr Iuddewon, yn meddu ar sêl Duw, ond nid yn ol gwybodaeth.

Tua 90 ml. yn ol, neu ychwaneg, yr oedd Robert Jones, Rhoslan, pan yn lled ieuanc, yn cadw ysgol ddyddiol yn y llan. Un diwrnod, rhoes ofyniad i'r plant, i'w gymeryd gyda hwy i'w cartrefi, ac i ddwyn atebiad yn ol iddo dranoeth. Y gofyniad ydoedd, "Pa le y mae eglwys Dduw?" Pan glywodd un o *ddoethion (?)* y gymydogaeth y gofyniad, dywedodd gydag eithaf diystyrwch, "Pw! ai dyna y fath feistr sydd genych! Yn mha le y mae yr eglwys? ac yntau ynddi bob dydd." Dychwelwyd yr ateb i Robert Jones. Yntau a chwanegodd, fod son yn y Beibl am *glustiau'r eglwys*, a dymunai wybod drachefn beth oedd y rhei'ny? Ar waith yr un gŵr yn clywed hyn, torodd allan i wawdio yn fwy fyth, gan ddyweyd, "Ond wfft i'r fath *lob!* Beth sydd haws iddo na gweled mai clochdy ydyw clust eglwys!"

Ni arosodd Robert Jones yn y lle hwn ond am ychydig amser, ac er maint oedd ei anfanteision yno gan anwybodaeth a rhagfarn y trigolion, ni fu ei lafur ddim yn gwbl ofer. Yr oedd yno lencyn o'r enw Robert Dafydd, yr hwn a fuasai gynt yn wyllt ac ofer, ond trwy ryw foddion wedi cael ar ei feddwl i ddyfod i wrando ar Robert Jones yn holwyddori y plant, i'r dyben i gofio yr hyn a glywai, gan fod pob peth o'r fath yn gwbl newydd a dyeithrol iddo. Fe fu hyn yn foddion i'w argyhoeddi o'i bechadurusrwydd a'i berygl, a'i ddwyn i ffoi at Grist am ei fywyd, ac i ymgysegru iddo o hyny allan. Hwn ydoedd y Robert Dafydd, Brynengan, am yr hwn y ceir crybwyll gair eto. Yr oedd Robert Dafydd wedi colli ei dad pan oedd yn blentyn, ac wedi bod yn byw gydag ewythr iddo, brawd ei dad, er pan oedd yn 12 neu 13 ml. oed. Yr oedd yr ewythr hwn, fel ei gymydogion oll, "heb Dduw yn y byd," ac yn eithaf gwrthwynebol i'r grefydd newydd yr oedd y son am dani yn dechreu terfysgu y wlad. Pan welodd hen wragedd y gymydogaeth fod Robert Dafydd yn troi ei gefn ar ei hen gampau, a'i gyfeillion ofer,

dechreuasant regu Robert Jones am ei yru ef o'i gof. Nid oedd eto ddim pregethu gan y Methodistiaid yn Meddgelert, a rhaid oedd i'r sawl a fynai wrando, fyned i ardaloedd eraill i gael y fraint hòno; ac nid oedd eto bregethu sefydlog yn un man nes na Brynengan. Ar yr un pryd, os dygwyddai fod cyhoeddiad rhyw un i bregethu yn rhyw le o fewn cyrhaedd, fe fyddai hyny yn hysbys, ond odid, i Robert Jones, yr hwn a arferai hysbysu hyny i Robert Dafydd, trwy anfon cenadwri ar bapyr ato. Ai Robert Dafydd, gan hyny, i wrando yn mhell ac agos. Yr oedd trallod ei feddwl yn fawr iawn. "Gofidiau uffern a'i daliasant." Bu yn dymuno bod yn gythraul yn lle bod yn ddyn, gan dybied mai llai a fuasai ei boenau yn uffern. Gwrandawodd lawer ar hen bregethwyr Lleyn, megys Hugh Thomas, Griffith Prichard, Charles Marc, Robert Williams, ac eraill.

Yr oedd iddo gyfaill o'r enw Owen Thomas. Ai hwn gydag ef i Frynengan i wrando, a dychwelent yr holl ffordd, tua 12 milldir, ar hyd y nos. Yr oedd hyn yn fwy nag a allai ei ewythr a'i deulu gyd-ddwyn ag ef, a bu raid iddo ymadael oddiwrthynt. Felly, fe aeth i Frynengan i fyw. Aeth Owen Thomas hefyd i Fôn i wladychu. Fe fu hyn, yn nghydag ymadawiad Robert Jones yn flaenorol, yn ergyd trwm i'r achos bychan a gychwynasid, a bu dros ryw dymhor mewn llewygfa drom. Ac yr ydym yn casglu nad oedd dim pregethu cyson yn Meddgelert yn y fl. 1771, sef y flwyddyn y mae genym gyhoeddiad Dafydd Morris trwy wlad Arfon a Lleyn. Yr oedd ef, mae'n debyg, yn ymweled â phob lle yr oedd pregethu sefydlog ynddo, yn ei hynt trwy y wlad, ond nid oes son am Beddgelert. Pa fodd bynag, nid hir ar ol hyn y bu yr ardal heb gael pregethu ynddi. Mae ysgrif o fy mlaen yn rhoddi desgrifiad o'r oedfa gyntaf gan Fethodistiaid yn yr ardal hon, a hyny tua 80 ml. yn ol.

Yr oedd Robert Dafydd eisoes wedi symud i Frynengan, ac wedi dechreu pregethu yno. Daeth ar ei feddwl ymweled â'i hen gymydogion yn ardal Beddgelert, a thraethu iddynt air y bywyd. Penodwyd ar y Sabboth, a rhoddwyd y gair allan y byddai pregeth yno. Yr oedd rhyw rai wedi darpar lle i gadw yr oedfa ynddo; pa un ai gelynion a wnaeth mewn dichell, ai cyfeillion a wnaeth yn eu diniweidrwydd, nid yw hysbys. Y lle, pa fodd bynag, oedd *Tŷ-rhisgl*, neu adeilad y rhoddid rhisgl derw ynddo i gadw yn y tymhor, yn nghymydogaeth Nantmor, yn nghŵr y plwyf. Cyn i'r amser ddyfod, yr oedd rhyw rai drwg eu bwriad wedi crogi darnau o goed yn uchel uwchben yn y tŷ rhisgl, gyda yr amcan o'u taflu ar y gynulleidfa yn amser yr oedfa.

Erbyn i'r amser addawedig ddyfod i ben, lluddiwyd Robert Dafydd ddyfod gan ryw amgylchiadau, a Robert Jones a ddaeth yn ei le. Daeth cynulleidfa fawr yn nghyd; llawer o honynt gyda y bwriad o aflonyddu yr oedfa, a baeddu y pregethwr. Ond ryw bryd ar yr oedfa, a chyn dechreu yr ymosodiad, gwnaeth daranau arswydus, nes oedd y lle yn siglo. Disgynodd braw aruthrol ar y bobl, ac yn fwy o lawer ar y rhai yr oedd yn eu bryd wneuthur aflonyddwch; yn enwedigol, gan nad oedd un arwydd o fellt a tharanau yn y tywydd ar y pryd. Cafodd y pregethwr ddau fantais oddi-

wrth yr amgylchiad; sef llonyddwch a seibiant oddiwrth ymosodiad yr erlidwyr, ac achlysur neillduol i osod min ar ei weinidogaeth, ac i ddeffro ystyriaeth ei wrandawyr. Ni esgeulusodd alw sylw ei wrandawyr at echryslonrwydd digofaint y Duw anfeidrol,—

Yr hwn sy'n gyru'r mellt i 'hedeg,
Ac yn marchog brig y dòn;

gan alw eu sylw at daranau bygythiol y Beibl, y rhai sydd yn cael eu cyfeirio yn erbyn yr annuwiol. Oddiwrth yr amgylchiad hwn y cododd dau beth, sef deffroad amrywiol o'r gwrandawyr i ystyriaeth a difrifwch, yn nghylch eu cyflwr tragwyddol, a llareiddiad yr erlidigaeth, megys yn ei gychwyniad.

Ar ol yr oedfa gyntaf hon, dechreuodd rhyw dair neu bedair o ferched, y rhai a brofasent radd o rym y gwirionedd ar eu cydwybodau, ymgasglu at eu gilydd i weddio, ac i gyd-ymddyddan yn nghylch y "ffydd yn Nghrist." Bellach, hefyd, cynelid ambell oedfa yn achlysurol, yn ol fel y ceid pregethwyr, mewn gwahanol fanau yn y gymydogaeth. Un o'r manau cyntaf ar ol Tŷ-rhisgl, y cadwyd cyfarfodydd crefyddol ynddo, oedd Odyn * Cae-dafydd. Tybid fod lle o'r fath yn lle y ceid llonydd ynddo, allan o sylw, ac o'r neilldu; ond fe aeth y newydd allan fod y gwragedd uchod yn ymgynull i'r odyn i weddio. Cododd hyn ysfa yn meddyliau rhyw rai i glywed pa beth a ddywedent, a pha fodd y cedwid y cyfarfodydd dyeithrol hyn. Nid oedd neb yn meddwl y perthynai i neb weddio ond y person, ac nad oedd yn perthyn i hwnw weddio heb lyfr. Yr oedd meddwl fod merched neu wragedd yn gweddio, a hyny mewn *odyn geirch*, ac heb lyfr, yn beth na chlybu trigolion Cymru ddim am ei gyffelyb er ys oesoedd, os erioed.

Yn mysg eraill a deimlent awydd i lygadrythu i ddirgelion y cyfarfodydd hyn, yr oedd hen ŵr boneddig o'r gymydogaeth; yr hwn, hefyd, oedd gryn wrthwynebwr i'r achos Methodistaidd, ac yn dymuno cael achlysur i'w ddarostwng a'i lethu. Hwn a ddaeth at ddrws yr odyn i wrando, ac wrth iddo bwyso yn lled drwm, gollyngodd y drws ef, a syrthiodd yntau. Dygwyddodd fod y merched yn canu rhyw bennill ar y pryd; y mae hyn yn rhan o hono,—

"*Mae hyn yn beth mawr, foa Satan ar lawr*;"

ac yr oedd rhai o honynt yn diolch yn gynhes am fuddugoliaeth Calfari, yn yr adeg. Tybiodd yr hen foneddwr, yn ddigon sicr, mai ato y cyfeiriai eu cân, a gwylltiodd yn gethin, a rhedodd ymaith, yn fawr ei ddychryn, ac yn ddrwg ei araeth.

Cyn hir ar ol hyn, fel yr oedd nifer y crefyddwyr yn amlhau, a'r pregethu yn dyfod yn fwy sefydlog a chyson, cymerwyd hen adeilad a elwid "*Y Stamps*," i gynal moddion ynddo. Yn y lle hwn yr ymddengys i'r gymdeithas eglwysig

* Odyn oedd adeilad y byddid yn crasu ceirch ynddi, mae yn debyg.

gael ei ffurfio gyntaf. Symudwyd yr achos oddiyma yn mhen enyd i le a elwid Tŷ'n-y-coed, ar dir Meillionen. Yr oedd cyfreithiwr o'r enw Mr. Hughes, yn byw yn y lle hwn, ac ef a'i wraig yn aelodau o'r gymdeithas eglwysig. Rhoes y teulu hwn nodded ac ymgeledd caredig iawn i'r achos crefyddol yn ei wendid. Ond er cystal oedd y lloches yma, ni pharhaodd yn hir, oblegid bu farw Mr. Hughes, a gwywodd y cicaion. Bu ei weddw, er hyny, yn parhau yn ei charedigrwydd ar ol marwolaeth ei gŵr, ond hithau, hefyd, a symudwyd "i'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw."

Bellach, symudwyd yr achos crefyddol o Tŷ'n-y-coed, i bentref Beddgelert, i le a elwid Pen-y-bont. Tua 60 neu 63 o flynyddoedd yn ol y bu hyn. Yr oedd nifer yr eglwys yn yr adeg yma tua 40 o rifedi. Nid llawer o gynydd a fu ar yr achos yn y lle hwn am dymhor maith, am ysbaid 27 o flynyddoedd, fe allai; neu hyd y diwygiad grymus a fu yno yn y fl. 1817. Ond er nad oedd nifer yr eglwys yn lluosog, ac er nad oedd yr agwedd gyffredin ar yr achos ond trymaidd a difywyd, eto yr oedd yma amryw o wŷr grymus eu gras, a hardd eu rhodiad, y rhai yr oedd eu dylanwad crefyddol yn fawr yn eu dydd, a'u henwau yn beraroglaidd ar ol eu marw. Y cyfryw oedd Robert Roberts, Clynog, Nantmor; Rhys William, Hafod-y-llain; a William Williams, Hafod-y-rhisgl. Yr oedd cywirdeb eu hysbryd, a chysondeb eu proffes, yn fwy nag eangrwydd eu gwybodaeth, neu faint eu dawn, yn ennill o'u plaid gydwybodau y sawl a'u hadwaenent oreu.

Tua'r fl. 1794 yr adeiladwyd y capel yn y pentref. Felly, yr oedd tua 30 ml. neu fwy, wedi myned heibio er pan fu Robert Jones yn cadw ysgol yn y llan, cyn fod yma un capel wedi ei godi yn y pentref. Ac wedi ei godi, ymddangosai y gwersyll megys wedi sefyll, am lawer blwyddyn. Yr oedd yma dŷ i Dduw yn cael ei gadw, ond "sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos," oedd agwedd y crefyddwyr. Yr ydym eisoes wedi crybwyll yn fyr am y diwygiad grymus a fu yn y lle hwn, yn y fl. 1817, a'r blynyddoedd dylynol,* pryd y chwanegwyd at yr eglwys yn agos i 200 o aelodau. Gwnaeth Duw "i'r anmhlantadwy gadw tŷ, a bod yn llawen fam plant." Parod oedd yr eglwys yn y lle i ddywedyd, y pryd hwn, gyda syndod, "Pwy a genedlodd y rhai hyn i mi, a mi yn ddieppil, ac yn unig, yn gaeth, ac ar grwydr? a phwy a fagodd y rhai hyn? Wele, myfi a adawyd fy hunan; o ba le y daeth y rhai hyn?" Esay xlix. 21.

Cyn yr ymweliad hwn, nid oedd ond ychydig o deuluoedd gweddi yn y plwyf. Nid oedd dim bywyd yn ymddangos mewn un addoliad, nac mewn dim defodau crefyddol. Ond heb arfer dim moddion penodol i beri adfywiad, adfywiad a ddaeth. Aeth y bobl i dŷ Rhys William i wrando y bregeth, ar nos Sabboth, fel arferol; heb ddysgwyl dim mwy nag y byddid yn arfer gael, ond fe gafwyd mwy na'r dysgwyliad. "Deffrodd y gogledd-wynt, a chwythodd y deheu-wynt ar yr ardd, nes gwasgar ei pheraroglau." Yr oedd effeithiau yr oedfa yn rhyfeddol ar y pryd, ac yn dylyn y gwrandawyr ar hyd y

* Gwel Cyf. I., tudal. 269.

ffordd i'w cartrefleoedd. Yn lle y cellwair ofer, a'r ymddyddanion gwag a fyddai gynt rhwng y bobl ieuainc â'u gilydd, wrth ddychwelyd o'r oedfaon, prin y teimlai neb ar ei galon ddywedyd gair wrth ei gyfaill. Yr oedd syndod a difrifwch megys wedi cloi eu myfyrdodau ar bethau tragwyddoldeb. Y Sabboth canlynol, pan oedd dwy eneth ieuanc yn petruso i ba le yr aent i gael mwyaf o ddifyrwch, dywedent, "Awn i'r cyfarfod gweddi i Hafod-y-llain, i gael *sport* wrth eu clywed hwy yn gwaeddi." Ond y *sport* a droes yn ddifrifwch arnynt, a dychwelasant yr holl ffordd adref gan waeddi megys am eu bywyd. Fel yr oedd un eneth ieuainc yn godro un o'r buchod, daeth ryw ysgrythyr i'w meddwl gyda'r fath nerth a goleuni, nes iddi adael ystên laeth, fel y gwnaeth y wraig o Samaria y llestr dwfr, a thori allan i foliannu Duw â'i holl egni; a llanwyd yr holl deulu â syndod wrth ei chlywed.

Anhawdd ydyw dychymygu, chwaithach darlunio, mewn ysgrifen yn enwedig, pa effeithiau mor rymus a ddylynai y weinidogaeth. Daw yr oedfa yn nhŷ Cornelius i gof, pryd "y *syrthiodd* yr Ysbryd Glân ar bawb oedd yn clywed y gair." Disgynai mewn modd cyffelyb yma. Gorchfygai deimladau pob rhyw ddyn. Dadseiniai y bryniau gan sain gweddi a mawl. Yr oedd gwedd y fro wedi newid. Torodd gwanwyn hyfyd a siriol, ar ol gauaf hir ac oer. Awelon bywyd trwy yr efengyl, a roes gyffro yn mysg yr esgyrn sychion, a'r anadl a ddaeth ynddynt, a buant fyw; a safasant ar eu traed yn llu mawr iawn.

Parai yr adfywiad hwn syndod aruthrol i'r dyeithriaid o Loegr a fyddent yn ymdaith dros dymhor yn y gymydogaeth. Wrth gwrs, nid oeddynt hwy yn abl i ddeall y pregethau a draddodid, na natur y teimladau a brofid gan eraill wrth eu gwrando. Gallem ddysgwyl, gan hyny, y byddai rhai yn dueddol i wawdio a dirmygu; eraill gan synu, a ofynent pa beth oedd hyn? Weithiau, pan yr eglurid i ambell un yr holl amgylchiadau,—testynau mawl rhai, a gofid y lleill,—mor ddwfn ydoedd eu hargyhoeddiadau, ac mor fawr y cyfnewidiad yn eu bywyd, fe'u cymhellid i addef gyda syndod a pharch, "Bys Duw yw hyn."

### PENNANT.

Mae y lle hwn yn sefyll rhwng Tremadoc a Llanllyfni, nid yn mhell oddiwrth y Garn, Dolbenmaen. Yr oedd yr ardal hon yn gwbl amddifad o bregethu hyd o fewn 60 ml. yn ol, ac fel pob ardal arall amddifad o weinidogaeth effro yr efengyl, yr oedd yr arferion llygredig o chwareuyddiaethau ar y Sabboth, yn gystal a meddwdod ac ymrysonau, yn ffynu yn ddiwarafun. Nid oedd yma gymaint ag un yn *proffesu* crefydd flynyddau ar ol 1799. Ië, ychydig o bregethu a fu yma cyn y fl. hon. Ond fe fu pregethu achlysurol mewn lle heb fod yn mhell, sef y Gyfyng, cyn hyny. Dywedir fod Mr. Gray yno unwaith yn pregethu ar Dat. xxi. 21, "A heol y ddinas oedd aur pur fel gwydr gloyw," a chrybwyllir am un sylw a wnaethai, sef, "Pe buasai yno gybyddion, mai ar eu gliniau yn crafu yr aur y buasent hwy." Fe fu Mr. Elias yno hefyd, yn fuan ar ol iddo ddechreu pregethu, yn cadw oedfa ar

ochr y ffordd. Wrth iddo fyned heibio i'r lle, ychydig flynyddau cyn marw, dywedai wrth Mrs. Elias, gan gyfeirio at y clogwyn adnabyddus, "Mi fum i yn pregethu yn y fan yna."

Y teulu a agorodd ei ddrws gyntaf i'r Methodistiaid, oedd William a Jane Williams, Brithdir-bach. Merch oedd y wraig hon i'r hen bererin clodwiw, John Jones, Hendre-howel. Byddai yno aml bregeth ar nos Sadyrnau, a phrydiau eraill. Ar amser yr oedfaon hyn, safai y pregethwr wrtho ei hunan, wrth ben y bwrdd mawr yn y gegin; lluaws o gŵn, ond odid, wedi meddiannu canol yr ystafell; a'r gwrandawyr yn sefyll wrth y parwydydd oddiamgylch, fel pe buasai arnynt fwy o ofn y pregethwr, nag oedd ar y cŵn. Yn y wedd isel a dyeithr yma y bu y gwaith yn y Brithdir-bach, am ysbaid 15 mlynedd. Dechreuwyd cadw ysgol Sabbothol yma yn lled fuan ar ol cael pregethu i'r ardal, er nad oedd neb yn yr ardal ei hunan i'w chadw, ond y diffyg a wneid i fyny trwy fod amryw o frodyr o'r Garn yn dyfod yma. Bu amryw o bregethwyr yn ffyddlawn iawn yn dyfod i ymweled â'r Pennant, yn yr adeg isel yma. Sonir yn neillduol am yr ymdrech a wnaeth yr hen John Thomas, Llanberis, yr hwn a ddeuai yma dros fynyddoedd mawrion, ac ar ddrychinoedd llymion; Richard Jones, Coed-cae-du, hefyd, a John Jones, Tremadoc, a lafuriasant lawer yma.

Wedi bod 15 ml. yn gwersyllu yn y modd hyn yn y Brithdir-bach, cafodd chwech o amaethwyr yn y gymydogaeth, ïe, rhai heb fod mewn undeb eglwysig â'r Methodistiaid, ond yn gymwynaswyr caredig i'r efengyl, ar eu meddwl gymeryd tŷ gwag a berthynai i'r Gyfyng, dan ardreth, i gadw ysgol Sabbothol, ac i bregethu ynddo; ac ar ysgwyddau y gwŷr cymwynasgar hyn y dibynai yr achos am ei gynaliad dros ryw dymhor. Nid ymddangosai llawer o lwyddiant ar y gwaith am ysbaid 20 ml., heblaw fod gradd o ddiwygiad mewn cadw y Sabboth, trwy nad oedd cynifer o gamp-chwareuon yn cael eu cynal. Ond tua'r fl. 1819, cafodd yr achos ysgogiad grymus yn ei flaen, trwy bregeth nodedig o eiddo Michael Roberts, Pwllheli, ar Salm i. 5, "Am hyny yr annuwiolion ni safant yn y farn, na phechaduriaid yn nghynulleidfa y rhai cyfiawn." Mae llawer yn cofio y bregeth hòno hyd heddyw. Dywedir fod y fath nerth yn cydfyned â'r dysgrifiad a roddid o gyflwr truenus yr annuwiol yn y farn, fel y tybiodd rhai fod y creigiau mawrion sydd gerllaw yn ymrwygo, a bod y Barnwr yn ei rwysgfawredd ofnadwy, ymron eisoes gerllaw. Cloffodd y bregeth hon wylmabsant Tremadoc o hyny hyd heddyw.

Yn mhen ychydig amser ar ol hyn, daeth yma ŵr ag oedd yn swyddog eglwysig yn y Bont-fechan i fyw i'r ardal, a chrynhowyd yr "ychydig enwau" ag oedd eisoes "yn meddwl am ei enw Ef," at eu gilydd yn gymdeithas grefyddol, dan ofal Richard Griffith. Ei nifer oedd 30. Chwythodd awelon adfywiol ar y fro tua'r pryd hwn, fel ag i beri sirioldeb ychwanegol ar y gwaith, a diwygiad amlwg yn ymarweddiad y preswylwyr. Cyn hyn yr oedd tafarn o fewn ychydig latheni i ddrws yr addoldy, ond o hyn allan ni fu yma ddigon o gynaliaeth i un. Cyn hyn yr oedd mynwent y llan yn sathredig oll gan

y campwyr a halogwyr y Sabboth, fel mai prin y tyfai gwelltyn gwyrdd o'i mewn; yn awr y mae y clochydd yn lladd gwair oddiarni bob blwyddyn!

Yn y fl. 1833, bu yma radd o adfywiad drachefn, a chwanegwyd at yr eglwys tua 40 o rifedi; ac yn y fl. ganlynol, adeiladwyd yma gapel. Symudwyd y gwersyllfa, bellach, o'r Gyfyng, ar ol arosiad o 15 mlynedd, i'r capel, yr hwn, o hyn allan, a alwyd Pennant, yn ol enw y nant y mae yn sefyll ynddi. Yn y fl. 1840, chwanegwyd at yr eglwys drachefn, oddeutu 30 o rifedi. Nifer yr eglwys yn bresenol (yn 1850) ydyw 70. Y mae i'r chwaer hon ferch fechan yn Nghwm-ystrallyn, lle y mae ysgoldy bychan wedi ei agor, yn agos i'r fan y dechreuodd Mr. Elias bregethu, ac y bu John Edwards, yr Einiog, a Griffith Jones, Ynys-y-pandy, yn byw. Yn bresenol y mae yma ddau o bregethwyr,* a thri o flaenoriaid, a gwedd siriol a chynyddol ar y gwaith.

Yr ydym yn rhwym o derfynu ein hanes ar yr hyn a ddywedwyd, rhag ei chwyddo i ormod meithder. Mae yn y sir hon tua 60 o wahanol leoedd addoliad, na wnaed dim crybwylliad am danynt, a rhai o honynt yn hen o ran eu cychwyniad, a diau yn ddyddorol o ran eu hanesiaeth, megys y Pentre-uchaf, Pen-y-caerau, Llanengan, a Llithfaen, yn Lleyn; a rhai manau cyffelyb yn Arfon ac Eifionydd. Yr un modd, y mae personau lawer, o bregethwyr a henuriaid eglwysi, a chymwynaswyr da eraill, heb wneuthur un crybwylliad am danynt, nid am nad oeddynt deilwng, ond am na ddaeth dim o'u hanes i law; a phe daethai, buasai yn gyfyng arnom wneuthur cyfiawnder â hwy, o ddiffyg lle, gan yr ofnwn chwyddo y gwaith i faintioli annymunol.

Yr ydym, ar yr un pryd, yn barnu fod yr hyn a fynegwyd yn ddigon i ddangos i'r darllenydd, i gryn raddau, y modd y dechreuodd Methodistiaeth ymwreiddio yn y wlad hon—pa fanau y cafodd le i roddi ei droed gyntaf i lawr ynddynt—pa rwystrau oedd ar ei ffordd—pa offerynau arbenig a ddefnyddiwyd,—a pha lwyddiant a ddylynodd eu llafur. Mae y wlad hon, gan eanged ei thir, a chan luosoced ei heglwysi, wedi ei rhanu yn ddau ddosbarth, dan arolygiaeth dau gyfarfod misol; un yn cynwys Lleyn ac Eifionydd, a'r llall Arfon. Mae cymanfa chwarterol yn cael ei chynal yn y sir hon bob blwyddyn, yn mis Medi:—y trefydd y'i cynelir ynddynt, ydynt Bangor, Caernarfon, a Phwllheli, bob un yn ei gylch; a bernir mai cymanfaoedd y wlad hon ydynt y rhai lluosocaf yn Ngwynedd, os nad yn Nghymru oll.

### BRO LLANAELHAIARN, SEF LLITHFAEN, CWM-CORYN, BRYN-Y-GADFAN, &c.

Dechreuodd Methodistiaeth egino yn gynar yn y gymydogaeth hon. Yr oedd Robert Owen, Bryn-y-gadfan, yn un o hen bregethwyr boreuaf yr ardal; ac yn ei dŷ ef y cynelid y moddion. Cynaliwyd cyfarfod misol yn ei dŷ ef mor gynar a'r fl. 1769, eto ni chodwyd capel yn y gymydogaeth hyd y fl. 1811; yr oedd hyny, mae'n debyg, hanner can' mlynedd, neu fwy, ar ol cychwyniad Methodistiaeth yn y gymydogaeth; a rhwng y cyfarfod misol

* Dyledus ydwyf i un o honynt, sef y Parch. Evan Roberts, am yr hanes dyddorol uchod.

cyntaf a gynaliwyd yn Mryn-y-gadfan, a'r cyfarfod misol nesaf a gynaliwyd yn nghapel Cwm-coryn, yn 1844, yr oedd 75 o flynyddoedd.

Yr oedd yn yr ardal bedwar o ddynion a gyfrifid yn flaenffrwyth Methodistiaeth y fro, y rhai a elwid mewn gwawd gan eu dirmygwyr, "*Caradocs yr ochrau;*" sef Morris Hughes, Cwm-coryn; Owen Thomas, Cae'r-wrach; Dafydd Thomas, Llethr-ddu; a Robert Owen, Bryn-y-gadfan, y pregethwr. Edrychid ar Morris Hughes yn rhagori mewn rhyw bethau ar y tri eraill. Yr oedd ei dad yn berchenog ar ei dir ei hun; yr oedd yntau yn ysgolhaig pur dda; buasai yn Llundain yn moreu ei oes, dros ryw dymhor; a chyrhaeddodd cryn fedrusrwydd mewn ysgrifenu yn yr iaith Seisneg, yr hyn beth nid oedd ond ychydig o'r werin yn ei fedru. Arferai ysgrifenu ei brofiad mewn llyfr yn yr iaith Saesoneg, yn nghyda sylwadau o'r eiddo ar lawer o adnodau o'r Beibl. Mae rhai o'r tudalenau ar gael eto. Ymddengys mai yn eglwys y plwyf, wrth wrando darllen yr adnod, "Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo, &c.," y trywanwyd ei gydwybod ag argyhoeddiad; ac mor ddwys oedd yr oruchwyliaeth ar ei galon, nes iddo fod am ysbaid pum' mlynedd fel dyn gorphwyllog, mewn braw a dychryn mawr, cyn mwynhau o hòno nemawr o gysur yr efengyl. Yn ystod y pum' mlynedd hyny, gan faint oedd ing ei ysbryd, a thrallod ei feddwl, amcanodd yn fynych ei ladd ei hun, ac aml waith yr aeth i'r beudy i'r dyben hwnw; ond cyn cyflawni y weithred, tybiai mai dyledswydd arno oedd myned ar ei liniau i weddio; a thra yr ymdrechai gyda Duw mewn gweddi, âi ei amcan yn erbyn ei fywyd yn wastad yn anghof ganddo. Nid yw yn hysbys pa adeg ar ei oes y dechreuodd ei drallod, na thrwy ba foddion y tawelwyd ei feddwl; modd bynag, treuliodd weddill ei oes mewn "tangnefedd heddychol," ac yn hynod mewn duwioldeb. Er mwyn cadw ei feddwl gyda phethau santaidd, arferai ysgrifenu adnodau o'r Beibl, a'i sylwadau arnynt, a'u glydio o amgylch ei wely. Ar y Sabbothau hefyd, wrth fyned i foddion gras, arferai amgylchu llawer, yn hytrach na myned y ffordd agosaf, rhag i'r olwg ar ei anifeiliaid, neu ar gynyrch ei dir, sugno ei fyfyrdodau arnynt, a'u tarfu oddiwrth bethau gwell.

Yr oedd hefyd yn y gymydogaeth, ar ryw dymhor o'i oes, ŵr o'r enw Ellis Jones, teiliwr wrth ei grefft, ac yn hen gristion da;—hwn a arferai fyned o amgylch i weithio ei grefft i dai ei gymydogion, fel y byddai yr arfer. Yn ei dro, fe ddaeth unwaith i dŷ Morris Hughes. Ar ei ddyfodiad, gofynai Morris iddo :—

"Wel, Ellis bach, sut y mae arnat ti efo dy grefydd, y dyddiau hyn?"

"Pur galed ydyw," ebe Ellis.

"Felly y mae gyda minau," meddai Morris, "ni ymwelodd yr Arglwydd â mi, bellach, er ys tridiau, ond cefais le i obeithio yn y beudy y boreu heddyw, na fydd yn hir heb ymweled a mi:—gâd i ni fyn'd at y Beibl; fe allai y cawn ni ymgeledd yno." Yr oedd y Beibl ar y bwrdd, yn wastad wrth law; ac ato yr aeth y ddau. Dygwyddodd i'r Beibl agor ar y gair, "Mae hwn yn derbyn pechaduriaid:" ar hyn torodd Morris allan i waeddi, "Gogoniant;—dyma hi, Ellis! dyma hi."—Bellach, aeth pob gwaith yn anghof, a'r diwrnod

ar ei hyd a dreuliwyd, gan y ffyddloniaid hyn, mewn gorfoledd a mwynhad. Dywedai hen bobl eirwir, y byddai dau o adar bychain yn dylyn Morris Hughes yn gyffredin. Pan elai allan i'r maesydd, arferai alw arnynt, trwy waeddi, "Gŵrid, gŵrid:" hwythau yn adnabod ei lais a ehedent ato, a chan sefyll ar ei law, bwytaent y briwsion a fyddai ganddo iddynt. A dywedir hefyd, ddarfod i'r adar hyn, ar y noson y bu efe farw, ddyfod at ei dŷ, a churo eu hadenydd ar ffenestr ei ystafell wely, a gwaeddi; ac ar ol ei farwolaeth, na welwyd hwy byth mwy. Yr oedd y gŵr hwn tua'r un oed a Howel Harris; ganesid ef yn y fl. 1713, a bu farw ar y 5ed o Dachwedd yn y fl. 1781, yn 68 ml. oed.

Yr oedd pregethu yn Llithfaen, ardal rhwng Llanaelhaiarn a Nefyn, yn bur foreu. Nid yw y flwyddyn y cychwynodd yn hysbys. Arferent ymgynull mewn lle a elwir Abergafren, tŷ bychan, tô gwellt, o fewn lled cae i'r ffordd ar y ddê wrth fyned at Nefyn; yn lled agos i'r lle y mae y capel yn bresenol yn sefyll arno. Weithiau hefyd, pan fyddai yr hin yn deg, a'r gynulleidfa yn lluosog, arferent gynal moddion allan wrth ddrws y tŷ, dan gysgod draenen a dyfai yno. "Mae y tŷ a'r ddraenen," medd fy hysbysydd,* yno eto, heb nemawr gyfnewidiad arnynt."

Yn mhen rhyw gymaint o amser, adeiladwyd lle mwy cyfleus, islaw y ffordd, hwnt i'r capel presenol, ar y llaw aswy wrth fyned tua Nefyn, a gadawyd yr hen dŷ â'r tô gwellt. Mae y lle diweddaf hwn yn awr ar gael, ond wedi ei droi yn dŷ anedd. Yn y gymdeithas eglwysig hon, yr oedd Thomas Ellis o'r Hafod. Ymddengys fod y cynghorwr hwn yn nodedig am ei ffyddlondeb, a'i hunan-ymwadiad. Nid oedd ei ddoniau ond bychain, a'i wybodaeth ond cyfyng, a gwyddai yntau hyny ei hunan. Pan y gofynid cyhoeddiad iddo mewn cwrdd misol, ei ateb yn fynych a fyddai, "Wel, nid ydw'i ddim yn *ffit* i ddwad yn mhell :—os methwch chwi yn lân a chael neb arall, mi ddeuaf;—treiwch eich goreu." Yr oedd ei holl amser, ymron, yn cael ei dreulio mewn llafur ar ei dyddyn; ac i chwanegu yr anfantais, yr oedd ganddo wraig anniddig a chybyddlyd, yr hon ni chaniatâi iddo ganwyll i ddarllen y Beibl a'r ychydig lyfrau oedd ganddo. Yntau a gasglai swp o rug neu redyn, ac a'u dygai dan ei gesail adref, wrth oleuni y rhai y rhoddid iddo ddarllen ychydig yn y nos : dywedai na chai y cythraul o gybydd-dod ddim ei rwystro ef i ddarllen.

---

Wrth edrych ar y rhan hon o sir Gaernarfon, sef y parth a elwir, yn fynych, Eifionydd, yr ydym yn gweled fod Methodistiaeth wedi cynyddu llawer er ys 60 mlynedd yn ol. Y pryd hwnw nid oedd ond tair eglwys, sef Brynengan, y Gell, a Hendre-howel, ond yn awr y maent yn dair-ar-ddeg.† Yr oedd Brynengan yn eglwys fawr luosog ;—ystyrid hon yn Jerusalem Eifionydd ;— yr oedd ynddi amryw o bregethwyr buddiol a llafurus, a diaconiaid effro ac

* Parch. Robert Hughes, Uwch-law-y-ffynnon. † Brynengan, Ysgoldy, Pencoed, Bwlch-derwydd, Garn, Cricieth, Bryn-melyn, Bontfechan, Pennant, Bethel, Tremadoc, Porth, Horeb.

ysbrydol. O hon yr hanodd yr Ysgoldy, Pencoed, a Bwlch-derwydd, ac y mae cryn nifer o aelodau yn y naill a'r llall.

Ffarmdy oedd y Gell, yn mhlwyf Llanystyndwy. Nid oedd pregethu yn y tŷ hwn, eto yma yr ymgynullai yr aelodau gwasgaredig yn y Garn, Llanystundwy, a Threflys, i gadw eu cyfarfodydd eglwysig; a chynelid y pregethu yn y Garn a Threflys. Yr oedd Treflys a'r Gell yn amaethdai yn etifeddiaeth Ormsby Gore, Ysw., a'i oruchwyliwr oedd offeiriad, yr hwn oedd yn byw yn y Glyn, sir Feirionydd. Yr oedd lledaeniad Methodistiaeth yn anfoddhaol iawn i'r goruchwyliwr, a dangosodd ei wrthwynebiad iddo yn gyntaf trwy droi John Edwards, Reiniog, o'i dyddyn, a thrachefn drwy warafun i'r cwrdd eglwysig gael ei gynal yn y Gell. Achlysurodd hyn i'r gymdeithas eglwysig a ymgynullai yno ymwahanu yn dair, sef y Garn, Bont-fechan, a Threflys, ac yn mhob un o'r rhai hyn, bellach, y mae cryn nifer o aelodau.

Hen sefydliad boreu oedd Hendre-howel. Yr oedd yma ŵr duwiol iawn yn byw. Dechreuodd broffesu mewn amser nad oedd ond ychydig o bregethu gan y Methodistiaid yn yr ardaloedd, a llawer gwaith y bu yn dal ei anifail foreu Sabboth heb wybod pa le y ca'i efe oedfa gyntaf; a mynych y gorfyddai iddo fyned yn mhell i Leyn cyn cael yr un. Hwn oedd y gŵr, tybygid, y sonia Robert Jones am dano, fel un yr oedd y clerigwr o Fôn wedi penderfynu achwyn arno wrth ei feistres tir, sef Mrs. Lloyd o'r Gesail, ond a attaliwyd yn ddisymwth.

Lle diweddar, mewn cydmhariaeth, ydyw Tremadoc, a diweddarach fyth ydyw Porthmadoc. Yr oedd y llanerchi hyn, hyd yn nghof dyn, heb breswylwyr ynddynt; ond wedi cyflawni y gorchestwaith o gau y môr o fewn terfynau llai nag a hònai gynt, fe ddylifodd lluaws mawr o drigolion i'r fro; sefydlwyd pregethu gan y Methodistiaid; ac yn awr y mae y ddwy eglwys hyn yn cynwys 200 o aelodau; a'r ferch wedi myned yn amlach ei meibion na'r fam.

---

## PENNOD VI.

### CYNYDD METHODISTIAETH AR OL YR ADFYWIAD YN Y FLWYDDYN 1762, YN ARFON.

CYNWYSIAD:—

LLANRUG A'I HARDALOEDD—WILLIAM JONES, PEN-YR-ALLT—PREGETHU YN DECHREU YN LLANRUG TUA'R FL. 1776—PREGETHU YN NHWLL-Y-CLAWDD—FFURFIO EGLWYS YN 1783—PREGETHU YN CAE-HOWEL, WAUN-WINA, TY'N-'R-HENDRE, &c.—CHWEDL AM EVAN EVANS, WAUNFAWR, AC AM JOHN THOMAS, LLANBERIS—JOHN ROBERTS, CASTELL—HUGH WILLIAM Y GOF, PENTIR-ISAF—HOLLAND GRIFFITHS, YSW., MON.

#### LLANRUG A'I HARDALOEDD.

Yr oedd pregethu achlysurol wedi dechreu mewn amrywiol ardaloedd, a phregethu mwy neu lai cyson, yn bod yn Nghlynog, Waunfawr, Llanllyfni, a Llanberis, eisoes, sef cyn adfywiad 1762; ond, oddigerth yr ardaloedd hyny, nid oedd Methodistiaeth wedi gwreiddio nemawr yn ardaloedd *Arfon*. Ond nid hir ar ol hyn y bu cyn ymosod ar ardaloedd Llanrug, a Llanddeiniolen,

ac ymsefydlu yno. Yn y blynyddoedd 1750—1760, nid oedd ond ychydig o grefyddwyr ar gael; un yma ac un acw a geid, yn ymofyn am gael clywed yr efengyl; ac i'r dyben hwnw yn gorfod teithio yn mhell yn fynych. Dywedir fod William Jones, Pen-yr-allt, gŵr y crybwyllasom ei enw eisoes, yn arfer myned, yn nghyda'r ychydig frodyr craill o'r un meddwl ag yntau, i Frynengan, ugain milldir o ffordd, mwy neu lai, i gael cyfarfod eglwysig. Ymddengys, felly, er fod capel wedi ei godi yn Nghlynog tua'r fl. 1750, nad oedd eto yr un eglwys wedi ei ffurfio yno, nac, yn wir, yn holl Arfon, onide, paham yr oedd yn rhaid myned mor bell a Brynengan i gyfarfod eglwysig?

Nid oes genym nemawr o sicrwydd am bregethu yn mhlwyfydd Llanrug a Llanddeiniolen, cyn y fl. 1776. Tua'r pryd hwn, fe ddywedir fod pregethu achlysurol mewn lle yn yr ardaloedd hyn, o'r enw Garth. Yn mhen ychydig ar ol hyny, dechreuwyd pregethu wrth goeden, mewn lle a elwir Adwy-y-ddeugae. Nid hir y caniatawyd hyn iddynt, eithr ymlidiwyd hwy ymaith o'r lle hwn, ar gyfrif, meddai eu gwrthwynebwyr, fod y cloddiau yn cael niwaid gan y bobl a ddeuent yn nghyd. Er mwyn symud y rhith esgus hwn, penderfynwyd, ar ol hyn, ymgynull yn nghanol y Rhos, wrth ryw gareg adnabyddus yno, lle nad oedd clawdd i'w ddryllio. Yn y lle hwn, y gareg grybwylledig oedd y pulpud. Ar y gareg y safai y cynghorwr i draethu wrth ei gydwladwyr "fawrion weithredoedd Duw." Ond rhy dda pulpud i'r pengryniaid oedd y gareg, a rhy dda cyfleusdra i ymgynull ynddo oedd y Rhos; ac oddiar wir ddygasedd fod Crist a'i groes yn cael ei bregethu, cymerodd rhyw un ei ordd, a drylliodd y gareg yn deilchion. Symudwyd, gan hyny, oddiyma i ymyl maen lled fawr wrth Glawdd y rhos. Yr oedd tŷ a elwid Twll-y-clawdd, yn sefyll gerllaw, ac yr oedd y gŵr a'i preswyliai yn arddel crefydd, ond yr oedd ei wraig yn ffyrnig iawn yn ei herbyn. Unwaith, ar ddiwedd oedfa, wrth Glawdd-y-rhos, ïe, ar ddiwedd yr oedfa olaf a gadwyd yno, cyhoeddwyd y byddai oedfa drachefn yno yn mhen tair wythnos. Ond cyn i'r tair wythnos hyny fyned heibio, bu farw gwraig Twll-y-clawdd, a chafwyd rhwydd hynt, bellach, i gadw yr oedfaon yn y *tŷ*, ac nid wrth y *clawdd*.

Fe fu pregethu yn y fro hon, ac o le i le ar hyd y Rhos, am ysbaid pum' mlynedd, cyn cael lle arosol yn Nhwll-y-clawdd; ac yn ystod y blynyddoedd hyn, yr oedd ambell un yn awr ac cilwaith yn cael eu hennill at grefydd, ac yn cael eu chwanegu at y crefyddwyr; ac i'r Waunfawr yr aent oll i fwynhau cyfarfod eglwysig. Ond wedi i ddrws Twll-y-clawdd gael ei agor, a chael lle sefydlog a diddos i ymgynull ynddo, sefydlwyd yma gangen fechan o eglwys. Yr oedd hyn tua'r fl. 1783. Y nifer gyfansoddai yr eglwys hon ar y cyntaf oedd 15.

Oddeutu yr un amser y dechreuwyd pregethu yn ardal Llanddeiniolen, ag y cychwynwyd ef yn Llanrug, er i'r olaf flaenu gradd ar yr ardal arall mewn sefydlu cymdeithas eglwysig ac adeiladu capel. Dichon hefyd fod pregethu yn llawn mor foreu yn *Cae-Howel*, lle yn nghymydogaeth Llanddeiniolen, ag

oedd yn y Garth. Dywedir fod oedfaon yn cael eu cadw yn y lle hwn oddeutu y fl. 1770. Yr oedd merch i William Jones, Pen-yr-allt, yn byw yno, ac nid annhebyg ydyw, mai hi a fu yn foddion i gael pregethu yno; ac ar ei hymadawiad hi o Cae-Howel, ymadawodd y pregethu hefyd, yn mhen blynyddoedd ar ol yr amser a grybwyllwyd uchod, sef y fl. 1770. Llwyddodd un William Jones, Cae-corniog, i gael ambell oedfa i'r Waun-wina. Y cyntaf a gafodd oedd Robert Jones, Rhoslan gynt, yr hwn oedd ewythr iddo. Safodd y pregethwr y tro hwn ar ben careg, yn agos i'r Cae-corniog, tŷ William Jones. Bu amryw o bregethwyr yn y lle hwn ar ol Robert Jones; ond yn mhen ysbaid o amser, neillduodd William Jones ystafell groes a berthynai i'w dŷ, i fod yn lle i gynal pregethu ynddo, a gwnaeth bulpud bychan, ac a'i gosododd yn yr ystafell hon. Cynaliwyd y moddion, bellach, yn y lle hwn, yn lled gyson, tra y bu y gŵr duwiol hwnw fyw. Ar ol ei farwolaeth, fe fu yr achos dros dymhor yn ansefydlog, ond nid heb ddrysau agored i'w dderbyn, oddieithr dros ryw dymhor byr. Dywedir fod pregethu mewn amryw fanau ar hyd y fro, yn neillduol fe sonir am le a elwir Tŷ'n-yr-hendre, lle yr oedd un Rowland Davies yn byw, yr hwn a ddygodd y pulpud o'r Cae-corniog, ac a'i gosododd i fyny yn ei ysgubor ei hun.

Symudodd y gŵr hwn o Tŷ'n-yr-hendre i'r Hafod-olau, a derbyniodd bregethu yno hefyd, a dygai y draul gan mwyaf ei hun. Fe fu pregethu hefyd mewn manau eraill, megys yn Tros-y-waun—y Fach-wen—mewn tŷ bychan yn agos i Blas-yn-mhentir—yn Blaen-y-cae—yn y Castell—y Tyddyn-canol—ac yn Aber-bach-awyr, a manau eraill. Yn y lle olaf a nodwyd, sonir am un oedfa nodedig i Evan Evans, Waunfawr, yr hon a gadwyd allan yn yr awyr agored. Ar yr oedfa hon duodd yr awyr gan gymylau, a disgynodd gwlaw trwm iawn ar y bobl. Ar hyn gweddiodd y pregethwr, gan ddywed, "O Arglwydd, Creawdwr a Llywodraethwr pob peth, dyro seibiant am ychydig amser i gynghori hyn o bobl sydd a'u hwynebau ar y byd tragwyddol." Yn y fan attaliwyd y gwlaw.

Nid ydym yn cael fod rhyw lawer o erlid ar y crefyddwyr yn y broydd hyn, oddieithr yn achlysurol, ac i raddau bychain. Yr oedd diystyrwch wedi cymeryd lle gorthrwm. Bwrid cenllif o wawd arnynt, ac edrychid gan lawer ar eu hachos islaw eu sylw, i sefyll drosto, nac i'w erlid chwaith. Ceir esampl o agwedd anystyriol y bobl yn yr hanesyn a ganlyn:—

Yr oedd John Thomas, Llanberis, yn pregethu yn y tŷ gerllaw Plas-yn-Mhentir, ac ofnai yn fawr mai ei erlid a'i faeddu a gawsai ef a'r ychydig bobl a ymgynullasent i wrando arno. Nid oedd gwrandawyr John Thomas yn y tŷ ond 6 neu 7 o rifedi, ond yr oedd mewn maes yn ymyl luaws mawr o oferwyr wedi dod at eu gilydd i droedio y bêl, a mawr oedd arswyd John Thomas a'i wrandawyr rhag i'w cynulliad crefyddol hwy ddod yn adnabyddus i'r dyrfa oddiallan; cymaint felly, fel yr ofnent roddi eu llais allan i ganu fel arferol, rhag eu clywed gan yr oferwyr, a'u haflonyddu ganddynt. Pa fodd bynag, anturio canu a wnaethant, a chlybu y dyhiriaid y swn, a rhuthrasant, dan dyngu a rhegu, i'r lle, a chan fygwth y tynent dô y tŷ i lawr, oni ddeuai

y pregethwr allan i bregethu iddynt hwy. Ac allan y bu raid myned. Gŵr ofnus oedd y pregethwr, eto, er maint ei arswyd, bu gorfod iddo wynebu y dorf ddireol hon; ac, yn groes i'w ddysgwyliad a'i ofnau, cafodd lonyddwch ganddynt i bregethu, a hwythau ar ddiwedd yr oedfa a aethant yn ol at eu chwareu. Tro arall, rhoddwyd tywarchen ar gorn simnai y tŷ bychan yr oedd yr oedfa ynddo, fel ag i lenwi y tŷ â mwg, a thrwy hyny lesteirio y gwasanaeth crefyddol.

Nid oedd yr achos, yn y tymhor hwn, â gwedd sefydlog arno, gan fod y pregethu yn treiglo cryn lawer o dŷ bwy gilydd, eto fe sefydlodd, yn fwyaf, mewn lle a elwir Blaen-y-cae. Yn y lle hwn fe fu y Parch. Daniel Jones, gynt o Gaernarfon, yn myned yno bob nos Fercher, am ysbaid blwyddyn, heb golli ond unwaith dros yr holl amser. Ac nid oes amheuaeth na fu ei lafur yn fendithiol i laweroedd.

Yn Llanrug, er hyn, yr oedd y cyfarfod eglwysig, ac aelodau o'r eglwys yno yr ystyriai yr ychydig grefyddwyr ag oeddynt wasgaredig ar hyd y fro eu hunain. Eto, am dymhor cyn adeiladu yr addoldy a elwid Ysgoldy, Llanddeiniolen, yr oedd cyfarfod eglwysig yn arfer a chael ei gadw yn lled gyson, ac o'r diwedd ymneillduwyd yn llwyr oddiwrth y fam-eglwys yn Llanrug.

Yr oedd capel eisoes yn Llanrug. Codwyd hwn tua'r fl. 1798. Yr oedd cyttir helaeth yn y gymydogaeth hon, a barnwyd y gellid anturio adeiladu capel ar y cyttir, os byddai y plwyfolion yn caniatâu hyny. Cyhoeddwyd, gan hyny, am dri Sabboth, y byddai i *vestry* y plwyf gael ei chynal yn y llan i'r dyben hwn. Felly hefyd y bu. Ac yn y cyfarfod hwn, penderfynodd y plwyfolion ar ganiatâu darn o dir, digonol i godi capel arno, a chael gardd hefyd i'w ganlyn. Ond ni chaed hyn heb wrthwynebiad. Cododd rhyw "Sanbalat" ar fedr attal y gwaith, a chynullodd wŷr i chwalu y muriau; ond ni allodd ddwyn ei amcan i ben, oblegid daeth lluaws o ddynion, wedi clywed am ei fwriad, i lawr o'r cloddfeydd chwareli, ac a'i gyrasant ef a'i wŷr ar ffô. Effeithiodd hyn gymaint arno, fel y bu efe farw yn mhen ychydig ddyddiau.

Ar waith yr ychydig grefyddwyr yn ymneillduo o Lanrug, rhoddwyd iddynt henuriad o ddiacon tra ffyddlawn a defnyddiol, sef Mr. John Roberts o'r Castell. Mae coffadwriaeth y gŵr hwn yn arogli yn beraidd iawn yn y cymydogaethau y bu ef yn aneddu ynddynt. Yr oedd trefn ei dŷ, cysondeb ei rodiad, manylrwydd ei broffes, hynawsedd ei ysbryd, yn nghyda'i ymgysegriad cydwybodol i waith a theyrnas yr Arglwydd Iesu, yn goron anrhydeddus i'w gymeriad, o'r fath na cheir ond anfynych iawn yr un mwy ei dysgleirdeb. Disgynodd bugeiliaeth yr eglwys fechan yn Llanddeiniolen, ymron yn hollol arno, gan nad oedd yn y tymhor cyntaf neb a allai ei gynorthwyo. Bu yn ffyddlon iawn yn ymofyn am bregethwyr i'w ardal. Am ysbaid 40 ml., ni fethodd unwaith a myned i gymdeithasfa y Bala, o'r pryd y gosodwyd ef yn ei swydd hyd ei farwolaeth. Agorodd ei dŷ a'i law i gynal achos yr efengyl, a gwnaeth hyny yn ddirodres a dirwysg; nid er mwyn ei weled, ond o wir gydwybod o'i ddyledswydd, ac o wir gariad at

Fab Duw. Bendithiwyd yntau yn ei enaid, yn ei blant, ac yn ngwaith ei ddwylaw. Bu farw Mai, 1826, yn 77 ml. oed. Mae ôl ei hyfforddiadau a'i esampl, yn nghyda'r eiddo ei wraig, ar ei blant hyd heddyw, mewn cymeriad anrhydeddus fel gwladwyr, ac ar lawer o honynt fel dynion dysglaer eu gras, a helaeth eu defnyddioldeb.

Yr oedd yr erlid cyffredinol a fu ar y Methodistiaid yn eu dechreuad wedi diflanu i raddau mawr. Yr oedd o leiaf wedi newid ei ffurf, a dull ei ymosodiad. Yr oedd rhagfarn y werin wedi lliniaru llawer, ac nid oeddynt, bellach, yn offer mor barod i'w defnyddio gan y boneddwyr a'r clerigwyr, fel y buasent gynt. Yn awr yr oedd yr ymgyrch yn cael ei wneuthur ar bersonau neillduol, trwy ddial arnynt, ar gyfrif eu crefydd, pan rhoddid rhyw gyfleusdra i hyny. Yr oedd cymwynasau y mawrion yn cael eu hattal yn fwriadol oddiwrthynt, a'u dylanwad, mewn llawer amgylchiad, yn cael ei arfer i'w gorthrymu a'u blino. Fel enghraifft, gellir crybwyll yr amgylchiad canlynol:—

Yr oedd gôf o'r enw Hugh Williams yn byw yn y Pentir-isaf, yr hwn a gawsai ar ei feddwl ymuno â'r Methodistiaid. Yr oedd gŵr cyfrifol yn byw, ar yr un pryd, yn y gymydogaeth, o'r enw Hugh Williams, Ysw. Yr oedd y gôf wedi cael llawer o garedigrwydd ar law y boneddwr, dros lawer blwyddyn. Edrychid arno, gan y gŵr mawr, yn ddyn gonest, da ei waith, a pharod ei wasanaeth, ac ennillasai hyn iddo wyneb yr yswain. Ond hyd yn hyn, nid oedd Mr. Williams yn gwybod fod Hugh wedi ymuno â'r crefyddwyr, ac nid oedd Hugh, mae yn debyg, ar frys i hysbysu hyny iddo, gan y gwyddai mai blin iawn a fyddai hyny ganddo, a chan yr ofnai hefyd, o bosibl, y canlyniadau iddo ei hun. Ond tua'r fl. 1784, pan oedd cymdeithasfa yn cael ei chynal yn Beaumaris (y gyntaf, dybygid, a fu yno), methodd Hugh ag aros gartref, gan ei awydd i fwynhau gwledd mor ddymunol ganddo; ac i'r gymdeithasfa yr aeth. Ebrwydd y cyrhaeddodd hyn i glustiau y boneddwr, a gwysiwyd y troseddwr, boreu dranoeth, i'w ŵydd. Ond cyn iddo allu cyrhaedd y tŷ, cyfarfu ar y ffordd â'r gŵr mawr, yr hwn oedd yn amlwg mewn gwŷn arswydus; dechreuodd gyhuddo Hugh o'r bai anfaddeuol o ganlyn y pengryniaid, a bygythiodd ei guro â'i ffon. Edliwiodd iddo y cymwynasau a wnaethai iddo, er pan oedd ef yn fachgen, gan ofyn, pa fodd y meiddiai efe ymuno â'r fath bobl, a newid ei grefydd heb ei grybwyll ef yn gyntaf, a mynu gwybod ai boddhaol a fyddai hyny ganddo, ai peidio?

Wedi ysgyrnygu enyd yn y dull hwn, llarciddiodd ronyn, a rhoes hyny seibiant i Hugh ddweyd gair.

"Gyda'ch cenad, meistr, mae gen' inau air neu ddau i'w ddweyd."

*Bon.*—Gan ail ffyrnigo, "Pa beth sydd genyt i'w ddweyd? Oni ddywedais i y gwir?—Ond os oes genyt rywbeth i'w ddweyd, dywed:—gâd glywed pa beth?"

*Hugh.*—Yr wyf yn cydnabod, syr, mai gwir yw y cwbl a ddywed'soch:—chwi fuoch yn dda wrthyf, er pan yn blentyn, am yr hyn yr wyf yn dra diolchgar i chwi hyd heddyw."

*Bon.*—"Wel, beth yn mhellach sydd genyt?"

*Hugh.*—"Nid rhaid i mi ddyweyd wrthych, am eich bod yn gwbl adnabyddus, pa fodd yr ymddygais inau wedi tyfu i fyny. Nid oedd na ffair, gwylmabsant, na noswaith lawen, heb fy mod i ynddynt, ac ni ddarfu i chwi erioed gymaint a dywedyd mai drwg y gwnaethum. Ond pan aethum i geisio lles i fy enaid, wele chwi yn fy nwrdio, yn rhoddi enwau drwg arnaf, ac yn bygwyth fy nhroi o fy anedd. O! meistr, nid oes genyf ond un enaid, ac y mae yr amser o hyn hyd angau i barotoi ar ei gyfer yn fyr iawn, a gwell fydd genyf, os rhaid yw, gymeryd fy nhroi allan o fy llety, na gwneyd cam â fy enaid anfarwol!"

Cododd y boneddwr ei ddwylaw a'i lygaid i fyny, pan glywodd hyn, a dywedodd, "Yn enw y Mawredd, ni ddywedaf air yn dy erbyn byth mwy!"

Cadwodd y gŵr boneddig ei addewid, ac ni ddywedodd air yn erbyn ei grefydd wrth y gôf o hyny allan.

Ond nid oedd profedigaethau Hugh y gôf ddim wedi darfod. Bu farw Mr. Williams, yr hwn a ddangosasai gymaint o garedigrwydd iddo, sef yr hynaf o dri o frodyr, a daeth yr ail fab i feddiant o'r drefdadaeth. Yr oedd Hugh, er pan fu farw ei dad, wedi cael ei dŷ a'i efail yn ddiardreth, a phan y daeth brawd ei feistr, yr hwn oedd yn offeiriad, i feddiant o'r eiddo, efe a gafodd allan, wrth olrhain y llyfrau, nad oedd Hugh ddim wedi talu dim ardreth am ei dŷ er ys blynyddau. Yr oedd crefydd Hugh yn atgasach gan yr offeiriad, na chan ei frawd, a rhybuddiodd Hugh y byddai raid iddo dalu ardreth y blynyddoedd a aethent heibio, yr hyn oedd gymaint ag a lethai fywiolaeth y truan ar unwaith.

Yr oedd gan Hugh frawd yn Mangor, yn gyfreithiwr, a chan fod blinder Hugh yn trymhau, aeth ato i adrodd ei helynt, a chafodd allan ei fod, ar gyfrif hir fwynhad o'r tŷ yn ddiardreth, yn feddiannydd arno yn ol y gyfraith, fel na ellid cael dim ardreth ganddo, na'i droi ef allan chwaith. Mynegodd Hugh hyn i'r offeiriad, yr hwn, bellach, a ddystawodd, gan ddweyd, "Mi a faddeuaf i ti yr ardreth, ond y mae'n rhaid i ti ymadael." I hyn yr atebodd Hugh, "Yr wyf yn foddlon i hyny."

Ymadael hefyd a fu raid i Hugh Williams; ond yr oedd yr addewid ganddo wrth gefn, "Pwy bynag a adawo dŷ neu frodyr, &c., er mwyn fy enw i, a dderbyn y càn cymaint yn y byd hwn, a bywyd tragywyddol a etifedda efe." A'r addewid hon a wiriwyd iddo yntau. Pan ddeallodd ei gyfeillion crefyddol ei benbleth, barnasant mai eu lle oedd ymofyn, o leiaf, am le arall iddo; a phenderfynwyd ar fod i hysbysiad gael ei ddwyn, os byddai rhyw ddrws yn agor, i gyfarfod misol ag oedd i gael ei gynal yn mhen ychydig wythnosau, yn ysgubor y *Fachwen*. Yr oedd sefyllfa y gôf druan, bellach, yn drallodedig iawn. Yr oedd yn gorfod ymadael â chymydogaeth lle yr adwaenid ef yn dda, a lle yr ennillasai ei gymeriad a'i fywiolaeth; ac nid hawdd oedd i grefyddwr, ac enw pengrwn arno, gael lle, y pryd hwnw, i ymsefydlu; ac nid mor hawdd, wedi cael lle, oedd gweithio ei ffordd, ac ennill ei damaid, yn wyneb cenllif o ragfarn a redai yn ei erbyn. Pan ddaeth Hugh i'r cwrdd

misol, dan obeithio y rhoddid hanes gan ryw un am le arall iddo; cyfarfu â siomedigaeth drachefn, oblegid nid oedd neb wedi gwybod am un drws agored. Ond cododd Robert Jones, Tŷ-Bwlcyn, ar ei draed i'w gysuro, gan ddyweyd, "Paid a digaloni, anwyl frawd,—er fod pob drws yn ymddangos yn gauedig, y mae un drws eto yn agored, ac y mae curo wedi bod wrth hwnw, drosot;—nid oes un amheuaeth genyf nad oes darpariaeth gan ragluniaeth ar dy gyfer di a dy deulu. Ti elli fod yn berffaith hyderus yn hyn; ond na fydd dithau segur. Dos allan i chwilio, ac am a wn i mai cychwyn boreu fory a fyddai goreu."

Rhoes y cyfarchiad yma ail gyfnerthiad yn meddwl y truan trallodedig, a chychwynodd dranoeth i fyned, heb wybod, mwy nag Abraham gynt, i ba le; ond cyn dychwelyd adref, yr hyn a wnaeth cyn y nos, yr oedd wedi cymeryd tŷ ac efail, yn nghydag ychydig dir yn gysylltiedig, digon i gadw buwch, ac i godi ychydig rawn at angenrheidiau teulu, y cwbl am £4 yn y flwyddyn! mewn lle a elwir Pentref-berw, Llanidan, Môn.

Yr oedd rhai boneddwyr ar gael, y pryd hwnw, yn ngwahanol wledydd Cymru, llai eu rhagfarn nag eraill; llai darostyngedig i anwydau, ac i dderbyn chwedlau; a mwy parod a galluog i farnu pethau wrth eu teilyngdod priodol. Ymddengys fod boneddiges a'i mab o'r fath yma yn byw yn Môn, o'r enw Mrs. Griffiths, a Mr. Holland Griffiths. Yr oedd Hugh Thomas, pregethwr, eisoes yn *denant* i'r wraig hon, ond oblegid fod brawd iddo, yr hwn oedd yn perthyn i'r Bedyddwyr, wedi dygwydd dwyn anair ar grefydd trwy ryw ymddygiad gwarthus o'r eiddo, yr oedd Hugh Thomas dan rybudd i ymadael â'i dyddyn, gan yr ofnai Mrs. Griffiths iddo ef droi allan yn gyffelyb i'w frawd. Wedi i Hugh William ddeall fod parodrwydd yn y wraig foneddig i osod y lle a geisiai iddo, efe a farnai yn onestrwydd i hysbysu iddi ar unwaith, ei fod yntau yn grefyddwr; ac ebe fe, "Mae yn rhaid i mi, *ma'm*, ddyweyd y gwir wrthych. Yr wyf yn perthyn i'r bobl yma fydd yn pregethu yn y tai anedd ar hyd y wlad."

"Ho! ho!" ebe hithau, "pa rai o honynt?—ai y *dippers?*"

"Nage," ebe Hugh, "ond y bobl a elwir y Methodistiaid."

Ar hyn daeth ei mab, Mr. Holland Griffiths, i mewn, gan ofyn, "Pa beth sydd?"

"Yr wyf ar fedr gosod," ebe hithau, "y Tŷ-gwyn i'r dyn yma. Mi feddyliwyf arno ei fod yn ddyn gonest; ond fe ddywed wrthyf ei fod yn perthyn i'r bobl a fydd yn pregethu yn y tai."

"Pw! pw!" ebe yntau, "pa waeth am hyny? Oni bai rhag cywilydd, mi awn i fy hun i'w gwrando."

"Chwi aech, Holland?"

"Awn yn wir," ebe yntau, "y maent yn well pobl o lawer na miloedd sydd yn eu beio."

"Wel, wel," ebe ei fam, "os felly y mae, rhaid i Hugh Thomas gael aros yn ei dyddyn, a rhaid i'r dyn yma gael y Tŷ-gwyn."

Ar hyn ysgrifenodd air gyda Hugh William i fyned at y goruchwyliwr, i

gymeryd y lle, ac erchi iddo, yn gyntaf, fyned i'r gegin i gael bwyd a diod. Trwy yr amgylchiadau hyn, gwellhawyd ar sefyllfa y gôf, ac amddiffynwyd y tyddynwr rhag ei droi allan o'i dir yn ddiachos.

Mae yn deilwng o sylw arbenig pa wasanaeth a fu yr ysgol Sabbothol i ddwyn yn mlaen yr achos da yn y parthau hyn. Ymosododd William Jones, neu William Siôn, fel y gelwid ef, Cae-corniog, ar y gwaith hwn, gyda'i fod wedi dyfod at grefydd; ïe, pryd nad oedd ynddo ddim cymhwysder at y fath orchwyl, heblaw gonestrwydd ei amcan, ac aidd ei enaid. Nid oedd yr athraw hwn ond anfedrus mewn darllen, eto fe fu yn cadw yr ysgol ei hunan heb gynorthwy neb arall am rai blynyddau. Cedwid hi ar y dechreu yn y tymhor haf yn unig, a symudid hi o fan i fan, fel y byddai cyfleusdra. Anhawdd i ddeiliaid ysgol Sabbothol yr oes hon ddychymygu pa fath galedwaith oedd ei chadw ar ei chychwyniad. Yr oedd y plant yn berffaith anghynefin ag un reol, ac heb un ymsyniad am weddeidd-dra. Yr oedd yr olwg arnynt yn farbaraidd, a'u hymddygiad yn wyllt ac anwar; ac nid oedd neb yn eu mysg eto wedi eu trefnuso a'u dofi i fod yn esampl i'r lleill. Rhaid oedd i William Jones wrth y wialen fedw gyda phob rhan o'i orchwyl; defnyddid hi wrth eu dysgu, ac wrth eu holi; ïe, mynych y gorfyddai iddo wedi dechreu gweddio, godi oddiar ei liniau i'w ceryddu; ac wedi eu trefnuso ronyn, syrthio ar ei liniau eilwaith, i orphen ei weddi. Yr oedd hyn cyn y fl. 1796; ac mewn adeg nad oedd rhieni y plant yn gwneyd dim i gynorthwyo yr athraw—adeg nad oedd nemawr grefyddwr ar gael yn y fro, ac adeg hefyd, pryd nad oedd pob crefyddwr, ïe, er bod yn ddyn da, ddim eto wedi ei ennill i roddi llaw o gynorthwy i'r gwaith. Ond o'r flwyddyn grybwylledig yn mlaen, fe gafodd William Jones gynorthwy amryw o frodyr, a fuont yn ffyddlawn a diwyd i ddal ei freichiau, ac i hyrwyddo ei amcan.*

Ond nid oedd addoldy priodol gan y Methodistiaid yn y plwyf eto, na chan un enwad ymneillduol arall. Ryw bryd oddeutu y fl. 1808, daeth ar feddwl y brodyr a lafurient gyda'r ysgol Sabbothol, gael lle mwy cyfleus i'w chadw. Yr oedd hyd yn hyn yn cael ei chynal mewn tai anedd, weithiau yma, ac weithiau draw; a chan fod y llafur hwn wedi ei goroni â gradd o fendith, teimlid eisieu lle mwy eang a mwy sefydlog, a soniwyd yn bryderus am godi *ysgoldy*. I hyn yr oedd y fam eglwys yn Llanrug yn dra anfoddlawn, er fod mwy na thair milldir rhwng y ddau le â'u gilydd! siaradent hefyd yn lled ddiflas am yr anturiaeth, a galwent yr ysgoldy yn *ffynnon diogi*. Er hyn oll adeilad a gaed, ac *ysgoldy* y galwyd ef; ac *ysgoldy* y gelwir yr addoldy yn yr ardal hon hyd heddyw. Galwyd ef felly ar y dechreu, gan mai yr ysgol Sabbothol a alwodd yn arbenig am dano, ac hefyd, am na oddefai y gŵr mawr, perchenog y tiroedd, yr enw capel ar un adeilad o fewn ei derfynau. Nid oedd yr adeilad hon ar y cyntaf ond bechan a gwael, tuag 8 llath wrth 6; bu ail a thrydydd adeiladu ar yr ysgoldy hwn, ac yn awr y mae yn

* Enwir un Rowland Evans yn un o'r rhai cyntaf; gŵr call, ac o ddylanwad helaeth:—hefyd, Rowland Dafydd, Rowland Abraham, y ddau Robert Roberts, Blaen-y-cae, ac eraill.

addoldy helaeth a hardd, eto yn aros hyd heddyw dan yr hen enw Ysgoldy.

Y pregethwyr a lafurient fwyaf yn yr ardal hon yn ysbaid y blynyddoedd cyntaf, oedd y rhai a breswylient y dosbarth hwn o'r wlad, megis John Thomas, Llanberis; John Williams, Llandegai; Evan Evans, Waunfawr; Hugh Williams, Llanrug; Evan Richardson, Caernarfon; Daniel Jones, Llandegai. Ysgrifena gŵr cyfarwydd ataf, ac a ddywed, "Mr. Daniel Jones, Llandegai, a fu y prif offeryn yn llaw yr Arglwydd i ddarostwng annuwioldeb cyhoedd y fro hon;—llaweroedd a drôdd efe at yr Arglwydd. Bu yn dyfod unwaith bob wythnos, am flwyddyn gyfan, ar ol cadw noswyl, dros y mynydd, i Blaen-y-cae i bregethu, a dychwelai yr un noson yn ei ol, wedi cerdded 9 milldir o ffordd, a hyny ar ol gweithio ei ddiwrnod. Byddai yn pregethu gyda rhyw ddifrifwch ofnadwy, nes byddai dynion annuwiol iawn ar lewygu gan ddychryn y farn ac ofn uffern. Efe a Mr. Richardson a fyddai yn pregethu amlaf o neb yn yr ochrau hyn; a pha ddau erioed mor wahanol? ac eto, pa ddau erioed mor gymhwys? Ar ol i Daniel fod nos Iau yn Mlaen-y-cae *yn lladd*, fe ddeuai Mr. Richardson am ddau o'r gloch y Sabboth i hen gapel Llanrug i *fywhau;* ac os dygwyddai y ddau fod yn cyd-bregethu, fel y buont lawer gwaith, priodol y gellid canu ar ddiwedd yr oedfa,—

"Wele Sinai a Chalfaria,
Heddyw wedi dod ynghyd."

Cymhwys ydyw coffa, yn y lle hwn, am yr hen frawd ffyddlawn Rowland Abraham. Gwasanaethodd hwn swydd diacon yn yr Ysgoldy am ryw nifer o flynyddoedd, ond yn ystod y 18 ml. diweddaf o'i oes, fe lafuriai fel cynghorwr, yn ngwahanol barthau o'r wlad. Dywedir ei fod yn rhagori mewn cadw cyfarfodydd eglwysig, ac mewn holwyddori yr ysgol. Nid oedd yn ŵr o ddoniau na gwybodaeth helaeth, eto nid oedd amheuaeth am ei gywirdeb; a'i ffyddlondeb ydoedd amlwg i bawb.

Yn mhen rhai blynyddoedd ar ol sefydlu yr achos yn yr Ysgoldy, cododd haid o'r cwch hwn drachefn, gan ymsefydlu yn MHENTIR, dan arweiniad Mr. John Roberts, Castell. Yn y lle hwn hefyd, fel mewn lluaws mawr o leoedd eraill, yr oedd yr ysgol Sabbothol wedi rhagflaenu a pharotoi ei lle i weinidogaeth yr efengyl, a chynulliad eglwysi. Yr oedd y llawforwyn hon wedi bod yn llafurio yn Mhentir rai blynyddau cyn sefydliad cyson yr achos crefyddol yno. Bellach, y mae yno gapel helaeth, a chynulleidfa luosog. Tua'r fl. 1816, symudodd cangen drachefn o'r Ysgoldy i'r RHYDFAWR. Adeiladwyd yno gapel, a chasglwyd cynulleidfa. Yn y fl. 1841, heidiodd mintai drachefn o'r Ysgoldy, a sefydlodd yn NGHEFN-Y-WAUN. Gan faint y cynydd yn y lle hwn, bu raid adeiladu ac ail-adeiladu yr addoldy, yn mhen ychydig flynyddoedd. Y fintai olaf a heidiodd o'r Ysgoldy ydoedd un a ddisgynodd yn MRYN-YR-EFAIL. Bu hyn mor ddiweddar a'r fl. 1849.

Wrth gymeryd adolwg ar ysgogiadau Methodistiaeth yn yr ardaloedd hyn, cymhellir ni i synu a dyweyd, "Wele, beth a wnaeth Duw!" Nid oes

nemawr dros 60 ml. er pan wynebodd William Siôn, Cae-corniog, ei hunan ar anialwch gwag erchyll plwyf Llanddeiniolen; a dim ond 45 ml. er pan godwyd y capel bychan cyntaf yn y plwyf, ac y sefydlwyd achos crefyddol ynddo;—wrth gofio hyn a bwrw golwg ar y wedd bresenol sydd ar Fethodistiaeth yn y fro,—pa sawl capel a godwyd,—pa sawl cynulleidfa a grynhowyd;—ïe, pa faint o dywyllwch anwybodaeth a chwalwyd, a pha nifer o eneidiau a ddychwelyd at Dduw, parod ydym i ddyweyd, "*Mor gadarn y cynyddodd gair yr Arglwydd, ac y cryfhaodd!*"

## PENNOD VII.

### CYNYDD METHODISTIAETH YN ARFON.

CYNWYSIAD:—

DECHREUAD METHODISTIAETH YN MRYN-YR-ODYN—EVAN SION, TYDDYN-MAWR—SION GRIFFITH A'I WRAIG—WILLIAM EVAN—BYR HANES BWLAN, RHOSTRYFAN, A CHARMEL—DECHREUAD METHODISTIAETH YN NHREF CAERNARFON—Y PARCH. EVAN RICHARDSON—EI HANES, EI DDEFNYDDIOLDEB, A'I GYMERIAD.

#### BRYN-YR-ODYN.

MAE Bryn-yr-odyn yn adnabyddus fel un o wersyllfaoedd Methodistiaeth yn sir Gaernarfon. Yr oedd rhai lleoedd, mae yn wir, wedi cael y blaen arno, megis Llanberis, Waunfawr, Clynog, a Llanllyfni, yn nghyda Brynengan yn Eifionydd, ac amrywiol orsafoedd yn Lleyn; eto gellir edrych ar y lle hwn fel un o fam-leoedd Methodistiaeth Arfon;—mae yn lle hefyd y perthyn iddo rai enwau ac amgylchiadau, â'r fath wedd hynafiaethol arnynt, fel y byddai yn wall anesgusodol ynof beidio eu gosod ger bron y darllenydd.

Mae Bryn-yr-odyn, fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr, yn gorwedd rhwng Caernarfon a Chlynog, tua hanner y ffordd, yn mhlwyf Llandyrnog. Yn agos ato y mae Dolydd-byrion, lle a grybwyllir gan Robert Jones, fel lle wedi ei hynodi gan amgylchiadau ynglyn â phregethu, fel y soniwyd o'r blaen.* Y lle nesaf at Fryn-yr-odyn, y byddai pregethu yn lled gyson ynddo, oedd Llanllyfni.† Nid oes sicrwydd pa un ai cyn ai wedi dwyn pregethu i Fryn-yr-odyn y bu y cais ar gynal cyfarfod misol yn Dolydd-byrion, ac yn Rhostryfan, fel y sonia Robert Jones. Ymddengys fod yma un gŵr o grefyddwr yn byw yn yr ardal, sef yn Tyddyn-mawr, o'r enw Evan Jones, ryw gymaint o amser cyn sefydlu moddion cyson yn Mryn-yr-odyn. Fe ddaeth Evan Jones at grefydd tua'r fl. 1768, a chedwid ambell oedfa yn achlysurol yn ei dŷ ef; ond nid oedd pregethu cyson yn yr ardal hyd y fl. 1773, sef yr amser y daeth Siôn Griffith a'i wraig i fyw i'r ffermdŷ a elwir Bryn-yr-odyn, sef y tyddyn y cafodd y capel ei enw oddiwrtho. Y dynion mwyaf amlwg gyda sefydliad yr achos yma oeddynt, Evan Jones, Tyddyn-mawr; Robert Hughes, Caelywarch; a Siôn Griffith, Bryn-yr-odyn.

Mab oedd Siôn Griffith i Owen Griffith, Dynog-felen-fawr. Nid oedd ei

* Gwel tudal. 193. † Gwel ei hanes tudal. 165.

dad na'i fam yn meddwl nemawr am grefydd, a thyfodd Siôn i fyny, fel y gellid dysgwyl, yn fachgen gwyllt, ïe, yn un o'r rhai mwyaf annuwiol yn yr holl fro. Wedi dyfod i oedran priodol, aeth i wasanaethu i ffermdŷ, yn mhlwyf Clynog, o'r enw Grainog. Yn y lle hwn, arweiniwyd ef unwaith i gyd-gau clawdd terfyn, gydag un Rowland Williams o'r Henbant-mawr. Yr oedd Siôn Griffith, ar hyn o bryd, yn llanc cryf o gorff, a thra anystyriol o feddwl, bras a thynglyd ei ymadroddon; ïe, yn rhagori ar ei gydoeswyr yn hyn. Aml lŵ a rheg a roddai yn ystod yr amser y bu efe yn cyd-gloddio y clawdd-terfyn gyda Rowland Williams, yr hyn a barodd i'w gyd-weithiwr ddyweyd wrtho, gyda'r nos, "Wel, Siôn, pe cai ti ddafad am bob llŵ a roddaist heddyw, byddit yn gyfoethog iawn heno." Suddodd y cerydd hwn i'w feddwl, a pharodd lawer o anesmwythder iddo. Ond er fod ei gydwybod yn ei frathu yn ddwys oblegid yr arferiad gwrthun a drygionus, eto cymaint a fuasai ei gynefindra â'r arferiad, fel y syrthiai i'r un bai drachefn, a hyny ymron yn ddiarwybod iddo ei hun.

Yn y cyfamser, fe briododd Elizabeth o'r Penbryn-bach, Llanllyfni, lle y bu, tybygid, yn byw dros ryw dymhor. Yr oedd yn parhau i ymladd yn erbyn y pechod parotaf i'w amgylchu, sef tyngu; ac os dygwyddai syrthio i'r bai, chwanegai gyda brys, fel un yn cael ei bigo, "Duw fo'n maddeu i mi!" Wrth glywed hyn ganddo yn aml, dywedai ei frawd-yn-nghyfraith wrtho, "Siôn, rhaid i ti naill ai tyngu fel o'r blaen, neu beidio a thyngu o gwbl; ac onide, mi a'th laddaf di â'r gyllell wair yma;"—o herwydd myned i geisio gwair yr oeddynt. Ar ol dyfod â'r baich gwair adref, aeth Siôn Griffith i'r ysgubor i weddio; a neges fawr y weddi oedd, ymofyn am fodd i beidio tyngu. A dyma, medd fy hysbysydd, oedd y weddi y tro hwn: "O Iesu Grist, os medri di wared pobl rhag pechu, gwared fi rhag *tyngu!*" Ac yn ol tystiolaeth Siôn ei hun, fe wrandawyd ei weddi, a chafodd wybod fod Iesu Grist yn medru gwared pobl rhag pechu.

Ymunodd yn fuan, bellach, â'r gymdeithas eglwysig yn Llanllyfni. Yr oedd argraffiadau dwysion y pryd hwn, ïe, a chyn hyn, ar feddwl Elizabeth ei wraig, ond yr oedd ei rhieni hi yn wrthwynebol iddi ymuno â'r crefyddwyr, rhag y dysgwylid arian ganddi at gynal yr achos. Gofynwyd iddi pan yn hen, "Pa un ai chwi ai Siôn a aeth gyntaf at grefydd?"

"Siôn," ebai hithau, "a aeth gyntaf i'r eglwys, ond arnaf fi yr oedd trallod gyntaf am fy nghyflwr."

"Pa beth a'ch cadwai chwi yn ol?"

"Safai fy rhieni yn fy erbyn, rhag y byddent yn hel arian oddiarnaf. Yna dywedais wrth Siôn, 'Dos di i'r *seiat*, i edrych a ydynt yn hel arian;' ac wedi cael ateb ganddo nad oeddynt, aethum inau, ac yno y buom byth mwy."

Ni chafodd Siôn Griffith a'i wraig hir lonyddwch i grefydda, heb brofi peth o chwerwder erlidigaeth. Bu gorfod arnynt ymadael â Phenbryn-bach, a daethant i'r tyddyn a elwid Bryn-yr-odyn i fyw. Yn y fl. 1773 y bu hyn. Ymosododd Siôn Griffith o ddifrif, bellach, i gael pregethu i'w dŷ. Cymhwysodd y tŷ i'r dyben yma, trwy dori twll yn y mur, a gosod yno ffenestr, a

gwneuthur math o bulpud yno. Nid oedd ei dyddyn ond bychan, a'i foddion yntau ond cyfyng, eto fe gynaliodd yr achos, o ran bwyd a llety, i'r pregethwyr a ddeuai yno, am ysbaid 14 neu 15 mlynedd.

Ymdrechodd Siôn Griffith lawer i gael pregethu i Fryn-yr-odyn, a llwyddodd i'w gysylltu â Llanllyfni a Chlynog, yn daith Sabboth. Nid oedd yma, er hyn, ac am faith flynyddau, yr un gymdeithas eglwysig. Aelodau oeddynt o eglwys Llanllyfni, ac yno yr aent yn gyson i'r cwrdd eglwysig. Mae enwau wyth neu naw ar gael, y rhai a arferent fyned i Lanllyfni i'r cyfarfod neillduol, cyn bod un eglwys wedi ei ffurfio yn Mryn-yr-odyn.*

Yn mhen tua 16 ml. wedi i Siôn ddod i Fryn-yr-odyn, sef tua'r fl. 1789, cafwyd lle ar y tir i adeiladu capel, ac ymsefydlodd yr achos yn eglwys wrthi ei hunan. Yr oedd Evan Siôn, a Siôn Griffith, eisoes yn swyddogion eglwysig yn Llanllyfni, ond o hyn allan teimlent eu gwaith yn fwy pwysig nag o'r blaen, a rhwymau arnynt i fod yn fwy dyfal nag erioed. Mawr fu eu pryder a'u diwydrwydd yn ymofyn am bregethu i'r lle, a mynych yr aethant i Langeitho, lle y cyfarfyddid â lluaws o bregethwyr, ac y ceid cyfleusdra i erfyn arnynt ddyfod i ymweled â'r Gogledd. Gwelodd yr Arglwydd yn dda wenu ar ymdrechiadau ei drueiniaid hyn, gan ddwyn tystiolaeth rymus i air ei ras, a chwanegu llawer at yr eglwys megys yn ei babandod, fel y daeth ei rhif tua 60 o aelodau.

Gellir gweled tlodi a ffyddlondeb yr ychydig "bobl druain dlodion," yn enwedig Siôn Griffith a'i wraig—y wraig yn anad neb, yn yr hanesyn a ganlyn:—Ar ryw ddydd Sadwrn, pryd yr oedd angenrheidrwydd darparu rhyw luniaeth i'r gŵr dyeithr a ddysgwylid yno i lafurio y Sabboth, pryderai Elizabeth yn fawr am nad oedd ganddi ddim i'w ddodi ger ei fron. Ond yr oedd ganddi gyfeilles yn y Foryd, at yr hon y byddai yn troi mewn caledi am gymhorth;—aeth ati y tro hwn i fenthyca swllt, a chafodd hyny. Ond mor fawr oedd ei siomedigaeth ar ei dychweliad adref, wedi cerdded yr holl ffordd ar *draed noethion* hefyd, pan y cafodd allan mai swllt drwg a gawsai mewn amryfusedd. Eto ni roddai heibio ei hamcan; aeth at yr hen gist flawd;—yr oedd yno ychydig o flawd ceirch yn ngweddill yn ngwaelod y gist;—casglodd hwn yn ofalus, a chymerodd ef filldiroedd o ffordd i Gaernarfon, i'w newid am ryw beth mwy at ei dyben. Dyma'r wraig a fu megys yn siglo cryd Methodistiaeth, tra yr oedd eto yn ei fabandod, yn y rhan yma o'r wlad! Ni fynai Siôn Griffith byth ei nacâu o gyhoeddiad, ac Elizabeth hithau a ymdrechai, hyd at ddyoddef ei hunan, i wneyd y dyeithriaid a ddeuai atynt yn gysurus.

Yr oedd Evan Siôn, Tyddyn-mawr, yn grefyddwr boreuach na Siôn Griffith, ac yn helaethach ei wybodaeth, a mwy ei bwyll. Yr oedd y dull y dygwyd yntau i ystyriaeth am ei gyflwr, gan ei fod yn byw rai milldiroedd oddiwrth y lle nesaf yr oedd pregethu ynddo, yn nodedig. Yr oedd yn

* Eu henwau oeddynt,—Evan Siôn a'i wraig, Tyddyn-mawr; Siôn Griffith a'i wraig, Bryn-yr-odyn; Sadrach ac Elinor Griffiths, Cae-cipris; Owain a Jane Parry, Groeslon; William ac Elinor Griffiths, Gegin-fain.

gweithio yn un o gloddfeydd y Cilgwyn, a elwid Cloddfa'r-Clytiau. Ei gydweithwyr oeddynt un Evan Siôn, Cae-haidd; a William Siôn, Pandy-hen, Llanllyfni, ac eraill. Yr oedd yr olaf a enwyd eisoes gyda'r Methodistiaid, ond nid oedd gŵr y Tyddyn-mawr wedi clywed pregeth erioed, oddieithr yn y llan. Rhyw ddydd gwaith, yr oedd pregeth i fod yn Ffridd-bala-deulyn,* yn nhŷ tad y Parch. John Roberts, Llangwm, am hanner dydd. Mawr oedd pryder William Siôn yn nghylch yr oedfa, gan awydd ei chael, ac ofn ei cholli, trwy i'w gydweithwyr fod yn anfoddlawn iddo. Ofnai son am dani wrth Evan Siôn, Tyddyn-mawr, eto son am dani a wnaeth. "Taw a dy sŵn," ebe Evan, Cae-haidd, "efo dy bregeth, Wil; a dos yn mlaen â'th waith." Soniai drachefn am y bregeth, a derbyniai yr un gwrthdarawiad. Ond yr oedd gŵr y Tyddyn-mawr (yr un a ofnid fwyaf), yn aros yn ddystaw, ac heb ddyweyd dim. Pan ddaeth amser y bregeth, pa fodd bynag, ymaith â Wil Siôn i'r oedfa, heb ddim caniatâd ychwanegol; ond mawr oedd ei syndod pan welai y ddau eraill, erbyn iddo gyrhaedd i'r lle, yn prysuro ar ei ol. Hon oedd y bregeth gyntaf i Evan Siôn, Tyddyn-mawr, ei chlywed erioed gan ymneillduwyr. Bu y bregeth hefyd yn wir fendithiol iddo. Ymgysegrodd o hyny allan i waith yr Arglwydd, gan ymuno â'r brodyr yn Llanllyfni. Yr oedd hyn tua'r fl. 1768. Pan ddeallodd ei wraig ei fod wedi ymuno â'r Methodistiaid, hi a gynhyrfodd yn dost. Edrychai arno, bellach, fel un wedi ei gadael hi;—mynai ranu y plant, ac iddynt ymadael â'u gilydd. Ond cyn dwyn hyn i lwyr weithrediad, cytunodd i fyned gydag ef i Lanllyfni i oedfa y boreu, ar yr ammod iddo yntau ddyfod gyda hithau i'r llan y prydnawn. Felly hefyd y bu. Aeth gydag ef i'r bregeth, ond y druanes a ddaliwyd dan y bregeth gyntaf; ac yn lle myned i'r llan y prydnawn, aeth gyda'i gŵr i'r cwrdd eglwysig. O hyny allan, ni fu neb yn fwy gafaelgar o'i braint na Jane Jones. Dywedai William ei mhab, na welodd ef ddim tywydd erioed a rwystrai ei fam i Lanllyfni i'r *seiat*.

Yr oedd Evan Siôn yn ddyn egwyddorol a sefydlog; tra eiddigus yn erbyn pechod o bob math, ac yn mhawb; dan y cymeriad o ddyn hallt yn erbyn pechod, y mae yr oes hon o grefyddwyr Bryn-yr-odyn yn ei adgofio. Wrth ymliw â rhyw frawd a wnaethai yn anweddaidd ar ryw achos, troai y troseddwr ato, gan ofyn, "Evan, a ydych chwi yn fy ngweled wedi colli fy lle?"

"Beth fyddaf fi haws a dy weled di, Wil, oni bai i ti *weled dy hun!*" oedd yr ateb.

Yn y fl. 1789, fel y dywedwyd, codwyd y capel cyntaf yn yr holl fro hon. I hwn yr ymgynullai y gwrandawyr o Rhostryfan, Carmel, a Bwlan. Nid oedd yr addoldy cyntaf hwn ond bychan, er, mae yn debyg, yr ystyrid ef y pryd hwnw yn gryn ehelaeth. Naw llath wrth wyth oedd ei faint, a llofft ar bob pen iddo. Cafodd yr achos, yn Mryn-yr-odyn, amaethiad dyfal yn ei amser boreu, gan Mr. John Roberts, Llanllyfni. Deuai yno i'r cyfarfod eglwysig mor aml ag y byddai modd. Gofalai am y bobl ieuainc a aent

* Gwel tudal. 169.

oddiyma i gymanfa y Bala, a llafuriodd i gael Beiblau i'r ardal, mewn amser yr oedd yn anhawdd eu cael. Perchid ef yn fawr gan yr aelodau, a thybient nad oedd un pregethwr mwy nag ef ar gael. Bu ei frawd Robert Roberts, a Mr. Richardson, Caernarfon, hefyd, yn llafurus a bendithiol iawn yn y lle hwn. Ni chafodd yr ardal hon y fraint o gael un pregethwr i fyw ynddi, oddieithr y bu un Griffith Jones, tua hanner can' mlynedd yn ol, yn aros yn nhŷ y capel am dymhor byr, hyd nes daeth Mr. John Jones yno i aneddu, yr hwn hefyd sydd yn aros yno hyd heddyw. Rhai ganedig o'r ardal hon ydoedd y Peirch. John Parry, Caer; a Griffith Solomon; eto nid aelodau yn yr eglwys hon oeddynt hwy ar y pryd y dechreuasant lefaru, ac ni buant yn preswylio yn yr ardal chwaith ar ol dechreu. Gwnaeth Pen yr eglwys y diffyg o fugeiliaeth, neu arolygiaeth pregethwyr, i fyny, trwy ei chynysgaethu â henuriaid effro, ffyddlawn, a llafurus.

Dywedir mai yma y sefydlwyd yr ysgol Sabbothol gyntaf yn y wlad hon. Nid oedd neb yn y fro hon, yn ddiau, yn gwybod ar y pryd fod y fath sefydliad yn un man arall. Yr oedd hyn tua'r fl. 1790. Yr oedd yr ysgol nos eisoes yn cael ei chynal, yn y gauaf, un noswaith yn yr wythnos. Hon a gedwid yn benaf gan Siôn Griffith, Evan Siôn, ac Owen Parry (tad Mr. Parry, Caer). Yr oedd mab i bob un o'r ddau olaf, sef John Parry, a William Evans, newydd ymuno â'r eglwys, ac yn cynorthwyo yn y gwaith. Gresynai y ddau ddyn ieuanc fod yn rhaid rhoddi yr ysgol i fyny yn y gwanwyn, a bod yr ieuenctyd, trwy hyny, yn amddifad o addysg dros y tymhor haf; a dechreuasant ymofyn, ai drwg fyddai cadw ysgol ar y Sabboth? Barnent hwy eu hunain, mai gwaith da oedd dysgu rhai i ddarllen y Beibl, ac y gallent hwythau, eu hathrawon, gael dwy bregeth hefyd ar y Sabboth. Ymofynent â'r hen bobl, ai cyfreithlawn oedd hyny ai peidio; ond ni chawsant ateb sicr ganddynt hwythau; eithr caniatawyd iddynt roddi cynyg ar y gorchwyl, a than gysgod rhyw oddefiad, hwy a ymosodasant ar yr anturiaeth. Nid oedd yr henaf o'r ddau ond 17 ml. oed. Yn fuan wedi iddynt ddechreu ar y gorchwyl, daeth John Roberts i Fryn-yr-odyn i bregethu, yr hwn a'u calonogodd hwy yn y gwaith, gan eu hannog i ddal ato. Fe fu y ddau fachgenyn gyda'r gorchwyl da hwn am ysbaid blwyddyn, heb neb yn eu cynorthwyo. Yn fuan ar ol hyn, gadawodd John Parry yr ardal, a gadawyd William Evans ei hunan, er nad oedd eto ond 19eg mlwydd oed. Parhaodd, er hyny, i lafurio yn ffyddlawn yn y gwaith, heb gynorthwywr, am flynyddoedd, ac ennillodd y fath awdurdod ar ddeiliaid yr ysgol, fel na omeddent iddo ymron ddim a'r a geisiai ganddynt. A thrwy y dylanwad a feddai ar y bobl ieuainc, efe a ddarostyngodd y cyfarfodydd llygredig a gynelid ar ddyddiau gŵyl, ac ar y Sabbothau, yn Llanwyndaf a manau eraill.

Fe gadwyd yr ysgol nos hefyd yn ei blaen am dymhor maith iawn, nid llai na 27 neu 28 o flynyddoedd; a hynod y nifer a ddysgodd rhwng y ddwy. Wedi talm o amser, daeth bechgyn eraill, y rhai a fagesid yn ysgol Bryn-yr-odyn ei hunan, yn alluog ac ewyllysgar i gynorthwyo, yn mysg y

rhai yr oedd Griffith Davies, (o'r Beudy-isaf y pryd hwnw, ond yn awr Griffith Davies, Ysw., o Lundain,)—gŵr y gall ei genedl ymffrostio o hono, nid yn unig ar gyfrif ei gyrhaeddiadau mewn dysgeidiaeth, a gwybodaeth gyffredinol, ond hefyd oblegid ei gymeriad anrhydeddus a difrycheulyd. Teimlai y boneddwr hwn ei rwymedigaeth i William Evans am yr addysg a gawsai ganddo, a dangosai hyny trwy anfon iddo, rai troion, barau o ddillad, "yn gydnabyddiaeth (meddai) am ddysgu i mi yr A B."

Y llwybr a ddefnyddiai William Evans i dynu i lawr y cyfarfodydd llygredig a anurddent y cymydogaethau, oedd rhybuddio pawb, rai wythnosau cyn amser eu cynaliad, nad elent iddynt, a bygwth y troid y neb a elai iddynt allan o'r ysgol. Cafwyd allan un tro, fod tua deuddeg o ddeiliaid yr ysgol wedi myned, ddydd Llun y pasg, i'r ŵyl waharddedig. Pan ddaeth y Sabboth, ac amser yr ysgol, safodd yr athraw ar ganol llawr y capel, a hysbysodd fod achwyniad o'r fath yn bod yn erbyn rhyw rai. Galwyd hwynt yn mlaen. Ufyddhasant hwythau, gan gyfaddef mai gwir oedd y cyhuddiad. Yntau, wedi eu cynghori a'u rhybuddio yn garedig eilwaith, a roes y ddedfryd o ddiarddeliad mewn grym. Ac er fod y troseddwyr ymron oll yn ddynion ieuainc wedi tyfu i fyny, ni syflodd yr un ei dafod yn erbyn yr athraw; ond gan gymeryd eu hetiau, hwy a aethant allan yn dawel a dinŵyd. Y Sabboth canlynol, wele 11 o'r 12 yn dychwelyd yn ol, i gynyg eu hunain drachefn i'r ysgol; ac ar eu hedifeirwch, fe'u derbyniwyd. Safodd y deuddegfed dros rai wythnosau yn ol; ond yntau hefyd a ddychwelodd. Darostyngodd hyn y cyfarfodydd ofer ymron yn llwyr, ac ymwreiddiodd yr ysgol Sabbothol gymaint yn fwy yn serchiadau ei deiliaid, "nes (medd fy hysbysydd) y bu yn rhy anhawdd i'r un drwg ei hun ddenu neb allan o honi am flynyddau." Mae yr ysgol Sabbothol yn y lle hwn yn awr yn agos i 300 o rifedi, a'r gynulleidfa tua 400. Y mae yma, bellach, gapel arall llawer mwy na'r cyntaf, ac eglwys yn agos i 140 o rifedi, er yr holl heidiau a godasant o honi o bryd i bryd, i Bwlan, Rhostryfan, a Charmel.

Yr oedd Siôn Griffith yn ŵr syml, rhydd, a di-dderbyn wyneb. Bernid fod ei wraig Elizabeth yn fwy ei phwyll, yn helaethach ei gwybodaeth, a grymusach ei gras, nag ef; a dywedir iddi fod dros rai blynyddoedd mewn profedigaeth a phetrusder yn nghylch Siôn a oedd ef yn grefyddwr didwyll ai peidio. Cafodd gyfle unwaith i weled ei egwyddor, a bu y prawf a wnaed arno y tro hwnw yn foddion i chwalu ei phetrusder dros byth.

Ar ryw adeg, daeth pregethwr i Bryn-yr-odyn, ac angenrhaid oedd cael gwair i'w geffyl. Dygwyddodd fod yn y ddâs wair ddwy fainc, fel y dywedir, ar doriad. Yr oedd y fainc nesaf i ben uchaf y ddâs yn cynwys gwair llwyd a drwg, wedi ei anmharu gan y tywydd; ond yn y llall, yn nes i ganol y ddâs, yr oedd gwair da a pheraidd. "Wel," meddai Elizabeth, "os oes twyll yn Siôn, fe gymer o'r gwair drwg i geffyl y pregethwr." Ac yn ddystaw bach dylynodd ef; ac er ei dirfawr foddhad, canfu Siôn yn cyfeirio yn uniongyrchol at y gwair goreu oedd ganddo, heb wybod fod neb yn llygadu arno. Symudodd hyn ei phetrusder o hyny allan. Mae'n wir mai amgylch-

iad bychan ydoedd i brofi cywirdeb dyn wrtho; ond mewn pethau bychain yn fynych y dangosir cymeriad dyn, a naws ei galon, amlycaf; felly hefyd yr oedd yn y tro hwn.

Nid oedd Elizabeth, Bryn-yr-odyn, ond gwraig wladaidd a diddysg iawn, eto hi wnaeth fwy tuag at hyrwyddo teyrnas Crist yn ei gwlad nag a wnaeth un gŵr boneddig, fe allai, yn sir Gaernarfon erioed. Cedwid cyfarfod holwyddori plant yn egwyddorion yr efengyl yn ei thŷ bob wythnos. Mynych y disgynai y gorchwyl pwysig hwn arni hi ei hunan; a hi, bob amser, a ddechreuai y canu. Mae genym dystiolaeth un a fagwyd yn y lle am dani, "fod pereidd-dra anarferol yn ei llais, a phan y torai allan i waeddi, O diolch! fel y gwnai weithiau, fe gerddai iâs trwy bob teimlad yn y gynulleidfa."

Hen ŵr gwladaidd a dirodres iawn oedd yntau. Nid oedd y duedd o wenieithio a rhodresa yn ei gyfansoddiad ef. Yn yr oes bresenol, fe allai y buasai mwy o dynerwch, a choethder teimlad, yn hollol angenrheidiol; ond yr oedd Siôn Griffith yn cyfateb yn gymhwys i'r tymhor yr oedd yn byw ynddo. "Siôn Griffith," medd fy hysbysydd,* "oedd y dyn am *blaendra*; yr oedd ei ymadrodd yn fynych yn *drwsgl*, ond yr oedd ei amcan yn wastad yn *gywir*, fel y gwelir wrth yr hanesyn canlynol;—Dygwyddodd unwaith fod dau o'r aelodau wedi cwympo maes a'u gilydd, a phaffio, sef Evan William Siôn, a Morgan y gwehydd. Toresid y cyntaf allan o'r cyfundeb dair gwaith ar ddeg(!) o'r blaen, am gyffelyb drosedd; ond ar ei ddychweliad, yr oedd ganddo y fath ddull toddedig a rhith-edifeiriol, nes y rhoddid ei le iddo drachefn a thrachefn. Bellach, yr oedd Siôn Griffith wedi deall ei ystryw, ac yn penderfynu, os dychwelai y tro hwn, na ellid goddef yr ystranciau hyn yn hwy. Yn ol y daeth Ieuan, gan adrodd ei drallod mewn dull edifeiriol iawn fel arferol. Methodd Siôn Griffith ddyoddef; cyfododd ar ei draed, a dywedodd, 'A welwch chwi y *drefn* sydd ar y dyn! Mae'n ffiaidd gen' i dy glywed di, Evan! mi deimlwn ar fy nghalon *boeri* am dy ben di, Evan!' Ac allan y bu raid iddo fyned. Nid oedd gan yr hen flaenor ddim meddwl gwych am Evan o'r blaen. Weithiau, wrth ofyn syniadau yr aelodau ar ryw achos, dechreuai arnynt o'u cwr, gan eu henwi; ond wrth fyned yn mlaen, dywedai, 'Mi basia' i Evan William Siôn; un go anianol ydi o!' Yr oedd yn rhaid bod yn *blaen* y pryd hwnw; a Siôn Griffith oedd yr unig un."

Ni ymwelwyd â Bryn-yr-odyn gymaint â llawer lle, trwy dywalltiadau grymus, ac adfywiadau cyffrous; a pharai hyn radd o sylw ac ymofyniad, paham y gwahaniaethai Bryn-yr-odyn yn hyn oddiwrth fanau eraill nid yn mhell oddiwrtho? Gofynai Mr. Charles i Siôn Griffith gyda golwg ar hyn,—

"Pa fodd yr ydych chwi yn gallu dal ati fel hyn trwy'r blynyddoedd, Siôn Griffith?"

"Wel, Mr. Charles," meddai yr hen greadur, "cael ambell *gylch* y

* Mr. John Jones, Bryn-yr-odyn.

byddaf; onide ni ddaliwn ddim yn hir. 'Mae gan Dduw *gylch* a ddeil o'u hamgylch hwy.'"

Dywedai John Jones, Edeyrn, fod pobl Bryn-yr-odyn yn cael braint fawr iawn,—cael dyfod at grefydd *mewn gwaed oer*. Ond er na fu yma gyffroadau mor rymus ag a fu yn Llanllyfni a Chlynog, a manau eraill, eto anrhydeddwyd yr eglwys hon ag ymweliadau neillduol ar ryw dymhorau. Gwnaed hyn tua'r fl. 1793, pryd y chwanegwyd llawer at yr eglwys mewn ychydig amser, y rhai ydynt oll, oddieithr dwy wraig, wedi ymadael â'r fuchedd hon. Dygwyddodd yr adfywiad hwn, fel y gwelwn wrth yr amser, yn mhen ychydig ar ol cychwyniad yr ysgol Sabbothol. Yr oedd y gwirionedd, er hyn oll, yn ymwreiddio yn raddol yn nghalonau y gwrandawyr, ac yn buddugoliaethu mewn modd dystaw ar eu cydwybodau. Yn y fl. 1850, pa fodd bynag, fe chwanegwyd tua 45 o aelodau at yr eglwys mewn blwyddyn o amser, yr hwn oedd yn chwanegiad mwy, tybygid, nag a wnaed erioed o'r blaen mewn amser mor fyr. Fe fu yr eglwys hon yn fammaeth dda i Fethodistiaeth, ïe mwy, hi fu yn llawforwyn wasanaethgar i grefydd Mab Duw er ys 70 o flynyddoedd a mwy; canys o honi hi y seiniodd gair yr Arglwydd i'r broydd cylchynol, sef i Bwlan, Rhostryfan, a Charmel. Cyn gosod i lawr y flaen y darllenydd grynodeb byr o'r tri lle hyn, priodol fyddai dweyd yn ychwanegol am William Evan; wrth yr hwn yr oedd gan Siôn Griffith ymlyniad cryf. Un tro, pan oedd y cyflog yn fychan yn y cloddfeydd llechau, lle yr oedd William yn gweithio, ymosododd temtasiwn arno i fyned i sir Feirionydd i breswylio. Deallodd Siôn Griffith hyn, a galwodd y gymdeithas eglwysig ynghyd, gan erchi ar yr holl aelodau fod yn bresenol, i edrych "ai ni fedrent rwystro William Evan i fyned i ffordd." Fe fu y cynulliad yn foddion i'w gadw yn Mryn-yr-odyn.

Yr oedd Siôn Griffith yn cael ei boeni yn fawr, o bryd i bryd, gan dafarn oedd yn y gymydogaeth, wrth sylwi ei bod yn foddion i lochi llawer o annhrefn ac anfoes, ac i lygru ieuenctyd yr ardal. Dywedai William Evan fod ffydd wyrthiol gan Siôn Griffith, o herwydd iddo *felldithio tafarn yr hen efail*, yr hon yn y canlyniad a syrthiodd dan wywdra a diflaniad. Dewiswyd William Evan yn flaenor yn Mryn-yr-odyn, tua'r un amser ag yr adeiladwyd y capel, pan oedd ef tua 26 ml. oed, ac efe a wasanaethodd swydd diacon yn dda, yn yr eglwys hon, am 28 o flynyddoedd. Wedi hyny symudodd i Rhostryfan, ac yn ddiweddaf i blwyf Llanddeiniolen, lle y bu farw yn 64 mlwydd oed. Nid yn fynych y ceid, yn mysg dynion cyffredin, ac isel eu sefyllfa, neb wedi ennill cymaint o ddylanwad a gwir barch a William Evan. Diangai'r ieuenctyd cynulledig at eu gilydd i ofera, fel pe buasai marwolaeth ar eu gwarthaf, os gwelent William Evan yn dynesu atynt. "Israeliad yn wir ydoedd, yn yr hwn nid oedd twyll."

Bu farw Siôn Griffith, wedi cyrhaedd henaint teg o dan effeithiau dolur y garreg. Barnwyd yn addas geisio esmwythâu ar ei boenau, ac estyn ei oes, trwy dynu y garreg trwy weithred feddygol; a daeth tri o feddygon ato i'r dyben hyny. "Ni chewch gyffwrdd a mi," ebe yr hen ŵr, "heb i mi yn

gyntaf gael dyweyd wrth fy Nhad:"—ac fel pe yr ofnai mai nid ar waredigaeth, ond ar farwolaeth, yr esgorai y weithred ddirdynol, chwanegai, "mi âf unwaith eto at fy Nhad, tra mewn undeb â chnawd." Felly ciliodd o'r neilldu, a thywalltodd ei galon mewn gweddi; yna dychwelodd, a dywedodd wrth y meddygon, "Deuwch, bellach,—mi a gefais fy neges." Bu farw yn fuan ar ol hyn.

### BWLAN.

Ymddengys y byddai pregethu, yn awr ac eilwaith, mewn amrywiol fanau tua godrau plwyf Llandwrog, yn mro y Bwlan, er amser lled foreu ar Fethodistiaeth. Byddai ambell bregeth mewn amaethdy o'r enw Bodryn, ac weithiau yn y Morfa. Mae fy hysbysydd yn dyweyd iddo glywed un yn ardystio ei fod unwaith mewn oedfa yn y Morfa, ac i'r clochydd ddyfod yno, â gwialen fawr yn ei law, i aflonyddu arni. Ymwthiai i ganol y gynulleidfa gyda rhuthr, gan hergytio hwn ac arall o'i ffordd, a chyfeirio ei redfa tua'r pregethwr. Ond cyn iddo gyrhaedd ei wrthddrych, ymaflodd rhyw un cryf, ag oedd yn y dorf, ynddo, gan ddweyd "os eisiau ei ysgwyd oedd arno, y gwnai efe hyny iddo yn ewyllysgar." Parodd hwn ei arswyd ar y gwalch, a chiliodd yn ol o'r gynulleidfa ar ffrwst; ond cyfeiriodd ei gamrau tua buarth y Morfa, gan benderfynu gwneyd hyny a allai o ymddïal ar y pen-gryniaid. Dan ddylanwad y dymher fileinig, aeth at y buarth crybwylledig, a throes geffylau y gwrandawyr a ddaethent o bell, allan o'r buarth, gan eu gollwng i fyned lle y mynent.

Yr oedd y gŵr a'r wraig a breswylient yn Bodryn yn aelodau yn Mryn-yr-odyn, er yn foreu; a phryd na ellid cael pregethau, neu na thybid yn ddoeth eu ceisio, i'r tŷ, cynelid cyfarfodydd gweddio mynych ynddo, gan fod amryw o aelodau Bryn-yr-odyn yn byw yn y fro. Yr oedd gŵr yn byw yn Bwlan, yn berchenog ar ei dir ei hun; hwn, wedi dyfod yn aelod o'r gymdeithas eglwysig, a roes le i adeiladu capel. Yr oedd hyn tua'r fl. 1815. Yr oedd ysgolion Sabbothol yn cael eu cynal mewn rhyw dai yn y gymydogaeth, flynyddau cyn hyn. Ymddengys hefyd mai anfoddhaol oedd y gwaith hwn i berson y plwyf, yr hwn a ddeuai heibio yr ysgol ar y Sabboth i orchymyn y plant i'r llan; ac er mai lled anniddig oedd y plant i ufyddhau i'w urddas, eto, rhag ei ofn, hwy ymostyngent, ond nid bob amser; nac un amser i gyd; eithr diangai rhai oddiarno, gan ddringo dros y cloddiau, ac ymguddio o'r tu ol i'r perthi. Mae hanes am un a ddiangodd dros y clawdd, ac i'r person fyned ar ei ol, a rhoddi *cic* iddo! Ond hyn oll a ddarfu ar gyfodiad y capel. Nid llawer o gynydd a fu ar yr achos yn Bwlan, er ei gychwyniad hyd y fl. 1840: ond yn y tymhor hwn cafodd adfywiad a chwanegiad mawr, a bu raid helaethu y capel i'w faintioli presenol.

### RHOSTRYFAN.

Mae yr ardal hon ar yr ochr arall i Fryn-yr-odyn, ac yn ardal y mae ei phreswylwyr yn dra aml. Cof ydyw gan y darllenydd i ni adrodd yr

hanes * a ddyry Robert Jones am y cwrdd misol a aflonyddwyd arno, ac fel y bu gorfod cilio o'r Dolydd-byrion, a chynal y cyfarfod yn Rhostryfan; a thrachefn, pan y pregethid ar brydnawn Sabboth yn Rhostryfan, y modd y troisai rhyw ŵr darw rhuthrog yn union at y gynulleidfa.† Ymddengys fod tua chanol y Rhos, ryw gareg nodedig, ar yr hon y byddai y pregethwr yn arfer sefyll i gyfarch y gwrandawyr. Medd fy hysbysydd, "Byddai ambell bregeth yn cael ei rhoddi ar y Rhos er yn foreu;—ar gareg tua chanol y Rhos y byddid yn pregethu amlaf. Pan oeddwn i yn fachgen lled ieuanc, anfonodd fy nhad fi i gyfarfod Mr. Robert Jones, Rhoslan, ryw Sabboth, i'w arwain i'r capel y tro *cyntaf* y bu ef ynddo, ac hyd yr wyf fi yn deall, y tro *olaf* hefyd. Dywedodd yr hen ŵr wrthyf, wrth basio y lle y mae y gareg ynddo, 'Yn y fan yma yn rhyw le, y mae y gareg y byddem yn sefyll arni i bregethu, er ys llawer dydd; yr oeddwn i yma ryw dro,' meddai, 'pryd yr oedd rhyw ddyn a arferai wneyd gograu, o'r enw Erasmus, wedi myned i ben y gareg i rwystro i mi i fyned yno; ond fe ddaeth rhyw un arall, o'r enw William Pugh, Pen-isa'r-rhos, ac a ddygodd ei *het* yntau oddiar ei ben, ac a'i taflodd ymaith dros ben y gynulleidfa; bu raid i'r gogrwr fyned i ymofyn ei *het*, a minau yn y canlyniad a gefais fyned i ben y gareg.' Y nos Sadwrn o flaen y Sabboth hwn, fe ddygwyd baich o wair i'r stabl, gogyfer â cheffyl Robert Jones dranoeth, gan un Griffith Llwyd. Wedi i'r hen ŵr ddod at fy nhad, hysbysodd fy nhad iddo, mai mab oedd y Griffith Llwyd hwn, a ddygasai wair i'w geffyl, i'r gŵr y sonia efe am dano fel un a droisai y tarw rhuthrog i'r gynulleidfa gynt."—Gwelid nad oedd y mab ddim yn rhodio yn ffordd ei dad, a diau mai hyfryd oedd gan Robert Jones glywed nad oedd yr hen ddygasedd gynt at yr efengyl yn aros mwyach yn y teulu.

Yr oedd ysgol Sabbothol wedi ei chychwyn yn nghyffiniau y Rhos, er ys cryn amser, cyn cael pregethu cyson yno. Cymerwyd hefyd dŷ, a elwid y Tŷ-ucha', i bregethu ac i gadw ysgol Sabbothol ynddo, ac yn hwn y cynelid y moddion hyd y fl. 1820, pryd yr adeiladwyd capel bychan, wyth llath wrth saith. Parhaodd yr achos i lwyddo nes y bu raid cael capel llawer mwy na'r un cyntaf. Adeiladwyd hwn tua 15 ml. yn ol, sef tua'r fl. 1837.

### CARMEL.

Canghen ydyw hon o hen gynulleidfa Bryn-yr-odyn. Mae yn sefyll ar fynydd y Cilgwyn. Mewn ysgol Sabbothol y dechreuodd y lle hwn flaguro, yr hon a gychwynwyd er ys 40 ml. yn ol, ac a gynaliwyd yn nhŷ Robert Jones, Bryn-llety. Methwyd, ar y cyntaf, a chael ysgoldy yn y lle hwn, oblegid y draul i godi capel Rhostryfan. Yn y cyfamser, daeth yr Annibynwyr i'r ardal, ac a godasant gapel a elwir Pisgah. Ar hyn gollyngwyd yr ysgol yn Bryn-llety i lawr, a gwasgarwyd ei deiliaid, rhai i Pisgah, a rhai yn ol i Fryn-yr-odyn; ac yn mysg y rhai olaf yr oedd Robert Jones ei hun, yr hwn a fuasai arferol o arolygu a holwyddori yr ysgol. Yr oedd achos y brodyr

* Gwel tudal. 216. † Gwel "Drych yr Amseroedd," tudal. 118 a 119.

yr Annibynwyr, ar y pryd, yn wan, heb neb yn eu mysg yn alluog i gymeryd gofal yr ysgol yn Pisgah; am hyny, buant daer ar Robert Jones i'w cynorthwyo. Yntau, wedi cael caniatâd ei frodyr yn Mryn-yr-odyn, a gydsyniodd â'u cais, ar yr ammod i'r ysgol yn Pisgah beidio a bod ar yr un amser a'r oedfa yn Mryn-yr-odyn; ac felly y parhaodd ef i lafurio tra fu byw. Cadwai yr ysgol Sabbothol yn Pisgah, a deuai i'r bregeth a'r cwrdd eglwysig i'w hen gartref. Mae y capel yma hefyd wedi ei gael gan y Methodistiaid er ys 26 o flynyddoedd. Yn y capel hwn y mae 50 o aelodau heblaw plant, a thua 170 o ddeiliaid yn yr ysgol Sabbothol.

Wele yr oedfa achlysurol yn Mryn-yr-odyn 80 ml. yn ol, wedi esgor, bellach, ar bedair o gynulleidfaoedd lluosog! "Wele faint o ddefnydd y mae ychydig dân yn ei enyn!" Dygwyd hyn o amgylch trwy foddion ac offerynau, cymhwys o herwydd eu hanwiwder, i beri fod godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o ddynion.

## CAERNARFON.

Cawsom achlysur yn fynych i sylwi, nad oedd yr hen Fethodistiaid yn arfer ymosod ar y trefydd, dros ysbaid o amser ar ol ymosod ar y cymydogaethau o amgylch iddynt. Ac un achos neillduol, mae lle i gasglu, paham y gwnaent hyn, oedd fod trigolion y trefydd yn fwy ffyrnig a diarbed yn eu herlid, a bod mwy o anhawsder i gael gan neb roddi ei dŷ i gynal pregethu ynddo nag oedd yn y wlad. Yr oedd hyn yn ymddangos mewn lluaws o fanau mewn De a Gogledd. Yr oedd pregethu yn Rhyd-y-felin yn mhell cyn bod dim yn Aberystwyth:—yn y Gopa-fach, cyn ymsefydlu yn Abertawe:—yn Tan-y-fron cyn bod dim yn Ninbych:—yn Adwy'r-clawdd cyn anturio i Wrecsam:—yn y Berthen-gron cyn myned i Dreffynnon:—yn Mhant-y-cra cyn cael caniatâd i ddyfod i Ddolgellau:—yn Nghrafnant cyn dyfod i Lanrwst:—felly hefyd yr oedd gradd o feddiannu wedi bod ar Lanrug, Llanberis, a'r Waunfawr, cyn cael lle i sefyll arno yn nhref Caernarfon.

Yn y Waunfawr, lle o fewn pedair milldir i'r dref, yr oedd pregethu wedi bod gan y Methodistiaid er ys blynyddau lawer; yr oedd yno dŷ penodol i gynal moddion gras ynddo, ac yno yr âi yr ychydig broffeswyr fyddent yn Nghaernarfon i addoli. A mawr oedd eu perygl wrth fyned a dychwelyd o'r moddion hyn, gan yr erlid a fyddai arnynt, a'r gwylio a fyddai ar eu hysgogiadau. Yr oedd yr erlidwyr, am hir amser, yn arfer myned i ffordd Llanbeblig i'w dysgwyl ar eu dychweliad adref o'r Waunfawr. Ond yr ychydig drueiniaid, i ochel eu cynddaredd, a arferent, weithiau, droi ar hyd y llwybr, trwy fynwent Llanbeblig, a dyfod i'r dref ar hyd ffordd Llanberis; bryd arall, hwy droent ar hyd y llwybr i Forfa-y-saint; ac yn y modd yma, llwyddent i gyrhaedd eu cartrefleoedd yn ddiogel. Wedi eu siomi yn y modd hwn yn fynych, blinasant yn y diwedd a chynllwyn, a rhoddasant y dull hwn o flino y crefyddwyr heibio.

Ond er maint oedd cynddaredd y trefedigion yn erbyn y penau-cryniaid,

ac er lleied o annogaeth a roddid i neb i bregethu yn y dref, eto daeth yr amser i hwn ac arall wneuthur cais i fylchu muriau y castell. Y pregethwr cyntaf o'r Methodistiaid y mae genym hanes am dano a wnaeth gais ar bregethu yma, oedd y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, yr hwn a fuasai yn Môn yn pregethu. Dywedir fod ei wraig gydag ef y tro hwn, fel y byddai yn fynych, ac wrth groesi y culfor o borth Tal-y-foel, dyrysodd Mrs. Williams yn rhyw fodd neu gilydd yn ngodreu yr hwyl, a thaflwyd hi dros ymyl y cwch i'r môr. Yr oedd amheuaeth cryf, y pryd hwnw, mai y porthweision, neu ryw rai eraill yn y cwch, adnabyddus o honynt mai crefyddwyr oeddynt, a wnaethent hyn o fwriad! Pa fodd bynag, gwaredwyd hi rhag boddi, a thiriasant yn ddiogel yn Nghaernarfon. Ond deallodd Mr. Williams, yn fuan, na allai anturio pregethu yn y dref, gan gymaint oedd penderfyniad y werin i'w rwystro, neu ynte i'w ladd; a barnodd mai ei ddyledswydd y pryd hwn oedd llechu yn ddystaw dros y noson hòno yn y dref, a myned mor ddirgel ag a allai i'w daith dranoeth. Nid oes hanes fod y Methodistiaid wedi pregethu unwaith yn Nghaernarfon cyn y fl. 1780. Yr oedd hyn tua 40 ml. ar ol i Fethodistiaethd dechreu ymwreiddio yn rhyw lanerchi yn Lleyn, a rhyw barthau eraill yn Ngwynedd. Y gŵr y dywedir iddo anturio gyntaf i bregethu yn y dref, oedd yr hybarch Richard Tibbot o Lanbrynmair. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1770, a phan oedd Tibbot yn weinidog gyda yr Annibynwyr. Yr oedd y gŵr da hwn wedi arfer tramwy llawer ar Ogledd a Deau, er ys agos i 30 mlynedd cyn hyn, ac wedi ymgynefino llawer â gwarth ac erlid; gŵr nid anghymhwys i wneyd cais at fylchu muriau rhagfarnllyd Caernarfon. Yr oedd yn ŵr cryf o gorff a meddwl, llawn o bwyll a phenderfyniad, ac mor gymhwys a neb yn ei ddydd i ymosod ar dref o'r fath. Ond nid llawer o groesaw a gafodd y tro hwn, canys carcharwyd ef a'i anifail * yn y castell dros un noson o'r herwydd; ond gollyngwyd ef i'w ffordd dranoeth heb dderbyn dim niwaid. Yn fuan wedi hyn, cynygiodd mab iddo, sef y Parch. Abraham Tibbot, bregethu yn Nghaernarfon; yntau hefyd a anmharchwyd yn ddirfawr. Dywedir fod yr erlidwyr wedi bwriadu ei ladd ef, ond iddo gael ei waredu mewn modd neillduol.

Mae genym hanes ychydig helaethach am y bregeth gyntaf gan Richard Tibbot, a da, yn ddiau, fydd gan y darllenydd ei gael mor gyflawn ag y mae modd, yn enwedig gan mai hon oedd yr oedfa gyntaf. Safodd, meddant, y tro hwn, ar risiau tŷ un Hugh Owen, lledrwr *(currier)*, gyferbyn â thŷ tafarn y "Delyn," yn ngwaelod heol Pen-'rallt ddeheuol. Ond nid oedd llonyddwch iddo i bregethu, ac yn fuan ar ol iddo ddechreu, daeth rhyw ddyhiryn, a elwid "Twm-y-goes-fawr," ac a safodd ar risiau cerig eraill uwch, ac yn ogyferbyn â'r rhai y safai y pregethwr arnynt, ac a luchiodd bren-ddysglau (*trenchers*) ato, gan eu hanelu at eu ben. Gwnaeth hyn hefyd mor effeithiol nes ei archolli, a pheri i'w waed lifo.

Daeth rhyw ddyhiryn arall, mwy anfad na'r cyntaf, yn ystod yr un oedfa,

* Gwel "Hanes Ymneillduaeth," gan y Parch. D. Morgan, tudal. 276.

gan ddefnyddio offeryn mwy arswydus, a chan lawn fwriadu, os nid ei ladd, ei archolli yn drwm. Annelodd hwn ei ddrull at y pregethwr, a thynodd y glicied (*trigger*) rai gweithiau, ond ni chymerai dân; yna llefodd y pregethwr arno, "Tro dy *bistol* y ffordd arall, druan, ac efe â allan i ti." Gwnaeth yr adyn hyny, ac aeth yr ergyd allan yn y fan! Yn yr un oedfa, gwaeddai rhyw un allan mewn cynddaredd, cyfartal a'i anwybodaeth, ac fe allai mai y dyn â'r drull ydoedd, "I ba beth y mae y diawliaid hyn yn dyfod yma i *ddwyn yr efengyl oddiar Grist*, nis gwn i." Nid yw yr hanes yn dywedyd wrthym pa fodd y dybenodd yr oedfa hon, na pha effeithiau a'i canlynodd.

Sonir hefyd am oedfa arall, yr hon a gynaliwyd yn Mhen-'rallt ogleddol, ond nid oes sicrwydd am yr amser y bu hyny, ac nid yw enw y pregethwr chwaith ar gael. Y tro hwn daeth rhyw anfadyn i'r oedfa, i'r dyben i aflonyddu arni. Gwnai hyn trwy guro tabwrdd (*drum*), i foddi llais y pregethwr â'r swn, ac i lesteirio i'r bobl glywed yr hyn a ddywedid wrthynt. Digiodd hyn ryw ddyn cryf ac anystyriol yn y gynulleidfa, a rhuthrodd ar yr aflonyddwr, a thorodd y tabwrdd yn ddrylliau; ac felly y cafodd y llefarwr dawelwch i bregethu.

Y bregeth nesaf ar ol y rhai uchod a draddodwyd yn y dref, oedd gan y Parch. David Jones, Llangan. Yr oedd hyn, fel y bernir, tua'r fl. 1786. Nid oedd y Methodistiaid, hyd yn hyn, wedi cael nemawr o seibiant i gynal moddion cyhoeddus yn y dref, er fod yma ychydig o enwau yn preswylio, ac mewn undeb eglwysig â'r brodyr yn y Waunfawr. Nid oedd un sicrwydd pan ddaeth efengylwr Llangan i'r dref, y rhoddid llonyddwch iddo i bregethu; ar yr un pryd, yr oedd yn penderfynu rhoi cais ar hyny; a chyda'r bwriad hwn aeth ef, ac ychydig nifer o gyfeillion gydag ef, i'r heol, gan gyrchu tua phorth y castell. Dygwyddodd fod trol neu fèn yn y lle; i hon esgynodd y pregethwr. Ymgasglodd lluaws o bobl i'r lle yn ebrwydd;—rhai tan wŷn o gynddaredd yn penderfynu na cha'i y penau-cryniaid ddim achles yno;—craill dan ysfa o gywreinrwydd, ac yn chwennych cael gweled a chlywed y cwbl;—a rhai, ond odid, dan ddylanwad egwyddorion gwell. Yn mhen enyd, diosgai Mr. Jones y gôb uchaf oddiamdano, ac ymddangosodd mwy o edmygedd a boneddigeiddrwydd ynddo nag a ddysgwyliodd y lluaws gael mewn neb o'r penau-cryniaid. Bellach, hefyd, daeth y *gown* dû i'r golwg, a'r napcyn gwŷn, yn nghyda'r labedi ysgwar yn disgyn ar y fynwes;—golygfa na welid, ond anfynych, oddieithr yn y llan, a chan weinidog y plwyf. Effeithiai y fath olwg ar y werin yn llawer mwy ar eu dychymyg, nag a wnai gwirionedd pwysig ar eu calonau. Yr oedd cynghorwyr cyffredin y Methodistiaid yn berffaith amddifaid o bob rhwysg a rhi; yr oedd eu hymddangosiad yn wladaidd a diaddurn; ac un o'r fath a ddysgwylid y tro hwn hefyd; ond mawr oedd syndod y bobl pan ganfuant ŵr boneddig o wedd brydferth, ac o wisg urddasol. Yr oedd yno un o leiaf a ddaethai i'r lle a'i logellau a'i ddwylaw yn llawn o gerig, gan lwyr fwriadu archolli a baeddu, os nad lladd y truan a godai i fyny i gyfarch y bobl. Ond pan ganfu y gweinidog mewn

gwedd mor foneddig, llwfrhaodd, a gollyngodd y cerig i lawr o un i un, mewn cywilydd a braw.

Yr oedd yn bwrw gwlaw ar y pryd; o leiaf yr oedd gwlith-wlaw tyner yn disgyn. Yr oedd Mr. Jones o olwg siriol a phrydferth; a phan y dechreuodd gyfarch y gynulleidfa, ymddangosai mor siriol a hyderus a phe buasai yn nghanol ei gyfeillion. Teimlai hyder diysgog yn ei Feistr, na adewid mo'no yn ddiamddiffyn, ac yn gryf ei feddwl yn ngwirionedd a phwysigrwydd ei genadwri, nes peri fod ei wyneb megys yn dysgleirio gan hyfrydwch a sirioldeb. Gofynodd mewn modd serchog, a oedd yr un boneddwr yn y gynulleidfa a fyddai mor fwyn a rhoddi benthyg *umbrella* i gysgodi ei ben rhag y gwlaw? Ymddygiad lled eofn, onide? i ŵr ag oedd mewn perygl o gael ei luchio bob mynyd. Ar hyn aeth meistr y dyn a ddygasai y cerig i'w luchio, ymaith, a dygodd gysgodlen gydag ef, gan ei estyn at wasanaeth y pregethwr. Ar hyn ymostyngai y gweinidog yn barchus i'r boneddwr am y gymwynas, ac aeth rhagddo gyda gwên siriol ar ei wyneb, a geiriau gwirionedd yn ei wefusau, gan ddatgan, wrth ddechreu, ei fod mor gysurus dan yr *umbrella* a phe buasai yn St. Paul yn Llundain. Y cyfreithiwr a gafodd ar ei galon wneyd y caredigrwydd uchod ag ef, oedd un Mr. Howard, cyfreithiwr o ddylanwad mawr yn y dref, yr hwn yr oedd ei ŵg yn peri dychryn i lawer o ddynion. Nid yw yr hanes yn mynegu i ni pa beth a gymhellodd y cyfreithiwr i hyn yma, na pha effaith a gafodd y bregeth arno; ond fe gafodd Mr. Jones, pa fodd bynag, hamdden gysurus, a'r fath na chawsid o'r blaen yn Nghaernarfon, i draethu gair y bywyd i bechaduriaid colledig. Yn nghyntedd castell y brenin Edward y cyntaf y bu hyn; "A difai swydd," medd fy ngohebydd, "i'r hen gastell sefyll ar ei draed am 600 o flynyddoedd, i roddi cyfle i efengylwr Llangan ddadseinio ei hen furiau adfeiliedig â newyddion da yr efengyl."

Yr hanes nesaf a gawn am Fethodistiaeth Caernarfon ydyw, fod John Roberts, Llanllyfni, ac Evan Richardson, wedi dyfod yno i bregethu; ond cyn y gallwn yn rheolaidd olrhain hanes Caernarfon yn mlaen, angenrhaid ydyw cyfeirio y darllenydd at hanes y gŵr a enwyd olaf, sef y Parch. EVAN RICHARDSON, gŵr, yn anad neb arall, a fu yn offeryn i blanu Methodistiaeth yn y dref boblogaidd hon, ac i'w faethu a'i ymgeleddu ar ol ei blanu, dros lawer o flynyddoedd.

Ganwyd Mr. Richard, neu Richardson, fel y mynai efe alw ei hun, yn sir Aberteifi, mewn lle a elwid Bryngwyn-bach, plwyf Llanfihangel-genau'r-glyn, ac o fewn tua phum' milldir i dref Aberystwyth. Crefftwr o saer maen oedd ei dad, o'r enw Richard Morris Hugh. Cafodd Mr. Richardson ddysgeidiaeth dda yn ei ieuengtyd, fel y cafodd llawer eraill yn ei wlad, trwy y manteision a fwynheid i hyny yn ysgol Ystrad-meurig. Bwriadai ei dad i'r bachgen hwn fod yn weinidog yn eglwys Loegr; a bwriadai hyny heb un golwg ar gymhwysder i'r swydd, ond dysgeidiaeth yn unig. Bywioliaeth fydol, ac nid dyben crefyddol, oedd mewn golwg, fel y mae gan gannoedd eto, ïe, fel y mae mwya'r gresyni, gan lawer o rieni a broffesant bethau gwell. Yn

yr amgylchiad hwn, fe gofir am *ddau* angenrhaid, ond fe ollyngir y trydydd yn anghof. Rhaid i fy mab gael *bywioliaeth*, medd y tad; rhaid i'm gweinidogion i gael *dysgeidiaeth*, medd yr eglwys; rhaid i'm gweision i gael *duwioldeb*, medd Duw. Mae y rhieni yn gofalu am y cyntaf—y canonau a'r esgobion yn gofalu am yr ail—ond pwy a ofala am y *trydydd?* Yn achos Mr. Richardson, fe osododd Duw y fath dynerwch ar ei gydwybod, er ieuanged ydoedd, fel na feiddiai gymeryd arno weinidogaeth yr efengyl, er mwyn sefyllfa ac elw bydol. Ofnai nad oedd ei gyflwr ei hun ddim yn ddiogel gyda Duw, a theimlai ormod o betrusder i ymaflyd yn arch Duw, heb alwad gyfreithlawn oddiwrth Dduw i'r swydd.

Yr oedd rhyw aflonyddwch ar ei feddwl yn nghylch ei sefyllfa ysbrydol er yn ieuanc iawn, a chyn iddo glywed pregeth erioed; ond yr oedd, ar yr un pryd, yn anghyfarwydd iawn am ffordd iachawdwriaeth. Wrth geisio gweddio, rhoddai ei liniau yn *noethion* ar lawr, gan dybied y gwnai hyny ei weddi yn fwy derbyniol; golchai ei wyneb a'i ddwylaw yn lân, a thorai ei ewinedd hyd y byw, gan ddychymygu mai â'r cyfryw fanylrwydd y gallai gyfarfod â gofynion deddf Duw. Ië, tybiodd, ar ol darllen, "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant," na thyciai dim i dawelu ei gydwybod ond *gwaed ei galon ei hun!*

Ond Duw a drugarhaodd wrth y bachgen tyner hwn, ac a'i harweiniodd yn raddol oddiamgylch i beri iddo ddeall yn well. Clywai son am y Parch. Daniel Rowlands, a Dafydd Morris, yn pregethu mewn modd hynod ac effeithiol, nes y cafodd ar ei galon i fynu eu gwrando; a chafodd yn eu gweinidogaeth yr hyn yr oedd ei enaid yn dyheu gymaint am dano. Teimlai, bellach, at-dyniad cryf yn ei ddynesu at y bobl yr oedd yn mhob man gymaint o ddywedyd yn eu herbyn; a gosodai ei hun yn fynych tan ddirwy, o herwydd troseddu rheolau yr ysgol trwy fyned i'w gwrando.

Yr oedd ei waith yn gwrthod myned yn offeiriad, yn tynu arno ŵg ei dad, yr hwn, tybygid, a ffromai yn aruthr wrtho, am daflu ymaith fywioliaeth gysurus, ac ymuno â phobl isel a dirmygedig. Hyn nis gallai ei dad ei ddyoddef, ac i'r fath raddau o gynddeiriogrwydd y codai ei ddigofaint ar un adeg, nes iddo godi bwyell uwch ben y llanc yn ei wely, ar fedr ei ladd ef yn ei gwsg! ac, am ddim a ellir wybod, hyny hefyd a wnaethai oni bai ei luddias gan y fam! Ac er iddo ddianc yn y modd yma â'i fywyd ganddo, yr oedd ei gartref, bellach, yn llwyr anghysurus iddo; a chan na chymerai y fywioliaeth a fwriedid iddo gan ei dad, gorfu iddo ymofyn am damaid o fara modd y gallai. Yr oedd y ddysg a gawsai, pa fodd bynag, yn ei gymhwyso i gadw ysgol, a thrwy hyny, hyderai y gallai, nid yn unig gael cynaliaeth ei hun, ond gweinyddu llesâd i eraill.

Dros rhyw dymhor, fe fu yn cadw ysgol yn rhyw ardal yn ei wlad ei hun, nid yn mhell o Landdewi-brefi. O'r lle hwnw, âi yn gyson i wrando Rowlands i Langeitho, bob mis, ac ymunodd, ni ddywedir yn hollol yn mha le, â'r Methodistiaid, pan oedd eto yn lled ieuanc. Daeth yn raddol i brofiad helaethach a melysach o'r efengyl, a theimlodd, bellach, awyddfryd cryf i

bregethu i'w gyd-bechaduriaid, y Crist hwnw yr oedd ei ymddiried ef ei hun ynddo am fywyd tragwyddol. Eto, ni anturiodd at y gwaith hwn yn ebrwydd. Yr oedd ei dduwioldeb a'i ddawn, pa fodd bynag, yn ei ddwyn i sylw y brodyr yn fwy-fwy, a chymhellwyd ef ryw bryd i fyned yn gydymaith i offeiriad Methodistaidd o'r enw Williams,*—yr hwn, o herwydd bychander corffolaeth, ac i'w ddynodi oddiwrth ryw Williams arall mwy ei faintioli, a elwid yn Williams bach,—ar daith i Wynedd, i'w gynorthwyo yn ei lafur trwy ddechreu yr oedfaon i'r gŵr parchedig. Nid oedd Mr. Richardson yn arfer pregethu cyn y daith hon, ac nid yw yn ymddangos iddo bregethu yn ystod y daith, hyd nes yr oedd wedi gadael sir Gaernarfon, ar ei ddychweliad yn ol. Fe ddywed Griffith Solomon, yr hwn a ysgrifenodd ei fywgraffiad, ei fod wedi ei glywed yn pregethu y tro hwn yn Nolgellau, ar ei ffordd adref.

Y modd y daeth i sir Gaernarfon oedd fel y canlyn. Gofynodd Mr. Robert Jones, gynt o Rhoslan, i Mr. Williams, sef y gweinidog y daethai Mr. Richardson gydag ef, "Ai ni wyddai am ryw ŵr ieuanc o grefydd ac o ddysg yn sir Aberteifi a allai ei gyflwyno i Frynengan i gadw ysgol?" I hyn yr atebodd Mr. Williams, gan daro ei law ar glun Mr. Richardson, a dyweyd, "Dyma y dyn." Y canlyniad fu i Mr. Richardson symud, mor fuan ag oedd yn gyfleus iddo, i sir Gaernarfon i fyw. Tybir ei fod ef ar y pryd tua 23 ml. oed. Fe ddywed ei fywgraffydd ei fod yn dechreu pregethu tua'r un amser a'r Parch. John Roberts, Llanllyfni, ac os felly, dechreuodd tua'r fl. 1779.

Fe fu y gŵr ieuanc yn cadw ysgol dros ryw gymaint yn Mrynengan yn gyntaf, wedi hyny yn Mhwllheli, a thrachefn yn Llangybi, gerllaw Glas-fryn-fawr. Yr oedd ei ysgol yn y lle olaf hwn yn neillduol o lwyddiannus; ond nid hir y caniatawyd iddo aros yma, gan y llwyddodd rhyw rai gyda pherson y plwyf i'w droi ef allan oddiyno, o achos ei fod yn arfer gweddio yn yr eglwys! Dywedir hefyd fod achos arall wedi gwasanaethu i'w droi ef allan, sef ei fod wedi bod yn foddion i ddwyn cyfnither i ryw ŵr boneddig yn y gymydogaeth at y Methodistiaid. Enw y ferch foneddig oedd Jane James. Yr oedd y ferch hon, fel eraill yn ei gwlad, yn eithaf cellwerus a diofal. Y cardiau a'r cwmni ofer oedd ei hyfrydwch, a diystyrllyd iawn oedd hi o'r Methodistiaid. Yr oedd Mr. Richardson wedi ennill calonau llawer iawn o bobl yn yr ardal, ac nid trwy weniaith a thwyll, ond trwy wir deilyngdod. Dygwyddodd fod y gŵr y lletyai Mr. Richardson yn ei dŷ, yn myned ryw bryd ar neges i dŷ Miss James, a hi a gymerodd y cyfle i holi y gŵr yn nghylch Mr. Richardson, gan ddyweyd gyda gwên, "Pa beth, a phwy yw y *duw* yna sydd genych chwi yn Llangybi?" "Nid duw ydyw," ebe y gŵr, "ond dyn ieuanc duwiol a hynaws." Hithau a barhäai i wawdio y modd parchus yr edrychid

* Nid wyf yn cael yn rhestr gweinidogion sir Aberteifi yr un o'r enw hwn, ond y Parch. John Williams, Lledrod; yr hwn oedd o gorffolaeth mawr. Parod ydwyf i feddwl fod yr enw Williams wedi ei ddefnyddio yn lle Hughes mewn amryfusedd, neu ynte, fod y Williams hwn wedi cilio oddiwrth y Methodistiaid, a'i enw oddiar hyny, wedi ei adael allan o'r rhestr.

arno, ac ar yr un pryd yn teimlo math o ysfa i gael gweled un yr oedd cymaint o son am dano, a chymaint o barch gan y wlad iddo; ac ebe hi wrth Mr. Owen Thomas (oblegid dyna oedd ei enw), "Dewch ag ef yma, i mi gael gweled eich *duw* chwi." Hysbyswyd hyn i Mr. Richardson; yntau a ddywedodd, "Mi âf fi i edrych am dani, pwy a ŵyr pa beth a wna yr Arglwydd i'r hen bechadures." Efe hefyd a aeth yno, efe a'i letywr. Gofynodd Miss James i'w letywr, a wnai Mr. Richardson ddarllen a gweddio gyda hi? Hyny a wnaeth, ac yr oedd gwedd fwy difrifol arni ar ddiwedd y weddi, nag oedd o'r blaen. Gofynodd a ddeuai ef yno drachefn?—yntau a aeth; a chyn iddo godi oddiar ei liniau y tro hwn, yr oedd Miss James yn curo ei dwylaw, ac yn moliannu Duw â'i holl egni. Ymunodd â'r Methodistiaid yn Mrynengan ar ol hyn, a chyrchai yno i'r cyfarfodydd eglwysig trwy gryn anhawsdra, gan ei bod yn analluog i gerdded, a rhaid oedd iddi ddyfod ar farch. O herwydd hyn, meddant, y digiodd y boneddwr wrth Mr. Richardson, ac y penderfynodd arfer ei ddylanwad gyda pherson y plwyf i'w droi ef allan o Langybi.

Ymadael a fu gorfod i Mr. Richardson â'r lle yr oedd y pryd hwnw yn cadw ysgol, er dirfawr ofid i drigolion yr ardal. Ni welwyd erioed gymaint o wylo ag oedd ar ei ymadawiad, naddo mewn cynhebrwng. Yr oedd y plant a'r bobl ieuainc ag oedd yn ei ysgol yn foddfa o ddagrau;—y cyfryw ydoedd yr afael a gawsai ar serchiadau y sawl a welsent fwyaf o hono. Arosodd ryw gymaint ar ol hyn yn ardal Brynengan, ond yr oedd rhagluniaeth fawr y nef yn parotoi y ffordd, trwy y gwahanol amgylchiadau hyn, i'w symud ef i dref Gaernarfon, y lle a benodwyd yn derfyn ei breswylfod am y rhan fwyaf o'i oes, ac yn faes penaf ei lafur a'i lwyddiant.

Mae hanes am dano ef, a John Roberts, Llanllyfni, yn pregethu cyn ei ddyfodiad i'r dref i fyw. Nid yw yn eithaf sicr yn mha flwyddyn y cadwyd yr oedfa hon. Deallir, pa fodd bynag, mai cyfarfod â'u gilydd yn fwriadol a wnaeth y ddau bregethwr, y tro hwn, yn Nghaernarfon, ar brydnawn Sabboth. Yr oedd y brodyr er ys llawer o amser yn eiddigeddu dros y dref, ac yn gresynu na ellid sefydlu pregethu o'i mewn; ond hyd yn hyn, nid oedd neb wedi cael llonyddwch i bregethu ynddi, oddieithr ar yr un oedfa y crybwyllasom am dani, gan Mr. Jones, Llangan. Daeth yr amser at wneuthur cais mwy egniol at bregethu yn y dref, a phenderfynwyd ar i'r ddau frawd uchod gyfarfod yno ar brydnawn Sabboth.

Ymddengys fod Mr. Richardson, cyn y Sabboth hwn, ar daith yn pregethu yn Môn,* ac nid y tro cyntaf, tybygid, iddo fod yn Môn oedd hwn, a phan oedd yn dybenu ei daith yn y wlad hono, daeth dau ŵr i gyfarfod ag ef, ar fedr dyfod gydag ef drosodd i Gaernarfon. Enw un o honynt oedd John Gibson, garddwr y pryd hwnw yn ngwestty Porthaethwy (George Inn);—y llall oedd Griffith o Benrhos, tyddynwr yn Môn, gerllaw y Borth. Am waith

* Mae hanes genyf fod Mr. Richardson yn Môn yn pregethu yn y fl. 1785, ond yr oedd hyn flwyddyn cyn yr amser y dywedir fod Mr. Jones, Llangan, yn pregethu wrth y castell, a dwy flynedd cyn yr amser y nodir iddo ef a John Roberts gyfarfod â'u gilydd i bregethu yn Nghaernarfon.

John Roberts yn dyfod i'w gyfarfod, mae yr hyn a ganlyn, a gafwyd o enau ei fab y Parch. Michael Roberts, yn dangos pa fath dderbyniad a ddysgwyliai y gŵr hwnw gael gan drefedigion Caernarfon, am aflonyddu ar eu heddwch hwy trwy bregethu iddynt. "Mae yn dra chofus genyf," meddai y Parch. Michael Roberts, "am y Sabboth yr aeth fy nhad i gyfarfod Mr. Richardson i Gaernarfon, i gynyg pregethu, y waith gyntaf* i'r Methodistiaid fod yno. Nid oeddwn ond bachgenyn pur ieuanc. Ond y mae yn gof genyf ddarfod i fy mam ddwyn ei ddillad goreu i fy nhad, y Sabboth hwnw, gan y bwriadai fyned i dref Caernarfon i bregethu. Ond fy nhad, pan y'u gwelodd, a ddywedodd wrthi, 'Nid yw o un defnydd i chwi ddwyn i mi y dillad goreu heddyw, oblegid, mae'n debyg, mai budreddi a fydd drosof oll cyn y nos. Gwell i mi gael rhyw ddillad gwaelach.' Wedi i mi dyfu i fyny y deallais ystyr geiriau fy nhad, mai ofni yr oedd y gorfyddai iddo ddyoddef ei erlid a'i faeddu yn y dref."†

Wedi i'r ddau bregethwr gyfarfod â'u gilydd, a rhodio enyd yn heolydd y dref, pwy a'u cyfarfu ond y Parch. George Lewis, wedi hyny Dr. Lewis, awdwr yr Esboniad ar y Testament Newydd, gan yr hwn yr oedd anedd-dy wedi ei gyfaddasu i bregethu ynddo.‡ Yr oedd y tŷ hwn wedi ei gymeryd gan y Parch. R. Harris, gweinidog yr Annibynwyr, ac wedi ei gofrestru i'r dyben o bregethu ynddo, yn fuan ar ol yr amser y bu Tibbot yn y dref. Ymddengys mai y gweinidog cyntaf a fu yn sefydlog yn mhlith yr ymneillduwyr yma, oedd un Mr. Griffiths, yr hwn wedi llafurio yma yn llwyddiannus am ysbaid dwy flynedd, a symudodd i'r Fenni, yn swydd Fynwy. Ar ei ol ef y daeth Mr. Lewis, tua'r fl. 1785, ac a arosodd yma tua deng mlynedd, pryd y dychwelodd Mr. Griffiths drachefn, ac a lafuriodd yma yn llwyddiannus hyd ddiwedd ei oes.

Yr achos fod y Methodistiaid yn fwy agored i gael eu herlid na gweinidogion ymneillduol eraill, oedd eu bod, hyd yn hyn, yn oedi ymofyn am eu trwyddedu yn ol y gyfraith, am nad oeddynt yn foddlawn eto i ymrestru yn myddin ymneillduaeth; ac heb eu trwyddedu felly, a'r lleoedd y pregethent ynddynt yr un modd heb eu cofrestru, nid oedd ganddynt yr un amddiffyniad, ond yr oeddynt yn agored i gael eu baeddu gan bwy bynag a deimlai yn ddigon caled i wneyd hyny. Ond awn yn mlaen at hanes yr oedfa gan Mr. Richardson a John Roberts.

Wedi iddynt gyfarfod â Mr. Lewis, cyfarchasant well iddo, gan ei hysbysu am eu bwriad i draethu gair wrth y bobl, ond fod arnynt eisieu lle. Yr oedd y ddau bregethwr, tybygid, yn ddieithriaid i Mr. Lewis, ac yr oedd yntau yn anewyllysgar i roddi annogaeth iddynt i bregethu, heb wybod mwy am danynt. Am hyny efe a'u holodd hwynt am eu credo, a'u dybenion, a John Roberts a ddywedodd eu bod o ran eu ffydd yn cytuno a chatecism Westminster. Os felly, ebe Mr. Lewis, gwell i chwi sefyll wrth dalcen y

* Yr oedd Mr. Jones, Llangan, wedi bod o'r blaen.

† Hysbyswyd hyn gan y Parch. David Jones, Caernarfon.

‡ Y mae pregethu yn yr ystafell hon fyth. Y rhai a'i defnyddiant yn awr, ac er amser maith, ydyw rhyw nifer bychan o fedyddwyr, y rhai a elwir Sandemaniaid.

mur yma, oblegid nid oes digon o le i'r bobl yn yr ystafell. Cadwyd yr oedfa hon yn y parth hwnw o'r dref a elwir Tre'r-ffynnon; yr oedd yno luaws o bobl wedi ymgasglu yn nghyd, ac yn groes i bob dysgwyliad, fe gafwyd bob tawelwch i bregethu; ac ni fu yr oedfa hon ddim yn ofer.

"Yr oedd fy nhad," meddai y Parch. Michael Roberts, "yn marchnad Caernarfon yr wythnos gyntaf ar ol iddo fod yno gyda Mr. Richardson yn pregethu. Sylwai fod rhyw ŵr yn canlyn ar ei ol i ba le bynag yr elai. Ymdeimlai fy nhad yn anesmwyth oblegid hyn, gan na wyddai pwy oedd y gŵr, na pha beth oedd ei neges. O'r diwedd troes ato, a gofynodd iddo,—

"A oes rhyw beth a fynech â fi?"

"Y mae yn dda iawn genyf," atebai yntau, "gael siared gair â chwi. Yr wyf mewn blinder meddwl, ac yn methu cael esmwythder, er pan fuoch chwi, â gŵr arall, yma yn pregethu y Sabboth o'r blaen."

"Yna fy nhad, gyda syndod a llawenydd, a gymerodd y gŵr gydag ef, i ystafell o'r neilldu, i dafarn a elwid yr "*Angel;*" ac yma y cafodd hamdden i gyfarwyddo a chysuro yr enaid trallodedig, yn nghylch y pethau a berthynent i'w heddwch. Hwn oedd y cyfarfod eglwysig cyntaf a fu gan y Methodistiaid yn Nghaernarfon. Nid oedd ynddo ond dau, ond yr oeddynt yn wystl o dyrfa fawr; ac er lleied oedd y nifer, ac anghymhwysed y gellid golygu y lle, eto nid oes amheuaeth, nad oedd ynddo fwy o fwynhad ysbrydol, nag a gaed lawer gwaith ar ol hyn, pan y cafwyd addoldy cyfleus, a lluaws mawr o ddysgyblion yn nghyd. Enw y gŵr hwn oedd Richard Owen.

Wedi cael llonydd y tro uchod i bregethu yn y dref, a chael arwyddion hefyd o fendith yr Arglwydd ar yr ymdrech, yr oedd yr awydd yn cynyddu i ddwyn pregethu yn amlach, ac yn fwy cyson iddi nag o'r blaen. Ystyrid mai anturiaeth fawr oedd myned yno i bregethu cyn hyn, a thybiai amryw o grefyddwyr yn y wlad mai rhyfyg oedd; ond fe fu y llonyddwch a gafwyd yn foddion i ddadebru graddau ar yr eneidiau llwfr hyn; ac i ddwyn y cwrdd misol i benderfyniad, mai da fyddai cael rhyw un cyfaddas yno i fyw. Nid hir, pa fodd bynag, y parhaodd y pregethu yn y rhan hòno o'r dref a elwid Tre'r-ffynnon, ond symudwyd wedi ychydig o bregethau i Dan-yr-allt, a chafwyd hefyd gan Mr. Richardson ddyfod i'r dref i aneddu.

Y pryd hwn, nid oedd nifer y dysgyblion Methodistaidd yn Nghaernarfon ond ychydig iawn. O'r nifer yr oedd Richard Owen, ac Elizabeth ei wraig. Yr oedd John Gibson hefyd wedi gorfod ymadael â'i le yn y Borth, o herwydd dilyn y penau-cryniaid, ac wedi dyfod i aros yn y dref. Tua'r un amser y daeth un Peter Ellis yma o sir Fflint. Heblaw y rhai hyn, fe ddichon fod Richard Thomas, ac Elinor Williams, yr hon a fu yn wraig i Peter Ellis, yn eu mysg. Yr oedd hyn, fel y bernir, yn y fl. 1787. Yr oedd y rhai hyn ar y pryd hwn, a chyn fod eglwys ffurfiedig a threfnus yn Nghaernarfon, yn arfer myned i'r Waunfawr i'r cyfarfod eglwysig, a rhai o honynt, yn achlysurol, gan belled a Bryncngan. Dywedir y byddai Richard Owen, a John Gibson, yn arfer myned i'r lle olaf bob pymthegnos. Yr oedd amddifadrwydd Caernarfon o foddion gras yn mhlith yr ychydig Fethodistiaid ag oedd ynddi, ac

annuwioldeb penuchel y dref yn gyffredinol, yn ddiau, yn peri fod y brodyr hyn yn meddwl ac yn dyfeisio llawer pa fodd y gellid cyflawni y gwall, ac nid oes amheuaeth nad oeddynt eisoes wedi llygadu ar y llencyn glandeg a duwiol a gyfarfyddent yn Mrynengan, ac wedi ffurfio penderfyniad i wneuthur cais egniol at ei gael i'w tref i fyw, ac i gadw ysgol. Unwaith, pan oeddynt yn myned i Frynengan i'r cyfarfod eglwysig, penderfynodd y ddau frawd hyn na ddychwelent yn ol heb addewid gan Mr. Richardson i ddyfod i Gaernarfon i fyw. Yn unol â'r penderfyniad hwn y cododd Richard Owen yn y cyfarfod eglwysig, a hyny megys ar draws pob peth arall, i osod ei neges ger bron; ac mor llwyr y gosodasai ei fryd ar ei chael, nes dywedai wrth Evan Richardson, "Y mae yn *rhaid* i chwi ddyfod adref gyda ni;—ni ddychwelwn yno hebddoch;—y mae gan yr Arglwydd waith i chwi i'w wneyd yno yn *ddiau.*" "O Richard bach," atebai Richardson, "os deuaf acw, y bobl a'm lladdent i." Gyda hyn codai hen chwaer o'r enw Siân i fyny, gan ddyweyd gyda brwdfrydedd mawr, "Y mae yn rhaid i ti fyned, Evan bach,—ni wneir niwaid i flewyn o dy ben; am hyny, dos gyda hwy."

Ymddengys hefyd fod gan y cyfarfod misol law ehelaeth yn anfoniad Mr. Richardson i Gaernarfon, pryd yr oedd ef, gan ofn yr anturiaeth ar y naill law, a chan ymlyniad wrth ei hen frodyr ar y llaw arall, yn anhawdd iawn ganddo fyned. Eto yr oedd taerni y trueiniaid oeddynt yn byw yn Nghaernarfon, yn nghydag annogaeth gref y cyfarfod misol, yn pwyso mor drwm arno, nes gosod math o ddirgymhelliad arno i ufyddhau; ac ufyddhau a wnaeth.

"Ymchwiliais lawer," ysgrifena y Parch. David Jones, Caernarfon, "i gael sicrwydd am yr amser y symudodd Mr. Richardson o Frynengan i Gaernarfon. Yr oeddwn y Sabboth diweddaf yn nhaith Brynengan, a chefais fod yn yr ardal hon hen bobl, heb symud o'r gymydogaeth o'u mebyd; gŵr a gwraig o'r enw Owen Ellis a Magdalen Evan. A dyma eu tystiolaethau. Dywedodd Owen Ellis, 'Cefais fy ngeni a fy magu yn y Gwyndŷ, y tŷ y bu Mr. Richardson yn pregethu ynddo y waith gyntaf wedi iddo ddyfod i aros i'r ardal hon. Yr oedd hyny pan oeddwn i yn 17 ml. oed; ac yn awr yr wyf yn 88 ml. oed.' Y wraig, Magdalen Evan, a ddywedodd, 'Ymadawodd Mr. Richardson oddiyma i Gaernarfon pan oeddwn i yn 23 ml. oed, ac yn awr yr wyf yn 87 ml. oed. Mae yn hawdd i mi gofio yr amser yn gywir, gan fy mod, y pryd hwnw, dan glefyd trwm. Clywais y rhai oeddynt yn y cyfarfod eglwysig yn Mrynengan, pan oedd Mr. Richardson yn canu yn iach iddynt, yn dyweyd ei fod yn wylo yn hidl;—yn ymorwedd ar y meinciau, ac yn ymdreiglo hyd lawr, dan lefain yn groch.'"

Yn ol y tystiolaethau hyn, fe ddaeth Mr. Richardson i sir Gaernarfon yn y fl. 1771, ac wedi dechreu pregethu ryw flwyddyn neu ddwy cyn hyny. Symudodd i Gaernarfon yn y fl. 1787, pan oedd oddeutu wyth neu ddeg-ar-hugain oed;—i'r lle a fu yn faes ei lafur diflin, ac yn llanerch ei lwyddiant godidog, dros weddill ei oes. Ofnodd lawer cyn symud i Gaernarfon, ond fe fu Duw yn well iddo na'i ofnau, ïe, rhagorodd ar ei holl obeithion. Yr oedd yn ofni peth rhag ei lethu gan orthrwm yr erlidwyr; ofnai yn fwy rhag

ei niweidio gan faglau y gelyn, ac arswydai hefyd rhag mai yn ofer y byddai ei lafur crefyddol. Pan oedd ar ei ddyfodiad tua'r dref i aros ynddi, ac o fewn tua hanner milldir iddi, efe a safodd yn sydyn, a tharawodd ei ffon ar y llawr; yna gan edrych tua'r dref, torodd allan i wylo a dywedyd, 'O'r dref annuwiol, a llawn o demtasiynau, pa beth a ddaw o honwyf ynddi!—wedi gadael y wlad ddystaw a thawel!' Ond Duw a drugarhaodd wrtho ef, ac nid yn unig wrtho ef, ond wrth y dref y gresynai efe gymaint drosti, gan ei gynal ef yn ddiwaradwydd, a bendithio ei lafur i raddau anarferol, er eangu teyrnas Crist ynddi, ac yn ei hamgylchoedd, mewn modd nodedig iawn.

Yn fuan wedi iddo ymsefydlu yn Nghaernarfon, cymerodd y tŷ Tan-yr-allt i gynal moddion gras ynddo, yn nghŵr pellaf y dref. Dechreuodd ei ysgol hefyd mewn rhyw ysgoldy yn nghanol y dref. Ymddengys mai cyn cael y tŷ yn Tan'r-allt yr oedd Mr. Richardson yn pregethu mewn lle yn y dref, pan ddaeth gŵr boneddig o'r enw Garners i aflonyddu arno. Cynhyrfwyd gŵr arall ar y pryd i'w amddiffyn. Gŵr oedd hwn o'r enw John Rowlands;—dyn cyffredin ei sefyllfa, ond hynod o gryf. Aeth hwn at y gŵr boneddig; ac er ei fod yn uchel yn y byd, os nad yn Ynad Heddwch, dywedodd Rowlands wrtho, "Nid oes yma neb yn aflonyddu nac yn peri annhrefn ond y chwi, syr. Os na fyddwch yn llonydd, mi a âf a chwi fy hun i'r gwarchdwr."

Yr oedd yr ychydig o broffeswyr ag oedd yn y dref, y pryd hyn, yn rhai rhagorol eu gras a'u hymroddiad i wasanaeth yr Arglwydd. Yr oedd un William Siôn y cigydd, o Lan-yr-afon, wedi hyny, o Gae-athraw, yn mysg proffeswyr boreuaf y fro hon. Gŵr o feddwl a chorff cryf oedd yntau, cymhwys iawn i fod yn noddwr i'r cynghorwyr pan yr ymosodid arnynt gan yr erlidwyr. Llawer gwaith yr aeth William Siôn o Gae-athraw, o ymyl Caernarfon, ar foreuau Sabboth, cyn glasiad y dydd yn yr haf, i'r Bala erbyn yr oedfa ddeg o'r gloch y boreu, yr hyn oedd tua deunaw milldir ar hugain; a hyny ar ei draed. Cai, ond odid, oedfa arall ddau o'r gloch ar ei ffordd tuag adref, ac wedi cysgu enyd, yn rhyw le ar y ffordd, dychwelai ef a'i gyfaill yn brydlon at eu gwaith foreu Llun. Nid llawer yn fyr oedd hyn o 80 milldir. Rhyfedd yr aidd oedd yn eu heneidiau, a rhyfedd y nerth oedd yn eu cyrff! Rhyfeddai y bobl anwybodus at y crefyddwyr, gan ymholi pa beth yn y byd oedd yn eu cymhell. Nid oeddynt yn gweled un angenrheidrwydd am y fath ofal a llafur gyda chrefydd, a synent pa wobr a ddysgwylient am eu poen. Pan oedd Elizabeth Owen, gwraig y dywededig Richard Owen, ar Ben'r-allt, hi gyfarfu, unwaith, â nifer o bobl, tra chrefyddol yn eu tyb eu hunain, yn cyrchu tua'r Llan, a'u llyfrau tan eu ceseiliau, a chyfarchwyd hi ganddynt yn ddifrifol iawn, "Yn enw Duw! Betti fach, i ba beth y dygwch chwi bethau fel hyn i'r fan yma, yr hen benau-cryniaid!" gan gyfeirio at Mr. Richardson a'r ychydig Fethodistiaid ag oedd gydag ef. Ni fu Richard Owen fyw ond blwyddyn neu ddwy ar ol dyfodiad Mr. Richardson i'r dref; ac yn mhen rhyw ysbaid o amser ar ol ei farw, fe briododd Mr. Richardson ei weddw.

Sonia yr hen bobl lawer am Elinor Williams, gwraig Peter Ellis, y modd

y torai allan yn yr oedfaon yn llofft Tan'r-allt, gan lawned oedd ei llestr o orfoledd yr iachawdwriaeth, a'r modd y baeddid hi gan yr erlidwyr, trwy ei llusgo drwy afon Saint; ac oni bai i ryw rai sefyll drosti a'i hamddiffyn, nid oes wybod pa draha ei faint a wnaethid iddi. Un hynod hefyd oedd Dafydd Jones y cwper. Yntau hefyd a ymunodd â'r Methodistiaid yn lled foreu yn Nghaernarfon, ac a fu yn ffyddlawn iawn dros ei dymhor. Gresyn na buasai rhyw un cydnabyddus â'r gŵr hwn wedi ysgrifenu ei hanes, gan hynoted ydoedd; diau y buasai crynodeb o'i lafur, ei ymadroddion, ac o'i gymeriad yn ffurfio traethawd tra dyddorol a buddiol; ond nid oes y fath grynodeb wedi ei wneyd, na gobaith, bellach, y ceir un.

Agorodd rhagluniaeth y drws yn raddol i gael adeiladu capel mewn lle llawer mwy cyfleus i'r dref. Prynwyd y tir, ac i'r dyben i gael dechreu adeiladu yn fuan, angenrheidiol oedd cael y tŷ bychan oedd ar y tir yn wag ac heb breswylydd. I'r dyben hwn aeth Mr. Richardson at y rhai oedd yn byw yn y tŷ, a chydag ef yr oedd John Jones, Edeyrn, fel y galwyd ef ar ol hyny. Gofynwyd i'r preswylwyr ymadael yn ddioed o'r tŷ, o herwydd fod brys am gael yr adeilad i fyny. Ond y wraig a ddangosai wrthwynebiad i ymadael; dywedai ei bod yn byw yno er ys llawer blwyddyn, a bod ei pherthynasau yno er ys amser maith cyn hyny. "Gellwch," meddai, "gael lle arall i godi capel;—mae gardd gerllaw a ellwch gael at hyny." Atebwyd y wraig yn lled arw gan Mr. Jones yn ol ei ffraethineb arferol; "Oh!" ebe fe, "y chwi sydd felly yn myned i ymofyn am le i ni i godi capel!" "Ni buaswn," ebe y wraig mewn ffordd o wrthwynebiad, "yn dysgwyl gan ŵr mor synwyrol a boneddigaidd a chwi y fath ffraethder." Yr oedd y wraig, mae'n wir, yn ddigon direswm, eto nid oedd y dull y cyfarchwyd hi gan Mr. Jones yn tueddu dim ond i'w chyffroi, a gwelodd Mr. Richardson hyn, a dywedodd, "Nid fel yna y mae trin trueiniaid. Mae genyf fi dŷ yn Pen'r-allt, hwyrach y gwyddoch am dano, lle yr wyf yn cadw ysgol, chwi gewch hwnw i fyw ynddo yn lle hwn;—nid yw ei simdde ond cawell, ond mi a'i gwnaf o gerig. Perswadiwch chwithau y wraig sydd yn byw gyda chwi mewn rhan o'r tŷ yma i symud gyda chwi yno." Trwy ei hynawsedd fe ennillodd ei amcan. Bu y gwragedd foddlawn i ymadael mewn tawelwch. Adeiladwyd y capel cyntaf hwn yn y fl. 1793.

Ymroddodd Mr. Richardson i lafurio â'i holl egni. Yr oedd ganddo ysgol luosog a chyfrifol. Yr oedd ynddi lawer o ddeiliaid mewn oedran, a phlant i bobl gyfrifol yn y dref a'r wlad o amgylch. Cadwai gyfarfod un noson o'r wythnos, i holwyddori y plant,—pregethai noson arall, a chadwai gyfarfod eglwysig y drydedd. Buan iawn y daeth Mr. Richardson i barch mawr yn y dref, a llwyddiannus iawn a bendithiol a fu ei lafur i'r preswylwyr. Yr oedd amryw gynneddfau yn nghymeriad Mr. Richardson yn tueddu yn naturiol i ennill iddo barch;—yr oedd yn ddyn glân ei berson a'i wisg, ac o ymddygiad boneddigaidd a hynaws;—yr oedd uwchlaw pawb o'i gydddinasyddion, ymron, mewn dysg a gwybodaeth;—yr oedd yn hynod o ddifrycheulyd ei rodiad, a grasol ei ysbryd;—ac yn nodedig o efengylaidd a

gwlithog ei weinidogaeth. Yr oedd yn ŵr Duw, boneddigaidd ei foesau, helaeth ei ddysg, a thra defnyddiol ei lafur. Edrychid arno gan gyfoethog a thlawd yn barchusaf yn mhlith y trefedigion oll. Ennillasai yn fuan gydwybod a serch pob un a'i hadwaenai.

Yr oedd ei lafur gweinidogaethol, a'i boblogrwydd, yn cyd-gerdded â'u gilydd. Anhawdd ydoedd cyfarfod â neb helaethach ei lafur, na mwy ei dderbyniad. Arferai, weithiau, bregethu ddwywaith, neu dair, neu hyd yn nod bedair gwaith yr un noson! mewn ŵylnosau, yn ngwahanol barthau y dref. Gwedi cynal rhyw foddion yn y capel yn yr hwyr, elai rhag ei flaen i gadw ŵylnos mewn rhyw dŷ. Pregethai ar yr achlysur am ysbaid chwarter awr, neu ychydig yn ychwaneg, mor fywiog ac effro a phe buasai yn llefaru yn nghymanfa'r Bala; yna gadawai y gynulleidfa, gan amlaf yn ei dagrau, a phrysurai i dŷ arall; pregethai yn hwn drachefn yr un mor effeithiol; a chan adael y gynulleidfa mewn dagrau, ac nid anfynych mewn gorfoledd, âi ymaith i'r trydydd tŷ, a phregethai yr un modd. Ac nid amgylchiad anarferol ac anfynych oedd y fath yma, ond y gwrthwyneb. Yr oedd rhyw amgylchiadau cyffelyb yn dygwydd yn fynych mewn tref boblogaidd o'r fath ag oedd Caernarfon, a thybid yn rhyw fath o raid neu weddusrwydd cael gan Mr. Richardson i bregethu. Pregethai yn fynych ar fwrdd llong newydd cyn iddi fyned allan i'r môr; ar yr achlysuron hyn, ymgasglai tyrfaoedd mawrion iawn, ac anfynych y byddai un oedfa o'r fath yn myned heibio nad oedd arwyddion amlwg o wlith bendith yn disgyn ar y gynulleidfa.

Yr oedd hyn oll yn cael ei wneyd gan Mr. Richardson tra yr ydoedd yn llafurus a diwyd gyda'i ysgol. Yr oedd ei ysgol yn gyffredin yn lluosog ei rhifedi, a gofynai holl ymadferthoedd dyn i wneyd cyfiawnder â'i deiliaid, heb ddim gorchwyl ychwanegol yn ei aros. Ond fe gyflawnai Mr. Richardson hyn oll, i foddlonrwydd i bawb, ac yn ol pob argoelion, yn gysurus iddo ei hun. Gan y llwyddiant oedd ar ei ysgol, gallasai gasglu llawer o arian yn ystod y maith flynyddoedd y bu efe yn llafurio yn Nghaernarfon, ond nid oedd hyny yn ei fryd. Yr oedd ei law yn wastad yn agored at achosion crefyddol, a thros lawer o flynyddoedd disgynai rhan fawr o gynaliad yr achos Methodistaidd yn y dref ar ei ysgwyddau ef ei hun. "Mewn gwirionedd,' ysgrifena fy ngohebydd parchedig, "anhawdd fyddai nodi yr un dyn yn Nghymru na Lloegr, a fu yn foddion i ddyrchafu crefydd mor uchel yn ei gartref ag a fu Mr. Richardson, yn enwedigol pan y cofiom ei holl anfanteision."

Nid oedd Mr. Richardson yn un a deithiai lawer; yr oedd rhwymedigaeth ysgol yn llesteirio iddo. Eto pan y rhoddid cyfleusdra iddo ar doriad yr ysgol, fe ddangosai bob parodrwydd i fyned oddicartref, gan deimlo ei rwymedigaeth hyd y gallai i bregethu'r efengyl i'w genedl yn mhob man yn y dywysogaeth, ac yn nhrefydd Lloegr. Arferai dros flynyddau ymweled â'r Deheudir yn ngŵyliau y Nadolig; ac wedi i'r wlad hòno unwaith brofi blas ei weinidogaeth, nid oedd boddloni arni heb brawf helaethach. Dysgwylid am ei ddyfodiad fel am y gwlaw. Y tro cyntaf, meddant, yr ymwelodd â

sir Gaerfyrddin, disgynodd ar nos Nadolig yn Nghaio;—mewn lle na wyddai neb ymron ddim am dano, ond ei enw. Yr oedd yr enwog William Lloyd, Henllan, gerllaw Caio, i bregethu gydag ef y noson hono; a dyeithr oedd Mr. Richardson iddo yntau. Pregethodd am ychydig amser o flaen Mr. Lloyd mor effeithiol, nes oedd y bobl oll ar dân; a'r un modd y gwnai yn y plygain dranoeth. Ond yn Llansawel y boreu wedi'n, pan oedd y ddau yn pregethu y drydedd waith gyda'u gilydd, y bu oedfa na ollyngwyd hi yn anghof dros flynyddau lawer, gan mor rymus y weinidogaeth, a hynoted yr effeithiau a'i dylynodd.

Ni a grybwyllasom eisoes, yn hanes sir Feirionydd, am y modd y bu Mr. Richardson yn offeryn i ddarostwng yr erlid ar y Methodistiaid yn Nghorwen,* ac ni a gawn grybwyll eto, yn hanes sir Fflint, pa fodd y bu arno yn Nhreffynnon, yn yr adeg yr oedd Methodistiaeth heb gael, ond yn brin, roddi ei droed i lawr yn y dref hòno. Pan oedd ar daith unwaith yn sir Drefaldwyn, gwnaed cais gwaedlyd at ei anafu, os nad at ei ladd. Yr oedd yn lletya yn y tŷ y buasai y noson hòno yn pregethu ynddo. Dygwyddodd iddo fyned allan i'r drws cyn myned i orphwys, ac wrth iddo ddychwelyd yn ol i'r tŷ, wele gareg drom yn sïo yn chwyrn heibio iddo, ac yn crynu coeden gan ei rhuthr. Amcanwyd hyn ato ef, ond Duw a'i cuddiodd yn nghysgod ei law, ac ni ddaeth niwaid iddo.

Yr oedd ar ei daith unwaith yn Môn, a chyfaill iddo o'r enw Daniel Evans gydag ef. Fel yr oedd y ddau yn marchogaeth tua Phentref-y-bwäu, gwelent o'u blaen luaws o bobl mewn oedran, ar ganol y ffordd wedi ymddyosg hyd eu crysau, yn chwareu rhyw gamp,—a'r Sabboth oedd hi.

"Wel Daniel," gofynai Mr. Richardson, "a allwn ni ddangos ffyddlondeb i Dduw, os awn heibio i'r annuwiolion hyn heb eu rhybuddio?

"Nac allwn, mae yn debyg," atebai ei gyfaill.

"Beth, ynte, a ddywedwn ni wrthynt?"

"Pregethwch iddynt, fel i bechaduriaid eraill, Mr. Richardson, bach," ebe Daniel.—Aeth y ddau yn mlaen, a phan ddaethant at y chwareuwyr, safasant,—rhoes Mr. Richardson awen y ffrwyn yn llaw ei gyfaill; tynodd ei het, ac a'i rhoes iddo; yna tynodd, gan bwyll, Feibl bychan o'i logell ac a'i hagorodd. Erbyn hyn yr oedd yr holl luaws yn llygad-rythu arno, gan synu beth a allai hyn fod. Darllenodd Mr. Richardson â llais eglur, yr 20fed bennod o Exodus, a'r 8fed adnod, "Cofia y dydd Sabboth i'w santeiddio ef." Gydag iddynt glywed hyn, ymaith â'r holl dyrfa, fel rhai wedi eu dal gan fraw aruthrol,—ffoisant ymaith ar ffrwst mawr, rhai ar bob llaw, dros gloddiau a ffosydd, fel na adawyd yno neb i wrando dim ychwaneg na'r testyn a ddarllenwyd. Yr oedd Mr. Richardson o wedd foneddigaidd, a thybiodd y lluaws, yn ddiau, mai swyddog gwladol ydoedd, a'i was, wedi dyfod yno ar fwriad i'w cymeryd i fyny, a'u dirwyo, am dori y Sabboth.

Crybwyllasom fod rhieni Mr. Richardson yn anfoddlawn iawn iddo ymuno

* Gwel yr hanes tudal. 563., Cyf. I.

â'r Methodistiaid, a bod ei dad, o leiaf, yn ffyrnig ei nwydau o herwydd ei siomi yn ei gynlluniau bydol, trwy i'r mab wrthod cymeryd urddau. Nid oes genym sicrwydd dros ba hyd, nac i ba raddau, y parhaodd ei dad yn ei wrthwynebiad, ond ni a gawn fod Mr. Richardson wedi myned i edrych am dano ar ei wely angau; a bod ei fam, trwy ei waith ef yn gweddio dros ei dad, wedi cael ei deffro yn nghylch ei chyflwr ysbrydol, ac iddi dreulio gweddill ei hoes mewn aelodaeth eglwysig, yn yr un cyfundeb a'i mab.

Yr oedd dull Mr. Richardson o bregethu yn wahanol i bawb ymron o'i frodyr. Pa faint bynag oedd ei wybodaeth o bynciau duwinyddol, a pha faint bynag oedd ei gyrhaeddiadau mewn canghenau dysgeidiaeth, nid oedd yr un pregethwr a ddangosai lai o hono ei hun yn y pethau hyny nag ef. Yr oedd pob cysondeb duwinyddiaeth yn ei weinidogaeth, heb ei ffurf; a phob gwedd-usrwydd dysgeidiaeth, heb ei gwisg. Yr oedd ei ymadroddion yn fyrion, yn gryno, ac yn hyfryd;—yr oedd ei lais yn glir ac yn beraidd;—a'i ysbryd yn fywiog ac efengylaidd. Nid yn fynych y ceid ef yn trin un mater fel pwnc noeth, er y byddai ei bregethau yn llawn o sylweddau athrawiaethol. Nid oedd ei gyffelyb am fedru taro ar gnewyllyn ei bregeth, megys ar unwaith, heb un rhagymadrodd, nac olrheiniad graddol a blaenorol. Yr oedd mor fywiog ar ddechreuad ei bregeth ag a fyddai ar ei chanol. Nid oedd angenrheidrwydd arno, tybygid, am lawer o amser i enyn ei ysbryd, ac i ddwyn ei feddwl i'r cywair priodol. Nid oedd modd olrhain y drefn a osodai iddo ei hun wrth bregethu. Nid oedd penau lawer ar ei bregeth, na ffurf o ymbyncio. Nid dull o ymresymu yn gryf oedd ganddo, a llawer llai o ymddadlu, ond dadgan mewn ymadroddion brawddegol a chryno, ac ysbryd a gwedd hyfryd, fawr gariad Duw yn Nghrist Iesu at bechaduriaid colledig. Gallasai rhai feddwl y buasai cyfansoddiad mwy trefnus ar ei bregethau fod yn gynorthwy i'w cofio yn well, ac y buasai mwy o athrawiaethu yn fwy effeithiol i eangu y deall, ac i gywiro y syniad; ond pa un bynag am hyny, fe fu gweinidogaeth Mr. Richardson yn ennillgar iawn i ddwyn dynion i wrando, ac yn fendithiol iawn i'r sawl a'i gwrandawent. Pan ddaeth gyntaf i Gaernarfon, arferai hen baganiaid tywyll y fro ddyweyd, "Y mae yn rhaid i ni fyned i'r fan a'r fan heddyw i wrando;—mae Evan Richards' yno."—"Y pregethwr goreu sydd i'w gael yw hwnw," meddai y naill;—"na," meddai y llall, "nid oes dim nad oes ei gystal." Hawdd ydyw gweled yn hyn, ffolineb y werin ar y naill law, a dawn ennillgar y pregethwr ar y llaw arall. Nid oes amheuaeth na fu ef yn un o'r prif offerynau i ddwyn trigolion Arfon i wrando'r efengyl; ac nid ei ddawn poblogaidd, ei lais clir, a'i wedd siriol, yn ennill ar deimladau y werin ddifeddwl, oedd y prif ganmoliaeth yn y gweinidog hwn; ond yr oedd yn perthyn iddo ddwysder cymeriad, hynawsedd ysbryd, doethineb ymddygiad, a ffyddlondeb llafur, a barai barch diffuant iddo, gan y rhai a adwaenent fwyaf o hono, fel gŵr Duw, a gweinidog cymhwys y Testament Newydd. Perchid ef yn Nghaernarfon yn fwy nag yn un man arall. Nid oedd neb dyeithr yn meddu cymaint o ddylanwad, na'r un pregethwr yn cael mwy o wrandawyr, nag a gai ef yn ei gartref.

Ond er maint oedd ei ddefnyddioldeb a'i barch, syrthiodd arno, flynyddoedd cyn ei farwolaeth, anmhariaeth trwm gan y parlys. Difuddiodd hyn ef i raddau mawr am y gweddill o'i oes. Anmharodd yr afiechyd hwn lawer ar ei gof, ac ar ei olwg, ac nid llawer ar ol hyn y symudodd o'i gartref; eto yr oedd yn anhawdd ganddo ef ei hun roi pregethu heibio yn llwyr,* ac anhawdd gan ei frodyr oedd ei lesteirio, ïe, er gweled fod gradd o anturiaeth yn hyny, trwy fod ei gof yn agored i ballu. Ar ryw achlysuron, pa fodd bynag, ïe, yn y tymhor hwn, fe'i gwisgid ef â phrydferthwch, ac ag arddeliad anarferol, nes y byddai yr holl gynulleidfa yn fyw trwyddi. Ond yr oedd yr amser, er hyn oll, yn dynesu ag yr oedd yn rhaid iddo roddi y "tabernacl hwn heibio," yr oedd y dyn oddiallan yn llesgau fwyfwy, ac amser ei ymddattodiad yntau a ddaeth. Ei eiriau olaf oeddynt, "Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." Bu farw mewn tangnefedd, Mawrth 29, 1824, yn 65 ml. oed, wedi bod yn pregethu, yn ol a allaf gasglu, tua 45 o flynyddoedd.

Bellach, dychwelwn at fynediad Methodistiaeth yn mlaen yn y dref. Er maint a fu defnyddioldeb Mr. Richardson i ddwyn yr achos yn ei flaen yn Nghaernarfon, eto y mae yn weddus chwanegu mai mewn cysylltiad â'i holl frodyr y bu hyn. Yr oedd yn cydlafurio gydag ef dros ystod mwy neu lai, amrywiol o weithwyr difefl; y rhai yr oedd eu gweinidogaeth yn nerthol anarferol. Yr oedd ehediadau eryraidd Robert Roberts o Glynog yn tynu sylw yr holl wlad. Gan faint y son a fyddai am dano, ymgynullai torfeydd lluosog i'w wrando, a chan y fflachau tanllyd a fyddai yn ei bregethau, yr oedd nifer fawr o'i wrandawyr yn cael eu dal gan syndod a braw, a thrwy swyn hyfryd yr efengyl a ddadgenid ganddo, yn cael eu sugno yn ewyllysgar dan iau y Cyfryngwr. Nid hir o amser ar ol i Mr. Richardson ymsefydlu yn Nghaernarfon y daeth John Elias i'r golwg, gan gyffroi yr holl wlad trwy rym ei weinidogaeth. Cymysgai y gwŷr hyn, a lluaws o rai eraill llai eu doniau cyhoeddus, ond tra defnyddiol eu gwasanaeth i achos yr efengyl, eu llafur gyda'r eiddo Mr. Richardson, nid yn Nghaernarfon yn unig, ond yn mhob man arall a fyddai o fewn eu cyrhaedd.

Adeiladwyd y capel, fel y soniwyd, yn y fl. 1793. Wedi cael lle cyfleus i addoli, lluosogodd y gwrandawyr, a chwanegwyd llawer at yr eglwys. Yr oedd yr achos yn ymwreiddio ac yn ymledu yn y dref a'i hamgylchoedd, a chyn llawer o flynyddoedd aeth y capel yn rhy fychan ac anghyfleus i gynal yr oedfaon. Prynwydychwaneg o dir, gan hyny, i'w helaethu; ac ail-adeiladwyd ef yn y fl. 1806. Ystyriwyd y capel hwn, yn y wedd a roddwyd arno yn yr adgyweiriad a'r helaethiad presenol, yn adeilad eang a phrydferth. Yn yr adeg yma yr aeth Mr. Richardson i Lundain i wasanaethu yr achos yn

* Clywais am dano yn y tymhor llesg hwn, pryd yr oedd ei olwg a'i gof wedi pallu yn fawr, ei fod mewn lle nid yn mhell o'i gartref, wedi codi i fyny yn y pulpud i gynyg pregethu, ond nid oedd, druan gŵr, yn abl i adgoffa ei destyn. Torodd allan i wylo, gan ddyweyd, "Dyma fi, hen bechadur, heb *destyn*, ac heb *lygaid*, ond nid heb *Dduw*; bendigedig a fo fe,—nid heb Dduw!" A'r ystyriaeth yma a fu yn destyn iddo, a phregethodd oddiwrtho mewn modd tra effeithiol.

mhlith y Cymry yno; a chyn iddo orphen ei dymhor, bu raid iddo ddychwelyd, o herwydd marwolaeth ei wraig, yr hon a adawsai yn ei hiechyd cyffredin. Yn yr un tymhor hefyd, sef yr adeg yr oedd y capel yn cael ei adeiladu, y torodd adfywiad crefyddol yn mysg yr ieuenctid. Parhaodd yr adfywiad hwn dros ryw ysbaid i ymledu ac i ymgryfhau, nes chwyddo llawer ar rifedi yr eglwys a'r gwrandawyr.

Parhaodd yr achos yn y wedd siriol oedd arno, er nad yn hollol gyfartal, am ysbaid 20 mlynedd. Ar y cyfan, yr oedd yn ymhelaethu yn raddol dros yr holl amser hyny, nes y bu raid meddwl helaethu y terfynau eilwaith; a hyny a wnaed yn fl. 1826. Cafwyd lle i adeiladu, mwy cyfleus i'r dref, yn Mhen'r-allt, ac adeiladwyd addoldy newydd a helaeth iawn, yr hwn a gostiodd yn agos i £4,500.

Parhaodd y gwrandawyr i gynyddu fwyfwy. Cyn nemawr o amser yr oedd capel mawr Pen'r-allt yn caelei orlenwi, yr eisteddleoedd oll wedi eu cymeryd, ac ymofyniad parhaus am ychwaneg. Parodd yr amgylchiadau hyn i'r ymofyniad godi, ai nid dyledswydd oedd ysgogi yn mlaen, a chan fod capel Pen'r-allt eisoes yn ddigon o faint i lais cyffredin allu ei lenwi, ai nid buddiol a fyddai adeiladu capel arall, mewn cŵr arall o'r dref? Hyn, ar ol dwys ystyriaeth, a bwrw y draul, a benderfynwyd arno; prynwyd lle yn y rhan o'r dref a elwir Tre'r-gof, ac adeiladwyd capel helaeth arno yn y fl. 1842. Mae hwn yn cael ei lenwi â gwrandawyr, ac nid rhyfedd fyddai, gan amled ydyw trigolion y dref, a chan y llwyddiant a welodd yr Arglwydd yn dda goroni yr achos, pe gorfyddid codi capel arall cyn byddo hir.

### Y PARCH. WILLIAM LLOYD, B.A.

Yr oedd y gŵr duwiol hwn yn un o'r tri offeiriad a gawsant urddau esgobawl, ac a ymunasant â'r Methodistiaid yn Ngogledd Cymru. Y ddau arall sydd dra hysbys, sef y Peirch. T. Charles ac S. Lloyd o'r Bala. Mab oedd y Parch. W. Lloyd i Mr. Robert Lloyd, Pen-y-maes, Nefyn, sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn y fl. 1771. Dygwyd ef i fyny yn Rhydychain, a chyrhaeddodd raddau helaeth o ddysgeidiaeth, mwy felly, meddir, mewn rhyw ganghenau, na chyffredin, yn enwedigol yn yr iaith Lladin. Derbyniodd ei urddau gan Dr. Cleaver, esgob Bangor, yn y fl. 1801, ac felly pan ydoedd yn 30 ml. oed. Cychwynodd ei weinidogaeth yn Rhosgolyn, Môn, gerllaw Caergybi. Yr oedd ar y pryd yn gwbl amddifad o'r cymhwysderau hanfodol i weinidog yr efengyl. Dygwyd ef i fyny mewn dyeithrwch i grefydd ysbrydol. Ni wyddai ei rieni eu hunain ddim am dani, a'r cwbl yn eu golwg, yn ddiau, wrth ei ddwyn i fyny i'r eglwys, oedd parch ac elw y byd presenol. Felly hefyd y tyfodd y gŵr ieuanc i fyny. Yr oedd yn hardd ei berson, yn siriol ei dymher, ac yn foneddigaidd ei foes. Ennillasai iddo ei hun barch y mawrion, a thynasai arno ei hun sylw arbenig yr esgob. Yr oedd yr holl amgylchiadau hyn yn tueddu i enyn ynddo dyb uchel am dano ei hun; a chan nad oedd llywodraeth gan y gwirionedd ar ei galon, hawdd oedd ei

lithro i gydymffurfiad hollol ag arferion y dosbarth y troai, bellach, yn eu mysg. Cadarnheid ef mewn tyb uchel am ei gymhwysder i'r swydd, trwy y gwyddai ddarfod iddo raddoli yn anrhydeddus yn y Brif Ysgol, yn enwedig gan ei ordeinio yn *rheolaidd* i'r swydd, a bod gan yr esgob feddwl uchel am dano. Ac er ei fod yn rhedeg yn ddinâg gyda'r lli, ac yn dylyn yn hoyw arferion llygredig, a chwareuon ofer ei oes a'i gymdeithion, eto nid aeth i'w feddwl fod ei sefyllfa gyda Duw mewn un math o berygl, na bod un sail iddo amheu ei gymhwysder i weinidogaeth yr efengyl. Barnai fod yn rhaid ei fod yn blentyn i Dduw, gan ddarfod ei fedyddio yn rheolaidd, a hònai ei fod yn offeiriad awdurdodedig, gan ei fod yn yr olyniaeth apostolaidd, ac wedi ei gynysgaethu â dawn yr Ysbryd Glân, am fod dwylaw yr esgob wedi eu harddodi arno.

Yn yr agwedd wagsaw ac anystyriol hon y treuliodd Mr. Lloyd flynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Eithr gwelodd yr Arglwydd yn dda gyfarfod ag ef yn ei ras, a hyny trwy foddion anarferol a dyeithr. Dygwyddodd fod gwledd bedydd i fod ar ryw Sabboth mewn tŷ gŵr boneddig, lle y dysgwylid, yn ol yr arfer y pryd hwnw, nifer o foneddwyr a chlerigwyr i ymgyfarfod. I'r wledd hon gwahoddwyd Mr. Lloyd. Cafodd fenthyg ceffyl ar yr achlysur gan Mr. John Williams, Lledwigan, Môn. Ar ei ddychweliad, yr oedd y nos wedi cerdded yn mhell, ac wrth roddi gofal y ceffyl i'r gwas, gorchymynodd roddi llyffethair am ei draed. Ond tra yr oedd y gwas yn gwneuthur hyn, ac wedi sicrhau un egwyd i'r anifail, fe ddiangodd y ceffyl o'i afail cyn iddo allu sicrhau yr egwyd arall. Yr oedd y gadwyn, bellach, yn rhwym gerfydd un pen wrth yr anifail, yr hwn trwy ei fod yn rhedeg yn wyllt a chyffrous, a gurid yn arswydus gan y gadwen; a chymaint felly nes ei archolli yn drwm iawn. Parhaodd y ceffyl i redeg, a pharhaodd y gadwen i'w guro nes iddi dori yn gwta yn agos i'w droed. Mawr oedd profedigaeth Mr. Lloyd pan ddeallodd y modd y bu yr anffawd, a dechreuodd synfyfyrio pa ryw oruchwyliaeth oedd hon? Pa beth a allai fod yr achos o honi, a pha ddyben a allai fod iddi? Daeth i'w gôf yn y fan mai ar y Sabboth y buasai yn gwledda, ac mai gwledda yn llygredig a wnaeth, dan esgus ordinhad grefyddol. Mewn gair, dygwyd ef fel yr afradlawn *ato ei hun.* Ymddangosai ei ymddygiad, bellach, mewn gwedd newydd, a dyeithr iawn. Gwelai wrthuni yn awr lle y gwelsai harddwch o'r blaen; gwelai bechadurusrwydd yn awr lle y tybiasai fod diniweidrwydd o'r blaen; ymaflodd euogrwydd yn ei gydwybod, a ffôdd tangnefedd o'i fynwes.

Gwnaeth Mr. Lloyd ei oreu i ysgwyd ymaith y teimladau pruddglwyfus hyn. Rhoddai brawf eilwaith ac eilwaith ar yr hen ddifyrwch, ac ymofynai yn nghwmni ei hen gyfeillion diofal a llygredig am feddyginiaeth i'w archoll, ond nid oedd dim yn tycio. Aeth unwaith i Nefyn i'w hen gartref ar yr un neges, ac heb ddim gwell llwyddiant. Cyfarfu unwaith ar y ffordd â gwraig y buasai lawer gwaith yn ei chwmni yn nghyfarfodydd ofer y boneddwyr, a llonai wrth ei gweled, gan ddysgwyl y cawsai air oddiwrthi yn yr ymddyddan a liniarai ei ofid; yn lle hyny ei chwanegu a wnaed. Yr oedd y wraig heb

wybod iddo ef, wedi gweled ei hunan oferedd ei hymddygiad, ac wedi troi oddiwrtho yn hollol ac am byth; ac ebe hi wrth Mr. Lloyd, "Rhaid i ni ein dau, Mr. Lloyd bach, gael edifeirwch a maddeuant am y dull ysgafn ac annuwiol a fu arnom." Yn y cyfamser, a thra yr oedd ei faich ymron yn annyoddefol iddo, daeth yn adnabyddus o hen ŵr tlawd yn ardal Rhosgolyn, yr hwn a adnabyddid fel dyn duwiol iawn, ac yn aelod gyda'r Methodistiaid yn yr adal hòno. Fe fu cyfeillach â'r hen ŵr hwn yn foddion i'w arwain at Geidwad pechadur, a thrwy hyny i roddi gorphwysdra i'w enaid trallodedig.

Bellach, ymddangosai yn ddyn newydd yn y pulpud. Medd ei fywgraffydd am dano y pryd hwn, "Anadlai anadl cinioes i gorff marw y Llyfr Gweddi Cyffredin—chwystrellai ysbryd trwy yr holl ffurf wasanaeth; a melltenai fywyd trwy bob aelod o'r ffurf-weddiau." Llefarai, bellach, fel un ag awdurdod ganddo. Swynai dyrfaoedd lawer i wrando arno; a gwelwyd yn llanau Rhosgolyn, Llanfair, Llanfihangel, yr eglwysi y pregethai ynddynt, gynulliadau na welsid eu cyffelyb ynddynt erioed o'r blaen. Yr un wedd oedd ar bethau yn Nefyn pan aeth yno i bregethu; yr eglwys yn orlawn o wrandawyr, a'i weinidogaeth yntau yn dwyn profion amlwg o eneiniad yr Ysbryd Glân.

Yn fuan ar ol hyn, fe ymunodd â'r Methodistiaid yn Rhosgolyn. Yr oedd nifer y crefyddwyr yn y lle hwn yn ychydig iawn;—canghen ydoedd o'r gymdeithas eglwysig yn Nghaer-geiliog, ac nid oedd nifer yr aelodau yn y ddau le gyda'u gilydd, ond ychydig o rif, tua 18 o bersonau, a'r rhei'ny, ymron oll, yn bobl ddiddysg ac isel, tra gwahanol i'r cwmni y buasai Mr. Lloyd yn troi yn eu plith yn flaenorol. Wedi ei dderbyn yn aelod eglwysig yn Nghaer-geiliog, annogwyd ef yn fuan i ymgyflwyno i'r cwrdd misol. Hyd yn hyn, nid oedd wedi pregethu yn un man allan o'r llanau plwyfol; ond nid hir y bu ar ol hyn na ddechreuodd bregethu mewn lleoedd eraill, lleoedd anghysegredig; a phrysurodd rhai o'i gyd-glerigwyr i achwyn arno wrth yr esgob. Yr oedd Mr. Lloyd yn rhagweled y canlyniad, ac wedi bwrw y draul, gan benderfynu, pa helynt bynag a'i cyfarfyddai, i gadw cydwybod ddirwystr tuag at Dduw yn y tro hwn.

Yr oedd Mr. Lloyd, yn fynych, yn teimlo ofnau dwysion na alwyd ef i'r weinidogaeth, a pharai yr ofnau hyn lawer o nychdod i'w ysbryd. Dywedai, yn fynych, mai dyn yn unig a roddasai awdurdod iddo i bregethu, a hyny pan ydoedd yn ddyn annuwiol, ac yn hollol anghymhwys i'r swydd. Parhaodd y syniad hwn i aflonyddu arno, yn awr ac eilwaith, dros ei oes, ac nid oes amheuaeth na fu yn llawer o wanychdod i'w feddwl gyda phregethu, gan ei wneuthur o hyny yn barotach i ymaflyd mewn rhyw orchwyl bydol er mwyn bywioliaeth. Ar y pryd yr ymunodd ef â'r Methodistiaid, nid oedd neb yn gweinyddu yr ordinhadau arwyddol, ond y sawl yn eu plith a gawsent urddau esgobawl, ac o'r rhai'n nid oedd ond *dau* yn holl Wynedd; dan yr amgylchiadau hyn yr oedd cael Mr. Lloyd i'r cyfundeb, pryd nad oedd un amheuaeth am ei dduwioldeb, yn cael ei ystyried yn ychwanegiad manteisiol iawn; a galwyd arno i lwyr ymroddi i'r gwaith, gan sicrhau iddo na fyddai arno eisiau dim. Ond dewis a wnaeth yn hytrach ymaflyd mewn galwedigaeth fydol, a

phregethu ar y Sabbothau mewn gwahanol fanau, fel y gelwid arno. Y penderfyniad hwn a'i harweiniodd i Gaernarfon i fyw, gan fod iddo frawd yn *farcer* yno; yn ngwasanaeth yr hwn y bu efe yn foddlawn i aros dros ryw gymaint o amser. Wedi hyn aeth i Nefyn at ei fam a'i chwaer, a bu gyda hwy dros rai blynyddau yn arolygu yr ychydig dir oedd ganddynt, a gwasanaethu yr eglwysi yn ngwahanol barthau o'r wlad. Symudodd o Nefyn i Fryn-eurau, yn mhlwyf Clynog, i gadw ysgol, a thrachefn symudodd i Gaernarfon, yn y fl. 1817, lle y bu yn cadw ysgol am ysbaid 9 neu 10 ml. Yn y fl. 1826, priododd Miss Jane Roberts, pan oedd yn 55 ml. oed, a chafodd ynddi ymgeledd gymhwys, y fath a barai fod gweddill ei oes yn brydnawngwaith teg a hyfryd, mewn cydmhariaeth i'r hyn a fuasai o'r blaen. Yn fuan wedi priodi, rhoes yr ysgol i fyny, gan ymroddi yn llwyrach i wasanaethu teyrnas y Cyfryngwr.

Anaml y cyfarfyddid â gŵr mwy ei ddiniweidrwydd na Mr. Lloyd. Cyn ei ddychweliad, yr oedd yn ddyn uchel ei ffroen a balchaidd ei naws, ond wedi hyny yr oedd yn nodedig am ei dduwioldeb a'i ostyngeiddrwydd. Y dysgrifiad a roddai pawb o hòno, oedd, "Mr. Lloyd, dduwiol, ddiniwaid." Nid yn ei weinidogaeth, rhaid addef, yr oedd ei enwogrwydd, ond yn ei ras. Os nad oedd yn hynod fel ymadroddwr ger bron dynion, yr oedd yn neillduol felly fel ymdrechwr gyda Duw. Ni feddai hyawdledd mawr mewn pregethau, ond yr oedd iddo ddyfodfa at Dduw mewn gweddiau. Ac yn ei weddiau fe fyddai yn fynych yn derbyn arwyddion nodedig o foddlonrwydd Duw iddo, nes byddai ei lestr yn rhedeg drosodd. Yr oedd un nos Sabboth yn lletya yn nhŷ capel Llanrug, gerllaw Caernarfon. Wedi myned i'r 'stafell wely, a disgyn ar ei liniau, llewyrchodd ar ei ysbryd, a llanwyd ef o orfoledd *nes y gwaeddodd dros y tŷ*, "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist." Ar hyn, fe glywodd William Williams, gŵr y tŷ, y sŵn, ac aeth ato. Enynodd y tân ynddo yntau, ac yno y bu y ddau hen bererin yn moliannu Duw am oriau. Wedi llwyr ddiffygio eisteddent, gan adrodd y naill wrth y llall brofiadau eu mynwes, weithiau trwy adnod o'r Beibl, ac weithiau trwy bennill o hymn. Adroddai William y pennill—

"Mi gaf fy nghorff i fyny
Fel fy anwylyd cu, &c."

ac atebai Mr. Lloyd iddo trwy adrodd yr adnod, "Yr hwn a gyfnewidia ein corff gwael ni, fel y gwnelid ef yr un ffurf a'i gorff gogoneddus ef," ac yna, gydag enaid toddedig y dywedai, "Bendigedig fyddo Duw!" Yna adroddai y geiriau, "Angau a lyncwyd mewn buddugoliaeth;" a hyny gyda'r fath flas hyfryd, a'r fath lewyrch dysglaer, ag oedd yn ddigon, pe buasai bosibl, i beri i'r cerig lefaru yn y fan! Arferai yn gyffredin ar nos Sabbothau, pan yn ymddyddan â'i Arglwydd, roddi cyfrif o'i wasanaeth drosto yn ystod y dydd—roddi diolch am unrhyw gymhorth a gawsai; ac erchi am faddeuant iddo ei hun o'i waeleddau, ac am fendith i eraill ar y gwirionedd a draeth-

asid ganddo. Ar un o'r achlysuron hyn y defnynwyd i'w fynwes y fath ddiferion melys a goffawyd.

Yr oedd cymaint o dynerwch teimlad yn mynwes Mr. Lloyd, a chymaint o ofn gwneuthur dim a fyddai yn anweddus, chwaithach yn bechadurus, fel y mae yn sŷn, ar ryw gyfrifon, ei fod wedi casglu digon o benderfyniad meddwl i ymadael ag eglwys Loegr, ac ymuno â'r ymneillduwyr, gan y gwyddai y gofid a barai hyn i'w deulu; ond yr ydym yn cael fod tynerwch o natur arall hefyd yn ei galon, yr hwn a osododd arno fath o *angenrheidrwydd* i gymeryd y cam a wnaeth. Yr oedd gwasanaeth bedydd yn yr eglwys hòno yn ei boeni:—edrychai ar *arwydd y groes* yn weddill pabyddiaeth; ac ar dadau a mamau bedydd yn afreidiol ac anysgrythyrol; a theimlai yr iau a osodid arno i fedyddio plant pawb yn ddiwahaniaeth, yn flinder i'w gydwybod. Yr un modd y teimlai anesmwythder annyoddefol wrth gladdu, a gweinyddu y cymun, ac ymweled â'r claf. Wedi ei oleuo am ei gyflwr ei hun, canfyddai y fath wrthuni yn arferion llygredig clerigwyr ei oes, fel na fynai ar un cyfrif gael ei restru yn eu mysg, na dal cymundeb â hwy; na fynai gymaint a bod felly mewn enw.* Yr ystyriaethau hyn a'r cyffelyb a ogwyddodd ei feddwl yn benderfynol, er pob colled a gwarth a ddyoddefai, i ymddyosg oddiwrth ei berthynas â'r eglwys wladol, ac i fwrw ei goelbren gyda'r Methodistiaid; a threuliodd tua 36 o flynyddoedd yn eu cymdeithas, gan lafurio mwy neu lai, yn ol ei ddawn, ar gyhoedd yn y cyfundeb, a chan rodio yn ddyfal gyda Duw yn y dirgel. Ennillodd iddo ei hun enw anrhydeddus,—enw gwell nag ysgolhaig mawr,—īe, gwell na bod yn bregethwr poblogaidd, sef yr enw o fod yn Gristion cywir, dihoced, a diargyhoedd. O hyn fe roddasai brofion lawer yn ystod ei oes, a chwanegodd lawer atynt yn ei glefyd diweddaf. Yn nghanol tymhestl marwolaeth, a phan oedd llestr ei natur yn ymguro ar greigiau certh y tragywyddolfyd, dywedai mewn llais croyw, "*Mae yn dawel iawn oddifewn!*" Cynllun teg o'r tangnefedd oedd yn ei aros yr ochr draw. Bu farw Ebrill 16, 1841, yn 70 ml. oed.

---

## PENNOD VIII.

### METHODISTIAETH YN MANGOR A'I CHYFFINIAU.

CYNWYSIAD:—

JOHN WILLIAMS, LLANDEGAI—DECHREUAD METHODISTIAETH YN MHLWYFYDD LLANDEGAI A LLANLLECHID—ANSAWDD Y WLAD AR Y PRYD O RAN GWYBODAETH AC ARFERION—GWEDD HYNOD Y BOBL MEWN OEDFA MEWN ARDAL FYNYDDIG—PREGETHU YN YR ACHYB—DECHREUAD YR YSGOL SABBOTHOL, A'I LLWYDDIANT—METHODISTIAETH YN ABER—PARCH. D. JONES, A WILLIAM JONES, ABERCASEG.

#### JOHN WILLIAMS, LLANDEGAI.

GANWYD y gŵr hwn tua'r fl. 1756; ao efe, meddir, oedd y Methodist cyntaf yn y dosbarth hwn o'r wlad, sef yn mhlwyfydd Llandegai a Llanllechid.

* Darllener Cofiant dyddorol iddo yn y "Drysorfa" am y fl. 1846, gan y Parch. D. Jones, Caernarfon.

Oddiwrth hyn y gwelwn nad yw Methodistiaeth ddim mor hen ag y gallesid dysgwyl yn y llanerchi hyn, wrth ystyried y nifer mawr o gapelau sydd yn britho yr ardaloedd, a'r cynulleidfaoedd lluosog sydd yn awr yn eu llenwi, prin y mae 70 ml. wedi myned heibio er pan y profodd John Williams radd o awdurdod y gwirionedd ar ei feddwl; cymerodd hyn le tua'r fl. 1783. Y pryd hyn nid oedd dim pregethu gan y Methodistiaid, nac yn wir gan un enwad arall, yn yr holl ardaloedd hyn, oddieithr yn y llanau plwyfol, ac yn y rhai hyny nid oedd y pregethu ond anfynych, a phan y byddai, nid oedd ynddo nemawr o efengyl. Yr oedd John Williams hefyd, hyd y pryd hwn, "yn byw yn ol helynt y byd hwn, heb obaith ganddo, ac heb Dduw yn y byd." Ond cyfarfu ag ef oruchwyliaeth heb ei dysgwyl, ag a fu yn foddion i weithio ynddo gyfnewidiad trwyadl, ac i'w wneuthur yn ddefnyddiol yn ei ddydd i "gynal gair y bywyd," yn ei ardal dywell, dros weddill ei oes. Fel hyn y bu:—

Yr ydoedd unwaith yn ymbarotoi i fyned i wledd bedydd (yr oedd y cyfryw wleddoedd yn lluosog yn y dyddiau hyny):—ond cyn iddo orphen ymwisgo, cymerodd Feibl, yr hwn oedd yn ei ymyl, yn ei law, a dygwyddodd iddo droi at 50fed Salm. Darllenodd iddo ei hun y Salm hyd yr 21ain adnod: "Hyn a wnaethost, a minau a dewais, tybiaist dithau fy mod i yn gwbl fel ti dy hun, ond mi a'th argyhoeddaf, ac a'i trefnaf o flaen dy lygaid." Cafodd y geiriau hyn effaith anarferol ar ei feddwl. "Ni allaf," meddai ef ei hun, "eu hanghofio byth." Aeth i'r bedydd, er hyny, a gwnaeth bob ymgais i foddi blinder ei fynwes â diod gadarn, ond methodd yn lân a meddwi dim. Sylwai y cwmni, nad oedd John Williams mor siriol ac ysgafn ag y byddai ef yn arferol o fod, ond yr achos o dristyd ei wynebpryd a gadwai oddiwrthynt. Daeth adref o'r bedydd, ac fe aeth eilwaith at y ddiod, i dafarn yn ymyl ei dŷ; ond yma, hefyd, fe ffaelodd yn llwyr a meddwi. Aeth i'r gwely, ond treuliodd y nos heb allu cysgu; yr oedd y saeth lem yn glynu yn ei galon. Yn y blinder annyoddefol hwn y bu dros rai misoedd. Nid oedd ganddo neb yn yr holl wlad i ddyweyd ei gŵyn wrtho, ac nid oedd ef ei hun yn gallu dirnad pa beth a ddarfu iddo. O'r diwedd, penderfynodd ymofyn, ai nid oedd neb yn pregethu yn un man, modd y gallai eu gwrando, i edrych ai ni ysgafnheid ei faich trwy hyny. Dygwyddodd glywed, pa fodd bynag, fod gŵr dyeithr o bregethwr i'w ddysgwyl, ar ryw amser penodol, yn sir Fôn. Aeth yno, a chlywodd y peraidd efengylydd o Langan. Profodd y fath ymwared trwy y weinidogaeth yn y tro hwn, fel y dywedodd gyda llwyr ymroddiad, "Dyma fy mhobl i, bellach, am byth."

Mawr fu ei lafur, dros rai blynyddau, ar ol hyn, i fwynhau pregethiad yr efengyl. Ar y Sabbothau, âi i Lanberis y boreu, Llanrug y prydnawn, a Chaernarfon yn yr hwyr, a dychwelai adref drachefn, wedi cerdded yn ystod y dydd nid llai na 40 milldir o ffordd. Tua'r fl. 1787, fe lwyddodd i gael oedfa i'w dŷ ei hun, yr oedfa gyntaf, meddir, gan y Methodistiaid yn mhlwyfydd Llandegai a Llanllechid. Fe fu pregethu yn y tŷ hwn, sef y Felin-isa', am oddeutu 8 mlynedd; erbyn hyn cododd erlidigaeth, a bu gorfod i John

Williams ymadael, oblegid y gwrthwynebiad oedd gan un Mr. Roe, perchenog y tŷ, iddo lochi pregethu ynddo. Yr oedd yn gyfyng iawn ar John Williams erbyn hyn, gan fod ganddo deulu lluosog, ac nid oedd un man yn ymgynyg iddo i aneddu. Eto gofalodd rhagluniaeth am dano; cafodd dŷ bychan i fyned iddo ar ben y tymhor; a bu ynddo am ysbaid 15 mlynedd, er ei fod yn dra anghyfleus. Sylwai y cymydogion na fu llwyddiant ar y gŵr a'i gyrodd ef ymaith; y cyfryw ydoedd syniadau y werin; a pha un bynag ai ofergoeledd ai peidio ydoedd y cyfryw syniadau, y mae y ffaith yr un. Aeth y gŵr, cyn pen y flwyddyn, yn ddall, a pharhaodd felly dros ei oes. Collodd hefyd ei fasnach, fel y bu raid iddo ymadael â'i dŷ, ac â'r wlad, a myned at ei deulu i Liverpool i orphen ei oes.

Tra yr oedd y pregethu yn aros yn y Felin-isaf, y cynaliwyd y cyfarfod pregethu cyntaf yn y wlad hon. Yn y cyfarfod hwn, yr oedd Mr. Richardson, Caernarfon; John Jones, Edeyrn; Robert Roberts, Clynog; a'i frawd John Roberts, yn pregethu. Yr oedd costau y cyfarfod pregethu hwn, yn nghyda chostau cyffredin y weinidogaeth, yn disgyn yn gwbl, dros ryw gymaint o amser, ar John Williams. Y mae yn wir nad oedd y draul hòno ddim yn fawr, eto yr oedd yn fawr i ŵr yn ei sefyllfa, a chyda'i deulu ef. Nid oedd un lle i roddi ceffylau y pregethwyr a ddeuai i'r lle, ond yn y dafarn, ac at John Williams yr edrychid am dâl. Fe fu y gŵr hwn yn llafurio yn ffyddlon a dirodres iawn dros flynyddoedd lawer, pryd nad oedd iddo nemawr o gynorthwy. Fe ddywed Robert Jones am dano, "Fe fu yn ddefnyddiol iawn hir flynyddoedd, yn cynal gair y bywyd heb ddiffygio, yn wyneb llawer o ddigalondid. Bu dros amser maith yn derbyn pregethwyr i'w dŷ heb gynorthwy neb. Yr oedd yn llenwi lle mawr yn ei ardal, yn enwedig yn yr eglwys; bu farw yn nghanol ei ddyddiau, er galar a cholled i lawer; ac ni lanwyd ei le yn gwbl gan neb hyd yma." Yr oedd Robert Jones yn ysgrifenu y dystiolaeth uchod am dano yn mhen ychydig flynyddau ar ol marw John Williams. Cymerodd ei farwolaeth le pan oedd yn 60 ml. oed; yn y fl. 1816. Nid ydym yn sicr i ba raddau y gwobrwywyd John Williams cyn ei ymadawiad, trwy gael gweled llwyddiant yr achos y bu ef yn foddion arbenig i'w blanu yn ei ardal, ond sŷn, yn ddiau, a fuasai ganddo weled graddau ei gynydd presenol, pe cawsai fyw i gael hyny. "Aeth y bychan yn fil, a'r wael yn genedl gref."

Wedi ysgrifenu hyn o hanes John Williams, derbyniais ysgrifion eraill, yn traethu am gychwyniad Methodistiaeth yn y parth yma o'r wlad. Dywedwyd mai John Williams oedd y Methodist *cyntaf*, ac mai yn y fl. 1787, yn y Felin-isaf, y bu yr oedfa gyntaf; ond fe ddywedir gan eraill fod pregethu wedi bod yn awr ac eilwaith er y fl. 1777, ac mai yn y Tyddyn-isaf, tŷ un Elizabeth Ellis, y cynelid ef. Dywedir i'r wraig hon fyned i Fochdre, lle tua phedair milldir hwnt i Gonwy, felly dros 15 milldir o ffordd o'i chartref, i ymofyn am gynghorwr bychan ag oedd yn byw yno, sef Thomas Hughes, i ddod i bregethu i'w thŷ, ac iddo yntau gydsynio â'i chais. Fe allai mai y gwir ydyw, mai yn nhŷ John Williams, yn y Felin-isaf, y bu yr oedfa gyntaf

yn mhlwyf *Llandegai,* ac mai yn nhŷ Elizabeth Williams, sef y Tyddyn-isaf, y bu y gyntaf yn mhlwyf *Llanllechid.* Os felly, fe gydsaif y ddwy dystiolaeth â'u gilydd. Oddiar yr un ystyriaeth y gellir, fe ddichon, ddyweyd mai John Williams oedd y proffeswr cyntaf yn mhlith y Methodistiaid yn Llandegai, er y gallai fod ambell un fel Elizabeth Ellis, Tyddyn-isaf, o'i flaen yn mhlwyf Llanllechid; pa fodd bynag, nid yw hyn o gymaint o bwys, a da hyny, gan yr anhawsder sydd i gyrhaedd sicrwydd amseryddol pethau, pan na chedwir cyfrif rheolaidd ac ysgrifenedig.

Pa un bynag ai yn y fl. 1777 ai 1787 y dechreuodd Methodistiaeth ymddangos yn y fro hon; yr oedd yn mhell iawn ar ol ei ddyfodiad cyntaf i'r sir. Yr oedd 40 ml. ymron, os nad mwy, wedi treiglo ymaith cyn i neb o'r ymneillduwyr ymweled â'r ardaloedd hyn. Mae hyn yn fwy syn, pan yr ystyriom nad yw Methodistiaeth ddim wedi gwreiddio yn ddyfnach, nac wedi ymdaenu yn helaethach, yn un parth o'r wlad nag yn y fro hon. Nid oes un rhan o'r wlad yn amlach ei thrigolion;—nid yw y capelau yn un man yn amlach eu rhif, nac yn fwy eu maintioli;—yr ysgolion Sabbothol ddim yn amlach eu deiliaid;—na'r addoldai yn llawnach o wrandawyr. Eto, er hyn, os dychwelwn ni yn ol, ryw 70 ml., ni cheid yma yr un addoldy, ond llanau y plwyf; ni cheid neb o fewn y fro yn meddwl yn ddifrif am ei enaid; nid oedd yma yr un ysgol Sabbothol; ond yr hen gampau yn eu llawn rwysg, a thywyllwch fel cysgod angau yn gorchuddio yr holl fro.

Mor ddiweddar, yn wir, a'r fl. 1793, llai na 60 ml. yn ol, dywedir nad oedd nifer yr holl grefyddwyr yn mhlwyf Bangor, ond naw! ac o'r naw nid oedd ond *tri* yn byw yn y dref. Yn yr adeg hon yr oedd pregethau, o ryw fath, yn anaml iawn, a phregethu efengylaidd yn anamlach fyth. Sicrhâi hen ŵr oedd yn byw yn Nant-y-graen, o'r enw Morris Davies, ei fod ef wedi sylwi, nad oedd yr un bregeth yn y llan am *saith mlynedd,* ond ar Sul y pasg! Nid oes hanes chwaith am neb ond un o'r clerigwyr yn pregethu yr efengyl yn yr holl froydd, y soniasom am dano eisoes, sef Mr. Morgans, Llanberis. Yr oedd llawer o gyrchu i wrando ar y gŵr hwn, o wahanol barthau o'r wlad; ac nid oes amheuaeth na fu ei weinidogaeth o les mawr i laweroedd. Yn mysg eraill a elai yno, yr oedd dau ŵr tlawd o Fangor, sef Robert Samuel, a William Lewis, dau grydd tlawd, ac o nifer y naw crefyddwr ag oedd yn y plwyf.

Dan y fath amgylchiadau, pa fath oedd raid fod anwybodaeth y trigolion! Dim ond un gŵr eglwysig yn pregethu yr efengyl yn yr holl fro! Y lleill yn ddeillion yn tywys y deillion. Anaml iawn hefyd, yn y tymhor hwn, yr oedd Beibl yn meddiant neb o'r trigolion! ac, fe allai fod llai yn medru ei ddarllen, nag oedd yn ei feddu. Nid rhyfedd ynte, dan yr amgylchiadau hyn, a phryd nad oedd ymneillduwyr o un enw wedi dechreu llafurio, os ceid fod anwybodaeth trwch, ofergoeledd ynfyd, ac anghrefydd perffaith, yn meddiannu y trigolion o'r bron! Ië, nid oes genym sail i feddwl yn amgen nad i'r un agwedd y disgynai y dywysogaeth eto, pe darfyddai llafur yr ym-

neillduwyr ynddi. Cawn ddrych o filoedd o ddynion yn Nghymru, o ran gwybodaeth o air Duw, a phethau tragwyddol, yn yr enghraifft a ganlyn :—

Yn Mangor, ychydig gyda 40 mlynedd yn ol, yr oedd hen ŵr yn glaf, ac yn dyoddef yn dost gan ddolur y gareg. Aeth y diweddar David Roberts i ymweled ag ef, i'r hwn y gofynai yr hen ŵr mewn syndod, "Beth a all fod yr achos," gofynai, "fy mod i yn gorfod dyoddef cymaint? Dyma fi;—yr wyf yn dyoddef mwy na chwi i gyd;—nid ydych chwi yn dyoddef dim poen, pryd y mae fy mhoenau i yn annyoddefol; er," meddai y truan, "na thorais i ardd na pherllan neb erioed;—ni ddygais i ddim o eiddo neb, ac mi gauais hefyd bob llidiart ar fy ol. Yn enw y Mawredd, pa beth, tybied, a wnaethum i?"

"Wel," atebai David Roberts, "pechod ydyw y gwir achos o bob dyoddef."—Aeth ymlaen i son am y modd y daethai pechod i'r byd, sef trwy i Adda gymeryd ffrwyth pren a waharddasid iddo, yn ngardd Eden.

"Yn boeth y bo ei * * *," ebe yr hen ŵr mewn nwyd ddigofus, "paham y rhaid i ni ddyoddef o'i achos ef?"

Wedi peth ymddyddan, darllenodd David Roberts bennod, a gweddiodd gyda'r dyoddefydd; ac ar ei waith yn cychwyn i ffordd, parai y claf i'w deulu, "Telwch i'r dyn." "Na, na," ebe y llall, "nid oes dim tâl i fod." "Oes, oes," atebai y claf, "telwch i'r dyn, *Nansi*." Ond ymaith yr aeth, pa fodd bynag, gan wrthod pob tâl; ac yn fuan ar ol myned ymaith, bu gorfod i *Nansi* anfon darn o gosyn ar ei ol. Ymwelai David Roberts yn fynych â'r hen ŵr, a hyny, o'r diwedd, a ddaeth i glustiau y ficar oedd yn Mangor yr amser hwnw, a blin iawn oedd ganddo fod *Methodist* yn darllen ac yn gweddio gyda neb o'i blwyfolion ef yn ei selni. Penderfynodd fyned at y claf ei hun, a gofynodd, "Ai gwir oedd fod Methodist yn arfer dyfod yno?"

"Wel, ydyw," ebe yr hen ŵr, "mae Dafydd Roberts yn dyfod yma; a dyna ei lyfr o, welwch chwi," gan gyfeirio at y Beibl a adawsai efe yno, gan nad oedd yr un yn y tŷ cyn hyny.

"Anfonwch ei lyfr iddo," ebe y ficar, "nid oes dim o'i eisieu ef na'i lyfr yma; mi anfonaf fi lyfr i chwi, ac a wnaf bob peth drosoch fydd eisieu." Yn ol ei addewid efe a anfonodd amgen (?) llyfr na'r Beibl, sef Llyfr y Weddi Gyffredin.

"Ni chaiff Dafydd Roberts ddim dyfod yma eto, Nansi," ebe yr hen ŵr; "anfonwch ei lyfr iddo." Ar waith y pregethwr yn myned yno drachefn, dywedai y truan wrtho, nad oedd dim o'i eisiau ef mwyach;—fod y ficar wedi gwneyd pob peth i fyny drosto ef!

Buasai yr ysgrifenydd yn petruso yn nghylch gwirionedd yr amgylchiad uchod, gan faint oedd rhagfarn a thywyllwch yr hwn a hònai yr awdurdod i fod yn arweinydd iddo, oni bai y gwyddai eisoes, nad oes dim anhygoel yn y chwedl. Teimlwn dosturi trwm at anwybodaeth a dallineb yr hen ŵr claf, gan wybod mai ychydig o fanteision a gawsai erioed i wybod yn well; ond am ei ddysgawdwr cyflogedig, yr hwn a hònai awdurdod mor oruchel, ac a broffesai arwain dynion mewn pethau pwysig tragwyddoldeb, ac ar yr un

pryd yn ddallach na'r ddyllhuan ei hun, pa fodd y rhoddwn esgus drosto? Tawsem a son, er hyn oll, am hen ficariaid 40 mlynedd yn ol, oni bai fod iddynt olynwyr cyffelyb yn eu honiadau eto yn y wlad. Darllenais draethodyn o waith un o'r urdd sydd yn awr yn y dref hon, yn yr hwn, y dywedir yn ddifloesgni, mai y cwbl sydd gan y plwyfolion i wneyd ydyw cyflwyno eu hachos ysbrydol i ddwylaw yr offeiriad awdurdodedig, ac ufyddhau iddo yn ddiwarafun;—fod ganddo allu gyda Duw i wneyd achos yr hwn a wnel felly yn dda! Fe ddichon nad yw sir Gaernarfon ddim yn iach hyd heddyw, oddiwrth y fath athrawon pabaidd a hyn. Edrychwyf ar syniadau y Tractariaid neu Puseyaid yn heresi o'r natur waethaf; llawn cymaint felly a phabyddiaeth noeth, am ei fod yn cynwys *gwenwyn hanfodol* y grefydd anghristaidd hòno, heb lawer o'r gwarth a berthyn iddi. Hen heresi ydyw mewn gwisg newydd; heresi wedi ei haddurno â dysgeidiaeth Rhydychain, ac yn cael ei noddi gan fawredd a chyfoeth bydol. Yr ydym, fwy nag unwaith na dwy, wedi cyfeirio at anwybodaeth trwch, ac anfoes gwrthun y nifer amlaf o glerigwyr y ganrif ddiweddaf, ond yr ydym yn ofni, nad yw perygl Cymru nemawr lai oddiwrth glerigwyr y ganrif hon, er fod eu bucheddau yn llai anfad, a'u dysgeidiaeth yn fwy coeth, tra yr hònant ac y lledaenant y dychymyg ffol o olyniad apostolaidd, ac yr haerant gydag eondra sydd yn wir arswydus, fod gan greadur tlawd, ond iddo fod yn *offeiriad rheolaidd*, ryw ddylanwad yn achos ysbrydol dynion, na phriodola yr ysgrythyr m'ono ond i Ysbryd Duw yn unig; a bod i'r cymun a weinyddir ganddo ef, ryw effeithioldeb, na pherthyn, os gwir yr ysgrythyr, ond i aberth anfeidrol Mab Duw ei hun. Hoff genym yr efengyl gan bwy bynag y'i pregethir; anwyl genym y Cristion dirodres a chywir, yn mha le bynag y'i cyfarfyddir, yn yr eglwys wladol neu allan o honi; ond yr ydym yn addef yn rhwydd, nad oes genym ddim cydymdeimlad ag uchel honiadau dynion beilchion, a fynant i'r byd gredu, mai *hwynt hwy yn unig, ac nid neb arall*, ar gyfrif eu hurddiad a'u holyniad rheolaidd, ydynt wir weinidogion y gair, ac mai ganddynt hwy y mae yr *awdurdod* i weinyddu sacramentau, ac mai trwy eu gweinyddiad hwy o honynt yn unig y byddant effeithiol! Gobeithiwn yn fawr fod gan blant yr ysgol Sabbothol ddigon o wybodaeth ysgrythyrol i allu canfod geudeb balchaidd a ffol y fath dyb!

Ond i ddychwelyd at ein hanes. Mae un gŵr parchedig ag sydd eto yn fyw, yn rhoddi desgrifiad o'r hyn a wel'sai ef ei hun er ys llai na 40 ml. yn ol; amgylchiad a wasanaetha fel drych i ddangos ansawdd isel ac anwar ein cyd-genedl cyn eu dyrchafu, a'u coethi i raddau, gan air Duw ac ordinhadau yr efengyl. Yr oedd rhyw lanerchi mynyddig ac anghysbell o'r wlad yn fwy anwar na llanerchi eraill; yr oedd y preswylwyr yn fwy nodedig felly mewn parthau nad oeddynt yn cyfarfod nac yn ymgymysgu â neb ond â'u gilydd,—lleoedd na fyddai dyeithriaid ymron byth yn eu cyniwair,—lleoedd na fyddai llyfr yn cael ei ddarllen, nac un gelfyddyd ymron yn cael ei dysgu,—lleoedd y dibynai y trigolion ymron yn llwyr ar fagu dyniewaid, neu fugeilio defaid.

"Aethum," meddai y gŵr crybwylledig, "dros fynyddoedd mawr yn sir

Gaernarfon, i dŷ i gadw oedfa, am ddau o'r gloch ddydd Sabboth. Yr oedd y tŷ yn adeilad helaeth, tra chyffredin a gwladaidd o fewn ac allan. Daeth preswylwyr y llanerch yn lled gryno i'r bregeth, y gyntaf a glywsai y rhan fwyaf o honynt erioed. Safent o amgylch y gegin fawr o bell, a phawb yn edrych arnaf gyda gradd o syndod. Yn nghanol y gegin yr oedd cŵn lawer iawn, a hen ŵr mawr yn sefyll yn eu plith, a phastwn cryf, gan uched a'i ben, yn ei law. Dywedais yn araf bach, 'Da fuasai genyf, pe gadawsid y cŵn gartref; ofn sydd arnaf yr ânt i ymladd â'u gilydd, a dyrysu y cwbl.' Ond yr hen ŵr a'r pastwn a ddywedai wrthyf, 'Dywed ti dy wers, fy machgen, mi ofalaf fi am y cŵn.' Minau a aethum ymlaen;—cymerais destyn, a dechreuais lefaru. Bellach, yr oedd y cŵn yn dechreu chwyrnu ar eu gilydd, ond yn dystewi yn y fan y codai yr hen ŵr y pastwn. Wedi hyny, pan aeth amryw i chwyrnu ac i ysgyrnygu ar eu gilydd, a'r hen ŵr i roi bloedd arnynt, gan eu galw wrth eu henwau, mi dewais inau, gan weled nad oedd nemawr seibiant i'w gael.

Ar ol dybenu yr oedfa, daeth yr hen ŵr ataf, gan ddyweyd, 'Mi a gedwais i y cŵn, onid do? Ti ddywedaist tithau wers dda anmhosib! Dyro damaid o dobaco am gadw y cŵn!'"

Wele wedd llawer o barthau mynyddig Gwynedd bedwar ugain mlynedd a llai yn ol! I'r trigolion eu hunain, nid oedd dim yn yr olygfa yn ymddangos yn lledchwith, na dim yn groes i drefn gweddeidd-dra. Y mae capel wedi ei adeiladu yn awr gerllaw y lle hwn, a gwedd llawer mwy gwaraidd a threfnus ar y trigolion.

"Arfer trigolion y tri phlwyf hyn, sef Llanfair, Aber, a Llanllechid," medd gohebwr arall, "oedd ymgasglu at eu gilydd ar brydnawn Sabbothau, i gwffio ceiliogod a throedio y bêl; curo *bandi* ac ymladd â'u gilydd, meddwi, a phob camp ddrwg arall. Y lle y cyfarfyddent i hyn oedd cyttir mawr, a elwir y Dalar-hir. Ac wedi i'r campau cyhoeddus ddiflanu trwy ddylanwad yr efengyl ac ysgolion Sabbothol, ciliai y chwareuwyr o'r Dalar-hir i fynwent y llan. Ar dalcen yr eglwys, bellach, y curent y bêl, ac yn y fynwent *gysegredig* y baeddent y *bandi*. Ar y gwylmabsant, yr hon a gynelid ddydd Calan, heblaw ymroddi i ymddifyru mewn gloddest a meddwdod, yr oedd plwyfolion Aber a Llanfair yn ymosod yn egniol a ffyrnig i guro eu gilydd. Gwelais yr offeiriad un tro, yn nghanol y miri, â chleddyf yn ei law, yn cadw chwareu teg i'w blwyfolion ei hun, yn yr ymladdau hyn! a'i nwydau eisoes wedi eu cyffroi, a'i ben wedi hanner ddyrysu gan effeithiau diod feddwol!

Y mae, bellach, wedi myned yn rhy oleu i'r arferion anfad hyn ymddangos. Y maent yn awr yn rhy gywilyddus i'w harddel. Pa faint bynag ydyw drygioni y ddynoliaeth, a pha amled bynag ydyw y drygau a gyflawnir eto yn yr ardaloedd hyn, y mae gwybodaeth ysgrythyrol wedi tyneru cymaint ar gydwybodau y trigolion, a choethi cymaint ar eu teimladau, fel y mae hen arferion eu tadau yn rhy gethin ganddynt eu dylyn. Ac os ydyw effeithiau cyffredinol y Beibl mor fuddiol i wareiddio a threfnu cenedl, beth a raid fod ei effeithiau santeiddiol ar galonau a bucheddau y rhai a'i credant?

Ryw bryd tua'r un tymhor ag y llwyddodd John Williams y gôf, fel y soniwyd, i gael pregethu i'r Felin-isaf, caed gan Evan Evans, o'r Waunfawr, ddyfod i bregethu i le a elwir Achyb, yn mhlwyf Llanllechid. Nid ydym yn sicrhau ai hon oedd y bregeth gyntaf ai peidio, ac nid yw o gymaint pwys; pa un bynag, nid llawer o lonyddwch a gaed i gadw yr oedfa hon. Daeth yma dri o ddynion erlidgar i aflonyddu. Cododd un gŵr o'r enw William Williams ddyrnaid o laid y ffordd, ac a darawodd y pregethwr. Cyffrodd hyn wraig yr erlidiwr, yr hon oedd yn yr oedfa, ac yn hoffi gwrando, a hi a waeddodd arno, "O William, edrychwch beth ydych yn ei wneyd. Oni welwch Feibl Santaidd Duw yn nghesail y gŵr, wrth yr hwn y bernir ni yn y dydd olaf?" Ar hyn fe beidiodd y derfysg; ond un o'r erlidwyr a weddiai, gan ddyweyd, "O Arglwydd Dduw, gwared Llanllechid oddiwrth y cyfryw ddynion melldigedig!"

Dywedir mai Thomas Hughes, Mochdre gynt, a Rowland Prys a bregethodd yma nesaf; ac mai dwy wraig, sef Mary Ellis o'r Tyddyn-isaf, ac Elin Williams o'r Coch-winllan, a fu yn foddion i'w cael, trwy fyned un i Lansantffraid-glan-Conwy, a'r llall i Fochdre, i ymofyn am danynt. Hwy a ddaethant, a phregethasant ar gareg farch yn agos i glawdd y fynwent; ïe, dywedir fod Thomas Hughes wedi rhoddi hanner gini am ganiatâd i sefyll ar y gareg farch i gyfarch y gwrandawyr, ac mai tad y Parch. Daniel Jones, gynt o Landegai, a roes yr hanner gini iddo. Bellach, amlhaodd yr oedfaon; caed gan amryw o'r pregethwyr neu o gynghorwyr yr oes hòno ddyfod yn olynol i amrywiol leoedd yn y broydd hyn; yn enwedig yn Nhai'n-y-coed, lle y preswyliai un Thomas W. Hughes; a'r Cae, tŷ un William Parry; a'r Felin-isaf, tŷ John Williams, yr hen bregethwr. Y daith Sabbothol erbyn hyn, oedd y tri thŷ crybwylledig; dechreuent yn y boreu yn Tai'n-y-coed, a dau o'r gloch, a'r hwyr yn y lleill. Cynyddodd y gynulleidfa cyn llawer o amser, yn fwy nag a gynwysid yn gyfleus yn Nhai'n-y-coed, a theimlwyd gradd o anesmwythder am gapel; a llwyddwyd hefyd i gael darn o dir gan ŵr o'r enw Mr. Hughes, Brynllwyd, Môn, ac ar y darn tir hwnw y codwyd yr hen gapel cyntaf yn mhlwyf Llanllechid. Galwyd ef *Capel yr Achyb*, am ei fod yn nghwr y lle a elwir yr Achyb-uchaf. Yr oedd hyn yn y fl. 1793.

Sonir llawer gan yr hen bobl am yr oedfaon grymus a fwynheid yn nghapel yr Achyb—oedfaon a bâr i'w llygaid ddysgleirio, a'u mynwesau ddychlamu, wrth eu hadgoffa. Fe fu adeiladu y capel bychan hwn yn ddolur llygaid i ambell un yn yr ardal, tra yr oedd yr hen grefyddwyr yn mwynhau y fath hyfrydwch ynddo. Pan oedd yn cael ei adeiladu, dywedai un Jane Williams, Tyddyn-du, ei bod yn gobeithio y câi hi ei chladdu cyn y deuai yr amser i'w agor, rhag y gofid a fyddai iddi, wrth fyned a dychwelyd i lan y plwyf, weled y crefyddwyr dyeithrol hyn yn myned iddo, na'u clywed yn trystio, wrth iddi basio. Nid oedd hyn amgen na gwŷn ynddi,—nid am y dymunasai farw mewn gwirionedd, yn hytrach na'u gweled, y dywedai y fath eiriau, eto fe'i cymerwyd ar ei gair; oblegid ni chafodd weled y penau-

cryniaid yn myned i'w capel newydd, na'u clywed yn tyrfu ynddo;—ar ddiwrnod ei agoriad y cludwyd ei gweddillion i "bwll llygredigaeth!"

Nid oedd yr achos crefyddol, er ei sefydlu fel hyn, yn y lle ond bychan a lled ddisylw. Sonir llawer, hyd heddyw, er hyny, gan yr hen bobl am oedfaon rhyfeddol a grymus a geid, yn awr ac eilwaith, yn y capel bychan hwn. Ar yr un pryd, yr oedd tywyllwch y gymydogaeth yn aros heb ei chwalu, a hen gampau llygredig yn aros heb eu darostwng; ac er fod ychydig nifer yn y fro wedi profi blas a grym yr efengyl, ac yn eiddigeddu dros iachawdwriaeth eu cymydogion, eto nid oedd hyd yma nemawr o argraff wedi ei wneyd ar y gymydogaeth yn gyffredinol.

Yn mhen tua phum' mlynedd ar ol dechreuad pregethu yn yr ardal yr agorwyd yr ysgol Sabbothol yn nghapel bychan yr Achyb; yr oedd hyn yn y fl. 1792. Nid oedd ond ychydig amser er pan oedd yr ysgol Sabbothol gyntaf wedi ei sefydlu yn y wlad, gan y cawn mai ysgol Sabbothol Bryn-yr-odyn oedd y gyntaf yn y sir, ac mai yn y fl. 1791 y dechreuwyd hòno. Nid oedd ysgol yr Achyb ar y dechreu ond anwiw iawn. Y gwŷr a'i cychwynodd hi oeddynt Mri. David Wilson, Thomas W. Hughes, a William Thomas, Llanllechid. Ei nifer yn ei dechreuad oedd 12. Cyfnerthwyd dwylaw y gwŷr uchod, cyn hir o amser, trwy gael atynt William Jones, Abercaseg, a'i frawd Richard Jones. Fe fu y cyntaf o'r brodyr hyn yn llafurus a ffyddlawn iawn gyda'r ysgol Sabbothol am ysbaid 40 ml. a mwy. Nid oedd yn ddigon agor ysgol y pryd hwnw, a hysbysu fod cyfleusdra o'r fath i'w gael i bob oedran gael dysgu darllen y Beibl, a chael eu hegwyddori yn nysgeidiaeth y grefydd Gristionogol, ond yr oedd raid myned ar ol y bobl i'w tai, ac ar ol yr ieuenctyd i'r maesydd, y cyttiroedd, a'r afonydd, lle y byddent yn heidiau yn campio ac yn chwareu. Llawer o boen a gymerodd William Jones i fyned ar ol y bechgyn, i'w darbwyllo a'u cymhell i ddyfod i'r ysgol Sabbothol, a bendithion lawer a ddylynodd ei lafur. Fe fyddai cymaint o'i arswyd ar fyddinoedd y chwareuwyr, a phe buasai ganddo wŷs i'w dal, neu gleddyf i'w lladd.

Pan oedd tua 18 ml. oed, neu yn y fl. 1793, clywodd Ishmael Jones yn pregethu yn Nhai'n-y-coed, ac yn fuan wedi'n y Parch. John Elias, a chynyrchwyd argraffiadau dwysion ar ei feddwl. Ond fe fu yn ymgyndynu yn erbyn yr ymrysoniadau hyn am ysbaid tair blynedd, cyn iddo lwyr ymostwng: ond pan oedd yn 21 ml. oed, fe ymunodd ag eglwys Dduw, ac a ymgysegrodd i wasanaeth yr Iesu. Dechreuodd ysgol Sabbothol yn Nhre'r-garth; a chan farnu y buasai yn haws cael pobl iddi, efe a agorodd ysgol y nos yn yr wythnos; a bu hyny yn foddion i ennill aml un iddi. Gwenodd Duw ar ei lafur ef a'i frodyr, mewn modd neillduol, trwy beri adfywiad a chyffro yn mhlith yr ieuenctyd; yr hyn a fu yn sugn cryf i dynu eraill i mewn, ac amlhaodd lawer ar ei deiliaid.

Rhoddid hefyd fath o wobrau bychain i'r rhai mwyaf eu llafur yn yr ysgol; a hawdd ydyw canfod yn y gwobrau a roddid, pa mor blentynaidd ydoedd syniadau y deiliaid ar y pryd. Rhoddid pluen, fel *cochade* milwr yn *het* un,

a seren o *ribanau* brithion ar fynwes un arall; a mawr yr egni a achosid trwy yr arwyddion hyn o ragoriaeth. Bu hyn, pa fodd bynag, yn foddion i beri trysori rhanau helaeth o'r Beibl yn y côf. Fe fu yr holwyddori yn yr ysgolion Sabbothol yn y cymydogaethau, yn foddion arbenig i ddeffroi ystyriaethau dynion at eu hachos tragwyddol, yr hyn, yn nghyda'r cynghorion a'r gweddiau cysylltiedig, a fu o ddirfawr wasanaeth i eglwys Crist, nid yn unig yn yr ardaloedd hyn, ond hefyd dros yr holl dywysogaeth.

Erbyn y fl. 1842, sef hanner can' mlynedd ar ol cychwyniad cyntaf yr ysgol Sabbothol yn nghapel bychan yr Achyb, ni a gawn hanes fod 17 o ysgolion wedi heidio o honi; ac yn lle 12 o nifer, fel ar y dechreu, fod rhifedi y deiliaid dros DAIR MIL!

Fe fu y gwaith, er hyn oll, dros ryw dymhor ar ol ei gychwyn, yn lled ddigynydd, a'r rhai a lafurient wrtho yn dra digalon. Am ysbaid o amser, fe ddeuai John Williams y gôf i gynorthwyo y brodyr i gynal y cyfarfodydd eglwysig yn yr Achyb, pryd yr oedd ganddo yr un fath gyfarfod bob wythnos yn ei dŷ ei hun. Ar hyn o bryd, yr oedd y gwersyll yn lled ddigychwyn, a dwylaw y crefyddwyr i raddau wedi llaesu. Ond Duw a drugarhaodd wrth ei drueiniaid, ac ymwelodd â hwy ag adfywiad cyffrous, ac â lluosgiad rhif. Aeth y lle yn llawer rhy fychan, a bu raid ymofyn am addoldai amlach ac eangach. Yn awr y mae y bychan yn fil, a'r wael yn genedl gref. Mae y cynulleidfaoedd a gododd o'r lle bychan a nodwyd yn wyth o rifedi, ac yn cynwys tuag un-cant-ar-ddeg o aelodau eglwysig! Mae capelau helaeth a drudfawr wedi eu codi erbyn hyn yn Bethesda, Carneddi, Llanllechid, Gatehouse, Pen-y-groes, Mynydd, Tŷ'n-y-maes, ac Aber. Am y lle olaf hwn, nid oes genym lawer i'w ddweyd am ei gynydd a'i lwyddiant. Yr oedd y gwrthwynebiad i ymneillduaeth ymsefydlu yn y pentref hwn yn dra mawr. Fe fu cyfeillion Bangor yn ymdrechgar iawn i sefydlu ysgol Sabbothol yn y lle hwn, ac er maint y gwrthwynebiad a fu, llwyddo a wnaethant i ennill eu hamcan. Aeth Mr. Hughes, o Fangor, at ŵr a elwid Dr. Griffiths, i ofyn am le i'w chadw, ac o'i ran ei hun, yr oedd y gŵr hwnw yn eithaf ewyllysgar i ganiatâu eu dymuniad iddynt, oni bai ei warafun gan yr esgob. Tua'r fl. 1806, daeth y diweddar David Roberts o Fangor yma i gadw ysgol; a bu y brawd hwnw o wasanaeth mawr gyda'r ysgol Sabbothol. Arferai fyned i dai y cymydogion i ddarllen ac egluro yr ysgrythyrau, ar nosweithiau yr wythnos. Yma hefyd y dechreuodd bregethu, ac yma meddir y traddododd ei bregeth ddiweddaf.

Nid oedd yr offeiriad a weinyddai y pryd hwnw yn y llan yn un addurn i'w eglwys ei hun; ond yr oedd yn wrthwynebwr creulawn i'r ymneillduwyr. Pan y gofynodd pregethwr yn mhlith y Bedyddwyr unwaith am y lle y byddent yn arfer pregethu ynddo, i ŵr o'r enw Owen Davies, fe welodd Owen fod yn dda, yn lle cyfarwyddo y pregethwr, ei regu a'i fellditbio mewn modd arswydus; am yr hyn, pan ddeallodd y person yr hyn a wnaeth, efe a'i canmolodd yn wresog, am y weithred glodwiw o regu y pregethwr! Yr oedd yr offeiriad hwn, fel y mae mwyaf y gresyn, yn arfer yfed yn uchel, ac yn y

bendro yn arfer iaith, ac yn ymollwng i agweddau cywilyddus eu hadrodd. Daeth unwaith i'r lle, pan oedd y Parch. D. Jones, Carneddi, yn pregethu, gan fytheirio, "G-d-z-nds, beth sy' yma yn myn'd yn mlaen? Tynwch y dyn yna i lawr oddiar y gader." Gwrthododd y pregethwr ddod i lawr, gan ddyweyd fod ganddo drwydded i bregethu, a bod y lle wedi ei gofrestru. "Mi *ffinia* inau y gwrandawyr," ebe y gŵr urddasol, "am sefyll ar y ffordd fawr." Fe fu yn foddion, pa fodd bynag, i rwystro yr oedfa hòno.

Dro arall, pan oedd pregeth wrth Dŷ'n-y-groes (hen dŷ tafarn), daeth y chwedl i glustiau y person, ac allan ag ef mewn cynddaredd wyllt, gan fytheirio llwon a bygythion arswydus, ac at y gynulleidfa. Brawychodd llawer o'r bobl, a ffoisant ymaith, rhai i'r llofft, a rhai i'r *seler*. Yn eu mysg yr oedd gweithiwr i'r offeiriad, yr hwn pan glybu lais ei feistr a ddychrynodd ac a daflodd blentyn tair blwydd oed ag oedd yn ei freichiau, i'w nain; trwy yr hyn y cafodd y plentyn niwaid trwm. Mae y plentyn hwn yn ŵr, ac yn berchen teulu yn awr, yn byw yn y pentref y dygwyddodd hyn. Gofynwyd i un o'r rhai oedd yn dianc, paham y ffoai gyda'r fath ffrwst o'r oedfa? "Pa beth a wnawn yma," oedd yr ateb, "a'r cythraul wedi dyfod i'r lle?"

Dro arall, yr oedd Griffith Solomon yn pregethu, a gwnaeth yr un gŵr gais teg ar aflonyddu y tro hwn hefyd, ond methu a wnaeth. Erbyn iddo gyrhaedd y lle, yr oedd y bregeth drosodd, y tŷ yn wag, a chlo ar y drws. Deallodd mai yn y tŷ nesaf yr oedd yr agoriad yn cael ei gadw; aeth i ymofyn am dano, a gwrthodwyd ei roddi iddo, yr hyn a dynodd ar ben y wraig y melldithion trymaf o'i eiddo, gan ffonodio y cawell mawn wrth y drws nerth ei fraich, fel pe buasai yn wallgof! Fe fu adeiladu capelau yn Aber (ac nid oedd un man rheitiach wrth gapel, gan anfadrwydd y gweinidog meddw hwn), yn ddolur llygaid trwm iddo. Yr oedd yn arfer ymweled yn fynych â'r rhaiadr sydd uwchlaw y pentre'; ond wedi codi capelau, un o bob ochr i'r ffordd a arweiniai i'r rhaiadr, ni allai y gŵr boneddig ddim dyoddef cyniwair mwyach y ffordd hòno, gan adgased ydoedd ganddo y capelau, ond gorfyddid iddo, bellach, er mwyn osgoi yr olygfa gerth, amgylchu yn mhell, rhag myned heibio y ddau gapel!

Y ffordd y caed llonyddwch oddiwrth y blinbeth hwn, oedd, ddarfod i Gymdeithasfa a gynaliwyd yn Mangor, benderfynu anfon cenadwr ato, gan ei rybuddio, oddieithr iddo roddi heibio aflonyddu y cynulliadau, y byddai raid ei roddi yn nghrafangau y gyfraith. Yntau, ar hyn, a addawodd fod yn llonydd, a llonydd a gaed o hyny allan.

## PARCH. DANIEL JONES, LLANDEGAI, NEU LANLLECHID, AC YN DDIWEDDAF O GAERNARFON.

Wedi i ni ysgrifenu y nodiadau blaenorol am Fethodistiaeth y fro, y daeth y newydd galarus i'n clustiau fod y gŵr defnyddiol uchod wedi ei gyfrif gyda'r meirw. Priodol, gan hyny, cyn terfynu ein sylwadau, a fydd gwneuthur crybwylliad byr am dano yn y lle hwn, gan mai yn y fro hon y treuliodd y

rhan fwyaf o'i oes. Fe fu Daniel Jones yn llafurio yn yr ardaloedd hyn am ysbaid 50 o flynyddoedd, ac felly wedi gweled Methodistiaeth yn ei wendid dechreuol, ac yn ei rymusder presenol.

Ganwyd ef tua'r fl. 1780. Yr oedd ei dad, yr hwn oedd yn byw yn y Maes-mawr, yn un o garedigion yr efengyl, fel y deallwn ar ei waith yn rhoddi hanner gini am ganiatâd i Thomas Hughes, Mochdre, gael pregethu yn mhentref Llanllechid. Ymunodd Daniel ei fab â'r Methodistiaid, pan yr ymgynullent yn nhŷ John Williams, yr hen bregethwr yn y Felin-isaf, ger Llandegai, a hyny pan oedd tuag 16eg oed. Ymddengys hefyd ddarfod iddo ddechreu ar y gorchwyl pwysig o bregethu pan ydoedd yn 20 neu 21 ml. oed, a pharhaodd yn ffyddlawn gyda'r gwaith hyd ei farwolaeth. Neillduwyd ef yn y Bala yn y fl. 1823.

Nid oes nemawr bregethwr yn Nghymru yn fwy adnabyddus yn y cyfundeb nag oedd y Parch. Daniel Jones. Teithiodd lawer ar bob rhan o'r dywysogaeth, a pharhasai i wneyd hyny am 50 o flynyddoedd ymron;—parai hyn, yn nghyda rhyw hynodrwydd, priodol iddo ei hun, yn ei ddawn a'i ddull, ei fod yn dra adnabyddus i holl wrandawyr Methodistaidd yr oes. Eto, rhaid addef, nad yw y rhan ieuengaf o'r genedlaeth hon yn gwybod pa fath ydoedd Daniel Jones yn ei rymusder cychwynol. Nid yw yn ormod dyweyd am dano, am y 30 ml. cyntaf o'i oes weinidogaethol, na fu neb yn fwy bendithiol nag ef, i ddarostwng ofer-gampau ei gydwladwyr, ac i ddeffroi ystyriaeth y werin-bobl at eu hachos tragwyddol. Ysgrifena un gŵr parchedig ataf fel hyn. Wedi enwi amryw o hen bregethwyr llafurus Arfon, megys John Thomas, Llanberis; John Williams, Llandegai; Evan Evans, Waunfawr; Hugh Williams, Llanrug; a Mr. Richardson, Caernarfon; fe chwanega, "Ond yn benaf, y diweddar Daniel Jones, gynt o Landegai, a fu yn foddion yn llaw yr Arglwydd, *yn fwy na neb arall*, i wareiddio annuwiolion yr ardaloedd hyn, i godi teyrnas Iesu Grist;—llaweroedd a drodd efe at yr Arglwydd. Bu yn dyfod unwaith bob wythnos am flwyddyn gyfan, ar ol cadw noswyl, dros y mynydd, i *Flaen-y-cae*, i bregethu, ac adref yn ei ol cyn cysgu. Felly cerddai ar ei draed, ar ol gweithio ei ddiwrnod, rhwng myned a dychwelyd, tua naw milldir o ffordd arw ac oerllyd. Byddai yn pregethu gyda rhyw *ddifrifwch ofnadwy*, nes byddai dynion annuwiol iawn ar lewygu gan ddychryn y farn, ac ofn uffern."

Nid oedd Daniel Jones, er hyn oll, ond duwinydd bychan, ac nid oedd ei bregethau o gynwysiad mawr; eto fe fu ei lafur ffyddlon, ei agwedd ddifrif, ei ysbryd cyffrous, a'i bregethau taranllyd a diymhongar, yn fendithiol "i droi llawer at gyfiawnder;" yn gymaint felly a nemawr un yn ei oes. Mae yntau, bellach, wedi ei "orchfygu gan angau, ac wedi ei ddanfon i ffordd." *

Un o gyfoedion Daniel Jones, ac un o'i gyd-lafurwyr, ond mewn canghen arall o'r gwaith, oedd William Jones, Abercaseg, am yr hwn y soniasom eisoes. Yr oedd cyffelyb eiddigedd yn y ddau yn erbyn pechod, a chyffelyb

* Dysgwylir y ceir Cofiant helaeth o'r brawd defnyddiol uchod, cyn hir o'r argraffwasg.

benderfyniad i ymosod arno yn ei ffurf gyhoeddus. Pan oedd William Jones, unwaith, yn dychwelyd adref, wedi bod yn cadw ysgol nos, yn Nhre-y-garth, clywai ganu a dawnsio mewn tŷ yn Pen-y-groes. Yr oedd y tŷ yn orlawn o bobl, ac yn ymroddi i'w difyrwch, a chryn anturiaeth ydoedd i neb fyned i mewn i'w canol ar y bwriad o ddyrysu eu hamcan. I mewn, er hyn, yr aeth William Jones;—hwythau yn y fan a ddiffoddasant y canwyllau, gan obeithio y rhwystrid ei amcan gan y tywyllwch. Yntau, yn lle cilio o'r fan, a aeth ar ei liniau, a dechreuodd weddio drostynt â'i holl galon. Chwerwodd hyn y difyrwch, a dyrysodd hyny y cynulliad. Addefai fod arno ddirfawr arswyd, rhag ei leith-losgi *(scald)* â dwfr poeth, neu ei daro â phastwn, neu roddi arno ryw anfri atgas, tra yr ydoedd ar ei liniau yn y tywyllwch; ond ni ddygwyddodd dim o'r fath iddo, eithr dychwelodd, ar ol dyrysu y cyfarfod, a rhoddi tystiolaeth o'i eiddigedd dros Dduw yn eu cydwybodau, yn ddiogel at ei deulu. Llawer o gynulliadau llygredig ar y Sabboth a chwalodd; niferi lawer a ddenodd i'r ysgol Sabbothol; llawer cydwybod a ddeffrodd trwy ei rybuddion gonest a di-dderbyn-wyneb; a llawer a dwfn a fu y tristwch ar ol ei golli, yn mynwesau cannoedd o'i gymydogion. Yntau hefyd a fu farw, a dangosai yn ei oriau olaf yr un awyddfryd i lesâu dynion, trwy anfon cenadwri gyda y Parch. Daniel Jones at ysgol y Carneddi. "Dywedwch wrthynt ddarfod i mi eu rhybuddio lawer gwaith i ymadael â'u pechodau, ond y mae yn alar genyf feddwl fod yn rhaid i mi farw, gan adael llawer o honynt yn annuwiol;—fe fydd uffern y gwŷr ieuainc a fyddant farw yn annuwiol o ysgol y Carneddi yn boeth iawn; a minau wedi eu rhybuddio, wyf yn lân oddiwrth waed pawb oll. Yna dywedwch wrthynt drosof fi, *Ffarwel! ffarwel! ffarwel! ffarwel!*" Haws ydyw dychymygu nag a fyddai traethu yr effeithiau a gynyrchodd y cyfarchiad olaf hwn ar deimladau pawb yn y lle.

---

## PENNOD IX.

### HANES AMRYW O HEN BREGETHWYR Y SIR.

CYNWYSIAD:—

JOHN PIERCE; JOHN ROBERTS, LLANLLYFNI; A ROBERT ROBERTS, CLYNOG—ROBERT DAFYDD, BRYN-ENGAN—JOHN WILLIAMS, LLANDEGAI—JOHN JONES, EDEYRN—RICHARD JONES, WERN.

Yn mysg y pregethwyr a fu o fwyaf gwasanaeth i'r achos Methodistaidd, ac a godasant yn sir Gaernarfon, yn ystod yr hanner diweddaf o'r canrif olaf, gallwn nodi y rhai canlynol;—John Pierce; John Roberts; Robert Roberts; John Edwards, Reiniog; John Elias; Richard Jones, Wern; John Parry, Caer; David Hughes, Llanrwst; a Griffith Jones, Sarnau, gynt o Ynys-y-pandŷ. Symudodd y rhai hyn oll, wedi arosiad mwy neu lai yn eu gwlad eu hunain, i wledydd eraill, oddieithr Robert Roberts. Symudodd John Pierce i Lanidloes i gyfaneddu, ac yno y bu efe farw. Dywedir fod y gŵr hwn yn bregethwr grymus yn ei oes, ac yn nodedig o fuddiol mewn cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd yn dra darostyngedig i dymherau isel a phruddglwyfus,

yr hyn a barai ei fod yn llai ei gysur iddo ei hun, ac yn llai defnyddiol i eraill. Dechreuodd bregethu yn Llangeitho; y lle hefyd y daeth ef gyntaf i sylw fel Cristion, ac y bu dros ryw dymhor yn gweini fel gwas cyflog. Wedi iddo gael ei ddwyn i sylw, ac iddo ddechreu ymddangos yn gyhoeddus, fe fu yn llafurus iawn i gyrhaedd gwybodaeth; ac er maint ei anfanteision dechreuol, efe a ddysgodd ddeall yr iaith Saesonaeg, modd ag i allu cyfieithu rhyw gyfran o lyfr Gurnal i'r Gymraeg, mewn cysylltiad â Robert Jones, Rhoslan, a hyny trwy lafur caled, a than anhawsderau dirfawr. Wedi treulio rhyw gymaint o amser yn ei wlad ei hun, arweiniwyd ef trwy briodi i Lanidloes i fyw, lle y darparasai rhagluniaeth iddo ymgeledd gymhwys, a sefyllfa barchus. Rhoddwyd iddo yn y modd yma rwyddineb i deithio llawer, heb fod galwedigaeth a gofalon bydol yn ei lesteirio. Ei gyfaill, gan amlaf, fyddai Edward Watkin, pregethwr yn byw yn yr un dref ag yntau. Yr oedd Edward Watkin yn wahanol iawn yn ei dymherau iddo ef, ac oblegid hyny yn gymhwysach, fe allai, i fod yn gydymaith i'r fath un. Dyn bychan, bywiog, oedd Edward Watkin, llym ei lygad, cyflym ei ystumiau, ffraeth ei dafod, a lled grâs ei dymherau. Yr oedd John Pierce yn y gwrthwyneb, yn ŵr trymaidd a phruddglwyfus, darostyngedig i ddychymygion ac ofnau, eto diniwaid a phlentynaidd. Adroddir llawer chwedl ddigrifol am y ddau gydymaith hyn. Pan oeddynt unwaith ar gyhoeddiad yn sir Fflint, syrthiodd ofn cŵn ar John, fel nad ellid cael ganddo gychwyn o'r lle yr ydoedd, i fyned rhagddo i'w gyhoeddiad er dim.

"Y mae yn sŷn genyf atoch, John," ebe Edward, gan droi ato yn brysur, "fod eich ffydd chwi mor wan, gan fod addewid wedi ei rhoddi, 'Yn erbyn neb o blant Israel ni symud ci ei dafod.'"

"O'r goreu, Ned," ebe John Pierce, "gan fod gair fel yna yn y Beibl, ni a gychwynwn heb ddim ychwaneg o siarad. Pa beth yw cŵn i ni mwy?"

Llawer o chwedlau cyffelyb a draethir am y ddau, ond digon, fe allai, yw yr un uchod i ddangos diniweidrwydd plentynaidd y naill, a ffraethineb parod y llall. Yr oedd John Pierce yn nghanol yr holl ddychymygion a'i blinai, yn argoeli llawer iawn o dynerwch cydwybod, deheurwydd mawr i drin cyflyrau dynion, ac ymroddiad ewyllysgar i wasanaeth yr Arglwydd. Efe a fu farw yn Llanidloes, Chwef. 1, 1793.

### JOHN A ROBERT ROBERTS, LLANLLYFNI.

Nid oes eto ugain mlynedd wedi myned heibio er pan ymadawodd y cyntaf a'r henaf o'r ddau frawd hyn, â'r byd hwn. Efe a fu farw yn Llangwm, y lle y symudasai efe iddo trwy briodi, a'r lle y treuliasai y 25 ml. diweddaf o'i oes. Cyrhaeddodd oedran mawr, sef 82 ml. oed. Fe fu yn pregethu am ysbaid 55 ml. ac yn aelod eglwysig am 66 o flynyddoedd. Tua saith mlynedd oedd ef ieuangach na Robert Jones, ond yr oedd Robert Jones wedi dechreu pregethu tua 15 ml. o'i flaen. Ganesid ef yn y fl. 1752, a bu farw yn y fl. 1834, tua 5 mlynedd ar ol Robert Jones.

Yr oedd John Roberts yn fab i Robert a Chatherine Thomas o'r Ffrith-baladeulyn, yn mhlwyf Llanllyfni, ac yn henaf o 13 o blant. Profodd argraffiadau boreuol ar ei feddwl yn nghylch pethau tragwyddol. Yr oedd ei rieni, fel y soniwyd eisoes, wedi ymuno â'r Methodistiaid yn y Buarthau, ac yn dangos awyddfryd a gofal canmoladwy i ddysgu i'w plant a'u tylwyth gadw o honynt ffordd yr Arglwydd. Cadwai Robert Thomas weddi deuluaidd, a chadwai fath o ysgol Sabbothol yn ei dŷ ei hun, gan lluosoced oedd ei deulu, cyn fod son am ysgol Sabbothol mewn un cwr o'r wlad. Ar nos Sabboth, arferai gymeryd hamdden i holi pawb o'i deulu am yr hyn a ddysgasent, gan ddysgu iddynt holwyddoreg, neu gatecism ar athrawiaeth yr ysgrythyrau. Fe ddaeth John y mab hynaf yn fuan yn gynorthwy iddo yn y gwaith da hwn; a chan ei fod yn henaf o'r plant, ac yn tueddu yn ieuanc at grefydd, yr oedd o fawr ddefnydd yn y teulu mewn dysgu a hyfforddi y plant eraill, yn absenoldeb y tad; ac felly cymhwyswyd ef o'i ieuenctyd i fod yn ddefnyddiol i chwalu arogledd gwybodaeth yr efengyl yn mysg ei genedl.

Fe fu John Roberts, yn mlynyddoedd cyntaf ei broffes, yn ddefnyddiol i'w genedl, ac i grefydd, trwy gadw ysgol ddyddiol; ac fel y dywedwyd yn hanes Brynengan, fe fu gwaith yr hen frodyr Robert Jones, Evan Richardson, John Roberts, Robert Roberts, a Michael Roberts, yn cadw ysgolion dyddiol ar hyd y gwahanol ranau o'r wlad, yn foddion arbenig i hyrwyddo Methodistiaeth yn ei flaen. Ymwthiodd John Roberts i raddau lled helaeth o wybodaeth, er nad oedd ei fanteision ond prinion mewn cydmhariaeth. Yr oedd yn gwbl gyfarwydd â'r iaith Saesonaeg, o ran ei deall, a defnyddio awdwyr ynddi. Dechreuodd ar y gwaith o bregethu pan oedd tua 27 ml. oed, ar ol bod yn proffesu tua 10 ml., ac ar ol bod dros ryw ysbaid hefyd yn cadw ysgol.

Fel pregethwr, bernid ef yn rhagori ar nemawr neb yn ei wlad yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Yr oedd ef, a Mr. Richardson, Caernarfon, yr hwn oedd wedi cyd-ddechreu pregethu ag ef, yn cael eu hystyried yn ddwy o ser dysgleiriaf sir Gaernarfon. Yr oedd John Roberts yn meddu ar gorff cryf, er nad oedd ond bychan o faint; yr oedd ei feddwl yn llawn o yni a bywiogrwydd; yr oedd yn helaethach ei wybodaeth, ac yn rhwyddach ei ymadrodd, na llawer iawn o bregethwyr ei oes. Teithiodd lawer ar wledydd y Gogledd a De, yn nghyda threfydd Lloegr, a hyny dros fwy na hanner cant o flynyddoedd. Yr oedd yn weithiwr egniol, parod, a blaenllaw gydag achos yr Arglwydd, a diamheu ddarfod i'w weinidogaeth fod yn foddion i droi llawer at gyfiawnder.

Llafuriodd, fel y dywedwyd, am y 25 ml. olaf o'i oes, yn Llangwm, ac yn mroydd mynyddig Meirion. Ymdrechodd lawer, yn yr ardaloedd cylchynol i'w gartref, i sefydlu ysgolion Sabbothol, codi capelau, a phlanu eglwysi; ac wedi oes hir a llafurus, efe a fu farw mewn tangnefedd, Tach. 3, 1834.

Brawd iddo ef oedd yr hynod Robert Roberts, Clynog, neu "Robin bach o'r North," fel y galwai y Deheuwyr ef. Yr oedd Robert ddeng mlynedd ieuengach na'i frawd John, ac yn mlynyddoedd ei febyd yr oedd arwyddion o wylltineb ac aflywodraeth wedi ymddangos ynddo. Pan ydoedd tua 14

ml. oed, dechreuodd ymddyosg oddiwrth ofal a llywodraeth ei frawd a'i rieni, gan ymlynu wrth gyfeillion ofer a diofn Duw, ac ymroddi i bob math o gampau a chwareuon ffol, a ffynent y pryd hwnw yn y wlad. Anhawdd iawn, bellach, oedd ei gael at ei lyfr, nac i'r pregethau, er maint yr ymdrech a wneid i gael hyny. Ond pan oedd tuag 16 ml. oed, daeth cyhoeddiad Mr. Jones, Llangan, i'r wlad; ac, yn mysg manau eraill, yr oedd ef i'w ddysgwyl i bregethu yn Mryn-yr-odyn, lle ag sydd yn gorwedd rhwng Llanllyfni a Chaernarfon, a llwyddodd ei frawd John i'w gael gydag ef i ddyfod i wrando y gŵr parchedig. Daeth i'r oedfa, mae'n wir; ond yr oedd agwedd wamal a chellwerus arno, gyda rhyw gyfeillion eraill, tebyg iddo ei hun, yn dyfod yno. Gan y nifer a ddaethai yn nghyd, a chan gyfynged y lle y pregethid ynddo, bu gorfod ar Mr. Jones i bregethu yn yr awyr agored. Llefarodd ar Zech. ix. 12: "Trowch i'r amddiffynfa chwi garcharorion gobeithiol, &c." Dylynwyd y weinidogaeth y tro hwn, fel y gwnaed lawer gwaith cyn, a chwedi hyn, ag effeithiau grymus iawn. Yr oedd llawer o'r dyrfa yn wylo yn hidl, rhai wedi eu dal gan fraw, ac eraill gan syndod; ac yn mysg y rhai archolledig, yr oedd Robert wamal. Canfuwyd ef gan ei frawd ar wedd un a fuasai yn sâl, ei lygaid yn sŷn, a'i wedd yn llwyd. Chwiliodd am dano ar ol dybenu y moddion, ond methai a'i gael, ond fe'i goddiweddodd ar y ffordd yn mhell tua'i gartref, yn rhodio yn benisel, ac wrtho ei hun. Deallodd ei frawd yn bur fuan mai nid selni corff oedd arno, ond trallod meddwl. Yr oedd Duw wedi dod i'w gydwybod, a'i enaid wedi ei ddeffro mewn ystyriaeth am ei gyflwr tragwyddol. Esgorodd yr argyhoeddiad hwn ar wir ddychweliad at Dduw yn Nghrist. Yr oedd hwn yn ddechreuad dyddiau i Robert. Yr hen bethau a aethent heibio. Ciliodd am byth oddiwrth yr hen gyfeillion ofer, a'r hen arferion ffol; ymunodd yn ddioed ag eglwys Dduw, gan ymgysegru, o hyn allan, i wasanaeth ei Feistr newydd.

Hyd yma, yr oedd yn arfer gweithio mewn llechgloddfa a elwir y Cilgwyn, gerllaw ei gartref; ond fe farnodd ei deulu yn oreu iddo fyned i wasanaethu at amaethwr, a llafurio y ddaear. Mewn canlyniad, aeth i Gefn-Pencoed yn Eifionydd, yn ardal Bryneugan. Bu yn y lle hwn bum' mlynedd yn mron. Aeth drachefn at un John Pritchard, Coed-cae-du, tad y Parch. Richard Jones, Wern, a bu yn y lle hwn ddwy flynedd. Yr oedd, bellach, yn ddyn cryf, bywiog, a gweithgar; o gyneddfau a chof anarferol; ac wedi gwrando pregeth, ei arfer fyddai myned o'r neilldu, a'i hysgrifenu; a hyn a wnai ymron yn gyflawn oddiar ei gôf. Ai llawer, y pryd hwnw, i Langeitho i wrando Rowlands, ac yn eu mysg fe âi Robert Roberts, gan ysgrifenu pregethau Rowlands ymron yn ddigoll. Wedi hysbysu hyn i Rowlands, ac iddo gael prawf o'i fedrusrwydd, efe a dorai allan i ddweyd "Mi a welais lawer o ladron yn dyfod i Langeitho erioed, ond tydi yw y lleidr goreu a welais eto."

Yn ystod yr amser y bu efe yn gwasanaethu, cafodd amryw o waredigaethau hynod rhag ei ladd gan ddamweiniau; bu y rhai'n yn foddion i ddwyshau llawer ar ei feddwl, ac i'w dueddu at fyfyrio a darllen, a threuliai oriau meithion wedi cadw noswyl, yn darllen wrtho ei hun. Ymafiodd ynddo

y pryd hwn, afiechyd a pheswch trwm, ond trwy y moddion a ddefnyddiai ei feistres, efe a wellhaodd o'r peswch, ond disgynodd yn boen i'w aelodau, ac yn gryd-cymalau i'w esgyrn. Y pryd hwn, efe a briododd, a chynyddu a wnaeth ei afiechyd, nes ei lwyr analluogi ef at ei waith, a bu yn gorwedd yn ei wely am naw wythnos, mewn poenau dirfawr, nos a dydd. Cafodd ryw gyfarwyddyd, pa fodd bynag, a fu yn foddion i liniaru ei boenau, ond gadawodd yr afiechyd ei ol arno tra y bu byw. Pan ddechreuodd godi, ymddangosai fel pe buasai ei holl gymalau allan o'u lle, ei gefn wedi crymu, ac wedi ei gwtogi a'i anffurfio. Eto, trwy arfer moddion, cafodd wared o'i boenau, a chryfhad lawer i'w iechyd yn gyffredinol. "Eto," meddai Richard Jones am dano, "fe weithiodd ei afiechyd mor gryf, nes ei wneuthur o fod yn ddyn lluniaidd a thàl, yn gwrach byr a chrwcca, a thyma agwedd ei gorff afiachus yn llafurio, holl ystod ei weinidogaeth." Bu mam Richard Jones yn dyner iawn o hòno, a bu yn foddion, mae'n debyg, trwy ei gwybodaeth am ddail a llysiau, i estyn ei oes a gwella ei afiechyd. Hi arferai ddyweyd, os byddai neb yn bwrw ei bod yn cymeryd mwy o boen nag y buasai raid, "*Fe dâl Robin i'w ymgeleddu.*"

Pan oedd Robert Roberts tua thair neu bedair ar hugain oed, ymwelodd yr Arglwydd â Brynengan ag adfywiad grymus iawn. Dyhidlai y gwlaw graslawn yn gawodydd mawrion ar y cynulleidfaoedd a ymgasglent yno, nes peri afywiad rhyfeddol ar bob oedran a gradd. Dadseiniai yr ardaloedd gan lais cân a moliant, nos a dydd. Ac yn mhlith y rhai a brofodd raddau helaeth o'r adfywiad hwn, yr oedd Robert Roberts. Trwythwyd ei ysbryd y pryd hwn â goruchwyliaethau grymus iawn; taniwyd ei enaid â chariad at Grist, ac â sêl dros achubiaeth dynion; ac yn bur fuan ar ol yr ymweliad hwn, efe a ddechreuodd ar waith y weinidogaeth.

Ni chawsai y dyn tlawd hwn nemawr o ddim manteision mewn dysg a gwybodaeth gyffredinol. Yr oedd wedi dysgu darllen y Beibl Cymraeg er yn ieuanc, ac efe a fu am ychydig amser ar ol tyfu i fyny, gyda Mr. Evan Richardson yn dysgu Saesonaeg, yr hyn, gyda'i ymdrechion diflino ef ei hun ar ol hyny, a'i galluogodd ef i wneyd defnydd o waith duwinyddion yn yr iaith hòno. Ond er lleied a fu ei fanteision, er tloded oedd ei sefyllfa, er gwaned oedd ei iechyd, ac er mor anffurfiol oedd ei wedd gorfforol; eto, fe wnaeth yr Arglwydd ddefnydd anarferol o hono. Coronodd ef o ran ei weinidogaeth, yn mhell o flaen neb o'i gydoeswyr. Meddai y Parch. Richard Jones o'r Wern am dano: "O ran ei gymhwysderau i'r weinidogaeth, er ei fod, o ran agwedd ei berson, yn wael, eto yr oedd ei lais yn glir, a'i barabl yn groyw, ac o gôf da; ac er nad oedd yn deall ffugyrau areithyddiaeth na rhesymiaeth chwaith, eto yr oedd yn eglur i bawb ag oedd yn eu deall, eu bod fel ffrydiau yn tryloywi yn naturiol yn nghymhwysder ei eiriau, a phriodoldeb ei gyffelybiaethau, a phwys ei resymau, yn enwedigol pan y byddai Duw yn llewyrchu ar ei ysbryd; a chyda hyn, yr oedd bywiogrwydd ac eondra digonol yn ei ysbryd a'i wynebpryd. Ond y peth mwyaf nodedig yn ei holl gymhwysderau i'r fath orchwyl pwysig a goruchel, ydoedd yr addurn dwyfol o'r nef;

yr hwn ydoedd fel gwisgoedd lleision Aaron, yn ei guddio o'i ben i'w draed; pa waeledd bynag a allai fod danynt, yr oedd arogl y pomgranadau, a sain y clychau aur, yn cyhoeddi ei santeiddrwydd trwy holl Israel. Eithr, y mae yn debyg na wisgwyd yr offeiriaid erioed â'r fath addurn ag y gwisgodd yr Arglwydd yr offeryn tlawd hwn, ac a'i cadwodd i lewyrchu yn danbaid yn ffurfafen yr eglwys nes gorphen ei dymhor; ac a'i cynaliodd fel angel tanllyd i ehedeg yn nghanol y nef, gan gyhoeddi efengyl y deyrnas yn ei phurdeb a'i nerth."

Fe dreuliodd rai o'r blynyddau cyntaf, ar ol priodi, mewn tŷ a gardd a osodwyd iddo gan dad Richard Jones, a defnyddiai ei amser mewn cadw ysgol Gymraeg yn ngwahanol ardaloedd Eifionydd, ac efe fu yn y modd yma, trwy ei addysgiadau fel athraw, a thrwy ei lafur cyhoeddus fel pregethwr, yn offeryn i gynyrchu llawer o ddaioni. Ond yr oedd ei iechyd yn raddol yn gwanychu, a'r alwad am ei weinidogaeth yn cynyddu, nes y cymhellwyd ef, ar lais yr eglwysi, a chynghorion cyfeillion, i roddi yr ysgol heibio, ac ymroddi yn gwbl i bregethu y gair; ac felly y gwnaeth hyd ei farwolaeth. Nid hir ar ol rhoddi heibio yr ysgol y bu heb symud o'r Ynys-galed i dŷ, yn perthyn i gapel uchaf Clynog, ac yno y trigianodd weddill ei oes.

Ardderchogrwydd penaf Robert Roberts ydyw y peth anhawsaf ei ddarlunio. Pe buasai rhyw amgylchiadau hynod wedi nodweddu ei oes, gallesid, ond odid, eu holrhain, neu pe cyfarfuasai ag erlidigaethau chwerwon, neu â gwaredigaethau lawer, gallesid yn hawdd eu gosod ger bron. Ond nid oedd ei oes ef wedi ei hynodi ag amgylchiadau felly, eto yr oedd yn un o'r dynion hynotaf a welodd Gwynedd erioed; ac er mor hynod ydoedd, y mae anhawsdra anorfod i roddi drychfeddwl priodol i'r darllenydd am ei enwogrwydd. "Am ei weinidogaeth," ysgrifenai ei nai, y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, "y mae yn anhawdd rhoddi desgrifiad o honi. Meddyliais lawer gwaith wrth glywed yr hen bobl yn son am yr enwog Mr. Rowlands o Langeitho, mai y tebycaf a glywais i erioed iddo, oedd Robert Roberts, yn ol ei radd. Astudiai ei destynau ar amrywiol ganghenau o athrawiaeth, a'r addysgiadau a dynai oddiwrthynt, i'r manylrwydd eithaf, yn ol y manteision ag oedd ganddo; a llefarai yn gyffredin yn drefnus ar y materion a ragfyfyriasai arnynt, olynol. Ond yr hynodrwydd mwyaf arno, oedd bywiogrwydd tanllyd ei ysbryd, yn y pethau, wrth eu traddodi; a'r arddeliad, y llewyrch, a'r tywalltiadau a ddisgynai arno ef a'i wrandawyr; a dull ei wynebpryd mor briodol i'w araeth, nes y byddai yn anhawdd i neb fod heb ryw effeithiau arnynt, y pryd hwnw, o leiaf. Gwelais y cynulleidfaoedd ddegau o weithiau yn wylo, fel nas gwelwn braidd wyneb sych.—Os taranu bygythion a melldith y ddeddf uwchben ei throseddwyr y byddai—taranau, mellt, a dychryn, megys wrth Sinai, a fyddai yno. Os cyhoeddi dyfnion bethau yr athrawiaeth, am ddirgelwch y Drindod, person yr Emanuel, y cyfammod hedd, a threfn yr iachawdwriaeth, llenwid yr enaid â syndod a gorfoledd."

Yr wyf yn fwy parod i gyfeirio y darllenydd at dystiolaethau y ddau ŵr parchedig, ac adnabyddus uchod, o herwydd yr oedd y cyntaf yn adwaen

Robert Roberts, o'i ieuenctyd, ymron yn well na neb arall, yn bersonol, teuluol, a chyhoeddus; a'r olaf wedi ei ganlyn lawer, yn ei deithiau, gartref ac oddicartref; a'r ddau yn wŷr tra chymhwys i roddi barn am ei alluoedd, ei ysbryd, a'i ddoniau. Ond y mae tystiolaethau llaweroedd yn mhob cŵr o'r wlad, llai cyhoeddus na'r gwŷr a nodwyd, yn cyd-daro â'r eiddynt hwy, am ddoniau a llwyddiant gweinidogaethol Robert Roberts. Dywed pawb a'i clybu, na chlywsant ei gyffelyb erioed. Yr oedd ehediadau ei feddwl yn ardderchog; ac wrth ystyried ei anfanteision, yn ymddangos ymron yn wyrthiol. Nid oes modd, tybygid, i roddi cyfrif, am ddysgleirdeb ac ardderchogrwydd gweinidogaeth y dyn tlawd a diniwaid hwn, ond fod y Goruchaf ei hun wedi ei wisgo, megys i ddangos i bawb, pa bethau eu maint y dichon iddo eu gwneuthur yn y llwybr yma.

Gŵr a ga'dd ei ddwyn i'r arf dŷ,
  Ac fe'i gwisgwyd yno yn llawn;
Fe'i prydferthwyd â grasusau,
  Fe'i goreurwyd â phob dawn;
Allan daeth a'i gledd a'i wregys,
  Llurig gref, a'i darian fawr;
Saethau heb rif, a'i fwa anelog,
  I darfu llidiog dorf y llawr.*

Ni fu rhedfa Robert Roberts yn faith, ond hi fu yn nodedig. Bu farw megys yn nghanol ei ddefnyddioldeb, yn y fl. 1802, pan nad oedd ond 40 ml. oed, wedi bod yn pregethu bymtheng mlynedd. Wedi ei ddefnyddio mewn modd anarferol i ddeffro ei gydwladwyr o'u cwsg, efe ei hun a gadwodd noswyl, ac a hunodd yn yr angau.

## ROBERT DAFYDD, BRYNENGAN.

Er mai mewn cysylltiad â Brynengan yr adwaenir yr hen bregethwr hwn, eto nid un ganedig yn Mrynengan ydoedd; ond am iddo dreulio ei holl oes, grefyddol a chyhoeddus, fel preswylydd yno, fe gysylltir ei enw â Brynengan. Fe'i ganwyd yn y Cwm-bychan, yn agos i Bont Aberglasglyn, yn mhlwyf Beddgelert. Enw ei dad oedd Dafydd Pritchard, Gwehydd, yr hwn a fu farw pan oedd Robert yn blentyn blwydd oed. Bu gyda'i fam nes oedd tua 12 neu 13 ml. oed, yna aeth at ei ewythr brawd ei dad, a bu yn gwasanaethu yn y lle hwn, hyd nes y bu raid iddo ymadael, gan y gwrthwynebiad a ddangosid i'w grefydd. Yn ei ieuenctyd, ni chafodd Robert Dafydd ddim manteision crefyddol. Nid oedd yma nac ysgolion Sabbothol, na phregethu yr efengyl, yn yr holl fro, ac yr oedd yntau fel eraill yn yr ardal, yn hollol dywyll am bethau yr efengyl, ac yn llwyr anystyriol am ei achos ysbrydol. Ymddifyrai mewn chwareuon, a champau ofer a llygredig ei oes, ac nid oedd neb a warafunai hyn iddo nac a geisiai ei hyfforddi mewn pethau gwell.

* Gwel Farwnad iddo gan John Roberts, Pwllheli, yn y "Goleuad," llyfr. vi. tudal. 248.

Pan oedd tuag 21 ml. oed, dygwyddodd iddo gael gwrando un yn pregethu, o'r enw Siôn Robert Lewis o Gaergybi, a bu hyny yn foddion, tybygid, i ysgogi gradd ar ei feddwl at bethau tragwyddol. Daeth i ddechreu ystyried fod gwahaniaeth rhyngddo ac anifail, a bod iddo achos gyda Duw fel creadur cyfrifol i orsedd ei Greawdwr. Daeth Robert Jones, Rhoslan, i gadw ysgol, dros ryw dymhor byr, i'w ardal, a Robert a âi i wrando arno yn holwyddori y plant mewn pethau crefydd. Yr oedd egwyddorion cyntaf crefydd yn ddyeithr iddo y pryd hwnw, a difyr oedd ganddo glywed am bethau mor newydd a dyeithr. Ond nid hir y bu cyn deall fod a wnelai y gwirioneddau a glywai ag ef ei hun; argyhoeddwyd ef o'i sefyllfa euog a pheryglus, a phrofodd ddirfawr drallod ac ing ar ei feddwl. Bellach, ymddangosai cyfnewidiad ar ei wedd, ei eiriau, a'i ymddygiadau, a dechreuodd hen wragedd y fro regu Robert Jones am yru Robert Dafydd o'i gôf. Mawr oedd ei awydd, bellach, i wrando pregethu;—nid esgeulusai yr un oedfa a fyddai yn ei gyrhaedd; a rhaid oedd iddo gerdded yn mhell yn fynych, gan leied oedd o bregethu yn agos i'w gartref. Nid oedd nemawr bregethu cyson yn nes iddo na'r Waunfawr ar y naill law, neu Frynengan ar y llaw arall. I'r lle olaf hwn yr arferai fyned amlaf; a llawer a wrandawodd ar hen bregethwyr Lleyn, sef Hugh Thomas, Griffith Pritchard, Charles Marc, Robert Williams, ac eraill.

Yr oedd trallod ei feddwl yn parhau yn ddirfawr, ac yr oedd yr ymosodiad arno oddiallan yn cynyddu. Cymerwyd achlysur gan deulu ei ewythr, oddiwrth ei fod yn gwibio mor aml i Frynengan, ac yn dychwelyd oddiyno mor hwyr y nos, i roi ar ddeall iddo, mai mwy dymunol a fyddai iddo fyned i le arall i fyw. Aeth yntau, yn y canlyniad, i ardal Brynengan, lle y preswyliodd o hyny allan. Ryw bryd, yn yr adeg yr oedd ei ysbryd ymron a chael ei lethu gan ofn uffern, ac euogrwydd cydwybod, cafodd y fraint o wrando Dafydd Morris, sir Aberteifi, yn pregethu ar y gair, "Dygwch allan y wisg oreu, a gwisgwch hi am dano ef, &c." Yn yr oedfa hon chwalwyd ei ofnau, a drylliwyd ei lyffetheiriau; gollyngwyd ei enaid yn rhydd, a rhoddwyd yn ei "enau ganiad newydd o foliant i'n Duw ni."

Yr oedd yn arferiad y pryd hwn, ac er ys amser maith cyn hyn, i grefyddwyr y gwledydd fyned, os gallent hefyd, i Langeitho, i wrando Rowlands yn pregethu. Yr oedd y desgrifiad a roddid o'i ddoniau, ac o'r arddeliad rhyfeddol a fyddai ar ei weinidogaeth, y fath, na allai lai na chodi awyddfryd angherddol yn meddyliau'y dysgyblion ieuainc i gael ei wrando. Penderfynodd Robert Dafydd hefyd fyned hyd yno, a chydag ef yr oedd John Pierce. Yr oedd iddynt oddeutu 80 milldir o ffordd i'w cherdded; ac nid oedd i'w ddysgwyl ond gwawd a sarhad yn y pentrefydd yr aent trwyddynt; ac felly y bu iddynt y tro hwn. Hwtiwyd hwy yn ffyrnig yn Tan-y-bwlch, a bu llefain gwawdlyd ar eu hol yn Nolgellau, ond cyrhaeddasant Llangeitho yn lluddedig, erbyn amser yr oedfa ddydd Sadwrn o flaen y cymundeb. Ond cyn pen llawer o fynydau o wrando Rowlands, yr oedd eu holl ludded wedi

diflanu, eu holl ofidiau wedi eu hanghofio, a'u llestri yn rhedeg drosodd gan orfoledd yr iachawdwriaeth.

Yr oedd yr anhawsderau i fyned i, a dychwelyd o, Langeitho y pryd hwnw, yn fwy nag y mae yn hawdd i ni, yn y dyddiau hyn, ddychymygu eu bod. Yr oedd y ffyrdd yn anhygyrch, a phreswylwyr yr ardaloedd yr aent trwyddynt yn annyddig, ac weithiau, cyfarfyddent â thywydd blin o wynt a gwlaw, neu o eira a lluwchfeydd, nes y byddai yn anmhosibl ymron iddynt fyned nemawr ymlaen. Dygwyddodd i Robert Dafydd unwaith, ac un Richard Morris, yr hwn oedd gydag ef, ar eu dychweliad o Langeitho, pan yn croesi y Traeth-bach, gael eu hamgylchynu gan y llanw, a bu y ddau yn agos i angau. Yr oedd Robert Dafydd, yr hwn oedd o faintioli lled fawr, hyd at ei geseiliau yn y dwfr, a Richard Morris, yr hwn oedd yn llai o faintioli, at ei wddf. A chyda bod y dwfr fel hyn yn ddwfn, yr oedd y noson yn oer iawn, o rew ac eira, a rhyfedd ydyw iddynt ddianc a'u bywydau ganddynt, eto dianc a wnaethant. Buant ddyddiau cyn gallu cyrhaeddyd i'w cartrefi, gan faint oedd y lluwchfeydd eira, a chan anhawsed oedd myned trwyddynt.

Crybwyllai Robert Dafydd am dro chwerw o erlid a baeddu a fu unwaith yn Mhenrhyn-deudraeth. William Evans o'r Fedw-arian oedd yno yn pregethu, a hyny mewn gweithdŷ cylchwr (*cooper*). Daeth torf fawr o erlidwyr yno; torasant dyllau yn y tô; ac yn mysg y rhai prysuraf o honynt yr oedd dau fab i offeiriad, yn eu crysau, ar nen y tŷ, yn bwrw talpiau mawr o dywyrch ar y bobl; eraill yn curo pob un a ddelai i'r tŷ â gwrysg o goed; cafodd eraill gyrn gwartheg mewn barc-dŷ, a defnyddient y rhai'n yn offer i faeddu y crefyddwyr. Ffaelodd William Evans a phregethu, eto hi a dorodd yn orfoledd ar y trueiniaid ryw bryd yn ystod yr oedfa, yr hyn, mae'n debyg, a ffyrnigodd yr erlidwyr yn fwy. Canlynent ar ol y crefyddwyr am ysbaid milldir o ffordd, gan eu curo yn gethin â'r cyrn gwartheg. Ac nid oes wybod dros ba faint o ffordd yr ymlidiasid hwy yn y modd yma, oni bai i ryw hen ymladdwr adnabyddus eu cyfarfod. Hwn, er mwyn dangos ei nerth a'i wroldeb, fe allai, neu ynte, o dosturi dros y rhai a ddyoddefent gymaint ar gam, a waeddodd, gan godi ei ffon uwch ei ben, myn y gŵr drwg, y mynai efe lonydd i'r bobl, neu y dyfethai efe hwynt oll. Felly y cafodd y bobl druain ymwared, pan oeddynt leiaf yn ei ddysgwyl.

Nid oedd Robert Dafydd yn cael ei ystyried yn bregethwr mawr ei ddawn a'i boblogrwydd. Yr oedd yn hytrach yn perthyn i'r dosbarth a alwai yr hen bobl yn *gynghorwyr*. Yr oedd golwg batriarchaidd ar ei berson; ei wallt yn fawr ac yn rhanedig yn ei dalcen, ac yn ei henaint yn wŷn fel llîn. Nid cymaint a driniai efe ar bynciau athrawiaethol crefydd, ond yn fwyaf ar grefydd brofiadol; natur argyhoeddiad, a marw i'r ddeddf; y gwahaniaeth rhwng y gwehilion a'r gwenith, y gwir Gristion a'r rhagrithiwr. Dywedir ei fod yn fwy hynod mewn gweddio nag mewn pregethu, ac yn fwy medrus ar gadw cyfarfodydd eglwysig, nag oedfaon cyhoeddus. Ystyrid ef yn hallt iawn yn erbyn pechod, yn llym yn ei geryddon, a didderbyn wyneb. Wedi oes lled

faith o wasanaethu ei genedlaeth trwy ewyllys Duw, efe a hunodd gyda'i dadau, yn hen a chyflawn o ddyddiau.

### Y PARCH. JOHN JONES, EDEYRN.

Mae y gŵr parchedig hwn wedi marw, bellach, er ys dros 30 ml., ac felly heb ei weled na'i glywed erioed gan gorff mawr ein darllenwyr. Gan ei fod yn un o'r pregethwyr grymusaf yn sir Gaernarfon yn ei ddydd; a chan y mynych grybwyllir am dano, fel un hynod am ei ffraethineb ; ac yn enwedig, gan y gwnaed defnydd amlwg o hono i rwyddhau Methodistiaeth Cymru yn ei flaen, dymunol yn ddiau, a fydd gosod i lawr grynodeb byr o'i hanes, fel un y mae y dywysogaeth yn ddyledus iddo, yn mysg eraill, am y wedd sydd arni yn bresenol.

Fe fu John Jones yn pregethu am ysbaid 38 mlynedd; a chychwynodd ar ei weinidogaeth tua'r amser yr ymunodd Mr. Charles â'r cyfundeb. Ei gydoeswyr oeddynt y Peirch. Evan Richardson, Caernarfon; John Roberts, Llanllyfni; a'r enwog Robert Roberts ei frawd. Yr oedd Robert Jones, Tŷ-bwlcyn, ar y maes ugain mlynedd o'i flaen ef, a chychwynasai y diwygiad Methodistaidd yn Ngwynedd 40 mlynedd cyn iddo droi allan i lafurio yn ngwinllan Crist. Yn fuan ar ei ol ef y cychwynodd y Peirch. John Elias, Môn; John Parry, Caer; a John Edwards, Reiniog gynt, neu Blas-yn-Nghaerwys ar ol hyny; a Richard Jones o'r Wern; oll o'r un sir, ac am dymhor hir yn cyd-weithredu yn egniol â'u gilydd ar yr un maes, i gyrhaedd yr un amcan.

Brodor oedd Mr. Jones, Edeyrn, o Fôn, mab i Methusalem Jones, Tyddyn-Dafydd-ddu, plwyf Llandwrog. Yn mhen ychydig ar ol priodi un Anne Jones, Bettws-fawr, o'r un plwyf, a phan oedd John yn blentyn hanner blwydd oed, symudodd ei dad i Gaernarfon i fyw. Yn y dref hon, gan hyny, y bu y bachgen fyw hyd nes cyrhaedd o hono 17 ml. oed. Yr oedd Caernarfon ar y pryd hwn yn amddifad hollol ymron o bregethu gan ymneillduwyr, ac nid oes hanes genym fod nemawr well nag enw efengyl ar weinidogaeth llan y plwyf. Nid oedd i'w ddysgwyl, gan hyny, yn y dref ar y pryd, ond fod pawb yn gwneyd bob un yr hyn oedd dda yn ei olwg ei hun, ac nid oedd neb yn gwarafun iddynt, am yr ymgadwent rhag tori cyfraith y tir. Dan amgylchiadau o'r fath, gellid dysgwyl i fachgenyn o yni a medrusrwydd John Jones ragori yn mhob camp a dybid yn uchel gan y trigolion. A hyn hefyd a wnaeth. Ymosododd ar gampau ei wlad â'i holl egni, a chyfrifid ef yn rhagori mewn asbri a dyhirwch ar y cyffredin o'n gyd-ieuenctid. Trwy geisio ymwthio i ystafell lle y cynelid dawns-gyfarfod (*ball*) gan foneddigion y fro, heb ganiatâd, brathwyd ef yn ei gefn gan geidwad y drws, ag offeryn miniog ag oedd ganddo yn ei law, ac o'r braidd y diangodd heb ei ladd.

Wedi derbyn gradd o niwaid drwy y tro hwn, barnai ei rieni yn oreu ei osod yn *brentis* at ryw grefft ysgafnaidd, a phenderfynwyd ei anfon at eilliwr (*barber*) i'r Wyddgrug, sir Fflint, i ddysgu y grefft hòno. Wedi bod yno ddwy flynedd, aeth at ei rieni, y rhai oeddynt, bellach, yn byw yn Amlwch yn Môn. Nid oes son am dano amgen na'i fod yn rhodio "yn oferedd ei feddwl," fel yr oedd helynt y byd o'i amgylch, hyd nes ydoedd tuag 20 ml.

oed. Dygwyddodd un Sabboth fod dau ŵr o Amlwch yn troi allan o'r dref i fyned i wrando pregeth i ardal rhwng eu cartref a Llanerchymedd, o'r enw Lledrod, ac wrth fyned tarawsant wrth y *barber* ieuanc, a chyfaill iddo, yn chwareu gyda rhyw gamp, a gofynasant iddo, "John bach, tyred gyda ni heddyw i wrando pregeth i Ledrod." Yntau yn rhwydd a gydsyniodd, ac ni fu ei fynediad ef yno yn ofer; teimlodd saeth y gwirionedd, am y tro cyntaf, yn brathu ei gydwybod. Effeithiodd yr oedfa hon arno i arafu gwylltineb ei gamrau, ac i droi ei sylw at bethau yr efengyl. Collodd flas ar ddifyrwch y cnawd, dychlamai ei fynwes gan arswyd digofaint Duw, a chyrchai yn ddiwyd, bellach, i wrando pregethau, gan ymofyn iachâd i'w ysbryd archolledig.

Nid yn ebrwydd iawn ar ol hyn yr ymunodd y gŵr ieuanc â'r gymdeithas eglwysig; ac yr oedd y bachgen gwyllt, dibris, a diriad, wedi ei sobri drwyddo. Yr oedd yr hen ymadroddion a'r arferion ffol a anurddai ei rodiad gynt, yn awr wedi eu rhoi heibio; ac nid eu rhoi hwy heibio ei hunan yn unig, ond daethant i fod yn annyoddefol ganddo mewn eraill. Clywodd un diwrnod fenyw o'r enw Catrin Randle yn arfer llwon, wrth werthu teisenau gerllaw ei weithdŷ ef, ac aeth allan ati, gan ddyweyd, "Catrin bach, er mwyn Duw, a'ch enaid eich hun, edrychwch beth a ddywedwch." Fe fu y gair hwn yn foddion, dan fendith Duw, i ddwyn y fenyw hòno i ddechreu ystyried ei ffyrdd, ac i droi at yr Arglwydd. Ac un hynod a fu Catrin yn ei thymhor. Nid oedd nemawr bregethwr yn yr oes hòno nad oedd yn gwybod am dani. Torai allan yn fynych, ac yn aml yn ddisymwth, dan y pregethau, a bloedd gyffrous iawn, nes cynhyrfu pawb yn y lle. Yr oedd yn dra adnabyddus yn ngwahanol barthau y wlad, fel un a ymwelai â gwahanol dai gyda'i galwedigaeth o drwsio plyf gwelyau; ac yr oedd wedi ennill iddi ei hunan, er tloted ei sefyllfa, air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun, am ei diragrithrwydd a symledd ei chrefydd. Ond nid oedd dychweliad Catrin Randle ond blaenffrwyth o'r cynyrch a gesglid ar ol hyn i'r ysgubor, trwy lafur John Jones.

Nid oedd John Jones eto wedi ymuno â'r dysgyblion yn Amlwch, ac fe ymddengys, pa faint bynag oedd grym yr argyhoeddiadau a brofasai o'r blaen, mai trwy weinidogaeth yr hynod Dafydd Morris, Twrgwyn, y cafodd efe ei ennill i gofleidio y gwirionedd, ac i ufyddhau iddo o'r galon. Dywedir y byddai y llencyn hwn yn arfer canlyn y pregethwr crybwylledig, pan y deuai i Fôn i bregethu, ar ei draed, o fan i fan, tra y byddai yn y wlad. Ac nid ymlyniad wrth Dafydd Morris yn unig a barai y fath ymdrech, gan y gwnai yn gyffelyb a rhai eraill, er fe allai, mai nid i'r un helaethrwydd.

Torodd John Jones allan i bregethu tua'r fl. 1784. Yr oedd ei weinidogaeth ef, yn y blynyddoedd hyn, yn rymus a bachog iawn. Yr oedd gwedd ddiarswyd arno, ei lais yn glir ac uchel, ei lygaid yn llymion, a'i ymadroddion yn nodedig am eu ffraethineb. Terfynai, weithau, ar ymylon ysgafnder; a thueddai ei ddull a'i ffraethineb, yn achlysurol, i beri gradd o ddifyrwch i ryw ddosbarth o wrandawyr, ac o dristwch i ddosbarth arall. Ymollyngai, weithiau, i arfer sŵn neu ystum a fyddai yn cydweddu â'r ffaith a ddarluniai,

i raddau, a dybid, yn ormodol; megys pan yn olrhain hanes Pedr, fe wnai sŵn fel pe buasai ceiliog yn canu; neu y gwartheg yn brefu, pan yn son am y modd y dygwyd yr arch i'w bro o wlad y Philistiaid. Eto yn nghanol hyn yr oedd gwirioneddau mawrion yn cael eu bwrw allan, gyda grym a deheurwydd mawr, fel ag i droi y chwerthin yn wylo mewn mynyd, ac i beri fod llawer a ddaethent i wrando ar *Jack y barber*, er mwyn digrifwch, yn cael eu dàl gan argyhoeddiadau llymion, ac yn dychwelyd adref, a'u calonau yn gwaedu gan synedigaeth a braw.

Ymddengys iddo gael ei arddel, i raddau helaeth, gan Arglwydd y gwaith, fel ag i fod yn offeryn i droi llawer at gyfiawnder. Yr oedd ei weinidogaeth ar ei gychwyniad, yn dreiddgar a tharanllyd iawn; a llawer o rai dewrion a chedyrn-galon a fwriwyd i lawr ganddo. Dywedir ddarfod dychwelyd *naw ugain* o dan yr un bregeth o'i eiddo. Pan y cyhoeddwyd hyn gyntaf trwy y wasg, parodd amheuaeth yn meddyliau aml un, ai gwir oedd hyn? Achlysurodd yr amheuaeth ymchwiliad manylach, a chaed gan *un o'r dychweledigion* fod y nifer yn *naw ugain a deg*. Yn yr Aberffraw yn Môn, meddir, y bu hyn, a'r tro cyntaf hefyd i John Jones fod yno yn pregethu. Ni ddygwyddodd i mi glywed am nifer mor fawr wedi cael eu galw dan yr un bregeth, oddieithr ar ddydd y Pentecost yn Jerusalem, pan y pregethwyd y bregeth Gristionogol gyntaf erioed.

Adroddwyd yr hanesyn canlynol gan Robert Jones, Tŷ-bwlcyn, wrth Griffith Solomon. Pan yr oedd Mr. Jones, Edeyrn, yn ddyn ieuanc, ac ar gyhoeddiad yn Nhrawsfynydd, ddydd gwaith yn y cynhauaf gwair, dywedai rhyw amaethwr wrth y dwylaw oedd yn lladd ac yn cyweirio y gwair, yn feibion ac yn ferched, "Mi a'ch gadawaf chwi am enyd, ac a âf i'r capel i wrando pregeth; gwnewch chwithau eich goreu." Aeth ymaith ar hyn, ond troes yn fuan yn ei ol, ac a ddywedodd, "Yr wyf yn clywed fod rhyw beth anghyffredin yn canlyn y dyn sydd i fod yn y capel heddyw; mi hoffwn i chwi ddyfod i gyd i wrando arno." Felly hefyd yr aethant oll, yn chwech o nifer, a sicrheir fod pob un o honynt wedi derbyn bendith gan Dduw, a'u gwneuthur yn greaduriaid newydd yn Nghrist Iesu.

Wedi i Mr. Jones fod yn pregethu am ddwy neu dair blynedd, a phan oedd yn 25 ml. oed, efe a briododd un Mary Williams, etifeddes Pen-y-bryn, Edeyrn, ac yn y lle hwn y bu efe byw o hyny allan, sef ysbaid 35 o flynyddoedd. Yn nechreu ei oes weinidogaethol, arferai fyned ar ei draed o fan i fan i bregethu, a darluniai y tro cyntaf y darbwyllwyd ef i gymeryd ceffyl dano mewn modd lled ddigrifol. "Pan oeddwn," meddai, "yn byw yn Amlwch, cefais addewid o geffyl i fy nghario i gyfarfod misol Niwbwrch. Aethum ar gefn y ceffyl, ond cyn myned dros rwd o ffordd o'r lle y cefais ei fenthyg, sef y Groeslon, ar ffordd Llanerchymedd, gwelwn ef yn *cyrbio* ei ben, ac yn ymddolenu fel sarff; a minau y pryd hwnw mor serfyll ar geffyl ag ŵy ar ben trosol: ac yn mhen ychydig amser, pa le y cawn fy hun ond ar wastad fy nghefn yn y ffos, ac wrth fy ngadael yno, rhoes i mi gic yn nghroth fy nghoes; ac nid wyf yn meddwl y bu dau yn fwy boddlawn i ymadael â'u gilydd o

hyny hyd yn awr." Ond fe ddysgodd Mr. Jones fod yn well marchogwr ar ol hyny, a theithiodd lawer dros Gymru oll, a rhai o drefydd Lloegr, am ysbaid 30 ml. a mwy.

### Y PARCH. RICHARD JONES, WERN.

Tua chwe' blynedd ar ol Robert Roberts y dechreuodd gŵr enwog arall bregethu, ac yn agos yn yr un ardal, sef y Parch. John Elias; yn y flwyddyn ganlynol, dechreuodd y Parch. Richard Jones; yntau hefyd, yn yr un fro; ac nid hir ar eu hol y dechreuodd y Parch. John Parry, Caer, ac yntau hefyd oedd o'r un sir; ond gan i'r cyntaf a'r olaf o'r gwŷr hyn ymadael yn lled foreu a'u gwlad eu hunain, ni a ohiriwn y crybwylliad a wneir am danynt, hyd y lle priodol, ond gan i Richard Jones dreulio y rhan fwyaf o'i oes yn ei wlad ei hun, ac nad aeth, wedi ei symudiad nemawr oddiwrth ei therfynau, ni a osodwn ger bron yn awr ychydig grybwylliad am y gŵr enwog hwn.

Mab ydoedd i John Pritchard o'r Coed-cae-du, plwyf Llanystyndwy, yn nghymydogaeth Brynengan, sir Gaernarfon. Y mae amryw nodweddau yn hanes Richard Jones, yn gwahaniaethu oddiwrth amryw o'i frodyr yn sir Gaernarfon. Yn gyntaf, yr oedd ei rieni yn fwy clyd eu hamgylchiadau na'r cyffredin. Drachefn, fe roddwyd iddo fwy o fanteision yn ei febyd i gyrhaedd dysg a gwybodaeth gyffredinol. Hefyd, ymddengys ei fod ef ei hun o duedd mwy pwyllog, arafaidd, a meddylgar, ac ar y dechreu yn llai dysglaer a hyawdl na rhai o'u gydoeswyr, ac yn ychwanegol at hyn, fe ogwyddai yn fwy na llawer yn ei oes at chwilio, a darllen, ac ysgrifenu; ac er na pharodd gyffro mawr, ar ei gychwyniad cyntaf allan, eto cyrhaeddodd ddefnyddioldeb a dylanwad mawr yn mysg ei frodyr, ac hwyrach mai nid gormod fyddai chwanegu, wrth ystyried bychander disylw ei ddechreuad, na pharhaodd neb o'i gydoeswyr i gynyddu mor gyson ag ef, hyd nes yr edrychid arno yn un o brif golofnau Methodistiaeth Gwynedd.

Dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1794, a pharhaodd i lafurio yn wastad a chyson hyd y fl. 1833, ysbaid o 39 o flynyddoedd; pan y bu efe farw mewn tangnefedd.

Fe gawsai y pregethwr hwn, yn fwy na llawer o bregethwyr y Methodistiaid, ychydig o ddysg yn ei ieuenctyd, dan yr athraw parchus Evan Richardson, yr hwn, fel y soniason o'r blaen, oedd yn cadw ysgol ar y pryd yn y fro hòno. Cafodd gychwyniad i mewn i'r Saesonaeg, Lladin, a Groeg. Llafuriodd yntau ei hun ar ol ymadael â'r ysgol, yn ngwahanol ganghenau gwyddorion, a chydnabyddid ef yn rhagori cymaint ar ei gymydogion yn y rhagoriaethau hyn, nes y tueddwyd rhyw ŵr boneddig yn ei ardal, yr hwn oedd uch-gyfreithiwr (*barrister*), gynyg ei ddwyn yntau i fyny i'r un alwedigaeth. Hyn, pa fodd bynag, a wrthododd oddiar ryw gyfrifon anadnabyddus yn bresenol. Yn nhymhor cyntaf ei ieuenctid, dau beth arbenig a âi a'i fryd; adnabyddiaeth o *amaethyddiaeth*, ac o'r *gwyddorion (sciences)*. Nid oedd y pryd hwn nemawr o arwyddion fod ynddo lawer o deimladau crefyddol; yn

unig yr oedd yn hardd ei rodiad, ac yn ddifrycheulyd ei fywyd. Nid oedd Richard ieuanc ddim yn hollol gydredeg gyda *neb*. Nid oedd yn ymwylltio gyd chyfoedion difeddwl a di-iau, i gyflawni arferion ffol ac anweddaidd. Nid oedd chwaith, hyd yn hyn, wedi ymuno â'r crefyddwyr, nac wedi rhoddi arwyddion amlwg i neb feddwl ei fod yn gogwyddo at bethau crefydd. Yr oedd o dymher ddystaw a phwyllog, ac ychydig a draethai o'i feddwl a'i deimladau wrth neb ; a barnai rhai oddiwrth ei ddystawrwydd, nad oedd ganddo nemawr deimladau crefyddol.

Un tro, pan oedd gyda'i orchwyl ar fin llwybr tramwy, daeth dynes grefyddol o'i ardal ato, wrth fyned tua'r capel i wrando pregeth, yr hon oedd yn lled hyf arno, a gofynodd iddo, "A ddowch chwi ddim i'r capel heddyw ?"

"Na ddeuaf," ebe y gŵr ieuanc.

"O'r hen Pharaoh," ebe hithau, ac yn mlaen â hi. Gellir meddwl nad oedd hyd yma wedi sylwi llawer ar hanes Pharaoh, ond gan y barnai fod y wraig wedi ei gyffelybu i ryw un lled ddrwg, penderfynodd ddarllen yr hanes, a dywedir i hyny fod yn foddion arbenig i ddwyshau argraffiadau crefyddol ei fynwes. Ymunodd cyn hir â'r gymdeithas eglwysig, er mawr syndod i'w gymdeithion, gan nad *ymddangosai* nemawr gyffro arno. A gwir oedd hyny, ymwasgodd â'r dysgyblion oddiar argyhoeddiad barn, a phenderfyniad meddwl yn ddiau, ond megys mewn gwaed oer. Mawr hefyd oedd syndod y teulu pan un noson y cydsyniodd i weddio am y tro cyntaf yn y teulu, pryd na wyddai neb ond ei fam, ac un o'r gweision, ei fod yn aelod eglwysig, na bod dim neillduol ar ei feddwl yn achos ei gyflwr. Yr oedd eu syndod, gan hyny, yn fawr, ei glywed yn ymdrechu â Duw mewn gweddi ; a chan y dwysder a'r taerineb a ganfyddid yn ei weddi, nid oedd neb yn y fan yn medru ymattal heb wylo, a thystiai y gwas crefyddol ag oedd yno, na theimlodd erioed y fath effaith yn canlyn gweddi deuluaidd.

Gan ei fod eisoes yn ŵr ieuanc hardd ei rodiad, ac o ran y llythyren, "wedi cadw y gorchymynion oll o'i ieuenctyd," nid oedd cyfnewidiad *amlwg* i'w ddysgwyl ynddo ; eto yr oedd yn perthyn iddo ddiwydrwydd a llafur i *gynyddu fwyfwy*. A chynyddu fwyfwy a wnaeth, mewn eangder gwybodaeth a dyfnder profiad. Dywedai weithiau wrth y sawl a fyddai yn llawn gormod ei ffraethineb, "O ! na *ddywedech* lai, ac na *wnaech* fwy." Un felly oedd ef ei hun ;—un a ddywedai ychydig, ond a lafuriai lawer.

Ymosodai profedigaeth arno yn fynych, oblegid fod y *dull* y daethai ef at grefydd yn wahanol i'r rhan luosocaf o'i gydoeswyr. Daethent hwy yn mlaen dan argyhoeddiau llymion, dan deimladau cyffrous a chwerwon iawn ; a thrachefn, llenwid hwy â gorfoledd annhraethadwy a gogoneddus ; torid hwy i lawr ar unwaith oddiwrth eu hofer ymarweddiad, a'u hanfad arferion ! yntau a ddygwyd yn mlaen yn raddol bach, megys dan rym pwyll, ymresymiad, a barn ; nid oedd ganddo ef ddim arferion anfad, na phechodau gwarthus i'w gadael ; nid oedd chwaith wedi teimlo graddau anarferol o gysur a gorfoledd crefydd, er y teimlai, yn ddiau, dawelwch a mwynhad mewn treiddio i wybodaeth o'r ysgrythyrau, ac mewn ymarferiadau crefyddol. Yn raddol, pa

fodd bynag, cafodd oruchafiaeth ar yr ofnau hyn, gan benderfynu ynddo ei hun fod yr ysgrythyr yn ddigon eglur yn dadgan, "Ni chollir *pwy bynag* a gredo." Yn raddol hefyd, ciliodd drwg-dybiaeth ei frodyr am dano, gan y canfyddent ei fod, pa fath bynag oedd ei gychwyniad, yn dal ei ffordd ac yn chwanegu ei gryfder.

Yr oedd rhai o hen bobl grefyddol Brynengan yn ofni am dano hefyd, am ei fod yn ymyraeth graddau â barddoniaeth, cygystal â changhenau eraill o wybodaeth. Meddai un hen wraig dduwiol am dano, wrth adrodd helynt yr eglwys wrth ambell ŵr dyeithr, "Mae yma ryw fachgenyn o *brydydd* gyda ni, yr hwn, mae arnaf ofn, a wna y mawr ddrwg i'r achos." Ofnid yn fawr hefyd y byddai iddo ymgadarnhau mewn hunan a balchder, gan y gwelid yn eglur brofion ynddo o benderfyniad na chymerai ddim ar antur, ac megys o draddodiad, heb ymofyn drosto ei hun, ai gwirionedd ydoedd ai peidio. Bernid hyn gan yr hen bobl dda yn ormod o gryfder mewn dyn ieuanc, yn yr hwn, o herwydd oedran a lle, y dysgwylid mwy o ŵylder ac ymostyngiad. A da y gwyddom fod y llwybr yn bur gul, rhwng ymollyngiad caethwasaidd i opiniynau rhai eraill, ac ymlyniad tyn ac anhyblyg wrth yr eiddom ein hunain. Barnu yr ydym fod yr hen bobl yn canfod y perygl ar y naill law, ond heb ganfod y llall. Gofalodd yr Arglwydd am Richard Jones, pa fodd bynag, a chadwodd ef rhag mympwy pengryf ar y naill law, a rhag llacrwydd pen-chwiban ar y llaw arall.

Mewn ffordd o eglurhad ar y sylw uchod, adroddir am dano yr hanesyn a ganlyn:—Traethai rhyw offeiriad o'r Deheudir, pan yn pregethu yn Mrynengan, ar natur ffydd, a'r desgrifiad hwnw yn lled amheus. Eto, gan fod y bregeth, ar y cyfan, yn lled effeithiol ar dymherau y gwrandawyr, ni chaniateid i neb feio ar un rhan o honi. Cyfarfu yr hen wraig a nodwyd eisoes â Richard Jones yn mhen rhai dyddiau, a gofynai, "Onid pregeth ragorol a gawsom gan Mr. ——— ?"

"Ië," ebe yntau, "ond nid oeddwn yn gallu cydweled ag ef yn mhob peth a ddywedai."

"Pa beth a ddywedodd o'i le?" gofynai hithau.

"Yn fy marn i," ebai yntau, "ni ddywedai yn iawn am ffydd." Yna gosododd ei farn ei hun ar gyfer dywediad yr offeiriad. Synodd yr hen wraig at ei eondra—y meiddiai bachgen mor ieuanc dybied dim yn groes i'r offeiriad; ac ni esgeulusai adrodd, wrth bob pregethwr cyfrifol a ddeuai i'r lle, ei hofnau, pa faint o boen a rhwystr i'r achos a fyddai dyn ieuanc hunan-ddoeth o'r fath. O'r diwedd, daeth Mr. Charles ar ei daith i Frynengan, a mynegwyd iddo yntau yr hanes. Ar hyn gofynai Mr. Charles, pa beth oedd y pwnc mewn dadl, ac wedi deall y ddwy ochr, efe a ddywedodd, "Yn fy marn i, yr offeiriad oedd yn cyfeiliorni, a'r bachgen oedd yn ei le." Dystawodd yr hen wraig o hyny allan, eto yr oedd y chwedl wedi myned allan eisoes, yn ei gwedd gyntefig, a llawer fflangell a ddyoddefodd Richard Jones, gan bregethwyr ac eraill, a dderbyniasent yr achwyniad yn ei erbyn, heb ymofyn dim i'w gwirionedd.

Ond er maint y drwg dybiau a lochid ar y dechreu am dano, ac er amled y cernodiau a roddid iddo oddiar y drwg dybiau hyny, fe gafodd amynedd a barn i fod yn ddyoddefus, gan fod yn sicr ynddo ei hun nad oedd yn eu haeddu, ac mai oddiar amryfusedd a byrbwylldra yr oeddynt yn codi.

Yn y fl. 1794 y dechreuodd bregethu. Nid oedd hynodrwydd *deniadol* yn ei gychwyniad gweinidogaethol, mwy nag yn ei gychwyniad crefyddol, os nad oedd y ffaith o fod dawn trwsgl, a gwybodaeth helaeth, yn gosod hynodrwydd arno. O ran ei wybodaeth, ni cheid yn Nghymru nemawr un a lafuriodd fwy am dani, nac a gyrhaeddodd fwy o honi, na Richard Jones. Ac nid gwybodaeth yn unig a'i hynodai, ond yr oedd ei ddifrifwch a'i bwyll yr un mor hynod. Am ei ddawn gellir dyweyd ei bod hithau yn *hynod*—hynod am nad oedd neb cyffelyb iddo. Cyrhaeddodd ei wybodaeth, gan mwyaf, trwy lafur caled, ac ymroddiad penderfynol. Parai hyn fod cryn wreiddioldeb yn ei ddrychfeddyliau, a dull priodol iddo ei hun yn eu gosod hwy allan. Gellir ei ddynodi yn bregethwr "*afrwydd dyddorol.*" Mae rhai pregethwyr yn y gwrthwyneb yn *rhwydd* iawn eu hymadrodd, ond yn *annyddorol* iawn. Nid un felly oedd Richard Jones. Dychymygwyf ei weled yn ŵr tàl, main a lluniaidd, prydweddol ei berson, eto yn ddirodres iawn; yn lân, ond heb un gradd o wychder, yn sefyll o flaen y gynulleidfa. Tynai sylw yr holl wrandawyr;—araf y llefarai, a chryn lawer a besychai, eto ennillai sylw;—yr oedd ei arafwch yn argoeli ei fod yn drwm lwythog o fater;—yr oedd ei floesgni a'i gecian yn arwyddo mai anhawdd oedd cael ymadrodd rhwydd i osod allan y meddwl cryf. Yr oedd ei floesgni heb gethinwch ynddo, ac yn nghanol yr holl afrwyddineb i gyd, dysgleiriai syniadau coeth a phwysig. Pwysai ei wrandawyr ar ei wefusau; cadwai eu hastudrwydd yn ddyfal, a'u dysgwyliad yn effro; ac ar rai achlysuron, disgynai oddiwrtho, fel cenllif gref, ryw ffrwd o feddyliau cryfion, nes gorlenwi pob mynwes â syndod, a rhoddi llaweroedd mewn dagrau.

Treuliodd Richard Jones gryn lawer o'i amser i ysgrifenu, a bernir ei fod yn fwy o *ysgrifenwr* nag o *areithiwr*. Ysgrifenai yn fynych i'r "Goleuad," ac wedi hyny i'r "Drysorfa;" adnabyddid ef yn y rhan amlaf o'r ysgrifion hyn, o dan y ffugenw "*Cymro Gwyllt*:" a thynodd arno ei hun wrthwynebiad cryf oddiwrth un gŵr da, y gwnaethai sylwadau anghymeradwyol ar ei waith. Casglwyd yr ysgrifion hyn drachefn gyda chwanegiadau, a chyhoeddwyd hwy dan yr enw "Drych y Dadleuwr."

Cyfansoddodd hefyd gryn lawer o hymnau, crynodeb o ba rai a ymddangosodd trwy y wasg, yn llyfryn bychan. Yn ei holl weithion hyn, dangosai Richard Jones ei fod yn ŵr o gyneddfau cryfion, o olygiadau treiddgar, a thra gwrthwynebol i bob eithafion.

Yn y fl. 1832, dechreuodd ei iechyd adfeilio, eto anturiodd daith i sir Drefaldwyn yn yr haf, ac i'r Deheudir yn mis Hydref. Parhau yr oedd ei iechyd i anmharu, a pharhau yr oedd yntau, er hyny, i dreulio oriau meithion bob dydd, fel y byddai yn arfer cyn hyn, yn ei lyfrgell, ac erbyn Ionawr 1833, yr oedd ei wendid ymron wedi ei lwyr orchfygu, fel mai o'r braidd y

gallai adael ei ystafell wely; a chyn i Chwefror oerllyd derfynu, gorphenodd yntau ei daith ar y 26ain o'r mis, yn y fl. 1833, yn 60 ml. oed. Mae "coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig." *

O enaid bendigaid! dy ado raid im',
Ni fedraf fi briddyn, dy ddilyn di ddim!
Yn mreinlys gogoniant dy fwyniad sydd fad,
Yn rhydd uwch pob rhyfel :—Ffarwel, O fy nhad!
*Allan o alareb* Y Parch. Roger Edwards.

### Y PARCH. GRIFFITH SOLOMON.

Nid oes ond 13 ml. er pan ymadawodd y brawd uchod â'r fuchedd hon, pan nad oedd ond 66 ml. oed. Cof ydyw gan y darllenydd, ond odid, ddarfod i ni grybwyll mai gŵr o ardal Bryn-yr-odyn oedd Griffith Solomon, er mai nid yn yr ardal hòno yr oedd yn byw pan y dechreuodd bregethu. Ymddengys iddo brofi grym y gwirionedd yn arafu ei wylltineb pan oedd eto yn ieuanc, nid mwy nag 16eg oed, trwy weinidogaeth John Jones o Edeyrn.

Nid oes genym ryw amgylchiadau hynod yn oes y brawd hwn i'w crybwyll, a chan mai nid ysgrifenu cofiant ydyw ein gorchwyl priodol, nid oes genym ond dyweyd fod Griffith Solomon wedi gwneyd ei ran i hyrwyddo Methodistiaeth yn ei redfa, yn gyntaf trwy gadw ysgol mewn amrywiol ardaloedd, a thrachefn yn fwy cyhoeddus a chyffredinol trwy bregethu yr efengyl am fwy na 40 mlynedd. Yr oedd yn rhagori ar lawer o'i frodyr mewn medrusrwydd i ddarllen, ac mewn gweddusrwydd a phriodoldeb ei iaith wrth bregethu. Rhedai ei ddawn yn ei lafur cyhoeddus yn fwy mewn dull o esbonio ac eglurhau; ac yn hyn y tybid fod ei brif ragoriaeth. Dywedai y Parch. John Parry, Caer, am dano, "ei fod yn rhagori fel esboniwr ar y cyffredinolrwydd yn ei oes." Yr oedd deheurwydd a gweddusrwydd neillduol yn ei ymadroddion. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1836. Fe deithiodd y brawd hwn lawer ar Ogledd a Dehau; ac ar ei daith yr ydoedd, tua Merthyr-Tydfil, pan gymerwyd ef yn glaf o'r clefyd y bu efe farw o hono. Gyda llawer o anhawsdra y gallodd gyrhaeddyd ei gartref, ac ar y trydydd dydd ar ol iddo gyrhaedd ei dŷ ei hun, efe a fu farw.

### Y PARCH. JAMES HUGHES, LLEYN.

Y mae rhyw ddosbarth o ddynion, tra defnyddiol a pharchus yn eu dydd, ac yn ddynion cyhoeddus gyda gwaith yr Arglwydd, dynion yn teilyngu cael eu hefelychu gan y rhai a ddeuant ar eu hol, ac ar i'w coffadwriaeth barhau hyd genedlaethau pell, eto pan yr ymosodir ar y gorchwyl o ysgrifenu eu hanes, yr ydym yn teimlo nad oes genym nemawr i'w ddyweyd a fyddai yn ddyddorol i'r darllenydd. Cymhwys, mewn rhan, ydyw y sylwadau hyn

* Gwel Gofiant iddo, gan y Parch. John Jones, Tremadog.

gyda golwg ar y Parch. James Hughes o Leyn. Treuliodd oes o 73 o flynyddoedd, a 50 mlynedd o honynt mewn swydd gyhoeddus. Cerddodd ei lwybr yn hynod o ddiwyrni, a chadwodd ei ddillad yn hynod o lân, dros yr holl amser maith uchod; eto, er hyn i gyd, nid ydym yn cael dim tra hynod yn amgylchiadau ei oes, a fyddai yn deilwng o'i groniclo i genedlaethau dyfodol. Ni chrybwyllir dim hynod am ei droedigaeth; ni fu erioed yn hynod mewn annuwioldeb; a threuliodd ei oes drachefn mewn modd ag a'i gosodai yn uchel yn ymddiried a serchiadau ei frodyr; eto nid mewn modd ag i dynu sylw mawr. Yr oedd ei weinidogaeth yn iraidd a serchog; ei ystum a'i lais yn hawddgar; a'i iaith a'i fater yn hynod o ran cymhwysder diachwyn arnynt, eto nid i beri cyffro mawr.

Dywedasom nad oedd dim hynod yn ei droedigaeth. Gallasem ddyweyd, mae'n wir, fod moddion ei droedigaeth yn hynod am eu symledd a'u dirodresrwydd. Yr oedd James, pan yn fachgenyn, yn hoff, fel llawer o fechgyn eraill, o chwareu pêl, ac fe ddichon ei fod yn treulio mwy nag a ddylasai o amser gyda'r difyrwch hwn, a'i fryd wedi rhedeg yn ormodol arno, fel ag i ddisodli pethau gwell yn ei fynwes. Ar ryw nos Sabboth y pasg, aeth i wrando gŵr dyeithr yn pregethu yn nghapel Tŷ-mawr; a dygwyddodd fod y bêl yn ei boced. Cyfeiriai y pregethwr at arferiadau yr oes, a'r campau ofer a gynelid ar y Sabboth, ac yn eu mysg crybwyllodd chwareu pêl, gan ychwanegu mewn dull cyfeiriol at ei wrandawyr, "Fe allai fod y bêl yn dy boced di yn awr erbyn y fory." Teimlodd James yr ymadrodd cyfeiriol hwn yn ddwys;—daliwyd ef megys â gwŷs; a dywedai ei gydwybod wrtho, "Tydi yw y gŵr." Nid oedd ar y pryd ond 14 ml. oed, ond o hyny allan rhoes heibio oferedd ieuenctid; ymunodd yn fuan ag eglwys Dduw; a bu yn aelod hardd ynddi am yr ysbaid maith o 60 ml., ac yn weinidog defnyddiol a pharchus ynddi am 50 ml.

Yr oedd yn ŵr o faintioli cyffredin, yn tueddu at fod yn gorffol. Yr oedd gwedd drwsiadus arno, a'i agwedd yn foneddigaidd, heb ddim coegni; yn weddus odiaeth, ond heb ddim rhodresgar. Yr oedd flynyddoedd yn ol wedi teithio graddau ar Ddê a Gogledd, eto Lleyn oedd prif faes ei lafur. Gosodasai rhagluniaeth ef mewn parth o'r wlad nad oedd dramwyfa fanteisiol i ddyeithriaid wrth deithio o'r naill wlad i'r llall, ac mewn dosbarth lled anaml ei phregethwyr; parai hyn iddo ymroddi yn llwyrach i wasanaethu ei fro ei hun, hwyrach nag a wnaethai, pe gosodasid ef mewn amgylchiadau gwahanol. Hunodd yn yr Iesu, Hydref 12fed, 1851, yn 73 ml. oed, gan adael coffadwriaeth beraroglaidd ar ei ol.

Mae tair oes ymron, bellach, o bregethwyr sir Gaernarfon wedi cilio o'r golwg. Yr oes gyntaf oedd Charles Marc, Hugh Griffith, a'u cydlafurwyr; yr ail oes, Robert Jones, Thomas Evans, Waunfawr, a'u cydoeswyr hwythau; a'r drydedd oes oedd yr un y llafuriai James Hughes, a Daniel Jones ynddi. Y mae un neu ddau eto yn aros o'r oes hon heb eu cymeryd ymaith, ond ni ellir dysgwyl y ceir hwythau yn hir. Da i ni wrth feddwl am ein blaenoriaid,

y rhai a draethasant i ni air Duw, ac edrych ar ddiwedd eu hymarweddiad, gofio fod "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

### MR. JOHN HUXLEY.

Ychydig a gafodd Cymru fwynhau o weinidogaeth y gŵr hwn. Maes ei lafur ymron yn hollol oedd Caernarfon a'i chyffiniau. Nid ydym yn deall iddo fyned oddicartref ar gyhoeddiad i siroedd eraill erioed, oddieithr unwaith, a hyny er ys agos i 40 ml. yn ol. Ganesid ef yn Liverpool, ac yr oedd yn Sais perffaith hyd nes y daeth i ardal Caernarfon i fyw, yr hyn a fu pan oedd yn fachgenyn ieuainc. Fe fu Mr. Huxley yn pregethu o 39 i 40 mlynedd. Yr oedd iddo gymeriad uchel fel dyn call a synwyrol, ac o chwaeth goethedig. Cawsai ddysgeidiaeth helaeth yn moreu ei oes, a pharhaodd i fod yn ddarllenwr mawr hyd ei diwedd. Teimlai ei hun gartref mewn hanesyddiaeth, pa un bynag ai gwladol ai eglwysig, a bernid nad oedd nemawr un i'w gael yn mysg y Cymry yn fwy cyfarwydd nag ef yn hyn.

Yr oedd yn bregethwr melus odiaeth. Yn Llanrug, lle y dechreuasai bregethu, a lle y pregethai efe amlaf, yr oedd ei wrandawyr luosocaf. Ni byddai un amser yn faith yn traddodi ei bregeth, ond yn lled fyr, ac yn hynod o ddifyrus i'w wrando. Yr oedd ganddo lais peraidd, ac agwedd foneddigaidd, a chan ei fod yn ŵr call, ac yn meddu ar ystôr helaeth o faterion, yr oedd yn gallu sicrhau astudrwydd yn ei wrandawyr. Bu yn ffyddlawn iawn gyda'r ysgol Sabbothol, ac yn mhob moddion cartrefol eraill. Nid oedd yn ddarostyngedig i dymherau cyfnewidiol cymaint a llawer un, ond yn bwyllog a phenderfynol; hawdd oedd ei ennill trwy diriondeb, ond anhawdd oedd ei blygu trwy orthrech. Parchus iawn ydoedd fel dyn ac fel dinesydd. Bu farw mewn tangnefedd Gorph. 8fed, 1846, yn 76 ml. oed.

### YNYS-ENLLI.

Mae yr ynys hon yn fwy adnabyddus i'r morwyr nag ydyw i breswylwyr Cymru yn gyffredinol. Angenrheidiol ydyw i'r morwr ei hadnabod, gan y perygl sydd o daro arni, a chan y goleuni sydd arni i'w rybuddio i gadw draw oddiwrthi. Nid rhyfedd ei bod yn ddisylw gan breswylwyr y tir, gan mor fechan ydyw o ran maintioli, a chan lleied o drafodaeth sydd rhyngddi â'r byd. Eto, er lleied ydyw, y mae yr efengyl wedi gweithio ei ffordd iddi, ac wedi cynyrchu effeithiau priodol iddi ei hunan ynddi.

Nifer preswylwyr yr ynys hon yw, o 80 i 100. Cyfansoddir hwy o 12 teulu yn dal tyddynod, neu yn trin ychydig o dir, 2 deulu heb dir, a 2 eraill yn perthyn i'r goleudŷ *(lighthouse)*: 16 o deuluoedd yw y cwbl sydd yn y *deyrnas* hon. Meddiennir y tir gan Lord Newborough, a llywodraethir yr ynys gan un a elwir yn frenin. Nid oes ynddi na degwm na threth o un math. Nid oes ynddi chwaith na siop na thafarn, na dim ond un crefftwr o'i mewn, a hwnw yn asiedydd *(joiner)*. Tybir y bu yma fonachlog er ys llawer dydd,

ac ar y llanerch y tybir ei bod yn sefyll gynt, y mae yn sefyll ryw hen glochdŷ. Yn gysylltiedig â hwn y mae claddfa y meirw, lle a ddefnyddid i'r un dyben yn yr oesoedd gynt. Mae culfor terfysglyd o ddwy filldir ar ei draws, mwy neu lai, yn gwahanu yr ynys oddiwrth bentir Lleyn; a chan arwed ydyw y culfor hwn, fe fydd trigolion Enlli, dros hir amser, ar ryw dymhorau, heb ymweled unwaith â'r lan draw, ac heb weled neb ond y cymydogion trigiannol.

Fe fu yr ynys hon am oesoedd heb ddim moddion gras o'i mewn. Nid oes un eglwys blwyfol ynddi, a hyd o fewn 30 ml. yn ol, nid oedd achos crefyddol sefydlog o'i mewn gan neb. Gwir y byddai ambell un yn achlysurol yn myned drosodd i bregethu cyn hyny, ond nid oedd hyny wedi esgor ar ddim parhaus a sefydlog, hyd o fewn yr amser a nodwyd.

Y mae yma yn awr weinidog yr efengyl yn aneddu yn yr ynys, yr hwn sydd, bellach, er ys blynyddau lawer, yn arfer cyfranu gair y bywyd i'r trigolion amddifaid, gyda llawer o ffyddlondeb a derbyniad. Ar y dechreu, nid oedd ond dau grefyddwr o fewn yr ynys, sef Robert Williams, y pregethwr cybwylledig, ac un gŵr arall, a fuasai unwaith yn perthyn i'r Wesleyaid.

Yn y fl. 1819, yn amser adfywiad crefyddol yn Lleyn, aeth trosodd luaws o frodyr, y naill yn niffyg y lleill, o Aberdaron, i gynal cyfarfodydd gweddio yn Enlli, a thorodd adfywiad grymus iawn allan yn mhlith y brodorion, nes oedd yr holl ynys mewn cyffro. Yn ystod yr adfywiad hwn, chwanegwyd at y ddau frawd a enwyd, tuag ugain o rifedi o newydd. Gellid meddwl fod y rhan fwyaf o'r trigolion mewn oed wedi ymuno â hwy y pryd hwn. Lleihaodd y nifer eilwaith; bu rai feirw, ac ymfudodd amryw eraill i America, nes dwyn nifer y crefyddwyr drachefn i ddau, sef Robert Williams, a'i wraig. Ond er lleied oedd y nifer, fe farnai y ddau oedd yn ngweddill, mai eu lle oedd cadw cwrdd eglwysig yr un modd a chynt, pan yr oedd eu nifer yn amlach. Felly y ddau a aent, bob nos Wener, i'r capel bychan, gan gynal y moddion fel arferol; a hyn a wnaent am bedair blynedd a hanner. Drachefn, lluosogodd y nifer i ddeuddeg, ond yn y flwyddyn 1851, yr oeddynt trwy ymadawiad o'r ynys, a thrwy farwolaeth, wedi eu lleihau i ddeg.

Mae Robert Williams wedi bod yn pregethu i'r trigolion er ys mwy na 22 o flynyddau. Mae ysgol Sabbothol wedi ei sefydlu ynddi yn cynwys 60 o rifedi, ac felly y mae pawb yn y wlad hon yn ddeiliaid yr ysgol Sabbothol, oddigerth ychydig nifer o rai hen, neu y rhai a fydd yn gorfod bod yn absenol. Fe ddaw yr holl ynys yn nghyd ar y Sabboth i wrando gair Duw. Fe ofynwyd unwaith i Robert Williams gan ryw foneddigion a ddaethent drosodd i edrych yr ynys, ai nid dymunol fyddai adeiladu llan, a chael offeiriad i weinyddu ynddi? Yr ateb a roes yntau oedd, nad âi neb o'r trigolion i'r llan, oni fyddai y gweinidog yn ddyn duwiol, ac yn pregethu'r efengyl. Os byddai felly, na fyddai dim gwrthwynebiad ganddynt fyned i'r llan, ond nid i esgeuluso y capel.

Fe fydd ambell ŵr dyeithr yn myned drosodd i bregethu pan fydd cyfleusdra i hyny, a'r tywydd yn caniatâu. A phan y bydd pregethwr yn ewyllysio

myned trosodd, cyneuir tân ar dir Aberdaron, ar gyfer Enlli, yn arwydd o hyny, a chyda phob parodrwydd fe ddaw rhyw rai o'r preswylwyr drosodd mewn cwch i'w gyrchu, a'i anfon yn ol yr un modd. Gellir casglu yr holl ynys i wrando mewn ychydig fynydau. Tua deg mynyd sydd yn ddigon i roddi hysbysiad i'r holl drigolion o ddyfodiad pregethwr.

Pan ddygwyddo priodas yn yr ynys, yr hyn sydd yn lled anfynych, rhaid i'r pleidiau ddyfod trosodd i Aberdaron i hyny, ond fe fydd Robert Williams yn arfer claddu y meirw, a bedyddio plant yr aelodau crefyddol.

Ni welir un amser ddyn meddw yn yr holl deyrnas.

## CAPEL DINAS, NEU Y LON-FUDR.

Dylasai hanes y lle hwn fod wedi ei gyfleu yn llawer cynarach yn y gwaith hwn, pe buasai mewn llaw mewn pryd; ond er diweddared ydyw, ni ddylid ei adael allan. Dywed fy ngohebydd am y gymydogaeth hon, fel hyn: "Fe'm hysbyswyd gan hen ŵr a fu farw yn y fl. 1847, yr hwn oedd ar y pryd dros 100 ml. oed, ei fod ef wedi clywed fod yma bregethu gan y Methodistiaid flynyddoedd amryw cyn ei eni. Dywedai mai un Richard Lewis o Fadryn, ail ŵr i Siân Lewis,* o'r un lle, oedd yr hwn a arolygai y gymdeithas eglwysig yma, y pryd yr oedd ef tua 14 ml. oed, sef tua 90 o flynyddoedd yn ol."

Nid yw hysbys pwy a fu yma yn pregethu gyntaf; ond y *lle* yr arferid cynal moddion, dros ryw dymhor yn y dechreuad, oedd yn yr awyr agored ar y Rhos-ddu. Yn mhen enyd o amser, daeth amryw dai yn agored i dderbyn pregethu, bob un yn ei dro. Y tŷ cyntaf y pregethwyd ynddo oedd Madryn, sef y palas a breswylir yn awr gan Lieut. Gen. Syr Love P. J. Parry. Lle arall yr arferid ymgynull ynddo oedd Brynodol. Ymddengys fod yma gryn gyrchu i wrando, ar ryw achlysuron; cymaint felly ag i dynu sylw dynion wrth fyned heibio. Yr oedd person Tydweiliog yn teimlo yn dra chyffrous wrth weled y niferi pobl yn myned heibio y llan, i'r tŷ uchod i wrando, a dywedai wrth y clochydd mewn nwyd wyllt, "Tincia, Tincia, Siôn;" ond yr ateb a roddai Siôn iddo, oedd, "Tinciwyf fi a allwyf, i gwch Brynodol y myn yr haid fyn'd i ddisgyn!" Yr oedd gwraig foneddig yn byw yn Cefnamwlch y pryd hwnw, a gawsai flas ar yr efengyl, ac er mwyn cael diogelwch i addoli, mynodd gofrestru tŷ, o'r enw Nant-yr-hen-lyn-uchaf, i bregethu ynddo. Nid oedd ei gŵr yn foddlawn iddi fyned i'r fath le, a mynych y clybuwyd ef yn dyweyd, ar ei gwaith yn myned yno, "Dacw y gigfran dd—l yn myn'd eto i'w nyth." Aeth hyn yn acen yn y gymydogaeth, ac yn y canlyniad, galwyd y lle hyd heddyw, "*Nyth-y-gigfran!*" Y prif le, pa fodd bynag, yr arferid ymgynull ynddo, oedd amaethdŷ a elwir y LON-FUDR, lle y preswyliai un Robert Owen, calon yr hwn oedd yn berwi gan awydd "i wneuthur daioni i Dduw a'i dŷ." Wedi i'r achos fyned i mewn i dŷ y gŵr hwn, fe gartrefodd yno dros flynyddoedd lawer, ac hyd nes yr adeiladwyd y

* Gwel hanes ei throedigaeth, Cyf. I., tudal. 319.

capel, yr hwn a elwir Capel Dinas, yn y fl. 1794. Mae craig gerllaw, yn cael ei galw Careg-dinas, o'r hon y cafwyd cerig i adeiladu, ac ar enw yr hon y galwyd y capel. Codwyd ef o fewn ychydig latheni i'r Lon-fudr, a helaethwyd ac adgyweiriwyd ef yn y fl. 1831. Yn y Lon-fudr, ynghyda'r Tŷ-mawr yn Mryncroes, cynelid cyrddau misol cyntefig y Methodistiaid yn sir Gaernarfon; a llawer Cristion cywir ac aiddgar a deithiai 30 o filldiroedd, o eithaf Arfon, ar foreuau Sabboth, â thamaid o fara a chaws yn ei logell, i wrando *un* bregeth yn y lleoedd hyn!

Y Robert Owen hwn, a Richard Lewis o Fadryn, oedd y dynion cyntaf a alwyd i swydd diaconiaid yn yr eglwys hon. Ennillasant iddynt eu hunain radd dda, a dylanwad helaeth yn mysg y rhai a'u hadwaenent oreu. Brawd i wraig Robert Owen oedd yr hen bregethwr y sonia Robert Jones am dano fel un a fuasai farw cyn iddo ef ei weled, sef Evan Roberts, Pen-y-graig. Yr oedd y gŵr hwn yn un o'r Methodistiaid cyntaf yn Lleyn; ac fel y byddai arferol, y pryd hwnw, aeth yn dipyn o gynghorwr bach, ymron yn ddiarwybod iddo ei hun. Yn y fan wedi ei ddyfod yn Gristion, a chyda ei fod yn adnabod gradd ar ffordd y bywyd ei hunan, efe a ymroddai i fynegu ffordd iachawdwriaeth i eraill. Yr oedd dros ryw dymhor fel seren foreu eglur, a chan faint ei eiddigedd yn erbyn pechod, a'i sel yn ngwasanaeth ei Arglwydd, bu raid iddo fyned "trwy ymdrech mawr o helbulon." Yn ei dymhor ef yr oedd yr ymosodiad ar ymneillduwyr yn ffyrnig iawn, a mawrion a bychain, gwreng a boneddig, wedi gosod eu bryd i fynu eu broydd yn lân oddiwrth y pla dyeithr a ddaethai i'r tir. Y moddion a farnent fwyaf effeithiol i gael yr ymwared, oedd anfon y rhai a flaenorent yn yr achos allan o'r wlad; a chan fod ar ei fawrhydi y brenin eisiau milwyr ar y pryd, tybid yr atebai ddau ddyben anfon cynghorwyr y Methodistiaid yn sawdwyr; felly cryfheid y fyddin, a llethid ymneillduaeth hefyd. Gwnaed cais teg i ddal Evan Roberts, fel y gwnaed â Morgan Griffith,* ac fel y ceisiwyd gwneyd â Hugh Thomas,† i'r dyben i'w anfon o'r wlad, a'r hyn oedd yn fwy annaturiol na'r cwbl, nid oedd neb o'i elynion yn fwy egniol yn y gorchwyl na'i frawd naturiol ei hun. Y brawd hwn oedd y dyhiryn y soniasom fwy nag unwaith am dano, sef Harri Roberts, neu fel y gelwid ef fynychaf, "*Harri Deneu:*"—gŵr a gyflogid gan elynion crefydd i erlid dysgyblion Mab Duw. Er mwyn dangos ei aidd a'i ffyddlondeb yn ei wasanaeth, yr oedd wedi gosod ei fryd ar ddal ei frawd, a'i aberthu i gynddaredd yr erlidwyr. I osgoi y bradwr annaturiol hwn, rhaid fu arno fyned, bob boreu, yn blygeiniol iawn, o'i dŷ ei hun, i fynydd Cefnamwlch i ymguddio, yr hwn fynydd oedd ar y pryd yn llawn eithin mawrion. Unwaith, pan ddaeth Harri i dŷ ei frawd i'w ddal, mewn llawn hyder ei fod o fewn y muriau, ac nad oedd modd iddo ddianc o'i grafangau, cyfarchodd gwraig y tŷ ef mewn modd dwys-ddifrifol: "Pa beth o ddifrif, Harri, a ddywed dy gydwybod wrthyt, tra y deui yma ar y fath neges?" "Beth bynag a ddywed," atebai Harri, "mi a'i trechaf yn awr er ei gwaethaf." A threchu ei

* Gwel tudal. 129. † Tudal. 134.

gydwybod a wnaeth, ond ei wrthddrych nis cafodd. Yr oedd bryn eithinog Cefnamwlch yn ei lochi. Ac nid hir y bu raid i'r Cristion diniwaid wrth y loches hon, oblegid "Duw a'i cymerodd ef" ato ei hun; bu farw mewn tangnefedd; aeth ei gorff i'r lle y mae yr "annuwiolion wedi peidio â'u cyffro, a lle y gorphwys y rhai lluddedig," ond ei enaid a "gymerwyd gan angylion i fynwes Abraham." Yn y fl. 1760 y bu hyn. Am Harri ei frawd, er ffyddloned y gwasanaethodd ei feistr, ni chafodd nemawr wobr; bu farw yn druenus mewn lle a elwir Betris, gerllaw palas Nanhoron.

Yr oedd Evan Robert yn ŵr o synwyr; o dymher bwyllog; yn ddrych i'r byd am gysondeb ei grefydd; a thra chymeradwy yn mysg lluaws ei frodyr; un a geisiai ddaioni i'w genedl, ac a ddymunai heddwch Jerusalem. Mae rhai o'i hiliogaeth eto ar gael, ac yn rhodio yn llwybrau eu hynafiad.

Un o'r ardal hon hefyd oedd Hugh Thomas,* am yr hwn y soniasom o'r blaen, ac mewn cysylltiad â'r eglwys hon y treuliodd ei oes grefyddol ar ei hyd. Yn mlynyddoedd olaf ei oes, preswyliai mewn tyddyn o'r enw Cil-llidiart, ar y Rhos-ddu; ond cyn iddo ehedeg ymaith o'r byd, bu fyw dros enyd dan gronglwyd Siarl Marc, lle y mynodd fyned wedi colli ei wraig.

Yma hefyd y treuliodd Richard Dafydd † ran o'i oes, er mai brodor o Eifionydd ydoedd. Gŵr tyner ac ofnus iawn oedd hwn. Yr oedd i raddau mawr mewn caethiwed o herwydd ofn marwolaeth. Unwaith, pan ar ei daith yn Môn, mynegwyd iddo fod un o'i frodyr, yr hwn a ymfudasai yno o Leyn, wedi marw; cafodd y newydd y fath effaith arno, fel na fu un diwrnod yn iach o hyny allan, er iddo fyw rai blynyddoedd.

Bu dyfodiad Robert Jones i'r Tŷ-bwlcyn, gerllaw Dinas, fel bywyd o feirw i'r achos crefyddol. Ar ol ei ymadawiad, daeth y Parch. Robert Owen, gynt o Nefyn, i gartrefu yma dros enyd; ond wedi iddo ef ymadael yn y fl. 1826, fe fu yr eglwys hon yn amddifad o un pregethwr hyd y fl. 1842, pryd y daeth y Parch. Moses Jones i breswylio i'r gymydogaeth; yntau hefyd a symudodd i fro arall nid yn mhell, ac yn awr y mae yn cartrefu yn y lle bregethwr arall o'r enw Mr. Evan Hughes.

Nid oes hanes, medd fy ngohebydd, am ddim nodedig yn offeiriaid y plwyf hwn, er yr amser y sefydlwyd llan y plwyf gan Iestyn, tua'r fl. 565, hyd y dydd hwn. Nid oes llawer o gwyno wedi bod am unrhyw wrthwynebiad atgas o'r eiddynt at ymneillduaeth ar ei ddyfodiad i'r plwyf, ac nid oes llawer o son am gymaint ag un y gellir meddwl ei fod yn efengylaidd ei bregethau, ac yn fucheddol ei rodiad. Rhaid addef, ar yr un pryd, y bu yma un a elwid yn gyffredin "Hughes fawr," yr hwn, meddir, a bregethai yn dda a grymus, nes tynu llawer i'w wrando, a cheid y gwrandawyr, yn fynych, yn wylo y dagrau yn hidl; eto i'r dafarn yr ymlithrai hwn ar ol y gwasanaeth, a rhwng yfed yn Tŷ'n-llan, ac arolygu y chwareu a fyddai ar barwydydd yr eglwys, nid ymadawai o'r lle hyd fachlud haul.

Dywedir fod yma lawer o loches yn cael ei roddi i ddiotta a meddwdod yn

* Gwel tudal. 134, Cyf. II. † Tudal. 162.

y blynyddoedd hyny, ac fe allai y codai y gwrthwynebiad a ddangosid i Fethodistiaeth ymsefydlu yn y fro, oddiar yr elw a dderbyniai rhai, a'r pleser a fwynhäai y lleill, yn y campau a gynelid yma. Deallid yn dda hefyd, os Methodistiaeth a ymsefydlai yn yr ardal, y byddai ymosodiad egniol yn cael ei wneyd ar y diotta yn y lle, a'r holl lygredigaethau cysylltiedig. Y pryd hwnw, yr oedd yma chwech o dafarndai; yn awr, nid oes cymaint ag un. Yn lle un y mae beudŷ,—trowyd un arall yn weithdŷ saer,—ac arall yn weithdŷ crydd,—y trydydd yn ardd gauedig,—a'r ddau eraill yn dai anedd i dyddynwyr bychain.

Fe fu yma amryw o adfywiadau grymus o bryd i bryd. Sonir yn neillduol am yr un a gymerodd le yn y fl. 1762, dros lawer o barthau Deheudir a Gwynedd, ac a roes chwanegiad rhyfeddol at rifedi y Methodistiaid trwy yr holl dalaeth. Y pryd hwn, disgynodd graddau helaeth o'r gafod gynyrchiol ar y Lon-fudr; parhaodd y gorfoledd yn y lle, ar un achlysur, yn ddidor am dridiau a theirnos. Clywid sain cân a moliant ymron yn mhob oedfa y pryd hwnw, a llawer a ddychwelwyd yn ddiau at yr Arglwydd. Cafwyd ymweliad drachefn yn y fl. 1785, a dywedir y bu ymweliad Mr. Charles o'r Bala â'r wlad y pryd hyn, sef y daith gyntaf iddo ar ol ymuno â'r Methodistiaid, yn foddion neillduol i gynyrchu yr adfywiad hwn. Parodd y cyffelyb adfywiad yn y fl. 1818, ychwanegiad mawr drachefn at yr aelodau, nid yn unig yn y lle hwn, ond hefyd drwy yr holl wlad. Gwnaeth yr Arglwydd bethau mawrion drachefn yn y fl. 1832, a chafwyd defnynau eilwaith yn y fl. 1840. Gan i ni draethu yn ehelaeth eisoes ar y diwygiadau hyn, fel moddion arbenig o gynydd Methodistiaeth, afreidiol, yn awr, a fyddai i ni helaethu, ond cyfeirio y darllenydd at yr hyn a ddywedwyd o'r blaen.*

---

Wrth adael sir Gaernarfon, fe wel y darllenydd fod yr hanes wedi ymestyn i gryn helaethrwydd,—mwy, mae'n debyg, nag a oddef ein gofod i nemawr sir arall. Ond er cymeryd y rhyddid hwn, y mae yr ysgrifenydd wedi gorfod cwtogi a chrynhoi cryn lawer, ac y mae yn argyhoeddedig fod yn perthyn i Fethodistiaeth y sir hon hanesion dyddorol lawer eto heb eu casglu; personau tra defnyddiol yn eu hoes, heb gymaint a chrybwylliad am danynt; a lliaws o amgylchiadau teilwng o'u croniclo i'r oesoedd dyfodol, heb eu casglu. Fel y dywedwyd wrth ddechreu traethu ei hanes, fod y sir hon o faintioli helaeth, a bod Methodistiaeth wedi dechreu ynddi yn foreu, wedi ymwreiddio ynddi yn ddwfn, ac ymledaenu drosti oll; fod y pregethwyr a godasant ac a lafuriasant ynddi yn lluosog o nifer, a llawer o honynt yn enwog eu defnyddioldeb; ac hefyd, bod yr amgylchiadau a gymerasant le yn nghychwyniad a chynydd yr achos, o'r fath hynodrwydd, ag y buasai yn resyni eu celu :—yr ystyriaethau hyn a'r cyffelyb a ogwyddasant yr ysgrifenydd i roddi mwy o le i hanes y sir hon nag a fydd ganddo i un sir arall, heb iddo chwyddo y gwaith i faintioli mwy nag a fyddai yn ddymunol ganddo ei hun a'r darllenydd.

* Cyf. I., tudal. 246-74.

# PRIF LINELLAU HANES METHODISTIAETH SIR BENFRO.

## PENNOD X.

### GWEDD GYCHWYNOL METHODISTIAETH YN Y SIR.

CYNWYSIAD:—

CYD-GYCHWYNIAD HOWEL DAVIES, HOWEL HARRIS, A DANIEL ROWLANDS—HARRIS YN SIR BENFRO YN Y FL. 1739—GWEDD YR ACHOS YN Y FL. 1742 AC YN MLAEN—ADRODDIAD WILLIAM RICHARD—YR HEN GYNGHORWYR—ARFERION AC OFERGOELION Y WLAD.

MEWN rhan flaenorol o'r gwaith hwn, dangosasom fod Methodistiaeth wedi dechreu yn y sir hon tua'r un amser ag y dechreuodd yn siroedd Aberteifi a Brycheiniog. Yr oedd y Parch. Howel Davies, yr hwn a olygir fel tad Methodistiaeth y wlad hon, yn dechreu cyffroi ei gydwladwyr cysglyd, trwy ei weinidogaeth efengylaidd a grymus, tua'r un amser ag y gwnai Rowlands hyny yn Llangeitho, neu Howel Harris, y lleŷgwr, hyny yn ardaloedd Trefecca. A pheth sydd hynod ydyw, fod y tri hyn yn Nghymru, yn gystal a Whitfield a Wesley yn Lloegr, ac ar yr un pryd, yn gwneyd yr un peth, a hyny heb yn wybod i'w gilydd. Prawf teg, tybygid, eu bod dan ddylanwad yr un meddwl, wedi eu gwresogi gan yr un tân, ac wedi eu bedyddio â'r un a'r unrhyw Ysbryd.

Am yr ychydig hanes a allem roddi am y Parch. Howel Davies, ni a gyfeiriwn y darllenydd at ran arall o'r gwaith hwn.* Gan fod "gair yr Arglwydd wedi ei gau o fewn ei esgyrn ef," ni allai ymattal heb ei draethu, a hyny gyda goleuni a grym priodol i'r gwirionedd, er maint y cyffro a barai yn mysg y lleygion, a'r gwrthwynebiad a barai yn mhlith y clerigwyr. Ai yr apostol hwn, gan hyny, i bob eglwys yn y wlad, agored i'w dderbyn, ac adroddai "eiriau gwirionedd a sobrwydd," mewn difrifwch a dwysder mawr, nes i lawer dybied mai "ynfydu yr oedd." Ond fe ddug yr Ysbryd Glân dystiolaeth i'w lafur, nes oedd lluaws mawr o ddynion yn cael eu deffroi yn achos eu heneidiau yn ngwahanol barthau o'r wlad. Ac wedi iddo gael fod yr eglwysi yn gauedig rhagddo—wedi iddo fyned yn elyn i'r clerigwyr, yn unig trwy ddyweyd y gwir, "ni phetrusodd draethu holl eiriau y fuchedd hon," mewn lleoedd anghysegredig; gan benderfynu mai ei ddyledswydd oedd ufyddhau i Dduw, trwy wneuthur felly, yn hytrach nag ufyddhau i ddynion trwy beidio.

Nid oes eithaf sicrwydd pa faint o amser a fu cyn i'r gwŷr a enwyd ddyfod yn gydnabyddus â'u gilydd. Yn y fl. 1739, tua thair blynedd ar ol i Howel Harris ddechreu pregethu i'w gymydogion, y mae yn son am Mr. Rowlands, ac am y cyffro a barai ei weinidogaeth yn sir Aberteifi; ond nid yw yn ymddangos eu bod, y pryd hwnw, yn gydnabyddus â'u gilydd, oddieithr yn unig trwy glywed son. Y mae yn hysbys hefyd nad oedd llafur a

* Cyf. I., tudal. 80.

llwyddiant Mr. Davies ddim yn guddiedig oddiwrtho, gan y dywed yn ei ddyddlyfr, fod dau neu dri eraill, heblaw Mr. Rowlands, "o weinidogion ieuainc yn eglwys Loegr, wedi cael eu galw," meddai, "i bregethu'r efengyl yn yr un modd a minau."

Mae lle i feddwl hefyd ddarfod i Harris ymweled â sir Benfro mor foreu a'r fl. 1739. Yn nechreu y flwyddyn hon yr ymwelodd ef â Gwynedd y tro cyntaf; a chan nad aeth y tro hwn ddim pellach na'r Bala, ni threuliodd yn y Gogledd ond ychydig amser, ond "mi aethum," meddai ef ei hun, "yn mlaen o sir Drefaldwyn, trwy *siroedd deheuol* Cymru, hyd nes im' ddyfod i Gaerdydd." Dyma'r pryd y cyfarfu ef â Whitfield gyntaf, oddiwrth yr hwn y derbyniasai lythyr flwyddyn yn ol, sef Ionawr 1738, "yn ei galonogi i fyned yn mlaen yn hyderus yn y gwaith." Mae yr hanes sydd genyf o Dŷ Ddewi, hefyd, yn awgrymu mai oddeutu y fl. 1739 y daethai Harris i'r dref hòno. Yr ydym yn tueddu i edrych ar yr ysgogiadau hyn, mewn gwahanol barthau, fel *cychwyniad Methodistiaeth*, er mewn gwirionedd mai yn mysg aelodau a gweinidogion eglwys Loegr yr oeddynt yn bod, ac er nad oedd eto un dychymyg i ffurfio cyfundeb ar wahan oddiwrthi. Eto, er hyn oll, priodol, tybygywf, ydyw priodoli cychwyniad Methodistiaeth Cymru i'r adeg foreuol hon, gan fod yr ysgogiadau cychwynol hyn yn cynwys *elfenau hanfodol ymneillduaeth*, y rhai, oddieithr eu llethu yn llwyr, neu eu lliniaru yn fawr, a gynyrchent ymneillduaeth gweithredol; ac hefyd, gan fod arwyddion lled benderfynol wedi ymddangos eisoes yn yr eglwys wladol ei hun, na oddefid y fath afreolaeth a Methodistiaeth o fewn ei ffiniau hi. Nid oedd eto chwaith ddim-cydweithrediad ffurfiol rhwng y tadau hyn â'u gilydd. Yr oedd Harris yn un cwr, Rowlands yn y cwr arall, a Davies yn y trydydd; pob un yn gweithio wrtho ei hun, heb un cysylltiad amlwg a ffurfiol rhyngddynt â'u gilydd; a pha faint bynag o gymdeithas a gawsant yn bersonol â'u gilydd yn y cyfamser, amlwg ydyw ddarfod i chwe' blynedd gyflawn fyned heibio, o'r cychwyniad cyntaf, cyn i un ymgorfforiad penodol gymeryd lle rhyngddynt.*

Tua'r fl. 1742, yr oedd cryn nifer o ddynion wedi eu dychwelyd trwy lafur y tadau hyn, mewn llawer parth o'r wlad, ac yn eu mysg yr oedd llawer o wŷr yn meddu ar gymhwysderau, mewn gwybodaeth a doniau, i ddysgu eu cyd-ddynion yn mhethau bywyd tragwyddol. Yr oedd hyn yn bod yn amryw lanerchi o'r sir hon; ac yn y fl. 1743, Mehefin yr 8fed, cynaliwyd cymdeithasfa fisol yn y wlad, mewn lle a elwir y *Long-house*. Yr oedd y Peirch. D. Rowlands, a H. Davies, yn bresenol, yn nghyda Howel Harris fel arolygwr cyffredinol yr ysgogiad Methodistaidd trwy Gymru. Yn y gymdeithasfa hon, cytunwyd, ar dri o wŷr i fod yn arolygwyr y gwahanol gymdeithasau eglwysig a ffurfiasid yn y sir. Yn gyntaf, "*Cytunwyd*, fod y brawd *William Richard* i fod yn arolygwr y cymdeithasau ar lân y môr hyd Dŷ Ddewi, yn nghyda'r cymdeithasau yn sir Aberteifi hyd Blaenporth."

* Gwel Cyf. I., tudal. 158.

2. "*Cytunwyd*, fod y brawd *Thomas Meyler* yn arolygwr y cymdeithasau yn Weschurch, Trewman, Morfil, a Llys-y-fran."

3. "*Cytunwyd*, fod y brawd *John Harris* i fod yn arolygwr y cymdeithasau yn Llawhaden, Llandystilio, Llanbeston, Prendergast, Jefferson, Carew, a Threfaughan wrth Whiteland."

Cytunwyd hefyd yn yr un cyfarfod i'r brodyr John Lloyd a Thomas John, fod yn gynorthwywyr i William Richard, ar brawf—ac i John Morris, a George Bowen, gynorthwyo Thomas Meyler, yr un modd; ac i John Harris gael ei gynorthwyo gan George Gambold a John Jones.*

Yr oedd saith o gymdeithasau eglwysig dan ofal William Richard a'i gynorthwywyr yn sir Benfro; sef *Llwyn-y-grawys ac Eglwys-erw*, *Pen-gare*, *Trefdraeth*, *Dinas*, *Abergwaun*, *Longhouse*, a *Thŷ-Ddewi*. Yr oedd yn y sir hon, gan hyny, dan olygiad y tri gŵr a enwyd, 18 o gymdeithasau bychain, mor foreu a'r fl. 1743, yn cynwys rhyngddynt oll tua 122 o aelodau. Y cymdeithasau mwyaf lluosog eu rhif y pryd hwnw, oeddynt Abergwaun a Llwyn-y-grawys, pob un yn cynwys 35 o aelodau. Ar y pryd hwn, nid oedd yn Nhŷ Ddewi ond 11 o aelodau.

Nid annerbyniol, fe allai, gan y darllenydd a fyddai cael adroddiad William Richard o'r cymdeithasau dan ei ofal yn sir Benfro, yn gyflawn, yn enwedig gan mai dyma yr adroddiad cyntaf, a'r unig un manwl, sydd ar gael am y crefyddwyr boreuol hyny.

---

### Cymdeithasau Llwyn-y-grawys ac Eglwys-erw.

Gwŷr priod.

*Thomas Hughes.*—Yn credu, ac yn hiraethu am fwy o fwynhad o Dduw.

Gwŷr ieuainc.

*Steward. Dafydd George.*—Yn credu yn wastadol, ond yn teimlo ei lygredd yn gryf ar amserau.

*Thomas Harri.*—Ychydig o ffydd, a llawer o amheuon, ac yn hiraethu am fod yn fwy santaidd.

*John Evans.*—Yn dysgwyl yn hiraethlon am Iesu Grist, ond yn awr mewn tywyllwch ac anghrediniaeth mawr.

Gwragedd priod.

*Jane Evan.*—Wedi profi peth hyfrydwch a chariad, ond weithiau yn amheu.

*Elizabeth Jones.*—Yr un modd.

*Mary George.*—Wedi credu unwaith, ond yn awr mewn amheuon ac ofnau.

*Margaret Phillips.*—Yn credu, ond yn hiraethu am ddatguddiad amlycach.

*Judith Jenkin.*—Weithiau i fyny, ac weithiau i lawr, heb wybod yn mha le y mae.

*Mary* a *Martha Evan.*—Dan argyhoeddiadau.

Merched ieuainc.

*Anne Williams.*—Yn credu yn barhaus, yn rhodio llawer gyda Duw, ac yn dymuno gwneyd hyny yn ddibaid.

*Margaret George.*—Yr un modd.

*Elinor George.*—Yn credu ac yn gweled ei *holl* yn Nghrist.

*Anne Twining.*—Dan argyhoeddiadau, ac yn hiraethu am y Gwaredwr.

*Elizabeth Evan.*—Rhai pelydrau o gariad, gan hiraethu am Grist.

* Trefecca Minutes.

*Alice Dafydd.*—Wedi profi peth cariad, ond yn penderfynu dysgwyl am yr Iesu.
*Catherine Morris.*—Tywyll ac anwybodus, eto yn dymuno adnabod Crist.
*Jane Evan.*—Yn credu yn yr Arglwydd Iesu, ac yn teimlo cariad ato.
*Mary Richard.*—Wedi profi cariad, ond dan amheuon.
*Elizabeth Eynion.*—Dan argyhoeddiadau, ac yn hiraethu am yr Arglwydd.
*Margaret Lewis.*—Yn glaiar iawn, eto dan argyhoeddiadau.
*Margaret John.*—Dan argyhoeddiadau, ac yn ymofyn am y perl gwerthfawr.
*Anne Thomas* a *Mary Hughes.*—Yr un modd.

*John Matthias, Mrs. Twining, Mrs. Gambold, Mrs. Rowlands, Lettice Thomas, Jane Matthias, Margaret Evan, Jane Evan,* a *Sarah David.*—Yn absenol.

*George John* a *John Phillips.*—Ar brawf.

---

## Cymdeithas Pengare.

Gwŷr ieuainc.

*John Morgan* a *John Gibbon.*
*John Abram.*—Yn rhodio yn ffydd Abraham, yn adnabod llawer o hono ei hun, ac yn Gristion hyfryd.

Merched ieuainc.

*Martha Thomas.*—Yn credu ; ac yn cael yr Arglwydd yn dyner wrth ei henaid.
*Mary Thomas.*—Yr un modd.
*Mary Gibbon.*—Dan anghrediniaeth, ond yn hiraethu am Grist.
*Lettice Phillips.*—O dan awdurdod anghrediniaeth.

---

## Cymdeithas Trefdraeth.

Gwŷr ieuainc.

*William Pritchard.*—Enaid tyner iawn, wedi profi peth cariad, ac yn canfod llawer o'i waeledd ei hun.
*James Evan.*—Dan y ddeddf, wedi profi peth cariad, &c.
*Thomas James* a *William John.*—Yn absenol.

Merched ieuainc.

*Elizabeth Griffith.*—Weithiau yn credu, weithiau yn amheu.
*Lettice Watkin.*—Dirodres a phrofiadol, ond weithiau yn amheu, weithiau yn gweled hyny yn ddrwg, ac yn ei fawr ofni.
*Mary Dafydd.*—Mewn ymdrech am sicrwydd:—wedi profi gallu Duw unwaith yn ei chynorthwyo i gredu, ond yn awr dan amheuon.
*Margaret Lloyd.*—Yn argyhoeddedig o'i hangen am Waredwr.
*Martha Lewis.*—Yn ceisio.
*Elizabeth Williams.*—Yn dywyll, ond o brofiad syml.
*Mary Nicholas.*—Amheuon ac ofnau.
*Anne John.*—Yr un modd.

Gweddw.

*Mary Watkin.*—Dan argyhoeddiadau ac amheuon.

---

## Cymdeithas Dinas.—Goruchwyliwr, John Lloyd.

Gwŷr priod.

*John Griffith.*—Yn credu yn barhaus ; Cristion syml profiadol, wedi dyfod trwy galedi mawr, yn awr yn mwynhau rhyddid.
*William Griffith.*—Dan argyhoeddiadau, mewn rhyfel poeth â'i lygredigaethau, ac yn dysgwyl cael goruchafiaeth.
*David Griffith.*—Ffydd sefydlog ac arosol.

Merched ieuainc.

*Anne Lloyd* a *Mary James.*—Ill dwy yn credu, eto nid heb amheuon ar amserau.
*Jane Griffith.*—Dan argyhoeddiadau, gan waeddi a hiraethu am yr Iesu.

Cymdeithas ABERGWAUN.—Goruchwylwyr, JOHN HUGH a JOHN MORGAN, ill dau yn mwynhau llawer o Dduw, ac yn dysgwyl wrtho am fodd i orchfygu eu holl elynion.

Gwŷr ieuainc.

*John Gibbon.*—Yn credu yn barhaus, ïe, pan y bydd yn gymylog arno ac yn cael ei demtio; mae cariad yn ei gymhell i ddymuno gogoneddu Duw.
*John Rimmond.*—Yn rhodio yn ffydd yr Iesu, ac yn meddu llawer o'i ysbryd.
*Thomas Hugh.*—Yn meddu ffydd barhaus i gymhwyso teilyngdod Crist at ei enaid.
*William George.*—Wedi cael prawf amlwg o'i ffydd mewn tymhestl ar y môr, ac yn rhodio llawer gyda Duw.
*John Owen.*—Wedi ei gyfiawnhau mewn gweddi ddirgel; ac yn hiraethu am fwy o ryddid.
*John Thomas.*—Y mae iddo nodau Cristion.
*John Morris.*—Wedi profi gradd o gariad Duw, ac yn gweled mwyfwy o'i galon ei hun.
*Thomas Llewelyn.*—Yn ddiweddar wedi profi gradd o gariad a hyfrydwch.
*Eaton Griffith.*—Dan amheuon, ac yn canfod gwaeledd ei galon ei hun.
*James Gwynne.*—Dan argyhoeddiad.

Gwŷr priod.

*John Williams.*—Hen ŵr newydd eni!

Merched ieuainc.

*Anne* a *Margaret Evan.*—Ffydd sylweddol yn barhaus.
*Elizabeth Evan.*—Yn hiraethu yn wastadol am Grist.
*Anne Morris.*—Yn meddu ffydd sylweddol, a chan fwynhau heddwch â Duw, yn dymuno ei ogoneddu.
*Alice Bowen.*—Weithiau yn credu, weithiau yn amheu.
*Elizabeth Rees.*—Yn credu; wedi profi llawer o hyfrydwch, ac yn dymuno mwy o ryddid.
*Martha Thomas.*—Wedi derbyn Mab Duw ac yn credu ynddo, ac wedi cael tystiolaeth ychwanegol y *nos hon.*
*Rebecca Rowland.*—Yn meddu ffydd sylweddol; yn casâu pob pechod; ac wedi profi llawer o hyfrydwch.
*Elizabeth Thomas.*—Cristion hoff, profiadol, a chanddi ffydd ddiysgog yn yr Iesu.
*Margaret James.*—Yr un modd.
*Anne Llewelyn* ac *Anne Watkin.*—Dan argyhoeddiadau, amheuon, ac ofnau.
*Anne George.*—Credu ac amheu bob yn ail; wedi profi llawer o fwynhad.
*Susana Rowlands.*—Dan argyhoeddiadau ac amheuon trymion.
*Catherine Adams.*—Gradd o obaith yn nghanol llawer o amheuon.
*Margaret Llewelyn.*—Dan argyhoeddiad ac ofnau trymion.
*Margaret John.*—Yr un fath, ac yn llefain am Waredwr.
*Martha Owen, Lettice Hugh, Margaret James.*—Yr un modd.
*Susana George.*—Yr un modd.
*Grace Rowland.*—Dan argyhoeddiadau.

---

Cymdeithas LONGHOUSE.—Goruchwyliwr, JOHN WILLIAMS.

Gwŷr ieuainc.

*George Williams.*—Yn credu, ac yn dymuno gogoneddu Duw, ond ar amserau dan amheuon, oddiar ysbryd deddfol.
*Geo. Morris.*—Yn credu, ac yn sychedu am fwynhad helaethach o Dduw, gan rodio yn ddiesgeulus.
*John Walter.*—Dan argyhoeddiadau; wedi profi peth mwynhad, ond yn awr dan amheuon.
*David Bowen.*—Yn credu yn barhaus; aeth trwy galedi a thywyllwch mawr, ond yn hyderus ynddynt oll; Cristion gonest ydyw.
*David Harri.*—Dan argyhoeddiad; weithiau yn credu, yn ymdrech llawer yn erbyn pechod, ond yn ei gasâu i gyd.

*David Morgan.*—Dan argyhoeddiad, wedi profi peth cariad ; dan amheuon, eto yn penderfynu dysgwyl mewn gobaith.

Merched ieuainc.

*Anne Thomas.*—Yn meddu undeb â Christ, a heddwch â Duw.
*Elizabeth Thomas.*—Wedi profi llawer o gariad a thynerwch Duw, ond eto dan amheuon a thywyllwch.
*Martha Williams.*—Yn credu yn barhaus ; yn teimlo undeb â Christ; ac yn moliannu Duw am dano.
*Jane Morris.*—Yn credu yn barhaus ; Cristion gonest, syml ; yn gwybod llawer am Dduw, a Christ, a hi ei hunan.
*Jennet Dafydd.*—Yn credu, ac yn llefain am fwy o ddelw Crist.
*Martha Williams.*—Yn credu yn barhaus, gan foliannu Duw am ei ddaioni gwastadol.
*Anne John.*—Yn credu, ac yn profi llawer o gariad.
*Mary Morgan.*—Yr un modd ; ond yn awr dan amheuon ac mewn tywyllwch.
*Elinor Watts.*
*Lettice Robert.* } —Ar brawf, ac i ddod dan arholiad eto.
*Elizabeth Mends.*

Y cyfryw ydyw adroddiad William Richard i'r gymdeithasfa, y tro cyntaf erioed, o ansawdd y cymdeithasau dan ei ofal ef yn sir Benfro ; yr oedd hyn mor foreu a'r fl. 1743. Mae yr adroddiad a ddyry John Harris i'r un gymdeithasfa, yn llai manwl, gan nad ydyw ond yn darlunio agwedd gyffredinol y cymdeithasau, ac nid profiad pob un. Am ei adroddiad ef, ni a gyfeiriwn y darllenydd i ran flaenorol * o'r gwaith. Nid oes genym un adroddiad o eiddo yr arolygwr arall, sef Thomas Meyler, ac nid yw yn ymddangos iddo anfon yr un ; ac mewn cymdeithasfa fisol a gynaliwyd yn Mhorth-y-rhyd, ger Llanymddyfri, penderfynwyd anfon ato i ymliw ag ef am lwyr esgeuluso y cymdeithasfaoedd. Nid yw yr adroddiadau dylynol o eiddo William Richard, chwaith, yn rhoddi dim ond agwedd gyffredinol y gwaith yn mhob lle, heb enwi pob aelod ar ei ben ei hun. Ymddengys hefyd fod cryn lawer o ansicrwydd yn gysylltiedig â'r cymdeithasau hyn. Cynelid hwy oll mewn tai anedd, ac yn aml yn symudol o un tŷ i'r llall ; fel y mae yn anhawdd, erbyn hyn, ddyweyd pa beth a ddaeth o honynt yn y diwedd. Y mae yr hanes sydd genym am danynt yn cyfeirio hefyd at dymhor o flaen yr ymraniad y soniasom am dano, yr hwn, ond odid, yn y wlad hon fel gwledydd eraill, a barodd effeithiau galarus, ac a achlysurodd adfeiliad a gwywdra ar y gwaith yn gyffredinol, a dadymchweliad llwyr, fe ddichon, ar amryw o'r cymdeithasau bychain y crybwyllwyd eu henwau.

Crybwyllasom mai chwech o gynghorwyr anghyhoedd, neu gynorthwywyr, oedd ar gael yn y fl. 1743 ; ond mewn cwrdd misol a gynaliwyd yn Hwlffwrdd yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, y mae genym enwau deg o'r cynghorwyr hyn ; ond nid yw yn ymddangos i neb o honynt droi allan yn ddynion cyhoeddus gyda'r Methodistiaid, er maint a allai eu defnyddioldeb a'u gwerth fod yn eu lleoedd penodol neu gartrefol. Dyma eu henwau :—Geo. Gambold, John Harry, Geo. Bowen, Dafydd Evan, John Lloyd, John Sparks, Christopher Mends, William Edwards, John Morris, John Owen. Mae enwau dau

* Cyf. I., tudal. 167.

a enwasid o'r blaen i gynorthwyo yr arolygwyr, sef *Thomas John*, a *John Jones*, wedi eu gadael allan o'r rhestr uchod. Ni ddywedir wrthym pa beth a ddacthai o honynt, fel na allwn ddyweyd dim gyda sicrwydd. Ni a gawn, pa fodd bynag, am *ryw* John Jones a fyddai yn arfer cynghori, fod penderfyniad wedi ei basio am dano yn ngwrdd misol Longhouse, o'r natur yma, "*Cytunwyd*, ar i John Jones fod yn ddystaw dros ryw dymhor, er mwyn ei *ordeinio*, ac hyd nes y bydd ei ordeiniad ef trosodd.*"

Mewn cyfarfod arall, "*Cytunwyd*, ar i'r brawd William Edward ymweled â'r eglwysi yn Nhŷ Ddewi, Penrhos, a Monton, yn wythnosol ar brawf, hyd y gymdeithasfa nesaf; a bod iddo ef, a'r holl gynghorwyr anghyhoedd eraill, ymweled â lleoedd eraill, mor bell ag y gallont wneuthur hyny, heb esgeuluso eu cymdeithasau priodol na'u galwedigaethau bydol; a hyny o dan gyfarwyddyd eu harolygwyr."

Rhoddir ar ddeall i ni hefyd, "Fod George Gambold wedi anfon llythyr i'r gymdeithasfa yn nghylch ei alwad i gynghori yn ddirgel neu ar gyhoedd; ac mewn canlyniad i'r llythyr hwn, fod y brodyr wedi deall fod ei ddoniau ef yn fwy gwasanaethgar i adeiladu y saint nag i ddeffro pechaduriaid, a'i fod, yn ol pob hanes, wedi ei fendithio i'r dyben hwnw, mewn amrywiol leoedd, yn cyflwyno ei achos, ar ol ei bwyso o flaen yr Arglwydd, i ofal y brawd Howel Davies, i'w gyfarwyddo yn mha leoedd yr oedd iddo gynghori yn *gyhoeddus*, ac yn mha le yn ddirgel yn unig, a hyny ar brawf hyd y gymdeithasfa nesaf."

Oddiar yr olwg a geir trwy "*Gofnodau Trefecca*" ar y wlad hon, gallwn gasglu cymaint a hyn am Fethodistiaeth y tymhor hwn yn y wlad hon.

*Yn gyntaf.* Fod gweinidogaeth Howel Davies, cyn ac ar ol ei droad allan o eglwys Llys-y-frân, wedi ei bendithio i ddeffroi llaweroedd o eneidiau, mewn gwahanol barthau o'r wlad hon; ac yn fwy o lawer ar ol ymroddi o hono i bregethu yn mhob man, lle bynag y rhoddid caniatâd neu gyfleusdra iddo.

*Yn ail.* Mai y tri a ymddengys fwyaf cyhoeddus gyda'r gwaith o'r lleygion boreuaf, a fu yn offerynau i gychwyn ac amaethu Methodistiaeth y wlad hon, mewn cysylltiad â'r gŵr parchedig uchod, oeddynt John Harris, William Richard, a Thomas Meyler.

*Yn drydydd*: Fod tua 17 neu ychwaneg o fân gymdeithasau eglwysig wedi cael eu planu mewn gwahanol barthau o'r sir, cyn y fl. 1745; ond gan eu bod yn cael eu cynal mewn tai anedd, ac wedi eu cyfansoddi o ddysgyblion ieuainc a phlentynaidd, nad oedd llawer o sefydlogrwydd yn perthyn iddynt, fel *cymdeithasau*, er, yn ddiau, fod yn eu mysg lawer iawn o wir ddysgyblion i Fab Duw.

*Yn bedwerydd.* Fod yma 10 neu 12 o gynghorwyr bychain ac anghyhoedd wedi eu nodi a'u galw i gynorthwyo yr arolygwyr, i addysgu ac amaethu y dysgyblion ieuainc hyny, mewn gwybodaeth, profiad, a buchedd santaidd.

* Gellid meddwl mai gŵr ieuanc oedd hwn ar fedr cymeryd urddau yn eglwys Loegr.

Yn yr amser hwn hefyd yr oedd Howel Harris, Rowlands, Llangeitho, Mr. Whitfield (a Mr. Wesley hefyd yn achlysurol), yn ymweled â'r wlad, a phob un yn foddion i gadarnhau y diwygiad, ac i chwanegu nifer y crefyddwyr. Eto nid oes genym ddim hanes manwl am y wlad hon cyn yr ymraniad, oddieithr yr ychydig a fedrwn ni ei loffa, megys uchod, allan o gofnodau y cymdeithasfaoedd, y rhai a gedwid yn Nhrefecca.

Yr oedd y wlad hon yn gyffelyb o ran ei hanwybodaeth a'i harferion i wledydd eraill Cymru. Nid oedd gwybodaeth o Dduw yn y wlad. Nid oedd neb yn deall, nid oedd neb yn ceisio Duw. Y mae yn anhawdd rhoddi cyfrif am unffurfiaeth y chwareuon a'r campau a arferid trwy y dywysogaeth oll, oddieithr ei briodoli i effaith hen "Lyfr y chwareuon," a ddarllenid gynt yn yr eglwysi plwyfol; ond pa gyfrif bynag a roddir am hyny, y mae y ffaith yr un. Ac nid ydoedd sir Benfro ddim yn eithriad. Defnyddid y fynwent i chwareu, newydd ddefnyddio yr eglwys i addoli. Gellir meddwl nad oedd y gwasanaeth o fewn nemawr fwy cymeradwy gan Dduw nag oedd eu chwareu oddiallan. Yr oedd y gwasanaeth crefyddol oddimewn yn hynod am ei farw-eidd-dra, a'r chwareu oddiallan mor hynod am ei fywiogrwydd. Yn y cyntaf nid oedd dim ond y *ffurf*, ond yr oedd *ysbryd* yn yr olaf. Ond am y ddau y dywedai Duw, "Maent yn faich arnaf, blinais yn eu dwyn." Tra byddai'r ieuenctyd yn chwareu, yr hen bobl a eisteddent ar y cerig beddau, i edrych arnynt i'w calonogi. A hyn oll ar ddydd yr Arglwydd! Yr oedd llawer o greulondeb yn gymysgedig â'r chwareuon. Un chwareu mawr ei rwysg oedd "Ymlid y cadnaw," neu "Hela y llwynog." Un tro yn Abergwaun, pan yn y chwareu hwn, y daeth y dyn a gyfrifid yn gadnaw trwy y fynwent, ac heibio hen adyn ag oedd yn eistedd ar gareg fedd, a phastwn mawr yn ei law; hwn a'i tarawodd â'r pastwn nes oedd ei waed yn ffrydio! a mawr yr ymffrost oedd ganddo ei fod wedi gallu taro y cadnaw!

Crybwyllir am lawer enghraifft o ofergoeledd y trigolion. Ar Sul y Pasg, aent i'r llan yn nhraed eu hosanau, sef heb eu hesgidiau, rhag, meddent, gyffroi y pridd! Ar foreu Nadolig, cyfodent cyn dydd i edrych y Rhosmari, a thaerent ei fod yn blodeuo! Ond rhyw ffordd neu gilydd, nid oedd y blodau byth yn aros hyd doriad y dydd! Yn esgobaeth Tŷ-Ddewi yn unig y dywedid fod y drychiolaethau, a chanwyllau corff, yn ffynu; a mawr y sŵn, ac arswydus y chwedlau, a fyddai am danynt. Prin y gallai neb fyned allan o'i dŷ, wedi swper, heb weled, hwyrach, ddwy neu dair o'r canwyllau hyn yn myned tua'r llan, a drychiolaeth yr anghladd yn eu canlyn; hwn a elwid *Cyfresgyn*, a pherygl dirfawr y dywedid fyddai i neb gyfarfod â hwnw ar y ffordd y tramwyai, gan y byddai yn sicr o gael ei lusgo at borth y fynwent, a'i wasgu yno, nes ei archolli yn drwm; a da fyddai os diangai â'i fywyd ganddo. Adroddid y coelion hyn yn nghlyw y plant, nes eu llenwi â braw, fel nad oedd modd cael ganddynt fyned dros y drws, neu i neges, yn yr hwyr, pe buasai tân yn y tŷ, gan faint ydoedd iasau ofn arnynt. Yr oeddynt yn credu fod ysbrydion yn y llan ar nos galan-gauaf, yn cyhoeddi enwau pawb a fyddai farw yn y plwyf o fewn corff y flwyddyn! Ceid ambell un mor wrol

a myned dan ffenestr y gangell i wrando; ac nid oedd ond un ar unwaith i fyned, onide ni chlywid dim; a chyfrifid y neb a feiddiai fyned yno felly yn rhagori mewn gwroldeb.

Ar ddydd calan-mai yr oedd rhyw gamp ffol a elwid, "Gwisgo y fedwen." Y pryd hwn ymdyrai lluaws ynghyd i yfed; a meddwi a churo eu gilydd, ond odid, a fyddai y diwedd! Myrdd o'r fath arferion a syniadau a anurddai ein cyn-dadau diniweid (?) ar hyd ac ar led yr holl dywysogaeth. A chyda bod yn ddifraw am bethau ysbrydol, ac yn ddiofal yn nghylch achosion y byd anweledig, yr oedd llawer o amser yn cael ei dreulio, naill ai mewn seguryd diles, neu mewn oferedd gwag. Nid oedd y ddaear yn cael nemawr o driniaeth. Bwrid ychydig o ŷd i'r maesydd, ychydig yma ac ychydig acw; a hyny heb na chlawdd na gwrych o'i amgylch; a thra fyddai yn tyfu, eu gwaith fyddai ei warchod, a chadw yr anifeiliaid o hono! Nid hon yw yr enghraifft gyntaf o waith efengyl, nid yn unig yn achub eneidiau dynion, ond hefyd yn gwella eu hamgylchiadau, a gwareiddio eu harferion. Dyma agwedd y wlad pan ddechreuodd y Parch. Howel Davies godi ei lef uwchben yr esgyrn sychion, a phan y daeth Howel Harris fel rhyw Ioan Fedyddiwr "yn llef un yn llefain yn y diffaethwch," er troi yr anufydd i ddoethineb y cyfiawn, a gwneuthur i'r Arglwydd bobl barod.

## PENNOD XI.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR.

CYNWYSIAD:—

TY-DDEWI—YMWELIAD CYNTAF HOWEL HARRIS A'R DDINAS—ARGYHOEDDIAD SION GRIFFITH—YMOSODIAD AR HARRIS YN CAEL EI ATTAL—YMWELIAD DANIEL ROWLANDS AC ERAILL—PREGETHU YN Y LLEW-DU, AC YN NHY RICHARD BOWEN—MR. THOMAS REES, TREPUET, A MR. GEORGE WILLIAMS—CARFARCHELL—MR. SAMPSON THOMAS—SOLFACH—RHYD-Y-GELE—WILLIAM EDWARD.

#### TY-DDEWI.

MAE y ddinas hon yn sefyll ar lanerch mwyaf gorllewinol Deheudir Cymru, ac yn ddinas gadeiriol. Yr oedd ynddi ddarpariaeth helaeth, gan hyny, mewn rhifedi digonol o wŷr llên, ac adnoddau arianol, i wasgar anwybodaeth y ddinas a'r wlad oddiamgylch iddi; ac yr oedd oesoedd wedi treiglo heibio, er pan y cynysgaethwyd y lle â'r rhagorfreintiau hyn. Eto, er hyn, nid ydym yn darllen fod y ddinas hon, a'i hamgylchoedd, ddim goleuach na gwareiddiach na rhanau eraill yn sir Benfro. Yr oedd rhai o'r trigolion, mae'n wir, yn myned i'r llan ar foreu Sabboth; ond yr oedd hyn yn fwy o ddefod na dim arall; yr oedd y gwasanaeth crefyddol hefyd yn cael ei gynal, ond nid oes nemawr arwyddion fod yno ddim amgen na ffurf. Yr oedd yr holl dref ymron, ynghyd â'r wlad o amgylch, "yn eistedd yn llonydd;"—"yn eistedd yn mro â chysgod angau,"—"yn rhodio yn ol helynt y byd hwn, ac yn ol tywysog llywodraeth yr awyr." Yn yr agwedd yma yr oedd pethau wedi

parhau er ys oesoedd rai, ac nid oedd un arwydd fod newidiad ar gymeryd lle.

Tua'r fl. 1739, ymwelodd Howel Harris a Thŷ Ddewi. Ar ei ddyfodiad, rhoddwyd hysbysiad allan fod gŵr dyeithr yn bwriadu pregethu wrth y Groes, yn nghanol yr heol. Yr oedd hyn yn beth cwbl newydd, ac yn tueddu i greu chwilfrydedd mewn rhai, ymofyniad yn eraill, a gwrthwynebiad yn y gweddill. Ymgasglodd y lluaws yn nghyd, a dechreuodd y pregethwr draethu ei genadwri mewn modd dirodres iawn. Yn ol ei arfer, fe ddynoethodd arferion llygredig y dinasyddion yn ddiarbed a difloesgni; "ac yr oedd pob darn ymadrodd o'i enau yn gwreichioni ac yn melltenu mor daranllyd i gydwybodau ei wrandawyr, nes yr oeddynt yn arswydo ac yn ofni fod y farn gyffredinol wedi eu goddiweddyd; ïe, yr oedd effeithiau mor rymus yn cydfyned â'i ymadroddion, fel yr oedd dynion dewrion a thalgryfion yn syrthio yn gelaneddau ar yr heol, mewn llewygfeydd gan fraw a dychryn." *

Nid oedd Mr. Harris yn arfer, o leiaf yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, cymeryd un adnod neillduol yn destyn, a phan y defnyddiai adnod i'r dyben hyny, nid ei arfer oedd ei hysbysu. Yr oedd ei bregethau hefyd yn cael eu cyfeirio yn neillduol yn erbyn pechodau yr oes, neu arferion llygredig y genedl; a hyn a wnai mewn dull mor ddifrifol ac awchlym, gan ddatgan fod digofaint Duw yn anocheladwy ar blant yr anufydd-dod, nes byddai ei wrandawyr, yn fynych, wrth yr ugeiniau yn teimlo saethau Duw yn eu calonau, ac ar geulan anobaith, ymron, yn llefain am eu bywyd, ac yn ymofyn am le i ddianc. Felly y bu y tro hwn yn Nhŷ Ddewi. Ni ellid casglu oddiwrth ei bregeth fod dim yn aros y trigolion ond dinystr anocheladwy; ni roes un awgrym am drefn cadw pechadur. Ond fe fu y tro yn effeithiol ymron i lwyr ddadymchwel, o hyny hyd heddyw, yr hen gampau a'r chwareuon, ag oeddynt yn uchel eu penau ar y Sabbothau. Trwy awr o draethu, fe ddymchwelodd lygredigaeth oesoedd! Fe wnaeth mewn un oedfa, ar yr heol, beth na allodd dysgeidiaeth, doniau, ac urddau yr eglwys gadeiriol ei gwblhau er ys oesoedd! Ond nid i Harris yr ydym am roddi y gogoniant. Duw oedd yn y weinidogaeth;—parodd glywed ei lais trwy weinidogaeth ddiaddurn; a pharodd anrhydedd ar weinidogaeth ddiurddau, fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o ddynion.

Ni ynganodd Harris y tro hwn, fel y soniwyd, am un waredigaeth gogyfer â dyn colledig, ond fe adawodd y trueiniaid archolledig dan arteithiau llymion eu cydwybodau euog, hyd nes daeth yr ail waith i ymweled â'r dref; ac nid trallod bychan a fu, tybygid, ar amryw o honynt. Fel enghraifft, sonir am un llencyn 15 oed, mab i ŵr o'r enw Siôn Griffith, yn nhŷ yr hwn y bu y pregethu dros amryw o flynyddoedd ar ol hyn. Aeth y llanc hwn fel eraill i wrando y gŵr dyeithr, o wir gywreinrwydd, ac yn eithaf difeddwl; ond os difeddwl ydoedd yn myned i'r oedfa, nid felly yr oedd yn dychwelyd o honi. Glynodd y gwirionedd yn rymus yn ei feddwl; cafodd rhyw olwg ar

* Gan Mr. T. Rees, Trepuet.

ei sefyllfa beryglus, nes oedd ei orphwysdra wedi diflanu, a chynyddai ei drallod fwyfwy ddydd a nos ar ol eu gilydd. Yr oedd ing ei fynwes yn terfynu ar wallgofrwydd; ac yn y cyfyngder hwn, penderfynai roddi terfyn ar ei hoedl, drwy ymfwrw yn bendramwnwgl dros ddibyn i'r môr. Barnai mai lluosogi ei bechodau, a thrymhau ei gosp, a wnai wrth fyw, ac mai goreu po gyntaf iddo derfynu ei oes. Ond tra yr oedd yn cyfeirio ei gamrau, gyda'r bwriad gwallgof hwn, tua'r geulan, clybu air yn cael ei lefaru wrtho, ac yn dyweyd, "Ha fab, maddeuwyd i ti dy bechodau." Daeth y gair hwn at ei feddwl mor ddisymwth, a chyda'r fath rym a goleuni, nes syrthio o hono yn gelain ar y ddaear. Wedi dadebru graddau, dechreuodd ddadleu mai nid iddo ef y perthynai y gair; ond ofer oedd ei fwrw heibio, swniai megys yn ei glustiau, a glynai yn ei galon; cymhwysid y gair megys ato ef yn bersonol, a chafodd oruchafiaeth ar ei ofnau. Erbyn iddo godi ar ei draed, ymddangosai gwedd newydd ar bob peth o'i amgylch; ymwisgai y greadigaeth megys â phryd-ferthwch, a'i fynwes ef ei hun a lanwyd â "thangnefedd heddychol." Bu y bachgenyn hwn fyw i weled 80 ml. oed, ac nid amheuodd wirionedd y dad-guddiad hwn dros ei holl ddyddiau.

Effeithiodd gweinidogaeth Harris ar amryw eraill i raddau helaeth, ond rhai o honynt a ddiffoddasant yr ymrysoniadau, ac "iachawyd eu briw yn ysgafn;" ond yr oedd rhyw nifer, pa fodd bynag, fel yr un a grybwyllwyd uchod, yn aros dan ddylanwad y gwirionedd, ac yn sychedu am orphwysdra i'w heneidiau. Daeth y rhai hyn, cyn hir, yn adnabyddus o'u gilydd, ac fel y gellid dysgwyl, hwy eiddigeddent am gyfle i arllwys eu teimladau y naill wrth y llall. Cyrchent, bellach, at eu gilydd, a hyny i leoedd neillduedig a dirgel, rhag eu haflonyddu gan ymyrwyr prysur, na'u gwawdio gan watwor-wyr câs. Yn y cynulliadau hyn, rhoddid iddynt gyfleusdra i adrodd y naill i'r llall eu syniadau newyddion, a'u teimladau archolledig. Nid oedd gan y trueiniaid hyn neb wrth law i'w harwain; ac nid esiampl neb arall a'u dysgai yn y modd yma i ymgrynhoi at eu gilydd; ond ansawdd eu meddyliau a ffurfiai y gogwyddiad, a'u hamgylchiadau amddifad a seliai y buddioldeb. Y cyfarfodydd hyn oedd dechreuad cymdeithas eglwysig y Methodistiaid yn Nhŷ Ddewi! Parai y cyfarfodydd hyn lawer o siarad ac ymchwil ar y pryd. Rhai a ddywedent eu bod yn myned at eu gilydd i weddio; eraill, eu bod yn cyffesu eu pechodau wrth eu gilydd; dychymygai eraill, eu bod yn bwrw pridd a lludw ar benau eu gilydd, yn arwydd o'u galar a'u tristwch o herwydd eu pechodau; ac nid oes amheuaeth na roddai eraill awgrymiadau dystaw, eu bod yn cwrdd â'u gilydd i ddybenion llawer gwaeth. Eto ni feiddiai neb ymgysylltu â hwynt, ond y sawl a fyddai dan drallod meddwl am ei sefyllfa ysbrydol, ac yn ymofyngar am adnabod ffordd gwaredigaeth.

Fe fu Mr. Harris yn Nhŷ Ddewi amrywiol weithiau wedi y tro cyntaf uchod; ennillasai hefyd barch mawr yn meddyliau y lluaws o'r bobl, ïe, yn meddyliau rhai o'r dynion mwyaf annuwiol yn y dref; ac nid ydym yn clywed ddarfod iddo gyfarfod â dim aflonyddwch a therfysg, oddieithr ar un tro. "Yr oedd," ysgrifena Mr. Rees, "wedi esgyn i'r Groes, y lle arferol i bregethu,

a'r gynulleidfa wedi ymgasglu ynghyd i wrando. Y pryd hyn, daeth rhyw ddyhiryn i fysg y dyrfa, mewn gwedd tra hagr, gyda bwriad i aflonyddu a therfysgu y gwrandawyr. Ond fel y bu yr *anhap* annedwydd iddo, darfu un o flaenoriaid byddin y diafol ymosod arno, a'i fwrw i'r llawr, ac o'r braidd yr achubwyd ei fywyd; yr hyn a wnaed trwy ei lusgo i dŷ oedd yn agos i'r fan. Yr oedd gan Mr. Harris gymaint o ddylanwad ar ei wrandawyr yn y dref hon, fel y buasai amryw o'r rhai mwyaf annuwiol yn ei amddiffyn hyd at waed. Wedi tawelu y cythrwfl hwn, aeth yn mlaen â'i bregeth yn effeithiol iawn."

Heblaw Howel Harris, ymwelai eraill yn achlysurol â Thŷ Ddewi yn yr amser boreuol hwn. Yn eu mysg yr oedd y Parch. Daniel Rowlands, a'r Peirch. George Whitfield a John Wesley, a rhai o bregethwyr y Morafiaid. Cafodd Rowlands ar ei ddyfodiad ganiatâd i fyned i'r llan i bregethu; a bendithiwyd ei weinidogaeth y tro cyntaf y bu yma, meddir, ag effeithiau tra nodedig. Heblaw y gwŷr enwog uchod, y rhai a ddeuent yn achlysurol i'r wlad, yr oedd y dref hon yn mwynhau llafur gwŷr eraill mwy cartrefol;—yn neillduol yr eiddo Howel Davies, a Mri. John Harris a Benjamin Thomas. Yr oedd y gwŷr hyn ar y maes cyn yr ymraniad, ac yn cydlafurio â Howel Harris cyn ei ymneillduad i Drefecca. Yr oedd hefyd, fel y crybwyllwyd, ryw nifer o gynghorwyr anghyhoedd eraill yn llafurio yn ngwahanol ranau o'r wlad, y rhai, fe allai, na phrofwyd nemawr o'u doniau yn Nhŷ Ddewi.

Y lle yr oeddid yn arfer pregethu yn y blynyddoedd cyntaf hyn, heblaw tŷ Siôn Griffith, oedd tŷ tafarn, dan arwydd y Llew Du, neu ynte ar yr heol. Ymddengys fod yma ddeadell fechan yn aros yn y blynyddoedd hyn heb eu chwalu, ond fod yr ymraniad yn y fl. 1751 wedi gwneuthur peth difrod yn mysg y dysgyblion yn y lle hwn hefyd; oblegid fe ddywedir fod rhai o honynt wedi myned oddiyma i Drefecca, a dybenu eu hoes mewn cysylltiad â sefydliad Harris yno. Yn y blynyddoedd cyntaf hyn, nid oedd yr ordinhadau arwyddol o fedydd a swper yr Arglwydd yn cael eu gweinyddu i'r dychweledigion Methodistaidd, ond yn y llanau plwyfol; yr oedd y dysgyblion yn Nhŷ Ddewi dan yr un anfantais, ac felly y buont yn aros hyd nes y daeth Mr. Whitfield unwaith i'r wlad, ac anturio gweinyddu swper yr Arglwydd mewn lle anghysegredig, sef tŷ cwrdd yn Woodstock. Rhaid eu bod felly er ys 15 mlynedd, o'r amser y daethai Howel Harris gyntaf i'r wlad hyd adeiladiad capel Woodstock yn 1754, heb gyfranogi o swper yr Arglwydd ond yn y llanau, ac yn yr hen ddull. Ond er fod y lle hwn tuag ugain milldir o Dŷ Ddewi, mynych yr âi y dysgyblion cyntefig yno ar Sabboth cymundeb.

Wedi i'r moddion gael eu cynal dros 20 mlynedd a mwy yn nhŷ Siôn Griffith, sef y Llew-du, ac ar yr heol, cafodd loches drachefn am amryw flynyddau yn nhŷ un Richard Bowen. Dros ryw ysbaid, fe gedwid cyfarfodydd crefyddol yn ei dŷ ef bob nos Sabboth. Ymddengys fod y gŵr hwn yn arfer rhoddi gair o gynghor i'r bobl a ddeuent yn nghyd. Ni edrychid ar y cyfarfodydd hyn yn amgen na chyrddau i weddio a darllen, er y rhoddid math o gyfarchiad difrifol, ar wedd cynghor, i'r bobl. Rhaid oedd boddloni

ar y moddion hyn, a da oedd eu cael, gan leied oedd rhif y rhai a gyfrifid yn bregethwyr, neu yn weinidogion urddedig. Ac nid anfuddiol chwaith a fu y cyfarfodydd bychain a dirodres hyn. Ychydig a ddeuai iddynt, ond y sawl a deimlent ryw radd o bryder yn achos eu heneidiau; a mynych y coronid hwy yn ardderchog gan arwyddion amlwg o bresenoldeb Duw. Yn achlysurol, fe ymwelai cenadau mwy amlwg ac enwog â hwy; megys y Peirch. W. Williams a Howel Davies; John Harris a Benjamin Thomas, hefyd, yn eu cylch;—yn ddiweddarach daeth y Parch. Peter Williams i ymweled â hwy; Dafydd Morris, hefyd, a William Llwyd o Gaio; ac yn raddol cawsant wasanaeth mawr oddiwrth Henry Richard, Trefin, a Sampson Thomas, y rhai oeddynt yn byw yn y fro.

Bellach, yr oedd y gwrandawyr yn lluosogi, ac aeth tŷ Richard Bowen yn rhy gyfyng i ddal y gynulleidfa. Pan oedd yr anghyfleusdra hwn yn gwasgu arnynt, cafwyd cenad i bregethu mewn llofft a berchenogid gan un Mr. Davies, Ynys-y-barnu. Mae y llofft hon yn awr yn nwydd-dŷ *(warehouse)* gan fasnachwr. Un tro, pan oedd Mr. William Llwyd o Gaio yn pregethu yno, a chynulleidfa fwy na chyffredin wedi ymwthio i mewn, ymollyngodd y trawstiau gan bwys y bobl; syrthiodd y llofft, a disgynodd y bobl yn bendramwnwgl, a chyda dychryn a braw, i'r gwaelod. Ond er fod arswyd trwm wedi ei gynyrchu, diangodd pawb heb gael nemawr niwaid. Fe fu y ddamwain hon, yn nghyda bod y gwrandawyr yn lluosogi, yn foddion i beri ymofyniad am le eangach a mwy cyfleus. Aed at Mr. Davies eilwaith am le a chymhorth i godi addoldŷ. Gyda hynawsedd a haelioni, teilwng o efelychiad, cydsyniodd yntau â'u cais; ac nid yn unig fe roes y tir, ond fe gododd yr addoldŷ hefyd, yn gwbl ar ei draul ei hun. Gorphenwyd hwn yn y fl. 1785. Yr oedd felly 45 o flynyddoedd a throsodd wedi treiglo ymaith cyn cael lle sefydlog a pharhaus i addoli ynddo, er pan yr ymwelodd Howel Harris gyntaf â'r dref.

Yr oedd gwedd lled siriol ar yr achos yn y lle, er yr anfantais uchod. Y mae Tŷ Ddewi, ymron o'r dechreuad, yn rhagori ar nemawr ardal arall yn y wlad am luosogrwydd y gwrandawyr. Lluosogodd y rhai hyn lawer wedi cael lle helaethach a mwy cyfleus. Bu raid eangu ac ail-adeiladu hwn drachefn. Cymerodd hyn le yn y fl. 1816. Aethai 70 o flynyddoedd heibio ar Fethodistiaeth yn Nhŷ Ddewi, heb fod un gweinyddiad o fedydd a swper yr Arglwydd yn eu plith, ac yn eu lle eu hunain! Ffaith ag sydd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf arni, ymron yn anghredadwy. Eto fel hyny y bu; oblegid yn y fl. 1811, ac nid cyn hyny, y caed y ragorfraint hon; ac ni chaed hi y pryd hwnw, wedi aros 70 mlynedd am dani, heb wrthwynebiad cryf, a chanlyniadau gofidus.

Yn y neillduad hwn, fe wnaeth sir Benfro ei rhan i'w ddwyn yn mlaen, ac ni bu Tŷ Ddewi yn ol i un man arall yn y sir. Cof gan y darllenydd yr hyn a grybwyllwyd am y gwasanaeth a roddodd Mr. Rees, Trepuet, i ddwyn hyn yn mlaen; gŵr ag sydd, bellach, wedi cyrhaedd oedran patriarchaidd, un ag y mae gwallt gwŷn yn goron anrhydeddus iddo, gan mai yn ffordd cyf-

iawnder y rhodia efe,—gŵr hefyd y buasai yn dda gan yr ysgrifenydd osod mwy o'i hanes ger bron y darllenydd; ond hyny nis gellir ei wneyd, gan na chaniateir i ni draethu llawer am neb heb eu cyfrif yn gyntaf gyda'r meirw. Ond yr oedd gŵr arall, ieuangach nag ef o ran oedran, ond wedi blaenori arno yn ngorpheniad ei yrfa, am yr hwn y dylid crybwyll ychydig yn helaethach, sef Mr. George Williams. Nid ydym yn bwriadu ysgrifenu cofiant i'r gŵr da hwn; ac afreidiol a fyddai hyny, gan fod hyny eisoes ar gael,* a thramor fyddai hyny hefyd i amcan y gwaith hwn; ar yr un pryd, y mae yn briodol ac yn weddus i ni alw sylw ein darllenwyr at y dynion hyny a fuont o wasanaeth arbenig i Fethodistiaeth, yn enwedig pan fyddo defnyddiau o'r fath wrth law.

Yr oedd Mr. George Williams yn ŵr a gawsai lawer o fanteision dysgeidiaeth yn mlodau ei oes, a hyny, mae'n debyg, am y bwriadai ei dad ei ddwyn ef i fyny i'r offeiriadaeth. Yr oedd y gŵr ieuanc ei hun hefyd â'i fryd ar yr un amcan. Yn yr adeg hon, tra yr oedd yn ymbarotoi i fod yn weinidog yn eglwys Loegr, yr oedd mor llawn o ragfarn a neb o'i gyfoedion tuag at ymneillduwyr yn gyffredinol, a thuag at y Methodistiaid yn neillduol. Yr oedd ei ddygasedd tuag at yr enwad hwn yn fwy, am fod rhai o'i deulu wedi damwain iddynt, fel llawer eraill, i gael eu dal gan yr *heresi newydd*, dynesiad agos yr hon a ddeffrodd ei ragfarn yntau yn fwy. Yr oedd ei fam eisoes yn aelod; a phan oedd George tua 18 ml. oed, ymunodd brawd iddo â'r cyfundeb, yr hyn oedd yn ddolur llygaid tra mawr i'r *embryo* o offeiriad. Cymaint oedd ei elyniaeth y pryd hwn at y Methodistiaid, yn ol ei gyfaddefiad ei hun yn ol llaw, ag y buasai yn hoffi eu llethu oll o'r fro. Eto, darostyngwyd ei feddwl yntau. Daeth i hoffi y Methodistiaid gymaint ag y casasai hwynt o'r blaen. Daeth hyn o amgylch, yn gyntaf, trwy argraff y gair yn Preg. xi. 9, "Gwna yn llawen ŵr ieuanc yn dy ieuenctyd, a llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuenctyd, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Duw di i farn am hyn oll:" a thra yr oedd y pigiad hwn heb iachau, clybu fod adfywiad yn mhlith y Methodistiaid, a bod rhai yn eu mysg yn moliannu ac yn neidio, mewn rhyw gyfarfodydd o'r eiddynt. Penderfynodd y llanc fyned i'r cwrdd canlynol, gyda dysgwyliad o gael testyn i wawdio y crefyddwyr; ond pan aeth i'r lle, pwy oedd yno yn gweddio ond gŵr tra adnabyddus iddo, un a fuasai yn cyd-ddysgu gydag ef; a pha beth a glywai yn cael ei adrodd gan y gweddiwr ond yr un adnod ag oedd eisoes wedi archolli gradd ar ei gydwybod. Aeth y geiriau yn ddyfnach fyth i'w galon, a dychwelai adref yn dra archolledig, ac wedi ei orlenwi gan gywilydd ac ofn.

Nid hir ar ol hyn, daeth dau ŵr o'r Gogledd i Dŷ Ddewi i bregethu, sef R. Jones, Wern; a John Roberts, Llanllyfni. Arweinid hwy i'r dref gan Mr. Williams, Llandygige, y gŵr a glywsai George yn gweddio yn y tŷ cwrdd, a disgynasant yn nhŷ ei rieni. Bu Mr. Williams yn daer ar i'r cyfaill ieuanc

* Gwel y "Drysorfa" am y fl. 1839; tudal. 194.

ddod i'r oedfa; a thrwy gryn orchest y plygwyd ef i ddyfod. Cwblhaodd yr oedfa hon yr hyn a ddechreuasid o'r blaen. Bwriodd George ei arfau i lawr. Chwalwyd ei ragfarn yn llwyr, a sugnwyd ei galon i gymdeithas y bobl ddirmygedig. Gadawodd yr ysgol eglwysyddol yn fuan wedi hyn, ac ymunodd â'r Methodistiaid.

Siomedigaeth fawr oedd hyn i'w dad, a gofid trwm a dynodd hyn arno yntau. Yr oedd ei gynlluniau bydol trwy hyn wedi eu llwyr ddadymchwel, ac nid oedd yr un drws eto yn agored o'i flaen. Meddyliodd unwaith fyned i India, fel ysgrifenydd i ŵr boneddig, a pharotôdd at y daith;—hyn hefyd a ddyrysodd, a hyny trwy foddion a ymddengys i rai, fe allai, yn ofergoeledd. Pan oedd yn barod i gychwyn, ac o fewn diwrnod neu ddau i hwylio i ffordd, aeth i wrando Robert Dafydd o sir Gaernarfon, yn pregethu, dan feddwl mai hon a fyddai y bregeth Gymraeg olaf, fe allai, a glywai byth. Y testyn oedd Ruth iii. 18, "Yna y dywedodd hithau, Aros, fy merch, oni wypech pa fodd y dygwydda y peth hyn, &c." Teimlodd y gair fel cenadwri ato ef ei hun, a phenderfynodd ymbwyllo dros enyd, fel y gwybyddai gyda mwy o sicrwydd pa beth ydoedd ewyllys yr Arglwydd tuag ato.

Yn mhen rhyw gymaint o amser, ac ar annogaeth y Parch. Ebenezer Morris, aeth i Gastell-newydd-yn-Emlyn i gadw ysgol. Wedi ennill iddo ei hunan gymeriad anrhydeddus yn y lle hwn, bu gorfod iddo roddi yr ysgol heibio o herwydd afiechyd. Oddiyno symudodd i Gaerfyrddin, a mawr y lles a gafodd yno oddiwrth gymdeithasu â'r Parch. David Charles, yn ystod y flwyddyn y bu efe yn aros yn y dref. Pan oedd yn 26 ml. oed, bu farw ei fam, a dychwelodd yntau yn y flwyddyn ganlynol i'w ddinas enedigol i arolygu y *siop* ag oedd gan ei dad. Yma yr arosodd o hyny allan. Gwenodd rhagluniaeth ar ei lafur a'i ddiwydrwydd, a pharhaodd ymgeledd yr efengyl i gadw ei ysbryd. Yn y fl. 1810, priododd; yr oedd hyn yn mhen tair blynedd ar ol ei ddewis yn ddiacon yn yr eglwys. Gwasanaethodd y swydd hon am 31 o flynyddoedd, gyda llawer o ffyddlondeb a diwydrwydd. Fe fu ei dŷ dros amser maith yn llety cysurus i bregethwyr Dê a Gogledd; llawer calon a ddyddanwyd ganddo ef a'i briod, trwy y sirioldeb a ddangosid i ddyeithriaid, a'r ymgeledd a weinyddid iddynt ar eu teithiau. Gwnaeth eu croesawiad serchog argraff na ddilewyd mo hono ar feddwl ysgrifenydd y llinellau hyn, pan yr ymwelodd y tro cyntaf â dinas Dewi Sant, yn y fl. 1822. Ac nid aethum byth yno ar ol ei golli, na theimlais hiraeth am Mr. George Williams. Ond y mae yntau wedi ei gyfrif gyda'r meirw er y fl. 1838; ond ei goffadwriaeth sydd fendigedig, a'i blant ydynt yn awr yn faneran ar dir Immanuel, gan wirio yr ymadrodd, "Plant dy weision a barhânt, a'u hâd a sicrheir ger dy fron di."

Yn y lle hwn y cododd y Parch. Daniel Evans, yn awr o Woodstock; ac yma, bellach, er ys blynyddau, y preswylia y Parch. William Morris, gynt o Gilgeran. Mae yma gynulleidfa luosog o wrandawyr, yr eglwys yn flodeuog ei gwedd, yr ysgol Sabbothol yn uchel ei bri, a'r achos ar y cyfan dan goron o amddiffyniad a nodded "Preswylydd y berth."

### CAERFARCHELL.

Mae y lle hwn ynghylch tair neu bedair milldir i'r gogledd-ddwyrain o Dŷ Ddewi. Ymddengys fod Methodistiaeth wedi ymsefydlu yma er yn foreu. Yr ydym yn casglu hyny oddiwrth y ffaith fod capel wedi ei godi yma mor gynar a'r fl. 1763;—adeg pryd nad oedd ond nifer fechan iawn o gapelau wedi eu hadeiladu gan y Methodistiaid yn holl Gymru. Dywedir hefyd fod y tŷ addoliad hwn wedi ei godi dan amgylchiadau tra hynod, "mor hynod," meddir, "ag a fu mewn un lle arall yn y dywysogaeth." Cyffrodd gwrthwynebiad cryf a haerllug yn erbyn y bwriad yn y fan y deallwyd fod y crefyddwyr ar fedr adeiladu tŷ cwrdd. Yr oedd yr esgus a roddid o blaid y gwrthwynebiad yn argoeli fod y gwrandawyr yn y lle yn lled luosog, a bod cryn sugn yn y weinidogaeth. Yr esgus yn erbyn codi yr addoldy oedd, "y gwneid y tir yn y fro yn sathrfa i'r lluaws pobl a gyniweirient i'r lle." Nid anhawdd canfod gwendid yr esgus hwn, eto, bernid y pryd hwnw ei fod yn llawn ddigon i wrthwynebu amcan y crefyddwyr. Ac nid *rhith* o wrthwynebiad a wnaed iddo, er mai *rhith* o esgus a roddid yn ei erbyn. Yr oedd boneddwr yn byw yn y gymydogaeth, yr hwn a berchenogai ryw gymaint o dir gerllaw: ymunodd hwn yn egniol gyda'r gwrthwynebwyr eraill, a phenderfynasant oll yn unfryd, ac â'u holl egni, i wrthsefyll yr amcan. I'r dyben hwn, cymerasant y gyfraith yn eu dwylaw eu hunain, gan gymeryd gafael trwy drais yn y ceffylau a'r certi a ddygent ddefnyddiau i'r lle, ïe, hyd yn nod y rhawiau a'r ceibiau, neu rhyw gelfi eraill, a ddefnyddid gan y gweithwyr. Ond er hyn oll, yr oedd y cymydogion wedi gosod eu bryd ar gael yr adeilad i fyny; a gwiriwyd yr hen air, 'Trech gwlad nag arglwydd:' oblegid po fwyaf o wrthwynebiad a ddangosai un blaid yn erbyn, mwyaf oll a fyddai penderfyniad y blaid arall o ochr yr amcan. Yr oedd ysbryd gwrando, ar y pryd, wedi meddiannu yr ardalwyr i raddau helaeth, ac arwyddion lawer wedi eu cael fod y weinidogaeth dan arddeliad neillduol. Felly yr oedd digon wrth gefn i gyflenwi pob gwall, gan fod yr efengyl wedi ennill lle mawr yn serchiadau y bobl. Pa faint bynag a gaethiwai yr uchelwyr ar y certi, yr anifeiliaid, a'r celfi gweithio, fe geid rhai eraill yn eu lle; a chyda brys ac awyddfryd mawr y cariai y trigolion yr adeilad yn mlaen. Yr oedd yr adeilad yn agos i 15 llath o hyd, a thros 5 llath o led, adeilad a gyfrifid yn eang y pryd hwnw; a chodwyd hon i fyny, meddir, mewn tri diwrnod ar ddeg, o'r amser y gosodwyd y gareg sylfaen hyd yr amser y rhoddwyd tô arno! Prawf teg fod "yn y bobl galon i weithio."

Wedi methu o berchenogion y tiroedd lesteirio codi y capel trwy *drais*, ymosodasant ar ei ddifuddio trwy *gyfraith*. Codwyd yr achos i'r llys gwladol; ni ddywedir dan ba esgus; oddieithr mai yr un ydoedd a hònid o'r dechreuad, sef y cam a wneid â'r tiroedd o amgylch. Ond trwy ryw fusgrellni neu gilydd, gan faint oedd y brys a'r ffwdan i ddwyn yr achwyniad yn mlaen, fe gaed rhyw wall yn yr erlyniad, a thaflwyd yr achos allan o'r llys. Wedi eu

gorchfygu yn y modd yma, ar bob tir, nid oedd ysbryd yn y gwrthwynebwyr i wrthsefyll dim yn hwy.

Wedi cael lle cyfleus a sefydlog i addoli, aeth yr achos yn ei flaen drachefn yn llwyddiannus. Coronwyd y weinidogaeth yn y lle hwn ag arddeliad anarferol, dros lawer o dymhorau, a thros faith flynyddau. Nid peth anghyffredin, meddir, oedd gweled cannoedd o wrandawyr yn y tŷ cwrdd hwn ar unwaith, â'u gruddiau oll yn wlybion gan ddagrau. Yr un pregethwyr, gan mwyaf, a wasanaethent y lle hwn a Thŷ Ddewi. Yr oedd John Harris o Dreamlod (neu Diramlad), yn ymweled â'r lle yn rheolaidd yn ei dro dros lawer o flynyddoedd, ar y Sabbothau; fe ddeuai hefyd yn fisol yma i bregethu yn yr wythnos, ac i gadw cwrdd eglwysig, a pharhaodd at hyn yma hyd ddiwedd ei oes.

Yn agos i'r lle hwn yr oedd Mr. Sampson Thomas yn byw. Yr oedd y lle yn mwynhau graddau helaeth o'i ddoniau a'i lafur gweinidogaethol yntau. Yr oedd Mr. Henry Richard o Drefin, tad y diweddar Mr. Richards, Tregaron, a'r presenol Mr. Richards, Abergwaun, yn arfer ymweled yn fynych â Chyfarchell, heblaw y brodyr ffyddlawn a fu yn cydoesi ac yn goroesi y brodyr a enwyd. Dywediad cyffredin y llefarwyr oedd, eu bod yn mwynhau mesur helaethach o gymhorth i draddodi eu gweinidogaeth yn Ngharfarchell, nag yn un man arall yn y wlad.

Ychydig o hanes Mr. Sampson Thomas sydd ar gael, er ymofyn llawer. Y mae y tô adnabyddus o hono, bellach, wedi gadael ein daear ni, a chan nad ysgrifenwyd dim o'i hanes yn yr adeg briodol, nid oes obaith, mwyach, am wneyd y gwall i fyny. Ymddengys, pa fodd bynag, mai ganedig ydoedd o Drelech, yn sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef tua'r fl. 1739. Nid oes wybodaeth am ei rieni, pa un ai crefyddol ai peidio oeddynt. Gan fod hen eglwys gan yr Annibynwyr yn ei le genedigol, bernir mai yno y byddai ei rieni yn arfer addoli; a chan fod mwy o naws ymneillduwr ynddo yntau nag oedd yn gyffredin yn yr hen Fethodistiaid, bernir mai trwy rhyw gysylltiad â chynulleidfa Trelech y cynyrchwyd hyny.

Yr oedd yn ei ieuenctyd yn llanc lled wyllt, ac yn dueddol i yfed llawer, ac efe hefyd oedd pen ymladdwr y fro; a chan gyfateb i'w enw Sampson, yr oedd yn gyffredin yn arfer bod yn drechaf. Ond ni chafodd ei rwysg i aros yn y gwasanaeth caled hwn yn hir, eithr fe'i galwyd pan oedd tuag 21ain ml. oed, i wasanaeth meistr gwell, ac at waith anrhydeddusach. Nid yw ein hanes yn ein hysbysu pa fodd y dychwelwyd ef at grefydd, na pha bryd y dechreuodd bregethu. Daeth i sir Benfro yn y fl. 1773, pan oedd yn 34 ml. oed, trwy briodi gwraig weddw, yr hon oedd yn byw mewn lle a elwir Trecadwgan, yn agos i Solfach. Fe fu yn llafurio yn y sir hon yn benaf, o hyny allan, sef am ysbaid 34 o flynyddoedd; hyd nes y goddiweddwyd ef gan angau yn y fl. 1807, pan oedd yn 68 ml. oed. Mae yn nodedig ddarfod iddo ef a'i wraig farw yr un amser, a chael eu claddu yr un diwrnod, ac yn yr un bedd, yn mynwent Tregroes.

Yr oedd Sampson Thomas yn cael ei gyfrif yn ŵr cadarn yn yr ysgrythyrau.

Arferai rhai o'r hen bobl ddyweyd ei fod yn un rhagorol iawn yn y cyfarfodydd eglwysig. Arferai ddyfod i Abergwaun bob mis; gelwid y Sabboth hwnw, mewn canlyniad, yn Sabboth Mr. Thomas.

### SOLFACH.

Lle ydyw hwn gerllaw y môr, tua phedair milldir i'r dwyrain o Dŷ Ddewi. Er nad yw yr achos yn y lle hwn ond bychan, eto fe ymddengys fod yma bregethu wedi bod agos mor foreu a Charfarchell. Nid adeiladwyd yma yr un addoldŷ hyd y fl. 1815. Rhaid, ynte, fod pregethu wedi cael ei ddal i fyny mewn tai anedd, neu ystordai, am flynyddau lawer, nid llai, tybygid, na 60 mlynedd, a mwy, cyn codi y capel. Yr oedd gan y Methodistiaid achos bychan yn y lle hwn flynyddau lawer cyn bod yma yr un enwad arall; a bu eu gweinidogaeth hwy yn ddiamheuol yn foddion arbenig i hau y maes hwn, er, fel y gwelir heddyw, mai enwadau eraill a ddaeth i mewn i'w llafur, ac i fedi y ffrwyth. Ac er fod yma gymdeithas eglwysig wedi ymgorffori, bellach, er ys 40 mlynedd, eto nid yw ond bechan ac eiddil.

### RHYD-Y-GELE.

Mae y lle hwn ychydig o filldiroedd o Solfach. Mae hon fel Solfach yn hen orsaf Methodistiaeth; ac fel y lle hwnw, yn aros hyd heddyw, yn eiddil a nychlyd. Rhandir yr hen ymneillduwyr, tybygid, yw hon, a hwy sydd yn meddiannu yr ardal, bellach, er ys oesoedd. Yr unig beth nodedig am y lle hwn mewn cysylltiad â Methodistiaeth, ydyw ei fod yn drigle hen gynghorwr, hynod yn ei oes, o'r enw William Edward. Yr oedd hwn yn un o ddychweledigion Howel Harris, a'r unig un o'r cynghorwyr anghyhoedd y tymhor boreuol hwnw, y mae genym ddim adgofion am danynt. Am hwn y bernir fod "Cofnodau Trefecca" yn son,* am yr hwn y cytunwyd ar iddo ymweled â'r eglwysi yn Nhŷ Ddewi, Penrhos, a Mounton, yn wythnosol, ar brawf, hyd y gymdeithasfa ddyfodol. Yr oedd y dysgybl hwn yn ddyn hynod. Yr oedd tân lawer yn ei gyfansoddiad. Nid oedd nemawr lywodraeth wedi bod arno, ond y graddau a roes ofn Duw arno, na dim coethi wedi bod arno erioed gan ddysgeidiaeth. Trwsgl iawn a difedr oedd fel cynghorwr. Nid oedd gwedd pregeth ar ei gyfarchiadau; "llef un yn llefain" ydoedd mewn gwirionedd; cymhwysach i bregethu mewn *diffaethwch* o lawer, nag i sangu "*tai breninoedd.*" Yr oedd yn byw yn nghanol hen anghydffurfwyr; nid oedd yn y fro nemawr o grefyddwyr ond y cyfryw; ac er nad oedd William Edward ddim yn proffesu ei hun yn ymneillduwr, ond yn ddysgybl Howel Harris, fe ganiateid iddo eistedd yn eu mysg, ïe, rhoddid lle iddo yn mhlith eu swyddogion; ac, mewn gair, derbyniai gryn fesur o diriondeb oddiar eu dwylaw. Yntau, yr ochr arall, a ymwasgai atynt hwythau, gan eu bod a mwy o arwyddion gras arnynt

* Gwel tudal. 284, Cyf. II.

na neb arall yn y fro. Edrychent hwy arno ef yn rhy danbaid a direol gyda'i ddefodau crefyddol, ac edrychai yntau arnynt hwythau yn rhy farwaidd a gorfanylaidd. Rhoddent hwy rai cyfarwyddiadau iddo ef, weithiau, yn tueddu i'w drefnuso a'i harddu (ac yr oedd digon o achos); yntau a'u hysgytiai hwythau yn ol am eu claearineb a'u cwsg; ac nid afreidiol oedd hyny, tybygid, chwaith. Unwaith, pan oedd ei *gefnderi* hyn yn ei gynghori i fod yn fwy trwsiadus a rheolaidd wrth bregethu, yn lle derbyn eu cynghorion yn ddystaw a diolchgar, efe a ddechreuodd ddesgrifio y gwahaniaeth oedd rhyngddo ef â hwy, drwy ddau ddull o osod allan dŷ ar dân, ynghanol nos, a'r teulu yn cysgu.

"Dyma," meddai, "eich dull chwi yn pregethu. Wrth deithio yn y nos," meddwch, "yn 1af, Mi ganfum dân. Yn 2il, Mi welais fwg. Yn 3ydd, Mi ddeallais fod y tŷ ar dân. Yn 4ydd, Mi wybum fod y teulu yn cysgu. Yn 5ed, Mi a ddaethum i'ch deffro, a'ch galw allan, rhag eich llosgi."

"Dyna," meddai William, "ydyw eich dull chwi. Fy null inau, wedi deall fod y tŷ ar dân, a'r teulu yn cysgu, ydyw gwaeddi heb na chyntaf nac ail, 'Iwb! Iwb! Hawyr! Hawyr! Deffrowch! Deffrowch! deuwch allan ar frys; mae y tŷ ar dân; onide fe'ch llosgir yn lludw!'"

Gan anamled oedd pregethu yn y dyddiau hyny gan y diwygwyr Methodistaidd, fe fyddai William yn aml yn gwrando ar yr ymneillduwyr hyn. Ac yn mhlith yr henuriaid a'r diaconiaid y byddai yn eistedd. Dygwyddai ambell dro i'r llefarwr daro wrth fater a fyddai yn cyffwrdd â'i deimladau; pryd hyn, fe neidiai William ar ei draed, ac a waeddai nerth ei geg, "*Gogoniant! yn mhlith y ceffylau mudion hyn!*" Yr oedd hyn iddynt oll fel ysgytiad trydaniaeth *(electricity)*. Os marwaidd fyddent o'r blaen, bellach, byddent yn eithaf effro.

Saer oedd William Edward wrth ei grefft. Wrth ddylyn ei alwedigaeth, arweiniwyd ef unwaith i blith y Saeson sydd yn preswylio rhan o'r wlad, i weithio, a hyny mewn plasdŷ, lle yr oedd teulu lled foneddigaidd, a lle yr oedd cryn nifer o weithwyr a gwasanaethyddion. Wedi bod yn eu plith dros ryw ysbaid, cododd sibrwd yn eu mysg fod y saer yn bregethwr, a chryfhaodd y syniad mai gwir oedd hyn. Daeth y chwedl i glustiau y wraig foneddig, a hi a'i galwodd ef ati, a gofynodd iddo, "Ai pregethwr oedd?" Atebodd yntau, "Y byddai yn arfer rhoddi gair o gynghor weithiau i'w gymydogion, pan y byddai cyfleusdra yn caniatâu." Ar hyn, y foneddiges a ddywedodd, "Fod yn rhaid iddo bregethu iddi hi a'i theulu y Sul canlynol." Y Sul a ddaeth, a'r teulu mawr a alwyd at eu gilydd, a'r wraig foneddig yn eu plith. Gosodwyd y pregethwr i sefyll ar ystôl, modd y byddai ychydig yn uwch na'i wrandawyr. Wedi i'r gynulleidfa ymlonyddu, ac ymbarotoi i wrando, safodd William i fyny, a thynodd hen lyfryn o'i logell, ac wedi ei agor a ddarllenodd yn destyn, yn Saesoneg, "'Pwy bynag a ŷr allan ei was neu ei forwyn i godi *tatws*, neu i dori cawl, ar foreu Sabboth, a ddemnir dros byth.' Dyma fy nhestyn, madam, mi af yn mlaen, bellach, gyda'ch cenad." "Nac ewch, yr adyn," ebe y foneddiges, dewch i lawryn y fan! dim ychwan-

eg o'r fath glebar!" I lawr y gorfu i William ddyfod, a darfu yr oedfa gydag iddo gymeryd y testyn!

Gwelir wrth yr hanesyn uchod pa fath un oedd y cynghorwr hwn. Yr oedd tân lawer yn ei gyfansoddiad, ac nid yn wastad y llywodraethid ei natur a'i dymher gan ddoethineb a barn. Yr oedd ymwylltio tan ruthr profedigaeth yn fagl barhaus iddo, ac yn ei ddwyn weithiau i ddyryswch a blinder. Un tro, yr oedd ef a chymydog iddo, o'r enw Thomas Hooper, yn gweithio gyda'u gilydd; a thrwy ryw anffawd, cyfododd dadl rhyngddynt; a bu yr ymryson mor boeth, nes darfu i William Edward yn ei anwydau, roi gwthiad i'w gymydog, a pheri iddo syrthio ar ei ben yn erbyn careg, neu arf, a chael archoll trwm ar ei dalcen. Prin yr oedd y ffrwgwd yma drosodd, nad oedd y newydd trwm wedi cyniwair drwy y fro, fod William Edward, pregethwr, Rhyd-y-gele, wedi taro ymenydd Tom Hooper allan â'i gaib. Yr oedd yr ychydig gyfeillion oedd ganddo yn yr ardal, erbyn hyn, ymron mewn llewyg, gan bryder a braw yn ei achos. Ni wyddent pa beth i feddwl,—yr oedd yr achos yn ymddangos yn rhy ysgeler iddynt ei drafod ymron. Eto caniatawyd iddo ddyfod i'r cwrdd eglwysig, er mwyn cael cyfle i'w ddiarddel yn rheolaidd o'u mysg. Gofynwyd iddo, pa amddiffyniad oedd ganddo iddo ei hun? Yr unig beth a geid ganddo oedd, na tharawodd efe mo Tom Hooper. Ond pa fodd y gellid ei gredu?—yr oedd yr archoll yn profi y gwrthwyneb, ac nid oedd i'w wneyd ond rhoddi y ddedfryd mewn grym, a'i fwrw ef allan yn ddioed. Ond cyn myned allan, gofynodd ganiatâd i gael myned i weddi cyn troi ei gefn. Caniatawyd hyn iddo. I weddi yr aeth, ac mewn agwedd ddrylliog iawn y cyfeiriai at yr amgylchiad galarus, gan apelio cyn dybenu at hollwybodaeth y Goruchaf yn yr achos, a dyweyd, "Er fod fy mrodyr yn gwrthod fy nghredu, Ti wyddost Ti, O! Arglwydd mawr, na tharewais i mo Tom Hooper yn ei dalcen â'r gaib,"—ac wedi ychydig o eiriau yn ychwaneg, fe derfynodd ei weddi. Gorchfygwyd ei frodyr trwy hyn, a chytunasant oll i beidio ei fwrw ef allan. Felly hefyd y bu, a'r hyn sydd yn hynod am dano, yn y canlyniad, ei fod wedi cael llwyr oruchafiaeth ar ei anwydau o hyny allan, a bu ei arafwch a'i larieidd-dra, bellach, yn hysbys i bawb a'i hadwaenai, hyd ddydd ei farwolaeth.

Parod ydyw y darllenydd, yn ddiau, i synu at gymeriad yr hen gynghorwr. Ond rhag ei gondemnio yn ormod, cofied yr amser yr oedd yn byw ynddo; yr anfanteision y cafodd ei fagu danynt; leied o ymgeledd ac addysg a allai neb o'i gydgrefyddwyr tlodion yn yr ardal roddi iddo; a chofied gyda phob peth fod cywirdeb a gonestrwydd yn coroni ei enw da, ac iddo gael ei ddysgu, cyn diwedd ei oes, i roi heibio "y pechod oedd barotaf i'w amgylchu," ac ennill iddo ei hun gymeriad anrhydeddus, yn yr hyn y bu efe gynt yn fwyaf diffygiol ynddo.*

* Fe ganodd William Edward, unwaith, iddo ei hun, fel hyn :—

Mae *cannon* mawr yn Rhyd-y-gele,
Wedi ei *loado* hyd y genau,
Y mae yn barod i fyn'd allan,
'N erbyn calon y d—l ei hunan !

Fe fu gŵr arall yn byw, dros ryw dymhor, gerllaw y lle hwn;—gŵr gwahanol iawn i William Edward. Ei enw oedd John Williams; gelwid ef yn aml, Williams y *student*, am ei fod unwaith yn mhlith efrydwyr Trefecca, yn athrofa Iarlles Huntingdon, a fu dros ysbaid yn y lle hwnw. Yr oedd y gŵr hwn, gan hyny, yn meddu ar raddau o ddysgeidiaeth; a dywedir ei fod yn ŵr cadarn yn egwyddorion sylfaenol y grefydd Gristionogol, er nad oedd yn cael ei gyfrif mor hyawdl ei ymadrodd, a phoblogaidd ei ddoniau, ag ambell un. Bu yn Nhŷ Ddewi yn preswylio am ychydig o amser, ond yn Rhyd-y-gele y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes weinidogaethol; ac yma hefyd y dybenodd ei yrfa. Fe fu ei lafur yn fuddiol a chymeradwy drwy y sir, ac yn neillduol yn y rhanau Seisnig o honi.

## PENNOD XII.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR.

CYNWYSIAD:—

WOODSTOCK—YMA Y CODWYD Y CAPEL CYNTAF YN Y WLAD—HYNAFIAETH A HYNODRWYDD Y LLE—HOWEL DAVIES YN LLYS-Y-FRAN—JOHN HARRIS, TREAMLOD—CYDLAFURWYR JOHN HARRIS—LLEOEDD GWEINYDDIAD Y SACRAMENTAU YN Y SIR—JOHN HARRIS YN TENBY—NATHANIEL ROWLANDS—Y PARCH. EVAN HARRIS—SIAMS THOMAS, EI WAS—CAS'GWYS—GOSEN—BRIMASTON HALL—CAS'MAEL—Y GWASTAD—MOUNTON—NARBERTH, NEU ARBERTH—BURNESS HILL—BEGELEY.

#### WOODSTOCK.

Mae y lle hwn yn enwog yn hanes Methodistiaeth sir Benfro. Yn yr ardal hon y mae eglwys Llys-y-frân, lle y bu y Parch. Howel Davies yn gweinidogaethu gyntaf. Adeiladwyd yma gapel mor foreu a'r fl. 1754—adeg nad oedd gan y Methodistiaid ond nifer fechan iawn o dai addoliad yn holl Gymru. Yn y lle hwn y rhoddwyd cychwyniad i weinyddiad yr ordinhad o swper yr Arglwydd gyntaf mewn lle anghysegredig, yn y wlad hon, ac fe allai mewn un wlad arall, yn mysg y Methodistiaid, yn Nehendir Cymru. Fe fu y lle hwn, gan hyny, yn gyrchfa nodedig i Fethodistiaid y rhan ddeheuol o'r sir, dros lawer o flynyddau; o'r lle hwn hefyd y mae amryw o eglwysi eraill wedi hanu, fel y gwelir yn yr hanes a roddir isod.

Mae capel Woodstock yn sefyll yn mhlwyf Treamlod, wrth gyfleusdra croesffyrdd, lle y mae ychydig o dai anedd, ac a elwir Bwlch Woodstock. Yr oedd preswylwyr y fro hon, fel eraill o'u cyd-genedl, yn yr amser y cychwynodd Methodistiaeth, yn ddynion cwbl anwybodus am bethau crefydd; ond yn rhagori llawer, meddant, ar breswylwyr llawer man, am eu naws garedig a heddychlawn â'u gilydd; ac felly y dywedir eu bod yn parhau hyd y dydd hwn. Ymddengys eu bod wedi ryw ymsefydlu mewn diofalwch heddychol, heb ofalu am ddim, ond am ddigon o arian, y bibell, a'r cwpan. Yr oeddynt, tybygid, i fesur "wedi derbyn eu gwobr,"—wedi cael yr hyn yr oeddynt yn

ei geisio, gan eu bod, ar y cyfan, yn meddiannu cryn raddau o bethau da y bywyd hwn. Yr oedd yr ardal hon hefyd yn gwahaniaethu oddiwrth lawer o ardaloedd eraill yn hyn,—na fu yma yr un gradd o erlid; ond dangosai y bobl, yn gyffredin, barodrwydd a sirioldeb i dderbyn yr efengyl o leiaf i'w bro.

Yr oedd y tyddyn y mae y capel yn sefyll arno yn cael ei ddal gan un Mr. Morgans, gŵr hynod am ei dduwioldeb, a'i haelioni at bob achos da. Cyn y fl. 1754, sef y flwyddyn y codwyd yr addoldŷ, nid oedd capel gan un enwad o grefyddwyr yn yr holl wlad o amgylch. Y llanau plwyfol hefyd oeddynt oll yn weigion. Boddlawn oedd yr offeiriaid i bawb gael eu ffordd, am y caent hwy y degwm. Ond fe barodd dyfodiad Howel Davies i bregethu yn sefydlog i eglwys Llys-y-frân, gyffro yn mysg yr esgyrn sychion hyn; bywhawyd llawer o bechaduriaid meirwon drwy ei weinidogaeth ef ac eraill o'r diwygwyr a ddeuent yn achlysurol i'r wlad, fel ag y cafwyd nifer o ddefnyddiau cymhwys i ymgorffori yn eglwys Gristionogol; yr hon, fel y gwelwn, a ymsefydlodd yn raddol yn nghapel Woodstock. Yr oedd y Parch. Howel Davies yn pregethu ar agoriad y capel, yn nghydag eraill, y rhai y mae eu henwau mewn anghof. Yn mhen tua blwyddyn ar ol codi y capel, ymwelodd Whitfield â'r fro hon, a bu yn pregethu yn y capel newydd. Dan ofal Howel Davies, pa fodd bynag, y gosodwyd y ddeadell yn y lle hwn.

Mae yn ymddangos hefyd oddiwrth Gofnodau Trefecca, fod amryw fân ddeadellau wedi eu crynhoi mewn ardaloedd heb fod yn mhell o'r fro hon, ddeng mlynedd a mwy cyn adeiladu capel Woodstock, gofal pa rai a roddwyd ar John Harris, Treamlod, ac at y rhai y cyfeiriwyd o'r blaen,* sef yn Llawhaden, Jefferson, Carew, Gelli-dawel, &c. Nid oes hanes am y deadellau hyn, wedi y fl. 1745, a lle i amheu sydd, eu bod wedi eu goresgyn i raddau mawr â diflaniad, tua'r 1751, pryd y bu dymchwelfa arswydus ar Fethodistiaeth y gwledydd oll, trwy yr ymraniad y soniasom o'r blaen am dano.† Mae yn ddigon tebygol fod yma, fel mewn manau eraill, ryw radd o fwlch yn Methodistiaeth y dosbarth, wedi dygwydd dros ryw ysbaid; ac ar ol iddo ail gychwyn, ddarfod iddo ymsefydlu yn y capel newydd yn Woodstock.

Yn yr ardal hon y bu yr hybarch John Harris, a'i fab Evan Harris, yn byw. Dechreuodd John Harris ymwasgu at y Methodistiaid yn gynar, tua'r fl. 1742, pan nad oedd ond 21 ml. oed. Fe fu y gŵr hwn farw tua'r fl. 1788, ac felly yr oedd wedi bod yn llafurio yn y weinidogaeth am ysbaid 46 o flynyddoedd; edrychid ar y gŵr hwn, i fesur mawr, yn dad Methodistiaeth sir Benfro. Fe deithiai drwy y sir unwaith yn y mis i bregethu yr efengyl, ac i blanu ac amaethu yr eglwysi. Ni chysgai, meddir, yn ei dŷ ei hun, ond un noswaith yn ystod y mis, am flynyddoedd, gan mor ddiwyd a chyson a fyddai yn llafurio er adeiladaeth yr eglwysi. Gwnai hyn, hefyd, heb edrych am un wobr, ond oedd ynghadw iddo yn y nef. Cynorthwyid ef i gyflawni hyn oll, heb bwyso ar yr eglwysi gweiniaid, trwy fod ei wraig a'i fab, yr hwn a droediodd yn ei gamrau, yn cymeryd gofal y tyddyn a ddelid ganddo. Yr

* Gwel Cyf. I., tudal. 167, lle ceir adroddiad John Harris o'r lleoedd dan ei ofal yn y fl. 1743. † Cyf. I., tudal. 386.

oedd John Harris yn ŵr o gyneddfau cryfion; a'i arafwch a'i bwyll yn hysbys i bawb. Yr oedd uniondeb ei farn ar bethau, yn nghyda dwysder ei gymeriad fel Cristion, yn naturiol yn ennill iddo le a dylanwad mawr yn mysg ei frodyr.

Yr oedd yn cydlafurio gyda John Harris, ac yn gydoeswyr iddo, John Gibbon o'r Gelli, Benjamin Thomas, a William Gambold. Yr oedd yr olaf hwn yn frawd i esgob Morafaidd o'r enw Gambold. Fe fu William Gambold gyda John Harris rai gweithiau trwy y Gogledd ar gyhoeddiad; ac unwaith yn neillduol, fe ddywedir iddynt fod mewn perygl am eu bywyd wrth ryw bont, lle cyfarfu â hwynt lu o ddyhiriaid ar fedr eu baeddu, os nid eu lladd. Nid yw fy hanesydd yn nodi y lle na'r amser y bu hyn; er hyny, nid oes dim anhygoel yn y chwedl, gan mai mewn amser pell yn ol, 80 ml. neu fwy, y bu hyn; adeg y gwyddom oedd yn nodedig am ragfarn a chreulondeb y werin tuag at grefyddwyr.

Yr oedd Mr. Hill o Lundain yn gydnabyddus iawn â John Harris, ac yn mynwesu meddwl uchel iawn am dano. Yr oedd unwaith yn pregethu yn y tŷ y buasai John Harris fyw ynddo, a hyny pan oedd ei fab, y Parch. Evan Harris, yno. Yr oedd gweddw yr hen bregethwr eto yn fyw, wrth yr hon y dywedai Mr. Hill, wrth ganu yn iach iddi, "Os ewch chwi i'r nefoedd o'm blaen i, cofiwch fi at John Harris, a dywedwch wrtho, fy mod inau hefyd yn dyfod." Dro arall, pan aeth y Parch. T. Harris, gynt o Hwlffordd, ac ŵyr i John Harris, i gyfarch gwell i Mr. Hill yn Llundain, gofynai yr hen ŵr boneddig iddo, "Pwy ydych chwi?

"Yr wyf yn ŵyr i'r diweddar John Harris o Dreamlod (*Ambleston*)." Ar hyn, ebe fe, heb wneyd un sylw pellach, "Os oes un dyn o'n byd llygredig ni yn y nef, y mae yr hen John Harris yn sicr o fod." Meddai gohebydd arall am dano, "Yr oedd John Harris yn ŵr nodedig o dduwiol a llafurus gydag achos ei feistr. Anaml yr âi noswaith heibio na fyddai yn rhyw fan neu gilydd yn y gymydogaeth, yn rhybuddio ei gyd-bechaduriaid i ffoi rhag y llid a fydd; ac hyd yn nod ar y ffordd fawr, dywedai air wrth hen ac ieuainc, am eu cyflwr tragywyddol; a hynod fel y perchid ac y cerid ef."

Gosodir i lawr yma bigion o lythyr a ysgrifenwyd gan John Harris at Howel Harris, o St. Kenox, dyddiedig Mai y 12fed, 1745. Gwelir yn y llythyr hwn pa fath oedd y pregethwr, o ran gwroldeb meddwl, a pha fath ydoedd yr anhawsderau a'i cyfarfyddai, yn awr ac eilwaith, yn ei lafur fel efengylwr. Fel hyn y dywed:—

———"Mae hiraeth arnaf am eich gweled, er mwyn rhoddi i chwi fyr-hanes am lwyddiant yr efengyl yn y sir,—y newyddion mwyaf derbyniol, tybygaf, gan yr anwyl frawd Harris o bob newyddion; ac yn wir, yr wyf finau fy hun yn llawn calon gyda'r gwaith: bendigedig fyddo Duw! Mae teyrnas ein Harglwydd wedi dyfod, a dydd dial ein Duw yn erbyn pechod. Y mae yr Arglwydd yn helaethu lle ei babell fwyfwy; nid oes, bellach, yr un rhan o'n sir na fum i yn cynghori ynddi, ond tref Penfro, a bwrdeisdref Tenby, yr hon sydd borthladd tua phump neu chwech milldir o Benfro. Mi fum yn llefaru nos Wener diweddaf, o fewn dwy filldir i'r lle, ac nid oedd genyf ond un brawd crefyddol yn byw yn Tenby; mynych y ceisiasai hwn genyf ddyfod i bregethu i'r dref; ac yn awr anfonais ato i ddyweyd y deuwn i'w dŷ i letya; ac os

gwelai ef yn oreu y gallai wahodd rhyw nifer o wŷr a gwragedd, adnabyddus iddo ef, fel rhai yn chwennychu gwrando, i fy nghyfarfod, a minau a esboniwn ychydig o adnodau yn yr ystafell gefn. Felly hefyd y gwnaeth y gŵr.

Ond pan oeddwn ar ganol y gwasanaeth, daeth y ceisbwl *(constable)* i mewn, gan ddyweyd, 'Syr, rhaid i chwi dewi: gorchymynir i mi gan y maer i'ch dwyn chwi yn ddioed o'i flaen ef.' Minau a ddywedais, 'Mi a gydsyniaf â'i gais, ond gan fy mod ar wasanaeth meistr arall yn awr, yr wyf yn erchi caniatâd i draddodi fy neges.'

Gyda hyn efe a adawodd yr ystafell. Cyn i mi orphen, daeth y curad i mewn, a chydag ef yr oedd y ceisbyliaid a phedwar neu bump o wŷr boneddig. Y curad a fynai i'r swyddog fy llusgo i lawr. Ond i hyn y swyddog a atebai, 'Gresyn fyddai hyny, cyn iddo orphen,—oblegyd y mae yn llefaru yn felus.'

'I lawr ag ef,' ebe y curad, 'onide mi ro'f gyfraith arnat ti am esgeuluso dy ddyledswydd.'

Er fod y dynion (y ceisbyliaid) yn hanner meddw, eto cefais ganiatâd i orphen yr oedfa; ac yn wir, yr oedd yn hyfryd ar fy ysbryd i, ac ar fy ngwrandawyr hawddgar. Eu nifer oedd tua 40.

Mi a ddisgynais oddiar y lle y safaswn; a thra yr oeddynt yn ymesgusodi oreu y gallent wrth ŵr y tŷ, yr oedd eu gwedd yn llwyd i ryfeddu.

'Ni a ddaethom,' ebe hwy wrth ŵr y tŷ, 'i weled y darluniau *(pictures)* gwych sydd genych, Mr. Thomas.'

Minau a atebais, 'Tybygwyf, foneddigion, mai fi yw y darlun y daethoch chwi i'w weled.' Ar hyn y swyddog a roes ei law ar fy ysgwydd, gan ddyweyd, 'Yr ydych yn garcharor, syr, a rhaid i chwi ddyfod o flaen y maer.'

'Yr wyf fi yn barod i ddyfod gyda chwi,' ebe finau. Pan ddaethum i'r heol, a hyny rhwng 9 a 10 o'r gloch y nos, yr oedd, yr wyf yn credu, o leiaf fil o bobl, yn wŷr a gwragedd, gyda'u llusernau a'u canwyllau, yn fy nysgwyl, ac yn llefain yn echrys, 'Ymaith ag ef! ymaith ag ef!'

At y maer y daethom. Hwn, heb edrych yn fy wyneb, a ofynodd i mi am fy *license*. Atebais nad oedd genyf yr un. Gofynodd,—

'Pa fodd y meiddiwch ddyfod i'n tref ni i bregethu?'

I hyn atebais: 'Ni chyhoeddwyd fi i bregethu yma; ond mi a ddaethum yma i letya, ac wedi i'r bobl wybod fy nyfodiad, hwy a ddaethant i mewn yma, a minau a esboniais iddynt ychydig adnodau, a ni a ganasom bennill neu ddau, ac a weddiasom.'

'Rhaid i chwi,' ebe y maer, 'roddi meichiafon am eich ymddangosiad yma yn y chwarter sessiwn nesaf.' Gofynais inau,—

'Da fyddai genyf wybod, syr, beth sydd genych i'w roddi yn fy erbyn.'

'Eich gwaith yn pregethu yma,' oedd yr ateb.

'Os hyny yw y trosedd, chwi gewch, syr, y meichiafon yn bur ewyllysgar;—am ba swm y gofynir hwynt?'

'Am ddau cant o bunnau,' oedd yr ateb. Yr oedd yno ddau o frodyr yn barod i ymrwymo; ond fe ofynodd rhyw rai oedd yn sefyll gerllaw i mi, 'A roddwch chwi eich gair, na ddeuwch chwi yma i bregethu mwy, os cewch eich gollwng yn rhydd yn awr?'

'Hyny,' ebe finau, 'ni allaf ei wneyd;—ac er na ddaethum i yma y tro hwn i bregethu, eto nid oes sicrwydd genyf na fydd raid i mi bregethu yma cyn nos y fory: oblegid nid oes genyf awdurdod arnaf fy hun.'

'Gan bwy, atolwg, y mae awdurdod arnoch?' ebe gwraig y maer.

'Dan awdurdod fy meistr yr wyf.'

'Pwy yw eich meistr, ai y diafol?'

'Nage, fy meistr i sydd feistr ar y diafol hefyd, ac arnoch chwithau yn gystal.'

'Hist,' ebe y maer wrth y wraig, 'tewch a son.' Gyda hyn galwyd arnaf i lawarwyddo yr ymrwymiad, a gollyngwyd fi yn rhydd."

Nid yw y llythyr yn hysbysu dim mwy am yr amgylchiad, ac nid ydym yn cael un hysbysiad mewn un hanes arall, pa fodd y dybenodd hyn o benbleth: hyn a chwanegir gan John Harris ei hun, fod y terfysgwyr yn dorf fawr mewn gwedd ffyrnig yn sefyll oddiallan i dŷ y maer, yn dysgwyl am dano, a hawdd ydyw dyfalu, gan yr esiampl a roddid i'r werin gan eu huwchafiaid, a chan y wedd oedd ar y bobl pan aethai y pregethwr i mewn, pa fath driniaeth oedd yn ei aros ar ei ddyfodiad allan. Ond Duw a ddarparodd amddiffynwr iddo

mewn modd annysgwyliadwy. Yr oedd yn y lle ynad heddwch, yr hwn a deimlai ei hun dan rwymau i ryw frawd crefyddol adnabyddus i John Harris; hwn, o wir garedigrwydd at ei gymwynaswr, a roes ei aden drosto y noswaith hòno, gan ei amddiffyn rhag y terfysgwyr, ac a'i lletyodd ef fel "mab brenin." Yntau, dranoeth, a ddychwelodd i'w dŷ, "a'r dagrau," meddai ef ei hun, "yn rhedeg dros fy ngruddiau, o wir dosturi at drigolion tlodion Tenby."

Llawer o hanesion cyffelyb i'r un uchod, yn ddiau, a allesid eu cofrestru yn mywyd John Harris, ac eraill o'i gydlafurwyr, yn amser boreuaf y diwygiad, ond nid oedd neb yn meddwl y pryd hwnw am eu hysgrifenu "i'r oes a ddel;" eto y mae ambell amgylchiad fel yr un uchod wedi dianc, megys yn ddifwriad ac achlysurol, i roddi i ni drem i mewn i helyntion boreuaf ein tadau. Dyddorol a buddiol, yn ddiau, a fuasai pe cawsem fwy.

Dywedasom o'r blaen fod John Harris yn ddiflino yn cyfarch ei gydwladwyr yn mhob man y byddai, pa un bynag ai hen ai ieuainc, tlawd neu gyfoethog, gan ddyweyd rhyw air wrthynt yn nghylch eu hachos pwysig gyda Duw Yr oedd unwaith yn lletya mewn ffermdŷ dros nos, pryd y cymerai achlysur i sibrwd gair wrth y gweinidogion yn nghylch crefydd. Boreu dranoeth, galwai y feistres ar y llances o forwyn, gan ddyweyd, "Dos â botasau y gŵr dyeithr iddo, Siâni fach."

"Nac âf fi yn wir," ebe y llances.

"Paham hyny?" gofynai y feistres.

"Fe 'wêd wrthw'i fy mod *yn bechadur*," oedd yr ateb. Deallai y forwyn na esgeulusai y gŵr dyeithr hwn un adeg i geisio llesâu y rhai a ddeuent i'w gyrhaedd. Esiampl deilwng o efelychiad

Fe fu y Parch. Howel Davies yn gweinyddu yn fisol yn Woodstock am 16 o flynyddoedd, sef o'r amser yr adeiladwyd y capel hyd ei farwolaeth yn y fl. 1770. Yr oedd tri lle arall yn y sir, yn y rhai y gweinyddid yr ordinhadau o fedydd a swper yr Arglwydd, sef Capel-newydd, am yr hwn y cawn eto son, a dau gapel eglwysaidd ond diwaddol, sef capel Mounton ger Narberth, a St. Daniel ger Penfro. Yr oedd y ddau olaf hyn yn terfynu ar gyffiniau y rhan Seisnig o'r wlad. Yn y pedwar lle hyn y gweinyddai Howel Davies bob mis, pob lle ei Sabboth. Ar Sabboth pen mis yr oedd cyrchu mawr i Woodstock, o Ddinas Dewi, Trefin, Abergwaun, a Hwlffordd, a'r manau cyfagos i'r lleoedd hyn. Hwy a ymgasglent, gan mwyaf, ar brydnawn Sadwrn, a mawr y ffyddlondeb a'r caredigrwydd a ddangosid yn yr ardal, mewn ffordd o letya yr holl ddyeithriaid a ddeuent yno ar yr achlysuron hyn; a rhyfeddol y mwynhad a brofid yn y moddion.

Yn y fl. 1770, fel y dywedwyd, y bu farw y Parch. Howel Davies, y cyntaf o weinidogion eglwys Loegr yn y wlad hon a droes allan i bregethu yr efengyl y tu allan i'r muriau cysegredig, a'r unig un yn y wlad a arferai weini yr ordinhadau o fedydd a swper yr Arglwydd yn mysg y Methodistiaid

hyd ei farwolaeth. Ar ei farwolaeth, fe ganai yr hen Williams yn alarus am dano:—

> "Pwy sydd yn y *coffin* pygddu, trwm ynghanol y fath lu?
> Medd trafaelwyr ar y gefn ffordd, rhei'ny'n synu hefyd sŷ;
> HOWEL DAVIES, ffyddlon, cywir, bugail pedair eglwys fawr;
> Sydd yn myn'd i fynwent Prengast, heno i orwedd yno i lawr."

Oddeutu yr amser hwn y daeth y Parch. Nathaniel Rowlands, mab i'r enwog Daniel Rowlands, i'r wlad hon. Arferai ddyfod i bentref a elwir Castell-newydd-bach, i bregethu yn yr eglwys yno; nid oedd, tybygid, yn pregethu, o leiaf hyd y pryd hwn, ond yn yr eglwysi. Mawr iawn oedd y cyrchu i wrando arno. Yr oedd enw ei dad yn un at-dyniad mawr, ac hefyd, yr oedd iddo enw o fod yn meddu ar dalentau helaeth. Ymgasglai lluaws mawr i'w wrando, pa fodd bynag, a derbyniwyd lluaws mawr o aelodau i'r cymundeb yn yr eglwys hon, ac yn eu mysg lawer o aelodau Abergwaun ac ardaloedd eraill. Y mae y lle hwn tua 6 milldir i'r deau o Abergwaun, a 3 milldir o Woodstock. Ar ol rhyw gymaint o amser, fe'i galwyd ef i weinyddu yn eglwysi Howel Davies, y rhai, bellach, a deimlent yn ddwys eu hamddifadrwydd wedi colli eu hen fugail. A'r alwad hon y cydsyniodd yntau; a phriododd ferch ei ragflaenor, gan sefydlu ei gartref, bellach, mewn lle a elwir Parciau. Parhaodd i weinyddu i'r pedair eglwys a grybwyllwyd o'r blaen, at y rhai y chwanegwyd Hwlffordd yn mhen rhyw gymaint o amser, o'i alwad hyd ei ddiarddeliad, tua'r fl. 1805. Adwaenid y Sabbothau yn Woodstock, a manau eraill, wrth enw y pregethwr y disgynai ei dro i'w cyflenwi. Sul pen mis a elwid Sul Rowlands; Sul pythefnos oedd Sul John Harris; y trydydd oedd Sul Henry Richard; a'r olaf oedd Sul William Griffith.

Fe fu John Harris yn cydoesi ac yn cydlafurio gyda Rowlands am ysbaid 18 mlynedd ymron, ar ol colli y llariaidd Howel Davies; ond ei haul yntau a fachludodd. Bu farw yn y fl. 1788, yn nhŷ offeiriad yn Trefdraeth. Yn ei anghladd, pregethodd Sampson Thomas, oddiwrth Dat. xiv. 13: "Gwŷn eu byd y meirw y rhai sy'n marw yn yr Arglwydd." Pregethodd Mr. Rowlands hefyd yn eglwys Treamlod, oddiwrth 1 Pedr iv. 18: "Ac os braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?" Wele H. Davies, a John Harris, bellach, wedi cilio o'r golwg!—y ddau gyntaf, a'r ddau hynotaf yn mysg yr henafiaid yn sir Benfro; y ddau a fendithiwyd yn arbenig i blanu ac i ddyfrhau eglwysi Methodistiaid y wlad hòno am lawer o flynyddoedd; gwŷr y mae eu coffadwriaeth yn beraroglaidd ar y ddaear, a'u gwobr yn fawr yn y nefoedd.

Bellach, yr oedd mab John Harris ar y maes—y Parch. Evan Harris. Hwn oedd y cyntaf o bregethwyr lleÿgaidd sir Benfro a ordeiniwyd yn y fl. 1811. Ymddengys fod Mr. Harris wedi cychwyn ar waith y weinidogaeth rai blynyddoedd cyn marw ei dad, sef tua'r fl. 1784. Yn ol y cyfrif hwn, treuliasai 35 ml. yn y gwaith cyhoeddus, gan mai yn y fl. 1819 y bu efe farw. Yr oedd Mr. Harris yn cael ei ystyried yn weinidog helaeth ei ddawn a'i

gyrhaeddiadau, ac yn ŵr o gymeriad da, ac o ddylanwad mawr yn ei wlad. Fel hyn y dywed gŵr o Woodstock am dano, gŵr a'i hadwaenai yn dda: "Yr oedd y Parch. Evan Harris yn un hynod yn mhlith ei frodyr; er ei fod o dymher lled drymaidd, eto yr oedd ei galon yn bwrlymu o gariad at ei frodyr, fel yr oedd yn hawdd i'r lleiaf nesâu ato yn gystal a'r mwyaf, a'r gwanaf yn yr eglwys i ddyweyd eu profiadau wrtho yn gystal a'r cryfaf." Yr oedd yn ŵr o gryn feddiannau bydol, ac mewn sefyllfa gysurus, eto ymwadai â llawer o'i esmwythyd ei hun er mwyn achos yr Iesu, ac er mwyn gwasanaethu ei genedlaeth trwy ewyllys Duw. Mynych yr âi filldiroedd o ffordd, ac weithiau, er mwyn cymdeithas ei frodyr, ar ei draed, ar nosweithiau gwaith, i bregethu, neu i gadw cyfarfodydd eglwysig, i'r wlad o amgylch ei gartref.

Yr oedd gŵr o'r enw George Thomas, un o'r henuriaid a berthynai i Woodstock, yn cartrefu gyda Mr. Harris, ac yn gweithio iddo. Yr oedd Siors, fel y gelwid ef fynychaf, yn hoff iawn o'i feistr, ac nid amgen y meistr o hono yntau. Bernid Siors yn ŵr crefyddol iawn, eto yr oedd yn perthyn iddo ryw bethau a dybid yn blentynaidd. Un diwrnod, gadawodd ei waith yn fyrbwyll, ac aeth at Mr. Harris, gan ddyweyd, "Harris bach, nis gallaf weithio mwy heddi." "Paham hyny?" gofynai Mr. Harris. "Mi welais gymaint o ogoniant yn Nghrist nes wy'i ymron myn'd yn ddwl," oedd yr ateb. A chan y gwyddai ei feistr mai nid rhith a rhodres oedd hyn, effeithiodd yn ddwys iawn ar Mr. Harris, ac o'r braidd y gallodd gynwys ei deimladau.

Yr oedd Siors, dro arall, yn teithio gyda Mr. Harris fel cydymaith iddo, yn sir Aberteifi; ac ar un tro, wrth weddio o flaen y pregethwr, dygwyddodd, wrth daer erfyn am ryw fendith, gyfarch Iachawdwr dynion â'r enw "Iesu *bach* anwyl." Ar ddiwedd yr oedfa, daeth yr hynod Owen Enos at Mr. Harris, gan ddyweyd, "Wel, Mr. Harris, mi glywais lawer erioed o ddyweyd am yr Iesu, ond ni chlywais neb o'i *ffrindiau* erioed o'r blaen yn galw *bach* arno!"

"O," ebe Siors, "gwyddai fe o'r goreu mai o gariad ato y gwnaed hyny."

Y Sabboth cyn ei farwolaeth, daeth ei fab, y Parch. Thomas Harris, gynt o Hwlffordd, yr hwn a fuasai yn pregethu y Sabboth hwnw yn lle ei dad, i'r ystafell lle yr oedd yr hen ddiacon ffyddlon yn gwylied y gweinidog. Yn yr adeg, fe fu yr ymddyddan canlynol:

"Yn wir, Harris bach," ebe Siors, "fyddwch chwi ddim byw."

"Paham yr ydych yn meddwl hyny?" gofynai y claf.

Atebodd yr hen ŵr, "Mi a'ch gwelais yn glaf amryw weithiau, ond fe fyddai gweddiau yr eglwys mor hynod, fel nas gallwn feddwl y byddech farw: ond nid felly y mae yn bresenol." Drachefn, ebe efe, "Yr ydych yn edrych yn esmwyth a didaro yn yr olwg ar fyd tragwyddol; carwn wybod pa beth sydd yn eich gwneyd chwi felly?"

I hyn yr atebodd y claf: "Mae fy mhechodau wedi bod o flaen fy meddwl,

ac wedi bod yn pwyso arnaf fel mynyddau o blwm; ond y mae un gair wedi eu gwasgaru :—'Ond y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner!'"

"O Harris bach," ebe Siors, "O! na allwn ddod gyda chwi! Ni wn i ddim siwt i fyw ar eich ol!" "Cariadus ac anwyl oeddynt yn eu bywyd, ac ni allai marwolaeth eu gwahanu," oddieithr dros dymhor byr. Aeth yr hen was ffyddlawn, a'r brawd anwyl, ar ei ol cyn hir, ac ar ei wely angau nis gadawyd yntau. Ar ddyfodiad un o'i gyd-ddiaconiaid i ymweled ag ef, dywedai yn orfoleddus ei enaid, "Mae y llyfrau wedi eu croesi â gwaed; a'r penaf bechadur yn achubol trwyddo." Yn ei gynhebrwng, pregethodd y Parch. T. Harris oddiwrth Rhuf. xiv. 7, 8.

Yr oedd pedwar o bregethwyr yn eglwys Woodstock gyda'r Parch. Evan Harris, sef William Griffith, Tan-lan; John Gibbon, Gelli; William Gambold; ac Edward Griffith. Am y brodyr hyn y dywed yr un hysbysydd, "Eu bod yn pregethu yn dra bywiog, *plaen*, a diaddurn; nid yn annhebyg i ddyn yn '*boxio'r cwmpas*,' o Genesis i'r Dadguddiad; ond y byddai dylanwadau ar brydiau yn eu gwneuthur yn 'feistriaid y gynulleidfa.' Rhaid cyfaddef y byddent yn troi fel hen felin, yn lled dolciog ar amserau, eto yr oedd y gynulleidfa newynog yn ymborthi ar y blawd yn hyfryd." Fe fu y brodyr hyn "ffyddlawn ar ychydig,—gosodwyd hwy ar lawer, ac aethant i mewn, yn ddiau, i lawenydd eu Harglwydd."

Yr oedd Woodstock fel rhyw hen eglwys gadeiriol *(cathedral)* yn nghanol y wlad, yn gwasgaru ei dylanwad i'r parthau cylchynol. Arferid pregethu, a chedwid cyfarfodydd eglwysig, mewn llawer iawn o ffermdai o amgylch, yn y rhai y mae capelydd yn awr, ac eglwysi wedi eu sefydlu wrthynt eu hunain; ïe, rhai o honynt yn fam-eglwysi i gynulleidfaoedd eraill. Yn y fl. 1828 a'r ddwy ganlynol, fe fu yma, sef Woodstock, adfywiad nodedig. Chwanegwyd, y pryd hwnw, lawer at yr eglwys; yr oedd yma ûs yn y pentwr, mae'n wir, ac aethant ymaith gyda'r awelon a chwythodd arnynt; ond yr oedd yma rawn pur hefyd, y rhai sydd erbyn heddyw oll, oddieithr un, wedi eu casglu i'r ysgubor. Aeth rhai o'r dysgyblion adref yn eu gwresogrwydd cyntaf; eraill, wedi dwyn pwys y dydd a'r gwres, ydynt wedi cyrhaedd gorphwysdra, fel nad oes yn aros o honynt ond un, ac yntau, bellach, yn 80 ml. oed, a'i dŷ pridd yn ymollwng, ond y dyn oddimewn yn cael ei adnewyddu o ddydd i ddydd.

Fe fu yr eglwys hon, ar ol colli Mr. Harris a'i gyd-oeswyr, dros hir amser yn amddifad o un pregethwr yn byw ynddi. Yn ddiweddar, pa fodd bynag, daeth y Parch. Daniel Evans, gynt o Dŷ Ddewi, i breswylio gerllaw y lle hwn, ac un Caleb Evans hefyd; y rhai y mae eu cymeriad a'u llafur yn dra chymeradwy a defnyddiol. Mae y lle hwn yn fwy cryno a diwall arno na llawer man. Mae yma gangen o'r Feibl Gymdeithas, ac nid yw Dirwest ddim wedi ei hesgeuluso. Adeiladwyd ysgoldy hefyd yn y fl. 1848, i roddi addysg ddyddiol i blant tlodion, ac fe wnaed hyn heb ddim cynorthwy. Mae yma yn aros, er yr heidiau a aethant i gymydogaethau gerllaw, eglwys luosog, a chynulleidfa fawr o wrandawyr astud; ac nid yw y weinidogaeth chwaith, trwy drugaredd, ddim yn hollol ddieffaith yn y dyddiau diweddaf hyn; eithr

fe geir aml un, yn awr ac eilwaith, "yn ymofyn y ffordd tua Sïon, a'u hŵyneb-au tuag yno."

CASTELLGWYS, NEU CAS'GWYS *(Wiston)*.

Fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd eglwys Woodstock yn tori allan ar y ddê a'r aswy, a chynelid pregethu yn Llys-y-fran, Bullhook, Fenton, Ffynnon-gain, Gelli, Blaen-y-wern, Castell-blaidd, Castell-y-fuwch, Felindre', Forehill, &c. Ymddengys hefyd na fu y llafur yn y manau hyn ddim yn ofer; y mae, weithian, eglwysi wedi eu planu, a chapelau wedi eu codi, yn yr ardaloedd y mae y ffermdai uchod ynddynt, y rhai y bu y pregethu ynddynt yn foddion i'w cynyrchu. Yn eu mysg, yn un o'r lleoedd cyntaf, y mae Cas'gwys. I'r gogledd o'r lle hwn yr oedd Woodstock, ac i'r deau yr oedd Mountou, ac nid oedd Bullhook a'r Gelli ddim yn mhell. Yr oedd pregethu fel hyn wedi amgylchu y lle, ond yr oedd y lle ei hun wedi ei esgeuluso dros lawer o flynyddoedd ar ol cychwyniad Methodistiaeth yn Woodstock; a dyddorol ydyw craffu y modd y mae symudiadau rhagluniaeth yn gwasanaethu i ledaeniad teyrnas Crist.

Oddeutu y fl. 1790, daeth merch o sir Gaerfyrddin, perthynol i eglwys y Cwm-bach, i wasanaethu i'r gymydogaeth, ac oddeutu yr un amser, daeth un John Proper, o ardal Tŷ Ddewi, i breswylio yn agos i'r un man. Daeth y ddau hyn yn fuan yn gydnabyddus â'u gilydd, a chan eu bod fel alltudion, yn gyffelyb i'w gilydd, wedi colli eu hen gartref, ac yn teimlo amddifadrwydd eu cartref newydd, teimlent radd o at-dyniad at eu gilydd, a chytunasant i gyfarfod ar brydnawn Sabboth er mwyn adeiladaeth ysbrydol yn nhŷ John Proper; ac ymunodd â hwy un John Dafydd. Cedwid y cyfarfodydd hyn yn raddol yn gyfarfodydd gweddio, ac ymgasglai lluaws o bobl iddynt. Parhaodd y cyfarfodydd dirodres hyn dros amser maith, ac o'r diwedd llwyddwyd gyda'r Parch. E. Harris i ddyfod yno i bregethu; ac o hyny allan fe geid pregethu i'r lle mor fynych ac y gellid ei gael.

Cedwid oedfaon hefyd yn fynych yn y tymhor hwn mewn lle a elwid *Broadway*, ac yn *Roger's-hook*. Yr oedd gŵr Roger's-hook yn ŵr cyfrifol iawn, ac yn fab i un o'r hen bregethwyr. Priodasai hefyd ferch o un o'r teuluoedd Methodistaidd yn ardal Abergwaun. Yn nhŷ y gŵr hwn y cynelid y pregethu, gan mwyaf, y pryd hwn. Yma y cedwid y cyfarfodydd eglwysig, a gŵr y tŷ a flaenorai arnynt fel swyddog eglwysig. Ymddengys hefyd fod gogwyddiad cryf yn meddwl y gŵr hwn at yr eglwys wladol, er ei fod yn aelod yn Woodstock, a phan y daeth yr amser i neillduo gweinidogion i'r corff, gwelwyd arwyddion o dymhestl yn agosâu; a phan hysbyswyd pa beth oedd penderfyniad y gymdeithasfa ar yr achos, ac mai neillduo a wneid, penderfynodd y gŵr hwn ddangos ei ochr, a gosod ar yr holl aelodau a arferent ymgynull i'w dŷ wneyd yr un modd. Felly, ar ryw ddiwrnod tra chofiadwy i rai hyd heddyw, wedi dybenu y cyfarfod eglwysig yn ei barlawr ei hun, gosododd yr achos ger bron, a galwodd arnynt oll i ddod i benderfyniad pwy a ddewisent, ai yr eglwys wladol ai y Methodistiaid, gan ardystio am dano ef ei hun, mai wrth yr eglwys yr ymlynai. Ymddengys hefyd

nad oedd un petrusder yn ei feddwl wrth osod yr achos i lawr, na fyddai ei esiampl a'i ddylanwad yn ddigon i dueddu pawb i ogwyddo yr un ffordd. Ond er dirfawr siomedigaeth iddo, penderfynodd yr holl gymdeithas, oddieithr dau neu dri, yn y gwrthwyneb, gan dystio, "Ni a ddylynwn ein pregethwyr i ba le bynag yr elont."

Mae y lle hwn yn terfynu ar fro Seisonig, a llawn cymaint o Saeson ag sydd o Gymry yn byw ynddo. Ar ddechreu y pregethu yn y lle, bygythiwyd erlidigaeth ac aflonyddwch. Un tro, pan oedd Mr. Harris yn pregethu, saethwyd ergyd o ddryll yn agos iawn at Mr. Harris; ond yn lle terfynu ac ymollwng, fel y gallesid dysgwyl, aeth y pregethwr yn fwy hyf a gwrol, gan bregethu gyda nerth mawr. O'r diwedd, aeth y gynulleidfa yn ormod i'r tŷ, a theimlwyd awyddfryd am le mwy cyfleus ac eang. Ymddengys fod yma ŵr o'r enw John Williams, a fyddai yn arfer cynghori yn y lle hwn yn fynych gyda gradd helaeth o gymeradwyaeth, a hyny hyd nes yr agorwyd y capel.

Trwy waith Mr. Williams, Llandegigau, yn cyflwyno deisyfiad at Lord Cawdor, cafwyd tir i adeiladu, ac yn y fl. 1813 agorwyd yr addoldŷ newydd, pryd y pregethodd y Peirch. E. Harris, Eb. Morris, a J. Evans, New Inn. Mae achos y Gwaredwr yn raddol yn ysgogi yn mlaen yma hyd heddyw. Yma y dechreuodd y Parch. William Llewelyn, a'i frawd, bregethu. Mae yr henuriaid ag oedd yn y lle hwn yn y dechreuad oll wedi myned i dŷ eu hir gartref. Gwŷr dysyml oeddynt, a ffyddlawn iawn yn eu gwaith. Arferid eu galw, "heddychol ffyddloniaid" Cas'gwys.

## GOSEN.

Yn mhen rhyw amser wedi adeiladu capel Cas'gwys, teimlodd rhai o'r aelodau yn ddwys yn achos pentref bychan yn y plwyf nesaf, sef plwyf Slebech, Barnwyd mai buddiol a fyddai cynal rhyw gyfarfodydd crefyddol yn y pentref, os gellid cael lle i'w cynal. Gyda'r dyben hwn, aeth un o'r aelodau ag oedd yn byw nesaf ato i'r pentref, gan ymofyn pwy a fyddai ewyllysgar i roddi ei dŷ; ond gwrthodwyd ei gais yn mhob tŷ yn y pentref, ond yr un yr aeth ato ddiweddaf. Caniatawyd ei gais yn y tŷ hwn, a threfnwyd i'r Parch. W. Llewelyn fyned yno y Sabboth canlynol. A dyma fu dechreuad Methodistiaeth yn y lle hwn. Cynaliwyd moddion yma am flynyddau, a gosodwyd sêl bendith ar y weinidogaeth i ddwyn amryw i ymuno ag eglwys Cas'gwys, ac yn mhlith eraill, teulu y tŷ y cynelid y cyfarfodydd ynddo. Yr oedd yn y teulu fab, yn ŵr ieuanc, ac yn cael ei ddwyn i fyny yn gyfreithiwr; ond yn y canlyniad, gadawodd y gyfraith, ac ymroddodd i weinidogaeth yr efengyl. Yr oedd cael gwasanaeth gŵr ieuanc gobeithiol o'r fath yn werthfawr iawn yn Cas'gwys, gan ei fod yn gyfarwydd ar yr iaith Saesonaeg, ac anfynych y cyfarfyddid y pryd hyny â'r fath un. Ond wedi treulio rhai blynyddoedd yn yr ardaloedd hyn, collwyd ei wasanaeth yn llwyr o fro ei enedigaeth. Nis gwyddom gyda sicrwydd pa beth a barodd hyn, ai *dewisiad* ai *gorfod;* ond pa un bynag, fe'i collwyd ef i Gymru, fel llawer un gobeithiol arall; ac y mae

yn awr yn weinidog i gynulleidfa yn Stone, swydd Stafford. Ei enw yw y Parch. Mark Butler. Y mae yn gysur, er y cwbl, i'r meddwl ystyriol fod y llafur dirodres yn Slebech, yn sir Benfro, yn magu gweinidog i drigolion Lloegr. Fel hyn, yn ddiau, y goruwch-lywodraethir amgylchiadau o ofid a cholled i un ganghen o eglwys Crist, i fod yn adeiladaeth a llwyddiant i ganghen arall.

Nid yw eglwys Cas'gwys ddim wedi bod yn hollol ddieppiledd, fel y gwelir uchod, ac y gwelir eto yn fwy. Cof, fe allai, gan y darllenydd, fod crybwylliad wedi ei wneyd o gymdeithas eglwysig yn cael ei chynal yn Llawhaden,* sef y plwyf y mae Gosen ynddo, er dyddiau boreaf John Harris, agos i gan' mlynedd cyn adeiladu capel yma i'r Methodistiaid. Fe fu bwlch maith iawn yn Methodistiaeth y fro hon. Ond fe ddaeth yr amser i ymweled drachefn â phlwyf Llawhaden. Aeth gŵr a gwraig ieuainc, newydd briodi, o ardal Woodstock, i amaethdŷ o'r enw *Porterslade*, yn agos i Lawhaden. Derbyniodd y teulu ieuanc hwn bregethu i'w tŷ; yn raddol, cafwyd moddion lled gyson i'r lle, a llawer o bobl a ymgasglent yno i wrando. Yn y fl. 1840, adeiladwyd addoldŷ gerllaw terfynau tir Porterslade, a galwyd ei enw Gosen. Cafodd y gŵr da sydd yn preswylio yn Porterslade, sef Mr. John Lewis, weled ffrwyth y pregethu a achleswyd mor ffyddlawn ganddo yn ei dŷ, mewn tŷ cyfleus i addoli, ac mewn cynulleidfa luosog yn gwrando'r efengyl gyda chysonedd ac astudrwydd. Yn yr eglwys hon y mae cartref Mr. David Llewelyn.

## BRIMASTON HALL.

Crybwyllasom eisoes fod pregethu achlysurol mewn lle a elwid Castell-y-blaidd. Yr oedd yn byw yno ŵr cyfrifol o'r enwMr. John Meyler, amaethwr. Ymwelai yr holl enwogion Methodistaidd, yn awr ac eilwaith, â Chastell-y-blaidd. Parhaodd hyn holl ddyddiau Mr. Meyler, a thrachefn yn nyddiau ei fab ef dros gryn dymhor. Yr oedd pregethu achlysurol, yn y cyfamser, yn yr Hall; ond ar y neillduad a fu ar leÿgion i weini yn y corff, ciliodd Mr. Meyler a'i wraig yn ol i'r eglwys wladol, a thrwy hyny ymsefydlodd y pregethu yn hollol yn yr Hall. Trefnuswyd hen ysgubor i fod yn addoldŷ, ac yn yr adeilad hon y buwyd yn addoli dros ysbaid rhai blynyddau. Yr oedd yma rai o aelodau Woodstock yn byw yn y fro hon, y rhai, gan mor anghysbell oedd capel Woodstock oddiwrthynt, a chan y gobaith a roddid o foddion cyson yn fwy cyfleus, a ymffurfiasant yn eglwys yn yr Hall, at y rhai y chwanegwyd llawer o bryd i bryd. Bellach, y mae yma gapel hardd a chysurus wedi ei godi, a chynulleidfa dda yn gwrando. Teg ydyw crybwyll yma, pa mor llafurus a ffyddlawn a fu Mr. J. Harris gyda'r achos yn y lle hwn, o'i ddechreuad hyd yn awr. Rhoes ef a'i briod, yn nghyda'r teulu oll, eu hysgwyddau dan arch Duw, a hyny hyd heddyw, er fod y penteulu, bellach, wedi cyrhaedd gwth o oedran.

* Gwel Cyf. I., tudal. 167.

Yn yr eglwys hon yr oedd cartref yr hen frawd ffyddlawn John Rhydderch. Nid oedd doniau cyhoeddus y brawd hwn yn cael eu hystyried yn fawr, eto cyfrifid ef yn ŵr cadarn yn yr ysgrythyrau, a pherchid ef gan bawb a'i hadwaenai, fel un ffyddlawn a defnyddiol. Arferai bregethu yn y ddwy iaith, ac o hyny yr oedd yn fwy cymhwys i wasanaethu ei genedlaeth yn y parth hwn o'i wlad. Y mae yma bregethwr eto yn byw yn y gymdeithas hon, sef Mr. Stephen Lewis, ac yn arfer pregethu yn y ddwy iaith.

Yr oedd gan John Meyler bedair o chwiorydd, oll yn grefyddol. Priododd pob un o'r chwiorydd i deuluoedd cyfrifol, ac aethant a'u crefydd gyda hwy i dai eu gwŷr, a phregethu hefyd,—un i'r Mynydd-hir; un arall i Lŷs-y-fran; un arall i Gastell-y-fuwch; a'r bedwaredd i Drefdraeth. Yr oedd pregethu hefyd yn nhŷ chwaer i Siôn Meyler, sef Tŷ-llwyd, Pont-gynon. Rhedai crefydd megys yn ngwaed y teulu yma, ac fe ddywedir nad oes argoelion yr ymedy yn fuan chwaith. Yr *Hall* a olygir fel *ail ferch* Woodstock.

## CASTLEMAEL.

Yr oedd ychydig o bregethu yn y lle hwn 80 ml. yn ol. Mae y lle yn sefyll o fewn tua thair milldir i Woodstock, ac yn yr ardal yr oedd amryw o aelodau yr eglwys hòno yn cyfaneddu. Sonir yn neillduol am un Joseph Roberts, Llŷs-y-dryw, ac un Dafydd Petr, fel rhai hynod yn mysg yr hen bobl. Cadwai y cyntaf addoliad teuluaidd dair gwaith yn y dydd, a chyfrifid ef yn hynod am ei dduwioldeb. Cyfarfyddai hwn a Dafydd Petr â'u gilydd yn fynych mewn tŷ annhrigiannol, a byddent yno, lawer noswaith, dan y boreu, gan dreulio yr oriau meithion yn ddifyr mewn ymddyddanion â'u gilydd, ac mewn gweddiau.

Yn yr amseroedd boreaf, y gwŷr a arferent ymweled â'r ardal hon i bregethu, yn fynychaf, oeddynt Siôn Evan, Cenarth; Thomas Dafydd Siôn; un Lewis Siôn yr ysgolfeistr; a Rhys Davies. Gwas oedd yr olaf mewn fferm o'r enw Creinar. Pentref bychan a thlawd oedd Castlemael, ac nid ydym yn cael fod neb o enwogion y Methodistiaid wedi bod yn arfer dyfod yma y pryd hyn. Tua milldir o Gastlemael yr oedd y tŷ y crybwyllasom ei enw o'r blaen, sef Castell-y-fuwch, lle y daethai un o chwiorydd Siôn Meyler i fyw. I'r lle hwn, fe ddeuai amryw o'r gwŷr enwocaf ar eu tro. Tua 40 ml. yn ol, dechreuwyd ysgol Sabbothol yn Castlemael, ac yn eglwys y plwyf y cedwid hi. Pregethid hefyd yn nhŷ un Lewis Evan: hen ŵr hynod am ei grefydd oedd hwn hefyd. Ar ol ei farw, dywedai ei gymydogion yn alarus, "Wel, wel, ni chawn byth mwy weled ei hen ben gwŷn ef, yn nghŵr y cae yn gweddio!" Ofnid a pherchid ef gan bawb yn y pentref.

Dygwyddodd, yn nhrefn rhagluniaeth, i ŵr ieuanc o'r enw Shem Evans, mab i'r Parch. Arthur Evans, sir Gaerfyrddin, ddyfod i'r gymydogaeth i fyw. Panwr ydoedd wrth ei gelfyddyd. Bu hwn yn offeryn i gyffroi yr ardal i gael capel ynddi, a llwyddodd yn ei amcan; ond er dirfawr golled i'r ardal bu

farw yn fuan wedi hyny. Agorwyd y capel newydd yn y fl. 1827.* Mae yma yn awr tua 48 o aelodau. Tarddodd cangen allan o'r eglwys mewn lle rhwng Castlemael ac Abergwaun, o'r enw Mamre, lle mae achos siriol a gobeithiol.

## Y GWASTAD.

Y ganghen olaf a darddodd o eglwys Woodstock yw y cynulliad sydd yn y lle hwn. Yr oedd pregethu cyson wedi bod yn Forehill er ys blynyddau. Anhawdd fyddai dyweyd gormod am ffyddlondeb yr hen Mrs. Roblin, Forehill, a'r eiddo ei mab ar ei hol, yn nghyda'i deulu; ac afreidiol hefyd ydyw dyweyd llawer, gan fod eu "tyst hwy yn y nefoedd, a'u tystiolaeth yn yr uchelder." (Job xvi. 19.) Wedi blynyddau o lafur yn Forehill a Llys-y-frân, barnwyd yn fuddiol cael capel yn y fangre, lle y gallai trigolion y fro ymgrynhoi iddo. Yn y fl. 1836 fe'i hadeiladwyd, ac y mae gwedd obeithiol ar y gwaith. Symudodd Mr. Roblin, yn mhen enyd ar ol adeiladu yr addoldŷ, o Forehill, gan adeiladu tŷ cysurus iddo ei hun a'i wraig gerllaw y tŷ cwrdd. Y mae efe wedi tramwyo ffordd yr holl ddaear er ys blynyddau. Mae ei weddw eto yn aros, ac yn dangos "yr un ffyddlondeb da" tuag at yr efengyl ag a ddangosasai yn Forehill; a'i nai sydd yn awr yn aneddu yr hen breswylfa, yr hwn hefyd sydd yn un o'r swyddogion *eglwysig yn y Gwastad.*

Gan mai aelodau Woodstock a ffurfient gorff y canghen-eglwysi yn Cas'-gwys, yr Hall, Castlemael, Gosen, a Mamre, rhaid oedd fod hyny yn lleihau nifer y dysgyblion yn y fam-eglwys i raddau cyfatebol. Ond er hyny, mae yn deilwng o sylw neillduol, ddarfod i'r diwygiad a fu yn y lle tua'r fl. 1828-9, godi y bylchau i fyny yn llawn; ac fe ymddengys yr achos yn Woodstock eto yn llawn mor llewyrchus a siriol ag y gwnaethai cyn haniad y lleill o hono.

## MOUNTON

Er nad oes gan y Methodistiaid ddim achos yn y lle hwn yn awr, eto anfaddeuol a fyddai myned heibio iddo yn ddisylw, gan faint a fyddai o ymgynull iddo gan hen Fethodistiaid y rhan fwyaf ddeheuol o'r sir yn y blynyddoedd gynt. Yr oedd y lle hwn, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn un o'r pedwar lle † hynod hyny y gweinyddid swper yr Arglwydd ynddynt, pan oedd y gweinyddwyr, a lleoedd gweinyddu ynddynt, yn dra anaml. Mae capel Mounton yn sefyll yn mhlwyf Narberth, a thua dwy filldir o'r dref hòno. Mae yn sefyll wrtho ei hun mewn gweirglawdd, ar derfyn coedwig Canaston. Ym-

* Pregethodd ar ei agoriad—am 10 o'r gloch, y Peirch. William Morris ac Ebenezer Richards. Am 2 o'r gloch, D. Griffiths, a T. Richards. Ac am 6 o'r gloch, D. Meyler a D. Griffiths.

† Y lleoedd eraill oeddynt, Woodstock, Capel-newydd, a St. Daniel's.

ddengys fel rhyw hen lan o ran ei lun, ac nid annhebyg ydyw na chawsai rywbryd gysegriad esgobawl mewn amseroedd pell yn ol, fe allai cyn gwawr y "Diwygiad Protestanaidd" yn y wlad hon. Disgynasai yr adeilad, pa fodd bynag, i anarferiad llwyr hyd y diwygiad Methodistaidd. Nid oedd, tybygid, yn werth gofalu am dano, na gwneuthur defnydd o hono, gan nad oedd *gwaddol* yn perthyn iddo. Nid yw yn hysbys yn awr pa fodd y daeth y Parch. Howel Davies i gael dyfodfa iddo, ond y ffaith sydd sicr iddo gael, a'i fod ef a'i gyd-ddiwygwyr wedi gwneuthur defnydd da o hono, i bregethu yr efengyl, ac i weinyddu swper yr Arglwydd i gynulleidfaoedd lluosog a ymgrynhoent i'r lle, a hyny dros flynyddoedd lawer.

Ymddengys y byddai amryw o'r diwygwyr a dderbyniasent urddau esgob yn gweinyddu yn Mounton, y naill yn nifyg y llall, tra y bu dan fugeiliaeth Howel Davies, megys Whitfield, ac wedi hyny, William Williams, Pant-y-celyn, Peter Williams, Nathaniel Rowlands, a Rowland Hill; a rhai heb fod wedi derbyn y cyfryw urddau, megys J. Cenrick, Howel Harris, Toriel Joss, ac efrydwyr Trefecca, pan oedd athrofa Arglwyddes Huntingdon yno. Y mae y lle ar gyffiniau y Saeson, a defnyddid ef, gan hyny, i bregethu yn y ddwy iaith yn ol yr amgylchiadau. Yr oedd yma gyrchfa fawr o bobl, a chafwyd fod y weinidogaeth yn rymus a nerthol; a diamheuol ydyw ddarfod i luaws mawr o bechaduriaid gael llesâd tragwyddol trwyddi. Wedi marwolaeth Howel Davies, cymerodd ei fab-yn-nghyfraith, Nathaniel Rowlands, y lle dan ei fugeiliaeth, a chyflawnai ef a'r Parch. D. Griffiths, Nefern, y Sabbothau misol, bob yn ail, dros ryw gymaint o amser. Wedi marwolaeth Mr. Griffiths, gwnaed cynygiad o'r lle i gyfarfod misol y Methodistiaid yn y sir, trwy ddeiseb ysgrifenedig wedi ei harwyddo gan lawer o'r gynulleidfa. Y cyfarfod misol yntau, wedi ystyried yr achos, a ddaeth i benderfyniad i dderbyn y cynygiad, ac i wneyd defnydd cyffredinol o'r lle fel addoldŷ arall; penodwyd hefyd ar frodyr i gyflawni rhai Sabbothau ynddo. Ond cyn gosod hyn mewn gweithrediad, a chyn i'r Sabboth cyntaf a benodwyd arno i gychwyn y drefn newydd ddyfod, cyffrôdd rhai o'r offeiriaid oedd yn y fro, gan dybied, ond odid, nad anrhydeddus a fuasai i adeilad gysegredig gael ei defnyddio gan bregethwyr Methodistaidd, a safasant yn erbyn cais y gynulleidfa, a sicrhasant y lle iddynt eu hunain. Ymddengys hefyd fod offeiriaid y fro hyd heddyw, neu rai o honynt, yn gwasanaethu yn y capel hwn ar eu cylch, unwaith yn y mis; ond ar y Sabbothau eraill, y mae y lle yn wag. Eglur yw mai enw priodol ar y lle yn awr a fyddai, "*Ichabod*, y gogoniant a ymadawodd;" a phe deuai neb heibio a'i cofiai gynt, parod fyddai, wrth edrych ar ei anghyfanedd-dra presenol, i "synu a chwibanu, a dywedyd, 'Paham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn i'r tŷ yma?—Pa ddigter yw'r digofaint mawr hyn?'"

## NARBERTH NEU ARBERTH.

Dywedasom fod y dref hon o fewn tua dwy filldir i Mounton, a deallwn

fod achos gan y Methodistiaid yma er yn lled foreu. Codwyd yma gapel yn un o'r lleoedd cyntaf yn y sir; ond trwy ryw amgylchiadau anorfod, neu ynte trwy ryw esgeulusdra gwallus, fe gollwyd y capel hwnw yn llwyr a thros byth, ac nid oes gan y Methodistiaid yn Narberth hyd heddyw nemawr fwy nag enw o sefydliad crefyddol.

Yr oedd un o flaenoriaid neu ddiaconiaid yr achos gynt yn byw gerllaw yr hen gapel, ac yn cadw gwestty (*Inn*). Yr oedd yr addoldy a'r gwestty ar yr un tir, ac yn eiddo i Lord Kensington. Wedi marw y diacon, daeth y gwestty ar osod, a chymerwyd ef gan dyddynwr o'r wlad, yr hwn oedd yn awyddus i feddiannu yr holl adeiladau oedd yn ei gymeriad. Deallodd yn fuan fod yr addoldy a'r gwestty gyda'u gilydd; hònodd ei hawl i'r cwbl, trowyd yr addolwyr i maes, a gwnaed y tŷ cwrdd yn dŷ ceffylau. Syrthiodd y tafarnwr i dlodi ac iselder, a bu gorfod iddo ymadael; yr hen adeilad hefyd a dynwyd i lawr; a phrin y mae y lle y safai arno yn adnabyddus yn awr, wedi deugain mlynedd o amser. Proffesodd y boneddwr mai ei gamarwain a gawsai yn y tro annyben hwn; a bod yn ddrwg iawn ganddo yr anffawd. Tebyg ydyw fod rhyw un arall, neu rai eraill, yn fwy eu pechod yn y tro na'r boneddwr ei hun, fel y bu lawer gwaith yn hanes Methodistiaeth Cymru.

Y pryd hwnw, nid oedd un addoldy yn y dref gan un enwad ymneillduol, ond yr un hwn gan y Methodistiaid. Ond wedi yr amgylchiad hwn, syrthiodd achos y Methodistiaid ymron i'r dim, a dechreuodd enwadau eraill feddiannu y tir. Yn y fl. 1843, pa fodd bynag, prynodd y Methodistiaid ddarn o dir, ac adeiladwyd capel drachefn; gyda pha faint o ddoethineb, nid yw amlwg iawn. Fe allai fod cymaint o esgeulusdra wedi bod yn y cyfwng blaenorol ag a fu o fyrbwylldra yn yr adeg bresenol. Mae yn y dref ryw ychydig o enwau mewn cymundeb â'r Methodistiaid, eto fe ymddengys mai cryn anturiaeth ydoedd adeiladu yma, tra yr oedd y tir wedi ei ragfeddiannu gan enwadau eraill.

Ymddengys fod yn y fro hon, yn nghymydogaeth Jefferson, rai dysgyblion er boreu y diwygiad. "Gwelais un o honynt," medd fy ngohebydd parchus, "yr hwn oedd ŵr lled oedranus, o'r enw John Griffith, gŵr a fuasai unwaith yn arfer cynghori ei gyd-ddynion, ond yn awr wedi dystewi yn yr angau er ys amser maith. Ychydig cyn ei farw, anfonodd genadwri i'r cwrdd misol, gan ddyweyd, "Mi a fum 40 ml. yn yr Aipht, ac yr wyf, bellach, wedi bod 40 ml. yn yr anialwch, ac eleni yr wyf yn dysgwyl tirio yn Nghanaan-wlad." * Anfonwyd yn ol ato gan ei gyfarch, a dywedyd, "Dymunem i chwi, hen frawd, fynedfa rwydd a diogel." † Nid oes un achos yn awr gan y Methodistiaid yn Jefferson, nac yn Carew, lleoedd y bu yr hen Siôn Harri yn llafurio; ‡ ac nid llawer o ôl llafur crefyddol sydd ar y rhan yma o'r wlad

* I have been 40 years in Egypt, and now 40 years in the wilderness, and this year I expect to land on Canaan shore." Saesneg a siaradai.

† "We wish you, old brother, a free and a safe passage."

‡ Tudal. 168., Cyf. I.

oll, ond i fesur mawr y mae yn aros yn wyllt a diamaethiad, gan eglwyswyr ac ymneillduwyr er ys llawer blwyddyn.

## BURNESS-HILL.

Mae y lle hwn yn ngwlad y Saeson, ac yn gyfagos i'r lle y soniwyd yn brin am dano eisoes, sef St. Daniel's, un o faesydd llafur y Parch. Howel Davies. Nid oes neb ar gael yn awr ag sydd yn cofio Howel Davies yn pregethu yn St. Daniel's. Y pryd hwnw, nid oedd pregethu yn un man arall, ac yno y cyrchai trigolion y broydd oddiamgylch, yn enwedig ar Sabboth pen mis, pryd y byddai Howel Davies, ar y dechreu, yn gweinyddu swper yr Arglwydd; ac ar ei ol ef y deuai Daniel Rowlands, Llangeitho, a'i fab Nathaniel, yn nghydag eraill o'r offeiriaid Methodistaidd. Bernir mai rhai o aelodau gwasgaredig St. Daniel's a gychwynodd yr achos yn Burness-hill. Y mae yn sefyll tua 6 milldir o Mounton. Hwn oedd cartref y Parch. John Evans, yr hwn a fu farw yn ddiweddar. Nid oedd y brawd hwn yn adnabyddus iawn yn Nghymru yn gyffredinol, am mai Sais ydoedd. Arferai flynyddoedd lawer yn ol, ddyfod yn fynych i Gaer, a threulio yno lawer o amser yn achlysurol, mewn ffordd o wasanaethu yr eglwys sydd yn arfer ymgynull yn nghapel yr Octagon. "Yr oedd efe yn ŵr da, ac yn llawn o'r Ysbryd Glân ac o ffydd." Adeiladwyd yma gapel yn y fl. 1814. Mae lluaws o'r glowyr yn arfer gwrando yn y lle hwn, ac yn ddiweddar bu chwanegu amryw at yr eglwys.

Heblaw Burness-hill, y mae yn y parth Seisnig hwn o sir Benfro bump o gapelau eraill; sef—

*Wallaston.*—Lle y mae tua 20 o aelodau.

*Thorn.*—Lle y mae tua 40 o aelodau.

*Gilead.*—Lle diweddar, yn cynwys tuag 20 o aelodau.

*Penfro.*—Lle y mae tua 50 o aelodau.

*Pembroke-dock, neu Pater.*—Lle y mae tua 200 o aelodau, a'r lle y bu y Parch. John Davies yn llafurio gyda chymaint o gymeradwyaeth a llwyddiant.

*Hundleton.*—Lle y mae tua 17 o aelodau.

## BEGELLEY.

Ymwelid â'r gymydogaeth hon yn achlysurol gan y Parch. John Rees, Caerfyrddin, a James Matthias, Castell-newydd, mewn blynyddoedd pell yn ol; eto nid oedd moddion cyson yn y lle cyn y fl. 1824. Tua'r pryd hwn, anfonwyd gŵr o'r enw Mr. W. Lloyd i fyw yma. Yr oedd y gŵr hwn yn swyddog y cyllid (*excise officer*), ac yn byw cyn hyn yn swydd Drefaldwyn. Gan faint oedd ei barch i dalentau gweinidogaethol rhai o frodyr sir Benfro, y rhai a glywsai yn achlysurol yn Ngwynedd, efe a archodd y gyllidfa ei nodi ef i le yn y wlad hòno, lle y gobeithiai gael gwrando ei bregethwyr

dewisol yn amlach. Llwyddodd yn ei gais gyda bwrdd y cyllid, a symudwyd ef i ddosbarth Begelley; ond mawr oedd ei siomedigaeth a'i benbleth, pan ddeallodd, ar ei ddyfodiad i'r lle, nad oedd yno na chapel na phregethwr Methodistaidd trwy ei ddosbarth oll. Eto ni lwfrhaodd, ond mor ebrwydd ag y cafodd gyfleusdra, llwybrodd ei gamrau i Gas'gwys, a chyfarfu yno â'r Parch. Thomas Harris o Hwlffordd gynt, a chafodd ganddo addaw dyfod i Begelley i bregethu. Ar ol hyn llwyddodd gydag amryw o bregethwyr y wlad, galluog i bregethu Saesonaeg, i ymweled â'r lle mor aml ag y gellid. Ni fu Mr. Lloyd yma yn hir, cyn dyfod yn gydnabyddus â rhai o hen aelodau Mounton, y rhai a gytunasant ag ef i sefydlu ysgol Sabbothol yn y lle. Cynaliwyd hi yn ysgubor yr *Holly-bush*, yn mhlwyf *East Williamson;* cynelid cyfarfodydd gweddio hefyd mewn amrywiol fanau yn y gymydogaeth, ar y Sabbothau, ac ar nosweithiau yr wythnos.

Penderfynwyd yn raddol adeiladu yma gapel bychan yn mhlwyf St. Isells ar ochr y brif-ffordd sydd yn arwain o Begelley i Tenby. Bu y trigolion yn egniol a llafurus gyda'r adeilad, a chafwyd y capel yn ddiddyled ar ei agoriad. Caniatawyd ar yr un dydd i Mr. Lloyd, yr hwn a arferasai gynghori yn y cyrddau gweddi, ryddid i bregethu o hyny allan; "felly cafodd y gymydogaeth hon," medd fy hysbysydd, "gapel a phregethwr yn yr un dydd." Enw y capel yw Bethesda. Yn y fl. 1826 y bu hyn. Yn y cyfamser yr oedd ysgol Sabbothol yn cael ei chynal yn mhentref Begelley, a chymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio eisoes; ac yn mhen dwy flynedd ar ol y llall, cafwyd capel yma hefyd, ac ymddangosai arwyddion fod llaw yr Arglwydd yn gweithio. Yr oedd gan Mr. Lloyd galon i weithio, a bu yn foddion i gyfranu mesur o'r un ysbryd egniol i eraill o'r aelodau. Cynelid rhyw gyfarfodydd bob nos yn yr wythnos, ac arogl esmwyth arnynt oll. Nid hir y caniatawyd i Mr. Lloyd fod yma, oblegid yn y fl. 1830, sef dwy flynedd ar ol codi y capel olaf o'r ddau, efe a symudwyd i gylch arall yn Llandysil. Ond er lleied yr amser, fe wnaed yn yr ardal hon fwy nag a wnaethid o'r blaen er ys cannoedd o flynyddoedd gydag achos crefydd.

Bu yn offeryn i sefydlu dwy ysgol Sabbothol; i godi dau gapel; ac i ffurfio eglwys yn cynwys tua 30 o aelodau, a'r cwbl heb fwy na £13 o ddyled, yr hyn a dalwyd yn ebrwydd ac ewyllysgar gan gwrdd misol y sir.

Gan mor ychydig oedd pregethwyr Saesoneg y wlad hon, a chan mor amddifad oedd y ddeadell fechan, wedi colli eu bugail Mr. Lloyd, archwyd i'r Parch. W. Llewellyn fyned yno i breswylio, i ofalu am yr achos ieuanc yn y lle. Cysylltwyd Bethesda a Begelley yn fuan â'r Genadaeth Gartrefol, yn ngwasanaeth yr hon y bu Mr. Llewellyn yn llafurio hyd y fl. 1844, pryd y daeth y Parch. Thomas Ashford yn olynwr iddo. Yn ystod yr holl amser, yr oedd nifer y gwrandawyr yn lluosog, a chwanegid rhyw nifer o bryd i bryd at yr eglwysi. Ond yn ngauaf y fl. 1849-50, bu dynesiad haint y *Cholera Morbus* i'r gymydogaeth, yn foddion i beri i ddifrifwch a braw ddisgyn ar lawer o'r trigolion, ac i fod yn achlysur i ddwyn llawer i feddwl gyda dwysder am eu diwedd. Chwanegwyd at yr eglwysi, y pryd hwn, nid llai na 50

o aelodau, y rhai, heb un eithriad, sydd yn glynu yn eu proffes, a phob arwyddion arnynt fod llaw Duw wedi cyffwrdd â hwynt.

---

## PENNOD IV.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR, A'U CANGHENAU.

CYNWYSIAD:—

CAPEL NEWYDD—CYCHWYNIAD METHODISTIAETH YN Y FRO—ADEILADIAD Y CAPEL —Y CYNULLIADAU AR SUL PEN MIS YNDDO—BWLCH-Y-GROES—BYCHANDER EI GYCHWYNIAD—OEDFA HYNOD GAN JAMES MATTHIAS—FFYDDLONDEB THOMAS GRIFFITH—JOSIAH EVANS—CODIAD Y CAPEL A BYWIOCAD YR ACHOS—AIL A THRYDYDD ADEILADIAD Y CAPEL—GEORGE GRIFFITHS—PONT-GAREG—GLAN-RHYD—CILGERAN—THOMAS MORRIS—ADFYWIAD CYFFROUS, A DAROSTYNGIAD HEN ARFERION.

### CAPEL-NEWYDD.

Yr ydym wedi cyfeirio at y lle hwn rai gweithiau yn achlysurol, fel un o hen orsafoedd Methodistiaid sir Benfro. Y mae yn sefyll ar gŵr mwyaf gogleddol y sir, ac yn nodedig yn hanes Methodistiaeth, am ei fod yn un o'r ddau gapel Methodistaidd y gweinyddid swper yr Arglwydd ynddynt yn y sir hon yn amser Howel Davies. Y llall, fel y crybwyllasom, oedd capel Woodstock. Y mae hwn yn dynesu at derfynau sir Gaerfyrddin o du y dwyrain, ac at sir Aberteifi o du y gogledd.

Fe ymddengys fod Howel Harris wedi ymweled â'r broydd hyn yn bur fuan ar ol cychwyniad Methodistiaeth yn y wlad. Sonir fod cymdeithas fechan wedi ei ffurfio mewn lle a elwir Cerig-gwynion, cyn bod pregethu yn y Capel-newydd. Yr oedd hyn tua'r fl. 1743. Ymddengys hefyd fod y gymdeithas a gyfarfyddai yn y Cerig-gwynion, yn raddol wedi ymranu er mwyn cyfleusdra; y naill ddosbarth i gyfarfod o hyny allan yn Llechryd, a'r llall yn yr Hen-barciau, sir Benfro,—sef ffermdŷ yn mhlwyf Clydau. Yr oedd pregethu achlysurol hefyd mewn lle arall, tua dwy filldir o'r Hen-barciau, sef y Fach-hendre', yn mhlwyf Capel Coleman. Yr oedd hyn tua'r fl. 1750.

Y prif offerynau a ddefnyddiwyd i ddwyn y gwaith da yn mlaen yn yr ardal hon oedd y Parch. Howel Davies; John Harris, Treamlod; Henry Richards o sir Benfro; Enoch Davies, Penbont-bren; a Mr. Godfrey, Parc-y-bedw, o sir Gaerfyrddin. Bu y gwŷr hyn yn ffyddlawn a llafurus i ddwyn yn mlaen yr achos yn y fro hon, pan ydoedd yn isel arno, a gwenodd yr Arglwydd ar eu llafur, megys y gwelir heddyw.

Tua'r fl. 1751, meddir, y ffurfiwyd y gymdeithas eglwysig reolaidd gyntaf yn y lle hwn. Nid oedd ei nifer ar y dechreu ond ychydig, ac nid annhebyg ydyw na fu yr aelodau a gyfarfyddent unwaith yn y Cerig-gwynion, wedi y dosbarthiad a fu arnynt yno, heb un cyfarfod eglwysig rheolaidd dros ryw dymhor, sef o'r fl. 1743 hyd 1751. Amser oedd hwn pryd yr ymgynullai lluaws o bobl o'r amgylchoedd i wrando Howel Davies yn eglwys Llechryd,

yr hon yn fuan a aeth yn rhy gyfyng i ddal y gwrandawyr;—yna fe bregethai yn y fynwent yn fynych, a thra bendithiol y dywedir fod ei weinidogaeth.

Y gwŷr a arweinient y praidd bychan yn yr Hen-barciau oedd Thomas Griffith, preswylydd y tŷ; Richard Griffith; a Dafydd Evan. Mae rhai sydd eto yn fyw yn cofio y gwŷr hyn yn eu henaint, ac yn dyweyd llawer am eu rhagoroldeb fel dynion ysbrydol a gwerthfawr. Isel oedd eu hamgylchiadau bydol, ond yr oedd eu cymeriad yn uchel ac anrhydeddus iawn. Blaenorent mewn gweithredoedd da, parent eu harswyd ar annuwiolion y fro, a gosodasant argraff ar gydwybodau pawb a'u hadwaenent mai dynion Duw oeddynt.

Llwyddodd yr achos yn yr Hen-barciau, amlhaodd y gwrandawyr, ac ymddangosodd yr angen am le mwy cyfleus i addoli ynddo. Ymofynwyd am dir i adeiladu arno, ond yn aflwyddiannus am ryw ysbaid. Yr oedd tir-feddiannydd helaeth iawn o'r enw Stephen Colby, Ysw., o'r Fynnonau, yn preswylio yn y gymydogaeth, yr hwn oedd gadben yn y Llynges, a boneddiges yr hwn oedd yn garedig i'r Methodistiaid. Cafwyd addewid gan y teulu hwn o le i adeiladu capel. Rhyw amser, pan oedd y Parch. Howel Davies yn dyfod dros y bryn o Lechryd i'r Hen-barciau, efe a ddywedodd wrth y cyfeillion oedd gydag ef, "Dyma'r fan y mae yn rhaid cael capel," gan gyfeirio at ysmotyn o dir ynghanol yr eithin mân, a thaflu ei chwip i lawr arno. Cafwyd y lle gan y boneddwr crybwylledig, ac yn y fl. 1763, adeiladwyd capel eang arno. Yr oedd capel Woodstock wedi ei godi naw mlynedd cyn hyn. Galwyd hwn y *Capel-newydd;* a phregethodd y Parch. Howel Davies ynddo cyn fod tô arno, oddiar y geiriau, "Gad,—llu a'i gorfydd, ac yntau a orfydd o'r diwedd."

Dywedir hefyd fod Howel Harris wedi bod yn pregethu yn y capel hwn rai troion. Rhaid oedd fod hyn ar ol i archollion yr ymraniad fod wedi iachau graddau. Sonir yn neillduol am un oedfa o'r eiddo. Fel yr oedd yn pregethu yn y capel hwn ar ryw brydnawn Sabboth, i filoedd o bobl a ddaethent i'w wrando, fe safai yn ffenestr y pulpud, ac a ganfyddai ŵr ieuanc gwamal yn nghŵr pellaf y dyrfa, o'r tu allan i fur y fynwent, yn cellwair; ar hyn edrychodd arno, a chyfeiriodd ei ymadrodd ato, a hyny gyda'r fath lymder a nerth, nes y syrthiodd y gŵr ieuanc, er cryfed ydoedd, i lewyg yn y fan.

Fe fu y Capel-newydd yn enwog am agos i hanner cant o flynyddoedd fel casgl-fan Methodistiaid yr holl ardaloedd cylchynol bob mis i gyd-gyfranogi o swper yr Arglwydd; canys hwn oedd yr unig gapel y gweinyddid yr ordinhad hòno ynddo yn yr holl ardaloedd hyny. A chan fod ffordd bell o'r fro hon i Woodstock yn sir Benfro, Llangeitho yn sir Aberteifi, neu Lanlluan yn sir Gaerfyrddin, y lleoedd nesaf eraill y gweinyddid swper yr Arglwydd yn fisol ynddynt, yr oedd yma luaws mawr iawn yn cyrchu i'r lle hwn ar yr adegau hyny. Y gwŷr a weinyddent yma oeddynt, Howel Davies yn benaf, tra y bu byw; ac yn ei absenoldeb ef fe fyddai Daniel Rowlands, neu ei fab Nathaniel Rowlands; Davies, Gastell-nedd; D. Jones, Llangan; neu Williams, Lledrod. Yn y capel hwn y pregethodd Rowlands, yn y fl. 1773, ar Heb. iv.

15; y bregeth a roes y fath argraffiadau dyfnion ar feddwl Mr. Charles y Bala, na anghofiodd ef mo'nynt byth.* Yn y capel hwn hefyd y pregethodd Jones, Llangan, ei bregeth olaf.

Ni fu y gangheu eglwys yn y lle hwn un amser yn lluosog iawn ei rhif, eto fe fyddai rhyw dywalltiadau rhyfeddol yn disgyn yr amseroedd hyny ar y cynulliadau a fyddent yma. Yr oedd y mwynhad a geid yma ar Sabbothau cymundeb yn fwy, ymron, nag a ellir yn hawdd ddychymygu. Mae rhai o'r hen bererinion hyny eto yn fyw, ac O! gyda'r fath deimladau bywiog y soniant hyd heddyw am yr amserau hyny, y dadseiniai y ffyrdd a'r bryniau gan lais cân a moliant, fel y dychwelai yr addolwyr o'r ŵyl. Dywedir mai o 60 i 80 oedd rhifedi yr eglwys yn y lle hwn y pryd hwnw, a thua'r nifer hyny ydyw eto.

Yn y fl. 1812, dechreuodd gŵr ieuanc, o'r enw Philip James, bregethu yn y lle hwn, ond wedi llafurio yn ddiwyd am ysbaid 10 ml., efe a fu farw. Daeth yma bregethwr arall o sir Gaerfyrddin i breswylio, o'r enw Thomas Nathan; hwn hefyd a redodd ei yrfa, ac a fu farw yn y fl. 1848. Hefyd, dechreuodd gŵr ieuanc arall o'r enw John Davies, bregethu; ac wedi gwasanaethu ei genedlaeth yn ffyddlawn am dymhor byr, symudwyd yntau o'r byd yn y fl. 1846. Yn y fl. 1848, ail-adeiladwyd y capel. Mae yn awr yn adeilad hardd, eang, a chyfleus, ac arwyddion boddlonol fod y gogoniant heb ymadael.

## BWLCH-Y-GROES.

Nid yw y capel hwn ond tua hanner milldir o'r Hen-barciau, y ffermdy y bu pregethu ynddo am flynyddoedd. Yr oedd hyn tua'r fl. 1750, fel y crybwyllwyd o'r blaen. Cyffelyb oedd cychwyniad y lle hwn, o ran dull ac amser, a'r Capel-newydd. Nid oedd yn y gymdeithas eglwysig, am rai blynyddau, ond tri aelod, sef un Thomas Griffiths a'i wraig, a gwraig arall o'r enw Ann Morris. Ar Sabbothau cymundeb, cyn adeiladu y Capel-newydd, âi y tri hyn i Woodstock i'r cymundeb, er fod iddynt tuag ugain milldir o ffordd. Nid oedd y nifer hwn ond bychan, a phan yr ystyriom fod eu hamgylchiadau yn isel, y mae yn rhaid y dangosid llawer o ffyddlondeb i gadw y moddion i fyny, gyda gradd yn y byd o gysondeb. Yr un pregethwyr a fyddai yn llafurio yn y lle hwn ag a lafuriai yn y Capel-newydd, a mawr a fu eu llafur a'u ffyddlondeb dros flynyddau, heb lawer o arwyddion amlwg o lwyddiant.

Wedi cryn amser o iselder ar yr achos, dygwyddodd amgylchiad a roes radd o ysgogiad iddo yn mlaen;—amgylchiad a barodd radd o gyffro yn mhlith y trigolion difraw, ac a wasanaethodd i beri mwy o astudrwydd yn nghylch pethau bywyd tragwyddol. Yr oedd cyhoeddiad un Dafydd Jones, o'r Derlwyn, i fod yn pregethu yn y gymydogaeth. Yr oedd y pregethwr yn adnabyddus fel un helaethach ei ddawn na'r cyffredin, ond nid oedd, er hyny,

* Gwel Cyf. I., tudal. 326.

cystal ei gymeriad, fel yr ymddangosodd ar ol hyn. Y tro hwn, pa fodd bynag, ni ddaeth y pregethwr a ddysgwylid; a chymhellwyd James Matthais o Gastell-newydd-yn-Emlyn i gadw'r oedfa. Yntau a ufyddhaodd; ac ar ganol yr oedfa, duodd yr awyr i raddau anarferol, gorweddai cymylau duon a thewion ar yr holl fro, fel mai o'r braidd y caniateid i oleuni yr haul dreiddio trwyddynt. Dechreuodd y mellt wau, a'r taranau ruo yn arswydus; a disgynai y gwlaw, ïe, "gwlaw mawr ei nerth," nes oedd pob calon yn dychlamu gan fraw, gan gwbl gredu fod diwedd y byd wedi dod. Edrychai pawb ar eu gilydd heb yngan gair, gan ddysgwyl, yn ddiau, yr ymddangosai y Barnwr yn ebrwydd. Nid oedd dim gornaturiol yn yr amgylchiad hwn, er ei fod yn dra mawreddig ac ofnadwy; ar yr un pryd, gwasanaethodd, dan fendith yr Arglwydd, i beri gwrandawiad astud a difrifol i genadwri y pregethwr, a bu yr oedfa yn foddion i ddychwelyd lluaws o bechaduriaid; a chwanegwyd at yr eglwys gryn nifer o wŷr a gwragedd.

Bellach, aeth tŷ Thomas Griffith yn rhy fychan i gynal y gynulleidfa; a pharodd bryder mawr yn ei feddwl pa beth a ellid ei wneyd i gyfarfod â'r angen. Penderfynodd, pa fodd bynag, i wneyd cais ar adeiladu tŷ newydd helaethach na'r hen. Ymosododd hefyd at y gorchwyl yn ddioed, ac wedi cloddio peth o'r ddaear, a chael lle i osod ei sail, syrthiodd yr hen bererin ar ei liniau yn y lle, a gweddiodd yn ddwys am lwydd ar ei ymdrechion, gan addaw, ar ei orpheniad, y cai y tŷ ei gysegru i Dduw a'i waith. Atebwyd ei weddi, a rhoddwyd iddo ei ddymuniad. Gorphenwyd y tŷ newydd, a galwyd ef *Parciau;* a chynaliwyd moddion ynddo am 20 ml. Yn yr ysbaid hwn, yr oedd rhai enwogion yn gweini eu cynorthwy achlysurol, trwy bregethu yn y Parciau, megys Mr. W. Lloyd, Henllan; Mr. Samuel Lloyd, Abertawe; a Mr. John Williams, student (fel y'i gelwid). Yr oedd yn y gymdeithas eglwysig yma un pregethwr yn mhlith ei haelodau, sef Mr. Josiah Evans. Cafodd y gŵr yma amser maith i lafurio yn ngwinllan ei Arglwydd, a llafurus a ffyddlawn a fu am 60 mlynedd. Gwelodd gapel Bwlch-y-Groes wedi ei adeiladu y drydedd waith.

Wedi i'r pregethu fod yn y Parciau am 20 ml., symudwyd ef dan ddylanwad rhyw amgylchiadau, i le arall yn y gymydogaeth, o'r enw Coed-mor, neu Coed-mawr; a bu yno am ysbaid pum' mlynedd. Bellach, yr oedd yr achos yn dechreu ymwreiddio, a'i ganghenau yn ymestyn ac yn lluosogi. Yr oedd yr aelodau a'r gwrandawyr wedi amlhau llawer, yn ystod y 40 ml., a mwy, y bu, fel uchod, yn cyfaneddu mewn pebyll, a gwelid y priodoldeb, bellach, i geisio tŷ mwy eang a sefydlog i Arglwydd y Lluoedd. Adeiladwyd yma gapel, gan hyny, dan yr enw Bwlch-y-groes, yn y fl. 1797. Yn mhen rhyw dymhor ar ol adeiladu yr addoldy cyntaf hwn, gwelodd yr Arglwydd yn dda ymweled â'r achos drachefn, mewn adfywiad grymus. Cychwynodd y cyffroad hwn dan weinidogaeth yr hen weinidog llafurus, a orphenodd ei yrfa yn ddiweddar, sef y Parch. William Havard, swydd Frycheiniog. Yr oedd y tro hwn, medd yr hen bobl, yn un tra nodedig. Cerddai y fath rym ac awdurdod gyda'r gair ar y pryd, nes effeithio mewn modd gweithredol a

gweledig i ranu y gynulleidfa, fel pe buasai y Barnwr yno. Ciliai y naill ddosbarth oddiwrth y llall, a phawb at ei ddosbarth ei hun, i bob pen i'r capel;—y naill ddosbarth yn mwynhau ac yn moliannu, a'r dosbarth arall yn delwi gan fraw aruthrol. Rhwng y ddau yr oedd cyfwng gwag, ac yn awr ac eilwaith, ffoai ambell un oddiwrth yr eiddo, sef y fintai annychweledig, at y llall, megys un yn dianc am ei fywyd. Chwanegodd yr ymweliad hwn lawer at nifer yr aelodau crefyddol, a'r gwrandawyr; a pharhaodd yn ei danbeidrwydd dros rai misoedd. Gwelwyd angenrheidrwydd yn fuan am addoldy eangach na'r cyntaf, ac felly, yn y fl. 1813, yn mhen 16 ml. ar ol adeiladu y tro cyntaf, ymosodwyd at y gwaith o ail-adeiladu. Gwnaed y tŷ, y tro hwn, yn llawer helaethach na'r un o'r blaen, a pharhaodd yn ddigon helaeth i'r gynulleidfa am agos i 20 ml. Fe fu y gwersyll yn aros yn lled sefydlog dros ystod y tymhor hwn, heb ryw ysgogiad grymus ynddo yn mlaen; ac i'r graddau nes yr aeth yr hen bobl i gwyno yn drwm gan ddieppiledd Sïon. Braidd nad oeddynt barod, bellach, i ddyweyd, mewn digalondid a llwfrdra, "Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd."

Ond yr Arglwydd a ddychwelodd ac a drugarhaodd eilwaith wrth ei drueiniaid, a gwnaeth yr anmhlantadwy yn llawen-fam plant Yn y fl. 1833 y bu adfywiad drachefn, ac y chwanegwyd niferi at yr eglwys. Y tro hwn hefyd, aeth y capel yn rhy fychan drachefn, ac adeiladwyd ef y drydedd waith, ac agorwyd ef ar y 4ydd a'r 5ed o Awst y fl. hòno. Mae hwn yn addoldy helaeth a phrydferth iawn; ac wrth edrych arno yn awr, a chofio y wedd oedd ar Fethodistiaeth pan oedd y pregethu yn y Parciau, hen a newydd, prin y gellir ymattal rhag tori allan mewn syndod a diolchgarwch, a dyweyd, "Beth a wnaeth Duw!"

Yr oedd hefyd yn byw gerllaw y lle hwn bregethwr arall o'r enw George Griffiths. Cyfrifid hwn yn fwy ei ddoniau gweinidogaethol na chyffredin; a gresyn na bai mwy o'i hanes ar gael nag sydd. Yr oedd hwn, fel Robert Roberts, Clynog, o gorff anffurfaidd, y naill ysgwydd yn uwch na'r llall; ar yr un pryd, gwisgid ef weithiau ag arddeliad rhyfeddol. Nid oedd Josiah Evans yn meddu ar gymaint o ddawn, eto fe safai yn uchel iawn o ran ei gymeriad fel Cristion gloyw, ac fel cynghorwr ffyddlawn a chywir. Meddai un brawd am dano, brawd a'i hadwaenai yn dda,—"Cymerai ei safle ar ryw air o'r Beibl, a dilynai yr hen gyfrol, o'r Aifft, at y Môr Coch; ac i'r anialwch; at y sarff bres, a'r pren yn Mara; wedi hyny yn Babilon, at y llanciau yn y ffwrn, a Daniel yn y ffau; ac yn olaf i Bethlehem a Chalfaria; ac fel un wedi cyrhaedd digonedd, a derfynai. Bu yn "ffyddlawn hyd angau, a rhoddwyd iddo goron y bywyd."

## PONT-GAREG.

Mae y lle hwn yn sefyll yn mhlwyf Cenarth, sir Gaerfyrddin, ond yn gysylltiol â chwrdd misol sir Benfro. Canghen ydyw wedi tarddu o Fwlch-y-

groes, ac mewn rhan hefyd o'r Capel-newydd. Yr oedd yma rai aelodau perthynol i'r ddau le yn byw yn y gymydogaeth, y rhai a deimlent awydd i wneuthur rhywbeth er eangu teyrnas Crist. Ymosodasant ar hyn yma, yn gyntaf, trwy gynal cyfarfodydd i weddio yn wythnosol, mewn tŷ anedd bychan yn yr ardal. Esgorodd hyn ar sefydliad Ysgol Sabbothol yn yr un lle. Calonogwyd y brodyr, trwy y llwyddiant a roddwyd ar eu llafur gyda'r ysgol, i ymofyn am bregethu i'r lle; caed hyn yn y dechreu yn yr wythnos, ac wedi hyny ar y Sabbothau hefyd. Bellach, ffurfiwyd yma gymdeithas eglwysig, fel canghen o Fwlch-y-groes. Cedwid y cyfarfodydd neillduol ar y dechreu, unwaith yn y pymthegnos. Yn raddol, fe lwyddodd y gwaith yn ei holl ranau, yn enwedig yr ysgol Sabbothol. Cynelid amrywiol ganghenau o honi mewn tai eraill, mewn gwahanol gymydogaethau, gan na chynwysid ei deiliaid, o herwydd eu rhif, yn yr anedd-dŷ cyntaf. Bellach, yr oedd yr angenrheidrwydd am gapel neu ysgoldy yn nheimlad pawb, ac er gwneyd pob ymdrech i gael tir i hyny, yr oedd y cwbl yn aflwyddiannus. Yn y fl. 1817, prynodd un o'r aelodau dyddyn mewn lle tra chyfleus yn y gymydogaeth, a'r gwaith cyntaf a wnaeth wedi cymeryd meddiant o'r tir, oedd neillduo hanner erw o hono i adeiladu capel arno, fel offrwm i'r Arglwydd. Yn awr, yr oedd pob rhwystr wedi ei symud, a'r addoldy a adeiladwyd yn y fl. ganlynol; ac er nad oedd yr adeilad ond bychan a diaddurn, gwerthfawrogid ef yn fawr gan y preswylwyr, am roddi iddynt, trwy hyn, arosfa sefydlog i'r achos yn eu plith. Yn yr addoldy hwn y cynelid y moddion, bellach, a pharhaodd i fod yn dŷ cwrdd am 27 ml. Erbyn y fl. 1844, yr oedd y gwrandawyr wedi lluosogi, a'r aelodau wedi amlhau, nes bu raid dyfod i benderfyniad i ail-adeiladu ac eangu y tŷ cwrdd, a hyn a wnaed yn y fl. 1845. Yn bresenol, mae yn adeilad hardd a chyfleus, teilwng i'r achos, a chymhwys i'r gymydogaeth.

Mae y swyddogion cyntaf oll wedi gorphwys oddiwrth eu llafur, oddigerth un; yn nhŷ yr hwn y dechreuwyd yr achos, a'r hwn, bellach, sydd dros ei 80 ml. oed. Cododd yma un gŵr ieuanc i bregethu o'r enw Lemuel Phillips. Mae nifer yr aelodau tua 72.

## GLANRHYD.

Mae y lle hwn yn gorwedd yn mhlwyf Nefern, ar fin y ffordd, a thua hanner y ffordd o Aberteifi i Drefdraeth. Dechreuwyd pregethu gan y Methodistiaid yn y gymydogaeth tua'r fl. 1764, mewn dau anedd-dŷ, sef y Fagwyr-goch, lle y preswyliai un Mr. John Llwyd; a Chwrt-y-mwnws, tŷ Mr. John Matthias. Fel hyn y bu am agos i 40 mlynedd. Tua'r fl. 1800, cafwyd pregethu hefyd i'r Rhydgaled, cartref yr hen bererin duwiol, Mr. Eynon Griffiths.

Y pregethwyr a fu yn llafurio yn benaf gyda'r achos yn ei ddechreuad oedd Mr. John Llwyd o'r Fagwyr-goch; a Mr. David George, Tywen-fro; ill dau o'r ardal. Byddai Mr. John Harris, Treamlod, Henry Richards hefyd, a'r diweddar Barch. John Thomas, Aberteifi, yn cyd-gynorthwyo.

Nid oedd yr aelodau yn y lle hwn, am agos i'r 30 ml. cyntaf, ond o 10 i 15 mewn rhifedi. Yn yr eglwys fechan hon y cartrefai y Parch. David Griffiths, Llantwood, yr hwn y mae ei glod trwy yr holl eglwysi. Neillduwyd ef yn y fl. 1814, a bu farw yn y fl. 1845. Bydd coffadwriaeth y cyfiawn hwn yn fendigedig, yn enwedig yn y rhanau uchaf hyn o sir Benfro, am flynyddoedd lawer.

Tua'r fl. 1792, torodd diwygiad allan yn y Fagwyr-goch, ar brydnawn Sabboth, tra yr oedd y diweddar Abel Thomas, Castell-newydd, yn pregethu. Yn ystod yr adfywiad grymus hwn, chwanegwyd at yr eglwys 30 o rifedi. Nid yn hir ar ol hyn, tybygid, yr adeiladwyd y capel, yr hwn yn ddiweddar a adnewyddwyd ac a harddwyd, yn benaf gan fab Mr. Eynon Griffiths, Rhydgaled, yr hwn sydd yn byw yn yr un lle a'i dad, a'r hwn a gynorthwywyd yn ffyddlawn ac ewyllysgar gan eraill. Mae y gymdeithas yn awr tua 38 o rhifedi.

### CILGERAN.

Mae hon yn dref fechan, o fewn tair neu bedair milldir i Aberteifi. Mae son i Howel Harris ymweled â'r dref hon yn foreu ar ol i wawr Methodistiaeth dori ar Gymru; ac mai nid dieffaith a fu ei ymweliad. Yr oedd ei weinidogaeth mor llym, a'r fath awdurdod yn cydgerdded â hi, nes oedd y gwrandawyr yn syrthio ar y ddaear, ac yn llewygu gan ofn a dychryn. Rhoddodd rhai heibio eu gorchwylion, gan gredu fod diwedd y byd ar y drws. Daeth Harris heibio drachefn, gan efengylu pethau daionus am Waredwr pechaduriaid, nes rhwymo y rhai briwedig o ysbryd, a chysuro pob galarus. Aeth pawb, bellach, at eu gwahanol orchwylion yn llawen eu calon.

Yr oedd yma rai crefyddwyr, tybygid, er dyddiau Harris i waered, y rhai oeddynt aelodau yn eglwys y Capel-newydd, y lle, fel y crybwyllwyd, oedd prif gyrchfan crefyddwyr y broydd hyn. Ond wedi treigliad cryn amser, ni ddywedir pa faint, cafwyd pregethu i'r dref hon, ac ymffurfiodd yr ychydig grefyddwyr, ag yr oedd hyny yn gyfleus iddynt, yn eglwys fechan yn y dref.

Yr oedd yma dri o wŷr yn golygu yr achos y pryd hwn, sef dau frawd, Thomas a Stephen John, a Thomas Morris. Wyr i Thomas John ydyw y gŵr ieuanc o'r un enw sydd yn pregethu yn y lle yn awr. Yr oedd Thomas Morris yn ŵr tra ffyddlawn, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer. Yr oedd iddo air da gan y rhai oddiallan, ïe, gan y gwirionedd ei hun. Yn mhen blynyddoedd ar ol ei osod i gydolygu yr achos yn y lle, annogwyd ef i lefaru yn gyhoeddus. Cysyniodd yntau â dymuniad ei frodyr, a pharhaodd i gynghori ei gymydogion hyd ddydd ei farwolaeth. Agorasai ei dŷ i achos y Gwaredwr, ac ynddo y bu pregethu, a phob moddion eraill, am flynyddoedd. Mab iddo ef ydyw y Parch. William Morris, yn awr o ddinas Dewi Sant; ond a adwaenir, yn enwedig yn Ngwynedd, dan yr enw William Morris, Cilgeran. Mae yn deilwng o sylw, mai efe oedd yr unig blentyn a fagwyd, yn yr oes hòno, o'i febyd, yn eglwys fechan Cilgeran. Diau fod coffadwriaeth Henry Richards, Trefin, a Thomas Morris, Cilgeran, yn haeddu parch dau ddyblyg, gan y gwasanaeth tra mawr a wnaeth eu meibion, sef y Peirch. Ebenezer

a Thomas Richards, a William Morris, i Fethodistiaeth, yn hytrach, i deyrnas y Cyfryngwr, yn mysg eu cyd-genedl.

Tua'r fl. 1794, daeth un John Edwards, Llanddewi-brefi, i Gilgeran i lefaru, a chofiadwy iawn hyd heddyw, i'r rhai oedd yno, oedd y tro. Gyda'i weinidogaeth, arllwysodd y fath arddelwad nes torodd diwygiad allan, y fath na fuasai erioed yn y lle; yr oedd pawb, ymron, yn y lle, naill ai yn wylo, llefain, gweddio, neu yn moliannu, a'r pregethwr yn eu mysg; ac felly y buont hyd dranoeth. Ac nid hwn oedd yr unig dro, er mai hwn oedd y cyntaf, y gwelwyd y fath olygfa; ond mynych, ar ol hyn, y treulid nosweithiau yn yr un modd. Parodd yr adfywiad hwn ei ol nid yn unig ar y crefyddwyr, neu ar y gwrandawyr, ond hefyd ar arferion y dref a'r gymydogaeth. Diflanodd yr hen gampau ffol, a'r ymladd ceiliogod a ffynent gymaint o'r blaen, fel na chodasant byth mo'u penau. Bu yma ryw arferiad gan yr hen bobl o ganu ffegodau gorweigion ar y Sabbothau, gan ddysgu a llithio y bobl ieuainc i'r arferiad. Ond yn y tro hwn, cafodd y bobl flas ar foliannu Duw, a syrthiodd yr hen arferiad hòno i'r llawr. Ac er i ryw un (Gwyddel, meddant, o genedl) wneyd cais teg ar eu hadferu, fe gafodd fod goleuni y dydd yn rhy gryf i'r dyllhuanod hyn ymddangos.

Bu yr adfywiad hwn yn foddion i chwanegu rhai ugeiniau at y ddeadell fechan. Aeth rhai o honynt yn eu cariad cyntaf i'r bywyd;—rhai a droisant yn eu hol, ac ni rodiasant mwyach gyda'r Iesu. Eraill a adferwyd, rhai a "ddaliasant eu ffordd, ac a chwanegasant eu cryfder;" a rhyw ychydig nifer o honynt ydynt yn aros hyd y dydd hwn. Adeiladwyd yma gapel bychan yn y fl. 1795. Helaethwyd hwn yn y fl. 1822. Mae dau lefarwr yn preswylio yma, Mri. Thomas John, ac Ebenezer Bowen. Dywedir fod dau weinidog, perthynol i wahanol enwadau, yn llafurio yn Cilgeran, cyn fod pregethu gan y Methodistiaid yn y dref, ond na fu llawer o ffrwyth i'w llafur. "Byddai un," meddynt, "yn pregethu teyrnasiad personol Crist ar y ddaear, a'r llall yn tynu gwaith ei gymydog i lawr; ac uffern, mae lle i feddwl, yn chwerthin am ben y ddau, tra yr oedd anwybodaeth a drygfoes yn gorchuddio yr holl fro."

---

## PENNOD V.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR, A'U CANGHENAU.

CYNWYSIAD:—

ABERGWAUN—DECHREUAD METHODISTIAETH YN Y DREF—ERLID RHYW HEN BREGETHWR—WHITFIELD YN PREGETHU YN Y DREF—JOHN HARRIS, YN TRELLAN YN PREGETHU—ADEILADU Y CAPEL—JOHN DAFYDD, CROEN LLWYN—MR. THOMAS DAVIES, A MR. JONES, LLANGAN—PREGETHWYR ABERGWAUN—WDIG A THRE'-DDAFYDD—CARNACHEN-WEN A THREFIN—MILFORD.

### ABERGWAUN.

NID oedd y dref hon a'i hamgylchoedd ddim yn eithriad i barthau eraill o'r sir, o ran anfoes, ofergoeledd, ac anwybodaeth, cyn i Howel Davies a

John Harris ddechreu eu llafur ynddi. Crybwyllasom eisoes pa fath ydoedd yr arferion hyny, a rhag meithder ni a gyfeiriwn y darllenydd at y desgrifiad a roddwyd yn ol.*

Ymddengys fod Howel Harris wedi ymweled ag Abergwaun yr un amser ag yr ymwelodd â Thŷ Ddewi, sef y fl. 1739, yr un fl. ag y sangasai gyntaf ar dir y Gogledd. Safai y pregethwr, y tro cyntaf hwn, ar ben grisiau hen dŷ ar gyfer y llan. Yr oedd yr hen dŷ a'r grisiau yn sefyll hyd y fl. 1834, pan y tynwyd i lawr amryw o hen dai, a hwn yn eu nifer, i gael lle i adeiladu marchnadfa. Mae grisiau yr esgynfa bresenol i Neuadd-y-dref *(Town Hall)* yn gymhwys ar y fan y safai Howel Harris i draethu ei neges dros Dduw. Yr ail dro y bu yma, fe safai yn Ngardd-y-taned, wrth ochr orllewinol y fonwent. Nid yw yr amgylchiadau hyn, mae'n wir, ond o bwys bychan iawn; ar yr un pryd, maent o leiaf yn profi yr amgylchiad a goffeir, gan y gellir cyfeirio at y fan a'r lle y bu hyny. Nid ydym yn cael fod nerthoedd a rhyfeddodau mawrion yn cydgerdded â'i weinidogaeth y tro hwn, y fath ag a fyddai yn fynych, eto y mae profion fod rhai personau wedi cael eu dal gan ystyriaeth a difrifwch y tro hwn. Ymddangosodd y difrifwch hwn trwy eu bod yn ymgynull at eu gilydd, ar brydnawn Sabbothau, i hen dŷ a elwid Pen-y-gnwc, yr hwn oedd yn agos i'r fan y saif y capel arno yn awr, i ddarllen llyfr y Ficer; yr hwn, fe allai, oedd yr unig lyfr crefyddol ag oedd y pryd hwnw yn eu cyrhaedd.

Nid oes sicrwydd am ysgogiadau y crefyddwyr hyn, dros ryw amser ar ol dyfodiad cyntaf Howel Harris i'r lle. Yn mhen rhai blynyddoedd, pa fodd bynag, daeth y Parch. Daniel Rowlands i Abergwaun; cafodd bregethu y tro hwn yn eglwys y plwyf, a'i destyn ydoedd, "*Pob peth sydd barod, deuwch i'r briodas.*" Nid oes hanes am effeithiau y bregeth hon ychwaith; yn unig dywedir fod rhyw ddyhiryn wedi cymeryd arno fyned oddiamgylch y dref, a gweithdai y gofaint, i wawdio y pregethwr. Nid oes hanes am nemawr erlid wedi bod yn y dref hon, oddieithr ar un achlysur. Dywedir fod hen ŵr unwaith wedi cynyg pregethu ar yr heol, ac i ryw ddyn ddod yn mlaen ac ymaflyd yn ei ysgwydd, gan ddyweyd ei fod ef ar ei lŵ yn rhwym o gymeryd i fyny bob dyn a gynygiai bregethu allan o'r eglwys. I hyn yr atebodd yr hen bregethwr, "Fe dâl yr Arglwydd i ti a'th hiliogaeth am y sarhad hwn." Yr oedd eglwysi gan y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn agos i'r dref tua'r fl. 1707, ac felly cyn fod Methodistiaeth wedi ei eni, a bernir mai pregethwr yn perthyn i'r naill neu y llall o'r enwadau hyny oedd yr hen ŵr. Nid oes hanes mwy am y pregethwr, ond fe sicrheir am y dyn a aflonyddodd arno, ddarfod ei oddiweddyd ag anffawd dost: pydrodd ei goes ymaith oddiwrth ei gorff; a chofus gan rai sydd eto yn fyw weled mab iddo, yn hen ŵr gwael, a'i aelodau yn wywedig, ac yn cael ei alw mewn gwawd, "*Brenin Llanychare.*"

Mae hanes hefyd fod y Parch. George Whitfield wedi bod yn y dref hon yn pregethu fwy nag unwaith. Safai un tro wrth ddrws boneddwr o'r enw

* Tudal. 289, cyf. II.

Burnell, Sais o genedl, ac yn byw yn y tŷ sydd yn llythyr-dŷ yn awr. Dro arall, mewn tŷ a elwir y Cwrt, yn y dref isaf, lle yr oedd boneddigion o'r enw Fentons yn byw. Mae boneddwr anrhydeddus o'r teulu yn byw yn y dref isaf yn awr. Mae y tro hwn yn fwy cofus, gan ei bod ar y pryd yn rhew caled, ac mai yn nhraed eu hosanau yr oedd y bobl yn gallu myned i lawr y llethr serth i'r dref isaf.

Yr oedd John Harris yn un o'r cynghorwyr cyntaf a ymwelodd â chymydogaeth Abergwaun, o blith y Methodistiaid, ar ol Howel Harris. Y lle y derbynid ef iddo oedd amaethdy, o'r enw Trellan. Deuai yma yn achlysurol ar brydnawn Sabboth, ac ymgasglai lluaws o bobl ynghyd. Yr oedd pregethu mewn tai anedd, neu ar yr heolydd, yn beth newydd a dyeithr y pryd hwnw, a chan ei newydd-deb, fe sugnai y dull hwn o bregethu lawer o bobl i wrando. Mae Trellan o fewn dwy filldir i Abergwaun. Yr oedd y teulu a gyfaneddent y tŷ hwnw yn mhlith y rhai cyntaf a ymunodd â'r Methodistiaid; ac y mae crefydd wedi aros yn y teulu hyd heddyw. Mae tair cenedlaeth eisoes wedi treiglo heibio, a'r bedwaredd sydd yn awr yn blaenori gyda'r achos, ac nid oes arwydd, hyd yn hyn, fod crefydd ar gymeryd ei haden yn fuan o'r teulu.

Er nad oedd, hyd yn hyn, ddim pregethu cyson gan y Methodistiaid yn y dref, eto yr oedd rhai personau o'r dref yn arfer gwrando yn Trellan, ac wedi eu hennill hefyd trwy air y gwirionedd i fod yn flaenffrwyth Methodistiaeth yn y dref ei hun. Eiddigeddai y rhai hyn am gael lle mwy cyfleus i gwrdd â'u gilydd o fewn y dref; ac i'r dyben hwnw, trwsiwyd hen ysgubor fechan, yn agos i'r fan y mae y capel yn awr, i fod yn lle addoliad. Ni ddywedir, yn sicr, dros ba hyd y bu y pregethu yn yr hen ysgubor, ond y mae sicrwydd ddarfod adeiladu capel tua'r fl. 1758-9. Bu hyn yn mhen pedair blynedd neu bump ar ol adeiladu capel Woodstock, a thua'r un faint o amser cyn adeiladu y Capel-newydd. Soniai yr hen bobl lawer am yr amserau y bu Rowlands, Llangeitho, yn pregethu ynddo, a'r modd chwimwth y neidiodd efe allan trwy ffenestr y pulpud, yn y fan y darfyddai bregethu.

Nid oes fawr hanes am yr ugain mlynedd cyntaf ar ol adeiladu y capel, mwy na chrybwylliad anrhydeddus am un hen ŵr nodedig o dduwiol, o'r enw Siôn Dafydd Hugh, yr hwn oedd yn blaenori yn y cyfarfodydd neillduol;— ac am John Harris, Treamlod, fel un a fu yn nodedig ei ddiwydrwydd yn amaethu yr achos yn ei fabandod. Yr oedd Mr. Howel Davies yn dyfod yma, ond o angenrheidrwydd ni allai hyny fod ond yn achlysurol; a bu farw, fel y crybwyllwyd, yn mhen ychydig gyda deng mlynedd ar ol adeiladu y capel. Yr oedd hefyd bregethwr o'r enw John Dafydd yn byw yn Croen-llwyn, yn agos i'r dref, ac yn ŵr cyfrifol a duwiol iawn. Bu hwn farw yn y fl. 1765, pan nad oedd ond 45 ml. oed. Cyfansoddwyd marwnad iddo gan un Morris Griffith, yr hwn hefyd oedd bregethwr gyda'r Methodistiaid ar y pryd; ond ar ol hyny a aeth at y Bedyddwyr.

Nid oedd yr aelodau ond ychydig o rif hyd y fl. 1790, tua dwy flynedd ar ol marwolaeth John Harris. Yn y cyfamser, fe gyflawnid y Sabbothau gan John Harris, Sampson Thomas, Thomas Williams, a John Bevan. Tua'r

amser y bu farw John Harris, pa fodd bynag, yr oedd gwedd fwy gobeithiol ar y gwaith, a bu raid helaethu y capel. Ymwelodd yr Arglwydd â'r ganghen eglwys â gradd o adfywiad hyfryd, a daeth lluaws o bobl ieuainc i'r eglwys, llawer o ba rai a barhausant hyd y diwedd. Tua'r amser hwn, daeth yma bregethwr o sir Gaerfyrddin i fyw; gŵr oedd hwn mewn swydd dan y llywodraeth, fel gwyliedydd y Porthladd *(Tide waiter)*, o'r enw Thomas Davies. Dangosai y gŵr hwn lawer o ofal am blant y diwygiad, a bu yn egniol i gael magu plant yr aelodau o fewn yr eglwys. Nid oedd y pryd hwnw yn cael nemawr o gefnogaeth yn ei amcan, eto fe gadwai gyfarfodydd gyda'r bobl ieuainc, gan ymdrechu yn egniol i'w llesâu mewn pethau ysbrydol. Bu y gŵr hwn farw tua'r fl. 1800.

Yn y fl. 1794, daeth y Parch. D. Jones, Llangan, fel y crybwyllwyd o'r blaen,* a chan y lluosogiad a gymerodd le ar y gwrandawyr, bu raid helaethu y capel drachefn. Yr oedd y tô cyntaf oll, erbyn hyn, wedi meirw, oddigerth Mr. James Harris, Trellan. Hen fab gweddw, neu, fel y dywedir yn y Gogledd, hen lanc *ieuanc*, oedd ef, nodedig mewn duwioldeb, a thra gofalus am yr achos yn ei holl ranau. Yr oedd y Parch. Nathaniel Rowlands yn hoff iawn o hono, ac yn arfer ei alw yn ei ffordd ddigrifol ei hun, "*Siams, gwas y bobl.*" Bu farw y gŵr da hwn yn y fl. 1802.

Yn y fl. 1799, gwelwyd yn angenrheidiol neillduo tri o henuriaid i gynorthwyo yr unig un ag oedd yn aros; a phenodwyd ar Mri. J. Mortimer, Tre'-howel; Thomas Harris, Trellan; ac Ebenezer Davies, Abergwaun. Ond ar ol marwolaeth Thomas Davies, fe fu y dref hon yn hir heb yr un pregethwr yn aneddu ynddi; ac nid oedd y Parch. D. Jones ond yn achlysurol yma, er fod ei brif gartref yn Maenorowen, gerllaw. Ond y mae yn wahanol iawn, bellach, er ys llawer blwyddyn. Os bu yn hir heb bregethwr, y mae yn awr yn gyfoethocach nag un dref arall yn y sir, os nad yn Nghymru.

Tua'r fl. 1814, dechreuodd gŵr ieuanc, o'r enw David Meyler, bregethu; yr hwn sydd yn aros, ac yn llafurio yn ffyddlawn, hyd heddyw; neillduwyd ef yn y fl. 1834. Ar ei ol ef, dechreuodd gŵr ieuanc arall, o'r enw Enoch Lewis, yr hwn a neillduwyd yn y fl. 1842. Dechreuodd gŵr arall bregethu, rhwng y ddau uchod o ran amser, o'r enw Thomas Rowlands; hwn a symudodd i sir Gaerfyrddin. Ar ol Enoch Lewis, dechreuodd Thomas Lamb, ac wedi hyny John Lewis, yr hwn a neillduwyd yn 1849. Hysbys hefyd i'n darllenwyr, yn ddiau, mai yn y dref hon y preswylia y Parch. Thomas Richards, bellach, er ys llawer blwyddyn, a'r hwn, er fod y dyn oddiallan yn llygru, y dyn oddimewn, er hyny, sydd yn adnewyddu o ddydd i ddydd.

Mae Abergwaun, gan hyny, ar lawer cyfrif yn un o brif amddiffynfeydd Methodistiaeth sir Benfro; lle y cynaliwyd llawer cymdeithasfa er y fl. 1772. Mae y tŷ addoliad yn helaeth, y gwrandawyr yn lluosog, a'r aelodau yn 200 o rifedi. Mewn cysylltiad ag Abergwaun y mae capel Wdig, yr hwn a adeiladwyd yn y fl. 1830, ac yn cyfansoddi yr un daith Sabbothol.

* Cyf. I., tudal. 446.

O fewn tua chwe' milldir i Abergwaun, y mae hen le, nodedig yn hanes Methodistiaeth, sef Pontfaen. Hen blasdŷ boneddwyr ydyw, a llan yn ei ymyl. Tua dechreuad y diwygiad Methodistaidd, yr oedd yn byw yno un Mr. Higgon, gŵr da, siriol, a charedig. Yno y cyrchai yr hen bererinion, y ddau Williams, William Davies, Castellnedd, Benjamin Thomas, ac eraill, a chaent loches yno megys cartref. Adeiladwyd capel bychan ar y bryn y tu arall i'r afon, mewn lle a elwid Tre'-ddafydd. Bu llawer o bregethu yn y lle hwn, a golwg hyfryd ar y gwaith. Aeth mab i Mr. Higgon, a soniwyd, i fyw i dyddyn yn ymyl y capel, ac er ei fod yn offeiriad, dangosodd bob sirioldeb at y Methodistiaid yn Nhre'-ddafydd tra fu byw. Bu feirw yr hen grefyddwyr heb fod iddynt olynwyr, a chododd y Bedyddwyr gapel gerllaw; a rhwng y naill a'r llall, bron na ddiffoddodd y ganwyll yn Nhre'-ddafydd; eto ni ddiffoddodd yn llwyr a hollol. Y mae, weithian, fel un wedi teimlo ei afiechyd, ac heb ei ladd ganddo, yn dechreu dadebru drachefn. Y mae yn awr mewn cysylltiad â'r Ddinas, a llochesir gobeithion fod y gauaf caled wedi myned heibio, a bod gwanwyn hyfryd yn dechreu nesâu.

CARNACHEN-WEN A THREFIN.

Er nad oes achos gan y Methodistiaid yn Ngharnachen-wen yn awr, eto y mae yn anhawdd myned heibio heb wneuthur coffa parchus am dano, gan gymaint o garedigrwydd ac o loches a gafodd Methodistiaeth ynddo. Yr oedd Mr. a Mrs. Rogers yn bobl gyfrifol iawn yn y byd, ac yn haelionus a gweithgar iawn yn eglwys Dduw. Yr oeddynt mewn undeb eglwysig yn Nhrefin. Eu tŷ hefyd oedd yn gartref clyd i bregethwyr yr efengyl am flynyddau lawer. Merch iddynt hwy oedd y ddiweddar Mrs. Davies, Carnachen-wen. Ganwyd hi yn y fl. 1772. Nid oes hysbysiad pa mor foreu y daeth i berchenogi gras yr efengyl, ond yr oedd yn gydnabyddus â dysgeidiaeth ac â dysgawdwyr yr efengyl er yn blentyn, ac nid yw yn annhebygol nad oedd yn adnabod gras yr efengyl hefyd cyn bod yn ugain oed. Daeth Mr. Jones, Llangan, i breswylio yn agos i'w chartref, pan ydoedd hi tua 22 ml. oed, adeg y sicrheir ei bod yn mysg y crefyddwyr, ac yn un o'r rhai hynod yn eu mysg. Daeth yn gydnabyddus ag un Mrs. Needham, gweddw i swyddog milwraidd; neu yn hytrach, daeth Mrs. Needham yn gydnabyddus â Miss Rogers, trwy gael blas ar weinidogaeth Mr. Jones, Llangan; ac wedi profi blas y gwirionedd, archodd gael trigo dan gronglwyd ei chyfeilles, er mwyn y fraint o'i chymdeithas, ac o foddion crefyddol; ac yn Ngharnachen-wen yr arosodd tra fu byw, gan arddangos ei chariad at Dduw a'i bobl, hyd ddydd ei marwolaeth.

Yn y fl. 1807, bu farw mam Miss Rogers, ac yn mhen rhai blynyddoedd, hi briodwyd â D. Davies, Ysw., arianydd, Aberystwyth; eto trigai, gan mwyaf, yn ei hen gartref. Ei thad, ei phlentyn, a'i gŵr, a fuont feirw yn olynol, mewn ychydig flynyddoedd, a hithau a adawyd ei hunan heb fod ganddi yr un perthynas agos, namyn gŵr ieuanc gobeithiol a hawddgar o fab i'w gŵr. Hwn oedd mor hoff ganddi a phe buasai yn blentyn iddi, a theil-

wng hefyd ydoedd o'i serchiadau tyneraf. Gwasanaethodd y boneddwr ieuanc hwn ei genedlaeth a'i Dduw, mewn modd gostyngedig a ffyddlawn, dros ei dymhor, yr hwn ni fu ond byr, a bu farw mewn tangnefedd yn ddyn ieuanc. Glynodd Mrs. Davies yn ei phroffes trwy ei holl brofedigaethau, ïe, gloywodd yn ei gras, ac ymgysegrodd yn llwyrach i wasanaeth ei Harglwydd.

Yr oedd Mrs. Davies yn wraig hynod o ran ei chyneddfau, yn gystal ag o ran ei chrefyddoldeb. Hi ddarllenai lawer ar dduwinyddiaeth, a chyrhaeddasai syniadau clir a chadarn ar egwyddorion crefydd. Medrai farnu pethau â gwahaniaeth rhyngddynt; ac ni fyddai pregeth yn ei boddhau oni fyddai ynddi fwy o sylwedd nag o swn. Arferid ei thŷ yn addoldŷ tros lawer o flynyddoedd. Cedwid ysgol Sabbothol ynddo bob Sabboth, a phregethid ynddo yr un modd a chapelau y sir.

Yr oedd Carnachen-wen wedi ei hynodi ag un gwrthddrych arall, sef hen fab gweddw, o'r enw David Thomas; yr oedd hwn yn ŵr duwiol a deallus, ac yn oruchwyliwr ar hwsmonaeth y tyddyn er cyn marw ei thad. Dechreuasai D. Thomas grefydda er yn ieuanc; a bernir mai yn Rhyd-y-gele y dechreuodd ei yrfa fel Cristion. Symudodd wedi hyny i Dŷ Ddewi, a bu yn cadw ysgol yno, dros ryw dymhor, cyn ei osod yn oruchwyliwr yn Carnachen-wen. Gwasanaethodd swydd diacon yn nghapel Trefin, yr eglwys yr oedd Carnachen-wen yn ganghen o honi, hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y fl. 1840, yn 75 ml. oed. Gadawodd swm o arian tuag at gynal ysgol ddyddiol yn Nhrefin, yn nghyda chynorthwyo y weinidogaeth Sabbothol yno. Yr oedd Mrs. Davies wedi adeiladu ysgoldŷ yno yn barod.

Nid adeiladu yr ysgoldŷ hwn ydyw yr unig brawf a gaed o haelioni Mrs. Davies. Y gwir ydyw, yr oedd ei hoes yn gyfres o ddychymygu haelioni. Cyfranai, ymron, at bob achos da, a bernid ei bod yn cyfranu ugeiniau os nad cannoedd o bunnau yn flynyddol at achosion crefyddol ac elusengar, heblaw y lloches a roddai dros ei hoes yn ei thŷ, ac wrth ei bwrdd, i genadon Crist! ac heblaw cannoedd o bunnau a adawodd yn ei llythyr cymun i'w gweinyddu ar ol ei marw. Nid hir y bu hi fyw ar ol ymadawiad ei hen oruchwyliwr ffyddlon, ond adfeiliodd ei natur yn raddol, ac yn y fl. 1846, yn 74 ml. oed, ei henaid hithau a ymadawodd mewn tangnefedd, gadawodd le gwag, a choffadwriaeth fendigedig ar ei hol.

Yr oedd cyfeilles a chyfnither iddi, o'r enw Mrs. Thomas, yn perthyn i eglwys Trefin, yr hon oedd gyffelyb i Mrs. Davies o ran ei hynodrwydd gydag achos Mab Duw. Yr oedd Mrs. Thomas yn byw yn Bank Court, Trefin, a chyn hyny yn y Long-house, yn yr un ardal. Yr oedd y Long-house wedi bod yn enwog er dyddiau cyntaf Methodistiaeth yn sir Benfro, fel lloches crefydd,—lle y cynelid oedfaon cyhoeddus a chyfarfodydd eglwysig. Cafodd Mrs. Thomas oes hir i wneuthur daioni; rhoddwyd iddi hefyd galon a modd i wasanaethu ei rhan er rhwyddhau teyrnas y Cyfryngwr yn y byd; ac wedi buchedd ddefnyddiol ar y ddaear, hi a ehedodd o'r byd tua dau fis o flaen Mrs. Davies, ac a aeth, yn ddilai, i mewn i lawenydd ei Harglwydd.

I'r gymdeithas eglwysig yn Nhrefin y perthynai yr hybarch Henry Richard, tad y ddau frawd, y Peirch. Ebenezer a Thomas Richard. Nid oes gan yr ysgrifenydd un cofiant o'r hen bregethwr hwn i ddyfynu dim o hono, ac ni ddaeth un hanes penodol am dano i law ; ond wrth yr hyn a loffir yn achlysurol am dano, deallir ei fod wedi bod yn athraw ysgol mewn amrywiol fanau yn y Dê a'r Gogledd, ac yn pregethu efengyl y deyrnas i'w gydwladwyr, a hyny dan lawer o anfanteision. Nid ydym yn cael lle i feddwl fod talentau Henry Richard yn nodedig eu graddau, ond yr oeddynt wedi eu heneinio ag ysbryd rhagorol. Sonid am dano fel gweddiwr heb ei gyffelyb. Cofiai ei ysgolorion am ei weddiau drostynt gydag ofn a pharch. Dilynent rai o honynt dros eu hoes, ac ni allodd cyfnewidiadau amser, na helyntion bydol, na diwygiad crefyddol ychwaith, ddim dilëu yn llwyr yr argraff a gynyrchasant. Bu yn pregethu am yr ysbaid maith o 60 mlynedd. Perchid ef yn fawr yn mysg lluaws ei frodyr, am gysonedd ei rodiad, am sefydlogrwydd ei gymeriad, am ffyddlondeb ei ymdrechiadau, ac am ireidd-dra ei ysbryd. Cydoesodd â Howel Davies, a John Harris, yn y boreu ; ac Evan Harris, Sampson Thomas, ïe, ac â David Griffiths, yn y prydnawn.

## MILFORD NEU ABERDAUGLEDDYF.

Milford sydd dref lled ddiweddar, wedi codi o fewn y 60 ml. diweddaf. Ei chodiad a achoswyd trwy sefydliad y Gadlas Freiniol (*Royal Dock Yard*) gerllaw iddi, lle yr adeiledir llongau at wasanaeth y llywodraeth. Mae yr hen bentref gerllaw y dref yn cadw ei enw cyntefig hyd heddyw, sef Hakin, neu Hagen (Agen), oddiwrth ei sefyllfa ar fin cilfach gysgodol, lle y gall llongau lechu rhag pob gwynt.

Tua thriugain mlynedd yn ol, nid oedd yn y pentref hwn un lle o addoliad ; yr oedd eglwys y plwyf hefyd tua hanner milldir o ffordd oddiwrtho,—pellder digonol i fod yn esgus i'r sawl a fynent ymesgusodi i beidio myned iddi ; heblaw nad oedd dim yn y gwasanaeth, neu o leiaf y dull y'i cyflawnid, yn meddu nemawr o at-dyniad iddi. Yr oedd y pentref, ar y pryd, yn nodedig o annuwiol, fel y gellid dysgwyl, oblegid beth a wna y natur ddynol ond ymlygru fwyfwy tra yn amddifad o foddion adferiad?

Fe ddechreuodd Methodistiaeth yn y lle hwn, fel y gwnaethai yn fynych mewn lleoedd eraill, trwy foddion dystadl, a thrwy amgylchiadau rhaglunïaethol, yn hytrach na thrwy un cynllun dynol. Yr oedd y lle hwn wedi ei amgylchu gan yr iaith Saesonaeg am filldiroedd, a thra anfanteisiol oedd y lle, o herwydd hyny, ac achosion eraill, i ymosod at ffurfio achos Cymreig ynddo. Eto, dan yr holl anghyfleusderau, cododd yma achos i'r Gwaredwr yn mysg y Cymry, megys yn ddifwriad ac annysgwyliadwy. Fel hyn y dywedir y bu :—

Yr oedd gwraig o'r enw Jemima Jones yn byw yn Abergwaun, yn aelod gyda'r Methodistiaid yno, ac yn cael ei chyfrif yn sylweddol ei chrefydd, a gwresog ei hysbryd ; ond nid oedd yn deall ond yr iaith Gymraeg yn unig.

Y wraig hon a arweiniwyd gan ragluniaeth i Milford i fyw. Ei sefyllfa newydd oedd yn un tra amddifad. Collasai ei hen gyfeillion i gyd, a theimlai ei hunan yn alltudes amddifad yn nghanol pobl estronol eu hiaith, ac annuwiol eu hagwedd. Nid oedd, bellach, yn ei chyrhaedd ddim gwasanaeth crefyddol a allai hi ei fwynhau, a mawr oedd ei hiraeth am ei breintiau gynt, a'i galar o herwydd eu colli. Yn mhen enyd, hi a ddaeth yn gydnabyddus ag eraill ag oedd fel hithau yn newynog eu henaid am air y bywyd yn eu hiaith eu hunain. Daeth i'w sylw hefyd, fod yn y porthladd, yn achlysurol, luaws o forwyr Cymreig, a thosturient wrthynt am nad oedd darpariaeth o foddion crefyddol ar eu cyfer yn yr unig iaith a ddeallent.

Cyn treigliad llawer o amser, daeth y wraig grefyddol a enwyd yn adnabyddus o rai morwyr crefyddol. Cyn hyn yr oedd hi a'i theulu yn arfer nesu at eu gilydd ar y Sabbothau i ddarllen y Beibl, ac i ganu hymnau bardd Pant-y-celyn; bellach, hi a daer wahoddodd y morwyr crefyddol a gawsai, i ddyfod i'w thŷ i gadw cyfarfodydd i weddio. Yn nghylch yr un amser hefyd, daeth rhan o'r fyddin gartrefol (*militia*), perthynol i sir Gaerfyrddin, i aros am ysbaid o amser yn y gymydogaeth hon; ac yn eu plith yr oedd amryw yn proffesu crefydd, ac un neu ddau yn dechreu pregethu. Defnyddiwyd yr adeg hon gyda dyfalwch a sirioldeb; daeth y crefyddwyr yn nghyd; a than yr amgylchiadau, mwynhaent y moddion a roddid iddynt yn awr, gyda gradd helaethach o felusder, am eu bod oll yn ysgaredig oddiwrth eu teuluoedd, eu cartrefi, a'u breintiau crefyddol. Ië, mor felus oedd y mwyniant yn eu cynulliadau yn ystod y tymhor hwn, nes oedd yn wiw gan y cyfeillion cartrefol, o leiaf, son am dano gyda llawer o hyfrydwch yn mhen 40 mlynedd ar ol hyny, ïe, yn oriau difrif marwolaeth.

Yr oedd gŵr yn mhlith y milwyr hyn, o'r enw Henry Havard. Ystyrid ef yn ŵr duwiol a phrofiadol; arweiniwyd hwn i gartrefu yn y lle. Yr oedd hyn, drachefn, yn gryfhad ychwanegol i'r ychydig drueiniaid yma, yn enwedig gan ei fod yn meddu gradd o gymhwysder i fod yn ddefnyddiol. Ymddengys fod y gŵr hwn wedi treulio cryn amser yn Milford, a'i fod wedi ennill graddau lled helaeth o gymeradwyaeth ei gyfeillion; yr unig beth yr achwynid arno oedd, ei fod yn ddarostyngedig iawn i'r pruddglwyf, yr hyn, ar dymhorau, a fyddai yn ei lethu yn drwm; eto, er hyn, fe fu o wasanaeth i'r achos crefyddol yn y lle hwn, tra yr ydoedd eto yn wan ac eiddil, a theimlwyd colled ar ei ol pan y symudodd oddiyma, yn y fl. 1842, i Liverpool i aneddu. Bu farw Havard yn y dref fawr hòno, yn y fl. 1849.

Crybwyllir enwau dau o forwyr fel rhai a flaenorent yn y cyfarfodydd gweddi ac eglwysig, sef Capt. Llewelyn Davies, a Chapt. Evan Evans, ac enwau dau eraill a arferent bregethu i'r bobl pan ddygwyddai iddynt droi i mewn i'r hafan, sef Capt. William Williams, Caer; a Chapt. David Richards, Solfach. Yr oedd y gwŷr hyn yn ddynion cymeradwy iawn, a gair da iddynt gan bawb a'u hadwaenai; gwŷr y mae effeithiau eu llafur heb gwbl ddiflanu eto yn mhlith morwyr Cymru. Dygwyddodd fod y ddau ŵr yma ar y Sabboth, 12fed o Ragfyr, 1819, yn pregethu. D. Richards y boreu, a

Williams yn yr hwyr; ond ow! galarus yw ychwanegu ddarfod i'r ddau, y dydd Gwener canlynol, mewn awel drom o wynt, gyfarfod â dyfrllyd-fedd, a'u dwylaw oll a gollwyd oddigerth un o bob llestr, megys wedi dianc i fynegu i eraill y modd y bu.

Effeithiodd y tro galarus hwn ar holl Gymru, ond yn neillduol ar Milford; y lle y buasent yn pregethu ddiweddaf, a'r lle y byddent arferol o ymweled ag ef mor fynych;—y lle hefyd a gawsai y fraint o fwynhau eu gweinidogaeth yn fwy na neb pregethwyr eraill, yn y tymhor hwnw. Yn y fl. 1822, chwanegwyd at rifedi y proffeswyr trwy ddyfodiaid o leoedd eraill, y rhai trwy eu bod yn fwy cyfarwydd â phregethwyr y sir yn gyffredinol, a fuont yn foddion i gael pregethu amlach i'r lle; eto, er hyny, hwy fyddent am aml fis neu chwech wythnos heb un oedfa. Gwibiai y cyfeillion i Hwlffordd a manau eraill i ymofyn am damaid o fara y bywyd. Nid oedd eu nifer ond ychydig, a'u sefyllfa ond isel, ond fe ddangosid cryn garedigrwydd gan y morwyr a droent i mewn, y rhai, er na fyddent oll mewn cymundeb eglwysig, eto a gyfranent yn ewyllysgar tuag at gynal yr achos. Ymgynullent, yn y tymhor hwn, yn nhai y naill a'r llall, ac heb le arosol i drigo ynddo. Troes un o'r rhif yn anffyddlawn i'r gwaith, a chauodd ddrws ei dŷ, rhag i'r brodyr ddyfod i mewn, i gadw y cynulliad eglwysig yn ol y drefn, gan eu bwrw i'r heol gyda gradd o ddiystyrwch. O hyny allan, rhoddwyd iddynt gael defnyddio y llofft a logid gan y "Bethel Union," ac yn y llofft hon y buont hyd y fl. 1840; a chawsant brofi, yn y cyfamser, raddau helaeth o falais a chenfigen rhai y gallesid dysgwyl pethau gwell oddiwrthynt. Yn awr, pa fodd bynag, y mae y llofft wedi ei gadael, a chapel cyfleus wedi ei godi er y fl. 1839; ac er iddo gostio £450, eto fe dalwyd y cwbl mewn ysbaid 6 mlynedd. Yn hyn o orchwyl, fe fu y cyfeillion yn y lle, yn nghyda'r morwyr Cymreig, yn dra ffyddlawn a haelionus; a thrwy hyny, yn nghyda'r cynorthwy a roddwyd iddynt o'r sir, fe gaed capel hardd a chyfleus iawn. Bellach, y mae y lle wedi ei gymeryd dan ofal y cyfarfod misol, ac yn cael ei ystyried yn daith Sabboth. I allu cyflenwi y lle hwn â moddion Cymreig, rhaid arfer llawer o ffyddlondeb, gan fod tuag 16 o filldiroedd rhwng y lle hwn â phreswylfod yr agosaf o bregethwyr y sir; ond er y pellder hwn, canmolir y brodyr yn fawr am eu llafur a'u cywirdeb yn hyn.

Mae Capt. William Evans, yr hwn sydd enedigol o ardal Abergwaun, yn arfer pregethu er ys blynyddoedd pan fyddo yn gyfleus. Mae ei gartref yntau, o ran ei deulu, yn Milford, eto nid llawer o'i weinidogaeth ef a fwynheir yma, gan mor lleied o amser y dichon iddo aros yn yr un man. Ni ellir dysgwyl i'r ddeadell gynyddu llawer mewn lle Seisonig o'r fath; eto, y mae wedi cyrhaedd sefyllfa o ran rhif a sirioldeb, na ddysgwyliwyd. Mae rhif yr aelodau, rhwng plant a'u rhieni, tua 72.

---

Er fod Methodistiaeth wedi cychwyn yn y wlad hon mor foreu, fe allai, ag un man yn y dywysogaeth, ac er y bu yn perthyn iddi, ac felly hyd heddyw, rai gwŷr llên, a lleŷg, mor fawr eu gras, a helaeth eu dawn, ag a fu neu sy

mewn un wlad, eto nid ydyw wedi ymwreiddio ac wedi ymeangu cymaint ag a wnaeth mewn gwledydd eraill. Mae rhan fawr o honi yn Saesonaeg o ran iaith, a thrwy hyny cyfyngwyd llafur y Methodistiaid i derfynau llai, gan na cheisient, dros lawer o flynyddoedd, ymosod yn egniol at oresgyn ac efengyleiddio y rhan hyny o'r wlad. Yn awr, er hyny, a chyn hyn dros lawer o flynyddoedd, y mae rhyw barthau Seisonig o'r wlad wedi eu meddiannu mewn rhan. Mae yn y rhanau hyny tuag 11 o gapelau, ac wrth ystyried fod rhan fawr o'r sir yn Seisonig, ac nad oes yn y rhan Gymreig o honi ond poblogaeth deneu mewn cymhariaeth i rai manau eraill, fe allai nad yw Methodistiaeth yn y sir hon ddim llawer yn ol i siroedd eraill.

Fe fu gwedd ar Fethodistiaeth sir Benfro am lawer o flynyddau, gwahanol, ar ryw gyfrifon, i siroedd eraill y Deau, a gwedd wahanol arno yn y Deau i'r hyn oedd arno yn y Gogledd; nid yn ei gyfansoddiad gwreiddiol, na'i egwyddorion hanfodol, ond mewn rhyw amgylchiadau achlysurol. Fe fu y wlad hon, fe allai, yn llwyrach nag un wlad arall dan arolygiaeth yr offeiriaid, a'r rhan fwyaf o'r rhai hyny yn fwy eglwysaidd eu syniadau nag offeiriaid siroedd eraill. Yr oeddynt oll felly oddigerth Howel Davies. Yr oedd ei tab-yn-nghyfraith, Nathaniel Rowlands, yn sefyll yn dŷn iawn dros ei urdd tra bu ef o fewn y cyfundeb. Yr oedd yr enwog Jones, Llangan, hefyd yn tueddu yn mhell yr un ffordd; ond Duw a'i cymerodd ef ato ei hun. Gan rym eu gwrthwynebiad i'r neillduad yn 1811, ciliodd y tri eraill oddiwrth y cyfundeb yn llwyr.

Cyn y neillduad yn 1811, yr oedd yma amrywiol gapelau yn meddu y rhagorfraint o gael gweinyddu bedydd a swper yr Arglwydd ynddynt, pan y ceid offeiriad i'w gweinyddu; ond yr oedd lluaws o leoedd eraill heb y rhagorfraint hon. O ba le y cododd hawl y naill eglwys, neu y naill gapel, i hyn yn hytrach na chapel arall, nis gwyddom. Yr oedd Mounton a St. Daniel's yn lleoedd cysegredig, ac ni phetrusai neb o'r offeiriaid weinyddu yn y rhai hyn. Ond fe gaed hyn i gapel Woodstock hefyd, yn mhen tua 15 mlynedd ar ol y cychwyniad; lle heb ei gysegru gan esgob yn y byd! Cam oedd hwn y buasai yn ormod o beth ei gymeryd, oni bai i Whitfield wrol agor y bwlch. Dros flynyddau drachefn, nid oedd ond y Capel-newydd a Woodstock, o leoedd *anghysegredig*, yn cael y fraint. O'r diwedd, chwanegwyd Hwlffordd a Threfin, ac yn ddiweddaf oll Abergwaun.* Amgylchiadau oedd yn dwyn hyn oll oddiamgylch, ac nid *egwyddorion.* Ychydig o farn, ond llawer o fympwy, oedd yn hyn oll. Beth a allai wneyd un capel yn fwy cysegredig na'r llall, yn yr un sir, neu yn yr un dalaeth, nis gwyddom; a phaham y gwrthodid gweinyddu y sacramentau yn lluaws capelau y Deheubarth, pryd y cydsyniai yr un personau urddedig wneyd hyny yn *holl* gapelau Gwynedd yn ddiwahaniaeth, sydd i ni yn rhyfedd! Ond er rhyfedded ydyw, felly yr oedd y ffaith. Gweinyddid yn Woodstock pryd na wneid yn Nhŷ Ddewi, ac yn y Capel-Newydd pryd na wneid yn Abergwaun. Pe buasai y tadau yn

* Gwel yr hanes, Cyf. I., tudal. 445.

ymgadw at adeiladau eglwysaidd yn unig ac yn hollol, a hyny yn mhob man, a thros holl Gymru, buasem yn canmawl eu cysondeb, er condemnio eu mympwy; ond nid ydym yn canfod na chysonedd nac egwyddor yn eu gwaith yn gweini mewn un adeilad, ac yn gomedd yn y llall, pryd yr oeddynt oll mor anghysegredig a'u gilydd. Ond y mae hyny, bellach, wedi myned heibio er ys 40 ml. a mwy, ac y mae yr amser *wedi* dyfod "pryd ni addolir y Tad yn y mynydd hwn nac yn Jerusalem," mwy na'u gilydd, ond yr edrychir ar bob man yr un mor gysegredig; a'r unig beth y rhoddir pwys arno, bellach, ydyw fod yr addoliad yn cael ei roddi "mewn ysbryd ac mewn gwirionedd."

Dyoddefodd y wlad hon gryn lawer, mwy, fe allai, nag un arall, oddiwrth y neillduad yn 1811. Yr oedd syniadau gwrthwynebol Mr. Jones, Maenor-owen, yn effeithio ar ddosbarth o bobl wedi ei symud ef i'r bedd. Yr oedd doniau a sefyllfa Mr. Griffiths, Nevern, hefyd yn cario dylanwad ar feddyliau rhai eraill. Yr oedd Mr. Jones, Llandudoch; a Mr. Davies, Llanfyrnach, yn cynorthwyo y niwaid; a chan fod y gwŷr hyn oll yn preswylio yr un wlad, gallasem ddysgwyl y disgynasai y difrod arni trwy eu henciliad, yn drymach nag ar wledydd eraill. Fel hyny hefyd, yn ol a ymddengys, y bu. Collwyd amryw gapelau; ciliodd rhai cynulleidfaoedd ymron yn gyfain; ymadawodd amryw bersonau, mwy neu lai eu dylanwad, o gynulleidfaoedd eraill; chwerwodd tymherau rhai eraill, er iddynt aros mewn cymundeb, a chollwyd gwasanaeth rhai pregethwyr yn yr adeg. Effeithiodd hyn, o angenrheidrwydd, yn drwm ar Fethodistiaeth y wlad. Safodd olwynion yr achos dros enyd. Yr oedd dynion da, dros dymhor, yn sefyll yn sŷn, megys yn petruso pa beth a wnaent. Yr oedd dynion ofnus yn llwfrhau, gan dybied y dyrysai y gwersyll yn llwyr, a dynion llesg ac anwadal yn troi eu cefnau. Eto, er hyn oll, ni roddodd Duw ei etifeddiaeth yn llwyr i'r gelyn. Safodd yma lawer yn wrol dros yr hyn a dybient hwy yn wirionedd, deued y canlyniadau a ddeuai, gan ymdrechu ysgogi yn mlaen er maint y dyryswch a'r gwrthwynebiad. Cododd yr offeiriaid enciliedig achos ar wahan oddiwrth Fethodistiaeth, ac ar wahan oddiwrth eglwysyddiaeth hefyd. Fe gadwyd cyfarfodydd misol yn y llanau plwyfol, yma ac acw ar hyd y wlad, gan fwriadu sugno y bobl oll oddiwrth y Methodistiaid atynt eu hunain; ond fe welwyd yn fuan na thyciai y beirian-drefn ddim. Ceisiai Mr. Griffiths ddysgyblu gradd ar ei frodyr offeiriadol, a'u llunio yn agosach at ei feddwl; hwythau a luchient ymaith yr iau gan ddyweyd, "Pa beth y mae yn ei geisio gyda ni? Hen Fethodist ydyw ef ei hun!" Erbyn hyn, y mae yr holl gyfarfodydd clerigaidd hyn wedi syrthio i'r llawr, a chyfododd oes arall o Fethodistiaid, yr hon nid yw gaeth trwy ddygiad eglwysaidd i fyny, nac yn ddarostyngedig i un urdd ddynol, ond yn berffaith rydd i gymeryd ei harwain gan egwyddorion y Testament Newydd. Mae yr hen archollion, bellach, wedi cwbl iachau, a'r wlad hon dan gystal mantais i fyned ag achos y Cyfryngwr yn mlaen ag un wlad arall.

Mae yr achos wedi ymeangu llawer er y pryd y soniasom am dano. Yn

awr y mae 27 o gapelau Cymreig, ac 11 o gapelau Seisonig. Fe berthyn iddynt oll tua 1890 o aelodau mewn cymundeb, 24 o bregethwyr, a 3000 o ddeiliaid yr ysgol Sabbothol. Mae y tô cyntaf o bregethwyr ac o broffeswyr wedi cilio oddiar y maes er ys blynyddoedd. Nid oes ond y cof am yr enwogion Howel Davies, John Harris, Benjamin Thomas, a Henry Richards! Mae Sampson Thomas, Evan Harris, a Williams y student, hefyd wedi eu dylyn, ac nid oes yn awr ond cenedlaeth arall gyda'r Peirch. Thomas Richards, Abergwaun, a William Morris, Tŷ Ddewi, fel dolenau cyswllt rhwng yr oes a fu, a'r oes sydd yn awr. Ond tra yr ydym fel hyn yn meddwl am ein blaenoriaid, y rhai a draethasant i ni air Duw, a thra yr ydym yn ceisio dylyn eu ffydd, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt, ein cysur a'n cynaliaeth dihysbydd ydyw, "Fod Iesu Grist yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd."

Wrth ddybenu hanes y wlad hon, cydnabyddwn yn rhwydd nad oes yma ond prin grybwylliad yn cael ei wneyd am leoedd, am bersonau, ac amgylchiadau y buasai yn dda ymhelaethu yn eu cylch; eto fe ddichon fod yr hanes yn llawn mor fanwl ag y gellid dysgwyl ei fod yn hanes cyffredinol y cyfundeb; a sicr ei fod mor ehelaeth â'r defnyddiau a ymddiriedwyd i'r ysgrifenydd.

# PRIF LINELLAU HANESIAETH SIR DREFALDWYN.

## PENNOD I.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR.

CYNWYSIAD:—

LLANBRYNMAIR—Y DYCHWELEDIGION CYNTAF—ADEILADU CAPEL—HANES MANYLACH AM DDYFODIAD HOWEL HARRIS I'R WLAD—Y PREGETHWYR A GODODD, A'R ADFYWIADAU A GAFWYD YN LLANBRYNMAIR—DAROWEN—THOMAS DAFYDD—WILLIAM LEWIS AC ELLIS EDWARD—MACHYNLLETH.

Cof gan ein darllenwyr, yn ddiau, ein bod wedi cael achlysur, eisoes, i olrhain gradd ar *gychwyniad* Methodistiaeth yn y sir hon. Y pryd hyny dangoswyd pa fodd, a pha bryd, y daeth Howel Harris gyntaf i'r wlad hon,*—y llwyddiant a goronodd ei bregeth yn Llanbrynmair,†—a'r baeddu fu arno yn Nghemaes, a Machynlleth. Rhoddasom hefyd hanes byr am Richard Tibbot a Lewis Evan, blaenffrwyth pregethwyr Methodistaidd y sir, os nad Gwynedd oll; ‡ crybwyllasom am amryw gymdeithasau eglwysig a ffurfiwyd dan arolygiaeth cyffredinol Howel Harris; ac amryw gynghorwyr bychain, a arferent yn achlysurol wasanaethu yr achos yn fwy cyhoeddus nag eraill; ein gwaith, gan hyny, rhagllaw, fydd olrhain mynediad Methodistiaeth yn mlaen, yn enwedig yn y lleoedd neu y gorsafoedd henaf yn y wlad.

* Cyf. I., tudal. 97. † Tudal 98. ‡ Tudal. 118-35.

## LLANBRYNMAIR.

Dywedasom * fod pedwar o wŷr wedi cael eu dal yn rhwyd yr efengyl dan weinidogaeth Howel Harris, pan y pregethodd yn yr ardal hon y tro cyntaf, sef yn y fl. 1739; enwau y gwŷr hyny oeddynt, William, Edward, a Richard Howel, tri brawd, a Richard Humphrey. Ymunodd y gwŷr hyn, ynghydag eraill, yn gymdeithas eglwysig yn bur fuan, a pharhaodd y gymdeithas hon i ymgynull yn ddifwlch o hyny hyd yn awr. Nid felly y bu gydag amryw gymdeithasau bychain eraill yn y wlad hon, y rhai er eu sefydlu yn fuan ar ol yr un yn Llanbrynmair, a gollwyd yn llwyr, dros ysbaid maith o flynyddau, fel y ceir gweled eto yn mlaen.

Parhaodd y tri brawd uchod yn broffeswyr gloyw, ac yn llafurwyr ffyddlon gydag achos yr efengyl dros eu hoes. Yn Melin-y-pennant y bu *William Howel* byw, a'i fab William ar ei ol. Yr oedd iddo ddau o feibion eraill, sef Daniel a Lewis, ill trioedd yn swyddogion ffyddlon yn eglwys Dduw; buont feirw mewn oedran teg, pob un uwchlaw 80 ml. oed.

Yn Nghae-madog y bu *Edward Howel* byw. Fe fu yntau a'i deulu yn lletya pregethwyr, ac yn mhob modd yn cynorthwyo yr achos am flynyddoedd lawer. Mae nifer mawr o'i hiliogaeth yn aelodau o'r eglwys yn y lle hyd heddyw. Yr oedd *Richard Howel*, y trydydd o'r tri brawd, yn byw yn Mhen-deintur (lle nad oes tŷ anedd yn bresenol), ac yn ei dŷ ef y bu y pregethu dros flynyddoedd; ac am y bai hwn, cafodd ei godi o'i dŷ tua'r fl. 1765, a phreswyliodd ar ol hyny mewn lle bychan o'r enw Cwm-yr-hîn.

Yr oedd *Richard Humphrey*, y gŵr arall a ddychwelwyd yr un amser, a than yr un bregeth a'r tri crybwylledig, yn byw yn y Foel; aeth oddiyno i'r Gelli-dywyll. Fe fu y gŵr hwn, a'i frodyr, a'i blant, yn ffyddlawn iawn gyda'r achos dros eu tymhor, ac y mae llawer o'i hiliogaeth yn aelodau eglwysig yn Llanbrynmair, a manau eraill, hyd heddyw.

Fe fu pregethu gan y Methodistiaid, ynghyda chyfarfodydd eglwysig, yn cael eu cynal dros ysbaid blynyddoedd, mwy na 25 ml., mewn tai anedd, heb un addoldy ganddynt. Cynygiwyd lle i adeiladu capel arno gan feistr tir Richard Howel, Cwm-yr-hîn, ond fe gafwyd lle mwy cyfleus gan foneddwr arall, sef, y lle y mae y capel presenol arno. Adeiladwyd y capel cyntaf hwn yn y fl. 1767, sef 28 ml. ar ol i Howel Harris bregethu yma y waith gyntaf. Yr oedd y gorchwyl o godi capel yn anturiaeth bwysig iawn y pryd hwnw mewn llawer man, ac felly hefyd yn Llanbrynmair. Nid oedd y gynulleidfa ond bechan, a'i moddion yn brin. Ac er iddynt gael tir, yr oeddynt yn cyfarfod ag anhawsdra mawr i gael cerig, o herwydd fod dylanwad yr offeiriad ar berchenogion y tiroedd yr oedd cerig ynddynt, yn llesteirio iddynt, dros ryw dymhor, eu cael. Safodd y gwaith am ryw ysbaid oblegid hyn, ond fe symudwyd rhai o'r gwrthwynebwyr yn fuan oddiar y ffordd trwy angau, a chafwyd rhwyddineb i fyned yn mlaen.

* Tudal. 98, cyf. I.

Ond er fod y gwrthwynebiad yn y modd yma wedi llaesu, eto lled ddigalon oedd y trueiniaid gyda'u hanturiaeth. Nid oedd llawer o sicrwydd yn eu meddyliau y llwyddai y gwaith; ac os felly, disgynai eu holl lafur yn ofer; a thra yr oeddynt yn y pryder hwn, fe blanodd Richard Howel blanigyn o bren celyn yn nghlawdd cae y capel, gan ddweyd ynddo ei hun, os tyfai y gelynen, yr edrychai ar hyny yn rhagarwydd o lwyddiant y gwaith. Tyfu a wnaeth y gelynen, a llwyddo wnaeth yr achos. Nid yn fynych y gwelir celynen o fath hon, gan y maintioli sydd iddi: y mae yn 40 troedfedd o uchder. Braidd na ddychymygem glywed rhagluniaeth, gan gyfeirio ati, yn dywedyd, "Fe blanwyd y gelynen hon dan amgylchiadau hynod, ac fe gaiff dŵf hynod fod iddi." Y mae y goeden hynod hon yn ei lle fyth, yn gofgolofn o bryder yr hen Gristion, ac o hynawsedd Perchen y gwaith.

Nid ydym yn cael fod yma nemawr o erlid wedi bod yn y fangre hon, y fath a fu mewn manau eraill; fe ddichon mai yr achos o hyny oedd, fod yn yr ardal hon eisoes achos gan yr ymneillduwyr, a bod y Parch. Lewis Rees yn gweinidogaethu yma. Yr oedd y preswylwyr, gan hyny, wedi ymgynefino gradd â phregethu y tu allan i furiau yr eglwys wladol, er ys rhai blynyddau cyn i Howel Harris fod yma. Mae y darllenydd, fe allai, yn cofio ddarfod i ni ddyweyd mai ar gais Lewis Rees y daeth Harris i'r Gogledd, ac i ni ddyweyd hefyd mai tebygol ydoedd ddarfod iddo ddyfod y tro hwn i Lanbrynmair, er nad oedd crybwylliad am hyny yn ei ddydd-lyfr;* ond yn awr, trwy ymchwiliad manylach i'w lythyrau, yr ydym wedi cael yr hanes yn fanylach ac yn sicrach. Rhoddwn rai dyfynion o'i lythyrau:—

*Rhaiadr*, *Chwef.* 3*ydd*, 1739.

——— Cynorthwywyd fi ddoe i lefaru ddwywaith, ac i drafaelu 10 milldir, ac ysgrifenu llawer o lythyrau. Heddyw teithiais chwe' milldir, a phregethais ddwywaith, a chedwais ddwy ddyledswydd deuluaidd, ac ysgrifenais chwech o lythyrau. Heno daeth i'm clustiau y newydd *hyfryd (?)* fy mod yn sicr o gael fy nal yn sir Drefaldwyn. Mae cyfarfod wedi bod ganddynt i'r dyben hyny. Gosododd yr Arglwydd yr adnodau yn 1 Pedr iii. 11—15, ar feddwl cyfaill, yr hwn a ddaeth hyd yma i fynegu i mi am dano. Cuddied yr Arglwydd fy mhen yn nydd y frwydr. Yfory yr wyf yn myned i wylmabsant Cwm-ty-ddŵr, a nos yfory i ran o sir Drefaldwyn.

Drachefn ysgrifena:—

*Llanbistr*, *Chwef.* 5*ed*, 1739.

——— Cefais ddiwrnod ardderchog ddoe—bum mewn gwylmabsant mawr. Dewisais wrthwynebu satan ar ei dir ei hun, ac felly lleferais o fewn ychydig latheni i'r tafarndy lle yr oedd y gloddest i fod. Ar y cyntaf myfi oedd gryfaf, ond o'r diwedd, wrth lefaru am droedigaeth Zaccheus, a cheisio eu tynu â chariad, mi gollais fy awdurdod, ac yr oedd yn farwaidd a sych; hyd nes oeddwn agos a dybenu, pryd y dyrchafodd yr Arglwydd fy llais i fel udgorn, a chefais allu i ddwyn y gwirioneddau adref am ben gelynion yr Arglwydd. Ni phrofais erioed fwy o nerth. Credu yr wyf i rai gael eu brathu drwy eu calonau; yr oedd yno lawer yn wylo, ac un a lewygodd. Teimlai eraill gryndod arnynt, a syrthiasai ofn ar bawb.—Oddiyno aethum i le a elwir y Lodge

* Cyf. I., tudal. 98.

(neu y Llety), yn Llandinam, yn sir Drefaldwyn, lle y galluogwyd fi i lefaru gyda nerth. Ni chyfarfum â dim gwrthwynebiad neithiwr na heddyw, ond llawer a gawsant gyfarfodydd hyfryd. Yr oedd llawer wedi cael eu hattal i ddyfod i wrando trwy fod chwedl ar led, yr hon a haerid oedd yn eithaf gwir, fy mod i mewn cynghrair â brenin Hispaen!—a bod £40 o wobr i bwy bynag a'm cymerai yn garcharor;—yfory yr wyf yn dysgwyl cael fy nàl; ond os gwneir, mi a ysgrifenaf yn ebrwydd o fy llety newydd. Yr wyf yn teimlo angenrhaid wedi ei osod arnaf i erfyn ar fy nghyfaill beidio gadael i gareg fod heb ei throi dros Dduw, &c.

Un arall:—

*Llanbrynmair, Chwef.* 9*fed*, 1739.

——— Hyd yma y mae yr Arglwydd wedi sefyll gyda mi, gan roddi i mi lwyddiant amlwg fwyfwy. Mae satan yn ymddangos fel un wedi ei rwymo. Yr oeddwn i yn dysgwyl fy rhwymo yn feunyddiol, eto ni chefais ddim gwrthwynebiad. Credu yr wyf fod fy nyfodiad i yma oddiwrth Dduw. Mae yma waith mawr i'w wneyd yn y lle hwn. Yr wyf wedi rhoddi heibio y bwriad o fyned i sir Benfro, gan gredu fod gan yr Arglwydd waith i mi yma. Ddoe mi a gyfarfyddais â Mr. Lewis Rees, ac ni chefais eto yn fy holl deithiau y fath nerth ag a gefais i neithiwr wrth lefaru i fil o bobl yn mhlwyf Llan.* Yr oedd gallu Duw yno mewn modd rhyfeddol—gallasech glywed calonau yn dryllio yn chwilfriw—y fath ocheneidiau, a dagrau, a llefain, ni chlywais ond anfynych eu cyffelyb. Agorwyd llawer o galonau, mi obeithiaf, i Iesu Grist. Cariwyd fi megys hwnt i mi fy hun. Molwch Dduw drosof.

Yn yr un daith ysgrifena drachefn:—

*Sir Feirionydd, ger y Bala, Dydd Mawrth, Chwef.* 12*fed*, 1739.

——— Pa fodd y cclaf oddiwrth fy anwyl gyfaill ddim a ddygwydd i mi? Rhoes yr Arglwydd yr anrhydedd arnaf o gael fy nghymeryd yn garcharor unwaith eto pan ar ei waith ef yn mhlwyf Cemaes, sir Drefaldwyn, gan ynad o'r enw Wynne, yr hwn, gydag ynad arall, a boneddwr, a'r person, a ddaethant arnom, ar ol anfon ysbiwyr yn flaenorol; daeth yr heddgeidwad ataf ac a ymaflodd ynof. Ond nid oeddwn eto i gael yr anrhydedd o fyned i Drefaldwyn † mewn cadwynau, ond hwy a gymerasant sylw o'r ffaith, ac o bersonau dan lŵ, gan fwriadu gofyn a oeddwn yn agored i gyfraith, a chan ddadgan, os oeddwn, y gwnaent eu heithaf i fy nirwyo o £20, gŵr y tŷ o £20, a'r gwrandawyr bob un 5 swllt; ac yna gollyngwyd fi ymaith.—Dylynwyd fi o'r lle gan rai dwsinau o ddynion, a chefais gyfleusdra i draethu iddynt fod yn rhaid sefyll yn nydd y ddrychin, &c. Heddyw mi a ddaethum 12 milldir o ffordd i'r lle hwn.‡ Lleferais ddwywaith ar y ffordd yma. Cefais fy maeddu. Rhai bechgyn a'm dylynodd i encyd o ffordd, gan waeddi, "Lawr â'r Pengryniaid!" Cododd un wraig foneddig (?) laid y ffordd i'm lluchio, gan fy ngalw yn gythraul dam—i—l! Ceisiasant gŵn i fy ymlid, eto pan ddaethum i'w cyfarfod, bu gosteg am enyd, ond wedi i mi fyned heibio, dechreuasant grochlefain eilwaith, gan fy hwtio yn erchyll. Yfory yr wyf ar fedr myned i dref y Bala.

Dyddiwyd y llythyr hwn ar ddydd Mawrth. Dydd Gwener canlynol, y mae yn ysgrifenu drachefn o Lanbrynmair, ac yn adrodd ei daith i'r Bala ac yn ol, yr hwtio fu arno yn Llan-y-mowddwy, a'r baeddu arswydus fu arno yn Machynlleth, § a'i ddychweliad yn ol i Llanbrynmair. Dywedai fod tywyllwch a ellid ei deimlo yn y wlad hon drwyddi. "Y mae y sir hon ymron oll dan felldith," meddai, "a'r boneddwyr ymron oll yn elynion."

* Nid yw y gair wedi ei orphen yn ei ysgrif. † Prif dref y sir, lle yr oedd y carchar. ‡ Llanuwchllyn fe allai. § Cyf. I., tudal. 99.

Fe fu Howel Harris rai gweithiau yn Llanbrynmair heblaw y tro cyntaf hwn; dywedir iddo bregethu unwaith yn agos i'r Belam, yn y Pennant, a thro arall wrth Bant-y-glo. Yr oedd yma ŵr o'r enw Richard Wood, yn byw yn Mron-derw-goed, yr hwn, gydag amryw o'i deulu, oeddynt grefyddol. Mab i hwn oedd Mr. Abraham Wood o goleg Iarlles Huntingdon, yr hwn a fu farw yn y fl. 1779. Canodd Williams, Pant-y-celyn, farwnad i'r gŵr hwn, a'i fam, yr hon a fu farw yn y fl. 1781. Bu farw y gŵr ieuanc duwiol hwn yn 31 ml. oed.

Prin y gwelwyd dyn fwy *gonest*
Dyn fwy syml îs y rhod,
Gwell ei gof, llareiddiach natur
Nemawr iawn nid oedd yn bod.

Chwiliwch allan bwyll, amynedd,
A diwydrwydd, ysbryd gwiw;
Abra'm oedd yn berchen arnynt,
Gymaint un a neb yn fyw.*

Cafodd Llanbrynmair yr anrhydedd o fagu amryw o bregethwyr, heblaw y ddau a enwyd eisoes, Richard Tibbot, ac Abraham Wood. Un o'r ardal hon oedd Thomas Meredith, Richard Williams, a'i fab, sef y Parch. Richard Williams, o Liverpool, yn niwedd ei oes. Fe fu Jeremiah Williams yn byw rhyw gymaint yn yr ardal; yma hefyd y cododd John Owens, yr hwn a ymfudodd i America, ac a fu farw yno.

Fe gafodd Llanbrynmair brofi rhai adegau o adfywiad ar yr achos crefyddol, er, fe allai, mai nid cymaint a rhai manau eraill. Fe fu y cynydd yn y lle hwn yn lled raddol a gwastad, eto nid yn gwbl felly, yn enwedig yn mlynyddoedd cyntaf ei hanes. Sonir yn neillduol am un adfywiad a dorodd allan tua'r amser yr adeiladwyd y capel. Cyn y diwygiad hwn, dywedir fod y cyfarfodydd eglwysig ymron wedi syrthio, a bod yr ychydig enwau y pryd hwnw yn rhy lwfr a digalon i gynal eu cyfarfodydd neillduol. Ryw Sabboth y Pasg, yn y tymhor gauafaidd hwn, aeth rhyw gymaint o'r bobl ieuainc crefyddol i gyfarfod pregethu yn Narowen; ac wrth ddychwelyd adref, eisteddasant ar ben Bwlch-glyn-y-mynydd, gan ymddyddan y naill â'r llall. Dywedai Abraham Wood, "Bydd yma gyfarfod lluosog gan y diafol, tua'r llan yma, yn mhen yr wythnos; beth a fyddai i ninau gael cyfarfod â'n gilydd?" Cytunodd pawb â'r amnaid, a phenderfynwyd cael cymdeithas eglwysig mewn tŷ bychan a elwid y Foel-fach, yn agos i Gae-madog. Rhoes y cyfarfod adnewyddiad ac ail-gychwyniad i'r cyfarfod eglwysig, ac i'r achos yn gyffredinol, fel ag iddo fyned rhagddo gyda mwy neu lai o rwyddineb, o hyny hyd yn awr.

Dyfrhawyd y winllan hon, o bryd i bryd, â gweinidogaeth y rhai mwyaf nodedig o'r Deheuwyr, gan ei bod yn gorwedd yn eu ffordd i'r Gogledd. Bu

* Trys. 1834, tudal. 63.

Rowlands, Llangeitho; y ddau Williams; D. Morris; Davies, Castell-nedd; Jones, Llangan; Lloyd o Gaio, ac eraill cyffelyb, yn fynych yn Llanbrynmair, ar eu hynt i'r Gogledd, neu ar eu dychweliad. Yr oedd hyn yn cael ei sicrhau, trwy fod yr hen grefyddwyr yn arfer mynychu Llangeitho, ac yno yn cwrdd â lluaws o bregethwyr a gweinidogion y Deau, y rhai a arferent ymgynull yno, yn neillduol ar Sabbothau y cymundeb.

Dechreuwyd yr ysgol Sabbothol yn y lle hwn mor foreu a'r fl. 1795—adeg, mae yn debyg, nad oedd nemawr un i'w chael yn yr holl fro oddiamgylch, ac nad oedd llawer i'w cael yn Nghymru. Ffurfiwyd cangheu o honi yn y Pennant yn y fl. 1807, a tharddodd cangheu o honi drachefn yn Crygnant, yn y fl. 1811; ac un arall, yn y flwyddyn ganlynol, yn y Wern. Yr oedd yr achos, yn y modd yma, yn ymwreiddio ac yn ymeangu. Helaethwyd y capel cyntefig yn y fl. 1820; ac adeiladwyd capel yn y Pennant yn y flwyddyn ganlynol. Nifer aelodau Llanbrynmair ydynt tua 150, ac aelodau y Pennant ydynt 60.

Yr oedd un hynodrwydd ar yr achos Methodistaidd yn y lle hwn yn anad un lle arall yn Ngwynedd, sef yr unedd oedd rhwng y ddau enwad, yr Annibynwyr a'r Methodistiaid, â'u gilydd. Yr oedd amryw dai yn arfer lletya pregethwyr y ddau enwad yn ddiwahaniaeth, ac aelodau y naill yn cael perffaith ryddid i fwynhau breintiau y llall yn ol cyfleusdra, fel pe buasent yn un cyfundeb; a pharhaodd y gyd-gyfeillach hon hyd o fewn tuag 20 ml. yn ol. Yr achosion a barodd hyn yn Llanbrynmair, mae yn debyg, oeddynt rhyw amgylchiadau neillduol yn nghychwyniad Methodistiaeth. Yr oedd y Parch. Lewis Rees, y gweinidog cyntaf a fu ar yr eglwys Annibynol, yn ŵr rhydd iawn, ac yn llochesu meddwl uchel am y diwygiad Methodistaidd, yr hwn oedd newydd ymddangos. Yr oedd Richard Tibbot hefyd, yr hwn a fu fyw oes hir yn y fro, ac i'r hwn yr oedd dylanwad mawr, yn ŵr cyffelyb ei ysbryd i Lewis Rees. Fe fu hwn gyda'r Methodistiaid yn pregethu am ysbaid 25 ml., a chyda'r Annibynwyr y 35 mlynedd olaf o'i oes; ar yr un pryd, yr oedd y ddau enwad yn cael mwynhau ei ddawn a'i galon, i'r graddau yr oedd hyny yn bosibl, fel eu gilydd. Disgynodd y syniad unol hwn, gan hyny, fel etifeddiaeth oddiwrth y tadau i'r plant. Sonir yn neillduol am Mr. Evan Roberts, tad y diweddar Barch. John Roberts, fel un nodedig o hael ei ysbryd, a hoff o galon o'r ddau enwad. Bu yn byw yn y Gwyn-fynydd, plwyf Llanwnog, pryd yr oedd yn aelod gyda'r Annibynwyr yn Llanbrynmair. Tra yr oedd yn y lle hwnw, er nad oedd ei sefyllfa yn helaeth arni, croesawai bregethwyr y ddau enwad, a chynorthwyai y ddau achos fel eu gilydd. Cynaliwyd un cyfarfod misol yn ei dŷ, a llawer o enwogion y Dcheubarth a groesawyd ganddo. Yn y fl. 1787, symudodd i Lanbrynmair, i Felin Dolgadfan, yn ymyl capel y Methodistiaid. Yr oedd capel yr enwad arall encyd o ffordd oddiwrtho; parodd hyn iddo fynychu y gymdeithas eglwysig, a gweithredu fel swyddog gyda'r Methodistiaid; ac nid ymddangosai dim gwahaniaeth rhyngddo â hwy, ond ei fod yn cymuno gyda'r Annibynwyr. Anghofiodd unwaith fod dim gwahaniaeth rhyngddynt, pan oedd efengylwr

Llangan yn pregethu ac yn cyfranu yno, trwy iddo o hono ei hun ymgymysgu gyda'r teulu wrth yr un bwrdd; a gwnaeth hyny pan oedd ei lestr yn llawn o win y wlad nefol. Nid oedd dim gwahaniaeth rhwng y ddau enwad am byncian athrawiaethol. Bu farw y gŵr duwiol hwn yn y fl. 1814, yn 85 ml. oed.

## DAROWEN.

Yr oedd achos y Methodistiaid yn cyd-ddechreu yn *Llanbrynmair, Darowen, Cemaes, a Charno*, ac, fe allai, yn *Nhrefeglwys* hefyd. Nid oes nemawr o hanes Methodistiaeth yn yr ardal hon ar gael cyn yr ymraniad a fu rhwng Harris a Rowlands. Amlwg ydyw fod yma bregethu ymron mor gynar a Llanbrynmair; ac ymddengys mai un o'r dysgyblion boreuaf a ennillwyd trwy weinidogaeth Howel Harris oedd un Thomas Dafydd o'r Tŷ-coch. Ymddengys hefyd fod yma ryw nifer heblaw Thomas Dafydd wedi eu hennill at grefydd cyn y fl. 1751, sef blwyddyn yr ymraniad, gan y cawn ni fod y gymdeithas eglwysig yn y fro hon wedi ymranu ar yr achlysur, a bod y moddion yn yr adeg annedwydd hon yn cael eu cynal mewn dau dŷ, yn y rhai yr ymgynullai pobl Rowlands a phobl Harris ar wahan. Y ddau dŷ oeddynt y Tŷ-coch, ac Aberdeuddŵr; yr oedd y ddau o fewn tua chan' llath at eu gilydd. Aeth Thomas Dafydd i Drefecca, ond nid hir yr arosodd yno. Yr oedd yn ŵr cyfrifol, yn byw ar ei dir ei hun, a chyda hyny yn ŵr duwiol iawn. Dywedir mai "blaenor oedd Thomas Dafydd na chododd yn yr ardal hono, byth mo'i gyffelyb." Arferai y gŵr yma fyned o amgylch i gynal cyfarfodydd eglwysig fel pe buasai bregethwr; i hyn, yn ddiau, yr oedd ganddo fwy o gymhwysderau nag eraill, onide ni roddasid y cyfryw alwad iddo. Aeth rhyw rai eraill o'r ardal hon i Drefecca, ac yno y buont feirw.

Ail-gychwynodd Methodistiaeth yn y fro hon ar ol anrheithiad yr ymraniad, mewn dau neu dri o dai anedd. Un o honynt oedd tŷ bychan yn *Aberhosan;* yn agos i hwn yr oedd pregethwr o'r enw William Lewis;—y llall oedd *Penrhos*, tŷ pregethwr o'r enw Ellis Edward;—a'r trydydd lle oedd *Tŷ'n-llwyn*, lle y preswyliai gŵr o'r enw Edward Robert, yr hwn hefyd oedd un o flaen-ffrwyth yr efengyl, ac a fu yn flaenor ffyddlawn iawn, a thra hallt yn erbyn pechod. Yr oedd Aberhosan a Phenrhos yn mhlwyf Penegos, a Thŷ'n-llwyn yn mhlwyf Darowen. Yr oedd Aberhosan yn meddu gradd o enwogrwydd yn mlynyddoedd cyntaf yr achos; bernir hyny am fod cymdeithasfa wedi cael ei chynal yn y lle mor foreu a'r fl. 1770. Nid oedd y tŷ ei hunan, pa fodd bynag, ddim mwy na saith llath bob ffordd, a'i dô yn y pen uchaf iddo yn taro wrth y ddaear. Tŷ ydoedd a ardrethid yn benodol i bregethu ynddo, ac am hyny ennillodd yr enw, wrth yr hwn y gelwir ef hyd yma, "*Yr Hen Gapel;*" er na fu pregethu ynddo, bellach, er ys agos i 50 o flynyddoedd. Yn y gymdeithasfa a gynaliwyd yno, yr oedd Peter Williams, meddir, a William Williams, Dafydd Morris, a Dafydd Jones o'r Derlwyn, yn pregethu.

Yr oedd gan yr Annibynwyr dŷ pregethu o fewn lled cae i Aberhosan ; ac ymddengys fod cyffelyb deimlad yn y naill enwad tuag at y llall, yn y lle hwn, ag oedd yn Llanbrynmair, gan y byddent yn arfer ymgymysgu â'u gilydd mewn cyfarfodydd gweddio, a chyfarfodydd eglwysig. Sonir am ryw gwrdd gweddio nodedig a gynaliwyd yn addoldy yr Annibynwyr, yn yr hwn yr oedd gŵr ieuanc, perthynol i'r Methodistiaid, ac yn cadw ysgol yn y gymydogaeth ar y pryd, yn gweddio, pryd y torodd allan i lefain ac i foliannu mewn modd tra hynod. Crybwyllai yr adnod, "Fy anwylyd sydd wŷn a gwridog yn rhagori ar ddeng mil,"—a chwanegai gyda nerth mawr,—"*dengmil o'r peth a fynoch ;*" ac ysgogai ar yr un pryd, ar ei liniau, o amgylch yr ystafell, fel un wedi ei orlenwi a mwynhad ysbrydol, ac heb allu yn hollol feddiannu ei hun. Daeth y gŵr ieuanc hwn i fod yn bregethwr enwog ar ol hyn.

Yn yr ardal hon yr oedd William Lewis y cynghorwr yn byw. Yn Cwm-hafod-y-march yr oedd yn preswylio. Dywed fy hysbysydd,* fod yr hen bobl yn arfer dyweyd am dano, nad oedd llawer o gymhwysder ynddo i bregethu, ond ei fod yn gywir a ffyddlawn. Yr oedd hen rigwm yn cael ei adrodd am dano yn mysg y plant :—

"William Lewis o Gwm-hafod-y-march,
Y mwya'i boen, a lleia'i barch."

Fe arferai bregethu yn lled hir, a hyny heb lawer o gysonedd na blas. Dywedir ei fod ef ac Edward Watkin yn cyd-bregethu gyda'u gilydd dros ryw ysbaid, ac ar ddiwedd y daith, ddarfod i William roddi amnaid i Edward, mai da fyddai iddynt ddyweyd y naill wrth y llall, cyn ymadael, pa fai neu feiau a ganfyddent yn eu gilydd.

"Da iawn," atebai Edward, yr hwn oedd yn meddu ar gryn ddawn a ffraethineb, "dywedwch yn rhydd, os oes dim ar eich meddwl."

"Y peth penaf a welais i yn wallus ynoch chwi Edward," ebe William, "oedd eich bod yn pregethu yn rhy aml ar yr un testynau."

"Felly," ebe Edward, "a'r peth yr wyf fi yn ei weled yn feius ynoch chwithau, ydyw eich bod yn pregethu yr *un* pregethau ar *wahanol* destynau."

Mae yr adgofion uchod yn ymddangos yn dra dibwys ynddynt eu hunain, eto y maent yn cyfateb yn berffaith i wedd yr amserau hyny, ac yn rhoddi arddangosiad i'r darllenydd, mor gywir a dim, o agweddau ac amgylchiadau yr hen dadau. Cyffelyb hefyd ydyw y chwedl a ganlyn. Yr oedd yr hynod Theophilus Jones, sir Aberteifi, unwaith yn y lle hwn, ac i bregethu yn addoldy yr Annibynwyr ar ganol dydd. Yr oedd y pregethwr, fel y mae yn hysbys, â llawer o hynodion yn perthyn iddo, a phan y disgynai mewn tŷ capel, ymddangosai yn llawn ffwdan.

"Gŷr o dan y tatws yna," ebe Siôn Evan wrth y wraig, "fel y caffo y gŵr dyeithr ei giniaw cyn myn'd i'r cwrdd."

* Mr. Richard Jones, gŵr a ddygwyd i fyny yn yr ardal, ond yn awr yn preswylio yn Lerpwl.

"Mi fyddaf fi wedi darfod yr oedfa," ebe y pregethwr, "cyn y bydd y *tatws* yn barod."

"A ydyw y bregeth mor barod â hyny genych?" gofynai Siôn.

"Ydyw," atebai Theophilus; ac i'r capel yn brysur ag ef; ac, meddai fy hysbysydd, yr oedd yr holl wasanaeth crefyddol yn ardderchog; a dylynwyd y bregeth ag effeithiau anarferol, ïe, cymaint felly ag y bu ei hol ar yr ardal dros flynyddoedd. "Ffol-bethau y byd a etholodd Duw fel y gwaradwyddai y doethion."

Mae gan yr Annibynwyr gapel a chynulleidfa dda yn y pentref hyd heddyw, ond ni fedd y Methodistiaid achos yno er ys 40 ml. ymron. Yr oedd cryn lawer o drwstanwch plentynaidd, yn gymysgedig â ffyddlondeb gwresog, dan amgylchiadau o dlodi ac amddifadrwydd, yn hynodi yr hen bobl yn gyffredinol. Pan ddeuai Rowlands, Llangeitho, i bregethu i Benrhos, cyfarfyddai ag anhawsder cyrhaedd y bwthyn y pregethid ynddo, gan ei fod yn ymdaith y pryd hwnw mewn cerbyd, ac nid oedd y mân lidiardau culion ddim wedi eu cyfaddasu i'r cerbydau ddyfod trwodd, a rhaid fyddai codi *pyst y llidiardau* i'r dyben i roddi trwydded i'w gerbyd, a hyn hefyd a wnaed rai gweithiau pan y deuai i'r lle hwn.

Yn y lle hwn yr oedd Ellis Edward, yr hen gynhorwr, yn byw. Nid oedd doniau y gŵr hwn ond byrion, ond yr oedd yn dra ffyddlon, hyddysg iawn yn yr ysgrythyrau, a hallt a didderbyn wyneb yn erbyn pechod. Ymddengys fod yr hen frawd duwiol hwn wedi bod o gryn ddefnydd i achos crefydd yn ei ddydd a'i ardal. Sonir llawer am hen ŵr arall o'r enw Rowland Richard, yr hwn oedd gloff ac yn ymlusgo wrth ei faglau. Yr oedd hwn yn byw tua dwy filldir oddiwrth Penrhos, y lle y cynelid y moddion, a chymerai iddo bedair awr o amser i gerdded, neu yn hytrach, i ymlusgo y ddwy filldir hyny, gan nad oedd ei gam ond hanner hyd ei droed! eto anaml y byddai y cynulliad hebddo, ac nid llawer a gadwai yr amser yn well.

Dywedasom fod pregethu hefyd yn Tŷ'n-llwyn, plwyf Darowen, yn nhŷ Edward Robert. Yn y lle hwn, meddant, y dechreuodd Ishmael Jones bregethu. Traddododd ei bregeth gyntaf o flaen William Lewis, a dywedai gŵr ag oedd yno, mai pur fer oedd y bregeth, ac heb ddim geiriau annoeth; ond bod llawn cymaint o synwyr ynddi ag oedd yn mhregeth hir William Lewis. Nid hir yr arosodd Ishmael Jones yn yr ardal hon ar ol dechreu pregethu; ond am ei symudiadau dylynol, nid oes genym hanes; yn unig, hysbys ydyw, mai yn Llandinam, gerllaw Llanidloes, y treuliodd flynyddau diweddaraf ei oes, ac yno y bu efe farw.

Wedi marwolaeth Edward Robert, darfu y pregethu yn Tŷ'n-llwyn, a phentref Darowen, dros dymhor maith, nid llai nag 20 ml. Darfu y pregethu hefyd gan y Methodistiaid yn Aberhosan, mae'n debyg, trwy farwolaeth William Lewis ac eraill. Ond tua'r amser y bu Ellis Edward farw, neu gynt, sef yn y fl. 1786, daeth gŵr crefyddol, o'r enw Hugh Hughes, a'i deulu, i fyw i dyddyn a elwir Rhiw-griafol, a symudwyd y pregethu a'r cyfarfodydd crefyddol oll, o Benrhos, hen gartref Ellis Edward, yno. Yn ddiweddarach, daeth gŵr arall, o'r enw Evan Jones, i fyw i ffarm arall. Yr oedd hwn yn grefyddwr ac

yn henuriad eglwysig. Yn amser hwn yr adeiladwyd capel yn y gymydogaeth, sef yn y fl. 1812; adeiladwyd ef yn Rhyd-y-felin, yn mhentref Melinbarhedin. Mae y capel hwn yn sefyll megys yn y canol, rhwng y manau y buasai pregethu gynt ynddynt, ac yn ymyl y Tŷ-coch, cartref cyntaf pregethu gan y Methodistiaid yn y fro. Tua'r fl. 1811, bu farw Hugh Hughes, Rhiwgriafol, a daeth un William Bebb o Lanbrynmair i fyw yno. Yr oedd gan hwn ddau o feibion yn ddynion crefyddol, ac un o honynt, sef William, yr hynaf, eisoes yn swyddog eglwysig; yr ieuangaf hefyd, sef Edward, a alwyd ar ol hyny i'r un swydd. Yn y fl. 1846, ymfudodd William Bebb i'r America, ond y mae y brawd arall yn yr ardal eto, ac yn arolygu yr achos crefyddol yn y lle hyd heddyw. Dywedir am y teulu hwn nad oedd terfyn i'w haelioni at achos yr Arglwydd, ac i'r tlodion. Yr oedd eu tŷ yn agored i bregethwyr yn wastadol, a phob ymgeledd iddynt hwy a'u hanifeiliaid yn cael ei roddi yn ewyllysgar a siriol. Ond er maint eu haelioni, yr oedd rhagluniaeth yn eu bendithio fwyfwy. Aeth stabl a beudy ffermwr bychan yn yr ardal unwaith ar dân, a llosgwyd y gwair a'r ŷd ymron i gyd. Pan glywodd hen ŵr Rhiw-griafol yr hanes, gorchymynodd i'w weision fyned â llwyth o wair i'r cymydog yn ei drallod, ynghyd ag ŷd i hau y tir, a chymerodd rai o'r anifeiliaid i'w cadw hyd Galanmai. Gwiriwyd y ddiareb yn y teulu hwn, "Rhyw un a wasgar ei ddâ, ac efe a chwanegir iddo."

Adeiladwyd capel arall yn llan Darowen, tua'r fl. 1824, cyfagos i'r lle y buasai pregethu o'r blaen, 20 ml. a mwy yn ol, sef Tŷ'n-llwyn. Y mae yr ardaloedd hyn wedi dyoddef cryn lawer oddiwrth nifer y teuluoedd a aethant o'u gwlad i'r America; parodd hyn, ynghyd ag amgylchiadau anghysurus eraill, radd o nychdod ar yr achos crefyddol yn y ddau gapel, fel nad yw y wedd sydd arno ddim mor llwyddiannus ag y buasai da.

## MACHYNLLETH.

Cof gan y darllenydd, ond odid, ddarfod i ni adrodd y modd y bu ar Howel Harris yn Machynlleth * y tro cyntaf yr ymwelodd â Gwynedd, yn y fl. 1739. Prin y diangodd y pryd hyny â'i fywyd ganddo. "Parhaodd trigolion Machynlleth a'r ardaloedd," ysgrifenai Robert Jones,† "mewn eithaf gelyniaeth at grefydd lawer o flynyddoedd. Cawsant afael mewn pregethwr unwaith, a llusgwyd ef ger bron rhai o'u pendefigion; ac am na ddarfu i'r rhai hyny gosbi digon arno i foddio eu cynddaredd hwy, curasant a baeddasant ef eu hunain yn dra chreulon, ac oni buasai i ryw ŵr a mwy o dosturi na hwy ei achub, buasai yn debyg o gael ei ladd ganddynt. Cafodd yr un gŵr ei guro a'i faeddu yn Llan-y-mowddwy, wrth fyned oddiyno; gorfu arno roi cyflog i ddyn am ei anfon tros Fwlch-y-groes tua'r Bala. Byddai yn berygl y dyddiau hyny i grefyddwyr fyned hyd yn nod i'r farchnad, rhag cael eu herlid gan drigolion y dref."

* Cyf. I. tudal. 99. † "Drych yr Amseroedd," tudal. 126.

Nid llawer o bregethu a fu yn y dref wedi hyn dros flynyddau. Cynygiodd Jones, Llangan, bregethu yma, ryw bryd cyn fod pregethu rheolaidd yn y dref, ond terfysg a gyfododd;—cipiwyd y Beibl o'i law, ac wedi baeddu ychydig arno, gofynodd rhai o'r mawrion, a wnai efe addaw, os gollyngid ef ymaith yn heddychlawn yn awr, na ddeuai efe yno byth mwyach i bregethu. Atebodd yntau yn bwyllog ac yn siriol; "Nid oes un addewid yn perthyn i chwi na'ch tad."—Gollyngwyd ef yn rhydd, ond ni chafodd bregethu. Rhaid fod hyn 20 ml. a mwy, ar ol yr amser y bu yr ymosodiad creulawn ar Howel Harris.

Ond er fod y dref yn gauedig, yr oedd pregethu yr efengyl yn ei hamgylchu, ac yr oedd nifer y crefyddwyr yn lluosogi. Nid oes hanes fod Rowlands, Llangeitho, wedi pregethu yn y dref erioed; ymddengys hyn yn lled ryfedd, am fod y dref yn rhydd oddiwrth erlid am ysbaid 20 ml., neu fwy, cyn ei farw ef; ac hefyd am fod yn rhaid ei fod wedi myned trwodd neu heibio, yn ei lwybr i siroedd Meirion, Arfon, a Môn, rai gweithiau wedi i'r ffyrnigrwydd cyntefig ddiflanu. Sonir, pa fodd bynag, ddarfod iddo unwaith letya mewn gwestty yn y dref. Clybu yr erlidwyr ei fod i ddyfod, ac aethant i'w gyfarfod, i'r dyben i'w faeddu; a phan welodd y fath nifer o honynt, gofynodd iddynt, yn ol ei arfer, "I ba le y mae y diawliaid yn myned?" Wrth glywed y fath ymadroddion, penderfynasant yn y fan, mai nid efe oedd y gwrthddrych a geisient; a chafodd fyned heibio yn ddiwarafun. Mae yn hysbys iddo bregethu amryw weithiau yn nhŷ Ellis Edward, Penrhos, tua 5 neu 6 milldir o Fachynlleth; ac fe ddywedir fod Harris yn pregethu yn nhŷ Thomas Dafydd, Tŷ-coch, o fewn milldir iddo, ar yr un dydd ac awr, a bod y bobl yn petruso ar ba un o'r ddau yr aent i wrando. Rhwng y ddau le hyny y mae capel Rhyd-y-felin, fel y crybwyllasom o'r blaen.

Sefydlwyd pregethu yn mhen rhyw gymaint o amser mewn lleoedd eraill, nes i'r dref na Phenrhos ac Aberhosan;—un o'r lleoedd hyny oedd Cwmdyrgi, a lle arall oedd gerllaw y Glasbwll, mewn tŷ a elwid Brynelwy, neu Brynelwydd. Nid yw y tŷ hwnw ar gael yn awr, ond enw y gŵr a'i preswyliai y pryd hyny oedd Evan Vincent. Yn mysg y crefyddwyr boreaf y fro hon, crybwyllir enwau Mr. Rowland Jones, a John Jones, Glanfechan. Wrth fyned i'r Glasbwll i wrando, yr oedd yn rhaid iddynt fyned trwy dref Machynlleth, neu trwy ryw gŵr o honi o'r neilldu. Fel yr oeddynt un Sabboth yn cyfeirio eu camrau tua'r Glasbwll, ac yn dringo i fyny craig a elwir *Caergybi*, cyfarfu â hwynt lu o erlidwyr, y rhai a amheuent mai i'r addoliad yr oeddynt yn cyrchu. Gofynasant iddynt, "I ba le yr ewch y ffordd yma?" "Mae genym wartheg yn porfâu ar Luest y Waunbwll," oedd yr ateb. Tybid yr ateb yn foddhaol gan yr erlidwyr, ac yn mlaen yr aeth y ddau grefyddwr. Yr oedd ganddynt wartheg yn y lle crybwylledig, er mai nid yno yr oeddynt yn awr yn myned. Bu farw Rowland Jones yn y fl. 1816, yn 95 ml., a Mr. John Jones yn y fl. 1842, yn 94 ml. oed. Y mae ŵyr i Rowland Jones, a nai fab chwaer i'r John Jones uchod, yn preswylio Glanfechan yn awr, ac yn un o swyddogion eglwysig y Methodistiaid yn Machynlleth.

Yn mhen rhyw gymaint o amser, yr oedd pedwar o Fethodistiaid yn byw

yn y dref, sef Griffith Simon, Dafydd Meredith, Ellis Richard, a John Pugh: yr oedd y ddau olaf yn meddu ychydig o'r byd, ac yn cael eu hystyried yn wŷr cyfrifol; ond y ddau eraill yn dlodion. Nid oedd eto yn ddiberygl i'r dynion gyfarfod â'u gilydd i gynal dim moddion, o fewn y dref, rhag y daethai hyny yn adnabyddus i'r erlidwyr, a bod terfysg a cholled yn canlyn. Sychedent, er hyny, am ryw gymundeb â'u gilydd, a chynygiasant fyned allan o'r dref, i le a elwid Coed Llynlloedd;—coed yn perthyn i balas o'r enw hwnw. Yn nghanol y coed yr oedd rhyw lanerch lâs a dirgelaidd, lle dystaw, a diogel, lle y gallent ymddyddan â'u gilydd, a galw ar eu Duw, heb eu llesteirio gan neb. I'r lle neillduedig hwn, gan hyny, y cyrchent ar adegau penodol, un y ffordd yma, a'r llall y ffordd draw, rhag enyn drwgdybiaeth eu gelynion; a chadwent yma gyfarfodydd gweddio ar brydnawn Sabbothau pan y byddai yr hin yn goddef hyny.

Adroddai Ellis Richard am un tro, wedi ymgynull i'r lle hwn i weddio, ddarfod i haid o erlidwyr ddyfod arnynt yn ddisymwth, pan oedd Griffith Simon ar weddi. Yr oedd y gweddiwr, tybygid, mewn hwyl nefolaidd yn ymddyddan â'i Arglwydd; ei ddwylaw ar led, a'i lygaid fry; a phan welodd yr erlidwyr ei agwedd, a chlywed ei ddeisyfiadau, nid oedd nerth ynddynt mwyach i ddwyn eu hamcanion i ben.

Dechreuodd pregethu yn y dref tua'r fl. 1770, neu yn ddiweddarach;—yn ol un hysbysydd yr oedd yn ddeng mlynedd diweddarach. Y mae yn lled debyg fod cyfarfodydd eglwysig yn cael eu cynal yn nhŷ un John Pierce, cyn anturio dwyn y pregethu yno; os felly, dichon mai y cyfarfodydd hyny a gynelid o'r amser cyntaf a nodwyd, a phregethu tua'r fl. 1780. Yr oedd, y pryd hwn, tua 12 o nifer yn arddel crefydd yn y dref. Fe ddeuai John Ellis, Abermaw, cyn iddo ddechreu pregethu, a'r pryd yr oedd yn gweithio ei grefft yn Llanbrynmair, i Fachynlleth i gynorthwyo y brodyr i gadw y cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd profedigaethau y crefyddwyr boreu hyn yn fawrion iawn, drwy y gwarth a'r gorthrwm a ddyoddefent oddiwrth eu cymydogion; weithiau dyoddefent lawn cymaint oddiwrth eu teuluoedd a'u perthynasau agosaf. Yr oedd un o leiaf o'r deuddeg proffeswr hyn yn dyoddef llawer yn y dull olaf a nodwyd. Yr oedd gwraig Ellis Richard yn dra gelynol i grefydd, a hi a ddeuai i'r cwrdd eglwysig, weithiau, yn llawn anwydau digofus, i gyrchu ei gŵr allan. Ac nid digon oedd ganddi ei gael ef allan, ond hefyd hi a roddai ysgytiad i bob un arall a fyddai rhyngddi ag ef, ac wedi ei gael ef, hi a ymaflai ynddo ac a'i llusgai ef i'r drws yn y dull cethinaf; ac unwaith aeth allan felly heb ei het. Mawr fyddai y cweryl ag ef ar foreuau Sabboth, ar ol dyfod o'r cwrdd gweddi, am iddo feiddio myned ar ei liniau i ddifwyno ei ddillad! Mynych y gofynai genad yn fwynaidd iddi i gael darllen ychydig o'r Beibl ar ol boreu-bryd; hithau a gipiai y llyfr o'i law, ac ag ef a'i tarawai yn ffyrnig. Yr oedd Griffith Simon wedi dyoddef oddiwrth erlidwyr, a'i wraig hefyd. Gwneuthurwr menyg a llodrau lledr oedd ef wrth ei grefft; ac fe ymddengys ei fod ef dan ddylanwad crefydd pan y bu Mr. Jones, Llangan, yn ceisio cael pregethu ar yr heol. "Cafodd hwn brofedig-

aeth trwy watwor; ïe, gwnaethpwyd ef weithiau yn wawd trwy waradwydd-iadau; ac weithiau byddai yn gyfranog â'r rhai a drinid felly." Pan geisiodd Mr. Jones bregethu ar yr heol, yr oedd terfysg nid bychan yn y lle. Disgyn-odd rhyw nifer o ddyhiriaid ar Griffith y *glover*, gan droi ei *ferwig* y tu gwrthwyneb allan, a'i gosod felly am ei ben; yna pardduo ei wyneb â'r hudd-igl a geid oddiar y badell ffrio, a ddygasid i'r lle i drystio â hi. Yr oedd gwraig Griffith Simon hefyd yn anfoddlawn iawn iddo. Yr oedd ef un boreu Sabboth wedi penderfynu myned i oedfa a gedwid yn Mhenal, pentref ychydig filldiroedd o'r dref; deallwyd ei fwriad gan y wraig, a chuddiodd ei esgidiau o'r tu ol i ryw lestri gwerthfawr ganddi yn y cwpbwrdd. Daeth yntau yn y boreu, cyn iddi hi godi o'r gwely, o hyd i'w esgidiau, a diangodd gyda phob prysurdeb i'w ffordd.

Yr oedd hefyd yn mysg crefyddwyr boreuaf Machynlleth un John Owen, a'i wraig Elizabeth. Siopwr oedd y gŵr hwn, ac yn well arno yn y byd na rhai o'i frodyr. Yr oedd hefyd yn ŵr helaeth ei wybodaeth, ac yn fardd rhagorol. Cyfansoddodd rai llyfrau, y rhai a brofant ei fod yn mhell o flaen y cyffredin o'i genedl mewn llenyddiaeth a gwybodaeth gyffredinol. Ar ol marwolaeth ei wraig, symudodd y gŵr hwn i Gaerfyrddin.

Rhoddir gair da i John Pugh, yr hwn oedd grydd a lledrwr (*currier*) o ran ei alwedigaeth, am ei dduwioldeb, a'i rodiad cyson gyda Duw. Mae chwedl lled anhygoel wedi disgyn am droedigaeth y gŵr hwn, sef ddarfod ei arafu yn ei wylltineb trwy lais o'r nef yn galw arno erbyn ei enw, pan oedd ar y parc gerllaw y dref. Ond os cychwynodd mewn dychymyg, fe ddybenodd mewn dychweliad gwirioneddol at Dduw. Ymneillduai y gŵr hwn yn fynych i ryw ogof oedd yn y parc, lle y byddai yn ymroddi i weddi ddyfal.

Ond yn nhŷ John Pierce y cedwid y moddion. Bernir ddarfod dewis ei dŷ ef yn hytrach na'r eiddo John Pugh, am ei fod yn sefyll mwy o'r neilldu, ac mewn lle mwy dirgelaidd. Yr oedd person y plwyf yn Heddynad hefyd, a phan glywodd fod moddion yn cael eu cynal yn nhŷ John Pierce, efe a anfonodd am dano, i'w fygwth y gyrid ef o'r dref i fyw, oni pheidiai a derbyn y pengryniaid i'w dŷ; ac o'r dref y buasai raid iddo fyned, tybygid, oni bai iddo allu dangos ei rwym-ysgrif *(Indentures)*; a bod ganddo hawl i aros ynddi. Mynych yr aeth ef a Dafydd Meredith y crydd i Langeitho, 30 milldir neu fwy o ffordd, erbyn Sabboth cymundeb.

Yn yr adeg hon, pryd yr oedd cael chwanegiad o un neu ddau at eu nifer yn amgylchiad pwysig i'r crefyddwyr, fe'u llonwyd trwy ddyfodiad gŵr ieuanc atynt o'r enw Edward Jones, yr hwn oedd yn byw ychydig yn y wlad, rhwng y dref a'r Dderwen-lâs. Hwn, wedi priodi, a ddaeth i fyw i'r Tollborth, yn nghŵr y dref, ac yn nhŷ hwn y lletyai rhai pregethwyr, a bu yn swcr i Fethodistiaeth, yn ol ei radd, dros ystod ei oes.

Cyn i'r pregethu ymadael â thŷ John Pierce, chwanegwyd at y dysgyblion ŵr ieuanc arall, o'r un John Davies, lledrwr wrth ei gelfyddyd. Gŵr oedd hwn o Ben-morfa, sir Gaernarfon, yr hwn a ddaeth i'r dref i agor maelfa iddo ei hun. Mewn tref fechan o'r fath, yr oedd dyfodiad dyn dyeithr iddi i fyw

yn enwedig os byddai cyhoeddusrwydd yn perthyn i'w fywioliaeth, yn ebrwydd yn hysbys i'r trefedigion oll. Yn mysg eraill, daeth yr amgylchiad yn wybyddus i'r offeiriad, yr hwn, pan ddeallodd hefyd ei fod yn un o'r Methodistiaid, a benderfynodd lesteirio iddo ymsefydlu yno; a diau y llwyddasai yn ei amcan, oni bai i John Pugh ei gyflogi am flwyddyn i gyweirio lledr iddo ef, a thrwy hyny fe'i gwnaed yn blwyfol yn y dref, a chafodd y dyn lonydd.

Yr oedd gelyniaeth y galon yn erbyn yr efengyl yn tori allan yn awr ac eilwaith, yn wyneb rhyw achlysuron neillduol, fel y gwelir yn yr adgofion canlynol:—

Ymwelodd un Mr. Samuel Llwyd unwaith â'r dref, gyda'r bwriad o bregethu ar yr heol. Buasai y gŵr hwn unwaith yn filwr, ond yr oedd weithian yn filwr da i Iesu Grist, ac yn perthyn i gyfundeb Iarlles Huntingdon. Safai ar risiau tŷ, gerllaw neuadd y dref;—ymwisgai yn ngwisgoedd ei swydd *(gown and band)*, ac ymddangosai gwedd llawer mwy boneddigaidd arno, nag a fyddai yn gyffredin ar gynghorwyr bychain dirmygus y Methodistiaid. Ymgynullodd llu o erlidwyr hefyd, y rhai, gan sefyll wrth gefn rhyw dai bychain gerllaw, a luchient y cerig yn gyntaf ar nen y tŷ, y rhai a ddisgynent oddiyno yn gawodydd i'r lle y safai y pregethwr arno. Ond yr oedd cryn wroldeb yn y gweinidog hwn; dywedai yn ddigon digyffro, y buasai efe gynt o dan gawodydd mwy peryglus na chawodydd o gerig; ac ddarfod ei waredu oddiwrthynt oll. Felly hefyd y bu y tro hwn. Er maint oedd cynddaredd ei wrthwynebwyr, a pherygl ei sefyllfa gan y cerig, ni ddygwyddodd iddo un math o niwaid.

Yr oedd yn y dref un gŵr mwy nodedig fel erlidiwr a gwawdiwr yr efengyl na neb o'i gymydogion, gŵr o'r enw Lumley. Yr oedd y dyn hwn wedi ymroddi i feddwdod; a'i waith yn y tafarndai, a phob man arall, a fyddai dynwared y Methodistiaid mewn gwawd. Ond nid hir y goddefwyd iddo fyw. Yr oedd yn rhy annuwiol, a "bu farw cyn ei amser." Syrthiodd un noswaith wrth fyned i'r dafarn, a thorodd ei goes; troes hon allan, er pob ymdrechiadau i'w gwella, yn anfeddyginiaethol. Bu farw fel y bu fyw, yn elyn i bob peth crefyddol: oblegid ni fynai gymaint a gweled gweinidog y plwyf. Syrthiodd ei gorff i lygredigaeth ebrwydd, y fath ag oedd yn annyoddefol, a hyny mewn llai o amser, ac i raddau llawer mwy na chyffredin. Syrthiodd dau erlidiwr arall yn ysglyfaeth i farwolaeth, mewn dull ag a osododd arswyd ar y gweddill; a lliniarwyd y gorthrwm o hyny allan.

Mae son mawr hyd heddyw, gan ambell un sydd eto yn fyw, am y gymdeithasfa gyntaf a gynaliwyd yn Machynlleth. Torasai yn orfoledd mawr ar lawer o'r crefyddwyr oedd yn bresenol, ac yn eu mysg, dywedir fod y Parch. Peter Williams; a bod rhyw hynodrwydd rhyfeddol yn ei waith ef yn canu ac yn moliannu. Yr oedd lluaws o edrychwyr wedi dringo i benau y cloddiau, ac yn rhodio o amgylch cyrau y dorf, gan wawdio y sawl a welent yn y mwynhad, fel rhai "yn llawn o win melys." Y pryd hwn, cododd dyn bychan, eiddil yr olwg arno, o'r enw Evan Williams, ac a ddarllenodd yn destyn, "Y farn a eisteddodd, ac agorwyd y llyfrau;" yr oedd yr olwg arno yn

effeithiol gan ddifrifwch ei wedd ac amledd ei ddagrau, a bu ei weinidogaeth dan arddeliad ardderchog:—disgynodd y gwatwarwyr oddiar y cloddiau. Safodd y rhodianwyr diofal fel rhai wedi eu dal gan wŷs brenin, a disgynodd difrifwch y farn ar ddynion cellwerus ac ysgeifn. Bu ol y gymdeithasfa hon ar y dref o hyny allan. "Beth a wnaeth Duw!"

Yn y cyfarfod hwn y daliwyd yr hen bregethwr duwiol a ffyddlawn, John Williams, yr hwn a fu farw yn ddiweddar yn y Drefnewydd, wedi treulio oes hir mewn rhodio gyda Duw, a phregethu efengyl y deyrnas. I'r cyfarfod hwn hefyd y daeth un Edward Giles, â ffon fawr yn ei law i ymofyn ei chwaer, yr hon, tybygid, oedd wedi dianc i'r cynulliad heb yn wybod iddo; ond yn lle gyru ei chwaer adref â'r ffon, daliwyd ef ei hun yno gan "wialen ei nerth ef." Deallodd yn fuan, medd fy hysbysydd,* wedi dyfod i swn y weinidogaeth, mai gwell oedd "peidio â digofaint, a gadael ymaith gynddaredd," ac yn lle gwingo yn erbyn y symbylau, mai diogelach oedd plygu, gan fod llaw Duw eisoes wedi cyffwrdd ag ef.

Tua'r fl. 1784, pan oedd y crefyddwyr yn dyheu am le mwy cyfleus a sefydlog i addoli, dygwyddodd i dŷ yn heol y Maengwyn ddyfod yn wag; ac ymddangosai y tŷ hwn yn un dymunol i'r dyben, pe buasai yn bosibl ei gael. Ond ei gael oedd yr anhawsder. Perchenog y tŷ oedd y cyfreithiwr y sonia Robert Jones am dano, a driniodd Howel Harris mor gethin pan geisiodd bregethu y tro cyntaf yn Machynlleth.† Yr oedd hwn yn frawd i'r offeiriad; yr hwn hefyd oedd yn un creulawn yn erbyn dyfodiad y Methodistiaid i'r dref. Ymddengys, pa fodd bynag, fod rhagfarn y cyfreithiwr wedi lleihau i raddau er y tro crybwylledig, gan iddo gael helaethach adnabyddiaeth o'r crefyddwyr, trwy forwyn oedd ganddo;—yr hon a ennillasai iddi ei hun air da fel merch grefyddol, a gweinidog gwerthfawr; rhoddasai argraff ar feddwl ei meistr am y crefyddwyr, gwahanol i'r hyn a lochesai gynt. Ar yr un pryd, nid hawdd oedd gan neb anturio ato i ofyn iddo osod y tŷ gwag i'r Methodistiaid. Yr oedd ei gael ganddo, braidd yn fwy nag a allasent ddysgwyl, wrth gofio ei ymddygiad gynt, a'i gysylltiad â boneddwyr eraill y fro. Ar y llaw arall, gwyddent mai dymunol fyddai ganddo osod y tŷ. Pa faint bynag oedd neu a fuasai ei ragfarn at y crefyddwyr, gwyddent mai nid anfoddhaol ganddo dderbyn ardreth am y tŷ gwag. Felly yr oedd gradd o flys arnynt ysgogi at gael yr adeilad, er nas gwyddent yn iawn pa fodd. Yr oedd yn eu plith eilliwr *(barber)* a fyddai yn arfer gwneyd swydd felly i'r cyfreithiwr, ac yn ddyn lled eofn a medrus. Tarawodd i feddwl un o'r brodyr mai yr eilliwr hwn a fyddai y dyn i ofyn y cwestiwn i'r gŵr mawr. Ar waith un yn crybwyll yr amcan wrth y *barber*, cynygiodd yn fyrbwyll o hòno ei hun, ofyn am y tŷ gwag. Pan aeth at y boneddwr, anturiodd ddyweyd ei fod yn deall fod ganddo dŷ ar osod, a'i fod yn deall hefyd fod ar y Methodistiaid eisiau tŷ o'r fath;—y rhoddent ardreth dda am dano, ac y cymerent ef am nifer o flynyddoedd. "Aie, fachgen?" ebe y cyfreithiwr, "dywed wrthynt y cânt o."

* Mr. John J. Jones, Machynlleth. † "Drych yr Amseroedd," tudal. 126.

Ac felly y bu. Cymerwyd *lease* arno am 14 o flynyddoedd. Fe ddywedir fod y cyfreithiwr yn tybied ar y pryd, mai darfod a wnaethai y Methodistiaid yn fuan, ac mai gwych oedd ganddo gael gafael ar Ellis Richard am yr ardreth, dros gynifer o flynyddoedd. Pa beth bynag am ddyben y boneddwr, fe gaed y tŷ, a chafwyd pregethu ynddo, ynghyda phob moddion eraill, hyd nes yr adeiladwyd y capel cyntaf.

Pan glybu perthynasau y cyfreithiwr am yr hyn a wnaethai, ffromasant yn aruthr; ac yn enwedig ei frawd, Dr. Edwards, offeiriad y plwyf. Yr oedd yr offeiriad ar gyfrifon eraill yn ddyn cymwynasgar i'w gymydogion, a rhoddai fenthyg arian, ar ryw achlysuron o angen, i'r neb a ofynai ganddo, ond nid i neb o'r Methodistiaid, nac i neb a fyddai yn arfer gwrando arnynt. Dywedai yn fynych o'r pulpud, "Y Methodistiaid drygionus! a phobl ddrygionus sydd yn eu canlyn! Methodistiaid drygionus! yn eu twyllo eu hunain ac yn twyllo pobl eraill hefyd! Methodistiaid drygionus!—pwy o honyn' nhwy, nis gwn i, a fu yn y drydedd nef, fel St. Paul?" Pregethai unwaith ar y testyn, "Ffydd heb weithredoedd marw yw," a dywedai, "Mae y Methodistiaid yn dyweyd mai trwy *ffydd* y cyfiawnheir dyn, ond yr wyf fi yn dyweyd, mai ffydd heb weithredoedd *marw* yw." Hwn pan glywodd fod ei frawd wedi gosod tŷ iddynt i bregethu, a ofynodd iddo, "Ai gwir yw eich bod wedi gosod tŷ i'r Methodistiaid bregethu ynddo?"

"Ië," atebai yntau, "pa waeth gen' i i bwy; am y ca'i ardreth da am dano?"

Yn y tŷ gwag hwn o eiddo y cyfreithiwr y bu y pregethu, bellach, dros ystod y *lease*, sef 10 ml. medd un, 14 ml. medd un arall; ac nid oes son fod dim ymosodiad haerllug wedi bod ar y crefyddwyr ar ol cael y tŷ hwn i bregethu ynddo. Yn yr yspaid hwn o amser, fe drefnodd rhagluniaeth i Mr. Foulkes, o'r Bala gynt, a'i wraig, ddyfod i'r dref hon i breswylio. Y modd y tueddwyd y teulu caredig hwn i ddyfod i Fachynlleth oedd fel y canlyn. Yr oedd Mr. Foulkes ar fedr gadael y Bala; a thra yr oedd yn llochi y bwriad o fyned i Ruthyn, lle y deallai fod drws agored iddo, daeth gwas Mr. Charles ato, yr hwn ar ei daith a fuasai yn aros noswaith yn Machynlleth, ac a ddarluniodd pa safle mor bwysig i Fethodistiaeth oedd y dref hòno, trwy ei bod yn sefyll rhwng De a Gogledd, ac yn debyg o fod yn dramwyfa lluaws o bregethwyr wrth deithio o'r naill ran o'r dalaeth i'r llall. Yr oedd hyn yn ddigon gan Mr. a Mrs. Foulkes i droi y fantol. Ac er nad oedd neb o'u perthynasau yn byw yn y fro, na hwythau eu hunain ond estroniaid iddi, eto penderfynasant anturio ymsefydlu ynddi, yn unig oddiar olwg y rhoddid mantais iddynt wasanaethu yr efengyl yn fwy. Felly i Fachynlleth y daethant, a gwenodd rhagluniaeth arnynt, gan eu llwyddo yn rhyfeddol yn mhob modd, o ran eu hysbrydoedd, ac o ran eu hamgylchiadau bydol hefyd.

Merch oedd Mrs. Foulkes i Simon Llwyd, Ysw., Plas-yn-dre', Bala, a chwaer i'r Parch. Simon Lloyd, B.A., o'r un lle. Dygasid ei thad dan argraffiadau crefyddol yn gynar wedi cychwyniad Methodistiaeth yn y Bala. Ei mam hefyd oedd Miss Bowen, merch y Tyddyn, sir Drefaldwyn, am yr

hwn deulu y sonir eto yn hanes Trefeglwys. Aethai dwy o ferched y Tyddyn, er mwyn mwynhau gweinidogaeth Mr. Harris yn gyson, i Drefecca ar waith Harris, trwy yr hwn y dygasid hwy a'u rhieni i wybodaeth o'r gwirionedd, yn cilio oddiwrth y Methodistiaid. Nid ydym yn cael eu bod wedi aros yn hir o amser yn Nhrefecca, gan y cawn fod un wedi priodi, a chanddi ddau o blant, yn y fl. 1758, pryd nad oedd adeilad yno i'w derbyn cyn y fl. 1752. Cyfrifid Mrs. Bowen, mam y merched hyn, yn wraig dduwiol iawn, ac yn un o'r crefyddwyr cyntaf yn sir Drefaldwyn. Bu farw yn nhŷ ei merch yn y Bala, pan oedd yn 88 ml. oed. Tynai ei chysur o'r efengyl hyd ei diwedd. Ai i gapel y Bala wrth ei dwyffon, a chymerai deisen yn ei phoced, fel y gallai aros yno o'r naill oedfa i'r llall. Ei merch hefyd, mam Mrs. Foulkes, yr un modd, oedd yn gyfranog o'r un ysbryd. Daeth S. Lloyd, Ysw., yn gydnabyddus â hi pan ydoedd hi yn aelod o deulu Mr. Harris yn Nhrefecca. Daeth i'r Bala, gan hyny, tua'r fl. 1754 neu 5, adeg yr oedd crefydd yn isel yno, a Methodistiaeth ond yn ei fabandod. Ond hi a fu yn ffyddlawn yn y Bala, megys y bu ei mam yn y Tyddyn, a dygodd ei holl blant i fyny yn grefyddol, chwech o nifer. Bu Mr. Lloyd farw yn ddyn ieuanc 33 ml. oed, a disgynodd holl ofal ei theulu lluosog arni hi, a hi a fu ffyddlawn i'r ymddiried pwysig i raddau anarferol.

Yr oedd Mrs. Foulkes yn ferch henaf iddi. Ganwyd hi yn y fl. 1758. Dygwyd hi yn foreu, tua 10 ml. oed, dan argraffiadau crefyddol, ac yn fwy fyth pan oddeutu 18 ml. Bu dan argyhoeddiadau llymion iawn;—bu yn hir dan arteithiau anobaith, ac heb allu sugno dim cysur oddiwrth un gair o'r Beibl, mwy na phe buasai yn seliedig yn ei herbyn. Gwahoddwyd hi gan ei modryb i Bwllheli; a than addewid y ca'i ddarllen hanes bywyd un Mr. Hart, yr hwn y dywedid ei fod wedi profi cyffelyb drallod a hi, hi a gydsyniodd. Bu darlleniad y llyfr hwnw i raddau yn gysur iddi. Gwahoddwyd hi gan ŵr cydnabyddus â'i modryb, o'r enw Mr. Lewis,* gydag ef adref, ac ar Sul y Pasg cymhellai hi i fyned gydag ef i wrando Mr. Davies, Castell-nedd, yn nghapel Tŷ-mawr, Bryncroes; a than y bregeth hòno y llewyrchodd goleuni mawr ar ei hysbryd, a'i rhwymau tynion a ddrylliwyd. Ymgysegrodd yn y fan i'r Arglwydd, a glynodd wrtho trwy gyfammod tragwyddol. Bu ar ol hyn dros dymhor yn nhŷ brawd i'w mam, yn sir Frycheiniog, a chafodd ddod i gydnabyddiaeth yno â'r Iarlles Huntingdon, a Lady Ann Erskine, trwy fod athrofa yr Iarlles yn Nhrefecca y pryd hwnw. Arferai fyned i Langeitho hefyd i wrando Mr. Rowlands, a dangosai ei barn am dano trwy ddyweyd y talai myned i'r America i wrando y fath un. Pan yn 29 oed, neu yn y flwyddyn 1787, yn fuan ar ol dyfodiad Mr. Charles i fyw i'r Bala, hi a briodwyd â Mr. Thomas Foulkes; ac mewn canlyniad, daeth i gyfaneddu o hyny allan yn Machynlleth, fel y dywedwyd uchod.

Yr ydym eisoes wedi rhoddi crynodeb o hanes boreuol Mr. Foulkes,† ac wedi crybwyll graddau am ei lafur a'i ffyddlondeb gydag achos yr efengyl,

* Ai gŵr oedd hwn i Sian Lewis, o Fadryn?

† Cyf. I., tudal. 501.

tra y preswyliai yn nhref y Bala. Tynodd ei lysferch ef, Mr. Charles, i fyw i'r dref hòno, a bu hyny yn achlysur i anfon Mr. Foulkes i Fachynlleth, a'r ddau amgylchiad yn foddion i wasanaethu achos yr efengyl. Parodd dyfodiad Mr. Charles i'r Bala ysgogiad grymus i Fethodistiaeth drwy holl Wynedd, ïe, drwy Gymru oll; a pharodd symudiad Mr. a Mrs. Foulkes i Fachynlleth gyfnod newydd ar yr un achos yno. Ar eu dyfodiad, nid oedd y crefyddwyr ond tlodion a dirmygus, gan mwyaf, ac yn addoli mewn adeilad ardrethol; ond ar eu dyfodiad, newidiodd amgylchiadau eu gwedd. Gwasanaethodd sefyllfa a chymeriad Mr. Foulkes, ynghyda'i haelioni diderfyn, i ddarostwng llawer ar y rhagfarn a fynwesid yn erbyn y Methodistiaid yn flaenorol.

Nid oedd Mr. Foulkes yn ystyried ei hun yn bregethwr, ond cynghorwr bach; ond er lleied oedd ei ddawn, yr oedd ei ffyddlondeb ymron yn ddigyffelyb. Nid cuddio yr *un* dalent yn y ddaear a wnaeth, fel y gwna gwŷr yr un dalent yn fynych, ond fe'i defnyddiodd gyda diwydrwydd a chysonedd anarferol. Er fod ei gartref yn glyd, a'i amgylchiadau yn gysurus, eto ymwadai yn ewyllysgar â'i esmwythyd personol, er mwyn llesâu eneidiau dynion. Rhybuddiai ddynion, "nos a dydd, â dagrau lawer." Codai yn foreu, yn enwedig ar y Sabboth, a chymerai damaid o fara a chaws yn fynych yn ei boced, rhag pwyso ar bobl dlodion. Byddai ei deithiau ar y Sabboth yn aml yn 40 neu 60 milldir, rhwng myned a dychwelyd; ond wedi teithio cymaint ar y Sabboth, a phregethu dair neu bedair gwaith, ac yntau mewn gwth o oedran, fe godai yn foreuach ddydd Llun na neb yn y dref, a dangosai gymaint o ddiwydrwydd gyda'i fasnach ar hyd yr wythnos, ag a ddangosai o ffyddlondeb gyda chrefydd ar y Sabboth.

Llochesai Mr. Foulkes barch mawr i Mr. Wesley yn bersonol, ac i'r cyfundeb sy'n dwyn ei enw yn gyffredinol; eto yr oedd wedi llwyr gartrefu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Clywyd ef unwaith yn adrodd ei brofiad gyda chyfeiriad at hyn yma, "Yr wyf yn bendithio Duw am gael lle yn ei dŷ, a chyda'r bobl yr wyf yn eu plith; a dymunwn gael fy nghynal hyd y diwedd gyda hwynt, a bod fy mhlant ar fy ol yn cartrefu gyda'r un bobl."

Wrth olrhain cymeriad Mr. Foulkes, anhawdd ydyw penderfynu pa un ddysgleiriaf, ai cyfiawnder manwl i dalu pob gofynion, ai haelioni dibrin i ddiwallu pob angenion. Yr oedd gonestrwydd a thosturi yn cyd-deyrnasu yn ei fonwes. Ni fynai attal oddiwrth neb yr hyn a berthynai iddynt, ac ni allai lai na rhoddi yr hyn ni hònid oddiwrtho. Rhoddai ar ddiwrnod penodol bob blwyddyn, tua gwerth deugain neu hanner cant o bunnau mewn gwlanen neu frethyn bras i'r tlodion, a bernir nad oedd hyn prin hanner y swm a roddai oll yn ystod y flwyddyn.

Bu farw y gŵr duwiol a diddichell hwn yn y fl. 1802, yn 71 ml. oed, wedi bod yn pregethu tua 40 mlynedd. Gadawodd Mrs. Foulkes yn weddw gyda chwech o blant. Hithau a barhaodd i noddi achos yr efengyl â'i holl galon, ac a fu ofalus iawn i ddwyn ei phlant i fyny yn ofn yr Arglwydd. Gwenodd rhagluniaeth ar ei hymdrechiadau gyda'r byd, a chadwodd ei hen-

aid hefyd dan ymgeledd yr efengyl tra y bu byw. Hithau hefyd a gasglwyd i'r bedd, wedi gweled rhai o'i phlant yn cael eu gosod yn y pridd, a'u gweled oll wedi priodi. Cafodd hefyd y boddlonrwydd na chafodd ond ychydig ei fwy, sef gweled ei phlant yn golofnau dan yr un achos a hi ei hunan.

---

## PENNOD II.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR.

CYNWYSIAD:—

H. HARRIS YN PREGETHU YN LLANIDLOES—JENKIN LLOYD, YSW., YN AMDDIFFYN Y METHODISTIAID—Y TYDDYN—PREGETHU YN DECHREU YN Y DREF—ADEILADU CAPEL—YR HEN GYNGHORWYR—EDWARD WATKIN—JOHN PIERCE—JEREMIAH WILLIAMS—HUMPHREY GWALCHMAI—YR YSGOL SABBOTHOL—CYNYDD YR ACHOS—CYMDEITHASFA 1819—AFLONYDDU AR Y PARCH. JOHN ELIAS—RHAIADR-AR-WY.

#### LLANIDLOES.

WRTH olrhain cychwyniad Methodistiaeth yn Ngwynedd, yr ydym wedi crybwyll fod cymdeithasau eglwysig bychain wedi eu ffurfio yn Tyddyn, Llandinam, a Llangurig,* lleoedd gerllaw Llanidloes, mor foreu a'r fl. 1743, eto nid ydym yn cael fod Methodistiaeth wedi cael lle i roddi ei droed i lawr yn Llanidloes dros rai blynyddau ar ol hyny. Ymwelodd y Parch. Peter Williams â'r dref mor foreu a'r fl. 1746.† Gellir meddwl fod yn y dref, a cherllaw iddi, y pryd hwnw, rai enwau caredig at y Methodistiaid,—rhai wedi eu deffro i raddau am eu sefyllfa druenus fel pechaduriaid, ac yn ymofyn am ffafr Duw yn Nghrist; ond nid oedd yma nemawr o ffurf eglwys ar yr ychydig gyfeillion hyn hyd ar ol hyn. Mae sicrwydd, pa fodd bynag, fod Daniel Rowlands a Howel Harris wedi bod yn y dref rai troion yn pregethu. Yr oedd Mr. Rowlands, ar yr achlysuron hyn, yn cael caniatâd i bregethu yn eglwys y plwyf, ond nid oedd rhyddid o'r fath i Harris. Edrychid ar Rowlands yn wahanol i Harris. Ac er mai yr un oedd eu hegwyddorion a'u hamcan, eto edrychid ar un gyda gradd o warogaeth, am ei fod yn offeiriad, ac ar y llall gydag eithaf drwgdybiaeth fel pengrwn terfysglyd.

Daeth Mr. Harris yma unwaith gyda'r bwriad o bregethu. "Disgynodd," medd yr hanes, "oddiar ei geffyl wrth gnap o dir o'r tu deau i'r dref, a chymerodd un Mr. John Marpole ei anifail i'r ystabl i'w ymgeleddu. Safodd Harris ar y cnap tir, ac a bregethodd i ryw nifer fechan o wrandawyr," ond nid hir y caniatawyd llonyddwch iddo, tybygid, canys cododd rhyw ddyhiriaid y fath gyffro a therfysg, fel mai prin y cafwyd amser na chyfle i ddwyn ei geffyl iddo; ond pan y'i dygwyd ato, aeth yn brysur ar ei gefn, gan ddianc ymaith ar ffrwst, heb gael na thamaid na llymaid, nac un amgeledd arall.

Tro arall, daeth Harris i'r dref, gan fwriadu pregethu, ond fe'i llesteiriwyd

* Cyf. I., tudal. 171. † Cyf. I. tudal. 133.

drachefn. Cynhyrfwyd un Robinson, *Exciseman*, i sefyll yn ei erbyn. Hwn a gasglodd nifer o blant direol y dref ato, ac a'u cyflogodd i waeddi fel ynfydion o amgylch y lle yr oedd y pregethwr yn sefyll. Nid oedd bosibl clywed un gair gan faint y sŵn, a llwfrhaodd Harris, a'r ychydig gyfeillion a ddaethant o'i amgylch, ac ymadawsant; a da fu hyny, canys yr oedd yr erlidwyr creulawn yn parotoi dwfr berwedig yn ngwestty y *Lion*, i'w fwrw ar y pregethwr a'i ganlynwyr; a chyn fod y dwfr yn ddigon poeth i'r dyben, ymadawodd y pregethwr, nid rhag ofn y dwfr poeth, oblegid ni wyddai efe am hwnw, ond wedi canfod nad oedd obaith iddo gael gwrandawiad, gan nadau erchyll y dyhiriaid bychain cyflogedig.

Daeth i'r dref dro arall, a chafodd lonyddwch y tro hwn; ond mewn modd annysgwyliadwy. Yr oedd yn y dref ddyn o'r enw Richard German, yr hwn oedd ddyn mawr o gorffolaeth, ac yn arswyd i'r dref fel pen paffiwr;—hwn a gymerodd yn ei ben amddiffyn y pregethwr, gan ddyweyd, "Mi fynaf fi chwareu teg iddo;" a chan ei arswyd, cafodd Harris lonyddwch i bregethu: hyn fu tua'r fl. 1750.

Sonir am dro arall yr ymwelodd Harris â thref Llanidloes, ac at y tro hwnw y cyfeiria Mr. Robert Jones.* Safai y tro hwn ar risiau yn agos i dŷ un John Lewis; ac i'w aflonyddu y tro hwn, caed hen fenyw ysgeler i gymeryd y gorchwyl mewn llaw. Rhoddwyd iddi hi yn gyntaf ei gwala o ddiodydd meddwol, ac wedi ei gweithio i'r naws ag oedd gymhwys at y fath waith, a rhoddi iddi arf priodol i'w gyflawni, sef cryman drain, miniog, hi a gychwynodd tua'r lle y safai y pregethwr, a chan fytheirio llwon hi a fygythiai "hollti y gŵr dyeithr yn ysgyrion," ac yn yr agwedd yma hi ddaeth at gŵr y gynulleidfa. Yr oedd yno ŵr o'r enw John Hughes, cyfrwywr a menygwr, yn sefyll a chanddo gî mawr gydag ef; pan ddaeth y fenyw ysgeler i'r lle, hi a darawodd y cî â'r cryman, nes tori asgwrn ei gefn, i ddangos, ond odid, beth a wnai i'r pregethwr. Ar hyn cyffrodd perchen y cî, a rhoes iddi hithau ddyrnod â'i ddwrn nes oedd yn disgyn yn chwyrn ar yr heol. Dofodd y dyrnod hwn ffyrnigrwydd gorwyllt yr hen genawes, ac wedi iddi allu cyfodi llithrodd ymaith yn anfoddog o'r lle. Cafodd Harris lonyddwch ar ol hyn i bregethu.

Nid oedd Llanidloes yn mhell iawn oddiwrth gartref Howel Harris, ac nid rhyfedd os ymwelodd â'r dref hon yn fynych, yn enwedig gan fod cynulliadau Methodistaidd yn bod mewn amryw leoedd yn nghylch y dref. Cawn ei fod unwaith yn sefyll wrth hen dŷ y farchnad, pryd y cafodd ei luchio ag wyau gorllyd, ac â thom yr heol. Safai un gŵr a gyfrifid yn barchus yn y dref o'i flaen, gan ddyweyd wedi pob brawddeg a draethai, "Dyna gelwydd! Celwydd a ddywedi! &c." Ond yn mlaen yr aeth Harris er hyn oll.

Codid amddiffynwyr i'r trueiniaid gorthrymedig weithiau yn ddisymwth, a thrwy foddion nad oeddid yn dysgwyl. Adroddid yr hanesyn canlynol gan Edward Lewis, hen flaenor yn Llanidloes;—"Ar ryw achlysur yr oedd

* "Drych yr Amseroedd," tudal. 125 (ail-argraffiad).

amryw o wŷr mawr y dref a'r gymydogaeth wedi ymgasglu ynghyd mewn gwestty, tua'r amser yr oedd yr hen ddiwygwyr yn dechreu aflonyddu ar y dref a'i chyffiniau. Syrthiodd eu hymddyddan ar y dyeithriaid hyn a gyniweirient y wlad, gan aflonyddu ar heddwch y trigolion, a gyru dynion diniwaid yn wallgof, a dangosent bob parodrwydd i'w dirmygu, gan eu galw yn *Caradocs* a phengryniaid ; ac nid yn unig i'w dirmygu, ond hefyd i'w cosbi, os ceid allan y gellid gwneyd hyny yn ddiberygl. Dygwyddodd fod yn eu mysg hen ŵr boneddig a pharchus o'r enw Jenkin Lloyd, Ysw. Y gŵr hwn oedd Heddynad, ac ato yr âi pawb o'r dref a'r wlad, ymron, y pryd hwnw, i ymofyn am gynghor mewn achosion cyfreithiol. Wedi i'r boneddigion eraill arllwys eu syniadau difriol mewn modd diarbed ar y pregethwyr, gan eu galw yn grwydriaid direol ac atgas, cododd Mr. Lloyd i fyny ac a'u cyfarchodd i'r perwyl yma ; " Wele, foneddigion, chwi a wyddoch yn dda ddigon am yr annhrefn sydd yn mhlith ein hoffeiriaid ni. Mae offeiriad Llangurig fel ar fel,—Llanidloes ————, Llandinam ————, Trefeglwys ————, Carno ————, Llanwnog ————, a Phenystrywaid ————," gan ddarlunio eu drwg-fucheddau, a dynoethi yr afreolaeth cethin oedd yn eu plith, a dangos pa mor ddiofal oeddynt am eneidiau eu plwyfolion ; " A pha ryfedd," meddai, "os ydyw gwŷr dyeithr sydd yn eiddigeddu dros lesâd eneidiau dynion, yn tramwy atom i ddywedyd wrthym y noethwir am ein hymddygiadau ? " Wedi clywed y cyfarchiad llym hwn, ac heb allu gwadu cywirdeb y darluniad, tewi a wnaethant, " a gadael y dynion hyn yn llonydd."

Er bod y dref yn gwrthod rhoddi croesawiad i'r efengyl y pryd hwn, eto ni bu yn gwbl ddiswcr yn y wlad gerllaw. Agorodd Mr. a Mrs. Bowen o'r Tyddyn eu tŷ i dderbyn pregethu ynddo, gan ymuno â'r Methodistiaid, er maint y sarhad yr oeddynt dano. Gan gyfeirio at y teulu hwn y dywed Robert Jones,* " Y tro cyntaf y daeth Mr. Harris i'r wlad yma, aeth o Lanbrynmair i blwyf Llanwnog ; ac oddiyno i'r Tyddyn, yn mhlwyf Llandinam, cartref Mrs. Bowen. Bu yno dderbyniad croesawgar i'r efengyl amryw flynyddoedd ; ac y mae llawer o'i hiliogaeth, nid yn unig yn barchus ac yn glyd eu sefyllfa, ond hefyd, amryw o honynt, yn ddefnyddiol yn yr eglwys. Yn nhŷ y wraig hon y cynaliwyd y *cyfarfod neillduol* CYNTAF yn y sir."

Byddai rhai o dref Llanidloes a'i chyffiniau, y rhai y cyffyrddasai yr efengyl â'u calonau, yn arfer myned i'r Tyddyn i'r cyfarfodydd eglwysig uchod, pryd na chaniateid iddynt gyfarfod â'u gilydd o fewn y dref. Agorwyd drws hefyd i dderbyn y Methodistiaid mewn lle arall yn yr un plwyf a'r Tyddyn, sef plwyf Llandinam ;—y lle hwn oedd tŷ un Morgan William o'r Ddolwen ;—a lle arall gan Mr. a Mrs. Woosnam, Tŷ-mawr, Tref-eglwys ; a chan Owen Brown, o Grawlom, yn mhlwyf Llanidloes, a Reinallt Cleaton, o'r un plwyf. Yr oedd un Evan Morgan, Glyngynwydd, yn mhlwyf Llangurig, yn un o garedigion yr achos. Fel hyn yr oedd Methodistiaeth yn lefeinio bro Llanidloes, i raddau helaeth, cyn fod nemawr dderbyniad iddo

* " Drych yr Amseroedd," tudal. 125.

yn y dref, a hyny mewn adeg foreu arno. Parodd yr ymraniad rhwng Harris a'i frodyr yn y fl. 1751, effeithiau galarus, yn ddiau, yn mysg y dysgyblion yn y parthau hyn, a pharhaodd yr effeithiau dros gryn dymhor, tua deng mlynedd, mwy neu lai. Yn y tymhor gauafaidd hwn, ni ddeuai nemawr o'r Deheuwyr enwocaf i ymweled â'r wlad, gan fod teimlad cryf yn mysg y crefyddwyr o blaid Harris, ac felly ni cheisient gan y pregethwyr a safent gyda Rowlands ddyfod atynt dros ryw ysbaid. Safodd Richard Tibbot a Lewis Evan, pa fodd bynag, gyda Rowlands, ac yn mhen rhai blynyddau ar ol enciliad Harris i Drefecca, gorchfygwyd rhagfarn y crefyddwyr yn erbyn Rowlands a'i frodyr, gan eu syched angherddol am weinidogaeth y gair, ac ymofynasant eilwaith am eu gwasanaeth. Ail-gychwynodd y gwaith yn y canlyniad.

Tua'r amser yr oedd yr achos yn adfywio eilwaith, y bernir iddo gael drysau agored yn nhref Llanidloes; sef yn nhai, John Lewis, y *watchmaker;* Risiart Humphrey, y gôf; ac Evan Jenkin, y crydd. Dechreuwyd cadw cyfarfod eglwysig yn fuan, bellach, yn nhŷ John Lewis. Dywedai gwraig o'r enw Mrs. Davies, yr hon a fu farw o fewn llai nag 20 mlynedd yn ol, yn 80 ml. oed, ddarfod iddi hi fyned i'r gymdeithas eglwysig pan nad oedd ond 6 ynddi, sef yn y fl. 1778. Cedwid hi y pryd hyn yn nhŷ John Lewis. Bu y wraig hon yn proffesu am yr ysbaid o 56 o flynyddoedd.

Yr oedd yr erlid ffyrnig erbyn hyn wedi llonyddu, er fod y crefyddwyr yn cael eu rhan yn ehelaeth o wawd a dirmyg. Yr oedd y tafod yn rhydd i'w difrio, er fod y dwylaw yn rhwym i'w baeddu. Cafwyd llonyddwch i bregethu yn y tai, a rhoddwyd i'r gwrandawyr y fraint o fwynhau gweinidogaeth William Williams, Pant-y-celyn; Peter Williams; Lloyd, o Gaio; Dafydd Morris; John Evans, Cil-y-cwm; a Jones, Llangan; ynghyda brodyr mwy cartrefol. Nid oedd eto gymaint ag un tŷ addoliad o fewn y dref ond llan y plwyf; a mynych y cyferchid proffeswyr y dyddiau hyny, wrth fyned i'r neu wrth ddychwelyd o'r, cyfarfodydd crefyddol, â rhyw ymadroddion atgas, megys, "Dacw nhwythau y Pengryniaid! Dacw nhwy' yn myn'd i'r weddi dywyll!" a'u cyffelyb.

Yn y fl. 1778, y dechreuwyd ymofyn o ddifrif am le cyfleus i addoli. Hyd yn hyn, nid oedd i gynal y cyfarfodydd ond yr heol, yn yr awyr agored, neu ynte mewn tai bychain anghyfleus. Ac nid oedd y rhai a roddent eu tai i'r dyben ddim heb radd o betrusder ac ofn, gan faint oedd dygasedd y bobl eto at yr efengyl, rhag y gwneid niweid iddynt hwy neu i'w tai. Yr oedd hyn yn peri fod yr angen am le priodol i addoli yn dyfod yn fwyfwy teimladwy, a rhoddai y pregethwyr a ddeuai atynt yn achlysurol i bregethu, bob annogaeth i godi capel mor fuan ag y gellid. Bu y Parch. Peter Williams mor dirion a dyfod atynt i estyn cynorthwy iddynt gyda'r gorchwyl. Aeth gyda John Lewis, ac eraill, o amgylch y dref a'r gymydogaeth, i ofyn cymhorth y trigolion mewn arian a chlud; a chafwyd cryn lawer o garedigrwydd; llawn cymaint, os nad llawer mwy, nag a ddysgwylid yn mlaen llaw. Llwyddwyd hefyd gyda Reinallt Cleaton, o'r Garn, gan yr hwn yr oedd lle cyfleus yn ei

feddiant, i gael tir. Felly yn y fl. 1779, adeiladwyd capel bychan cyfleus, o dan arolygiaeth James Matthias, yr hwn oedd yn grefftwr ac yn bregethwr. Cryn anturiaeth oedd adeiladu capel y pryd hwnw, gan leied oedd nifer, a chan dloted oedd sefyllfa, y rhan fwyaf o'r proffeswyr, a chan gymaint oedd y gwrthwynebiad i gael un addoldy heblaw eglwys y plwyf. Nid oedd chwaith y pryd hwn ond un capel wedi ei godi yn yr holl sir, gan y Methodistiaid, a hwnw oedd capel y Bont yn Llanbrynmair, yr hwn a godasid ddwy flynedd yn ol. Wedi gorphen y capel, llwyddwyd i gael yr enwogion Rowlands, o Langeitho; a Jones, o Langan, i'w agor. Dywedir nad oedd y gynulleidfa ddim yn lluosog, er enwoced y pregethwyr, ond fod y pregethau yn ardderchog.

Bellach, yr oedd Methodistiaeth yn meddu gwedd mwy sefydlog a chyson yn y dref; mwy nag a fuasai arno o'r blaen, a mwy felly nag oedd arno mewn llawer o ardaloedd eraill o amgylch. Cadwyd moddion gras yn yr addoldy newydd yn fwy cyson, yn wythnosol a Sabbothol, ac ymunodd amryw o'r rhai a ddychwelasid trwy'r efengyl, ag oeddynt yn byw yn agos i'r dref, â'r ychydig frodyr yn y dref, sef Mrs. Bowen, Tyddyn; Reinallt Cleaton, Garn; Evan Morgan, Glyngynwydd; Morgan William, Dolwen; Mrs. Woosnam, Tŷ-mawr; Owen Brown, Crawlom; hwy a'u teuluoedd. Bellach, yr oedd eu nifer yn fwy lluosog, eu meddyliau yn fwy calonog, a'u hysgogiadau yn fwy trefnus. Yr oedd y pregethwyr hefyd yn y sir, ac yn Ngwyneddoll, yn cynyddu yn gyflym mewn rhif a doniau, llafur y rhai a fendithiwyd mewn modd nodedig yn Llanidloes, i ddwyn yr achos yn mlaen i uchafiaeth a llwyddiant.

*Yr hen gynghorwyr.* Crybwyllason o'r blaen * fod yma amryw o ddynion yn y rhan yma o'r wlad yn arfer cynghori ychydig, megys Evan Jenkins, crydd, Llanidloes; Evan Morgan, Glyngynwydd; Reinallt Cleaton, Garn; yr oedd yma hefyd un John Thomas, ysgolfeistr; a Benjamin Cadman. Aeth yr olaf at yr ymneillduwyr yn lled fuan. Dywedir hefyd yn nghofnodau Trefecca, am Evan Morgan, "ei fod *wedi rhoddi heibio* gynghori, ond heb lwyr dynu yn ol." † Dywedir yn yr un cofnodau, mewn adroddiad o eiddo Richard Tibbot, yn y fl. 1774, fel hyn, "Mae genyf le i gredu fod Duw yn bendithio ac yn llwyddo y brawd Lewis Evan, Llanllugan, ac Evan Jenkin, Llanidloes. Mae arddeliad mawr ar eu llafur i dueddu y bobl i agor eu drysau i'r efengyl, ac i ddyfod i wrando y gair." Nid oedd gan amryw o'r cynghorwyr hyn ond doniau a medrusrwydd bychan iawn. Ni amcanent at bethau uchel, ac ni thraethent ar bynciau dyfnion duwinyddiaeth; dywedent yn ddirodres iawn yn erbyn y pechodau mwyaf arferol yn mysg eu cymydogion, gan ddysgrifio y dynion euog o honynt, mewn iaith a dybiasid yn awr yn *fras* ac *isel.* Dywedent, weithiau, am ddynion annuwiol cyhoeddus, "Fod nod y diawl yn eu talcenau, ac y byddai i'r diawl eu cymeryd ymaith ar ei *gyrn!*" Swniai ymadroddion o'r fath yn flin i'n clustiau ni; a byddent yn

* Cyf. I., tudal. 130. † Tudal. 132.

debyg o wneyd mwy o ddrwg nag o dda; ond yn y dyddiau tywyll hyny, yr oedd difrifwch y pregethwr, ac anwybodaeth y gwrandawyr, yn peri fod y fath ymadroddion yn llai gwrthun, ac yn fwy buddiol, i ddofi dynion, nag yr ydym ni yn chwannog i feddwl.

Y pregethwr cyntaf, heblaw yr hen gynghorwyr a enwyd, a fu yn preswylio tref Llanidloes, oedd Edward Watkin. Dechreuodd y gŵr hwn ar ei wasanaeth cyhoeddus tua'r un amser ag yr adeiladwyd y capel, sef 1779. Fe fu yn fraich gref i'r achos yn ei wendid, trwy bregethu a chadw cyfarfodydd eglwysig, a chafodd yr hyfrydwch o weled "ewyllys yr Arglwydd yn llwyddo yn ei law;" lluosogodd y gwrandawyr a'r aelodau crefyddol; ac yn ystod y 35 ml. y bu efe yn llafurio, ymddangosodd gwedd newydd ar Fethodistiaeth yn Llanidloes, wrth a welsid ar ei gychwyniad. Cododd ei ben er pob gorthrwm; safodd ei dir er pob ymosodiad; gwreiddiodd y pren, dan ruthriadau y dymhestl, a lledodd ei gangenau. Daeth llawer o wawdwyr crefydd i'w chofleidio, a'i herlidwyr i'w phroffesu.

Dyn bychan o gorffolaeth oedd Edward Watkin, cyflym ei ysgogiad, a ffraeth ei ymadroddion. Sonir am dano ar ddechreuad ei lafur cyhoeddus yn cyd-deithio â Dafydd Morris trwy wledydd y Gogledd, a thrachefn ni a'i cawn yn gydymaith cymhwys i'r pruddglwyfus John Pierce. Teithiodd hefyd lawer ar Gymru wrtho ei hun, gan bregethu efengyl y deyrnas; a bu farw ar ei daith yn Môn, yn nhref Caergybi, Tachwedd, 1815. Yn mhen tua 6 blynedd ar ol i Edward Watkin ddechreu pregethu, sef tua'r fl. 1785, y daeth John Pierce, o Frynengan, sir Gaernarfon,* i Lanidloes i fyw, ond ni bu ei dymhor yma ond byr, canys efe a fu farw ynghanol ei ddyddiau, pan nad oedd ond 49 ml. oed, wedi bod yn trigo yn ei gartref newydd ond ysbaid 8 mlynedd.

Bu un Jeremiah Williams hefyd yn byw dros ychydig amser yn y plwyf, ac yn cydlafurio â'r ddau bregethwr a enwyd, ond symudodd yn fuan i Lanwyddelan. Fe fu yr hynod Evan Evans, o'r Waunfawr, sir Gaernarfon, yn ymdaith yma dros ysbaid blwyddyn. Gyrasid ef yma gan afiechyd i geisio gwellhad, ond efe a fu farw dan effeithiau yr afiechyd hwnw yn Chwef. 13, 1797. Yma hefyd y bu y tyner Barch. Humphrey Gwalchmai yn byw y rhan fwyaf o'i oes, nid llai na 30 ml. Daeth yma yn y fl. 1813, a llafuriodd lawer yn ddirgel a chyhoeddus; coronwyd ei wasanaeth â llwyddiant nodedig. Ennillodd iddo ei hun air da gan y rhai a'i hadwaenent ef oreu, fel dyn hynod o hawddgar ei dymher, cyfeillgar, a diddichell. Yr oedd wedi ei gynysgaethu â mesur helaeth o wybodaeth a dawn, ac yn bregethwr da a chanmoladwy; ond er iddo gychwyn ei oes mewn amgylchiadau cysurus, fe roddwyd iddo brofi yn ehelaeth o chwerwder profedigaethau y byd hwn. Nid oedd ganddo gymhwysder, tybygid, i amddiffyn ei hun rhag siomedigaethau masnachol, a bernir mai cam ag ef oedd ei adael dan angenrheidrwydd i ymrwystro â negeseuau y byd hwn. Ond er i helyntion bydol fylchu ei ddefn-

* Gwel ei hanes boreuol yn Cyf. I., tudal. 218.

yddioldeb dros dymhor, eto cafodd adferiad i'w swydd a'i le, rai blynyddoedd cyn iddo farw. Symudasai i Groesoswallt i fyw rai blynyddau cyn ymadael â'r byd hwn, a bu farw yn y fl. 1847 yn y 59 ml. o'i oed.

Yn Llanidloes hefyd y bu y Parch. Edward Hughes, yn awr o Aberystwyth, yn byw; a'r Parch. David Williams, yr hwn a ymfudodd i'r America. Mae yma yn aros ddau frawd arall, sef y Parch. Robert Evans, a Mr. Richard Evans, y rhai sydd yn llafurio, yn ol eu talentau, gyda chysonedd a chymeradwyaeth canmoladwy.

*Yr Ysgol Sabbothol.* Ni bu un sefydliad yn fwy effeithiol i wreiddio ac eangu Methodistiaeth yn mysg y Cymry na'r Ysgol Sabbothol; felly hefyd y bu yn Llanidloes. "Yr hanes cyntaf am yr Ysgol Sabbothol," medd yr ysgrif* o fy mlaen, sydd, "mai yn nhŷ Owen Brown, Crawlom, y cedwid hi. Yr oedd y gŵr hwn yn arfer rhoddi llety i bregethwyr yn ei dŷ, cyn y fl. 1769; ond y mae y flwyddyn hòno yn nodedig am iddo roddi caniatâd i bregethwr o'r enw Jenkin Morgan i ddyfod i le, yn ymyl Crawlom, o'r enw Tŷ'n-y-fron, i gadw ysgol ddyddiol dan nawdd Madam Bevan. Crawlom yw y lle y dechreuwyd cadw ysgol Sabbothol gyntaf yn Nghymru, na Lloegr, hyd y gellir cael hanes; a sicr ydyw ei bod yn cael ei chynal rai blynyddau cyn i Mr. Raikes roddi cychwyniad iddi yn Nghaerloyw,† a'r achlysur o'i chadw ar y *Sabboth* oedd hyn. Nid oedd ond y *plant* yn gallu dyfod i'r ysgol ddyddiol, ac er fod awydd mawr mewn eraill mwy oedranus i dderbyn addysg, nid oedd eu hamgylchiadau yn caniatâu iddynt; am hyny penderfynwyd cadw ysgol nos yn Crawlom, fel y gallai pob oedran ddyfod iddi, a hyny ar nos Fercher, oddieithr gorfod newid yr amser o herwydd anghyfleusdra. Cynyddodd yr awydd i ddysgu yn fwy wedi profi gradd o'i flas, a phenderfynwyd cadw ysgol ar nos Sabbothau hefyd. Bellach, cyrchai lluaws i'r lle, o'r holl ddosbarth, am bum' milldir o amgylch; a hysbys ydyw, mai trwy y moddion hyn y rhoddwyd i'r trigolion, gan mwyaf, y tymhor hwnw, gael dysgu darllen gair yr Arglwydd yn eu hiaith eu hunain. Y mae capel yn bresenol wedi ei godi yn yr ardal, ac y mae yr ysgol nos, a'r ysgol Sabbothol, yn parhau yno hyd heddyw."

Ymddengys fod ysgol Sabbothol wedi ei chychwyn yn y modd a grybwyllwyd yn nghyffiniau Llanidloes, cyn ei chychwyn yn y dref, ond y mae sicrwydd ei bod yn y dref yn y fl. 1796; pa sawl blwyddyn cyn hyny, nid yw hysbys. Yr oedd yma un John Lewis yn athraw ysgol ddyddiol Saesonaeg, ac efe, ar y pryd, oedd y prif athraw yn yr ysgol Sabbothol. Cedwid hi ar ol yr oedfaon brydnawn Sabbothau, am oddeutu wyth mis o'r flwyddyn, sef tra y byddai y dydd yn caniatâu; ond wedi i'r dydd gwtogi yn ormodol, rhoddid hi heibio hyd y gwanwyn drachefn. Yn fuan wedi hyn, cynygiodd rhai eraill eu gwasanaeth i gynorthwyo John Lewis, a dechreuwyd ysgol arall tua thair milldir o'r dref, mewn lle a elwir y Parc. Cynelid hon yn ystod y pedwar mis gauaf y rhoddid hi i fynu yn y dref, ar brydnawn Sab-

* Ysgrifenedig gan Mr. D. Davies, Llanidloes. † Yn y fl. 1782 y bu hyn.

bothau, a threfnwyd 16 o athrawon i fyned yno, bob yn bedwar, i'w chadw. Agorwyd ysgol arall yn Nant-yr-hebog, tua dwy filldir o'r dref, ar yr un cynllun, a chedwid hon hefyd gan pedwar pedwariaid o athrawon.

Fe fu yr ysgolion hyn yn neillduol o wasanaethgar i'r achos crefyddol. Cododd cryn gyffro yn mysg y bobl, yn enwedig yn mysg yr ieuenctyd; ychwanegwyd at yr eglwys amryw ddynion defnyddiol a llafurus. Mae llawer o'r rhai hyn eisoes wedi ymadael â'r byd hwn, wedi bod yn addurn i'w proffes yn eu bywyd, ac wedi rhoddi tystiolaeth, cyn eu symud, ddarfod iddynt ryngu bodd Duw. Mae rhai eraill o honynt eto i'w cael yn ffyddlawn ar y maes, a rhai o herwydd oedran neu lesgedd, wedi gorfod tynu o'r neilldu. Ond er amlyced oedd effeithiau daionus yr ysgol Sabbothol, yr oedd y syniad yn ffynu yn gryf yn mysg hen bobl y parthau hyn fel manau eraill, mai dyledswydd crefyddwyr oedd yn hytrach fyned o amgylch i wrando pregethau, nag aros gartref i addysgu plant ac eraill ar y Sabbothau. Effeithiai y syniadau hyn i beri esgeuluso yr ysgolion ar ryw achlysuron, nes y byddai eu deiliaid hefyd yn ymwasgaru, ac y disgynai gwedd fwy gwywedig ar y gwaith.

Ar yr un pryd, ni roddwyd y gwaith heibio yn llwyr, eithr ymddangosai rhyw rai, o bryd i bryd, yn eiddigeddu dros yr ysgol, ac yn bwrw eu haden drosti. Yn y fl. 1805, daeth gŵr ieuainc o Aberystwyth yma i aros dros dymhor, sef Mr. Owen Jones (o'r Gelli wedi hyn), am yr hwn y soniasom o'r blaen,* dyfodiad yr hwn a fu yn foddion adfywiad anarferol i'r ysgolion gwywedig, ac yn gychwyniad i amryw o rai newyddion. Gan faint y llwyddiant a ddylynai ei lafur, nid yn unig trwy gasglu lluaws i'r ysgolion, ond hefyd trwy fod cyffro yn cael ei godi yn eneidiau lawerocdd ynghylch eu hachos tragwyddol, efe a fu yn offeryn i ddarostwng pob rhagfarn yn erbyn yr ysgolion, ac hefyd i ennill lluaws mawr o athrawon ac athrawesau i ymgysegru i'r gwaith, wedi eu llenwi â mesur o'r un aidd ag oedd ynddo ef ei hun; ac felly rhoddwyd ysgogiad grymus iawn i'r sefydliad daionus hwn trwy yr holl wlad. Dygwyd yr ysgol yn Llanidloes i well trefn, caniatawyd amser mwy manteisiol i'w chadw, a heidiodd o honi niferi mawr o athrawon aiddgar a medrus i sefydlu ac i amaethu ysgolion eraill hefyd.

Nid oedd Mr. Jones y pryd hwn ond gŵr ieuanc, eto cymaint oedd ei ddifrifwch, ac mor ennillgar oedd ei ddull, fel mai prin y gallai neb wrthod iddo ei gais. Fel yr oedd unwaith yn myned i ymweled ag ysgol yn y wlad, ac, ar ei ffordd, yn myned heibio i goed lawer, galwyd ei sylw at amryw fechgyn a llanciau yn difyru eu hunain trwy ysbeilio y brain o'u nythod ac o'u cywion. Aeth Mr. Jones atynt, a dechreuodd ymresymu â hwynt yn ei ddull priodol ei hunan, ynghylch creulondeb eu gorchwyl, ac yn neillduol ynghylch y drwg o halogi dydd yr Arglwydd, gan eu cymhell hwynt i ddyfod gydag ef i'r ysgol. Ni allodd y bechgyn ei nacâu, gan mor ennillgar ei ddull, a chydag ef yr aethant, ac amryw o gywion y brain yn eu pocedau.

* Cyf. I., tudal. 343.

Ac er maint eu hofnau i'r brain eu bradychu hwy, ac aflonyddu ar yr ysgol, eto nid oedd modd cilio yn ol; y fath oedd ei ddylanwad ef arnynt, fel yr oeddynt hwy gymaint yn meddiant Mr. Jones ag oedd y cywion brain yn eu meddiant hwy.

Yn ystod yr amser y bu Mr. Jones yn aros yn Llanidloes, fe ddefnyddiai foddion newyddion i ennill rhai i'r ysgol, sef ymholi am y teuluoedd hyny yn y dref ag oeddynt ddifater am yr ysgol, a myned atynt, gan ddeisyf caniatâd ganddynt i ddwyn rhyw nifer o blant yr ysgol gydag ef i'w tai i'w holi yn ngwydd y teulu. Wedi cael hyn, gofynai i'r teulu cyn ymadael, a ddeuent hwythau i'r ysgol, a chan amlaf llwyddo a wnai. Hynod, erbyn hyn, ydyw y cyfnewidiad. Y pryd hwnw nid oedd ond ambell un o'r werinos yn meddu Beibl, nac yn medru darllen gair ar lyfr, ond yn awr, a hyny yn benaf trwy lafur yr ysgolion Sabbothol, ni chyfarfyddir â nemawr deulu yn yr holl wlad, nac â nemawr blentyn mewn teulu, na fedr ei ddarllen!

Fe fu y capel cyntaf ar ei draed am 25 mlynedd, o'r flwyddyn 1779. Yn ystod y tymhor hwn cynyddodd y gwrandawyr yn ddirfawr, "hyd na anent yn y tŷ," a bu cri am "helaethu lle y babell," ac ar annogaeth Mr. Charles, o'r Bala, ail-adeiladwyd ef. Cafwyd tir i hyn gan Mr. John Cleaton, mab i'r gŵr y cafwyd tir ganddo o'r blaen. Yr oedd hyn yn y fl. 1804. Hwn, drachefn, a aeth yn rhy gyfyng yn fuan, ac yn mhen 17 o flynyddau, adeiladwyd y capel y drydedd waith yn y fl. 1821; a hwn yw yr adeilad sydd yn aros hyd heddyw. Gwnaeth y cyfeillion a'r trefedigion yn anrhydeddus mewn peth arall,—ni orphwysasant nes cael "tŷ eu cyfarfod" yn ddiddyled; ac yn awr y mae claddfa i'r meirw hefyd wedi cael ei pharotoi a'i sicrhau mewn lle cyfleus.

Cafodd Llanidloes brawf amryw weithiau o awdurdod ac awchlymder y gwirionedd a bregethid, trwy droedigaethau hynod, a thrwy fod llaweroedd yn troi at yr Arglwydd. Sonir am un tro, pan oedd John Prydderch, o Frycheiniog, yn pregethu, ac yn darlunio y modd y byddai y gŵr sarug, y wraig anynad, y plant cyndyn, a'r gweision anufydd, yn anghysuro y teuluoedd, pryd y dygwyddodd fod yn yr oedfa ŵr a gwraig o'r wlad; yr oedd y wraig yn proffesu, ond nid oedd y gŵr, a damweiniodd y tro hwn fod y wraig wedi dyfod i'r dref o flaen ei gŵr. Ar ol yr oedfa, troisant tua thre', a sylwodd y wraig fod wynebpryd y gŵr wedi syrthio, ac nad oedd tuag ati fel cynt. Ceisiai dynu ymddyddan ag ef, ond nid oedd yn llwyddo; o'r diwedd gofynodd iddo, "Pa beth oedd yn ei flino?"

"Pa beth sydd yn fy mlino yn wir!" ebe yntau; "mae digon yn fy mlino!" Yna dechreuodd edliw iddi:

"Pa achos oedd i chwi fyned at y pregethwr, cyn yr oedfa, a hysbysu iddo fy nghastiau i?"

"Ni fum i ddim, gyda'r pregethwr," ebe y wraig.

"Do chwi fuoch," meddai y gŵr yn sarug ddigon; ac er iddi sicrhau iddo na fu dim ymddyddan o'r fath rhyngddi â'r pregethwr, ni choeliai efe, hyd oni aethant i'r dref drachefn, ac i dŷ y gŵr y lletyasai y pregethwr ynddo, a

gofyn i'r gŵr;—"A fu fy ngwraig ddim yn eich tŷ yn adrodd fy hanes i wrth y pregethwr, y pryd a'r pryd?"

"Naddo," ebe yntau:—"ni fu yma ddim o'r fath beth, ond y gwir ydyw fod yr Arglwydd yn dysgu ei weision i draethu yr hyn a fyddo yn gymhwys at sefyllfa ac arferion eu gwrandawyr, i'r dyben i'w troi hwy oddiwrth eu pechodau." Bu y tro hwn yn fendith i'r gŵr; ymunodd yntau â'r eglwys, a glynodd yn ei broffes tra fu byw.

Sonir llawer hyd heddyw am gymdeithasfa a gynaliwyd yn Llanidloes yn mis Ebrill, 1819, yr hon a fu yn dra bendithiol, ac yn foddion dychweliad llawer o bechaduriaid at Dduw; yn enwedig pregeth y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, ar Salm i. 4, 5, "Am hyny yr annuwiolion ni safant yn y farn," &c. Dangosai paham na allai yr annuwiolion sefyll, ac yn mysg pethau eraill, un achos oedd, "FOD EU MATER YN DDRWG." Yr oedd sylw y gynulleidfa fawr eisoes wedi ei ennill, ond ar waith y pregethwr yn dadgan fod "achos yr annuwiol yn ddrwg," yr oedd y bobl megys dynion yn cael eu trywanu â chleddyf: teimlent eu hunain yn cael eu dàl megys â gwŷs, ac yn cael eu dwyn o flaen y Barnwr. Gwelid wynebau cannoedd yn amliwio, a llawer yn tori allan i waeddi am eu bywyd, fel rhai yr oedd dychryn Duw wedi eu meddiannu, ac yn barod i ofyn, "Pwy a all sefyll o flaen yr Arglwydd Dduw santaidd hwn!"

Ychwanegwyd at yr eglwys bob wythnos o hyny allan dros rai misoedd, nes oedd nifer y dychweledigion erbyn y Nadolig dros gant o rifedi. Ac nid y dref yn unig a gafodd fedi yr holl ffrwyth, eithr fe chwanegwyd lluaws mawr at yr eglwysi trwy yr holl fro; dyeithriaid lawer o sir Aberteifi, a ddaethent i'r cyfarfod, a ddychwelasant wedi eu clwyfo hyd yr enaid.

Y noson o'r blaen, fel yr oedd Michael Roberts yn dyfod i lawr ar hyd yr heol o'r oedfa, doluriwyd ei glustiau, wrth glywed rhyw segurwyr wrth iddo basio yn gwawdio ac yn cablu. Effeithiodd eu hagwedd gymaint arno, nes iddo fethu a bwyta ei swper, na'i foreufwyd dranoeth; ciliasai ei gwsg oddiwrtho, a thrwy ympryd a gweddi efe a ddeisyfai ar i Dduw amddiffyn ei enw ei hun. Tueddwyd ei feddwl ef yn y canlyniad at y testyn crybwylledig; Duw yntau a wrandawodd ei weddi, gan ddwyn tystiolaeth anwrthwynebol i air ei ras, nes mai prin y ceid un galon yn mysg y miloedd cynulledig, heb deimlo rhyw raddau oddiwrth rym y gwirionedd.

Ymddangosodd yn y dref hon radd o wrthwynebiad i bregethu yr efengyl mor ddiweddar a'r fl. 1819. Yr oedd y Parch. John Elias, o Fôn, yn y wlad yn pregethu, a'i gyhoeddiad yn damwain bod yn Llanidloes ar ddydd Llun, a hwnw yn ddydd Llun-y-gwyl-mabsant. Gan fod yr ŵyl hon, er ys blynyddoedd, yn ddolur llygaid i'r rhai tyner eu cydwybodau yn y dref, o herwydd y llygredigaeth a lochid ynddi, tybiasant mai da fyddai gwneyd ymdrech i'w darostwng, a bod dyfodiad pregethwr mor enwog i'r dref yn dygwydd bod yn yr amser, yn argoeli bod yr amser yn gyfleus, ac na ddylid ei ollwng heibio. Gofynwyd caniatâd, gan hyny, i gadw yr oedfa ar yr heol, o flaen y gwesttŷ dan arwydd y Llew. Caniatawyd eu cais iddynt gan

ŵr y tŷ, a chafwyd pedrol-fen *(waggon)* i'r lle yn barod erbyn yr amser, i'r pregethwr sefyll ynddi i gyfarch y gynulleidfa. Dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. H. Gwalchmai; yna wedi canu, cymerodd Elias ei destyn, Ioan xii. 32, "A minau os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun." Bernir fod tua phum' mil o bobl yn gynulledig. Wedi i Mr. Elias bregethu tua hanner awr, a'r gynulleidfa wedi eu rhwymo i wrando, ymddangosodd boneddwr o Hedd-ynad yn dyfod tua chŵr y dyrfa, ac yn dynesu at y wagen. Wedi dyfod ati, gwaeddai ar foneddwr arall, Hugh Jones, Ysw., yr hwn oedd yn grefyddwr, ac yn sefyll yn ymyl y pregethwr, i ddyfod ato; ar hyn nesaodd Mr. Jones, a Mr. D. Davies, at y pen hwnw i'r fen i gyfarfod â'r gŵr mawr, gan ddeisyf arno adael i'r pregethwr fyned yn mlaen dros enyd yn hwy. Ar hyn llwyddodd am ysbaid ugain mynyd. Yna canfuwyd ef yn dyfod yr un ffordd drachefn, gyda llwyr benderfyniad i roddi terfyn ar y bregeth; dringodd gyda pheth ymdrech i'r wagen, ac aeth yn uniongyth at Mr. Elias, a chan roddi ei law ar ei ysgwydd, a orchymynodd iddo dewi.

Anmhosibl ydyw dysgrifio yr olwg ar y dorf fawr ar hyn o bryd. Yr oedd llawer yn llewygu gan fraw; yr oedd yno gannoedd yn ymddigio yn arswydus wrth yr Ustus, ac eraill yn gwaeddi yn groch gan ddychryn. Ond nid cymaint o gyffro a ymddangosai yn y pregethwr, ond gan droi at yr Ynad, gofynai yn dirion ganiatâd i ollwng y gynulleidfa ymaith trwy weddi; a chaniatawyd hyn iddo. Y mae yn deilwng o sylw, er fod yr oedfa i raddau wedi ei rhwystro, eto, hi fu yn fwy effeithiol na dim arall i ddarostwng yr ŵyl lygredig a gynelid ar y diwrnod hwnw.

Ar ol dybenu y gwasanaeth ar yr heol, aeth hyny o'r gynulleidfa a allai fyned, i'r capel, lle y cyfarchai Mr. Elias hwy drachefn, a chan gyfeirio at yr amgylchiad a ddygwyddasai, cynghorai y bobl i beidio dangos dim anfri na digter at y gŵr boneddig, gan yr ymddangosai yn amlwg mai ei ddirgymhell a gawsai gan eraill, ac ychwanegai, "Yr wyf yn meddwl yn sicr, wedi ymddyddan â'r gŵr, y cawswn bregethu wrth ei balas." Yr oedd Mr. Elias wedi cael ymddyddan â'r gŵr boneddig, ac yn yr ymddyddan, deallodd mai nid o'i fodd y gwnaethai; ar yr un pryd, hònai mai nid lle priodol oedd yr heol i bregethu.

Fe fu amser pryd y byddai y werin yn terfysgu y cyfarfodydd crefyddol, ac ambell foneddwr yn eu noddi rhag y rhuthr; ac fe fu amser hefyd pryd y defnyddid y werin gan eu huchafiaid yn offerynau i aflonyddu; ond mewn ysbaid o amser, gwelodd y werin-bobl eu camsyniad, ac yn lle cymeryd eu harwain fel cynt, i faeddu y dynion a geisient eu lles, hwy a'u croesawent ac a safent o'u plaid, a hyny yn fynych yn erbyn y boneddigion. Pan oedd Dafydd Cadwaladr yn pregethu unwaith yn Pennal, ger Machynlleth, daeth yno yswain a meddyg i aflonyddu. Dynwaredent y pregethwr wrth iddo ddarllen ei destyn, gan ateb eu gilydd a chwerthin yn wawdlyd, a gofyn i'r pregethwr, "Pwy a ddywedodd hyna wrthyt ti?" Ceisiai rhyw rai yn y gynulleidfa ganddynt dewi, ond gwaeth yr aent hwythau. Bellach, cerddodd annyddigrwydd trwy y gynulleidfa,—diffoddwyd y canwyllau, a dechreuwyd

gwasgu y boneddwyr yn dost. Deallodd y gwŷr, bellach, mai doethach oedd cilio ac ymgeisio am y drws; ond nid mor hawdd oedd dianc. Safai dynion cryfion rhyngddynt ac allan, gan osod eu bryd ar wasgu yr aflonyddwyr, nes rhoddi digon iddynt ar eu hystranciau drwg; a rhwng rhai yn eu gwasgu, ac eraill yn y tywyllwch yn eu troedio, clybuwyd hwy yn llefain yn groch am arbed eu bywyd. Yn mhen rhyw ysbaid gollyngwyd hwy ymaith, ac i'r tŷ tafarn gerllaw yr aethant i lechu, wedi colli pob awydd i aflonyddu ar gyfarfodydd crefyddol o hyny allan. Bu farw yr yswain yn yr haf canlynol.

### RHAIADR-AR-WY.

Tref fechan yw Rhaiadr yn sefyll yn nghydiad siroedd Maesyfed a Brycheiniog, ac ar derfyn y Saeson a'r Cymry. Er fod gradd o ddiwylliad crefyddol wedi bod ar Lanidloes ar y naill law, ac ar Lanhir a Llanfair-muallt ar y llaw arall, er ys cryn amser yn ol, eto ni wnaed ymdrechion cyson i lesâu y dref hon gan y Methodistiaid hyd yn ddiweddar. Tua diwedd y canrif ddiweddaf, y mae yn gofus i rai ddarfod i'r Parch. John Elias, wrth iddo ddychwelyd o daith o'r Deheudir, addaw pregethu yn y dref, os ceid cyfle iddo wneyd hyny. Aeth dau neu dri o frodyr o Lanidloes yno i'w gyfarfod, ac wedi methu cael tŷ yn agored i'w dderbyn, cafwyd caniatâd i gadw yr oedfa yn addoldy yr Annibynwyr. Rhif y gynulleidfa, yn ddyeithrol a chartrefol, oedd 18! Dro arall 'aeth dau ŵr o Lanidloes yno i gyfarfod â Mr. Charles, o'r Bala, a'i gyfaill William Hugh, ar eira mawr; a chyffelyb oedd rhif y gwrandawyr y tro hwn hefyd.

Tua dechreu y ganrif bresenol, arweiniodd rhagluniaeth ŵr a gwraig i dyddyn tua milldir o'r dref, o'r enw Dolafallen; yr oeddynt wedi cael eu magu yn Llangurig, a thŷ tad y wraig wedi arfer bod yn agored i bregethu'r efengyl. I'r tŷ hwn, bellach, a thros ryw dymhor, y cyrchai pregethwyr sir Drefaldwyn i ddysgu ffordd iachawdwriaeth i'r bobl. Nid oedd yma yn perthyn i'r gymdeithas eglwysig, ond gŵr a gwraig y tŷ a'u morwyn; a thra chanmoladwy a fu eu ffyddlondeb i achos yr efengyl yn ei wendid.

Tua'r fl. 1806 y cafodd y diweddar Barch. Owen Jones ar ei feddwl gychwyn ysgol Sabbothol yn Rhaiadr, pan ydoedd eto yn llencyn ieuanc, a chyn iddo ddechreu pregethu. Cafwyd lle cyfleus i'w chadw mewn tŷ gwag ar y Maesbach, a chynyddodd yn ebrwydd i 240 o rifedi. Parodd gyffro adfywiol trwy y dref a'r gymydogaeth; heidiai lluaws iddi i gael addysg, a dilys ydyw fod llawer iawn wedi dysgu ynddi, ar y pryd, i ddarllen eu Beiblau, y rhai ni wyddent o'r blaen air ar lyfr. Dechreuwyd cadw cyfarfodydd eglwysig yn nhŷ un Samuel Roberts, er nad oedd yma, ar y dechreu, ond tri neu bedwar o ymgeiswyr.

Ar ol hyn, cafwyd lle yn y dref i bregethu, yn nhŷ un Margaret Evans. Yr oedd dwy o ferched y wraig hon, sef Elinor a Margaret, wedi rhoddi profion eisoes o'u cariad at yr efengyl, a buont ffyddlawn i wneyd a allent at gynaliad yr achos yn ei wendid, trwy roddi tamaid a llety i'r pregethwyr a ddeuent

yn achlysurol i'r lle, ac i'r athrawon a ddeuent o Lanidloes i gynorthwyo gyda'r ysgol Sabbothol.

Bu cyfarfod pregethu hefyd ar ryw ddiwrnod penodol, yn foddion arbenig i alw sylw trigolion difraw y fro at y pethau a berthynent i'w heddwch. Cynelid y cyfarfodydd hyn yn yr awyr agored, ynghanol y dref, wrth y tŷ marchnad, a chafwyd profion fod ambell un yn cael ei ddal trwyddynt.

Ni bu yn Rhaiadr nemawr o erlid ar grefydd; o leiaf yn yr hanner canrif diweddaf, gan ddarfod i'r ysgol Sabbothol, megys ar unwaith, ddarostwng rhagfarn pawb. Yn mhen enyd, adeiladwyd yma gapel, yn yr hwn y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen hyd heddyw. Gan fod Rhaiadr yn orsaf bellenig oddiwrth bob eglwys Fethodistaidd, ac yn sefyll ar gyffiniau tair sir, Trefaldwyn, Maesyfed, a Brycheiniog; a chân ei bod, o herwydd y pellder, yn anghyfleus i frodyr Llanidloes allu parhau i ofalu am y lle, cyflwynwyd y lle i sylw "Cenadaeth Gartrefol y Deheubarth." Dan nawdd y gymdeithas hon, fe anfonwyd yn olynol yma, y Peirch. John Phillips, yn awr o Fangor; Isaac Williams, Llanbrynmair; a Daniel Jones, yr hwn hefyd sydd yn preswylio yn y lle yn awr. Dylasid dyweyd fod y Parch. Robert Evans, Llanidloes, wedi bod yn aros yma flwyddyn gyfan, yn cadw ysgol ddyddiol, ac yn gofalu am yr achos yn ei wahanol ranau, cyn fod y lle wedi ei roddi i ofal cenadaeth y Deheudir.

Rhoddir crybwylliad gan y brawd olaf a enwyd am un amgylchiad perthynol i'r cŵr hwn o'r wlad, y byddai yn resyn ei adael allan.

Ar ryw adeg o ddiwygiad neu adfywiad crefyddol a fu yn Llangurig, lle rhwng Llanidloes a Rhaiadr, daeth un Mary Bound i wasanaethu i'r ardal, o gŵr uchaf sir Aberteifi. Yr hyn a'i tueddodd oedd y sugn a deimlai yn y moddion. Ar ol arafu yr adfywiad yn Llangurig, torodd diwygiad grymus allan yn Llanir, y tu arall i'r Rhaiadr, yn sir Faesyfed, yn benaf dan weinidogaeth Hugh Prichard, clochydd Llanir. Hwn hefyd a aeth heibio, a'r crefyddwyr a fuont feirw o un i un, ac yn eu mysg Hugh Prichard ei hunan. Nychodd yr achos dros ryw dymhor, ac yn raddol diflanodd yn llwyr, o ddiffyg ymgeledd, ac o herwydd absenoldeb moddion gras, dirgel a chyhoeddus.

Erbyn hyn yr oedd Mary Bound yn briod, ac yn fam i nifer o blant, ac felly yn analluog i symud o le i le fel cynt. Dan rym amgylchiadau, ymosododd ei gŵr a hithau at y gorchwyl o godi caban bychan ar gyttir tua dwy filldir a hanner o'r Bont-newydd, ar fin y ffordd sydd yn arwain i'r Rhaiadr. Yn mhen amser, bu farw ei gŵr, a chwalwyd ei phlant; gadawyd Mary yn weddw, ac erbyn hyn yn hen, cloff, ac unig. Tuag 20 ml. yn ol, yr oedd rhyw frodyr yn myned o Raiadr i bregethu yn agos i'r lle yr oedd ei chaban hi, sef i dŷ un Robert Powel. Craffwyd ar yr hen wraig gloff a ymlusgai yn gyson i'r oedfaon, ond ni wyddai neb ddim am ei hanes boreuol; ond ar un bregeth, pan yr oedd gradd o lewyrch yn tywynu gyda'r gwirionedd, torodd yr hen wraig allan, gan lefain:—"Dyma'r hen deulu a gollais i er ys dros 20 mlynedd!—A dyma eu Duw hwy hefyd!—Hwn hefyd yw fy Nuw inau!"

Disgynodd ei bloedd mor gyffrous nes gorchfygu y pregethwr, a pheri effeithiau hynod ar y gynulleidfa. Rhyfeddol y deffroad a weithiodd y tro hwn yn ei hysbryd hithau. Ymlusgai wrth ei dwyffon i Raiadr mor fynych ag y gallai; ac am y gweddill o'i hoes, hi a lewyrchodd yn ddysglaer mewn gras a duwioldeb, nes oedd yn ddiareb yn y fro yr oedd yn byw ynddi.

Dygwyddodd i ŵr boneddig brynu y rhandir yr oedd ei thŷ hi, ynghyda lluaws o dai bychain eraill, wedi ei godi arno. Penderfynodd y boneddwr, wedi cael yr hawl, roddi yr hawl mewn grym, trwy orchymyn tynu y mân dai i lawr; a daeth yn bersonol i rybuddio yr aneddwyr. Yn mysg y lleill efe a ddaeth at gaban Mary Bound, gan hysbysu iddi fod yn rhaid iddi ymbarotoi i ymadael. Daeth ati pan oedd yr hen wraig yn addoli.

"Mi a ddaethum," ebe y boneddwr, "i'ch rhybuddio, fy mod ar fedr tynu eich tŷ i lawr, ac y bydd raid i chwi ymadael."

"Felly, syr," ebe hithau, "pe gallech aros dros ychydig amser, ni fydd eisiau y fath gaban arnaf, canys mi fyddaf wedi myned adre' yn iach!"

"Pa le y mae eich cartref?" gofynai y gŵr.

"Yn y nefoedd, syr," atebai hithau, "gyda Christ, a llawer iawn gwell ydyw."

Hyn a ddywedai gyda'r fath wres a serchogrwydd, nes effeithiodd yn ddwys ar feddwl y boneddwr, ac addawodd yn y fan y gadewid ei chaban iddi tra fyddai byw. Hyn hefyd a wnaeth, ond erbyn hyn nid oes hanes am y weddw na'i bwthyn; symudwyd y naill i gartref gwell, i dŷ tragwyddol yn y nefoedd, a thynwyd y llall i lawr.

## PENNOD III.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR A'U CANGHENAU.

CYNWYSIAD:—

CYCHWYNIAD METHODISTIAETH YN NHREFEGLWYS—TEULU BOWEN Y TYDDYN—A WOOSNAM, Y TY-MAWR—GARTHBWT—ADGOFION HEN WR AM Y TYMHOR HWNW—ADEILADU CAPELAU GLEINIANT A SARON—CAPEL Y GRAIG, A LLAWR-Y-GLYN—MOCHDRE'—LLANDINAM—CAERSWS—CARNO—Y DREFNEWYDD.

#### TREFEGLWYS.

Mae Methodistiaeth wedi dechreu yn Nhrefeglwys, a'r fro o amgylch, mor foreu ag un man yn Ngwynedd. Gosodasom o flaen y darllenydd eisoes,* adroddiad Richard Tibbot i'r gymdeithasfa a gynaliwyd yn Watford, swydd Forganwg, mor gynar a'r fl. 1743, o'r cymdeithasau bychain a osodasid dan ei ofal ef. Ac yn mysg eraill yn y wlad, fe nodir dwy neu dair yn y fro hon, sef Mochdre', Llandinam, a Llangurig. Barnwyd am yr olaf yn lled fuan y gallai yr aelodau ddyfod i'r Tyddyn, a rhoddwyd heibio cynal y cynulliad yno. Er mai Llandinam a enwir yn Nghofnodau Trefecca, eto barnu yr

* Cyf. I., tudal. 170-173.

ydym mai yn y Tyddyn, o fewn plwyf Llandinam, yr oedd y gymdeithas eglwysig, a phob moddion eraill, yn cael eu cynal y pryd hwnw. Yr oedd teulu o'r enw Bowen yn byw yn y Tyddyn, yr hwn a fu yn gynaliad mawr i Fethodistiaeth yr oes hòno;—oes yr oedd pob sarhad yn cael ei roddi arno. Yr oedd y teulu hwn yn deulu cyfrifol yn y byd, ac "wedi ymroddi i ofn Duw." Nid ydym yn cael hanes pa fodd y dygwyd y teulu yn gydnabyddus ar y cyntaf â'r efengyl, ond y mae lle cryf i gasglu mai trwy weinidogaeth finiog Howel Harris y dygwyd un neu ychwaneg o'r teulu i adnabod y gwirionedd. Cyn y fl. 1743, nid ydym yn cael fod yma nemawr un wedi bod yn pregethu yn y fro hon ond Harris. Rhoddasom eisoes lythyr o'i eiddo, dyddiedig, Llanbrynmair, Chwefror 9fed, 1739, yn yr hwn y dywed ei fod y dydd o'r blaen wedi llefaru gyda nerth, a than arddeliad mawr yn mhlwyf Llan——; ni ddywed pa lan, ond y mae lle i feddwl mai Llanwnog neu Landinam a feddylir, ar ei ffordd i Lanbrynmair. Yr oedd ef yn gydnabyddus eisoes â Lewis Rees, Llanbrynmair, a thuag yno yr oedd yn cyrchu. Yr oedd y swn wedi myned allan trwy y fro hon fod y fath ddyn i'w ddysgwyl; dyn, meddai rhai, a welsai weledigaethau hynod; dyn, meddai eraill, a amcanai at ddadymchwel pob trefn yn y wlad a'r eglwys; a dyn, meddai eraill, yr oedd gwŷr mawr yr holl wlad yn bwriadu ei gymeryd i fyny a'i ddodi mewn dalfa. Dan effeithiau y fath chwedlau, nid rhyfedd genym ddarllen yn ei lythyr, fod mil o bobl yn ei wrando y diwrnod cyn iddo gyrhaedd Llanbrynmair. Ymddengys hefyd fod yno luaws mawr o'i wrandawyr dan argraffiadau dwysion, a phwy a ŵyr nad oedd rhai o'r Bowens, y Tyddyn, yn eu mysg? Nid yw yn annhebygol chwaith na phregethodd ef eilwaith ar ei ddychweliad o'r Bala, yn yr un ardal ag y cawsai y fath arwyddion llewyrchus o bresenoldeb ei Feistr yr wythnos o'r blaen. Addefwn nad oes sicrwydd hollol yn hyn; eto yn absenoldeb pob tystiolaeth wrthwynebol, ac yn wyneb yr amgylchiadau y cyfeiria efe ei hun atynt yn ei lythyrau, yr ydym yn gryf ein barn ei fod ef, ar y daith gyntaf hon i'r Gogledd, wedi gosod sail Methodistiaeth, nid yn unig yn Llanbrynmair, ond hefyd yn ardaloedd Trefeglwys a Llandinam.

Ond pa un bynag ai cywir ai peidio ein dyfaliad am y moddion a ddygodd deulu y Tyddyn dan iau Crist, ac i lochi Methodistiaeth, sicr ydyw fod y teulu hwnw wedi gosod eu gyddfau dan iau Crist ryw gymaint o amser cyn y fl. 1742, a hyny rai blynyddoedd, gan y cawn fod cyfarfod misol yn cael ei gynal yno y flwyddyn hòno, a bod chwech o gymdeithasau eglwysig eisoes wedi cyfodi yn y fro, ac yr enwir *Thomas Bowen* yn steward neu ddiacon arnynt.

Yn Mawrth 1af, 1742, cynaliwyd cymdeithasfa yn Nglan-yr-afon-ddu, sir Gaerfyrddin, lle y penderfynwyd hyn yn mysg llawer o bethau eraill:—

"Fod Morgan Hughes i gymeryd gofal y cymdeithasau yn Tyddyn, Mochdre', Bwlch-y-cae-haidd, Llanwyddelen, Llanllugan, Llanfair, Llanbrynmair, Llanidloes, a Threfeglwys;—a bod y brawd Lewis Evan i'w gynorthwyo yn Llanfair, Llanllugan, a Llanwyddelen; a'r brawd Benjamin Cadman i'w gynorthwyo yn y cwbl, hyd y gallo."

Yr oedd hyn cyn i Richard Tibbot ddychwelyd i'w wlad ei hun o'r Deheubarth, a phryd yr oedd y brodyr yn golygu iddo ef fyned i sir Benfro i gadw ysgol. Yn y flwyddyn ganlynol, pa fodd bynag, y mae adroddiad gan Richard Tibbot yn cael ei gyflwyno i'r gymdeithasfa, yr hyn a brawf ei fod wedi dychwelyd i'w fro ei hun, ac wedi cymeryd arolygiaeth y gwaith yn lle Morgan Hughes. Yn ol yr adroddiad hwn, 40 o aelodau oedd yn Llandinam, neu y Tyddyn, fel y bernir. Yn mysg yr aelodau, fe enwir un gyda gradd o hynodrwydd arni, trwy gysylltu Mrs. wrth ei henw, sef Mrs. Anne Bowen. Enwir un mab a dwy ferch ar yr enw Bowen yn yr un ysgrif, a thueddir ni yn gryf i feddwl mai plant i Mrs. Bowen oeddynt.*

Fe ymddengys fod teulu y Tyddyn wedi parhau i noddi Methodistiaeth, o leiaf, hyd yr ymraniad, ac mai y Tyddyn oedd prif gyrchfa y crefyddwyr yn y tymhor hwnw. Pa anrheithiad a ddisgynodd ar y gymdeithas grefyddol yn y lle hwn, pan ymadawodd Harris a Rowlands â'u gilydd, sydd anhawdd ei fynegu, gyda bod yn hysbys fod dwy o ferched y Tyddyn wedi glynu wrth Harris, ac wedi myned ar ei ôl i Drefecca, ac aros yno dros dymhor. Mam i'r Parch. Simon Lloyd, B.A., o'r Bala, oedd un o honynt. Ond pa wasgariad bynag a fu ar y crefyddwyr, a pha wywdra bynag a ddisgynodd ar Fethodistiaeth, trwy yr ymraniad galarus hwn, ymddengys ei fod wedi cymeryd gwraidd yn y cymydogaethau hyn, fel ag i allu dal pob tywydd garw fu arno y pryd hwnw, ac o hyny hyd yn awr, heb ei lwyr ddyfetha. O'r *Tyddyn*, gan hyny, ar y naill law, ac o *Fochdre'* ar y llaw arall, y deilliodd yr amrywiol gynulleidfaoedd sydd yn awr yn britho y broydd hyn.

Nid peth hawdd ydyw olrhain yr amgylchiadau yn ystod y 40 ml. cyntaf, ac yn enwedig o'r fl. 1751 hyd 1780, yr adeg y teimlid fwyaf oddiwrth effeithiau difaol yr ymraniad. Ymddengys, pa fodd bynag, fod pregethu mwy neu lai cyson wedi parhau yn ardaloedd Trefeglwys, a Llanwnog, o'r dechreuad hyd yn awr. Ond wedi colli y Tyddyn, fe chwalodd y pregethu i wahanol dai, mewn amrywiol gymydogaethau, nes o'r diwedd ymsefydlu mewn amrywiol gapelau, fel y gwelir heddyw. O'r llafur boreuol hwn, y mae y cynulleidfaoedd canlynol yn ffrwyth:—Llandinam, Saron, Caersws, Gleiniant, Llawr-y-glyn, a'r Graig.

Hen gartref yr achos ar ol y Tyddyn oedd y Tŷ-mawr. Merch Mr. Bowen, y Tyddyn, oedd y wraig a breswyliai y Tŷ-mawr. Yr oedd hi yn briod â Mr. Richard Woosnam, yr hwn hefyd oedd yn mhlith y crefyddwyr. Byddai llawer o gyrchu i'r Tŷ-mawr, a chafodd crefydd nodded a lloches glyd yno dros enyd o amser. Yr oedd un Edmund Morgan hefyd yn mhlith y Methodistiaid. Hwn a briododd Margaret, chwaer Mr. Woosnam, a phreswylient y ffermdy a elwir Glangwden: yr oedd pregethu achlysurol yn eu tŷ hwythau hefyd. Yr oedd y ddau deulu hyn, wrth fod eu henwau yn Nghofnodau Trefecca, mor foreu a'r fl. 1743, o nifer crefyddwyr cyntaf y parth hwn o'r wlad. Fe ddisgyn enw Mrs. Woosnam, y Tŷ-mawr, i ni fel gwraig nodedig ei duw-

* Gwel ychwaneg o hanes y teulu, tudal. 353, Cyf. II.

ioldeb, a thra ffyddlon gydag achos y cyfryngwr. Merched iddi oedd Mrs. Davies, Frankwell, Llanidloes, a Mrs. James, Pen-blaen, gwraig y Parch. James James. Sonir hefyd fod pregethu yn yr *Almshouse;* yn y Llwyntew; ac yn nhŷ Mrs. Jones, Gleiniant; drachefn cynelid moddion yn y *Sentry*, yr Argoed, a Phen-ddol. Tua phen uchaf y plwyf, fe fu pregethu yn Rhiw-defaid-dŷ, ac yn y Foel, Llwyn-y-gôg, a Thŷ'n-yr-wtre.

Y prif le y pregethid ynddo yn mhlwyf Llanwnog oedd y Garthpwt. Ar ryw achlysuron, fe ddeuai lluoedd o bobl o'r manau eraill a enwyd i'r Garthpwt. Mae gŵr sydd yn preswylio y tyddyn hwn, ac yn awr tua 87 ml. oed, o'r enw Mr. Matthew Davies, yn cofio iddo glywed Howel Harris yn pregethu mewn lle a elwir y Gro-fach, wedi myned yno yn blentyn bychan yn llaw ei fam. Rhaid fod hyn flynyddoedd ar ol yr ymraniad, ac fe ymddengys mai o fewn ychydig i'w farwolaeth. Rhoddir ger bron y darllenydd yr ymddyddan a fu rhwng y Parch. John Herbert, o'r Drefnewydd, ar yr achlysur, â'r hen ŵr o'r Garthpwt:—

"Pa beth ydych chwi yn ei gofio gyntaf o berthynas i'r Methodistiaid yn Llanwnog?"

"Yr wyf yn cofio fod fy mam wedi gwneyd twll yn mhared y simber i allu myned i'r cyfarfodydd. Yr oedd ei mam hi yn ferch i offeiriad o'r enw Evan Bowen, ac yn edrych yn gilwgus ar gyfarfodydd yr Ymneillduwyr; ofnai fy mam, gan hyny, fyned iddynt yn gyhoeddus, ond myned a wnai drwy y pared, gan nad allai yn ddiogel fyned drwy y drws; ac yr wyf yn cofio myned gyda hi i wrando Howel Harris i'r Gro-fach."

"Pa fath gyfarfod oedd hwnw?"

"Cyfarfod tawel a heddychol; heb derfysg na gwawd, a chyfarfod yr oedd effeithiau cryfion ar y gwrandawyr."

"Pa beth yn ychwaneg ydych chwi yn ei gofio?"

"Yr wyf yn cofio fod un Evan Dafydd, o agos i Lanfair, yn dyfod i bregethu i'r ardal. Nid oedd yn medru darllen, ond yr oedd yn medru pregethu yn dda, fel y byddent yr amser hwnw."

"Pwy arall a fyddai yn dyfod i bregethu?"

"Yr oedd Lewis Evan yn arfer dyfod i dŷ un Richard Gittins, o'r Plasau-duon; ac un John Thomas, o felin Llanllugan. Yr oedd pregethu hefyd yn Gilfach-y-rhew, ac yn Llwyntew. Yn y lle olaf hwn yr oedd gwraig yn byw a dybiodd fod £10 yn y flwyddyn i gael am dderbyn pregethu i'w thŷ, ond pan ddeallodd y gwrthwyneb, hi a gauodd y drws rhag dim chwaneg o bregethu; ond yn mhen y flwyddyn ar ol troi y pregethu allan, aeth ei thŷ ar dân; a thybiodd ei holl gymydogion mai barn Duw oedd hyny am wrthod y pregethu; a bu yr amgylchiad yn foddion effeithiol i roddi derbyniad i'r pregethu, a gwrandawiad i'r gair, yn y cymydogaethau hyn."

"Pwy ydych chwi yn ei gofio gyntaf yn dyfod i Garthpwt i bregethu?"

"Y cyntaf wyf fi yn ei gofio ydoedd un Robert Newel, o sir Faesyfed, o gymydogaeth ffynnonau Llandrindod. Sais oedd ef. Nid oedd yn cael ei ystyried yn bregethwr mawr, ond yr oedd yn bregethwr deniadol a hyfryd i

wrando arno. Yr oedd un arall yn arfer dyfod, nid wyf yn cofio ei enw priodol, ond adwaenid ef wrth yr enw Clochydd Llanir; a Sais arall o'r enw Mr. Dunn, o sir Frycheiniog, heblaw y rhai mwy cartrefol, megys Richard Tibbot, ac Abraham Wood, o Lanbrynmair, ac eraill cyffelyb."

"A oes dim cof genych chwi am un oedfa mwy nodedig na'u gilydd yn y tymhor hwnw?"

"Oes: mae cof genyf am John Evans o'r Deheudir yn pregethu unwaith wrth borth y llan, yn nrws tŷ Evan Morgan. Yr oedd yno lawer o bobl wedi dyfod yn nghyd i wrando, a rhai terfysgwyr wedi dyfod i aflonyddu. Ond pan oedd y derfysg yn dechreu gyda godreu y dorf, daeth melinydd Llwyd-coed, dyn mawr a chryf, yn mlaen, ac a dyngodd y mawr lŵ, gan ddyweyd, os y nhw' a aflonyddai ar y cyfarfod, mai efe oedd y dyn i gyfrif â nhw'. Parodd hyn lonyddwch i'r pregethwr, a seibiant i'r bobl i wrando hyd y diwedd; a chwalodd y gynulleidfa wedi cael ei mawr foddhau."

"A oes genych ddim cof am ryw oedfaon hynod eraill?"

"Yr wyf yn cofio y byddai gorfoleddu mawr yn fynych yn yr oedfaon y pryd hwnw, ac ar un amgylchiad yn neillduol yr oedd y cyffro yn fwy nag y gwel'swn ef erioed o'r blaen; sef pan oedd un Evan Evans, Waunfawr, sir Gaernarfon,* yn pregethu mewn cyfarfod misol yn Ngarthpwt. Yr oeddid yn barnu fod yno o ddwy i dair mil o bobl, a'r holl dorf dan effeithiau cryfion iawn. Gwaeddai un gŵr ieuanc cyfrifol, o'r enw Capt. Kinsey, allan yn Saesonaeg, '*It is better to repent than to be damned!*' † Mewn canlyniad i'r oedfa hon, daeth ef a'i frawd yn aelodau eglwysig. Testyn y bregeth oedd, '*Ac y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn.*' Yr oedd eglwys gref yn perthyn i Garthpwt, ac ar achlysuron fe ddeuai aelodau o Fochdre', a manau eraill, i'r lle, yn enwedig ar gyfarfodydd misol, neu ryw gynulliadau anarferol eraill."

"A oedd yr un gymdeithas eglwysig arall yn y fro heblaw yr un oedd yn Garthpwt?"

"Oedd, yr oedd eglwys fechan yn y Gwynfynydd, yn nhŷ un Evan Roberts, tad y Parch. John Roberts, gweinidog yr Annibynwyr yn Llanbrynmair; ond wedi i Evan Roberts fudo o'r Gwynfynydd i Lanbrynmair i fyw, ymunodd y gymdeithas oedd yn ei dŷ ef â'r un oedd yn Garthpwt; bellach, aeth y lle yn anghyfleus i gynwys y nifer a ddeuent yn nghyd. Teimlwyd yr anghyfleusdra yn fwy fyth, trwy i ddiwygiad bywiog gymeryd lle yn yr ardaloedd, yr hyn a sugnodd lawer yn ychwaneg i wrando, ac a luosogodd lawer ar yr aelodau. Bellach, yr oedd gwaedd y lle yn uchel iawn, 'Dod le i mi fel y preswyliwyf.'"

Y cyfryw o ran swm ydoedd yr hanes a roddwyd gan yr hen ŵr; a'r unig un, tybygid, yn fyw a allai ei roddi. Llawer o amgylchiadau hynod eraill, yn ddiamheu, a ddygwyddasant yn y tymhor boreu hwnw, y rhai nid ydynt yn awr ar gael, ond fe roddir ryw gipolwg i'r darllenydd ar wedd ac ansawdd

* Mae yn well edifarhau na chael fy namnio. † Gwel ei hanes, tudal. 157, Cyf. II.

Methodistiaeth ar y pryd, ond nid digon i ddiwallu ei syched, ac i foddhau ei chwilfrydedd.

Mewn canlyniad i'r lluosogiad a gymerodd le, ac i'r tŷ anedd fyned yn rhy gyfyng, dechreuwyd ymofyn o ddifrif am le i godi addoldy. Yr oedd y gymdeithas eglwysig a'r gynulleidfa yn cynwys dynion o Drefeglwys, ac o blwyf Llanwnog, ond yn cydgyfarfod yn Garthpwt; a phan oeddid yn ceisio ymsefydlu ar le i adeiladu, cododd dadl yn eu mysg. Cynygiodd Mr. Matthew Davies, Garthpwt, dir yn mhlwyf Llanwnog, mewn lle a elwir Rhos-pont-dol-goch, a hyny yn rhad ac am ddim; cynygiodd Mr. Swancoat, Brynwgan, dir yr ochr arall yn Nhrefeglwys. Mynai y rhai oedd yn byw rhwng Garthpwt a Threfeglwys dir Mr. Swancoat; a'r rhai a breswylient yr ochr arall dir Pont-dol-goch. Safai pob plaid yn dŷn at ei chyfleusdra ei hun; a chyfododd y ddadl i'r fath boethder, nes penderfynu y mynai pob plaid gapel iddi ei hunan. Felly hefyd y bu. Codwyd capel Saron yn mhlwyf Llanwnog, a chapel Gleiniant yn Nhrefeglwys; a pha faint bynag o deimladau chwerwon a gychwynwyd ar y pryd, a pha faint bynag o wanychdod i'r achos trwy y rhanu a fu arno, y mae y teimladau hyny er ys llawer dydd wedi llonyddu, ac achos y Cyfryngwr wedi ennill tir. Bellach, y mae dwy eglwys, a dwy gynulleidfa gref, yn y plwyfydd poblogaidd hyn.

Dywedasom eisoes y byddai pregethu boreu yn rhanau uchaf plwyf Trefeglwys, sef yn nhŷ Thomas Roberts, Rhiw-defaid-dŷ; ac yn y Foel, yn nhŷ Morris Richards, tua'r un amser; ac yn y diwedd, ymgrynhödd y cynulliadau hyn i gapel y Graig.

Rhwng capel y Graig a chapel y Gleiniant, y mae capel Llawr-y-glyn. Fe fu pregethu yn yr ardal hon ar y dechreu, mewn amrywiol dai anedd, megys Melin-dyrnwr, tŷ un Miles Evans, tua 90 ml. yn ol; wedi hyny yn Glan-yr-afon-ucha', tŷ un Evan Jones; ac yn y Penrhyn, lle yr oedd un Morgan Owen yn byw; hefyd, yn Llechwedd, tŷ John Jones, tad y diweddar Barch. Abraham Jones; ac wedi bod pregethu yn awr dros ryw ysbaid yn y naill a'r llall, ac mewn rhai o honynt dros dymhor maith flynyddau, adeiladwyd capel Llawr-y-glyn, i'r hwn yr ymgrynhödd y cwbl yn un gynulleidfa.

## MOCHDRE.

Yr oedd achos yn y lle hwn yn amser Howel Harris, fel y soniwyd eisoes. Yn yr adroddiad cyntaf o eiddo Tibbot i'r gymdeithasfa, dywedir, "Fod yma lawer yn dyfod i wrando, ac oddeutu 12 dan argyhoeddiadau cryfion."* Drachefn, dywedir gan yr un gŵr, "Mae derbyniad i'r brawd Thomas Meredith yn Mochdre, ac yr wyf yn gobeithio ei fod yn cael cymhorth gan Dduw i fod yn ddefnyddiol yn eu plith." Yn y fl. 1745, y dywedir drachefn, "Maent yn ddiweddar wedi codi cymdeithas neillduol yn Mochdre; mae yn siriol arnynt yno, ac yr wyf yn gobeithio fod yr Arglwydd yn eu llwyddo."

* Cyf. I., tudal. 172.

Dywedir mai mewn lle a elwir y Penthryn y cynelid y moddion y pryd hwnw. Bu yma lawer o ganmawl a gorfoleddu yn mysg y crefyddwyr boreaf hyny. Yr oedd clochydd Llanir yn ymweled â'r lle hwn fel manau eraill. Yr oedd Thomas Meredith yn byw yn Coed-y-rhos. Pan ddaeth yr ymraniad i ledaenu ei effeithiau difaol ar y crefyddwyr, fe deimlodd Mochdre radd o'r niwaid; aeth Thomas Meredith i Drefecca i fyw, ond nid yw yr hanes yn dadgan dros ba hyd o amser yr arosodd yno. Ymddengys, pa fodd bynag, ei fod yn ŵr o wroldeb a sêl, ac iddo ddyoddef llawer oddiwrth amddiffynwyr llygredigaeth yr oes. Cafodd ei faeddu yn dost unwaith yn mhentref Mochdre, wrth geisio darostwng rhyw goeg-chwareu a gynelid yno; ond er iddo gael ei guro yn drwm gan yr ynfydion, y mae pob tebyg iddo fod yn offeryn i achub blaenor y gamp. Yr hanes sydd fel hyn:—

"Aeth Thomas Meredith at Evan Roberts, tad y diweddar Mr. Roberts, Llanbrynmair, i erchi arno i ddyfod gydag ef i wrthwynebu yr ofer-gamp a gynelid yn y drefian. Yntau a gydsyniodd, ac aethant ill dau at y dorf ddireol. Ar eu dynesiad, gofynodd Thomas Meredith i'r prifchwareuwr, '*Will you be so happy, think you, as you now are, at the day of judgment?*'"

"*Indeed, Sir, I do not know,*"* oedd yr ateb, a hyny mewn llais difrifol, fel un wedi teimlo gwenwyn y saeth yn ei gydwybod. Fe fu y gair a ofynwyd iddo fel hyn, meddir, yn foddion dychweliad iddo oddiwrth ei ofer ymarweddiad, yr hon a gawsai yn ddiau trwy draddodiad y tadau; ac ymddangosodd arwyddion amlwg fod ganddo grefydd dda hyd ei ddiwedd. Ond fe gafodd Thomas Meredith gurfa dda am ei waith, gan y dyhiriaid a ddaethent yno i chwareu. Ond diangodd Evan Roberts heb nemawr niwaid. Dywedir i'r Thomas Meredith † hwn, yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol myned i Drefecca, ŵyro i raddau at egwyddorion Antinomaidd, ac iddo ymuno ag un Thomas Seen, yr hwn a flaenorai y rhai a wyrasent fel hyn, fel eu prif athraw. Ymdaenodd gauaf maith ei ddylanwad fferllyd a gwywedig ar ol hyny ar Fochdre; a thros 40 ml. nid oes genym nemawr hanes am y lle; eto ni a gawn i ryw ŵr o Fochdre fyned ar ei draed at Mr. Charles i'r Bala, i ymofyn cyhoeddiad ganddo, ac iddo lwyddo yn ei gais. Yn ol ei addewid, fe ddaeth Mr. Charles, ac a bregethodd yn llan Mochdre. Rhaid fod er hyny dros 40 ml., fe allai dros 50 ml., ond yr oedd Methodistiaeth ymron wedi ei anghofio, ac erbyn heddyw, y cwbl a ellir ddyweyd ydyw, "Mae Eglwyswyr, Bedyddwyr, a Methodistiaid, yn pregethu yn y plwyf, ond heb fawr o effeithiau da oddiwrth neb." Mae gan y Methodistiaid gapel yma, yn yr hwn y cynelir ysgol ddyddiol a Sabbothol, ac y pregethir yr efengyl yn gyson ar y Sabbothau, o dan nawdd y "Gymdeithas Genadol Gartrefol;" eto, er hyn oll, cryn "anghyfanedd" ydyw Mochdre; a mynych yr ymlithra hen brophwydoliaeth Ismael Jones am y lle, i'r meddwl yn ddiymwrthod, "Ni fydd byth ddim daioni yn Mochdre." Nid yn fynych y ceir un fangre yn Nghymru, lle y dechreuodd pregethu mor

* "A fyddwch chwi, debygech, mor ddedwydd yn y farn ag ydych yn awr?" "Yn wir, Syr, nis gwn." † "Drych yr Amseroedd," tudal. 138—145.

gynar a'r fl. 1742, a lle y mae pregethu wedi ymarhoi yn wanaidd a bylchog hyd heddyw, a chan lleied o ol yr efengyl arno, ag ydyw y lle hwn. Hyfryd fydd gweled yr amser y bydd yr anghyfaneddle hwn yn llawenychu, a'r diffaethwch hwn yn blodeuo fel y rhosyn.

### LLANDINAM.

Mae capel wedi ei adeiladu yn y pentref hwn er ys blynyddau lawer. Nid yw ein hysbysiad ond byr mewn perthynas i hanes y lle hwn. Yn y plwyf hwn yr oedd y Tyddyn, amaethle cyntaf Methodistiaeth y fro, ac oddiyno yr ymdaenodd, fel y dywedwyd, ar y dde a'r aswy, ac yn mysg manau eraill, agorwyd drws o dderbyniad iddo gerllaw y pentref hwn. Cynaliwyd pregethu dros rhyw dymhor yn y Ddolwen, tŷ un Morgan Williams. Yr oedd y ddau frawd Kinsey, hwy a'u gwragedd, ynghydag un Dafydd Evans, Pen-y-chwilan, wedi ymuno â'r achos, ac yn gwneyd eu hegni tuag at adeiladu y capel.

### CAERSWS.

Mae yma hefyd gapel a chynulleidfa yn perthyn i'r Methodistiaid. Dechreuwyd pregethu yma yn amser John Pierce. Yr oedd yma rai yn arfer gwrando cyn hyny; cyrchent i foddion gras i Garthpwt, neu ynte i Fochdre, cyn fod dim moddion yn cael eu cynal yn y pentref ei hun. Yn Mheu-dref, tŷ amaethwr cyfrifol o'r enw Jeremiah Brown, y cafwyd drws agored i ddfod i mewn. Y gŵr hwn oedd y cyntaf a'r unig broffeswr y pryd hwnw, a thros ryw dymhor. John Pierce, Llanidloes, meddir, oedd y cyntaf a bregethodd yma, ar y geiriau, "Ymchwel, Israel, at yr Arglwydd dy Dduw." Mae yma, bellach, gynulleidfa lled dda, a nifer o aelodau yn cyfansoddi y gymdeithas eglwysig.

### CARNO.

Mae yn gorwedd yn gymhwys ar y ffordd rhwng Llanbrynmair a Llanwnog. Yr oedd Methodistiaeth wedi dechreu ymsefydlu yn Llanbrynmair, fel y crybwyllasom, er yn foreu; felly hefyd yn Tyddyn, plwyf Llandinam. Yr oedd Carno a Llanwnog yn gorwedd rhwng y ddwy orsaf gynarol hyn; ac felly, ni a allem ddysgwyl na lwyr esgeulusid ef gan "*arloeswr dewr y gwledydd*," Howel Harris. Gwych oedd ganddo ef ymosod yn eofn ar gestyll annuwioldeb, a darostwng llygredigaeth penuchel y wlad. Yr oedd Carno, fel yr holl wlad o amgylch, yn llawn o ofer-gampau llygredig. Ai y trigolion, luaws o honynt, mae yn wir, i wasanaeth y llan foreuau Sabboth, ac yn heidiau drachefn at eu hoferedd y prydnawniau. Gellir casglu pa fath ydoedd y gwasanaeth y boreu, wrth ei fod yn cydsefyll mor heddychol â'r ynfydrwydd gorwyllt y prydnawn. Pa faint bynag o wirionedd a ddarllenid neu a draethid yn y gwasanaeth crefyddol, yr oedd y fath wedd ffurfiol wedi ei amwisgo, fel na theimlid dim oddiwrth ei awch mwy nag oddiwrth gleddyf yn y wain.

Felly ni roddai y gwasanaeth ddim ond achles i'r bobl ddod ynghyd i hysbysu eu cynlluniau ar y fynwent; ac wedi trwyddedu eu cydwybodau â rhith grefydd yn y boreu, teimlent yn fwy rhydd at eu campau y prydnawn, a phrofent fwy o felusder ynddynt. Yr oedd gwylmabsant Carno, gweddill hen drefdadaeth babyddol ein hynafiaid, yn uchel iawn ei bri, ac yn fwy felly i'r graddau y byddai y meddwi, y gloddest, a'r ymladd, yn ffynu. Yn y gwyliau hyn, llawer o esgyrn a ddrylliwyd, ïe, llawer bywyd a gollwyd! Profion teg, onide, o ddiniweidrwydd yr hen bobl! Yn y gwyliau hyn, mewn ffordd o'u haddurno yn fwy, a gosod ynddynt fwy o sugn a swyn, cynelid yn fynych goeg-chwareuon *(interludes)*, a mawr yr hyfrydwch a fwynhäi y werin penchwiban ynddynt. Coronwyd, yn hytrach anurddwyd, un o santwyliau Carno, â marwolaeth un dyn, yr hwn a gyrhaeddodd ei ddiwedd echrydus mewn ymladdfa! I'r fath gynulliadau â'r rhai'n yr hoffai Howel Harris, a'i gydlafurwyr, fyned i bregethu; a Howel Harris yn anad neb. Nid am y dibrisiai efe ei gysur a'i fywyd, ond am yr eiddigeddai yn angherddol dros ogoniant Duw, a thros achubiaeth dynion a sarnent ddeddf Duw dan eu traed, heb wybod beth oeddynt yn ei wneuthur.

Bu fy hysbysydd * yn ymddyddan â dwy hen wraig yn y gymydogaeth, y rhai ydynt wedi eu priddo weithian er ys llawer o flynyddoedd; y rhai a adroddent wrtho fel y buasent hwy, pan yn blant ieuainc, yn mhentref Carno yn gwrando *Interlude* o'r fath a soniwyd. Yr oedd yno gynulleidfa fawr ynghyd; a mawr, tybygid, oedd y difyrwch. Ond yn nghanol y chwareu, daeth sypyn bychan o bobl, gwahanol iawn yr olwg arnynt, yn mlaen i gŵr y gynulleidfa; ac o'u plith cododd un gŵr i fyny, a chan sefyll ar ben rhyw garnedd o gerig, efe a ddechreuodd bregethu i'r bobl. Yr oedd hyn yn tueddu i rwystro y chwareu, a dyrysu y difyrwch, ac felly yn ysgogiad na allai rhai o'r bobl ei ddyoddef. Mewn cyffro mawr, gan hyny, dechreuasant floddio, lluchio, a saethu, mewn modd arswydus, a chymaint felly fel y gorfu y pregethwr a'i gyfeillion symud eu sefyllfa. Ciliasant, gan hyny, a rhyw nifer o'r oferwyr yn eu dilyn; ac yn eu plith, y ddwy herlodes ieuanc grybwylledig, a daethant yn mlaen hyd at ryw groesffordd, yn lled agos i'r man y safai y capel arno yn awr; a chafodd y pregethwr lonyddwch yn y lle hwn i bregethu. Yr oedd hyn, mor agos ag y gellir casglu wrth oedran yr hen wragedd, tua'r fl. 1745; neu o hyny i 1747.

Nid yw enw y pregethwr ar gael, ac nis gellir gyda sicrwydd ddyfalu pwy a allai efe fod. Gwyddom fod Howel Harris wedi dechreu tramwy y wlad hon er y fl. 1739; gwyddom hefyd fod Carno yn sefyll yn gyfleus iddo wrth deithio o'r Tyddyn i Lanbrynmair, neu wrth ddychwelyd; a gwyddom hefyd nad oedd neb cymhwysach o ran gwroldeb meddwl, a chyfaddasrwydd gweinidogaeth i'r fath le, nag ef, fel ag y mae yn naturiol i ni ddyfalu mai Harris oedd y pregethwr. Ond nid yw hyny, ar yr un pryd, o ddim pwys, gan fod sicrwydd mai un o'r diwygwyr Methodistaidd ydoedd.

* Mr. Edward Owen, diacon parchus yn y lle hwn.

Hon, dybygid, oedd yr oedfa gyntaf gan y Methodistiaid yn y plwyf. Ar ol hyn, arafaidd iawn yr ysgogai yr achos yn mlaen. Ennillwyd ambell un o'r tlodion, wrth ddygwydd iddynt gael gwrando pregeth yn rhyw gŵr neu gilydd o'r fro; ac yn mysg y rhai cyntaf, yr oedd un John Thomas, Tŷ'n-yr-helyg, a William Thomas, Rhyd-y-felin. Nid oedd Tŷ'n-yr-helig a Rhyd-y-felin ond bythynod bychain a llwydaidd iawn. Yn y lle cyntaf o'r ddau y dywedir y byddai y cyfarfodydd eglwysig yn cael eu cynal yn y cychwyniad, a thrachefn yn Rhyd-y-felin. Chwanegwyd at y trueiniaid tlodion yn mhen rhyw amser, amaethwr mwy ei foddion na'r lleill, o'r enw Thomas Richards, Llanerch, neu Llanerchymedd, fel y gelwir y lle yr oedd yn byw. Yr oedd y gŵr hwn, yn ol yr hanes sydd am dano, yn ŵr duwiol iawn, a rhai o'i deulu hefyd yr un modd; ac yn achlysurol, o leiaf, cedwid y cyfarfodydd yn ei dŷ yntau. Mae yn beth nodedig fod crefydd yn hoffi arhoi yn y teulu hwn hyd heddyw. Tua'r fl. 1767, daeth gŵr o Lanbrynmair i fyw i'r plwyf hwn. Yr oedd ef a'i wraig yn rhai amlwg iawn mewn crefydd a duwioldeb, fel y bu eu plant a'u teuluoedd ar eu hol. Mab iddynt hwy oedd Thomas Meredith, yr hwn a fu yn bregethwr parchus a defnyddiol dros lawer o flynyddoedd; a'r hwn hefyd a fu yn cadw ysgol rad dan olygiad Mr. Charles. Fe fu y ddau deulu a enwyd olaf yn ddiamheuol yn achleswyr nodedig, yn llaw rhagluniaeth, i'r achos gwan yn y lle hwn, ac i'r sawl a ddeuent yma i bregethu.

Dylid crybwyll un amgylchiad nodedig arall a gymerodd le yn yr ardal pan oedd Methodistiaeth yn wan ac isel. Yn y fl. 1781, yr 20fed o Fehefin, pan oedd yr ychydig grefyddwyr wedi cyfarfod â'u gilydd yn nhŷ William Thomas, Rhyd-y-felin, i gynal eu cwrdd eglwysig, fel arferol, ymgasglodd yn dra disymwth ystorm fawr o fellt a tharanau, ynghyd a gwlaw trwm iawn, cymaint felly, nes peri llifogydd cryfion, a dryllio y tŷ yr ymgynullent ynddo, a'i gymeryd ymaith, a boddi pedwar o'r rhai oeddynt oddifewn. Boddodd Thomas Richards, Llanerch, a'i ferch, y rhai a gyfrifid yn wir dduwiol; boddodd gwraig William Thomas hefyd, yr hon oedd yn byw yn y tŷ, hi a bachgen bychan o ŵyr iddi. Cymerodd rhyw rai achlysur oddiwrth yr oruchwyliaeth ddyeithr hon, i ddifrio y crefyddwyr, fel be buasai Duw wedi dangos ei anfoddlonrwydd tuag atynt yn y tro; eto nid yr un teimladau a gynyrchid a phe dygwyddasai i ddynion ar y pit ceiliogod, neu wrth y ddawns, a'r cardiau. Mwy dewisol a fuasai gan y trigolion ofergoelus, er yr holl sibrwd a wneid ar y pryd, eu dal gan y llifeiriant yn gweddio, nag yn cablu, yn darllen y Beibl ac yn canu mawl, nag yn diota yn y dafarn, neu yn ymladd yn y ffair. Yr oedd yr oruchwyliaeth alarus, yn ddiau, yn ddyrnod trwm i'r achos gwan, eto fe'i cadwyd ef heb ddiffoddi; ac y mae y berth, er ei llosgi yn dân, hyd yn hyn heb ei difa. Fe fu yr achos yn y fangre hon, fel yr arch gynt yn Israel, heb un cartref sefydlog, ond yn crwydro megys o fan i fan, a hyny o'r amser y bu y bregeth gyntaf hyd yr amser yr adeiladwyd y capel yn y fl. 1811, ysbaid 66 o flynyddoedd. Ail-adeiladwyd a helaethwyd y capel drachefn yn y fl. 1842. Nid yw y plwyf hwn ond bychan, a chan nad oes ynddo ddim mwngloddiau, na gweithfaoedd o un math, ni all fod y trigolion ond ychydig o rifedi, mewn

cydmhariaeth i lawer o lanerchi eraill yn Nghymru, eto y mae yma gangen o eglwys siriol yn cynwys 80 o rifedi, a chynulleidfa dda o wrandawyr astud ar y Sabboth. Yma, bellach, y preswylia y Parch. Joseph Thomas, er ys rhai blynyddoedd, er mai ei fro enedigol ef ydyw Llangynog.

## Y DREFNEWYDD.

Yr ydym eisoes wedi dangos fod Methodistiaeth wedi dechreu mewn rhyw ardaloedd o'r sir hon mor foreu ag un man yn Ngwynedd, ond nid felly yr oedd yn y dref hon. Nid oedd gan y cyfundeb un achos yn y Drefnewydd am 65 o flynyddoedd ar ol dyfodiad Howel Harris i'r wlad. Tua'r fl. 1804 y gellir dyweyd i'r achos ddechreu yma. Yr oedd yma ambell oedfa yn cael ei chadw cyn hyny, yn nghapel y Bedyddwyr, gan ambell lefarwr a ddeuai heibio, megys yn achlysurol. Yn y fl. 1803, arweiniodd rhagluniaeth un John Evans, o Lanidloes, i'r dref i fyw; a gwelir yn yr amgylchiad, fel y gwelsid lawer gwaith o'r blaen, pa mor ddyledus ydyw Methodistiaeth i ragluniaeth y nef am ei *ledaeniad* yn gystal ag am ei *amddiffyniad*. Nid oedd y John Evans hwn, rhaid cofio, ddim mewn undeb eglwysig â neb crefyddwyr pan yr ymadawodd o Lanidloes, eto yr oedd yn wrandawr cyson, ac yn arfer profi, i raddau helaeth, awdurdod y gwirionedd ar ei gydwybod; ac wedi addunedu laweroedd o weithiau ymuno â'r eglwys yn Llanidloes, ond hyd yn hyn nid oedd ei addunedau wedi eu cyflawni.

Wedi dyfod i'r Drefnewydd, a chael ei hun yn amddifad o'r moddion yr arferai gael ymgeledd trwyddynt, fe ddaeth i deimlo ei ddirfawr golled; ac i sychedu yn fwy am danynt nag o'r blaen. Ar y Sabbothau, gan hyny, fe gyrchai i foddion gras i bob man o fewn ei gyrhaedd, a bychan fyddai ganddo fyned i Lanidloes yn fynych ar foreu Sabboth, 13 milldir o ffordd, i oedfa. Fel hyn y bu arno am ysbaid blwyddyn, heb fod ganddo neb o gyffelyb feddwl ag ef ei hun, ac yn alltud i raddau mawr oddiwrth freintiau crefyddol yn ei iaith ei hun, ac yn mysg y bobl y cawsai efe fwyaf o les wrth eu gwrando. Ond yn y flwyddyn ganlynol, sef 1804, anfonodd yr un rhagluniaeth ŵr arall o'r enw Richard Hughes, yr hwn oedd ar y pryd yn aelod eglwysig yn Ngharno, i'r Drefnewydd i fyw. Parodd hyn lawenydd mawr i John Evans. Yr oedd ganddo, bellach, un gŵr i dywallt ei fynwes iddo, ac i dderbyn amgeledd gyfrinachol drwyddo. Bellach, cryfhaodd y bwriad i geisio oedfaon amlach i'r dref, ac nid er mwyn y ddeuddyn hyn yn unig, ond hefyd er mwyn y trefedigion; llawer o ba rai oeddynt yn llwyr esgeulus o bob moddion crefyddol. Ceisiwyd gan Ishmael Jones, Llandinam, yr hwn oedd yn byw tua saith milldir o ffordd o'r dref, i ddyfod yma i bregethu. Cydsyniodd yr hen bregethwr â'u cais, a chadwyd yr oedfa, fel y byddid arferol pan ddygwyddai fod oedfa, yn nghapel y Bedyddwyr; ac ar ddiwedd yr oedfa hon fe gadwyd cyfarfod eglwysig yn nhŷ Richard Hughes. Hwn, meddir, oedd y cyfarfod cyntaf o'r fath, mewn cysylltiad â Methodistiaeth, yn y dref hon, ac yn y cyfarfod hwn y cafodd John Evans ei hun, y cyfleusdra i gyflwyno ei hun fel

ymgeisydd am aelodaeth eglwysig, y tro cyntaf. Nid oedd y gymdeithas hon ond *pedwar o rif;* dau eraill heblaw y ddau grybwylledig. Bychan, mae'n wir, oedd y dechreuad hwn, eto fe fu yn gychwyniad i achos a gynyddodd lawer yn ol llaw, ac a fu yn foddion llesâd i eneidiau lawer.

Wedi dechreu yn y modd uchod, parhawyd i gadw ambell oedfa, yn awr ac eilwaith, yn yr un capel, a'r cwrdd eglwysig yn nhŷ Richard Hughes, a hyny am ysbaid blwyddyn o amser. Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1805, cafwyd cymdeithasfa i'r Drefnewydd. Yr oedd y cymdeithasfaoedd y pryd hwnw, yn fwy fel cyfarfodydd pregethu nag ydynt yn awr. Nid oedd nifer y swyddogion a ddeuent ynghyd ond ychydig, ac ychydig hefyd oedd yr achosion allanol a drinid ynddynt, ond yr oedd cydgasgliad rhyw nifer o bregethwyr ynghyd i'r un lle, a'r rhai'ny a graddau mwy o gyhoeddusrwydd yn perthyn iddynt, yn foddion arbenig i godi yr achos i fwy o sylw. Mynych iawn hefyd y coronid y pregethau cyhoeddus ag arddeliad anarferol, fel ag i ddeffro llawer o ddynion i ystyriaeth ac ymofyniad. Nid oedd Methodistiaeth yn y Drefnewydd, pryd nad oedd o'i mewn ond pedwar o ddynion yn aelodau eglwysig, ond egwan ac eiddil iawn, gallesid meddwl, i gynal cymdeithasfa; a phe buasai y wedd bresenol ar y cymdeithasfaoedd hyny, hi fuasai yn rhy anhawdd ei chynal dan y fath amgylchiadau. Ond ei chadw a wnaed, a chan mai hon oedd y gyntaf, dyddorol gan y darllenydd gael enwau y pregethwyr a'u testynau. Y noson gyntaf, pregethodd Mr. John Jones, Caergwrle, ar Dat. i. 5; a'r Parch. T. Charles, Bala, ar Hos. xiii. 9. Am chwech o'r gloch y boreu dranoeth, pregethodd Mr. Dafydd Cadwaladr, ar Diar. xxxi. 13; a Mr. John Roberts, Llanllyfni, ar Isai liii. 10. Am ddeg o'r gloch, pregethodd y Parch. T. Charles, ar 1 Ioan v. 12; a Mr. John Elias, ar Heb. ii. 11. Am ddau o'r gloch, pregethodd Mr. James, Pen-blaen, ar Isai xlix. 24, 25. Cadwyd yr oedfaon, mewn rhan yn nghapel y Bedyddwyr, ac mewn rhan ar yr heol, o flaen tŷ un o'r enw Jane Jones. Yn y gymdeithasfa hon, areithiodd Mr. Charles mor effeithiol am yr angenrheidrwydd am yr ysgol Sabbothol, a'r buddioldeb o honi, nes cyffroi crefyddwyr y dref, o bob enwad crefyddol, i ysgogi tuag at ei sefydlu. Felly hefyd ei sefydlu a wnaed, megys ar unwaith, gan yr holl enwadau. Dechreuodd y Methodistiaid, bellach, gynal cyfarfodydd i weddio, ar nos Sabbothau, yn nhŷ Richard Hughes. Dywedir fod y cyfarfodydd hyn wedi bod yn fendithiol iawn i laweroedd, yn foddion i ennill llawer i wrando pregethau, ac i fod yn godiad neillduol i'r achos yn y dref. Yr oedd, bellach, amryw, yn awr ac eilwaith, yn ymuno â'r eglwys, ac arwyddion tra amlwg o law yr Arglwydd arnynt.

Yn y fl. 1806, cymerwyd ystafell, yr hon a elwid "Ystafell pen-y-grisiau," neu yn hytrach, "Ystafell pen-y-*stairs*," i gadw y moddion ynddi. Yn yr ystafell hon y cynaliwyd y moddion, bellach, am ysbaid 4 blynedd.* Cafwyd "byd braf" lawer gwaith yn "Ystafell pen-y-grisiau." Gwenai Duw ar ei

* Y pregethwyr a fu yn gweini gyntaf ynddi, oeddynt Mri. Abraham Jones, Thomas Meredith, Edward Watkin, Thomas Jones, ac Ishmael Jones.

bobl, ac aroglai arogl esmwyth ar eu cynulliadau, dadguddiodd ei fraich, a gwnaeth rymusderau. Sonir yn neillduol am un wraig, o'r enw Susana Humphreys, yr hon oedd 56 ml. oed, yr hon a ddaeth i'r ysgol Sabbothol, heb fedru llythyren ar lyfr. Dywedir iddi gael blas ar yr ysgol nes ei ch'lymu wrthi, a pheri llwyr ymroddiad ynddi i ddysgu darllen. Hyn hefyd a gyrhaeddodd yn mhen ychydig amser. Daeth y wraig hon yn hoff o'i Thestament, a chynyddodd mewn awydd am bob moddion crefyddol. Ar un achlysur, pan yr oedd dau ŵr o sir Gaerfyrddin yn pregethu, tywynodd y fath belydrau i'w meddwl, nes y torodd allan i wylo yn hidl, ac i lefain a moliannu. Nid oes lle i feddwl fod y wraig hon wedi gweled na chlywed neb arall erioed yn gwneuthur y fath beth; a dyeithr iawn ydoedd hefyd i'r rhan fwyaf yn y lle; am hyny daeth ati ryw rai i geisio ganddi dewi. "Pa fodd," ebe hithau, "y gallaf dewi; mae rhyw dân yn fy nghalon, ni thawn i yn fy myw." Ymunodd yn ebrwydd, bellach, â'r eglwys, a hi a fu yn aelod hardd ynddi dros weddill ei hoes. Nid oedd ei mwyniant daearol ond prin iawn, ond yr oedd ei henaid yn byw yn dda ar "frasder tŷ Dduw," ac yn yfed yn ehelaeth "o afon ei hyfrydwch."

Yn y fl. 1810, yr oedd yr eglwys wedi cynyddu i 40 o rifedi, rhai yn ddyfodiaid o eglwysi eraill, ond y rhan fwyaf o honynt yn wrandawyr yn y lle. Wrth weled fod yr achos yn myned rhagddo, y gwrandawyr a deiliaid yr ysgol Sabbothol yn lluosogi, gwelwyd angenrheidrwydd am le eangach a mwy cyfleus i addoli. Wedi peth ymofyn, cafwyd tir i adeiladu, a thrwy lafur ac egni codwyd capel bychan 12 llath wrth 8. Mawr oedd llawenydd y bobl, bellach, wedi cael pabell gyfleus a sefydlog, a mwy oedd eu llawenydd wrth weled fod y gwaith yn parhau i lwyddo fwy-fwy. Yn mhen tua 10 mlynedd, gwelwyd angenrheidrwydd i "helaethu lle eu pabell." Yr oedd nifer yr aelodau, bellach, yn 100. Ymosodwyd yn egniol at y gorchwyl i adeiladu tŷ helaethach, a thrwy lawer o anhawsderau fe godwyd yr addoldy presenol, yr hwn sydd gymaint arall, ymron, a'r un o'i flaen.

Yn y lle hwn y bu John Williams, yr hen bregethwr duwiol, yn byw y rhan ddiweddaf o'i oes, er nad oedd ef yn anedig o'r Drefnewydd, ond o Fachynlleth. Dechreuodd bregethu pan yn 19eg oed, parhaodd i lafurio am yr ysbaid maith o 55 mlynedd, a bu farw yn Ebrill, 1847, yn 74 ml. oed. Yr oedd John Williams yn un "o heddychol ffyddloniaid y tir." Bu yn ddiwyd a ffyddlawn gyda gwaith yr Arglwydd, yn ol ei allu, hyd ddiwedd ei oes. "Yr oedd yn ysgrythyrol yn ei bregethau, yn adeiladol yn ei ymddyddanion cyffredin, ac yn fywiog iawn yn y cyfeillachau eglwysig."

Y mae y brodyr oedd gyda'r achos yn ei gychwyniad, oll wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur. Hyfryd a fuasai eu henwi bob yn un ac un, a thraethu y gwasanaeth a wnaethant i achos y Cyfryngwr, ond amser a gofod a ballai i wneuthur hyny. Mae y gwaith, pa fodd bynag, yn myned rhagddo, cyflogwyd gweithwyr eraill i'r winllan, y rhai nid ydynt yn ol mewn llafur a ffyddlondeb i'r rhai a'u blaenorodd. Dechreuwyd amryw ysgolion Sabbothol fel cangenau yn tarddu o ysgol y dref, megys yn Dolfawr, Abermule, Pen-

tre'-rhedyn, Milford, a changen fechan a darddodd allan o honi mewn cŵr arall o'r dref; yr oedd hon yn ysgol Saesonig, ac yn cynwys tua 60 o ysgolheigion. Ond trwy ryw amgylchiadau neu gilydd, fe'i gollyngwyd hi i lawr, ac ar lawr y gadawyd hi am agos i 17 o flynyddoedd. Gwrthododd yr henafiaid dir yn rhodd ar Ben-y-gloddfa i adeiladu capel Saesonig, ond yn mhen 18 neu 20 mlynedd wedi hyny *prynwyd* tir yno, ac adeiladwyd capel hardd a chyfleus. Mae y ddwy ysgol Sabbothol yn cynwys, bellach, tua 600 o rifedi; a'r aelodau yn y ddau gapel, rhwng plant a'u rhieni, tua 300.

---

# PENNOD IV.

## YMEANGIAD METHODISTIAETH AR LANAU AFON DYFI.

CYNWYSIAD:—

CEMAES—MALLWYD—LLANWRIN—PARCH. WILLIAM JONES, DOL-Y-FONDDU.

### CEMAES.

Crybwyllasom eisoes am y cais a wnaethai Howel Harris i bregethu yn Nghemaes, a Dinas-mowddwy, a pha mor ffyrnig yr ymddangosai y trigolion rhag i Fethodistiaeth gael lle i sefyll arno. Ymddengys fod y gwrthwynebiad hwn i'r efengyl wedi parhau dros gryn dymhor. Nid oedd dros rai blynyddau ar ol dyfodiad Harris i'r wlad, nemawr bregeth i'w chael yn un man yn y fro. Yr oedd ambell bregethwr yn dyfod y ffordd yma ar ei daith o'r Deheudir i Wynedd, ond nid oedd derbyniad i neb o honynt yn y fro hon; ac os gwybyddid mai pregethwr a fyddai'r ymdeithydd, prin y cai ef lety yn un man, ïe, er talu am dano; ac nid oedd neb yn fwy eu gwrthwynebrwydd na'r tafarnwyr o Fachynlleth i'r Bala. Ond yr oedd un tafarnwr yn Ninas-mowddwy, yn byw mewn tŷ a elwid y Sign, am fod arwydd y gloch arno, o deimlad gwahanol i'w frodyr. Hwn, nid yn unig a lochesai grefyddwyr a phregethwyr yn ei dŷ, ond hefyd a wnai ei oreu i'w hamddiffyn rhag sarhad rhai eraill. Pan ddeuai pregethwr yno ar ddamwain, rhoddai geiniog neu ddwy i ryw un am fyned o amgylch i hysbysu y cedwid oedfa yno, ac ymgynullai 10 neu 12, fe allai, i wrando. Yr oedd Owen Siôn, o'r Plas-ucha', yn cofio bod yn rhai o'r oedfaon hyn, pan oedd tua 9 ml. oed, sef tua'r fl. 1742.

Ond er nad oedd ond ambell oedfa achlysurol i'w chael, a hyny am ysbaid blynyddoedd, eto yr oedd rhyw un neu arall yn yr oedfaon hyn yn derbyn llesâd i'w heneidiau. Nid oedd y nifer, dros flynyddoedd lawer, ond ychydig iawn, a'r rhai hyny yn cael edrych arnynt gyda llawer o wawd; a chan rai, gyda drwg-dybiaeth.

Yr oedd pregethu boreu iawn yn Aberangell, yn mhlwyf Mallwyd. Yr oedd yno un dysgybl hefyd, y mae son mawr am ei ras a'i ffyddlondeb, sef un Ellis Ellis. Yr oedd hwn yn arfer myned can belled â Llanbrynmair i gael cyfarfod eglwysig, mewn amser, tybygid, nad oedd yr un cynulliad o'r fath i'w gael yn nes ato. Yr oedd cymdeithas eglwysig yn Machynlleth tua'r fl.

1770, ond gan yr âi y dysgybl ieuanc crybwylledig i Lanbrynmair, i gael y fath gyfarfod, cymhellir ni i gasglu fod hwn yn aelod gyda'r Methodistiaid er amser boreuach na hyny. Dywedir hefyd fod yma un David Williams wedi bod yn yr ardal hon, dros ryw dymhor, yn cadw ysgol ddyddiol; a'i fod yn arfer cynghori; ni ddywedir pa bryd y bu hyn, na pha effaith neillduol a ganlynodd ei lafur. Fe fu Ellis Ellis y crydd, pa fodd bynag yn llafurus iawn yn ceisio pregethu i'w ardal mor aml ag y gallai, ond fe fu hwn farw yn lled ieuanc. Fe fu David Williams yn Nghemaes hefyd yn cadw ysgol ddyddiol, sef yr ysgol a berthynai i Madam Bevan. Yr oedd gweinidogaeth y gŵr hwn, meddir, yn daranllyd iawn, a bu yn foddion, mewn rhan o leiaf, i ddychwelyd Owain Siôn, o'r Plas-ucha'.

Yr oedd pregethu mynychach yn cymeryd lle yn ysbaid y tymhor 1760—1770. Pregethid mewn amrywiol dai anedd, lle y byddai y rhai a'u preswylient yn dechreu dangos gradd o gariad at yr efengyl. Nid oedd eto yr un capel i'w gael, a symudai y pregethu, gan hyny, o dŷ i dŷ, yn ol fel y byddai y cyfleusdra yn caniatâu, neu yr amgylchiadau yn galw. Yr oedd amryw o wŷr o'r Deheudir yn ymweled â'r parth hwn o'r wlad wrth fyned i, neu ddychwelyd o, Wynedd, sef Daniel Rowlands, William a Peter Williams, David Morris, Lloyd o Gaio, Jones, Llangan, ac eraill. Yr oedd hefyd Richard Tibbot, Llanbrynmair, a Lewis Evan, Llanllugan, a phregethwyr y Bala, yn dechreu cymysgu eu llafur gyda'r Deheuwyr hyn; ac yr oedd eu llafur yn raddol yn effeithiol, nid yn unig i ddarostwng rhagfarn a chreulondeb y werin, ond hefyd i ddychwelyd ambell bechadur at y Duw byw.

Yn mysg eraill a ddaliwyd, yr oedd Owain Siôn, Plas-ucha'.* Ganesid hwn gerllaw Dinas-mowddwy, yn y fl. 1733; ac er fod ei fam yn wraig ddifrifol, ac yn dwyn Owain gyda hi, pan geffid y cyfle, i wrando pregethau, eto fe fu Owain dan lywodraeth gwylltineb ieuenctid, ac yn dylyn oferedd ei oes, nes oedd tua 35 ml. oed: sef tua'r fl. 1768. Trwy lafur mawr, a thrwy gynorthwy ei feistr, pan oedd yn was yn Ngarthbeibio, fe ddysgodd ddarllen, yr hyn oedd yn beth anghyffredin y pryd hwnw. Llochesai Owain feddwl tyner am ei feistr, fel un a dra ragorai ar ei oes mewn difrifwch, a moesoldeb; ac fel un a ddangosai lawer o barch i ddydd yr Arglwydd. Yn y fl. 1774 daeth Owain Siôn i'r Plas-ucha', yn Mallwyd, i fyw. Yr oedd, bellach, yn ŵr priod, ac yn arfer gwrando yn awr ac eilwaith ar y Methodistiaid; ac yn mysg y rhai cyntaf y bu ef yn eu gwrando ar hyn o bryd, oedd David Williams, yr hwn yn cadw ysgol yn Aberangell.

Yn fuan ar ol sefydliad Owain Siôn yn y Plas-ucha', dechreuwyd pregethu yn achlysurol yn Nrws-y-nant, a Thŷ'n-rhos, a Chwmllwnc, lleoedd yn nghymydogaeth y Cemmaes. Ffurfiwyd yma gymdeithas eglwysig, â'r hon yr ymunodd Owain Siôn yn mhen tua dwy flynedd ar ol ei ffurfiad. Yn fuan ar ol hyn, fe allai tua dwy flynedd diweddarach, dechreuwyd cadw ambell gyfarfod eglwysig yn Mallwyd. Yr oedd yn y gymydogaeth hon wraig weddw gref-

* Cyf. I., tudal. 296.

yddol a chyfrifol yn byw, o'r enw Mrs. Sinai Pierce, yr hon a fuasai unwaith yn cadw gwesttŷ yn Mallwyd am lawer o flynyddoedd. Yr oedd y wraig hon yn aelod gyda'r Methodistiaid yn Nghwmllwnc, a hi oedd yr un a agorodd ei drws, gyntaf o neb, i'r efengyl yn Mallwyd; a'r Parch. Peter Williams, ar ei ffordd i gymdeithasfa y Bala, oedd y cyntaf a bregethodd yno. Ond yn y Plas-ucha' y cedwid y cyfarfodydd eglwysig, ac yno yn gyffredin y lletyai y pregethwyr. Yr oedd y Mrs. Sinai Pierce uchod yn fam i'r ddiweddar Mrs. Jones, Dol-y-fonddu. Yr oedd pregethu achlysurol mewn amrywiol leoedd eraill, megys y Farchell, yn agos i'r Dinas, a Phenant-tegi, wrth droed Bwlch-oerddrws. Yn nhŷ Mrs. Pierce, ac yn y Plas-ucha', y cynelid y moddion yn fwyaf cyson hyd yr amser y symudwyd i Hen Neuadd Camlan: gwnaed hyn yn y fl. 1801. Nifer yr aelodau pan y dechreuwyd yn y Plas-ucha', yn y fl. 1786, oedd 24, ond yn y fl. 1797, yr oeddynt yn 62 o rifedi.

Tua'r fl. 1797, ymwelodd yr Arglwydd â'r ardal trwy adfywiad grymus, yr hyn a barodd y chwanegiad crybwylledig at rifedi yr aelodau. Sonir am un oedfa nodedig yn y Plas-ucha', pan oedd Mr. Richards, Caernarfon, yno yn pregethu; ddarfod i lawer o'r gwrandawyr dori allan i lefain, ac i foliannu fel na ellid clywed dim a ddywedai y pregethwr; ar hyn aeth y pregethwr i ran arall o'r tŷ, a'r gwrandawyr ar ei ol; yno hefyd hi dorodd allan yn y gynulleidfa yr un modd, ac nid oedd, bellach, yn mhob pen i'r tŷ ond dynion, naill ai yn llefain am eu bywyd, neu yn clodfori gras Duw am eu cipio megys "pentewynion o'r tân." Cafwyd ymweliadau cyffelyb ar ol symud i'r Hen Neuadd Camlan, nes peri cryn chwanegiad at rif yr aelodau. Crybwyllir am oedfa nodedig yn y lle hwn dan bregeth R. Roberts, Clynog. Wrth son am dragwyddol barhad y byd a ddaw, pa un ai yn ei wae neu yn ei wynfyd, arferai y pregethwr gyffelybiaeth, a hyny mewn dull priodol iddo ei hun, dull na ellirei ddychymygu, chwaithach ei ddysgrifio, "fod y *cloc* wedi sefyll yn uffern ar hanner nos! ac yn y nef ar hanner dydd!"

Ymddengys fod Morris Jones, Drws-y-nant, a Griffith Jones a'i wraig, o Dŷ'n-rhos, yn mysg y rhai blaenaf a ymunodd â'r Methodistiaid yn mhlwyf Cemaes. Ymunodd Richard Jones, Cwm-eidrol, hefyd, tua'r fl. 1783; efe oedd meddiannydd y tir yr oedd lle pregethu arno, sef Drws-y-nant; a bu yn ffyddlawn, meddir, gyda'r achos hyd ei farwolaeth. Gan ei amheuaeth o'i alluoedd a'i fedrusrwydd i gadw dyledswydd deuluaidd, a chan awyddfryd, er hyny, i'w chael, efe a ddarllenai weddiau allan o'r Llyfr Gweddi Cyffredin eglwys Lloegr; ond dygwyddodd ryw ddiwrnod fod y llyfr ar goll, a bu gorod arno wneyd a allai hebddo; ac hebddo mwyach y gwnaeth hyd ddydd ei farwolaeth. Mae hanes am un oedfa i Dafydd Morris, yn Drws-y-nant, pryd yr effeithiodd rhywbeth yn rymus ar feddwl merch i Richard Jones, Cwm-eidrol, yr hon oedd ar y pryd tuag 20 ml. oed, nes ei chymhell ar ddiwedd y bregeth, i roddi y pennill canlynol i'w ganu:—

Ni thro'f fy wyneb byth yn ol,
I 'mofyn pleser gau;
Ond mi a deithiaf tua'r wlad,
Sydd a'i phleser yn parhau.

Yr oedd y pennill yn ddarluniad teg o agwedd ei meddwl, a phenderfyniad ei hysbryd, a rhoes brawf diymwad mai gwir oedd y fath broffes, oblegid, er iddi gyfarfod â llawer o brofedigaethau a gwaradwydd, "ni throdd ei hwyneb byth yn ol," ond hi a deithiodd yn gyson tua'r wlad am 65 neu 70 o flynyddoedd, ac weithian y mae yn mwynhau y "pleser sydd i barhau."

Symudwyd y moddion o Drws-y-nant i Cemaes oddeutu yr amser hwn; a dylynwyd y Methodistiaid yno gan yr Annibynwyr. Deallwn fod cymdeithasfa wedi cael ei chynal yn y Cemaes, tua'r fl. 1787; ond nid oes gan yr ysgrifenydd ddim o'i hanes, ond yn unig y ffaith o'i bod. Fe fu un Lewis Watkin hefyd yn Nghemaes, yn cadw ysgol ddyddiol, ac efe, meddir, a fu yr offeryn i ddysgu y rhan fwyaf o hen bobl yr ardal i ddarllen. Brawd oedd ef i Edward Watkin y pregethwr; a bu ei addysgiadau, ei gynghorion, a'i weddiau, o fawr ddefnydd i ddwyn achos y Cyfryngwr yn mlaen yn Nghemaes.

## MALLWYD, A'I CHANGHENAU.

Y lle y dechreuwyd cadw cymdeithas eglwysig yn y plwyf hwn oedd y Plas-ucha', y tyddyn a breswylid ar y pryd gan Owen Siôn, am yr hwn y crybwyllasom o'r blaen; yr oedd hyn tua'r fl. 1786, ac yn mhen tua 12 ml. ar ol i Owen Siôn ddod i Plas-ucha' i fyw. Symudodd y gwersyll, fel y crybwyllwyd, i Hen Neuadd Camlan, yn y fl. 1801. Yn y fl. 1803, adeiladwyd y capel, yr hwn a elwir capel Bryn-y-ffynnon. Nid hir, bellach, a fu cyn ymestyn i Gywarch; ond er fod yma bregethu lled gyson flynyddoedd o'r blaen, nid oedd yma gapel hyd y fl. 1809; ac wedi cael addoldy, nid oedd yma yr un gymdeithas eglwysig wrthi ei hun, hyd y fl. 1813; ond yr oedd yr ychydig aelodau yn aros mewn undeb â'r eglwys yn Bryn-y-ffynon. Cododd naid arall o'r hen gwch, a disgynodd yn Aberangell. Yn y fl. 1833, adeiladwyd capel yn y lle hwn drachefn dan yr enw Hebron. Fel hyn yr âi y gwaith rhagddo, cyffelyb "*i losgiad a chynud tân.*" Y tro cyntaf y bu Lewis Morris yn y wlad hon yn pregethu, yr oedd yn Pennant-tegi nos Sadwrn, Plas-ucha' boreu Sabboth, Cemaes ddau o'r gloch, a Mythafarn nos. Yn y ffurf yma y bu yr oedfaon am flynyddoedd. Ië, o fewn hanner can' mlynedd yn ol, nid oedd ond dwy daith Sabbothol yn yr holl wlad hon; yn awr y mae chwech o deithiau ar lanau yr afon Dyfi o Fachynlleth i fyny.

Sonir llawer am lafur a ffyddlondeb Richard Morris, o'r Pennant-tegi, a'r eiddo Owen Siôn, o'r Plas-ucha'. Yr oeddynt yn mysg y rhai cyntaf a ymunodd â'r Methodistiaid, ac er nad oedd y manteision mewn cydmariaeth i'r hyn ydynt yn awr ond prinion, gwnaethant ddefnydd da o'r rhai oedd ganddynt; dangosasant lawer o garedigrwydd at achos y Cyfryngwr, a hyny dan lawer o warthrudd a chaledi. Treuliodd yr olaf y 27 ml. olaf o'i oes yn Nghamlan-uchaf. Daeth i'r lle hwn tua'r fl. 1802, a chafodd y fraint o weini rhyw wasanaeth i'r efengyl dros ei oes. Pan ofynwyd iddo, tua blwyddyn cyn ei farw, pan oedd weithian yn 92 ml. oed, "Ai nid oedd ef wedi blino ar wasanaeth yr Iesu, wedi cynifer o flynyddoedd?" I hyn yr atebodd,

"Ni chefais erioed un siomedigaeth ynddo ef, er cymaint a gefais ynof fy hun ac eraill; cynaliodd fi hyd yn hyn, ac yr wyf yn hyderu y cynal fi hyd y diwedd."

Yr oedd llawer o'r crefyddwyr boreu hyn yn cyfarfod â lluaws o wrthwynebiadau cryfion, oddiwrth eu huchafiaid weithiau, oddiwrth y clerigwyr yn fynych, ac oddiwrth eu teuluoedd eu hunain hefyd yn aml. Sonir am un gŵr o'r enw John Parry, yr hwn a ddyoddefai lawer oddiwrth ei wraig, yr hon oedd yn dra gwrthwynebol iddo i ymuno â'r gymdeithas eglwysig. Yr oedd ef wedi ymuno â'r gymdeithas a ymgynullai yn y Plas-ucha', ac unwaith, pan oedd hi oddicartref, efe a aeth i'r cynulliad eglwysig. Hithau a ddychwelodd yn lled fuan ar ol iddo gychwyn, ac wedi deall i ba le yr aethai, newydd ddiosg eu hosanau a'i hesgidiau, y rhai oeddynt yn wylbion gan ôd-wlaw oerllyd, hi a gyffrôdd gymaint, nes codi ar ffrwst mawr i'w ddylyn, gan ddysgwyl ei orddiwes cyn iddo gyrhaedd pen y daith. Hyn a geisiodd heb gymeryd amser i wisgo ei hosanau na'i hesgidiau, ond ymaith â hi yn wisgi gan nwyd, yn gwbl droednoeth, trwy yr eira gwlyb, dair milldir o ffordd! ond mawr oedd ei siomedigaeth, yr oedd Siôn wedi cyrhaedd y Plas o'i blaen, ac nis caniatawyd iddi fyned i mewn. Pan welai na allai gael gafael arno ei hunan, yna hi a ddyfeisiai bob math o chwedlau celwyddog, gan ei gyhuddo o bethau cas a bryntion, er mwyn cael gan y brodyr ei droi allan. Gwnai bob peth a allai i lesteirio iddo fwynhau moddion gras ar y Sabboth, mwy na dydd gwaith. Un boreu Sabboth, gollyngodd y moch tewion allan, a dywedai wrtho yntau, mai tori i maes a wnaethent, a bod yn rhaid iddo fyned ar eu hol i'w dwyn adref. Yntau yn ddiniwaid a wnai. Ar ol eu cael i'w lle, efe a roddai gryg o ddrain neu rywbeth cyffelyb i'w hattal, yn ol ei dyb ef, i fyned allan eilwaith: yna hi a alwai ar rywun o'r un ysbryd a hithau, yn dyst, ac a ddywedai, "A weli di y fath grefyddwr ydyw SIONYN ni! Dyma fo yn cau ar ddydd Sul!" Pan y ceisiai gadw addoliad teuluaidd, yr oedd y teulu bob un wrth ei orchwyl rhag ofn y feistres; er hyny ni roddai Siôn y ddyledswyd heibio. O'r diwedd, hi a addawodd wrando arno, os darllenai efe weddiau o lyfr. Addawodd yntau wneyd, a phrynodd hithau lyfr iddo. Gwnaeth hyn dros lawer o amser; ond rhyw noswaith, diffoddodd y ganwyll! Aeth y gweddiwr yn mlaen fel pe na buasai dim wedi dygwydd, gan y medrai Siôn weddio yn y tywyllwch fel yn y goleuni. Ond fe ddeallodd y wraig mai nid y llyfr a ddarllenai mwy, a gwylltiodd ei nwydau; lluchiodd at ei ben y peth nesaf i law, gan waeddi, "Yr wyf wedi prynu llyfr o weddiau iddo, ac yntau wedi addaw ei ddefnyddio, ond mi welaf yn awr ei fod yn ormod o ŵr boneddig, boed siwr! i edrych ar y llyfr." Ond er yr holl sarhad i gyd, parhaodd y truan i ddal ei ffordd, a'r wraig hithau a roes heibio ei aflonyddu rai blynyddau cyn ei marw.*

Yr oedd Siôn Parry yn arfer gwrando wrth ddrws y pulpud. Gofynwyd iddo unwaith paham, gan nad oedd trymder ei glyw yn galw arno i ddyfod mor agos? I hyn yr atebodd: "Nid oeddwn bob amser yn arfer a bod mor agos; ond ar un achlysur, pan oedd un o'r hen bregethwyr yma yn pregethu, a'r gynulleidfa, fel y byddai yn arferol, yn rhanedig: y crefyddwyr, gan mwyaf,

wrth y pulpud, neu yn agos iddo, a'r gwrandawyr dibroffes yn nghefn y capel, a'r canol yn wag rhyngddynt, dygwyddais i fod yn mysg y rhai pell yn gwrando. Ebai y pregethwr, "Mae arnaf ofn mai i uffern yr â y bobl hwnt i'r meinciau!" Wrth fyned allan dywedai un, fel y clywais, "Os i uffern yr awn, fe fydd Siôn Parry yno gyda ni!" "O hyn allan," ebe yr hen Gristion, "nid aethum i'w cwmni mwy."

Gwell o lawer a fyddai gan y rhieni weled eu plant yn myned i'r gŵyl-mabsantau, y chwareu cardiau, a'r *Interludiau*, y rhai oeddynt yn uchel eu bri y pryd hwnw, nag oedd ganddynt eu gweled yn cyrchu i wrando pregethau; ac ambell waith defnyddiai rhai y cyfleusdra, yn lle myned i'r ŵyl fel yr annogid hwy, i fyned i'r bregeth. Yr oedd yn y gymydogaeth hon ddwy ferch ieuanc yn cael eu hannog gan eu mam i fyned i'r cyfarfod llygredig. Hwythau wedi ymwisgo yn wych, ac yn gymhwys i'r fath achlysur, a gymerent ddillad llai gwych gyda hwynt, ac ar y ffordd troent i mewn i dŷ i ail-ymwisgo, ac aent i'r oedfa. Os oedd dichell yn esgusodol ar achlysur yn y byd, ni a allem feddwl ei fod felly ar yr amgylchiad hwn. Mae y ddwy chwaer hyn, ar ol bywyd o rodiad addas i'r efengyl, er ys blynyddau, bellach, wedi myned i mewn i lawenydd eu Harglwydd.

Mewn undeb â'r gymdeithas yn Mallwyd yr oedd un Thomas Miles, o'r Fron-goch, plwyf Llanymawddwy. Efe, meddir, oedd y cyntaf yn y plwyf hwn a wnaeth broffes neillduol o grefydd. Fe'i ganwyd ef yn y fl. 1748. Yr oedd yn rhagori ar lawer iawn o'i gymydogion o ran moesoldeb ei fuchedd, cyn iddo wybod dim yn brofiadol am grefydd. Nid yw yr hanes am dano yn dadgan trwy ba foddion y cafodd ei alw; ond yr oedd y tro a ddaeth arno yn anfoddhaol iawn gan ei dad, yr hwn a ymddygai yn greulawn iawn tuag ato. Cafodd y drws yn gauad lawer gwaith ar ei ddychweliad adref wedi bod mewn cyfarfodydd crefyddol, a bu gorfod arno lawer noswaith anghysurus fyned i'r beudŷ at yr anifeiliaid i orwedd hyd y boreu. Un tro, yr oedd ef a'i ferch wedi myned i oedfa ar nos Sabboth; wedi dyfod adref cawsant y drws yn gloedig; gofynodd yn addfwyn, eto yn daer, am gael eu gollwng i mewn, ond gyda geiriau chwerwon fe'i nacawyd. Wedi gweled nad oedd obaith iddo gael agoryd y drws, efe a droes yn ol, gan ddyweyd, "Bu fy ngwell i mewn beudŷ cyn heno." Ond er maint oedd dyoddefiadau y crefyddwyr boreu hyn, yr oedd eu dyddanwch yn llawn gyfateb iddynt. Felly yr oedd gyda Miles. Efe a fu ffyddlawn hyd angeu, ac yn y diwedd efe a dderbyniodd goron y bywyd.

Fe fu mab i'r gŵr hwn, sef Job Miles, yn llafurus a ffyddlawn iawn gyda'r ysgol Sabbothol, pan oedd yn ei mabandod. Gwelais ysgrif o'i eiddo ef ei hun, yn tystio iddo fod yn cadw ysgol mewn dau-ar-hugain o wahanol fanau yn ei gymydogaeth, rhwng tai anedd ac ysguboriau. Mae effaith y llafur hwn ar y cymydogaethau hyny hyd heddyw. Bu yn foddion i ddysgu i niferi lawer i ddarllen gair Duw, a'u harwain i wybodaeth y gwirionedd. Yn awr, y mae yntau wedi marw, ond ei weithredoedd a'i canmolant ef fel esampl yn y byd hwn, ac a'i canlynasant ef fel gwobr i'r byd a ddaw.

## LLANWRIN.

Mae y plwyf hwn yn agos i Cemmaes, ond yr ochr arall i'r afon Dyfi. Ond er fod y ddwy ardal yn agos i'w gilydd, nid cymaint o gyfathrach sydd rhyngddynt, o herwydd fod yr afon yn cyfryngu, ac heb un bont yn gyfagos i'w chroesi. Mae Llanwrin yn gorwedd hefyd ychydig o filldiroedd i'r Gogledd o dref Machynlleth, ar yr ochr orllewinol i afon Dyfi. Y moddion i ddwyn Methodistiaeth i'r ardal hon, meddir, oedd i un John Evans, wedi hyny o Dywyll-nodwydd, fyned i'r Cemmaes i wasanaethu; a thrwy hyny cafodd gyfleusdra i wrando y Methodistiaid yn pregethu; bendithiwyd y moddion iddo, a theimlodd yn y fan yn awyddus i gael y cyffelyb bregethu i blwyf Llanwrin. Nid hir y bu cyn cael addewid gan Ellis Edward, o Benrhos, i ddyfod i bregethu i dŷ ei dad; tŷ bychan a elwid y Foel. Pan ddaeth yr amser, ymgasglodd llawer yn nghyd, ond nid pawb i'r un dyben. Cafwyd allan yn lled fuan, os oedd rhai yn sychedu am wrando y gair, fod yno craill a'u bryd ar eu rhwystro. Bwriadwyd cadw yr oedfa allan ar y maes, ond deallwyd na cheid llonyddwch i hyny, oblegid yr oedd Siôn Dafydd o'r Ddolwen, ac Isaac o'r Henddôl, yn blaenori haid o derfysgwyr, wedi dyfod yno, ac yn penderfynu gwneyd a allent i ddyrysu yr amcan. Chwythai Siôn mewn corn, er mwyn cadw digon o drwst; eraill a luchient bridd a llaid neu rywbeth arall o fewn eu cyrhaedd; a chiliodd y pregethwr a'i bleidwyr i'r tŷ, gan obeithio cael mwy o hamdden yno; ond Isaac yr Henddol a ddringai i nen y tŷ bychan, yr hwn oedd a'i dalcen yn y ddaear, ac a fwriai gerig i lawr trwy y simnau. Ond er maint yr aflonyddwch, llefarodd yr hen ŵr i gynifer o bobl a allent ymwthio i'r tŷ, oddiwrth Joel ii. 13,—"A rhwygwch eich calon ac nid eich dillad, &c." Hon oedd yr oedfa gyntaf yn mhlwyf Llanwrin; yr oedd hyn tua'r fl. 1782. Ni fu yma yr un oedfa drachefn am ysbaid dwy flynedd. Wedi yr ysbaid hyny o amser, daeth John Evans adref i fyw, a chafodd ganiatâd i'r oedfaon gael eu cadw yn Tŷ'n-y-coed, Mythafarn. Yr oedd yma ryw rai yn parhau i aflonyddu. Yn mysg eraill, sonir am un Mr. Evans, o Esgirgeiliog, ac hefyd un Dafydd Ellis. Yr oedd yr olaf yn brydydd, ac yn arfer dylyn y cyntaf, gan wneuthur rhigymau yn erbyn y Methodistiaid, i'w difrïo, ac i wahodd ei gymydogion i'r erlyniad;—

Awn gyda'n gilydd bawb o'r fro,
I *dosio*'r Methodisiaid, &c.

Ond nid hir y caniatawyd i'r prydydd ei rwysg; eithr efe a alwyd gan Dduw, ac a wnaed yn amddiffynwr y ffydd a anrheithiasai gynt. Cysegrodd ei hun, bellach, a'i awen, a'r cwbl, at wasanaeth ei Arglwydd.

Parhaodd graddau o aflonyddwch hyd nes daeth Mr. Samuel Lloyd, gŵr y soniasom o'r blaen am dano, trwy y wlad i bregethu. Yr oedd y gŵr hwn, yn ol arfer efrydwyr Iarlles Huntingdon, yn ymwisgo mewn gŵn du, a gwedd wahanol arno i'r diwyg a fyddai ar y cynghorwyr Methodistaidd. Tybiodd y werin anwybodus fod gan hwn awdurdod i bregethu nad oedd gan y lleill, ac ofnasant

wneuthur un sarhad iddo, a bu hyn yn foddion i laesu yr erlid ar bawb arall.

Yr oedd cyhoeddiad John Pierce, Llanidloes, erbyn hyn, i fod yn Llanwrin, ond fe ddamweiniodd amgylchiad na ellid yn gyfleus gadw yr oedfa yn y tŷ arferol. Rhaid, gan hyny, oedd ymofyn ar frys am le arall i gadw yr oedfa, myned i gyfarfod John Pierce i Machynlleth i'w hysbysu yntau, a gwneyd yn hysbys yn yr ardal yn mha le y byddai yr oedfa yn cael ei chynal. Disgynai hyn oll ar John Evans. Aeth yn gyntaf i ymofyn mewn amryw dai am le i gadw yr oedfa, ond nid oedd neb yn foddlawn i'w derbyn; ond yn y cyfwng, ebe un Dafydd William, "Os byddi yn methu cael lle yn y byd, tyr'd ag o yma." Wedi cael cymaint a hyn o addewid, aeth John Evans, y boreu Sabboth y dysgwylid y pregethwr i Fachynlleth, i'w gyfarfod; ymofynodd drachefn am ryw un i ddod gyda'r pregethwr i Lanwrin, a rhedodd yntau ei hun o'u blaen yn ol i Lanwrin, erbyn i'r holl bobl ddyfod allan o'r llan, a chan sefyll wrth glawdd y fynwent cyhoeddodd yr oedfa i fod yn nhŷ Dafydd William. Pregethodd John Pierce y tu allan i'r tŷ, a chafodd John Evans yr hyfrydwch o weled lluaws o bobl yn myned i wrando yr un gŵr yn yr hwyr. Dywedir ddarfod cyhoeddi Mr. Sampson Thomas, o sir Benfro, yn y lle yn yr un modd.

Mewn llofft yn nhŷ Dafydd William yr ymgynullodd ychydig nifer, 5 neu 6, i gadw eu cyfarfodydd eglwysig cyntaf; a chynaliwyd ef ar ol hyn mewn tŷ a elwir y Cogsed, ac fel hyn y bu hyd nes y cafwyd lle yn muarth Mythafarn. Yr oedd yma dŷ gwag, cysylltiedig â Mythafarn, ac o fewn y buarth; yn hwn, bellach, y cynelid y moddion. Ymunodd Mrs. Watkins â'r crefyddwyr, a bu yn swcr ac ymgeledd i'r gwaith yn ei wendid, ac yn fwy felly trwy briodi y Parch. William Jones, am yr hwn y gwnawn grybwylliad eto. Wedi i Mr. a Mrs. Jones ymadael o Mythafarn, bu y pregethu mewn amrywiol dai eraill ar hyd yr ardal,—yn Bryn-melyn, Cae-Iago, Maes-y-creiau, a'r Tŷ-isa', a pharhaodd yn y wedd yma dros rai blynyddau. Ond yn y flwyddyn 1821 y codwyd addoldy. Aeth gwahanol amserau heibio ar yr achos crefyddol yn y lle hwn; weithiau ymddangosai arwyddion fod Arglwydd y winllan yn myned allan i gyflogi gweithwyr iddi; ac yn y tymhorau hyn lluosogai nifer y dysgyblion, nes bu raid codi addoldy arall heblaw y cyntaf; ond ar brydiau eraill, trwy angau a thrwy symudiadau, lleiheid y nifer; yn awr y mae yn aros tua 67. Y mae yma un pregethwr o'r enw Rowland Jones yn byw yn y lle; yr hwn, er na theithiodd nemawr oddicartref, ac felly yn anadnabyddus i'r rhan fwyaf o barthau y wlad, eto y mae yn para yn ddiwyd a chyson i lafurio yn ol ei allu a'i ddawn yn amgylchoedd ei gartref.

### Y PARCH. WILLIAM JONES, DOL-Y-FONDDU.

Ni ellir cyfrif Mr. Jones yn mysg yr "hen bobl," mewn ystyr briodol, gan mai dechreu y ganrif bresenol y cychwynodd ar ei redfa gyhoeddus yn mysg y Methodistiaid; nid oedd ychwaith yn cael ei ystyried yn y radd uchaf o ran ei dalentau, nac yn fwyaf cyhoeddus fel pregethwr teithiol; eto fe gafodd ras

i fod yn ffyddlawn. Mae ei enw fel Cristion dysglaer, fel gwladwr parchus, a gweinidog defnyddiol, yn beraroglaidd iawn. Gosodir ef yn mhlith ser dysgleiriaf y wlad hon yn ei ddydd, ac fel y cyfryw teilynga grybwylliad anrhydeddus yn hanes y cyfundeb y perthynai iddo.

Gŵr ydoedd o blwyf Trawsfynydd, Meirion, o enedigaeth. Yr oedd ei dad yn amaethwr ac yn borthmon cyfrifol, a dygodd ei fab William i fyny i'r un alwedigaeth. Yn ei ieuenctyd, fe gafodd y bachgen hwn fwy o fanteision dysgeidiaeth nag a fyddai arferol yn y dyddiau hyny; ond dangosodd, fel y gwnai ei gyfoedion, fod ei fryd ar oferedd, heb un gofal ganddo am ei achos ysbrydol gyda Duw. Ar yr un pryd, arferai wrando pregethu yr efengyl yn achlysurol, a daeth yr ystyriaeth am ei gyflwr ysbrydol yn raddol i bwyso arno, yn enwedig ar farwolaeth ei fam, yr hon a hoffai yn fawr. Nid yn ebrwydd, er hyn, yr ymunodd ag un enwad crefyddol, ond fe fu dros ryw ysbaid yn methu penderfynu â phwy yr ymgysylltai. Yr oedd ei alwedigaeth yn ei arwain i Lundain, ac yno y clywodd yr hyglod Romaine yn pregethu: effeithiodd ei weinidogaeth gymaint arno nes gogwyddo ei feddwl i ymuno yn ebrwydd ar ei ddychweliad â'r Methodistiaid.

Yr oedd ei dad yn eglwyswr selog; nid am y gwyddai nac y gofalai pa wahaniaeth sylweddol oedd rhwng Cydffurfwyr ac Anghydffurfwyr, ond am y dygasid ef i fyny gyda'r naill, ac am ei fod yn llawn rhagfarn, fel llawer o'i gyfoedion, yn erbyn y lleill. Yn yr amgylchiad hwn, dangosai yr hen ŵr ei sêl dros yr eglwys drwy warafun i'w fab gadw addoliad teuluaidd yn y tŷ! Ond yr oedd y llencyn yn penderfynu ennill ei amcan, ac i'r dyben cynygiai ddarllen gweddiau eglwys Loegr. Yr oedd hyn yn fwy boddhaol gan y tad a'r ewythr, yr hwn oedd yn byw gyda'r teulu, a rhwng bodd ac anfodd caniatawyd gweddio yn y teulu. Nid oedd y gŵr ieuanc, pa fodd bynag, yn barnu yn angenrheidiol ymgadw at y ffurf yn y llyfr; eithr tywalltai ei galon ger bron Duw, fel y rhoddid ymadrodd iddo ar y pryd, a chymaint oedd anwybodaeth y teulu, fel na wyddent nad darllen y Llyfr Gweddi yr ydoedd. Un tro, pa fodd bynag, diffoddodd y ganwyll, a chan nad oedd hyn yn dyrysu dim ar y gweddiwr, daeth yr ystryw i'r golwg, a gwaeddodd y tad, "Beth wyt ti yn ei wneyd yrwan, Wil?"—ei ewythr hefyd a gauodd ei ddwrn, ac a'i bygythiodd yn llym, er na tharawodd mohono.

Pan oedd yn 24 ml. oed, priododd wraig weddw yr hon oedd yn byw yn Mythafarn, ger Machynlleth, o'r enw Mrs. Susan Watkins, a symudodd yno i fyw. Yn mhen tuag wyth mlynedd ar ol hyn, dechreuodd ar y gwaith o bregethu, a pharhaodd i lafurio yn egniol a ffyddlawn yn ngwinllan ei Arglwydd hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd pregethu wedi cael peth lloches yn Mythafarn cyn dyfodiad Mr. Jones yno i fyw; ond wedi hyny, daeth yn fwy cyhoeddus, ac i effeithio yn fwy ar y plwyf. Ar hyn cyffrodd Mr. Hamer, yr hwn oedd y periglor ar y pryd, a gosododd yn ei fryd yru Mr. Jones, a Mr. Meredith Morgan, Maes-y-creiau, allan o'r plwyf, gan y barnai mai hwynthwy oedd colofnau cryfaf yr achos. Dygwyddodd y gŵr parchedig unwaith ddyweyd wrth ryw hen wreigan, y medrai ef gael tenantiaid i Syr

W——n, heblaw Mr. Jones, Mythafarn, a Mr. Morgan, Maes-y-creiau, ac y gosodai efe orfod arnynt, naill ai i fyned allan o'r plwyf, neu ar y plwyf. Fe lwyddodd hefyd i gael Mr. Jones o'i dyddyn, ond nid o'r plwyf; gofalodd rhagluniaeth am Mr. Jones trwy agor ffordd iddo gael tyddyn arall, nid yn mhell, yn etifeddiaeth, yr hwn sydd yn ei deulu eto; ond am Mr. Morgan, methodd y clerigiwr yn lân a'i symud ef o'i le; y mae yn Maes-y-creiau hyd heddyw, yn hen, ond yn para yn ffyddlawn gyda'r gwaith, a bendithion y ddau fyd yn ei goroni. O hyn allan bu Mr. Jones fyw yn Nôl-y-fonddu, hyd ddydd ei farwolaeth. Ymroddodd hefyd i wasanaethu Duw yn efengyl ei Fab ef, gyda diwydrwydd a ffyddlondeb tra chanmoladwy. Llanwai le mawr yn nghyfarfodydd misol y sir o hyn allan; ac edrychid arno yn un o'r colofnau penaf yn mysg ei frodyr. Rhoddwyd prawf o'r cyfrif a wnaed o hono, trwy y dewisiad a wnaed o hono i gael ei neillduo yn y fl. 1811; ac yr oedd yn un o'r wyth cyntaf yn y Gogledd a alwyd ac a urddwyd i weini Bedydd a Swper yr Arglwydd yn y cyfundeb.

Yn y modd yma yr aeth rhagddo, gan lafurio yn egniol yn ngwasanaeth yr hwn a'i galwodd, hyd ei farwolaeth, sef ysbaid 35 o flynyddoedd. Nid oedd ei amgylchiadau yn caniatâu iddo deithio llawer o'i wlad, eto fe fu rai troion trwy amryw siroedd Gwynedd, a'r Deheubarth; ond sir Drefaldwyn a fu prif faes ei lafur. Bu farw Mawrth y 1af, 1837, yn 67 ml. oed.

---

Cyn gadael glanau Dyfi, dylid crybwyll fod yma amryw o bregethwyr eto yn yr ardaloedd, megys y Peirch. Foulk Evans a Thomas Hughes, Machynlleth; y ddau yn anedig yn sir Feirionydd, ac wedi dechreu pregethu yno; hefyd David Davies, Cywarch, a Richard Jones, Aberangell. Mae yr hen bobl a ymunodd gyntaf â'r Methodistiaid, oll wedi meirw, ac nid oes o'r ail dô o honynt ond ambell un, a'r rhai hyny yn hen a methedig. "Ac yn hyn y mae y gair yn wir, Mai arall yw yr hwn sydd yn hau, ac arall yr hwn sydd yn medi. Myfi a'ch anfonais chwi i fedi yr hyn ni lafuriasoch; eraill a lafuriasant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt." Ioan iv. 37, 39.

---

## PENNOD V.

### EGLWYSI BOREUAF Y SIR A'U CANGENAU.

CYNWYSIAD:—

LLANWYDDELAN—YSGOGIADAU BOREAF YR ACHOS YN Y FRO—YR HEN GYNGHORWYR—ERLID GAN FONEDDWR—HOWEL HARRIS YN PREGETHU—JEREMIAH WILLIAMS—JOHN THOMAS, RHOS-FAWR—THOMAS ROWLAND—JOHN DAVIES Y CENADWR—PREGETHU YN YR ARGOED—LEWIS EVAN A'I FRAWD JAMES—Y PREGETHWYR A GODODD YN LLANWYDDELAN—ROBERT ROBERTS, CLYNOG, YN PREGETHU YN YR ARDAL—BARN DUW AR AFLONYDDWYR EI ADDOLIAD—LLANGYNOG—BRITHDIR, &c.

### LLANWYDDELAN.

Yr oedd cymdeithas fechan o grefyddwyr Methodistaidd yn mhlwyf Llanllugan, yr hwn sydd yn terfynu ar blwyf Llanwyddelan, mor foreu a'r fl.

1743. Yr ydym yn darllen adroddiad am dani i'r gymdeithasfa, gan Richard Tibbot, yn y flwyddyn hòno, yn Nghofnodau Trefecca.* Yr oedd yn y gymdeithas hon ar y pryd 20 o aelodau, gan mwyaf yn bobl ieuainc. Yn y fl. 1744, fe ysgrifena Richard Tibbot am gymdeithas Llanllugan,—" Nid yw cymdeithas Llanllugan ond lled wan mewn gras, ac felly rhoddir cryn le i'r byd, i anghrediniaeth, a meddyliau culion am eu gilydd, yn eu meddyliau, eto y maent mewn hwyliau hyfryd, weithiau, wrth wrando." Nid oes genym ddim i'w draethu am y pregethu boreaf yn yr ardaloedd hyn, heblaw fod sierwydd fod yma rai pregethwyr cartrefol yn arfer ymweled â'r ardal, ac yn arolygu y gymdeithas eglwysig. Yn eu mysg yr oedd Lewis Evan, a'i frawd James; un Evan Dafydd, o blwyf Llanfair; ac un John Thomas a Dafydd Jehu. Cyfeiria Tibbot at lafur y gwŷr hyn mewn adroddiad diweddarach na'r un uchod. Fel hyn yr ysgrifena, " Y mae derbyniad i'r brawd Thomas Meredith yn Mochdre, a gobeithiwyf fod yr Arglwydd yn ei nerthu i fod yn ddefnyddiol yn eu plith. Mae John Thomas, Evan Dafydd, a Dafydd Jehu, yn arfer llefaru yn *Llanfair*, ac weithiau yn *Llanllugan*, ac y mae gan rai dderbyniad iddynt, ond ni wn i am ddim gwaith neillduol wedi ei wneyd ganddynt neu trwyddynt." Yn yr un adroddiad y mae yn cwyno fod cryn farweidd-dra wedi disgyn ar y gymdeithas fechan yn y lle hwn. Pa hyd y parhaodd yr ychydig enwau ag oedd yma i gyfarfod â'u gilydd, nis gwyddom; a pha un ai para i wneyd hyny neu beidio a wnaethant, ni allwn sicrhau, gan nad oes genym ddim o'i hanes wedi y fl. 1745 dros gryn amser. Yr oedfa gyntaf y mae *hanes* genym am dani, am mai hi oedd y gyntaf, mae'n debyg, a dim *hynodrwydd* arni, a gynaliwyd ar ddarn o dir agored yn agos i eglwys Llanllugan. Enw y pregethwr oedd John Evans, Cil-y-cwm. Yr oedd bagad o bobl wedi ymgynull i wrando; ond yn fuan ar ol dechreu y bregeth, daeth gŵr boneddig o'r enw Devereux, yr hwn oedd yn ŵr o gyfoeth a dylanwad yn y plwyf, i'r lle, ac a ymosododd yn grenlawn ar y pregethwr. Yr oedd yn ei ganlyn haid o oferwyr parod i wneyd ei gais yn hyn o orchwyl, y rhai a luchient y dyeithr-ddyn yn gethin â cherig, tom, ac wyau gorllyd, nes y gorfu iddo roi heibio pregethu. Wedi ei faeddu yn Llanllugan, aeth John Evans, a rhyw nifer o'r gynulleidfa gydag ef, dros yr afon i blwyf Llanwyddelan, a chafodd lonydd yno i draethu ei genadwri.

Ond er maint oedd ymgyrch yr erlidwyr i attal y gwirionedd trwy anghyfiawnder a thrais, y mae yn aros hyd heddyw yn y ddau blwyf uchod, pryd y mae teulu yr erlidiwr crybwylledig, er eu bod unwaith yn gyfoethog iawn, ac yn fawr eu dylanwad, wedi syrthio i iselder a thlodi. Gwerthwyd eu hetifeddiaeth o fewn cof fy hysbysydd,† a meddiannir y rhan fwyaf o honi gan hiliogaeth y rhai a dderbyniasant yr efengyl.

Nid oes hysbysiad pa effeithiau a ddylynodd ymweliad John Evans â'r fro y tro hwn; ond yn fuan ar ol hyn, daeth Howel Harris i'r ardal; ac yn mhlwyf Llanllugan y pregethodd yntau. Daeth yr erlidiwr Devereux i'r

* Gwel adroddiad arall o'i eiddo, Cyf. I, tudal. 130. † Parch. Richard Jones, Llanfair

oedfa hon hefyd, ond efe a fethodd yn ei amcan y tro hwn. Yr oedd y fath nerthoedd yn cydfyned â'r weinidogaeth, "nes yr oedd dynion yn ymrwygo, ac yn ysgrechian gan ddychrynfeydd y farn." Ymddengys fod amryw wedi cael eu dychwelyd yn yr oedfa hon, ac yn mysg ereill Jeremiah Williams, yr hwn a fu yn pregethu ar ol hyn am 54 o flynyddau. Ymddengys fod hyn cyn y fl. 1760; ac yn fuan ar ol y bregeth hon y bernir i'r rhai a ddeffrowyd trwy y gwirionedd ail gychwyn eu cymdeithas eglwysig, yr hon, fel yr ymddengys, oedd naill ai wedi gwywo i raddau mawr, neu wedi llwyr ddarfod, cyn ei hadnewyddu y pryd hwn. Ond nid oedd neb a agorai ei dŷ i'w derbyn; ac o ganlyniad, ymgyfarfyddent yn y nos dan bren Afallen fawr, yn agos i le a elwir Cefn-caled, yn mhlwyf Llanwyddelan. Wedi bod yn ymgynull dros ryw dymhor dan yr Afallen, symudodd un o'r enw Phillips o ryw le i Dolmarch, ac agorodd ei dŷ i'r oedfaon cyhoeddus, ac i'r cyfarfodydd eglwysig. Tra yr oedd y frawdoliaeth fechan yn ymgyfarfod yn y lle hwn, daeth rhyw ddaroganiad i feddwl Jeremiah Williams yn ystod yr wythnos flaenorol, y gelwid arno ef yn y cynulliad eglwysig nesaf i weddio. Dan y syniad hwn, ymosododd yntau at y gwaith o barotoi; a bu yn ddiwyd yn cyfansoddi, yn ysgrifenu, ac yn dysgu y weddi yn dda. Troes ei ddysgwyliad allan yn gywir, a galwyd arno i weddio. Aeth Jerry ar ei liniau, yn bur hyderus, ond gyda'i fod ar lawr, ac iddo gau ei lygaid, ciliodd ei weddi bob gair, gan ei adael mewn tywyllwch fel y fagddu. Cafodd ei falchder a'i hyder, yn ddiau, yn y tro hwn, archoll dwfn, y fath fel na lwyr anghofiodd yr amgylchiad dros ei oes.

Y lle nesaf a ymagorodd i dderbyn pregethu iddo oedd y Felin-isaf, yn mhlwyf Llanllugan, ac yn ymyl y fan y bu John Evans yn ceisio pregethu. Yn y tŷ hwn yr oedd un William Thomas yn byw, mab i'r hwn oedd John Thomas, Rhosfawr, plwyf Llanfair, yr hwn a fu yn bregethwr ffyddlon a chymeradwy; ac y mae ei ŵyrion a'i or-ŵyrion yn aelodau gyda'r Methodistiaid hyd heddyw.

Ymddengys fod y William Thomas hwn o gymeriad da fel Cristion, a'i fod yn un o'r rhai cyntaf o'r crefyddwyr boreu hyny. Dywedir yn adroddiad Richard Tibbot i'r gymdeithasfa yn y fl. 1744, am un William Thomas, aelod o gymdeithas Llanllugan, "Ei fod yn ymorphwys ar Dduw trwy ffydd, ond nad oedd eto yn mwynhau llawer o gysur mewn dim." Fe fu ei dŷ yn agored i'r efengyl am flynyddau lawer, yr hon y mae y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth, bellach, yn mwynhau ei bendithion.

Yn mhen talm o amser, symudwyd y moddion o Lanllugan i le a elwir Llwyn-capa, yn Llanwyddelan. Yr achlysur o hyn ydoedd dyfodiad crefyddwr cywir a gweithgar, o'r enw Thomas Rowland, yno i gyfaneddu. Symudodd yno o'r Wtre-wen, ger Llanfair. Yr oedd wedi bod yn un o ddau grefyddwr yn holl blwyf eang Llanfair, ac yn ei dŷ ef y bu yr achos nes yr adeiladwyd capel yr Adfa. Bu Thomas Rowland yn hynod o ffyddlawn a haelionus am flynyddau lawer; yr oedd ei dŷ, ei amser, a'i feddiannau, at wasanaeth crefydd. Gofynai rhyw un iddo, "Pa fodd yr oedd yn llwyddo

cymaint yn ei amgylchiadau bydol?" Ei ateb oedd, "Fod meddiannydd nefoedd a daear, yn rhoddi iddo ef, fel y gallai yntau roi at achos y Gwaredwr."

Teithiai y gŵr hwn yn fynych i Langeitho, ac un amcan ganddo, oedd cael pregethwyr i Lanwyddelan yn neillduol, ac i'r sir yn gyffredinol; a dywedir am dano, os methai eu cael â *geiriau*, fe fyddai yn sier o lwyddo â *dagrau*. Llwyddodd ei ddagrau, meddir, i gael un gymdeithasfa i Lanwyddelan; a dyma y pryd yr agorwyd y capel cyntaf. Pan yr oedd eraill yn taeru am y gymdeithasfa, dywedai Mr. Rowlands, "Gadewch i Thomas, druan, ei chael; nid oes neb o honoch yn wylo am dani ond efe."

Cydwasanaethodd amrywiol amgylchiadau i beri i Fethodistiaeth ymwreiddio ac ymeangu yn Llanwyddelan. Diau y bu llafur Thomas Rowland yn cyrchu pregethwyr yno yn un moddion effeithiol. Yr oedd yn Llanllugan, yn nghylch y pryd hwn, offeiriad hynod o feddw (!) Dygwyddodd iddo un Sabboth gysgu yn y pulpud. Wrth ganfod hyn, torodd un hen ŵr allan i lefain, "Dowch oddiyma bobl, yn lle *mocio* gair yr Hollalluog!" Parodd y dygwyddiad hwn a'i gyffelyb i amryw ymadael o'r llan, ac ymroddi i wrando y Methodistiaid. Peth arall a fu yn fendithiol iawn i'r un dyben, oedd sefydliad ysgol rad yn y gymydogaeth. Yn fuan wedi dechreu yr achos yn Llanwyddelan, a chyn adeiladu y capel, bu yno ysgolfeistr o'r enw Dafydd Williams; yr hwn hefyd oedd yn bregethwr canmoladwy a phoblogaidd. Fe fu llafur y gŵr hwn, fel ysgolfeistr a phregethwr, o fudd i lawer. Ennillai y plant yn gyntaf, a'r plant a enillent eu rhieni, i wrando, a thrwy wrando fe ddygwyd dynion perffaith ddiofal am grefydd, i'w chofleidio a'i lledaenu. Nid oes sicrwydd pwy oedd y Dafydd William hwn. Yr ydym yn cael pedwar o'r enw hwn, mewn un cyfarfod a gynaliwyd yn y fl. 1744; ond pa un o honynt nid yw hysbys; neu a oedd ef yn un o honynt sydd ansicr; ac nid yw ychwaith o gymaint pwys.

Yn ddiweddarach, fe fu John Davies, y Cenadwr, fel y'i gelwir mewn modd o hynodrwydd, am mai efe oedd y cyntaf, mae'n debyg, o blith y Cymry a anfonwyd i fysg y paganiaid;—fe fu hwn, meddir, yn cadw ysgol yn Llanwyddelan, ac o fudd i lawer. "Cofus genyf glywed fy mam yn dywedyd," ysgrifena y Parch. Richard Jones, Llanfair, "fod yno wylo mawr yn Llanwyddelan pan oedd ef yn ymadael." Nid oes amheuaeth na fu yntau o fuddioldeb mawr yn y lle hwn. Tua 60 ml. yn ol, yr oedd Thomas Meredith, pregethwr canmoladwy gan y saint, yn cadw ysgol yn y lle. Fe fu ymddyddanion difrifol hwn hefyd â'i ysgolorion, yn fendithiol iawn i amryw o honynt. Cawn esampl o un sydd eto yn fyw, neu a oedd felly yn ddiweddar, o'r effeithiau da a ganlynai gyfarchiadau difrifol yr ysgolfeistr hwn. Aeth hon yn ferch ieuanc wyllt ac anystyriol ato i'r ysgol am bymthegnos; yntau a ymroes i alw ei hystyriaeth at achos drwg ei henaid anfarwol. Effeithiodd yr ymddyddan arni yn anarferol; cymaint felly nes i'w chyfoedion dybied ei bod yn gwallgofi. Mae hon wedi bod yn aelod eglwysig, bellach,er ys 60 ml., ac mor gyson fu ei rhodiad fel na fu dan un math o gerydd eglwysig

dros yr holl amser. Difyr ydyw ei chlywed yn adrodd helynt y daith, ac yn datgan daioni Duw tuag ati; a thystiai yn ddibetrus mai ymddyddanion yr ysgolfeistr gynt a fu yn foddion ei chychwyniad.

Yn fuan ar ol dyfodiad Harris i'r wlad hon y tro cyntaf, cododd amryw gynghorwyr, ac yn mysg y rhai hyny, os nad yr hynaf oll, yr oedd Lewis Evan o'r ardal hon. Gan ein bod eisoes wedi olrhain cryn lawer ar ei hanes, afreidiol chwanegu nemawr. Gyda bod ei lafur a'i ddyoddefiadau mewn gwahanol barthau o'r dywysogaeth, yn chelacth a nodedig, nid yw ei gymydogaeth ei hun ddim heb gyffelyb brofion o'i ffyddlondeb a'i sel. Efe a bregethodd gyntaf yn mhlwyf Tregynon, yn agos i le a elwir yr Argoed. Nid derbyniad gwych a gafodd yn y lle hwn. Yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, dyma gawod o bridd a thom yn gymysgedig â cherig yn disgyn arno, fel nad oedd nemawr obaith iddo allu myned yn mlaen. Ond yn y cyfwng, ymddangosodd fod amaethwr parchus o'r enw Mr. Llwyd yn y dyrfa, yr hwn hefyd oedd yn Warden y flwyddyn hòno;—hwn a ddaeth yn mlaen gan waeddi ei fod ef yn swyddog yn y plwyf, ac y mynai efe lonydd i'r pregethwr. Ar hyn, llonyddodd y cyffro, ac aeth y pregethwr rhagddo; bendithiodd Duw y bregeth, a galwyd merch i Mr. Llwyd drwy ras. Priododd hon un Mr. Owen Brown, yr hwn hefyd oedd grefyddwr. Yn yr Argoed yr oedd Mr. Llwyd yn byw, yr hwn le sydd wedi bod yn lloches dda i achos yr efengyl hyd heddyw. Yn agos i'r lle y pregethai Lewis Evan y tro cyntaf hwn, y mae capel yn ddiweddar wedi ei godi dan yr enw Gerasim.

Yr oedd i Lewis Evan frawd o'r enw James Lewis yn bregethwr ffyddlon. Nid oes genym nemawr hanes am deithiau o'i eiddo ef, na dim ymgyrchion gormesol arno, o'r fath a berthynai i'w frawd; eto fe geir ei fod yntau wedi gwasanaethu yr efengyl yn ei deulu a'i ardal yn ddiwyd a ffyddlawn. Bu un mab iddo yn ddiacon ffyddlawn yn Llanwyddelan am dymhor maith; ei enw oedd Richard Lewis, ac y mae ŵyr iddo yn yr unrhyw swydd heddyw. Fe fu mab arall i James Lewis yn bregethwr dros dymhor. Yr oedd hwn yn fardd da, meddir, ac yn meddu ar wybodaeth helaeth, a graddau o hyawdledd, ond oblegid rhyw ddyryswch yn ei amgylchiadau, efe a roes heibio bregethu flynyddau cyn ei farw. Mae crefydd wedi para ac ymdaenu yn hynod yn y teulu hwn.

Heblaw Lewis Evan, a'i frawd, a'i nai, fe gododd amryw, ïe, lluaws o bregethwyr, yn Llanwyddelan o bryd i bryd. Yr ydym wedi enwi Jeremiah Williams eisoes, yr hwn a fu yn llafurio am yr ysbaid o 54 o flynyddoedd.—Hefyd:—

*Thomas Jones*,—yr hwn oedd yn meddu ar ddoniau hyfryd.

*John Thomas*,—wedi hyny o'r Rhos-fawr.

*Edward Gwalchmai*,—tad y diweddar Humphrey Gwalchmai. Yr oedd hwn yn ŵr hynod o brydferth, ac mewn amgylchiadau cysurus yn y byd. Cafodd ei ddwyn i fyny mewn ysgolion da, ac yn meddu ar raddau helaeth o ddysgeidiaeth; o leiaf, rhagorai lawer ar ei gymydogion yn hyn, cymaint felly nes oedd syniad yn mysg yr hen bobl am dano, ei fod, cyn ei droedig-

aeth, yn medru codi a bwrw i lawr ysbrydion drwg. Daeth hwn i fod yn bregethwr cymeradwy iawn.

*Humphrey Gwalchmai ei fab,*—am yr hwn yr ydym wedi crybwyll, yn hanes Llanidloes, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes gyhoeddus, er mai Llanwyddelan oedd ei le genedigol, ac mai yma y dechreuodd ef bregethu.

*Thomas Griffith,*—llafuriodd y gŵr dirodres hwn yn ffyddlawn, a hyny drwy gryn lawer o gystudd corff, a thlodi sefyllfa. Cafodd yr anffawd o gael gwely llaith pan oedd ar daith gyda Mr. Jones, Dol-y-fonddu, yn sir * * * Ar ol hyn ni fu iddo nemawr o iechyd. Bu farw yn Llangefni, pan ar ei daith yn Môn.

*Thomas Davies,*—yr hwn oedd yn "frawd anwyl, ac yn weinidog ffyddlawn." Bu farw yn nghanol ei ddyddiau o'r frechwen, yn 49 ml. oed, yn y fl. 1842.

*Richard Newell,*—nid oes ond ychydig fisoedd er pan ymadawodd y brawd hwn o'r byd. Yr oedd er ys llawer blwyddyn wedi symud o ardal Llanwyddelan i'r Plas-bach yn agos i Lansantffraid-yn-Mechan.

Cododd pregethwyr eraill yn Llanwyddelan, y rhai sydd eto yn aros; o'u nifer y mae Mr. Richard Mumford neu Bumford, y Parch. Thomas Francis, yr hwn a symudodd i Wrecsam; a'r Parch. Richard Jones, yn awr o Lanfair.

Tua'r fl. 1782, ymwelodd yr Arglwydd â'r ardal â diwygiad nerthol. Yr oedd annuwioldeb cyhoeddus yn gwywo o'i flaen, a gwnaed yr eglwys yn llawen-fam plant. Yn y diwygiad hwn y galwyd R. Lewis, a Thomas Jones, ac eraill, y rhai a fuont ddefnyddiol mewn mesur mwy neu lai dros eu hoes. Ac er i'r gelyn ddod i mewn, a gwneyd anrhaith o rai, trwy eu hyspeilio o'u hanrhydedd, eto cafodd llawer feddiant o grefydd dda, y rhai a fuont ffyddlawn hyd angeu. Fe fu yma amryw o ddiwygiadau grymus ar ol yr un uchod, trwy y rhai, yn ol pob sicrwydd, y cafodd cannoedd eu hachub, ac y codwyd Methodistiaeth i wedd anrhydeddus yn y fro fynyddig hon.

Sonir llawer gan yr hen grefyddwyr am rymusder gweinidogaeth Robert Roberts, Clynog, pan y deuai ar ei hynt i'r ardal. Cynyrchodd ei weinidogaeth danbaid ffrwyth lawer. Gan y nerth a amwisgai ei bregethau, yr oedd annuwiolion yn gwelwi o'i flaen, a'r cestyll yn cael eu bwrw i lawr ganddo. Yr oedd y son am dano yn cerdded o'i flaen fel y bu gyda Jonah yn Ninefeh, a sugnai gynulleidfaoedd lluosog i'w wrando, ac yn eu plith, yn fynych, y byddai pen-campwyr y diafol. Yr oedd, y pryd hwnw, yn Llanwyddelan, fel yn mhob parth o Gymru, luaws mawr o gampau ofer ac ynfyd, ac yn y fro hon arferent ddewis swyddog penodol am ysbaid blwyddyn i arolygu y campau hyny.* Dygwyddodd fod un Richard Mumford yn y swydd pan ddaeth Robert Roberts unwaith i'r wlad. Oddiar rhyw gymhelliad neu gilydd, aeth ef, ac eraill o'i gyd-oferwyr, i'r oedfa, Richard a ddaliwyd; amgylchwyd ef gan rwyd yr efengyl, a gorfu iddo wylo yn hidl ynghanol ei gymdeithion.

* Fel steward y *Race course* yn awr.

O hyn allan collodd bob mwynhad yn ei hen orchwyl, a gadawodd ei hen gymdeithion dros byth. Mae hwn, bellach, yn hen bregethwr.

Mae Methodistiaeth wedi ymledaenu llawer yn yr ardaloedd hyn. Cododd amryw fân-eglwysi o amgylch, y rhai a addefant Lanwyddelan yn fam; megys Tregynon, Beulah, Carmel, a Horeb. Ymunodd rhai teuluoedd o gyfoeth â'r achos yn Nhregynon, a hyny yn ei wendid, sef Mri. Colley, a Soley. Priododd y cyntaf Miss Bowen, o'r Tyddyn, yr hon ynghyda'i chwiorydd Mrs. Tees a Miss Bowen, a fuont yn aelodau gyda'r Methodistiaid dros eu hoes yn yr Amwythig. Mae meibion i Mr. Soley eto yn ddiaconiaid parchus, un yn Nhrefaldwyn,* a'r llall yn y Drefnewydd, hyd y dydd hwn.

Cof gan y darllenydd, fe allai, weled yn "Nrych yr Amseroedd," hanes cyfarfod misol a gynaliwyd yn Mynafon. "Erbyn dyfod ynghyd," ysgrifena Robert Jones, "i'r cyfarfod hwn, yr oedd yno ddarpariaeth go ryfedd wedi ei barotoi yn eu herbyn. Gorchymynodd yr eglwyswr parchedig ganu y gloch; danfonodd yn mhell am *drum* a rhyw offer eraill, megys padell ffrio, &c., y rhai fyddent debycaf o ddyrysu y cyfarfod. Dechreuodd y ddwy oedfa ar unwaith, y gŵr urddasol yn trefnu ei fyddin, a bagad o'r gwerinos dylion yn trin eu celfi trystfawr yn dra ewyllysgar, ac yn eu mysg y clochydd, yr hwn sydd yn rhwym i ddyweyd amen yn wastad gyda'i feistr. Ond am yr oedfa arall, nid oedd arfau milwriaeth hono ddim yn gnawdol, ond yn nerthol, trwy Dduw, i fwrw cestyll i'r llawr; ac ni lwydda un offeryn a lunir yn erbyn yr efengyl. Ac er yr holl drwst a'r terfysg, methasant attal sain drum yr efengyl. Cafodd y gwrandawyr hamdden i glywed gair y gwirionedd, ac ymadael yn siriol."

Y cyfryw ydyw y darluniad a ddyry yr hybarch hanesydd o gwrdd misol Mynafon; y cyntaf, yn ddiau, a fu yno erioed; a'r olaf hefyd, o leiaf dros faith flynyddau. Ymddengys i'r ardal hon gael ei gadael gan y Methodistiaid am dymhor maith; ac yr oedd y fro yn nodedig am bob math o annuwioldeb. Tua dechreu y ganrif hon, pa fodd bynag, ymosododd y Methodistiaid arni eilwaith, ac yn awr y mae capel Beulah yn sefyll yn y lle y bu gorseddfainc Satan, ac o fewn milldir i'r lle y cynaliwyd y cyfarfod misol gynt.

Yn y wlad hon, fe wiriwyd yr hyn a honasom o'r blaen, fod Methodistiaeth wedi derbyn ysgogiad nerthol a llwyddiannus iawn trwy gyfodiad yr ysgol Sabbothol. Yr oedd lluaws o wŷr cymhwys i fod yn athrawon wedi cael eu magu ar aelwyd yr hen fam yn Llanwyddelan; a phan y gwawriodd y ganrif bresenol, neu yn fuan wedi'n, torodd allan o Lanwyddelan luaws o athrawon yn llawn awyddfryd gwresog i wneyd a allent i arlcesi yr anial gwyllt o'u hamgylch. Felly ymosodasant ar Langadfa, Llanerfyl, Mynafon, Llanwnog, a manau eraill yn mhlwyf Llanfair; ac erbyn hyn y mae capelau wedi eu codi ynddynt, ac eglwysi bychain wedi eu planu. Golwg hyfryd, yn ddiau, a gawsai Cristion brwdfrydig, pe codasid ef, tua dechreuad y ganrif bresenol,

* Wedi ysgrifenu hyn, daeth y newydd fod y gŵr hwn wedi marw.

i le digon uchel, a rhoddi iddo lygaid digon craff, i weled holl barthau y dywysogaeth. Canfyddasai filoedd o ddynion a brofasent felusder yr efengyl eu hunain, yn troi allan ar y dde ac ar yr aswy i arloesi y ffordd o'i blaen. Gwel'sai gannoedd o ddrysau newyddion yn ymagor i groesawu gair Duw, a miloedd ar filoedd o ieuenctyd yn ymgasglu i'w ddysgu! Golygfa na welsid ei chyffelyb erioed o'r blaen. Ysgogiad yn llawn bendithion i "drueiniaid y mynyddoedd, a'r glynoedd a'r gîl!" Edrychodd Duw i lawr o'r nefoedd, a bu foddlawn i'r amcan; anfonodd ei Ysbryd, ac adnewyddwyd wyneb y ddaear.

Anhawdd ydyw i feddwl ystyriol a diragfarn beidio llochi y syniad fod rhagluniaeth yn hòni yr hawl i sefyll dros y rhai a noddent yr efengyl, yn gystal ag i ddangos gŵg yn erbyn ei gorthrymwyr, wrth olrhain ei helyntion yn Nghymru tua dechreuad y diwygiad Methodistaidd. Canfyddwn fod y syniad hwn yn cael ei gadarnhau trwy ryw amgylchiadau cysylltiedig â'r ardal hon. Un tro, pan oedd Jeremiah Williams yn pregethu, mewn lle a elwir Dolgwyn-felyn, sylwyd fod yn y gynulleidfa dri o bobl ieuainc, dau fab ac un ferch, yn ymroddi i aflonyddu. Erfyniodd y pregethwr arnynt lawer gwaith i ymdawelu, ond yn gwbl ofer; yn hytrach, parai hyn iddynt gynhyrfu yn fwy, a'i herio yntau yn waeth. Ymattaliodd y pregethwr dros enyd; ac wedi ail ddechreu, galwodd sylw y gynulleidfa, gan ddyweyd, fod argraff cryf ar ei feddwl y deuai y tri aflonyddwr yn fuan i ddiwedd echrydus!

Yr oedd un o'r tri wedi dianc oddiwrth ei fyddin. Yn fuan wedi hyn, fe'i daliwyd, ac hebryngwyd ef ymaith o'i fro, ac ni chlybuwyd mwy am dano. Yn agos i'r un amser, cymerodd y ferch ieuanc wenwyn, a bu farw yn hunanleiddiad! A'r trydydd, o'r hwn yr oedd y ferch yn feichiog, a fu farw yn fuan mewn dychrynfeydd annyoddefol!

Nid yn mhell oddiwrth yr un gymydogaeth, yr oedd gŵr arall yn pregethu (nid yw ei enw yn hysbys yn awr), yn agos i goeden fawr, yn yr awyr agored. Dringasai dau frawd i'r goeden, a difyrent eu hunain yn mrigau y pren, trwy nadau blin, o wir ddyben i anhwylio y pregethwr, a dyrysu y cyfarfod. Dymunodd y pregethwr arnynt yn fwynaidd a mynych i fod yn ddystaw, ond nid oedd dim yn tycio; ac o'r diwedd dywedodd mewn modd cyffrous, ei fod yn credu y byddai llaw Duw yn erbyn y dynion hyny mewn amser byr, ac mewn modd disymwth! Yn gyfatebol i'r daroganiad, ar ryw ganol dydd hyfryd yn yr haf, aeth y ddau frawd gyda'u gilydd i ymdrochi mewn afon fechan, a chafwyd y ddau wedi boddi, heb neb yn gallu dywedyd pa fodd! "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw!"

### LLANGYNOG.

Mae Llangynog yn gorwedd agos ar derfyn gogleddol y sir, ar y ffordd o Lanfyllin i'r Bala. Mae yn llechu mewn dyffryn bychan tlws, wedi ei gylchynu gan fynyddoedd uchel, ac yn mhell oddiwrth bob tre' farchnad. Bernir mai tua'r fl. 1770 y bu y bregeth gyntaf gan neb o'r Methodistiaid

yn y plwyf. Cadwyd yr oedfa hon yn nhŷ un Thomas Hugh, a elwid yr Eithin. Perchenogid y lle gan un John Evans, o Franas, a chafwyd cenad gan y perchenog, am unwaith yn unig, i gadw yr oedfa. Y pregethwr oedd Siôn Moses, o'r Bala, taid y diweddar Barch. John Jones *(Tegid)*, Periglor Nefern, sir Benfro. Yn fuan ar ol hyn, daeth y Parch. Peter Williams heibio, wrth fyned o Lanfyllin i'r Bala, a phregethodd yn gyntaf ar fin y ffordd, yn ymyl y lle a elwir Pen-y-garnedd, a thrachefn yn Llangynog, ar gareg farch, yn ymyl tŷ tafarn. Ar ol hyn fe ddeuai y pregethwyr, ag oedd yn preswylio tref a chymydogaeth y Bala, yn fynych i ymweled â'r ardal, megys Siôn Moses, John Evans, a William Evans, o'r Fedw-arian. A chan fod y lle yn gorwedd yn gyflens o ranau isaf sir Drefaldwyn i'r Bala, fe geid ambell un, yn awr ac eilwaith, o bregethwyr enwog y Deheudir, i ymweled â'r ardal. Yr oedd yr hen gampau a gedwid, ymron, yn mhob man yn Nghymru, yn y ganrif ddiweddaf, yn fawr iawn eu rhwysg yn Llangynog. Ymddifyrai y trigolion, heb nemawr eithriad, mewn *Interludiau*, gŵyl-mabsantau, ymladd ceiliogod, a throedio y bêl. Ond yn y cyfamser, anfonwyd yma ysgolfeistr o'r enw William Matthews, i gadw ysgol ddyddiol yn eglwys y plwyf. Bu y gŵr hwn o wir fendith i'r gymydogaeth. Rhoddai ei wyneb yn egniol o blaid llafur y pregethwyr Methodistaidd a ddeuent yno, a gwnai a allai i ddarostwng yr annuwioldeb pen-uchel a anurddai yr ardal.

Yr oedd pregethwyr y Bala yn para i ddyfod, a phregethent mewn lle a elwid Blaen-y-cwm, yn y Pennant; ac oddiyno i le gyferbyn a Llangynog, a elwid y Cloc. Yn y lle diweddaf hwn y bu y moddion yn cael eu cynal dros ryw ysbaid, ond nid heb beth aflonyddwch, a'r un a fu yn fwyaf blin wrthynt oedd gweinidog y plwyf. Hwn a ddeuai arnynt, yn awr ac eilwaith, yn gyffrous a llidiog iawn, gan ymosod arnynt yn ddiarbed, a'u curo; a chymaint oedd yr aflonyddwch oddiwrtho, ag y bu gorfod arnynt symud eu lle. Ar ol hyn, dros dymhor hir, ymgynullent mewn hen ysgubor, a chadwent eu cyfarfodydd eglwysig mewn tŷ gerllaw, sef tŷ Evan Parry. Yn nhŷ y gŵr hwn yr arferai y pregethwyr letya. Yn fuan, bellach, cymerasant hen dŷ anedd dan ardreth, gan ei adgyweirio a'i gymhwyso i fod yn addoldy bychan; ac er mwyn llonyddwch i gyfarfod ynddo yn ddiogel oddiwrth sarhad yr erlidwyr, gosodasant yr addoldy dan nawdd y gyfraith, yr hyn a fu yn foddion "i ostegu y gelyn a'r ymddialydd."

Ond er cael lle penodol i addoli, a chael llonyddwch oddiwrth erlidigaeth uniongyrchol, nid oedd yr achos ond isel a gwael yr olwg. Nid oedd nifer y dysgyblion ond bychan iawn, ac oll, ymron, yn dlodion. Yr oedd y tŷ yr ymgynullent ynddo yn fychan, a llwydaidd iawn, eto fe welodd yr Arglwydd yn dda ymweled â'i drueiniaid hyn ag adfywiad grymus; rhoddwyd nerth mawr yn y weinidogaeth nes oedd swn a chynhwrf yn mhlith yr esgyrn sychion;—sugnai hyn lawer mwy i wrando;—rhoddid argraffiadau difrifol ar gydwybodau llawer, fel na allent lai na pharchu yr achos a ddiystyrasid gymaint ganddynt o'r blaen. Yr oedd y gwaith yn ymeangu ac yn ymwreiddio yn gyflym, ac nid oedd dim amlycach nad arwydd oedd hyn o foddlonrwydd

y nefoedd iddo, gan nad mor fychan oedd ei gychwyniad, mor anwiw oedd yr offerynau, mor gryf oedd y rhagfarn a'r gwrthwynebiad, ac, ar y llaw arall, gan nad mor ddaionus oedd yr effeithiau, ac mor ddiamheuol oedd y llwyddiant.

Ar yr un pryd, yr oedd llawer o hen arferion y gymydogaeth yn parhau yn eu rhwysg. Oblegid, er ennill amryw i ymroddi dan iau Crist, nid oedd eu nifer ond ychydig iawn mewn cydmhariaeth, a phrin y gwybyddid eto fod achos gan yr Arglwydd yn y fro. Ond yr oedd gwawr yr ysgol Sabbothol wedi tori ar Gymru. Erbyn hyn, yr oedd Mr. Charles a'i gyd-weithwyr ar y maes, a chychwynwyd yr ysgol Sabbothol yn yr ardal hon hefyd; ond fe wnaed hyn mewn dull, a thrwy foddion lled ddiolwg. Dechreuwyd hi nid yn y pentref, ond yn ardal y Pennant;—nid gan y rhai a flaenorent yr achos crefyddol, ond gan wraig weddw o'r enw Mrs. Sidney Jones, yr hon a fu yn ffyddlawn a llafurus gyda'r gorchwyl dros ryw dymhor, a llwyddodd i ddysgu y rhan fwyaf o ieuenctyd ei hardal i ddarllen gair Duw. Yn mhen rhyw gymaint o amser, dechreuwyd ysgol yn Llangynog. Yr oedd yma fawr angen am y fath sefydliad. Yr oedd y chwareu pêl ar dalcen yr eglwys yn ei lawn rwysg yn y pentref; y gwŷr a'r gwragedd yn eistedd ar fur y fynwent i edrych ar y bechgyn yn chwareu, a'r person, yntau, yn ei ardd gerllaw, yn gwasanaethu yn ddyfal i ddwyn y gwaith ennillfawr (?) yn mlaen, trwy daflu y bêl yn ol os dygwyddai fyned trosodd i'w ardd; y Sabboth yn cael ei halogi gan bob gradd, heb fod neb yn meddwl am ei enaid. Pan oedd pethau yn y wedd hon, yr ymosodwyd at godi ysgol Sabbothol yn y pentref. Ac yn fuan ar ol hyn, dechreuwyd ysgol arall yn Rhiwarth. Yr oedd y cwm hwn hefyd yn suddedig mewn tywyllwch ac anfoes. Arferai lluaws o benau teuluoedd ymgasglu at eu gilydd ar brydnawn Sabbothau, i ymddyddan am yr hela, neu yr ymladd ceiliogod a fuasai yn y fro, neu ynte am y ffair, y farchnad, neu helyntion eu cymydogion. Blinai hyn feddwl gŵr crefyddol ag oedd yn byw yn Mlaen Rhiwarth, a barnodd mai y moddion tebygaf i ddileu y cynulliadau hyn, oedd dwyn ysgol Sabbothol i wahanol dai yn y gymydogaeth yn olynol; ac i bob tŷ yr âi yr ysgol, yr oedd y tŷ hwnw mwyach yn gauedig rhag yr hen gynulliadau. Fel hyn, wrth eu symud o dŷ i dŷ, a rhoddi blas i'r preswylwyr ar bethau annhraethol mwy sylweddol a pharhaus, fe ddarostyngwyd yn llwyr yr hen gyfarfodydd, fel nad oes yn awr ond coffadwriaeth prin am danynt. Adeiladwyd ysgoldy gan Robert Jones,* ar y llannerch y byddai yr ieuenctyd amser yn ol yn cadw twmpath chwareu arno; yr hwn ysgoldy a gododd gan mwyaf, os nad yn hollol, ar ei draul ei hun.

Oddeutu y fl. 1807, anfonodd Mr. Charles i'r lle hwn ŵr ieuanc crefyddol a siriol i gadw ysgol.† Cafodd y cyfarfodydd llygredig ar y Sabbothau yn fawr eu rhwysg yn Llangynog, yn y Pennant, ac yn enwedig yn Hirnant, ond ddarfod tori llawer ar eu grym trwy foddion lled hynod. Yr oedd gŵyl

* Y gŵr ag sydd yn byw yn Blaen Rhiwarth.

† Cafwyd yr hanes gan y gŵr ieuanc ei hun, yr hwn sydd yn awr mewn gwth o oedran, y Parch. Robert Evans, Llanidloes.

fawr o ddawnsio, ar y pryd, yn cael ei chynal yn Hirnant. Ar ol yr oedfa yn Llangynog, aeth y gŵr ieuanc yno, yn llawn eiddigedd dros ogoniant Duw a sauteiddiad y Sabboth. Daeth yn ddisymwth i ganol y dawnswyr, gan gyfeirio ei gamrau rhwng y rhenciau at y *ffidler;* yn yr hwn yr ymaflodd, gan ei orchymyn i ymbarotoi i'r farn, i roddi cyfrif am ei waith yn halogi Sabbothau Duw. Gwnaeth hyn mewn dull mor ddisymwth ac awdurdodol, nes peri dystawrwydd yn y fan. Disgynodd arswyd hefyd ar y chwareuwyr oddiar euogrwydd cydwybod, nes peri iddynt oll ffoi ymaith gyda phrysurdeb; a gadawyd y crythor yn unig. Yr oedd braw wedi ei ddal yntau hefyd, a chaed ganddo addunedu na ymheliai efe mwyach â'r fath wasanaeth. Fe ddywed fy hysbysydd, ddarfod dywedyd wrtho yn mhen amser maith ar ol hyny, fod y crythor wedi cadw at ei adduned, a bod ei fywyd blaenorol yn ofid iddo hyd ei fedd, gan arddangos arwyddion gobeithiol, fod ymgeledd gras wedi ei wneuthur yn greadur newydd. Parodd y tro hwn ergyd chwanegol ar yr hen gampau llygredig, a pharhau a wnaethant i adfeilio a syrthio, fel yr oedd goleuni gwybodaeth trwy weinidogaeth yr efengyl yn ymeangu.

Crybwyllir am un amgylchiad lled ddigrifol a ddygwyddodd yn Hirnant; amgylchiad a ddyry ddrychfeddwl lled gywir am yr anwybodaeth trwch a orchuddiai, nid Hirnant yn unig, ond yr holl wlad ymron, cyn sefydliad yr ysgolion Sabbothol, ac i bregethiad yr efengyl ymsefydlu ynddi. Yr oedd pregethwr o'r Deheudir o'r enw Morgan James ar ei daith yn y gymydogaeth; ac wrth iddo ymholi am yr athraw a gadwai yr ysgol, fe'i gwahoddwyd ef i dŷ, yn yr hwn yr aneddai rhai a ddygent gryn lawer o sêl dros hen opiniynau a hen arferion, ond yn eithaf anghyfarwydd yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Wedi peth ymddyddan yn nghylch lluaws o bethau dibwys, dygwyddodd i wraig y tŷ sylwi mai gŵr o'r Deheudir oedd y pregethwr wrth ei iaith, a pharodd hyny iddi ddyweyd,

"Fe fu yma offeiriad o'ch gwlad chwi yn gweini yn y llan yma am fwy na 50 o flynyddoedd."

"Felly, yn wir," ebe Morgan James, "fe fu yma am dymhor maith, pa sawl un a gafodd ei *ail eni* yma dan ei weinidogaeth? Fe lafuriodd lawer, boed siwr, ond a ail anwyd llawer yn y tymhor hwnw?" Ar hyn cynhyrfodd y gwragedd oedd yn y lle yn ddirfawr, a dechreuodd un o honynt ymofyn;

"Pa beth yw *ail eni* y soniwch am dano? Ni *ail anwyd* yma neb erioed mi wnaf lw; a gobeithio y daw pob peth o'r gorau yn y diwedd, heb yr ail eni!"

"Ië, ïe, ail eni yn siwr," ebe y pregethwr. "A rhaid ydyw eich geni *chwithau* drachefn." Yr oedd y mater yn ymddangos yn rhy ddwfn a dirgelaidd i'r gwragedd allu gwneyd nemawr o hono, ond rhaid, er hyny, gan fod dadl wedi codi, gael taw ar y pengrwn. "Gan hyny," ebe un o'r gwragedd, "yr ydych chwi yn gofyn cwestiynau trymion i lawer; caniatewch i minau ofyn ychydig i chwithau."

"O'r goreu," ebe Morgan, "gofynwch."

"Wel, ynte, pa le y tyfodd y pren y croeshoeliwyd Iachawdwr y byd

arno?" Yr oedd hyn yn mhell uwchlaw gwybodaeth y pregethwr, a gwelai yn y fan nad oedd fawr obaith iddo am oruchafiaeth; ond nid oedd dim i wneyd ond rhoddi yr ateb goreu ag a allai, ac ebe efe:

"Nid oes un ateb i'r cwestiwn yn fy Meibl i."

Yr oedd y gwragedd erbyn hyn yn ymhyfhau, ac wele ofyniad dyrys arall:

"Pa faint o amser a fu Adda yn uffern?" meddent.

"Ni fu ef yno erioed," atebai Morgan.

"Ow! druan," chwanegai y wraig, "ni wyddoch chwi ond ychydig eto yn nghylch pethau mawr eu pwys."

"Ma'm"! ebe Morgan yn bur frysiog, "nid yw pethau o'r fath o nemawr bwys eu gwybod, onide buasent yn y Beibl;—mae y cwbl yno sydd eisieu ei wybod am bob peth. Nid lle i fyned i mewn ac allan iddo ydyw uffern. Os aeth Adda yno unwaith, yno y mae eto!"

"Na, na, ŵr dyeithr, nid felly chwaith," meddai y wraig. "Bu Adda yno ddwy fil o flynyddoedd, ond fe ddaeth oddiyno drachefn."

Ar hyn, bu dadl boeth drachefn; ac fel yr oedd yn parhau, yr oedd yn poethi fwy-fwy, a gwelai y gŵr dyeithr mai doethineb oedd iddo ef gilio o'r ffordd, a rhoi y maes i'w wrthwynebydd, a hyny gàn gynted ag a allai: ac felly y gwnaed, a phob ochr yn llochi syniadau isel iawn am wybodaeth yr ochr wrthwynebol.

Ni anghofiodd Morgan James byth mo'r tro hwn. Bob amser y rhoddid iddo ymddyddan â rhyw un o'r fro, byddai yn wastad yn ymofyn am y tŷ a'r tylwyth uchod; a chwanegai yn wastad, "Ni fum i erioed yn fy oes mewn fath ymladdfa!"

Ond i ddychwelyd. Nid oedd yr addoldy yn Llangynog, fel y dywedwyd, ond hen dŷ llwydaidd, a'r llofft oedd arno ond rhidyll-glwyd ddigon ysig. Yr oedd, bellach, yn cael ei lenwi â gwrandawyr, yn enwedig ar rai achlysuron. Ar ryw nos Sabboth, yr oedd y Parch. Evan Griffiths, Meifod, yn pregethu yma, pryd y llanwyd y llawr a'r llofft o bobl. Aeth yr oedfa hon heibio heb niwaid; ond erbyn tranoeth, caed un pen i'r hen dŷ wedi syrthio, a lle agored i'r gwynt a'r gwlaw ddod i mewn. Yr oedd y lle, bellach, wedi myned yn anghysurus iawn; eto, gan nad oedd gan y trueiniaid tlodion un lle gwell i fyned iddo, nid oedd ond gwneyd a allent i'r hen dŷ fel yr oedd. Llanwasant yr adwy agored, gan hyny, â gwellt; er hyny, yr oedd gwynt a gwlaw yn cael eu ffordd i mewn, a byddai raid, ar rai achlysuron, gael llusern *(lantern)* i ddodi y ganwyll ynddi, rhag ei chwythu allan. Nid oedd ar y pryd ond deg neu ddeuddeg o grefyddwyr yn perthyn i'r achos, ac anmhosibl oedd iddynt hwy, heb gymhorth lawer, adeiladu addoldy newydd; eto yr oedd angen am un yn gwasgu fwyfwy, a thosturiodd eu brodyr yn y sir wrthynt, gan addaw, os caent le i adeiladu, y cynorthwyid hwy i godi yr adeilad. Ysgrifenwyd, gan hyny, at foneddiges yn sir Fflint, yr hon oedd yn berchenog ar dir mewn lle cyfleus, gan ddeisyf ei hynawsedd yn yr achos. Hithau a addawodd ddyfod cyn hir i weled y lle: ac yn ol ei haddewid hi a ddaeth. Ond ar ei ffordd, galwodd gyda boneddwr adnabyddus iddi, a dangos-

odd y llythyr a gawsai yn nghylch cael tir i godi capel arno. Anghymeradwyodd y boneddwr yr amcan yn fawr, a cheisiodd ei darbwyllo hithau â'i holl egni i wrthod y cais, gan sicrhau i'r wraig foneddig na wnaethai ef mo'r fath beth er dim, ac nad oedd yr un boneddwr yn y wlad a wrandawai ar y fath bobl, a chaniatâu iddynt y fath gais. Bellach, yr oedd yr olwg yn ddû iawn. Aeth y foneddiges i Lundain, ac ymddangosai fod pob gobaith am dir y capel wedi colli. Ond yn Llundain, daeth merch y foneddiges yn gydnabyddus â boneddwr llai ei ragfarn at yr Ymneillduwyr na llawer o'i radd, yr hwn cyn hir a'i priododd. Caed allan fod goruchwyliwr y boneddwr hwn yn un o'r Methodistiaid, yr hwn, wedi ei hysbysu, a osododd yr amgylchiad gerbron ei feistr, ac ar ei gais, y tir a gafwyd. Adeiladwyd y capel yn y fl. 1826; tua 60 ml. ymron ar ol dechreu pregethu yn yr ardal. Rhoes adeiladiad y capel ysgogiad grymus i'r achos yn ei flaen. Wedi cael lle cyfleus i addoli, lluosogodd y gwrandawyr; a Duw a ddug dystiolaeth i air ei ras, nes y chwanegwyd amryw at yr eglwys. Yn mhen tuag 11 ml., sef yn y fl. 1840, bu raid helaethu y capel, oherwydd ei fod weithian yn rhy gyfyng i'r rhai a gyrchent iddo i wrando.

## HIRNANT.

Buwyd yn llafurio yn y lle hwn, er y fl. 1810, dan lawer o ddigalondid ac anfantais, am ysbaid 20 mlynedd heb fod nemawr o arwydd fod neb yn yr ardal wedi cael ei ddychwelyd. Nid oedd neb chwaith yn y lle yn ewyllysgar, nac yn alluog, i roddi na llety na lluniaeth i'r pregethwyr a ddeuent yno i bregethu. Yr unig gyfnerthiad a gaent oedd llymaid o ddwfr allan o gwpan bren a fyddai ar fin ffynon fechan gerllaw drws y tŷ y pregethent ynddo. Fel hyn y bu y gwaith yn eiddil a nychlyd dros hir amser; a pharhau yr oedd y cyfeillion i anfon yno rai i gynal moddion dros yr holl amser; o'r diwedd, cyffrôdd yr Arglwydd feddwl gŵr cyfrifol yn yr ardal, yr hwn oedd yn arfer gwrando gyda chysondeb, i ymofyn ag ef ei hun, pa beth a allai fod yn cymhell y cenadon i ddyfod atynt mor gyson, ac am amser mor faith, pryd nad oedd neb yn y fro yn dangos un parodrwydd i'w cynorthwyo na'u croesawu. Meddyliodd hefyd fod rhagluniaeth wedi bod yn dda wrtho ef, ac y dylasai yntau wneuthur rhywbeth o blaid achos yr efengyl. Ymunodd ef, gan hyny, a'i wraig, a dau eraill yn y gymydogaeth, â'r eglwys yn Llangynog. Agorodd ei dŷ, bellach, i dderbyn pregethu iddo, ac i letya y pregethwyr eu hunain. Rhoes ei ysgwydd dan yr achos yn ei holl amgylchiadau: a chan fod y gwaith dan ryw anfantais, o ddiffyg tŷ penodol i addoli ynddo, cafodd ar ei feddwl godi capel bychan yn ei gymydogaeth, a hyny ar ei draul ei hun. Y mae cymdeithas eglwysig, bellach, wedi ei sefydlu yn y lle hwn, a phregethu lled gyson, mewn undeb â Llangynog.

Mae chwedl lled hynod ar gael am gyfryngiad rhagluniaeth yn erbyn pechadur rhy annuwiol yn ardal Llangynog, yn yr amser yr oedd pregethu ymron

yn dechreu. Dywedir fod Dafydd Morris * unwaith yn pregethu yma pan ar ei daith trwy y wlad. Safai wrth ddrws y tŷ tafarn, a chyferbyn iddo yr ochr arall i'r ffordd yr oedd tair coeden yn tyfu gyda glàn yr afon. Rhyw-bryd ar ol dechreu y bregeth, daeth dyn meddw heibio, yr hwn a waeddai allan, wedi pob ymadrodd o eiddo y pregethwr, "*Celwydd a ddywedi!*" Parhaodd i wrthddywedyd dros ryw enyd, a chynhyrfwyd y pregethwr o'r diwedd i ddatgan yn nghlyw y gynulleidfa, "Gwrandewch!—bydd y tair coeden yna yn dwyn tystiolaeth yn erbyn y dyn y na yn y farn; os na oddiwedda dialedd ef cyn hyny." Sylwodd y bobl ar y dywediad, ac yn mhen ychydig o amser dygwyd y dywediad i gôf drachefn, trwy i'r un dyn yn ei feddwdod ar ryw noswaith syrthio dros y mur i'r afon, a boddi. Yr oedd hyn ó fewn ychydig latheni i'r lle y safai y gŵr dyeithr arno i bregethu! "Na fydd rhy annuwiol: ac na fydd ffol: paham y byddit farw cyn dy amser?" Preg. vii. 17.

Gellir cael golwg ar ansawdd crefydd yn llan y plwyf ar gychwyniad Methodistiaeth, trwy y chwedl a ganlyn. Un tro, yr oedd Siôn Moses o'r Bala wedi bod yn cadw oedfa, ac ar ol darfod aeth ef ac eraill gydag ef i'r llan i wrando yr offeiriad. Yr oedd yr offeiriad y pryd hwnw yn gwasanaethu dwy eglwys, ac yn flin ei deimlad gan bwys ei lafur. Wedi darfod y gwasanaeth, daeth at y pregethwr, gyda gradd o sirioldeb, oherwydd y parch a roddasid iddo trwy ddyfod i wrando arno, ac a ddywedodd, "Mae arnaf fi eisiau *cyw rhad* garw iawn i'm cynorthwyo." "Yn wir, Syr," ebe Siôn Moses, "ni wn i ddim pwy gewch chwi rhatach na ni." Cymerwyd yr ateb yn siriol, ac wedi ychydig o ymddyddan pellach, ymadawsant. Pa beth a ellid ei ddysgwyl oddiwrth y fath fugeiliaid? Y cyfryw, pa fodd bynag, oedd clerigwyr Cymru, heb ond ychydig eithriaid, yn y ddeunawfed ganrif, a pha drugaredd mor fawr oedd i lewyrch goleuni dori ar dywyllwch mor arswydus!

Ni a grybwyllasom am y gwasanaeth a wnaeth yr ysgol Sabbothol i ymlid ymaith dywyllwch y fro, ac i ddarostwng ei drwg-arferion; dylem hefyd ddyweyd i ysgolion dyddiol rhad fod yn wasanaethgar iawn i'r un dyben. Y nesaf ar ol William Mathews, tybygid, oedd un Thomas Meredith, ac wedi hyny Robert Evans; y ddau olaf hyn o appwyntiad Mr. Charles o'r Bala. Bu llafur y Parch. Robert Davies, gynt o'r Brithdir, ac yn ddiweddar o Lanfair, yn wir fendithiol i'r ardal hon a'r rhai cylchynol, fel y gwelir yn mhellach wrth fyned yn mlaen.

### RHOS-Y-BRITHDIR, PLWYF LLANRHAIADR.

Mae Rhos-y-Brithdir yn sefyll rhwng Llanfyllin a Llansilin, ar derfynau siroedd Dinbych a Threfaldwyn. Nid ydym yn cael fod pregethu yn yr ardal hon gan y Methodistiaid, hyd y fl. 1760. Cyn hyny, yr oedd yr un fath wedd ar yr ardal hon ag oedd yn anurddo y dywysogaeth. Yr oedd y trigolion yn aros yn foddlawn mewn perffaith ddyeithrwch i bethau yr efengyl;

* Dywed rhai nad oes sicrwydd pwy oedd y gŵr dyeithr.

anwybodaeth trwch a doai yr holl wlad—halogi Sabbothau, gyda phob math o chwareuon ac ofer-gampau, oedd yn ffynu ar bob llaw. Ymddengys, pa fodd bynag, fod rhyw ddau neu dri yn y fro wedi clywed yr efengyl yn rhywle, ac wedi profi ei blas a'i grym. Cododd awydd ynddynt trwy hyny am i eraill gael etifeddu yr un peth a hwythau; ac i'r dyben hwn ceisiwyd pregethwr i draethu i'w cymydogion "holl eiriau y fuchedd hon." Dywedir mai yn nhŷ un Dafydd Davies, Moel-y-froches, y bu y bregeth gyntaf yn y plwyf hwn, sef plwyf Llanrhaiadr. Nid oes sierwydd pwy oedd y pregethwr, ac nid oes hanes pa effeithiau a ddylynasant y bregeth. Dylynwyd hyn ag oedfaon eraill mor aml ag y ceid pregethwyr, ac yn mhen enyd ymgorfforwyd yn gymdeithas eglwysig fechan. Cedwid y cyfarfodydd eglwysig hyn yn yr un tŷ, ond nid oedd nifer yr aelodau ond tri, heblaw Dafydd Davies a'i wraig; y tri eraill oeddynt, Rhys Davies a'i wraig, ac Owen Jones. Yr oedd pregethwr o'r enw Thomas Morris yn dyfod atynt yn fynych i'w cynorthwyo, yr hwn, tybygid, oedd yn byw ar y pryd yn y Brithdir. Symudodd y pregethwr o Foel-y-froches i'r Rhos Isa'; ac yma yr arosodd dros dymhor lled faith. Symudodd eilwaith i le a elwid Cae-pant. Yn y lle diweddaf hwn y dechreuwyd cadw ysgol Sabbothol, ac yn y lle hwn y parhaodd y pregethu hyd nes y codwyd y capel; ond symudwyd yr ysgol i dŷ hen wraig o'r enw Siân Howel, yn agos i'r fan y mae y capel yn awr yn sefyll. Yr oedd nosweithiau llawen yn arferol o fod yn nhŷ yr hen wraig hon; a chynelid hwy yno, nid yn unig er mwyn difyrwch i'r rhai a ddeuent iddynt, ond hefyd er mwyn cynaliaeth i'r hen wraig. Wedi dwyn yr ysgol Sabbothol i'r tŷ, gwelai rhyw rai yn y fan fod yn rhaid i'r naill gyfarfod neu y llall gilio, gan na chydweddai yr ysgol Sabbothol a'r nosweithiau llawen â'u gilydd. Am hyny, cynygiodd rhyw rai i'r hen wraig y gwnaent ei cholled i fyny, os rhoddai heibio y cyfarfodydd hyny; hithau a gytunodd â'r cynygiad, ac ni fu yno noswaith lawen byth mwy. Bu yr ysgol yn ei thŷ dros rai blynyddoedd, a hyd nes adeiladu y capel yn y fl. 1807. Cafwyd y tir i'w adeiladu gan Mrs. Jones, gwraig y diweddar Barch. Abraham Jones, a dangoswyd ffyddlondeb mawr gan y cyfeillion a'r cymydogion i ddwyn y gwaith i ben.

Nid hir ar ol codi y capel y bu cyn i'r Parch. Robert Davies ddyfod yma i fyw, a thra llafurus a llwyddiannus a fu. Nid un ganedig o'r rhan hon o'r wlad oedd ef, ond o blwyf Cemmaes. Dechreuasai bregethu pan oedd tua 24 mlwydd oed. Fe ddaeth i'r Brithdir o dyddyn bychan yn mhlwyf Llanfair. Cafodd y wlad hon, o Langynog i Groesoswallt, ymron yn llwyr amddifad o bregethu yr efengyl, heblaw yr hyn a elwid, neu a gam-enwid felly yn llanau y plwyfydd; ond ar yr un pryd, yn llawn o anwybodaeth ac arferion drwg. Yn yr olwg ar agwedd dywell a llygredig y bröydd o'i amgylch, cynhyrfai ei enaid ynddo, ac ymosododd gydag egni ac ymroddiad anarferol i arloesi yr anialwch gwyllt: a bu yn llwyddiannus hwnt i bob dysgwyliad, fel y ceir gweled eto. Mae hanes y Brithdir, bellach, yn ymgysylltu â hanes Llanrhaiadr a'r amgylchoedd.

LLANRHAIADR-YN-MOCHNANT.

Nid yw Methodistiaeth y fro hon yn gallu hòni nemawr o henafiaeth. Yr oedd pregethu yn Llangynog ar un llaw, ac yn y Brithdir ar y llaw arall, cyn bod dim o'r fath yn y llan. Yr oedd pregethu dros ryw dymhor, ac ar amserau, mewn lle a elwir Llwyn-bryn-dinas, lle ar ochr y ffordd rhwng Llanrhaiadr a Chroesoswallt, tua 4 milltir o'r lle cyntaf. Yr achos fod y pregethu yno oedd, nad oedd neb yn y llan a'i derbyniai i dŷ: a phan y byddid yn achlysurol yn anturio dyfod yn nes, yr oedd dynion yn y pentref yn barod i'w hymlid ymaith. Ond yn Llwyn-bryn-dinas y caent lonydd, gan eu bod hwnt i derfynau plwyf Llanrhaiadr, ac o fewn plwyf Llangedwin.

Dywedir fod rhyw bregethwr, ar ei waith yn dyfod yn rhy agos i gyffiniau Llanrhaiadr, wedi cael ei ymlid ymaith gan offeiriad o'r enw Dr. Worthington: yr hyn, tybygid, a roes anrhydedd chwanegol i'w enw yn mysg boneddwyr yr ardal; oblegyd dywedir iddo, pan oedd, ar ol y tro uchod, yn myned tua Llanfyllin, weled uwch ben porth yn arwain at dŷ rhyw ŵr mawr, y llinellau hyn:

"Ymagor borth, ac na fydd gaeth
I Dr. Worthington a'i fath."

Ac iddo yntau chwanegu—

"Bydd gauad borth, nac agor byth
I'r un o'r rhith fugeiliaid."

Oddeutu yr adeg hon, dangosodd amaethwr cyfrifol, yr hwn oedd yn byw gerllaw Llwyn-bryn-dinas, mewn lle a elwir Brynhadla, garedigrwydd i'r achos crefyddol drwy agor ei dŷ i'r pregethu. Nid oes sierwydd i ba enwad crefyddol y perthynai y gŵr hwn: ond bu pregethu achlysurol yn ei dŷ dros ryw dymhor. Nid oedd y pregethu, pa fodd bynag, ond achlysurol, ac i raddau mawr yn ddieffaith, dros lawer o flynyddoedd. Ar yr un pryd, cawn le i gasglu y byddai, ar ambell oedfa, ryw gyffro rhyfeddol yn mysg y gwrandawyr, nes y byddent yn tori allan i waeddi ac i foliannu. Ar un achlysur, yr oedd un o feehgyn y Brithdir yn moliannu yn y modd yma, a hyny lle y clywai person Llanrhaiadr ef; a chododd ei ffon uwchben y bachgen, gan ei fygwth i dewi, ïe, a gwneyd peth niwaid iddo. Yr oedd y son wedi dyfod i glustiau y gŵr parchedig, fod y pregethwyr yn gyru dynion o'u côf, a chlybuwyd ef yn dyweyd, "Pe cawn i afael arnynt!" ac yn y fan i'r bachgen ddyfod dan orfoleddu i'w gyrhaedd. Ymaflodd yntau ynddo, gan ddyweyd, "Dyma un yrŵan o'i gôf, a phwy a ŵyr a ddaw ef byth ato ei hun!"

Nid ydym yn cael, er hyny, fod yr un o olynwyr Dr. Worthington wedi arddangos nemawr o wrthwynebiad ffyrnig i'r pregethu; ond gwŷr oeddynt, tebyg i Galio gynt, lled ddiofal pwy a bregethai neu pa beth. Daeth rhywun i achwyn wrth Mr. W—, olynwr Dr. Worthington, fod y Methodistiaid

yn dyfod i bregethu i'r plwyf, a'i ateb yntau iddo oedd, "Gadewch iddynt; os ydynt ar ddaioni, hwy a gynyddant; ond os ar ddrwg, hwy ddarfyddant!"

Y dysgrifiad a roddir o Llanrhaiadr yn yr adeg hon, sydd fel hyn: "Yr oedd y wlad hon yn llawn o chwareuyddiaethau, llawer o honynt ar y Sabbothau; *Interludiau*, ymladd ceiliogod, ymryson rhedeg, nosweithiau llawen, a gŵylmabsantau. Pob prydnawn Sabboth teg yn yr hâf a dreulid mewn chwareu pêl ar glochdy y llan, a phrin yr arosid i'r gosper ddybenu, gan yr awydd i ddechreu; wedi blino chwareu, elid i'r tafarnau, a dybenid y dydd, y chwareu a'r yfed, trwy feddwi ac ymladd â'u gilydd. Yn ystod y chwareu, y clochydd a gadwai chwareu teg i'r chwareuwyr; ac ar Sabbothau a gŵylmabsant, ymgasglai cannoedd o bob oedran i'r fynwent, a pharhäai yr oferedd dros ddydd Llun a Mawrth.

"Deuai yr hen bobl i'r eglwys ar foreu Sabboth gyda lluaws o fân negeseuau, ond ar yr un pryd dan esgus addoli. Yr oedd eisieu pedol neu ddwy ar y ceffyl, yr oedd eisiau gweled y saer, a chael rhyw nwyddau o'r siop. Yr oedd rhyw bethau ar goll, neu ynte wedi eu cael, a defnyddid yr achlysur i hysbysu hyny, pryd y rhedai un ar glawdd y fynwent, gan gyhoeddi y cyfryw bethau; neu ynte fod ffair ar eiddo rhyw un; neu fod y cigydd yn lladd buwch dew ar un o'r dyddiau canlynol."

Sonir, pa fodd bynag, fel yr oedd goleuni yn ymledaenu, fod un offeiriad o'r enw Mr. Jones wedi gwarafun chwareu pêl ar y Sabbothau, ac i'r ieuenctyd ddawnsio, o leiaf nes i'r Sabboth fyned heibio. Yn awr, y mae amser y gŵylmabsant wedi ei golli o gôf y mwyafrif o'r ieuenctyd, a'r twmpathau chwareu wedi eu gorchuddio â gwyrddlesni.

Fe fu y Parch. John Davies, sef yr hybarch genadwr yn Tahiti, pan yn lled ieuanc, dros hanner can mlynedd yn ol, yn cadw ysgol ddyddiol yn y lle hwn. Cadwyd unwaith bregethu cyhoeddus un Cyfarfod Misol yma, pryd yr oedd y cyfarfodydd neillduol yn cael eu cynal yn y Brithdir. Sonir am Ismael Jones yn pregethu unwaith yn ymyl tŷ tafarn, gan sefyll ar gareg farch, ac iddo gael ei luchio gan ryw ddyhiriaid, nes oedd ei waed yn llifo. Mynych y soniai ar ol hyn, pan y deuai i Lanrhaiadr, am yr amgylchiad, a chwanegai, "Maent hwy yn y bedd er ys talm, a minau wedi hen faddeu iddynt." Adroddir hefyd am Lewis Morris yn pregethu yma unwaith, a bod y warden wedi cael ei anfon i edrych a oedd ganddo *Licence*. Ar ol y bregeth, aeth i'r tŷ, a gofynodd a oedd y pregethwr yno? Ar hyn cododd y pregethwr, yr hwn oedd, fel y gwyddom, yn fawr o faintioli, a'r pryd hyny yn ei nerth, a dywedodd, "Dyma fi,—beth sydd eisiau?" Pan welodd y warden ef, dywedodd dan grynu, "Fy meistr a'm hanfonodd atoch i ymofyn a oes genych *Licence*." "Perwch i'ch meistr ddyfod yma ei hun, ac fe gaiff ei gweled," oedd yr ateb.

Ar ryw adeg foreuol, nid oedd yma ond dwy wraig yn proffesu; ond os oedd eu nifer yn fychan, yr oedd eu hysbryd yn rhagorol; ac i'r Brithdir yr aent i'r moddion. Lled hir a fu Methodistiaeth cyn cael lle i ymsefydlu yn y llan. Arferid pregethu mewn amrywiol fanau o amgylch y llan cyn cael safle ynddi. Bu y Peirch. Robert Evans, Llanidloes, a Thomas Davies, Llan-

wyddelan, yma yn cadw ysgol ddyddiol flynyddoedd lawer ar ol John Davies, Tahiti. Pregethid hefyd mewn amaethdy o'r enw Cennant, wedi hyny mewn lle a elwir y Tŷ-ucha', o fewn hanner milldir un ochr i'r llan. Ai y pregethwyr oddiyma trwy y llan, i'r Gefnir-fach, ac oddiyno yn ol i'r Brithdir. Anturiwyd drachefn i bregethu ar ryw adegau teg yn yr hâf yn y llan, o dan gysgod rhyw ddau bren cysgodfawr—llanerch a ddefnyddid gan wahanol enwadau crefyddol, pawb yn eu tro. Cofus iawn gan lawer eto ydyw un oedfa a gadwyd dan gysgod y coed hyn. Y pregethwr ydoedd Edward Goslet, o sir Fynwy. Cerddodd grymusderau gyda'r weinidogaeth y tro hwn, nes oedd teimladau pawb yn cyffrôi, a'u llygaid yn ddagrau.

Parhaodd llawer o'r hen arferion i ddal eu penau i fyny er pob peth ac er pawb, hyd nes daeth Robert Davies i fyw i'r Brithdir. Yr oedd y brawd hwn yn llawn o wroldeb meddwl, ac o ysbryd cenadol. Pregethai yn mhob man y caniateid iddo, ac ymgasglai torfeydd lluosog i wrando arno. Galwyd ugeiniau, yn ddiau, trwy ei weinidogaeth. Rhoddai brofion lawer o'i gywirdeb a'i ddifrifwch mewn llafur dygn, a dagrau lawer, ac anrhydeddwyd ef i fod yn offeryn i ddarostwng y cynulliadau llygredig a fuasent yn uchel eu bri dros oesoedd cyn ei eni ef.

Y capel cyntaf a adeiladwyd gan y Methodistiaid yn yr ardaloedd hyn oedd yn y Cymdŷ; wedi hyny, codwyd y capel sydd yn y llan yn y fl. 1828. Yn y fl. 1839, adeiladwyd un arall ychydig dros filldir o'r llan, yr hwn a elwir "Elim," i'r hwn y symudwyd y moddion o'r Tŷ-ucha'. O fewn dwy filldir i'r llan, mewn dyffryn is-law, adeiladwyd capel arall yn y fl. 1845 mewn ardal a elwir Pentrefelin. Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1846, adeiladwyd y pumed capel yn Maen-gwynedd Mae capel Elim wedi ei godi ger y lle a fuasai gynt yn *bit* ceiliogod, a'r Cymdŷ yr un modd ar hen dwmpath chwareu. Costiodd y capelau bychain hyn yn mhell ar fil o bunnau—yn lle yr anwybodaeth a orchuddiai yr holl fro gynt, y mae yma gannoedd o ieuenctyd y wlad bob Sabboth dan addysg. Pregethir yr efengyl yn mhob cwm; mae yr hen gampau ffol wedi llwyr ddiflanu; a rhai cannoedd, fel y bernir, o'r dechreu hyd yn awr, wedi cael eu gwir ddychwelyd at Dduw. Fel hyn, o ddechreuad bychan, a thrwy offerynau gwael, y dug yr Arglwydd ei amcanion grasol i ben. Trwy y fath ysgogiad dirwysg y gorchfygwyd rhagfarn cryf y werin, a gwrthwynebiad cryf y gwŷr mawr, ac y rhoddwyd i drigolion tywyll y cymoedd a'r bryniau, "glywed, yn eu hiaith eu hunain, yn yr hon y'u ganed, fawrion weithredoedd Duw."

Heblaw Robert Davies, Llanwyddelan, bu y Parch. Abraham Jones yn llafurio llawer yn yr ardaloedd hyn; John Owens hefyd, gynt o Lanbrynmair, ac wedi hyny o America, lle hefyd y bu farw, John Williams, Pridd-bwll, a John Evans, yn awr o America, a fuont ffyddlawn gyda'r un gwaith. Gellid enwi rhai eraill, ieuangach na'r rhai hyn, y rhai ydynt eto ar y maes yn rhyw barth o'r wlad, yn pregethu Crist i'w cyd-ddynion, megys Edward Williams, D. Humphreys, D. Williams, Edward Hughes, Joseph Thomas, a John Lewis, gynt o'r Rhosllanerchrugog.

CARNEDDAU.

Ardal yw hon sydd o fewn ychydig filldiroedd i dref Croesoswallt *(Oswestry)*. Y modd y dywedir i bregethu gael ei ddwyn i'r ardal hon gan y Methodistiaid, oedd i ddau frawd * fyned i Lanarmon-dyffryn-ceiriog i wrando ar William Evans, o'r Fedw-arian, gerllaw y Bala; ac ar ol i'r oedfa ddarfod, iddynt fod yn daer ar y pregethwr i ddyfod i'w hardal hwythau; ïe, cymaint, meddir, oedd eu hawydd a'u taerni, fel yr aethant ar eu gliniau o flaen y pregethwr; llwyddasant hefyd yn eu cais, a hyn a fu y moddion i ddwyn y marworyn cyntaf yno. Nid oes hanes am ddim nodedig wedi cymeryd lle yn nygiad yr achos yn mlaen yn y lle hwn; ond er nad oes dim cyffrous i'w groniclo, eto y mae hyn i'w ddadgan, fod crefydd a gweinidogaeth yr efengyl, mewn modd graddol a dystaw, ennill dylanwad helaeth yn yr ardal, a pharch cyffredinol oddiwrth y trigolion.

CROESOSWALLT.

Mae hanes cychwyniad Methodistiaeth yn y dref hon yn ymgordeddu mor llwyr â'r hanes a roddwyd am modryb Susan,† fel nad oes nemawr o ddim ychwanegol i'w draethu. Bu Susan farw, ond y mae Methodistiaeth eto yn aros. Cafodd ddyfodfa i'r dref Seisnigaidd trwy wreigan o Gymraes dlawd a diddysg, ond cymerodd wraidd ac a gynyddodd. Mae yr achos yma, fel yn yr holl drefydd ar gyffiniau Lloegr, a lle y mae yr iaith Seisonig yn ffynu fwyaf, dan lawer o anfanteision; eto y mae cystal gwedd arno, hwyrach, ag a ellid dysgwyl fod dan yr amgylchiadau. Gwelsom yn yr hanes a roddwyd, fod addoldy wedi ei gael cyn i Susan farw. Bu y diweddar Mr. Charles, o'r Bala, yn ymdrechgar iawn i gael y capel i fyny, gan fyned o amgylch y dref gydag un o'r cyfeillion i gasglu tuag at y draul. Yr oedd chwaer i'r Parch. Simon Lloyd, o'r Bala, yn byw yn y dref; hon hefyd a ddangosodd ymlyniad cryf wrth achos y Cyfryngwr dan lawer o anhawsderau, oblegid yr oedd ei gŵr, Mr. Gwynne, yn ddyeithr, ïe, yn wrthwynebol i grefydd, ac y mae ol addysgiadau ac esampl y fam i'w ganfod hyd heddyw ar amryw o'i phlant. Yn y fl. 1824, helaethwyd y capel, ac yn y fl. 1836 adeiladwyd y capel presenol, yr hwn sydd adeilad hardd rhagorol, mwy felly nag un capel arall gan y cyfundeb yn y rhan yma i'r wlad. Dangoswyd ffyddlondeb a haelioni mawr gan yr ychydig grefyddwyr Cymreig yn y dref i gyfarfod â'r draul fawr a aeth i'w godi, ac y maent wedi llwyddo i leihau fwy na'r dryddedd ran o'r draul gyntefig.

Fe fu yma amryw o bregethwyr, o bryd i bryd, yn preswylio, ac yn gwasanaethu eu rhan i ddwyn yr achos yn mlaen, megys Mri. Foulk Parry, Edward Price, John Edwards, Robert Davies, ac yn ei flynyddau diweddaf, Humphrey Gwalchmai; Daniel Davies hefyd, yr hwn a fu dros amser yn preswylio yn Cefn-canol, ond a ymfudodd ar ol hyny i America.

---

* Sef Robert Williams a Robert Daniel. † Cyf. I., tudal. 304–308.

Y mae lluaws o eglwysi, mwy neu lai eu maintioli a'u henafiaeth, gan y Methodistiaid yn britho y rhanau yma o'r wlad, am y rhai ni ddaeth dim hysbysiad i law; megys Cefn-canol, Llansilin, Rhiwlas, Gwern-y-bant, ac eraill amryw, am y rhai digon ydyw dyweyd eu bod oll, ymron, wedi eu sefydlu trwy foddion cyffredin, a thrwy lafur a ffyddlondeb rhyw grefyddwyr a berthynent yn wreiddiol i fanau eraill, ond wedi eu symud iddynt i breswylio, a thrwy hyny roddi lloches i'r ysgolion Sabbothol a gweinidogaeth y gair, nes casglu cynulleidfaoedd lluosog, a chodi capelau eang a chyfleus. Mae amryw o'r lleoedd uchod yn perthyn i ddosbarth crefyddol sir Drefaldwyn, er eu bod o fewn ffiniau sir Ddinbych.

Ymddengys fod llafur y Parch. Robert Evans, yn awr o Lanidloes, yr hwn, fel y soniwyd, a fu yn cadw ysgolion dyddiol yn ei ieuenctyd, dan arolygiaeth Mr. Charles, wedi bod o ddefnydd neillduol i roddi ysgogiad i Fethodistiaeth yn y parthau hyn o'r wlad. Medd ef ei hun;—"Yn y fl. 1808, mudwyd fi i Lansilin.* Dechreuwyd cadw yr ysgol mewn rhan o dŷ y tlodion, yn nghŵr uchaf y pentref. Nid oeddwn yn gwybod am un crefyddwr o un enwad am dair milldir o gwmpas. Yr oedd achos crefyddol wedi bod yn y Lawnt, ond yr oedd hwnw wedi syrthio, y crefyddwyr wedi eu symud, rhai i'r bedd, a rhai wedi myned i ardal y Carneddau i fyw. Yr oedd yr holl fro, gan hyny, yn anialwch gwag erchyll, ac heb ddim ofn Duw yn y lle. Yr oedd yma, er hyny, un hen ŵr yn hoff o wrando, ac wrth ymddyddan ag ef, deallwyd mai dymunol fyddai gwneuthur cais ar ddwyn yr efengyl i le, heb fod yn mhell, o'r enw Llangadwaladr. Penderfynwyd cynyg ar y gorchwyl, a chafwyd addewid am oedfa yno ar ryw brydnawn Sabboth; ond aeth y son i glustiau gwrthwynebwyr, a chasglodd lluaws mawr o Lansilin, Cymdŷ, a Rhiwlas, yn llawn cynddaredd, a lluchiwyd y pregethwr, a'i bleidwyr, â darnau o lechau; clwyfwyd llawer, ac yn eu mysg, tarawyd yr hen ŵr crybwylledig yn ochr ei ben; torwyd ei het, ac archollwyd ei ben yn dost. A phan welodd y pregethwr fod ei wrandawyr mewn perygl o gael eu hanafu, efe a ymattaliodd ac a aeth ymaith, gan ysgwyd y llwch oddiwrth ei draed, a dyweyd, 'Mae yr efengyl yn gadael Llangadwaladr!' Mae y daroganiad hwn, i fesur mawr, wedi ei wirio hyd heddyw."

"Ar ol mudo i Lansilin," medd yr un gŵr, "gwnaed pob ymdrech i gadw ysgolion wythnosol, Sabbothol, a nosweithiol. Sefydlwyd rhai yn Llansilin, Rhiwlas, Clynin, ac mewn tŷ ffarm yn agos i Moelfre. Cafwyd lluaws o blant i'r ysgolion, ond ni chaniatawyd i'r gwaith fyned rhagddo heb lawer o anghysuron a mân-ymosodiadau, ac yn mysg gofidiau eraill, pregethwyd yn fy erbyn gan weinidog y plwyf. Ond er pob gofid, cefais y fath hyfrydwch gyda'r plant na anghofiaf dros fy oes. Rai blynyddoedd ar ol hyn, mewn oedfa yn Cefn-canol, yr ardal nesaf, cefais yr hyfrydwch ychwanegol o weled amryw o'r rhai a fuasent yn blant yn yr ysgol yn Llansilin, yn awr yn ngafael iachawdwriaeth, yn canu ac yn gorfoleddu am y Gwaredwr. Golygfa na

* O Langynog, tybygid.

allaf ei hanghofio. Fel hyn, mewn amseroedd tywyll, a thrwy foddion disylw, y goleuodd yr Arglwydd ganwyll fechan yn Llansilin, Rhiwlas, Cymdŷ, &c., na ddiffodda, mi hyderaf, hyd ddiwedd amser."

"Ar ddymuniad Mr. Charles, ac wedi rhyw gymaint o arosiad, symudwyd i Lanrhaiadr-yn-mochnant. Cymerwyd hen ysgubor i gadw yr ysgol ynddi yn agos i'r bont. Daeth ychydig o blant yn nghyd y prydnawn cyntaf; ond yr hyn a barodd gyffro anferth yn y lle hwn oedd fod yr athraw yn *gweddio* mewn hen ysgubor. Arferol oeddwn o ddybenu yr ysgol trwy ganu a gweddio! Cauwyd y drws yn ebrwydd rhagof, rhag na fyddai yr ysgubor yn dda i ddim byth mwy. Gwnaed yr holl derfysg yma gan rai a ddylasent wybod yn well. Yn awr, mae yma gapel prydferth, a chynulleidfa dda, a golwg obeithiol ar y gwaith."

## PENNOD VI.

### EGLWYSI CYNTAF GWAELOD Y SIR.

CYNWYSIAD:—

TERFYNAU Y SAESON—SARNAU—MORRIS EVANS, MELIN-Y-MARDY—EVAN WILLIAMS, O'R FEGIN—ERLID—Y GROESLWYD—THOMAS MASON, Y GOF—PONT ROBERT-AP-OLIVER—MEIFOD—PARCH. EVAN GRIFFITHS—LLANFYLLIN.

HYSBYS i lawer o'n darllenwyr fod yr iaith Saesonaeg wedi ennill llawer o dir yn y dywysogaeth, yn ystod y 80 ml. diweddaf ac yn neillduol yn y siroedd hyny sydd yn cyffinio ar Loegr. Mae sir Drefaldwyn wedi teimlo oddiwrth hyn i gryn raddau, fel y mae yr iaith Saesonaeg yn cael ei siarad yn awr yn gyffredin mewn manau nad oedd dim ond y Gymraeg gynt. O herwydd hyn y mae Methodistiaeth wedi colli o ryw fanau y bu unwaith yn ffynu, ac yn para yn eiddil a nychlyd mewn rhai manau eraill nad ydyw eto wedi llwyr ddiffoddi. Mae y sylwadau hyn yn gymhwys i amryw fanau yn ngwaelodion y sir hon. Bu cynulliad gan y Methodistiaid am lawer o flynyddoedd mewn lle a elwir y Sarnau, yr hwn sydd yn sefyll yn ngwaelod plwyf Meifod, ac ar gyffiniau plwyf Llandrinio, ond y mae yn awr wedi diflanu.

Yn ngwanwyn y fl. 1774, aeth un Morris Evans, ac un Mr. John Higgins, amaethwr cyfrifol o'r gymydogaeth, gydag ef, i gymeryd melin yn mhlwyf Llandrinio. Yr oedd y felin hon yn perthyn i dyddyn helaeth o'r enw Mardŷ, ac yn cael ei pherchenogi gan dri o frodyr, y rhai oeddynt yn byw yn y Mardŷ. Pan ddaeth Morris Evans a'i gyfaill i geisio cymeryd y felin, dywedai un o'r tri brawd wrtho; "Yr wyf fi yn clywed, Morris, eich bod chwi yn arfer gwrando ar y bobl yna;—ond am danaf fi, neb ond Crist i mi."

"Felly finau," ebe Morris. Boddlonodd yr ateb hwn y gŵr, a chytunodd i Morris gael y felin. Aeth ef a'i wraig, gan hyny, i felin y Mardŷ i fyw yn mis Mai canlynol. Ar y pryd hwn, nid oedd Morris Evans na'i wraig wedi ymuno â'r Methodistiaid; yn unig yr oeddynt yn arfer gwrando arnynt yn pregethu yn awr ac eilwaith, fel y byddai cyfleusdra, ac yn cyfeillachu â

phregethwr yn y fro o'r enw Evan Williams, yr hwn oedd ar y pryd yn byw mewn lle a elwir y Fegin, yn agos i ben uchaf plwyf Gygidfa.

Gosodwyd gorfodaeth ar Morris Evans, pan y byddai yr hîn yn sych a'r dwfr yn brin, i falu ar y Sabbothau, ac er mai prin y barnai fod hyn yn ei le, eto rhwng bodd ac anfodd efe a gydsyniai; ac wedi bod wrth y gorchwyl dros ryw dymhor, aeth ei feddwl yn fwyfwy anesmwyth, cymaint felly, nes iddo ddisgyn ar y penderfyniad o roddi hyny heibio yn llwyr, deued y canlyniad a ddeuai. Deallodd un o'r meistriaid tir nad oedd y felin yn malu ryw Sabboth, ac aeth at y melinydd, gan ofyn yn awdurdodol, "Paham y mae fod y felin yn sefyll, Morris?"

"Am mai Sabboth ydyw heddyw," ebe Morris.

"Beth," gofynai yntau, "a oes arnoch chwi ofn y Sabboth?"

"Y mae arnaf ofn Arglwydd y Sabboth," atebai Morris, "ac nis malaf ar y Sabboth byth mwy." Ac efe a fu ffyddlon i'w air. Tad a mam yn nghyfraith i'r Parch. John Hughes, Pont-Robert, oedd y Morris Evans hwn a'i wraig.

Yn y tymhor hwn, yr oedd tywyllwch fel y fagddu yn gorchuddio y trigoliol, a gweithredoedd y tywyllwch yn cael eu cyflawni gydag ymffrost ac egni diwarafun. Yr oedd nosweithiau chwareu, canu a dawnsio, chwareu cardiau ac *Interludiau* yn eu llawn rym. Cedwid y rhai olaf a enwyd, nid yn unig gerllaw y tafarnau, ond yn fynych mewn tai amaethwyr yn y gymydogaeth. Arferid unwaith yn y flwyddyn, ar ryw ddiwrnod penodol, ymofyn am arth i'w faeddu, a mawr fyddai y difyrwch a fwynheid yn yr oferedd creulawn hwn. Yr oedd yr ŵylmabsant hefyd yn ei llawn rym, a'i llygredigaethau cethin yn parhau dros amryw ddyddiau. Ar Sul y Drindod, arferid ymgasglu yn dorfeydd i'r tafarndai i yfed *dwfr a siwgr*, gan ymroddi i bob agweddau llygredig yn ganlynol i hyny. Byddai yn rhy beryglus i neb fyned heibio mangre y cyfryw gynulliad i wrando pregeth, gan mor orwyllt a didrefn fyddai yr oferwyr. Rhaid oedd tori dros y gwrychoedd, a myned ar hyd manau disathr, os mynai neb gyrchu i gyfarfod crefyddol, ac osgoi y dyhiriaid direol. Dygwyddodd unwaith fod Morris Evans a'i deulu yn myned heibio y cynulliad cyffrous ar ryw Sabboth, ac wedi gorfod tori dros y ffiniau er mwyn myned heibio yn ddiogel; ond pan ddaeth i'r ffordd ar ol pasio y perygl, dywedai wrth ei blant, "Na *hidiwch* chwi mo'r arferiad ynfyd hon—bydd yn y lle hwn gapel i bregethu yr efengyl ynddo eto;" a chyfeiriai at y llygedyn tir y mae capel y *Tabernacle* yn awr yn sefyll arno!

Yn mhen rhyw ysbaid o amser wedi i'r teulu hwn fyned i felin y Mardŷ i breswylio, ymofynodd Morris Evans am gael pregethu i'w dŷ, ac ymunodd ef a'i wraig â'r eglwys fechan a gyfarfyddai y pryd hyny yn y Fegin, sef tŷ Evan Williams, yr hwn oedd tua 7 milldir o ffordd o'r Mardŷ. Nid oes amheuaeth chwaith nad yr Evan Williams hwn oedd y pregethwr cyntaf a fu yn cadw oedfa yn melin y Mardŷ; ar ei ol ef daeth eraill, megys Lewis Evan, Jenkin Morgan, a rhai diweddarach, sef Dafydd Edward, a Dafydd Cadwaladr, o'r Bala. Pan ddechreuodd y pregethu cyhoeddus yn y Felin,

mawr oedd y cyffro, a'r cynhwrf, a'r clebar oedd trwy yr holl fro. Gyda syndod a digofaint y dywedai y naill wrth y llall, Mae *Methodist* yn byw yn y felin, a phregethwyr y Methodistiaid yn dyfod yno i bregethu; a llawer un a brysurai i achwyn i'r meistriaid tir, pa bethau oedd yn myned yn mlaen yn y felin. Nid rhyfedd, dan y fath amgylchiadau, os ceir fod rhyw sarhad a cholled yn cael ei amcanu yn erbyn y teulu.

Dygwyddodd unwaith, pan oedd pregeth yn nhŷ y felin, i ryw un hyfach a chasach na'r cyffredin, ddyfod at y tŷ, a sicrhau y drws âg ystwffwl, i lesteirio y bobl i ddyfod allan; yna aeth at y felin, a gollyngodd y dwfr arni, o wir ddyben i'w niweidio, os nad ei dinystrio. Pan ddeallodd Morris Evans yr hyn a wnaethid, efe a redodd ar frys i'r llofft, ac a ollyngodd ei hun o'r ffenestr i lawr, a disgynodd i grugyn o gerig; ond er fod iddo gryn uchder, ac er disgyn ar le garw, eto diangodd heb niwaid, yr hyn a barai syndod i bawb a adwaenai y lle. Parodd y terfysg fwlch yn yr oedfa, ond ar ddychweliad gŵr y tŷ yn ei ol, adgychwynwyd y gwasanaeth drachefn, pryd y dywedai y pregethwr, gan gyfeirio at ei waith ysgeler o ollwng y dwfr ar y felin, "Peth rhyfedd os na fydd ar y gŵr a wnaeth hynyna eisieu dyferyn o ddwfr ei hunan cyn hir." Troes y daroganiad hwn allan yn gywir; oblegid bu farw yr erlidiwr yn bur fuan, a hyny mewn modd hynod o druenus!

Trwy fod amryw yn y gymydogaeth yn parhau i achwyn wrth y meistr tir fod Morris Evans yn myned i wrando pregethwyr y Methodistiaid yma a thraw, ac yn eu derbyn hefyd i'w dŷ ei hun, efe a gafodd aml rybudd i ymadael o'r felin; eto aros yn y felin yr oedd, a myned i wrando a derbyn pregethu yr un modd. O'r diwedd, ymddangosai ei feistr o ddifrif i ddwyn yr achos i benderfyniad, am hyny penodwyd amser iddo i ystyried, pa un a wnai ai ymadael â'r felin ynte a'i grefydd. Cyn y diwrnod yr oeddynt i ymadael, sef y noswaith o'r blaen, pryd yr oedd y teulu mewn pryder mawr pa beth a ddeuai o honynt, gan nad oedd eto un olwg ar le i fyned iddo, dygwyddodd i wraig y melinydd freuddwydio ei bod yn gweled ci anferth o faint yn ymgais am ruthro arnynt, ond wrth graffu, hi a welai ei fod wrth gadwen gref, fel na allai eu cyrhaedd. Pan ddeffrodd, adroddodd ei breuddwyd wrth ei gŵr, gan ychwanegu ei syniad fod rhywbeth rhyfedd yn eu haros. Yntau a ddywedai, nad oedd nemawr goel i'w roddi ar freuddwydion, ac ni osododd y peth at ei galon. Yr un noson, hi a freuddwydiodd drachefn, ac a welai fur mawr ac uchel oddiamgylch y felin. Ar ei gwaith yn deffroi, hi a adroddodd y breuddwyd hwn hefyd i'w gŵr. Ar hyn, efe a dorodd allan i ddyweyd, "Y mae yn rhaid i ni hwylio allan oddiyma mor fuan ag y delo yn ddydd." Y boreu a ddaeth, ac ymbarotodd y teulu trist i ymfudo ymaith, heb fod ganddynt unlle i droi iddo ond y ffordd fawr. Ond tra yr oeddynt yn pryderu pa beth a wnaent, ac i ba le y gallent fyned, wele genadwri yn dyfod oddiwrth y meistri tir, yn eu hysbysu y caent aros yn y felin fel o'r blaen. Yn raddol hefyd, daeth Morris Evans a'i wraig yn wrthddrychau o barch ac ymddiried gan y meistri tir, a buont yn dra chymwynasgar a haelionus tuag atynt, fel ag i'w codi i fwy o gyfrif yn y gymydogaeth.

Yr oedd Morris Evans yn hynod o lafurus i gymhell pawb a ddeuai i'r felin, a phawb a gyfarfyddai ar y ffordd, i ddyfod i wrando pregethu yr efengyl. Sonir yn neillduol am un wraig o'r enw Anne Williams, yr hon y bu efe daer arni, yn fynych, i ddyfod i wrando, ond yr hon, er ei holl daerni, a wrthodai gydsynio, gan ddyweyd wrtho, "Morris, chwi cwch o'ch cof yn sicr." Atebai yntau, "Na, dyfod i'm cof yr wyf fi." Ond ar ryw foreu Sabboth, tybiai y wraig hon ei bod yn clywed llais yn dywedyd wrthi gyda grym mawr, ar iddi fyned i'r felin i wrando yr efengyl. A pha beth bynag oedd hyn, ai gwir ai gau, efe a fu yn foddion i gael ganddi ufyddhau. Y Sabboth hwnw, y tro cyntaf erioed, hi a ddaeth i wrando, a bu y bregeth yn dra bendithiol iddi. Bu cyfnewidiad amlwg arni o hyny allan; a chafwyd ynddi arwyddion amlwg o dduwioldeb dros ei hoes; a bu farw yn orfoleddus yn y diwedd.

Y pryd hwn, gan mor anamled oedd gweinidogion efengylaidd yn eglwys Loegr, a chan brined oedd gweinyddiad swper yr Arglwydd yn mysg y Methodistiaid, âi Morris Evans a'i wraig i'r Amwythig, tua 17 o filldiroedd o ffordd, ar Sabbothau cymundeb, er mwyn cyfranogi o swper yr Arglwydd, o law offeiriad efengylaidd, sef y diweddar Barch. Richard Decourcy. Yr oedd sêl y Cristionogion hyn yn llawer gormod, neu y mae sêl y Cristionogion presenol yn llawer rhy fychan!

Wedi i'r pregethu yn y felin lwyddo er dychwelyd amryw yn y gymydogaeth, planwyd eglwys fechan yn nhŷ gwraig weddw a elwid Mrs. Catherine Pool, yr hon oedd yn byw yn y tyddyn nesaf at dyddyn y Mardy. Ymdaenodd y pregethu i amryw dai yn y gymydogaeth,* heblaw tŷ Mrs. Pool, ond ymsefydlodd yn fwyaf cartrefol yn nhŷ un Thomas Prys, o'r Sarnau; yr hwn a fu yn ffyddlawn gyda'r achos tra y bu efe yn aros yn gymydogaeth. Wedi iddo ef ymadael, cafodd yr achos gartref yn nhŷ gwraig weddw a elwid Mrs. Hannah Roberts. Yr oedd y wraig hon yn cadw siop yn y Sarnau, ac ymbriododd ag un Mr. Evan Evans. Yn eu tŷ hwy y cafodd yr efengyl gartref am lawer o flynyddoedd. Sonir hefyd am ŵr arall a berthynai i'r eglwys fechan yn y Sarnau, o'r enw Oliver Jones;—gŵr tlawd ei sefyllfa, yn dibynu yn gwbl am gynaliaeth iddo ei hun a'i deulu ar lafur ei ddwylaw, ond gŵr ymroddgar ei ysbryd i ofn Duw. Ai y dyn tlawd hwn yn fynych i Langeitho ar ei draed, tua 60 milldir o ffordd, i ymofyn pregethwyr i ddyfod i'r Sarnau! Yr oedd yr hen bobl hyn yn cael eu *gwobr* i raddau yn eu *gwaith*. Mwynhaent foddion gras i raddau anarferol. Yr oedd y mwyniant yn cyfateb i'r llafur, a dyddanwch eu mynwesau yn cyfateb i drais eu gelynion.

Mae y Sarnau yn awr heb un achos gan y Methodistiaid yn yr ardal, eto ni bu llafur yr henafiaid ddim yn ofer, oblegid o'u llafur dechreuol hwy yn y Sarnau, y tarddodd yr eglwysi sydd yn awr yn *Ngwern-y-bant*, *Llansantffraid*, *Tabernacle*, *Salem*, a'r *Geuffordd*.

* Sef, tŷ Joseph Davies, tŷ John Jones, tŷ Thomas Davies, yr hwn a elwid y Tŷ-poeth, a thŷ Thomas Prys, o'r Sarnau.

## Y GROESLWYD.

Mae y lle hwn gerllaw pentref Cygidfa *(Guilsfield)*, ac yn terfynu ar fro y Sarnau. Mae yr iaith Saesonaeg wedi ennill tir i raddau lled helaeth yn yr ardal hon, a'r achos Methodistaidd yn cael ei gynal ymron yn gwbl yn yr iaith hòno. Ond nid dyma oedd y wedd gyntefig. Cymraeg a bregethid yn y fro hon ar y dechreu, a thros lawer o amser ar ol hyny. Yr oedd pregethwr o'r enw Evan Williams yn byw yn y Fegin, plwyf Llandrinio; ac felly heb fod yn mhell oddiwrth y lle hwn. Yr oedd yn ŵr duwiol, ac yn gynghorwr ffyddlawn yn ei dymhor. Dywedir mai yn Llundain y cafodd ei argyhoeddi, dan weinidogaeth y Parch. George Whitfield; pa achosion a'i gyrasant i Lundain,* neu pa fodd yr arweiniwyd ef drachefn i blwyf Llandrinio, sydd anhysbys; yn unig, dywedir am dano ddarfod iddo lafurio llawer i oleuo ac i lesâu ei gydwladwyr, yn ol mesur ei ddawn a'i gyfleusderau, a pharhau felly hyd ei ddiwedd.

Yr oedd Morris Evans, o Felin-y-Mardy, yn gydnabyddus ag un Thomas Mason, y gôf, yr hwn oedd yn byw yn y Groeslwyd, a hyny cyn iddo symud i'r Felin i fyw. Yr oedd y gôf hwn yn adnabyddus fel un nodedig o elynol i grefydd;—pan ddygwyddai weled pregethwr neu broffeswr yn myned heibio, efe a redai allan o'r efail, ar ol y crefyddwr, mewn gwŷn cyffrous, â haiarn gwynias yn ei law, gan ei fygwth yn echrydus; eto anturiai Morris Evans ei daer gymhell i ddod i wrando ar y Methodistiaid, modd y gallai efe farnu drosto ei hun; a hyn a wnai yn mhob man y dygwyddai gyfarfod ag ef; ond yr oedd pob taerni yn aneffeithiol dros ryw gymaint o amser. Yr oedd rhyw fath o ofn yn gystal a digofaint yn ei attal. Yr oedd chwedl ar hyd y wlad y llygad-dynid pob un a elai i wrando ar y Methodistiaid, ac yr oedd Mason, y gôf, wedi rhoddi coel i'r chwedl benchwiban hon. Ar yr un pryd, yr oedd rhyw ysfa o gywreindeb ynddo, i fynu clywed beth a ddywedid gan y bobl yr oedd cymaint o achwyn arnynt; a theimlai, weithiau, duedd i gydsynio â thaer gais ei hen gydnabod, Morris Evans; ond yr oedd arno ofn syrthio dan rym y swyn. Ond yn y cyfwng, cofiodd glywed am gyfaredd effeithiol rhag y fath swyn; sef gwden o bren criafol, neu helyg. Deallid, os byddai y fath wden gan ddyn yn ei *boced*, y gallai anturio yn ddigon diberygl i swn y pregethu, ac na effeithiai dim arno i'w lygad-dynu. Penderfynodd y gôf, gan hyny, fyned unwaith o leiaf i'w gwrando, gan sierhau ei hun rhag yr effeithiau yn y modd uchod. Ond er fod yr wden griafol yn ei logell, ac er fod rhagfarn cryf yn ei galon, eto bu gorfod iddo blygu;—bu ad-dyniad yr efengyl yn gryfach na'i gyndynrwydd, ac ymostwng a fu raid iddo i gael ei gaethiwo i ufudd-dod Crist.

Y tro cyntaf y gwelodd Mason ei hen gydymaith, Morris Evans, ar ol hyn, yr oedd y cyfarchiad yn hynod o wahanol i'r hyn a fuasai gynt. · Bellach, yr

* Dywedir mai gwniedydd *(tailor)* ydoedd wrth ei grefft, ac mai ei grefft a'i harweiniodd i Lundain.

oedd yr erlidiwr cas yn ddysgybl. Derbyniai, bellach, bregethu i'w dŷ; ac yn ei dŷ y cafodd yr efengyl nodded ac amddiffyniad am lawer o flynyddoedd. Ac er nad oedd eglwys wedi ei ffurfio y pryd hwnw yn y Groeslwyd, eto ymunodd Thomas Mason, a dwy o'i ferched, yn nghydag craill yn y gymydogaeth, â'r ganghen eglwys a arferai ymgynull mewn amrywiol dai ychydig o ffordd uwchlaw y Groes; sef y gymdeithas y perthynai Evan Williams iddi, lle y derbyniwyd y Parch. Evan Griffiths, Meifod, gyntaf yn aelod eglwysig, a'r lle hefyd y dechreuodd bregethu. Yr oedd gwraig y pregethwr yn chwaer i fam Mr. Griffiths;—merched y Maesmawr oeddynt, teulu a ymunasant yn foreu â'r Methodistiaid, ac a fuont o wasanaeth helaethach i achos yr efengyl, yn y tymhor boreuaf arno, na nemawr neb yn eu bro.

## PONT-ROBERT.

Yr oedd pregethu gan y Methodistiaid yn mhlwyf Llanfair-Caereinion, tuag ardal Pentyrch, er yn gynar iawn ar y diwygiad Methodistaidd; ac ymgrynhôdd rhyw nifer at eu gilydd yn y tymhor boreuol hwnw yn gymdeithas eglwysig fechan, a chododd yn eu plith dri o gynghorwyr bychain, sef Dafydd Powell, Dafydd Jehu, ac Evan Dafydd.* Bu Dafydd Powell farw yn fuan, a llwfrhaodd Jehu hefyd yn yr ymraniad, a rhoes heibio gynghori. Ond am Evan Dafydd y dywedir, ddarfod iddo ef barhau i gynghori ychydig tra fu byw, a'i fod yn ŵr o ymarweddiad duwiol; ond nad oedd yn feddiannol ar helaethrwydd o ddoniau." Ond bu Pont-Robert am ysbaid 30 ml. neu fwy, ar ol i'r ysgogiad diwygiadol ddechreu, mewn rhai cyrau o'r wlad, heb fwynhau nemawr o lafur y diwygwyr. Ond tua'r fl. 1770—5, daeth yr amser i ymweled â'r ardal hon hefyd. A'r modd y cyehwynodd oedd fel hyn. Yr oedd dau ddyn o blwyf Llanfihangel (y plwyf y mae Pont-Robert ynddo) yn gweithio eu crefft o saerniaeth i ŵr yn ardal Pentyrch, yr hwn a dderbyniai bregethu i'w dŷ. Cawsant, yn y modd hwn, y fantais i glywed yr efengyl, a bu ei gwrando yn y dull damweiniol hwn yn foddion deffröad ac ystyriaeth iddynt; cymaint o leiaf ag i addaw lle i gadw oedfaon yn eu tai gartref. Yn ganlynol i hyn, aeth Evan Dafydd, Rhos-y-gweision, a John Thomas, o Lanfair, i dŷ un o'r dynion hyny i bregethu ar y Sabboth. Ond nid oes son am ddim effeithiau neillduol wedi dylyn yr oedfa hon. Yn fuan ar ol hyny, aeth Mr. Abraham Wood, o Lanbrynmair, i dŷ y gŵr arall i bregethu, a dylynwyd y bregeth hon ag effeithiau grymus. Galwyd amryw trwyddi, y rhai yn raddol a ymffurfiasant yn gymdeithas grefyddol. Bu pregethu mewn amrywiol dai yn y fro yma hefyd, megys yn Halfen, yn Dolwar-fawr, yn Llaethbwlch, yn Moel-y-fronllwyd, ac yn Mhenllys. Ond yn y lle olaf a enwyd y bu cartref yr achos am amryw flynyddoedd. Yn ngwanwyn y fl. 1795, cynaliwyd Cymdeithasfa yn Llanfair Caereinion, a bu y

* Gwel Cyf. I., tudal. 132.

weinidogaeth yn y cyfarfod hwn yn dra bendithiol i amryw o bobl amgylchoedd Pont Robert; ac yn y canlyniad, cafwyd pregethu i Bont Robert mewn tŷ yno, neu yn yr awyr agored. Bendithiodd yr Arglwydd y weinidogaeth mewn modd nodedig, a bu adfywiad mawr a grymus, yr hwn a barhaodd dros amryw flynyddoedd. Ar yr achlysur hwn, symudwyd cartref yr achos o Benllys i'r Bont. Yn y fl. 1800, adeiladwyd y Capel. Fe fu dau bregethwr yn perthyn i'r eglwys hon yn ei thymhor boreuaf, sef William Jones, a Thomas Morris. Amaethwr cyfrifol oedd y cyntaf yn byw yn Llaethbwlch: yr oedd hefyd yn bregethwr cadarn a chymeradwy, ond nid llawer a deithiodd oddicartref. Nid oedd Thomas Morris yn ŵr o wybodaeth helaeth, ond yr oedd o naws effro a bywiog iawn; teithiodd hefyd gryn lawer, ond gàn mwyaf fel cyfaill gyda rhai o'r hen bregethwyr. Bu farw William Jones, Gorphenaf, 1818, yn 77 ml. oed: ond bu Thomas Morris fyw hyd y fl. 1841.

Aelod o'r eglwys hon oedd y Parch. John Davies, Cenadwr yn Tahiti. Ymadawodd y gŵr defnyddiol hwn â gwlad ei enedigaeth yn nechreu yr hâf yn y fl. 1800, pan oedd tua 27 ml. oed. Y mae, bellach, wedi bod ar y maes cenadol er ys 52 ml., ac wedi cyrhaedd ymron 80 ml. o oedran. Deallwn fod ei olwg wedi pallu er ys rhai blynyddau; ond fod ei ysbryd yn iraidd, ac yn rhoddi profion diymwad o'i addfedrwydd i'r cryman.

Afreidiol ydyw i mi grybwyll mai i'r eglwys hon y perthyn yr henafgwr adnabyddus a pharchedig John Hughes, yr hwn sydd wedi teithio llawer ar Ogledd a Deheudir Cymru, yn nghyda threfydd Lloegr, lle bynag y mae Methodistiaeth yn ffynu. Y mae yr hen frawd parchedig ar y maes gweinidogaethol er ys 52 ml., ac nid mynych y bu neb yn fwy ffyddlawn a diwyd, yn ei wlad ei hun, a thros yr holl dywysogaeth. Nid oedd, pan y dechreuodd ef bregethu, sef yn y fl. 1800, ddim ond 8 o gapelau yn holl sir Drefaldwyn gan y cyfundeb, a'r rhei'ny yn lled fychain; yn awr y mae 75 o gapelau, heblaw y rhai sydd yn y rhanau Saesonaeg o'r wlad; ac o'r wyth capel ag oedd yn y sir y pryd hyny y mae saith o honynt wedi eu hail-adeiladu. Mae yn awr tua 84 o gapelau yn y wlad hon rhwng y Cymry a'r Saeson, a thua 22 o leoedd pregethu ac ysgoldai yn ychwanegol: a hyn oll ymron yn oes un gŵr.

Y mae gradd o hynodrwydd ar Bont-Robert hefyd, am mai dyma oedd cartref Mrs. Ann Griffiths, awdures y pennillion hymnau, a gyhoeddwyd yn gyntaf gan Mr. Charles, ac a genir, yn fynych, hyd heddyw yn addoliadau y Methodistiaid. Yr oedd y ferch hon yn byw o fewn pedair milldir i Bont-Robert, mewn amaethdy o'r enw Dolwar-fechan. Yr oedd ei theulu, a hithau ei hun, ar y cyntaf yn eglwyswyr aiddgar, tra dyeithr i, a thra rhagfarnllyd at ymneillduwyr o bob enw, ac yn enwedig at y Methodistiaid. Trwy ddarllen llyfr o waith Baxter, dygwyd brawd iddi i radd o bryder am ei achos tragwyddol, yr hyn a barodd iddo osod ei helynt, a thrallod ei feddwl, o flaen offeiriad y plwyf; ond yr unig gynghor a gafodd oedd, iddo ymlid y syniadau pruddaidd i ffordd, trwy ymroddi yn fwy i'r ddawns a'r wledd, a phob digrifwch *diniwaid* arall. Cafodd y gŵr ieuanc ei siomi yn y gŵr parchedig; a

phenderfynodd fyned i Benllys i wrando ar y Methodistiaid, gan obeithio cael ei arwain i orphwysdra. Cafodd yma yr hyn yr ymofynai am dano, ac ymunodd â'r bobl ddirmygedig hyny, er mawr syndod i'w gymydogion, ac er peth tristwch i'w deulu ei hun. Yr oedd ei chwaer Anne, ar y pryd, yn hoff iawn o ddifyrwch ieuenctyd, ac yn wawdlyd ddigon o'r crefyddwyr, a dywedai, wrth ganfod rhai o honynt yn cyrchu heibio i Gymdeithasfa y Bala, "*Dacw y pererinion yn myned i Mecca.*" Ond nid hir y goddefwyd iddi rodio yn y ffordd hon. Trwy wrando, yn gyntaf, a hyny yn ddamweiniol, ar un Mr. Benjamin Jones, gweinidog parchus yn mysg yr Annibynwyr, pan yn dygwydd fod yn pregethu yn Llanfyllin; a thrachefn, trwy wrando ar Ismael Jones, darostyngwyd ei rhagfarn, ac ennillwyd hi yn llwyr dan iau Mab Duw. Ond bu hithau yn gwingo dros ryw amser yn erbyn y symbylau, cyn ymddarostwng yn llwyr. Wedi gwrando y pregethwr cyntaf a enwyd, aeth hithau at offeiriad y plwyf; ond nid oedd ef yn abl i'w chyfarwyddo, druan, ond trwy ei ymddyddan ffol a brwnt, cynyrchodd yn ei mynwes lwyr ffieiddiad o hono.

Yn fuan ar ol hyn y clywodd Ismael Jones, ac y daeth, mewn canlyniad, yn aelod o'r gymdeithas ag oedd, bellach, yn y Bont. Yr oedd hyn tua'r fl. 1797, pan ydoedd hi yn 17 ml. oed. Ni bu oes y ferch hon ond ber, gan iddi farw yn 25 ml. oed, ond yr oedd yr wyth mlynedd olaf o honi yn ddysglaer o brofiad a buchedd.

Hawdd ydyw dirnad wrth ddarllen ei hemynau, fod ganddi alluoedd cryfion, a phrofiad ysbrydol. Mae anadl enaid yn cymdeithasu â Duw yn Nghrist arnynt oll; ac wrth ddarllen ei hanes, yr ydym yn cael, mai nid grym medrusrwydd i gyfansoddi oedd ei hawen gymaint, ond enaid yn arllwys profiadau gloywon yn ffrydiau naturiol. Byddai, yn fynych, yn tori allan mewn hwyl nefolaidd dan y pregethau, neu ynte, pan y byddai hi a'i chyfeillesau yn cydweddio. Ond y mae yn rhaid ymattal, gan nad ein gorchwyl ydyw ysgrifenu cofiant iddi,* yn unig cyfeirio ati fel engraifft hynod o rym y weinidogaeth, ac o'r modd y llwyddai yr Arglwydd ei achos. Bu hi, a'i brawd, a'i gŵr, Mr. Thomas Griffiths, yn ddefnyddiol iawn i achos yr efengyl yn y fro hon: teilwng ydynt o goffadwriaeth barchus, ac efelychiad cyffredinol.

### MEIFOD.

Mae hanes Methodistiaeth y lle hwn yn blethedig â hanes y Parch. Evan Griffiths, Ceunant; efe a fu yn offeryn i ddwyn Methodistiaeth i'r ardal hon, a bu yn dad-maeth iddo ar ol hyny. Ganesid ef yn Rhos-fawr, yn mhlwyf Meifod; ond pan oedd tuag wyth mlwydd oed, symudodd ei rieni i dyddyn arall, yn mhlwyf Cegidfa *(Guilsfield)*, ac yn y plwyf hwn y treuliodd y 18 ml. dylynol o'i oes. Yn y lle hwn y dychwelwyd ef at grefydd—yr ymunodd â'r gymdeithas eglwysig, ac hefyd, y dechreuodd bregethu; eto yn

* Gwel Gofiant iddi yn y "Traethodydd," am y fl. 1846.

Meifod y treuliodd 35 o flynyddoedd, sef ei holl oes gyhoeddus oddigerth dwy flynedd, yr ysbaid y bu yn aros yn y Cefn-du ar ol dechreu pregethu.

Eglwyswyr oedd rhieni Mr. Griffiths. Nid oedd, mewn gwirionedd, ddim pregethu gan un enwad o Ymneillduwyr yn eu plwyf hwy, pan oeddynt hwy yn ieuainc. Yr oedd pregethu yn mhlwyf Llanfihangel, sef yn Mhenllys, lle yr arferai ei fam yn achlysurol, ac megys yn lladradaidd, fyned pan oedd yn preswylio yn Rhos-fawr; gwnai yr un modd wedi symud i'r Cefn-du; llithrai, weithiau, i'r Pant i wrando, ond nid oedd, er hyn, wedi profi nemawr, os dim, o argraffiadau dwysion ar ei meddwl. Yr oedd brawd a chwiorydd iddi mewn undeb â'r Methodistiaid yn mhlwyf Cegidfa, er amser Harris a Rowlands, a'r diwygwyr cyntaf. Chwaer iddi oedd gwraig Evan Williams y pregethwr, a brawd iddi ydoedd Mr. Evan Evans, o'r Sarnau. Chwaer arall a briododd un Thomas Davies; a'r tri theulu yma a fu prif swer Methodistiaeth yn y parth hwn o'r wlad. Yr oedd mam Mr. Griffiths, gan hyny, oddiar fod ei pherthynasau agosaf yn grefyddwyr, a hithau yn ei hieuenctyd yn arfer yn achlysurol wrando yn eu cynulliadau, yn llai ei rhagfarn at grefydd a chrefyddwyr y capel nag oedd ei gŵr. Trwy briodi, aeth i fyw i ardal amddifad o bregethu, oddieithr yn llan y plwyf, a pharhaodd yn ddyeithr i foddion gras dros lawer o flynyddau ar ol priodi, oddigerth ar ambell dro, y diangai yn lladradaidd i Benllys. Ond bu farw ei gŵr tra yr oedd y teulu yn aros yn y Cefn-du; daethai ei dau fab, Edward ac Evan, at grefydd; hithau, bellach, a ymroddodd i wrando, ac a ddaeth, pan tua 40 ml. oed, yn aelod eglwysig. Wedi hyn, pan oedd drysau eraill wedi cau, hi a dderbyniodd bregethu i'w thŷ yn ewyllysgar, a hyfrydwch penaf ei hoes, o hyn allan, oedd gweini i'r saint, a gwneuthur a allai o blaid teyrnas Crist yn y byd.

Dan yr amgylchiadau uchod, ni chafodd Mr. Griffiths ddim manteision crefyddol yn ei febyd. Gadawyd ef, gyda bechgyn ei ardal, i halogi Sabbothau yn ddiwarafun, gan eu treulio mewn oferedd a chwareuyddiaeth, ac yn berffaith ddyeithr i wybodaeth ysgrythyrol. Yr oedd perchenog y tyddyn, Cefn-du, yn ŵr tra rhagfarnllyd at grefyddwyr, a gelynol iddynt. Ac wrth osod y tyddyn i dad Mr. Griffiths, gwnaeth yr ammod na elai ef, na neb o'i deulu, i wrando ymneillduwyr o un enw; ac os aent, y byddai hyny yn tori y cytundeb, ac yn rhybudd i ymadael. Mynych, gan hyny, y rhybuddid y plant a'r teulu oll o'r perygl o fyned i un man i wrando, ond i eglwys y plwyf; a magwyd ofn y fath anffawd yn mynwesau y tylwyth oll. "Mae yn gofus genyf," ysgrifenai Mr. Griffiths ei hun, "i mi unwaith gael fy anfon ar neges i dŷ fy ewythr, brawd fy mam, a phan aethum yno, yr oeddynt yn darllen pennod o'r Beibl; a phan aethant ar eu gliniau i weddio, daliwyd fy meddwl gan y fath ddychryn, wrth gofio am rybuddion fy nhad, nes yr aethum adref heb hysbysu fy neges."

Yr oedd y bachgen hwn wedi ei osod dan anfanteision dirfawr i ymgydnabyddu â chrefydd. Ac er nad oedd na thad na mam yn proffesu atheistiaeth, eto ni sonient am Dduw, am enaid, nac am dragwyddoldeb, wrth eu plant, mwy na phe buasent heb fod; ond er yr anfantais hon, mynai gras Duw ym-

weled â'r llencyn. Yn ddamweiniol megys, cyn ei fod yn 12 ml. oed, clybu ymddyddan rhwng ei ewythr a rhyw wraig yn nghylch llywodraeth Duw ar y byd, yr hwn a effeithiodd yn rymus iawn ar ei feddwl; cynyrchodd gyfres o fyfyrdodau dyeithr yn ei fynwes, a pharodd awyddfryd cryf i gyrhaedd gwybodaeth am y Bôd Mawr, yr hwn y dywedid oedd yn llywodraethu y byd. Yn fuan ar ol hyn, clywodd fod rhyw un i'w ddysgwyl i bregethu yn y gymydogaeth ar ryw Sabboth; a phenderfynodd, yn lle myned gyda'r teulu, fel arferol, i'r llan, i lithro i'r bregeth, gan ddysgwyl clywed gair am y Llywodraethwr Mawr. Pregethodd y gŵr dyeithr ar Act. xxiv. 25: "Ac fel yr oedd efe yn ymresymu am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd, Ffelix a ddychrynodd, &c;" a bu y bregeth hon yn effeithiol i ddyfnhau yr argraffiadau a ddechreuasid o'r blaen; dychwelodd adref mewn dychryn mawr; ac ar y cyfle cyntaf a gafodd, llosgodd ddau bâr o geilys, a thair neu bedair *deck* o gardiau, gan benderfynu na chyffyrddai mwyach â'r cyfryw ofer-bethau.

Rhy faith a fyddai olrhain y modd y dygwyd ei feddwl, o radd i radd, ac o bregeth i bregeth, i adnabod llygredigaeth ei natur, a thrueni ei gyflwr, yn nghyda ffordd cadwedigaeth trwy Grist. Daeth yn fuan i deimlo yn awyddus am gymdeithas â'r crefyddwyr, ac am ymgeledd eglwys Dduw, ond pa beth a ddywedai ei dad?—a pha beth a ddywedai y feistres tir? Yr oedd yr hen feistr tir wedi marw, bellach, a nith iddo, llawn mor elynol ag yntau, oedd yn etifeddu y tyddyn. A thra yr oedd ei feddwl mewn trallod a phenbleth, daeth i'w feddwl y geiriau, "Pan yw fy nhad a fy mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn." Rhoes y geiriau rym i'w feddwl, a phenderfynodd, bydded y canlyniadau a fyddent, ymuno â'r gymdeithas eglwysig, a gwneuthur proffes gyhoeddus o grefydd. Wedi ymgynghori â'i ewythr, cynygiodd ei hun i eglwys y Pant, lle y rhoddwyd iddo dderbyniad croesawgar a serchog, pan nad oedd ond 14 ml. oed.

Cafodd lai o wrthwynebiad oddiwrth ei dad nag a ddysgwyliasai; yn unig dywedodd y deuai ystorm ar y teulu o achos hyn, ac y byddai raid ymadael â'r tyddyn. Yn mhen rhyw ysbaid, anfonwyd y llencyn ar neges at y feistres tir, a rhaid oedd iddo aros yn ei thŷ dros nos. Yr oedd, trwy hyn, yn gorfod dyfod yn agos iawn i ffau y wiber, ac ofnai y canlyniad. Yn yr ymddyddan a fu rhyngddynt, tybiodd y foneddiges fod ei leferydd yn ei gyhuddo o fod yn ymgymysgu â'r Methodistiaid, gan y barnai fod rhai o'i ymadroddion yn debyg i'r eiddynt hwy. Cyffrodd y wraig yn arswydus. Collodd feddiant arni ei hun gan nwydau gorwyllt, a cheisiodd chwip y ceffyl i'w fflangellu. A hon hi a gurai y bwrdd a'r coed o'i amgylch, ond ni roddodd un dyrnod i'r llencyn dychrynedig. Dwrdiai ef yn ddiarbed, gan sicrhau os efe, neu neb o'r teulu, a aent i wrando y pengryniaid, y mynai hi lanhau ei thir oddiwrth y fath sothach; ac os cai wybod fod neb o'r cyfryw yn dyfod i un o'i thai hi, y rhoddai y tŷ hwnw ar dân, fel na fyddai y drygsawr yn aros ar ddim o'i hetifeddiaeth.

Cafodd y llencyn fyned i wely cysurus i gysgu, er cymaint y dwrdio a fuasai arno; a thranoeth yr oedd y dôn wedi newid graddau. Yn awr, rhodd-

wyd heibio fygwth, a defnyddiai weniaith a chynghor. Dywedai, "Yr ydych yn deulu parchus yn fy ngolwg; mynwn i chwi beidio gwneyd eich hunain yn ffyliaid, trwy gyfeillachu â phobl mor ddrwg ac isel a'r Methodistiaid." Fel hyn, yr oedd y bachgen yn debyg o gael ymadael mewn gwell heddwch nag yr ofnasai, ac heb orfod gwneuthur un addewid iddi am yr amser dyfodol; ond cyn iddo ymadael, gofynai iddo wneuthur neges drosti dranoeth, sef y Sabboth. Bwriodd hyn ef i benbleth cymaint ag o'r blaen, ac ni wyddai pa fodd i'w boddhau heb droseddu cyfraith ei Dduw. Ocheneidiodd at Dduw am gymhorth, ac anturiodd ofyn yn ostyngedig iddi, ai ni chawsai adael y neges heb ei chyflawni hyd ddydd Llun, ac y gwnai ei dymuniad o fodd ei galon, os gallai ei ohirio hyd hyny. Ar hyn, ymwylltiodd gymaint a'r nos o'r blaen; ac yr oedd, bellach, yn wallgof gan gynddaredd. Ond yn nghanol y terfysg blin, curodd rhywun wrth y drws, a daeth y forwyn i mewn oddiwrth y genad, i ymofyn y neges a geisid ganddo ei gwneuthur ar y Sabboth. Mawr oedd llawenydd y bachgen tyner ei gydwybod pan ddeallodd hyn. Rhoddwyd iddo, gyda'r demtasiwn, ddiangfa hefyd. Ni ymosododd y foneddiges arno byth wedi hyn yn achos ei grefydd, gan gredu ei fod hwnt i bob gwellhad; a bu ei benderfyniad diysgog yn y tro yn foddion i'w achub rhag ychwaneg o'r cyffelyb ymgyrchion.

Cyn llawer o amser, bu farw ei dad, a daeth ei fam a'i frawd yn aelodau gyda'r Methodistiaid, a symudwyd y moddion i'w gartref, sef i'r Cefn-du; ac yma y cynaliwyd hwy, bellach, hyd nes y symudodd y teulu i'r Ceunant, ger Meifod. Pan ydoedd Mr. Griffiths tua 24 ml. oed, dechreuodd bregethu, tua'r un amser ag y dechreuodd Mr. Jones, Dol-y-fonddu; Mr. John Hughes, Pont Robert, a Mr. Abraham Jones. Yr oedd yr achos crefyddol yn cael ei gynal yn ei dŷ, ar ol iddo symud i'r Ceunant, a pharhaodd felly, hyd nes yr adeiladwyd capel yn mhentref Meifod. Yr oedd Mr. Griffiths yn un o'r wyth pregethwr llëygaidd a neillduwyd gyntaf gan y Methodistiaid, yn y fl. 1811. Prawf diymwad o'r parch a'r lle a ennillasai yn serchiadau a barn ei frodyr.

Nid oes genym nemawr o amgylchiadau hynod am dano yn ei yrfa gyhoeddus i'w gosod i lawr, ac nid oes genym ofod i'w hebgor, pe buasai genym y fath. Digon ydyw chwanegu am y "brawd anwyl, a'r gweinidog ffyddlawn" hwn, ei fod "wedi dangos pob ffyddlondeb da," fel cristion, gwladwr, a gweinidog; ac wedi harddu athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr i raddau helaeth iawn. Safai yn uchel ei barch yn syniadau ei gyd-blwyfolion, nid yn unig fel perchen gradd helaeth o feddiannau bydol, ond fel gŵr cydwybodol, cyfiawn, a thra chymwynasgar. Bu farw yn y fl. 1839, yn 61 ml. oed, wedi bod yn pregethu am ysbaid 37 o flynyddoedd.

Mae amryw eglwysi wedi eu planu yn y cymydogaethau hyn, am y rhai ni chafwyd un hysbysiad; ac am y rhai, fe allai, na fuasai dim nodedig, mewn amgylchiadau hynod, i'w groniclo; yn unig, eu bod yn ffrwyth diwydrwydd a ffyddlondeb, trwy sefydlu ysgolion Sabbothol mewn ardaloedd tywyll a diofal, a thrwy ddwyn i mewn weinidogaeth y gair; yn y modd

yma casglwyd, yn y 40 ml. diweddaf, luaws mawr o gynulleidfaoedd, y rhai, bellach, ydynt alluog "i gadw tŷ;" ac yn cael yr anrhydedd o fod yn llawen-famau plant.

## LLANFYLLIN.

Nid yw yr achos Methodistaidd yn y dref hon ond bychan a lled ddigynydd. Yr oedd ymneillduaeth, er hyny, wedi rhoddi ei droed i lawr er yn foreu ynddi, gan mai yma y cawn fod un o'r chwe' capel ymneillduol ag oeddynt yn Ngwynedd ar ddechreuad y ganrif ddiweddaf.

Yr hanes cyntaf am gais y Methodistiaid i sefydlu achos yn y dref hon a ddygwyddodd tua'r fl. 1778. Y pryd hwn, dywedir i ddau bregethwr, John Thomas a William Jones, ddod i'r dref gyda'r bwriad i bregethu. Deallwyd eu bod yn dyfod, ac ymbarotôdd y werin ragfarnllyd i'w cyfarfod, ac i roddi ar ddeall iddynt, nad oedd eu heisiau yn eu tref Gristionogol hwy. Derbyniwyd y ddau bregethwr i gapel Pendre', ond cymaint oedd y swn a'r derfysg y tu allan i'r addoldy, fel na ellid clywed yr un gair. Rhoes William Jones heibio bregethu, gan roddi lle i John Thomas. Yntau hefyd a orchfygwyd; ac nid rhoddi taw arno oedd yn ddigon ganddynt, ond gwnaent gais teg ar ei faeddu hefyd; a'i faeddu yn dost a gawsai, meddir, oni bai i ryw wraig, yr hon oedd yn berthynas i William Jones, ac yn briod â trulliad gŵr boneddig yn y gymydogaeth, ei amddiffyn. Rhoes hyn seibiant i John Thomas ddianc o'r dref; a hyny a wnaeth ar ei draed, gan adael ei geffyl ar ol, a William Jones yn ei ddylyn; a da iawn oedd cael eu hoedl yn ddiangol, a'u hesgyrn yn gyfain.

Nid ydym yn cael fod un cais wedi ei wneyd i sefydlu pregethu yn y dref, ar ol y tro hwn, hyd y fl. 1795, ysbaid 17 o flynyddoedd. Y pryd hwn, daeth Edward Watkin, o Lanidloes, i bregethu yma, yn ol ei gyhoeddiad, ar Sabboth prydnawn, a chasglodd tyrfa fawr o bobl i'w wrando. Wedi iddo ddarllen a gweddio, taflwyd careg ato gan ryw lanc yn y gynulleidfa, a tharawyd ef yn ei arlais nes oedd ei waed yn ffrydio, ac yn dyferu ar y Beibl. Mae y dref yn un fwrdeisiol, ac wedi ei rhanu yn ddosbarthiadau *(wards)*, ac i bob *ward* y mae ei swyddogion cyfreithiol ei hun. Gyda bod y pregethwr wedi ei daro, dechreuodd y gynulleidfa derfysgu, rhai o blaid a rhai yn erbyn, a phob ochr yn arddangos ei theimlad gyda gradd o gyffro. Yn y cyfamser, daeth gwraig y person i'r lle, a chyda hi yr oedd *constable* ar fwriad i gymeryd y pregethwr i fyny, a'i roddi mewn dalfa. Ond ni oddefid hyn gan un Richard Pugh, yr hwn oedd un o'r crefyddwyr, gan ddyweyd wrth y *constable*, nad oedd yr achos yn perthyn i'w ddinas-ran ef. Wedi methu yn hyn, achwynwyd yn erbyn Richard Pugh, a phump o frodyr crefyddol eraill, a berthynent i'r gymdeithas yn y Brithdir, a chodwyd yr achwyniad i frawdlys *(sessions)* y sir. Nid yw fy hysbysydd yn dadgan pa un ai ennill ai colli a wnaeth Richard Pugh a'i gyfeillion, ond dywedir fod dros £20 o gostau wedi disgyn arnynt.

Y canlyniad a fu i Richard Pugh gofrestru ei dŷ yn lle i bregethu, o'r pryd hwnw; a thros ryw dymhor, bu y pregethu yn ei dŷ ef. Wedi hyny, cofrestrwyd tŷ arall yr un modd, sef tŷ un Thomas Roberts; a chynaliwyd y moddion yn y lle hwn dros rai blynyddau, tra yr oedd Richard Pugh yntau yn derbyn ac yn lletya y pregethwyr a ddeuent i bregethu i'r dref. Yn y fl. 1807, symudodd Mr. Abraham Jones i'r dref i fyw, trwy briodi Mrs. Jones, gwraig weddw grefyddol ag oedd yn cadw masnachdy yn y dref. Cymerodd y teulu hwn, bellach, ran o'r baich (os baich hefyd) o letya y pregethwyr; ac wedi rhyw ysbaid, cymerasant ef yn llwyr ar eu hysgwyddau eu hunain. Cynaliwyd yr achos yn y modd yma dros lawer o flynyddau. Bu Mr. a Mrs. Jones yn swer da iddo, ac felly y mae mab Mrs. Jones a'i deulu hyd heddyw.

Gweddus, yn y lle hwn, ydyw dyweyd gair am y Parch. Abraham Jones, gan mai yn Llanfyllin y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, er mai nid yn y dref hon y dechreuodd nac y dybenodd ef ei yrfa. Ganesid ef yn mhlwyf Trefeglwys, yn y fl. 1775. Dychwelasid ei fam trwy weinidogaeth yr hybarch Richard Tibbot, Llanbrynmair, ond yr oedd ei dad yn oedranus pan ymunodd â'r Methodistiaid, er ei fod yn y cyfamser yn ŵr nodedig o foesol a chymydogol, a thros lawer o flynyddoedd yn rhoddi ei dŷ i dderbyn pregethu, ac i letya pregethwyr. Gweinidogaeth danllyd Robert Roberts, Clynog, a fu yn foddion argyhoeddiad i Abraham Jones, yn y fl. 1796; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, dewiswyd ef yn flaenor neu yn ddiacon yn yr eglwys; yn y fl. 1802, dechreuodd bregethu, pan oedd yn 27 ml. oed; a pharodd i weinidogaethu yn ei wlad ei hun, ac ar hyd siroedd De a Gogledd, am ysbaid 38 o flynyddoedd. Yr oedd wedi ei neillduo er y fl. 1823, a dangosodd ei hun yn ŵr call iawn, ffyddlawn, a llariaidd. Tynodd ei gŵys, fel ŷch arferol â'r iau, yn gywir hyd ei diwedd, ac ymadawodd â'r byd, wedi gweithio ei ddyddgylch, i fwynhau yr orphwysfa.

---

Rhaid i ni, bellach, derfynu hanes y sir hon. Pe buasai ein terfynau yn goddef, dymunol fuasai genym ymhelaethu. Ond gan y chwyddai y gwaith yn ormodol i ni prin grybwyll am luaws o eglwysi eraill yn y sir, megys Tregynon, Beulah, Horeb, Soar, Llanfechan, Gwern-y-bant, Trallwm, Cefncanol, a lluaws o rai eraill—nac am niferi o bersonau defnyddiol, o bregethwyr, henuriaid, a charedigion eraill, y rhai a weithiasant yn dda, ac ydynt yn awr yn gorphwys oddiwrth eu llafur; rhaid i ni derfynu ar hyn, gan ddadgan ein dymuniad ar fod pob lle, er lleied fyddo, yn cadw "Llyfr Coffadwriaeth" perthynol iddo ei hun, ac yn gosod i lawr ynddo bob amgylchiad, fel y dygwydd o bryd i bryd, i fod yn barod, pan y gelwir am dano, i'w gyhoeddi i'r cyfundeb oll, ac i'w draddodi i'r genedlaeth a ddelo ar ol.

# PRIF LINELLAU HANESIAETH SIR GAERFYRDDIN.

## PENNOD I.

### HEN EGLWYSI GOGLEDD-DDWYRAIN Y SIR.

CYNWYSIAD :—

COFNODAU TREFECCA—TAL-LLYCHAU NEU TYLAU—MRS. LLOYD, PANT-YR-ESGAIR—RHYS MORGAN, CAPEL-HIR—CYRCHU I LANGEITHO—MRS. GRIFFITHS, GLAN-YR-AFON-DDU-GANOL—ADFYWIADAU—LLANFYNYDD—DAFYDD EVAN, BRISCEN, AC EVAN, TIR-CLAI—DAFYDD RHYS—CORNELIUS COBNER—LLANSAWEL—CAIO—MR. LLOYD, HENLLAN.

YMDDENGYS oddiwrth Gofnodau Trefecca, fod amryw eglwysi wedi cael eu planu yn y rhanau hyny o'r wlad ag sydd yn gorwedd i'r Gogledd oddiwrth yr afon Towy, er amser cyntaf Methodistiaeth. Sonir am amryw o honynt yn y blynyddoedd 1742—7, y rhai a arolygid gan un James Williams, yr hwn, tybygid, oedd gynghorwr cymeradwy yn ei dymhor. Yr oedd y dosbarth dan ei olygiaeth ef yn cyrhaedd o'r afon Towy hyd Langwyryfon, yn sir Aberteifi. Y cymdeithasau yn sir Gaerfyrddin a arolygid ganddo oeddynt, Llangathen (Cross-Inn yn awr), Llanfynydd, Llansawel, Tal-llychau, Caio, a Chil-y-cwm. Mewn un adroddiad tua'r fl. 1743, rhoddai rifedi yr aelodau yn mhob lle fel hyn :—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llansawel ............... ...... | 40 | Tal-llychau ............... | 60 |
| Llanfynydd .................. | 50 | Caio ........................ | 55 |
| Llangathen .................. | 29 | Cil-y-cwm... .............. | 29 |

Ymddengys fod cryn anwastadrwydd ac anwadalwch yn y rhifedi, weithiau yn fwy a phryd arall yn llai ; ymddengys hefyd eu bod yn dyoddef cryn lawer o wawd, ond nid llawer o drais a gorthrwm. Yr oedd cryn anwybodaeth a llawer o ddiniweidrwydd yn nodweddau y dysgyblion ieuainc hyn ; yr oedd-ynt hefyd yn ddarostyngedig i deimladau cryfion, weithiau o ofn a digalondid, a phrydiau eraill o lawenydd mawr dros ben. Yr oedd y pregethu yn cael ei gynal, gan mwyaf, mewn tai, neu yn yr awyr agored; ac weithiau, yn ach-lysurol, caniateid i rai o'r offeiriaid Methodistaidd, megys Mr. Rowlands, Llangeitho, neu Williams, Pant-y-celyn, bregethu yn llan y plwyf. Nid oedd, yn y tymhor hwn, yr un capel neu addoldy wedi ei godi yn unlle yn y wlad, oddieithr fod un yn Llansawel, o dan yr enw "tŷ i ddybenion crefyddol," yr hwn, yn ol dim a fedrodd yr ysgrifenydd gael allan, oedd y cyntaf gan y Methodistiaid yn Nghymru. Penderfynwyd ar i hwn gael ei godi yn y fl. 1744, sef tair blynedd cyn yr amser y codwyd capel Llanfair-yn-Muallt. Yr oedd cyfarfodydd misol yn cael eu cynal yn Abergorlech, Glan-yr-afon-ddu, Porth-y-rhyd, a Dygoedydd ; y lleoedd a dybid yn fwyaf cyfleus, ar gyfrif fod ynddynt deuluoedd mwy eu gallu a'u hewyllys i letya a chroesawu y dyeithr-iaid, na manau eraill.

### TAL-LLYCHAU.

Dywedir mai yn y fl. 1794 y dechreuodd yr achos ymffurfio i wedd sefydlog yn yr ardal hon. Y mae hyn yn peri gradd o syndod, gan fod yma gymdeithas eglwysig er ys 50 mlynedd cyn hyny. Ond pa mor syn bynag yr ymddengys hyn i ni, felly yr oedd; ac nid yn y lle hwn yn unig y bu yr achos felly, ond mewn niferi o fanau eraill. Yn y flwyddyn grybwylledig, rhoes gwraig foneddig dduwiol yn y gymydogaeth, sef Mrs. Jane Lloyd, Pant-yr-esgair, dŷ o'i heiddo, yr hwn oedd yn sefyll ar ei thir, i fod yn lle addoliad. Trefnuswyd hwn i'r dyben hyny, a dygwyd yr achos yn mlaen yn y lle hwn hyd y fl. 1806. Y pryd hwn, rhoes yr un foneddiges dir i adeiladu capel arno, a chae bychan i'w ganlyn. Yn hwn yr arferid ymgynull hyd y fl. 1828, pryd yr helaethwyd ef i'w faintioli presenol.

Nid oes genym nemawr o hanes pa fodd yr oedd ar yr achos yn ystod llawer o flynyddoedd cyntaf ei hanfodiad; yn unig, fe draddodir i ni enwau rhai gwŷr a gwragedd, swyddogion ac aelodau, a fuont ymroddgar a ffyddlawn i'r achos yn ei wendid. Sonir am Thomas Lewis, y gof; John Thomas, Cwm-sidan; a David Morgan, o'r Merdy, Taliaris, fel rhai nodedig eu gras a'u defnyddioldeb. Crybwyllir yn barchus iawn am un Morgan Rhys, Capel-hir, yr hwn a fu yn pregethu yn llafurus ar hyd ac ar led y dywysogaeth am fwy na 60 mlynedd. Nid yw yn ymddangos fod y gŵr hwn yn berchen ar ddoniau helaeth, eto cafodd ras i fod yn ffyddlawn, a choronwyd ei lafur dirodres â llwyddiant mawr.

Gan lleied oedd nifer y pregethwyr ar y dechreu, a chan mor anwastad oedd y moddion yn y parthau hyn, yr oedd cyrchu mawr gan y rhai a brofasent flas yr efengyl i Langeitho i wrando Mr. Rowlands, yn enwedig ar Sul cymundeb. Ai llawer o'r ardal hon yno ar eu traed dros y mynyddau uchel, a'r corsydd dyfnion, 30 milldir o ffordd, erbyn yr oedfa naw o'r gloch y boreu, a dychwelent drachefn erbyn boreu ddydd Llun, gan deimlo eu bod wedi cael mwy na thâl am eu holl lafur. Mae enwau y rhai hynotaf o honynt eto ar gael,* ond eu lle nid edwyn ddim o honynt mwy. Arferent gadw cyfarfodydd yn nhai eu gilydd ar gylch, drwy yr holl ardaloedd hyn, i ymddyddan am bethau ysbrydol, ac i weddio. Coronid eu cyfarfodydd yn fynych â mwynhad rhyfeddol, rhedai eu llestri dros yr ymyl, mynych y byddent yn canu ac yn moliannu drwy y nos, a'r meusydd a ddadseinient gan eu mawl wrth fyned i'w cartrefi. Disgynai syndod ar lawer wrth eu gweled, eraill a'u gwawdient, a rhai a'u cablent.

Nid oes hanes am nemawr o erlid a fu ar y crefyddwyr yn y tymhor hwn. Cyfrifir fod hyn yn codi, naill ai oddiar fod yr offeiriaid yn bertfaith ddiofal

* Siôn Dafydd Harri; William Harri (Annibynwr yn perthyn i Grug-y-bar); Siôn Edward, Glan-yr-afon-ddu-isaf; Mrs. Griffiths, Glan-yr-afon-ddu-ganol; Rhydderch Siôn Huw, Nant-yr-hogfaen, Caio; Rhys Daniel, Tir-allen; Evan Rhys, Troed-y-rhiw, Llanwrda; William Timothy, Heol-y-gelli; Gwen Evan Owen, Cefn; Siôn Zachari; a Siôn Siencyn, y Parc, yn ardal Llansadwrn.

pa beth a ddeuai o'u plwyfolion, neu oddiar fod personau o gryn gyfrif a dylanwad yn y wlad yn eu pleidio, yn hytrach nag yn eu gwrthwynebu. Ië, yr oedd amryw o'r crefyddwyr eu hunain yn bobl gyfrifol yn y byd, ac iddynt barch mawr o herwydd eu sefyllfa yn gystal a'u cymeriad. O'r cyfryw rai, yr oedd yn ardal Llangadog, Mri. T. W. Watkin, Llwyndewi, a Benjamin Morgan, Cae-Siencyn ;—yn ardal Llansadwrn, yr oedd William Jones, Abermarlais, a Gwen Evan Owen, o'r Cefn ;—ac yn ardal Tal-llychau, yr oedd Mr. a Mrs. Griffiths, Glan-yr-afon-ddu ; Mrs. Lloyd, Pant-yr-esgair ; a Morgan Rhys, Capel-hir.

Byddai yn anfaddeuol, er lleied ein gofod, beidio a rhoddi hanes helaethach am y Mrs. Griffiths hon. Ymddengys ddarfod iddi hi a'i gŵr, Mr. Thomas Griffiths, ddyfod i fyw i Glan-yr-afon-ddu-ganol tua'r fl. 1728. Yr oeddynt yn berchen amryw dyddynod eu hunain, er mai dan ardreth yr oedd y tyddyn hwn ganddynt. Cymerodd Mr. Griffiths amser ar y tyddyn dros dair oes, yn y fl. 1734, gan Syr Nicholas Williams, Rhyd-odyn, am £50 yn y flwyddyn, tyddyn sydd yn awr yn werth £200 yn y flwyddyn. Yr oedd ganddynt ar y pryd fab bychan, ychydig wythnosau oed. Rhoddwyd bywyd y rhieni a'r plentyn yn y weithred. Bu farw y plentyn yn 8 ml. oed, a'i dad hefyd a fu farw yn y fl. 1768. Yr oedd Mr. Griffiths yn ŵr duwiol, a chymwynasgar i achos yr efengyl, a pharhaodd felly dros ei oes. Ond nid cymaint o goffa sydd am dano ef ag sydd am ei wraig, yr hon, fel yr ymddengys, oedd yn un hynod am ei rhinweddau Cristionogol, ac am ei haelioni crefyddol. Ymddengys mai gwraig o gyneddfau cryfion oedd hi, gywir, a dirodres. Troai allan yn wastad yn well na'r dysgwyliad. Yr oedd ei chyfarchiad cyntaf yn aml yn lled anfwyn, gan y rhoddai y gair garwaf yn mlaenaf; parai hyn radd o gamsyniad am dani yn mysg dynion dyeithr iddi. Yr oedd ei thŷ, o ddechreuad Methodistiaeth ymron, yn "llety fforddolion ;" yn lle cyfarfod, ac yn gyrchfa pregethwyr ac eraill i letya. Yr oedd Glan-yr-afon-ddu yn sefyll yn gyfleus i'r bobl a gyniweirient i Langeitho o ranau deheuol a gorllewinol y sir, ac o sir Forganwg, i droi i mewn iddo; a chan fod y gair am ei lletygarwch hi wedi myned ar led, nid ychydig nifer a fyddai yn troi i mewn, ac ar rai achlysuron cyd-gyfarfyddai nifer mwy nag arferol; y pryd hyn hi a dorai allan yn ddirodres i ddyweyd :

"Hawyr fach ! i b'le 'r'ych ch'i'n myn'd i gyd?"

"O, i 'mofyn lle i gysgu genych ch'i, Mrs. Griffiths fach, yr y'm ni," fyddai yr ateb.

"O b'le ca'i fwyd i ch'i gyd, i ch'i'n meddwl?"

"O, mae digon o fwyd a gwelyau i gael yma, os nad yw hi yn *ods* nag y mae yn arfer bod yma."

"O'r goreu, ynte, dewch lawr, dewch i'r tŷ.—Siôn (enw y gwas) a oes lle gyda ti i'r holl geffylau yma, wyt ti yn meddwl?"

"Oes, oes, meistres fach," atebai Siôn.

"A oes digon o wair yna iddyn' nhw i gyd, wyt ti yn meddwl?"

"O oes, digon o wair hefyd, meistres fach."

"O'r goreu," meddai y feistres wedi'n, "dewch mewn, druain bach." Bellach, dangosai iddynt bob caredigrwydd. Ac os dygwyddai fod yr addoliad teulu-aidd nos neu foreu, yn llewyrchus (a hyn a ddygwyddai yn fynych y tymhor hwnw), byddai ei serchogrwydd, bellach, yn llawer mwy nag a fuasai anserchogrwydd y cyfarchiad; a chyn eu gollwng ymaith, gosodai yn drwm ar bob un i cfalu troi i mewn pa bryd bynag y byddai yn myned heibio. Fel yr oedd ei moddion yn helaeth, felly yr oedd ei llaw yn agored. Hi a anrhegodd Mr. Rowlands â *gig* i deithio ynddi; a pharodd i galon y tlawd lawenychu yn fynych trwy ei haelfrydedd. Gadawodd dyddyn, £50 yn y flwyddyn, trwy weithred gyfreithiol, i'r ardreth gael ei gyfranu yn flynyddol dros byth, yn mysg tlodion eglwysi Llangeitho, Tal-llychau, Caio, Llansawel, a Llanfynydd. Gwnaed cais rai blynyddoedd yn ol, gan offeiriaid y plwyfydd hyny, i droi y ffrwd uchod i dlodion y plwyfydd dan eu harolygiad hwy, gan mai enwau y plwyfydd oedd yn y weithred, ac nad oedd cymdeithasau eglwysig y Methodistiaid ddim wedi eu dynodi yn ddigon manwl. Ond trwy fod yr ymddiriedolwyr yn ddynion cywir, terfynodd y ddadl o blaid cyfiawnder.

Dygwyddai i'w haelioni, weithiau, gymeryd llwybr lled ddyeithr; llwybr na feddyliasai neb am dano ond hi ei hunan. Yr oedd yn arferiad tra chyffredin, y pryd hwnw, i bregethwyr ac eraill wisgo cadach, neu fel y gelwir ef gan rai, ffunen, neu napcyn *(handkerchief)*, am eu penau. Tarawodd yn mhen Mrs. Griffiths unwaith roddi i saith o brif ddiaconiaid ei hardal, bob un ei gadach sidan. Galwodd y saith ŵr i Lan-yr-afon-ddu, ar ryw ddiwrnod, i gadw cyfarfod eglwysig; a chyn eu gollwng i'w ffordd, galwodd hwynt oll i'r parlawr, ac o'u nifer yr oedd Rhydderch Siôn Huw, a Siôn Dafydd Harri, ei phen gwas; ac wedi peri iddynt oll eistedd, hi a ddygodd yr anrheg i'r golwg, ac a'u cyfarchodd:—

"Wel, frodyr bach, yr w'i wedi cael ar fy meddwl i roi i bob un o honoch *handkerchief* sidan i wisgo ar eich penau, yn arwydd o'r parch sydd genyf i ch'i." Disgynodd syndod ar bawb. Gofynent yn ddystaw bob un iddo ei hun, paham y gwnai y wraig foneddig y fath beth. Torodd Rhydderch Siôn Huw, yr hwn oedd yn well ei fyd na rhai o'r lleill, allan, gan ddyweyd, "'Allai i byth ei gymeryd e' o gydwybod—does dim o'i eisieu ef hefyd arna' i, ac yr wyf yn ei weled e' yn ormod o werth o lawer i mi."

"Wel, Rhydderch," meddai hithau, "yr wyf fi yn amheu a yw dy galon di yn gwbl ddiragrith yn hyna, ai peidio. Ond os cymeri di ef, yn awr yw yr amser, tra fo fy nghalon i yn agored; o waith, os cauiff fy nghalon i, yr hyn y mae yn dra thueddol i wneyd, dygwydd fydd iddi agor yn fuan, i ti gael yr ail gynyg arno." Prin y mae achos chwanegu na wnaeth ef, na'r un o'i frodyr, un wrthddadl rhag derbyn yr anrheg wedi hyn o hèr.

Agorwyd y capel, fel y dywedwyd, yn y fl. 1806, ac ar ei agoriad pregethai Mr. Llwyd, Caio, a Mr. Jones, Llangan, ac eraill, i dyrfa fawr iawn. Yn ystod yr hen dŷ cyntaf, ac am ysbaid 22 o flynyddau ar ol adeiladu y capel, cafwyd adfywiadau mynych a chynyrchiol, fel y chwanegwyd llawer at rifedi

yr eglwys. Tua'r amser yr agorwyd y capel, neu ychydig o flynyddau cyn hyny, y codwyd yr ysgol Sabbothol hefyd. Y prif offerynau i'w chodi, gyda chynorthwy rhai eraill o'r brodyr, ydoedd Thomas Lewis, a John Thomas. Cymerai y brodyr hyn bob un ei dro, un i fyned i gwrdd y pregethwr, y boreu i Gaio, Llansawel at ddau, a'i arwain ef i Esgairnant neu Tal-llychau, erbyn yr hwyr; a'r llall gyda'r ysgol y boreu, mewn rhyw ganghen o'r neilldu, a'r prydnawn yn y capel. Parhaodd hyn am lawer o flynyddoedd. Yn wahanol i'r mwyafrif o'i urdd, dangosai Arglwydd Robert Seymour, o Taliaris, lawer o garedigrwydd anmhleidgar tuag at yr ysgol Sabbothol, fel y gwnai at luaws o achosion da eraill. Un tro, pan oedd diffyg Testamentau yn yr ysgol, anrhegodd y pendefig yr ysgol, ar gais Mr. D. Morgan, Merdŷ, a rhai dwsinau o honynt. Trefnusodd hefyd ysgubor ar dyddyn gerllaw ei balas, drwy draul go fawr, i fod yn lle cyfleus i bregethu ynddo, modd y gallai ei weithwyr Cymreig, ac eraill a ewyllysient, fyned yno, i glywed gair y bywyd.

Cafodd achos yr efengyl yn mysg y Methodistiaid brofion mynych o ewyllys da boneddwyr a gwŷr cyfrifol y fro hon, dan amryw amgylchiadau heblaw a goffawyd eisioes. Dywedasom o'r blaen mai Mrs. Lloyd, Pant-yr-esgair, a roes dir i adeiladu capel, yn nghyda maes bychan gydag ef dan *lease* o fil ond un o flynyddoedd; ond trwy ddiofalwch ac esgeulusdra, bu agos i'r anrheg werthfawr fyned o'r meddiant, am na chofrestrwyd hi yn ol y gyfraith; ac allan o feddiant yr aethai hefyd, oni bai i garedigrwydd y gŵr parchus Mr. Walters, etifedd Mrs. Lloyd, wneuthur y bwlch yn wirfoddol i fyny.

Amser a ballai i ni gymaint a chrybwyll am ffyddlondeb a charedigrwydd lluaws o gyfeillion eraill i'r achos a fu yn y gymydogaeth hon, o'r dechreuad hyd yn awr. "Mae eu tyst hwy yn y nefoedd, a'u tystiolaeth yn yr uchelder."

Ymwelwyd amrywiol weithiau â'r ardal hon drwy adfywiadau hyfryd,—cawodydd cynyrchiol o'r gwlaw graslawn, nes y byddai y tir cras yn ffynnon o ddwfr. Ac er profi tymhorau gwahanol i hyn, eto, ar y cyfan, cadwyd yr achos mewn gradd helaeth o sirioldeb, a pharhaodd i gynyddu, ar y cyfan, hyd yn awr. Mae yma tua 150 o aelodau mewn cymundeb—rhifedi lled fawr, wrth ystyried mai dosbarth amaethyddol o wlad ydyw, a'i thrigolion yn deneu mewn cydmhariaeth i rai manau eraill.

Yn y fl. 1847, bu farw y pregethwr a berthynai i'r eglwys hon, Rhys Morgan, yn 83 ml. oed, yn hen a chyflawn o ddyddiau, wedi bod yn llafurio yn gyhoeddus gyda'r gwaith o'i ieuenctyd, ysbaid maith o 63 o flynyddoedd. Ychydig o'r dechreuad hyd heddyw a dreuliasant gynifer o flynyddoedd mewn llafur cyhoeddus.

## LLANFYNYDD.

Mae Methodistiaeth y lle hwn yn meddu yr un hawl i henafiaeth a'r eglwys yn Tal-llychau. Yr oedd yma gymdeithas eglwysig yn amser Howel Harris, ac fel y cymdeithasau eraill a nodwyd eisioes, dan olygiaeth un James Williams. Crybwyllir yn ysgrifion Trefecca, fod yma un Dafydd William yn

gynghorwr, ac un Morris John, yn ddiacon neu *steward*, fel y gelwid ef yn y cofnodau.

Dywedir mai yn nhŷ un Dafydd Evan, Briscen Helyg, y bu y pregethu gyntaf gan y Methodistiaid yn yr ardal hon. Sonir hefyd am ddau bregethwr ag oedd yn mhlith yr hen bobl, sef Evan Dafydd Evan, a Dafydd William Rhys. Mae crybwylliad am waith Howel Harris yn pregethu oddiar gareg farch wrth y Tŷ mawr, yn mhentref Llanfynydd; wedi hyny y cafwyd derbyniad i Cwmban-fawr. Ymddengys gradd o anghysonedd rhwng yr adroddiadau uchod. Un a ddywed, mai yn Briscen Helyg, a'r llall mai yn Cwmban-fawr, y rhoddwyd achles i'r pregethu gyntaf; ond y mae y ddau draddodiad yn gyson os ystyrir *dau* ddechreuad i Fethodistiaeth yn y fro hon, fel ag y bu mewn lluaws o fanau eraill. Y cyntaf gan Howel Harris a'i gyd-lafurwyr, o'r fl. 1738 hyd y fl. 1751, pryd y bu bwlch gauafaidd yn y diwygiad trwy yr ymraniad a fu rhyngddo â Rowlands, a'i enciliad oddiwrth ei hen frodyr am flynyddoedd. Yr ail ddechreuad, tua'r blynyddoedd 1760—70. Barnu yr ydym, mai ar *yr ail gychwyniad hwn* y derbyniodd Dafydd Evan y pregethu i'w dŷ. Llocheswyd y pregethu hefyd yn Stangrach, lle yr anneddai tad a mam y Parch. William Davies, Castell Nedd. Wedi eu marwolaeth hwy, dygwyd yr achos yn mlaen yn nhŷ Rhys Evan, o'r Gallt, ac hefyd yn Tir-Clai, lle y preswyliai yr hynod bregethwr Evan Dafydd Evan, neu, fel y gelwid ef amlaf, Evan Tir-Clai. Bernir hefyd fod gweinidogaeth yr Annibynwyr yn Nghrug-y-bar wedi bod yn fendithiol i rai o'r ardal hon, y rhai a ymunasant, ar ol hyny, gyda'r Methodistiaid. O hyny hyd yn awr, y mae wedi bod mewn cysylltiad â'r achos, luaws o ddynion da eu gair, eiddigeddus eu hysbryd, a ffyddlawn eu gwasanaeth,* y rhai, oll ymron, ydynt wedi eu symud, a'u lle yn cael ei lenwi gan eraill.

Bernir ddarfod ad-ffurfio yr eglwys yma, ar ol gwasgarfa yr ymraniad rhwng y blynyddoedd 1755 a 1760. Adeiladwyd y capel cyntaf tua'r fl. 1771, dan arolygiaeth Dafydd Evan, Briscen, ac Evan Tir-Clai. Yn fuan wedi ei adeiladu, cynaliwyd yma Gymdeithasfa, pryd yr oedd Mr. Rowlands, ac amryw o'r offeiriaid a gyd-lafurient ag ef, yn pregethu ar yr achlysur. Cawsant ganiatâd i'w chadw y tro hwn yn llan y plwyf. Y ficer oedd un Cornelius Cobner, gŵr hollol anghymhwys "i wylio dros eneidiau," gan nad oedd yn gwylio dim ar ei enaid ei hun: "glwth a meddw oedd efe;" eto yr oedd yn llai ei ragfarn, fel yr ymddengys, at y Methodistiaid, na rhai o'i frodyr, gan y rhoddai y llan at eu gwasanaeth ar yr achlysur. Lletyai feddwl mawr am dalentau gweinidogaethol Rowlands, ac nid llawer llai am ei gymhwysderau ardderchog ei hunan, gan y dywedai yn fynych, mai dau offeiriad enwog oedd yn Nghymru, Rowlands yn sir Aberteifi, ac yntau yn sir Gaerfyrddin!

* Megys, Morgan Rhys, Awdwr yr Hymnau; William Morgan Thomas, Galltllan; Thomas Lewis, Pant-gwineu; Thomas Lewis, Pentre-felin; Rhys Rhys, a'i fab John Rhys, tâd a brawd y Parch. Dafydd Rhys; Dafydd William, y Saer; a Thomas Jones.

Yr oedd Llanfynydd, fel cymydogaethau eraill o amgylch, yn mwynhau gweinidogaeth y ddau Williams, Lloyd o Henllan, John Evans, Cil-y-Cwm, a Dafydd Morris, yn gymysg â'r eiddo cynghorwyr eraill, llai eu doniau cyhoeddus, bawb yn eu cylch; a chynyddai yr achos yn raddol, er gweled gwahanol dymhorau, dan eu llafur cyhoeddus hwy, a than fugeiliaeth llai cyhoeddus henuriaid ffyddlon a duwiol.

Yr oedd rhai o'r hen gynghorwyr yn ddynion anghelfydd a diaddurn iawn, er bod yn nodedig am eu cywirdeb a'u llafur. Ymwisgent mewn diwyg mor wladaidd, a chyfarchent y bobl mewn dull ac iaith mor gyffredin, ag a barai i ni, yn y dyddiau hyn,synu pa fodd y goddefid hwy i ymddangos ar goedd cynulleidfaoedd; ond y gwirionedd ydyw, fod eu gwrandawyr hwy, hefyd, gan mwyaf, yn boblach wladaidd ac anghoethedig, a chan mor amlwg fyddai eu cywirdeb, a difai a fyddai eu cymeriad, edrychid heibio, gan y rhai callaf o'u gwrandawyr, i ambell wrthuni a ymddangosai ynddynt.

Un o'r cyfryw gynghorwyr oedd Evan Tir-clai. Yr oedd yn wladaidd iawn ei olwg, yn fras iawn ei gyfarchiad, ac yn fynych yn drwsgl iawn ei weinidogaeth. Eto, oblegid ei grefydd, a chyfanrwydd difwlch ei rodiad, temtir ni i edrych arno yn gymhwysach "*olynwr i'r apostolion*" nag ydoedd ficer ei blwyf, na'i gyffelyb. Digon i beri i'r un mwyaf pruddaidd wenu ydyw y darluniad a roddir i ni o bregeth o'r eiddo, yr hon a wrandawyd, ac a adroddwyd wedi hyny, gan Mr. Llwyd, Henllan. Pregethai Evan ar edifeirwch, ac atebai y gofyniad, "Beth yw edifeirwch?" fel y canlyn:—

1. *Aqua fortis*, yr hwn sydd yn tori yn ddau y peth oedd yn un.
2. *Powdwr jalap*, yr hwn sydd yn clirio gwaelod y briw.
3. *Tincture of myrrh*, yr hwn sydd yn iachâu y briw yn drwyadl, ac nid yn ei groeni ar gig marw!

Y mae yr enghraifft hon yn ddigon i ddangos, nid pa fath oedd pawb o gynghorwyr yr oes hòno, ond pa fath un oedd Evan Tir-clai, o ran coethder ei chwaeth, a chymhwysder ei ymadrodd. Ond un hynod ydoedd ef ymron yn mhob peth: nid annhebyg i Siencyn Thomas, Pen-hŷdd, yr hwn, yn wir, a genedlwyd ganddo yn yr efengyl; y ddau yn ddynion gwir grefyddol, eto o ddiwyg ac ymddygiad perffaith anghoethedig a diaddurn.

Y mae Llanfynydd yn gysylltiedig, yn meddyliau Methodistiaid hynaf yr oes hon, ag enw Dafydd Rees, yr hwn, er ei fod yn ogyfuwch ag Evan Dafydd Evan mewn gras a duwioldeb, oedd yn gwahaniaethu yn ddirfawr oddiwrtho o ran ei chwaeth a'i weinidogaeth. Ni welodd sir Gaerfyrddin nemawr weinidog mor gryno a difai a Dafydd Rees. Yr oedd ei weinidogaeth yn nodedig, nid am orwychder tanbaid, a grymusder aruthrol, ond am ei sylwedd a'i chymhwysder. Yr oedd ei bregeth yn nodedig am ddwysder ei mater, ysgrythyroldeb ei thraethiad, ac agosrwydd ei chymhwysiad. Ganwyd ef yn y fl. 1751; dechreuodd bregethu yn y fl. 1782; a llafuriodd yn ffyddlawn ac effro yn ngwinllan ei Arglwydd am oddeutu 35 o flynyddoedd; a bu farw yn nghanol ei waith, yn Mhont-y-pridd, pan ar ei daith yn sir Forganwg, wedi ychydig ddyddiau o glefyd, yn y fl. 1818. Yn fuan ar ol

iddo ddechreu pregethu, disgynodd y coelbren arno i fod yn filwr; a chan ei fod yn ddyn iraidd, tàl, a golygus, cafwyd anhawsder mawr i'w gael yn rhydd; a diau hefyd na chawsid ef yn rhydd, oni bai i R. Jones, Ysw., Pantglas, sefyll o'i blaid, a gosod ei fryd ar fynu ei ryddhau. Teithiai lawer yn y Deheudir; ymwelai â'r Gogledd unwaith yn y flwyddyn; a chafodd cynulleidfaoedd y Methodistiaid yn y dywysogaeth, drwy hyny, brawf hyfryd o'i gymhwysder i "iawn gyfranu gair y gwirionedd," ac i "gadarnhau eneidiau y dysgyblion." Yr ydoedd efe yn un o'r nifer a neillduwyd gyntaf, yn y fl. 1811, i gyflawn waith y weinidogaeth. Amlygai y cyfryw ddewisiad y mawr barch a fynwesai ei gyfeillion tuag ato, a'r ymddiried diffuant a roddent ynddo.

Y mae yr hanesyn canlynol yn cyflwyno awgrym i'r darllenydd pa fath rai oedd athrawon cyflogedig y bobl yn y cyfamser, ac yn rhoddi cipolwg hefyd ar hynawsedd a ffraethineb Mr. Jones, Llangan. Dywedasom fod offeiriad o'r enw Cobner, yn gweini yn Llanfynydd dros ryw dymhor. Yn ei amser, arferai aelodau clwb i'r cleifion ymofyn am bregeth ganddo ar ddydd Llun y Pasc bob blwyddyn, a thalent bum swllt iddo am ei wasanaeth. Dygwyddodd un flwyddyn fod Mr. Jones, Llangan, i fod yn pregethu yn Llanfynydd, a thybiai rhai o aelodau y clwb mai dymunol fyddo cael pregeth ganddo ef, gan fod yr achlysur yn rhoddi. Dan ddylanwad y syniad hwn, aeth rhai o honynt at Mr. Cobner, gan osod eu cynllun o'i flaen. Wedi eu gwrando, dywedai y gŵr parchedig, "O'r goreu; peidiwch chwi a gofalu, mi siaradaf fi â Mr. Jones. Yr wyf fi yn llawn mor gyfarwydd a neb o honoch chwi â Mr. Jones." Pan ddaeth yr amser, daeth Mr. Jones yn ol ei addewid. Yr un modd hefyd, daeth Mr. Cobner ato i drefnu yn nghylch y bregeth.

"Yr wyf fi, Mr. Jones," ebe efe, "i bregethu heddyw i ddeiliaid y clwb sydd yma. Y mae yn arferiad cyson i wneyd hyny ar ddydd Llun y pasg."

"O'r goreu," meddai Mr. Jones, "mi âf fi heibio, ynte, at yr oedfa nesaf."

"O na, Mr. Jones," chwanegai yr offeiriad, "y mae yn rhaid i chwi bregethu, syr. Yr wyf fi yma yn wastad, ac y mae y bobl yn gyfarwydd iawn â mi; ond er hyny, Mr. Jones, *y mae yn rhaid i mi gael y goron.*"

"O *stop*, Mr. Cobner," meddai Mr. Jones, "os rhaid iddi fod fel hyny, ni ro'f fi ddim o '*nghoron* i chwi mor rhad a hyna; ond os y *pum-swllt* sydd yn eich golwg, chwi a'u cewch a chroesaw, ond *nid y goron!*"

Ymddengys fod Methodistiaeth wedi ymwreiddio yn y dosbarth hwn o'r sir—yn cynwys Caio, Llansawel, Tal-llychau, Cross Inn, a Llanfynydd—er yn foreu iawn. Yn y dosbarth hwn yr oedd y cymdeithasfaoedd cyntaf, sef math o gyrddau misol bychain, yn cael eu cadw, sef yn Abergorlech a Glan-yr-afon-ddu, pryd y byddai y tadau Methodistaidd yn cyfarfod i dderbyn adroddiadau yr arolygwyr, ac i gydymgynghori yn nghylch y dull goreu i ddwyn yr achos yn mlaen. Gŵr o'r enw James Williams oedd yn arolygu y cymdeithasau a gyfarfyddent yn Caio, Tylau, Llansawel, Llangathen, (Cross Inn,) a Llanfynydd, heblaw rhai manau yn sir Aberteifi. Perthynai cryn nifer o aelodau i rai o'r lleoedd hyn tua'r blynyddoedd 1742-5, fel y crybwyll-

wyd o'r blaen, er ei bod yn anhawdd olrhain eu hanes oddiyno i waered, yn enwedigol gan nad oedd eto nemawr o leoedd sefydlog i addoli: ond cyfarfyddent mewn tai anedd, weithiau mewn un, ac weithiau mewn un arall, yn ol cyfleusdra.

## Caio.

Am y lle hwn y cofnodir fod yma 44 o aelodau, a dau gynghorwr anghyhoedd o'r enw John Thomas, a Richard Jones, yn y flwyddyn 1743. Dywedir fod 24 o'r 44 aelodau hyn yn *hóni hawl yn Nghrist*, a'r gweddill oll *dan y ddeddf*. Dywedir drachefn am danynt, "Mae gwaith Duw yn myned yn mlaen yn rhwydd; hwy rodiant mewn cariad mawr, gan deimlo fod Crist yn gweithio yn rymus yn eu heneidiau. Maent yn byw yn unol iawn â'u gilydd, a rhagfarn yn cael ei ddiwreiddio fwy-fwy o'u mysg. Maent yn fwy sylweddol yn eu heneidiau, ac yn edrych mwy ar yr Iesu."

Cynaliwyd cyfarfod yma ar yr 28ain o Hydref, 1745. Yr oedd yn bresenol, y Parch. Daniel Rowlands; y Parch. William Williams; y Parch. Jenkin Morgan, gweinidog ymneillduol; Mr. Howel Harris, arolygwr cyffredinol; James Williams, a William John, arolygwyr; Thomas Jones, arolygwr cynorthwyol; John Thomas, John Dafydd, John Thomas, Dafydd John, Morgan Evan, William Samuel, John Dafydd, John Rhys, a James Edwards, cynghorwyr anghyhoedd.

Cytunwyd yn y cyfarfod hwn,—

1. "I gyffroi y bobl i ddarllen yr ysgrythyrau, ac i ffurfio eu hymadroddion yn eu hol; ac i sefydlu holwyddori yn y dull mwyaf bywiog a buddiol."

2. "Ar fod i bawb a allo gadw dydd Gwener nesaf, Tachwedd 1af, yn ddiwrnod i weddio yn erbyn gelynion ein crefydd, a'r *Pretender;* a bod i'r sawl na allo, ei gadw yn mhen yr wythnos, a gosod o flaen y bobl pa fath ydyw y grefydd babaidd, &c.; a bod i'r rhai na allant gyfarfod ar yr un o'r dyddiau crybwylledig, gadw rhyw ddiwrnod yr wythnos nesaf, neu mor fuan ag y byddo modd."

3. "Ar fod i'r brodyr anfon am 50 o'r '*Hanes Wythnosol*,'* a bod i'r aelodau gymeryd un bob un o honynt."

Anmhosibl ydyw olrhain hanes y lle hwn o'r amser boreol uchod hyd yn awr. Nid yw yr ysgrifenydd wedi derbyn un hysbysiad penodol o'r lle hwn, ac felly yn fwy analluog i osod dim gerbron y darllenydd. Pa fodd bynag, y mae y lle hwn yn nodedig o herwydd ei gysylltiad â'r enwog William Llwyd, Ysw., Henllan, am yr hwn y mae genym ychydig ddefnyddiau wrth law.

Ganwyd Mr. Llwyd yn y flwyddyn 1741. Mab ydoedd i Mr. Dafydd Llwyd, Blaen-y-clawdd, plwyf Caio. Nid oes goffa neillduol am dano yn moreu ei oes, ond ei fod wedi cael graddau o fanteision dysgeidiaeth, dan

* Cyhoeddiad Cyfnodol, a roddid allan gan y Diwygwyr.

olygiaeth y Parch. Owen Davies, a'i fod o dan fesur o argyhoeddiad, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, er pan ydoedd yn saith mlwydd oed, Ond pan gyrhaeddodd ddeunaw mlwydd oed, dyfnhawyd yr argyhoeddiad i raddau llawer mwy dan weinidogaeth y Parch. Peter Williams. Bu am agos i flwyddyn ar gyffiniau anobaith, ond trwy weinidogaeth un Mr. Evan Jones o Ledrod, Ceredigion, gollyngwyd ei enaid i ryddid. Bellach, ymroddodd â'i holl galon dan iau y Cyfryngwr: cychwynodd yrfa, yr hon a ddybenodd mewn llawenydd a gogoniant.

Dywedir iddo ymuno ar y cyntaf gyda'r ymneillduwyr yn Nghrug-y-bar; ond rywbryd, er nas gwyddys pa bryd, nac o herwydd pa beth, ymunodd â'r Methodistiaid. Dywedir* mai yn y flwyddyn 1760 y ffurfiwyd cymdeithas neillduol gan y Methodistiaid yn y plwyf hwn gyntaf, pryd y gwelwn fod Cofnodau Trefecca yn crybwyll am gymdeithas o'r fath yno yn y fl. 1743, a'i bod yn cynwys 44 o aelodau. Dywed Mr. Charles hefyd yn y *Drysorfa* fod y gymdeithas yn Nghaio yn cynwys ond tua 18 o nifer pan yr ymunodd Mr. Llwyd â hi, ond ei bod ar ol hyny, ac erbyn dechreu y ganrif bresenol, wedi chwyddo yn 200 o rifedi. Nid oes, er hyny, yr anghysondeb lleiaf yn y ddau hysbysiad; oblegid cyfarfu Methodistiaeth, fel y dywedasom yn fynych yn y gwaith hwn, ag amserau blinion, ac â difrod trwm, o'r flwyddyn 1750 hyd 1760. Yn y cyfnod hwn y ciliodd Howel Harris, y llaesodd dwylaw llawer o'r cynghorwyr cyntefig, y dyrysodd ysgogiad y peiriant crefyddol a osodasid i fyny gan y diwygwyr, ac y chwalwyd lluaws mawr o'r mân-eglwysi, a gasglesid at eu gilydd yn y blynyddau blaenorol. Yr oedd yr achos Methodistaidd, gan hyny, megys yn ail-ddechreu o newydd tua'r flwyddyn 1760, ac ar ol hyny; ac nid oes dim annhebyg nad fel hyn y bu hefyd yn Nghaio.

Nid oedd Mr. Llwyd ond 22ain oed pan y galwyd ef i bregethu yr efengyl ag y profasai eisoes gymaint o'i chysuron, dan weinidogaeth hynod yr anfarwol Rowlands. A gwnaeth yr Arglwydd ddefnydd mawr o hono. Ebe Mr. Charles, "Yr oedd tyrfaoedd lluosog yn tyru i'w wrando, lle bynag yr elai, a llawer yn cael eu galw trwyddo. Aeth yn fuan yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Nghymru yr amser hwnw. Yr oedd yn gweinidogaethu yn danllyd ac yn argyhoeddiadol, yn aml; yn dangos yn oleu mawr berygl pechaduriaid, ac yn datguddio llochesau celwyddog rhagrithwyr—hyn a wnai yn oleu, yn finiog, yn danllyd, ac yn rhagorol."

"Tangnefeddwr, carwr heddwch,
Meddyg mwyn at glwyfau y gwan;
Ond dwrn o blwm ar ben rhagrithiwr,
I'w guro i lawr, i'w gael i'r lan."

Ond ymddengys mai Crist a'i aberth, golud ei ras, a chymhwysder ei iachawdwriaeth, oedd prif faterion ei bregethau. Fel pregethwr "yr oedd yn mhob ystyr yn ennillgar; ei berson yn hardd, ei ystumiau yn addas, ei lais

* Gwel Trysorfa Ysbrydol, Rhag. 1809, tudal. 101.

Fe fu Mr. Llwyd yn cydlafurio llawer â Mr. Rowlands, yn agos i 30 o flynyddau. Yn fuan ar ol iMr. Llwyd ddechreu y cafwyd cymhorth Mr. Jones, Llangan, a thua'r un amser y dechreuodd Dafydd Morris, sir Aberteifi, gyffroi yr holl wlad â'i weinidogaeth odiaeth. Nid oes un amheuaeth na fu yr yr ychwanegiadau hyn at freintiau y Methodistiaid yn foddion arbenig i godi Methodistiaeth o'i ddirfawr iselder; dechreuodd ddadebru eilwaith ar ol y llewygfa a brofodd yn y blynyddoedd 1750—60. Yr oedd Daniel Rowlands, y ddau Williams, a Howel Davies, ar y maes er ys blynyddoedd; ond bu colli Howel Harris fel tori eu braich ddeau; eto trwy yr ychwanegiad o Dafydd Morris yn sir Aberteifi; Jones, Llangan, yn sir Forganwg; a William Llwyd, yn sir Gaerfyrddin, ac nid yn hir ar ol hyn, William Davies, Castell-nedd, gwnaed y golled i fyny, a rhoddwyd ysgogiad grymus iawn i'r achos yn ei flaen.

Bu Mr. Llwyd yn teithio Cymru, De a Gogledd, am ysbaid 40 ml. a mwy, gan ddefnynu cawodydd maethlawn ar y tir cras.

Llawer gwaith trwy daith y teithiodd,
Holl siroedd oer y Gogledd dir;
Ei unig neges oedd hysbysu,
Holl gynghor Duw, mewn goleu clir.

Parhaodd ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb hyd ddiwedd ei oes, a rhoddwyd iddo yntau allu i lafurio am 44 o flynyddoedd ymron yn ddifwlch, hyd o fewn pum' niwrnod cyn iddo roddi i fyny yr ysbryd. Yr oedd yn pregethu yn Llanddeusant a Llansadwrn y Sabboth y tarawyd ef yn glaf; daeth adref, a chyn y Sabboth canlynol yr oedd wedi ei golli o dir y rhai byw, Ebrill 17, 1808, yn 67 ml. oed. Dymunasai gael marw heb hir saldra a nychdod, a rhoddwyd iddo ei ddeisyfiad.

## PENNOD II.

### CYRAU DWYREINIOL Y SIR.

CYNWYSIAD:—

HYNODION Y SIR—LLANDDEUSANT—ADGOFION JOHN BOWEN—YR ADFYWIAD YN Y FLWYDDYN 1828—ADFYWIAD YN LLAN Y PLWYF—DAFYDD THOMAS DAFYDD—GRIFFITH RHYS DAFYDD—PARCH. JOHN THOMAS—MISS BOWEN, WAUNIFOR, A'I BRAWD—MYDDFAI—LLANDEILO-FAWR—CEFN-BYRACH A LLANLLUAN.

MAE y sir hon yn nodedig yn mhlith y Methodistiaid am hynafiaeth yr achos ynddi, am y niferi o wŷr enwog a fu yn preswylio ynddi, ac ymeangiad yr achos Methodistaidd drwyddi. Gall ymffrostio mai brodorion o honi oedd Bardd Pant-y-celyn; Llwyd, o Gaio; John Evans, o Gil-y-cwm; George Griffiths, ac eraill o'r hynafiaid; ac yn ddiweddarach, ynddi hi y cododd yr enwog Charles, o'r Bala, a'i frawd o Gaerfyrddin. Gosododd John Evans, New Inn; Dafydd Rees, Llanfynydd; Dafydd Evan, Llanwino, yn nghydag eraill lawer, hynodrwydd enwog arni. Mae y wlad hon, fel sir Aberteifi, yn

fwy Cymreigaidd na siroedd eraill y Deheubarth, ac felly dan fantais i gael ei diwyllio yn fwy gan bregethwyr y Methodistiaid, y rhai, gan mwyaf, ydynt analluog i lafurio mewn un iaith ond iaith eu mam.

## LLANDDEUSANT.

Mae Llanddeusant yn mhlith y gorsafoedd henaf yn y wlad hon, ac yn gorwedd yn agos i derfyn eithaf y sir tua'r dwyrain, o fewn ychydig filldiroedd i Langadoc ar y naill law, a Llanymddyfri ar y llaw arall. Nid oes dim enwogrwydd cysylltiedig â'r lle mewn ystyr anianyddol neu wladol. Y mae yn llechu yn ddystaw, yn nghanol ardal dawel, amaethyddol, a bryniog. Nid ydyw chwaith yn enwog am faint ei haddoldy, nac amledd dirfawr ei gwrandawyr, er fod yr addoldy a'r gynulleidfa, ac ystyried poblogrwydd y gymydogaeth, yn rhagori ar nemawr le arall yn y sir. Ond y mae hynodrwydd yn perthyn i Landdeusant yn ei gysylltiad â Methodistiaeth, o herwydd ei fod yn un o'r lleoedd hynaf, ac o herwydd mai yn y lle hwn, sef yn nhŷ un Jeffrey Dafydd, y cynaliwyd y gymdeithasfa fisol gyntaf yn y sir, os nad hefyd y gyntaf yn Nghymru. Yr oedd hyn yn Chwef. 3, 1742.*

Am y lle hwn, dywed y patriarch John Bowen, yn awr o Bont-y-pool, fel hyn: "Yr wyf yn cofio fy rhieni, y rhai oeddynt yn aelodau o'r cyfundeb Methodistaidd cyn fy ngeni i,† yn adrodd am waith yr Arglwydd yn Llanddeusant, a rhan o blwyf Myddfai, ac yn adrodd pwy a fu ewyllysgar i agor ei dŷ i dderbyn yr efengyl; a pha bregethwyr a lafurient amlaf yn eu plith. Yr oedd yr achos wedi dechreu, a *society* wedi ei ffurfio yn drefnus a rheolaidd, yn mhell iawn cyn fy nghof i. Ond yn fy amser i, nid oedd eu nifer yn lluosog, a llawer o'r aelodau yn hen mewn dyddiau, ac yn byw er harddwch i'r efengyl. Yr oedd rhai o'r meibion, y rhai a allent fod o 30 i 40 ml. oed, yn hynod am ddawn ac ysbryd gweddi un o honynt yn rhagori arnynt oll; pan ddisgynai hwn ar ei liniau i ymdrechu â Duw, ni fyddai nemawr un o'r byd nac o'r eglwys yn gwrando yn sych eu gruddiau. Ei enw oedd Griffith Rees Dafydd." Er nad oedd y gymdeithas eglwysig yn y lle hwn ond bechan 70 ml. yn ol, eto cyfrifir hi megys mam i'r rhan fwyaf o'r eglwysi yn y cymydogaethau hyn. Yr oedd 40 ml. agos wedi myned heibio, wrth hyny, heb lawer o lwyddiant, ac nid rhyfedd fod yr aelodau proffesedig, yn y cyffredin, yn ddynion wedi cyrhaedd gwth o oedran. Nid yw yn ymddangos fod yr achos yn y lle hwn wedi cyrhaedd nemawr o uchafiaeth mewn rhif a dylanwad cyn dyddiau yr ysgol Sabbothol, neu cyn dechreu y ganrif bresenol.

Nid oes mewn llaw nemawr o hanes ysgogiadau y gwaith, ar wahanol gyfnodaû, yn ystod y can' mlynedd, a mwy, sydd bellach wedi myned heibio. Yn

* Ymddengys wrth ysgrifion Trefecca, fod y lleoedd hyn, neu y cymdeithasau eglwysig ynddynt, dan ofal un James Williams, fel arologwr a chynghorwr; sef Llanddeusant, Tal-llychau, Caio, Cil-y-cwm, Llansawel, Llangathen, a Llanfynydd. Yr oedd Meidrim, Caerfyrddin, Llanegwad, Llanarthne, Llan-pum-saint, dan ofal un William John; a Llanon, Cil-carw, Pendre, Hafod, a Trelech, dan ofal un John Richard, Llansamled. † Y mae John Bowen dros 80 ml. oed.

unig coffeir am yr adfywiad a fu yma tua'r fl. 1828. Yn y flwyddyn o'r blaen yr helaethwyd y capel i'r maint a'r wedd sydd arno yn awr. Yr oedd hyn yn arddangosiad fod y gynulleidfa wedi lluosogi llawer; a chan ddarfod talu am yr adeilad, ymron yn ebrwydd ar ei gyfodiad, gwelwn fod yn y "bobl galon i weithio." Gwnaed hyn hefyd heb achlysuro ymrysonau a drwg deimlad, fel y gwna yn rhy fynych, ond yr oedd yma gyd-weithrediad hyfryd, a hyny trwy y plwyf yn gyffredinol. Yr oedd gradd o sirioldeb wedi ymddangos ar yr achos erefyddol mewn amryw eglwysi cymydogaethol, cyn bod dim cyffroad neillduol yn y lle hwn. Eto yr oedd rhyw ysgogiad dystaw eisoes wedi cymeryd lle, trwy fod y bobl yn cael eu sugno yn lluoedd i'r manau cyfagos, lle yr ymddangosai gradd o adfywiad yn barod. Disgynodd hefyd ar feddyliau yr eglwys yn y lle hwn i ymofyn yn neillduol â Duw yn yr achos, ac i erchi arno eu cofio, gan roddi iddynt dywalltiad o'i Ysbryd. Yr oedd Seion eisoes wedi clafychu, a dysgwylid fod yr adeg gerllaw pryd yr esgorai ar ei meibion.

Cafwyd ychydig o'r gwlith yn flaenorol, megys yn ernes o'r gwlaw mawr, ac yn wystl o hono. Mewn cwrdd gweddi yn nhŷ Dafydd Thomas, un o henuriaid yr eglwys, y dechreuodd yr awyr ysgafnhau, wrth ganu y pennill,—

Agorodd ddrws i'r caethion,
I ddod o'r cystudd mawr, &c.

Yn mhen ychydig ddyddiau, pregethai Mr. Joshua Phillips yn y lle, ar Ioan iii. 3; a gwelodd yr Arglwydd yn dda wisgo ei was â nerth, ac anfon saethau y gwirionedd i lynu yn nghydwybodau y gwrandawyr. Nid oedd yr oedfa hon ond y gyntaf o gyfres o rai cyffelyb a ddylynodd. Yr oedd y cyfarfodydd i bregethu ac i weddio yn rhoddi mwynhad llawer helaethach nag arferol i'r addolwyr, ond y cyfarfod hynotaf o'r cwbl oedd cyfarfod i weddio am lwyddiant yr efengyl, ar nos Lun cyntaf o'r mis. Darllenwyd y 60fed o Isaiah, a rhoddwyd y pennill i ganu,—

Beth yw'r cynhwrf garw iawn,
Sy'n y goedwig;
A yw'r arfaeth fawr ei dawn,
Ddim yn ddiddig, &c.

Ac ar ddiwedd y cyfarfod, rhoddwyd pennill arall allan i ganu,—

Os gofyn neb o'r bobl,
Beth yw'r llawenydd mawr,
* * * * *
Wrth weled plant afradlawn,
Yn dyfod tua thre'.

Ar hyn torodd un enethig fechan allan, gan ail-adrodd mewn modd cyffrous iawn y llinell olaf o'r pennill, ac yn y fan yr oedd llawer yn gwaeddi yn groch, "Pabeth a wnawn fel y byddwn gadwedig?" Fel hyn y dechreuodd y cyffro, ond nid oedd ond ei ddechreuad; aeth rhagddo gan ychwanegu nerth a grym, dros fisoedd o amser. Yr oedd y weinidogaeth megys yn medi lluoedd o'r gwrandawyr o

bob oedran i lawr, o 7 ac 8 ml. hyd yn 80 ml. Chwanegwyd at yr eglwys yn y tymhor hwn tua 280 o rifedi. Nid oedd, bellach, prin dŷ i'w gael yn y plwyf heb fod allor i Dduw wedi ei chodi ynddo; a dychryn Duw oedd megys wedi disgyn ar drigolion yr holl fro. Mynych y byddai dynion cryfion yn tori allan i lefain neu i foliannu yn y meusydd, pan gyda'u gorchwylion. Cyrhaeddai eu swn i glustiau rhai eraill, a disgynai math o ysbrydoliaeth arnynt hwythau, nes y byddai y fro yn adsain gan sain cân a moliant. Wrth gadw dyledswydd deuluaidd, mynych y byddai preswylwyr y tai yn tori allan i foliannu, a pharhaent felly yn fynych hyd hanner nos, ac weithiau hyd foreu dranoeth. Tynid sylw dyeithriaid wrth ymdaith trwy y cymydogaethau yn y nos, gan sain y moliannu a fyddai yn y tai. Mor rymus oedd y dylanwadau, nes y byddai y pregethau a'r cyfarfodydd crefyddol, gan amlaf, yn cael eu bylchu, ac hyd yn nod gorchwylion cyffredin tyddynwyr ymron yn sefyll, yn achlysurol, ïe yn amser cynhauaf. A'r hyn oedd yn rhyfedd, nid oedd neb yn achwyn oblegid hyn. Argreffid ar galonau yr ardalwyr oll, "O'r Arglwydd y daeth hyn." "A phwy ydym ni i geisio lluddias Duw!"

Y mae yn werth nodi yn y lle hwn, fod y cyffelyb ddylanwad wedi cyrhaedd llan y plwyf. Fe ddaeth yno i bregethu un Sabboth prydnawn offeiriad ieuanc duwiol, yr hwn sydd hyd heddyw yn ddyn hynod mewn gras, a dawn, a defnyddioldeb, ac yn mhen enyd wedi iddo ddechreu pregethu, torodd y dorf allan i foliannu a chanmawl. Y gweinidog hefyd wedi ei orlenwi â'r un ysbryd, a dorodd ar yr hen ffurf, bwriodd oddiwrtho ei wisg, a disgynodd i ganol y dorf, gan foliannu Duw â llais uchel. "Irwyd ei ben ag olew, a'i phiol oedd lawn." Parhaodd hyn dros rai oriau.

Ymestynodd dylanwad yr adfywiad hwn dros ran fawr o'r sir, a dywedir fod tua 2000 o aelodau wedi eu chwanegu at yr eglwysi. Ond yn Llanddeusant yr ymddengys fod grym y gawod wedi disgyn. Dofwyd yma ugeiniau rai o ddynion tra annuwiol, ac y mae llawer o honynt yn aros hyd heddyw, a'u hysgwyddau dan arch Duw, tra y mae eraill o honynt wedi eu galw i ffordd yn eu cariad cyntaf. Ychydig, meddir, o ffrwyth y diwygiad a gollwyd, neu ychydig o'r rhai a ddygasid at grefydd dan ei ddylanwad a droisant eu cefnau mewn gwrthgiliad. Ni fu, fel y bernir, yr un adfywiad mor rymus a hwn o'i flaen, ac ni chaed un cyffelyb iddo hyd heddyw ar ei ol, er nad ydyw Seion, ar yr un pryd, wedi ei gadael yn ddieppil.

Cafodd yr hen bobl ras i fod yn ffyddlawn yn eu dydd, er na anrhydeddwyd hwynt i weled llwyddiant mor fawr ac mor ebrwydd a'r un a nodwyd uchod. Sonia John Bowen am un Dafydd Thomas Dafydd, yr hwn a lafuriodd yn egniol gyda'r gwaith pan yr oedd eto yn lled isel ei wedd. Tyddynwr cryf a pharchus gan bawb ydoedd, a'i wraig ydoedd gyffelyb iddo, ac yn ei gymhell, nid yn ei rwystro, i ymroddi ac i ymgysegru i wasanaeth yr efengyl; a chan nad oedd iddynt deulu, ac yn meddiannu yn ehelaeth o'r byd, yr oeddynt yn alluog, gyda chalon ewyllysgar, i wneuthur llawer o wasanaeth i'r achos yn ei wendid. Yn eu tŷ hwy y lletyid y pregethwyr; ïe, yn eu tŷ hwy, dros lawer blwyddyn cyn bod capel, y cynelid y moddion.

Yr oedd ymborth eu bwrdd, a chynyrch eu tir, yn rhwydd a siriol yn cael eu rhoddi i'r dyeithriaid a'u hanifeiliaid a gyniweirient i'r lle.*

Yr oedd y cyfarfod eglwysig yn y dyddiau boreuol hyny yn cael ei gynal, gan amlaf, mewn tŷ bychan a safai ar dir y blaenor, ac a breswylid gan hen ferch grefyddol. Nid oedd yma ond golwg isel, o ran gwedd allanol y gwaith, ond rhyfeddol, meddir, y mwynhad a geid yn fynych yn y cynulliadau eglwysig bychain hyn. Yr oedd pabell Duw gyda dynion, ac efe a breswyliai yn eu mysg!

Yr oedd yn eu mysg, fel y dywedwyd o'r blaen, rai dynion hynod mewn gweddi, yn enwedig Griffith Rhys Dafydd. Un tro, dysgwylid Williams, Pant-y-celyn, yno i bregethu; ond yr oedd yr hen fardd, fel y byddai yn rhy dueddol o fod, yn ol llaw o ran ei amser. Wedi cryn ddysgwyl am dano, aeth tad John Bowen i weddi; ond nid oedd Williams eto wedi ymddangos, a'r amser i ddybenu y cwrdd ymron wedi dirwyn i fyny; gan hyny, galwyd ar Griffith, yr hwn oedd yn sefyll a'i gefn at y *cloc*, ei le arferol, i fyned i weddi. Gyda'i fod yn tywallt ei galon mewn deisyfiadau, yr oedd y nefoedd yn rhoi, ac yn rhoi yn ddibrin—tywalltai mor ehelaeth nes oedd llestri pawb wedi eu gorlenwi, a lluaws o'r dysgyblion yn tori allan mewn mawl. Gyda hyn, clybuwyd traed ceffyl gerllaw y tŷ, a phwy oedd yno ond y pregethwr, ac mewn syndod mawr yn ymofyn ynddo ei hun, pa beth a allai y twrf yn y tŷ fod. Llithrodd, pa fodd bynag, i mewn, gan ymgais i guddio ei hun rhag sylw, trwy fyned i'r pen arall i'r tŷ, a llechu yn y parlawr. Wedi gwrando enyd ar y gweddiwr, llanwyd ef â syndod, a gofynodd, pan gafodd gyfle, i wraig y tŷ, yn ei ddull cyfeillgar ei hun, "Neli, pwy un oedd y bachgen yna oedd ar weddi?" "O! Mr. Williams bach, Griffi' Rhys Dafydd oedd e'." "O ryfedd! siwt weddiwr yw ef!—mae fy enaid yn ymlynu wrtho."

Anhawdd fyddai olrhain holl effeithiau y pregethu boreuol a fu yn nhŷ Jeffrey Dafydd, a manau eraill; ond gallwn fod yn hyderus o hyn, fod mwy o ddaioni wedi ei wneyd nag a wyddom ni, a llawer mwy nag a ddaeth erioed i'r golwg. Mae yr hanes a ganlyn yn brawf o'r sylw a wnaed.

Yr oedd gŵr o'r enw John Thomas, yn adnabyddus i hen Fethodistiaid cyntaf yr ardal hon, yr hwn oedd bregethwr ar y cyntaf gyda'r Methodistiaid, ond ar ol hyny a neillduwyd yn weinidog yn mhlith yr Annibynwyr. Ysgrifena ei hanes ei hun fel hyn:—

"Fe'm ganwyd mewn tŷ a elwir Còl, yn mhlwyf Myddfai, sir Gaerfyrddin, yn y fl. 1730. Fy rhieni oeddynt dlodion; bum yn gweini yma a thraw am flynyddau. Cefais fy argyhoeddi dan weinidogaeth Mr. Howel Harris, yn nhŷ Jeffrey Dafydd, Llanddeusant. Er fy mod cyn hyn a rhyw *goncern* am fy nghyflwr, ac yn aml yn darllen gweddiau yn llyfr y Parch. Griffith Jones, Llanddowror; ond wedi yr oedfa uchod, aeth yn golli bywyd arnaf. Yn mhen ychydig wedi hyn, ymgysylltais ag ychydig bobl dduwiol ag oedd yn

* Crybwyllir yn barchus hefyd am William Thomas, Pant-y-gwîn; William Dafydd Owen; Morgan Thomas, a Thomas Owen, &c.

arferol o gyd-gyfarfod mewn cymdeithas ar Gefn-telych, yn mhlwyf Myddfai. Yn y fl. 1745, aethum i weini at y Parch. G. Jones, i Landdowror, lle y cefais lawer gwledd i'm henaid wrth ei wrando. Wedi bod am flwyddyn yn Llanddowror, daeth ar fy meddwl i fyned i'r ysgol, ond nis gadewais Llanddowror nes oeddwn yn 18 ml. oed, a daethum i Drefecca i'r ysgol. Cefais hyn trwy Mr. H. Harris, a mawr diriondeb a gefais ganddo tra bum yno. Arosais yno am oddeutu blwyddyn. Yr oedd yn hyfryd arnaf o dan weinidogaeth Mr. Harris, ac eraill, pan oeddwn yno."

Rhy faith fyddai dylyn yr ysgrifenydd yn fanwl, ond ymddengys ei fod, ar ol cael ychydig addysg, wedi cael ei alw i Lanfigan, sir Frycheiniog, i gadw ysgol; ac â'r alwad hon, wedi ymgynghori â Mr. Harris, y cydsyniodd. Yr oedd, bellach, yn arfer cynghori y plant yn yr ysgol, a'r aelodau eglwysig, ac nid hir y bu heb lefaru yn fwy cyhoeddus. Dechreuodd ar hyn yn mhlwyf Cantre, ger Aberhonddu. Wedi hyn, sef yn y fl. 1756, aeth i sir Benfro, a bu yn cadw ysgol yn St. Lawrence, yn y wlad hòno, am rai misoedd, gan bregethu ar y Sabbothau a nosweithiau trwy y wlad. Ar ol hyn, teithiodd dros ryw dymhor trwy siroedd y dywysogaeth, De a Gogledd, gan bregethu yr efengyl. Unwaith, pan oedd yn llefaru mewn lle a elwir Cefn-Llanfair, torodd merch ieuanc allan i waeddi; y ferch ieuanc oedd Miss Bowen, Waunifor, chwaer i Thomas Bowen, Ysw. Yr oedd rhyw weithrediadau ar feddwl Miss Bowen cyn hyn, trwy farwolaeth chwaer iddi yn ddiweddar. Ar ol yr oedfa, hi a ofynodd i Mr. John Thomas fyned gyda hi i'r palas. "Nis gwyddwn," meddai ef ei hun, "pa fodd i dori at y gŵr boneddig yn nghylch mater ei enaid, rhag ofn ei dramgwyddo; ond wrth chwedleua ag ef am grefydd, mi welais ei fod o ysbryd gostyngedig, ac yn barod i dderbyn. Wedi ymddyddan ychydig, dywedodd wrthyf ei fod ar fedr rhoddi ysgol i blant tlodion y gymydogaeth, ac y byddai yn well ganddo i mi ddyfod i'w chadw na neb arall. Minau a ddywedais, "Syr, er mwyn eich boddloni chwi, mi a ddeuaf ar fy nychweliad yn ol, wedi cyflawni fy nghyhoeddiadau trwy Wynedd."

Nis gwyddai y gŵr boneddig ar y dechreu pa le y ceid tŷ i gadw yr ysgol; ond erbyn fy mod wedi dychwelyd, yr oedd un o'i ddeiliaid wedi marw, a'r lle yn rhydd. Y lle oedd Llwyn-bedw-bach. Wedi gosod i fyny yr ysgol, dechreuais lefaru ar y Suliau ynddo yn y prydnawn, a myned gyda Mr. Bowen, y boreu i'r llan; oblegid nid oedd ef eto wedi tori allan i wrando, ond yn glynu wrth y llan. Ond ei chwaer ydoedd yn dra selog. Yr oedd yn felus a rhydd arnaf pan y deuwn i Waunifor i weddio gyda'r teulu; ac ar un boreu Sabboth, wrth fyned tua'r llan, ebe 'fe, 'Gan eich bod chwi yn dyfod gyda fi yn y boreu, mi ddeuaf finau gyda chwithau yn y prydnawn, i'ch gwrando chwi yn pregethu:' ac felly y bu."

Yr oedd llawer o bobl wedi ymgasglu ynghyd yn Llwyn-bedw-bach, a syn iawn oedd ganddynt weled Mr. Bowen yn eu plith. Wedi hyn, dymunodd John Thomas ar Mr. Bowen ddyfod gydag ef i wrando Mr. Rowlands, yr hwn oedd i bregethu yn Twrgwyn, a chydsyniodd; ar ol hyny ni pheidiodd

a gwrando y Methodistiaid dros ei oes. Yn mhen ychydig ar ol hyn yr adeiladodd Mr. Bowen gapel Waunifor,* lle y mae pregethu yn aros hyd heddyw.

Wedi bod yn cadw ysgol mewn amrywiol o fanau, ymunodd John Thomas â'r Annibynwyr; ac yn y fl. 1761, aeth i Athrofa y Fenni. "Yn y gwyliau," meddai ef ei hun, "byddwn yn rhoi tro i sir Aberteifi, i gael tipyn o dân Llangeitho, i gadw fy enaid rhag sythu yn y fro tna'r Fenni."

Yn y fl. 1767, neillduwyd ef yn weinidog ar yr eglwysi Annibynol, Rhaiadr-ar-wy, a Cae-bach, sir Faesyfed. Bu yr un gŵr yn pregethu llawer yn deithiol ar ol hyn; gan ddyweyd, "Mwy dewisol genyf ddylyn esampl Crist, gan fyned o amgylch i wneuthur daioni." Dywedir gan hen bobl adnabyddus o John Thomas, y rhai sydd eto yn fyw, mai gŵr da a duwiol ydoedd, a diwygiwr enwog yn ei ddydd; a'i fod wedi bod yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i ddychwelyd llawer o ddynion at y Duw byw.

### MYDDFAI.

Yr oedd pregethu yma a thraw ar hyd y plwyf hwn dros lawer o flynyddoedd cyn bod yma na chapel na chynulliad eglwysig: ïe, nid oedd cymaint ag un aelod yn y plwyf, pryd yr oedd llaweroedd mewn plwyfau cymydogaethol. Ar yr un pryd, nid gwrthwynebiad y preswylwyr a barai hyn; oblegid yr oedd y bobl yn hynod o serchog a pharchus o'r efengyl a'i chenadon, a cheid pregethu mewn unrhyw dŷ neu ysgubor trwy'r holl blwyf; ond eto nid oedd yma gymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio.

Dygwyddodd i ryw ŵr o saer maen, yr hwn oedd yn aelod mewn lle arall, ddyfod i weithio i'r gymydogaeth. Wedi bod yn arosol dros ryw dymhor yn y fro, gwelodd yr angenrheidrwydd o gael rhyw le sefydlog i addoli, a phenderfynodd wneyd ei oreu tuag at ei gael. Ymofynodd, gan hyny, yn ddioed am dir, a llwyddodd i'w gael. Aeth o amgylch y gymydogaeth i ymofyn cynorthwy i'w adeiladu, ac yntau ei hun a ddygai gareg ar ei ysgwydd, gan ei bwrw i'r pentwr meini wrth yr adeilad newydd, o ba le bynag y deuai. "Yn y modd yma," meddai yr hybarch John Bowen, y cafwyd "y capel cyntaf yn Myddfai. Mae achos cryf gan y Methodistiaid yno yn awr."

### LLANDEILO-FAWR.

Wrth bob hanes, y cyntaf o dadau diwygiad y ganrif ddiweddaf a bregethodd yn y dref hon, oedd Howel Harris. Mae hanes am dano yn sefyll ar yr heol gerllaw y lle y mae y *George Hotel* bresenol. Yr oedd i ddyn bregethu y tu allan i furiau y llan, ac yn yr awyr agored, yn beth newydd iawn yn y dyddiau hyny, a chymaint felly yn Llandeilo ag un lle. Nid oes amheuaeth chwaith, os oedd y bwriad yn adnabyddus, nad oedd rhagfarn

* Gwel hanes Waunifor, Tudal. 35.

wedi parotoi gwrthwynebiad. Felly hefyd y mae yr hanes, fod gŵr wedi dwyn dryll gydag ef, a chan sefyll y tu arall i'r berth, neu y gwrych, wedi ceisio saethu y pregethwr, ond fod y dryll wedi methu tanio; ac ar hyn, fod Harris wedi galw arno i droi ffroen y dryll ffordd arall, ac yr âi yr ergyd i maes; ac mai felly y bu, ac i'r pregethwr, gyda hyn, alw ar y gynulleidfa, "Cymerwch sylw o'r dyn yna; ni fydd ef ddim marw ar wellt ei wely." Yn mhen rhyw gymaint o amser, bu y dyn farw yn ddisymwth wrth chwareu pêl yn mynwent y llan! Mae crybwylliad am amgylchiad neu ddau cyffelyb i'r un uchod yn y gwaith hwn, yr hyn yn ddiau a bâr demtasiwn i ryw un dybied, fod y chwedl yn gwbl ddisail, neu fod yr amgylchiad, mewn gwirionedd, wedi dygwydd mewn rhyw le arall, a'i briodoli mewn amryfusedd i Landeilo. Nid oes gan yr ysgrifenydd ddim mwy i'w ddyweyd ar yr achos, na bod yr ysgrif yn cynwys y chwedl wedi disgyn i law oddiwrth wŷr geirwir, y rhai ni phetrusir dderbyn eu tystiolaeth ar achosion eraill.

Ar yr achlysur uchod, yr oedd bagad o bobl wedi dyfod ynghyd, ac yn eu plith, yr oedd gŵr o'r enw Morgan Nathan, ceidwad helwriaeth i'r Milwriad Rice, o Gastell Dynevor, taid yr arglwydd Dynevor presenol. Dwysbigwyd Nathan i'r galon; ac yn fuan, bu iddo ef a'i wraig ymuno â'r Methodistiaid yn nghapel Llanlluan, yr hwn oedd yr unig le, y pryd hyny, yn y gymydogaeth, y gallai fwynhau breintiau crefyddol; a lle oedd Llanlluan hefyd ag oedd, ac a barhaodd i fod, yn gyniweirfa i lawer o Fethodistiaid y wlad hon, dros flynyddau lawer.* Ymddengys fod Nathan yn barchus yn ngolwg ei feistr, ac na chollodd ei ffafr ychwaith wedi iddo ymuno â'r crefyddwyr;—prawf teg fod ei feistr yn fwy ei gallineb, ac yn llai ei anwydau, na llawer o'i radd; neu ynte, bod y gwas wedi ennill lle mawr yn ei gyfrif: fe ddichon y ddau. Ryw dro, gwnaeth Nathan mor eofn a chymeryd ceffyl o'r ystabl, a'i farchogaeth i Lanlluan i'r oedfa. Prysurodd rhyw un drwg ei lygad i achwyn arno wrth ei feistr, gan ddysgwyl, yn ddiau, y gosodid mawr gyfrif ar ei ffyddlondeb, ac y byddai yn foddion dyrchafiad iddo ei hun, a darostyngiad i'r crefyddwr.

"A gymerodd Nathan y ceffyl i fyned i'r cwrdd?" gofynai y gŵr boneddig.

"Do, syr," oedd yr ateb.

"Wel! y tro nesaf y byddo yn myned, gofala di am gyfrwyo y ceffyl iddo dy hun," oedd y penderfyniad. Fel hyn, ennillodd y boneddwr enw da iddo ei hun, amddiffynodd ei was diniwed, a siomodd ei fradwr di-ddiolch. Mae teulu Dynevor hyd heddyw yn ganmoladwy am eu haelfrydedd tuag at anghydffurfwyr. Tebygol ydyw, mai Nathan a'i wraig a fu yn offerynau i roddi swcr i Fethodistiaeth yn Llandeilo. Nid hir ar ol cael crefydd y bu ef byw; ac ar ol ei farw ef, symudodd ei weddw i'r dref i fyw, a lletyai yno y pregethwyr a ddeuent i'r dref yn awr ac eilwaith i bregethu. Nid oedd ei hamgylchiadau ar ol claddu ei gŵr ond isel, eto yr oedd yn dwyn mawr

* Gwel hanes Llanlluan yn mlaen, tudal. 442.

serch yn achos yr efengyl. Y rhai a ddeuent yma amlaf ar y dechreu, oedd Mr. Llwyd, Caio; Mr. Jones, Llanfihangel; Jacob Jones, o'r Bettws; Dafydd Rees, Llanfynydd, &c. Nid hir y bu y weddw hon, gan fod yn ei bryd wneuthur cymwynas i deyrnas y Cyfryngwr, na chynysgaethodd rhagluniaeth hi â modd. Cafodd hyn trwy briodi gŵr gweddw di-deulu, o'r enw Siôn William Rhydderch, Llety-glyd. Yr oedd gan Siôn dipyn yn lew o gyfoeth, er nad oedd rhyw lewyrch mawr ar ei grefydd, ond yr oedd ei feddiannau ef yn lles i'r wraig, a gras y wraig yn lles iddo yntau. Arferai y wraig ddyweyd gyda theimlad, "Gwnaeth yr Arglwydd drugaredd â mi;" ac nid oes amheuaeth nad oedd yn llawn cymaint trugaredd â Siôn. Gwerthodd y gŵr ei holl feddiannau ar y tyddyn, ac a ddaeth ati hi i fyw i'r dref. Yr oedd yma loches gymhwysach, bellach, i'r efengyl, ac yma y lletyai yr holl bregethwyr a ddeuent i bregethu i'r dref, hyd nes yr adeiladwyd y capel.

Y gwŷr yr oedd gofal yr achos crefyddol arnynt, yn benaf, yn y tymhor hwn, oedd Siôn William Rhydderch, a William Rhydderch, y gwehydd. Bu yr olaf o'r ddau yn egniol iawn i godi ysgol Sabbothol yn y dref, pryd nad oedd yma yr un gan un enwad. Yr oedd William Rhydderch yn adnabyddus iawn yn y byd Methodistaidd, yn enwedig yn mlynyddoedd olaf ei oes, fel cydymaith y Parch. John Evans, New Inn gynt. Bu rai gweithiau yn y Gogledd, a mynych ar hyd siroedd y Deau. Gelwid ef gan rai, Wil y gwehydd, a phryd arall, Wil y *White Horse*. Yr oedd rhagluniaeth wedi ei lwyddo yn ei amgylchiadau, ac wedi rhoddi calon iddo i weithio, a bernir na fu neb mor effro a ffyddlawn ag ef gyda'r ysgol Sabbothol yn y dref, o hyny hyd yn awr.

Yn y fl. 1788, cymerwyd ac addaswyd tŷ anedd yn y dref, i wasanaethu yn lle capel. Gwnaed hyn, yn benaf, drwy offerynoliaeth Mr. Jones, Llanfihangel. Helaethwyd ef drachefn a thrachefn; a'r un presenol ydyw y pedwerydd adeiladaeth. Y mae, bellach, yn gapel cyfleus a hardd, a'r gwaith yn myned rhagddo yn siriol.

Mae rhwng dau a thri chant o ddeiliaid yn yr ysgol Sabbothol, a'r addoldy yn cael ei lenwi yn dda ar y Sabbothau o wrandawyr astud. Yma y dechreuodd y diweddar Barch. Thomas Jones, Llanddarog, bregethu, Mr. Harris, y *Chandler*, a gŵr arall o'r enw George Griffiths, yr hwn a fu farw yn bur ieuanc. Yma, yn bresenol, y mae yn preswylio y Peirch. B. D. Thomas, a Morgan Morgans.

Mae yma hen ŵr yn 85 ml. oed, yn swyddog yn yr eglwys hon, yr hwn sydd oruchwyliwr gydag arglwydd Dynevor, o enau yr hwn, gan mwyaf, y cafwyd yr hanes uchod.

## CEFN-BYRACH.

"Clywais Mr. David Rees, Bryn Martin," meddai yr hysbysydd, "yn dyweyd ei fod ef yn cofio plwyf Llanfihangel, (y plwyf y mae capel Cefn-

byrach ynddo,) pryd nad oedd ond pedwar crefyddwr gyda'r Methodistiaid o'i fewn; ac nid oedd un o honynt ond ymdeithydd ac alltud ynddo: sef Henry Richard, Trefin, yr hwn a fu yma dros ryw dymhor yn cadw ysgol; Mr. William Griffith Jones, a'i frawd, a Henry Jones, Rhyd-goch. Adeiladodd Mr. W. G. Jones gapel cyntaf Cefn-byrach ar ei dir ei hun, a rhoddodd weithred arno, am bedair ceiniog yn y flwyddyn. Gwnaeth hyn, medd fy hysbysydd, yn y fl. 1747,—yr un flwyddyn ag yr adeiladwyd capel Alpha, Llanfair Muallt, y capel a dybid a godwyd gyntaf gan y Methodistiaid yn Nghymru. Y mae wedi cael ei helaethu ddwywaith wedi hyny. Ar ol i'r noddwyr cyntaf golli o dir y rhai byw, bu Mr. John Thomas, Llanfihangel, a'i briod, yn dra ymgeleddgar i'r achos am flynyddau lawer. Yr oedd eu tŷ yn llety y fforddolion a gyrchent i Lanlluan erbyn Sul y cymundeb; mynych iawn y pregethai D. Rowlands, neu y ddau Williams, yn eu tŷ ar y nos Sadwrn o flaen y cymundeb, ac yn nghapel Cefn-byrach nos tranoeth, ar eu dychweliad yn ol, wedi cwrdd y cymundeb. Dywedir fod Howel Harris wedi bod rai gweithiau yn yr ardal hon yn ei oes ef; ond nid oes adgofion manwl am ei ymweliadau.

Wedi marw Mr. John Thomas, priododd bregethwr o'r enw Mr. John Jones ei weddw ef. Parhawyd, gan hyny, i ddangos yr un caredigrwydd i achos yr efengyl. Ymddengys fod y wraig hon yn wraig o alluoedd yn gystal ag o dduwioldeb, gan y byddai yn arwain y ddyledswydd deuluaidd ei hunan pan dygwyddai Mr. Jones fod oddicartref. Ar ol colli Mr. a Mrs. Jones trwy angau, ymunodd rhai eraill â'r achos; a rhai o honynt a fuont yn llafurus a defnyddiol; sonir yn neillduol am Mr. David Rees, Bryn-martin. Bu y gŵr hwn yn oruchwyliwr ffyddlawn am dymhor maith, mwy na deugain mlynedd. "Yr oedd yn un o'r dynion hynotaf," ysgrifena fy hysbysydd, "a welais i erioed, o ran santeiddrwydd a ffyddlondeb. Ni dderbyniai wyneb boneddig na gwreng, ond eiddigeddai dros achos ei Dduw gyda gonestrwydd anarferol. Daeth ef at grefydd yn ieuanc, a thynodd ei gŵys yn union hyd ei therfyn; teimlwyd mai colled fawr oedd ei ymadawiad."

Bu yma adfywiadau amryw, a rhai o honynt yn rhai grymus, o bryd i bryd, er nad oes dysgrifiad neu adgofion manwl o'r un o honynt yn awr ar gael. Fel hyn y cadwodd Duw goffadwriaeth ei enw i fyny yn yr ardal hon er ys can' mlynedd a mwy; ac nid oes arwydd, hyd yn hyn, fod y gogoniant yn ymadael.

## LLANLLUAN.

Yr ydym amrywiol weithiau wedi crybwyll enw y lle hwn, fel un o'r lleoedd breiniol hyny yn y deheubarth, y gweinyddid swper yr Arglwydd ynddynt gan yr offeiriaid Methodistaidd, ac fel lle ag a fyddai yn gyrchfa lluaws mawr o grefyddwyr ar Sabbothau cymundeb. Yr achos i'r naill le gael y fraint hon yn hytrach na lle arall, a fyddai yn anhawdd ei ddyfalu ar egwyddorion cyffredin o gyfleusdra neu hawl. Y gwir ydyw, yr oedd rhai, o leiaf, o'r lleoedd breiniol hyn yn ddigon anghyfleus. Pentref bychan yn nghanol

mynyddoedd oedd Llangeitho ei hun, a lle bach ar gîl, heb ddim enwog-rwydd yn perthyn iddo, oedd Llanlluan hefyd. Yr oedd y crefyddwyr yn amlach tuag ardal Cil-y-cwm, neu Lanfynydd; yr oedd y ffyrdd yn rhwydd-ach i'r trefydd, a'r cyfleusderau yn amlach i gynwys lluaws o bobl; ond er hyn oll, nid i'r trefydd yr elid; nid ymofyn a wneid am rwyddineb y ffordd, neu amledd y crefyddwyr, ond fod y lle yn fwy *cysegredig* na lleoedd eraill. Ystyrid ef yn gysegredig, os bu, neu os byddai rhyw gysylltiad rhyngddo a'r eglwys wladol, neu os dygwyddai fod rhyw offeiriad o'r eglwys hòno wedi gosod yr anrhydedd hon, dan ryw amgylchiadau neillduol, ar y lle. Gosododd Whitfield yr anrhydedd yma ar Woodstock, yn sir Benfro; Howel Davies y cyffelyb ar y Capel-newydd yn y wlad hòno; gosododd Rowlands yr un bri ar gapel Gwynfil, yn Llangeitho; a Davies, Caste'l-nedd, ar gapel Gyfylchi, yn sir Forganwg. Am *Mounton* a *St. Daniels*, yn sir Benfro, *Llanlluan* yn sir Gaerfyrddin, a *Llangan* yn sir Forganwg, eglwysi neu gapelau eglwysaidd oeddynt, ac wrth gwrs yn gysegredig at y gwaith o'r dechreu. Parod ydyw yr oes hon yn ddiamheu, ac yn enwedig crefyddwyr Gwynedd, lle ni fu y fath arferiad erioed, i ddiarebu rhag ofergoeledd, neu ragfarn, neu rywbeth, yr hen bobl dda yn hyn o beth. Pa fodd bynag, rhaid addef ddarfod i'r Hwn y mae y nef yn orseddfainc iddo, a'r ddaear yn lleithig i'w draed, ymddarostwng yn fynych i anrhydeddu y cynulliadau a gynelid yn y lleoedd crybwyll-edig, nid, tybygwn, ar gyfrif y *lle* y cynelid hwy, ond ar gyfrif yr enw a'r achos y daethent ynghyd o'i herwydd, nes y byddai yr offeiriaid yn methu gwasanaethu gan ddysgleirdeb y gogoniant a orchuddiai y gwaith.

Adeiladesid capel Llanlluan, mewn cysylltiad â'r eglwys wladol, yn mhell cyn y diwygiad Methodistaidd; ond nid llawer o ddefnyddio a fu arno dros amser maith, fel y bernir, hyd yr amser y defnyddiwyd ef gan y Methodistiaid. Dywedir ddarfod iddynt hwy ei adgyweirio yn y fl. 1745, neu yn hytrach, ddarfod i Philip Lloyd, Ysw., wneyd hyny ar eu rhan, ac ar ei draul ei hun. Taid oedd y boneddwr hwn i Mrs. Lloyd Davies, Gallt-yr-odyn, sir Aberteifi.

Dywed yr hen bobl mai Whitfield a Howell Harris oedd y ddau gyntaf o'r diwygwyr a fu yn pregethu yn yr ardal hon. Bu yr olaf o'r ddau lawer gwaith yn yr ardal hon. Pa le yn Nghymru, yn enwedig deheudir Cymru, na fu? Y teulu a dderbynient yr offeiriaid a'r pregethwyr i dŷ yn yr amser cyntaf, oedd yr eiddo Mr. David Jones, o'r Wern; a pharhaodd y derbyniad wedi claddu y penteulu. Yr oedd Mrs. Jones yn hynod am ei gras a'i lletygarwch. Ar ei hol hi, agorodd Mr. Philip Walters, o'r tyddyn a elwir "Y Capel," ei ddrws; ac am hanner can' mlynedd efe a gadwodd ei ddrws yn agored i dderbyn pregethwyr yr efengyl, ar ei draul ei hun; pa un bynag ai o dde neu o ogledd y deuent. Yr oedd llawer o bregethu ar hyd yr ardal mewn gwahanol dai, ond yn nghapel Llanlluan y pregethai yr offeiriaid. Ystyrid y capel yn perthyn i eglwys Loegr, ar ryw gyfrifion, er mai ar dir arglwydd Dynevor yr oedd yn sefyll; a thybid mai afreolaidd, os nad rhyfygus, a fyddai i un pregethwr lleygaidd anturio esgyn i'r pulpud hwn. Ond y mur hwn o wahaniaeth a fwriwyd i lawr. Ac fel hyn y bu :—

Yr oedd Mr. Daniel Jenkins, Ceredigion, yn yr ardal ryw nos Sadwrn, wedi dyfod yno i bregethu;—dysgwylid offeiriad i weini yn y capel y boreu Sabboth; ond yr offeiriad, trwy ryw ddamwain, ni ddaeth. Ymgynullodd lluaws i'r lle i wrando'r offeiriad, ond nid oedd dim yn y golwg ond siomedigaeth. Yr oedd yno bregethwr, boed siwr, ond yr aflwydd ydoedd, nad oedd ef ddim wedi bod dan law *esgob* erioed, ac felly tybid mai trawsedd eofn a fuasai i'r fath un, ïe, er ei gymhwyso gan yr Ysbryd Glân, bregethu yn mhulpud offeiriad. Ond beth a wneid? Yr oedd y gynulleidfa yn dysgwyl;—yr oedd cyfleusdra manteisiol yn ymgymhell i draethu geiriau y fuchedd hon wrth y bobl, ac yn y cyfwng anturiodd Mr. Philip Walters osod ar y pregethwr, gan ddyweyd:—

"Y mae yn rhaid i chwi, Daniel Jenkins, fyned i'r capel i bregethu."

"Na wnaf, er fy mherygl," atebai y pregethwr.

"Wel," meddai Walters, "os taw My Lord Dynevor," sef ei feistr tir, "a'i pia, y mae genyf hawl i'ch cymhell i fyned iddo, o herwydd y mae genyf *lease* ar fy fferm, ac ar y tir sydd o dan y capel. Os taw yr esgob a'i pia, yr wyf fi eleni yn *warden* yr eglwys. Os taw y Methodistiaid a'i pia, y mae genych chwi hawl i'w ddefnyddio fel un o'u pregethwyr." Trwy argymell yr ystyriaethau hyn arno, efe a lwyddodd i'w gael i bregethu, a dangosodd y nefoedd, meddant, gymaint o foddlonrwydd i'r pregethwr a phe buasai yn offeiriad! Nid oedd y bobl yn deall dim gwahaniaeth rhwng yr efengyl o'i enau ef, mwy na phe buasai wedi ei ordeinio gan esgob! Chwalodd pawb o'r lle, heb fod un gydwybod yn archolledig am y traha a wnaethpwyd! A chan fod y bwlch wedi ei wneyd, ac nad oedd un arwydd o anfoddlonrwydd y nef wedi ymddangos, nac un ias cydwybod wedi ei deimlo, yr oedd yn haws ei ddefnyddio yr ail dro na'r tro cyntaf; a'i ddefnyddio hefyd a wnaed o hyny allan.

Yr oedd offeiriad y plwyf, er mwyn cadw hawl ynddo, yn dyfod iddo, yn awr ac eilwaith, i ddarllen gwasanaeth; ac nid yw yn anmhosibl fod ei ymweliadau, bob yn ychydig, yn myned yn fwy anamserol, a mwy anghroesawgar; digon felly i argoeli mai "pawb ei gapel" a fyddai gymhwysaf. Felly yn y fl. 1840, adeiladwyd capel newydd, heb fod yn mhell oddiwrth yr hen. Yn awr nid oes dim gwasanaeth crefyddol yn cael ei ddal i fyny yn yr hen gapel, ond y mae wedi ei ollwng, meddir, i fod yn furddyn adfeiliedig heb fod neb yn gofalu am dano. Tra yr oedd y Methodistiaid yn ei ddefnyddio, fe'i cedwid mewn cywair drwsiadus, ond yn awr y mae yn berffaith anghyfanedd. Er mor enwog ydoedd capel Llanlluan yn y dyddiau gynt, yn enwedig ar Sul y cymundeb, ni chafwyd ynddo gymdeithas eglwysig reolaidd hyd y fl. 1809, ond yr oedd y crefyddwyr a breswylient y fro, yn aelodau yn eglwysi Llanddarog a'r Cefn-byrach. Yn awr, yn y capel newydd y mae pob moddion yn cael eu cadw gyda chysondeb, a golwg siriol ar y gwaith.

# PENNOD III.

## PARHAD O EGLWYSI DWYREINIOL Y WLAD.

CYNWYSIAD:—

CIL-Y-CWM—GWEDD FOREUOL METHODISTIAETH YN Y LLE—PARCH. WILLIAM WILLIAMS, PANT-Y-CELYN—Y CREFYDDWYR CYNTAF—ADFYWIAD—JOHN EVANS—MR. LLOYD, CAIO—RISIART IFAN—DAFYDD WILLIAM, O'R BEILI-GLAS—MR. A MRS. JONES, YSTRAD-WALLTER—YSGOL SABBOTHOL GYNTAF YN Y SIR—LLANYMDDYFRI—ADFYWIAD—LLANGADOG—LLANSADWRN.

### CIL-Y-CWM.

YR hanes cyntaf a gawn ni am y lle hwn, yn ei gysylltiad â Methodistiaeth, sydd yn y fl. 1742, ac wedi ei ysgrifenu yn nghofnodau y gymdeithasfa,* fel hyn:—

"CIL-Y-CWM. *Y mae yma gymdeithas ieuanc, ond heb ei threfnu yn rheolaidd.*"

Ymddengys wrth hyn fod yma bregethu eisoes wedi bod er ys rhyw amser, a bod yma rhyw ffrwyth i'r pregethu wedi ymddangos; ond nid oedd ffurf drefnus wedi ei rhoddi ar y gymdeithas eglwysig. Yr oedd y lle hwn, yn nghyda Caio, Tal-llychau, Llansawel, Llangathen, a Chymau, dan arolygiaeth cynghorwr o'r enw James Williams. Yn mhellach yn mlaen yn yr un flwyddyn, y dywedir am dani:—

"Mae yma 24 o aelodau. John Thomas yw y cynghorwr anghyhoedd, ac Isaac Dafydd y goruchwyliwr *(steward)*. Newydd ddechreu yw y gymdeithas hon. Maent oll dan argyhoeddiadau, ac ar yr un pryd, gymaint dan ddylanwad anghrediniaeth fel na all neb o honynt ddyweyd mai eu Hanwylyd hwy ydyw Crist."

Yn y fl. 1744, ysgrifena Siams Williams am y crefyddwyr yma, "Maent yn fwy bywiog o fewn ac o faes. Mae cymdeithas fechan yn Ystrad-ffin yn dechreu ymffurfio; mae yno tua 10 o aelodau. Yr wyf yn arfer myned yno i ymweled â hwynt, gan ddysgwyl yn hyderus ar i Dduw gario ei waith yn mlaen ynddynt."

Mewn ysgrif arall yn yr un flwyddyn, ysgrifena, "Mae yma oddeutu 27 o aelodau, y rhai, ar y cyfan, a ddysgir gan Grist, er fod y diafol yn ceisio, trwy lawer modd, eu chwalu; ond nid oes dim yn tycio, ac y mae yn cael ei siomi.—Mae genym chwaer fechan, yr hon, yn mhlith eraill, ni allaf ei hanghofio. Arferai yr aelodau yma gyfarfod yn Ystrad-ffin, ac weithiau yn Gallt-y-bere; naw o aelodau ydynt. Mae y gelyn yn llawn o falais tuag atynt, drwy anfon rhyw rai i'w gwawdio; ond pa fwyaf y dirmyg, amlaf y cyfarfyddant; ac er fod eu rhif yn fychan, eto y mae yn eu plith rai eneidiau hawddgar, y rhai, mi gredaf, a fyddant yn y nef."

Yr oedd y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, y pryd hwn wedi ymuno â'r Methodistiaid, er nad oedd ar ddechreu ei weinidogaeth wedi llwyr

* Cofnodau Trefecca.

ymadael ag eglwys Loegr; a thra yr oedd yn gweini yn Llanwrtyd a Llanddewi-Abergwesin, ni allai fod o nemawr ddefnydd i'r eglwys fechan yn Cil-y-cwm. Ond yr oedd Rowlands yn pregethu yn Llanddewi-brefi, ac yn awr ac eilwaith yn nghapel Ystrad-ffin, a Howel Harris yn ddiau yn ymweled â'r gymydogaeth. Nid oes amheuaeth chwaith nad oedd cynghorwyr sir Aberteifi a Brycheiniog, yn ymweled â Chil-y-cwm yn eu tro; a thrwy eu gweinidogaeth unedig, yr oedd y gwaith yn raddol yn gwreiddio ac yn ymeangu. Ar yr un pryd, yr oedd trigolion plwyfydd Llanfair-ar-y-bryn, a Llandingad, yn gystal a Chil-y-cwm, mewn tywyllwch dudew; ac er fod gwasanaeth crefyddol yn cael ei gynal yn yr eglwysi plwyfol, nid oedd y gwasanaeth, er cystal y gweddiau, ond ffurf, a'r offeiriaid ond gwyliedyddion deillion. Yr oedd un capel gan y Bedyddwyr yn mhen uchaf plwyf Cil-y-cwm, a gweinidog yn perthyn iddo; yn yr hwn yr oedd ychydig o aelodau. Dan y fath amgylchiadau anfanteisiol, ni ellid dysgwyl lai na bod tywyllwch fel cysgod angau yn gorchuddio y trigolion, ymron yn ddiwahaniaeth.

Pan oedd y wlad yn y cyflwr gresynol hwn, tua'r fl. 1738, cynhyrfodd yr Arglwydd ysbryd ei was Daniel Rowlands i ddyfod yma i bregethu Crist wedi ei groeshoelio, a'r Ysbryd Glân hefyd yn cyd-dystiolaethu trwy oleuni a nerth, nes oedd calonau rhyw nifer yn fuan wedi eu cyffroi gan bryder a braw yn nghylch eu hachos tragwyddol. Nid hir y buont ar ol hyn * heb ddechreu ymgrynhoi at eu gilydd. Y lle y cynelid eu cynulliadau oedd mewn tŷ bach yn ymyl y fan y mae y capel yn awr. Ymddengys hefyd fod capel wedi ei godi yn y lle hwn yn bur foreu,† ond nid mor foreu a'r flwyddyn 1740, tybygem. Pa beth bynag am y flwyddyn, dywedir mai Mr. Rowlands a brynodd ddarn o dir gan un Mr. Prydderch, Dolgynon, yr hwn a sicrhawyd mewn gweithred i adeiladu addoldy arno.

Yn mhen ychydig flynyddoedd, torodd diwygiad allan yn y lle, yr hwn oedd nerthol a thanbaid iawn, ac ychwanegwyd at yr eglwys tua 80 o aelodau newyddion. Yn y gymdeithas hon, yr oedd y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, a'i briod, yn aelodau, a pharhausant yma hyd angau. Yr ydym eisoes wedi olrhain peth o hanes y gŵr enwog hwn, ac nid oes genym le i chwanegu llawer. Y mae yn syn, gan ei fod yn teithio llawer, a hyny mewn amser yr oedd rhagfarn yn gryf iawn yn erbyn y crefyddwyr a phregethwyr, pa fodd na chlywsem am ychwaneg o ymosodiadau arno gan erlidwyr yn Ngwynedd. Y rheswm a roddir am hyn ydyw, ei fod yn *fardd:* a bod y son am dano fel y cyfryw yn drwydded iddo rhag erlidigaeth, naill ai o barch iddo fel perchenog yr awen, neu rhag ofn eu gwneyd yn destyn ei ganiadau, a'u dynoethi trwy yr holl wlad. Ond er i Williams, Pant-y-celyn,

* Mae enwau wyth o'r crefyddwyr bore hyn ar gael; sef Siôn Thomas Siôn, Ochrfforest; Risiart Siôn, Coed-Ifan; William Lloyd, Dygoedydd; Isaac Prydderch, Dolgynon; Ifan, y panwr; Rhys Thomas Siôn, y *glover;* Beti, yr Eithin-duon; ac Ann Siams, Dolfallt.

† Dywed yr ysgrif o fy mlaen mai yn y fl. 1740 y codwyd y capel; os felly, hwn, yn ddiau, oedd y cyntaf gan y Methodistiaid yn Nghymru.

gael llai o'i erlid na rhai o'i gydlafurwyr, eto ni ddiangodd yntau ddim yn llwyr. Crybwyllir am un tro y cyhoeddwyd ef i bregethu yn Ngogledd Cymru, wrth, neu mewn tŷ tafarn, ac i ŵr boneddig, a rhyw fugeiliaid gydag ef, ddyfod i'r lle i'w faeddu. Ciliodd Williams i'r tŷ, a chymhellodd y tafarnwr ef i ymrithio mewn dillad benthyg a roddodd efe iddo. Wedi gwneyd hyn, yr oedd yn abl i fyned i blith yr erlidwyr, heb iddynt allu ei adnabod; ond ei gydwybod a'i trywanodd am hyn, trwy ei gyhuddo nad oedd yn cyffesu ei Feistr gerbron dynion. Felly bu raid iddo, er mwyn heddwch ei fynwes, ymwisgo eilwaith yn ei ddillad ei hun. Adnabuwyd ef yn ebrwydd yn y rhai'n, a dechreuwyd ymosod arno, ac nid oes amheuaeth na chawsai brofi pob anfri a sarhad, os nad niwaid trwm, oni bai i'r tafarnwr ei wared ef o'u dwylaw. Mewn lle arall, dywedir iddo gael ei ollwng i waered fel Paul, mewn basged, ac felly diangodd o ffordd ei erlynwyr. Bryd arall, fe fu mewn perygl bywyd yn yr un parth o'r wlad, ac mai mewn ystabl yr ymguddiodd ac y cysgodd y noson hòno.

Yr oedd y Parch. William Williams yn bregethwr da, a helaeth ei ddoniau a'i ddysg; ond dywedir mai yn y cyfarfodydd wythnosol, misol, neu chwarterol, y llewyrchai efe fwyaf. Bernid ef yn un medrus a chraff i brofi ysbrydoedd dynion, i ddynoethi hunan-dwyll, ac ysbryd hunan-gyfiawn, i gynal y gweiniaid ac ofnus, i gyfarwyddo yr ymofyngar, ac i gysuro pob galarus. Mae ei enw, yn anad dim, yn gysylltiedig wrth y llyfrau a ysgrifenodd, ac yn enwedig yr hymnau, galarebau, a'r treithodau barddonol, a gyfansoddodd. Afreidiol ydyw dyweyd, yr hyn sydd eisoes yn wireb mor adnabyddus, ddarfod cynysgaethu Williams, Pant-y-celyn, â dychymyg hedegog, ac â dawn hylithr i gyfansoddi; a bod ei ddawn a'i feddyliau wedi eu cysegru at wasanaeth yr Arglwydd a'i deulu. A phwy fedr ddweyd, pa sawl meddwl a gyffrowyd, pa sawl cydwybod a ddeffrowyd, pa sawl calon a wresogwyd, trwy ei gyfansoddiadau, yn ystod y can' mlynedd diweddaf. Cysylltir pregethau Daniel Rowlands, a chaniadau Williams, â'u gilydd, fel prif foddion cyffredinol llesâd y genedl yn y ganrif ddiweddaf.

Eu brif gyfansoddiadau ydynt hymnau, dan yr enw, "Haleluia," "Ffarwel Weledig," "Golwg ar deyrnas Crist," "Theomemphus." Mewn rhyddiaith, efe a gyhoeddodd amryw fân draethodau; megys, "Tri wŷr o Sodom a'r Aipht," "Crocodil Afon yr Aifft," "Doctor Nuptiarum," "Philopur," "Philo Evangelius." Ysgrifenodd tua 40 o alarebau ar ol gweinidogion enwog, neu bersonau hynod mewn gras a defnyddioldeb.

Fel hyn y treuliodd Williams, Pant-y-celyn, ei oes i lesâd ei genedl, ac i ogoneddu ei Dduw. Nid ymrwystrodd gyda dim o negeseuau y bywyd hwn, fel y rhyngai fodd yn fwy i'r Hwn a'i dewisodd yn filwr. Llafurus iawn hefyd a fu ef yn ei dymhor. Bernir iddo deithio yn agos i gan' mil o filldiroedd i bregethu'r efengyl, mewn tua 43 o flynyddoedd; a rhwng ei bregethau a'i ganiadau, nid oes un amheuaeth na fu ef yn offeryn i droi llawer at gyfiawnder, ac y llewyrcha efe fel dysgleirdeb y ffurfafen dros byth. Bu farw

yn llawn hyder yn yr Iesu, Ionawr 11eg, 1791, a chladdwyd ef yn mynwent Llánfair-ar-y-bryn, yn y 74ain fl. o'i oed.*

Mae enw John Evans yn gysylltiedig genym, ymron bob amser, â Chil-y-cwm; ac yn fwy felly na'r eiddo y bardd parchedig y soniasom am dano. Tad oedd y John Evans hwn i'r Parch. John Evans, yn awr o Landeilo. Am y cyntaf, y mae yn ddrwg genym na fuasai cofiant rheolaidd am dano, modd y gallesid rhoddi crynodeb byr o'i hanes yn y lle hwn. Ond nid yw yn ymddangos fod yr un o'r fath wedi ei gyhoeddi. Yr unig beth a allwn ni, gan hyny, wneyd yn awr, ydyw crybwyll ei enw fel pregethwr gwlithog a derbyniol iawn. O ran ei weinidogaeth, safai John Evans yn uchel yn mhlith ei frodyr. Teithiai lawer ar dde a gogledd, a gadawodd arwyddion lawer ar ei ol am yr efengyl a bregethid ganddo, nad ofer fu. Ysgrifenai un gŵr ataf am dano, fel hyn; "Am John Evans, Cil-y-cwm, y dywedir, ei fod o ddawn melus anghyffredin; fod rhyw swyn yn ei lais peraidd, nes bod yn abl i hudo y gwenyn o'r cwch, braidd. Yr oedd ei athrawiaeth yn dyferu fel y gwlaw, 'fel y gwlith-wlaw ar îr-wellt, ac fel cawodydd ar laswellt.' Arferai Mr. Llwyd, o Gaio, ddyweyd am dano, fod ei weinidogaeth yn hynod o fuddiol i ddyfrhau a dyddanu y saint."

Ymddengys y bu ef gyda Mr. Llwyd, o Gaio, neu Henllan, fel y gelwir ef yn aml, ar deithiau yn y gogledd; lle y cyfarfuant ag erlid, yn enwedig un tro. Nid yw yn mynegu pa le na pha bryd y bu y dygwyddiad. Ond hyn a ddywedir, fod y ddau bregethwr wedi eu cyhoeddi i bregethu, ac i wrthwynebwyr Methodistiaeth gyffroi, yn neillduol gweinidog y plwyf. Hwn a alwodd am gynorthwy rhyw nifer o ddynion, cymhwys at y fath orchwyl, ac a roes iddynt helaethrwydd o ddiod gref, i'w haddasu yn well i'w gyflawni yn effeithiol. Daeth y dyhiriaid hyn yn llawn ffyrnigrwydd i'r lle pan oedd John Evans yn pregethu. Canfuwyd hwy gan Mr. Llwyd, ac ofnai yn fawr, os oedd ganddynt arfau tân, y gallai niwaid trwm, neu dywallt gwaed, gymeryd lle, gan mor ddibris y wedd oedd arnynt. Ond er syndod iddo ef, ac i bawb arall, yn lle terfysgu, dechreuasant ymwrando. Barnai rhai mai pereidd-dra llais y pregethwr a ddisgynodd arnynt fel swyn, gan ddirymu eu nerth, ac iddynt, heb yn ddysgwyl i bawb, ac heb un cyd-ymgynghoriad â'u gilydd, megys ar unwaith, golli yr amcan y daethent o'i herwydd, a gwrando yn astud fel eraill yn y gynulleidfa. Ond yr oedd hyn yn beth blin i un o'r haid, yr hwn, gan dybied mai peroriaeth llais y pregethwr a barasai ddyrysu yr amcan, a brysurodd i ymofyn am badell bres, a thrwy drystio â'i holl egni â hon, tybiai y gallai foddi swn y pregethwr, ac y dychwelai ei gymdeithion i'w pwyll. Ond rhyw ddyn cryf o ddyspaddwr a ddygwyddodd fod yn mhlith y bobl, a ddaeth at y terfysgwr, gan godi yr haiarn dyspaddu uwch ei ben, a dyweyd, "Oni thewi â dy 'stwr, mi a'th darawaf di yn llech â'r haiarn yma, nes byddi di yn swp marw." Dychrynodd hyn ef, a bu tawelwch mawr dros ystod yr holl gyfarfod.

* Gwel Gofiant helaeth o hono yn Saesoneg, gan y Parch. E. Morgan, M.A., Syston.

Yr oedd pregethwr arall, o'r enw Risiart Ifan, yn cyd-oesi gyda John Evans yn y lle hwn. Bu hwn, meddir, yn fendithiol i droi llawer o bechaduriaid o gyfeiliorni eu ffordd, i gadw llawer enaid rhag angau, ac i guddio lluaws o bechodau. Cododd pregethwyr eraill ar ol y ddau hyn, sef David Morgan, William Jones, a John Evans, mab y pregethwr o'r un enw, a John Jones, yn awr o Landdeusant.

Bu yma rai henuriaid rhagorol, a beirdd godidog. O'r rhai cyntaf, sonir am William Dafydd Rhys, Nant-ddu, felblaenor rhagorol—yr hwn oedd hynod yn mysg ei frodyr, fel y buasai Andronicus a Junia yn mhlith yr apostolion. Un arall tra hynod, a thra adnabyddus, oedd Dafydd Williams, Beili-glas. Gŵr cryf ei amgyffrediad, meddir, oedd hwn; helaeth ei wybodaeth ysgrythyrol; tra chydnabyddus â gwaith Gurnal;—gŵr yr oedd ei gof yn gryf, ei farn yn graff, a'i ddawn yn barod. Tad ydoedd i'r Parch. Ebenezer Williams, Pen-y-bont, Maesyfed. Ganwyd ef yn mhlwyf Llandysul, sir Aberteifi, yn y fl. 1765. Hanai o deulu Sosinaidd eu barn; ond pan oedd ef tuag 20 ml. oed, daeth arno chwant i fyned am unwaith i wrando ar y Methodistiaid, gan faint y son oedd am danynt ar hyd y wlad. Yn unol a'r blys hwn, efe a aeth, ryw foreu Sabboth, i gapel Waunifor: ac yn y fan y darllenodd y pregethwr ei destyn, ymaflodd y gair gyda grym yn ei feddwl, cymaint felly nes anghofio o hono yr holl bregeth. Y testyn oedd, "Y mab ieuanc, yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod." Ar ei ddychweliad o'r cwrdd, deallodd ei deulu yn fuan fod ei wedd wedi newid, ac ymosodwyd arno yn ddiarbed, i'w hwtio mewn gwawd ac anfri. Yn mhen rhai wythnosau wedi canfod gogwydd penderfynol ei feddwl, trodd y gwawd yn llid, a'r chwerthin yn erlid; ïe, aeth yr erlid mor bell nes ei anghefnogi gan ei deulu a'i ardal yn ei alwedigaeth (canys gôf oedd efe); bu raid iddo symud o'i wlad, a gadael ei bobl; ac i ardal Cil-y-cwm yr arweiniwyd ef i wladychu. Yr oedd Methodistiaeth wedi ymwreiddio yn ardal Cil-y-cwm er ys 40 ml. a mwy, cyn hyn, a chafodd y ffoadur trallodedig dderbyniad croesawgar yn mhlith y crefyddwyr. Cymerodd William Dafydd Rhys, y blaenor, ef erbyn ei law; parhaodd y ddau yn gyfeillion mynwesol tra bu yr hen flaenor fyw; ac ar ol ei farw, galwyd Dafydd William i'r swydd yn ei le, a gwasanaethodd hi yn ffyddlawn am ysbaid hanner can' mlynedd. Teithiodd lawer i gyfarfodydd cyhoeddus y cyfundeb mewn De a Gogledd. Meddai gryn lawer o ddawn barddonol, a chyfansoddasai amryw o hymnau ac odlau ysbrydol. Ond ei brif hynodrwydd oedd ei fedrusrwydd i gadw y cyfarfodydd eglwysig. Nid oedd neb yn meddwl yn uwch nag ef am dadau y Methodistiaid; bu yn cyd-oesi â Rowlands 16eg o flynyddoedd wedi dyfod at grefydd, ac yn yr un eglwys a Williams, Pant-y-celyn, am 15eg mlynedd; eto, ni chlywid ef un amser yn dyrchafu yr hen dadau trwy ddarostwng ei gydoeswyr. Yr oedd ef yn mysg y rhai blaenaf yn sefydlu ysgol Sabbothol a phregethu yn nhref Llanymddyfri; a chafodd fyw i weled yr achos wedi llwyddo yn fawr yn y dref hono. Ennillodd enw perarogliadd yn mysg ei genedl, a disgynai enw Dafydd, Beili-glas, yn soniarus ar glustiau gwreng a boneddig.

Bu farw mewn henaint teg, yn fab dwy flwydd a phedwar ugain. Yn y lle hwn hefyd yr oedd y prydydd rhagorol hwnw, Morgan Rhys, awdwr y llyfr hymnau, "Golwg o ben Nebo." Yma y preswyliai caniedydd arall a elwid Jaci Siams, neu Ioan ap Iago, fel y galwai efe ei hun. Yr oedd y gwŷr hyn yn grefyddwyr da, ac yn barchus gan bawb a'u hadwaenent.

Bu yn y lle hwn ddiwygiad grymus lawer gwaith, trwy y rhai y byddai yr Arglwydd yn dwyn gwanwyn hyfryd ar ei achos ar ol gauaf dû, yn peri i'r anmhlantadwy gadw tŷ, a bod yn llawen-fam plant; ac yn rhoddi ysgogiad grymus i'r holl achos yn gyffredinol yn ei flaen. Yr oedd amryw ag oedd yn byw yn nhref Llanymddyfri, yn aelodau yn Cil-y-cwm cyn bod achos sefydlog a rheolaidd gan y cyfundeb yn y dref hòno. Gerllaw y dref, sef yn Ystrad-wallter, yr oedd gŵr cyfrifol o'r enw William Jones, Ysw., yr hwn, ynghyda'i briod, oeddynt noddwyr galluog, a chyfeillion serchog, i achos yr Arglwydd Iesu Yr oedd y teulu hwn, fel amryw deuluoedd cyffelyb yn ngwahanol barthau y dywysogaeth, wedi cael ewyllys a gallu i weithio. "Ymroddent i ofn Duw," a rhoddent y "gwddf yn ngwasanaeth eu Harglwydd." Wedi marw Mr. Jones, symudodd ei weddw i Henllys-fawr, lle y preswyliodd dros weddill ei hoes, ac yn aelod yn Nghîl-y-cwm.

Ymddengys mai chwaer oedd Mrs. Jones i Major Williams, o Henllys-fawr. Pan oedd yn ieuanc, arferai fynychu cymdeithasfaoedd y Methodistiaid yn y Deheudir. Sonir am dani unwaith yn myned i gymdeithasfa y Bala, gyda Mr. Rowlands, Llangeitho; a Mr. a Miss Bowen, Waunifor. Lletyasant yn Mallwyd, sir Drefaldwyn, ar y ffordd. Cyn cychwyn dranoeth, daeth swn i'w clustiau fod pobl Dinas-Mowddwy yn parotoi i'w herlid. Ond nid oedd hyn yn rhyfedd y dyddiau hyny, ac nid oedd yn llaesu dim ar aidd a sel y crefyddwyr, ond ei awchu yn hytrach; felly, yn mlaen â hwy. Pan ddaethant i'r lle, dyma yr erlidwyr yn ymgasglu at eu gilydd, gan fwriadu ymosod arnynt yn ddiarbed. Aeth Mr. Rowlands yn mlaen tuag atynt; ac yr oedd golwg mwy boneddigaidd arno ef nag ar gynghorwyr cyffredin y Methodistiaid, a thebycach i ustus heddwch nag i bregethwr; a phan y daeth atynt, gwaeddodd arnynt yn awdurdodol, "Pwy ddiawl a ddaeth â chwi yma, i rwystro pobl i drafaelio y ffordd fawr?" Ar hyn yswatiodd pawb mewn mynyd, gan sisial yn mysg eu gilydd, "Nid dyma nhw." Felly caniatawyd i'r ymdeithwyr fyned heibio yn heddychol. Wedi dyfod i'r pentref, ac i'r cymdeithion ddod at eu gilydd, gofynai Mr. Rowlands iddynt, "A glywsoch chwi i'r diawl wneyd rhyw ddaioni erioed o'r blaen?"

Yr oedd hyn, yn ddiau, mewn adeg foreuol ar Fethodistiaeth yn Ngwynedd. Mae Mrs. Jones wedi marw, bellach, er ys rhai blynyddoedd, yn 96 ml. oed, wedi bod gyda chrefydd er pan ydoedd yn 13 ml. oed, sef yr ysbaid maith o 83 o flynyddoedd. Yr oedd hi ar y pryd yn ferch ieuanc, ac wrth hyny yr ydym yn casglu mai un o'r troion cyntaf oedd hwn y cynaliwyd cymdeithasfa yn y Bala; os felly, nid mor rhyfedd genym glywed fod yno rhyw ddyhiriaid yn saethu at y crefyddwyr a ymgynullent yno; nid at eu penau, mae yn wir, ond at eu coesau; nid i'w lladd, ond i'w blino a'u terfysgu; a dy-

wedai Mrs. Jones wrth Lewis Morris, ei bod hi a Miss Bowen, Waunifor, wedi tynu llawer o *shots* o'u hosanau, ar ol myned i'r tŷ!

Yr oedd brawd Mrs. Jones, sef y Col. Williams, yn ŵr cyfoethog, ac yn ddiblant; ond nid oedd yn grefyddwr, a da fuasai ganddo lesteirio ei chwaer i ymuno â'r Methodistiaid, ac yn euwedig i'w derbyn i bregethu i'w thŷ. Ebe efe wrthi, "Os na rwystrwch chwi y Methodistiaid i'ch tŷ, gadawaf fy *stât* i rywun arall."

"Y mae yn well genyf golli eich stât, fy mrawd, na throi Iesu Grist allan o'm tŷ," oedd yr ateb.

Pa fodd bynag, bu Col. Williams farw heb wneyd ewyllys, a daeth ei stât i feddiant ei nai, mab Mrs. Jones. Symudodd hithau wedi rhyw gymaint o amser i Henllys, a bu groesawgar i bregethwyr y cyfundeb tra fu byw. Rhoddodd £20 tuag at adeiladu capel Cil-y-cwm y drydedd waith. Yr oedd yr hen gapel cyntaf wedi myned yn rhy fychan, ac ail-adeiladwyd ef yn llawer helaethach yn y fl. 1786, a thrachefn y drydedd waith yn y fl. 1836. Cyfranodd Mrs. Jones £50 at Athrofa Trefecca, a £100, neu log y swm hyny, at gynal yr achos yn Cil-y-cwm tra fydd etifedd o'r âch yn Henllys-fawr.

Yn y lle hwn y dywedir y codwyd yr ysgol Sabbothol gyntaf yn y sir hon. Cadwyd hi yn nhŷ un Dafydd Elias, tad y Parch. T. Elias, sir Frycheiniog, gan offeiriad o'r enw Parch. William Williams, mab i Rhys William, Glangwenlas. Yr oedd Rhys William yn aelod gyda'r Methodistiaid cyntaf yn Nghil-y-cwm. Bu ei fab ef, wedi derbyn urddau eglwysig, yn gweini yn Lloegr dros rhyw dymhor, ond rhoes y weinidogaeth heibio o herwydd ei iechyd, fel y tybir, ac a ddychwelodd i'w fro enedigol, ac a ymunodd yno â'r Methodistiaid; a'r peth cyntaf, meddant, a wnaeth ar ei ddychweliad, oedd codi ysgol Gymraeg ar y Sabbothau yn y tŷ rhag-grybwylledig. Yr oedd, fel yr ymddengys, yn gydnabyddus ag ysgogiadau Mr. Raikes, yn Nghaerloyw, ïe, dywedir ei fod wedi cael ymddyddan â Mr. Raikes ar hyn. Bu Mr. Williams yn offeryn i gychwyn ysgol Sabbothol yn Bont-rhyd-y-bere, a Llanwrtyd hefyd. Gŵr syml a chrefyddol, meddir, oedd y gŵr parchedig, a'i amcan ydoedd gwneuthur daioni dros dŷ ei Dduw.

O Gil-y-Cwm yr ymeangodd yr achos i Lanymddyfri, lle y mae eglwys a chynulleidfa gref yn awr, ac at yr hon y cawn alw sylw y darllenydd eto. Cododd haid arall, gan ymsefydlu yn y capel a elwir Salem. Cyn codi y capel hwn, yr hwn sydd yn sefyll yn Rhandir-mŵn, yr oedd pregethu er ys blynyddoedd mewn tŷ bychan a elwir y Pannau. Erbyn hyn, y mae canghen wedi tarddu o Salem eilwaith, yr hon a elwir Gosen, lle y mae cynulleidfa dda, a golwg siriol ar yr achos. Adeiladwyd y capel hwn yn y fl. 1845. Yr oedd pregethu gan y Methodistiaid yn yr ardal er ys blynyddau lawer, rai ugeiniau o flynyddoedd, ac ysgol Sabbothol hefyd er ys llawer dydd. Yr oedd cynifer o aelodau a breswylient yr ardal yn perthyn i Gil-y-cwm, ac i Salem, ar y dechreu, ond wedi adeiladu y capel cyfansoddwyd hwy yn eglwys wrthi ei hunan; ac er nad oedd y rhifedi ar y dechreu ond ychydig, y maent, bellach, dros 80 o rifedi. Mae y lle hwn gerllaw y ffordd sydd yn arwain o

Lanymddyfri i Lanwrtyd, ac yn sefyll ar derfyn y ddwy sir, Caerfyrddin a Brycheiniog.

### LLANYMDDYFRI.

Cangen yw yr eglwys hon wedi tarddu yn wreiddiol, fel y dywedwyd, o Gil-y-Cwm, ac ar y cyfrif hyny, fe allai mai dyma y lle i wneuthur crybwylliad am Fethodistiaeth Llanymddyfri, er nad ydyw yr achos yn y dref hon ond diweddar mewn cydmhariaeth i lawer man yn y sir.

Tua 60 ml. yn ol, nid oedd yma nemawr o grefydd na chrefyddwyr. Hawdd a fuasai i ddyeithr-ddyn a ddygwyddai ddyfod i'r dref, y pryd hwnw, ar y Pasg, neu y Sulgwyn, weled "nad oedd ofn Duw yn y lle hwn." Ar y gwyliau crefyddol (?) hyn, yr oedd pob gradd ac oedran yn ymroddi i oferedd. Rhoddai y crefftwr ei orchwyl heibio, a'r maelwr ei fasnach o'r neilldu, gan ymroddi i ryw chwareuon diles, a dawnsiau ynfyd; eraill a ymddifyrent mewn ymladd ceiliogod; dygid y cwbl yn mlaen dan ddylanwad diodydd meddwol, a dybenai y cwbl, y rhan amlaf, mewn ymladdau gwaedlyd, ac mewn gweliau heb achos.

Y pryd hwn, nid oedd yma achos sefydlog gan un enwad o ymneillduwyr. Yr oedd y dref, o ran hyny, yn gwbl yn meddiant yr eglwys wladol, a hyny er ys cannoedd o flynyddoedd. Ond fe ddaeth yr amser y byddai ambell oedfa yn cael ei chynal gan ymneillduwyr. Galwai Dafydd Morris, Twrgwyn; Llwyd, o Gaio; a Dafydd Rees, Llanfynydd, heibio, wrth fyned i'w teithiau, a phregethent ar yr heol ar ddydd ffair neu farchnad. Ar ol hyn, cedwid oedfaon yn fwy cyson gan Annibynwyr a Methodistiaid gyda'u gilydd mewn tŷ anedd. Cyfaneddid rhan o'r tŷ hwn gan hen wraig a adwaenid yn gyffredin wrth yr enw Nanni Gainy; ond ei henw priodol ydoedd Anne Edwards. Yn y tŷ hwn y bu y ddau enwad am flynyddau yn ymosod ar annuwioldeb y dref.

Yn y fl. 1797, adeiladodd yr Annibynwyr addoldy iddynt eu hunain, a gadawyd y Methodistiaid yn y tŷ anedd. Nid oedd eu nifer ond ychydig; ac yr oeddynt, ar y pryd, yn cyfrif eu hunain yn aelodau yn Cil-y-cwm. Yr oedd y Parch. John Williams, Pant-y-celyn, mab yr hen fardd, ac am yr hwn y cawn eto son, yn byw gerllaw, ac yr oedd William Jones, Ysw., yn byw yn Ystrad-Wallter, o fewn ychydig i'r dref; daeth ar feddwl y gwŷr da hyn brynu y tŷ yr oeddid yn pregethu ynddo. Wedi gosod yr achos gerbron cwrdd misol y sir, a chael cefnogaeth oddiyno, ymosodasant ar y gorchwyl o adeiladu y capel cyntaf. Yn y fl. 1802 y bu hyn. Yr oedd y Parch. John Evans, yn awr o Landeilo, a mab i John Evans, Cefnllan, Cil-y-cwm, bellach, yn byw yn y dref, ac yn ei dŷ ef y cynelid y cwrdd eglwysig * cyn fod capel yn bod, dros ryw gymaint o amser.

* Y rhai canlynol a gyfansoddent yr eglwys y pryd hwn :—Parch John Williams, Pant-y-celyn ; William Jones, Ysw., Ystrad-Wallter ; John Evans, y pregethwr, a'i wraig ; David Thomas, Rock, a Harri Harris, glover, y blaenoriaid ; Gwraig Harri Harris ; Mrs. Jones, Dolau-gwynion ; Nel, Cefn-cerig ; Nancy Jack Hopkin ; Pali, Aberogwr ; Pali Jack Thomas ; Samuel Williams, a'i wraig.

Ystyriai y Parch. John Williams ei hun yn perthyn fel pregethwr, i sir Frycheiniog; oblegid yno yr oedd pan ymunodd ef gyntaf â'r Methodistiaid, eto yr oedd yn aelod eglwysig yn Llanymddyfri, a diau iddo ef a Mr. Jones, Ystrad, fod yn fraich gref i'r achos pan yr oedd eto yn ei fabandod a'i eidd-ilwch.

Gan fod iechyd Mr. Williams yn wanaidd, rhaid oedd iddo gael y cwrdd eglwysig, bob amser, ganol dydd, am 12 o'r gloch, ac arferai yn wastad esbonio y bennod a ddarllenai wrth ddechreu y cyfarfod. Bu y gŵr da a pharchedig hwn o wir wasanaeth i'r achos crefyddol yn y dref dros weddill ei oes, ac nid ei fai ef ydyw na fuasai yr arian y gadawsai eu llog i hyny, yn gwasanaethu yr un achos ar ol iddo ef farw.

Wedi adeiladu y capel, symudwyd yr achos yno, wrth gwrs. Tua'r un amser dechreuwyd yr ysgol Sabbothol. Cedwid hi ar y dechreu mewn tai anedd yn y dref, gan ystyried fod y rhif yn rhy fychan i fyned i gapel mawr, a'r tywydd, yn fynych, yn rhy oer. Yn mhen rhyw ychydig o amser ar ol ei chychwyniad, ymunodd y brodyr yr Annibynwyr â'r Methodistiaid i ddwyn yr ysgol Sabbothol yn mlaen. Mewn canlyniad, symudwyd yr ysgol i gapel y Methodistiaid, a bu y ddau enwad yn ei golygu yno dros ryw dymhor. Ciliodd yr Annibynwyr cyn hir i'w haddoldy eu hunain, a symudwyd yr ysgol eilwaith i dai anedd. Yn y tymhor hwn, daeth John Roderick o Langadog i fyw i'r dref, a thrwy ei lafur diflin ef, lluosogodd yr ysgol yn fawr, a bu raid ei symud drachefn i'r capel, lle y gorphwysodd hyd y dydd hwn.

Oddeutu yr un amser, anfonwyd yma ysgol feistr o'r enw Rees William Morgan, yr hwn oedd yn aelod yn eglwys Cil-y-cwm, i gadw ysgol Gymraeg ddyddiol, perthynol i elusen Madam Bevan. Cadwyd yr ysgol hon yn nghapel y Methodistiaid, a bu yn lles mawr i lawer o blant yn y dref a'r gymydogaeth; ond yn mhen y tymhor arferol, sef hanner blwyddyn, symudwyd hon i le arall.

Fe gasgla y darllenydd mai eiddil a bechan oedd yr ysgol Sabbothol ar ei chychwyniad, ac mai lled nychlyd y parhaodd dros ryw dymhor, ond erbyn hyn y mae wedi cynyddu yn ddirfawr. Y mae, nid yn unig, yn lluosog yn y dref, ond wedi bwrw allan chwech o ganghenau o amgylch y dref, ac wedi gwasgar yr anwybodaeth caddugol a orchuddiasai y dref er ys oesoedd, a darostwng yr hen ofer-gampau a'r arferion a'i hanurddai er cyn cof.*

Dadganai Vicer Pritchard uwchben y dref ddau can' mlynedd yn ol,

"Mene Tecel, tref Llan'ddyfri, Pwysodd Duw di yn dy frynti." Ond beth pe codai yr hen Ficer yn awr o'i fedd, a chanfod yr holl fanteision sydd gan y trigolion, mawr yn ddiau a fyddai ei syndod, ac nid bychan a fyddai ei lawenydd. Parod fyddai i ofyn, "O ba le y daeth a phwy a genedlodd, y rhai hyn?

* Mae yn y dref hon lawer o fanteision crefyddol heblaw sydd gan y Methodistiaid. Mae gan y Wesleyaid, y Bedyddwyr, ac eglwys Loegr, bob un ei hysgol Sabbothol, yn nghyda moddion crefyddol eraill. Mae yma ysgolion *National* a *British Schools* hefyd. Yn ddiweddar hefyd, codwyd yma ysgol Ramadegol, wedi ei gwaddoli yn dda, ac yn cael ei bwriadu i fod yn llesad i'r Cymry heb wahaniaeth plaid, a rheolau gorgyfyng.

Wele, gadawsid fi yn unig, yn gaeth ac yn ddieppil!" Yr ateb a roddid iddo a fyddai hefyd, "Duw a gododd ei law at y cenedloedd, a'i faner at y bobloedd. O'r Arglwydd y daeth hyn, a hyn sydd ryfedd yn ein golwg ni."

Yr oedd Llanymddyfri, ar y pryd y dychwelodd yr ysgol Sabbothol yn ol i'r capel, mewn cysylltiad â Chil-y-cwm, fel taith Sabbothol. Cedwid yr oedfa y boreu yn y dref, yn Cil-y-cwm y prydnawn, a'r nos yn fynych fe bregethid mewn tai anedd yn y cymydogaethau, megys Ystrad-wallter, Henllys-fach, a Dolau-gwynion. Pregethwyd llawer iawn yn Ystrad-wallter, yn amser Mr. a Mrs. Jones, a hir y cofiwyd, ac y cofir eto, am oedfaon nodedig yno, ac yn Dolau-gwynion. Mae y Parch. Rees Phillips yn cofio un o'r oedfaon hynod hyny yn y lle olaf a grybwyllwyd, pan oedd un William Jones, Cydweli, yn pregethu. Arllwyswyd cawod o ddylanwadau nerthol ar y gynulleidfa, nes oedd pob calon yn cyffroi, a bloedd o orfoledd a mawl yn tori allan, y fath na chlywsid ond anfynych ei chyffelyb. Mae Dolau-gwynion hyd heddyw a'i ddrysau yn agored i dderbyn cenadon Mab Duw, o Dde a Gogledd, er maint y bylchau a wnaed gan angau yn y teulu.

Yr oedd llawer o bregethu yn Nglan-towy am flynyddoedd, a mawr y caredigrwydd a ddangosid i achos yr efengyl gan deulu Mr. Jeffreys. A'r un modd wedi iddo symud i Ystrad-wallter, lle y mae yn awr yn preswylio. Mae y lle hwn fel wedi ei osod i dderbyn pregethu iddo a thra mawr y ffyddlondeb a ddangoswyd gan y teulu hwn, fel teulu Mr. Jones a fu yn preswylio yma gynt. Pregethid llawer ar nos Sadyrnau, a rhai prydiau eraill, yn Pant-y-wheel hefyd. Yr oedd Llanymddyfri yn fynych heb oedfaon nos Sabboth dros ryw dymhor, o herwydd fod pregethu gymaint yn y tai o amgylch y dref. A phan y daeth y pregethu yn fwy cyson yn y dref, nid rhyw lwyddiant mawr a'i dylynodd dros rai blynyddau. Ond yn y fl. 1819, torodd diwygiad grymus iawn allan, a chwanegwyd llawer at nifer yr aelodau. Dyma y pryd y profodd y Peirch. Rees Phillips, a'i frawd Thomas Phillips, yn awr o Henffordd, ddylanwad y gwirionedd, ac y darostyngwyd hwy dan iau Crist. Bu adfywiad drachefn yn mhen tua dwy flynedd ar ol y llall, a chyn i'r cyntaf lwyr ddiffoddi. Chwanegwyd llawer at yr eglwys trwy yr adfywiad hwn hefyd. Dyma y pryd y dygwyd pregethu mwy cyson i bentref Myddfai, ac y sefydlwyd ysgol Sabbothol. Yr oedd y brodyr o Landdeusant cydgynorthwyo yn y gwaith hwn. Yn y fl. 1823, adeiladwyd capel Myddfai, ac erbyn heddyw y mae yno gynulleidfa dda, ac eglwys yn rhifo nid llawer yn fyr o 60 o aelodau.

Yn y fl. 1828, bu adfywiad arall yn y wlad, am yr hwn y coffawyd yn hanes Llanddeusant. Adfywiad oedd hwn a ysgydwodd y wlad trwyddi, o leiaf y parthau uchaf o honi, ac ni fu Llanymddyfri yn llwyr amddifad. Y pryd hwn, codwyd yr achos crefyddol yn fwy i olwg preswylwyr y dref. Yr oedd cyfarfod misol y flwyddyn o'r blaen wedi parotoi y ffordd i hyn; cyfarfod a hynodwyd nid yn unig â phresenoldeb dau ŵr enwog o'r Gogledd, sef y Peirch. John Elias, Môn, a John Jones, Talsarn, ond yn fwy o lawer â phresenoldeb Duw ei hunan. Yr oedd y gynulleidfa, bellach, yn dechreu

cwyno gan ddiffyg lle, a'r addoldy, erbyn hyn, wedi myned yn rhy gyfyng, a bu raid ymosod at adeiladu tŷ newydd ac eangach na'r hen. Yr oedd hyn rai blynyddau ar ol y diwygiad crybwylledig. Yr addoldy newydd a agorwyd yn y fl. 1836, oedd yn adeilad helaeth a hardd iawn.

Ymwelodd yr Arglwydd drachefn â'i bobl yn y wlad hon, tua'r fl. 1849, mewn atebiad i weddiau yr eglwysi. Ymwelodd rhagluniaeth y nef â'r deyrnas â haint, yr hwn a ysgubodd niferi mawr o ddynion yn ddisymwth i'r bedd. Bendithiwyd yr oruchwyliaeth hon i lawer a weddillwyd gan angau. Hi fu, fel aradr, yn foddion i rwygo y tir; a chafodd yr had anllygredig ddisgyn i galonau wedi eu parotoi i'w dderbyn. Daliwyd llawer yn y dref hon ag ofnau, darostyngwyd ac ystwythwyd llawer o rai cyndyn, a dygwyd llawer un a fuasai yn hir yn cloffi, i lwyr benderfyniad. Chwanegwyd at yr eglwys hon tua 42 yr un noswaith!

O'r rhai a ddechreuasant bregethu yn yr eglwys hon, y mae tri wedi marw, sef Ebenezer Evans, Thomas Evans, a Daniel Williams, ac nid hir y bu yr un o'r tri hyn ar y maes cyn eu galw i orphwys. Mae tri arall yn awr yn llafurio mewn cyrau eraill o'r maes, sef y Parch. Thomas Phillips, yn awr o Henffordd; y Parch. Ebenezer Williams, Pen-y-bont, Maesyfed; a'r Parch. Richard Saunders, yr hwn sydd yn awr yn aelod o gwrdd misol sir Forganwg. Nid oes yn aros yn yr eglwys hon, o bregethwyr, o'r holl feibion a fagodd, ond y ddau frawd, y Peirch. Rees a Jonah Phillips.

## LLANGADOG.

Yn ol tystiolaeth henafgwr sydd eto yn fyw, yr hwn a dderbyniodd yr hanes gan ei dad, yr ydym yn deall mai Howel Harris oedd y cyntaf o'r Methodistiaid a bregethodd yn y fangre hon, mewn lle a elwir y "Banc," a hyny i dyrfa fawr. Tystia yr un gŵr ddarfod iddo bregethu amrywiol weithiau ar ol hyny yn muarth y *Red Lion*, yn nghylch 90 ml. yn ol. Tystiolaethai un Job Thomas, un o'r Crynwyr, yr hwn a drigai gerllaw tref Llangadog, ei fod ef yn cofio clywed Howel Harris yn pregethu yno amryw weithiau. Deuai ei gydlafurwyr, y Peirch. D. Rowlands, William Williams, Howel Davies, a Dafydd Morris, i ymweled â'r ardal yn eu tro. Y lleoedd y pregethid amlaf ynddynt yn yr amser boreu hwnw, oedd Tŷ'n-y-lôn, Cae-siencyn, Llwyn-dewi, a Chwmsawdde. Bernir mai yn Nghae-siencyn y dechreuwyd cynal y cyfarfodydd eglwysig; ar ol hyny, yn Llwyn-dewi, lle y parhawyd eu cadw hyd adeiladiad y capel.

Y capel a adeiladwyd yn y fl. 1770. Yr oedd adeiladu capel y pryd hwnw yn orchestwaith o'r fath nad oedd ond ychydig yn meddu digon o wroldeb i ymosod arno. Ond yr oedd gŵr o'r fath ysbryd yn mysg crefyddwyr y fro hon, sef Rhys Daniel, Llanwrda. Yr oedd amryw o ddynion da yn mhlith y dysgyblion, eto Rhys oedd raid wynebu pob caledwaith. Felly y bu gydag adeiladu y tŷ cwrdd. Cefnogwyd ef, er hyny, yn wresog, gan W. Watkins, Llwyn-ddewi, a B. Morgan, Cae-siencyn; a thrwy gymhorth y cymydogion, dygwyd ef yn fuan i ben.

Rhoddir enghraifft o wroldeb ëofn Rhys Daniel, yn yr amser yr oedd y capel yn cael ei adeiladu. Yr oedd gŵr parchus iawn yn byw yn y gymydogaeth, yr hwn a fuasai gynt yn proffesu gyda'r Methodistiaid, ond erbyn hyn wedi gŵyro at heresi y Sandemaniaid. Gofynai ei gyfeillion i Rhys, "A anturiai efe i ofyn cynorthwy gan y boneddwr hwn at adeiladu y capel?"

"Gwnaf," ebe Rhys, "paham lai?"

Yn ol ei addewid, aeth at y gŵr boneddig, a thraethodd ei neges. "Rhys," ebe'r boneddwr, mewn dull cwta a chwerw, "mi wnawn un peth a allwn i chwi fel cymydog; ond cludo coed neu gerig i adeiladu teml i Satan, nis gwnaf byth!"

Bu yr hen ŵr yn ddystaw dros enyd, ar ol derbyn yr atebiad atgas hwn, ond yn fuan, fe dorodd allan gan ddyweyd, "Syr, mi feddyliais cyn hyn fod llaw yr Arglwydd wedi ei gosod arnoch er daioni; ond yn awr mi a welaf yn amlwg eich bod dan farn Duw, wedi eich diosg o bob daioni, ond gonestrwydd rhwng gŵr a gŵr; ac nid rhyfedd fydd genyf os ceir chwi yn amddifad o hyny, cyn eich marw."

Dywedir i'r geiriau hyn effeithio yn ddwys ar y gŵr mawr, ac mai anesmwyth a fu ei gwsg am wythnosau lawer. Enghraifft arall o ysbryd gwrol yr hen ŵr crybwylledig, a gofnodir. Pan diriodd y Ffrancod yn sir Benfro, cyffrôdd ei ysbryd yn ddirfawr, heb amheu dim na elwid ar yr holl wlad i fyned dan arfau. Penderfynai yntau i wneyd ei ran, a mawr oedd ei bryder yn mha le y gallai adael ei Feibl mewn diogelwch, rhag i'r gelynion ei losgi!

Coffeir yn arbenig am lafur y Parch. Peter Williams yn Llangadog, a diau y bu llawer o lafurio o hyny hyd yn awr gan luaws o ddynion ffyddlawn ac effro. Y gymdeithasfa gyntaf a gynaliwyd yma oedd yn haf y fl. 1798. Mae yma, bellach, gapel a chynulleidfa dda; ac nid oes amheuaeth nad oes daioni lawer yn cael ei wneyd, er nad yw y lle hwn, fel llawer o fanau eraill, mor fywiog a chyffrous ag y bu "yn y dyddiau gynt."

## LLANSADWRN.

Barna rhai fod Howel Harris wedi bod yn yr ardal hon cyn ymweled â Llangadog, a dywedir mai yn Maes-y-gwdir, plwyf Llansadwrn y bu. Nid oes amheuaeth nad oedd yr ardaloedd hyn, sef Llansawel, Llangathen, Caio, Llansadwrn, a Llangadog, yn mwynhau gweinidogaeth yr hen dadau, cymaint ag un man yn y wlad; ond gan mai mewn tai anedd yr oedd pregethu dros lawer o flynyddoedd cyntaf Methodistiaeth, a bod amrywiol ardaloedd oddeutu y lle pregethu yn ymgasglu, y pryd hwnw, i'r un fan, y rhai mewn tymhor diweddarach a ymsefydlasant bawb yn eu hardaloedd eu hunain yn fwy, y mae yn anmhosibl ymron cael allan, gyda manylrwydd, pa fodd yr aeth yr achos yn mlaen, pob ardal wrthi ei hunan, o'r dechreuad. Ac nid yw chwaith o gymaint pwys, gan fod llawer o gyffelybrwydd rhwng y naill a'r llall. Mwynhaent yr un weinidogaeth, gosodent i fyny yr un sefydliadau, ac ymwelid â hwy trwy gyffelyb oruchwyliaethau. Am Lansadwrn

hefyd y gellir dyweyd, gan fod y lle yn cyffinio â Tal-llychau, Cil-y-cwm, â Llangadog, ac yn cyfranogi i fesur mawr yn yr un ysgogiadau, nid oes genym ddim i'w draethu am y lle yn ychwanegol.

Ond y mae un peth yn galw am sylw cyn myned heibio, sef mai yn yr ardal hon y cartrefai y Parch. Richard Davies, gynt o Gaio, yn mlynyddoedd olaf ei oes. Ganwyd y gŵr hwn mewn lle a elwir Bedw-gleision, yn mhlwyf Caio, yn y fl. 1770. Dechreuodd broffesu pan ydoedd yn 20 ml. oed. Yn mhen chwe' blynedd wedi hyny, dechreuodd bregethu. Wedi bod yn pregethu agos 20 mlynedd, neillduwyd ef i'r weinidogaeth yn gyflawn, yn y fl. 1815; ac wedi llafurio yn gyhoeddus dros hanner can' mlynedd, efe a fu farw yn y fl. 1847. Nid oes nemawr o gofion am ryw amgylchiadau hynod yn ei oes gyhoeddus, ac yn y wedd hyny y mae a wnelom ni ag ef, er nad oes amheuaeth genym nad oedd rhai hynod yn bod, pe buasai ef ei hun neu ryw un arall yn eu cofnodi. Dechreuasai Methodistiaeth yn mhlwyf Caio yn amser ei hynafiaid. Efe a fu yn gyfaill a chydymdeithydd i'r hynod Mr. Lloyd, Caio, yn ei wib-deithiau mynych ar hyd y gwledydd. Yr oedd ei ddawn yn rhwydd, ei ymadroddion yn ddetholedig, ei ysbryd yn iraidd, a'i lafur yn gyson a llwyddiannus. Enwogrwydd mawr ar Risiart Dafydd, oedd ei fod yn ŵr mawr mewn gweddi. Bu farw mewn henaint teg, yn 77 ml. oed, a theimlir colled ar ei ol hyd heddyw.

---

# PENNOD IV.

## EGLWYSI GOGLEDD-ORLLEWIN Y SIR.

CYNWYSIAD:—

CASTELL-NEWYDD-YN-EMLYN—CHWAER D. ROWLANDS—PHILIP DAFYDD, Y CLOCSIWR—HANESYN AM DAFYDD MORRIS, A WILLIAMS, PANT-Y-CELYN—Y GYMDEITHASFA GYNTAF—DAVIES, LLANFYRNACH, A JAMES MATTHIAS—JOHN EVAN, CENARTH, A JOHN JAMES, Y BARCER—CYNFIL—BRECHFA—CLOS-Y-GRAIG.

### CASTELL-NEWYDD-YN-EMLYN.

MAE y dref yn sefyll yn mhlwyf Cenarth, ar fin yr afon Teifi o bob ochr, ac felly y mae rhan o honi yn sir Aberteifi, sef y rhan a elwir Adpar, a rhan yn sir Gaerfyrddin. Gelwid y dref gynt yn *Ddinas-Emlyn*, a saif tua thair milldir o eglwys Cenarth, sef eglwys y plwyf. Yn ystadegau y Methodistiaid, cyfrifir yr achos crefyddol yn y dref yn perthyn i gyfarfod misol sir Gaerfyrddin.

Nid oes sicrwydd pa bryd, na thrwy ba foddion, y dechreuodd Methodistiaeth ymwthio i'r dref hon. Mae yr hanes cyn y flwyddyn 1760, yn lled dywyll ac anmherffaith. Ond y mae yn hysbys fod Mrs. Powell, chwaer i'r Parch. Daniel Rowlands, yn un o'r dysgyblion cyntaf yn y lle. Gwraig weddw ydoedd hi i un Samuel Powell, gôf wrth ei grefft, genedigol o ardal Llangeitho. Priododd yn groes i ewyllys ei pherthynasau, a chartrefodd gyda'i gŵr yn mhentref Cenarth; efe yn gweithio ei grefft, a hithau yn cadw y dafarn gerllaw llan y plwyf. Gwraig aml ei phrofedigaethau oedd Mrs. Powell, ond un hynod mewn duwioldeb. Collodd ei gŵr yn o ieuanc, a chafodd

ei gadael gyda phedwar o blant bychain, heb nemawr ar eu cyfer ond rhagluniaeth y Duw a ddywedasai, "Gâd dy amddifaid, myfi a'u cadwaf hwynt yn fyw, ac ymddirieded dy weddwon ynof fi." Wedi marwolaeth ei gŵr, daeth i fyw i le a elwir yr Hen-hafod, gerllaw y dref hon; ac wedi hyny symudodd i'r dref; ac yn ei thŷ hi y cedwid y cyfarfodydd eglwysig *cyntaf* y mae hanes ar gael am danynt.* Y pryd hwnw, nid oedd y cyfarfodydd hyn ond bychain, a thra disylw gan y byd, oddieithr mewn ffordd o sarhad. Un tro, pan ydoedd yr ychydig grefyddwyr wedi cyfarfod â'u gilydd yn nhŷ Mrs. Powell, daeth dyn meddw o gymydog i mewn, a llonaid gogr o ganwyllau ganddo. Yr oedd ei wraig a'i chwaer yn mysg y crefyddwyr. Dywedai wrthynt, ei fod yn barnu mai tywyll iawn oeddynt ar bynciau bywyd, a'i fod ef wedi dyfod i'w goleuo; yna dechreuodd ranu y canwyllau yn ol graddau tywyllwch pob un. Mrs. Powell, yn ol ei farn ef, oedd y fwyaf goleu, ac iddi hi rhoes *un* ganwyll, ond i Siani, ei chwaer, y rhoes lonaid ei law, am y barnai mai hi oedd y dywyllaf.

Pa faint o amser y bu y cyfarfodydd yn cael eu cadw yn nhŷ Mrs. Powell, nid yw yn hysbys; ond y mae hysbysiad eu bod cyn y fl. 1760, o herwydd fod profion ar gael eu bod yn cael eu cynal yn y flwyddyn hòno mewn tŷ arall, sef tŷ Philip Dafydd, clocsiwr wrth ei grefft, yr hwn fu wedi hyny yn bregethwr. Un prydnawn, yn y flwyddyn grybwylledig, pan oedd Philip wrth ei orchwyl, daeth i'w dŷ ŵr ieuanc, *teneu-teneu*, a glandeg yr olwg arno, yn ol darluniad Philip o hono, yr hwn a ddywedai wrth y clocsiwr, y byddai yn dychwelyd trwy y dref dranoeth, ac y pregethai yn ei dŷ ef am 10 o'r gloch. Llawen oedd gan Philip glywed y newydd; ond yn anffodus, y noson hòno, cymerwyd Sarah ei wraig yn glaf, a ganwyd iddi fab. Tranoeth daeth y pregethwr at ei addewid, a mawr oedd penbleth gŵr y tŷ, am na wyddai yn iawn pa beth i wneyd. Teimlid yn ormod o beth golli yr oedfa, gan y gwerth a roddid ar ei chael; ac nid oedd tŷ arall a'i derbyniai; teimlid, ar yr un pryd, yn gryn beth anghysuro y wraig glaf, ac hwyrach beryglu ei bywyd hi a'r plentyn. Penderfynwyd, pa fodd bynag, wedi peth ymgynghoriad, ar i'r oedfa gael ei chadw; ac yn y cyfamser, cymerai gwraig dduwiol o'r dref ofal y plentyn tra y gwrandawai ar y bregeth, a gofalai Philip am ei fam, rhag i'r bobl dyru yn ormodol i'r pen hwnw o'r tŷ lle yr oedd y wraig glaf. Ond cyn fod hanner y bregeth drosodd, yr oedd y ddau wedi anghofio gwrthddrychau eu gofal, gan ymuno ag eraill yn y lle i foliannu Duw am drefn iachawdwriaeth. Gofalodd rhagluniaeth am y fam a'r plentyn, fel na ddygwyddodd iddynt hwy ddim niwaid, a chafodd y tlodion eu diwallu â bara y bywyd. Y pregethwr *teneu* hwn oedd Dafydd Morris, Twrgwyn; a hon oedd y bregeth gyntaf iddo yn y dref hon, a'r bregeth gyntaf gan neb arall y mae dim coffa benodol am dani. Gelwid y tŷ yn Tŷ-crwca, a safai yn mhen ddeheuol y dref, ar y gornel lle yr oedd yr heol yn ymwahanu yn ddwy, un i'r de a'r llall i'r dwyrain.

* Rhwymedig ydyw yr ysgrifenydd i Mr. Griffith Thomas, Aberystwyth yn awr, ond o Gastell-newydd gynt, am yr hysbysiad.

Tua'r fl. 1770, a'r blynyddoedd canlynol, arferid pregethu bob yn ail, yn y ddwy brif dafarn. Yr oedd un yn mhen ddeheuol y dref, ac yn myned dan yr enw y *Gate*, lle, fel yr ymddengys, y bu *porth* i'r dref unwaith yn sefyll, a hyny oesoedd cyn bod son am y toll-byrth cyffredin sydd yn awr. "Felly," medd fy hysbysydd, "gerllaw y porth, yn mhen y dref, yn ymyl y drysau, y byddai doethineb yn gwaeddi, a deall yn llefain." Y dafarn arall a elwid Pen-y-bont, ond wedi hyny a elwid y *Salutation*, ac a fu yn brif westty yn y dref hyd o fewn llai nag ugain mlynedd yn ol. Pan y byddai pregeth i fod yn y dref, ni wyddid weithiau pa le o'r ddau y cedwid hi, hyd oni ddelai y pregethwr i'r dref. Dibynai lle yr oedfa ar ei lwybr ef. Os deuai o sir Aberteifi, cedwid yr oedfa yn *Mhen-y-bont*, ond os deuai i'r dref o'r pen arall, cedwid hi yn y *Gate*. Er hyn, Pen-y-bont oedd cartref yr achos, a hyny, fe allai, am fod y tŷ yn eangach, ac hefyd, am fod gwraig y tŷ, Mrs Catherine Davies, a thri o'i phlant henaf, yn aelodau crefyddol.

Cedwid y cyfarfodydd eglwysig yn mharlawr y tŷ, a phan y byddai yr hîn yn deg, pregethid ar ben y gareg farch wrth ochr y tŷ. Dysgwylid unwaith am Williams, Pant-y-celyn, i bregethu. Yr oedd y gynulleidfa yn rhy fawr i'r tŷ, a'r hîn yn rhy oer i sefyll allan. Yr oedd yr eira yn disgyn yn dew, a'r awel yn oer iawn. Yr oedd y pregethwr yn llawn o'r *Hyp*,* ac yn dra *anwydog*, eto nid oedd dim i'w wneyd ond ymbarotoi i sefyll ar y gareg farch yn nghanol yr eira. Ymwisgai yn ei gôt fawr, a mantell ar hyny, dau gadach *(handkerchief)* am ei ben, ac ar hyny ei het walciog, ac yn y wedd yma anturiai sefyll o flaen y gynulleidfa. Ond yr oedd y gwynt yn chwifio y fantell ac yn ei anghysuro, ac nid allai fyned rhagddo; ond wedi ei rhwymo yn dŷn am ei ganol â ffiled gaws, cafodd hwyl i bregethu, a gwrandawai y gynulleidfa arno yn astud hyd y diwedd, er maint ydoedd grym y gwynt ac iâs yr eira.

Tua'r fl. 1774 neu 5, o herwydd symudiad John a Chatherine Davies o Ben-y-bont, neu ryw amgylchiad arall, symudwyd y pregethu drachefn i dŷ Philip Dafydd, yr hwn oedd, bellach, yn byw mewn tŷ eangach na'r Tŷ-crwca, ac yn nes i ganol y dref. Yn y tŷ hwn y parhaodd y pregethu hyd nes y cafwyd capel. Hyd yn hyn, nid oedd yr un addoldy cyhoeddus o un math, na chan un enwad, o fewn y dref; ond y pryd hwn, adeiladwyd *Chapel of Ease* yn gysylltiedig â'r eglwys sefydledig. Yr oedd gan y Bedyddwyr eglwys yn y dref wedi ei chorffori er ys 80 ml. cyn hyn, ond nid oedd ganddynt yr un addoldy. Arferent addoli mewn tŷ fferm yn y dref, a elwid Tyddyn-pendref. Ymddengys fod cryn nifer o'r rhai a arferent wrando ar y Methodistiaid wedi cael eu tueddu i gymeryd eu bedyddio eilwaith yn ol dull y Bedyddwyr, ac wedi eu chwanegu at eu heglwys yn Nghastell-newydd a'r Pant-teg. Bedyddiwyd fel hyn tua 60 o nifer mewn tua wyth mis o amser, yn dybenu yn mis Mai, 1774. Gan fod llawer o'r dysgyblion wedi ymgyfeillachu â'r Methodistiaid, ac yn hoff o'u dull o addoli yn fwy mewn rhyw bethau na'r

* Hyp, oddiwrth y gair *Hypochondriacism*, afiechyd y gïau *(nervous affection)*.

eiddo y Bedyddwyr, a chan y cyfarfyddent â gwrthwynebiad cryf oddiwrth ran arall o'r eglwys, barnasant yn well ymadael nag ymryson, ac ar y 25 o Fawrth, 1775, aeth o gylch 50 o'r aelodau ieuainc ymaith.* Yr oedd hyny o Fethodistiaid ag oedd yn y dref yn teimlo yn gynhes tuag at yr aelodau enciliedig hyn, a chan fod y ddwy blaid, sef y Methodistiaid a hwythau, yn teimlo angen am gapel fel y'u gilydd, byddent yn fynych yn ymgynghori, ai ni allai un addoldy wneyd y tro rhyngddynt, yn hytrach na myned i'r draul i wneuthur dau. Ac un noswaith, pan oedd Mr. Williams, Pant-y-celyn, yn pregethu yn Mhen-y-bont, aeth rhyw nifer o frodyr o'r ddwy blaid ato, gyda'u gilydd, ar ol darfod yr oedfa, i ofyn ei gynghor a'i gyfarwyddyd. Yntau, wedi clywed yr achos, a ddywedodd yn ei ddull sydyn ei hun, "Pob o gapel—pob o gapel;—codwch chwi un," ebe efe wrth y Bedyddwyr, "gerllaw yr *afon* yma; a chwithau," ebe efe wrth y Methodistiaid, "yn mhen arall y dref." Felly, yn y fl. 1776, cododd pob un ei gapel. Nid oedd capel y Methodistiaid ond capel bychan a diaddurn iawn, eto edrychid ar ei godi y pryd hwnw yn orchestwaith, a mawr y mwynhad a'r lles a gafwyd, yn ddiau, gan laweroedd trwy air y gwirionedd yn y tŷ hwn. Codwyd tŷ anedd wrth ei dalcen, yn perthyn i'r achos; ac ynddo y preswyliodd yr hen Mrs. Powell o'r amser hwnw hyd ddydd ei marwolaeth; yr hyn a gymerodd le yn y fl. 1796, pan oedd yn 85 ml. oed. Gwraig dduwiol iawn y cyfrifid Mrs. Powell, "a pherchid hi," meddir, "i hynodrwydd," gan uchel ac isel radd, a hyny yn unig o herwydd amlygrwydd a symledd ei duwioldeb.

Yn mhlith y pregethwyr a arferent bregethu yn y lle, cyn codi y capel, heblaw Williams, Pant-y-celyn, a Dafydd Morris, yr oedd Peter Williams; Llwyd, o Gaio, a'i gyfaill John Evans, Cil-y-cwm; John Harris, sir Benfro; Thomas Davies,† Abergwaun; Sampson Thomas; ac Enoch Davies, Trelech. Byddai Mr. Griffiths, gweinidog plwyf Llandyfriog, yn arfer dyfod i'r cyfarfodydd eglwysig yn Mhen-y-bont. Yr oedd pregethwyr ac offeiriaid eraill yn eu tro yn cyd-lafurio â'r gwŷr a enwyd, ond y rhai a nodwyd oedd yma amlaf.

Yn y fl. 1774 neu 5, cynaliwyd cymdeithasfa yma, y gyntaf a fu yma erioed. Pregethwyd y dydd cyntaf o dan dderwen fawr a safai y pryd hyny lle y mae y marchnad-dŷ yn awr. Yr ail ddydd, pregethwyd ar faes yr hen gastell, yn ymyl y dref. Y llefarwyr oeddynt David Williams, Llys-y-fronydd; Peter Williams; William Davies, Castell-nedd; Daniel Rowlands; D. Jones, Llangan, ac eraill. Cedwid y cyfarfodydd neillduol yn mharlawr Pen-y-bont—ystafell ag oedd wedi cael ei hynodi lawer gwaith â phresenoldeb "Preswylydd y Berth," ac â dylanwadau nerthol Ysbryd Duw. Mae un hen chwaer eto yn fyw, o leiaf yr oedd yn ddiweddar, yr hon a welodd wraig Dafydd Morris, a gwraig Llwyd, o Gaio, yn cyd-neidio o orfoledd ar lawr y parlawr, ar ddiwedd oedfa, gan adrodd mewn hwyl hyfryd y pennill,—

Bydd melys lanio draw, 'Nol bod o dòn i dòn;
Ac mi ro'f ffarwel maes o law, I'r ddaear hon.

* Gwel "Hanes y Bedyddwyr," gan Joshua Thomas. † Gwel Hanes Abergwaun.

Dwy wraig nodedig oeddynt am eu gras a dysgleirdeb eu crefydd. Yr oedd Mrs. Morris yn arfer dyfod yn fynych i'r dref i gadw cyfarfodydd eglwysig. Ymddengys y byddai y cyfarfodydd neillduol yn Nghastell-newydd yn meddu gradd o enwogrwydd, ac iddynt y cyrchai aelodau Methodistaidd o'r ardaloedd cylchynol, ac arferai dynion o ddawn a gras ddyfod yma hefyd i'w cadw, o ba rai y bu y Parch. Arthur Evans, Cynwyl, yn nodedig o ffyddlawn.

O'r brodyr a berthynent i'r eglwys y pryd hyny, cododd tri i waith y weinidogaeth,—Philip Dafydd, James Matthias, a David Davies, mab hynaf Mr. a Mrs. Davies, Pen-y-bont. Aeth yr olaf hwn i offeiriadaeth yr eglwys sefydledig, a bu, dros flynyddau lawer, yn ficer Llanfyrnach, sir Benfro; a pharhaodd i gydweithredu â'r Methodistiaid hyd y neillduad yn y fl. 1811. Bu Philip Dafydd ffyddlawn ac egniol gyda'r gwaith hyd ei farwolaeth. Bu farw yn y fl. 1814, yn hen a llawn o ddyddiau, yn 82 ml. oed. Yr oedd teulu y pregethwr hwn yn fawr, a'i amgylchiadau yn isel. Anhawdd ydyw dirnad pa faint a aberthodd hwn, yn ei dlodi a'i gyfyng amgylchiadau, er rhwyddhau mynediad yr efengyl yn mlaen. Unwaith, fe sylwyd ddarfod iddo fyned adref ar ddiwedd oedfa, heb aros y cyfarfod neillduol a gynelid wedi hyny, a beiwyd arno am hyny; ond pan yr hysbysodd y truan nad oedd yn ei dŷ, y diwrnod hwnw, yr un briwsionyn o fwyd ar gyfer tŵr mawr o blant, esgusodwyd ef am y tro! Yr oedd yn ddarn o brydydd, a chyhoeddodd amryw farwnadau, a darnau barddonol eraill.

Am James Matthias, gellir dyweyd ddarfod iddo dreulio oes hir iawn yn yr eglwys filwriaethus. Bu farw yn y fl. 1833, yn 93 ml. oed. Arferai bregethu hyd o fewn tair blynedd i'w ymadawiad, pryd o'i *wir anfodd* y gorfu iddo roddi heibio gan fusgrellni henaint, a bloesgni ymadrodd. Tymher darawaidd a sech oedd ei dymher ef trwy ei oes, ond yn ei henaint yr oedd yn fwy gostyngedig ac iraidd. Ryw dri mis cyn ei farwolaeth, fe allai y tro olaf y bu ef yn y capel, ar foreu Sabboth, yr oedd y gynulleidfa wedi eu siomi am y pregethwr; a phenderfynwyd cadw cyfarfod gweddi. Wedi darllen pennod a gweddio gan un o'r brodyr, dyma'r hen batriarch 93 ml. oed, yn codi ar ei draed, ac heb neb yn dysgwyl wrtho, yn pregethu darn o hen bregeth oedd ganddo yn ei gof, gyda mwy o egni nag arferol, a chydag ymddangosiad o gymaint o fwynhad *iddo ei hun* ag erioed, ond yn gwbl ddifudd i'r gwrandawyr, am fod ei floesgni yn llesteirio iddynt ei ddeall.

Pregethwr arall, a gododd yn lled foreu y ny lle hwn, oedd Abel Thomas—gŵr a garai bawb, ac a gerid gan bawb. Bu yn llafurus iawn gyda'r gwaith, ac yn gynorthwy mawr i'r achos yn y dref a'r gymydogaeth. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, yn y fl. 1799, yn 48 ml. oed. Gadawodd deulu lluosog ar ei ol; a bu ei weddw yn fam ymgeleddgar i'r achos hyd ei marwolaeth, yn y fl. 1838; ac y mae ei thŷ a'i holynwyr yn rhodio yn ei llwybrau.

Pregethwr arall a fu yn cyd-lafurio yn hir â'r gwŷr a enwyd, oedd John

Evans,* o'r Argoed. Amaethwr oedd efe, yn byw yn ymyl pentref Cenarth. Symudodd, trwy briodi, i fyw i Gaerfyrddin, lle y gorphenodd ei yrfa Hen

* Rhoddir yma Gan o'i eiddo, a gyfansoddwyd ar achlysur Cymdeithasfa a gynaliwyd yn Aberteifi, yn y fl. 1796.

O brysia Dywysog llu'r Arglwydd,
Yn ebrwydd i arddel dy air.
Ti wyddost yn hysbys yr amser,
Dydd Mercher a Iau 'nol Gŵyl-fair.
Bydd yno fawr nifer yn erfyn*
Am weled y Brenin yn d'od;
Fe godir banerau yn uchel,
Yn arwydd bod rhyfel ar droed.

Aflwyddiant i Satan a'i amcan,
I guro rhai egwan i lawr:
Mab Dafydd ar gyfer Goliah—
Mi w'rantaf y cwympa fe'r cawr.
Ac er mor greuloned yw'r filain
Fe'i clywyd e'n ochain cyn hyn;—
Fe'i maeddwyd—fe'i concrwyd gan hwnw
Fu farw ar Galfari fryn.

Mae brodyr i Hur ac i Aaron,
O'u calon am gynal i'r lan,
Y breichiau f'o yn y filwriaeth,
Try olwyn rhagluniaeth o'u rhan.
Yr haul gynt a safai'n Gibëon,
A'r lleuad yn Ajalon draw;
Y cenllysg, a hen afon Cison,
A rows y gelynion mewn braw.

Mi deithiais i dre' Aberteifi,
Lle gwelais gwmpeini mawr iawn;
'Roedd miloedd o'r lluoedd, 'rwy'n credu,
Dan faner yr Iesu a'i ddawn.
A chwech o'r gwŷr arfog a safodd
Ar gyhoedd rhwng nefoedd a llawr,
A Roberts† o'r Gogledd ddechreuodd,
A'i ddoniau mor ddysglaer a'r wawr.

I'r ddegfed o lyfr y Datguddiad,
A'r adnod flaenorol o hon;
Lle d'wedir am angel cryf arall
Ddisgynodd o'r nefoedd yn llon.
A'i draed oedd fel pres o gadernid.
A'i wyneb fel haul heb un llen,
A'i enw yn bur, ogoneddus,
Ac enfys o gwmpas ei ben.

Yr ail a'i canlynodd e'n dirion,
Gray‡ addfwyn a'i chwariodd hi'n deg,
A'i destyn oedd yn Zachariah,
Y bennod y drydedd ar ddeg;
Lle d'wedir am ffynnon agorwyd,
A darddodd i waered o'r bryn,
I olchi aflendid a phechod,
A gwneyd y dû euog yn wyn.

A Jones§ o Drefaldwyn yn drydydd,
Osodai'n ddiduedd i ma's,
O'r wythfed o Lyfr y Caniadau,
Am hanes rhinweddau rhad ras:
"Dod fi megys sêl ar dy galon,
"Ac ar dy fraich hefyd 'run wedd;
"Can's cariad sydd gryf megys angau,
"Eiddigedd mor greulawn a'r bedd."

A'r brawd Dafydd Parry|| 'n bedwerydd,
A'i ddoniau oedd ddefnydd i'r gwan;
I'r pummed o Lyfr y Pregethwr,
Fe chwariodd fel milwr ei ran;
"Pan byddech di'n myn'd i dŷ'r Arglwydd,
"Yn ebrwydd, O, gwilia 'r dy droed;
"Fe chwilir yn fanol dy feddwl,
"Gan un ŵyr y cwbl erioed."

Y pummed a'i fyny 'n galonog,
Llwyd¶ enwog a'i ddoniau oedd wych,
I'r drydedd-ar-ddeg o'r Corinthiaid,
Lle d'wedir am weled trwy ddrych;
"Mewn dammeg yn awr yr adwaenwn,
"Ond wyneb yn wyneb a fydd;
"Ffydd, gobaith, a chariad sy'n aros,
"Nes trodd y tywyll-nos yn ddydd."

A Rowlands** barchedig yn chweched,
I'r nifer o Numeri a ai;
I'r adnod ddiweddaf o'r bennod,
Son am y cyfammod difai;
"Ac felly gosodant fy enw
"Ar feibion yr Israel yn awr;
"Ac mi a'u bendithiaf hwy wedi'n,
"Medd brenin y nefoedd a'r llawr."

Y gŵr a'i farch gwyn a drafaelo
I chwilio bob congl o'r byd;
I droi y Paganiaid, yr Indiaid,
A'r Mahometaniaid i gyd:
A pheri had Abr'am sydd grwydriaid,
Yn para mor ddigred eu gwedd,
I gredu fod Iesu 'n teyrnasu
Yn rasol ar orsedd o hedd.

Os gofyn rhyw Gymro o estron
Bryd bu'r Asasasiwn yn llyn,
Mil saith gant a'i cyfri hwy'n gywrain,
Pum ugain ond pedwar, at hyn;
Y ddwyfed-ar-bymtheg o Chwefror,
A dal a'r deunawfed yn dyn;
Gobeithio bydd cann am dani
'Nol llosgi pob mynydd a bryn.

* Dysgwyl. † R. Roberts, Clynog. ‡ Parch. Thomas Gray. § Pa un ai T. Jones, Llanwyddelan, ai Ismael Jones, Llandinam, ai W. Jones, Dol-y-fonddu, ydoedd, ni ddywedir. || O sir Frycheiniog. ¶ Llwyd, o Gaio. ** N. Rowlands.

frawd arall, teilwng o goffadwriaeth barchus, oedd John James y Barcer. Bu ef yn noddwr i'r achos yn y lle hwn, am oes hir. Brodor ydoedd o blwyf Dinas, yn sir Benfro; ond pan oedd yn fachgenyn go ieuanc, cymerwyd ef gan ewythr iddo, yr hwn oedd farcer, ac yn byw tua dwy filldir o'r dref hon, i weithio yn y grefft hono. Arferai y llencyn ddyfod gyda'i fodryb i'r cyfarfodydd crefyddol yn Mhen-y-bont a'r Gate. Yr oedd ei fodryb yn wraig grefyddol a rhinweddol iawn. O dan gronglwyd o'r fath, ac yn y mwynhad o'r fath freintiau crefyddol, daeth y gŵr ieuanc i brofi gradd o awdurdod y gwirionedd ar ei galon; yn lled fuan penderfynodd ymofyn am aelodaeth eglwysig; ac i'r dyben hyny, gosododd yn ei fryd aros yn y cyfarfod neillduol cyntaf a gedwid ar ol oedfa yn Mhen-y-bont. Un prydnawn, daeth fel arferol gyda'i Fodryb i'r oedfa; a dygwyddodd eu bod yn derbyn cyfraniadau y frawdoliaeth ar ol yr oedfa hon, yn y cwrdd eglwysig, tuag at adeiladu capel Yr oedd gan y gŵr ieuanc, fel y dygwyddodd, hanner coron yn ei boced, a bwriadai roddi ei hunan a'i hanner coron yr un pryd; a llawen ydoedd wrth feddwl fod ganddo gymaint i'w roddi. Yn ol ei fwriad, arosodd yn ol; ond heb i neb ddyweyd gair wrtho, a chyn iddo yntau gael hamdden i ddyweyd gair o'i fwriad wrth neb arall, dyma ddwy o'r aelodau yn dyfod ato, ac yn gafael un yn mhob braich iddo, gan ei arwain allan yn ddirodres iawn dros y drws! Cythruddodd hyn raddau ar feddwl y llencyn, fel y gellid dysgwyl, ac arferai ddyweyd wrth adrodd yr hanes, "Mi ddigiais yn fawr wrthynt; ond yr oeddwn yn falch fod fy hanner coron yn fy mhoc."

Ni ddywedir beth a ddaeth o'r hanner coron wedi hyn. Ond yn mhen rhyw enyd, maddeu y camwri hwn a wnaeth y gŵr ieuanc, ac ymuno â'r frawdoliaeth. Yn mhen rhai blynyddoedd, daeth i'r dref i fyw, a gosododd ei hun i fyny yn yr alwedigaeth yr oedd ef eisoes ynddi, a bu yn llwyddiannus ynddi. Ni lithiwyd ef chwaith i anghofio Duw yn ei lwyddiant, ond efe a fu yn llafurus a chynorthwyol iawn gyda'r achos dros flynyddau lawer: a phan adeiladwyd yr *ail* deml, sef yr addoldŷ presenol, efe oedd y cyfranwr helaethaf ati;—aethai ei hanner coron yn *gan' punt*. Yr oedd ganddo *galon* i roddi hanner coron at y capel cyntaf, a chafodd *fodd* i gyfrannu can' punt at yr ail. Bu farw yn y fl. 1843, yn 88 ml. oed, wedi bod mewn cysylltiad â'r gwaith 72 o flynyddoedd, a goroesi holl aelodau cymdeithas parlawr Pen-y-bont. Claddwyd ei weddillion, yn ol ei ddymuniad, o flaen y capel ar gyfer *ffenestr y pulpud*; ac yno, gyda gweddillion hen frawd arall o'r enw David Powell, yr unig rai a gladdwyd yno, o leiaf ar y pryd y daeth yr hysbysiad uchod i law, y cysgant yn dawel hyd ganiad yr udgorn.

Yr ail gymdeithasfa a gynaliwyd yn y dref, oedd yn y fl. 1802,—tymhor yr oedd y rhyfel yn boeth rhwng Ffrainc â'r wlad hon, ac ofn mawr i'r gelyn lwyddo i oresgyn y tir. Y peth hynotaf a grybwyllir am y gymdeithasfa hon, ydyw pregeth Mr. Jones, Llangan,* oddiar Jer. xlviii. 10, "Melldig-

* Y gwŷr eraill ag oedd yn pregethu yn y cyfarfod, oeddynt Mr. Gray; Mr. Llwyd, Beaumaris; Mr. R. James, Morganwg; Mr. Charles, o'r Bala, ac eraill.

edig fyddo'r hwn a wnelo waith yr Arglwydd yn dwyllodrus, a melldigedig fyddo'r hwn a *attalio ei gleddyf oddiwrth waed.*" Ymddengys fod rhyw hysbysiad wedi ei roddi am fwriad Mr. Jones i bregethu y bregeth hon, tuedd yr hon oedd dangos dyledswydd y bobl i amddiffyn eu gwlad, gan fod boneddwyr, ynadon hedd, a swyddogion milwraidd yr holl wlad o amgylch, wedi dyfod i'w gwrando;—peth na welsid erioed o'r blaen, ac na welwyd byth wedi hyny. Mwy dyddorol, tybygid, oedd gan y gwŷr mawr i ddeiliaid gwlad amddiffyn eu brenin, nag ydyw i ddynion y ddaear ogoneddu eu Duw. Gwneid yr olaf yn mhob pregeth cyn, ac wedi, y tro hwn, ond ni osodai y boneddwyr hyny at eu calon, ac ni roddent eu presenoldeb ar un o'r fath achlysuron. Mwy gofalus ydyw dynion yn gyffredin i ddangos ffyddlondeb i frenin daearol, nag i ddangos ufydd-dod i Dduw y nefoedd. Pa fodd bynag, mawr y boddlonrwydd a gafodd boneddigion yn y bregeth hon. Cawsant, o leiaf, wybod nad oedd y Methodistiaid ddim yn llochi amcanion bradwrus yn erbyn eu gwlad, ond fod y llyfr a'u dysgai i "ofni Duw," yn eu dysgu hefyd i "anrhydeddu y brenin." Ni allai y gwrandawyr chwaith lai na chanfod fod Mr. Jones wedi taro ar fater lled ddyeithr i'w weinidogaeth arferol, yr hyn a gynyrchodd y dywediad, y naill wrth y llall, "Hynod mor rhyfelgar oedd y gŵr addfwyn heddi."

Ni fu un Gymdeithasfa yn Nghastell Newydd am 35 o flynyddoedd ar ol yr un uchod, sef hyd y fl. 1837; ond o'r flwyddyn hòno, hi a ddaeth yn rheolaidd yn ei thro, bob saith mlynedd.

Bu yma bregethwr arall, o'r enw David Davies, yn cartrefu dros dymhor, ond nid yma y dechreuodd ar y gwaith. Efe a gychwynodd ar y gwaith o gynghori ei gyd-ddynion pan ydoedd yn filwr; yr oedd yn cael ei gyfrif yn ddyn duwiol, ac yn bregethwr cymeradwy. Ni chafodd ond arosiad byr yn y dref hon ar ol gadael y fyddin, ond gorphenodd ei oes fer yn y fl. 1817.

Yn y fl. 1820, adeiladwyd yma gapel newydd. Aethai hen gapel y *college*, fel y gelwid y cyntaf, yn gyfyng, heblaw ei fod yn salw, a phenderfynodd y gynulleidfa adeiladu un newydd. Cafwyd tir gan Arglwydd Cawdor dan *lease*. Torodd diwygiad grymus allan yn fuan ar ol hyny, a chwanegwyd llawer at yr eglwys. Nifer yr aelodau yn 1850, oeddynt 158. Mae yma un gweinidog yn cartrefu, y Parch. John Jones, gynt o Gapel-Dewi, a dau bregethwr, Benjamin Howels a John Jones.

## CYNFIL NEU CYNWYL.

Mae enw y lle hwn yn adnabyddus mewn Gogledd a De, yn ei gysylltiad, yn gyntaf, â'r hen offeiriad o'r enw Davies, yr hwn, meddir, oedd yn bregethwr da, ac a fu dros flynyddau yn llafurus ac yn llwyddiannus yn pregethu efengyl y deyrnas trwy y dywysogaeth. Cof gan y darllenydd i ni ddyweyd fod y gŵr parchedig hwn wedi cilio oddiwrth y Methodistiaid, ar y neillduad a gymerth le yn y cyfundeb, yn y fl. 1811, ac iddo lafurio o hyny hyd ei farwolaeth yn Eglwys Loegr. Mae Cynwyl hefyd yn adnabyddus fel cartref

y Parch. Arthur Evans. Ymunasai y gŵr hwn â'r Methodistiaid pan nad oedd eto ond 18 oed, sef tua'r fl. 1773. Amcanodd ar un adeg o'i oes i fod yn weinidog yn Eglwys Loegr, a bu mewn athrofa am rai blynyddau, mewn ffordd o ragbarotoi at hyny. Trwy ryw ddygwyddiad neu gilydd, methodd a chael urddiad, ond tua'r fl. 1782 fe ddechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid, a pharhaodd i weinidogaethu yn eu plith hyd y fl. 1837, pan yr ymadawodd â'r byd hwn mewn tangnefedd, yn 82 ml. oed, wedi bod yn pregethu dros y tymhor maith o 55 o flynyddoedd. Gŵr tawel, pwyllog, a dirodres iawn oedd Arthur Evans. Dyfal a chyson yr ysgogai gyda'i ddyledswydd, a thrwy hyny, yn fwy na thrwy un gorwychder ysblenydd yn ei ddoniau, efe a ennillodd barch ac ymddiried mawr yn mysg ei frodyr. Yr oedd ef yn un o'r rhai a neillduwyd gyntaf yn y deheudir, yn y fl. 1811. Mynwesai Mr. Charles, Caerfyrddin, syniadau uchel am ei ras, yn gystal ag am ei bwyll; a mynych y clybuwyd ef yn dyweyd, "Mae cymaint o ras yn Arthur ag sydd mewn saith o honom." Nid un oedd ef a ymwthiai i sylw; yn hytrach yn y gwrthwyneb, yr oedd dystawrwydd a neillduaeth yn fwy hoff ganddo, ac oblegid hyn, ynghyd a'i fod heb ddim nodedig yn ei ddawn, ni ddaeth i sylw cyffredinol yn y cyfundeb; ond yn y lleoedd yr adwaenid ef oreu y perchid ef fwyaf.

Nid oedd yn y plwyf yr un capel gan y cyfundeb pan y dechreuodd Arthur Evans bregethu, eto yr oedd cymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio, a phregethu yn cael ei wneyd er ys blynyddau lawer cyn adeiladu y tŷ cwrdd. Hyn a wnaed y tro cyntaf, yn y fl. 1792; a'r ail waith, yn 1829. Dywedir mai mewn lle a elwir y Brongwyn, dwy filldir o'r pentref, y dechreuwyd cadw cyfarfod eglwysig gyntaf; a thros amser maith wedi hyny, cynelid y cyfarfodydd neillduol ar gylch mewn tri lle; sef Brongwyn, Waun-yr-hafod, a Phen-y-caerau. Cododd yma amryw o bregethwyr heblaw Arthur Evans; megys, Rhys Jones; David Evan, a John Phillips. Gadawodd gwraig, o'r enw Catherine Harri, ddeg punt yn y flwyddyn tuag at gynal y weinidogaeth yn y lle hwn, tra fyddai Methodistiaeth yn y plwyf.

### BRECHFA.

Dechreuodd Methodistiaeth yn yr ardal hon, yn nhŷ un Titus Dafydd, y gôf. Y pregethwr a fu yma gyntaf oedd John Evans, Cil-y-cwm, a hyny tua'r fl. 1770. Adeiladwyd y capel yn y fl. 1790, wedi bod yn cadw moddion cyhoeddus a neillduol, gan mwyaf, yn nhŷ Titus Dafydd, y gôf, am ysbaid 20 mlynedd. Cododd yma ddau bregethwr, sef Timothy Davies, yr hwn a fu farw yn y fl. 1837, wedi bod yn pregethu yn dderbyniol am ysbaid 25 mlynedd; a David Griffiths.

### CLOS-Y-GRAIG.

Adeiladwyd capel yn y lle hwn mor foreu a'r fl. 1754; adeg, nad oedd

gan Fethodistiaid ond ychydig, mewn cydmhariaeth, o gapelau yn Nghymru. Yr oedd yr achos, er hyn, wedi dechreu yma amryw flynyddau yn foreuach, ac yn y tymhor borenol hwn, fe gynelid y moddion mewn amryw o dai anedd; a mynych y tywalltai y nefoedd ei gwlaw ar y cynulleidfaoedd bychain hyn. Hynodid y lle hwn, meddir, yn yr amseroedd hyny, â nifer o wragedd a ragorent mewn duwioldeb, y rhai a fernid yn famau yn Israel; ac hefyd, â henuriaid enwog a thra defnyddiol; ond y rhai sydd, bellach, ymron oll wedi myned allan o'r golwg, ac wedi eu cuddio yn y bedd.

Bu byw yn yr ardal hon, mewn lle a elwir y Cefn, bregethwr o'r enw George Griffiths, yr hwn a gyfrifid yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn y wlad hon, yn ei dymhor. Y mae anhawsder mawr i gael dim o'i hanes, er fod ei enw yn dra hysbys i lawer o hen bobl sydd eto yn fyw. Gŵr bychan a chrwca o gorff ydoedd, ond yn meddu ar lais peraidd a chlir. Sonir ei fod ef, a Robert Roberts, Clynog, unwaith yn pregethu gyda'u gilydd yn nghymdeithasfa y Bala, a bod yr oedfa hòno, yn anad yr un arall, wedi ei hynodi gan lewyrchiadau tanbaid ac effeithiau grymus; cymaint felly, nes i Mr. Jones, Edeyrn, dori allan mewn ymadrodd ffraeth priodol iddo ei hun;—"Gwŷn fyd na baem ni oll yn meddu ar gefn crwn:" gan gyfeirio at y ddau a bregethasent. Bu hwn hefyd, fel Dafydd Rees, Llanfynydd, farw oddicartref, er nad yn mhell oddicartref; sef yn Merdy Taliaris, yn agos i Dal-llychau. Pregethodd Mr. Lloyd, Henllan, yn ei angladd.

Cododd yn y lle hwn amryw bregethwyr, o bryd i bryd; megis, Evan Thomas, Gilfach-las; Dafydd ———, o Felin-y-cwrt; Luther Evan; Ebenezer Rees; Dafydd Davies; Thomas Davies; a John H. Jones.

Cafodd yr holl eglwysi hyn eu dyfrhau â gweinidogaeth y gwŷr hynod y crybwyllasom eu henwau mor fynych eisoes; megys, Rowlands, Llangeitho, yn achlysurol; ac yn fwy cyson gan yr eiddo P. a W. Williams; John Evans, Cil-y-cwm; Mr. Lloyd, Henllan; Dafydd Morris, ynghyd ag eraill, llai eu cyhoeddusrwydd. Ni fu yn yr holl fanau hyn ddim erlid haerllug ar bregethwyr nac aelodau. Fe allai mai un achos o hyny oedd fod y bobl wedi ymgynefino, i raddau, ag ymneillduaeth, cyn i'r Methodistiaid ymosod ar y fro; ac hefyd, yr oedd yn mysg y crefyddwyr boreuaf yn y wlad hon luaws o bersonau, a theuluoedd cyfrifol iawn, y rhai oedd yn meddu graddau helaeth o gyfoeth a dylanwad, fel na chafodd trais a sarhad haerllug prin le i ymddangos. Yn hyn yr oedd y Deheudir yn gwahaniaethu llawer oddiwrth y gogledd. Yn Ngwynedd, ychydig iawn o gyfoethogion a alwyd dros ysbaid maith o flynyddoedd ar ol dechreuad Methodistiaeth; ond nid felly yr ymddengys ei bod yn y deau. Yr oedd llai o ragfarn hefyd yn erbyn y crefyddwyr yn y de, am eu bod yn ddylynwyr i'r clerigwyr Methodistaidd, o ba rai yr oedd cryn nifer yn y rhan hòno o'r dywysogaeth, ac i ba rai yr oedd dyledus barch yn cael ei ddangos; ond yn y gogledd nid oedd cymaint ag un o'r fath o fewn y cyfundeb, cyn y fl. 1785.

# PENNOD V.

## EGLWYSI GORLLEWINIOL Y SIR.

CYNWYSIAD:—

CAERFYRDDIN—WHITFIELD YN PREGETHU—JOHN BOWEN, YSW.—GWEINI YR ORDINHADAU YN Y DREF—YR YSGOL SABBOTHOL—CYMANFA YR YSGOL—PARCH. DAVID CHARLES—PARCH. T. JONES, AC ERAILL—T. MORRIS, YSW.—CAPEL SAESONAEG — LLANDDOWROR — BANC-Y-FELIN—MEIDRIM—LLANDYFAELOG—LLANSTEPHAN.

### CAERFYRDDIN.

Ar ddechreuad y ganrif ddiweddaf, nid yw yn ymddangos fod gan ymneillduwyr ond un gynulleidfa yn nhref Caerfyrddin, sef cynulleidfa o Annibynwyr, yr hon sydd yn awr yn ymgyfarfod yn Heol-Awst. Yr oedd cynulleidfa fechan o Fedyddwyr wedi bod yn y dref yn ystod yr eilfed ganrif ar bymtheg; ond ni fu ond gwanaidd ar y dechreu; a thua'r fl. 1690, yr ydym yn cael yn y llythyrau a anfonwyd o Gymru i'r gymanfa yn Llundain, fod yr eglwys yn "*Nghaerfyrddin wedi ei chwalu.*" Dros ba hyd y bu yr achos perthynol iddynt ar chwal, nid wyf yn hysbys.

Bernir fod y Parch. George Whitfield wedi ymweled amrywiol weithiau â thref Caerfyrddin; ac ar un tro, bu ei weinidogaeth yn fendithiol i'r Parch. Peter Williams, yr hwn, ar y pryd, oedd yn ŵr ieuanc yn yr athrofa. Daeth i'r athrofa yn y fl. 1739, ac a'i gadawodd yn y fl. 1743; ond pa bryd, yn ysbaid y pedair mlynedd hyn, y bu Whitfield yn y dref, sydd anhysbys. Nid oes amheuaeth, tybygid, na fu Howel Harris yn y dref mor gynar a'r fl. 1739, ac y mae yn hysbys fod yma rai dysgyblion Methodistaidd wedi eu crynhoi at eu gilydd yn y fl. 1743. Meddai yr arolygydd William John am dani yn ei adroddiad i'r gymdeithasfa, "Fe gynwys y gymdeithas yma 12 o aelodau; maent yn wan iawn, ac i raddau mawr dan y ddeddf ac anghrediniaeth." Yn y fl 1745, y mae yn adrodd drachefn ei hanes, ac yn dywedyd, "Mae rhai wedi eu chwanegu at y gymdeithas, ond nid oes, er hyny, ond ychydig o fywyd yn eu plith:—y mae yn eu mysg lawer o anghrediniaeth, rhagfarn, a thywyllwch,—yr Arglwydd a'u goleuo, ac a'u rhyddhao. Amen." Yr hanes olaf a gawn am y crefyddwyr boreu hyn, sydd yn yr un flwyddyn; fel hyn: "Mae Caerfyrddin wedi ei chau i fyny er ys mis bellach, fel na chaiff neb o honom lefaru yno; ac nid oes dim tebygrwydd am lonyddwch i draethu nac i wrando. Tra y cawsom lonyddwch, yr oedd llawer yn dyfod i wrando, a than gryn deimlad. Dyged yr Arglwydd hwy yn eu blaen. Amen."

Ymwelodd Whitfield â'r dref drachefn, a bu yn foddion i ddychwelyd un John Bowen, Ysw., o'r Tŷ-gwyn, gerllaw y dref. Ar dyddyn o dir, perthynol i'r gŵr boneddig hwn, yr oedd tŷ bychan a elwid Cwm-yr-iwen; yn y tŷ hwn, bellach, yr arferid cyfarfod i addoli. Yr oedd yn sefyll yn agos i dŷ Mr. Bowen. Heblaw Mr. Bowen, yr oedd yma amryw o ddynion, o wŷr a gwragedd, wedi eu dychwelyd, er nad yw eu henwau yn awr ar gael. Mae Mr. Harris, yr hynaf, Heol-y-dwr, yr hwn sydd yn awr yn fyw, ond mewn

gwth o oedran, yn cofio yn dda glywed son, pan yn ieuanc, y fath oedfaon rhyfeddol a fwynheid yn Nghwm-yr-iwen; y modd y tywalltai y nefoedd ei gwlaw graslawn yn gawodydd ar y gynulleidfa. Wedi bod yn aros dros ryw dymhor yn y tŷ hwn, cymerwyd ystafell arall yn Heol-y-gwyddau *(Goose-street)*, a dyma y pryd yr ymsefydlodd yr achos eilwaith yn y dref. Nid yw y flwyddyn y bu hyn yn hysbys; ac nid oedd moddion cyson eto yn cael eu cadw, o herwydd prinder offerynau; ond fel yr oedd y gwaith yn llwyddo yn y wlad, a'r cynghorwyr yn amlhau, yr oedd y moddion yn cael eu cadw yn fwy cyson. Nid yw yr hanes sydd genym am ysgogiadau yr achos yn y dref, o'r dechreuad hyd y fl. 1771, ond prin iawn. Yn nechreu y tymhor, yr oedd y cynghorwyr yn ychydig, a'r erlid a'r aflonyddwch yn fawr; ac yn ystod yr adeg rhwng 1750 a 1760, y disgynodd effeithiau difaol *yr ymraniad* ar y cymdeithasau, fel mai nid ar fyr y gellid dysgwyl iddynt ymadnewyddu. Ond yn y fl. 1771, pa fodd bynag, codwyd capel yn y dref, ar dir y Parch. Peter Williams, yn Heol-y-dwr. Yr oedd y gŵr parchedig, ar y pryd, ac er ys mwy nag 20 ml. cyn hyny, yn llafurio yn effro ac yn llwyddiannus mewn undeb â'r Methodistiaid, ac am agos i 20 ml. ar ol hyny; ond pan attaliwyd ef i bregethu gan y Methodistiaid * yn eu capelau hwy, efe a hònodd ac a gadwodd feddiant yn y capel hwn o hyny allan, sef hyd ei farwolaeth. Wedi colli y capel yn Heol-y-dwr, bu gorfod ar y praidd bychan ymofyn am ystafell arall i ymgynull ynddi. Wedi cael un at eu meddwl yn *Friar's Park*, y tu cefn i Heol-Awst, hwy a'i cymerasant, ac yn yr ystafell hon y buont (oddigerth rhyw nifer fechan a lynasant wrth Mr. Williams) hyd y fl. 1796, sef y flwyddyn y bu ef farw; pryd y gwerthwyd y capel yn Heol-y-dwr, gan weddw Mr. Williams, i'r Methodistiaid.

Dan ofal y boneddwr y soniwyd eisoes am dano, John Bowen, Ysw., Mr. David Charles (wedi hyny y Parch.), ac un William Harri, *turner*, fel henuriaid, y dygwyd y gwaith yn mlaen yn y tymhor hwn. Yn y fl. 1800, yr oedd nifer yr eglwys yn 80; ac yn 1801, yr oedd yn 93. Hon oedd y flwyddyn, sef 10 ml. cyn y neillduad, y cafwyd caniatâd y gymdeithasfa i weinyddu yr ordinhadau arwyddol yn y capel hwn gyntaf. Ac nid heb beth anhawsdra y cafwyd hyn. Safodd y Parch. N. Rowlands yn erbyn â'i holl egni; ac oni buasai dylanwad cryfach Mr. Jones, Llangan, yr hwn a ogwyddodd o blaid y cynygiad, attaliesid y gynulleidfa oddiwrth ei hawlfraint yn hwy. Y gwŷr urddasol a weinyddent amlaf ar yr achlysuron hyn, oeddynt, Mr. Jones, Llangan; Mr. Hughes, Sychbant; Mr. Williams, Lledrod; ac weithiau, Mr. Charles, o'r Bala.

Tua'r fl. 1803, neu yr un ganlynol, gwnaed ysgogiad tuag at addysgu y rhai hyny o'r aelodau eglwysig na fedrent ddarllen, i gyrhaedd hyny. Gwnaethid cynygiad ar sefydlu ysgol Sabbothol yn y dref cyn hyny, gan offeiriad duwiol, genedigol o Gil-y-cwm, o'r enw William Williams,† ond gwrthodwyd y cynygiad y pryd hwnw, gan faint oedd rhagfarn crefydd-

* Gwel tudal. 414, Cyf. I. † Gwel grybwylliad am dano yn hanes Cil-y-cwm.

wyr yr oes hòno yn erbyn cadw ysgol ar y Sabboth; a chan y dygent fawr sel dros santeiddiad dydd yr Arglwydd, teimlent eiddigedd cyfatebol yn erbyn ei halogiad, ac yn erbyn pob peth a farnent hwy yn tueddu at hyny. Ond wedi deall fod y cyfryw sefydliad mewn manau eraill yn effeithio yn dda, codai anesmwythder mewn rhai o'r brodyr yn y dref, ac ewyllysient wneuthur prawf o honi eu hunain. Felly, yn y flwyddyn a nodwyd, wedi llawer o gydymgynghoriad, penderfynwyd cyhoeddi y byddai ysgol yn cael ei chadw ar y Sabboth canlynol. Y Sabboth a ddaeth, ac ymgynullodd i'r ysgol tua 30 o blant; felly, nid y rhai y bwriadasid yr ysgol iddynt ar y cyntaf, oedd y rhai parotaf i wneyd defnydd o honi. Yr oedd y Parch. W. Williams erbyn hyn wedi symud o'r dref i Bristol i fyw; ond pan glywodd fod cychwyniad wedi ei wneyd ar ysgol Sabbothol yn Nghaerfyrddin, ni allodd ymattal heb ddyfod i Gaerfyrddin i ddadgan ei lawenydd—prawf teg fod ei holl galon yn y gwaith. Eto yr oedd y sefydliad yn eiddil iawn, ac anhawdd ydoedd sicrhau, mwy nag am lawer baban egwan, pa un ai byw ai marw a wnaethai. Yr oedd yr athrawon yn brinion iawn; y crefyddwyr yn ystyried mai gormod o hunanymwadiad oedd iddynt gaethiwo eu hunain gyda swp o blant anwar, a cholli yr oedfaon a fwynhaent mor fawr.Ië, gan yr anhawsder i gael athrawon, bu raid cyflogi dyn i ofalu am dani. Rhoddodd yr eglwys alwad ar un Evan Davies, yr hwn oedd gloff, i gyflawni y gwasanaeth, yr hwn a barhaodd gyda'r gorchwyl, a hyny dan gyflog, am ysbaid pum' mlynedd neu ychwaneg; sef hyd y fl. 1809.

Yn y flwyddyn hon, cynaliwyd cymanfa mewn cysylltiad â'r ysgol Sabbothol; ac o hyny allan, llwyddodd y sefydliad yn rhyfeddol. Bu y cyfarfod crybwylledig yn foddion arbenig i godi yr ysgol i sylw y trefedigion, i ddarostwng y rhagfarn yn ei herbyn yn mysg y crefyddwyr, ac i ail enyn sêl ac ymdrech y rhai oeddynt eisoes yn ei hoffi. Lluosogodd rhif ei deiliaid a'i hathrawon yn fawr iawn; bu ynddi, dros lawer o flynyddau, tuag 800 o rifedi, a thros ryw dymhor, nid llai na 1000. Ryw bryd yn ystod y tymhor hwn, daeth John Jones, Ysw., aelod seneddol dros y dref, i ymweled â'r ysgol; ac ar ei waith yn dyfod i mewn i'r capel, gydag un D. Jones, Ysw., Banker, yr hwn oedd ar y pryd yn aelod eglwysig, safodd y lluaws ysgolorion oll ar eu traed. Syrthiodd syndod aruthrol ar y boneddwr wrth ganfod y fath olygfa—fod cynifer o gannoedd, a hwy gan mwyaf yn feibion a merched ieuainc, wedi cael eu hennill i dderbyn addysg ysgrythyrol ar y Sabbothau; a meddiannwyd ef â'r ystyriaeth pa effeithiau mor ddaionus a ganlynent ymdrechion mor ganmoladwy. Gan y dylynwyd y gymanfa grybwylledig ag effeithiau mor ddymunol, penderfynwyd ar fod cyfarfod cyffelyb i gael ei gynal bob blwyddyn, a chadwyd at y penderfyniad hwnw hyd heddyw. Y pryd hwnw, nid oedd ysgol Sabbothol gan neb arall yn y dref; ond erbyn hyn, y mae wyth neu naw o ysgolion cyffelyb wedi eu sefydlu, a chyfanswm rhifedi yr ysgolorion yn fwy nag erioed.

Yr ydym eisoes wedi crybwyll enw Mr. David Charles fel un ag oedd yn cydlafurio gyda Mr. Bowen, a William Harri. Mae enw Mr. Charles yn

galw am helaethach sylw; ac er nad ein lle ydyw ysgrifenu cofiant iddo, eto byddai cronicl Methodistiaeth yn dra diffygiol heb goffâd helaethach a mwy arbenig na chrybwylliad cyffredin am dano.

Afreidiol, fe allai, ydyw i ni adgoffa i'r darllenydd mai brawd ydoedd i'r anfarwol Thomas Charles, o'r Bala. Ganwyd ef yn y fl. 1762; daeth i brofi argraffiadau dwysion crefydd pan oedd yn 15 ml. oed; neillduwyd ef yn flaenor neu ddiacon pan oedd yn 24 ml. Priododd, tua'r un amser, ferch i Samuel Lefi Phillips, Ysw. Yr oedd y gŵr hwn yn anedig o *Frankfort on the Maine*, ond yn preswylio weithian yn Hwlffordd, ac yn arianydd yno. Yr oedd yn fab i Rabbi Iuddewig, ac wedi ei ddwyn i fyny i'r grefydd hòno, ond wedi ei ddychwelyd i ffydd yr efengyl yn fuan ar ol ei ddyfodiad i Brydain. Dychwelwyd ei ferch, Mrs. Charles, bellach, trwy weinidogaeth y Parch. Rowland Hill, at yr hwn, fel ei thad ysbrydol, y teimlai serchogrwydd mawr.

Gwasanaethodd Mr. Charles swydd diacon am ysbaid mwy nag 20 ml., a phan oedd yn 46 ml. dechreuodd bregethu. Gwnaeth hyn ar gais a thaerineb ei gyfeillion crefyddol, ac yn arbenig ar annogaeth ei frawd. Wedi treulio 20 ml. drachefn yn y weinidogaeth, fe'i goddiweddwyd ef ag afiechyd, drwy yr hwn y difuddiwyd ef o'i leferydd ac o'i ddefnyddioldeb; ac am y chwe' blynedd olaf o'i oes, bu yn garcharor gan y parlys; ond yn y fl. 1834, pan ydoedd yn 72 ml. oed, rhyddhawyd ef o'r rhwym hwn gan angau. Y cyfryw ydyw prif linellau ei fywyd. Nid oes llawer i'w draethu am droion ei oes, ond y mae llawer i'w ddyweyd am ei gymeriad uchel, ei syniadau eryraidd, ei brofiad dwfn, a'i ffyddlondeb difwlch yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Nid yn fynych y gwelodd Cymru, os un amser, neb yn meddu syniadau dyfnach, cysonach, mwy gwreiddiol, a mwy ysbrydol, na Mr. Charles. Pan oedd yn gwasanaethu swydd diacon, yr oedd yn rhagori yn mhell ar ei gydswyddogion o ran treiddgarwch ei ddirnadaeth, pwyll a chywirdeb ei farn, ac ysbrydolrwydd dwfn ei brofiad. Ac wedi iddo gymeryd lle mwy cyhoeddus, mwy amlwg fyth yr ymddangosai ei ragoriaethau. Ni wnaeth ei ymddangosiad ef yn y pulpud ond dyfnhau y syniad uchel a fynwesid eisoes am ei gymhwysderau. Er ys ugain mlynedd cyn hyny, rhoddid y blaen iddo yn nghyfarfodydd misol a chwarterol y cyfundeb, yn y rhai yr oedd eisoes yn cyfranu gair y gwirionedd, er nad oedd eto wedi boddloni i wneuthur hyny yn gyhoeddus a chynulleidfaol.

Am yr ugain mlynedd y bu ef yn pregethu, edrychid arno fel colofn fawr y cynulliadau chwarterol, yn enwedig yn y cyfarfodydd neillduol a fyddai ynddynt, a phan y byddai rhyw fater athrawiaethol dan sylw. Ar rai o'r achlysuron hyn, ymddangosai, nid yn unig yn mhell uwchlaw ei frodyr, ac yn eu mysg yr oedd rhai gwroniaid ardderchog, ond hefyd uwchlaw iddo ei hunan. Sonir yn neillduol am un tro, pan yr ymdrinid â'r mater pwysig ac ofnadwy hwnw, "Priodoliaethau Duw." Arferai ysgrifenydd y gymdeithasfa gofnodi y sylwadau a wneid yn y cyfryw gyfarfodydd, a medrus anarferol oedd yr ysgrifenydd, sef y Parch. Ebenezer Richards, yn ei orchwyl. Y tro

hwn, ehedai Mr. Charles mor uchel, arllwysai feddyliau mor gryfion, mewn iaith mor ardderchog, nes llenwi y cynulliad â syndod ac â gorchwyledd. Gofalai Mr. Richards bob amser gofnodi sylwadau Mr. Charles, gan ystyried y byddent yn rhagori mewn dwysder ac ucheledd; ac ar ol y cyfarfod dan sylw, cyferchid ef gan ei frodyr, gan obeithio ei fod wedi rhoddi ar lawr yr hyn a glywsid gan Mr. Charles; ond yr ateb oedd, "Naddo; y fath ydoedd dysgleirdeb a thanbeidrwydd y syniadau, a'r fath ydoedd eu dylanwad ar fy nheimladau, *fel na allais ysgrifenu un gair!*"

Dechreuodd Mr. Charles bregethu tua thair blynedd cyn y "neillduad" cyntaf. Penderfyniad y gymdeithasfa yn yr achos oedd neillduo yn mhob sir ychydig nifer o frodyr y cawsid prawf digonol o'u cymhwysderau, a hyny hyd y gellid o blith yr hynafgwyr; a gosodwyd hefyd yn rheol na ddewisid neb heb ei fod yn gweinidogaethu eisoes er ys pum' mlynedd. Nid oedd Mr. Charles wedi pregethu ond tair blynedd, ac am hyny yr oedd y rheol yn ei gau ef allan ar y pryd; eto nid oedd modd myned heibio iddo, a gwell gan y bobl, trwy gydsyniad cyffredinol, droseddu y rheol, neu wneuthur eithriad iddi, na'i adael ef ar ol. Felly penderfynwyd, er cystal oedd y ddeddf, fel rheol gyffredin, ei hysgoi y tro hwn; a neillduwyd Mr. Charles yn gyfatebol yn mhlith y rhestr cyntaf; ac ni wnaed eithriad i reol ddoeth erioed gyda llai o anhawsder, ar y pryd, na chyda mwy o foddhad yn y canlyniad.

Y mae yn beth hynod yn hanes Mr. Charles, ei fod wedi ymroddi mor llwyr i'r weinidogaeth, gan ei fod yn oedranus yn dechreu, a chan fod ganddo alwedigaeth bwysig i ofalu am dani, oddiwrth yr hon y dysgwyliai gynaliaeth iddo ei hun a'i deulu. Hysbys ydyw i'r brodyr yn y deheubarth ddarfod iddo deithio llawer i gyfarfodydd, a chyflenwi diffygion y siroedd, yn mysg y Saeson a'r Cymry, gyda llawer o ffyddlondeb, a'r cwbl yn *hollol ar ei draul ei hun.* Nid oes amheuaeth na niweidiodd hyn ei amgylchiadau: nid yn unig yr oedd y draul a ddisgynai arno wrth deithio, ond hefyd yr oedd ei absenoldeb oddiwrth ei alwedigaeth, yn tueddu yn uniongyrchol i hyny. Cymhellwyd llawer arno i dderbyn rhydd ac ewyllysgar roddion yr eglwysi a wasanaethai; ond ofer fu pob taerineb. Nid ydym yn abl i ddadgan y rheswm paham y gwnai Mr. Charles hyn. Tueddir ni ar un llaw i feio arno, fel un yn gwneyd cam ag eglwysi Duw, oddiwrth y rhai y dylid "ceisio ffrwyth yn amlhau erbyn eu cyfrif hwynt;" ac fel un yn gwneyd cam ag ef ei hun, ac â'i deulu, trwy wneuthur mwy nag oedd ddyledus arno; ac ar y llaw arall, tueddir ni i ryfeddu ac i ganmawl yr ysbryd di-hunangar a'i cymhellai i ymroddi mor llwyr, ac i lafurio mor helaeth, heb un cymhelliad nac amcan ond gogoneddu Duw yn llesâd ei gyd-ddynion. Diamheuol genym fod ganddo ef reswm a'i boddlonai ef ei hun, ac nid oes lle i betruso, a barnu wrth ei gallineb arferol, nad oedd y llwybr a gerddai yn hyn, yn anrhydeddus iddo fel Cristion gostyngedig, ac fel gweinidog llwyr ymroddgar, er nad ydym yn alluog i hysbysu oddiar ba egwyddorion penodol y gweithredai; nac yn ystyried ei fod yn hyn yn galw am efelychiad cyffredinol.

Nid llawer a deithiodd Mr. Charles yn Ngwynedd, ac ychydig, mewn cyd-

mhariaeth, a wybuwyd am dano gan y brodyr yno. Gan na fu yn defnyddio y pulpud ond 20 ml. a chan iddo dreulio cymaint o amser i wasanaethu y rhan ddeheuol o'r dalaeth, ni ellid dysgwyl ei fod wedi gwneyd ei hun yn adnabyddus iawn yn y Gogledd.

Yr ydym eisoes wedi crybwyll fod blynyddoedd olaf ei oes wedi eu cymylu gan afiechyd trwm. Yn y fl. 1828, tarawyd ef â'r parlys, a difuddiwyd ef am y gweddill o'i oes. Collodd ei leferydd, er na chollodd ei synwyr. Ymddangosodd rhyw arwyddion cychwynol o'r afiechyd hwn arno pan y bu yn Llundain yr ail waith, sef yn y fl. 1827; ond trwy ddefnyddio moddion priodol, dadebrodd drachefn dros dymhor byr; ond yn y flwyddyn ganlynol, ymaflodd yr anmhariaeth angeuol ynddo gyda nerth ychwanegol, ac ni ollyngodd ei afael o hono, nes "newidio ei wyneb ef, a'i ddanfon ef i ffordd." Bu farw yr 2il o Medi, 1834, yn 72 ml. oed.

Wedi rhoddi hyn o ddarlun byr o hanes Mr. Charles, awn rhagom at y gweddill o hanes Methodistiaeth yn y dref. Tua'r un amser ag y dechreuodd Mr. Charles bregethu, y galwyd hefyd Mr. G. Harris, Heol-y-dŵr; Mr. W. Roberts, tad y Parch. D. Roberts, yn awr o Bont-faen; ac un Thomas Griffiths, gynt o Feidrim, i'r ddiaconiaeth. Nid oes ond y cyntaf yn awr yn fyw, ac yntau, bellach, wedi ei ddifuddio, i fesur mawr, gan anhwyldeb corfforol. Bu y gwŷr hyn yn dra ffyddlawn, yn eu dydd a'u cylch, gyda phob rhan o'r gwaith, ac yn arbenig gyda'r ysgol Sabbothol. Cafodd y sefydliad hwn swcr da dan eu haden, a buont yn ymdrechgar a llwyddiannus, mewn cysylltiad â brodyr eraill, i sefydlu lluaws o ysgolion yn y wlad o amgylch.

Mae Caerfyrddin yn gysylltiedig ag enwau amryw o brgethwyr heblaw â Mr. Charles. Un o'r rhai hynaf, ydoedd y Parch. Thomas Jones. Bu y gŵr hwn yn preswylio yn gyntaf mewn lle a elwir Trebedw, gerllaw Capel-y-Drindod, yn swydd Aberteifi. Gelwid ef fynychaf yn y gogledd, Thomas Jones, Llanpumsaint, am y bu yno yn cyfaneddu dros ryw dymhor. Daeth i Gaerfyrddin i arolygu argraffiad o Feibl y Parch. Peter Williams. Yr oedd Mr. Jones yn ŵr dirodres iawn, ac yn bregethwr rhagorol. Teithiodd lawer i draddodi gair y bywyd i'w gydwladwyr, ac ysgrifenodd rai llyfrau buddiol, megys, Esboniad ar Bum' Llyfr Moses, ac Esboniad ar Lyfr Job, ar Ganiad Solomon, ac ar yr Hebreaid. Bernir ei fod yn dduwinydd da, ac yn Gristion trwyadl. Bu farw Ionawr 18fed, 1830. Mae enwau eraill yn deilwng o goffadwriaeth cysylltiedig â Chaerfyrddin. Sonir am hen bregethwr o'r enw Siôn Evan,* am yr hwn nid oes genym ddim amgen adgofion na'r penill isod.

* Yr oedd hwn yn Fardd, ac ar ryw achlysur cyd-deithiai ag offeiriad, yr hwn nid oedd enwog am ei grefydd, a'r hwn a osodai ar y bardd i gyfansoddi penill iddo; a'r testyn oedd, "Y cae gwenith," yr aent heibio iddo. Wedi ei hir gymhell, canodd y bardd,

"Mae yma wenith gweddol, Yn tynu 'mlaen yn raddol,
Ond y degfed ran a â i maes, I gynal gwas y diafol."

Rhoes y "penill" derfyn buan ar yr ymddyddan.

O'r fl. 1813 hyd 1848, cododd yn Nghaerfyrddin y gweinidogion a'r pregethwyr canlynol: y Peirch. Thomas Evans; Phillip Luke; Owen Howells, yn awr yn Tarvine, ger Caerlleon; John Evans, gynt o Brilley; John Evans, yn awr yn yr eglwys wladol; a D. Charles, mab i'r cyntaf o'r enw. Yn y dref hon hefyd y ganwyd yr enwog John Rees, o *Crown Street*, Llundain, yr hwn, ynghyda'r Parch. Theophilus Jones, o Wootton-under-edge, a fu mewn cysylltiad agos â'r eglwys Fethodistaidd yn y dref hon.

Adeiladwyd y capel presenol yn Heol-y-dŵr, yn y fl. 1813. Tarddodd amryw ganghenau hefyd o'r eglwys. Yn y fl. 1824, adeiladwyd ysgoldy tua hanner milldir o'r dref, mewn lle a elwir John's Town, yr hwn sydd gysylltiedig â'r dref, fel taith Sabboth. Yn y fl. 1835, adeiladwyd capel bychan arall, yr hwn a elwir y Babell. Yn y lle hwn yr oedd ysgol Sabbothol er ys blynyddau, yr hon sydd yn parhau yn siriol a llewyrchus hyd heddyw. Yn chwanegol at y lleoedd hyn, cynelir ysgol Sabbothol mewn lle arall, sef Login, plwyf Llangwnwr. Nifer yr aelodau yn awr yn Heol-y-dŵr, ydyw 352—eu plant, 211. Nifer yr ysgolorion, 470.

Annheilwng, fe allai, a fyddai terfynu hyn o hanes am Fethodistiaeth Heol-y-dŵr, heb grybwyll un enghraifft o haelioni, a sefydlogrwydd un o aelodau yr eglwys hon. Ymunodd â'r achos crefyddol yn ei ieuenctyd, a pharhaodd yn ffyddlawn gydag ef tra y bu byw yn Nghaerfyrddin. Ac er ei fod wedi ymadael â'r dref er ys blynyddau, bellach, ac yn byw yn Lloegr, eto y mae yn para mewn cymundeb eglwysig yn ei le trigiannol. Nid yw, chwaith, yn anghofio tlodion ei bobl. Dyrchafodd rhagluniaeth ef i sefyllfa gysurus; a rhydd brawf o'r syniad mai goruchwyliwr ydyw ar eiddo *Un* arall, trwy anfon £40 neu £50 bob blwyddyn i'w rhanu rhwng aelodau anghenog eglwys Heol-y-dŵr. A phan y dygwydd i'r boneddwr ddyfod i aros dros enyd yn ei dref enedigol, fe ddyry brawf o'i ymlyniad parhaus wrth bobl ei ddewisiad boreuol. Y boneddwr hwn yw T. Morris, Ysw., brawd i aelod seneddol dros y dref.

## CAPEL SAESONAEG CAERFYRDDIN.

Llawer o ymddyddan a fu yn nghylch cael addoldy Saesonaeg yn y dref mewn undeb â'r Methodistiaid, dros rai blynyddau cyn ei gael. Yr oedd llawer yn barnu y buasai yn dda ei gael; ond gan fod mwy na siarad yn angenrheidiol i ddwyn y fath amcan i ben, a chan fod ambell un yn ofni mai aflwydd mewn rhan a barai cynulleidfa Saesonaeg i'r un Gymraeg, a chan hefyd yr ymddangosai peth anhawsder i ddwyn y bwriad i weithrediad, yr oedd yn aros mewn dymuno ac ymddyddan yn unig. Effeithiodd yr ymddyddanion, pa fodd bynag, ynghyd ag annogaethau cryfion oddiwrth rhyw frodyr, heb fod yn byw yn y dref, i beri cychwyniad ar y gwaith. Cynaliwyd cyfarfod ar yr achos; ac er fod traethu rhydd o blaid ac yn erbyn, eto mewn ysbryd brawdol, penderfynwyd ar wneuthur cais i ddwyn yr amcan i ben, a phenodwyd personau i ymofyn am dir i adeiladu arno. Methwyd a chael

tir dros ryw ysbaid; ond yn mis Ebrill, 1850, cafwyd hanes tir cyfleus. Gosodwyd yr achos eilwaith o flaen yr eglwys, a thrachefn ó flaen cwrdd misol y sir; a chafwyd pob annogaeth i fyned yn mlaen. Felly adeiladwyd capel hardd a helaeth, dan yr enw capel SION. Agorwyd ef yn Awst yr un flwyddyn, pryd y pregethodd y Peirch. T. E. Thoresby, o Spa Fields, Llundain; D. Howells, Abertawe; a D. Charles, A. B., Trefecca. Ciliodd tuag 20 o aelodau y capel Cymraeg i'r un Saesonaeg, trwy gydsyniad y fam eglwys, a ffurfiwyd yn y babell newydd eglwys reolaidd, dan fugeiliaeth y Parch. William Howells, nai i'r gŵr hynod o'r un enw, a weinidogaethai yn nghapel Long Acre, Llundain; a diaconiaid detholedig.

Mae yma tua 40 o aelodau mewn cymundeb, a thua 100 yn yr ysgol Sabbothol. Mae llafur a ffyddlondeb y brodyr sydd yn gofalu am y lle hwn, wedi bod yn ganmoladwy iawn, ac hyd yma yn llawn mor llwyddiannus ag y gellid dysgwyl.

## LLANDDOWROR.

Mae y lle hwn yn enwog trwy ei gysylltiad ag enw anfarwol Griffith Jones. Yn ei amser ef, mawr oedd y cyrchu a fyddai i'w wrando, mawr oedd ei ddiwydrwydd yntau gyda holwyddori a phregethu, a mawr yn ddiau a fu y lles a gynyrchwyd. Ond efe a fu farw! a galarus ydyw ychwanegu, ni chafodd olynwyr teilwng. Rhoddwyd terfyn ar yr holwyddori, a chwalodd y gynulleidfa, am nad oedd sugn, bellach, yn y weinidogaeth. Yr ydym wedi traethu eisoes ychydig o hanes Mr. Jones, am yr hwn y mae yn anhawdd traethu gormod, yr hwn yn ddiau oedd "Seren Foreu" y diwygiad Cymreig. Temtir ni, pa fodd bynag, gan i ni daro wrth ei enw eilwaith, i adrodd un hanesyn am dano yn ychwanegol.

Galwyd Mr. Jones unwaith i bregethu o flaen y frenines Anne; yr oedd hyny mewn amser yr oedd ymdaith i Lundain, ac yn ol, yn orchwyl anghyfleus a pheryglus. Ar waith Mr. Jones yn dychwelyd (fel y tybir), o Lundain, daeth ef a'i was i dref lle yr oedd nifer o filwyr yn gorsafu; i'r rhai, ar eu taer ddymuniad, y cydsyniodd Mr. Jones bregethu. Gosodai yn ei fryd gyrhaedd tref arall i letya, a gadawodd y milwyr gyda'r bwriad hwnw, er iddynt fod yn daer arno i letya y noson hòno yn y dref yr oeddynt hwy ynddi.

Ond yn mlaen ar ei daith yr aeth; a chyn iddo ef a'i was gyrhaedd milldir o ffordd, gwelent fod cysgodau yr hwyr yn ymestyn yn gyflym, ac ofnent, gan eu bod yn ddyeithriaid i'r ffordd a'r wlad, fyned rhagddynt, yn ol eu bwriad, a throisant i westty a gawsant ar fin y ffordd. Ar ol swper, arweiniwyd hwy gan forwynig i'r ystafell wely, a chyda eu bod ynddi torodd y llances allan i wylo yn drwm, a chyfaddefodd, wrth eu holi, mai o'u hachos hwy yr oedd yn wylo, ac ebe hi, "Tŷ drwg ydyw hwn; a rhy debyg ydyw mai eich lladd a gewch cyn y boreu! Ond os diangwch, cofiwch am danaf fi, i'm dwyn o'r lle hwn."

Anhawdd dychymygu, chwaithach desgrifio teimladau y dyeithriaid, wrth ddeall eu sefyllfa. Yr oedd eu ceffylau mewn diogelwch, a dianc oedd yn anmhosibl. Nid oedd ddim i'w wneyd ond gorchymyn eu hunain i ofal rhagluniaeth. Felly aethant i'r gwely, a gadawsant y ganwyll yn oleu, ac, ebe Mr. Jones wrth y gwas, "Diau mai fy einioes i a geisiant gyntaf, ac felly, hwyrach y cei di dy fywyd. Pan ddelo y lleiddiaid i mewn, gan hyny, llithra dithau allan, a brysia i fynegu fy sefyllfa i'r milwyr, o herwydd yr wyf yn credu mai trwyddynt hwy y'n gwaredir."

Gyda hyn, wele y fleiniaid yn dechreu curo y drws, gan orchymyn iddynt ei agor. Ei agor a wnaed, ac i mewn y daethant, ac allan y llithrodd y gwas. Gorchymynodd y dyhiriaid i Mr. Jones ymbarotoi i farw, ac nad oedd ganddo ddim amser i'w golli. Amcan y gŵr duwiol, bellach, oedd gohirio yr amser gymaint ag a allai; ac i'r dyben hyny, yn fwy nag oddiar un dysgwyliad y gallai ddofi cynddaredd y fath ddynion anfad, y dechreuodd ymliw â hwynt am ddrygioni eu hymddygiad, a dangos pa beth mor ddifrifol ac ofnadwy oedd i ddyn gael ei hyrddio mor ddirybudd i'r byd arall. Ond nid oedd hyn yn tycio dim gyda hwy i roddi eu bwriad heibio; "yr oedd yn rhaid iddo farw." "Wel, wel," ebe yntau, "gan mai marw sydd raid, caniatewch i mi ychydig amser i weddio ac i ymbarotoi." Caniatawyd iddo chwarter awr! Yr oedd y chwarter awr yn amser byr i'r gwas gyrhaedd y milwyr, a dychwelyd; ond yr oedd ei gael, er hyny, yn enyn gobaith. Syrthiodd Mr. Jones ar ei liniau, a thywalltodd y fath weddi na wnaethai erioed o'r blaen, am na fu erioed yn y fath sefyllfa, a'r fath weddi na chlywsai ei lofruddion, ond odid, erioed ei chyffelyb. Ond y chwarter awr a ddaeth i ben, a thra yr oedd ef eto yn ymbil â Duw, gwaeddodd y dyhiriaid fod yr amser i fyny. Erfyniodd yntau eilwaith am bum mynyd yn ychwanegol; ac er caleted eu calonau, methodd ganddynt ei nacâu. Treuliwyd yr adeg yma drachefn yr un modd, hyd nes y daeth i'r terfyn. Bellach, yr oedd pob gobaith iddo allu dianc wedi colli; y lleiddiaid hefyd yn galw arno fod yr amser i fyny; ac yn parotoi i roddi iddo yr ergyd angeuol; ond cyn taro, clybuwyd swn tabwrdd y milwyr wrth y tŷ. Mewn amrantiad hwy a ddeallasant eu perygl, a ffoisant gyda rhuthr brawychus allan o'r ystafell; ond erbyn cyrhaedd gwaelod y grisiau, daliwyd hwy gan y milwyr. Pa beth a fu y canlyniad iddynt hwy, nid yw yr hanes yn hysbysu, na pha beth a ddarfu i'r llances forwyn; ond yr oedd Mr. Jones a'i was yn ddiogel!

Wedi hyn o wibio oddiwrth ein hamcan, dychwelwn am fynyd at hanes Llanddowror. Bu farw y Parch. Griffith Jones yn y fl. 1761, ac nid ydym yn cael fod nemawr ymosodiad wedi ei wneyd ar chwalu tywyllwch y fro, nac i arwain y trigolion at "Geidwad dyn," am 35 o flynyddoedd ar ol ei farwolaeth ef. Yr oedd yr ardal, gan hyný, wedi disgyn i'w hen agwedd gyntefig, a chenedlaeth arall wedi codi, y rhai nid adwaenent Griffith Jones, ac na chlywsent ei leferydd.

Yr hanes cyntaf sydd genym am Fethodistiaeth Llanddowror sydd yn y fl. 1797. Y pryd hyn yr oedd ychydig nifer o'r rhai oedd yn aelodau eisoes

yn Banc-y-felin, yn arfer ymgynull at eu gilydd yn nhŷ un Josiah Beynon, yn mhentref Llanddowror; a dywedir fod yn eu mysg rai hen bobl a fuasent yn aelodau gyda Mr. Jones. Y pregethwyr a lafurient yma amlaf, oeddynt, John Williams, Meidrim; a John Phillips o'r un lle; ac un Job Thomas, o Lasfach, oedd y blaenor cyntaf. Codwyd y capel cyntaf yn y fl. 1828; ail adeiladwyd ef yn y fl. 1845. Yr oedd yma ysgol Sabbothol yn amser Griffith Jones, ond ar ol ei golli ef, diflanodd yr ymdrech gyda'r ieuenctyd, a hyny dros lawer o flynyddoedd, hyd nes y sefydlwyd ysgol Sabbothol gan y Methodistiaid. Nid ydym yn cael fod dim pethau hynod wedi bod mewn cysylltiad â'r achos crefyddol yn y lle hwn. Nid oes hanes genym am erlid a gwrthwynebiad mawr ar y naill law, nac am ryw dywalltiadau rhyfeddol ar y llaw arall, eto y mae yma gapel da, moddion cyson, a chynulleidfa siriol.

## BANC-Y-FELIN.

Dechreuwyd pregethu yn y lle hwn mewn amser boreu ar y cyfundeb, tua'r fl. 1760, mewn lle a elwir Leger, anedd-dŷ tua dwy filldir oddiwrth y Banc; symudwyd o'r tŷ hwn i le arall gerllaw y lle y mae y capel presenol arno. Math o ysgoldy oedd hwn, wedi ei gymhwyso at bregethu. Y ddau ŵr mwyaf nodedig, yn gofalu am yr achos yn y blynyddoedd cyntaf hyn, oeddynt, Samuel Thomas, yr Hafod, a Richard Thomas, Pant-y-deri, dau dyddynwr cyfrifol yn y gymydogaeth. Nid annhebyg ydyw fod pregethu yn Leger cyn y fl. 1760, a'i fod yn lle a hynodwyd yn fawr gan dywalltiadau grymus. Ymddengys hefyd, fod yr ysgoldy yn lle nodedig, gan y cyrchu a fyddai iddo ar Sabbothau cymundeb, o'r holl ardaloedd cylchynol. Soniai yr hen bobl lawer am y mwynhad a gawsid yn y cynulliadau hyn, yn amser Davies, Cynwil; Davies, Castell-nedd; William a Peter Williams; a Jones, Llangan. Adeiladwyd y capel presenol yn y fl. 1788; ac o hyny hyd y fl. 1811, gweinyddid y sacramentau, gan mwyaf, yn y lle gan Mr. Davies, Cynwyl, yr hwn oedd yn byw yn yr adeg o fewn dwy filldir i'r Banc, mewn lle a elwir Aberhenllan; a gweinidogaeth yr hwn a fu yn foddion arbenig, dros amryw o flynyddoedd, i gasglu cynulleidfaoedd mawrion i'r Banc; ac nid i'r Banc yn unig, ond hefyd yn y Cwmbach, Meidrim, Llanddowror, a manau eraill. Bu farw y gŵr hwn tua'r fl. 1821, tua 10 ml. ar ol ei ymadawiad oddiwrth y Methodistiaid. Ymadawodd, medd rhai, nid oddiar ddylanwad egwyddorion gymaint, ond oddiar rym gwahanol amgylchiadau; a dywedir iddo gyfaddef wrth frawd sydd eto yn fyw, brawd a'i hadwaenai yn dda, ac a fyddai yn fynych yn ei gyfeillach, na theimlodd ef byth mo hono ei hun gartref ar ol ymadael â'r Methodistiaid. Mae ei lwch yn gorwedd yn mynwent Llanddowror, nid yn mhell oddiwrth weddillion yr hybarch Griffith Jones; ond nid oes, meddir, yr un gof-golofn wedi ei gosod i ddynodi y lle y gorwedd, yr hwn ddiffyg y mae y rhai a letyant feddyliau uchel am dano, ac a dderbyniasant lesâd trwyddo, yn bwriadu ei gyflenwi.

Sonir am amryw o ddynion a fu yn llafurus a ffyddlawn dros ben gyda'r

achos crefyddol yn y lle hwn yn ei amser boreuaf, ac oddiyno i waered. Heblaw y ddau a enwyd eisoes, crybwyllir am frawd i'r Peirch. Thomas a David Charles, ac wedi hyny am un D. Howells, tad y Parch. D. Howells, Abertawe. Bu y gŵr olaf hwn, ynghyd ag un Siôn Griffith, yn ffyddlawn a defnyddiol iawn; felly hefyd Abel Thomas, a Jeremiah Lewis.

Mewn cysylltiad â'r eglwys hon yr oedd R. Walters, Ysw., arianydd. Crybwyllir am dano fel boneddwr crefyddol, ac un a ddangosodd lawer o letygarwch a thiriondeb i'r gwaith da, tra fu ef byw. Dechreuwyd ysgol Sabbothol yma trwy offerynoldeb Mr. Charles, o'r Bala, tua'r fl. 1798. Yn y fl. 1828, bu yma adfywiad grymus, a chwanegwyd llawer at nifer yr aelodau; ac o'u mysg cododd dau o wŷr ieuainc gobeithiol i bregethu, sef dau frawd o'r enw John a William Lewis, o'r Drefnewydd. Bu farw y ddau frawd yn yr un flwyddyn, 1837, newydd iddynt ddechreu dyfod i sylw a defnyddioldeb. Gellir edrych ar yr eglwys hon yn fam i amryw o eglwysi cylchynol, megys Meidrim, Llanstephan, Llanddowror, a Llanfihangel. Y pregethwr sydd yn byw yma yn awr ydyw Joshua Phillips.

## MEIDRIM.

Mae y lle hwn yn gorwedd un ochr i Leger, lle y dechreuodd Methodistiaeth y fro, a Banc-y-felin yr ochr arall. Ymddengys fod yma rai yn perthyn i'r eglwys fach yn Leger, cyn symud i'r Banc, ac i'r personau hyny gael ar eu meddyliau roddi cychwyniad i achos cyffelyb yn Meidrim. Cedwid y cyfarfodydd eglwysig ar y dechreu yn Nghastell-gorfod, sef palas J. Bowen, Ysw. Yr oedd y boneddwr hwn, cyn i ras ymweled ag ef, yn ŵr ieuanc tra annuwiol. Fel llawer o'i radd, yr oedd wedi ymwerthu i ddifyrwch cnawdol, megys hela, ymladd ceiliogod, a phethau cyffelyb; ond trwy ryw foddion, darostyngwyd ef gan awdurdod yr efengyl; ac yn y fan, heb ymgynghori dim â chig a gwaed, rhoes heibio yn llwyr, a thros byth, yr hen arferion; a dechreuodd ymofyn pa fodd y gallai ddefnyddio ei amser, ei gyfoeth, a'i ddylanwad, i ddybenion uwch a gwell. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd troi *Kennel y cŵn* yn lle i bregethu ynddo. Cymhwysodd ac addurnodd ef yn gapel tlws dros ben. Buasai Meidrim unwaith yn ddiareb am ei champau a'i drwg arferion, ond y maent oll wedi diflanu er ys blynyddoedd, trwy weinidogaeth y gair, sefydliad yr ysgol Sabbothol, a dylanwad crefyddwyr yr ardal. Gallwn feddwl nad oedd magu ceiliogod i ymladd ddim yn orchwyl a dybid yn rhy isel i ŵr boneddig ei wneuthur, gan y gwnai Mr. Bowen ei hunan hyny unwaith. Ar ol iddo roddi heibio yr "hen bethau" hyn, anfonodd gŵr boneddig arall ei was ato ar un achlysur i ofyn iddo am fenthyg ceiliog. Pa un ai mewn anwybodaeth am ei droedigaeth yr oedd hyn, ai ynte math o adgoffâd edliwgar iddo o'r hyn a fuasai gynt, nis gwyddom; ond pa un bynag, anfonodd Mr. Bowen yn ol iddo Feibl yn lle ceiliog, gan ddyweyd mewn llythyr, ei fod y fath na chollodd ef ymladdfa erioed, ac na chollai byth! Bu y tro, meddir, yn foddion i beri i'r boneddwr hwnw roddi heibio ymladd ceiliogod o hyny

allan. Yn mhen rhyw amser, cadwyd y cyfarfodydd eglwysig yn mhentref Meidrim, bob yn ail a chapel tlws y Castell. Adeiladodd Mr. Bowen hefyd weithdŷ llian helaeth yn y pentref. Neillduwyd rhan o'r adeiladaeth hon at gynal cyfarfodydd crefyddol; a rhan arall o'r un adeiladaeth ydyw y capel presenol. Gwrthododd y gŵr boneddig hwn un swydd yn yr eglwys oddiar deimlad o'i anghymhwysder, a mynych y galwai ar y rhai ag oedd yn gweinyddu y ddysgyblaeth i beidio ei arbed ef mwy na phe buasai y tlodaf yn y lle. Bu gofal y lle hwn dros ryw dymhor ar un Marc James, o Lanwinio, yr hwn oedd ddiacon yr eglwys yn y Cwmbach; ond wedi rhyw ysbaid o amser, cododd gwŷr yn Meidrim ei hunan, i ofalu am y gwaith.

Anrhydeddwyd y lle hwn ar y dechreu ag adfywiadau cyffelyb i'r rhai a fwynheid yn Banc-y-felin, yn ei amser boreuaf. Bu llawer o ganmol, ïe, a *neidio*, meddir, yn *nghennel y cŵn*, ac yn ymyl palas yr yswain; a chafwyd tywalltiadau grymus ar ol hyny yn y pentref. Tua'r fl. 1796 y bu yma adfywiad grymus iawn, yr hwn a barhaodd am dair blynedd. Cafwyd un cyffelyb drachefn yn y fl. 1805.

Cododd amryw bregethwyr tra defnyddiol o'r eglwys hon, sef John Williams, yn ddiweddar o Abertawe; Parch. David Bowen, Llansaint; Josuah Phillips; William Williams, o'r Cwm; a John Davies. Dechreuodd yr ysgol Sabbothol yma tua'r un amser ag y dechreuodd yn Banc-y-felin, a dylynwyd ei sefydliad â diflaniad ar yr hen arferion llygredig, ac â hyrwyddiad grymus i achos yr efengyl yn ei flaen.

## LLANDYFAELOG.

Nid yw y lle hwn yn mhell oddiwrth dref Caerfyrddin. Y mae yn nodedig am mai yn yr ardal hon y bu y Parch. Peter Williams, dros ryw dymhor o'i oes, yn preswylio; ac efe hefyd, fel yr ymddengys, a fu y prif offeryn i roddi cychwyniad i Fethodistiaeth yn yr ardal.

Yr oedd Mr. Williams, fel y mae yn hysbys, yn teithio llawer; ond pan y dygwyddai fod gartref, dywedir y byddai yn awr ac eilwaith yn myned i eglwys y plwyf i wrando yr offeiriad. Yr oedd gweinidog y plwyf, yn gyffelyb i luaws o'i frodyr yn yr amseroedd hyny, yn ddyn perffaith ddiofal yn nghylch y praidd a roddasid i'w ofal. Nid gwaeth ganddo ef pa beth a ddeuai o'r bobl, am y diwellid ef â digonedd o'r ddiod feddwol. Ei enw ydoedd y Parch. James Edwards; ond, fe'i gelwid y rhan amlaf, mewn ffordd o ddynodi hynawsedd ei dymher, a diofalwch ei ysbryd, yn "*Jemmy Ddiddig.*"

Ai Mr. Williams, weithiau, fel y crybwyllwyd, i wrando y gŵr hwn i'r llan, nid am y dysgwyliai cael llesâd oddiwrth ei weinidogaeth, ond am y dysgwyliai gael cyfleusdra i wneuthur llesâd i drigolion ei ardal, trwy hynawsedd y person diddig hwn. Ymddengys fod gan yr offeiriad gryn barch i Mr. Williams fel dyn, ac fel pregethwr; a chan ei fod wedi derbyn urddau, fel ef ei hun, os canfyddai ef yn mhlith y gynulleidfa, rhoddai ar ddeall iddo y byddai caniatâd iddo gyfarch y bobl, ar ol iddo ef, yr offeiriad, orphen

y gwasanaeth, ar yr ammod nad âi i'r pulpud. Yn y modd yma y cafodd y pregethwr gyfle i rybuddio y bobl, yr hyn a wnai mor effeithiol o'r côr, ag a wnaethai o'r pulpud.

Wedi rhyw gymaint o amser, cymerodd Mr. Williams dŷ bychan, gerllaw y llan, dan rwym-ysgrif, i'r unig ddyben i bregethu ynddo. Rhoes hen wraig i fyw ynddo, yn un pen, a phulpud yn y pen arall. Weithiau, ar ol gwasanaeth y llan, ymdroai yn mysg y bobl a fyddent yn campio yn y fynwent ar ol y gwasanaeth; ac wedi ymgymysgu â hwy, dros enyd, ac ennill gradd ar eu sylw a'u serch, efe a'u denai gydag ef i'r tŷ bach gerllaw, lle y traethai efe wrth y bobl holl eiriau y fuchedd hon. Felly, rhwng y cyfarchiadau a roddid o bulpud y tŷ anedd, ac o gôr y tŷ addoli, fe roes gychwyniad i Fethodistiaeth yn Llandyfaelog.

Mae yma, bellach, gapel hardd, a chynulleidfa luosog. Mae ŵyr i'r gŵr parchedig yn byw hyd heddyw yn yr ardal, ac yn weinidog parchus,* yn y cyfundeb.

## LLANSTEPHAN.

Dywedir fod yn yr ardal hon dair o wragedd crefyddol yn preswylio, yn mhell o amser cyn fod gan y Methodistiaid ddim achos sefydlog yn y fro. Nid oes hysbysiad pa fodd y daeth y gwragedd hyn i brofi rhinwedd yr efengyl; ond pa fodd bynag, fe ymddengys eu bod yn rhai hynod yn mhlith eu cymydogion. Cyrchent yn fynych i Langeitho, er fod yn agos 50 milldir o daith, a llwyddent yno i gael ambell gyhoeddiad i'w hardal. Ymddengys hefyd y byddai y Parch. Peter Williams, ac eraill, yn ymweled yn lled fynych â'r ardal hon, ar y cyntaf, a hyny cyn i achos gael ei sefydlu yn rheolaidd ynddi. Dywedir hefyd mai i wraig ddibroffes, y pryd hwnw, y rhoddwyd yr anrhydedd o lwyddo i gael pregethu cyson i'r fro. Aeth y wraig hon, sef Mrs. Sayer, o Bentwyn, yn unig swydd i gyfarfod misol, a gynelid, ar y pryd, yn Llanddarog, i erchi ar i'r brodyr ddwyn hyn oddiamgylch, a hi a lwyddodd yn ei chais. Mewn canlyniad, bu cryn lwyddiant ar yr achos yn y lle. Daeth llawer "i ymofyn y ffordd tua Sion," ac yn eu mysg Mrs. Sayer ei hun. Planwyd yma eglwys, a neillduwyd swyddogion iddi. Adeiladwyd yma gapel yn y fl. 1803, ac ail adeiladwyd ef yn 1837. Bu y diweddar Barch. T. Evans, Caerfyrddin gynt, yn dra llafurus i gael hwn i fyny, ac i'w gael yn ddiddyled; ni fu yma ychwaith ddim pethau rhyfedd o blaid nac yn erbyn yr achos, ond y mae yn raddol wedi cyrhaedd graddau helaeth o sirioldeb a llwyddiant.

## ST. CLEAR, NEU ST. CLARE.

Mae y lle hwn tua naw milldir o Gaerfyrddin, ar y ffordd i Hwlffordd, yn mhlwyf Llanfihangel-Abercowin. Byddai amryw o'r hen bregethwyr yn ar-

* Y Parch. David Humphreys.

fer pregethu yn yr ardal hon, tua 60 ml. neu fwy yn ol, yn yr amser yr oedd boneddwr o'r enw Capt. Bowen yn byw yma. Fe fyddai Davies, o Gynfil; Ebenezer Morris; John Evans, New-Inn; Dafydd Rees, ac eraill, yn ymweled â'r lle yn achlysurol, mewn amser diweddarach. Cadwyd ysgol Sabbothol yma amryw droion, dan olygiad brodyr o Banc-y-felin; ond ni ffurfiwyd yma eglwys hyd y fl. 1828. Cyfarfyddid yn eglwysig dros ryw dymhor yn nhŷ Michael Davies, yr hwn sydd un o'r diaconiaid presenol, ac ymunodd rhai o'r aelodau a berthynent i Banc-y-felin, a'r Cwm-bach, â'r eglwys yn ei gwendid.

Yn y fl. 1829, trwy garedigrwydd gwraig foneddig, o'r enw Mrs. Williams, Miss Jones y pryd hyny, cafwyd tir i adeiladu capel arno. Adeiladwyd ef yn ddioed, a thrwy haelioni y gymydogaeth, a chynorthwy cwrdd misol y sir, y mae er ys amser, bellach, yn ddiddyled. Hefyd, fe adeiladwyd tŷ yn ddiweddar yn gysylltiedig â'r capel, a gwnaed mynwent i gladdu y marw. Mae y lle hwn o fewn tua milldir i le genedigol y Parch. T. Charles, o'r Bala, a'i frodyr.

## PENNOD VI.

### EGLWYSI DE-ORLLEWIN Y SIR.

CYNWYSIAD:—

BETTWS—JACOB JONES—ADFYWIAD YN Y FLWYDDYN 1829—CAPEL YR HENDRE—SION THOMAS OWAIN—PENTWYN—JOHN DAVIES—Y PARCH. JOHN EVANS—LLANEDI — HENRY PUGH — LLANGYNDEYRN — LLANDYBIE — LLANDDAROG A NANT-GAREDIG—CWMAMAN—CYDWELI—LLANSAINT—LLANELLI—PEN-Y-BREY.

#### BETTWS.

Mae y lle hwn yn sefyll rhwng Llandeilo-fawr a Llanelli. Ymddengys fod pregethu achlysurol wedi bod yma er yn foreu, gan hen dadau Methodistaidd; ond nid oes hanes cryno am hyny ar gael; a bod yma ddau neu dri o bersonau yn proffesu, mewn undeb â'r gymdeithas a ffurfiasid yn y Goppa-fach, a hyny cyn fod yr un gymdeithas eglwysig yn y lle, ac yn mhell cyn fod yma un capel wedi ei adeiladu. Adeiladwyd y capel tua'r fl. 1795. Cyn ei adeiladu, fe gedwid y cyfarfodydd neillduol yn y Merdy-mawr, bob yn ail a Maesllech. I'r cyfarfodydd hyn, fe ddeuai Griffith Morgan, Ysw., Glynhir, yn fynych, i roddi ei gynorthwy i'w cadw. Llaw-feddyg nodedig oedd y gŵr hwn, wedi ei ddychwelyd trwy weinidogaeth Mr. Rowlands, Llangeitho; gŵr hefyd a fu yn effro a ffyddlawn dros achos yr efengyl o hyny allan. Yr oedd yr ychydig grefyddwyr yn y Bettws yn cael cryn anhawsdra i gael tir i adeiladu capel arno, ac wedi cael cael eu siomi unwaith ar ol cael addewid o dir, ac weithiau ymron wedi llwfrhau. Dygwyddodd fod Mr. Morgan, Glynhir, wedi dyfod un diwrnod i gyfarfod gŵr dyeithr i'r Bettws; a thra yr oedd yn syn-fyfyrio pa beth a ellid ei wneyd yn yr achos, fe safodd ar yr heol, a chan gyfeirio at ardd gerllaw, a berchenogid gan gymydog iddo, fe

ddywedodd, "Dyma fan cyfleus i adeiladu capel;—mynaf ef i chwi cyn nos." Felly hefyd y bu. Llwyddodd gyda'r gŵr a bïodd yr ardd i'w chael i'r dyben.

Yr oedd yma ŵr ieuanc, o'r enw Jacob Jones, yn ysgol-feistr, yr hwn a fuasai yn efrydydd yn athrofa Iarlles Huntingdon. Ymunodd hwn â'r ychydig gyfeillion oedd yn y lle yn fuan ar ol iddynt ymffurfio yn ganghen eglwys, a bu ar ol hyn yn bregethwr cymeradwy yn y cyfundeb hyd ddiwedd ei oes. Edrychid arno yn ŵr da a duwiol, a phregethai, meddir, yn "fyr ac yn felus." Symudodd oddiyma yn niwedd ei oes, i Gapel yr Hendre. Yn mhen rhai blynyddau ar ol adeiladu y capel, torodd diwygiad allan, a chwanegwyd lluaws mawr at rifedi y crefyddwyr yn y lle. Fe fu y Bettws mewn cysylltiad â'r Goppa-fach dros rai blynyddau, a phob mis arferai yr aelodau fyned i Lanlluan i'r cymundeb, lle yr ymgynullai tyrfa fawr o grefyddwyr yr holl wlad o amgylch. Ymunodd amryw o'r ochr draw i'r afon, o'r gymydogaeth y mae capel yr Hendre yn awr ynddi, â'r ganghen eglwys yn y Bettws. Buwyd yn talu i ddyn, dros ryw dymhor, am gadw ysgol sabbothol yn y lle, ond prin, er hyn, yr oeddid yn gallu ei chynal i fyny. Hi fu mor isel lawer Sabboth, nad oedd ond ychydig iawn yn ymofyn am dani; a thros rai Sabbothau, nid oedd yn dyfod iddi ond un crwt, yr hwn a ddeuai, â'i Feibl dan ei gesail, at hen wraig ag oedd yn byw yn ymyl y capel; ond er mwyn rhoddi ysgogiad ynddi yn mlaen, disgynodd ar feddwl rhyw rai gael cymanfa ysgolion i'r lle. Trefnwyd ar fod tair o ysgolion yn cyd-gyfarfod yn y lle ar ddydd Llun y pasg, a pharodd newydd-deb y peth i luaws mawr ddyfod ynghyd. Arferiad ar y dydd Llun hwn oedd i nifer ymgasglu i droedio y bêl; felly daeth ychydig ynghyd i'r dyben hwn hefyd. Ond trwy fod y cwmni yn llai nag arferol, a thrwy hyny yn fwy llwfr, buan y rhoisant y gamp i fyny, a chytunwyd i fyned i gyfarfod yr ysgolion, ac o hyny hyd yn awr, ni fu nemawr fwy na rhith yr hen chwareu-gamp.

Yn y fl. 1829, bu yma adfywiad grymus iawn, pryd y chwanegwyd ugeiniau rai at nifer yr eglwys. Yn yr haf canlynol, tynwyd i lawr yr hen gapel, ac adeiladwyd un mwy. Mae yma yn awr gynulleidfa luosog yn gwrando, ac ysgol Sabbothol flodeuog; a chan fod yr ardal yn lluosogi mewn trigolion, trwy fod gweithfaoedd gerllaw, bernir mai ar gynydd yr â yr achos yn y lle o hyn allan.

## CAPEL-YR-HENDRE.

Dechreuwyd yr achos yn y gymydogaeth hon mewn lle a elwir y Tŷ-llwyd, tŷ a breswylid gan un Siôn Thomas Owain. Nid yw yn hysbys pa bryd y bu hyn. Yr oedd y gŵr a enwyd yn un hynod yn ei oes, a bernir na chododd yn yr Hendre, byth wedi hyny, yr un henadur o fath hwn, er fod yma amryw o wŷr rhagorol wedi bod. Dychwelwyd ef at grefydd trwy weinidogaeth Mr. Davies, Castell-Nedd, pan oedd y gŵr parchedig hwnw yn gweini yn eglwys Llanon. Ymunodd â'r gymdeithas a ymgynullai y pryd hyny yn

Eithinog, ger capel Llanlluan. Yr oedd pregethwr, o'r enw Dafydd Thomas, yn byw yr amser hyny yn Eithinog. Yn mhen rhyw ysbaid, caniatawyd i Siôn Thomas Owain gadw y moddion hyn yn ei dŷ ei hun; a thros rai blynyddau, nid oedd yn y gymdeithas ond pump o aelodau, sef tri heblaw efe ei hun a'i wraig. Ymwelodd yr Arglwydd yn mhen rhyw enyd â'r ardal ag adfywiad hyfryd, a chwanegwyd amryw at y pump uchod, ac yn eu mysg, un Mrs. Leigh, gwraig y Parch. Edmund Leigh, offeiriad Llanedi, yr hwn, meddir, oedd yn ŵr duwiol iawn. Un hynod hefyd oedd Mrs. Leigh. Arferai yn fynych ddechreu neu ddiweddu y cynulliad eglwysig trwy weddi. Cafwyd oedfaon hyfryd lawer gwaith yn Tŷ-llwyd. Mynych y bu y crefyddwyr yn mwynhau ac yn moliannu hyd ddau o'r gloch y boreu. Disgynodd awel o'r fath, unwaith, ar y Parch. John Thomas, Risca, pan yr oedd yn pregethu yn Tŷ-llwyd, a bu yntau yn moliannu heb dewi hyd hanner nos.

Wedi i'r dysgyblion amlhau, bu raid ymofyn am le helaethach na'r Tŷ-llwyd, ac yn y fl. 1812, adeiladwyd capel yn y gymydogaeth, o fewn tua milldir neu fwy i'r hen le cyfarfod, yn benaf, meddir, trwy law Siôn Thomas Owain. Yn y fl. 1841, bu raid ail-adeiladu y capel, ac yn awr y mae yn dŷ addoliad helaeth a thaclus iawn. Cododd amryw o bregethwyr yn y lle hwn; sef, Thomas Jones, yr hwn sydd wedi gorphen ei daith; Dafydd Morris; y Peirch. William Jones, Bont-ynys-wen, a Benjamin D. Thomas; ynghyd a John Morris, yr hwn, yn ddiweddar, sydd wedi gorphen ei efrydaeth yn Nhrefecca.

### PENTWYN.

Cangen o'r un uchod yw y gynulleidfa sydd yn ymgynull yn awr yn Pentwyn. Mae yma gapel tlws a chyfleus, wedi ei godi, yn benaf, trwy lafur Mr. John Davies, un o henuriaid y lle. Bu y gŵr hwn yn arolygu yr achos yn yr Hendre dros dymhor maith, ac yn awr y mae wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 94 ml., acwedi hen arfer gwasanaethu yr achos crefyddol gyda llawer o ffyddlondeb a charedigrwydd.

Mae yn y lle hwn gynulleidfa luosog yn gwrando, a'r ysgol Sabbothol luosocaf, meddir, yn y dosbarth. Yn ymyl y capel hwn y gorwedd gweddillion y gŵr enwog hwnw, y Parch. John Evans, New Inn, wedi hyny, Llwynffortun, ac yn ddiweddaf o Bentwyn. Ganwyd y gŵr hwn yn y fl. 1779. Yr oedd ei rieni yn perthyn i eglwys yr Annibynwyr yn Mhencader, i'r hon yr oedd ei dad yn ddiacon. Ymddengys fod naws grefyddol ar ei feddwl er yn blentyn, ac addysgiadau ei fam, tybygid, a fu y prif foddion i gynyrchu y naws hòno. Pan oedd tua 14eg oed, aeth gyda'i dad i Waunifor, i wrando Mr. Jones, Llangan, ac mewn canlyniad, ymunodd â'r Methodistiaid yn y lle hwnw; ond wedi y tro cyntaf hwn, nid aeth eilwaith i Waunifor, ond ymunodd i barhau â'r eglwys yn New Inn; ac wrth enw y lle hwnw yr adwaenid ef oreu yn y gogledd dros ei oes. Dywedir i'w dad fyned gydag ef, ac wrth ei orchymyn i ofal y blaenor, yn y New Inn, iddo ddyweyd, "Dyma fe i

chwi; mi fethais yn lân a gwneyd *Dissenter* o hono." Nid oedd ar y pryd ond 16 ml. oed. Yr oedd Mr. Evans wedi cael dysgeidiaeth dda yn ei ieuenctyd; ac, ar ol ymuno â'r eglwys yn y New Inn, aeth i gadw ysgol i Lanpumsaint, ac yno y dechreuodd bregethu. Ymddengys iddo ddyfod i'r golwg fel pregethwr ymron yn ebrwydd, er nad oedd eto ond prin 18 ml. oed. Cerddodd y son am dano trwy yr holl wlad gyda phrysurdeb mawr; casglai cynulleidfaoedd mawrion i'w wrando, a choronid ei bregethau â dylanwadau rhyfeddol. Yn y modd yma y bu yn llafurio am oddeutu 11 ml., pryd y priododd wraig weddw o'r enw Mrs. Jones, Llwynffortun. Y flwyddyn ganlynol, fe wnaeth gais i fyned i'r eglwys wladol, ac urddwyd ef yn ddiacon gan Dr. Watson, esgob Llandaf. Efe a fu yn llafurio mewn gwahanol eglwysi plwyfol am ysbaid blwyddyn; ac yn y tymhor hwn, llenwid y llanau y clywid ei fod ef i bregethu ynddynt yn orlawn, ac yntau, er mwyn cyfleusdra, a âi allan o'r tŷ cysegredig i'r fynwent i bregethu i'r bobl. Weithiau gwrthodid iddo gael myned i'r llan yn ol a ddysgwyliwyd, yntau a bregethai oddiar y cerig-beddau. Tybid fod ymddygiadau fel hyn yn afreolaidd; gelwid ef gan rai boneddwyr a boneddigesau yn *ddyn gwyllt*, ac yn lloerig; a digon gwir iddo bregethu unwaith yn nghapel y Bedyddwyr, ac unwaith yn nghapel yr Annibynwyr, pan ydoedd dan urddau esgobawl. Yr oedd y pethau hyn yn droseddau blin, y cyfryw nad ellid eu goddef, a gwrthodwyd iddo urddau offeiriad. Deallwyd yn bur fuan nad ellid ei gyfyngu o fewn y cloddiau canonaidd, ac mai gwell i'r eglwys fod hebddo ef, a gwell iddo yntau fod heb yr eglwys; felly, yn mhen ychydig gyda blwyddyn, dychwelodd yn ol at ei frodyr, a pharhaodd gyda hwy hyd ei ddiwedd.

Anfynych y cyfarfyddir â gŵr cyffelyb i Mr. Evans. Yr oedd hynodion lawer ynddo. Yr oedd yn ŵr hardd a lluniaidd ei gorff, ac o gyfarchiad tra boneddigaidd. Ar y naill law yr oedd gwedd ac ystum fawreddig arno, ac ar y llaw arall ymddangosai mor wirion a'r plentyn bach. Bliuid ef yn fawr gan y pruddglwyf, hadau yr hwn oedd yn ei gyfansoddiad o'i febyd: gwreiddiodd ynddo yn ddwfn iawn, a pharodd anghysur mawr iddo ef ei hun ac i'w deulu. Nid oedd yn fuddiol i ddim ond i ymarfer â phethau cysegredig. Gyda'r rhai hyn yr oedd golwg ardderchog arno; yr oedd yn ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas Dduw; ond gyda phob peth arall yr oedd anfedrusrwydd plentynaidd yn ei anghymhwyso yn llwyr i wneyd dim â hwy. Mawr berchid ef gan bob gradd. Hoff fyddai gan Arglwydd Dynevor gael gair o ymddyddan ag ef, a gorchymynai i'r cerbyd sefyll i'r dyben hwnw ar y ffordd. Ar ei waith yn myned heibio ar y ffordd, neu ar yr heol, safai pawb i edrych arno. Ymgadwai y meddw oddiwrth ei hoff ddiod, er mwyn cael ei wrando. Yr enwadau crefyddol oll a'u hoffent ef. Cariad a thynerwch oedd yn llywodraethu ei fynwes ei hun, a hyny a dderbyniai yntau oddiwrth bawb arall.

Hawdd fyddai ysgrifenu llawer am y gŵr hynod hwn: gellid llenwi cyfrol ymron o adgofion am dano. Y mae y chwedlau am ei hynodion yn lluosog iawn, a llawer o honynt yn codi oddiar ei naws bruddglwyfus ef. Parai ei olwg hynod, ei ystumiau priodol iddo ei hun, ei syniadau pruddglwyfus, ei

fympwyon plentynaidd, yn nghyda'i ddiniweidrwydd hawddgar, ei dduwiol-deb dwfn, a'i hyawdledd ardderchog;—parai, meddaf, y fath gymysgedd o bethau mawr a bach, gwych a gwael, yn cydgyfarfod yn yr un un, iddo gael edrych arno yn wahanol i bawb arall. Ni fernid ef wrth yr un rheol a dyn-ion eraill. Codai yn y fynwes tuag at Mr. Evans, deimladau cymysg o dos-turi dwys, o ddigrifwch siriol, ac o warogaeth parchus, y fath ni cheid yn yr un fynwes tuag at un gwrthddrych arall. Parai y fath gyd-gyfarfyddiad o deithi mor wahanol, a hyny i raddau mor fawr, deimladau yn y werin a gyffinient ar ofergoeledd. Prin yr ystyrid ef ganddynt yn perthyn i'n byd ni, nac y dysgwylid iddo fod yn ddarostyngedig i'r un deddfau â dynion er-aill. Yr oedd ynddo gynifer o bethau i gyd-ddwyn â hwynt,—gynifer o bethau i'w rhyfeddu a'u parchu, a chan lleied o bethau i'w beio, fel nad yw yn syn genym fod y fath warogaeth dwfn a chyffredinol yn cael ei roddi iddo.

Ond ofer i ni ychwanegu. Yntau hefyd a fu farw! Wedi pregethu efengyl y deyrnas gydag ardderchogrwydd, ymron digyffelyb, am ysbaid 50 ml., efe a hunodd yn yr Iesu, y 6ed o Hydref, 1847, yn 68 ml. oed. Claddwyd ei weddillion wrth gapel Pentwyn, y lle a ddewisasai ef ei hun, gyda phob ar-wyddion o alar dwys ac o barch diffuant.

## LLANEDI.

Bernir fod pregethu yn y gymydogaeth hon er's can mlynedd ymron. O fewn dwy neu dair milldir i'r capel hwn y mae lle a elwir y Waungron, yn mhlwyf Llandeilo-tal-y-bont, Morganwg. Yr oedd y lle hwn yn nodedig gynt fel twmpath chwareu, lle yr ymgynullai lluaws mawr o ddynion, o bob oedran a graddau, ar ddyddiau gŵyl ac ar y Sabbothau. Mae hanes genym fod Howel Harris, yn ol ei arfer, wedi wynebu y dyrfa chwith hon. Safodd i fyny i bregethu iddynt, a dylynwyd ei weinidogaeth â'r fath nerth nes peri gradd o ddyryswch yn ngwersyll yr oferwyr;—syrthiodd y crwth o law y crythor, torodd ef ac eraill allan i wylo ac i waeddi, fel rhai wedi eu harcholli. Cyffrodd hyn y lleill. Ni allent oddef i'w chwareu gael ei ddyrysu. Yn y gamp yr oedd rhai gwŷr cyfrifol yn y byd, y rhai oeddynt wedi brochi yn ddirfawr at yr ymyrwr pengrynaidd ag oedd fel hyn wedi peri diflasdod ar eu chwareu. Oddiar nwydau drwg, a chyda rhegfeydd arswydus, bygythient ladd y pregethwr, a phrysurai un o honynt i'w dŷ, sef Pentre Pasgedwyn, i geisio ei ddryll i'w saethu. Cyfeiriodd ei ffroen at Mr. Harris, a chynyg-iodd, fwy nag unwaith, ollwng yr ergyd allan, ond allan nid âi. Deallodd Harris ei sefyllfa, a gwaeddodd yn wrol ar yr erlidiwr, i droi ffroen y dryll draw, ac yr âi yr ergyd allan yn ddirwystr, gan ddyweyd hefyd, "Mae y Duw yr wyf fi yn ei wasanaethu yn abl fy nghadw." Felly y bu, meddir. Aeth yr ergyd allan wedi troi y gŵn draw.

Fe fu y bregeth hon yn foddion i ddychwelyd amryw at Dduw, ac yn eu mysg yr oedd un Henry Pugh, o Lanedi. Wedi hyn, daeth Howel Harris i Lanedi i bregethu, a'r lle cyntaf iddo bregethu oedd o dan fiereu, ger Pen-

tre-ardd, tyddyn yn y plwyf. Ar ol hyn, bu y Parch. Peter Williams yn pregethu ar brydnawn Sabboth, mewn lle a elwir Cwm-bach, yn agos i eglwys y plwyf. Yr oedd tyrfa fawr yn ei wrando, ac yntau a safai ar gareg farch yn yr awyr agored. Pan oedd wedi dechreu pregethu, daeth cŷnydd neu heliwr gŵr boneddig, Mr. Pryse, Plas-newydd, yr hwn oedd ynad heddwch, i'r lle; a gwelwyd ei fod wedi ei barotoi trwy wirodydd, i'r gwaith o aflonyddu yr oedfa. Nesäodd at y gynulleidfa, gan fytheirio llwon a rhegfeydd yn erbyn y pregethwr a'i waith. Ymattaliodd Mr. Williams dros enyd, gan ofyn a oedd yno neb a allai gael gan yr aflonyddwr fyned ymaith. Aeth dau ŵr ato, un o honynt oedd Henry Pugh, gan ei attal i ddyfod yn mlaen at Mr. Williams, ond ei arwain ymaith. Galwodd y pregethwr sylw y gynulleidfa ato, ac a ddywedodd mewn modd difrifol, "Os wyf fi yn genad dros Dduw yn llefaru yma heddyw, nid fel dynion eraill y bydd y dyn yna farw." Yn mhen tua naw niwrnod ar ol hyny, fe syrthiodd yn ei feddwdod i bwll glo agored, yr hwn oedd yn ddwfn iawn, a drylliwyd ef yn arswydus!

Y mae yn amgylchiad i sylwi arno, mai yr un modd ag y dywedai John Evans, o'r Bala, am foneddwyr erlidgar sir Feirionydd, felly y dywedir am y boneddwyr uchod, ddarfod i'w meddiannau doddi ymaith, a'u hetifeddiaethau fyned oddiwrth eu teuluoedd i estroniaid. "Diau fod Duw a farna ar y ddaear!"

Yr oedd Henry Pugh yn un o'r rhai cyntaf a ymunodd â'r Methodistiaid yn y lle; a gwelodd oedran mawr o 100 ml. Mae ei hiliogaeth yn lluosog yn yr ardal, a lluaws o honynt yn arddel enw Mab Duw. Bu Llanedi yn hir wedi yr amser uchod, sef yr amser yr ymwelodd Howel Harris gyntaf â'r ardal, cyn cael un addoldy, nid nemawr llai na 90 ml. Buwyd dros ugeiniau o flynyddau yn cynal moddion o dŷ i dŷ, weithiau yma, ac weithiau acw; ac ar y dechreu, deuai cyfeillion drosodd o'r Goppa-fach, i gynorthwyo y gweiniaid mewn cynal cyfarfodydd eglwysig, ac yn eu mysg bu Mr. Morgan, Glynhir, yn nodedig o ffyddlawn. Crybwyllir yn barchus am y teulu hwn, y tad, y mab, a'r ŵyr. Rhoddodd rhagluniaeth iddynt fodd, a chynysgaeddodd gras hwynt â chalon, i wneuthur gwasanaeth mawr i achos y Cyfryngwr yn y lle y'u gosodwyd, a'u cymwynasgarwch sydd yn aros hyd heddyw.

Wedi i'r achos fod ar y wedd ansefydlog a nodwyd am rai ugeiniau o flynyddoedd, arweiniodd rhagluniaeth bregethwr o'r enw John Williams yma i fyw. Dechreuasai bregethu yn Meidrim, a gorphenodd ei yrfa yn Abertawe, ond bu yn aros dros ryw dymhor yn Llanedi. Yn y tymhor hwnw, cedwid y cyfarfodydd eglwysig bob wythnos yn ei dŷ ef; ac ar ol iddo fyned i Abertawe, cedwid hwy yn nhŷ un John Francis, yr hwn oedd henuriad, ac yn byw yn Pen-y-cryg, ac felly y safodd, hyd nes yr adeiladwyd y capel yn y fl. 1836. Cododd yma ddau bregethwr, John Pugh a Richard Hughes, y rhai sydd yn aros hyd heddyw.

### LLANGYNDEYRN.

Y cyntaf o'r Methodistiaid a fu yn pregethu yn y lle hwn hefyd oedd

Howel Harris, a hyny ar ddydd Llun y pasg, pryd yr oedd lluaws wedi dyfod ynghyd, fel arferol y diwrnod hwnw, i ymladd ceiliogod, ac i gampio a gloddesta. Gan fod hysbysiad yn mlaen llaw fod Harris i bregethu yn y lle, daeth llawer ynghyd i'r dyben o wrando. Clybu gŵr boneddig, Mr. Gwyn, o'r Wempa, fod Harris i'w ddysgwyl i bregethu, ac yntau a benderfynodd fyned yno hefyd, nid i wrando ond i aflonyddu, ac i rwystro, nid y chwareu, ond y pregethu. A dyfod a wnaeth, ar gefn ei farch, a'i gleddyf wrth ei glun, gan fwriadu niweidio, neu oleiaf ddychrynu y pregethwr; ond ei ddychrynu ni allai, a'i niweidio ni chaniateid iddo. Pan ddaeth i'r fan, ac i Harris graffu arno fel yn amcanu dyfod ato, efe a alwodd ar y bobl gilio, gan agor y ffordd iddo ddyfod yn mlaen. Ond tra yr oedd yn nesu rhagddo drwy y gynulleidfa, rhusodd y march, fel o'r braidd y gallodd y marchog gadw ei le, a da fu ganddo, gan mor beryglus oedd ei sefyllfa, gilio, gynted y gallai o'r fan. Yn y modd yma cafodd Harris fodd i fyned rhagddo yn ddirwystr i bregethu i'r dyrfa. Ni wnaed un cais byth wedi hyn i aflonyddu nac i erlid.

Bu yr ardal hon flynyddau lawer ar ol y tro uchod heb ddim moddion cyson gan y Methodistiaid; ond daeth yma bregethwr i fyw i'r ardal, William Jones, gynt o Gil-y-cwm, a bu ef yn foddion i gael lle i adeiladu capel. Hyn a wnaed yn y fl. 1809, ac ar y lle y bu Harris gynt yn pregethu. Rhoddodd Mr. Humphreys, Nant-y-llan, tad y Parch. D. Humphreys, gynorthwy mawr i ddwyn yr adeilad i ben. Yr oedd yma gymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio er ys blynyddau lawer cyn hyny, yr hon a arolygid, gan mwyaf, gan frodyr a ddeuent yma o Gaerfyrddin; trwy y rhai y sefydlwyd yr ysgol Sabbothol yn y lle.

### LLANDYBIE.

Bu pregethu yn y lle hwn yn ystod y ganrif ddiweddaf, gan y Parch. Peter Williams, a Mr. Jones, Llanmihangel; ond esgeuluswyd y lle ar ol marw Mr. Jones am flynyddau meithion, pryd nad oedd ond ambell bregeth yn achlysurol. O'r diwedd, cafwyd lle i bregethu yn fwy cyson ynddo, sef yn nhŷ un John Jenkins. Wedi hyny, mewn tafarndy am ysbaid tua blwyddyn. Ar ol hyn cymerwyd tŷ dan ardreth, lle y buwyd yn addoli hyd nes adeiladu capel, yr hyn a wnaed yn y fl. 1829. Nid yw y gwaith yn y lle hwn ond isel mewn cydmhariaeth, eto dywedir fod golwg mwy gobeithiol arno nag a fu, cymaint felly ag i fod yn annogaethol i lynu wrtho gyda sirioldeb.

### LLANDDAROG.

Dechreuwyd pregethu yn y gymydogaeth hon yn y Felin-fach, wedi hyny yn Mhant-y-pwll, ar gylch; ac ar ol hyny mewn amrywiol dai eraill, megys Cwmhebog, Parc-y-dwyrain, a Choed-adam. Bernir mai Howel Harris a fu yma gyntaf yn pregethu, ond nid yw yr amser yn hysbys; ac ni ddywedir chwaith pa fodd y dygwyd Thomas Jones, o'r Felin-fach; Dafydd

Thomas, o'r Bryn-menda-isaf; a Dafydd Siôn Hugh, o Goed-adam; gŵyr a flaenorent fwyaf gyda'r gwaith yn ei ddechreuad, at grefydd. Dylynwyd hwy gan wŷr cyffelyb iddynt, y rhai ydynt oll, oddieithr un neu ddau, wedi gadael y maes.

Adeiladwyd y capel yn y fl. 1795, ac ail-adeiladwyd ef yn y fl. 1848. Fe gadwyd cymdeithasfa yn Llanddarog, flynyddau cyn fod yno yr un capel. Afreidiol ydyw dyweyd y byddai Rowlands, y ddau Williams, a'u cydoeswyr llafurus, yn ymweled yn eu tro â'r lle hwn. Tua'r amser yr adeiladwyd y capel cyntaf, bu yma ddiwygiad grymus iawn, yr hwn a barhaodd am ysbaid dwy flynedd. Bu nifer yr aelodau yn y lle hwn, ar adeg lled foreuol, yn 300 o rifedi, ac o'r eglwys hon y blagurodd Llangyndeyrn a Llanarthney.

## NANT-GAREDIG.

Mae Methodistiaeth wedi hen wreiddio yn yr ardal hon. Yr oedd yma gapel mor foreu, meddir, a'r fl. 1758, neu o hyny hyd 1762; adeg pryd nad oedd nemawr gapel yn y wlad. Yr oedd yma gynghorwr, y pryd hwnw, yn byw yn y lle, sef Mr. Evan Richard, Glantowy, yr hwn, meddir, a fu ffyddlawn iawn gyda'r gwaith yn ei ddydd, a thrwy yr hwn, yn benaf, y cafwyd y capel i fyny. Cyfarfu â llawer o wrthwynebiad ac anhawsder yn y gorchwyl hwn. Yr oedd adeiladu capel yn yr adeg foreu hon yn anturiaeth bwysig iawn; adeg yr oedd nifer y crefyddwyr yn fychan, a'r rhan amlaf o honynt yn dlodion iawn. Adeg hefyd yr oedd yn anhawdd cael tir i adeiladu arno, nac arian i dalu am dano; ïe, yr oedd yn adeg hefyd, yr oedd llawer o flaenoriaid y Methodistiaid yn teimlo gradd o wendid a phenbleth. Mynent ochel pob ysgogiad a fyddai yn argoeli ymadawiad â'r eglwys sefydledig, a deallent fod pob capel a godid yn cael ei ystyried yn gam pellach yn y cyfeiriad hwnw. Eto, capel a fynai Evan Richard yn ei ardal. Pan aeth at ryw ŵr mawr ag oedd, y pryd hwnw, yn byw yn y gymydogaeth i geisio cynorthwy, cafodd atebiad cwta iawn. "Nid oes eisiau y penboethion yn fy ardal i," ebe y gŵr boneddig, "ac os chwi a ewch yn mlaen i'w godi, minau a ddanfonaf ddynion ar hyd y nos i'w dynu i lawr."

"Syr," ebe Evan Richard, "gwaith y diafol a fyddai hyny; ond er eich gwaethaf chwi a'r diafol, trwy gymhorth yr Arglwydd, mi fynaf ei godi." A'i godi hefyd a wnaeth. Wyres i'r hen bregethwr gwrol hwn oedd un Mrs. Simpson, Glantowy, yr hon a fu ffyddlawn a charedig i'r achos ag a wasanaethid gan ei thaid, a'r hon a fu farw yn y fl. 1842, wedi ennill iddi ei hun "air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun."

Y ddau flaenor cyntaf yn y lle oeddynt, Siôn Hugh, llafurwr; a Daniel Lewis, y gwehydd. Mawr y son sydd hyd heddyw am y gŵr cyntaf a enwyd. Dywedir ei fod yn un o'r blaenoriaid neu ddiaconiaid hynotaf yn y sir yn ei dymhor, er nad oedd ond gweithiwr tlawd. Yr oedd ei dduwioldeb a'i ffyddlondeb didderbyn-wyneb mor nodedig nes iddo ennill dylanwad rhyfeddol, gan yr afael oedd ganddo ar gydwybodau dynion. Adroddir ei ddywediadau

yn fynych hyd heddyw, mewn cyfarfodydd misol, fel "Gemau Detholedig." Gresyn na buasai mwy o adgofion am dano ar gael, ond y mae ei holl gydoeswyr, bellach, wedi marw, ac nid oes yn aros am Siôn Hugh ond coffadwriaeth peraroglaidd o gymeriad rhagorol, fel swyddog ffyddlon, a Christion gloyw.

Mae yn Nantgaredig gynulleidfa dda, ysgol Sabbothol flodeuog, ac eglwys gref, cymaint felly ag odid lle gwledig arall yn y sir.

## CWMAMAN *(Tabernacl).*

Dechreuwyd yr achos yn y lle hwn yn fwyaf trwy lafur William Rees, Nant-yr-afr; Thomas Rees, Tŷ-llwyd; a gwraig o'r enw Mary Phillips (yr hon a elwid Mary Ifan Thomas Siôn), yn y fl. 1763. Yr oedd hyn tua'r amser yr oedd Methodistiaeth yn dechreu adfywio ar ol adfeiliad galarus yr ymraniad. Nid oedd y dysgyblion yn gyffredin ond plant mewn gwybodaeth, ac nid oedd eu hathrawon ond ychydig o rifedi. Teimlent, er hyny, yn anhebgorol iddynt gynal cyfarfodydd eglwysig, er lleied oedd eu dawn a'u gwybodaeth. Yr oedd William a Thomas Rees wedi bod unwaith neu ddwy mewn cyfarfod o'r fath yn Llanfihangel-Aberbythych, yn y fan y mae Capel-Byrach yn awr, cyfarfod a arolygid gan bregethwr o'r enw Mr. Jones.

Dechreuodd William a Thomas ar eu gwaith trwy ymddyddan â Mary Ifan Thomas Siôn, ond deallwyd yn y fan ei bod hi yn deall mwy na'i hathrawon, a dywedodd y naill wrth y llall, "Cystal fyddai i ni adael Mary, gan yr ymddengys fod rhyw un gwell na ni wedi bod yn ei dysgu." Y gwir ydoedd fod y wraig hon wedi dysgu darllen ei Beibl er yn blentyn, peth anghyffredin y pryd hyny, ac wedi profi ei awdurdod hefyd cyn hyn, trwy weinidogaeth hen offeiriad parchus, Mr. Leigh, Llanedi, pan oedd yn pregethu yn eglwys Llandybie. Yr oedd yr amgylchiad hwn iddi hi yn un mor nodedig, ag a barai iddi ei gofio a'i goffâu yn wastadol, a chadwai yn ei mynwes barch mawr i'r gweinidog ac i'r lle dros ei hoes.

Cedwid y cyfarfodydd bychain ac eglwysig hyn mewn gwahanol dai anedd, yn eu cylch, am tua 13 mlynedd. Y pregethwyr a ymwelai amlaf â hwynt, oeddynt Dafydd Thomas, John Dafydd, a'r Mr. Jones crybwylledig o'r blaen. Yr oedd y tri hyn o gymydogaeth Llanlluan. Tua'r fl. 1776, cytunodd yr ychydig grefyddwyr yn yr ardal, yn Fethodistiaid ac yn Annibynwyr, i godi capel rhyngddynt, gerllaw y fan y mae Bethel a Cwmaman yn sefyll yn awr; a buont yn addoli gyda'u gilydd yn yr addoldy cyffredinol hwn am flynyddoedd.

Ymddengys, pa fodd bynag, i'r Annibynwyr luosogi yn y lle, yn fwy na'r Methodistiaid, ac ar ryw Sabboth, pan ddaeth y dywededig Mr. Jones i'r lle, ar fedr pregethu, cafodd y capel wedi ei gloi yn ei erbyn; ac ar ben crugyn o gerig, gerllaw y drws, y safodd y pryd hwnw i bregethu. Nid yw yr hanes sydd mewn llaw yn rhoddi dim awgrym i'r ysgrifenydd paham y

gwnaethpwyd fel hyn, ond yn unig fod nifer y naill blaid yn lluosocach na'r llall.

Bu yr amgylchiad, pa fodd bynag, yn foddion i ysgar y ddwy blaid oddiwrth eu gilydd; ciliodd y Methodistiaid, bellach, ar eu penau eu hunain, ac am flynyddoedd lawer, buont yn addoli heb yr un capel; ond yn ol eu hen arfer, pregethent o dŷ i dŷ, fel y byddai y cyfleusdra. Ai y crefyddwyr hyn i Lanlluan bob mis i gymuno, a rhai mor bell a Llangeitho, a hyny wedi cadw noswyl nos Sadwrn, gan ddychwelyd erbyn amser gwaith boreu ddydd Llun, wedi cerdded, rhwng myned a dychwelyd, 50 o filldiroedd.

Wedi bod fel hyn yn gwibio o dŷ i dŷ am flynyddoedd, disgynasant yn fwy sefydlog i dŷ yr hen frawd, Ifan Lodwick, Glyn meirch, yr hwn sydd eto yn fyw. Dangosodd y gŵr hwn lawer o ffyddlondeb gyda'r gwaith, tra y bu yr arch yn ei dŷ. Y mae ef, ynghyda'i wraig, dros 80 ml. oed, ac wedi bod yn proffesu er ys tros 50 mlynedd.

Nid oedd yn y lle hwn ond saith o aelodau, a hyny dros flynyddoedd; rhaid, gan hyny, fod yma lawer o egni a ffyddlondeb, gan i nifer mor fychan allu cynal yr achos dros amser mor faith. Yn y fl. 1840, pa fodd bynag, agorwyd gwaith glo newydd yn y gymydogaeth, a pharodd hyn radd o gyffro yn y gymydogaeth, lluosogodd y trigolion mewn rhif, a bywiocaodd eu meddylian i anturiaeth. Daeth ar feddwl yr ychydig grefyddwyr yn yr adfywiad cyffredinol, i ymofyn ai ni allent adeiladu capel. Ac nid hir wedi ymddwyn ar yr amcan, na esgorwyd ar y weithred. Capel a wnaed. Chwanegodd y gynulleidfa, a lluosogodd yr aelodau i 50 ac uchod. Bywiocaodd yr ysgol Sabbothol, a rhoddwyd gwedd gynyddol a blodeuog ar yr holl achos. Mae yma ddau bregethwr yn cyfaneddu, un yn ddyfodiad o Lanelli, a'r llall wedi codi yn yr ardal.

## CYDWELY A LLANSAINT.

Dywedir mai mewn tri lle y bu erlid ar y Methodistiaid yn sir Gaerfyrddin, sef Llangyndeyrn, Llandyfri, a Chydwely, a'r gwaethaf o'r tri oedd Cydwely. Mae y dref hon yn gorwedd tua naw milldir i'r de o Gaerfyrddin. Mae traddodiad fod Howel Harris wedi bod yn y lle yn pregethu, ac wedi dyoddef yn dost oddiwrth ddyhiriaid y dref, ond nid oes genym ddim adgofion manwl am yr amgylchiad.

Yr oedd y Parch. Peter Williams yn cartrefu o fewn tua 4 milldir i'r lle, a naturiol ydyw meddwl ddarfod i'r gŵr hwnw, gan gymaint oedd ei sel a'i wroldeb, wneuthur cais, fwy nag unwaith, i sefydlu pregethu yn y lle. Aeth yno, medd yr hanes, ryw brydnawn Sabboth. Fe safai ar gareg-farch gerllaw tŷ gŵr o'r enw John Rees; ond nid hir y bu cyn fod haid o oferwyr yn y lle, a hawdd oedd deall eu hamcan wrth y wedd oedd arnynt. Yn eu mysg, yr oedd dau ddyn mwy nodedig na'r lleill yn eu blaenori: enw un oedd Dïo Goch, a'r llall oedd ddyn mawr o gorffolaeth, a chryf ei esgeiriau. Yr oedd gyda'r ddau hyn tua dau ddwsin o ganlynwyr. Wedi i'r pregethwr

ddarllen pennod o'r Beibl, a phan ydoedd ar fedr myned i weddio, neidiodd y dyn mawr iddo, gan gipio y llyfr o'i law, a'i dynu i lawr oddiar y garegfarch. Bellach, yr oedd yn eu gafael, a chan eu bod wedi eu cymhwyso at y gorchwyl, trwy eu llenwi â digon o ddiod gref, (ar gais offeiriad y plwyf, meddir,) ymosodasant arno yn ddidrugaredd, gan ei faeddu yn dost â'u ffŷn. Eraill o honynt a gymerasant ei geffyl, ac a'i gyrasant yn greulawn ar hyd y morfa, gan ei symbylu i neidio y ffosydd, a rhyfedd na fuasai yr anifel wedi tori ei goesau, a'r marchog wedi tori ei wddf. Wedi baeddu Mr. Williams â'u ffŷn, dros ryw gymaint o amser, llusgasant ef i'r dafarn, gan benderfynu ei feddwi. Gofynasant iddo, a yfai efe? "Gwnaf, fel yr ych," oedd yr ateb. Estynwyd y ddiod iddo; yntau yn ddirgelaidd a'i tywalltai, nid i'w enau, ond i'w fotasau, nes oeddynt weithian yn llawn. Wrth weled yr amser yn myned yn mhell, ac yn ofni trais y trigolion, anfonodd ei wraig y gweision i edrych ei helynt, ac i'w gyrchu adref. Ar eu dyfodiad i Cydwely, hwy a'i cawsant ef yn garcharor gan y treisiaid yn y dafarn, a thrwy eu cynorthwy hwy y cafodd ei ryddid.

Yn fuan ar ol hyn, daeth gŵr arall, â gwedd offeiriad arno, ond nid yw ei enw ar gael, i gynyg pregethu yn Cydwely. Safai hwn wrth y "*Pelican;*" ac ymddangosai pob argoelion mai ei erlid a ga'i yntau fel y llall, oblegyd fe ymgasglodd yr erlidwyr ynghyd i'r dyben hyny, ond pan welsant arno wedd gŵr boneddig, hwy a ofnasant ac a giliasant ymaith, gan ddyweyd, "*Offeiriad y brenin yw hwn.*"

Llawer o waradwydd a ddyoddefai rhai o'r crefyddwyr cyntaf yn yr ardal hon, os nad peth colled a phoen. Yr oedd yn byw yn Llansaint, plwyf gerllaw Cydwely, hen wyryf gloff, a elwid "Cadi Siencyn," yr hon oedd yn hynod mewn duwioldeb. Hon a ddeuai yn fynych i Cydwely, pan y dygwyddai fod yno ryw ŵr yn pregethu; ac o herwydd ei bod yn gloff, hi a farchogai ar gefn asyn. Un tro, pan oedd yn dyfod fel hyn, gwelai fagad o ddyhiriaid ar bont Cydwely yn ei dysgwyl, gan fwriadu gwneyd ryw sarhad neu niwaid iddi. Yn y fan y gwelodd hwy, amheuodd eu dyben, a dechreuodd ganu:—

"Pa fater sydd fod rhai'n i gyd
Yn cael pob dirmyg gan y byd;
Eu henwau da, eu parch a'u bri
Sy'n nghadw yn y nefoedd fry."

Effeithiodd ei chân gymaint ar blant y fall, fel na feiddiodd un o honynt godi llaw, nac ysgwyd tafod yn ei herbyn.

Fe ddarfu yr erlid yn fuan ar ol hyn. Un achos o'i ddarostyngiad, yn ddiau, oedd dyfodiad un Mrs. Bevan, Pengay, at y Methodistiaid. Yr oedd i'r wraig foneddig hon gryn ddylanwad yn yr ardal. Dechreuasai gyda chrefydd er yn ieuanc, o dan ymgeledd y Parch. Griffith Jones. Yr oedd ei mab, Mr. Bevan, Pengay, yn ynad heddwch, ac felly yr oedd dylanwad y teulu yn fwy fyth. Ennillwyd Miss Bevan hefyd at grefydd; dywedir

ei bod yn hynod mewn duwioldeb, ond iddi ymadael â'r byd hwn yn ei hieuenctyd. Dan yr amgylchiadau hyn, ni feiddiai neb aflonyddu. Parhaodd y wraig foneddig hon mewn undeb â'r Methodistiaid hyd ei marwolaeth. Wedi marw ei gŵr, ac i'r etifedd ddyfod i feddiant o'r dref-dadaeth, hi a symudodd i dref Caerfyrddin, ac yno y bu hi farw.

Dechreuodd yr achos Methodistaidd yn Cydwely mewn undeb â'r Presbyteriaid, ac wedi ymadael â hwy, cawsant le i adeiladu addoldŷ iddynt eu hunain, ar dir a berchenogir yn awr gan Squire Bristoc. Cafwyd y tir, y pryd hyny, trwy fod goruchwyliwr y boneddwr a'i piai ar y pryd, yn dueddol a charedig at y Methodistiaid. Tua'r fl. 1784—6 y bu hyn.

Canghen o Cydwely ydyw Llansaint. Mor ddiweddar a'r fl. 1817 yr agorwyd y capel cyntaf yn y lle a enwyd olaf, er fod yma bregethu flynyddau lawer cyn hyny, mewn gwahanol fanau. Dywedir mai Mr. Evans, Pentwyn, oedd yr un a bregethodd gyntaf yn yr ardal hon, a hyny pan oedd yn ieuanc iawn; ac mai trwy ei weinidogaeth ef yr ennillwyd Mr. a Mrs. Stephens, Burtwn, a Miss Bevan, Pengay; ac mai yn yr un oedfa y dychwelwyd gwraig arall a fu yn ddefnyddiol gyda'r achos, sef Elizabeth Evan. Ymunodd y rhai hyn â'r eglwys yn Cydwely, ond wedi cael capel yn Llansaint, darfu iddynt hwy, ynghyd a'r Parch. David Bowen, ymgorffori yn eglwys yno ar wahan oddiwrth y fam eglwys yn Cydwely.

### LLANELLI A PHENBRE.

Mae Llanelli yn dref boblogaidd, ac yn borthladd y môr, ac yn cynwys, meddir, tua 12 mil o drigolion. Y mae yn sefyll agos ar derfynau siroedd Morganawg a Chaerfyrddin, ac yn llawn o weithfaoedd Glo a Haiarn. Yr oedd achos gan y Bedyddwyr, yn y Felin-foel, ger Llanelli, cyn i Fethodistiaeth roddi ei droed i lawr yma. Yr achlysur, meddir, i ddwyn Methodistiaeth yma oedd, i ddau, neu ychwaneg, o aelodau gyda'r Bedyddwyr, fyned ar ol yr oedfa boreu Sabboth, heb aros y cymundeb, i'r Goppa-fach, lle yr oedd pregethu gan y Methodistiaid ynddo, tua naw milldir o ffordd, i wrando Mr. Jones, Llangan. Am yr afreolaeth hwn fe'u galwyd i gyfrif, yr hyn a achlysurodd eu hymadawiad â'r eglwys yn y Felin-foel. O hyn allan, ymunasant gyda'r Methodistiaid yn y Goppa-fach. Enw un oedd Walter Bowen, dilledydd a masnachydd cyfrifol, (tad i'r diweddar Barch. John Bowen, Llanelli); ac enw y llall oedd Henry Rees, Tyddynwr, y ddau o Lanelli. Teithiasant i'r Goppa-fach am gryn amser, ond o herwydd pellder y ffordd yno, ymgyfarfyddent weithiau yn nhŷ hen ferch weddw yn y dref, o'r enw Martha, yr hon oedd aelod gyda'r Bedyddwyr, ac yn ddynes dduwiol iawn. Byddent hwy, yn nghydag amryw o'r Bedyddwyr, yn cyfarfod yno i gynal *Society* brofiad, a chyfarfodydd gweddio. Dynodid yr ymgynulliad hwn wrth yr enw, "*Society Martha*;" a llawer gwledd hyfryd, meddir, a gafwyd yno.

Eto ni adawai tafod yr enllibiwr lonydd iddynt, ond lledaenid yn ddystaw chwedlau tra difrïol am ddybenion y cyfarfodydd; ac er mwyn profi y gwrthwyneb, arferai y gwŷr gymeryd un neu ddau o'u plant gyda hwy i'r cyfarfodydd, modd y gellid "gan y gwirion gael y gwir."

Modd bynag, yr oedd 'Society Martha' yn ennill tir mewn rhifedi ac mewn dylanwad, fel y penderfynodd y ddau ŵr uchod ardrethu tŷ bychan yn y dref, o'r enw Gellyon. Yn y lle hwn y dechreuwyd pregethu, tua'r fl. 1786. Wedi cael hyn o loches, arferid pregethu mewn manau eraill yn nghyffiniau y dref; megys yn Penbedw, ffermdŷ ar ffordd Cydweli; pregethid yn aml hefyd yn Penbre, sef yn ysgubor Wales, yn y Cwrt, Gwrath, Melinachddu, a lleoedd eraill yn y gymydogaeth hòno.

Cafwyd cynorthwy mawr i'r achos ar ol ei sefydlu yn Gellyon, gan un Mrs. Bowen, o Foreb, plwyf Penbre. Cyfranai yn haelionus tuag at gynal y weinidogaeth, a theithiai lawer ar gefn ei cheffyl gwŷn i ymofyn cyhoeddiadau. Bu rai troion gan belled a'r Bala. Ennillodd y cymeriad o fod yn wraig rinweddol a duwiol iawn. Bu Mr. Morgan, Glynhir, un o flaenoriaid yr eglwys yn y Goppa-fach, o gynorthwy mawr yn sefydliad yr achos yn Gellyon, trwy ddyfod i gynal cyfarfodydd eglwysig, a chymeryd rhan yn yr oedfaon cyhoeddus. Ymwelai y Parch. Hopkin Bevan, yr hwn oedd yn byw gerllaw y Goppa-fach yn lled gyson â Llanelli, ac â Phenbre, a bu ei wasanaeth o ddefnydd mawr i'r gwaith. Yr oedd y crefyddwyr, yn ystod yr amser y buont yn cyfarfod yn Gellyon, yn cael rhai oedfaon rhyfeddol; a rhoddid iddynt, ar rai achlysuron, y fath hwyl a mwynhad fel na allent ymadael hyd y boreu. Ond er i'r achos lwyddo llawer yn Gellyon, eto nid oedd swper yr Arglwydd yn cael ei weinyddu yno. Rhaid oedd myned i'r Goppa-fach, neu gapel Llanlluan, i'r cymundeb; ond o'r diwedd, fe lwyddwyd i gael hyny i Gellyon, a Mr. Davies, Cynwyl, a fu yn gweini gyntaf. Yn y lle hwn y sefydlwyd yr ysgol Sabbothol gyntaf yn Llanelli. Ar ei chychwyniad, nid oedd cymaint ag un yn gyfarwydd ar y wyddor Gymreig, ond yr oedd yma ryw ddyn o sir Aberteifi, wedi dyfod i weithio i'r lle, fel y mynai rhagluniaeth; hwn a ddysgodd y wyddor i amryw eraill. Bu ymweliad Mr. Charles o'r Bala â'r lle hefyd yn foddion i ddwyn yr ysgol i fwy o sylw.

Aeth Gellyon yn rhy fychan yn fuan ar ol sefydlu yr ysgol Sabbothol, a phenderfynwyd adeiladu capel ychydig uwchlaw y dref, yn y fan y mae y capel presenol arno. Hwn a wnaed yn y fl. 1809—adgyweiriwyd ef drachefn yn y fl. 1821. Parhaodd yr achos i lwyddo, a'r gynulleidfa i luosogi, fel y bu raid ymofyn am le helaethach. Tynwyd y capel i lawr, ac adeiladwyd un arall llawer mwy, yr hwn a gostiodd tuag £1600. Casglwyd ar ddydd ei agoriad, £400. Gwnaed hyn yn y fl. 1840. Mae y Gymdeithas eglwysig yn awr dros 300 o rifedi, a deiliaid yr ysgol Sabbothol dros 400. Wele, faint o ddefnydd y mae ychydig dân yn ei enyn! 'Society Martha' a esgorodd ar hyn oll!

Dau bregethwr a gododd yn y gymdeithas eglwysig hon, sef y Parch. John Bowen, a Mr. Abel Jones. Mae yr olaf o'r ddau wedi ymfudo i'r America, a'r cyntaf wedi gadael y ddaear yn Awst, 1852. Treuliodd Mr. Bowen ei

oes yn yr eglwys hon. Arferai ddiwydrwydd a gofal mawr am yr achos yn ei holl ranau. Yr oedd iddo barch mawr yn yr eglwys ac yn y dref yn gyffredinol. Nid llawer a allodd ef deithio oddicartref, o herwydd ei amgylchiadau, ond fe fu yn dra ffyddlawn a derbyniol o fewn ei gylch Sabbothol.* Mae ymneillduwyr yn lluosog iawn yn Llanelli, a chynulleidfaoedd cryfion gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Wesleyaid. Mae gan y Methodistiaid hefyd ganghen ysgol wedi ei sefydlu yn y fl. 1850, mewn lle a elwir y Ffwrnes, tua milldir o'r dref, lle y mae tua 100 o rifedi yn derbyn addysg.

### PENBRE.

Canghen wedi tarddu o Lanelli yw yr achos yn y lle hwn. Dechreuwyd ef tua'r fl. 1800, yn yr Ysgubor-wen, dan olygiad diaconiaid Llanelli, Henry Jones, y gof, a Harri Rees. Buwyd dros dymhor yn pregethu yn nhai y gwŷr a flaenorent yr achos, yn enwedig yn nhŷ un David Roger. Dylasid dyweyd fod pregethu wedi bod yn y gymydogaeth yn llawer cynarach na'r amser crybwylledig, gan Williams, Pant-y-celyn; Peter Williams; a Jones, Llangan, ac eraill, mewn ffermdy o'r enw y Cwrt; a thros ysbaid maith o amser, âi y crefyddwyr i Lanelli i'r cwrdd eglwysig, er fod tua phum' milldir o ffordd. Adeiladwyd yma gapel yn 1812, yr hwn a ailadeiladwyd tua'r fl. 1850. Mae y lle addoliad yn adeilad hardd ac eang, a chynulleidfa luosog yn gwrando. Ni fu yma ddim erlid ar grefydd un amser, na diwygiad nerthol; ond cynydd graddol a pharhaus. Mae yma ddau bregethwr yn byw yn y lle, David Wales, a David Roger.

---

Yr ydym, bellach, wedi dyhysbyddu ein defnyddiau am eglwysi y wlad hon. Ymwybodol ydym, ar yr un pryd, fod yma luaws o ganghenau mwy neu lai blodeuog, heb un crybwylliad am danynt. Gwyddom hefyd fod llawer o bersonau, pregethwyr ac eraill, wedi dianc heb eu coffâu,—dynion a fu mor ffyddlawn yn eu tymhor a neb o'r rhai a grybwyllwyd. Dymunir rhoddi ar ddeall i'r darllenydd mai nid ar ddewisiad yr ysgrifenydd yr oedd hyn yn gorwedd; ond ei fod wedi ei achosi, naill o ddiffyg hysbysiad, neu o ddiffyg gofod. Mewn hanesiaeth cyffredinol o'r fath hwn, ni ellir dysgwyl gymaint a *chrybwylliad* am bob lle, neu am bob brawd neu chwaer; nac yn wir, am neb na dim, ond a fyddai yn darawiadol i'r darllenydd, neu yn angenrheidiol i osod allan ansawdd gyffredinol Methodistiaeth yn mhlith ein hynafiaid.

Mae y sir y buom yn awr yn ei holrhain yn un o'r siroedd amlaf ei phregethwyr a'i haddoldai yn y deheudir. Dechreuodd Methodistiaeth flaguro ynddi mor gynar ag un dosbarth o'r dywysogaeth. Gosododd bardd Pant-y-celyn, ac Awdwr "Y Beibl Teuluaidd," a'r Parch. Davies, Cynwyl, enwogrwydd arni yn y wedd gyntefig a fu ar Fethodistiaeth. Casglai lluaws mawr

* Mae yma ddau bregethwr eto yn byw, y Parch. William Morris, a Mr. John Roberts.

o grefyddwyr iddi, pan y cynelid y cynulliad mawr misol yn Llanlluan. Coronid hi yn y dyddiau boreuol hyny â gweinidogaeth ardderchog Lloyd, Henllan; John Evans, Cil-y-cwm; a George Griffiths, Clos-y-graig. Cafodd yr anrhydedd fawr o gynyrchu yr anfarwol Charles, o'r Bala, a'i frawd o Gaerfyrddin. Mae enwogrwydd hefyd arni yn gysylltiedig ag enwau Dafydd Rees, Llanfynydd; Arthur Evans, o Gynwyl; a Dafydd Evans, Llanwinio. Yn ei ffurfafen hi y tywynodd yr hynod John Evans, New-Inn; coffa yr hwn a bery dros oesoedd lawer; ac yn mysg ei henwogion hi y mae enwau Thomas Jones, Caerfyrddin; a Richard Davies, Llansadwrn. "Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll, heb dderbyn cwblhad o'r addewidion, ond o bell eu gweled hwynt," ond yn awr y maent eisoes wedi cyrhaedd tŷ eu Tad, a chwmni eu Brawd, "ac eto yn dysgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth y corff."

Nid ydym yn cael fod y neillduad a fu ar rai pregethwyr lleygaidd yn y fl. 1811, wedi effeithio mor niweidiol ar y sir hon, ag a wnaeth ar sir Benfro. Yr unig glerigwyr Methodistaidd o'i mewn, ar y pryd, oeddynt mab y bardd o Bant-y-celyn, y Parch. John Williams, ac oddiwrtho ef ni chaed un gwrthwynebiad, a'r Parch. Davies, Cynwyl, yr hwn a ymadawodd. Nid oedd llywyddiad yr achos, gan hyny, yn nwylaw offeiriaid, yn y wlad, a dygwyd y cyfnewidiad oddiamgylch heb nemawr gwrthwynebiad, o leiaf oddiwrth y rhai a dybid yn golofnau yn mhlith y brodyr. Ar yr un pryd, fe ymddangosodd gradd o anfoddlonrwydd i'r cyfnewidiad, yn enwedigol yn mysg rhyw ddosbarth. Ysgrifena un gŵr parchus, yr hwn oedd ar y maes y tymhor hwnw, mewn sylwedd fel hyn:—"Am y neillduad yn 1811, gellir dyweyd fod yr hen bobl henaf, gan mwyaf, yn lled anfoddlawn. Yr oeddynt yn tybied yn hollol, nid oddiar argyhoeddiad barn, ond oddiar ddygiad i fyny, fod yn rhaid cael urddiad esgobawl cyn bod yn addas i weinyddu y sacramentau. Yr oedd rhai yn barnu mai yr unig obaith i fyned a'r gwaith yn mlaen oedd dyfodiad offeiriaid allan o'r eglwys sefydledig at y Methodistiaid, o bryd i bryd, fel y byddai yr angen yn galw; ac o ddiffyg hyn, y byddai raid i'r gwaith ddyrysu. Ar yr un pryd, dywedent yn hyderus, y gofalai yr Arglwydd am anfon y cyfryw weinidogion yn ol y byddai yr angen, yr un modd ag y mae yn arfer gwneyd bob amser â'i bobl. Nid oes dim o eisiau y fath gyfnewidiad yn awr; y mae lluaws o offeiriaid genym ar y maes, megys J. Williams, Pant-y-celyn; Williams, Lledrod; Davies, o Gynwyl; a Howels, Trehill; bydd yn ddigon buan i son am neillduo eraill, pan y byddo y rhai hyn wedi meirw."

Fel hyn, tybygid, y llefarai rhai yn y sir hon; "Ond," meddai yr un gohebydd, "yr oedd dosbarth arall yn y sir hon, yn deall 'arwyddion yr amserau' yn well na'r dosbarth cyntaf, er eu bod yn hen bobl. Yn yr anghydwelediad yma, addefir yn gyffredinol, mai y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, a fu y prif offeryn i dori y ddadl. Yr oedd pob dosbarth o bobl, hen ac ieuainc, yn llochi parch mawr iddo ef, fel gŵr dysgedig, duwiol, a defnyddiol dros ben; a phan y rhoes ef ei ddylanwad o blaid y neillduad, nid oedd ond ychydig ar gael a safai yn erbyn. Heblaw hyny, yr oedd ei frawd,

Mr. David Charles, yn sefyll yn uchel yn meddyliau y bobl gallaf yn y sir; a chan fod prif arweinwyr y fyddin oll yn gogwyddo yr un ffordd, ni phrofwyd anhawsder mawr, yn y wlad hon, i ddwyn yr ysgogiad yn mlaen, a hyny heb rwygo gymaint ag un eglwys, na cholli nemawr o aelodau cyffredin.

Mae yn y sir hon yn awr tua 70 o addoldai, ac amryw o honynt yn fawrion a chostus, a'r rhan fwyaf o honynt yn dai da a chyfleus. Mae tua 50 o weinidogion a phregethwyr mewn undeb â'r cwrdd misol, a thros 200 o ddiaconiaid. Mae yr aelodau sydd mewn cymundeb rhwng pump a chwech mil, a deiliaid yr ysgol Sabbothol rhwng saith ac wyth mil. Cwynir, er hyn oll, fod cryn farweidd-dra yn gorwedd ar luaws o'r eglwysi, a theimla y gwylwyr yn bryderus, rhag i'r gogoniant a'r amddiffyn gilio. Nid oes adfywiad o'r fath a gafwyd gynt, wedi ei brofi er ys blynyddoedd; nid oes y cyffelyb awch ar y weinidogaeth ag a welwyd gynt; ni phrofir chwaith argyhoeddiadau mor ddyfnion, na gwleddoedd mor felusion. Barna llawer nad yw y swyddogion eglwysig ddim mor gwbl ymroddgar ag a fu eu henafiaid; y cwbl yn galw am brofion helaethach o bresenoldeb Duw.

---

# PRIF LINELLAU HANESIAETH SIR FON.

---

## PENNOD I.

### EGLWYSI BOREAF Y RHAN ORLLEWINOL O'R YNYS.

CYNWYSIAD:—

AGWEDD Y WLAD—TEULU THOMAS PRITCHARD, TY-GWYN—PETER WILLIAMS YN Y WLAD—MEIBION THOMAS PRITCHARD—EVAN GRIFFITH, CHWAEN-HEN—GLAN-Y-GORS—ERLID YN CHWAEN-HEN—LLANRHYDDLAD—ADEILADU Y CAPEL—CEMMAES—SYMUD O'R TY-DU I YSTORDY—ADEILADU CAPEL—LLANFECHELL—ERLID GWYR DYEITHR YNO—MR. BULKELEY, O'R BRYNDDU—PETER WILLIAMS—ERLIDIGAETH ARALL—BETHLEHEM, NEU Y GAREG-LEFN.

NID oes nemawr wlad yn Nghymru ag y mae Methodistiaeth wedi ei meddiannu mor llwyr a gwlad Môn. Pan aeth William Pritchard drosodd yno i breswylio, nid oedd ynddi gymaint ag un adnabyddus iddo ef, na neb arall, yn ymneillduwr. Yr oedd yr holl wlad o un meddwl am grefydd, heb neb yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, a hyny oblegid nad oedd neb yn gofalu am y pethau hyn; am fod pawb yn ymddifad o grefydd y Beibl, nac yn ymofyn am dani. Yr oedd "gair Duw yn werthfawr yn y dyddiau hyny, ac nid oedd weledigaeth eglur;" ac yr oedd athrawon y bobl yn peri iddynt gyfeiliorni.* Yr oedd tangnefedd a diddigrwydd y fath ag sydd rhwng preswylwyr gwlad marwolaeth, rhwng deiliaid gwlad Môn â'u gilydd, yn nghylch pethau crefydd, ar ddechreuad y ganrif ddiweddaf. Ië, nid oedd gwyll

* Gwel Cyf. I., tudal. 104.

gwawr prin wedi tori yn ysbaid y 40 ml. cyntaf o'r ganrif hòno. Eto, yr oedd y lefain grasol wedi dechreu ymweithio yn nheulu Thomas Pritchard, o'r Tŷ-gwyn, ger Llangefni, mor foreu a'r fl. 1730; ond nid oes genym hanes am ddim cyffro cyffelyb yn un man arall, na bod neb yn ceisio Duw ond y teulu crybwylledig, hyd nes daeth William Pritchard i fyw i Blas Pen-mynydd; ac yn y fl. 1742 y bu hyny. Yn y fl. 1743, yr ymwelodd Lewis Rees â'r wlad, a'r flwyddyn ganlynol y daeth Benjamin Thomas, yr hwn a bregethodd yn Minffordd, y tŷ a gofrestrwyd gyntaf erioed gan ymneillduwyr Môn i bregethu ynddo. Safai y tŷ hwn ar fin y ffordd i Langefni o'r Borth, a cherllaw y lle y saif y capel a elwir "Gilead" yn awr.

Ond o'r dechreuad bychan hwn y cododd bethau mawrion. Cynyddodd Methodistiaeth yn raddol o hyny hyd yn awr, a hyny, am yr hanner canrif cyntaf, yn ngwaethaf gwrthwynebiad o'r fath ffyrnicaf. Yr oedd rhagfarn y werin, drwg-dybiaeth y boneddwyr, a gorthrwm y clerigwyr yn cyd-haeru yn groch na chai y newyddbeth hwn wreiddio yn y tir. Ond pa beth a welwn ni yn awr? Wele y werin ymron oll wedi eu hennill, a'r boneddwyr gan amlaf yn bleidgar! Gan y Methodistiaid eu hunain y mae 80 o gapelau ac ysgoldai yn yr ynys, ac nid yw yr ynys ond bechan. Mae eu gweinidogion a'u pregethwyr yn 40 o rifedi, eu henuriaid yn 155, a'u haelodau cyflawn yn terfynu ar 7000. Mae gan enwadau eraill luaws mawr o dai addoliad yn y wlad hefyd, ond nid yw y cyfanswm wrth law gan yr ysgrifenydd; ac yn awr gellir dyweyd fod y wlad ag oedd ychydig gyda chan' mlynedd yn ol heb gymaint ag un ymneillduwr ynddi, yn awr yn llwyr, ymron, yn eu meddiant; a mwy na hyny, gellir sicrhau fod y wlad, ag oedd, ar y tymhor crybwylledig, ymron yn gwbl ymddifad o wybodaeth effeithiol o'r ysgrythyrau, yn awr yn sefyll mor uchel yn yr ystyr hyny, ag un wlad arall yn Nghymru, os nad yn y byd!

Gan ein bod eisoes wedi ceisio olrhain gradd ar *gychwyniad* Methodistiaeth yn Môn, afreidiol ydyw ychwanegu, ond cyfeirio y darllenydd at y dosbarth hwnw o'r gwaith,* a myned rhagom i osod ger bron, i'r graddau y cyrhaedd ein defnyddiau, y modd a'r dull yr aeth y gwaith yn mlaen.

Ar y dechreu, nid oedd nemawr o bregethu sefydlog mewn un man, oddieithr mewn ambell i anedd-dŷ, lle y preswyliai rhyw un caredig at yr efengyl; ac yn yr ysgogiad cyntaf, sef tua'r fl. 1742, a chyn hyny, nid oedd neb o'r cyfryw i'w cael, ond William Pritchard, Plas Penmynydd, a meibion Thomas Pritchard, o'r Tŷ-gwyn. Yn foreu hefyd, a thrwy ymddyddanion Harri Thomas, un o'r meibion uchod, ennillwyd William Thomas Owain, o'r Fagwyr, i'r un syniadau. Nid oedd gan y pregethwyr cyntaf a anturiasant i'r wlad, ond anturio pregethu yn rhyw le y caent bobl i'w gwrando, neu yn nhai yr ychydig grefyddwyr ag oedd yn y wlad. Dyry y Parch. Peter Williams ddesgrifiad cywir o'r wedd oedd ar bregethu teithiol y pryd hwnw, ac o'r anhawsderau a gyfarfyddid â hwynt. "Oddiyno," meddai (sef o Leyn),

* Cyf. I., tudal. 104—108.

"aethum i sir Fôn, wedi cael hanes pregethwr o swydd Arfon, yr hwn a aethai i'r wlad hòno; ymholais, a chefais ei fod yn dywedyd yn erchyll am ŵyr Môn, a'r cynlluniau ofnadwy oedd ganddynt yn erbyn pregethwyr teithiol, a'r rhai a fyddent yn eu canlyn: * * * * Pa fodd bynag, anturiais bregethu *ar hyd y bryniau, yma ac acw, lle bynag y gallwn gael pump neu chwech o wrandawyr yn gynulledig*."* Yr oedd hyn yn y fl. 1746; ac felly yr oedd chwe' blynedd wedi myned heibio er pan fu pregethwr ymneillduol gyntaf yn y wlad; sef y pregethwr a amddiffynwyd gan —— Lewis, Ysw., Llysdulas; a W. Bulkeley, Ysw., Bryndu. Ond er maint oedd cynddaredd y bobl yn erbyn y rhai a alwent yn ben-gryniaid, yr oedd ambell dŷ yn agored i'w derbyn. Yr oedd tai meibion Thomas Pritchard felly; un yn *Trefollwyn*, y llall yn *Bwlch-y-fen*, a'r trydydd yn *Mhen-yr-allt*, Heneglwys.

Derbyniodd William Thomas Owen, o'r Fagwyr, eu câr, bregethu i'w dŷ yntau; ac wedi iddo symud i'r Tŷ-mawr, Llantrisant, gwnaethai yr un modd pe goddefasid iddo gan ei feistr tir. Cyn dyddiau y gwŷr hyn, yr oedd yr holl wlad yn eistedd yn mro a chysgod angau,

"Pobl gryfion o un grefydd,
Yn dàl yn glòs i gadw eglwysydd ;—"

"cyffelyb bobl ac offeiriaid," wedi eu llwyr feddiannu gan anwybodaeth, ac ofergoeledd; ac yn dal i fyny yn dra egniol, arferion llygredig yr oes.

Wedi cau y Tŷ-mawr rhag derbyn pregethu iddo, agorwyd drws y ffermdy oedd yn terfynu arno, sef y *Chwaen-hen*. Yn y lle olaf hwn yr oedd un Evan Griffiths yn byw. Gŵr tal a grymus o gorffolaeth ydoedd. Pan yn ŵr ieuanc, cyfrifid ef y galluocaf o gorff o neb o'i gydnabod. Cytunodd unwaith i flaenori haid o ddyhirwyr, i wneuthur ymgyrch ar gynulleidfa fechan a fyddai yn arfer ymgasglu at eu gilydd i addoli mewn tŷ yn y gymydogaeth. Ymbarotodd yn mlaen llaw at ei orchwyl, trwy lenwi ei logell â cherig, mewn llawn fwriad o'u lluchio at y pregethwr. Eithr wedi dyfod i'r lle, a gwrando enyd ar y gwirioneddau a draethid, daliwyd ei feddwl yn gaeth ganddynt yn y fan, dirymwyd ef fel na allai gyflawni ei amcan, ac mewn cywilydd fe ollyngodd y cerig i lawr gyda'i ochr; ac er dirfawr syndod i'w hen gymdeithion, efe a giliodd yn ddiddichell i blith yr ychydig grefyddwyr yn y lle, gan fwrw ei goelbren yn eu plith o hyny allan. Ac nid hyn oedd y cwbl, ond efe a agorodd ei dŷ i dderbyn pregethu iddo, ac a agorodd ei enau hefyd i draethu yr efengyl i'w gydwladwyr. Hwn oedd y pregethwr y soniasom am dano o'r blaen,† yr hwn oedd yn ŵr call ac arafaidd, ac yn bregethwr da a buddiol.

Cafwyd yr hanes uchod drwy un William Thomas, Glan-y-gors, mab yr hwn sydd yn awr yn fyw, a thros 80 ml. oed. Yr oedd gŵr Glan-y-gors yn gydoeswr ag Evan Griffith, ac yn dra chydnabyddus ag ef. Yr oedd Glan-y-gors yn un o'r tai y derbynid pregethu iddynt yn achlysurol, ac oblegid

* Cyf. I., tudal. 117. † Cyf. I tudal. 112, 113.

hyny, bu gorfod ar y tyddynwr ymadael, a hyny er dirfawr golled iddo, gan ei fod ddwy flynedd cyn hyny wedi adeiladu tŷ, a thai i'r anifeiliaid, ar y tyddyn, ar ei draul ei hun. Hyn a wnaethai, o herwydd addawyd iddo gael aros yn y lle,—y lle y buasai ei henafiaid er ys oesoedd.

Un tro, yr oedd rhyw un yn pregethu yn Chwaen-hen, allan yn yr awyr agored, pryd y daeth yno haid o aflonyddwyr, ar fedr dyrysu yr oedfa trwy ddynwarediad diystyrllyd o honi. Yr oedd ganddynt un yn gweithredu yn rhith pregethwr, wedi ei ddyrchafu goruwch y bobl, ar ryw fan a barotoisid i hyny. Yr oedd ganddo o'i flaen i ddynwared Beibl, ystrodur a'i gefn i lawr; a phan y cymerai y pregethwr ei destyn, gan ddynodi y llyfr, y bennod, a'r adnod, y gwatwarwr hefyd a wnai yr un modd, gan ddyweyd, "Y 10fed bennod o'r Penau llydnod, a'r 5ed adnod o Ganol y gors," ac yna âi rhagddo i faldorddi unrhyw druth a ddeuai gyntaf ar ei dafod, a thrwy hyny beri difyrwch i'w blaid ei hun, a gosod gwarth ar y blaid arall. Wedi darfod y bregeth, rhoddwyd allan y byddai y pregethwr yn cadw oedfa drachefn am ddau o'r gloch, mewn man arall. Y gwatwarwr, hefyd, a gyhoeddodd y byddai yntau yn pregethu yn yr un man, ac ar yr un awr. Bellach, chwalodd y ddwy gynulleidfa, ac aeth pawb i'w ffordd; y gwatwarwyr yn ymogoneddu yn y gwaith a wnaethent y boreu, ac wedi gosod eu bryd ar wneuthur yn gyffelyb y prydnawn.

Pan ddaeth yr amser i gychwyn at eu gwaith rhyfygus yn y prydnawn, anfonwyd gŵr o'u mysg i gyrchu ceffyl i'r hwn oedd i sefyll fel pregethwr, i stabl y Chwaen-wen, tyddyn-dŷ arall yn y gymydogaeth. Pa fodd bynag, ni ddychwelodd y genad o fewn yr amser y dysgwyliasid iddo, ac anfonwyd un arall ar ei ol. Erbyn i hwn gyrhaedd y stabl, efe a ganfu ei gydymaith yn ymdreiglo ar y llawr mewn cynddaredd o ofid, ac heb allu llefaru un gair wrth neb. Yr oedd yr oruchwyliaeth hon mor sydyn a dyeithr, ac wedi disgyn ar y dyn dan amgylchiadau mor anfad ac ysgeler, nes y disgynodd arswyd cyffredinol ar ei holl gymdeithion, a dybenodd y cellwair mewn gofid a chywilydd. Buan y troes y chwareu iddynt yn chwerw iawn.

Yr ydym yn barnu mai effaith y pregethu yn y Chwaen-hen ydoedd y gynulleidfa a ymsefydlodd bob yn ychydig yn y lle a'r addoldy a elwir yn awr, Tŷ'n-y-maen, fel y ceir dangos eto ymlaen.

## LLANRHUDDLAD.

Ymddengys ddarfod i wraig weddw o'r enw Catherine Morris, yn nghyda'i mab, Morris Edward, agoryd eu drws i dderbyn pregethu yn yr ardal hon. Enw y tyddyn oedd y Gareg-gam. Dywedir fod pregethu mor foreu a'r fl. 1748 yn y Gareg-gam, ac ddarfod i'r mab gadw drws ei dŷ yn agored i'r efengyl, ar ol marwolaeth ei fam, ïe, hyd oni adeiladwyd y capel cyntaf yn Llanrhuddlad. Yr oedd y lle hwn yn un o'r tri lle a ffurfient y daith Sabbothol yn y rhan yma o'r wlad. Y ddau le arall oeddynt y Chwaen-hen yn y de, a'r Tŷ-du, rhwng Cemmaes ac Amlwch, yn y gogledd.

Wedi bod yn ymgyfarfod ysbaid 25 ml., neu ychwaneg, yn y Gareg-gam, daeth awydd ar y crefyddwyr yn yr ardal i adeiladu capel. Cawsant lain o dir i'r dyben hwnw, gan William Prichard, Clwchdernog, dan ammod-rwym, yn y fl. 1772; ac adeiladwyd ef, nid i'r Methodistiaid yn unig, ond hefyd i'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn gystal. Yr oedd enwau tri o ddynion ar drawst yr hen gapel, sef y tri wŷr a flaenorent gyda'r tri enwad ar y pryd. Y gwŷr oeddynt, William Pritchard, Clwchdernog, dros yr Annibynwyr; William Roberts, Bodhedd, dros y Bedyddwyr; a Morris Edward, dros y Methodistiaid.

Daeth hanes am y lle hwn i law yn gwahaniaethu ychydig oddiwrth yr un uchod, a theg, tybygid, ydyw gosod y ddau hanes o flaen y darllenydd:—Sylwedd yr olaf yw hyn:—

"Cafodd Morris a Siân Edward, o'r Gareg-gam, flas ar yr efengyl trwy wrando ar Howel Harris, pan yn y wlad. Mewn canlyniad, hwy gawsant addewid gan y gŵr hynod hwnw ddyfod i bregethu i'w tŷ hwythau. Wedi rhoddi y gair ar led, daeth nifer fechan yn nghyd, ac yn eu mysg yr oedd Evan Thomas, yr hen feddyg-esgyrn, yr hwn oedd yn byw ar y pryd yn Maes-y-brethyn-brych, Llanfair-yn-Nghornwy; Richard Thomas, Tŷ-wïan; Thomas Phillips, Pen-yr-orsedd; a Risiart Parry, Llanfflewyn. Ymddengys fod y gwŷr hyn wedi eu dal yn y rhwyd ar y pryd, a rhoisant brawf o wirionedd eu dychweliad trwy barhau yn ffyddlawn hyd angau.

Sefydlwyd cymdeithas eglwysig yn y lle; ac yn mhen rhyw amser, aeth y tŷ bach, y Gareg-gam, yn rhy fychan i'r gynulleidfa; ac yn yr un adeg daeth gŵr ag oedd yn byw yn y tyddyn y mae capel Llanrhuddlad arno, i'r gymdeithas eglwysig. Yr oedd tŷ y gŵr hwn yn eangach na'r Gareg-gam; yno, gan hyny, y symudwyd. Cynyddodd y gymdeithas nes aeth y tŷ hwnw hefyd yn rhy fychan, yr hyn a barodd gryn benbleth iddynt, pa le a pha fodd y caent le helaethach. Daeth i'w meddwl, pa fodd bynag, i fyned at y meistr tir, sef Mr. Lloyd, Bwlch-y-fen, i ofyn y gymwynas ganddo ef. Yntau, yn wahanol i lawer yn ei oes, a ganiataodd iddynt eu cais ar ysgrif-rwym. Felly ymosodasant ar y gwaith o adeiladu. Gyda'u bod yn cychwyn y gwaith, lledaenodd y son fod y penau-cryniaid yn codi capel; a chan fod y lluaws yn y wlad yn tybied mai dyhiriaid peryglus i wlad ac eglwys oedd y crefyddwyr dyeithr hyn, cododd cryn gyffro yn yr achos, yn enwedigol yn mysg y boneddigion. I'r dyben i gael ymgynghoriad â'u gilydd, gan hyny, galwyd cyfarfod o'r mawrion, dan rith gwledd, i balas un o honynt, sef y Gareg-lwyd, yr hwn oedd o fewn tair milldir i'r capel. Wedi gosod y mater gerbron, gan fod y mwyafrif o'r cwmni o'r un meddwl, buan y pasiwyd penderfyniad i chwalu hyd lawr yr adeilad oedd wedi ei ddechreu. Ar hyn cododd hen beriglor Llanrhuddlad i fyny, a dywedodd, 'Wŷr boneddigion, edrychwch beth a wnewch yn yr achos hwn;—os o ddynion y mae, fe ddaw i'r dim, ond os o Dduw, ofer fydd eich gwaith, ac fe'ch ceir chwithau yn ymladd yn erbyn Duw.'

Ar hyn, disgynodd math o ddychryn ar y cwmni oll, ac ni fu grym yn neb

i ymyraeth â'r achos mwy. Adeiladwyd y capel yn lled fuan. Adeilad bychan a gwael ydoedd, wedi ei wneyd o glai a phridd, a galwyd ef, '*Y Capel Mwd.*' Yn mhen rhyw gymaint o amser, aeth hwn hefyd yn rhy gyfyng, a bu raid adeiladu un arall, yr hwn, er yr edrychid arno yn y dyddiau hyn yn fychan, a alwyd '*Y Capel Mawr.*'* Yn mhen rhyw amser, dechreuodd brawd y boneddwr a roes y *lease* ymgyfreithio ag ef yn achos y tir; ennillodd y gyfraith, a thorodd y *lease;* eto, caniataodd y capel, ond fod yn rhaid talu £5 yn y flwyddyn o gydnabyddiaeth, yn lle 10 swllt fel o'r blaen.

Nid oedd y gynulleidfa eto ond bechan, tybygid, gan y teimlent yn anhawdd casglu y £5 yn y flwyddyn i dalu ardreth yr addoldy. I'w galluogi i wneyd hyny, cynygiodd y Parch. John Elias bregethu ryw noson yn agos i amser talu yr ardreth, er mwyn gosod yr achos o flaen y bobl. Felly gwnaed, '*a chasglwyd,*' medd y gohebydd, '*£5 union; nid mwy na llai.*' Yn mhen rhyw gymaint o amser, fe awgrymwyd yn ddystaw wrth berchen y tir, mai cryn orthrwm oedd codi y fath ardreth ar adeilad a godasid gan ddynion tlodion, i'r unig ddyben i addoli Duw ynddo; a dynion hefyd anhawdd iawn iddynt dalu yn flynyddol y fath swm. Gwrandawodd y gŵr ar yr awgrymiad, a chydsyniodd i'w adael iddynt am yr ardreth gyntefig. Aeth y capel hwn hefyd yn rhy fychan, ac yn awr, er ys blynyddau, y mae capel arall, mawr a chyfleus, yn llawn o wrandawyr astud."

Nid yw yr hysbysydd cyntaf yn eithaf clir pa fodd y daeth y capel yn llwyr eiddo y Methodistiaid. Y chwedl ydyw, fod y ddau frawd wedi myned i ymryson am yr etifeddiaeth, ac oddiar hyny y rhoddwyd y capel ar arwerthiad cyhoeddus *(public auction)* yn Llanerchymedd, ac mai trwy ei brynu yno y daeth yn eiddo hollol i'r Methodistiaid. Nid oedd y capel hwn, pa fodd bynag y bu, prin yn werth taeru llawer yn ei gylch, gan mai bychan iawn ydoedd o faint, a darfodedig iawn ei ddefnyddiau. Clai neu fwd oedd ei furiau, a gwellt ei dô. Gelwid ef gan amlaf, "Y Capel Mwd." Wedi i bregethu cyson gael ei sefydlu yn y capel, bu cynydd mawr ar y gynulleidfa, a bu raid, cyn hir, ymosod ar y gorchwyl o "helaethu lle y babell." Hyn a wnaed tua'r fl. 1787. Gwnaed yr helaethiad hwn o gerig; felly yr oedd darn o'r capel yn fwd, a darn yn faen. Aeth y capel hwn drachefn yn rhy fychan; ac yn y fl. 1799, tynwyd rhan o hono i lawr, ac yn gysylltiedig a'r rhan a adawyd, adeiladwyd capel cwbl newydd, gan droi y rhan a safai o'r hen gapel yn dŷ anedd. Gwnaed y capel y tro hwn yn adeilad gref, wedi ei thoi â llechau, ac yn lle cysurus i addoli.

Cynaliwyd moddion yn yr adeilad hon am ysbaid maith o flynyddau, nid llai nag 41 o flynyddoedd. Ar ol treigliad cymaint o amser, yr oedd yr adeilad yn dechreu anmharu, ac hefyd yn rhy gyfyng; felly yn y fl. 1840, adeiladwyd ef yn ei wedd bresenol, yn adeilad hardd a chyfleus. Yr oedd rhan o'r hen "gapel mwd" yn sefyll i fyny hyd y fl. 1840 yn rhan o'r tŷ; ond erbyn heddyw, y mae gweddillion yr hen gapel wedi llwyr ddiflanu. Mae yma gladdfa hefyd yn awr wedi ei darparu, a'r gweddillion cyntaf a roddwyd i gadw

* Ai nid hwn oedd y capel yr oedd a wnelo William Pritchard ag ef?

ynddi oedd yr eiddo John Jones, un a fu yn henuriad ffyddlawn a pharchus yn Llanrhuddlad am lawer o flynyddoedd. Bu farw yn y fl. 1846.

### CEMMAES.

Dywedasom eisoes fod pregethu mewn lle a elwir y Tŷ-du, nid yn mhell o'r ardal hon. Yr oedd y Tŷ-du yn sefyll yn mhlwyf Amlwch, ac yn cael ei ddal gan un Thomas Phabby. "Yr oedd crefydd," medd fy ngohebydd, "ar y pryd hwn, yn dra dilewyrch; ychydig iawn oedd yma yn ymofyn am dani, ac ychydig oedd y nifer a wnaent broffes o honi. Nid oedd y moddion yn y Tŷ-du ddim yn gyson a gwastad ychwaith. Wedi i'r achos gynyddu ychydig, a'r aelodau luosogi, hwy aent i Amlwch i'r cynulliad eglwysig; ond nid oeddynt eto ond nifer bychan iawn. Cynelid oedfaon, yn ddamweiniol, yn mhentref Cemmaes; deuai ambell ŵr dyeithr heibio yn achlysurol, yn enwedig o'r deheudir, yr hyn a barai radd o gyffro yn yr ardal.

Arferai y gynulleidfa fechan ymgynull y pryd hwn mewn math o Ystordŷ ŷd. Mae fy hysbysydd yn cofio iddo ef fod yn gwrando ar Edward Watkin, a Mr. Williams, o Ledrod, yn y lle hwn. Wedi hyny, cafwyd llofft tŷ anedd i bregethu ynddi dros ryw dymhor. Yn mhen enyd o amser, daeth yn bwysig ar feddyliau yr ychydig grefyddwyr yn y lle i gael capel; ond yr anhawsder oedd, cael llé i'w osod i lawr. Yr oedd perchenog y tir yr oedd llygad y bobl arno, yn ŵr mewn urddau eglwysig, a thybiai, o bosibl, mai anweddus fuasai iddo ef ganiatâu tir i adeiladu capel ymneillduol arno. Ond yr oedd gŵr yn y lle wedi cael rhwym-ysgrif, ar ran o'r tir i adeiladu arno, a llwyddwyd gyda'r gŵr hwn i gael tir dan rwym-ysgrif; a thrwy gryn ymdrech, fe adeiladwyd capel bychan yn nghanol y pentref. Yr oedd hyn tua'r fl. 1786, neu 67 o flynyddoedd yn ol. Mewn canlyniad, lluosogodd y gynulleidfa, ac ymunodd amryw â'r eglwys. Parhaodd yr achos i lwyddo ac ychwanegu, a bu raid ymofyn am le helaethach. Cafwyd tir gan y Parch. John Elias, yr hwn, bellach, oedd wedi priodi Miss Pritchard, Tre'r-gof; ac ar ran o'r tir a berthynai iddi hi, fe adeiladwyd y capel presenol, yn y fl. 1817. Mae y capel hwn yn adeilad da a phrydferth, ac ynddo yr ymgynull lluaws o wrandawyr bob Sabboth i glywed "geiriau y fuchedd hon."

Nid yw yn ymddangos y bu dim erlid ar grefyddwyr yn yr ardal hon,—o leiaf, nid oes hanes genym am ddim o'r fath. Dyoddefasant, er hyny, lawer o wawd a gwaradwyddiadau, a hyny dros ysbaid maith o flynyddoedd, pryd yr oedd eu nifer yn fychan, a'u hamgylchiadau yn isel. Eto, yr oedd y gwaith yn myned yn ei flaen yn raddol yn ystod y 40 ml. cyntaf o'i gychwyniad, mewn gwahanol ranau o'r wlad; y rhagfarn yn erbyn y crefyddwyr yn lleihau; y campau a'r arferion llygredig yn gwanychu; gwybodaeth iachawdwriaeth yn ymeangu; nifer y dysgyblion cywir yn lluosogi, a'u dylanwad yn cynyddu gyda'u rhif.

## LLANFECHELL.

Nid yw Methodistiaeth wedi hanfodi yn y pentref hwn, ar wedd sefydlog a rheolaidd, hyd yn ddiweddar iawn; eto fe ymddengys fod yma bregethu achlysurol yn y pentref a'i gyffiniau er yn foreu. Yma hefyd yr ymsefydlodd y Parch. John Elias, ac y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes weinidogaethol. Ond gan y mwynheid ei lafur cyhoeddus yn fwy yn y cymydogaethau cylchynol nag yn Llanfechell, lle ei breswylfod, ni a adawn ei hanes ef hyd ryw adeg arall; ac yn awr, ni wnawn ond crybwyll am ryw amgylchiadau a ddygwyddasant yn y lle hwn a'i gyffiniau, mewn adeg lled foreu ar Fethodistiaeth yn y sir, yn mhell iawn cyn fod yma un gymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio, nac un addoldy wedi ei godi, ïe yn wir, cyn fod yma ddim ond ambell oedfa achlysurol.

Mae crybwylliad yn cael ei wneyd gan amryw bersonau gwahanol, fod dau o wŷr dyeithr o'r deheudir wedi ymweled â'r pentref hwn, a gwneuthur cais at bregethu. Nid yw eu henwau ar gael, na'r amseriad penodol chwaith, eto mae cysondeb ac amledd y traddodiad yn gosod y ffaith ar dir diddadl. Dywedir fod y gwŷr dyeithr wedi dyfod i'r pentref ar ddiwrnod ffair. Fe ddichon hefyd mai nid yn ddamweiniol, ond yn fwriadol, yr oedd hyn: gan y defnyddiai yr hen bregethwyr cyntaf unrhyw gyfleusdra o gynulliad nifer o bobl at eu gilydd, i'w cyfarch ar achos pwysig eu heneidiau. Weithiau aent yn fwriadol i ganol y twmpathau chwareu, weithiau codent eu llef gerllaw y llanau, lle y byddai nifer o bobl, ar ol y gwasanaeth, yn ymddifyru mewn rhyw gamp neu gilydd yn y fynwent, ac weithiau, megys yma, safent i fyny mewn ffair, o fewn y dref, neu gerllaw iddi, neu pa le bynag arall y caent ddynion i'w gwrando. Safai y pregethwyr, yn y tro dan sylw, meddir, wrth dalcen tŷ a elwir yr *Hall*, mewn bwriad o bregethu. Yn ebrwydd wedi deall eu neges, ymgasglodd haid o aflonyddwyr, ar fedr eu rhwystro a'u baeddu. Yn y cyfamser, daeth gŵr boneddig i'r lle, gŵr ag oedd ynad heddwch, ac yn fawr ei barch yn ei wlad, sef Mr. Bulkeley, o'r Brynddu, ac a gynghorodd y dyeithriaid i gilio allan o derfysg y ffair i bregethu; "oblegid," ebe fe, "ymgynulliad at achosion bydol sydd yn y llan heddyw, a phe yr aflonyddid arnoch, ni ellid eich amddiffyn cystal a phe baech mewn lle amgen."

Gwrandawodd y dyeithriaid yn barchus ar y boneddwr, a chiliasant allan o dwrf a chyffro y ffair, i le a elwir y *Baron-hill*, gerllaw y pentref. Dechreuasant bregethu yno i'r sawl ag oedd wedi ewyllysio eu dylyn. Ond nid oedd heddwch iddynt yma chwaith. Daeth rhyw ddyn o'r ffair ar eu hol, gŵr a breswyliai y Felin-wen, ac a darawodd un o'r pregethwyr yn ei ben â chareg fawr, nes ei waedu a'i archolli yn erchyll. Clybu Mr. Bulkeley am y niwaid a wnaed i'r gŵr dyeithr, ac ar frys anfonodd am y ddau bregethwr i'w dŷ, gan orchymyn iddynt bob ymgeledd: ac ebe fe, "gan i chwi ar fy nghais gilio o'r ffair, fel na rwystrech y drafodaeth fydol, yr wyf yn teimlo yn rhwym i'ch amddiffyn chwithau." Anfonodd am y troseddwr i'w ŵydd, a gofynodd iddo:

"Pa beth oedd dy feddwl, dywed, wrth daro dyn â chareg o'r fath hon?

(gan ddangos y gareg iddo). Nid oedd genyt un bwriad ond ei ladd, ac am hyny, mi fynaf weled dy grogi, can sicred a'th fod yn ddyn."

Gwelodd y dyn yn y fan ei sefyllfa, a syrthiodd o flaen yr ynad mewn ofn a dychryn mawr, gan erfyn maddeuant a gollyngdod. Gan nad oedd dim yn ngolwg y boneddwr, ond dysgu i'w gydwladwyr nwydwyllt na chaniateid iddynt niweidio dynion yn ddiachos, o dan un esgus, a chan y canfyddai mai rhyw sel benboeth a chamsyniol a barasai yr anffawd, efe a dosturiodd wrtho, ac a'i gollyngodd, ar yr ammod na ymddygai efe byth yn gyffelyb rhagllaw. Dywedir ddarfod i waith Mr. Bulkeley yn amddiffyn y gwŷr hyn osod terfyn ar erlid yn y gymydogaeth hon o hyny allan.

Mae aml grybwylliad anrhydeddus yn cael ei wneuthur am enw y gŵr boneddig hwn, fel gŵr pwyllog, ac uwchlaw rhagfarn disail. Crybwyllasom ei enw o'r blaen,* fel un a safasai yn bleidiwr i William Pritchard, pryd y trowyd ef allan o'i dyddyn, sef o Fodlew, plwyf Llanddaniel, o herwydd ei fod yn rhyfygu (?) meddwl yn wahanol i'w gymydogion ofergoelus am bethau crefydd; ac a osododd dyddyn iddo, mewn amser yr oedd yn anhawdd iawn i grefyddwr gael tyddyn yn un parth o'r wlad, na chael aros, yn wir, mewn tyddyn yr oedd eisioes ynddo; a pharhaodd yn gyfeillgar ag ef tra fu byw. Nid gwroldeb bychan oedd yn angenrheidiol mewn gŵr boneddig i sefyll o blaid pobl "yr oedd yn mhob man ddywedyd yn eu herbyn,"—pobl yr oedd y werin yn eu baeddu, y gwŷr mawr yn eu gorthrymu, y beirdd yn eu gwaradwyddo, a'r clerigwyr yn eu disodli; eto yr oedd William Bulkeley, Ysw., yn feddiannol ar y cyfryw wroldeb meddwl, ac efe a safodd yn ddiysgog yn nghanol y llifogydd cryfion o ragfarn a chelwydd a redent yn erbyn y Methodistiaid, gan amddiffyn eu cam, a phleidio eu hamcan. Fe ymosododd ar un o'u gwarthruddwyr trwy y wasg. Gwnaethai un Mr. Ellis, curad Caergybi, ei hun yn nodedig, trwy bregethu yn ddyfal, ac ysgrifenu yn ffyrnig, yn eu herbyn, gan eu darlunio yn y lliw erchyllaf ag oedd yn bosibl; a phwy a gaed i agor ei enau dros y mud, ond y boneddwr o'r Brynddu. Hyn a wnaeth trwy ysgrifenu ateb i'r curad, a dynoethi ei gam-dystiolaethau.

Mae hanesyn yn cael ei adrodd am y Parch. Peter Williams, ei fod yntau unwaith yn yr ardal hon, ac yn pregethu ar y Garnedd-fawr, yn mynydd Mechell, a bod offeiriad wedi dyfod yno, yr hwn a fuasai yn gydymaith iddo pan yn yr athrofa, a dyweyd wrtho, "Ffei, Peter! pa fodd y meiddi bregethu *mewn lle anghysegredig?*"

"Maddeuwch fy anwybodaeth," atebai Peter, "yr oeddwn dan ddylanwad y syniad fod yr holl ddaear wedi ei chysegru, er y diwrnod cyntaf y gosododd Ceidwad pechadur ei droed arni."

Teimlodd y clerigwr golyn y ffraeth-atebiad hwn, ac mewn cywilydd troes draw, gan adael rhwng y pregethwr a'i gynulleidfa, a chafodd seibiant i bregethu, heb un aflonyddwch pellach, hyd ddiwedd yr oedfa.

Mae hanesyn arall mewn llaw, cysylltiedig â Llanfechell, yn crybwyll am

* Cyf. I. tudal. 111.

amgylchiad boreuach, tybygid, na'r rhai a grybwyllwyd. Yr oedd y tro hwn hefyd yn dygwydd ar ddiwrnod ffair. Daeth yno bregethwr o'r enw Harri Jones, a safodd ar risiau camfa y fynwent, ac a gymerodd destyn o'r Beibl, ac a ddechreuodd bregethu, heb ddarllen pennod, ac heb weddio. "Newydd iddo ddechreu pregethu, dyma y person, a rhyw un gydag ef," meddai yr hysbysydd, "yn sefyll wrth ochr fy nain, ac yn mwngialu rhyw beth annealladwy iddi hi. O'r diwedd, wrth graffu arno yn well, deallodd mai yr achos o'i fod yn mwngialu mor aneglur oedd, fod ganddo gnöyn mawr o *dobaco* yn ei geg; a gwelais yn fuan pa beth a fwriadai wneyd ag ef. Yr oedd ganddo chwip fawr yn ei law, a nesäodd at y pregethwr, gan geisio ystwffio y *tobaco* i'w enau. Rhwystrodd y pregethwr hyn â'i fraich; ac wedi siomi yr erlidiwr yn hyn, cynddeiriogodd yn fwy; tynodd y pregethwr i lawr, ac a ddechreuodd ei fflangellu yn arswydus â'i chwip. Y cwbl a ddywedodd y truan wrtho, oedd, "Fe ddaw y diwrnod pryd na fydd y chwip yn eich llaw chwi!"

"Ar hyn, dyma ddeiliaid y ffair yn codi, fel gwenyn allan o gwch, a phawb a'u cernod arno. Aethant dan ei guro allan o'r pentref am filldir neu ychwaneg o ffordd, a'i waed yn "lliwio'r llawr," hyd nes daethant at lidiart y fferm a elwir y Coeden. Aeth fy mam i'w canlyn yr holl ffordd dan wylo yn hidl, rhag iddynt ei ladd. Wedi iddynt flino yn ei ganlyn ac yn ei guro, gadawsant ef, ac yntau a aeth rhagddo, fel y tybir, tua thŷ Morris, Tyddynbach, Llanbabo; gŵr a gyfrifid yn ddyn duwiol, ac, yn achlysurol, yn arfer cynghori."

Adroddwyd yr hanesyn uchod gan hen ŵr o'r enw Robert Hughes, gynt o ardal Llanfechell, ond yn awr o ardal Bodedern, yr hwn sydd uwchlaw 80 ml. oed, ac wedi clywed ei nain a'i fam yn adrodd yr hanes uchod lawer gwaith; yr hyn ni allai ei fam ei wneuthur un amser heb dywallt dagrau.

Erbyn hyn, y mae yn Llanfechell addoldŷ wedi ei adeiladu, a chymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio, a golwg siriol a llewyrchus ar y gwaith.

## BETHLEHEM NEU Y GAREG-LEFN.

Ymddengys fod pregethu gan y Methodistiaid yn yr ardal hon mor foreu ag odid le arall yn y sir. Mae yn ddiddadl fod Howel Harris wedi bod yma yn pregethu: ni ellir gwybod pa mor fynych. Mae hen rigwm ar gael, a gyfansoddwyd, yn ddiamheuol, er difrïo y Methodistiaid, ac ar yr un pryd, yn profi boreuder y pregethu yn yr ardal:

"Howel Harris ar ei *horse*,
O Lanerchymedd i Lan-y-gors,
Ac oddiyno i'r Gareg-lefn,"
* * * * * *

Amaethdy ydyw y Gareg-lefn o fewn ychydig filldiroedd i Lanfechell. Gelwir y capel yr ymsefydlodd yr achos ynddo, yn Bethlehem. Un Marsley

oedd yn byw yn y Gareg-lefn yn nhymhor cyntaf pregethu yn y lle. Addefai hwsmon Bodewryd gynt, ei fod ef ac eraill yn myned i erlid i'r Gareg-lefn, ond ddarfod i fath o ddiffrwythder ymaflyd ynddo wedi dyfod i'r lle, fel na allai ysgogi i gyflawni ei amcan mewn un modd. Yr oedd gŵr o'r enw *Chancellor* Wynne yn byw ar ryw adeg yn Modewryd, yr hwn oedd yn flin iawn o herwydd y pregethu a lochesid yn y Gareg-lefn. Dywedir hefyd, ddarfod iddo anfon llythyr at y gŵr boneddig y crybwyllasom ei enw fwy nag unwaith eisoes, sef W. Bulkeley, Ysw., o'r Brynddu, yn llaw ei was, i erchi arno, os nad allai attal pregethu yn y lle trwy ryw foddion tynerach, ar iddo *dynu y tŷ i lawr.* Wedi i Mr. Bulkeley ddarllen y llythyr, ac ystyried ei gynwys, efe a anfonodd genadwri yn ol at y Canghellwr, i ddyweyd fod yn ddrwg ganddo orfod nacâu iddo ddim a'r a ofynai; ond y dymunai arno ddarllen y 5ed bennod o'r Actau, ac yn enwedig cynghor Gamaliel i'r Sanhedrim Iuddewig. Ar ol hyn, ni chlybuwyd mwy am dynu y tŷ i lawr, nac am anfon neb i erlid yno.

Symudodd pregethu yn mhen rhyw dymhor o'r Gareg-lefn i Bant-y-coli; ac wedi aros yn y lle olaf hwn dros ryw ysbaid o amser, symudodd yn ol eilwaith i'w hen gartref, lle yr arosodd hyd y fl. 1806, pryd yr adeiladwyd y capel presenol. Gellir meddwl fod pregethu wedi dechreu yn yr ardal 60 ml. cyn adeiladu y capel. Yr oedd y moddion ar eu cychwyniad, ond odid, yn *fylchog* ac *achlysurol,* gan brinder pregethwyr; ac ar ol eu cael yn fwy gwastad a chyson, yr oedd y gwrandawyr yn ychydig, ac yn dyoddef llawer gan warthrudd eu cymydogion. Dywedai John Thomas, Llangwnlle, yr hwn oedd yn oesi yn ddiweddarach na rhai o'i frodyr, ei fod ef wedi bod yn pregethu uwch ben *dwsin* o bobl yn y lle hwn. Deallwn mai Mr. Henry Jones, Bodewryd y pryd hyny, a brynodd y Gareg-lefn, i gael lle i adeiladu capel arno.

Mae yma eglwys a chynulleidfa gref yn y lle hwn er ys llawer o flynyddoedd bellach, ac angenrheidrwydd i helaethu lle y babell, fel y mae addoldy tra helaeth yn cael ei adeiladu yno yn bresenol (1854), ond heb ei gwbl orphen.

Crybwyllasom enw pregethwr a fu yn byw yn Mhant-y-coli, o'r enw Risiart Dafydd, ond nid oes genym nemawr ychwaneg o'i hanes na chrybwylliad o'i enw. Deallwn mai yn nghymydogaeth Amlwch y ganesid ef, oddeutu y fl. 1730. Yno hefyd y tueddwyd ef i ymuno â chrefydd, ac y bu ef byw am 50 mlynedd o'i oes. Yr oedd ei dŷ yn wynebu tua'r Borth, a chan ei fod yn arfer addoli Duw yn ei deulu, yr hyn oedd yn arferiad anghyffredin y pryd hyny, tynai sylw y morwyr a ddeuent i'r Borth, a bu yn ddefnyddiol iddynt, meddir, trwy hyny. Symudodd i Bant-y-coli pan oedd mewn gwth o oedran, a derbyniai bregethu i'w dŷ. Dechreuasai gynghori yn Amlwch, ond nid ydym yn cael fod ei ddoniau ond byrion iawn, ac mai ychydig a deithiai oddicartref. Sonir am un tro yr aethai can belled â'r Aberffraw, gan gymeryd ychydig luniaeth yn ei logell, a dychwelai adref, ar ei draed, yr un diwrnod, wedi teithio o 30 i 40 o filldiroedd.

Ymgymerodd Risiart Dafydd â'r Ysgol Sabbothol ar ei hymddangosiad cyntaf yn y wlad, a bu yn ffyddlawn gyda hi pan na ellid cael ond ychydig i roddi cynorthwy i'w chynal. Yr oedd yr hen gynghorwr hwn yn un o rai llariaidd y ddaear. Y nos Sabboth olaf y bu William Roberts, y crydd, yn cynghori yn Pant-y-coli, cymerwyd ef a Risiart Dafydd, yr hwn a ddechreuasai yr oedfa, ill dau yn glaf y noson hòno, o'r clefyd y buont feirw; ac felly gorphenasant eu gyrfa yr un amser a'u gilydd, ac aethant i mewn i lawenydd eu Harglwydd.

## PENNOD II.

### HEN EGLWYSI DEHEUOL Y WLAD.

CYNWYSIAD:—

NIWBWRCH—RICHARD JONES—SION DAFYDD, TY'N-YR-ALLT, A'I FEISTR TIR—THOMAS WILLIAMS, PWLL-YR-HWYAID—ADEILADU Y CAPEL—DYCHWELIAD MR. RICE HUGHES—SEL HEN WRAIG DDUWIOL O'R ENW ANNAS—BRYN-SIENCYN A DWYRAN—OWEN AC ANN WILLIAMS, TAI-COCHION—MR. OWEN JONES, CWYRT—ADFYWIAD—LLANGRISTIOLUS—ROBERT, Y COWPER—JOHN PARRY, TY'N-Y-PWLL—Y CAPEL CYNTAF YN MON—CAPEL BETHEL—ERLID TOST—ROWLAND A JANE OWEN—CYNYDD YR ACHOS.

#### NIWBWRCH.

Yr oedd yr hen bregethwr, Richard Jones, Niwbwrch, yn un o'r crefyddwyr cyntaf yn yr ardal hon. Dywed fy ngohebydd ei fod gyda chrefydd 112 o flynyddoedd yn ol, sef yn y fl. 1742. Dichon fod hyny yn amseriad rhy foreu, oddieithr iddo fe gyfrinachu â meibion Thomas Prichard, o'r Tŷ-gwyn, Llangefni, a phrofi argraffiadau o'r gwirionedd trwy ymddyddan â hwy, neu ynte, trwy ddarllen ei hunan, fel hwythau, air Duw, gan nad oes lle i feddwl fod yma nemawr oedfa wedi bod yn yr ynys gan un blaid o ymneillduwyr mor foreu a'r fl. 1742. Yn y fl. 1743, y daeth Lewis Rees ar gais William Pritchard; ac yn y flwyddyn ganlynol yr ymwelodd Benjamin Thomas, o'r deheudir, â Phlas Pen-mynydd; a chyfrifir mai ganddynt hwy y traddodwyd y pregethau cyntaf gan ymneillduwyr yn y wlad.

Pa un bynag a oedd Richard Jones wedi profi blas yr efengyl mor foreu a'r fl. 1742 ai peidio, a thrwy ba foddion bynag y dygwyd ef i'w brofi, fe ymddengys ei fod ef yn un o'r rhai cyntaf yn y cymydogaethau hyn. Yr oedd ef a'i wraig, yn nghyda'i chwaer, yn flaenffrwyth yr efengyl yn y fro. Yr oedd y ddwy chwaer uchod, Elin a Jane, yn chwiorydd i fam y diweddar Barch. David Jones, Dwyran. Y lle yr ymgynullent ynddo ar y dechreu, oedd Tŷ'n-yr-allt, amaethdy bychan gerllaw pentref Niwbwrch. Y tyddynwr, y pryd hwnw, oedd John Davies, neu Siôn Dafydd, fel y gelwid ef y pryd hyny, a'i wraig, taid a nain David Jones, Dwyran. Yr oedd derbyn pregethwyr y pengryniaid i dŷ yn cael ei ystyried yn drosedd mor ysgeler, nes y tybiai y bobl mai gwneuthur gwasanaeth i Dduw a wnai y neb a'u hymlidient hwy i ffordd. Tybiodd person Niwbwrch mai ei ddyledswydd, yn ddiau, oedd achwyn ar John Davies wrth ei feistr tir. Yr oedd y gŵr boneddig,

perchenog y tyddyn, yn byw yn Bodfal, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Mewn canlyniad i'r cwyn hwn oddiwrth y person, wele boneddwr Bodfal, wrth Tŷ'n-yr-allt, wedi dyfod trosodd yn un swydd i chwilio i mewn i'r achos pwysig dan sylw, a'r person gydag ef:—

"Wel, Siôn," ebe yr hen foneddwr, "yr wyf fi yn clywed dy fod di yn rhoi dy dŷ i'r penau cryniaid i bregethu ynddo."

"Hwy fyddan' yn cynghori tipyn yma, weithiau, Syr," atebai Siôn.

"Cynghori!—beth yw hyny, Siôn? 'dwy'i ddim yn dy ddeall di," meddai y boneddwr.

"Wel, Syr, mi a ddywedaf i chwi, meistr bach;—dyweyd tipyn am Iesu Grist, ac am y drwg o ladrata, tyngu, a dyweyd celwydd, a'r cyffelyb bethau, ydyw cynghori."

"O! ai dyna ydyw cynghori, âi ïe?"

Yna, yn mhen enyd, gofynai y boneddwr, "Beth yw y twll acw, Siôn, sydd yn nhô y tŷ? Cau o gynta' gelli, rhag i gynghorion o'r fath ddianc allan drwyddo;—ac yna pregetha di faint a fyni."

Gyda dyweyd hyn, rhoes fflangelliad i'w geffyl, ac i ffordd ag ef, er dirfawr siomedigaeth i'r offeiriad, ac er mawr foddhad i Siôn Dafydd; yr hwn ni aflonyddwyd arno mwy.

Mab-yn-nghyfraith i'r gŵr hwn oedd Richard Jones, y cynghorwr. Nid oes genym ond ychydig iawn o hanes y gŵr hwn. Ymddengys ei fod wedi bod yn cynghori am ysbaid maith o flynyddau, 40 ml. neu fwy, a marw tua'r fl. 1788, a'i goron ar ei ben. Buasai unwaith yn pregethu tua'r ardal y mae y capel a elwir Bethel yn sefyll ynddi, a chafodd ei erlid yn dost, fel y buasai mewn enbydrwydd am ei einioes, oni bai ei waredu mewn llwybr annysgwyliadwy. Pregethu allan yr oedd, ac yn sefyll ar graig. Ymosododd y terfysgwyr arno yn ffyrnig, a bu gorfod arno ddianc am ei hoedl, a'r fintai waedwyllt, fel bytheiadgwn ar ei ol. Eithr dygwyddodd i'r ail yn y rhes sathru ar sawdl y cyntaf, yn y prysurdeb mawr, a'i daflu ef i lawr. Llidiodd hwn wrth y llall, gan dybied mai o fwriad y gwnaeth, ac aeth y ddau i ymladd â'u gilydd; ac i edrych arnynt yn ymryson, troes y erlynwyr oddiwrth Richard Jones, yr hwn a gafodd egwyl i ddianc, a chyrhaedd ei gartref yn ddiogel.

Wedi marw Siôn Dafydd, Tŷ'n-yr-allt, symudwyd yr achos crefyddol oddiyno i le a elwir Plas-Niwbwrch, preswylfod rhieni y Parch. D. Jones, Dwyran, a bu yn aros yn y lle hwn am oddeutu 7 mlynedd. Wedi hyny symudodd eilwaith i dŷ un Owen Jones, gerllaw y pentref, ac felly yn symudol y bu am ysbaid 40 o flynyddoedd. Yn foreu yn y tymhor hwn y cododd William Lewis, Tŷ'n-y-coed; a Thomas Williams, Pwyll-yr-hwyaid, pa rai a fuont yn ymgeleddwyr i achos crefydd yn yr ardal dros flynyddau. Bu Pwll-yr-hwyaid yn gartref i Fethodistiaeth am amser maith; a Thomas Williams ei hun yn un o'r swyddogion ffyddlonaf a mwyaf gweithgar o neb yn ei ddydd. Cafodd yntau deimlo oddiwrth wg ei feistr tir, yn unig am ei fod yn grefyddwr aiddgar ei hun, ac yn noddwr i bregethwyr y Methodistiaid. Trwy ei lafur ef yn neillduol yr adeiladwyd y capel cyntaf yn Niwbwrch, yr

hyn a wnaed tua'r fl. 1785, wedi deugain mlynedd a mwy o bregethu o dŷ i dŷ.

Yn fuan wedi adeiladu y capel hwn, y bu farw Richard Jones yr hen bregethwr; a thua'r un amser y dychwelwyd gŵr at grefydd, mewn modd annysgwyliadwy, yr hwn a berthynai i ddosbarth o bobl dyeithrach i grefydd a chrefyddwyr na'r cyffredin; sef Mr. Rice Hughes, Treferydd; yr hwn oedd ysgrifenydd cyfreithiol yn Dinam * ar y pryd. Rhyw Sabboth, aeth y gŵr hwn i ddangos ei fedrusrwydd yn mysg prif gampwyr ei ardal, "i daflu maen," yr hwn oedd prif orchest-gamp yr amser, at odyn galch a berthynai i Dinam; ond dygwyddodd, pan ar ei egni yn hyrddio y maen, iddo golli ei fantol, a chael ei dynu i lawr i waelod chwarel ddofn ag oedd yn y lle. Ac er nad ydym yn cael ddarfod iddo gael llawer o niwaid corfforol, amlwg ydyw iddo gael llawer o les ysbrydol, trwy i'r codwm fod yn foddion i'w ddwyn i ystyriaeth a phwyll; oblegid y gair cyntaf a glybuwyd oddiwrtho oedd, "Yr wyf yn rhyfeddu na buaswn wedi syrthio i uffern ar unwaith, am fy ngwaith yn tori y Sabboth." Pa fodd bynag, dychrynwyd ef yn fawr ar y pryd, a bu y dychryn yn foddion i'w ddwyn i werthfawrogi yr efengyl yn y canlyniad.

Yn y fan wedi iddo ymuno â'r Methodistiaid, collodd ei le yn Dinam; ond fe gafodd le arall gyda Mr Williams, Llanidan, yr hwn a gyfrifid yn brif gyfreithiwr Cymru yn ei dymhor.† Bu Rice Hughes yn offeryn i wneuthur llawer o ddaioni, meddir, yn ei oes a'i wlad, a pharhaodd i ddal ei broffes, ac i gynghori ychydig yn achlysurol, dros ei oes.

Cadwyd cymanfa yn Niwbwrch, yn mhell, tybygid, cyn adeiladu capel yno, a'r gwŷr y sonir yn neillduol am danynt yn pregethu ynddi, oedd Mr. Jones, Llangan, a Mr. Sampson Thomas, sir Benfro. Cofiai hen ŵr un o ddywediadau Mr. Jones ar y pryd: "Bu amser arnaf y buaswn yn dyoddef merthyrdod cyn y buaswn yn pregethu Crist; ond, yn awr, dyoddefwn ferthyrdod cyn y peidiwn."

Ar ol y gymanfa hon, neu ar ei diwedd, meddir, yr aeth hen wraig dduwiol, o'r enw Annas, yr hon oedd yn bur dlawd, at Mr. Jones, i ofyn am addewid ganddo i ddyfod drachefn i'r wlad; ebe hi,—

"Pa bryd, Mr. Jones bach, y deuwch chwi yma eto?"

"Pan y deui di, Annas, i Langan i ymofyn am danaf," oedd yr ateb.

Cydiodd yr hen wraig yn yr addewid, a chan gwbl gredu nad âi gŵr o fath Mr. Jones ddim yn ol o'i air, hi a benderfynodd fyned i Langan. Yr oedd iddi gant a hanner o filldiroedd i fyned, ac nid oedd ganddi am ei thraed ond y *clocs*, nac yn ei llogell ond a gardotai, nac yn ei chylla ond a roddid iddi ar hyd y ffordd; eto yn ebrwydd ar ol i Mr. Jones ymadael â'r wlad, cychwynodd Annas i'w thaith. Dyddorol a fuasai cael hanes yr hen wreigan ar hyd y daith hon; pa leoedd y lletyasai ar y ffordd, pa anhawsderau a'i cyfarfu, pa sarugrwydd a gafodd oddiwrth rai, a pha dosturi oddiwrth eraill; pa faint o amser a gymerth i deithio cant a hanner o filldiroedd, a lluaws o bethau

* Palas boneddwr gerllaw Niwbwrch.

† Arferai Williams ddyweyd, "Rice a'i bin, a Goodman (ysgrifenydd arall) a'i ben, ac nid ofnaf gyda hwy na dyn na d——l

cyffelyb; ond nid oes genym am y cwbl ond y dychymyg; ond cyrhaedd Llangan a wnaeth, er mawr syndod i Mr. Jones. Rhyw ddiwrnod wrth edrych drwy ffenestr ei dŷ, fe ganfu yr hen wreigan, a'i ffon yn un llaw, a'r cŵd yn y llall, yn dyfod at y tŷ. Aeth i'w chyfarfod, gan ddyweyd, "*Och fi! Annas; a ddeuaist ti yn awr?*" Y canlyniad fu, medd yr hanes, ddarfod iddi ddychwelyd adref i Niwbwrch, wedi ei llawn wybrwyo am ei llafur, gan iddi lwyddo i gael tri o efengylwyr penaf eu hoes i ddyfod i sir Fôn, sef, Jones, Llangan; Rowlands, Llangeitho; a Llwyd, o Henllan. Bu y gwŷr yn ffyddlon i'w haddewidion, a chafodd Môn, cyn hir, fedi y ffrwyth oddiar y maes a hauodd Annas dlawd.

Priodol ydyw gwneuthur ychydig grybwylliadau ychwanegol am Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid. Ymddengys i ryw argraffiadau crefyddol ddechreu ymweithio yn ei feddwl, trwy wrando un Mr. Williams, Llaneilian, pan oedd ef yn îs-beriglor yn Llanidan, tua'r fl. 1769. Cynyddodd ei drallod yn ddirfawr, ond nid oedd ef na'i deulu ddim yn deall gwir natur ei gystudd. Nid oedd eto ond llencyn 20 ml. oed, a mawr oedd ofnau ei rieni, yr effeithiai yr anesmwythder newydd a ddaethai arno, i'w wneuthur yn wallgofddyn digysur a diddefnydd dros weddill ei oes. Penderfynasant, gan hyny, ymofyn am gynghor meddygol iddo yn ddioed; felly aethant â'r llencyn trallodedig at y meddyg mwyaf ei air, a goreu ei fedr, a wyddent am dano. Ond yn ofer y bu hyn oll. Dyfnhau yr oedd trallod y bachgen, a dyfnhau yr oedd dyryswch ei rieni; ond yn ddamweiniol, tarawodd wrth yr hen gynghorwr, Richard Jones, yr hwn a ddeallodd yn ebrwydd o ba ffynnonell y codai anesmwythder y llanc, a dywedodd wrtho; "O Twm bach! mi welaf beth sy'n eisiau arnat; rhaid cael *seiat breifat* (cwrdd eglwysig) at dy achos; mae gŵr dyeithr i'w ddysgwyl i'r wlad yn bur fuan, ac fe fydd yn cadw *seiat* yn Niwbwrch, pan y daw, a thi a gei wybod yr amser." Ni wyddai Thomas, druan, ar y pryd ddim am y *seiat breifat*, mwy nag am y dyn yn y lleuad; ni chlywsai erioed yr enw; ond fe gafodd wybod ar ol hyn. Cafodd ynddi y feddyginiaeth ag ydoedd gyfaddas i'w ddolur; ac yn mhen 16 ml. ar ol hyn, efe ei hun oedd swyddog y cyfryw gymdeithas yn Niwbwrch. Bu ef, mewn undeb â William Hughes, o'r Hen-dŷ, a John Hughes o'r Allt, yn arolygu y gwaith yn y lle hwn am 30 o flynyddoedd. Ymddengys fod cymhwysder yn y naill i gyflenwi diffyg y llall. Dywedid, "Mai Thomas Williams fyddai yn dal, William Hughes yn blingo, a John Hughes yn meddyginiaethu;" ac felly, anfynych iawn y byddent yn methu adgyweirio y beius. Arferent yn gyntaf fwrw golwg ar unrhyw achos a ddygwyddai ddyfod i sylw, yn eu plith eu hunain, ac wedi dyfod i gydweled arno, dygent ef yn mlaen yn ngwydd y brodyr, ond nid heb hyny.

### BRYN-SIENCYN A DWYRAN.

Mae yr ardaloedd hyn yn cyffinio ar Niwbwrch, ac y mae yr hanes sydd mewn llaw am y tri man yn ymgordeddu y naill yn y llall, fel ag i'n tueddu

i'w gosod megys yn yr un rhestr, a gadael i'r darllenydd wneuthur y didoliad, os bydd yn gweled hyny yn oreu.

Dechreuodd Methodistiaeth wreiddio yn yr ardaloedd hyn tua'r fl. 1765. Yr oedd yma ŵr a gwraig yn byw yn mhlwyf Llanidan, mewn amaethdy o'r enw y Tai-cochion, y rhai a dderbynient y Methodistiaid i'w tŷ, a hyny mewn amser nad oedd neb arall o fewn rhai milldiroedd o gylch yn foddlawn, neu yn meiddio gwneyd hyny ond hwynthwy! Eu henw oedd Owen ac Anne Williams. Parhausant i wneuthur y caredigrwydd hwn ag achos y Cyfryngwr, am ysbaid 25 o flynyddoedd. Nid oeddynt, rhag ofn y meistr tir, yn meiddio derbyn y pregethu i'r Tai-cochion; ond yr oedd ganddynt, dan *lease*, ryw hen amaethdy arall, gwael yr olwg, a thô gwellt iddo, am y terfyn, yr hwn a elwid y Chwarelau. Bernid nad oedd y perygl ddim cymaint i sefydlu pregethu yn y tŷ bach hwn; cynelid y cyfarfodydd eglwysig, pa fodd bynag, yn y Tai-cochion, a chyfarfodydd gweddio hefyd. Nid oedd teulu y Chwarelau eu hunain wedi ymuno â'r crefyddwyr, ond yr oeddynt yn hoffi gwrando yr efengyl, ac yn fawr eu parch i grefyddwyr. Felly cawsant y fraint am ysbaid 25 mlynedd o wrando ar rai o'r doniau ardderchocaf a gafodd Cymru erioed, megys Rowlands, Llangeitho; Dafydd Morris; Jones, Llangan; Lloyd, Henllan, ac eraill.

Yr oedd gwraig Tai-cochion hefyd yn un o'r mamau hyny yn Israel ag oeddynt hynod yn mysg eu rhyw. Tebyg oedd hon i Elin Dryhurst, y soniasom o'r blaen am dani, a chyffelyb i rai eraill a gododd mewn gwahanol fanau yn y wlad yn y tymhor hwnw; gwraig yn meddu ar gymhwysderau helaethach mewn gwybodaeth, gras, a dawn i flaenori mewn cyfarfodydd crefyddol, nag eraill o'r gwragedd, ïe, na'r gwŷr ychwaith. Yr oedd y pryd hwnw wraig hynod, a elwid Betty Marc, yr hon oedd yn byw yn sir Gaernarfon, ac a gyniweiriai y gwledydd i gynal cyfarfodydd eglwysig; gan yr hon, meddir, yr oedd doniau nodedig at y gwaith. Deuai hon drosodd, weithiau, i Fôn, ac yn mysg manau eraill i'r Tai-cochion, i gynorthwyo ei chwiorydd yn yr un gorchwyl. Addefwn, ar yr un pryd, mai nid rheol gyffredin yr Arglwydd wrth fyned a'i achos yn mlaen yw defnyddio gwragedd i lefaru yn yr eglwysi, eto ni allwn wadu na ddichon adegau fod ar y gwaith y bydd yn dda cael eu gwasanaeth hwy. Nid y gwragedd a ddefnyddid yn gyffredinol i amddiffyn Israel rhag gelynion, eto fe anrhydeddwyd Deborah a Jael, mamau yn Israel, i gyflawni gwasanaeth fel hyn.

Nid oedd nifer y gymdeithas yn y Tai-cochion, ar y pryd y cyfeiriwn ato, ond bychan, tua 20 neu 25. Nid eu nifer oedd eu hardderchogrwydd penaf, ond eu cariad at eu gilydd, eu ffyddlondeb dros Dduw, a'u haiddgarwch dros ledaeniad teyrnas Crist yn eu gwlad. Nid oedd dim yn ormod gan deulu y Tai-cochion i wneyd yn y ffordd yma. I'r tŷ hwn y cyfeiriai pregethwyr dyeithr a ddeuent i'r wlad, am lety ac ymgeledd; a hyny a roddid iddynt, nid yn unig yn ddirwgnach, ond yn llawen; gan ei ystyried, nid yn ddyledswydd yn unig, ond yn fraint oruchel, yn fraint na fynent er dim ei cholli.

Nid hir iawn y cawsant hwy ddianc, heb gael profi chwerwdod erlidigaeth,

fel eraill o'u cydgrefyddwyr, yn enwedig y rhai a achlesent y pregethwyr, ac a roddent eu tai i gynal cyfarfodydd. Dylynodd gwg y mawrion Owen Williams a'i wraig, oblegid hyn ; ac yn flaenaf oll, ac yn ffyrnicaf o bawb, yr oedd offeiriad y plwyf. Yr oedd y ffordd a gymerwyd i lethu Methodistiaeth yn yr ardal hon yn un anghyffredin, ac eto tra effeithiol i ddwyn dinystr a gwarth ar y teulu; ac ar yr un pryd i gelu y gwir weithredwyr allan o sylw. Cytunwyd â rhyw wraig faleisddrwg a thwyllodrus i gymeryd gyda hi rhyw sypyn o *dê heb ei drethu*, a'i adael yn ngofal gwraig y Tai-cochion, hyd nes y galwai hi am dano eilwaith, dan fantell rhyw esgus a wnaed ar y pryd. Derbyniodd Anne Williams y tê, yn niniweidrwydd ei chalon, ac a'i cadwodd yn y *parlawr* yn ofalus hyd nes gelwid am dano. Nid hir y bu, pa fodd bynag, nad agorwyd ei llygaid, ac y deallodd yr ystryw : oblegid hi a welai ryw ddiwrnod swyddogion y gyllidfa o Gaernarfon, yn dyfod i'r tŷ, gan ei chyhuddo o dderbyn nwyddau rhedeg *(smuggled goods)*, a dechreu chwilio y tŷ yn awdurdodol iawn, ac i'r parlawr ar eu cyfer, a chael y sypyn tê yn y lle y rhoddasid ef i gadw.

Dan yr amgylchiadau, nid oedd o un dyben eglurhau, nac ymesgusodi. Nid yr amcan oedd cael allan y gwir, ond cael pobl y tŷ yn euog; a chan fod y swyddogion yn y gyfrinach, nid oedd dim a allent wneyd, ond dyoddef, gan lawenhau fod ganddynt dystiolaeth cydwybod dda. Dirwywyd hwy yn ddiarbed, ac i'r fath swm, nad oedd gan y trueiniaid ddim modd i'w thalu, o leiaf yn yr amser a ganiateid gan eu gorthrymwyr, heb wneyd arwerthfa ar eu meddiannau. Felly yr arwerthfa a fu, a phwy a ddaeth yn mlaen i brynu ond boneddwr, mawr ei ddylanwad yn yr ardal, a thra erlidgar; yn erbyn yr hwn ni feiddiai neb gynyg; ac felly prynodd y cwbl am lai bedair gwaith nag oedd eu gwir werth. Gwnaeth y peth i fyny gyda swyddogion y gyllidfa, a dychwelodd yr anifeiliaid a'r nwyddau eraill a brynodd i Owen Williams, am y pris y prisiodd efe hwynt yn yr arwerthfa. Bernir mai euogrwydd cydwybod a'i cymhellodd i hynyma, fel yr unig foddion i liniaru ychydig ar y gyflafan a ddygasai ar bobl ddiniwaid.

Ond er lliniaru graddau ar y golled, eto bu yr amgylchiad yn brofedigaeth lem, ac yn sarhad trwm ar deulu y Tai-cochion, a theimlasant oddiwrth ei heffeithiau dros weddill eu hoes. Ac nid teulu y Tai-cochion oedd yr unig rai a gafodd deimlo oddiwrth orthrwm y boneddwr hwn a'i deulu; ond dywedir, gyda sicrwydd, fod cannoedd o ymneillduwyr yn Mon wedi teimlo yn dost oddiwrth eu traha. Yr oedd y boneddwr hwn yn ŵr cyfoethog, a chanddo etifeddiaeth wych, yr hon a ddisgynodd i'w fab. Dangosodd y mab yr un naws erlidgar at y crefyddwyr; ond fe wiriwyd yn y teulu hwn ddywediad John Evans, o'r Bala, am y gŵyr mawr a fu yn erlid yn ei ardal ef, sef ddarfod i'w hetifeddiaethau lithro i ddwylaw estroniaid, ac iddynt gael eu darostwng yn eu hamgylchiadau, fel nad oedd ganddynt mwy yr awdurdod a'r dylanwad a fu ganddynt, a'r hwn hefyd a gamddefnyddiasid mor ysgeler ganddynt.

Yn y fl. 1785, ymlidiwyd un Mr. Owen Jones, o Bodhelen, yn Lleyn, sir

Gaernarfon, o achos ei grefydd, a'i ymlyniad wrth Fethodistiaeth. Yr oedd y gŵr hwn yn swyddog eglwysig, ac yn offeryn defnyddiol, ac yn ŵr o feddwl ymroddgar gydag achos yr efengyl, a theimlid yn ddolurus o herwydd ei golli o'i wlad, eto yr hyn a fu yn golled i sir Gaernarfon a fu yn ennill mawr i Fôn; ac er i'r gelyn gael arllwys ei wenwyn, ni chafodd gyrhaedd ei nod. Nid anfon Owen Jones o'i wlad oedd yr amcan, ond llethu Methodistiaeth, a'i anfon yntau o'i dyddyn oedd y moddion. Defnyddiwyd y moddion, ond methodd yr amcan. Wedi i'r gŵr dan sylw gael ei droi o'i dyddyn, trefnodd rhaglunIaeth iddo gael disgyn i'r Cwyrt, tyddyn helaeth yn nghymydogaeth y Dwyran a Brynsiencyn. Wedi ymsefydlu yn Môn, ymroddodd Owen Jones o ddifrif i wasanaethu achos yr efengyl. Cysegrodd ei amser, ei ddawn, ei dŷ, a mesur helaeth o'i feddiannau, at achos y Cyfryngwr. Dywedid am dano ar ol ei ymadawiad, gan y sawl a'i hadwaenent, "Ni chlywsom neb cyffelyb i Owen Jones o'r Cwyrt, am gadw *seiat*."—Eraill a ddywedent gyda theimlad dwys, "Nid oes o'i fath ar y ddaear heddyw." Yr oedd ei ras, ei ddawn, a'i weithgarwch, yr un mor ddysglaer a chanmoladwy a'u gilydd.

Ar y neillduad cyntaf a fu ar weinidogion i'r corff, Owen Jones oedd y gŵr a anfonwyd i gynrychioli gwlad Môn, yn y gynadledd bwysig hòno, yr hyn oedd brawf arbenig o'r cyfrif a wneid o hono gan ei frodyr. Ni fynai rhai o'r brodyr yno neillduo ond un i sir Fôn, ond fe fynai Owen Jones gael dau, a bu gryn ddadl ar hyny, ond o'r diwedd gofynwyd i'r cynrychiolydd a foddlonai efe i farn Mr. Charles? "Gwnaf," ebe yntau, "ond i mi gael gosod y mater o'i flaen ef fy hun." Caniatawyd hyn iddo, felly aeth ef a brawd arall at Mr. Charles. A'r canlyniad fu iddo ennill y gŵr da hwnw i'r un golygiad ag ef ei hyn, a phenderfynwyd neillduo Mr. Elias, a Mr. Llwyd, Beaumaris, ar unwaith.

Daeth ar ei feddwl tua'r fl. 1813, i gael capel newydd yn Nwyran, y cyntaf a adeiladwyd yn yr ardal, er fod yno bregethu eisoes er ys amser maith. Ac yn yr ymddyddan a fu yn y cyfarfod misol ar yr achlysur, cawn ddrych o'r hen bobl dda yn trafod materion o'r fath;—dull nad oedd dim niwaid ynddo pan mewn dwylaw da, ond dull na atebai i bob amgylchiad.

Mr. Jones, Bodynolwyn, o herwydd ei oedran a'i le yn y wlad, oedd y cadeirydd; gŵr yr oedd Owen Jones yn gyfaill mawr iddo, ac yn hŷf iawn arno; a gŵr hefyd a berchid yn fawr gan y frawdoliaeth oll. Cyfarchai Owen Jones ef fel hyn:

"Mae arnom ni, Mr. Jones, eisieu capel yn Nwyran acw."

"Y mae, Owen," meddai Mr. Jones, "pa beth a wnei di ag ef?"

"Pa beth bynag a wnaf fi ag ef, y mae yn rhaid i mi ei gael."

"Rhaid i ti ei gael?"

"Rhaid, Mr. Jones, pe costiai i mi haner cant o bunnau, o'm mhoced fy hun."

"Wel," ebe y Cadeirydd, "y mae'n rhaid iddo ei gael, mi welaf."—A dyna'r ddadl ar ben.

Gosododd gynllun yn ebrwydd ar droed i gael cyfraniadau ato, ond prin

yr oedd yr adeilad wedi ei orphen cyn iddo yntau orphen ei yrfa, "ei lafur a'i waith yr un wedd." Yr oedd wedi treulio 28 mlynedd yn Mon, a thros yr holl amser hyny yn llwyr ymroddgar i wasanaeth ei Dduw. Gwrandawai bob Sabboth y byddai gartref, mewn tri chapel, sef Llanddaniel (Gaerwen), Brynsiencyn, a Niwbwrch, y daith Sabboth, ac felly teithiai 15 milldir i'r pregethau bob Sabboth.

Dylasid dyweyd mai wedi ei ddyfodiad ef i'r wlad, a thrwy ei ffyddlondeb a'i egni ef, i radd fawr, yr adeiladwyd capel yn Mrynsiencyn. Yr oedd ei enw fel gŵr grasol, cymwynasgar, a chyfiawn, yn ddiareb yn mysg y sawl a'i hadwaenent ef.

Tua'r fl. 1794, ymwelodd yr Arglwydd â'r ardaloedd hyn ag adfywiad grymus iawn, y cyntaf a'r grymusaf a fu yma erioed. Effeithiodd yn rymus, nid ar y broydd hyn yn unig, ond ar Fon yn gyffredinol, a pharthau o Arfon. Dechreuodd ar ddydd ympryd gwladol, a gynelid yn achos y rhyfel oedd rhwng y wlad hon a Ffrainc. Ar ddiwedd dydd yr ympryd, penderfynwyd holwyddori y plant yn y cynulliad hwyrol; ond ar ganol y gorchwyl, gorfu ar yr holwyddorwr syrthio ar ei liniau i weddio, a hyny am na allai ymattal. Disgynodd cyffelyb deimladau ar y plant, y rhai, bellach, oeddynt yn ei gylchynu, ac yn gwaeddi am eu bywyd. Yn yr adfywiad hwn yr effeithiodd y gwirionedd gyntaf ar feddwl y Parch. David Jones, Dwyran, cymaint, o leiaf, fel na anghofiodd y tro byth ar ol hyny. Yr oedd ei ddylanwad gymaint ar yr ieuenctyd, fel nad aeth cymaint ag un o honynt i weled y rhedeg ceffylau a gynaliwyd gan y gwŷr mawr, o fewn llai na hanner milldir i'w tai.

Teimlodd Brynsiencyn yn ddwys iawn oddiwrth yr adfywiad. Yr oedd ymron bawb megys wedi eu caethiwo gan ei swyn. Nid oedd ond dau o'r aelodau eglwysig na orchfygwyd hwy i'r graddau na allent ymattal heb lefain; a dywedir am un wraig, na wnaeth hi ddim ymron am un wythnos gyfan, ond canu a chanmawl.

Fe fu amryw bregethwyr yn cyfaneddu y rhan yma o'r wlad, heblaw yr hen Richard Jones, Niwbwrch; sef John Edwards, Tre'r-dryw; Thomas Jones, Llanddaniel; Manuel Evans; ond oll, bellach, ac er ys blynyddau lawer, wedi diflanu; ac yn ddiweddaf oll, y Parch. David Jones, Dwyran. Yr oedd y gŵr diweddaf yn gristion gloyw ac unplyg, heb fod na rhodres na thwyll yn perthyn i'w gymeriad. Yr oedd yn bregethwr o syniadau gwreiddiol, ac yn dra chymeradwy fel cristion a gweinidog. Neillduwyd ef i weinyddu y sacramentau yn y fl. 1835, a bu farw dan effaith difaol y cancr ar ei wefus, mewn perffaith dangnefedd, wedi bod yn pregethu yn mhell ar hanner cant o flynyddau.

## LLANGRISTIOLUS.

Y traddodiad ydyw, mai yn y lle hwn yr adeiladodd y Methodistiaid eu capel cyntaf yn sir Fon, a hyny yn y fl. 1764. Ond yr oedd pregethu yn yr ardal flynyddau lawer cyn hyn. Dechreuodd y pregethu mewn tŷ anedd,

a elwid, Bryn-y-gors-bach, lle yr oedd un Robert yn byw, yr hwn a gyfenwid, gan amlaf, yn Robert y *Cowper*, gan mai cylchwr ydoedd wrth ei grefft. Un o hen gampwyr Mon oedd Robert yn ei dymhor; un a fedrai droedio y bêl yn gampus ydoedd; ac wrth ei throedio un Sabboth ar forfa Malldraeth y torodd ef ei glun, a bu hyny yn achlysur, nid yn unig i dori ei flys at y gamp hòno, ond at bob camp arall, oddieithr "camp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu."

Wedi ei ddychweliad at grefydd, dangosodd gyffelyb awyddfryd ac egni i'w gwasanaethu hi, ag a ddangosasai o'r blaen i wasanaethu chwantau ac amryw feluswedd. Derbyniodd bregethu i'w dŷ. Bellach, ni adawai lonydd i'w gymydogion heb eu cymbell i ddyfod i wrando yr efengyl, a phan y gwelai yr ieuenctyd ef yn dynesu atynt, pan yn berwi yn eu chwareuyddiaeth ar y Sabbothau, hwy ffoent rhagddo gan ei ofn, o herwydd ni allent oddef awch ei eiriau.

Dan arolygiaeth yr henadur ffyddlawn hwn, fe gynyddodd yr achos, a chwanegwyd amryw at yr eglwys; ac yn eu plith, yr oedd amryw o wŷr ieuainc, y rhai, yn raddol, a gyrhaeddasant raddau helaeth o wybodaeth, dawn, a defnyddioldeb; mwy, efallai, nag oedd gan yr hen gylchwr ei hun. Cymerodd y gelyn achlysur oddiwrth hyn i enyn eiddigedd yn mynwes yr hen ŵr yn erbyn y gwŷr ieuainc, gan dybied eu bod yn amcanu myned o'i flaen, ac y syrthiai yntau i ddiystyrwch. Ac er nad oedd dim gwir sail iddo dybied hyn, mwy na bod y natur ddynol yn dra darostyngedig i ddrygau o'r fath, eto syrthiodd yr hen gristion gymaint dan ddylanwad y dyb, nes ei gwbl ddifuddio. Ni wnai na chanu, gweddio, na chynghori neb yn y cyfarfodydd eglwysig; ac yn y cadwynau hyny y bu yn ymdroi dros ryw dymhor, yn anghysurus iddo ei hun, ac yn ddifudd i eraill.

Yr oedd hen bregethwr, o'r enw William Roberts, yn byw y pryd hyny yn Amlwch. Hwn a ddaeth i Langristiolus, wedi deall y wedd oedd ar y gymdeithas eglwysig, i edrych ai ni ellid gwellhau archollion Robert y Cowper; ac er mwyn dangos ansawdd pethau yn yr oes hòno, a dull yr hen bobl yn ymdrin â phethau o'r fath, rhoddir y darluniad canlynol gerbron, o'r hyn a gymerth le yn y cyfarfod eglwysig.

"Beth yw dy oed di, Robert?" gofynai y pregethwr.

"Hyn a hyn," oedd yr ateb.

"Pa nifer o blant sydd genyt?"

"Hyn a hyn."

"Beth yw dy grefft di?"

"*Cowper* ydwyf wrth fy nghrefft."

"I ba gelfyddyd yr wyt ti yn dwyn dy feibion i fyny?"

"I Gowperaeth," atebai Robert.

"A fedri di wneyd piserau mor hardd a llyfn yn awr ag a fedret ti gynt, pan yn mlodau dy ddyddiau?"

"O na fedraf, o lawer; yr wyf, bellach, yn hen a dwl."

"A ydyw dy feibion gystal crefftwyr a thi?"

"O ydynt, yn llawer gwell nag y bum i erioed."

"A wyt ti yn foddlawn iddynt ragori arnat ti?"

"O ydwyf: goreu po fwyaf y cynyddant mewn medrusrwydd yn eu crefft."

"Wel, Robert! a weli di y bechgyn ieuainc yma sydd wedi dyfod atat i'r eglwys? Tydi fu yn gweddio am eu troedigaeth;—tydi fu yn llafurio i gael pregethu i'r ardal;—tydi fu yn llawenychu yn eu dychweliad at Dduw;—tydi fu yn eu dysgu, ac yn eu cynghori;—mewn gair, *dy blant di ydynt y rhai hyn oll, Robert.* Yr oedd hyn yn ddigon; mewn mynyd, yr oedd enaid Robert yn rhydd; toddodd calon yr hen ŵr, a gwelodd ei gamsynied. Bu y tro hwn yn fendith iddo ef ac i'r eglwys; a pharhaodd, gyda bywiogrwydd a ffyddlondeb, i borthi yr ŵyn, ac i fugeilio y defaid, hyd angau.

Yn mhen ychydig, aeth yr haid yn rhy luosog i'r cwch yn Mryn-y-gors-bach, a bu raid symud i le mwy. Y tŷ nesaf a roes dderbyniad i'r achos, oedd Ty'n-y-pwll, lle y preswyliai un John Parry. Am hyn, bu gorfod i John Parry ymadael â'i dyddyn; ond gofalodd rhagluniaeth am dano, a chafodd dyddyn arall yn yr ardal, a elwir Maes-y-llan, yn yr hwn le y bu yn byw yn gysurus dros flynyddau lawer.

Bellach, daeth yr amser i adeiladu capel. Cafwyd lle i adeiladu gan un William Thomas, o'r Glyn, yn agos i fynydd Bodafon, dan rwym-ammod, am 999 o flynyddoedd, ar tua hanner erw o dir, am 4s. yn y flwyddyn o gydnabod. Cryn orchestwaith, mae'n debyg, y cyfrifid codi y capel cyntaf hwn yn Mon. Nid oedd, o bosibl, ond rhyw ddau neu dri o gapelau gan y Methodistiaid y pryd hyny yn holl Wynedd. A chan leied oedd nifer y crefyddwyr, a chan mor isel oedd eu hamgylchiadau, yn nghyda llawer o wrthwynebiadau oddiallan, yr oedd adeiladu capel yn anturiaeth o gryn bwys ac anhawsder.

Bu y capel hwn dan dô gwellt am y 13 mlynedd cyntaf ar ol ei godi; yna eangwyd ef, a rhoddwyd tô cerig arno. Yn y fl. 1810, helaethwyd ef i'w faintioli presenol. Diwedda fy ngohebydd trwy ddyweyd, "Mae genym lawer o destynau diolch fod yr achos yn y lle hwn wedi bod dan amddiffyniad a nawdd y Goruchaf; nes y mae y capel yn cael ei lenwi o gynulleidfa fawr o wrandawyr; ac y mae yma eglwys luosog, dangnefeddus, a llwyddiannus."

## CAPEL BETHEL.

Mae y capel a elwir ar yr enw Bethel, yn sefyll yn mhlwyf Trefdraeth, yn y dosbarth deau-ddwyreiniol o'r ynys. Mae y capel yn sefyll tua thair milldir o'r Aberffraw, yn y cyfeiriad tua Llangefni. Nid yw yn hysbys pa mor foreu y dechreuodd Methodistiaid bregethu yn y plwyf hwn; ymddengys, pa fodd bynag, fod yma ambell oedfa achlysurol yn cael ei chadw cyn fod un drws yn agored i dderbyn pregethu cyson ynddo.

Nid anhawdd ydyw i'r darllenydd ddyfalu pa fath ydoedd raid fod sefyllfa y plwyf hwn cyn i ymneillduwyr gael lle i roddi troed i lawr ynddo, oddiwrth

yr hanesyn a ganlyn: "Yr wyf yn cofio," meddai hen ŵr, "fod un Dr. Bowles, yr hwn oedd yn analluog i ddarllen Cymraeg, wedi cael personiaeth plwyf Trefdraeth, unwaith, a bod y plwyfolion, fel un gŵr, wedi codi yn ei erbyn. Y canlyniad fu i'r person fyned i gyfraith â'r plwyfolion, a chodwyd yr achos i'r *Court of Arches,* yn Llundain. Gwysiwyd chwech o'r plwyfolion i ymddangos yn y llys, i brofi anghymhwysder eu gweinidog. Yn mysg holiadau eraill, gofynwyd iddynt, "Pa iaith oedd y person yn ei defnyddio wrth ddarllen iddynt?" Hwythau a atebasant, na wyddent hwy pa iaith ydoedd, ond gwyddent yn dda mai nid Cymraeg oedd hi. Ar hyn, trodd y ddedfryd yn fuan yn erbyn y person, ac o blaid y plwyfolion; eto, archwyd ar y plwyfolion oddef i'r hen ŵr fwynhau ei fywiolaeth am ei oes; a rhwng bodd ac anfodd, cydsyniwyd i wneyd hyny, a daliodd ei swydd megys o oddefiad hyd ddiwedd ei oes."

Hawdd dychymygu mai ychydig o Gymry uniaith a welid yn y llan yn gwrando Dr. Bowles a hawdd dychymygu hefyd pa fath ydoedd ansawdd grefyddol, neu yn hytrach anghrefyddol, yr ardal, pan oedd athraw crefyddol y bobl heb fedru eu hiaith, a hyny mewn amser nad oedd dim moddion crefyddol i'w cael yn unlle arall o fewn y plwyf. Cof gan y darllenydd i ni wrth grybwyll ychydig am Richard Jones, o Niwbwrch, yr hwn, tybygid oedd un o bregethwyr henaf y wlad hon, ddarfod i ni son am yr erlid a fu arno yn yr ardal hon, pan yn ceisio pregethu i'r bobl. Yn ychwanegol at yr hyn a ddywedwyd yno, hysbysir mai y canghellwr Lewis, o'r Siamber-wen, a flaenorai yr erledigaeth. Yr oedd y pryd hyny gan bob teulu gorn, ac y mae gan lawer o amaethwyr eto, yr hwn a ddefnyddir i alw y teulu o'r maesydd at eu pryd bwyd. Ar yr achlysur y cyfeiriwn ato, yr oedd y canghellwr wedi sicrhau lluaws o'r plwyfolion i ddyfod gydag ef, ac i ddwyn pob un ei gorn i'r oedfa, yr hwn a guddid hyd amser priodol, o dan eu dillad. Ar waith y pregethwr yn rhoddi pennill allan i'w ganu, tynodd pob un ei gorn allan i'w chwythu; eraill a groch-nadent, fel ag i ddyrysu yr addoliad; a rhai a ddechreuent luchio cerig at y pregethwr. Gwelwyd yn bur fuan nad oedd dim gobaith cael llonyddwch i gadw yr oedfa; ac nid hyny yn unig, ond ei bod yn beryglus aros yn y lle; felly, ffoi a wnaeth Richard Jones; a thrwy afon Malldraeth, yn yr hon yr oedd cryn lanw ar y pryd, y cafodd ddianc i'w gartref. Ciliodd rhai o'r gwrandawyr i bentref Trefdraeth, gan lechu mewn tŷ yno, ac yn eu mysg yr oedd Siôn Rolant (yr Hafod ar ol hyn); deallodd y canghellwr eu bod yno, a daeth i'r tŷ, ac a ymaflodd yn ngwddf Siôn Rolant, gan ei ysgytio yn dost. Ceisiai Siôn Rolant amddiffyn ei hun, trwy ddyweyd mai gwrandawr, ac nid pregethwr, oedd ef. "Pa un bynag," atebai y canghellwr, "yr wyt tithau yn un o honynt, ac mi fynaf dy gosbi yn ddiarbed, oni roi di heibio eu canlyn."

Sonir am bregethwr arall yn ceisio pregethu yn yr un man, sef ar ben y Graig-wen, yr hwn hefyd a gafodd ei erlid yn gyffelyb i'r llall; ac wrth ganfod na fynai y terfysgwyr wrando ar ddim a ddywedai, efe a'u gadawodd, wedi dadgan, "Hyd yn nod y llwch, yr hwn a lynodd wrthyf, yr wyf yn ei ysgwyd

ymaith yn dystiolaeth yn eich erbyn," ddarfod i mi eich rhybuddio i ffoi rhag y llid a fydd!

Yn y tymhor hwn, pryd yr oedd y gwŷr mawr oll yn erbyn pob rhith o ymadawiad oddiwrth yr eglwys, a phryd hefyd yr oedd y werin yn offer ewyllysgar ganddynt i wneyd yr hyn a fynent, yr oedd yn anhawdd iawn cael un man mewn ardal, lle y gellid dysgwyl cael llonyddwch a seibiant i addoli, i'r ychydig bobl a ewyllysient hyny. Mae yn y fro hon fath o gytir eang, yr hwn oedd y pryd hwnw heb ei gau, sef Morfa Malldraeth. Ar y cytir hwn, gan ei fod yn lle cyffredin a dystaw, ac yn mhell o gartref y canghellwr, yr ymgynullai tyrfaoedd o bobl i wrando pregethau. I'r lle hwn, wrth dŷ bychan, o'r enw Ty'n-y-morfa, yr ymgasglai cryn luaws o bobl yn achlysurol. Cyferchid hwy gan William Lewis, Richard Jones, Hugh Griffith, ac eraill o'r hen bregethwyr; a melus y coffa a fyddai gan yr hen bobl am oedfaon Morfa Malldraeth, gan mor rymus a nerthol a fyddai yr arddeliad ar y weinidogaeth. Dychwelai minteioedd adref, rhai i'r Aberffraw, eraill i Niwbwrch, ac i wahanol gymydogaethau o amgylch, yn fynych dan foliannu Duw mewn hwyl nefolaidd, nes byddai y ffyrdd a'r bryniau yn adsain gan eu sain. Yr oedd y tymhor erlidigaethus hwnw yn dymhor o fwynhad. Os ymosodid ar y dysgyblion oddiallan, gan orthrwm, cysurid hwy yn gyfatebol oddimewn â mwynhad. Fel eu dydd, felly eu nerth.

Yr oedd y tymhor trallodus hwn ar grefyddwyr, yn dymhor cynydd ar grefydd. Fel yr oedd ar blant Israel yn yr Aipht, po fwyaf y'u gorthrymid, mwyaf oll yr amlhaent. Gallesid meddwl y buasai rhagfarn y werin, a dylanwad y mawrion, wedi ymgynghreirio â'u gilydd, yn llawn ddigon i lethu achos nad oedd na dysg na defod, cyfoeth na rhif, awdurdod na dylanwad, o'i blaid; eto methu a wnaeth pob ymosodiad, ac ar gynydd yr aeth y gwaith. Nid yw gwŷr mawr yn ddoeth bob amser. Hyn a wiriwyd yn y canghellwr. Wedi llwyddo i derfysgu ac aflonyddu ar y Methodistiaid pan yn pregethu mewn lleoedd heb eu cofrestru, ymhyfhaodd i estyn ei law yn erbyn eraill. Un Sabboth, medd yr ysgrif o fy mlaen, ar ol y gwasanaeth yn y llan, aeth i gapel yr Annibynwyr, a elwir capel Paradwys, gan daro y pregethwr yn ei ben i lawr yn y pulpud! Yr oedd hyn yn draha na ellid ei ddyoddef, yn enwedig mewn swyddog eglwysig, ac ynad heddwch. Anfonwyd cŵyn yn ei erbyn i Lundain; ac mewn canlyniad, anfonwyd swyddog o'r brif-ddinas i'w wasanaethu â gwys i ymddangos o flaen y llys. Parodd hyn y fath fraw a dychryn iddo, fel ag y clafychodd yn ebrwydd, ac y bu farw yn mhen ychydig wythnosau! Rhoes hyn derfyn ar aflonyddu addoliad o hyny allan.

Nid yw yn ymddangos fod pregethu cyson a sefydlog gan y Methodistiaid yn yr ardal hon cyn y fl. 1776. Yr oedd gŵr a gwraig, o'r enw Rowland a Jane Owen, yn byw mewn tyddyn o'r enw Glan-traeth, gerllaw y Morfa crybwylledig. Y rhai hyn a agorasant eu drws i dderbyn pregethu iddo, ac yn Glan-traeth y cadwyd y moddion am oddeutu 14 o flynyddoedd. Yn y fl. 1790, symudodd y teulu i Dre-ddafydd i fyw. Yma, bellach, y cedwid y moddion hyd y fl. 1804. Yn y flwyddyn hon ymunodd tuag 20 o nifer, y rhai a fuas-

ent hyd yn hyn yn aelodau yn Aberffraw, gan mwyaf, i ffurfio eglwys arni ei hunan yn Nhre-ddafydd. Rowland Owen, a Manuel Evans, oedd yn ei golygu; ac o hyn allan, gellir cyfrif bod pregethu cyson yn y lle. Yn y fl. 1810, bu adfywiad grymus ar grefydd yn y lle hwn, a chwanegwyd 12 neu ychwaneg o rifedi at y gymdeithas eglwysig. Yn y fl. 1814, symudwyd y moddion o Dre-ddafydd yn ol i Glan-traeth, lle yr oedd gwraig weddw yn preswylio, o'r enw Anne Williams. Bu y wraig hon a'i meibion yn dirion iawn at achos yr efengyl tra y cynelid y moddion yn ei thŷ. Y pryd hyn, cedwid y cyfarfodydd eglwysig yn Ty'n-'r-allt, cartref Henry Thomas. Fe fu yr achos crefyddol yn nhŷ Rowland Owen, o'r fl. 1776 hyd 1814, ysbaid maith o 38 o flynyddoedd, a mawr y ffyddlondeb a ddangoswyd ganddo ef a'i wraig, trwy weini pob ymgeledd a llety i'r pregethwyr a ddeuent yno yn eu cylch. Bu y wraig farw yn y fl. 1815, y flwyddyn gyntaf ar ol i'r pregethu gael ei symud o Dre-ddafydd, a'r gŵr y flwyddyn ganlynol. Wedi gwasanaethu eu cenedlaeth yn ffyddlawn, ac yn ol ewyllys Duw, rhoddwyd hwy i huno gyda'r tadau.

Yr oedd ysgol Sabbothol wedi ei dechreu yn Tre-ddafydd er ys naw mlynedd, neu ychwaneg, cyn marw y gŵr a'r wraig. A thua'r un amser, codwyd ysgol arall ar yr ochr arall i'r plwyf, yn Ty'n-llwyn, lle y preswyliai Manuel Evans, gŵr a fu yn bregethwr poblogaidd a derbyniol am lawer o flynyddoedd. Symudwyd yr ysgol yn mhen tua blwyddyn o Dy'n-llwyn i Dy'n-'r-allt, lle yn nes i ganol y plwyf; ac yn y fl. 1815, unwyd y ddwy ysgol yn y capel, yr hwn a godwyd, fel yr ymddengys, yn y flwyddyn hono.*

Gwelir cynydd yr achos yn y cyfrif a ganlyn :—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn | 1804 | yr oedd | 20 | o aelodau. |
| — | 1810 | ,, | 35 | ,, |
| — | 1815 | ,, | 55 | ,, |
| — | 1821 | ,, | 80 | ,, |
| — | 1822 | ,, | 200 | ,, |

Felly, mewn llai nag ugain mlynedd, yr oedd nifer y cymunwyr wedi lluosogi o 20 i 200 o rifedi. Blwyddyn o adfywiad rhyfeddol ar yr achos yn Bethel, a manau eraill yn Mon, oedd y flwyddyn 1822,—tymhor yr oedd y rhai a fu yn hau mewn dagrau, yn cael medi mewn gorfoledd,—tymhor y cafodd yr hwn a fu yn myned rhagddo ac yn wylo, gan ddwyn had gwerthfawr, ddyfod drachefn mewn gorfoledd, gan gasglu ei ysgubau. Yn yr adeg hyfryd hon, yr oedd Seion yn llawen-fam plant: yr oedd y gwlaw graslawn yn disgyn yn gawodydd cynyrchiol, ac etifeddiaeth Arglwydd y lluoedd yn cael ei gwrteithio wedi blino. Rhoddid y fath rym yn y weinidogaeth nad oedd neb yn abl ei gwrthsefyll. Dynion celyd yn toddi fel cwyr; meibion a merched gwamal ac annystyriol yn cael eu dal megys â gwŷs brenin; plant ieuainc yn mwynhau profiadau henafgwyr; dynion digrefydd yn sefyll yn

* Llafurus a ffyddlon iawn gyda'r ysgol Sabbothol a fu Robert Owen, Careg-yr-iar, a William Griffith, Careg-ruffydd.

syn, gan ofyn, "Pa beth a all hyn fod?" gwrthgilwyr yn troi yn ol, wedi eu dwys-bigo yn eu calonau; a phob teimlad anghysurus wedi toddi ymaith fel yr iâ yn ngwres yr haul. Disgynai y syniad i feddwl pob edrychydd ystyriol, "Bys Duw yw hyn!"

Mae yn aros yn eglwys Bethel yn awr, sef yn y fl. 1853, tua 180 o aelodau, a hyny ar ol llawer o farwolaethau a symudiadau, ac hefyd ar ol i ddwy haid godi o honi, un i Soar, tua dwy filldir i'r Gogledd-orllewin, un arall i le a elwir yr *Yard*, tua'r un bellder i'r de-ddwyrain. Rhwng y tri lle hyn, y mae tua 350 bob Sabboth dan addysg grefyddol, yn cynwys rhai o bob oedran, o'r plentyn pedair blwydd oed hyd at yr hen ŵr triugain.

---

## PENNOD III.

### HEN EGLWYSI DEHEUOL Y SIR.

CYNWYSIAD:—

PREGETHU ACHLYSUROL YN ABERFFRAW—DWY HEN FERCH YN LLOCHI YR ACHOS—WIL WILLIAM PRYS, Y GOF—GWAWDIO PREGETHU—MR. WILLIAMS, LLEDROD—Y GYMDEITHAS EGLWYSIG GYNTAF—CAPEL HUDDYGL—DYFODIAD PREGETHWR I HENLLYS-FAWR—HANES EVAN THOMAS—JOHN OWENS, PLAS—ADEILADU CAPEL NEWYDD—GRIFFITH EDWARD—WILLIAM EVANS, BETHANIA—SEFYDLIAD YR YSGOL SABBOTHOL, AC ADEILADIAD Y CAPEL—TRE-WALCHMAI—PARCH. RICHARD LLWYD.

#### ABERFFRAW.

MAE hanes ar gael yn mhlith yr hen bobl fod pregethu, achlysurol o leiaf, yn yr ardal hon, mor foreu a'r fl. 1760; a bod y pregethwyr a anturient yma, y pryd hwnw, wedi cyfarfod â llawer o ddirmyg a gwaradwydd, ond llai o'u baeddu a'u harcholli nag a brofwyd mewn rhai manau eraill. Ar yr un pryd, yr oedd y gwrthwynebiad i'r sect newydd ddyeithr hon, yn gryf a phenderfynol iawn. Ond tra yr oedd y gwŷr mawr, a gwŷr urddasol y fro, yn nghyda chorff y bobl gyffredin, yn bygwth yn wgus, ac yn gwawdio yn ddiystyrllyd, tueddodd yr Arglwydd galonau dwy hen ferch yn y dref i roddi gradd o wyneb a derbyniad i'r pregethwyr a ddeuai atynt. Caniatawyd i Lewis Evan, Llanllugan,* unwaith sefyll i bregethu wrth dalcen bwthyn un o honynt. Ar hyn, enynodd y fath ffyrnigrwydd yn mynwes rhyw ddyn o ôf, yr hwn a elwid Wil William Prys, fel ag y prysurodd i roi haiarn yn tân, a thyngai y mawr lw y rhoddai yr haiarn gwynias trwy *gorn ei wddf* ef; ac yn ebrwydd canfyddwyd ef, fel dyn wedi ei feddiannu gan ddiafol, â'r haiarn poeth yn ei law, yn rhedeg tua'r lle yr oedd y pregethwr yn sefyll, gan amcanu yn ddiau ei niweidio yn drwm, os nad ei ladd. Trwy gael hysbysiad dioed o'i berygl, ciliodd y pregethwr o'r ffordd, a hyny, o'r braidd, cyn i'r

* Gwel ei hanes Cyf. I., tudal. 123.

creadur cythreulig ei gyrhaedd. Yr oedd gwrthwynebwyr crefydd, lawer o honynt, er na fynent eu hunain fod yn euog o'r fath anfadrwydd, yn ddigon llawen fod iddynt y fath offeryn a Wil y gôf; ond nid hir y rhoddwyd iddynt fwynhau y llawenydd hwnw, oblegid symudwyd y gôf druan i fyd arall, yn mhen ychydig iawn o amser ar ol y tro uchod.

Rhyw dro arall, yr oedd offeiriad o'r deheudir, o'r enw Hughes, wedi ymweled ag Aberffraw i bregethu. Cafodd ganiatâd i sefyll wrth dŷ gŵr o'r enw Owen William Cellar, yn nghŵr y dref. Penderfynodd yr erlidwyr y mynent hwythau eu cynulliad gerllaw yr un lle; a phan oedd y pregethwr wrth ei orchwyl ef, ymroisant hwythau i droedio y bêl â'u holl egni. Yn mhen ychydig, hyrddiwyd y bêl i ganol y gwrandawyr, a threiglodd at draed Owen William Cellar, yr hwn oedd berchen y tir. Nid oedd y gŵr hwn yn cymeryd arno fod yn grefyddol, ond yr oedd yn meddu ar synwyr a phwyll, ac yn penderfynu ystyried pethau drosto ei hun. Yr oedd hefyd yn ddyn cryf o gorff, a gwrol o feddwl; a phan ddaeth y bêl ato, ac eisoes yn teimlo yn anfoddog na chawsai y sawl a ewyllysient wrando lonyddwch i hyny, efe a gododd y bêl, ac â'i gyllell a'i torodd yn ei hanner, gan ddatgan y gwnai ef yr un peth â phwy bynag a feiddiai aflonyddu y cyfarfod; "o herwydd," eb efe, "nid yw y pregethwr yn gofyn dim genych, nac yn aflonyddu dim arnoch; a chan hyny, mi fynaf finau lonyddwch iddo yntau." Dywedir i'r bregeth hon fod yn foddion iachawdwriaeth i laweroedd.

Bu Mr. Williams, Lledrod, yn pregethu yn Aberffraw mewn amser boreu ar Fethodistiaeth yno, a bu ei ddyfodiad yn dra bendithiol i'r gymydogaeth. Rhoddir enghraifft o dywyllwch dudew y trigolion (ac nid ydyw, yn ddiau, ond drych i arddangos sefyllfa llaweroedd yn y tymhor hwnw), yn yr ymddyddan canlynol. Gofynai merch i'w mam, wrth fyned adref, wedi bod yn gwrando Mr. Williams, "Pwy oedd yr Iesu Grist yr oedd y pregethwr yn son cymaint am dano?"

"Fy ngeneth fach i, ni wn i ddim; nid adwaenais i neb o'r enw. Mae'n debyg mai rhyw ddyn cymwynasgar o Sais ydoedd," oedd ateb y fam.

"Nage," ebe y tad; "oni wyddoch chwi fod Duw wedi gwneyd Iesu Grist, wrth iddo farw ar y groes, yn Geidwad i bobl y byd; ac mi *waranta* mai hwnw yr oedd y gŵr yn son am dano."

Ond er tywylled oedd y teulu hwn, wreiddyn a changhen, eto yr oedd eu hystyriaeth wedi ei ddeffro, ac awydd i wybod mwy am y pethau hyn wedi ei enyn; a buan y daethant i adnabod ac i brofi y pethau a berthynent i'w heddwch.

Bu yr achos yn wanaidd yn Aberffraw yn hir ar ol dechreu pregethu yn achlysurol yn y lle. Nid oedd eto nemawr ddefnyddiau eglwys, er fod yma amryw wedi cael blas ar air y bywyd. Bu y lle yn hir heb gynulliad eglwysig, ac heb weinidogaeth gyson; a mynych y cyrchai rhyw rai o'r ardal i Langristiolus, neu i Lanerchymedd, i oedfa, pan glywent fod yno bregeth i'w dysgwyl. Er hyn oll, yr oedd y gwaith yn ymsefydlu fwy fwy, trwy fod dyfodiaid o ardaloedd eraill yn dyfod i drigiannu yn yr ardal. Daeth gŵr a

gwraig yma i fyw o Gaerlleon, a thrwy wrando rhyw bregeth, ennillwyd y wraig at grefydd. Daeth gŵr o'r enw Robert Parry, o gymydogaeth Llangristiolus, yma i fyw, yn nghydag un John Thomas Pierce, a'i deulu, y rhai a ennillwyd i gymeryd yr iau arnynt, ac i achlesu yr achos Yr oedd hyn, meddir, tua'r fl, 1771. Y flwyddyn ganlynol, ymunodd y tri uchod, sef Robert Parry, John Thomas, ac Ann, gwraig Thomas Evans, i gynal cyfarfod eglwysig. A mawr y twrf a barodd hyn yn y pentref. Galwyd y cyfarfod hwn yn "weddi dywyll;" a chan yr eiddigeddai y crefyddwyr cyntaf na ddelai neb i'r cynulliad eglwysig, na hen nac ieuanc, ond y ceffid arwyddion lled amlwg o law Duw arnynt, rhoddwyd mwy o achles nag a fuasai raid i'r enllib a ledaenid am danynt. Mawr fu yr hwtio a'r gwaradwyddo a fu ar y tri hyn, dros ryw dymhor, o achos eu bod yn ymneillduo i ymddyddan â'u gilydd yn nghylch gwaith gras ar eu heneidiau. Tua'r amser hwn, cafodd Robert Parry ar ei feddwl neillduo tŷ anedd i fod yn addoldy, oblegid hyd yn hyn nid yw yn ymddangos fod ganddynt un lle sefydlog i bregethu, os oedd un lle hefyd heblaw yr awyr agored. Galwyd yr addoldy newydd, sef y tŷ anedd a roddasid i bregethu ynddo, yn "*Gapel Huddygl;*" ac wrth yr enw hwn yr adnabyddid ef yn gyffredin.

Bellach, ymrödd yr ychydig grefyddwyr yn fwy nag o'r blaen i gael pregethu cyson i'r addoldy; a chan nad oedd cyfarfod misol rheolaidd yn y wlad, nid oedd un cyfleusdra i gael gafael ar bregethwyr, ond trwy dori i'w cyfarfod i ba le bynag y clywid eu bod i ddyfod. Felly aent, yn fynych, 15 neu 20 milldir o ffordd i gyfarfod â phregethwr, er mwyn cael addewid ganddo i ddyfod i'r Aberffraw. Y pryd hyn, yr oedd Evan Griffiths, Chwaen-hen; William Lewis; Owen Thomas Rowland, ac eraill o'u cydoeswyr, yn ymweled ag Aberffraw, yn nghydag ambell un o siroedd eraill y gogledd, neu o'r deheudir; a rhyfeddol, meddir, a fyddai y grymusderau a brofid, weithiau, yn y "Capel Huddygl." Yr oedd y gwrandawyr, bellach, yn lluosgi, a nifer y crefyddwyr yn amlhau, a'u sel hefyd yn cael ei wresogi fwy fwy. Mynych yr âi nifer o honynt, pan y byddai gŵr o fwy o enwogrwydd nag arferol yn y wlad, i Amlwch erbyn 9 o'r gloch boreu Sabboth, Llanerchymedd erbyn 2 o'r gloch prydnawn, ac Aberffraw erbyn yr hwyr, wedi teithio, rhwng myned a dychwelyd, 40 milldir o ffordd. Tua'r fl. 1776, medd yr ysgrif sydd o fy mlaen, torodd adfywiad grymus ar yr achos crefyddol yn yr Aberffraw, yr hyn a barodd chwanegiad mawr at y dysgyblion; ac o hyn allan, golygid fod Methodistiaeth wedi ymwreiddio yn yr ardal. Ennillodd, bellach, oruchafiaeth. Ni bu, o hyn allan, yn wrthddrych gwawd, ac yn cael ei archolli gymaint gan enllibiau. Tua'r tymhor hwn y cafodd Richard Jones, mab i'r gŵr a gadwai fasnachdy yn Nhrefdraeth, ei dueddu i wrando, a'r hwn ar ol hyn a fu mor ddefnyddiol gyda'r achos yn Nghaergybi.*

Yn y fl. 1780 y daeth Mr. John Jones, pregethwr, ac un John Thomas, gŵr crefyddol arall, i fyw i Henllys-fawr, tyddyn eang yn y gymydogaeth, a

* Gwel yn mhellach am dano yn hanes Caergybi.

rhoes eu dyfodiad ysgogiad grymus i'r achos crefyddol yn ei flaen. Gŵr oedd John Jones, ganedig o sir Aberteifi; yn y sir hòno hefyd y dechreuodd bregethu. Gauwyd ef yn y fl. 1747, ac ar ddymuniad rhyw foneddiges, daeth trosodd i sir Gaernarfon i gadw ysgol, ac i bregethu. Yn y wlad hòno y priododd, ac y bu fyw dros ryw dymhor. Tua'r fl. 1780, pan ydoedd yn 33 ml. oed, daeth ar ddymuniad rhyw gyfeillion, i Fôn i fyw. Cymerodd y fferam fawr a enwyd, mewn cysylltiad ag un Evan Thomas, gŵr ag oedd gyfaill iddo, ac a droisid allan o'i dyddyn yn Aberdaron, Lleyn, o herwydd ei grefydd. Bu y ddau ŵr hyn yn cyd-lafurio yn y tyddyn am ysbaid dwy flynedd; ac ar ol y tymhor hyny, symudodd Mr. John Jones i fyw i Bodynolwyn, lle y preswyliodd o hyny allan tra fu byw.

Bu dyfodiad y gŵr hyn i Henllys-fawr, o wasanaeth mawr i Fethodistiaeth Aberffraw, yn enwedig yr eiddo John Jones. Ac nid Aberffraw yn unig a fedodd ffrwyth oddiwrth lafur y gŵr parchus hwn, ond y wlad yn gyffredinol. Ymgysegrodd i wasanaethu yr achos crefyddol dros weddill ei oes. Bu yn llafurio yn y wlad hon am ysbaid 34 o flynyddoedd. Edrychid arno fel blaenor y cyfarfod misol am yr holl amser y bu ef yn preswylio yn y wlad. Yr oedd pregethwyr cyntaf y sir yn dechreu heneiddio pan ddaeth ef i'r wlad, ac nid oedd llawer o gymhwysder yn y rhan fwyaf o honynt i hwyluso achosion cyfarfodydd o'r fath. Nid oedd y gŵr enwog a ymddangosodd yn y wlad yn ddiweddarach ond ieuainc gyda'r gwaith, pan oedd tymhor Jones, Bodynolwyn, ymron wedi terfynu; felly rhwng fod y naill yn hen, a'r lleill yn ieuainc, disgynai llywyddiaeth yr achos yn y wlad yn naturiol i'w ddwylaw ef. A bu ef ffyddlawn i'r ymddiried a roddasid ynddo. Ar ei ddyfodiad cyntaf i'r wlad, a phan nad oedd Methodistiaeth, mewn llawer parth, prin yn adnabyddus oddieithr trwy enllibiau, cyfarfu Mr. Jones â graddau o erlidigaeth trwy gael ei luchio â thom ac â cherig ar rai achlysuron. Ond nid oedd yn gwneuthur cyfrif o ddim o'r fath; yn hytrach cyfrifai yn fraint ei fod yn cael ei gyfrif yn deilwng i ddyoddef anmharch er mwyn yr enw rhagorol oedd arno. Hynodid ef am ei fanylrwydd yn cyflawni ei gyhoeddiadau, ac yn dechreu yr addoliad yn yr adeg a gyhoeddwyd, ïe, i'r fynyd. Safodd yn wrol yn erbyn adeiladu capelau dan ddyled, a llwyddodd hefyd yn ei dymhor ef i gael ei amcan; ac er na safwyd at yr un rheol ar ol ei farwolaeth, eto y mae yn Mon heddyw frodyr a wnaeth orchestwaith yn hyn, nid trwy attal y cyfarfod misol rhag tynu dyled arno, ond trwy ei gael allan o ddyled ar ol myned iddi.

Crybwyllasom fod gŵr o'r enw Evan Thomas wedi dyfod i Henllys-fawr yr un amser a Mr. Jones. Dyddorol, yn ddiau, a fydd gan y darllenydd gael gair am y gŵr hwn, er mwyn dangos y tywydd garw a gyfarfyddai â'u henafiaid gyda'u proffes, ac er dangos hefyd fel y byddai eu hymlid o'r naill le yn foddion i rwyddhau y gwaith mewn manau eraill.

Ganesid Evan Thomas, mewn tyddyn yn Aberdaron, o'r enw Tri-hobaid. Cafodd ddygiad i fyny da, yn mhell uwchlaw y cyffredin. Yr oedd yn meddu rhyw gymaint o wybodaeth yn yr ieithoedd Groeg a Lladin, yn gystal a

Saesonaeg. Yr oedd yn ddyn mawr, cryf, a gwisgi, ac yn rhagori yn nghampau ei oes a'i wlad. Cytunodd ef, a thri eraill o Aberdaron, gyfarfod â phedwar o ddynion o Fon i chwareu *ffeils* am y goreu i gastell Caernarfon, ar ddydd Llun y pasg ; ond cyn i'r amser penodedig ddyfod i fyny, yr oedd y dynion a gyfansoddai y ddwy blaid, wedi eu dysgu i ganfod ofered oedd y fath orchwylion, ac wedi ymroddi i wasanaeth mwy anrhydeddus. Yr oedd gŵr dyeithr o'r deheudir, fel y bernir, i fod yn pregethu mewn congl cae neu faes yn nghymydogaeth Aberdaron, a hyny ganol nos rhag ofn yr erlidwyr. Ond yr erlidwyr a glywsant, ac yn eu mysg yr oedd pedwar o ben campwyr Aberdaron. Y terfysgwyr a benderfynasant fyned i'r lle yn yr amser, gan lawn fwriadu niweidio, os nad lladd, y pregethwr.

Aeth yr haid erlidgar i'r lle; a chyn ymosod ar y pregethwr, cytunasant aros dros enyd o'r neilldu, er mwyn cael difyrwch o glywed y crefyddwyr yn moliannu, cyn codi terfysg; ond wrth wrando, dwysbigwyd hwy eu hunain yn eu calonau, ac yn lle erlid y neb a dorai allan i waeddi, cafwyd hwy eu hunain yn llefain yn groch, gan ddychrynfeydd cydwybod wedi ei deffro; ac yn eu mysg yr oedd Evan Thomas. Aeth i fyw ar ol hyn i Bodarnawy, yn Aberdaron, ond ychydig o lonydd a gafodd. I'r graddau yr oedd ef yn dyfod yn amlwg gyda chrefydd, i'r un graddau y byddai gwrthwynebiad iddo yn cryfhau. O'r diwedd, penderfynodd y clochydd a'r ficer i gael gwared o hono yn llwyr o'r parth hwnw o'r wlad. Aethant at Mr. Wynne, Cefnamwlch, ei feistr tir, i achwyn arno, gan dystio mai efe oedd y pengrwn penaf yn y wlad, a'i fod yn gwneyd ei oreu i dynu y bobl o'r eglwys, a'u gwneyd yn ddiserch at y llywodraeth. Mewn canlyniad, anfonwyd am dano i Gefnamwlch, pryd y gosodwyd y cyhuddiad yn ei erbyn, ac nad oedd dim iddo i'w wneyd ond un ai ymadael â'i dyddyn, neu â'i grefydd; a bod yn rhaid iddo roddi ateb y pryd hwnw. Yntau a ddewisodd ymadael â'i dir, yn hytrach nag â'i broffes; gan ardystio, ar yr un pryd, gan ei fod yn talu ei ffordd, mai trais a chreulondeb oedd troi dyn i ffordd o'i dyddyn yn unig am ei fod yn hòni hawl i farnu drosto ei hun mewn pethau crefyddol. Felly ymadael a wnaeth. Ond nid digon oedd hyn o sarhad a cholled, ond gosodwyd dynion diras ar waith i'w ymlid a'i flino, aed i'r lle yr elai. Yr ymosodiad diweddaf a fu arno oedd ar ben Garn-fadryn,* lle y cafodd yr erlidwyr ef ar ei liniau yn gweddio; bu raid iddo ddianc ar ffrwst, gan y gawod gerig a deflid ato. O hyn allan, penderfynodd ymadael â'r wlad, ac wedi cytuno â John Jones, ei gyfaill, fel y crybwyllwyd, cymerwyd Henllys-fawr rhyngddynt. Nid hir y bu Evan Thomas yn y tyddyn mawr hwn ar ol i'w gyfaill fyned i Bodynolwyn, ond wedi yfed graddau helaeth o gwpan profedigaethau, ymadawodd. Cawn ef ar ol hyn yn Llanerchymedd, a thrachefn yn Amlwch, lle y gorphenodd ei yrfa mewn tangnefedd, wedi gwasanaethu yr achos crefyddol am ysbaid 60 mlynedd. Bu colled sir Gaernarfon yn ennill i sir Fon.

Tua'r amser y daeth y ddau ŵr uchod o Leyn i fyw i Henllys, y cododd

* Mynydd uchel yn Lleyn.

William Evans, o'r Aberffraw, yr hwn a fu, dros ryw dymhor, yn flaenor, ac wedi hyny yn bregethwr, a'r hwn hefyd a wasanaethodd yr achos gyda ffyddlondeb mawr.

Tua'r fl. 1784, daeth gŵr crefyddol arall, o'r enw John Owens, i fyw i Blas-Llangwyfan. Daeth yma o'r Cwyrt, a thaid ydoedd i'r henuriad Mr. John Jones, yr hwn a fu yn ddiacon yn yr eglwys hon am ysbaid 34 o flynyddoedd. Yr oedd John Owens yn ŵr galluog yn y byd, yn barchus fel gwladwr, ac yn ŵr dichlynaidd a hardd fel crefyddwr. Cafodd wrthwynebiad cryf iawn oddiwrth ei wraig, yr hon oedd yn dra gelynol at y Methodistiaid, ac yn peri anghysur mawr i'w gŵr mewn canlyniad. Ymdrechai â'i holl egni i'w attal ef i'r bregeth, ac i'r cyfarfod eglwysig. Ni welwyd hi ond unwaith yn plygu ei gliniau ar amser y ddyledswydd deuluaidd, a'r unwaith hyny pan oedd tymhestl o daranau a mellt wedi ei dychrynu. Ond, ar ol i'r ystorm fyned heibio, disgynai drachefn i'w hen agweddau, ac yn waeth, os yn bosibl, nag o'r blaen. Un tro, fel yr oedd yn blino ei gŵr trwy drahausder câs, galwodd John Owens ar y gwas i ddwyn ei geffyl wedi ei gyfrwyo, iddo, at y drws. Aeth ar ei gefn, fel un parod i daith, a galwodd ar ei wraig ato, gan ddyweyd, "Wel, Annas, yr wyf yn barnu ein bod yn llawer tebygach i fod yn felldith i'n gilydd nag yn fendith. Yr wyf wedi penderfynu mai gwell ydyw bod mewn congl ar nen tŷ, nag mewn tŷ mawr eang, gyda gwraig anynad; ac felly yr wyf yn ffarwelio â thi heno am byth!—mae yn well genyf ymadael â thi, nag â chrefydd Iesu Grist!"

Disgynodd ei gyfarchiad ar ei chlustiau fel twrf taran, mor ddisymwth ac mor ofnadwy. Torodd allan i wylo, a chyda dagrau ymbiliodd arno beidio ei gadael; "Disgynwch, John Owen bach, ac ni ddywedaf air wrthych yn erbyn eich crefydd byth mwy!" Yr oedd ei amcan, bellach, wedi ei ennill, a disgynodd yn ewyllysgar, a chadwodd y wraig ei haddewid o hyny allan.

Aeth y gwrando yn fwy-fwy lluosog; aeth y "Capel Huddygl" yn rhy fychan; rhoddwyd ffenestr fawr arno, lle y gallai y pregethwr sefyll, ac felly gyfarch y gynulleidfa, yr hon a fyddai yn llawn cymaint oddiallan ag oedd oddifewn. Coronid y weinidogaeth yn fynych â grymusder anarferol, nes toddi y gynulleidfa mewn dagrau, ac y parhaent i foliannu hyd oleuni y dydd dranoeth. Soniai yr hen bobl lawer am ryw oedfaon tra hynod a gawsid dan weinidogaeth William Lewis, a Robert Roberts, Clynog, oedfaon a fyddai yn fwy cynyrchiol mewn ychydig oriau, na rhai cyffredin dros flynyddau—cyffelyb i'r "helfa fawr o bysgod," pan ar orchymyn yr Iesu, i'r dysgyblion fwrw y rhwyd i'r deau i'r llong.

Tua'r fl. 1785, meddir, adeiladwyd capel newydd, y cyntaf a *godwyd* i'r dyben hwnw, wedi bod yn ymgyfarfod yn "*Nghapel Huddygl*" am ysbaid 12 mlynedd neu fwy; ac er gwaeled yr olwg ar hwn, bu hiraeth ar lawer am y mwynhad hyfryd a gawsent ynddo laweroedd o weithiau. Tua'r amser y codwyd y capel newydd, neu yn fuan wedi hyny, y daeth un i fyw i'r gymydogaeth a fu o wasanaeth tra mawr i'r gwaith, nid yn Aberffraw yn unig, ond yn sir Fon yn gyffredinol, sef Griffith Edward, o'r Clafdy. Yr oedd yn

ddiacon cyn dyfod i'r Aberffraw, sef yn Llangoed, ond nid yw yr ysgrif yn hysbysu pa faint o amser, cyn iddo symud ei drigfa. Hyn sydd sicr, ddarfod iddo gael ei alw at grefydd pan nad oedd ond yn brin 18 ml. oed, ac nid oes amheuaeth na chychwynodd ar waith henuriad eglwysig yn y fan y cafodd brofi graddau o danguefedd yr efengyl, ac yn mhell cyn iddo wybod beth oedd y swydd, a chyn bod eglwys yn alluog i'w alw iddi, na rheolau gosodedig i'w gosod ynddi. Bu farw yn y fl. 1847, yn 86 ml, oed, "wedi gwasanaethu sydd diacon yn dda" dros 68 o flynyddoedd. Arferai ddyweyd ei fod yn henach na chyfarfod misol Mon, ac nad oedd mantais ganddo ar ei gychwyniad i gael pregethwr i'w ardal, ond ymofyn am dano goreu a allai, ac yn fynych "y cyntaf ei droed, a'r gwresocaf ei galon, a ennillai y dydd." O ganlyniad, yr oedd o werth annhraethol i ardal gael dyn ynddi a fyddai yn effro a llafurus yn ymofyn am bregethu iddi, pryd nad oedd eto un gyfundrefn reolaidd i wneuthur hyny; ond y cwbl yn dibynu ar lafur personol un neu ddau o ddynion. Bu Griffith Edward, nid yn unig yn ddiacon gofalus a chyson, ond bu ei dŷ hefyd yn llety i'r pregethwyr a ddeuai i'r ardal o ddc a gogledd am yr amser maith o 60 mlynedd. Yr oedd ei wraig hefyd, heb gydweithrediad yr hon ni allasai wneuthur y caredigrwydd hwn, o'r un ysbryd ag yntau. Gellir meddwl, os yw "gweithredoedd y saint yn eu canlyn" i'r byd a ddaw, ac os ydyw fod "ffrwyth yn amlhau" yn rhywbeth erbyn y "cyfrif," mai "*mawr* a fydd gwobr y cyfryw rai yn y nefoedd."

Yn mhen tua 17 o flynyddoedd, aeth y capel yn rhy fychan eilwaith, a chwanegwyd y gofod ynddo trwy osod oriel *(gallery)* ar bob talcen iddo. Parhaodd yr addoldy yn y wedd yma am 20 mlynedd; ond o herwydd fod y gynulleidfa yn lluosocach nag oedd lle iddynt, bu raid tynu yr hen gapel i lawr, ac yn fl. 1822 adeiladwyd un newydd. Mae hwn eto, er ei fod yn adeilad helaeth, yn rhy fychan i'r gynulleidfa, a chwyno mawr am ei helaethu. Mae nifer yr aelodau, bellach, tua 200 o rifedi, a'r ysgolorion Sabbothol yn gyffelyb mewn rhifedi.

Bu yma bregethwr o'r enw William Evans yn byw yn Aberffraw am flynyddoedd rai. Drwg genym na allwn roddi hanes y gŵr hwn, ond ni ddaeth dim hysbysiad am dano i law. Oddiar ryw ymddyddanion damweiniol am dano, deallasom ei fod yn rhagori o ran dawn a phoblogrwydd ar lawer o'r hen gynghorwyr, a'i fod wedi bod yn dra ffyddlawn a llafurus yn y gwaith tra y gadawyd iddo aros ar y maes. Os nad ydym yn camgofio, deallasom hefyd ddarfod iddo gael ei alw i orphwyso yn nghanol ei ddyddiau, a bod ei goffadwriaeth yn fendigedig.

## BETHANIA.

Mae y capel a elwir ar yr enw hwn yn mhlwyf Llangaffo; ac er nad ydyw Methodistiaeth yn y lle hwn ddim yn gallu hòni llawer o henafiaeth, eto y mae golwg siriol ac iraidd arno, a'i gynydd, ac ystyried adeg ei gychwyniad, wedi bod mor brysur a llwyddiannus ag un lle arall ymron yn yr holl wlad.

Ysgrifenwyd swm yr hyn a ganlyn gan y diweddar Hugh Williams, o'r Fron-deg, tua 19eg mlynedd yn ol, yr hyn a ddyry olwg ar y modd y cafodd Methodistiaeth ei sefydlu yn y gymydogaeth hon.

"Yr oedd yma ychydig nifer, o feibion a merched, mewn cyfammod eglwysig â'r frawdoliaeth yn Niwbwrch. Ond yr oedd y ffordd yn mhell, a'r anghyfleusdra yn fawr i gael moddion gras gyda dim cysonedd. Ymgymysgent weithiau mewn cyfarfodydd gweddio, ac yn yr ysgol Sabbothol, gyda'r Annibynwyr; eto yn dyhëu am gael lle iddynt eu hunain i addoli. Nid oedd y gwaith ychwaith ddim yn myned yn mlaen yn llwyddiannus yn y Groeslôn; ac erbyn y fl. 1831, yr oedd yr ysgol Sabbothol ymron wedi diffodd. Yn y cyfamser, arferai rhyw nifer o Fethodistiaid a gyfaneddent yn yr ardal, ymgynull i'r tŷ hwn neu arall, i gynal cyfarfodydd i weddio; ac ar eu dychweliad un noson o un o honynt, safodd tri neu bedwar o honynt ar y ffordd, gan ymofyn â'u gilydd, ai nid oedd dim yn eu gallu hwy er defnyddio rhyw foddion ychwanegol i lesâu eu cymydogion, ac yn enwedigol y bobl ieuainc; y rhai, lawer iawn o honynt, oeddynt heb fedru darllen y Beibl, ac heb awydd am ddysgu. O'r diwedd, amneidiodd un o honynt, ai ni fyddai yn well gofyn i'r person, (offeiriad y plwyf,) a ellid cael benthyg "yr ysgubor ddegwm" dros ryw dymhor, i gadw ysgol Sabbothol ynddi. Cipiwyd yr amnaid hwn i fyny, a phenderfynwyd myned at yr offeiriad yn ddioed. Hyny hefyd a wnaed; derbyniwyd yr archiad gan y gŵr parchedig gyda hynawsedd mawr, a chaniataodd iddynt eu dymuniad. Yr oedd hyn yn mis Chwefror, 1831. Dechreuwyd yr ysgol yn ddioed: daeth iddi y Sabboth cyntaf 72 o ysgolorion. Yn y cyfamser, yr oedd ambell un yn ymddwyn yn rhy debyg i Sanbalat a Tobia gynt, yn gwawdio ac yn diystyru y cychwyniad bychan hwn. Galwent yr ysgol yn "Gyfarfod Degwm," a daroganent y byddai pen buan arni.

Yr oedd yn adnabyddus na ellid cael yr ysgubor ond tros ryw dymhor, a llawer o bryder a deimlid pa le a geid i'w chadw ar ol i'r cynhauaf alw am yr ysgubor. Parhaodd yr offeiriad i ddangos wyneb siriol i'r ymdrech, a rhybuddiodd nad oedd na gwair nac ŷd i gael eu rhoddi yn yr ysgubor nes y byddai lle arall yn barod i dderbyn yr ysgol. Ond erbyn canol mis Gorphenaf, yr oedd un o'r brodyr wedi darpar adeilad i dderbyn yr ysgolorion, mewn lle a elwir y "Dafarn-bridd." Nid oedd yr adeilad hon yn fawr; ni ddaliai ond prin 100 o blant, a gwelwyd yn bur fuan ei bod yn llawer rhy gyfyng. Lluosogodd yr ysgol gymaint, nes y byddai y ddau dŷ cysylltiedig â'r ysgoldy yn llawn, heblaw yr ysgoldy ei hun. Cynelid cyfarfodydd gweddio, a chyfarfodydd eglwysig, yn achlysurol yn ol cyfleusdra, a chafwyd ambell bregeth nos Sadwrn i'r lle.

Pan gychwynodd yr achos hwn, nid oedd nifer yr aelodau eglwysig ond 21; ond yr oedd sirioldeb llewyrchus yn y cynulliadau, a llaw yr Arglwydd yn gweithio trwyddynt nes y chwanegwyd at eu rhifedi, mewn amser byr, 30 eraill. Yr oedd "yr anmhlantadwy, bellach, yn abl i gadw tŷ, ac yn llawen-fam plant." Yr oedd cyfyngdra y lle, gan hyny, yn myned yn fwy

gofidus, a meddyliau pawb yn ymdroi yn nghylch y modd i'w helaethu. Nid oedd eaniatâd gan gyfarfod misol y sir i fyned i ddyled, gan nad oedd yn y golwg ddim i'w thalu. Penderfynodd y brodyr, gan hyny, ymosod o un ysgwydd i wneyd eu goreu, mewn ffordd o gasglu a chyfranu; a chasglwyd yn fuan y swm o £64; swm a dybid a âi yn mhell tuag at fod yn ddigon, gyda chynorthwyon eraill a geid, i gael adeilad fwy, o leiaf, na'r un oedd ganddynt. Caed tir yn y gymydogaeth mewn ammod-rwym, am 99 o flynyddoedd, ac adeiladwyd y capel a alwyd Bethania, yr hwn a agorwyd Tachwedd 2, 1832."

Gwenodd yr Arglwydd ar ymdrech ei bobl yn y lle hwn, fel ag y cryfhaodd y gynulleidfa a'r eglwys yn y lle, mewn rhif, ac mewn adnoddau, a bu raid adeiladu eapel llawer mwy. Hyn hefyd a wnaed, ac er fod y draul wedi bod yn gynifer o gannoedd ag oedd y llall o ugeiniau; eto gan fod gan y bobl galon i weithio, fe'i cwblhawyd gyda rhwyddineb, a hyny heb adael arno ddim dyled.* Agorwyd hwn yn Mehefin, 1852. Mae yma gynulleidfa dda, ac eglwys siriol. Yma y preswylia y pregethwr adnabyddus John Jones, gynt o Niwbwrch. Pwy all lai na chydnabod daioni yr Arglwydd tuag at drigolion yr ardaloedd hyn, trwy anfon atynt ei genadau, y rhai sydd yn mynegu i'r trigolion ffordd iachawdwriaeth, a thrwy fendithio y llafur er achubiaeth i eneidiau lawer.

Yn terfynu ar yr un ardal y mae cymydogaeth y Gaerwen, lle y mae achos cryf, a chynulleidfa luosog. Nid yn mhell o'r gymydogaeth hon yr oedd Hugh Griffith, Llanddaniel, yn byw, a Michael Thomas, Garnen-wen, dau o hen bregethwyr boreuaf y Methodistiaid yn y wlad. Ni ddaeth hysbysiad i law am ysgogiadau cychwynol yr achos yn y Gaerwen. Deallwn fod cymdeithas eglwysig yn ymgrynhoi yn Llanddaniel, i'r hon y deuai yr ychydig aelodau a breswylient yn Llanfair a'i hamgylchoedd; ac yn yr hon y golygid hwy yn aelodau, a hyny cyn fod capel wedi ei godi yn Llanfair ar y naill law, nac yn Bethania ar y llaw arall. Wrth hyn, yr ydym yn casglu fod Methodistiaeth wedi ymwreiddio yn y fro hon yn gynar, ond nid hysbys i ni yw gwahanol ysgogiadau ei gynydd. Mae y gynulleidfa sydd yn arfer ymgrynhoi i'r capel hwn, pa fodd bynag, yn un o'r rhai lluosoeaf, oddieithr y trefydd, o fewn y wlad. Mae yr ardal yn lluosog ei thrigolion, ac heb nemawr eithriad yn arfer addoli yn y naill neu y llall o'r capelau sydd yn y fro, ond yn fwyaf o lawer yn nghapel y Methodistiaid.

Yn yr ardal hon y preswylia y Parch. Robert Hughes, yr hwn y mae ei enw a'i ddefnyddioldeb, bellach, yn adnabyddus yn y cyfundeb drwy y dywysogaeth.

### GWALCHMAI NEU TREWALCHMAI.

Yr oedd agwedd yr ardal hon cyn cyfodiad Methodistiaeth yn gyffelyb fel yr oedd agwedd Cymru yn gyffredinol, wedi ei gordoi ag anwybodaeth du-

* Dygwyd hyn i ben, yn benaf, trwy ymdrech a haelioni Mr. Hugh Hughes, yr hwn sydd yn byw gerllaw, ond nid heb gynorthwy eraill yn yr ardal, a'r brodyr yn y sir.

dew; y trigolion wedi eu llyffetheirio gan ddifaterwch perffaith yn nghylch pethau ysbrydol, ac yn ymroddi i arferion ofergoelus a nwyfus eu hoes. Ysgrifena un gŵr ataf, gan ddarlunio yr ardal yn debyg i hyn. "Tua 68 mlynedd yn ol, yr oedd golwg resynus ar cin bardal, o ran ei hagwedd foesol; tir tywyllwch ydoedd y pryd hyny, a heb drefn. Ychydig iawn oedd *yn meddwl*, a llai yn ymofyn, am grefydd. Coeg chwareuau, nosweithiau llawen, chwareu cardiau, a throedio y bel, oedd yn cario y dydd. Yr oedd dydd yr Arglwydd yn cael ei halogi, heb fod neb yn gosod hyny at ei galon; arferid llŵon, y fath ag a ferwinai gnawd eu clywed; ymladd ceiliogod oedd yn uchel ei fri, a gwreng a boneddig yn rhoddi gwyneb iddo.

Byddai y llanau plwyfol yn lled lawnion ar foreuau Sabboth, a'r mynwentydd yn llawnach y prydnawniau yn chwareu pêl;—y bryniau yn frithion, os byddai yr hin yn deg, gan sypiau o bobl, o bob oed, yn adrodd hen chwedlau gwag, a hen ofergoelion yr henafiaid. Yr oedd diota a meddwdod hefyd, yn nghyda phob aflendid, yn gwneyd y wlad yn domen o lygredigaeth trwyddi."

Yr oedd pregethu wedi dechreu yn Mhentre-bwäau, plwyf Llandrygarn, er yn foreu; ac nid oedd y lle hwn ond milldir neu ddwy o Drewalchmai. Yn mhen rhyw enyd o amser, ymestynodd o'r Pentre i Walchmai, a chynelid y moddion mewn bwthyn bychan a elwir Cemmaes-bach. Nid oedd na chapel na chymdeithas eglwysig yn yr ardal hon, hyd yn ddiweddar mewn cydmhariaeth, sef o fewn y 60 ml. yn ol; ond er mai diweddar ydyw, y mae yr achos wedi ymwreiddio yn ddwfn, ac ymeangu yn fawr. Bellach, y mae y capel wedi cael ei adeiladu dair gwaith drosodd; ac heblaw y gymdeithas eglwysig sydd yn aros yn Ngwalchmai, y mae tair eraill wedi heidio o honi, sef *Hebron*, *Dothan*, a *Gad*.

Y pregethwyr a lafurient yn y parthau hyn oeddynt y rhai a enwyd eisoes; sef, William Roberts, y crydd; William Lewis; Owen Thomas; John Jones, Bodynolwyn; Edward Jones, Pen-y-dref; William Evans, Aberffraw; Owen Hughes, Cefn-y-dderwen; a'r diweddar John Jones, o Edeyrn. Yr oedd yr olaf hwn yn byw yn Amlwch ar y pryd, ac newydd droi allan yn gyhoeddus, a'i weinidogaeth yn daranllyd ac awchlym iawn, cymaint felly, nes y byddai llaweroedd yn syrthio i lewygfeydd dan ei athrawiaeth.

Yn Ngwalchmai hefyd y dechreuodd y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, ei yrfa grefyddol. Yr oedd yn ŵyr i'r clodwiw William Pritchard, Clochdernog, am yr hwn y soniasom amryw weithiau, a'r hwn a fu yn un o brif offerynau i ddwyn ymneillduaeth, neu yn hytrach achos yr efengyl yn mhlith ymneillduwyr, i Fon. Nid yw yn ymddangos i Mr. Llwyd gael y fantais o gael ei ddwyn i fyny gan rieni crefyddol. Bu farw ei dad pan oedd ef yn ieuanc iawn, a'i fam a'i dygodd i fyny yn ofalus, oblegid yr oedd hi yn ferch i William Pritchard, ac yn gwybod llawer am grefydd; er, fe ymddengys, nad oedd hi ar ddechreuad gweinidogaeth ei mab yn aelod eglwysig.

Ystyrid y llencyn hwn yn ŵr ieuanc hardd a rhinweddol, prydferth iawn o wedd, a chlŷd ei amgylchiadau. Cafodd hefyd fwy o fanteision dysgeid-

iaeth, na'i gydoeswyr, ac yn neillduol na'r tô o bregethwyr a godasai o'i flaen ef yn Mon. Yr oedd pregethwyr cyntaf Mon, oll heb eithriad, yn ddynion cwbl diddysg a diaddurn, ond yr addurn a roddasai gras arnynt; ac hyd oni ddaeth Jones, Bodynolwyn, atynt, yr oeddynt ymron oll yn isel eu hamgylchiadau. Nid oedd ganddynt, wrth hyny, ddim dylanwad, ond a feddent yn eu cysylltiad â'r gwirioneddau pwysig a draethent, neu y cymeriad crefyddol a feddiannent.

Yr oedd dyfodiad un o gymhwysderau Mr. Lloyd at nifer y pregethwyr, yn tueddu i osod gradd o anrhydedd ar Fethodistiaeth yn ngolwg y rhai a edrychent ar *amgylchiadau allanol* crefydd, yn fwy nag ar ei *theilyngdod priodol.* Ymddengys fod y gwrthddrych y soniwn am dano yn profi llawer o ymrysoniadau oddiwrth air Duw â'i gydwybod, pan oedd yn blentyn, ymron; ac er i'r tynerwch hwn ei gadw rhag llwyr ymroddi i dueddiadau ei natur, eto ni thorwyd mohono oddiwrth gwmni gwag, a rhai o arferion ofer ei oes, yn enwedig halogi dydd yr Arglwydd. Ymgyfarfyddai ef, ac eraill o ieuenctyd plwyf Llanbeulan, yn mynwent y llan, cyn neu ar ol y gwasanaeth, i gydsynio am y lle a'r amser i gyfarfod y prydnawn, lle yr ymddifyrent naill a'i mewn ymddyddanion gwag, neu gampau ofer;—difyrwch, er hyny, a gyfrifid gan y cyffredin yn gwbl ddiniwed. Dygwyddodd un Sabboth, pan yr oedd ef, a dau gyfaill iddo, wedi ymgyfarfod i gampio ar fryn uchel yn y gymydogaeth, ddarfod iddynt eistedd i orphwys dros enyd; a thra yr eisteddent, troes yr ymddyddan ar fater dyeithr i'w hymddyddanion cyffredin. Fel hyn y dywedai ef ei hun, a chan mai yr amgylchiad hwn oedd y pegwn y troai ansawdd gweddill ei oes arno, teimlwn demtasiwn i'w osod ger bron yn ei eiriau ef ei hun:—

"Trodd yr hin yn wlawog iawn y prydnawn hwnw; ac ni feddai diafol neb o'i holl blant mor ffyddlawn i'w wasanaethu ef ag oedd William Roberts, Robert Roberts, a minau. Gan gymaint oedd y gwlaw, aethom i gysgod y graig serth i ymochel rhagddo; ac yn rhyw fodd, yn ddamweiniol i mi, aethom i ymddyddau yn nghylch crefydd, a dwysâu a wnaeth yr ymddyddan yn fawr iawn, gan gofio ambell air o bregethau a wrandawyd yn achlysurol genym. Wrth fyned yn mlaen yn yr ymddyddan, soniwyd am ddau ŵr ieuanc cyfrifol, oedd yn proffesu crefydd y pryd hyny, a gofynwyd, pa un ai ffolach ai doethach oedd y bechgyn hyny na ni? Eu bod hwy yn canlyn hen bobl, y rhai oedd yn gweddio, ac yn galaru: a ninau yn dylyn oferedd, a gwag ddifyrwch. Penderfynwyd yn y fan hòno, mai hwy oedd yn eu lle, a'n bod ninau allan o'n lle yn hollol. Yna ebe y naill wrth y llall, gwell fyddai i ninau fyned i wrando pregethau, a pheidio dylyn oferedd a drygioni, fel yr ydym. Penderfynwyd gwneuthur felly, ac mai llawer iawn gwell a fyddai hyny. Yna gofynodd un, "A oedd pregeth yn rhyw le yn ein hardal, fel y gallem ni gael ei gwrando y nos hòno? Ond ni wyddent hwy na minau am yr un a allem gael."

"Ar hyn, cytunwyd ar fod i bob un o honom fyned i'w gartref yn ddioedi, at amser tê, ac ymholi â'n teuluoedd, a wyddai neb yn mha le yn gyfagos

yr oedd pregeth i fod y noson hòno, fel y gallem fyned i'w gwrando? Dywedodd un O—— J——s, oedd yn byw ar y tir lle yr oeddwn i, fod pregeth i fod y noson hòno yn ein cymydogaeth, mewn tŷ a elwid *Cemmaes Bach.* Daethom ein trioedd at y graig fawr drachefn, i edrych a gawsai neb hanes pregeth. Hysbysais iddynt y byddai pregeth y nos hòno yn y lle a enwyd. Aethom yno, a safasom i wrando yn nghanol yr ychydig broffeswyr, o flaen y pregethwr. William Evans, o'r *Aberffraw*, oedd yn llefaru; a R. O., *Glan-y-traeth*, yn dywedyd ychydig o'i flaen ef. Tybiasom nad oedd y fath lefarwyr ar y ddaear a'r ddau hyny. Yn y cyfarfod hwnw, clywsom gyhoeddi gŵr o sir Gaernarfon, sef R. Jones, o Ben-y-caerau, i fod y Sabboth canlynol yn *Llangristiolus, Aberffraw, a'r Cemmaes-bach*; aethom i wrando arno i'r tri lle, a buom heb un tamaid o fwyd, o chwech o'r gloch y boreu hyd ddeg o'r gloch y nos. Yna dechreuodd yr holl gymydogion ddal sylw arnom; rhai o honynt yn ein gwawdio, ac eraill yn cydymdeimlo â ni, ac yn tosturio wrthym; ond yr oeddym ni wedi cael cyfnewidiad neillduol ar ein meddyliau, fel nad oeddym yn gofalu llawer beth a ddywedai neb.

"Bum am enyd yn myned i eglwys y plwyf yn llawer manylach nag o'r blaen, gan geisio, trwy hyny o ddiwygiad, feddyginiaeth ac esmwythâd i fy meddwl; ond bu raid i mi roi i fyny fyned i'r llan, i'r dyben hyny. Ymroddais i fyned i wrando pregethau yn mysg y *Methodistiaid*, yn agos ac yn mhell, ond bu fy meddwl am beth amser heb gael tawelwch."

Nid rhyfedd fydd genym ddeall, yr edrychid ar yr hen graig fel rhyw lygedyn cysegredig gan y tri chyfaill hyn; aent yno dros rai blynyddau wedi y tro uchod, i ymddyddan â'u gilydd am bethau crefyddol, bellach. Yn y lle neillduedig hwn, tywalltai y cyfeillion hyn eu meddyliau i'w gilydd, ac ni ysgogai yr un o honynt mewn un anturiaeth o bwys heb ymgynghori â'r lleill. Yn y modd yma y dechreuodd y gwirionedd ymaflyd yn y dynion ieuainc hyn, ac nid hir y buont cyn ymofyn am le yn eglwys Dduw. Ymunodd y ddau eraill â'r gymdeithas a ymgynullai yn Mhentre'-bwäau; a Mr. Lloyd â'r un yn Ngwalchmai, gan ei bod ychydig yn fwy cyfleus iddo. Nid oedd y gymdeithas eglwysig yn Ngwalchmai ond gwanaidd yn mhob ystyr y pryd hyny; nid oedd ynddi ond 14 o feibion, ac ychydig o ferched; a chan leied oedd doniau y meibion, gelwid ar rai o'r gwragedd yn fynych i weddio yn gyhoeddus. Yn mhen tua blwyddyn ar ol i Mr. Lloyd ddyfod yn aelod, amddifadwyd yr eglwys o'i dau flaenor, trwy farwolaeth un, a thrwy symudiad y llall; a galwodd yr eglwys ar y brawd ieuanc hwn i ymwisgo â'r swydd bwysig hòno, a hyn a ddygwyddodd yn y fl. 1790. Yn mhen tua phedair blynedd wedi hyn, annogwyd ef yn daer i geisio llefaru neu bregethu yn gyhoeddus. Yntau a gydsyniodd: nid heb lawer o betrusder, yn nghanol peth awyddfryd. "Y waith gyntaf y ceisiais bregethu," meddai ef ei hun, "oedd ar ddydd ympryd, a gyhoeddwyd gan y llywodraeth, yn mis Mawrth, 1794." Dywedai rhyw rai oedd yn ei wrando y tro cyntaf hwnw, ddarfod iddo, ryw bryd ar ganol pregethu, dori allan, a dywedyd: "Fy mrodyr, yr oeddwn, ac yr ydwyf, yn teimlo cryndod mawr yn fy meddwl wrth ystyried y gorchwyl

mawr a phwysig yr wyf yn wynebu arno; ond yr wyf yn teimlo cymhorth, mewn goleu a rhwyddineb, wedi dechreu. Parhewch i weddio droswyf; ac am i'r Arglwydd ein bendithio fel cenedl."

Bu y gŵr ieuanc hynaws hwn gartref gyda'i fam a'i dad-yn-nghyfraith, am ysbaid chwe' blynedd ar ol dechreu pregethu; ond yn y fl. 1800, pan oedd yn 29 ml. oed, priododd, a symudodd o Drewalchmai i Beaumaris i fyw. Cyfeiriwn y darllenydd, bellach, at y gweddill o'i hanes, i'r lle hwnw.

Mr. Richard Llwyd oedd y pregethwr cyntaf a gododd yn Ngwalchmai, ond nid yr olaf. Nid aeth llawer o flynyddoedd heibio hyd nes daeth y brawd anwyl a'r gweinidog ffyddlawn, John Charles, i'r golwg, yr hwn sydd eto ar y maes; a theulu yr hwn a anrhydeddwyd yn fawr yn yr ystyr yma. Galwyd pedwar o'i feibion i'r weinidogaeth; mae dau o'r pedwar eisoes wedi eu galw oddiar y maes; sef Hugh a William; a dau eto yn aros, sef John a David. Am y brodyr ymadawedig, ni a ddylem ymhelaethu ychydig. Yr oedd yr hynaf o'r ddau, sef Hugh Charles, yn ŵr ieuanc o gymeriad rhagorol, ac yn bregethwr cymeradwy a defnyddiol; ond ni chyrhaeddodd hyd at ei frawd. Anhawdd fyddai i neb, mewn ychydig le, roddi gwell crynodeb o'r gŵr ieuanc hawddgar hwn, nag a roddir gan ysgrifenydd cyfarfod misol Mon, yn y DRYSORFA; ac afraid ydyw gwneuthur un esgusawd am ei osod ger bron y darllenydd.

"Ionawr 13, 1849, bu farw y Parch. William Charles, Gwalchmai, Mon, yn 31 ml. oed, wedi bod yn pregethu yr efengyl dan amddiffyn dwyfol, 13 o flynyddoedd. Yr oedd ein hanwyl frawd hwn yn un o rai rhagorol y ddaear. Ganwyd ef yn eglwys Dduw, magwyd ef yn ngeiriau y ffydd, ac yr oedd er yn fachgen yn gwybod yr ysgrythyr lân. Derbyniwyd ef i gymundeb eglwysig yn 14 oed, ac nid oedd neb a'i hadwaenai yn beiddio amheu ei dduwioldeb; 'yr oedd iddo air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun.' Dechreuodd bregethu yn rheolaidd, pan rhwng 18 a 19 ml. oed. Bu yn Athrofa y Bala dair blynedd. Teithiodd ychydig trwy ogledd a deheudir Cymru; bu yn Liverpool a Manchester droion, ac eglurhaodd Crist arogledd ei wybodaeth trwyddo yn mhob lle. Y mae yn ddiamheu fod ugeiniau yn Mon, a llawer yn ychwaneg trwy Gymru, y rhai y bu ei weinidogaeth ef yn foddion i'w dwyn i benderfyniad i roddi eu hunain i'r Arglwydd. Dysgwylid am dano gan y cynulleidfaoedd fel am y gwlaw, a mwynheid ei weinidogaeth gan hen ac ieuanc, 'fel y diweddar wlaw a'r cynar wlaw i'r ddaear.

"O herwydd ei fynych wendid, amddifadwyd cynulleidfaoedd y sir o'i lafur gweinidogaethol er ys tair blynedd; ond ychwanegodd raddau o gryfder er's ychydig gyda blwyddyn, a dangosodd nad oedd yn werth ganddo fyw ond er mwyn pregethu. Cafodd cynulleidfa Gwalchmai, a rhai manau cyfagos, fwynhau brasder a hufen ei weinidogaeth yn y flwyddyn ddiweddaf. Traddododd iddynt, trwy lawer o wendid, ddwy neu dair ar hugain o bregethau yn y cyfamser, pa rai a gyfansoddwyd ganddo megys yn awyr y byd tragwyddol, a'i bwys ar fynwes yr addfwyn Oen, ac mewn cymdeithas ddigwmwl â'i Dad Nefol; a hir a maith y cofir am danynt yn Ngwalchmai a'r

cylchoedd. Gobeithiem y pryd hyny, yr estynid iddo ail oes i'n gweini fel gwlad; ond pregethodd ei *bregeth* olaf, y *Sabboth* olaf, a'r *diwrnod* olaf, yn y fl. 1848. Felly cyflawnodd ei weinidogaeth, gorphenodd ei yrfa, a chadwodd y ffydd. Bu farw mewn mwynhad o dawelwch diysgog; ei eiriau diweddaf oeddynt, 'Pob peth yn dda—yn yr ymdrech caled—pob peth yn dda!'"

Er mai lle gwledig ydyw Tre-walchmai, eto y mae yn lluosog ei breswylwyr, ac nid yn fynych y cyfarfyddir, mewn gwlad, â chynulleidfa fwy nag sydd yma. Ychydig o deuluoedd sydd yn y pentref neu y gymydogaeth o amgylch na ddeuant yn gryno i wrando. Gwneir hyn hefyd, heb lawer o wahaniaeth, ar ddyddiau gwaith, fel ar y Sabbothau. Mae yr eglwys sydd yma yn gref, a'r achos yn hardd a choronog. Pwy na lawenychai fod yr hen *Interludiau* wedi rhoi lle i ysgolion Sabbothol;—yr hen gampau ffol wedi llwyr ddiflanu;—a'r gaddug o anwybodaeth ac ofergoeledd wedi ei chwalu, a phelydrau dysglaer yr efengyl yn lloni y bröydd a'r bryniau!

## PENNOD IV.

## DECHREUAD A CHYNYDD METHODISTIAETH YN NGHAERGYBI.

CYNWYSIAD:—

Y CREFYDDWYR CYNTAF—LLEOEDD PREGETHU RHWNG 1755-1777—ERLID CREULAWN—MODDION YN CERIG-Y-DRAENOG—SIOMI ERLIDWYR YN EU HAMCAN—DYFODIAD RICHARD JONES I'R DREF—CYMERYD TY I BREGETHU YNDDO—CODI YSGOL DDYDDIOL—DYFODIAD MR. GRIFFITH OWEN I'R DREF—ADEILADU CAPEL YN 1808—DIWYGIAD—RICHARD JONES, MAB Y CYNTAF—GWEDD YR ACHOS—HANES OWEN THOMAS ROWLAND.

### CAERGYBI.

YMWELAI rhai o'r tadau Methodistaidd yn achlysurol â'r dref hon, ar eu hynt genadol drwy y wlad, a hyny yn mhell cyn fod yma un safle penodol wedi ei ennill o fewn y dref. Yn ngwaethaf gwrthwynebiadau cryfion, a than erlidiau creulawn, yr ymosodid, yn awr ac eilwaith, ar y trigolion rhagfarnllyd a thywyll, hyd nes gwneuthur gradd o argraff ar feddyliau rhyw nifer bychan o honynt. Llwyddwyd i gyffroi meddwl ambell un i wneuthur proffes o Grist, trwy barch ac anmharch, anghlod a chlod, y rhai a ddyoddefent luaws mawr o helbulon. Yn mysg y rhai cyntaf o'r crefyddwyr boreuol hyny, yr oedd y rhai canlynol: John Rowland, Fron, lle ar ochr mynydd pen Caergybi; John Williams, Saer coed; Hugh Meyrick; hen ŵr a hen wraig, a breswylient dyddyn bychan o fewn milldir i'r dref, o'r enw Hafod-y-brain; hen ferch o'r enw Margaret Hughes; Cadi Jones, ac un neu ddwy eraill.

Rhwng 1755—1777. Yn yr amser hwn yr oedd y pregethu achlysurol yn cael ei gynal, mewn gwahanol fanau, ar gylch, o fewn milldir neu ddwy i'r dref. Gormod anturiaeth, mae yn debyg, a fuasai dyfod yn nes i enau y ffau, neu furiau y castell. Ond er maint yr anturiaeth, fe wnaed hyny yn

achlysurol, a chafwyd prawf pa mor beryglus ydoedd, fel y gwelir yn yr hanesyn a ganlyn.

Daeth rhyw bregethwr * i'r dref unwaith, ar fedr cyhoeddi y newyddion da am Geidwad i'r trefedigion; a chan na wyddai at bwy, nac i ba le yn benodol i fyned, efe a anturiodd sefyll yn y farchnadle, a datgan ei genadwri wrth y nifer a ewyllysient roddi clust iddo. Yr oedd y lle ar ganol yr heol, ac yn agos i borth y fynwent. Ond pa waeth pa le? gan fod ganddo newyddion mor dda! Ond prin y rhoddwyd cyfleusdra iddo draddodi ei neges, nad oedd lluaws o ddyhiriaid yn y lle, y rhai a ddechreuent ei hwtio, ei wawdio, ïe, a'i gernodio. Cymerwyd ei het yn ddirgelaidd o'i law, a rhoddwyd ynddi dom dynion (!) a chyda'r ffieidd-dra hwn ynddi, rhoddwyd hi am ei ben: y fileiniaid annynol! Yna tynasant ef i lawr oddiar yr esgynlawr ar ba un y safai, a elwid y "Groes," a llusgasant ef tua glàn y môr, a thynasant ef trwy bwll budr, o ddwfr a llaid, nes mai prin y gellid gwybod pa greadur oedd ganddynt, gan y diwyg oedd arno; ïe, prin y diangodd yn fyw o'u dwylaw! Ond da genym chwanegu, er anrhydedd i ddynoliaeth, ddarfod i ryw rai dosturio wrth y truan, a'i wared ef o'u dwylaw.

Yn yr erlidigaeth hon, yr oedd tri o ddynion yn rhagori ar eu cymdeithion mewn creulondeb a ffyrnigrwydd; a nodwyd y tri, megys gan ragluniaeth, yn wrthddrychau dialedd, er rhybudd i eraill. Tarawyd un o honynt yn fuan ar ol y tro uchod, mewn modd ag a'i difuddiodd o'i synwyr hyd ddydd ei farwolaeth. Yr ail, yr hwn a elwid "Siôn y Saer," a syrthiodd i'r fath anghymeradwyaeth ac anfri yn mysg ei gyd-drefedigion, fel na chafodd ddiwrnod o waith mwyach o fewn y dref; a'r enw cyffredin a alwyd arno o hyny allan, oedd "*Siôn y saer segur!*" Yr olaf o'r tri, a'r mwyaf ei ddylanwad a'i gynddaredd, oedd un Lewis Williams, swyddog y Gyllidfa, *(Custom House Officer.)* Un diwrnod, diangodd "Baedd" o ffermdy, tua milldir o'r dref, o'r enw Llanfawr, a daeth dros draeth lleidiog ar ei gyfer i'r dref, ac yn uniongyrchol i swyddfa Lewis Williams. Yr oedd i'r swyddfa risiau cerig i'w dringo i fyned iddi, ac ar y pryd, yr oedd y swyddog yn sefyll y tu ol i fwrdd y cyfnewid. Dringodd y baedd y grisiau, ac aeth yn syth at yr erlidiwr, ac a'i brathodd yn ei sawdl i'r fath raddau ag y bu yn gloff dros weddill ei oes! Wedi hyn, fel un wedi cyflawni neges arbenig, ac heb ddim ychwaneg yn galw am dano, dychwelodd yn ol trwy y dref, heb wneuthur niwaid i neb na dim arall!

Ond odid na chyferfydd y llinellau hyn â llygad ambell un, a fydd yn tueddu yn gryf i amheu cywirdeb yr hanes, ar y naill law, neu y casgliad a wneir yn naturiol oddiwrtho. Am gywirdeb yr hanes, nid oes i'w ddyweyd ond fod yr amgylchiadau uchod yn rai hysbys ar y pryd i luaws o bobl y dref, cyfeillion a gelynion crefydd, ac y maent wedi eu traddodi i ni gan ddynion, ac mewn dull a barai grediniaeth sicr am bethau eraill, ag y cyfrifid eu hamheu, yn brawf o ddrwgdybiaeth disail, neu o gulni meddwl

* Tybia rhai mai Lewis Evan, Llanllugan, ydoedd; ond nid yw hyny yn sicr.

diachos. Mae llawer heddyw yn fyw yn Nghaergybi a glywsant yr hanesion uchod gan y rhai ag oeddynt dystion eu hunain o honynt.

Am y casgliad a dynir oddiwrthynt, mai cyfryngiad arbenig ydoedd o eiddo rhagluniaeth Duw, nid wyf ar hyn o bryd yn sefyll i'w amddiffyn: yn unig dywedaf, mai nid teimlad hapus i unrhyw ddyn ystyriol, a fuasai cyfarfod â'r fath oruchwyliaeth, wedi bod yn euog o'r fath anfadrwydd. Ac er nad arfer Llywodraethwr y byd ydyw cospi ei elynion, na gwobrwyo ei blant, yn y byd hwn; eto gormod o haerllugrwydd fyddai gwadu na allai fod amgylchiadau weithiau yn dygwydd, pryd y bydd doethineb, cyfiawnder, neu ddaioni, yn galw ar fod pob un o'r ddau yn cael ei wneyd. Ac Efe ei hun yw y cymhwysaf i farnu pa rai fydd yr amgylchiadau hyny.*

Yn y tro crybwylledig, gwelir ba anturiaeth beryglus oedd ceisio pregethu o fewn y dref, a pha gallineb ydoedd i'r hen bregethwyr ymgadw dros ryw dymhor allan o honi; ac er iddynt wneuthur hyny, prin y caent lonyddwch i bregethu, na neb arall lonyddwch i'w gwrando. Ryw amser yn yr un tymhor a nodwyd uchod, daeth rhyw bregethwr arall i'r gymydogaeth. Ymgasglodd y gynulleidfa fechan mewn tyddyn o'r enw Cerig-y-draenog, yn nghylch dwy filldir o'r dref. Yn mhlith eraill, aeth dyn o'r enw Siôn i wrando arno. Pan wybu ei wraig fod Siôn wedi cymeryd ei genad, heb ymgynghori â hi, a myned i wrando y "penau-crynion," terfysgodd yn ddirfawr, gan fytheirio pob math o enllibiau a gwaradwyddiadau arno ef, ac ar bawb eraill a aent yn agos atynt. Mewn anwydau drwg, ac o wir ddirmyg ar ei gŵr, cymhellodd ei mab i fyned i ben clawdd, i ddynwared pregethwr, a gwneuthur yr oernodau hyllaf a allai. Ac nid oedd hyn yn ddigon, prysurodd i'r dref ei hunan i achwyn i'r offeiriad fod y "bobl ddrygionus" yn ymgynull yn y fan a'r fan, ac yntau heb wybod. Ond ar y ffordd, cyn iddi gyrhaedd yr offeiriad, cyfarfu ag un o'i chymydogion yn dychwelyd o'r dref; hysbysodd iddo ei neges, gan arwyddo yn ei gwedd a'i llais ei bod mewn trallod dwfn iawn. Wedi gwrando arni yn traethu ei blinder, y gŵr a'i cynghorodd i ymlonyddu, gan chwanegu, "Gwell ydyw i chwi beidio cyffroi a therfysgu, a chymeryd y fath amgylchiad diachos yn destyn cymaint o drallod, rhag ofn y cewch achos llawer mwy pwysig i'ch trallodi."

Cafodd y cynghor gymaint o effaith arni ag a barodd iddi droi yn ol, ond nid un mymryn llai ei heiddigedd rhag i'w gŵr droi allan yn bengrwn. Ond erbyn ei dychweliad i'w thŷ, y newydd galarus a'i cyfarfu oedd, fod ei mab wedi myned i dynu nythod adar gwylltion i rai o greigiau y môr, ac iddo syrthio a marw!

Dro arall, daeth i glyw yr erlidwyr fod dysgwyliad am bregethwr dyeithr i'r dref, ar ryw ddydd ac awr penodol, a chydfwriadasant lesteirio iddo gael ei amcan. I'r dyben, penderfynasant fyned i'w gyfarfod at Bont Ruppont, tua 4 milldir o'r dref, am y gwyddent fod yn rhaid iddo ddyfod y ffordd hòno, gan amcanu, nid yn unig ei attal i'r dref, ond hefyd ei faeddu yn ol eu

* Gwel nodiadau helaethach ar y mater hwn yn Cyf. I., tudal. 376.

hewyllys. Eu bwriad, pa fodd bynag, a ddaeth, trwy ryw foddion, yn adnabyddus i'r cyfeillion crefyddol; ac anfonasant genadau drostynt yn ddioed, ac o flaen yr erlidwyr, i fynegu iddo ei berygl. Cyfarfuasant ag ef oddeutu y lle a grybwyllwyd, mynegasant iddo y brad oedd yn ei erbyn, ac erfyniasant arno droi yn ol. Ond er eu taerni hwy, a brad y lleill, penderfynai y gŵr dyeithr fyned rhagddo, deued a ddelo i'w gyfarfod. Felly prysurodd ei hunan ar ei geffyl tua'r dref, ar wedd gŵr yn dyfod ar ryw neges fydol, a chan adael y cenadau ar ol. Yr oedd ganddo ei ddyfais, tybygid, pa fodd i ysgôi brad yr erlidwyr. Cododd ei het yn dair cwalc, a chyn hir, cyfarfu â'r fintai, a gwaeddodd arnynt yn groch, "Beth ddiawl y mae cymaint a hyn o honoch yn ei geisio?"

Nid oeddynt yn dysgwyl y fath ystum ar bregethwr, na chlywed y fath iaith ganddo, a dechreuasant sibrwd yn mysg eu gilydd, ai hwn oedd gwrthrych eu hymofyniad ai peidio. "Ai dyma fe?" meddai un. "Na choelia' i," atebai y llall, "oni chlywaist ti ef yn tyngu?"

Trwy ddichell o'r fath y twyllodd efe hwynt, ac y siomwyd eu dysgwyliad: dichell, fel y gwelsom fwy nag unwaith o'r blaen, a ddefnyddid ar rai achlysuron i ddallu dynion, mwy eu cynddaredd na'u cyfrwysdra. Nid ydym wedi cael enw y pregethwr hwn; ond dywedir iddo ddyfod yn ddiogel i'r dref, ac iddo bregethu yn wrol a llwyddiannus iawn, a'r prif derfysgwyr wedi eu gadael, yn dysgwyl yn ofer am eu hysglyfaeth, filldiroedd o ffordd yn y wlad.

Yn y modd yma yr oedd crefydd yn raddol yn gweithio ei ffordd, ac yn ennill tir. Ond nid oedd loches iddynt eto o fewn y dref; ond yr oedd yr amser y mynai rhagluniaeth iddi gael safle yn y dref, weithian ar y drws. Tua'r fl. 1777, yr oedd gŵr o'r enw Richard Jones yn byw yn yr Aberffraw. Mab ydoedd i'r gŵr a gadwai y siop newydd, Trefdraeth; priododd Sarah, merch y Berllen-grin, yn agos i Niwbwrch; ac wedi priodi, daethant i fyw i'r Aberffraw.

Yr oedd y Richard Jones hwn yn ŵyr i'r Parch. Mr. Hughes, Perfeddgoed, gerllaw Bangor, unig fab i'w ferch henaf, Elizabeth Hughes. Yr oedd Mr. Hughes yn beriglor Trefdraeth, Mon, ac yn ganghellwr i eglwys gadeiriol Bangor. Trwy ei gysylltiad â'i daid, cafodd Richard Jones ei ddwyn i fyny yn ysgol rammadegol Bangor, a chyrhaeddodd raddau o ddysgeidiaeth a gwybodaeth gyffredinol na cheid ond anfynych gan fechgyn cyffredin ei oes a'i wlad. Tyfodd i fyny hefyd yn ddyn meddylgar a chraff; o dymher fywiog, ac ysbryd anturiaethus.

Un Sabboth, pan oedd un o hen offeiriaid Methodistaidd y dehendir yn pregethu yn y pentref, wrth dalcen rhyw dŷ, aeth Richard Jones i rywle o fewn clyw: teimlodd ryw air, megys mewn mynydyn, yn cyffwrdd â'i feddwl, a thynodd ei *het* yn arwydd o'i barch i'r genadwri. Ar ol i'r oedfa fyned heibio, "aeth i'w dŷ, ac a osododd y pethau a glywsai at ei galon." Ymddengys fod Richard yn medru chwareu y *ffidl* neu y crwth, ac yr arferai efe wneyd hyny ar ryw achlysuron, er difyrwch i'w gymydogion, a chwblhau diffygion y ddawns.

Ond y Sabboth canlynol i'r bregeth uchod, nid oedd y crythor ddim ar gael fel arferol; caed allan fod diflasrwydd wedi ei roddi ar y difyrwch ffol, a bod arwyddion fod Richard Jones wedi ei swyno gan beroriaeth yr efengyl. Tynodd hyn gymaint o ŵg arno, bellach, ag oedd o wên iddo gynt. Yr oedd wedi troseddu yn anfaddeuol yn erbyn preswylwyr y pentref, am iddo feiddio meddwl yn wahanol iddynt hwy. Codwyd erledigaeth arw; yr oedd, bellach, yn gymaint nod i drais a gwaradwydd, fel y darfu iddo benderfynu ymadael o Aberffraw. Nid oedd wedi bod yno yn hir, ac fe allai fod yn haws ganddo, o herwydd hyny, fyned i ffordd, na phe buasai wedi hen wreiddio yn y lle. Achwynodd rhyw ddyn o'r enw Williams arno ef, ac ar un arall o'r enw Robert Parry, wrth berson y plwyf, ei fod wedi eu gweled yn sicr, *a'u hetiau yn eu dwylaw,* yn gwrando y penau-cryniaid;—y person yntau, gan fod prawf diddadl fel hyn fod y dynion yn euog o drosedd mor anferth, a achwynodd wrth y boneddwr oedd yn byw yn Bodorgan, palas yn y gymydogaeth,—boneddwr a berchenogai lawer o'r tir, a dylanwad yr hwn oedd yn fawr yn y fro. Y canlyniad fu, i Richard Jones gael rhybudd i ymadael â'i dyddyn. Hyn, ynghyda'r gwawd a'r anghysur a godai oddiwrth ei gydradd a'i isradd, a ogwyddodd ei feddwl i ymadael ag Aberffraw.

Y benbleth, er hyny, oedd, i ba le yr âi? Nid oedd ganddo un lle mewn golwg. Yr oedd ganddo, bellach, wraig a phlentyn yn dibynu arno. Un diwrnod, pan mewn cryn gyfyngder meddwl, dywedai wrth ei wraig, "Sarah, a weli di y ffon yma sydd yn fy llaw? gosodaf hi ar ei phen ar ganol y llawr, ac i ba le bynag y gogwydda wrth syrthio, yno yr âf!" Pa beth bynag a feddylir am y dull hwn o benderfynu dadl, felly y gwnaed y tro hwn, ac fe wnaed hyny gyda llawer o ddiniweidrwydd calon, a phenbleth meddwl. Syrthiodd y ffon tua'r gogledd-orllewin, ac felly yn cyfeirio yn union tua Chaergybi. Mae pethau mawrion yn fynych yn dibynu ar amgylchiadau bychain. Felly gellir dywedyd yma; er lleied peth oedd syrthiad ffon yn yr Aberffraw yn y fl. 1777, y mae hyny fel modrwy yn y gadwen, wedi effeithio ar Fethodistiaeth Caergybi yn y fl. 1850.

Wedi i Richard Jones benderfynu y lle i gyfeirio ei gamrau iddo, dechreuodd ymbarotoi yn ebrwydd i fudo i Gaergybi. Nid yw yn ymddangos fod yno neb yn ei ddysgwyl, na neb yn parotoi i'w dderbyn; fe allai, gan ei fod yn awr yn grefyddwr, mai po ddystawa, goreu yr ysgogai, rhag na chawsai un lle i roddi ei ben i lawr; ac mai mwy dewisol oedd ganddo ymddiried i ragluniaeth y nef am ffyniant, nag i drigolion y dref am ffafr. I Gaergybi, pa fodd bynag, y daeth ef a'i deulu; ac ar eu dyfodiad, disgynasant eu dodrefn ar yr heol, nid yn mhell oddiwrth y lle y mae capel y Methodistiaid yn awr yn sefyll; eisteddai y wraig ar gareg gerllaw yn gwylio y dodrefn, a phlentyn tri mis yn ei breichiau; a phrysurodd Richard i fyned o amgylch i edrych am ryw dŷ gwag, i fod yn anedd iddynt.

Ar ei hynt, cyfarfu ag Elizabeth Williams, Bol-haul, a gofynodd iddi a wyddai hi am yr un tŷ gwag yn y dref, gan neb o'r bobl a elwid y "penau-crynion?" "Gwn," ebe y wraig, "mae tŷ yn *top* yr allt yna."

Felly hefyd yr oedd. Y tŷ hwnw a gymerwyd, a bu yn nodded i grefydd, ac yn llety i'r holl bregethwyr, tra y bu Richard Jones fyw, sef am ysbaid 21 mlynedd, a hyd i'r fl. 1808.

Ar ddyfodiad Richard Jones i'r dref, yn y fl. 1777, nid oedd y Methodistiaid eto wedi anturio ymgynull at eu gilydd o fewn y dref, ond yn y wlad; ond yn ebrwydd ar ol iddo ef ymsefydlu yn ei gartref newydd, cafodd ar ei galon ymofyn am dŷ ardrethol, i fod yn addoldy o hyn allan. Penodwyd ar dŷ a elwid Ty'n-y-llidiart, yr hwn a osodwyd gan Anne Thomas, wedi hyny o Tan-lan, Trefdraeth, Mon. Hwn ydoedd y capel cyntaf, a thebyg ydoedd i lawer o gapeli cyntefig y Methodistiaid. Gosodwyd hen chwaer i fyw yn un pen iddo, a gwnaed math o gell yn y pen arall i fod yn bulpud; ond fe wellhawyd ac fe eangwyd hwn o dro i dro. Bu dyfodiad Richard Jones i'r dref yn gyfnod newydd ar Fethodistiaeth ynddi. Cymerodd y trueiniaid erlidiedig galon wedi ei ddyfod atynt, a chymeryd gradd o arolygiaeth gofalus a thyner drostynt.

Un o'r pethau cyntaf a fynai Richard Jones, ar ol cael tŷ i bregethu ynddo, oedd codi a sefydlu ysgol ddyddiol yn y dref; ac mewn cysylltiad â'r amcan hwn y daeth y diweddar Barch. John Parry, Caerlleon, i'r dref i gadw ysgol; ac ar ei symudiad ef i Gaer, daeth Richard Jones yn gydnabyddus â Mr. Griffith Owen, trwy gyfarfod â'u gilydd yn nghymdeithasfa y Bala, am yr hwn y cawn eto grybwyll yn helaethach. Nid oes dim amheuaeth na fu yr ysgol ddyddiol hon yn foddion, mewn cysylltiad â gweinidogaeth yr efengyl, i ychwanegu llawer ar ddylanwad Methodistiaeth, nid yn unig yn nhref Caergybi, ond yn Mon yn gyffredinol.

Yn mhen ychydig amser ar ol dyfodiad Richard Jones i Gaergybi, anfonodd Syr Nicholas Barley, tad y *Marquis of Anglesey*, ato, i ddyweyd wrtho, os efe a ymddyosgai yn llwyr oddiwrth fod yn bengrwn, a glynu fel yr arferai gynt wrth yr eglwys sefydledig, y rhoddid iddo swydd* dan y llywodraeth yn y dref. I hyn yr atebodd, "fod ei grefydd yn addaw iddo bethau llawer mwy na hyny;—fod ganddo bob cysur eisoes yn y byd hwn, a gobaith bywyd tragwyddol yn y byd a ddaw."

Arferai Miss Jane Hughes, chwaer ei fam, ymweled yn achlysurol â'r boneddwr crybwylledig yn y Plas-newydd, ac aros yno wythnosau, a thrwyddi hi y daethai Syr Nicholas yn adnabyddus o helyntion Richard Jones. Rhoes dyfodiad y gŵr hwn i fyw i Gaergybi achles dda i Fethodistiaeth o fewn y dref. Cafodd pregethwyr y sir, ïe, pregethwyr Cymru, lety cysurus a chroesawgar, ac nid pregethwyr y Methodistiaid yn unig a gafodd hyn ganddo, ond pregethwyr enwadau ymneillduol eraill. Gofalodd rhagluniaeth hefyd am dano yntau; bu ei lwyddiant bydol yn cyfateb i raddau ei sel, ei lafur, a'i haelioni gyda chrefydd. Ni adawyd mo Richard Jones chwaith yn amddifad o fwynhad ysbrydol yn ei yrfa grefyddol: rhedai drosodd weithiau, fel llestr wedi ei orlenwi. Unwaith, pan oedd Mr. Jones, Llangan, yn

* Collector of Customs.

gweini Swper yr Arglwydd, ac yn cyffwrdd â'r gair "Mewn diolchus gof am am fy Iesu mawr,"—cipiodd Richard Jones y meddwl, gan chwanegu, "Fu ar y groes rhwng nef a llawr,—

"Gwrthrych ni wel fy enaid gwan,
Ond Iesu i bwyso arno yn rhan."

Ar hyn, torodd allan yn orfoledd, a pharhaodd hyd ganol nos.

Rywbryd, tua dechreu y ganrif bresenol, y daeth Mr. Griffith Owen i fyw i'r dref; a dewiswyd ef yn ddiacon y flwyddyn gyntaf ar ol ei ddyfodiad. Ganesid ef yn mhlwyf Dolyddelen, a dygwyd ef i fyny mewn rhagfarn at y Methodistiaid, fel y cyffredin o'i gydoeswyr. Ond wedi clywed Romaine yn pregethu yn Llundain, daeth arno flys i wybod pa fath oedd y bobl yr oedd cymaint o ddywedyd yn eu herbyn. Ond cyn rhoddi clust iddynt, ewyllysiai ymgynghori ag offeiriad, am yr hwn y llochesai feddwl uchel, sef Mr. Morgans, Llanberis.

Cafodd gyfleusdra i gael meddwl Mr. Morgans drwy iddo ddyfod i bregethu i eglwys Dolyddelen; ac yn ei bregeth, efe a ardystiodd wrth ei gynulleidfa, mai gwŷr da a duwiol oedd y rhai a ddeuent o'r de i bregethu, ac mai eu hamcan oedd llesâu eu cydgenedl. Penderfynodd hyn feddwl Mr. Owen; aeth i wrando y Methodistiaid; ac yn fuan ymrestrodd yn aelod yn eu plith. Nid oedd ar y pryd ond 18 ml. oed. Fel hyn y dechreuwyd cymhwyso swyddog i eglwys y Methodistiaid yn Nghaergybi, yn gyntaf yn Llundain, trwy weinidogaeth William Romaine, a thrachefn yn Nolyddelen, trwy weinidogaeth y Methodistiaid eu hunain. Rhoes ei bresenoldeb a'i wasanaeth ef, mewn undeb ag eraill o'i gydweithwyr, ysgogiad ychwanegol i'r achos crefyddol yn ei flaen yn y dref hon.

Yn y fl. 1808, ychydig ddyddiau cyn marwolaeth Richard Jones, yr oedd y brodyr yn cynllunio capel newydd. Adeiladwyd ef yn y canlyniad; ac er nad oedd ond bychan, sef 12 llath wrth 9, eto bernid fod cryn orchest wedi ei wneuthur. Yn mhen saith mlynedd ar ol hyny, ail-adeiladwyd ef, gan ei helaethu yn fwy na chymaint arall a'r un o'i flaen.

Yn y blynyddoedd canlynol, cododd yr achos yn Nghaergybi i sylw a pharch neillduol. Ystyrid yr eglwys, o ran swyddogion, undeb, a haelioni, yn un o'r rhai enwocaf yn Nghymru.

Ar ryw adegau, fe fyddai Ysbryd yr Arglwydd yn gweithio yn fyw amlwg, ac i raddau mwy nerthol, nag ar amserau eraill. Sonir yn neillduol am effeithiau un bregeth o eiddo Robert Roberts, o Glynog, mewn cymdeithasfa a gynaliwyd yn y dref hon, tua 60 ml., neu ychydig yn llai, yn ol. Nid oedd y pregethwr yn cael dywedyd ond ychydig eiriau ar unwaith, na fyddai y gynulleidfa, megys yn cael ei haredig gan rym y gwirionedd, ac yn tori allan yn un floedd fawr, gan lesteirio i'r pregethwr fyned yn mlaen, cyffelyb fel yr oedd yn y deml gynt pan y llanwyd hi gan y cwmwl, "fel na allai'r offeiriaid sefyll i wasanaethu." Yr oedd y gair yn ngenau y pregethwr yn dân, a'r bobl yn gynud, a rhyfeddol fel yr enynai y naill y llall. Y pryd hwn,

syrthiodd amryw yn farw gan ddychryn, yn mysg y rhai yr oedd un ferch, yr hon na ddadebrodd byth!

Dylynwyd Richard Jones yr henaf gan ei fab o'r un enw fel swyddog yn yr un eglwys. Nid oes genym ddim amgylchiadau hynod yn oes y mab i'w croniclo, y fath a berthynai i'w dad, eto nid oedd y mab yn ol i'w dad mewn cymeriad uchel fel crefyddwr, ac mewn llafur a gwir ofal calon am achos yr efengyl. Yr oedd Mr. Richard Jones yn ŵr o feddwl rhydd a haelfrydig, yn fwy na llawer o'i gydoeswyr crefyddol. Yr oedd gwir ysbryd diwygiwr ynddo. Nid newydd-deb peth, na'i hender chwaith, a ennillai ei gymeradwyaeth, ond ei lesoldeb. Ni ymlynai wrth beth yn unig am ei fod yn hen, ac ni ruthrai at beth yn unig am ei fod yn newydd. Ymdrechodd lawer i gael capelau Mon yn ddiddyled, a mawr oedd ei awydd i gael rhyw gynllun anrhydeddus ac effeithiol i roddi cynaliad teilwng i weinidogaeth y gair. Wedi blynyddoedd o lafur, gofal, a defnyddioldeb, yntau a hunodd yn heddychol yn yr Iesu, yn y fl. 1847, yn 66 ml. oed.

Mae cynulleidfa y Methodistiaid yn Nghaergybi, bellach, yn dair canghen. Heblaw y fam-eglwys yn y dref, yr hon sydd un o'r rhai mwyaf yn Mon, ïe, yn Nghymru, y mae, weithian, ddwy gangen wedi tarddu o honi, un ar bob llaw i'r dref; cynulleidfaoedd siriol eu gwedd, a lluosog eu rhif. Y mae yn awr yn preswylio yn y dref, rhwng y rhai a ddechreuodd bregethu o fewn yr eglwys, ac eraill o ddyfodiaid, bump o bregethwyr, sef y Parch. Hugh Jones; Mr. Richard Jones, ŵyr i'r gŵr o'r enw a fu mor llwyddiannus i sefydlu Methodistiaeth yn y dref; yn nghyda Robert Jones; Evan Thomas, ac Owen Hughes.

## OWEN THOMAS ROWLAND.

Wedi gwneuthur ychydig grybwylliad am y gŵr hwn o'r blaen,* daeth hanes helaethach am dano i law, a chan ei fod o gymeriad tra hynod, a'i oes yn gyflawnach na chyffredin o droion tarawiadol, yr ydym yn barnu mai ein dyledswydd ydyw ail-alw sylw y darllenydd ato. Ysgrifenwyd ei hanes gan Mr. Daniel Jones, mab Robert Jones, Rhoslan, *o'i enau ef ei hun.*

Ymddengys iddo gael ei eni tua'r fl. 1735; ac am yr 28 ml. cyntaf o'i oes, ddarfod iddo ragori ar nemawr un yn ei oes a'i wlad mewn diofalwch am ei enaid, ac mewn dibrisdod o'i gorff; dyn oedd heb ofni Duw, na pharchu dyn;—dyn bras ei iaith, ac anfad ei fuchedd. Ai i Beaumaris bob *sessiwn*, a deg swllt a deugain neu dair punt yn ei logell, (swm mawr y pryd hyny), ac a'u gwariai oll cyn dyfod adref. Addefai iddo yfed dau chwart o gwrw ar un traflwnc; tywelltid ef i'w enau megys y tywelltir i gostrel. Chwareu cardiau a wnai y dydd, ac yfed cwrw y nos. Pawb a ddywedent wrth ei fam, mai ei fagu i'r crogbren a wnaeth. Dyn ydoedd yn gofalu ychydig iawn am gyfraith ei wlad, a llawer llai am gyfraith ei Dduw. Am yr 20 ml. cyntaf

* Cyf. I., tudal. 113.

o'i oes, nid oedd nemawr bregethu yn y wlad oddieithr yn llanau y plwyf; arferion y wlad oeddynt dra llygredig, ond yr oedd O. Thomas yn nodedig yn mysg y rhai anfad eu hunain, ac yn ben ar *sect* y barbariaid.

Rhoddir drychfeddwl cywir pa fath ddyn ydoedd trwy ei ymosodiad unigol ar neidr fawr, a barai ei harswyd yn yr holl fro, a chan fod a wnelo yr amgylchiad ag arafu gradd ar ei gamrau, priodol, tybygid, ydyw gosod yr amgylchiad i lawr. Can mlynedd yn ol, pryd yr oedd yr haf yn boethach, a'r preswylwyr yn deneuach nag yn awr, fe ymddengys fod y wlad hon yn cael ei blino gan luaws o bryfed gwenwynig, y rhai oeddynt o wahanol faintioli, a rhai yn dianc heb eu lladd nes byddent wedi cyrhaedd maintioli peryglus i un neu ychwaneg o ddynion, ymosod arnynt. Y cyfryw oedd y neidr hon. Yr oedd y creadur wedi tyfu i faintioli arswydus; yr oedd yn adnabyddus i'r trigolion, a llawer wedi ei gweled, ond pawb yn ofni ymosod arni. Tybygid mai yn mhlwyf Llechgynfarwy yr oedd, y plwyf yn mha un yr oedd Owen Thomas y pryd hyny yn byw.

Ar ryw Sul y pasg, aeth i'r cymun, bid siwr, ac ar ol yr ymbarotoad defosiynol (?) hwn, penderfynodd ymosod ar y neidr. Aeth i'r efail, (oblegid gôf oedd efe), ac a gymerth droed pigfforch, dwy lath o hyd, yn ei law, ac a aeth o amgylch y maesydd i chwilio am y pryf. Yr oedd Owen Thomas tua 24 ml. oed, ac mor wisgi a chyflym ag y medrai "ddal dafad heb lyffethair arni." Wedi chwilio enyd am dani, disgynodd ei lygaid arni yn gorwedd yn dorchau, gan ymblethu yn ddiofal ar fol clawdd. Parodd yr olwg arni gyffro trwy ei holl natur, ac er fod yr anturiaeth yn un a allai gostio iddo ei fywyd, efe a ffyrnigodd at yr ymdrechfa. Nesaodd ati ac a'i tarawodd a'i holl egni. Dysgwyliai i'r dyrnod fod yn ddigon, os nad i'w lladd, i'w gwanychu a'i hanafu; ond fe ddygwyddodd ei bod wedi ymdorchi o amgylch careg, ac yn anffodus i'r gôf, disgynodd grym mwyaf y dyrnod ar y gareg; torodd troed y bigfforch yn ddau, ac ni wnaeth y dyrnod i'r neidr nemawr amgen na'i chynddeiriogi. Nid oedd gan Owen Thomas, bellach, yn ei law, ond pwt byr o'r troed, tua hanner llath o hyd, a'r darn mwyaf wedi ei hyrddio yn mhell.

Yn awr, gan hyny, yr oedd yr ymdrech yn dechreu. Wedi derbyn rhan o'r dyrnod, llamodd y neidr oddiar y clawdd, a'i cheg fawr goch yn agored, ac yn chwythu yn arswydus; osgôdd yntau ei naid, a chafodd gyfle mewn aeliad i neidio tros y clawdd; cafodd y darn arall o goes y bigfforch; a thaflodd ei *gôt* a'i *wascot* ymaith; bellach, yr oedd ei elynes yn ei ymyl, ac yn ceisio at ei goesau. Bu yn ymladd â hi dros ryw enyd, gan osgôi ei llamiadau trwy gilio o'r neilldu, nes oedd ymron allan o wynt, ac yn ofni colli y dydd. Tybiodd, bellach, fod ei diogelwch yn nghyflymder ei droed, ac i ffordd ag ef; hithau mewn eithaf cynddaredd a'i dylynodd, ac fel yr oedd ei wynt ef yn byrhau, yr oedd hithau yn ennill arno, nes oedd ymron wrth ei sawdl. Wedi deall ei bod mor agos, a'i anadl yntau yn colli, ceisiodd ddyrnod iddi, megys o'i ol, a dygwyddodd ei tharo mewn lle atgas, nes ei syfrdanu dros fynydyn, a nodi coes y bigfforch a gwaed. Dadebrodd hyn ronyn arno yntau, a chan brysuro ei gam ennillodd beth tir arni. Ond am enyd

bach y bu hyn. Wedi mynyd o lewygfa, hithau a adfywiodd; ac yn fwy cynddeiriog nag o'r blaen, hi a adnewyddodd ei llamiadau, fel un wedi ymroi i ddial ar ei gelyn, nes oedd drachefn wrth ei sawdl. Nid oedd ganddo, bellach, ond un ymdrech i'w wneyd, ac os methai hwnw, nid oedd i'w ddysgwyl ond bod yn ysglyfaeth i'r creadur gwenwynig a llidiog. Wedi deall, trwy droi ei olwg yn ol, ei bod o fewn cyrhaedd dyrnod, efe a'i ceisiodd hi a'i holl egni, a tharawodd hi eilwaith mewn lle atgas, nes iddi syrthio, a'i gwaed yn cerdded. Trodd yntau yn ol, gan gymeryd y fantais ar ei llewyg, ac a gurodd ei phen yn siwtrws. Syrthiodd yntau ei hunan i lawr yn ei hymyl, ymron wedi darfod am dano.

Dywedir ddarfod i'r ymdrechfa hon fod yn foddion i arafu peth ar ei gamrau, a lliniaru ychydig ar ei ddibrisdod. Symudodd ei gartref, ac aeth i fyw i Dulas. Yn mhen tua phedair blynedd ar ol bod yn ymladd â'r neidr, a phan oedd yn 28 ml. oed, dygwyddodd fyned i wrando Hugh Griffith, Llanddaniel, y tro cyntaf erioed iddo glywed pregeth gan neb o'r ymneillduwyr: ac yn mhlwyf Penrhos-Llugwy y cadwyd yr oedfa, yn y fl. 1763. Meddai ef ei hun, "Fy hudo i'r oedfa a wnaed, ac wedi myned i mewn i'r tŷ unwaith, anmhosibl oedd dyfod allan, gan faint oedd y tyndra; minau a dawelais i aros, ac a lechais yn nghîl y drws. Wrth i'r gŵr bregethu, torais allan i lefain dros y tŷ. Soniai, fel yr oedd Moses yn sefyll ar yr adwy, ac yn attal dyrnod dialedd i ddisgyn ar Israel; ac argyhoeddai yn llym y tyngwyr a'r rhegwyr. Effeithiodd y bregeth hon yn ddwys arnaf, a thrôdd fi yn llwyr oddiwrth yr arferion o dyngu, rhegu, a thori y Sabboth."

Charles Marc, o sir Gaernarfon, oedd y nesaf a glywodd yn pregethu. Golwg wladaidd a thlawd oedd ar y pregethwr; ac wrth ei weled, teimlai Owen Thomas ei enaid yn ei ddiystyru; "ond," meddai, "pan ddechreuodd bregethu, cefais fy aredig gan argyhoeddiadau saith mwy nag o'r blaen. Ar y gair hwnw y pregethodd, 'Am hyny yr annuwiolion ni safant yn y farn, na phechaduriaid yn nghynulleidfa y rhai cyfiawn.' Bu'm am flwyddyn yn crïo ac yn llefain yn y moddion, a hyny, yn aml, pan oedd eraill yn nofio mewn gorfoledd.

"Ond wrth wrando William Prisiart Siôn,* pregethwr tanllyd a selog o'r deheudir, yn traethu ar y testyn, 'Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Grist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid,' yr ymollyngodd y cadwynau oddiar fy enaid, a methais inau ymattal heb ganu, canmol, diolch, a neidio.

"Enyd ar ol hyn, aethum i gymeryd y cymun i lan y plwyf, a ffaelais ymattal yno heb waeddi dros y llan, wrth feddwl am farwolaeth Crist drosof,—y cyfiawn dros yr anghyfiawn. Ar hyn, digiodd yr offeiriad a'r bobl wrthyf yn aruthrol, a chollodd y gwin ar y bwrdd ac ar y llawr yn y cyffro; a llawer o fygythion a gefais y rhoddid fi yn llys Bangor, am halogi yr eglwys."

* Dywedir yn "Nrych-yr-Amseroedd," tudal. 91, mai Peter Williams oedd y pregethwr.

Er fod y tori allan i waeddi yn beth dyeithr iawn yn y llanau, yr oedd yn dygwydd yn fynych iawn dan bregethau effro a llymion y diwygwyr; a phrin, yn ol tystiolaeth O. Thomas, y byddai oedfa yn pasio heb fod rhyw un yn cael ei ddwysbigo yn ei galon.

"Yn mhen pum mlynedd a hanner," defnyddiwn ei eiriau ef ei hun, "ar ol dechreu gwrando, dechreuodd y diafol gynhyrfu ei offerynau;—person y plwyf, a rhyw wraig foneddig, a fynasant gael canu yn erbyn y crefyddwyr, yr hwn a wnaeth lawer o'i ol ar y gymydogaeth."

Dyma un pennill:—

"Mae'r gôf wrth bwyntio'i hoelion,
Yn tybied yn ei galon,
Ei fod yn well ei ddysg a'i ddawn,
Na llawer iawn o 'sgobion."

Y pennillion a anfonwyd gan y wraig foneddig i bob tŷ, a mawr oedd y cyffro a godwyd yn yr holl fro. Ymddengys oddiwrth yr amnaid a roddir yn y pennill uchod, fod O. Thomas wedi dechreu cynghori y pryd hyny. Ond nid hir ar ol hyn y bu, cyn fod gorchymyn iddo ef, a 17 eraill o grefyddwyr, ddyfod o flaen goruchwyliwr *Lord Boston*, a pherson y plwyf, i roddi cyfrif am eu proffes. "Aethom yno," meddai y gôf, yn ol y gorchymyn. "Gofynwyd i ni, a wnaem ni ammod i beidio gwrando dim oll ar y Methodistiaid? Os gwnaem, y caem aros yn ddiddig yn ein tai a'n tiroedd, ac onide, rhaid oedd i ni eu gadael. Yr oedd y goruchwyliwr, ar y pryd, yn dal yn ei law bapurlen fawr, yn cynwys gorchymyn ei feistr, ac yn ei darllen.

"Anturiais i *bledio* fod rhyddid cydwybod yn y llywodraeth i bob dyn addoli Duw, yn y lle y myno; ond nid gwiw oedd *pledio;* yr unig ateb a geid, oedd, 'Dyma orchymyn fy meistr.'

"Dechreuodd un o honom, gyda hyn, ollwng ei het i lawr, curo ei ddwylaw, a dechreu neidio yn mharlawr y gŵr boneddig, a llefain, 'Bendigedig f'o Duw! Hosanna i Fab Dafydd!' Pan geisiai y person ganddo beidio, âi i lefain yn fwy o lawer, nes oedd gwynebau y boneddwyr yn glasu gan gymysg deimladau, a'r goruchwyliwr yn gollwng y bapurlen i'r llawr. Aeth y crefyddwr allan dan lefain, 'Ffarwel, frodyr anwyl, pwy bynag a wertho deyrnas hardd, a choron deg, am dyddyn o dir, a thalu yn ddrud am dano,—os caf gymhorth, gan y brawd a anwyd erbyn caledi, ni wnaf fi byth!"

Ar ol hyn, aeth pawb adref, ond yn mhen ychydig amser, daeth 15 o'r 18 yn ol i ymrwymo i beidio gwrando byth mwy ar y Methodistiaid, ond safodd y tri arall, sef, Owen Thomas Rowlant; Richard Hughes, sîop Rhos-tyddyn; a Richard Williams, Tyddyn-bach. Y gŵr olaf a enwyd, medd yr hanes, oedd yr un a dorodd allan i folianu, a galwyd ef yn y canlyniad yn *Dic y tân*. Trowyd y tri hyn allan o'u tyddynod.*

* Mae gradd o wahaniaeth yn yr hanes uchod a'r un a roddasid o'r blaen, Cyf. I., tudal. 113, ond gan mai yr olaf yw y tebygaf o fod yn gywir, rhoddir ef yma i lawr.

Ond er i'r pymtheg eraill gael aros yn eu tyddynod, collasant gymaint a hyny o barch; syrthiasant i ddiystyrwch cyffredinol; gelwid hwy yn *Turn-coats*, a buont byw a marw mewn gwrthgiliad a chaledwch gresynol. Am y ddau eraill, Richard Hughes, a Richard Williams, buont fyw yn hapus, a buont feirw yn orfoleddus: a gorfoledd mawr a fu yn y llan ar gynhebrwng Richard Williams; torodd y bobl allan i ganu, canmawl, a neidio, nes ffaelu o'r offeiriad gael darllen y gwasanaeth arferol.

Wedi methu cael gan Owen Thomas roi heibio ei broffes na'i gynghori, nid oedd dim ond ceisio ei ymlid o'r wlad trwy dori ei fywioliaeth. I'r dyben yma, rhoddwyd rhybudd i holl dyddynwyr y wlad i beidio auion gwaith iddo, dan berygl cael eu troi o'u ffermydd. Dyrysodd hyn ei amgylchiadau, nes ei ddarostwng i dlodi dwfn.* Ië, cymaint oedd eu cynddaredd yn ei erbyn, fel na chai fyned i ymweled â'i fam ond yn y nos, rhag, os deallid ei bod yn rhoddi un swcr iddo, iddi hithau gael ei throi o'i thyddyn.

Wedi iddo fod yn y blinder hwn yn hir, penderfynodd adael ei wlad, a cheisio gorphwysdra yn rhyw ran arall o'r byd. Felly ymadael a wnaeth, ac yn Lerpwl y disgynodd. "Cefais," meddai, "bob derbyniad gan bobl Mr. Wesley; gwnaethant i mi bregethu Cymraeg yn eu capel yn *Pitt-street*, yr hwn oedd yn cael ei adeiladu, ond heb ei orphen y pryd hwnw. Denai yno lawer o gannoedd o Gymry, a chefais lawer o annogaeth i ymuno â'u corff hwy. Addawent ddysgu Saesonaeg i mi, ac na chai fod arnaf eisieu dim, ond i mi lafurio gyda hwy dros fy oes. Ond gwrthod y cwbl a wneuthum. Bum yn Lerpwl dri chwarter blwyddyn rhwng dau dro, ond ffaelais gael gorphwysdra yn fy ysbryd nes dychwelyd yn ol i fy hen wlad. Wedi dychwelyd o Lerpwl y priodais———.

"Llawer o luchio cerig a fu arnaf wrth fyned trwy dref Llanerchymedd. Yr oeddynt yn disgyn o fy nghwmpas ymron mor aml a'r cenllysg. Wrth bregethu yno unwaith, cefais *gnoc* ar fy nghlust, ac ar fanau eraill, nes fy archolli yn drwm, a pheri i mi golli cryn lawer o waed."

Y cyfryw ydyw y darluniad a ddyry y gŵr hynod hwn o hono ei hun. Ymddengy fod Llanerchymedd ar y tymhor y cyfeiria Owen Thomas ato, yn gauedig iawn yn erbyn yr efengyl, a'r erlid yn greulawn ar y rhai a gynygient ei phregethu. Bu y gŵr hwn yn gorfod tynu y llaid a'r dom oddiar ei wyneb wrth bregethu, gan faint o hono oedd yn cael ei luchio arno. Unwaith, yn y dref hon, anfonodd y meddyg rhyw gyfaill iddo â gwydraid o wirod, i'w herio arno tra yr oedd yn llefaru.

Pan oedd Owen Thomas yn 66 ml. oed, ac yn dychwelyd adref, wedi bod yn pregethu i ychydig o Fethodistiaid Cymreig yn y dref hon, *(Liverpool)*, cyfarfu a chryn anhawsder ar y ffordd, os nad perygl am ei iechyd neu ei fywyd. Cychwynodd o Lerpwl 2 o'r gloch y prydnawn, ar ŵyl Fair, gan gyfeirio tua *Park-gate*, er mwyn croesi oddiyno i sir Fflint. Tarawodd wrth

* Cyfaddefai ei fod yn gorfod golchi ei grys yn aml yn y ffosydd, a'u sychu ar y perthi, gan rym yr erlidigaeth oedd arno.

ddyn ieuanc, yr hwn, dan rith caredigrwydd, a'i harweiniodd i ganol y maesydd, gan broffesu fod llai o ffordd na phe yr aethid ar hyd y brif-ffordd. Wedi i gysgodau yr hwyr orchuddio y wlad, gadawyd y truan yn y tywyllwch, ac yn nghanol gwlad ddyeithr, ac estron genedl, ac yntau heb fedru dim o'u hiaith. Erbyn hyn, yr oedd mewn penbleth flin, ac nid oedd ganddo yn gyfarwyddyd i geisio am y ffordd fawr, ond cyfeiriad y gwynt, wrth yr hwn yr oedd yn dyfalu ar ba law i droi. Fel hyn y bu yn crwydro am ysbaid tri chwarter awr cyn cyrhaedd y ffordd. Ymroddodd i gerdded, bellach, gan ddysgwyl y deuai at ryw dŷ; ond fe fu yn cerdded ar hyd ffordd drom, trwy wynt a gwlaw, nes oedd wedi llwyr ddiffygio gan flinder a digalondid. Wedi llwyr anobeithio cyrhaedd llety y noson hòno, (yr oedd, bellach, yn 8 o'r gloch,) efe a benderfynodd letya dan y berth ddrain; a chyn gorwedd i lawr i orphwys, yn ei ddillad gwlybion, dan y berth, aeth ar ei liniau i orchymyn ei hunan i'r Arglwydd, ac erfyn ei nodded trosto. "Wrth geisio gweddio," meddai, "am i'r Arglwydd, os oedd ganddo ragor o waith i mi i'w wneyd, ddiogelu fy mywyd a'm hiechyd, ni allwn lai," medd yr hen gristion trallodedig, "na diolch fy mod cystal fy lle, mewn cydmhariaeth i'r rhai y sonia yr 11eg bennod o'r Hebreaid am danynt; 'y rhai fu yn crwydro mewn crwyn defaid a chrwyn a geifr, yn ddiddym, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr; yn crwydro mewn anialwch a mynyddoedd, a thyllau ac ogofeydd y ddaear."

Gyda'i fod yn codi oddiar ei liniau, a'i enaid wedi ei ddigoni gan y syniadau crybwylledig, ac yn parotoi i orwedd dan y berth, wele bedrolfen yn dyfod heibio, a'r certwynwr yn canu ei oreu. Trwy ryw fodd, fe ganfu yr adyn dan y berth, a gwaeddodd arno, gan ofyn iddo y naill gwestiwn ar ol y llall, ond, gan ddiffyg iaith, nid oedd ateb i'w gael, ond gofyn yn floesg, "*Where 's Park-gate.*" Ar hyn, deallodd ei gyflwr, a chipiodd ef i fyny i'r gludfen, gosododd ef i eistedd ar ryw *farilau* gweigion, a rhoes hugan fawr drosto, gan ddangos caredigrwydd mawr tuag ato. Yn y modd hwn y gwaredwyd ef y tro hwn rhag fferu gan wlybaniaeth ac oerni.

Nid oes brawf genym am yr amser yr aeth i breswylio i Gaergybi, ac nid oes hanes genym wrth law, pa bryd y bu ef farw; hyn a wyddom, ei fod yn fyw dros ryw dymhor ar ol dechreu y ganrif bresenol. Nid oes amheuaeth am ei gywirdeb, ac y mae llawer o brofion ar gael ddarfod ei fendithio i lesâu llawer o'i gydwladwyr tywyll ac anfoesol. Yr oedd llawer o gymhwysder ynddo i gwblhau gwaith garw y weinidogaeth, ac i ddyoddef triniaeth arw y gwrthwynebwyr. "Cefais," meddai, "gryn erlid yn Amlwch, ac yn Llanfechell, ond po fwyaf o dom a luchid i fy wyneb, mwyaf a estynid o gymhorth i mi, a mwyaf *di-ildio* yr ymdeimlwn, fel na chymerais fy rhwystro erioed gan yr erlidiwyr." Peth cyffredin iawn, tybygid, iddo ef, oedd ceisio ei attal i bregethu trwy floeddio, tyngu, rhegu, a difenwi; ond nid oedd yn gwneuthur un cyfrif o ddim o'r pethau hyn, ond defnyddiai bob cyfle a roddid iddo i rybuddio ei gydwladwyr o'u perygl. "Ar y ffordd *bost*, yn agos i Lanynghenedl," meddai, "tarewais i ganol llu o ddynion yn chwareu,

ac wrth eu clywed yn rhegu yn ddychrynllyd, ffaeliais a'u dyoddef, ac ymollyngais i'w cynghori. Cefais lonyddwch am chwarter awr neu ugain mynyd, a chymhorth i'w rhybuddio gyda phob addfwynder a thosturi, gan ddangos parodrwydd y Duw mawr i faddeu iddynt, ac i'w derbyn i ffafr." Daeth llawer o'r gwrandawyr hyn i brofi grym y gwirionedd eu hunain, ac i broffesu yr Arglwydd Iesu.

---

## PENNOD V.

### HEN EGLWYSI GORLLEWINOL MON.

CYNWYSIAD:—

CAERGEILIOG—HYNAFIAETH YR ACHOS—PIERCE PRITCHARD—THOMAS WILLIAMS A'I WRAIG—MYNEDIAD Y WRAIG I DREFECCA, A'I DYCHWELIAD YN OL—EI HYNODION—ADEILADU CAPEL YN 1786—YMEANGIAD YR ACHOS YN BEDAIR CANGHEN—JOHN JONES, CEFN—ROBERT JONES, CAE'R-DDOL—WILLIAM JONES, GLAN-YR-AFON—TY'N-Y-MAEN—DAFYDD LLOYD—ADEILADU Y CAPEL—CYNULLIAD EGLWYSIG—LLANFWROG—JOHN THOMAS Y GOF—CODI YSGOL SABBOTHOL, &c.

### CAERGEILIOG.*

YR oedd achos gan y Methodistiaid yn y gymydogaeth hon er yn foreu. Yr oedd yma eglwys wedi ymgorffori, a chynulleidfa yn ymgasglu, cyn y flwyddyn 1763; ond nid yw yr hanes yn ein hysbysu pa gyhyd cyn hyny, Yn Ty'n-y-merddyn, pa fodd bynag, yr ymgynullent. Meddai hen ŵr o'r enw John Jones, Cefn Caergeiliog, cyn iddo ymadael â'r byd, wrth ŵr sydd yn awr yn fyw,† "Dy daid, Pierce Prichard, oedd y blaenor pan y cefais i y fraint o ymuno â'r cyfeillion yn Ty'n-y-merddyn, yn y fl. 1763, a chanddo ef y cefais y Testament Newydd cyntaf a fu yn fy meddiant erioed. Ni ellais gael Beibl o fewn yr ynys; ond John Robert Lewis, Caergybi, ar ei daith yn Lleyn, sir Gaernarfon, a fu yn offeryn i'w gael. Cefais fy nghynal yn nghymdeithas fy mrodyr am 65 o flynyddoedd. Nifer y cyfeillion, pan yr ymunais i â hwy, oedd pedwar, sef Pierce Pritchard, Cryglas, a'i frawd Owain, yn nghydag Owain Williams, a'i wraig, y rhai a gyfaneddent y tŷ ar y pryd."

Nid oes ar gael ychwaneg o hanes y blaenor Pierce Pritchard fel crefyddwr, ond yr hyn a ysgrifenwyd ar ddalen Beibl yn y gymydogaeth ar ol ei farwolaeth, ac nid ydyw ond byr iawn, er bod yn dra anrhydeddus. "Yn y flwyddyn 1767, ar y 3ydd o fis Ebrill, bu farw Pierce Pritchard, yr hwn a fu ffyddlawn yn ei oes."

Yn y flwyddyn 1775, neillduwyd ei fab, Robert Pierce, i flaenori yr eglwys yn Ty'n-y-merddyn, ac yn 1780, cafwyd cyfarfod misol i'r lle, y cyntaf a fu yno erioed. Yn fuan ar ol hyn, sef yn y flwyddyn 1781, symudodd Thomas Williams a'i wraig, o'r Pentref-bwâau i Dy'n-y-merddyn i fyw. Mab oedd ef i William Thomas Owain, o'r Fagwyr, ac wedi hyny o'r Tŷ-mawr, Llan-

* Y mae capel Caergeiliog yn sefyll ar fin y ffordd fawr o Fangor i Gaergybi, o fewn rhyw bump neu chwe milldir i'r lle olaf.

† Mr. Robert Pierce, Cryglas.

trisant, am yr hwn y soniasom eisoes. Yr oedd y mab yn meddu yr un ysbryd, ffydd, duwiolfrydedd, a dianwadalwch, a'i dad, ac yn ŵr o dymher addfwyn ac ennillgar. Ei wraig oedd Elin, neu Elinor Dryhurst, yr hon y mae ei choffadwriaeth yn fendigedig yn ei gwlad hyd heddyw. Merch oedd hon i Hugh Dryhurst, ac ŵyres i John Dryhurst, yr hwn a ddaethai o Scotland yn amser Cromwell, ac a wladychodd yn ngogleddbarth Mon. Yr oedd i Elin Dryhurst ddwy chwaer a brawd, wedi eu hamddifadu o'u rhieni er yn ieuainc, ac oll yn byw gyda'u gilydd yn eu cartref cyntefig. Yr oedd iddynt oll nodweddiad da, a chyfrifid y tair chwaer y tylueddesau goreu yn y wlad. Yr oedd eu brawd Hugh yn ddyn o gymeriad da, ond efe a lofruddiwyd ar y ffordd adref, wedi bod yn gwerthu gwartheg yn ffair Llanerchymedd. Yspeiliwyd ef o'i arian, a thaflwyd ei gorff i'r dwfr; a galwyd y bont a groesai yr afon yn y lle, yn *Bont-y-pwll-coch* hyd y dydd hwn.

Dywedir mai trwy weinidogaeth Howel Harris y dygwyd Elin Dryhurst ati ei hunan, ac at Geidwad pechadur; a hyny cyn iddi briodi. Ymddengys hyny wrth y dull y gwahoddid ei gŵr hi gan ewythr iddo, i ymweled ag ef, yn mhen ychydig wedi priodi. "Tyr'd i edrych am dana'i, Twm, a dy 'bengrwn' gyda thi, gael i mi ei gweled." A mawr y boddhad a gafodd yr ewythr ynddi. Nid oes amheuaeth nad ei fagu a gafodd Thomas Williams ei hun, fel Timotheus, yn ngeiriau y ffydd o'i ieuenctyd. Wedi iddo orfod ymadael â'r Tŷ-mawr, Llantrisant, o herwydd ei grefydd, efe a symudodd i'r Pentre, Llandrygarn, a chymerodd y cyfle cyntaf i agoryd ei dŷ i weinidogaeth yr efengyl, gan ei gofrestru i hyny yn ol y gyfraith. Wedi bod yn preswylio yn y Pentre am nifer o flynyddoedd, a bod o swcr ac ymgeledd i achos yr efengyl yno, efe a symudodd eilwaith i'w dir ei hun, sef Ty'n-y-merddyn, ger Caergeiliog, yn y flwyddyn 1781.

Bu Elin Dryhurst yn drallodus iawn ei-meddwl o dan yr argyhoeddiadau cyntaf, a chan fod y crefyddwyr ar y pryd yn anaml, a moddion gras yn brin, a chan y swn oedd ar hyd y wlad am fanteision Trefecca yn anad un lle arall, hi a benderfynodd fyned yno. Yr oedd hyn ar ol priodi, a phan oedd ganddi blentyn sugno. Ni ddywedir pa faint o les a fwynhaodd yn y sefydliad hwnw, ond hi a ddeallodd yn fuan nad oedd ansawdd ei hiechyd hi, ar y pryd o leiaf, yn alluog i ateb i'r rheolau caethion, a'r lluniaeth garw, oedd yn y lle hwnw.

Yn mhen enyd o amser, daeth ei gŵr, Thomas Williams, i Drefecca i'w chyrchu adref. Yn y cyfamser, bu teulu Trefecca yn daer iawn arni i addaw dychwelyd atynt yn ol. Hithau, oddiar eu taerineb hwy, a rhyw ystyriaethau eraill, a led-addawodd y gwnai. Ond wedi dyfod adref, daeth ar ei meddwl betrusdod cryf, a phenbleth flin o herwydd ei haddewid, fel y teimlai yn amheus a phrofedigaethus yn nghylch ei dyledswydd. Yn y cyfamser, ymwelodd gŵr dyeithr o'r deheudir â'r wlad, a bernir mai y Parch. Peter Williams ydoedd, i'r hwn y mynegodd hi ei holl helynt, gan erchi am ei gynghor a'i gyfarwyddyd. Rhoes y gŵr parchedig ei feddwl iddi yn ddibetrusder, gan ddweyd, "ei fod yn barnu mai ei dyledswydd oedd aros yn

ei chartref yn ddiddig, gan ddangos iddi mai wrth hyny y byddai yn fuddiol i'w theulu, ac o fwyaf o ogoniant i Dduw. Cysurodd hi hefyd â'r gobaith yr amlhâai ei breintiau cyn hir o amser yn ei gwlad, ac yn y cyfamser mai nid peth bychan oedd iddi hi fod ganddi dŷ a chalon i roddi llety, ac i ddangos caredigrwydd i weinidogion yr efengyl, mewn gwlad mor llawn o ragfarn, ac mor wag o wir grefydd."

Trwy y cyfryw gynghorion, cadarnhawyd hi yn y penderfyniad i aros yn ei chartref. Cyn hir ar ol hyn, daeth dau ŵr o Drefecca ati, gan geisio ganddi werthu ei meddiannau, a mudo yn llwyr, hyhi a'i gŵr, ac ymsefydlu yn mhlith y teulu yn Nhrefecca. Ond yr oedd y wraig yn benderfynol, a nacaodd gydsynio. Ar hyn, ffromasant yn erwin wrthi, a gwrthodasant luniaeth ganddi, er eu taer gymhell; bytheiriasant felldithion uwch ei phen, gan ysgwyd hyd yn nod y llwch oddiwrth eu traed yn dystiolaeth yn ei herbyn; ac felly, mewn agwedd ddigofus a chyffrous iawn, hwy a aethant ymaith, heb gymaint ag eistedd yn ei thŷ. Ie, meddir, mor haerllug a nwydwyllt oeddynt, fel ag i felldithio y plentyn bach ag oedd ar y pryd yn ei breichiau. Dan ymddygiad mor annynol, llawer llai Cristionogol, hi a droes ymaith, a'i henaid yn llesmeirio gan syndod a braw, a thros enyd nid oedd nerth ynddi. Ond yn y man hi a ddadebrodd, a thywynodd heulwen hyfryd ar ei hysbryd, mwy nag a fwynhasai o'r blaen, megys o ddyben i wrthweithio y felldith ddiachos a gyhoeddasid arni."

Mae yn anhawdd rhoddi i'r darllenydd ddrychfeddwl cywir am y wraig hon. Yr oedd yn un o'r gwragedd hynotaf yn ei hoes. Yr oedd ei gwybodaeth, ei dawn, ei gras, a'i defnyddioldeb, yr un mor ddysglaer. Yr oedd megys Miriam yn y gwersyll, neu fel Deborah yn fam yn Israel. "Yr oedd y wraig hon wedi ei chynysgaethu â'r fath ddoethineb a deall," medd un gŵr, "hyd onid oedd ei chynghor a'i chyfarwyddyd yn teilyngu sylw yr eglwysi. Gelwid arni yn fynych i weithredu yn gyhoeddus yn yr eglwys a'r gynulleidfa, a pharhaodd yn ddysglaer mewn gras a defnyddioldeb dros ystod ei hoes."

Yn y flwyddyn 1785, tua phedair blynedd ar ol i Thomas Williams ddyfod i gyfaneddu Ty'n-y-merddyn, cymerwyd ef yn glaf, a bu yn agos i angau. Yr oedd Ty'n-y-merddyn, erbyn hyn, wedi ei orlenwi â gwrandawyr, ïe, yr oedd y pedwar gŵr a gyfansoddent yr eglwys ar y cyntaf wedi cyrhaedd 80. Yr oedd y tŷ, bellach, yn rhy fychan, ac weithiau yn dra anghysurus gan ddiffyg lle. Unwaith, pan oedd Mr. Charles yno yn pregethu, yr oedd y gynulleidfa mor fawr, a'r tŷ mor annigonol i'w cynal gydag un math o gysur, nes cadarnhau y bwriad a lochesid eisoes i adeiladu capel. Felly yn ddioed ar ol i'r gŵr wella o'i glefyd, efe a neillduodd ddarn o dir, tua 200 o latheni oddiwrth ei dŷ, i adeiladu capel arno. Yn yr adeg yma, yr oedd y Parch. Evan Richards yn dygwydd bod yno yn pregethu. Dranoeth y boreu, gofynai Mr. Richards iddo am fenthyg ceffyl, i fyned i Gaergybi.

"Y mae yn anhawdd i mi roddi benthyg un heddyw, Evan, eto ti gei," oedd ateb Thomas Williams.

"Beth sydd a wneloch chwi â'r byd hwn, Thomas?" gofynai Mr. Richards iddo; "pa helynt sydd yn rhwystro i chwi fenthyg y ceffyl?—pe'r elai un flwyddyn eto dros eich pen, ni byddai raid i chwi wrth ddim o hono."

Felly yn gymhwys y dygwyddodd. Bu farw yn mhen blwyddyn, newydd orphen adeiladu capel Caergeiliog, yn y flwyddyn 1786, ac a gladdwyd yn mynwent Llandrygarn. Symudodd y weddw, bellach, yn ei hol at ei merch i'r Pentre. Yr oedd gwaeledd iechyd, ac unigrwydd sefyllfa, erbyn hyn yn prysur addfedu ei meddwl i fyd arall. Hiraethai am ei chyfnewidiad. Cofiodd i Mr. Richards ddarogan marwolaeth ei gŵr, a daeth arni rhyw chwilfrydedd plentynaidd i ofyn iddo, pan rhoddid cyfleusdra iddi, pa bryd y rhoddid iddi hi gael myned at ei gŵr. "Oh!" ebe Mr. Richards, gan wenu, "gall hen wraig fel chwi fyw yn burion bum mlynedd yn hwy." Hithau a dristaodd wrth feddwl byw cyhyd. Ac er mai yn ddiamcan y llefarodd Mr. Richards, eto ei air a wiriwyd drachefn; oblegid yn mhen y pum mlynedd, hithau a fu farw, yn y fl. 1791, yn 68 mlwydd oed.

Yn y flwyddyn 1795 y bu farw Robert Pierce, yn 45 mlwydd oed. Wedi adeiladu y capel, lluosogodd y gwrandawyr, a'r aelodau eglwysig, yn rhyfeddol, cymaint felly nes i bedair cynulleidfa godi o honi: un i Bodedern, un arall i Rhoscolyn, y drydedd i Lanfwrog, a'r bedwaredd i'r Bryndu.

Bu dynion o enwogrwydd yn dwyn cysylltiad â'r eglwys hon ar ol i'r capel gael ei adeiladu; megys, John Thomas, wedi hyn o Lanfwrog, a'i fab, Thomas Jones, Amlwch; y Parch. William Lloyd, Caernarfon; a Mr. Rees Lloyd, Treflesg.* Yr oedd y gŵr olaf a enwyd yn un o henuriaid penaf y wlad yn yr oes ddiweddaf. Yr oedd yn fwy ei wybodaeth na'i hynafiaid, heb fod yn llai ei bwyll a'i ras: gŵr ydoedd dan lywodraeth barn ac nid nwyd, yn ysgogi wrth egwyddor, ac nid wrth esiampl. Teilwng o'i goffâu ydyw William Owen, yr hwn a fu gyda'r brodyr, rhwng Ty'n-y-merddyn a'r capel, tua 60 mlynedd.

Helaethwyd y capel drachefn yn y flwyddyn 1817, yr hwn sydd adeilad da a phrydferth. Yr oedd yma wragedd nodedig eraill, heblaw yr un a enwyd, megys, Mrs. Letitia Lewis, Mrs. Margaret Lloyd, Treflesg, a Mrs. Catherine Roberts, Aberalaw, y rhai oeddynt hynod yn mhlith y dysgyblion.

Yr ydym wedi crybwyll enw John Jones, Cefn, fel un a gafodd y fraint o ymuno â'r ychydig nifer oedd yn meddwl am ei enw Ef yn yr ardal, mor fore a 1768. Teilwng ydyw ychwanegu am dano, mewn trefn i ddangos pa mor ddirgelaidd y mae rhagluniaeth Duw yn gwasanaethu achos yr efengyl, trwy y dull y dygwyd ef gyntaf i feddwl am ei ddiwedd. Meddai ef ei hun, a mynych yr adroddai hyny gyda dagrau, "Pan oeddwn yn byw yn Dinam bach, cyfarfum â damwain, trwy yr hon y torais fy nghoes; ac yn yspaid yr amser y bum yn garcharor gan y ddamwain, mi ddysgais ddarllen fy Meibl." Edrychai ar y dygwyddiad hwn yn un o amgylchiadau hapusaf ei oes. Efe a ddaeth, drwy yr oruchwyliaeth hon, yn fwy cydnabyddus â llyfr Duw

* Gwel Gofiant o hono, *Trysorfa* 1845, tudal. 55.

na'r rhan amlaf o'i gydwladwyr. Yn mhell ar ol hyn y llwyddodd, fel y dywedwyd, i gael Llyfr y llyfrau yn feddiant iddo ei hun. Cafodd y gŵr hwn y fraint o ddechreu y canu, o gyhoeddi yr oedfaon, ac o ofalu am geffylau y pregethwyr, am fwy na deugain mlynedd. Edrychai ar y gwasanaeth hwn i achos yr efengyl gyda mwy o foddhad nag yr edrych dynion y byd ar y pentwr cyfoeth a gasglesid ganddynt, neu yr edrych buddugoliaethwyr y ddaear ar y gorchestion mewn medrusrwydd a gwroldeb a wnaethid ganddynt ar hyd eu hoes. Wedi myned yn hen, a'i olwg wedi pallu, cwynai yn fwy na dim ei fod wedi ei analluogi i ddarllen y Beibl, "Byddai yn well genyf gael fy ngolwg," meddai un tro wrth gymydog, "i ddarllen y Beibl, na phe cawn dy bwysau di o aur."

Rhydd yr hanesyn canlynol ddrychfeddwl am wedd pethau yn mhlith y crefyddwyr boreol hyny. Cafodd un Robert Jones, Cae'rddol, ar ei feddwl i ymgyrhaedd am y weinidogaeth. Nid annhebyg ydoedd hefyd fod ei awyddfryd ef at y gwaith yn llawn mwy nag y barnai rhai o'r cyfeillion fod ei gymhwysder; ac ar yr un pryd, yr oedd yn anhawdd cael rheswm digonol i'w attal, gan nad oedd dim yn ei gymeriad fel Cristion yn ei luddias. Ond dygwyd yr achos i benderfyniad yn y modd canlynol. Mewn cyfarfod eglwysig, gosodwyd cais Robert Jones dan sylw, a barnwyd yn weddus rhoddi penderfyniad arno. Gofynodd Elin Dryhurst iddo, "At bwy y mae dy genadwri di?—ai at y byd, ynte at yr eglwys?"

"At yr eglwys," ebe Robert.

"O'r goreu," ebe hithau, "wele gyfleusdra i ti ei thraddodi. Dos ar dy draed ar y dimpan yna, a gâd i ni ei chlywed."

Cododd Robert i fyny ar fedr traethu yr hyn oedd ar ei feddwl, ond tywyllodd a dyrysodd ei feddyliau, fel nad oedd ganddo nemawr ddim i'w ddywedyd. Meddyginiaethodd hyn ef o'i glefyd, ac ni bu angenrheidrwydd ei luddias i bregethu, pe buasai bwriad i wneyd hyny, gan na wnaeth ef ei hun un ymgais at hyny rhagllaw.

Mae pob prawf a roddid o garedigrwydd y tadau at achos yr efengyl, ac o'u hymgysegriad iddo, yn werth ei goffâu a'i gofnodi. Gwneir hyny yn nydd y farn; crybwyllir yno gyda chymeradwyaeth, gan "Farnwr yr holl ddaear," pa gymwynasau a ddangoswyd ato ef a'i frodyr lleiaf, pryd na fydd un gair o son am orchestion plant y byd hwn. Bychan yn ngolwg llawer, ïe, amheus os nad beius yn ngolwg y dysgyblion, oedd gwaith y wraig yn tori y blwch enaint, ac yn ei dywallt ar ben yr Iesu; ond teilwng, er hyny, yn ngolwg yr Iesu ei hunan oedd fod coffa yn cael ei wneyd am y weithred pa le bynag y pregethid yr efengyl yn yr holl fyd, a hyny hyd ddiwedd amser.

Yr oedd gŵr crefyddol, o'r enw William Jones, yn byw mewn lle a elwir Glan-yr-afon, lle, tybygid, rhwng Caergeiliog a Chaergybi, pryd yr oedd y ddau le hyny yn gysylltiedig fel taith Sabboth, gan bregethwyr y Methodistiaid, ac angenrheidrwydd mynych eu cyrchu neu eu danfon i'r naill neu y llall. Yr oedd William Jones yn byw mewn llecyn cyfleus i hyn yma. Rhyw bryd yn y tymhor hwn, dygwyddodd i gaseg cymydog iddo friwo ei choes, a

barnwyd fod y briw yn anfeddyginiaethol, ac nad oedd yr anifail yn werth dim. Ond yn hytrach na'i lladd, rhoes ei pherchenog hi i William Jones. Yn mhen rhywfaint o amser, gwellhaodd y gaseg, yn groes i bob dysgwyliad. Wedi ei chael fel hyn mewn dull rhagluniaethol, barnai ei pherchen newydd mai priodol a theg oedd ei defnyddio yn ngwasanaeth yr Un a'i rhoes. Felly, offrymodd y gaseg o hyny allan i'r gwasanaeth o gyrchu a danfon pregethwyr, neu unrhyw negeseuau eraill o'r fath natur. Un tro, wedi bod yn danfon pregethwr i Lanfwrog, ac yn dychwelyd adref trwy y traethau oedd ar ei ffordd, dygwyddodd iddo yn amryfus ddyfod i lecyn o draeth byw, yn yr hwn y suddodd y gaseg, ac y glynodd. Methodd ei pherchenog, er pob ymdrech, ei chael allan; ac o'r diwedd, nid oedd ganddo ond ei gadael yno, gan ddianc oddiyno ei hunan cyn i'r llanw ei gyrhaedd. Felly, cymerodd y cyfrwy a'r ffrwyn, ac yn drist iawn gadawodd yr anifail i foddi, a dychwelodd adref. Ar ei ddyfodiad adref, gofynai y wraig iddo, Pa le y gadawsai efe y gaseg? Ond nid atebodd William y wraig, eithr troes ei gofyniad heibio oreu y gallai. Yn fore iawn dranoeth, pa fodd bynag, ymbarotodd William i fyned i'r traeth i flingo yr anifail marw; ond er ei ddirfawr syndod, yr oedd y gaseg eisoes wrth y tŷ. Ymryddhasai o'r traeth fel y daeth y llanw i lacio y tywod, ac i'w nofio hithau. Ystyrid yr hen gaseg, yn ddiamheuol, o hyn allan yn fwy cysegredig nag o'r blaen. Yr oedd marwolaeth ddwywaith, bellach, wedi cael ei siomi o'i ysglyfaeth, a hyny mewn modd na allai meddwl tyner William Jones lai na chanfod llaw Duw ac amnaid rhagluniaeth yn y tro.

## TY'N-Y-MAEN.

Mae y capel a elwir ar yr enw hwn yn un o hen gapeli y wlad hon. Y mae yn sefyll gerllaw y lle y soniasom yn fynych am dano, sef Chwaen-hen, cartref yr hen bregethwr Evan Griffith. Yn y tŷ hwn y ganed un Dafydd Lloyd, tad y diweddar Rees Lloyd, Treflesg, am yr hwn y crybwyllasom eisoes. Yr oedd mam y Dafydd Lloyd hwn yn wraig i'r pregethwr crybwylledig, fel ei hail ŵr. Cartrefodd y llanc gyda'i dad-yn-nghyfraith hyd nes y cyrhaeddodd 20 mlwydd oed, a chafodd lawer o ragorfreintiau crefyddol yn y Chwaen-hen, trwy fod ei rieni ill dau yn bobl wir grefyddol. Pan yn 20 mlwydd oed, symudodd at deulu crefyddol arall, sef i'r Tŷ-mawr, yn yr un plwyf, lle y preswyliai ar y pryd Thomas ac Elin Williams, *alias* Dryhurst, am y rhai y soniasom fwy nag unwaith. Bu Dafydd Lloyd yn aros yn Tŷ-mawr am flynyddoedd; a phan ymadawodd y teulu i drigo yn Pentre-bwäau, aeth yntau gyda hwy. Hawdd ydyw i ni ddyfalu ddarfod i'r achos yn Ty'n-y-maen, dan aden y teuluoedd hyn, gael swcr ac ymgeledd, ac er i Evan Griffiths gael ei alw i dŷ ei hir gartref, ac er i Thomas ac Elin Williams ymadael o'r ardal, eto parhaodd Pen yr eglwys i ofalu am ei ddeadell yn yr ardal hyd heddyw.

Yn yr ardal hon hefyd yr oedd Chwaen-wen, Pendre, a Bodonolwyn,

amaethdai y bu y rhai a'u haneddent yn ymgeleddwyr ffyddlawn, ac yn nodd-wyr cyson i'r efengyl, dros flynyddoedd lawer.

Adeiladwyd capel Ty'n-y-maen tua'r flwyddyn 1800. Dywed fy ngoheb-ydd am dano, "Yr oeddwn fy hun yn bresenol yn y bregeth gyntaf ynddo, a hyny cyn fod y pulpud wedi ei gwbl orphen, a'r pregethwr oedd Mr. Davies, Cynwyl; a'i destyn oedd 1 Ioan iii, 1, 'Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, &c.'" Pregethid er's rhai blynyddoedd cyn hyn mewn amaethdy cyfagos, o'r enw Pendre, cartref yr hen bregethwr duwiol, Edward Jones. Cedwid y cyfarfod eglwysig ar y pryd yn y Chwaen-wen, amaethdy arall yn y gymydogaeth, am 11 o'r gloch boreu dydd Gwener, bob wythnos. I'r lle hwn yr ymgynullai y crefyddwyr o ddeg o blwyfydd cylchynol, a chyfar-fodydd rhyfeddol a fyddent, y fath ag oedd yn peri dychryn megys yn yr holl gymydogaeth. Cyrchai gwŷr a gwragedd iddynt ar eu ceffylau, o filldir-oedd o ffordd, allan o'r deg plwyf y cyfeiriwyd atynt. Y pregethwyr a fydd-ent yn eu cadw oeddynt, John Jones, Bodonolwyn, ac Edward Jones, Pendre; ac yn eu cynorthwyo yr oedd William Owen, Chwaen-wen. Yr oedd y *society* hon yn lle ofnadwy, ac ymron yn annyoddefol i ragrithiwr neu ddyn annuwiol fod ynddi. Gellid dyweyd mewn modd arbenig am y cynulliad, "Mor ofnadwy ydoedd y lle hwn! nid oedd yma onid tŷ i Dduw, ac wele yma borth y nefoedd!" Yr oedd y ddysgyblaeth yn llem; ni roddid un wyneb i bechod na bai, eto yr oedd cariad a heddwch yn teyrnasu.

I ddangos pa mor ffyddlawn a didderbyn-wyneb yr ymddygai y naill aelod at y llall, gellir crybwyll rhai amgylchiadau bychain. "Dygwyddodd un-waith fod un o'r aelodau, gŵr cyfrifol ei sefyllfa, sef Mr. John Roberts, Aberalaw, wedi colli dechreuad y cyfarfod, trwy fod rhyw amgylchiad bydol wedi ei lesteirio. Daeth i mewn pan oedd John Jones, Bodynolwyn, yn dybenu y weddi gyntaf, a rhagddo ag ef i'r lle yr arferai eistedd. Ond John Jones a sefydlodd ei lygad arno, gan ymbarotoi trwy drefnu ei wallt, yn ol ei ddefod, i'w gyfarch. 'John bach (ebe efe), y mae eisieu eich argy-hoeddi arnoch yn eich cydwybod; yr ydych wedi lladrata amser y *society*.' Dro arall, yr oedd John Jones yn traethu yn hallt iawn yn erbyn enllib, athrod, a gwag chwedlau, ei ffon yn ei law, a'i law ar ei gefn, ac yn cerdded oddiamgylch y lle, ac o'r diwedd daeth gyferbyn â gwraig, yr hon a gyfarch-odd wrth ei henw, 'Annas fach, y mae arnaf ofn eich bod chwi yn euog yn ngwyneb y pethau hyn!'"

Yr oedd nifer yr aelodau y pryd hyn tua 80, ac yn eu mysg yr oedd amrywiol wragedd tra hynod mewn synwyr, gras, a defnyddioldeb, y rhai oeddynt mor ymroddgar a ffyddlawn gydag achos yr efengyl a neb yn yr holl wlad, pa un bynag ai gwŷr ai gwragedd. Sonir yn neillduol am wraig Bodynolwyn, gwraig Pendre, gwraig Ty'n-y-maen, gwraig Plas-yn-glyn, gwraig Aberalaw, a gwraig Chwaen-wen, heblaw amryw eraill, y rhai nid oeddynt mor amlwg, am fod eu hamgylchiadau bydol yn îs. Yr oedd y gwragedd hyn yn wir famau yn Israel; ond erbyn heddyw, y maent oll wedi eu symud, a'u lle nid edwyn ddim o honynt mwy.

Ond er y sirioldeb cyntefig a welid ar yr achos yn Ty'n-y-maen dros flynyddoedd lawer wedi ei sefydliad cyntaf, daeth tymhorau gauafaidd drosto ar ol hyny. Bu farw yr hen fugeiliaid cyntaf, a rhai blaenoriaid ieuainc tra gobeithiol ar eu hol hwynt; cododd eglwysi eraill fel blagur iraidd allan o'r hen gyff, a chollodd y cynulliad yn Ty'n-y-maen y bri cyntefig a berthynai iddo. Ond er fod yr eglwys a fu gyda'r fwyaf blodeuog yn y wlad o ran doniau a llewyrch, wedi disgyn i sefyllfa israddol, ac yn awr yn ymddangos fel seren llai ei maintioli, eto y mae yn aros hyd heddyw; y mae ynddi weddill yn abl i sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos, ac un o'i hen flaenoriaid yn aros, a'i law ar yr aradr er pob cyfnewidiadau. Pan yr ystyriom hefyd fod yn perthyn i'r Methodistiaid, er yr amser y dechreuodd yr achos yn Ty'n-y-maen, nid llai na chwech o gapeli, heblaw y rhai a berthyn i ymneillduwyr eraill, a hyny o fewn y cylch neu y plwyfydd y gwneid i fyny gynulleidfa Ty'n-y-maen gyntaf o honynt, cymhellir ni i ddweyd fod y "fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref."

## LLANFWROG.

Ni ellir dyweyd fod Methodistiaeth y lle hwn yn nodedig am ei hynafiaeth; mae llawer man yn Mon yn fwy felly; ac yn neillduol y manau y soniwyd eisoes am danynt, sef, Llanrhyddlad, y Gareg-lefn, a Chaergeiliog; eto, gan fod cysylltiad rhwng y lleoedd hyny â hwn, fe allai mai dyma'r lle cymhwysaf i wneuthur crybwylliad am dano. Yr oedd Methodistiaeth wedi ymweled â Mon er ys agos i 40 ml. cyn iddi gael nemawr loches yn mhlwyf Llanfwrog. Dywedir fod pregethu achlysurol wedi bod yn Nhrelywarch, lle y preswyliai un Thomas Cadwaladr, cyn y fl. 1764; a bod rhai o enwogion y deheubarth wedi bod yno ar eu tro, megys y Parch. Howel Davies, sir Benfro; a rhai o gynghorwyr y gogledd, megys Lewis Evans, Richard Tibbot, ac eraill. Ond nid oes hanes fod eu gweinidogaeth, er mor rymus a bendithiol ydoedd mewn manau eraill, wedi gwneyd nemawr o'i hol yn yr ardal hon, oddieithr i rai o deulu Thomas Cadwaladr ei hun. Darostyngwyd un mab ac wŷres iddo i awdurdod yr efengyl, y rhai y bu eu bywyd yn gyson â'u proffes hyd ddiwedd eu hoes.

Ond fe fu Thomas Cadwaladr farw yn y fl. 1764, ac nid oes genym hanes fod dim pregethu yn yr ardal hon, gan y Methodistiaid, am yr ugain mlynedd a ddylynodd. Yn y fl. 1783, yr ymunodd John Thomas, y gôf, â'r Methodistiaid, yn Nghaergeiliog, plwyf Bodedern; ac yn fuan ar ol hyn, llwyddodd i gael ambell oedfa i'w dŷ. Yr oedd John Thomas, ar y pryd y daeth at grefydd, yn 28 oed. Ganesid ef yn mhlwyf Llangeinwen, mewn cwr cyferbyniol i'r ynys; ac yr oedd yn 19 ml. oed pan ddaeth i ardal Llanfwrog. Treuliodd y 25 ml. cyntaf o'i oes, fel eraill o'i gydnabod, yn gwbl ddifraw am bethau tragwyddol, gan ddylyn oferedd yr oes, a thueddiadau ei natur, yn ddiwarafun; ond ar ryw nos Sadwrn, fel yr oedd ef a chyfaill iddo yn dychwelyd adref o farchnad Amlwch, heibio i gapel Llanrhyddlad, gwelsant ar-

wyddion fod rhwy foddion yn cael eu cynal yn y capel ar y pryd; felly yn ddifwriad, ac megys o gywreinrwydd, cytunasant â'u gilydd i droi i mewn. Michael Thomas oedd yn pregethu; ac er na effeithiodd y bregeth nemawr arno ar y pryd, eto dylynwyd ef â'r gwirioneddau a glywsai, suddasant yn ddwys i'w fyfyrdod, a rhoisant argraff dwfn ar ei gydwybod ei fod yn euog gerbron Duw. Gan ei fod eisoes yn medru darllen Cymraeg, ymroddodd i ddarllen y llyfrau a fyddent yn ei gyrhaedd, a chododd syched ynddo i wrando pob pregethwr a ddeuai i'r fro, pa un bynag ai Sabboth ai dydd gwaith fyddai; ac yn fynych, rhaid oedd iddo deithio milldiroedd i'w cael. Bellach, daeth cyfnewidiad amlwg yn ei rodiad, yr hyn a ddygodd arno edliwiadau ei gymydogion, y rhai a fynent iddo ymddwyn yn llawen a nwyfus fel cynt.

Felly yn y fl. 1783, bwriodd ei goelbren gyda'r crefyddwyr yn Nghaergeiliog; ac yn fuan wedi profi o rinwedd yr efengyl ei hun, efe a deimlodd eiddigedd ar fod i'w gymydogion, o leiaf, gael y fantais o glywed gair Duw, a llwyddodd, fel y dywedwyd, i gael ambell oedfa i'w dŷ ei hun. John Jones, Bodynolwyn, meddir, oedd un o'r rhai cyntaf a aeth yno. Llafuriodd John Thomas fel hyn i gael moddion gras i'r ardal dros rai blynyddau, dan gryn lawer o anfanteision. Nid oedd ganddo at ei fywiolaeth ond ei grefft, ac yr oedd ei deulu yn lluosogi. Hefyd, nid oedd dim arwydd, am rai blynyddoedd, fod neb yn cael eu galw a'u dychwelyd. Yn y fl. 1787, ymwelodd yr Arglwydd â'r ardal trwy anfon y frech-wen iddi; ac yn mhlith eraill, disgynodd yn drwm ar deulu John Thomas. Arferai rhai o'r cymydogion ddyfod i'w dŷ foreu a hwyr yn yr adeg hon; ac wrth sylwi ar ei weddiau taerion dros ei deulu ei hun ac eraill, ar yr achlysuron hyn, gorchfygwyd eu rhagfarn, i raddau, yn erbyn crefydd a chrefyddwyr, a buant fwy dyfal yn dyfod i wrando pregethau. Rhoes hyn o arwydd er daioni ysgogiad newydd yn meddwl John Thomas, i ddyblu ei ddiwydrwydd, mewn ffordd o gael moddion mwy cyson i'w dŷ. Cafodd ei dderbyn yn aelod o'r cwrdd misol, ac felly mewn gwell mantais i gael cyhoeddiadau pregethwyr; ac erbyn hyn, yr oedd tri o'r cymydogion wedi ymrestru yn mhlith y crefyddwyr.

Yr oedd yr ardal yn gyffredinol yn aros, ymron yn hollol, mewn agwedd ddiofal am grefydd, a phob arferion llygredig yn dal i fyny yn eu rhwysg. "Yr ydoedd yn hen arferiad," ysgrifena John Thomas, "gan drigolion y lle hwn ar foreu Suliau, ar ol dyweyd eu pader, ac ymsanteiddio, fyned a'u llyfrau gyda hwy, i eglwys y plwyf, gan gyd-ddarllen y gwasanaeth gyda'r gweinidog; a da iawn oedd hyny yn ei le. Ond och! yn y prydnawn, ymgasglent ynghyd i chwareu pêl, taflu maen, neidio, a champau cyffelyb, i aros amser y gosper. O'r diwedd, barnodd un * o honynt mai addasach fuasai iddo ef fyned adref i ddysgu ei blant i ddarllen; ac wedi iddo ddechreu ar y gorchwyl hwnw, daeth plant y tai nesaf hefyd ato i gael eu dysgu. Yn y fl. 1786, daeth gŵr o'r ardal ato i roddi y cynorthwy a allai i'w dysgu, er na

* John Thomas ei hun oedd yr un hwn.

wyddai ef ei hun mor llythyrenau yn dda. Wrth lafurio gyda'r plant, fe ddysgodd ddarllen yn rhagorol, mewn ychydig amser."

Rhy faith fyddai dylyn yr ysgrifenydd yn fanwl, ac eto y mae y dysgrifiad a ddyry o gychwyniad yr ysgol,—cychwyniad ag oedd mor foreu, ymron, ag oedd eiddo Raikes yn Ngaerloyw, ac yn ddiau cyn i'r son am y fath sefydliad yn Nghaerloyw gyrhaedd Cymru. Arferent holwyddori y plant allan o lyfr Griffith Jones, Llanddowror, yr unig un, y pryd hyny, yn eu cyrhaedd. Deuai i'r holwyddori hyn, bobl mewn oedran, i wrando ar y plant yn ateb. Ac er fod rhai yn ddrwgdybus o'r addysg a roddid, ac yn ei ddrwgliwio, eto amlhau yr oedd rhifedi yr ysgolorion, nes aeth y lle yn rhy fychan i'w cynwys. Wedi bod tua saith mlynedd yn llafurio yn y modd hyn, cafwyd caniatâd, trwy hynawsedd offeiriad y plwyf, i gadw yr ysgol yn y llan. Dygodd hyn yr ysgol i fwy o sylw, a daeth lluaws mawr o drigolion y plwyf i'r fynwent, y rhai ni fynent ar un cyfrif ddyfod i mewn i gael eu dysgu; ond pan y deallent fod yr ysgol ar ddybenu, a'r holwyddori ar ddechreu, rhuthrai segurwyr y fynwent i mewn, mewn dull afreolus iawn, "tebyg," medd yr un gŵr, "fel yr Iuddewon gynt ar dŷ Jason." (Act. xvii. 5.)

Wrth weled yr afreolaeth hwn yn parhau, penderfynwyd, yn y fl. 1798, roddi yr ysgol i fyny am byth. Ryw noson, pa fodd bynag, cyn gwneuthur hyny, wedi cadw y llyfrau, rhoddwyd caniatâd i ryw fachgen adrodd y bennod a ddysgasai, sef y 5ed o'r Rhufeiniaid; ac wrth adrodd y 6ed adnod, "Canys Crist, pan oeddym ni eto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol," torodd allan i wylo. Effeithiodd hyny ar bawb oedd yn y lle, a llanwyd yr edrychwyr â difrifwch. Methwyd myned yn mlaen fel arferol, a rhoddwyd pennill allan i'w ganu; sef hwn:—

"Mi gana' am waed yr Oen,  
Er maint fy mhoen a' mhlâ,  
'Does geni'n wyneb calon ddu,  
Ond Iesu y meddyg da," &c.

Gyda hyn, aeth yr edrychwyr i ganu, ac i *ddyblu* canu; ac yn lle rhoddi pen ar yr ysgol, ymaflwyd ynddi yn fwy ymroddgar. Parodd y tro hwn gyfnewidiad mawr trwy yr holl ardal. Rhoddwyd terfyn swta ar y chwareu, trwy fod y trigolion wedi cael gafael ar orchwyl llawer rhagorach.

Ond nid oes byth ddim da yn cael ei wneyd, na fydd rhyw un yn tramgwyddo. Bu rhyw un mor brysur a myned at y person i achwyn wrtho yr annhrefn oedd yn y llan, sef fod yno ddynion yn gweddio *heb lyfr*, ac yn ail-adrodd y geiriau wrth ganu. Y canlyniad fu, i'r ysgol gael ei bwrw allan o'r eglwys. Mewn canlyniad, hi fu yn cael ei symud o dŷ i dŷ dros rai blynyddau; ond ar gais Mr. Edward Elias, Plas-yn-glyn, cafodd ganiatâd i fyned i'r llan eilwaith, ar yr ammod na fyddai yno ddim annhrefn. Y tro yr achwynwyd arno oedd yr un a grybwyllwyd eisoes, pryd y daeth un *Catrin*

*Rondol* * i mewn, megys yn achlysurol, yr hon, wedi ei llenwi â hwyl, a aeth i ben mainc lled bwdr; torodd y faine odditani, a pharodd gryn gyffro ar y pryd: a hyn fu yr achlysur i ddwyn achwyniad i'r person.

Dyma ddechreuad yr achos Methodistaidd yn Llanfwrog. Yn y fl. 1811, cafwyd yma gapel cyfleus, ac nid oes un ardal yn y wlad, erbyn heddyw, y mae mwy o ôl dysgeidiaeth yr ysgol Sabbothol, a dylanwad gweinidogaeth yr efengyl arni, nag ardal Llanfwrog. Tad oedd y John Thomas uchod i'r Peirch. Thomas Jones, Amlwch, a Rees Jones, Browyr, sir Forganwg.

Adroddai John Thomas, ychydig cyn marw, wrth gyfaill, yr hwn sydd eto yn fyw, hanes y bregeth gyntaf yn ei dŷ ef. Ryw foreu Sabboth, aeth John Thomas i Dy'n-y-maen, neu yn hytrach i Bendre, lle y cynelid y moddion ar y pryd, i gyrchu y pregethwr. Y pregethwr a ddaeth, ac ychydig gyfeillion gydag ef, a dechreuwyd yr oedfa. Yr oedd rhyw nifer o drigolion Llanfwrog wedi ymgasglu i'r lle, ond yr oeddynt yn swp y tu allan i riniog y tŷ. Nid oedd eu rhagfarn yn ddigon cryf i'w rhwystro i'r swn, ond yr oedd eu hofn yn eu hattal i'r tŷ. Yr oedd chwedl wedi ymdaenu ar hyd yr ardal, y byddai pawb a elai i dŷ John Thomas i wrando, mewn perygl o gael eu llygad-dynu, neu eu swyno! Ond er iddynt fod yn ochelgar rhag y fath anffawd, trwy sefyll y tu allan i'r drws i wrando, eto eu llygad-dynu, pe llygad-dynu hefyd, a gafodd rhai; ac felly o hyny hyd yn awr, fel nad oes nemawr blwyf yn Mon wedi ei ennill yn llwyrach i ymarfer â phethau crefydd na phlwyf Llanfwrog, a hyny lawer iawn yn ffrwyth llafur a gweddiau y Cristion cywir a dirodres, John Thomas, y gôf.

---

# PENNOD VI.

## HEN EGLWYSI GOGLEDDOL Y WLAD.

CYNWYSIAD:—

AMLWCH—PREGETHU YN Y TY-DU—DAFYDD MORRIS A HOWEL HARRIS—PREGETHWYR A GODODD YN Y DREF—Y CAPEL COCH—CAEMAES-GAFR A'R CERIG LLITHIR—PENRHOS-LLUGWY—LLANERCHYMEDD—CYCHWYNIAD YR ACHOS A'I GYNYDD—GLASINFRYN A'R WAUN-EURAD.

### AMLWCH.

NID oes genym nemawr hanes am ysgogiadau cychwynol Methodistiaeth yn y dref hon. Ymddengys, pa fodd bynag, mai yn y Tŷ-dû, rhwng y dref a Chemmaes, yr oedd eisteddle yr achos yn y dechreuad, yr hwn le a fu yn gysylltiol, dros ryw dymhor, â Llanrhyddlad. Ar yr un pryd, cafodd yr achos achles yn Amlwch yn lled foreu, gan yr adeiladwyd yma gapel mor gynar a 1777, pryd y symudwyd y moddion o'r Tŷ-dû. Ymddengys hefyd y byddai yma ambell oedfa cyn fod y capel wedi ei godi. Cafwyd cyhoeddiad Dafydd Morris i ddod yma, a'r lle y safodd oedd wrth dalcen tŷ yr hen

* Benyw dda a duwiol, a thra adnabyddus yn yr holl wlad.

bregethwr ag oedd yma yn byw y pryd hyny, sef William Roberts y crydd. Yr oedd llyn o ddwfr, meddir, y pryd hwnw, ar y ffordd at dŷ William Roberts, llyn lled fawr, a lled fudr ei ddwfr yn gyffredin. Yr oedd hefyd dyddynwr yn byw yn y gymydogaeth ar y pryd, yr hwn a lochesai ddygasedd go fawr at y Methodistiaid tlodion, o achos eu crefydd. Penderfynodd y gŵr hwn, wedi deall fod cyfarfod crefyddol i fod yn y dref, wneuthur gwawd o hono, a'i aflonyddu. Daeth i'r dref ar ei geffyl, gan fwriadu marchogaeth trwy y gynulleidfa, a thrwy hyny eu dyrysu a'u chwalu. Dysgwyliai y rhoddid iddo ef ei hun ddifyrwch wrth weled penbleth y trueiniaid, ac y dyrysid yr amcan hefyd. Gyda'r bwriad hwn, gan hyny, aeth rhagddo; a phan ddaeth at y llyn, mynodd y ceffyl droi i'r llyn, er gwaethaf ei berchenog; taflodd ei farchog oddiar ei gefn, ac, meddai yr hanes, gorweddodd ar ryw ran o hono, fel na allai y gŵr symud. Ofnai yr edrychwyr iddo foddi yn y llyn, a gwaeddent ar i rywun ei achub ef. "O na," ebe rhyw hen wraig, mwy ei nwyd, tybygid, na'i gras, "gadewch iddo; gan i'r Llywydd mawr weled yn dda fyned ag ef yna, yna y dylai efe fod." Tybiai rhai fod llygad yr hen wraig ar Diar. xxviii, 17, "*Dyn a wnelo drawsedd i waed neb, a ffŷ i'r pwll; nac attalied neb ef.*" Ond pa fodd bynag, rhuthrodd rhyw rai i'r pwll, a llusgasant y gŵr allan o'i orweddfa beryglus, heb fod nemawr yn waeth, ond fod ei ddiwyg yn llawer butrach.

Siomwyd yr erlidiwr. Nid difyrwch, ond poen, a fu y tro iddo; ac yn lle dyrysu y moddion, cafodd y gynulleidfa bob hamdden i wrando, heb fod neb yn beiddio gwrthddywedyd.

Ymddengys hefyd i Howel Harris fod unwaith yn pregethu yn y dref, ond nid oes dim adgofion am y bregeth hòno, ond fod y pregethwr yn sefyll ar fwrdd crwn yn nhŷ yr un William Roberts y crydd. Yr oedd pregethu hefyd mewn tyddyn heb yn mhell o'r dref, sef lle o'r enw Tyddyn-engan, yn ardal Nebo.

Yr oedd William Roberts y crydd yn un o bregethwyr boreaf y wlad hon, ac wedi marw ymron cyn cof neb sydd yn awr yn fyw. Nid oes nemawr adgofion wedi eu gadael am dano, ond yr hyn sydd a gyflwynir. "Yr wyf yn ei gofio, er o'r braidd," ysgrifena fy hysbysydd*; "dywedir mai dyn ofer a gwageddol a fuasai cyn cael crefydd; a thybiwn ei fod, o ran ei dymher naturiol, yn wyllt a sydyn, Fel pregethwr, ni chynysgaethwyd ef â thalentau gorwych; ond fel Cristion, yr oedd yn ddysglaer; a thrwy ei ymarweddiad cywir, fe fu yn godiad i Fethodistiaeth yn y dref hon. Ni feiddiai neb a'i hadwaenai amheu ei air, na chywirdeb ei amcan, mewn un modd. Ni chymerid yn chwith ynddo ef, gan mor ddihoced y bernid ef, os dywedai wedi dyfod o'r capel, o'r cyfarfod gweddio at ei frodyr i'r tŷ, 'Wel, frodyr anwyl, mi a'ch curais chwi bob un wrth weddio heddyw,' ac ni thybiai neb ei fod yn arddangos un teimlad annheilwng wrth ddweyd hyny."†

* Y Parch. William Roberts, Amlwch.

† Y mae y *Scientific Hall* yn Amlwch wedi ei hadeiladu ar y llygedyn y bu W. R. byw a marw ynddo.

Crybwyllir yn hanes Aberffraw, yn y gwaith hwn, am un Evan Thomas, yr hwn a ddaeth i'r ardal hòno o Aberdaron gyda John Jones, Bodynolwyn, a gellir chwanegu am dano, ddarfod iddo ymsefydlu dros flynyddau diweddaf ei oes yn Amlwch. Bu yn flaenor ffyddlon yn yr eglwys yma dros lawer blwyddyn. Bu farw yn lled ddisymwth, trwy iddo gyfarfod â damwain. Rhedodd y ceffyl a farchogai, a thaflwyd yntau; ac er iddo ddadebru dros ychydig, eto marw a wnaeth yn ddisymwth yn mhen ychydig ddyddiau. Pregethodd y Parch. William Roberts yn ei anghladd; ac yn mhen ychydig fynydau, ar ol i'r gweinidog fod yn ceisio cysuro yr hen wreigan yn ei hunigrwydd, syrthiodd hithau yn ddisymwth yn farw, a chladdwyd y ddau yr un diwrnod! Bu Evan Thomas yn gwasanaethu achos yr efengyl yn mhlith y Methodistiaid am ysbaid 60 mlynedd.

Bu yma bregethwr arall, o'r enw Owen Owens, yn byw yn y dref hon; ond nid oes genym ddim ychwaneg o'i hanes, na chrybwylliad o'i enw. Yn y dref hon y cyfaneddodd Thomas Jones, mab i John Thomas, Llanfwrog, dros y rhan fwyaf o'i oes. Bu farw Gorphenhaf 6ed, 1847, yn 70 mlwydd oed, wedi treulio yn agos i 40 mlynedd yn y weinidogaeth. Yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes, efe a gyfieithodd amryw lyfrau buddiol, o waith Jonathan Edwards, Scott, ac eraill, i'r Gymraeg. "Yr oedd yn ŵr nodedig o ddysyml a didwyll, diargyhoedd, a diniwaid. Pregethai yn dra dirodres, a hynod o fyr; ei amcan oedd goleuo y deall, yn fwy na chyffroi y teimladau. Nid llawer a deithiai heblaw ar y Sabbothau, ac yn ei wlad ei hun. Barnai mai gan ychydig yr oedd cymhwysderau teilwng i fod yn bregethwyr teithiol, a golygai nad oedd ef ei hun ddim yn feddiannol ar y cymhwysderau hyny."

Afreidiol ydyw adgoffa i'r darllenydd mai yn y dref hon y preswylia y Parch. William Roberts, yr hwn sydd, bellach, yn henafgwr, ac wedi bod yn gweini i'r efengyl mewn modd cyhoeddus am fwy na 45 o flynyddoedd, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am amryw hysbysiadau a roddir yn y gwaith hwn. Yma hefyd yn bresenol y preswylia dau bregethwr arall, o'r enw John Pritchard, ac Ellis Foulkes.

Mae Methodistiaeth wedi ennill tir helaeth yn y dref hon a'i chyffiniau. Mae y gymdeithas eglwysig yn cynwys rai cannoedd o aelodau, a'r addoldy helaeth yn llawn o wrandawyr cyson. Yn ystod y 80 mlynedd sydd wedi myned heibio ar yr achos, ni fu yma ddim pethau blinion, ond yn hytrach amryw o ymweliadau, y rhai fel cawodydd o wlaw cynyrchiol a barent adfywiad ar yr holl achos.

## Y CAPEL COCH.

Mae'r capel hwn yn sefyll yn mhlwyf Llanfihangel, Tre'r-beirdd, ac o fewn y gymydogaeth a gyfrifir yn agos i ganol y sir, mor agos o leiaf ag y gellir cael canol ar sir heb fod yn hollol gron. Gellir bwrw fod yr henafiaid yn edrych ar yr ardal yma felly, gan fod yma faes, yr hwn a elwir er cyn cof,

"Cae bogail Mon." Enw y capel sydd fel uchod, "Capel Coch," am mai o fath y geryg cochion yr adeiladwyd ef.

Ymddengys fod Methodistiaeth wedi cychwyn yn yr ardal hon er yn foreu. Y crefyddwr cyntaf gyda'r cyfundeb yn y fro oedd gŵr o'r enw Robert Dafydd, yr Hen-siop. Dywedir mai trwy weinidogaeth un Evan Moses y profodd ef awch y weinidogaeth gyntaf. Aethai i'r cynulliad, nid gyda'r bwriad o wrando, ond i aflonyddu y cyfarfod, ac i niweidio y pregethwr. Pan aeth i mewn i'r tŷ, yr oedd y pregethwr yn darllen ei destyn, ac yn mlaen yr ymwthiai yntau drwy y bobl, gan fwriadu llusgo y pregethwr i lawr oddiar yr ystôl y safai arni. Ond cyn iddo gyrhaedd ei amcan, brathwyd ei feddwl gan ddarlleniad y testyn, fel nad oedd nerth na gwroldeb ynddo i ddwyn ei fwriad diffaith i ben. Ymddengys mai un o'r pregethwyr a ymunasant â Howel Harris, ar ol enciliad Rowlands, oedd yr Evan Moses hwn. Dywedir ei fod ef, a chynghorwr arall o'r enw James James, wedi ymweled â'r wlad hon ar ol 1751; ac i'w llafur fod yn fendithiol i ddwyn llawer, yma a thraw ar hyd y wlad, i drydar yn nghylch crefydd.

Cyn hir ar ol dychweliad Robert Dafydd at grefydd, daeth Howel Harris ei hun i'r wlad, ac yn nhŷ Robert Dafydd yr arosai tra y bu yn yr ardal hon, a dywedir mai ar gae yn perthyn i'r Hen-siop y bu yn ceisio pregethu. Ymddengys fod rhyw rai wedi penderfynu rhwystro y cyfarfod, trwy gasglu pob offer trystfawr a allent gael, ac ymroddi i orchfygu llais y pregethwr â swn. Dyma yr unig erlid, meddir, a fu ar grefydd yn yr ardal hon. Cymerai Harris Robert Dafydd gydag ef i wahanol fanau yn y sir, a thybir mai er amddiffyniad iddo ei hun y gwnai hyny, gan fod Robert yn ddyn cryf a thal o gorffolaeth, ac yn fwy galluog, os byddai raid, i sefyll drosto. Bu gydag ef unwaith yn ardal y Gareg-lefn; a chanfyddir pa fath dderbyniad oedd i bregethwr y pryd hyny yn y wlad, trwy y ffaith nad oedd dim yn cael ei gynyg i Harris ar ol yr oedfa ond tamaid o fara haidd, a llymaid o laeth-enwyn.

Bu Robert Dafydd a'i wraig droion yn Nhrefecca. Arosent yno am ysbaid pythefnos, a dychwelent yn ol; yna yn mhen tua blwyddyn, aent yno eilwaith am bythefnos arall. Yr oedd gwraig y gŵr hwn yn fwy nodedig am ei duwioldeb nag ef ei hun. Nid yw yn hysbys a oedd un gymdeithas eglwysig i'r ddeuddyn hyn ymuno â hi, o leiaf o fewn cyfleusdra iddynt hwy gyrchu yn fynych iddi; ond ymddengys ddarfod i ychydig nifer ymgorffori cyn hir yn fath o gymdeithas grefyddol yn yr ardal hon. Symudasai Robert Dafydd o'r Hen-siop i amaethdy o'r enw Caemaesgafr, ac yma, meddir, y ffurfiwyd y cynulliad eglwysig cyntaf yn y fro. Nid oedd nifer yr aelodau ond wyth neu naw, a'r rhei'ny yn dra phell oddiwrth eu gilydd. Mae Griffith Jones, Cefn-dwy-ffrwd, yr hwn sy'n henuriad yn perthyn i gapel y Parc, a'r hwn sydd dros 80 mlwydd oed, yn dyweyd ei fod pan yn fachgen yn aros yn Nghae-maes-gafr fel math o gartref, gan mai amddifad ydoedd; a'i fod yn cofio ar ryw noswaith weled y forwyn yn glanhau ychydig ar y tŷ, ac yn parotoi lle i ryw ddyeithriaid i eistedd, trwy gyfleu yr ychydig ystolion

oedd ganddynt, ac yntau yn blentyn yn dyweyd, "Fan yma eistedda' i;" a'r ateb a gafodd oedd, "Rhaid i ti fyned i dy wely, Gutto bach; mae seiat i fod yma hono."

Yn yr amser hwn, pryd yr oedd Methodistiaeth mor isel a babanaidd, y daeth Siôn Rolant i fyw i dyddyn yn y pen arall i'r gymydogaeth, o'r enw Cerig-llithir.* Yr oedd y gŵr hwn eisoes yn grefyddwr; ac yn ei dŷ ef, bellach, ac yn nhŷ Robert Dafydd, y cynelid yr achos. Dywedir mai yn Ngerig-llithir y cafwyd y cyfarfod misol cyntaf yn Mon, ac mai Siôn Robert Lewis, Caergybi, tad Robert Roberts, y seryddwr, oedd un o'r pregethwyr oedd ynddo. Mae yn yr ardal hon yn awr, neu yr oedd yn ddiweddar, un hen ŵr ag sy'n cofio un o'r cyfarfodydd misol hyn. Bychan iawn, meddai y gŵr hwn, ydoedd; er y pregethid allan yn yr ydlan, a'r pregethwyr, i ochel y gwynt cryf a chwythai o'r de ar y pryd, a safent mewn bwlch a wnaethid mewn dâs wair. Evan Griffith, Chwaen-hen, oedd un a bregethai yn y cyfarfod. Nid oes lle i feddwl fod y derbyniad i'r cyfryw gyfarfodydd, ac i'r rhai a'u cynalient, ond prin hefyd, gan bobl y gymydogaeth. Gellir casglu hyny oddiwrth yr hyn a ddywed Griffith Jones: "Cofus yw genyf, pan yn fachgenyn yn Nghae-maes-gafr, fy mod wedi cael gorchymyn, ar un cyfarfod misol a gynelid yno, i ddanfon Richard Morris, o Langair, oddiyno i'w lety noswaith y cyfarfod. Ond erbyn ein bod wrth y tŷ llety, yr oedd pawb o'r teulu wedi myned i'w gwelyau, a da oedd gan yr hen bregethwr fyned i orphwys, heb fod neb yn y lle yn cynyg iddo damaid o fwyd!"

Yn 1785, adeiladwyd yma gapel bychan; ac yn mhen ychydig, bu raid helaethu hwnw. Yn y fl. 1812, adeiladwyd y capel presenol, yn yr un man ymron, ag yr oedd yr hen gapel bychan yn sefyll. Cafwyd tir gan Mr. Lewis Jones, Tŷ-mawr, yr hwn hefyd a roddodd ddeial yn nghyntedd y capel. Mae y ddeial yn aros yno hyd heddyw, ac yn argraffedig arni, "*The gift of Lewis Jones, Tŷ-mawr*, 1785." Yr oedd y cyfryw offeryn o gryn ddefnydd y pryd hyny,—adeg nad oedd ond ychydig o beiriannau i ddynodi yr amser mewn defnyddiad cyffredin yn Mon. Cafwyd cyfarfodydd cyhoeddus ac eglwysig tra nodedig yn Nghae-maes-gafr, ac yn Ngherig-llithir;—oedfaon y byddai llygaid yr hen bobl yn gloywi wrth eu hadgoffa;—oedfaon a fyddent yn ysu fel tân, yn darostwng rhagfarn, yn deffro cydwybodau, ac yn ennill serchiadau y gwrandawyr. Cododd yma bregethwr, yr hwn oedd yn fwy ei ddawn na llawer o'r hen gynghorwyr, ond nid cystal ei egwyddor. Cyn hir o amser, syrthiodd yn waradwyddus; cafodd ei frodyr dristyd mawr o'i herwydd, ac yntau ei hun a fu farw mewn gwrthgiliad! Ond os cafodd yr eglwys hon ei harcholli gan y pregethwr, cafodd ei maethu dros lawer blwyddyn gan ei henuriaid. Y cymeriad a roddir iddynt ydyw, "eu bod yn ffyddlawn a diniwaid." Mae dau o honynt, fel y bernir, yn haeddu helaethach goffâd. Un oedd Mr. John Roberts, Erw-ddraenog. Enwogrwydd hwn oedd ei fod yn fwy dysglaer mewn duwioldeb, ac hefyd yn meddu dawn nodedig mewn

* Cyf. I., tudal. 114.

gweddi. Yr oedd hefyd yn brydydd canmoladwy; a thrwy y naill dalent a'r llall, ond yn benaf trwy ireidd-dra ei ras, a gwlith ei weddiau, efe a ennillasai barch a dylanwad mawr yn mysg ei gydnabyddiaeth. Arweiniwyd ef, trwy briodi, i ardal Brynsiencyn, lle y gorphenodd ei yrfa, ac y gorphwys ei weddillion. Yr henuriad arall oedd Rice Hughes, Ysw., Bodafon. Cyfreithiwr oedd hwn, ac yn gyfranog, medd rhai, â'r cyfreithiwr hynod hwnw yn ei ddydd, Mr. Williams, Llanidan.* Yr oedd canfod gŵr o'i swydd a'i sefyllfa ef yn arddelwi cysylltiad â'r Methodistiaid dirmygedig, yn olygfa anghyffredin; ac yr oedd ei weled ef yn awr ac eilwaith yn toddi fel y cŵyr o dan y pregethau, ac yn wylo fel y gwlaw, yn olygfa rhyfeddach fyth. Oddeutu yr amser yr ymunodd â chrefydd, priododd wraig weddw gyfrifol, yr hon oedd yn byw mewn tyddyn a elwir Meillionen, yn ardal Beddgelert. Wedi bod yn cartrefu yno dros ryw dymhor, dychwelodd i Fon eilwaith, a bu fyw weddill ei dymhor yn Bodafon; yma hefyd, medd ein gohebydd, y bu farw. Yn Bodafon hefyd y bu ei wraig farw.† Nid yw fy hysbysydd yn sicr a fu Mr. Hughes yn gwasanaethu swydd diacon neu henuriad cyn symud i Bodafon, ond fe gafwyd rhyw arwyddion yn lled fuan ei fod yn tueddu at bregethu, a chaniatawyd hyny iddo; ond cyn pen llawer o amser, galwyd ef allan o'r byd; bu farw yn ŵr canol oed, yn 42 ml. oed, 1794.

Ystyrid ef yn ŵr da a chrefyddol iawn. Rhoes heibio ei swydd fel cyfreithiwr yn lled fuan ar ol ymuno â chrefydd, a hyny yn hollol er mwyn gwasanaethu crefydd yn well. Bu Mrs. Hughes fyw ar ei ol ef 25 mlynedd. Nain ydoedd i Mr. Williams, Bodafon, perchen presenol y lle.

Bu Edward Jones, Pendre', yn byw mewn amaethdy yn y gymydogaeth, sef yn Maen-eryr, dros ryw gyfran o'i oes, ac yma yr arosodd tra y gallodd fod o unrhyw ddefnydd gyda'r gwaith. Nid enwogrwydd dawn, ond enwogrwydd duwioldeb, oedd prif ragoriaeth Edward Jones. Sicrheir am dano na thorodd ef gyhoeddiad erioed, er iddo barhau i fyned a dyfod nes oedd yn mhell ar 80 ml. oed, os nad oedd dros hyny.

Bu Mr. Hugh Charles dros dymhor byr, sef ysbaid 3 i 4 blynedd, yn y gymydogaeth hon; ond er lleied y cafodd ef aros yma cyn i angau ei gipio ef ymaith, yr oedd wedi ennill serch ei gymydogion i raddau anarferol. Bu farw yn ddyn ieuanc, 33 ml. oed. Yma hefyd y dechreuodd Mr. W. O. Williams bregethu, yr hwn sydd, bellach, er ys blynyddau, yn Dymeirchion, sir Fflint.‡

Cododd dwy eglwys fechan o hon. Y gyntaf oedd Llangwyllog. Y mae yn y lle hwn gapel, bellach, ïe, ail gapel, a chynulleidfa dda yn ei lenwi. Y llall ydyw Mynydd Bodafon. Yr oedd yma bregethu mynych er ys blynyddau, ac ysgol Sabbothol dda. Mae y capel hwn tua dwy filldir oddiwrth

* Gwel ychydig o'i hanes dan Niwbwrch, y lle y daeth at grefydd.

† Wrth gydmharu y ffeithiau uchod â'r hyn a ddywedwyd yn tudal. 201 o'r Gyfrol hon, ymddengys gradd o anghysondeb, gan yr arweinir y darllenydd i gasglu mai yn Meillionen y bu farw y ddau; ond nid felly, tybygid, y bu.

‡ Bu y Parch. David Hughes yn aros yma hefyd dros ryw dymhor.

y capel coch, ac erbyn hyn yn ganghen arni ei hunan, ac arwyddion boddhaol fod yr achos yn myned rhagddo. Y mae i'r lle hwn ysgoldy bychan mewn cysylltiad, lle y cynelir ysgol Sabbothol, a chyfarfodydd gweddio.

Yr oedd pregethu boreu mewn cymydogaeth heb fod yn mhell o'r lle hwn, sef yn Penrhos-Llugwy. Sonia Robert Jones yn "Nrych-yr-Amseroedd," am dro y bu y Parch. Peter Williams yn pregethu yn y lle hwn, fel y crybwyllasom o'r blaen yn y gwaith hwn.* Mae hanes am dro arall y bu yr un gŵr yn pregethu gerllaw eglwys Penrhos, ar brydnawn Sul. Gan fod ei ddyfodiad yn adnabyddus i'r holl gymydogaeth yn mlaen llaw, ymgynullasai i'r lle luaws o ddynion o bob math, ond nid i gyd i'r un dyben. Daethai rhai yno yn ddiau i wrando yr efengyl, gan ddysgwyl llesâd ysbrydol trwy hyny; eraill, ïe, nifer fawr, meddir, o gellweirwyr erlidgar, a'u pastynau yn eu dwylaw—dynion yn hoffi difyrwch, ac yn dirmygu crefydd. Dysgwyliai y dynion hyn ennill y ddau amcan wrth erlid y pregethwr, sef difyrwch creulawn iddynt eu hunain, a gosod anfri ar y crefyddwyr. Yn mysg y dyhiriaid hyn yr oedd hen ŵr ar gefn caseg wen. Yn ei law yr oedd pastwn erchyll, ac yn ei fynwes yr oedd bwriad creulawn i arwain ei gymdeithion i'r ymgyrch ffyrnig yn erbyn y pregethwr. Wedi iddo ddyfod i'r gynulleidfa, dygwyddodd i ryw un, yn ddamweiniol, gael allan na oddefai yr hen gaseg i neb gyffwrdd â'i chrwper heb iddi ddangos cryn anfoddlonrwydd. Wedi cael allan fod yma ffynnonell o ddifyrwch, defnyddiai y naill ar ol y llall yr achlysur i gyffwrdd â'r hen gaseg yn y llecyn peryglus, er mwyn ei gweled yn gwingo. Gosodai un ei law, ac arall ei bastwn, ar ei chrwper, a hithau a âi yn bob ystumiau, gan wingo yn ofnadwy. Tynodd hyn sylw eraill, a chanfu y rhan fwyaf o fintai yr hen ŵr, sef gwŷr y pastynau, mai llawn cystal difyrwch a fyddai dylyn yr hen ŵr a'r gaseg wen, ag a fyddai erlid y pregethwr; a throisant oll, megys o un fryd, i guro y gaseg â'u pastynau; ymaith, bellach, yr aeth yr hen ŵr, a hwythau ar ei ol, a'r gaseg wen â'i thraed i fyny yn bygwth yn arswydus y neb a ddeuai yn agos ati, ac yn cario ei pherchenog, bodd neu anfodd, yn ddigon pell oddiwrth y pregethwr a'i wrandawyr. Anhawdd iawn ydyw peidio gwenu wrth ddychymygu gweled yr hen gaseg wen, megys wedi ei meddiannu fel moch y Gadareniaid, yn ffroeni yn ddigllawn, a'i sodlau yn y gwynt, yn diauc megys am ei hoedl o gyrhaedd ei herlidwyr. Nid llai digrif chwaith ydyw gweled yr hen stoncyn ar ei chefn wedi cael ei ddal yn ei rwyd ei hun. Daethai i'r oedfa i erlid un arall, ond wele ef ei hun yn cael ei erlid. Y pastynau a fwriadwyd i faeddu y pregethwr, a ddefnyddiwyd i ffyrnigo ei anifail. Tueddwyd y terfysgwyr, megys heb un bwriad, yn lle baeddu y diniwaid, i gospi yr euog; a thybiwn fod yr hen greadur, wrth chwyrnellu i ffordd, ac o'r braidd yn gallu cadw ei le ar y cyfrwy, wedi dysgu yr hen wers gywir, "Drwg y ceidw y diawl ei was!"

* Cyf. I., tudal. 118.

## LLANERCHYMEDD.

Nid yw yr hanes sydd genym am ddechreuad a chynydd Methodistiaeth yn y dref hon ond prin ac anghyflawn. Nid yw yn ymddangos, pa fodd bynag, fod yr achos crefyddol yn mhlith y cyfundeb wedi ymsefydlu yma mor foreu a llawer lle yn y sir. Gwir fod aml gais wedi ei wneyd i ddwyn pregethu i mewn; ond yr oedd y trefedigion, fel preswylwyr y trefydd yn gyffredin, yn wrthwynebol iawn i ddyfodiad y penau-cryniaid i'w tref hwy, ac yn gwneyd eu goreu i'w hattal. Yr oedd Methodistiaeth wedi dechreu cael swcr eisoes mewn aml dyddyn yn y wlad o amgylch, ac amryw bregethwyr wedi codi mewn ardaloedd cyfagos. Trigianai un Richard Hughes yn mhlwyf Coedana, ac yr oedd Owen Thomas Rowland wedi codi yn mhlwyf Llechgynfarwy; nid oedd William Roberts, y crydd, John Jones, Bodynolwyn, ac Edward Jones, Pendre, ddim yn mhell; Evan Griffith, Chwaen-hen, a Richard Lewis, Mechell, oeddynt hefyd o fewn cyrhaedd: eto nid yw yn ymddangos fod nemawr ddim yn effeithiol wedi ei wneyd yn Llanerchymedd dros y 30 mlynedd cyntaf wedi dyfodiad ymneillduaeth i'r wlad. Yr oedd pregethu mynych mewn amrywiol leoedd o amgylch, heb fod yn mhell iawn, megys Cae-maes-gafr, Cerig-llithir, Pentre-bwâau, Waun-eura, Chwaen-hen, a manau eraill; ac yr oedd ambell un o drigolion Llanerchymedd a'i chyffiniau wedi ei ddeffro am ei gyflwr, eto nid oedd, dros dymhor, ddim achos sefydlog o fewn y dref ei hun.

Mae yr hen rigwm a grybwyllwyd eisoes yn peri i ni feddwl fod Howel Harris wedi ymweled â'r dref rywbryd:

> "Howel Harris ar ei *horse*,
> O Lanerchymedd i Lan-y-gors;"

eto nid oes dim adgofion ychwanegol am dano, o leiaf wedi dyfod i law. Mae crybwylliad, pa fodd bynag, yn cael ei wneyd am ymweliad Rowlands, Llangeitho, â'r dref, fe allai 80 mlynedd, fwy neu lai, yn ol. Cafodd genad, medd yr hanes, i bregethu yn yr eglwys, trwy ei fod yn offeiriad urddedig, a son mawr am dano. Taenodd y newydd fod y fath un i bregethu yn y llan i'r holl gymydogaethau, a daeth lluaws mawr ynghyd. Llanwyd yr eglwys yn orlawn, a bu raid i Mr. Rowlands sefyll i bregethu ar gareg-fedd yn y fynwent. Ond pan ddechreuodd bregethu, ymddangosodd fod yn y gynulleidfa derfysgwyr, a'u bod yn bwriadu lluchio a baeddu y pregethwr. Deallodd gŵr o'r enw John Hughes, Clwchdyrnog, hyn, ac ymaith ag ef ar frys at ŵr boneddig (Bulkeley o Gronant, meddir), yr hwn oedd yn y llan ar y pryd, i'w hysbysu fod Mr. Rowlands yn debyg o gael ei faeddu yn drwm, ac y byddai y canlyniadau yn dra niweidiol. Galwodd y boneddwr yn y fan ar foneddwr arall, cadben milisia, yr hwn a ddygwyddai fod yn y dref, i amddiffyn y gŵr dyeithr rhag sarhad y terfysgwyr. Gyda phob parodrwydd fe wnaeth yntau hyny; ymddangosodd yn y fynwent gyda'i gleddyf yn ei law, gan orchymyn i Mr. Rowlands fyned rhagddo, a sicrhau iddo na chai

neb ei niweidio. Parodd hyn dawelwch; ofnodd y terfysgwyr, a chafodd y gynulleidfa fawr bob hamdden i wrando y bregeth, yr hon, meddai yr hanes, a effeithiodd yn ddwys iawn ar yr holl dyrfa.

Mae hen ŵr* sydd yn awr yn fyw, ond yn mhell dros bedwar ugain oed, yn crybwyll am dro arall yn Llanerchymedd,—tro yr oedd rhyw bethau cyffelyb ynddo i'r un a grybwyllwyd eisoes. Dywed hefyd ei fod ef ei hun yn y lle ar y pryd. Yr oedd y tro diweddaf hwn yn gysylltiedig â'r Parch. Nathaniel Rowlands, mab Rowlands, Llangeitho. Pan oedd Mr. N. Rowlands yn y wlad, cafodd yntau genad, tybygid, i bregethu yn eglwys Llanerchymedd, fel amryw eglwysi eraill yn y wlad. Gwahoddwyd Mr. Rowlands, ac un Mr. Lewis, Ceidio, i giniawa gyda Mr. Llwyd yn Llwydiarth, palas yn nghwr y dref, gan fwriadu iddo ddarllen y gosber am ddau o'r gloch. Wedi ciniaw, gan fod yr amser i ddechreu y gwasanaeth wedi dyfod, aeth Mr. Rowlands i'r llan. Arhôdd y ddau ŵr boneddig ryw gymaint o amser yn mhellach wrth y bwrdd a'r gwin; ac erbyn y'u dyfod at y llan, yr oedd mor llawn o bobl, fel nad oedd bosibl i neb allu myned i mewn. Cythruddodd y ddau oblegid hyn, a galwasant ar Mr. Rowlands i ddyfod allan o'r llan; ac allan y daeth ef, a'r gynulleidfa hefyd, a chauwyd y drws; ac ar gareg-fedd yn ymyl y drws y bu yntau, fel ei dad o'i flaen, yn sefyll i bregethu.

Mae amryw yn crybwyll am hanesyn arall am Lanerchymedd,—hanesyn sydd yn dangos pa mor anhawdd oedd cael drws agored i bregethu yn y dref, gan mor ffyrnig oedd y gwrthwynebiad, a chan mor eofn a dibris oedd y terfysgwyr. Yr hanes sydd fel hyn: Yr oedd gŵr dyeithr (o'r deheudir fel y bernir) yn pregethu unwaith yn nghwrt neu fuarth y tŷ tafarn a elwid, "Yr Ysgub Wenith," ac ychydig o bobl, tua 15 o rifedi, yn ei wrando, yn mysg pa rai yr oedd rhai crefyddwyr. Pan oedd y pregethwr yn gweddio cyn dechreu pregethu, daeth yno ryw ddyhyryn gyda dyrnaid o dail ceffylau ganddo, ac a'i lluchiodd i safn y gŵr dyeithr. Parodd hyn, wrth gwrs, attalfa ar y gwasanaeth dros ryw gymaint o amser. Gyda hyn, aeth gŵr cyfrifol o grefyddwr at y dyn, enw yr hwn oedd Cornelius Pritchard, Tŵrllechiad, gan ymliw ag ef am ymddwyn mor annynol at ŵr diniwaid. Ar hyn, rhuthrodd yr adyn eilwaith i Cornelius, gan fwriadu ei drybaeddu yntau mewn tomen dail oedd gerllaw. Yr oedd Cornelius, er nad oedd o faintioli mawr, yn ddyn chwimmwth, ystwyth, a chryf, a chafodd y dyn a'i rhuthrodd ddeall hyny; ac wrth weled fod yr erlidiwr yn debyg o fethu yn ei amcan, daeth rhyw ddyhiryn arall i'w gynorthwyo, gan geisio codi sodlau Cornelius. Methodd un Richard William Meredith, crefyddwr arall yn y lle, ddyoddef hyn, ond efe a ddaeth allan i amddiffyn ei gyfaill. Dros ryw gymaint o amser, bu y pedwar yn ymdreiglo ar hyd y domen dail, hyd nes y cafodd yr aflonyddwyr ddeall eu bod wedi tynu eu trech yn eu pen.

Erbyn hyn, yr oedd y gŵr dyeithr wedi glanhau ei enau, ac yn barod i

* Gwilym Alaw.

ddechreu pregethu; ymadawodd y terfysgwyr yn eu cywilydd, a chafodd y pregethwr bob llonyddwch i orphen yr oedfa. Bernir fod hyn rhwng 1770-80.

Nid yw yn ymddangos fod pregethu cyson yn Llanerchymedd yn yr amser y bu yr ymosodiadau uchod, ac nid oes lle i feddwl fod un gymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio yn y dref. Yr oedd crefyddwyr boreuaf yr ardaloedd cyfagos yn arfer myned i'r cyfarfod eglwysig, a gynelid y pryd hyny yn Caemaes-gafr, neu yn Cerig-llithir. Dywed yr henafgwr, Griffith Jones, Cefn-dwy-ffrwd, ei fod ef yn cofio pan yn fachgenyn, sef tua'r fl. 1783, fod cyfarfod eglwysig yn cael ei gynal yn Nghae-maes-gafr, a bod amryw o'r frawdoliaeth fechan a ymgynullent yno, ac yn eu mysg, Herbert Jones, Bettws, plwyf Coedana, ac un Siani Thomas, Tafarn-y-bottel, yn canu yn iach i'r eglwys yno, gan hysbysu na ddeuent yno mwy, o herwydd eu bod yn bwriadu *ymffurfio yn eglwys yn Llanerchymedd.*

Dyma ddechreuad yr achos Methodistaidd yn ei wedd sefydlog a chorfforedig yn Llanerchymedd. William Davies, y crydd, a John Dafydd, Tre'r-ddol, oedd y gwŷr a arolygent yr eglwys fechan ar y pryd, ac am rai blynyddoedd wedi hyny. Tua'r fl. 1789, cynelid gwasanaeth crefyddol yn nhŷ un John Thomas, *Turner*. Nifer yr aelodau eglwysig ydoedd oddeutu 12; yn mhlith pa rai yr ydoedd Mr. John Thomas, y Siop; Mr. John Forsyth; a Mr. Roberts, Lledrwr, y rhai oeddynt o fawr gynorthwy i'r achos. Y blaenoriaid eglwysig oeddynt, Mr. Owen Jones, *Bookbinder*, a Mr. John Forsyth; gwŷr a feddiannent raddau helaeth o synwyr cyffredin, ac o wybodaeth ysgrythyrol, yn ol ansawdd pethau yn yr oes hòno. Ymgynullai i wrando, o 50 i 60, pan y byddai cyhoeddiad rhyw ŵr dyeithr i bregethu yno;—cynulleidfa a gyfrifid, yn y tymhor, yn un luosog; a chan mai y cyfryw fyddai y gynulleidfa yn gwrando gŵr dyeithr, gellir dyfalu mai llawer llai a fyddai ar amserau eraill. Amlwg, gan hyny, ydyw, nad oedd Methodistiaeth eto wedi ennill ond ychydig o dir yn y dref, a bod rhagfarn rhai, diofalwch eraill, a ffyrnigrwydd y gweddill, ddim eto wedi eu darostwng. Un moddion tra hynod i attal ymosodiadau terfysgwyr oedd yr un canlynol. Ar ryw achlysur neu gilydd, dangosodd rhai o'r trigolion wrthwynebrwydd i'r achos, gan arwyddo eu bod yn bwriadu, pan ddenai y pregethwr nesaf i'r dref, godi terfysg a chyffro. Ar hyn, ymgynddeiriogodd brawd a chwaer, y rhai a ystyrid yn lloerig, yn erbyn y terfysgwyr; a hyny i'r fath raddau, nes y rhedent yn ol ac yn mlaen ar hyd yr heolydd, gan fygwth, yn y modd mwyaf echryslawn, ladd pwy bynag a wrthwynebai y pregethwr. Bu hyn yn foddion i attal terfysg ac erlid yn ol llaw. Barnai y terfysgwyr, ond odid, mai diogelach fyddai peidio cyffroi y fath rai, rhag iddynt mewn gwŷn osod eu bygythiad mewn grym; ac felly, cafodd y crefyddwyr lonyddwch yn eu cysgod.

Yn mhen tua blwyddyn ar ol yr amgylchiad a grybwyllwyd, codwyd yr hen gapel: y cyntaf gan y Methodistiaid yn y lle. Yr oedd y capel hwn yn sefyll o fewn tua hanner milldir i'r dref, a gelwid ef weithiau, oddiar enw y lle y codwyd ef arno, yn Gapel Llwyn-drain. Aeth y capel hwn yn rhy fach; ac yn y fl. 1818, adeiladwyd yr un presenol yn y dref, yn adeilad helaeth a

hardd. Hwn hefyd, er ys blynyddoedd, a lenwir â gwrandawyr; a bychan y gallai neb ddychymygu, wrth edrych yn awr ar luosogrwydd y gymdeithas eglwysig, ysgolorion yr ysgol Sabbothol, y gynulleidfa, a gwedd gyffredinol yr achos yn Llanerchymedd,—y dygasid y fath gyfnewidiad yn mlaen mewn amser mor fyr, trwy foddion mor ddirwysg, ac ar dref a ddangosasai gymaint o wrthwynebiad penderfynol i'r ysgogiad ar ei gychwyniad.

Nid oedd yr hen bobl yn y dref hon, mwy nag mewn llawer o fanau eraill, yn ymfoddloni ar eu cyfran o bregethu cyhoeddus yn unig ac yn hollol; defnyddient hefyd unrhyw foddion eraill a ymddangosai iddynt yn fuddiol. Yr oedd ganddynt luosogrwydd o gyfarfodydd i weddio, a chyfarfodydd neillduol gyda'r plant a'r ieuenctyd, yn y rhai y byddent yn ymddyddan â phob un yn bersonol, gan gymhwyso y gwirioneddau a wrandawsid yn y pregethau, neu a ddysgasid yn yr ysgol Sabbothol; a choronid y cyfarfodydd hyn yn fynych â llewyrchiadau dysglaer anarferol. Cynelid yn y dref, yn nhŷ un Siôn Thomas, gyfarfod i weddio, bob boreu Sabboth am saith o'r gloch. Arferai un Harri Owen hefyd gyfarfod â'r plant yn gyson, unwaith yn yr wythnos, er mwyn ymddyddan mwy cymhwysiadol. Torodd diwygiad mawr a grymus yn y cynulliad hwn, pan oedd Harri Owen yn dybenu y cyfarfod trwy weddi; ac yn y canlyniad, chwanegwyd llawer at nifer yr eglwys, a pharodd luosogiad mawr at nifer y gwrandawyr.

Mae yr eglwys yn awr yn cynwys tua 200 o rifedi, a gradd helaeth o sirioldeb ar bob rhan o'r gwaith. Cododd lluaws o bregethwyr defnyddiol o blith aelodau yr eglwys hon yn ystod yr hanner can' mlynedd diweddaf; sef y Peirch. Griffith Davies; Hugh Jones; Ebenezer Davies; William Roberts, yn awr o Runcorn; John Hughes, yn awr o Bont Menai; hefyd, Richard Roberts; a Hugh Jones, yr ieuangaf. Magwyd yn yr eglwys hon ddau eraill, y rhai sydd yn awr yn weinidogion parchus gydag enwad arall. Bu mab i'r hybarch John Jones, Bodynolwyn, yn pregethu tros dymhor; ond er enyn gobeithion helaeth am ei ddefnyddioldeb dros ryw ysbaid, ymddyrysodd yn helyntion y byd presenol, a chollodd ei goron; eto ar ol cyfnewidiadau lawer, a chrwydriadau meithion, efe a ddychwelwyd, nid i'r pulpud mae'n wir, ond at Fugail ac Esgob eneidiau, ac a fu farw yn aelod gobeithiol yn eglwys Dduw.

Yn y fl. 1820, torodd allan adfywiad hyfryd a nerthol. Yr oedd llaw yr Arglwydd gyda'r weinidogaeth, a nifer mawr a gredodd ac a drodd at yr Arglwydd. Chwanegwyd y tro hwn at yr eglwys, 80 o aelodau. Ac er na fu yr un adfywiad cyffelyb ar ol yr un uchod; eto y mae lle i gredu nad yw yr eglwys yn y lle hwn ddim yn ddieppiledd. Mae chwanegiadau at yr eglwys wedi bod, ac yn para i fod o hyny hyd yn awr; mwynheir, mewn mesur mwy neu lai, raddau o arwyddion o bresenoldeb "Preswylydd y berth," fel nad oes lle i lwfrhau, nac i laesu dwylaw gyda'r gwaith.

## GLASINFRYN.

Mae y lle hwn yn mhlith Methodistiaid, yn gysylltiedig ag enw William

Lewis, yr hen bregethwr, gan mai yn yr ardal hon y treuliodd ran fawr o'i oes gyhoeddus. Mae y capel yn sefyll yn nosbarth gogledd-ddwyreiniol yr ynys, rhwng Llanerchymedd a Beaumaris, ac nid yn mhell o Bentraeth. Dechreuodd Methodistiaeth yn yr ardal hon yn foreu; fe allai tua chan' mlynedd yn ol. Enw y lle y rhoes ei droed i lawr gyntaf oedd, y Waun-eura, neu eurad. Dywedir fod ambell un yn fyw yn awr, a welodd, ac a fu yn gwrando yma, Mr. Rowlands, Llangeitho; Dafydd Morris; Jones, Llan-gan, ac eraill o'r hen dadau.Ië, dywedir fod Howel Harris wedi bod yn pregethu yn y Waun-eura; ond traddodiad ydyw hyny am amgylchiad rhy foreu i neb sydd yn fyw yn awr ei gofio.

Nid yw yn ymddangos, pa fodd bynag, fod yr achos wedi llwyddo llawer yn ystod y 35 ml. cyntaf, gan y dywedir mai chwech * oedd nifer yr aelodau tua'r fl. 1780. Dywedir, er lleied oedd nifer y crefyddwyr yn y lle, y byddai cyfarfodydd tra rhyfeddol yn cymeryd lle ynddo, a hyny yn achlysurol, o'r cychwyniad hyd ei symudiad i'r lle y mae yn awr. Arferai crefyddwyr ardaloedd eraill, am lawer o filldiroedd o amgylch, gyrchu i'r Waun-eura, i ryw foddion arbenig; a mawr iawn, yn fynych, a fyddai y mwynhad. Ymddengys y cynelid yma ysgol ddyddiol ryw bryd, a thros ryw amser, yn y tymhor boreu a fu ar yr achos. Yr oedd yr ysgolfeistr yn ddyn da a duwiol, ac yn arfer rhoddi addysgiadau crefyddol i'r plant, ac yn gweddio llawer drostynt. Torasai yn orfoledd mawr unwaith ar y Sabboth; a phan oedd yr ysgolfeistr, yn yr wythnos ddylynol, yn holi y plant yn yr ysgol, torodd yn orfoledd yno hefyd; disgynodd ar yr ysgolfeistr, a'r plant oll, ond dau: mae un o'r ddau eto yn fyw, ac yn tystio nad oedd ganddo ef a'r bachgen arall ddim i'w wneyd ond synu, gan ymofyn, "Beth yn y byd a allai hyn fod?"

Adroddir hanesyn arall gan un Richard Hemans, am amgylchiad a ddygwyddodd i'w dad, yr hwn oedd yn un o'r crefyddwyr. Yr oedd yr hen ŵr yn myned, un Sabboth, tua'r Waun-eura i'r addoliad; ac ar ei ffordd, cyfarfu a nifer o fechgyn yn chwareu; a llwyddodd gyda hwy i adael eu chwareu, ac i fyned gydag ef i'r bregeth. Ond ar y ffordd, daeth i'w cyfarfod ddau filwr, y rhai a gydiasant yn ffyrnig yn Richard Hemans, gan roddi ar ddeall iddo, ei fod, bellach, yn ddiogel yn eu gafael; ac yn lle myned ar ol ei grefydd, fod ganddynt hwy waith arall iddo. Annogodd yntau y bechgyn i fyned i'r addoliad, ac ymollyngodd yn ddiddig i fyned gyda'r milwyr. Aeth y bechgyn, fel yr annogwyd hwy, i'r cwrdd; a bendithiwyd y moddion iddynt. Gan mor dawel a diddig yr ymddangosai eu caffaeliad, nid edrychodd y ceidwaid mor fanwl ar ei ol; rhoes hyn iddo seibiant i gael bod yn rhydd oddiwrthynt; a ffôdd nerth ei draed, a chafodd egwyl i ymguddio rhag ei erlidwyr, trwy lechu dan y gwellt yn ysgubor yr Olgref-gerig; felly, wedi aros yn llonydd rai oriau yn ei ymguddfa, diangodd yn lân o'u cyrhaedd.

* Crybwyllir enwau amryw o honynt, Siôn Rolant, yr Hafod; Morris Williams, Ty'n-y-mynydd, Tregenau; Thomas Jones, Carog-fain; Owen Ellis, Cae-newydd, Llansadwrn; ac Owen Dafydd, Cae-maes-gafr.

Pa un ai gwneyd hyn o wir ddireidi a'r pengrwn diniwaid, a wnaeth y milwyr, ai gyda bwriad o'i dreisio i'r fyddin, nid yw yr hanes yn hysbysu.

Tua'r fl. 1787, symudodd yr achos o'r Waun-eura i'r Capel, yn Glasinfryn, lle yr arosodd hyd heddyw; ac er nad yw yr eglwys a'r gynulleidfa yn y lle yn lluosog, eto, y mae y Waun-eura a Glasinfryn wedi magu llawer o grefyddwyr da, y rhai a ymffurfiasant yn wahanol eglwysi yn yr ardaloedd cylchynol. Oddiyma y cododd, o leiaf, i raddau, yr eglwysi sydd yn awr yn ymgyfarfod yn Llanallgo, Tabernacl, Pentraeth, Pen-y-garnedd, a Llanddona. Mae Glasinfryn, fel llawer mam, wedi magu llawer o ferched; ac wrth eu cychwyn hwy wedi ei gwanychu ei hunan. Ar yr un pryd, y mae gan y Cyfryngwr ddiadell yn aros yn yr hen gorlan hyd heddyw, ac arwyddion nad ydynt mewn anghof gan y Pen-bugail.

---

# PENNOD VII.

## EGLWYSI DWYREINIOL Y WLAD.

CYNWYSIAD:—

BEAUMARIS—DAFYDD MORRIS, MICHAEL THOMAS, AC OWEN THOMAS ROLANT, YN PREGETHU YN Y DREF, A'R TERFYSG A'R ERLID CYSYLLTIEDIG—Y GYMDEITHASFA GYNTAF—PARCH. RICHARD LLOYD—LLANGOED—CAMPAU MARIAN-DYRYS—AFLONYDDU ADDOLIAD, A DYNWAREDIAD PREGETHU—GORTHRYMU Y CREFYDDWYR—LLANFAIR—RISIART MORRIS—HUGH PRITCHARD, O'R DEPRA-BACH—RISIART EVANS, YR YSGOLFEISTR—MARWOLAETH RISIART MORRIS, AC ADFYWIAD YN CANLYN.

### BEAUMARIS.

NI ellir dyweyd fod Methodistiaeth yn hen yn Beaumaris; er, ar yr un pryd, fe fu ymgais i ddwyn pregethu i'r dref er ys cryn amser yn ol. Yn nghofiant y Parch. Richard Lloyd, dywedir fod yr achos crefyddol yn mhlith y Methodistiaid yn Beaumaris yn isel iawn, er fod hyn mor ddiweddar a'r fl. 1800; nad oedd yno ond tri neu bedwar o frodyr, ac ychydig chwiorydd, yn y gymdeithas eglwysig, ac mai tŷ bychan gwael iawn oedd ganddynt i bregethu ynddo; ond ddarfod i'r gwaith fyned rhagddo yn gyflym ar ol iddo ef fyned yno i fyw.

Ond er mai yn y ganrif bresenol y bu yr holl lwyddiant ar Fethodistiaeth yn Beaumaris; eto, fe ymosodwyd ar y dref, fel y crybwyllasom, yn achlysurol, yn mhell cyn hyny, er mai nid llawer o lwyddiant a ddylynodd ar y pryd. Meddai un hen ŵr, dros 80 ml. oed, ganedig yn y dref: "Dechreuwyd pregethu yn Beaumaris tua 78 o flynyddoedd yn ol. Y cyntaf o'r pregethwyr Methodistaidd a fu yno, trwy wybodaeth i mi, oedd Dafydd Morris, o'r deheudir. Safodd i fyny ar yr heol, a dechreuodd bregethu; ond terfysg mawr a thwrf a gyfododd, fel ag y lluddiwyd ef yn deg i orphen pregethu. Gorchfygwyd ef yn lân gan y swn, y cyffro, y dom, a'r cerig: er ei fod yn uchel iawn ei lais, ac yn wrol iawn ei feddwl. Yr oedd William Lewis y pryd hyny yn ddyn ieuanc cryf a bywiog; yr oedd ganddo feddwl

cadarn, a llais fel udgorn;—hwn, wedi i'r terfysgwyr orchfygu Dafydd Morris, a safodd i fyny yn wrol a di-ofn, gan ymliw â'r bobl am eu hymddygiad at ŵr dyeithr a pharchus a ddaethai o bell i geisio eu daioni. Gostegodd hyn raddau ar y terfysg, a chafodd lonydd gweddol i draddodi ei genadwri.

"Bu Beaumaris heb bregethu rai blynyddau ar ol hyn. Ymddangosai y drws yn rhy gauedig i neb wneuthur cais i fyned i mewn. Eto nid oedd cyflwr isel y trigolion ddim wedi ei anghofio. Disgynodd yn bwysig ar feddwl Michael Thomas, o'r Garnen-wen, un o'r hen bregethwyr, fyned yno, fel, os oedd yn bosibl ennill rhyw nifer i wrando gair Duw; a chan obeithio hefyd y byddai ffyrnigrwydd y gwrthwynebwyr ryw gymaint yn llai.

"Nid oedd, ar y pryd, ond dwy wraig yn proffesu crefydd yn y dref, sef Jane Williams, nain i'r diweddar Barch. William Williams, Manchester; ac Anne Thomas, nain i Mr. Richard Lewis, yn awr o Fodedeyrn. Anfonodd Michael Thomas at y gwragedd hyn i hysbysu iddynt ei fod ar fedr dyfod i bregethu i'r dref y Sabboth nesaf. Gyrodd y newydd hwn y gwragedd i radd o benbleth. Ar y cyntaf, ni wyddent yn y byd pa fodd i wneuthur y peth yn hysbys; ond wedi enyd o betrusder, ymwthiodd y cynllun canlynol i'w meddwl. Yr oedd yn byw yn y dref, hen wraig adnabyddus iddynt, tra gelynol ac erlidgar, a'i bryd i wneyd a allai hi i rwystro, ac i lethu ymsefydliad y sectariaid yn y dref. Barnai y ddwy wraig nad oedd dim yn ychwaneg yn angenrheidiol, na hysbysu yr amcan iddi hi, ac y sierheid lledaeniad y cyhoeddiad trwy y dref. Hyny a wnaeth y gwragedd; defnyddiasant forwyn y fall i hysbysu fod 'gwas y Duw Goruchaf yn dyfod i'r dref i fynegu ffordd iachawdwriaeth i'r bobl.' Hyn hefyd a wnaeth gyda ffyddlondeb a diwydrwydd mawr; a chafodd y trefedigion wybod fod y fath bregethwr i'w ddysgwyl atynt; ond ni hysbyswyd iddynt yn mha le y gellid ei ddysgwyl. Yr oedd y ddwy wraig grefyddol yn y cyfamser mewn gradd o brofedigaeth yn nghylch y lle. Nid pob lle a dybid ganddynt yn ddiberygl; ac er eu bod yn hoffi yn fawr i'r trigolion gael clywed gair y bywyd, ni fynent er dim fod niwed yn cael ei wneyd i'r pregethwr. Yr oedd yn gyfyng arnynt o bob tu; teimlent bwysigrwydd y gorchwyl a osodwyd arnynt, a'u hymddifadrwydd o un dyn, o gyffelyb feddwl, i ymgynghori ag ef. Nid oedd dim yn rhoddi iddynt gymaint o ymwared ag oedd gosod eu sefyllfa gerbron Duw mewn gweddi. Hyn a wnaethant eilwaith ac eilwaith, a hyny gyda thaerineb mawr. Ond tra yr oeddynt hwy yn pryderu yn ddirfawr yn yr achos, a'r Sabboth gerllaw, daeth atynt ryw ddyn tlawd o grydd, yr hwn a gynygiai i'r pregethwr gael sefyll ar risiau ei dŷ ef. Yr oedd ef yn byw mewn math o gynteddfa *(court)*, i'r hwn nid oedd ond un mynedfa, fel math o borth. Addawai hefyd y ceisiai efe ddynion i gadw y porth, fel na chai neb ddyfod i mewn i aflonyddu ar yr oedfa. Gwelai y gwragedd fod eu gweddiau wedi eu hateb, a bod noddwyr i'r gwaith wedi cyfodi o le, ac mewn dull, nad oeddynt hwy yn gallu eu rhagweled.

"Y Sabbath a ddaeth; ac nid oedd y pregethwr yn gwybod dim pa beth oedd i'w ddysgwyl; a hawdd y gallwn ddyfalu, os bu penbleth y ddwy

wraig yn fawr i gael lle iddo sefyll, fod ei bryder ef yn llawn cymaint, yn enwedig gan nad oedd eto yn adnabyddus o'r ddarpariaeth a wnaethid gogyfer a'i ddiogelwch. Cychwynodd oddicartref, pa fodd bynag, gan lwyr fwriadu, yn ol ei addewid, bregethu i'r trefedigion. Cychwynodd pump neu chwech o frodyr crefyddol o'r wlad gydag ef; ond pan ddaethant i olwg y dref, llesgaodd ei enaid gan ofn y bobl, a phetrusodd fyned rhagddo. Wedi sefyll dros enyd mewn anmhenderfyniad blin, syrthiasant oll ar eu gliniau; ac mewn gweddi at yr Hwn a bïai y gwaith, tywalltasant eu calonau o'i flaen. Archasant gyfarwyddyd pa beth i wneyd;—os ewyllys yr Arglwydd oedd iddynt fyned yn mlaen, ar iddo gyfnerthu meddwl ei was, a rhoddi iddo ddrws agored i draethu yr efengyl wrth y gwrandawyr. Wedi parhau rhyw gymaint o amser mewn ymbiliau yn y modd yma, dadebrodd calon y pregethwr, a phenderfynodd fyned yn mlaen yn wrol, deued y canlyniadau a ddelent.

"Erbyn i'r brodyr hyn gyrhaedd y dref, deallasant trwy y gwragedd pa ddarpariaeth a wnaethid i'w derbyn; a hwythau a ddiolchasant i Dduw, ac a gymerasant gysur. Aethant i gynteddfa y crydd, a chawsant y lle yn barod iddo i bregethu, a'r bobl yn ei ddysgwyl. Safodd y crydd at ei air: cafwyd llonyddwch i gadw yr oedfa, oddigerth ambell gareg a hyrddid i'r cynteddfa dros benau y tai; ac o'r Sabboth hwnw hyd heddyw, y mae pregethu cyson gan y Methodistiaid yn nhref Beaumaris."

Ond er i bregethu barhau yno o hyny allan, eto nid oes i ni feddwl na chyfarfu â llawer llewyg, os na fu yn aros ar wedd isel a diystyr dros flynyddau. Nid hir, ar ol cael pregethu lled gyson i'r dref, y buwyd heb fod cyfarfod eglwysig yn cael ei gynal, er nad oedd yn y dref ei hun ond ychydig iawn o nifer. Cynelid y cyfarfodydd, dros ryw dymhor, mewn "llofft allan," a berthynai i dŷ tafarn yn y dref, sef llofft heb fod o fewn muriau y tafarndy. Yn y llofft hon y cynelid y cyfarfodydd eglwysig, a dywedai Richard Jones, henuriad yn Mhen-y-garnedd, ei fod ef am flynyddoedd yn arfer myned i'r cwrdd eglwysig i lofft y tŷ tafarn yn Beaumaris. Yr oedd yn byw yn y dref ddyn o'r enw Manuel, gwehydd wrth ei grefft, ac yn perthyn i'r milisia. Cyfrifid y dyn hwn yn ben-ceerwr y dref, ac yn un dideimlad a diegwyddor. Parod oedd, am wobr, neu am ddiod, i gyflawni unrhyw erchylldra ymron; a pharotach nag at ddim arall, i erlid y crefyddwyr. Tybid nad oedd dim gwarth yn gysylltiedig â hyn, ond yn hytrach yr ennillai anrhydedd a ffafr yn ngolwg boneddwyr y dref. Yr oedd eu hymlid hefyd yn fath o ddifyrwch, tebyg i'r difyrwch a fwynha rhyw fath o bobl wrth erlid yr ysgyfarnog. Yr oedd Manuel, y gwehydd, yn eithaf parod i'r gorchwyl y gelwid ef ato ar hyn o bryd; ac yn enwedig, gan y rhoddid iddo ei wala a'i weddill o ddiod gadarn, a thrwy hyny ei wneuthur yn fwy penderfynol ac ymroddgar. Ei orchwyl penodol ef oedd myned i'r llofft, a mynu ei ffordd drwy y gynulleidfa at y pregethwr, a'i lusgo ef allan at ei gymdeithion, y rhai a ddysgwylient mewn man arall am dano, modd y gallent wneuthur iddo fel y gwelent hwy yn dda.

Dygwyddodd, pa fodd bynag, i un William Prys, o'r Bryngolau, ddyfod i wybod am y cynllwyn anfad hwn. Nid oedd y gŵr hwn yn arddel crefydd, ond yr oedd yn ddyn moesol, ac yn caru gwrando, ac hefyd yn hoffi cyfiawnder a thegwch. Heblaw hyny, yr oedd yn ddyn cadarn a nerthol o gorff; a dywedid fod ganddo y fath afaeliad, nad oedd obaith i ddyn cyffredin gael ei hun yn rhydd o'i grafanc. Wedi deall fod Manuel yn bwriadu dyfod i'r llofft, gosodai y gŵr arall ei hun wrth y drws i'w ddysgwyl; ac yn y fan y deuai, ymaflai ynddo, gan ei wasgu yn ddystaw, nes y byddai ei wyneb yn glasu. Deallai y dyhiryn yn y fan, mai eiddil oedd ef i geisio ymwrio â'r fath ddyn; ac mor fuan ag y caniateid iddo, llithrai i ffordd yn llechwraidd i fynegu i'w gymdeithion pa mor siomedig y troisai y cynllwyn allan. Dygwyddai amgylchiadau o'r fath yn aml, pryd na fyddai y gynulleidfa oddifewn i'r llofft yn gwybod dim am yr ymgyrch a fyddai wrth y drws.

Ymddengys y byddai cyfeillion o Ben-y-garnedd a Llangoed yn arfer myned i'r hen lofft, i gyfarfod â'r ychydig aelodau oedd yn byw yn Beaumaris, i gadw cyfarfodydd eglwysig; a thystiai yr henadur Richard Jones, y byddai torf o ddyhiriaid, ymron bob amser, yn aros y cyfeillion hyn allan, nid i'w baeddu gymaint, ond i'w gwawdio a'u dirmygu yn y modd atgasaf a fedrent ddychymygu. Rhoddent awgrymiadau gwawdlyd, mai cadw rhyw ddawns y bu y crefyddwyr yn y cynulliad; a chan fod gwraig Richard Jones yn fwy corffol ac anystwyth na'r cyffredin, ac hefyd yn fwy trwsiadus ei gwisg, a selog ei chrefydd, na rhai, galwent hi, "*Yr hen lady of the ball,*" a honent mai hi a fuasai yn agor y ddawns. Mynych y gwaradwyddid y crefyddwyr yn y modd yma, gan obeithio, os na wnai creulondeb, y gwnai cywilydd iddynt ymadael â'u crefydd; ond nid oedd na'r naill na'r llall yn tycio, canys yr oedd eu nifer yn amlhau, ac yn lle cilio yn llechwraidd o'r maes, ymddangosent yn fwy penderfynol, o ddydd i ddydd, i fynu ennill y dydd ar eu gwrthwynebwyr.

Ond er mai Dafydd Morris oedd y cyntaf a geisiodd bregethu, yn nghof yr henadur teilwng* a fynegai yr hanes, y mae genym le i gredu fod cais wedi cael ei wneuthur i bregethu yn y dref, gan y cynghorwyr hyny a elwid pobl Howel Harris; ond ni fu eu cais ond aflwyddiannus, ïe, a thra pheryglus, oblegid fe'u lluchiwyd allan â cherig, gyda'r fath ffyrnigrwydd gwallgof, fel y mae yn syn eu bod wedi gallu dianc heb eu lladd. Yr oedd hyn, fel y gellir barnu, rhwng y blynyddoedd 1750 a 1760. Ar ol yr ymgyrch hwn, cafodd trigolion Beaumaris y maes iddynt eu hunain am 14 o flynyddoedd. Ond ar ddiwedd y cyfnod hwn, anturiodd Owen Thomas Rolant yno. Meddai ef ei hun, "Aethum yno mewn llawer o ddigalondid, gyda 12 neu ragor o'm cyfeillion. Yr oedd yno yn ein dysgwyl dyrfa fawr iawn o bobl, a minau yn dysgwyl y byddai fy ymenydd ar y pared cyn pen chwarter awr. Cymaint oedd fy ofn a fy arswyd wrth ddechreu, fel na allwn ymaflyd yn y Beibl, gan fel yr oedd fy nwylaw yn crynu. Wrth i mi

* Mr. John Thomas, Hebron.

weddio, yr oedd yno y fath swn, gan y murmur a'r terfysg oedd yn mhlith y bobl, fel nad oedd bosibl i neb glywed ond ychydig; ond wrth ddiweddu y weddi, mi ddywedais y pader: pan glywodd y bobl hwn, rhedodd rhai o ddrysau y tai, ac ochrau y cloddiau, a chan dynu eu hetiau, nesasant at y dorf. Ar hyn, gwaeddodd John Parry, y bragwr, ar y bobl, ar fod i bawb wrando yn ddystaw, ac na wnai neb, er ei berygl, ddim aflonyddwch; ac na thaflai neb gymaint a phlisgyn ŵy, oherwydd," ebe efe, "yr wyf fi wedi rhoi cenad i'r gŵr sefyll ar fy nhir, ac mi a edrychaf am chwareu teg iddo. Y canlyniad o adrodd y pader, a thraethiad araeth y bragwr, a fu cael llonyddwch perffaith i mi i bregethu."

Yr oedd Owen Thomas, er cyn ei ddychweliad at grefydd yn hollol adnabyddus i bawb yn Beaumaris. Gwyddent mai hwn oedd yr un a fyddai yn arfer dyfod i'w tref hwy bob *sessiwn* i chwareu tenis, yfed cwrw, a chyflawni pob anfadrwydd. Yr oedd canfod y fath gyfnewidiad ynddo, a bod yr hwn a fuasai gynt yn greadur mor wallgof, yn awr wedi cael ei ddwyn ato ei hun, yn effeithio yn ddymunol ar lawer o'i hen gymdeithion; tra yr oedd eraill yn teimlo yn awyddus i ddial arno am iddo droi ei gefn arnynt, ac ymrestru mewn byddin mor wrthwynebol iddynt. Yr ydym yn cael ein tueddu i feddwl fod y tro hwn ar Owen Thomas wedi dygwydd ychydig cyn y tro y bu Dafydd Morris yn y dref, neu yn fuan ar ol hyny, sef rhwng 1770-80.

Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at y gymdeithasfa gyntaf a gynaliwyd yn Beaumaris,* pan y rhoddasid ar ddeall i Lord Bulkeley, gan ryw ddynion llawer mwy eu hystryw na'u gras, fod Baron-hill, ei balas,—ïe, yn wir, fod y deyrnas oll mewn perygl, trwy fod y fath luaws o bobl yn ymgasglu at eu gilydd, dan rith crefydd. Ni allai fod y gymdeithasfa uchod wedi cymeryd lle ond mewn adeg ddiweddar mewn cydmhariaeth, sef yn 1784.

Daeth Mr. Lloyd, fel y crybwyllasom, i fyw i'r dref ar ddechreuad y ganrif bresenol, a bu ei ddyfodiad iddi yn fywyd o feirw i'r achos gwan. Yn fuan ar ol iddo ddyfod i breswylio yn y dref, cafodd addewid o le i adeiladu capel, a bu cael y fath gyfleusdra yn foddion i luosogi y gwrandawyr yn fawr; ac yn mhen ychydig flynyddoedd, aeth y capel yn rhy fychan, a bu raid ei wneuthur yn llawer helaethach. Parhaodd y gwrandawyr a'r aelodau i luosogi fwy-fwy, nes y bu raid helaethu y capel drachefn. Cafodd Mr. Lloyd hyn o amgylch yn ystod y flwyddyn olaf y bu efe byw, sef yn 1833-4.

Bu Mr. Lloyd a'i wraig yn offerynau nodedig i ddwyn yr achos i'r wedd sydd arno. Nid yn unig bu ei weinidogaeth bersonol ef ei hun yn wasanaethgar i hyny, ond bu ei dŷ yn llety i'r dyeithriaid a ddeuent i wasanaethu achos yr efengyl i'r dref, o ddeheudir a gogledd, am faith flynyddau, ïe, tra y bu ef ei hun byw, a thra y bu ei weddw fyw ar ei ol. Gwasgarodd lawer yn y ffordd yma ar ei ddâ, ond fe chwanegodd iddo. Bwriodd rhagluniaeth ei haden gysgodfawr drosto, a pharodd iddo lwyddo, fel na fu arno ef, na'i

* Cyf. I, tudal. 370.

dylwyth ar ei ol, eisieu dim daioni a berthyn i'r byd hwn. Bendithiwyd ei dŷ, fel yr eiddo Obededom, er mwyn arch Duw.

Yr oedd Mr. Lloyd yn ŵr call a phwyllog, ac o dymher siriol ac ennillgar. Yr oedd gwên yn llewyrchu yn naturiol ar ei wyneb. Er na allwn ei osod yn mhlith y ser dysgleiriaf o ran ei dalentau gweinidogaethol, eto yr oedd yn mhell uwchlaw y radd gyffredin. Ymddangosai yn brydferth, fel un yn cyfateb i'w le, pan y gosodid ef o flaen cynulliadau lluosocaf y cyfundeb. Cawsai ei gyfaddasu yn fwy i gydweithredu nag i arglwyddiaethu. Yr oedd sirioldeb ei wedd, a mwyneidd-dra ei ysbryd, yn ei gymhwyso mewn modd nodedig, nid yn unig i gydweithredu ei hun â'i frodyr, ond hefyd i beri cydweithrediad cyffredinol yn eraill, yn y cylch y teimlid ei ddylanwad. Bu farw Mr. Lloyd yn nghanol ei ddyddiau, yn 1834, pan oedd yn 63 ml. oed, wedi bod yn pregethu yr efengyl am ysbaid 40 mlynedd.

Yn nechreuad y ganrif bresenol, yr oedd Methodistiaeth yn arddangos bywiogrwydd a chynydd mawr; yr oedd trigolion y wlad, bellach, mor bleidiol iddo ag a fuasent gynt o wrthwynebol; eto yr oedd yn aros gryn lawer o'r hen ragfarn cyntefig yn mhlith rhai o foneddwyr y wlad. Dangoswyd hyn yn Beaumaris mor ddiweddar a 1809. Cynaliwyd cymdeithasfa yn y dref yn mis Mehefin y flwyddyn hòno. Am bump o'r gloch y prydnawn cyntaf, pregethodd y Parch. John Roberts, Llangwm, a'r Parch. Thomas Charles, o'r Bala. Ar y cyfryw gyfarfodydd, y mae yn arferiad bob amser fod gweddi deuluaidd yn cael ei chynal naw o'r gloch yn yr hwyr, yn mhob tŷ y lletya neb o'r crefyddwyr; yr hon awr, oherwydd hyn, a elwir, "Yr awr weddi." Lletyai Mr. Elias yn y gwestty a elwir y *Bull Hotel;* a phan oedd efe yn cyflawni y gwasanaeth difrifol hwn, a'r ystafell yr oedd ynddi yn orlawn o bobl, y ffenestri yn agored, a lluaws o wrandawyr yn sefyll oddiallan wrth y ffenestri, daeth boneddwr i'r lle; ac yn ddigllawn wrth weled y lluaws pobl, a'r wedd grefyddol a ymddangosai ar bawb o'i amgylch, efe a ollyngodd allan ergyd o ddryll yn ymyl y ffenestr agored, er dychryn mawr i'r holl rai a gyfranogent yn yr addoliad, ac i Mr. Elias ei hun. Ofnai llawer un fod rhyw rai wedi eu niweidio, os nad wedi eu lladd; ond nid oedd sail i hyny, gan, fel y deallid ar ol hyny, mai i'r awyr y saethodd y gŵr yr ergyd, ac mai ei unig ddyben oedd terfysgu yr addoliad. Rhoddwyd heibio y canu ar ol y weddi, ar gais gŵr y tŷ, rhag i hyny chwanegu y niwaid. Dywedir i Mr. Elias ymddyddan â'r boneddwr y noson hòno, ac iddo amlygu ei ofid o herwydd ei ymddygiad rhyfygus ac annynol."

## LLANGOED.

Mae y lle hwn o fewn dwy filldir neu dair i Beaumaris, a'i hanes yn ymblethu yn hanes y dref. Meddai un gŵr am yr ardal hon: "Tua 1802, ac o hyny hyd 1808, arferai trigolion Llangoed fyned brydnawniau Sabboth i ben bryn yn y gymydogaeth, a elwir y Marian-dyrys, i ymddifyru mewn halogi y Sabboth,—yr ieuainc trwy gampio a chwareu, a'r hen bobl trwy

adrodd hen chwedlau. Gosodid gorfod ar bawb a ddeuent i'r lle, i aros yno hyd ddiwedd y gamp; ac enbyd oedd i neb geisio myned i ffordd, pe yr ewyllysiai, cyn yr adeg appwyntiedig. Os dygwyddai fod neb yn ddigon hyf i droseddu y rheol hon, rhaid oedd iddynt ddysgwyl y canlyniad. Cospid y cyfryw trwy fwrw cerig ar eu hol hyd lethrau y bryn, nes y byddai perygl iddynt am eu hesgyrn, os nad am eu bywyd. Y moddion penaf a ddefnyddiwyd, ac a fendithiwyd, i gael yr hen arferion llygredig hyn i lawr, oedd gweinidogaeth yr efengyl, a chyfodiad ysgolion Sabbothol.

Dygwyddodd un tro nodedig yn yr ardal hon, yr hwn a roes ergyd marwol i gyfarfod llygredig. Yr oedd rhyw nifer o gyfeillion crefyddol, ar ddiwedd un o'r cyfarfodydd gweddi, wedi deall, cyn iddynt ymwasgaru oddiwrth eu gilydd, fod cyfarfod dan yr enw *noswaith lawen* i gael ei gynal y noson hòno, mewn lle a elwir *Porto Bello*, sef hen balasdy mawr wedi ei ollwng i ddirywio, a'i droi yn fân dai i bobl gyffredin: yn nhy un William Doyle yno y cynelid y cyfarfod. Effeithiodd hyn yn ddwys iawn ar feddwl un o'r brodyr, sef Richard Buckley, a dywedodd, 'Nis gallaf mewn un modd fyned adref, a gadael y bobl hyn yn y fath le, a chyda'r fath waith o halogi dydd yr Arglwydd, heb wneyd rhyw ymgais i'w rhybuddio a'u hachub.' Anfonodd, gan hyny, at y warden, o'r enw John Rowlands, Tyddyn-grugwr, yr hwn ei hun oedd yn myned adref o'r cyfarfod gweddi, i erchi arno ddyfod gydag ef i Porto Bello, i'w gynorthwyo yn ei amcan. Danfonodd John Rowlands yn ol gyda'r genad, ar i'r hen ŵr fyned adref, a pheidio *gwirioni*:—na wnai pobl y 'noswaith lawen' ond gwneyd gwawd o hono, a chwerthin am ei ben, os peidient a gwneyd rhyw niwaid iddo: 'ond,' ebe efe, 'am danaf fi, ni ddeuaf fi yn agos atynt.' 'Nid oes mo'r help,' ebe Richard Buckley, pan fynegwyd iddo pa ateb a roisai y warden, 'Cleddyf yr Arglwydd a Gedeon,' mi af fi yno, doed a ddelo o honof.'"

Acth yr hen ŵr yno, ac wedi cael myned i mewn, cyfarchodd y bobl, gan ddywedyd, "Wel, lanciau bach, syn genych, mae'n debyg, fy ngweled i yma yn eich mysg: y gwir ydyw, nid oedd ffrwyth ynof i fyn'd adre', a'ch gadael chwi yn y fan yma, i fyn'd y ffordd unionaf i uffern, heb eich rhybuddio." Teimlodd rhywun awch y cyfarchiad gonest hwn yn brathu ei gydwybod, a galwodd am hel y *siot*, fel y gallent fyned adref yn ddioed. Cytunwyd ag ef yn y cynygiad gan bawb ond un, a hwnw yn fab i rieni crefyddol. Hwn a ddywedodd, "Na wnewch sylw o'r hen ddyn, gadewch iddo ef fyned adref, ond paham yr awn ni ar ei gais ef?"

Pa fodd bynag, i ffordd yr aethant oll yn bur fuan, ac nid hir y bu y rhan fwyaf o honynt heb ddyfod i gofleidio crefydd yr Iesu, ac i wneuthur proffes gyhoeddus o'i enw, ïe, bu yr un a ddangosasai radd o wrthwynebiad i gais yr hen ŵr yn eu plith ar ol hyny, yn henuriad ffyddlawn yn eglwys Llangoed hyd ddiwedd ei oes! Pa beth na all ffyddlondeb a gweddi ei wneyd! Ymwregysodd yr hen ŵr, fel Gedeon gynt, a 'chleddyf yr Arglwydd,' a gwnaeth wrolwaith; ac er nad oedd ganddo na dawn na dylanwad, ond y dylanwad a berthynai i uniondeb ei amcan, a chysondeb ei gymeriad, eto 'yr oedd Duw

gydag ef.' Y Duw hwnw a gyffrôdd ei galon i wneuthur yr ymgais, a fendithiodd y moddion i gyrhaedd yr amcan, "fel na orfoleddai un cnawd yn ei olwg ef."

Ar ddechreuad pregethu yn yr ardal hon, fel mewn ardaloedd eraill, yr oedd rhyw fath o ddynion yn chwannog i wneyd yn hyf ar yr addoliad, gan edrych arno yn ddim amgen na chynulliad cyffredin o ddynion tlodion,—dynion a'u penau yn llawn o fympwy, a dynion nad oedd un amddiffyniad cyfraith drostynt; ond dynion y gellid eu sarhau fel y mynid, a hyny yn berffaith ddiberygl. Ond nid anfynych y defnyddiai yr Arglwydd yr amgylchiadau hyn yn foddion i ddwyn hyd yn nod y gwawdwyr eu hunain i wybodaeth y gwirionedd. Yn yr un lle ag y cynelid y cyfarfod gweddio ag y cyfeiriwyd ato uchod, dygwyddodd tro arall tra hynod, yn yr hwn y gellir gweled anwybodaeth dybryd ar y naill law, a chyfryngiad grasol y Goruchaf ar y llaw arall. Mewn rhyw gyfarfod crefyddol a gynelid yn y lle, daeth dyn i mewn unwaith, a cheseiliad o bŷs ganddo ar ei wellt o dan ei gôt, a bwytäai y pŷs, gan lygadrythu o'i amgylch a oedd pawb yn edrych arno. Ei amcan, tybygid, oedd difuddio y cyfarfod trwy dynu sylw pawb ato ei hun. Yr oedd John Rowland, Tyddyn-grugor, y gŵr y crybwyllasom ei enw o'r blaen, yn ddyn grymus iawn o gorff, ac yn arfer, pan y ceisiai neb aflonyddu ar y cyfarfodydd crefyddol, ymaflyd ynddynt, "a'u taflu allan," medd fy hysbysydd, "wrth y cwpl, fel pe lluchiai un gwpl o gorgwn." Aeth y gŵr yma at y llall, a dywedodd wrtho, "Onid êi di allan ar frys, mi a dy daflaf di allan. Clybu hen ŵr crefyddol y bygythiad, a dywedodd, 'Na, gadewch iddo John Rowland, mi âf fi ato, ac a'i perswadiaf ef i fyned allan rhag aflonyddu yr addoliad." Fe aeth ato, ond ni allodd lwyddo gyda'r dyn i fyned allan; ond llwyddodd i gael ganddo gau ei gôb ar y pŷs, a bod yn berffaith lonydd yn y cyfarfod. Dywedai yr aflonyddwr ar ol hyn, na fu mor galed arno erioed gan euogrwydd cydwybod, ag a fu arno y noson hòno; ac nid hir y bu yntau heb ddyfod i broffesu crefydd.

Nid oedd dim yn boddhau gwrthwynebwyr y sectariaid yn fwy na gwrando ar ryw un medrus yn dynwared eu cynghorwyr yn pregethu. Rhoddai hyn ddigrifwch mawr iddynt hwy eu hunain, ac yr oedd yn foddion effeithiol, yn ol eu tyb, i ddwyn ymneillduaeth i ddirmyg. Er mwyn gallu gwneyd hyn yn fwy medrus, rhaid oedd weithiau eu gwrando; a thra yr oedd y bregeth yn fywiog yn y cof, traddodid rhyw gyfran o honi, wedi ei hanffurfio a'i drwgliwio, i ddifyru yr erlidwyr, ac i ddifrïo y crefyddwyr. Ac yn gyffredinol, credid y camddarluniadau a roddid yn y dull gwawdlyd hwn, gan lawer, fel gwirionedd; yn enwedigol gan fonedd y wlad, y rhai na ymostyngent i wrando drostynt eu hunain.

Yr oedd gŵr ieuanc medrus yn y cyfryw orchwyl, o'r enw Robert Owen, yn byw yn ngwasanaeth Mrs. Griffith, Tyddyn-y-gwynt; yr hon, fel llawer o'i gradd, oedd yn llochi cryn lawer o ragfarn at Fethodistiaeth, gan gwbl gredu mai anghristiaeth perffaith oedd pob ffurf o grefydd ond eglwysyddiaeth; pa un bynag ai pabyddiaeth ar y naill law, neu sectariaeth ar y llaw

arall. Yr oedd Tyddyn-y-gwynt yn sefyll nid yn mhell oddiwrth gapel Llangoed, ond yn mhlwyf Llanfaes. Mab oedd y gŵr ieuanc hwn i Owen Thomas, y Fron-bach, plwyf Pen-mon.

Arferai y llencyn hwn ei ddawn a'i fedrusrwydd i ddynwared pregethwyr, oddiar ben tomen gerllaw y tŷ. Un tro, dygwyddodd fyned i Langoed i gyfarfod gweddio, gan ddysgwyl yn ddiau y cai yno ryw destyn difyrwch a gwawd; ond Duw a feddyliodd yn wahanol. Yn y cyfarfod gweddi, anfonwyd rhyw wirionedd fel saeth i'w galon. Pwysodd euogrwydd arno yn y fan mor drwm, fel na allai godi ei ben, nac edrych i fyny. Dychwelodd i'w le, nid i wawdio mwy. Rhy anhawdd, bellach, oedd celu y cyfnewidiad oddiwrth wraig y tŷ, a blin iawn oedd ganddi y newydd; ac annyoddefol ganddi oedd fod un o âch y Methodistiaid, weithian, yn llechu dan ei chronglwyd. Yr oedd y boen a barai y crefyddwr iddi yn fwy na'r difyrwch a roddasai y gwawdiwr; ac nid oedd amser i'w golli, ond glanhau ei thŷ mor fuan ag oedd modd oddiwrth y fath halogedigaeth. Yn mhen tridiau, galwodd am y llencyn ati, a dywedodd yn groch iawn, mor syn ac arswydol oedd ganddi ei fod wedi pendroni gymaint; a rhybuddiodd ef y byddai raid iddo, allan o law, ymadael â'i grefydd, neu ymadael â'i gwasanaeth; a galwai arno i benderfynu. Dysgwyliodd, ond odid, y buasai y cyfryw fygythiad yn ddigon i beri iddo ymadael â'r bobl ddirmygedig yn ddibetrusder; a mawr oedd ei siomedigaeth, pan rhoes y bachgen ar ddeall iddi, er ieuanged crefyddwr ydoedd, mai nid gwerth na gwobrwy a'i gyrasai ef at grefydd; ac mai nid gwerth na gwobrwy a barai iddo ei gadael. Ymadael hefyd â'i le a wnaeth, ac ni chafodd achos i edifarhau am y dewisiad a wnaethai. Yr oedd hyn tua dechreu y ganrif bresenol.

Rai blynyddau ar ol hyn, dangoswyd cyffelyb ddygasedd at grefydd, gan ŵr boneddig ag oedd yn byw y pryd hyny yn Henllys. Yr oedd gŵr a gwraig, o'r enw Rowland ac Elizabeth Thomas, yn byw, yn y fl. 1814, yn mhorthor-dŷ *(lodge)* yr Henllys, ac yn gwasanaethu y boneddwr. Trwy ryw foddion neu gilydd, yr oeddynt wedi bwrw eu coelbren yn mhlith y Methodistiaid. Daeth hyn, ryw bryd, yn adnabyddus i'r Major; yr oedd digon o ddynionach prysur a diddiolch a hoffent ddwyn y fath newydd i'w glustiau; gorchwyl ydoedd a gyflawnid fynychaf, mewn amgylchiadau cyffelyb, gan berson y plwyf. Wedi deall fod y porthor yn un o'r crefyddwyr, enynodd digofaint y boneddwr, a phenderfynodd, allan o law, ymlid y teulu i ffordd, fel rhai annheilwng o fyw yn ngwasanaeth gŵr o'i sefyllfa ef. Yn ddioed, gan hyny, anfonodd am y porthor ato, a gofynodd iddo yn ffyrnig iawn, pa fodd y meiddiai efe ddewis crefydd wahanol i'r eiddo ei feistr? A chan iddo ryfygu gwneuthur hyny, y rhoddai ar ddeall iddo nad oedd ond ei grefydd, neu ei wasanaeth, iddo gael. Yr oedd gan y gŵr, erbyn hyn, ddau blentyn; ac nid oedd ganddo, yn yr adeg, hanes na thŷ na lle; a hawdd y gallwn feddwl fod y dyrnod disymwth yn effeithio yn drwm ar ei deimladau. Wedi dadebru gronyn, gofynodd y gweithiwr i'w feistr, a oedd ganddo ryw achwyniad yn ei erbyn, heblaw a berthynai i'w grefydd? "Nac oes," ebe y

meistr, "ddim arall; ïe, mi roddwn lawer yn eich ffordd, os ymadewch â'r sectariaid hyn."

"Hyny," ebe y gweithiwr, "nis gallaf. Ac er nad wyf yn gwybod pa le yr âf, na pha beth a'm cyferfydd i, fy ngwraig, a'm dau blentyn; eto ni chaiff un ystyriaeth am bethau y bywyd hwn beri i mi archolli fy nghydwybod."

Wedi yr ymddyddan, ymadawodd y boneddwr heb esmwythâu dim ar y bygythiad, a'r porthor yntau a ddychwelodd i'w dŷ, ac a fynegodd y cwbl i'w wraig. Hithau a'i cysurodd ef, gan ddyfalu y gofalai rhagluniaeth am danynt, ac y cyfodai ymwared o le arall.

Yn mhen tua hanner awr, daeth mam y gŵr i mewn, â llythyr yn ei llaw, wedi ei ysgrifenu gan ŵr a gymerasai waith mawr i'w wneyd gan y llywodraeth, yn Nghaergybi, yn ymofyn am ddwylaw ychwanegol ato. Nid oedd y gŵr hwn yn gofalu pa fath grefyddwyr a fyddai y dynion dano, am y cai ef y gwaith wedi ei wneyd. Fel hyn, gofalodd rhagluniaeth am drefnu llwybr i'r truan gorthrymedig gael bywioliaeth llawn cystal, os nad llawer gwell, heb gyfyngu dim ar ei ryddid na'i freintiau crefyddol. Cyfaddefodd y boneddwr ar ol hyny, mai Owens, Llandyfrydog; Lloyd, Maes-y-porth; a Mrs. Jones, Henllys, oedd y prif ymyrwyr yn yr achos hwn. Nid y tro cyntaf ydyw hwn yn y byd, nac yn Mon, "i'r penaethiaid ymgynghori yn nghyd yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef. Ond yr Hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd, a'r Arglwydd a'u gwatwar hwynt. Yna efe a lefara wrthynt yn ei lid, ac yn ei ddigllonedd y dychryna efe hwynt. Efe a'u dryllia â gwialen haiarn, ac a'u maluria hwynt fel llestr pridd. Gan hyny, yr awr hon, freninoedd, byddwch synwyrol; barnwyr y ddaear, cymerwch ddysg. Cusenwch y Mab rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd, pan gyneuo ei lid ef ond ychydig. Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo Ef."

## LLANFAIR-PWLL-GWYNGYLL.

Llawer llan yn Nghymru sydd wedi ei alw ar enw *Mair*, a chan luosoced ydynt yn y gwledydd, ac weithiau yn yr un wlad, y mae yn angenrheidiol ychwanegu at yr enw, er mwyn dynodi y *Llanfair* a feddylir, megys uchod; a chan amled eu rhif, rhoddir i ni brawf tra amlwg gymaint oedd y syniad pabaidd am Fair y Forwyn yn ffynu yn y tir, pan adeiladwyd y llanau. Mae y Llanfair y gelwir sylw y darllenydd ati yn awr, yn gorwedd o fewn dwy neu dair milldir i'r gorllewin, neu de-orllewin, o Borth Menai; a'r capel sydd gan y Methodistiaid yn y plwyf, yn sefyll o fewn ychydig i fin y brif-ffordd sydd yn arwain i Gaergybi o'r Borth.

Nid yw Plas Pen-mynydd, lle y bu William Pritchard unwaith yn preswylio, a Minffordd, y lle cyntaf yn Mon a gofrestrwyd gan Ymneillduwyr i bregethu ynddo, ond ychydig o ffordd oddiwrth Llanfair. Yr oedd Hugh Griffith, Llanddaniel, a Michael Thomas, o'r Garnen, dau o hen bregethwyr

boreu y wlad hon, yn byw nid yn mhell o'r llecyn hwn. Oddiwrth yr amgylchiadau hyn, rhoddir lle i ni gasglu fod pregethu gan y Methodistiaid yn y fro hon, mewn rhyw fan neu gilydd, er yn gynar; ond nid yw yr hanes sydd genym am y lle yn peri i ni feddwl fod Methodistiaeth wedi ennill nemawr o dir yn mhlwyf Llanfair hyd ddechreuad y ganrif hon. Pan ddaeth Risiart Morris i fyw i Lanfair, nid oedd ond ychydig iawn o grefyddwyr yn y plwyf: tua naw, meddir, oedd eu nifer; a'r pryd hyny, nid oedd cyfarfod eglwysig yn cael ei gynal gan yr ychydig bobl hyn, oddieithr pan anfonid atynt, yn awr ac eilwaith, fod rhyw un neu arall yn dyfod i'w cynorthwyo; a hwythau a aent yn wythnosol i'r cyfarfod eglwysig a gynelid ar y pryd yn Llanddaniel.

Ychydig cyn dyfodiad Risiart Morris i aneddu i'r ardal yr adeiladwyd y capel; a chasglu yr ydym mai tua'r fl. 1785 y bu hyny. Nid yw yn ymddangos ei fod ef yn arfer pregethu pan y daeth gyntaf i Lanfair i fyw, ond ei fod wedi bod yn cadw ysgol ddyddiol a nosweithiol, ac yn llafurio fel cenadwr yn yr ardal mewn gwahanol ffyrdd, am ysbaid deng mlynedd, mwy neu lai, cyn iddo gael caniatâd i bregethu. Efe a fu farw, medd ei fywgraffydd, yn y fl. 1824, wedi bod yn pregethu 30 o flynyddau.

Ymddengys fod mam Risiart Morris yn wraig grefyddol a moesol iawn, o leiaf, mewn cydmhariaeth i'w chymydogion. Cyrchai yn gyson i'r llan ddwy waith ar y Sabboth, ac ymdrechai lawer i ddwyn ei phlant i fyny mewn pob arferion da adnabyddus iddi hi. Rhoddwyd Risiart yn yr ysgol, a dysgodd ddarllen Cymraeg, yr hyn beth nid oedd ond ychydig nifer yn y plwyf yn medru arno y pryd hyny. Ond pan oedd Risiart yn 13 oed, sef yn y fl. 1762, bu farw ei dad a'i fam dan rym clefyd, a chladdwyd y ddau yn yr un dydd. Wedi colli ei fam, dechreuodd y bachgen waethygu yn ei foesau yn fuan. Cyrchai, bellach, fel ieuenctyd eraill y fro, i nosweithiau llawen, a hoff oedd ganddo y ddawns a'r delyn, ac ofer gampau yr oes a pharhaodd yn y dull hwn o fyw, hyd nes oedd tuag 20 ml. oed; eto yn fynych, fe deimlai arteithiau arswydus yn ei gydwybod, nes gwneuthur ei fywyd yn faich iddo. Tua'r adeg grybwylledig, syrthiodd i fath o lewyg, a pharhaodd ynddi hyd dranoeth, a bu yn ddarostyngedig i'r cyffelyb lewygfeydd, o hyny allan, tra fu byw; eto yn llai eu grym a'u parhad. Bu y llewygfeydd hyn yn foddion, yn llaw yr Arglwydd, i arafu ei gamrau; a dechreuodd ymwasgu, bellach, â'r ychydig grefyddwyr oedd yn Llanddaniel. Yr oedd ar y pryd yn byw yn Myfyrian-isaf, plwyf Llanidan, ei le genedigol, nid yn mhell o Landdaniel. Derbyniwyd ef yn llawen i gymdeithas y brodyr yno; ac yn fuan, gan faint ei aidd i rybuddio ei gymydogion am eu perygl, dangosai awyddfryd i bregethu; ond er na chaniatawyd hyn iddo ar y pryd, eto ymroddai i wneuthur a allai i rwyddhau llwyddiant yr efengyl trwy foddion eraill. Aeth yn fuan, ar ol ymuno â'r crefyddwyr, oddicartref i wasanaethu. Ymofynodd am deulu crefyddol, lle y gallai gael mwynhau manteision eglwysig; cafodd le felly yn nheulu Siôn Rolant, Cerig-llithir. Dychwelodd drachefn i'w hen gymydogaeth, a chafodd le gyda'r pregethwr, Michael Thomas, o'r

Garnen, ac oddiyno aeth i'w gartref genedigol, a'i iechyd yn lled anmharus.

Pan oedd yn 24 ml. oed, fe briododd, a chymerodd dyddyn yn mhlwyf Llanddaniel; symudodd yn fuan oddiyno i Langoed, lle yr arosodd am ysbaid deng mlynedd. Gŵr aml ei brofedigaethau oedd Risiart Morris drwy y blynyddoedd hyn; ac felly yr un modd y blynyddoedd dyfodol; eto yr oedd yn parhau yn ei berffeithrwydd crefyddol yn nghanol pob adfyd, ac yn cael ei weithio fwy-fwy i dynu ei gysuron o "ffynnon lawer gwell." Rywbryd, pan wedi ei ddarostwng i weithio wrth y dydd, arweiniwyd ef, a rhyw nifer o ddynion eraill, i weithio i ynys Seiriol;* a thra yr oeddynt yno, dygwyddodd i ystorm gref o wynt godi, yr hon a barhaodd i chwythu dros bum niwrnod, ac mor arswydus oedd y rhyferthwy, fel na allent hwy fyned allan o'r ynys, na neb ddyfod atynt o'r wlad gyferbyn. Nid oedd ganddynt hwythau ddim lluniaeth gogyfer â'r fath amgylchiad, na dim i'w ddysgwyl yn yr ynys lom. Efe oedd yr unig grefyddwr o'r fintai, a phriodolai ei gymdeithion eu trychineb iddo ef; ac mor gynddeiriog yr aethant gan newyn a dygasedd, nes oedd yn arswydo bob mynyd am ei hoedl. Yr oedd eu cynddaredd a'u rhegfeydd yn ofnadwy. Ond cyn trengu o neb o honynt, a chyn i neb ymosod arno yntau, tawelodd y gwynt, a rhoddwyd iddynt ddiangfa.

Yn fuan ar ol hyn, ac ar gais y gŵr a fu yn brif foddion i adeiladu y capel, symudodd i Lanfair, ac yno yr arosodd am weddill ei oes. Yr oedd pregethu achlysurol mewn tŷ a elwir Dryll-y-bowl, cyn codi y capel, er mai nid llawer o lwyddiant a fu ar yr achos hyd nes adeiladu y capel. Mawr oedd y gwawd a fwrid ar yr ychydig grefyddwyr yn y lle. Estynent fys at blant Risiart Morris, fel pe buasai rhyw anfad wrthuni arnynt; ac meddai y naill wrth y llall, "A weli di? dyma blant bach person y cythraul!" Yr oedd yr interludiau, chwareu cardiau, y ddawns, a'r digrifwch, wedi meddwi y trigolion mewn oferedd, a'u hoff bleser fyddai gwneyd rhyw sarhad neu ddiystyrwch i'r crefyddwyr. Pan y deuai yr ychydig enwau ag oedd yma, tuag 8 neu 9 o rifedi, at eu gilydd i gadw cyfarfod eglwysig, ymgynullai rhyw nifer o'r dirmygwyr wrth bared y capel i watwar; a thra yr oeddynt unwaith wrth y gorchwyl rhyfygus hwn, tarawyd un o honynt â barn, fel y camodd, neu yr anffuriodd ei enau, ac ni ddaeth yn union byth wedi hyny. Bu hyn yn hysbys, meddir, yn yr holl gymydogaeth, ac yn foddion i liniaru gradd ar hyfdra rhyfygus y gwatwarwyr.

Mae agos yn anghredadwy y blinder a brofai rhai o'r crefyddwyr boreuaf oddiwrth eu perthynasau a'u teuluoedd, yn unig o herwydd eu gwaith yn mynychu y cyfarfodydd crefyddol. Yr oedd hen ŵr, o'r enw Hugh Pritchard, yn byw, tua 70 neu ychwaneg o flynyddoedd yn ol, yn y Depra-bach, cymydogaeth Llanfair. Yr oedd yr hen ŵr wedi cael ei ennill i wrando y Methodistiaid, ac yn profi gradd o awdurdod y gwirionedd, yr hyn oedd yn ddolur llygaid annyoddefol i'w hen wraig, Dorti. Anhawdd ydyw dychymygu pa mor ffyrnig ac ysgeler oedd dygasedd yr hen fenyw tuag at y

* Puffin Island.

penau-cryniaid, a thuag at Hugh ei gŵr, am y mynai efe fyned i'w gwrando. Deallai yr hen ŵr fod pregeth i fod mewn rhyw le pell neu agos, a phenderfynai fyned i'w gwrando; ond rhaid, er mwyn heddwch, oedd cadw ei fwriad yn guddiedig oddiwrth Dorti, a rhaid hefyd oedd ymrithio mewn diwyg annhebyg i un yn myned i addoliad, trwy gychwyn o'r tŷ, yn ei ddillad cyffredin, neu heb ffunen *(handkerchief)* am ei wddf, rhag i'r hen wraig wybod ei amcan. Dygwyddai, weithiau, i'r ystryw ddyfod i'r golwg cyn iddo allu myned nepell oddiwrth y tŷ, ac yn y fan ymaith yr âi hithau ar ei ol, gan fytheirio ei bygythion, a'i luchio yn ddiarbed â cherig, nes ei droi yn ol. Yr oedd Hugh unwaith wedi dianc i Dryll-y-bowl, i wrando pregeth; deallodd yr hen wraig i ba le yr aethai, llanwodd ei ffedog â cherig, ac i ffordd â hi ar ei ol. Nid oedd ond tua deunaw o nifer yn yr oedfa, a hyny wrth dalcen y tŷ, o'r tu allan iddo. Yr oedd Hugh druan wedi cael hamdden i gilio, cyn i Dorti ddyfod i'r lle, ac ymguddiai yn nghysgod perthi o ddrain duon, y tu cefn i'r tŷ, fel na ellid yn hawdd ei weled; eto yr oedd yn ddigon agos i glywed y bregeth. Ond ar waith yr hen wraig yn dyfod i'r lle, ac yn methu yn ebrwydd a chanfod y gwrthddrych i arllwys ei dygasedd arno, hi a waeddai allan, "Pa le y mae yr hen *gnaf?*"—pe cawn i hyd iddo mi a'i merthyrwn ef!" Yr oedd gŵr ieuanc o'r enw William Parry, a'r hwn oedd yn hoffi yn fawr yr olwg a fyddai ar yr hen fenyw yn lluchio ei gŵr, wedi dyfod i'r oedfa, nid i wrando y bregeth, ond i fwynhau y difyrwch crybwylledig; hwn, wedi deall y lle yr oedd Hugh yn llechu, a'i dangosodd i'r hen wraig, a mawr y difyrwch a fwynhâai wrth weled yr hen ŵr yn cael ei luchio. Ond er maint y gwrthwynebiad, parhau a wnaeth yr hen ŵr i wrando; ymunodd hefyd â'r ychydig bobl oedd yn ymgynull yn Dryll-y-bowl. Mynych, meddir, y deuai yr hen wraig yno i'w gyrchu oddiyno; ymaflai yn ei wallt, a churai ei ben ef yn erbyn y pared; o'r diwedd, pallodd amynedd gŵr y tŷ, cododd i amddiffyn yr hen ŵr, a rhybuddiodd yr hen Dorti, os byth y deuai hi i'w dŷ ef i aflonyddu drachefn, y rhoddid hi yn y fan yn ngafael cyfraith y tir. Mewn canlyniad, bu raid iddi roddi i fyny aflonyddu y cyfarfodydd cyhoeddus, a boddloni ar hyny o wrthwynebiad a thrahausdra a allai arllwys ar y truan ag oedd mor anffodus a bod dan rwymau i gydfyw â hi, mewn rhyw ddull gwahanol.

Oddeutu yr amser y dechreuodd Risiart Morris gynghori ei gydwladwyr yn gyhoeddus, sef tua 60 ml. yn ol, daeth un Richard Evans i'r gymydogaeth i gadw ysgol ddyddiol Gymraeg, fe allai trwy anfoniad Mr. Charles. Yr oedd y gŵr hwn yn ddyn duwiol a llafurus iawn gyda'r gorchwyl a osodwyd iddo; a bu yn dra defnyddiol, nid yn Llanfair yn unig, ond hefyd mewn llawer o ardaloedd eraill. Ar ei ddyfodiad i'r ardal hon, aeth ef a Risiart Morris drwy yr ardal i ymweled â phob tŷ, gan erchi ar iddynt ddyfod i'r capel ddwy noswaith o'r wythnos i ddysgu darllen Cymraeg; y byddai yn dda ganddynt eu gweled, ac y gwnaent a allent i'w dysgu a'u cyfarwyddo. Llwyddasant hefyd gyda lluaws o'r cymydogion, ac yn mysg eraill y dyn a fuasai gynt yn gwatwar; addawodd hwn ddyfod i gadw y drws rhag dim aflonyddwch.

Rhoes y moddion hyn ysgogiad grymus iawn i'r achos crefyddol, darostyngodd ragfarn llawer, dysgodd llawer i ddarllen Cymraeg, eangwyd llawer ar ddeall yr ieuenctyd, a chwalwyd gradd o anwybodaeth y fro i ffordd. Un tro wedi i Richard Evans holwyddori yr ysgolorion am y pethau a berthynai i Iesu Grist yn ei fywyd a'i angau, rhoes y pennill canlynol allan i'w ganu :—

Fe genir yno am y gwaed, *Flotiodd* feia',
Ac am y goncwest fawr a gaed, Ar Galfaria,
Am iddo fyn'd i lawr i'r bedd. A chyfodi,
Fe welir miloedd ar ei wedd, Yn ei foli.

Ond cyn gorphen canu pennill, torodd y gynulleidfa allan i waeddi a moliannu, bawb ymron yn y lle, yn hen ac yn ieuainc; ac yn yr hwyl y parhausant, rai o honynt, hyd ddydd dranoeth. Cyffrodd hyn y gymydogaeth trwyddi; cododd rhai o'u gwelyau y noson hòno i ddyfod i'r lle, ac i ymofyn pa beth oedd hyn? Parhaodd yr adfywiad nerthol hwn dros gryn dymhor, nid nemawr llai na dwy flynedd; a bu yn foddion i lwyr ddarostwng yr hen ofergampau—ysgubwyd hwynt ymaith megys â chenllif, fel na chodasant eu penau mwyach. Chwanegwyd llawer at rifedi yr eglwys yn yr adeg yma; daeth 16 o bobl ieuainc i ymofyn lle yn nhŷ Dduw yr un noson, a llawer iawn ar ol hyny. Parhaodd llawer o honynt yn addurn i'w proffes hyd ddiwedd eu hoes, eraill a dynasant yn ol, ac ni rodiasant mwyach gyda'r Iesu, a rhai sydd yn aros hyd heddyw. Mae yr achos yn parhau yn siriol yn y lle hyd y dydd hwn, ac eglwysi cryfion, megys y Borth a Llandegfan, wedi deilliaw o hono.

Treuliodd Risiart Morris y 15 ml. olaf o'i oes yn gwbl gyda phregethu yr efengyl, yn ne a gogledd Cymru. Parhaodd yn ei ddefnyddioldeb hyd derfyn ei oes. Y flwyddyn y bu ef farw, bu chwanegiad mawr drachefn at yr eglwys; daeth 15 o newydd y noson y claddwyd ef, a 40 eraill yn ystod y flwyddyn. Llawer o honynt a addefent ddarfod iddynt dderbyn rhyw lesâd ysbrydol trwy ei weinidogaeth. Bu farw Ebrill, 1824, yn 75 * ml. oed.

---

Mae amrywiol o gynulleidfaoedd cryfion yn y parth hwn o'r ynys, heblaw y rhai y mae eu hanes genym. Ni ddaeth dim i law am ddechreuad yr achos yn y Borth, Llandegfan, na Gilead. Dichon mai un achos o hyn oedd, na ddygwyddodd dim amgylchiadau hynod a tharawiadol yn y lleoedd hyn, mwy na llawer o leoedd diweddar eraill. Hysbys ydyw, ar yr un pryd, fod Methodistiaeth wedi gwreiddio yn ddwfn, a gweithio yn rymus, yn yr ardaloedd uchod; ac er nad all yr eglwysi hòni hynafiaeth, neu gychwyniad boreu, cymaint, o leiaf, a rhai manau eraill yn y sir, eto, mewn lluosogrwydd, sirioldeb, a dylanwad, y maent o leiaf yn gyfartal i eglwysi boreuach eu cychwyniad, os nad ydynt yn rhagori arnynt.

* Mae gradd o anghysondeb yn y "Cofiant" a roddir o hono. Dywedir ei eni yn y fl. 1749, a marw yn 1824, yn 65 ml. oed; yr hyn ni all fod.

# PENNOD VIII.

## PRIF LINELLAU HANES Y SIR.

CYNWYSIAD :—

PRIF GYFNODAU YR HANES—NODWEDDAU Y CYFNOD CYNTAF—Y CREFYDDWYR CYNTAF—EU HYSBRYD A'U HANFANTEISION—PRINDER A BYCHANDER Y PREGETHWYR—TAI PREGETHU—WILLIAM LEWIS—YR AIL GYFNOD—PREGETHWYR A GODODD—JOHN JONES, BODYNOLWYN—ADEILADU CAPELAU—DONIAU PREGETHU YN CYNYDDU, AC ERLID YN LLEIHAU—CYFODI YR YSGOL SABBOTHOL—Y TRYDYDD CYFNOD—NODWEDDAU Y CYFNOD—YSGRIFENU YN ERBYN Y METHODISTIAID—RHOS-Y-BOL, NEU Y GORSLWYD—TALWRN.

YMDDENGYS y byddai rhoddi golygiad cyffredinol ar ysgogiadau Methodistiaeth y wlad hon mewn gwahanol gyfnodau o'i hanes, yn beth dyddorol gan y darllenydd, ac yn fuddiol iddo allu ffurfio drychfeddwl cywir am fynediad yr achos yn ei flaen. I'r dyben hwn, ni a ddosbarthwn y 110 o flynyddoedd i *dri chyfnod*; y cyntaf yn cynwys tua 40 mlynedd, blynyddoedd mebyd yr adfywiad; yr ail yn cynwys 20 mlynedd, pryd yr oedd Methodistiaeth yn ymgadarnhau yn y wlad, ac yn ymwisgo mewn diwyg trefnusach a mwy rheolaidd; a'r trydydd yn cynwys yr 50 mlynedd diweddaf, yr hwn oedd prif gyfnod ei gynydd a'i lwyddiant. Dygid yr achos yn mlaen yn y cyfnod cyntaf dan lywyddiad Evan Griffith, Chwaen-hen, a'i gyd-lafurwyr, sef y tô cyntaf o bregethwyr Methodistaidd Mon, ïe, yn wir, y tô cyntaf o bregethwyr ymneillduol o un enw a welodd y wlad erioed; yr ail gyfnod, dan lywyddiad John Jones, Bodynolwyn, a'i gyd-oeswyr; a'r trydydd, dan lywyddiad y Parch. John Elias, a'i gyd-lafurwyr yntau. Cyfeiriwyd at y personau uchod, nid am mai ar eu hysgwyddau hwy yr oedd yr achos yn dibynu, ond am fod eu henwau yn fwy adnabyddus fel dynion cyhoeddus, a'u dylanwad, yn eu dydd, lawn cymaint a'r eiddo neb arall, os nad yn fwy.

Ymddengys fod i bob un o'r cyfnodau hyn ei nodwedd ei hun, a bod y naill gyfnod yn parotoi y ffordd i gyfnod arall, ac yn ymarllwys iddo. Nid oes i neb feddwl, wrth gwrs, fod y pregethwyr, a noddwyr eraill yr achos perthynol i gyfnod, yn dechreu nac yn diweddu eu tymhor oll ar unwaith, mwy nag y mae un genedlaeth;—mae y naill yn dechreu yn gynt, ac eraill yn aros yn hwy, ac felly, fel dolenau cadwen, yn cydio y naill gyfnod wrth y llall.

Yr oedd y tymhor cyntaf, sef y cyfnod a orwedd rhwng dyfodiad Methodistiaeth i'r wlad, tua'r fl. 1743, a'r flwyddyn y daeth John Jones, Bodynolwyn iddi, fel rhyw wawr boreu gwanaidd a hyfryd. Ar y cyfddydd hwn, deffrôdd ambell un, yn ngwahanol gyrau y wlad, yn bur foreu, pryd yr oedd eu cydwladwyr yn cysgu yn drwm. Clywsant yr alarwm o flaen eraill, a cheisiasant ddeffroi eu cyd-genedl; ond eu cilgwthio a gawsant yn chwerwdost. Parhau a wnaeth y gwyliedyddion i rybuddio dynion nes deffroi eraill; daeth y dydd yn fwy goleu, a'r haul uwchlaw y terfyngylch, a minteioedd bychain yn troi allan i weithio. Bellach, cerddodd y syniad yn gyffredinol, ci bod hi weithian yn bryd i ddeffroi o gysgu; darfu y gwrthwynebiad llym a

ddangoswyd ar y cyntaf, a chwanegwyd llawer at rifedi y rhai a weithient yn ngwinllan Arglwydd y lluoedd.

Rhy anhawdd fyddai i ni allu nodi, gyda manylrwydd a sicrwydd, amseriad gwahanol symudiadau; eto, fe ellir gwneyd hyny gyda boddlonrwydd i ateb dybenion cyffredinol.

Yn y tymhor cyntaf a enwyd, nid oedd *nifer* y Methodistiaid ond *ychydig*, ond yr oedd eu *hagwedd yn effro a gweithgar iawn*. Yr oedd pob un a ddeffroid yn ymosod at ddeffro arall. Wedi dyfod yn gydnabyddus â'r Iesu ei hunan, ymddygai fel y gwnaeth Andreas â'i frawd Pedr, neu fel Philip â Nathanäel, trwy ddwyn ei gydnabod ato. Dywedai y dysgybl newydd agor ei lygaid, wrth bawb a fyddai yn agos ato, "Deuwch, gwelwch ddyn, yr hwn sydd i mi yn bob peth sydd eisieu; onid hwn yw y Crist?" Yn y fan y darostyngid ef gan leferydd Mab Duw, torai allan mewn ymofyniad, "Pa beth a fyni di i mi ei wneuthur?" Wedi profi gradd o awdurdod yr efengyl ei hunan, ymdrechai â'i holl egni i ddwyn yr efengyl i glyw ei gymydogion, ac i'w darbwyllo hwythau o'i gwerth.

Yn y cyfnod hwn, nid oedd yr un gyfundrefn wedi ei gosod i fyny i anfon yr efengyl i ardaloedd amddifaid; a phe buasai, yr oedd y llafurwyr mor anaml, a'r amddifadrwydd mor fawr, fel nad allasai effeithio nemawr, pe buasai un yn bod. Ond nid oedd yr un. Gadewid i'r achos gerdded yn mlaen trwy ei nerth ei hunan, a than amddiffyniad rhagluniaeth y Goruchaf. Mewn amser nad oedd neb yn rhag-drefnu rhyw gynllun i anfon cenadau i Fon, anfonodd Duw William Pritchard iddi; a thrwy hyny, goruwch-lywodraethodd orthrymder y gelyn i hyrwyddo y peth a amcenid ei ddyfetha, ac i wneyd ei hunan, trwy drefniadau rhagluniaeth, y peth nad oedd eto un cynllun dynol yn bod i'w ddwyn ef i ben. Pryd nad oedd yr un genad ffyddlon yn yr ardal yn rhybuddio dynion o'u perygl, parodd Ysbryd Duw i ddarlleniad yr ysgrythyrau gynhyrfu rhai o deulu Thomas Pritchard, Tŷ-gwyn, Llangefni, i ymbalfalu am y gwirionedd, ac i brysuro i ddianc. Wedi unwaith gael yr amnaid lleiaf fod bwlch bychan wedi ei wneyd yn y castell, a bod gwahoddiad i fyned i mewn, wele Lewis Rees, o Lanbrynmair, a Benjamin Thomas, o'r deheudir, yn cymeryd y cyfleusdra i anturio i'r wlad, a hyny dan ddirfawr berygl. O flaen erlidigaeth yn Lleyn, ymlidiwyd Hugh Griffith i'r wlad, a chafodd loches yn nhŷ yr un William Pritchard fyth, yr hwn, bellach, oedd wedi gorfod symud ei gartref i Bodlew, plwyf Llanidan. Yn y tymhor boreu hwn hefyd, y dychwelodd Richard Thomas i'w wlad, wedi gwella yn ei amgylchiadau bydol, ac wedi ei danio â sel dros achubiaeth dynion, ac yn dechreu pregethu i'w gydwladwyr. Yn y blynyddoedd o 1744-48, deuai ambell un drosodd o wledydd eraill, i gynorthwyo y ddau gynghorwr ag oedd yn y wlad eisoes. Yr oedd Lewis Evan, a Richard Tibbot, eisoes ar y maes, ac ambell un o sir Gaernarfon a gyrchai drosodd. Howel Harris hefyd, John Belcher, David Williams, a John Harris, a ddeuent yn achlysurol i'r ynys; y rhai yr oedd eu gweinidogaeth yn llawn o rymusder, trwy fod yr Arglwydd yn dwyn tystiolaeth i air ei ras. Yr oedd nifer y crefyddwyr yn amlhau dan

weinidogaeth y gwŷr hyn, a lleoedd agored i bregethu ynddynt yn lluosogi; a'r achos, er maint y gwaradwydd a fwrid arno, a'r gwrthwynebiad a wneid iddo, yn ymwreiddio ac yn ymeangu.

Nid oedd, dros lawer o flynyddoedd cyntaf y cyfnod hwn, yr un capel o fewn yr ynys, oddieithr fod y tŷ a gofrestrasai William Pritchard yn Minffordd yn cael ei gyfrif yn un. Aeth 20 mlynedd heibio o bregethu mewn tai anedd, cyn adeiladu un capel, a elwid yn briodol felly, yn y wlad. Capel Llangristiolus, fel yr ymddengys, oedd y cyntaf; adeiladwyd hwnw yn y flwyddyn 1764, 20 mlynedd a mwy ar ol dyfodiad William Pritchard i'r wlad. Yn y tymhor hwn, yr oedd nifer o dai agored i bregethu ynddynt ar gael, megys Trefollwyn, Bwlch-y-fen, Pen-yr-allt, Hen-eglwys, y Fagwyr, cartref William Thomas Owen, Pentref-bwäau, Llandrygarn; y Gareg-gam, plwyf Llanrhuddlad; Bryn-y-gors-bach, Llangristiolus; Ty'n-yr-allt, Niwbwrch; ac fe allai rai manau eraill. Pregethid hefyd lawer iawn allan yn yr awyr agored, pa le bynag yr ymddangosai cyfleusdra, ar y ffyrdd, gerllaw y mynwentydd, a'r twmpathau chwareu; a lluaws, trwy yr ymosodiadau hyn, a ddygwyd i wybodaeth y gwirionedd, ac i arddel Crist a'i groes.*

Chwanegwyd yn raddol at y ddau bregethwr a enwyd amryw eraill, sef Richard Jones, Niwbwrch; Evan Griffith, Chwaen-hen; Richard Dafydd, y gwehydd; Richārd Lewis, Mechell; William Roberts, y crydd; Richard Hughes, Coedana; William Lewis; Owen Thomas, y gôf; a Michael Thomas, Garnen-wen; Edward Jones, ac eraill. Yr oedd Evan Griffith, Chwaen-hen, tybygid, yn cael ei ystyried yn ŵr cyfrifol a phwyllog; yn bregethwr sylweddol, ac yn meddu cryn ddylanwad yn mysg ei frodyr. Desgrifir rhai o'r hen bregethwyr hyn gan y Parch. William Roberts, Amlwch, yn y modd a ganlyn:—"Yr oedd Edward Jones, Pen-y-dref; Owen Thomas Rowland, a William Lewis, fel ser yn tynu at fachludo pan y daethum i ddechreu ymgymysgu â hwynt. Edward Jones oedd ŵr duwiol a dichlynaidd iawn, yn nghyfrif pawb a'i hadwaenent, ac yn gynghorwr dwys a da. Arferai gynghori ei wrandawyr yn benaf trwy gyfeirio at esiamplau duwiolion y Beibl, megys Abraham, Job, Samuel, Moses, Daniel, ac eraill. Cychwynai ei ymadrodd trwy ddweyd, 'Yr ydym yn clywed' am hwn neu arall. O ran ei ddullwedd, ni arddangosai neb fwy o sobrwydd na'r gŵr hwn.

"Owen Thomas Rowland oedd ŵr o gyfrifiad cywir gan bawb a'i hadwaenai, ond o ymddangosiad lled erwin a *rough*. Dangosai ddrychfeddyliau treiddgar, ond adroddai hwy mewn dull tra diaddurn, a thrwy hyny dangosai mai yr un dyn anghoethedig ydoedd yn awr ag oedd yn ei sefyllfa annychweledig, ond ei fod gyda phethau gwell. Weithiau, gyrai ei ddull cyffredin o ddweyd ei wrandawyr i gryn ysgafnder; er hyny, mynych y dychwelai hwy i lwyr sobrwydd, trwy gymhwyso ei sylwadau at eu hystyriaethau

* Edrycher y desgrifiad a ddyry y Parch. Peter Williams o'i ymweliad â Mon, yn y flwyddyn 1746, cyf. i, tudal 117.

personol; felly yr oedd yn y gŵr hwn lawer o gymhwysderau i rybuddio yr oes y codwyd ef i'w haddysgu, a bu yn fuddiol iawn i lawer o'i gyd-ddynion."

William Lewis hefyd oedd un o hen gynghorwyr y wlad hon. Y lle yr oedd ei deulu ef yn byw oedd Ty'n-llwyn, Llanfair-llwyfo, yn agos i Lysdulas. Cafodd ef, a rhai o'i deulu, eu dwyn i adnabod y pethau a berthynent i'w heddwch trwy foddion lled annysgwyliadwy. Yr oedd ei dad yn amaethwr, ac yn arfer cyflogi dynion i'w gynorthwyo amser cynauaf. Dygwyddodd i ryw ŵr dyeithr crefyddol ddyfod mewn llong i'r ardal, a chyflogi gyda thad William Lewis dros y tymhor prysur hwnw. Cafodd y dyeithr-ddyn hwn ganiatâd i gadw gweddi deuluaidd yn nhy ei feistr; a bu hyny yn foddion, dan fendith yr Arglwydd, i beri effeithiau grymus ar y teulu, ac yn enwedig ar feddwl William Lewis. Rhoes y tro hwn gychwyniad i'w yrfa grefyddol, a pharhaodd i'w rhedeg hyd nes yr ennillodd y gamp.

Ymddengys oddiwrth yr adgofion eraill am dano, ddarfod iddo fyned i ardal Llanrhyddlad i fyw. Dichon mai yr amgylchiad a'i symudodd yno i fyw oedd fod yno fwy o fanteision crefyddol nag oedd ar y pryd yn ei fro enedigol. Meddai ein gohebydd am dano, "Yr oedd un William Lewis yn byw o fewn chwarter milldir i'r capel (Llanrhyddlad). Llafurwr lled isel yn y byd ydoedd; ond yr oedd yn aelod eglwysig, a dawn canu mwy na chyffredin ganddo. Yr oedd yn nodedig hefyd am ei ddawn gweddi, mwy na neb yn y gymydogaeth. Aeth y dyn yma yn bregethwr, ac yn y dyddiau hyny ystyrid ef yn bregethwr hynod dda. Pregethai yn fynych ryw noswaith yn yr wythnos, ac ar y Sabbothau hefyd. Nid oedd dim addurn allanol arno;—nid oedd ganddo yr un *gôt ddû na napcyn gwyn;* pregethai yn yr wythnos," medd yr hysbysydd, "yn ei *drowsus-pais,** *a'i hen garpiau*, a chynydd a llwyddiant mawr a goronodd ei gynghorion dwysion, a'i sel diffuant. Symudodd o'r ardal hon (Llanrhyddlad) i fro Glasinfryn, ac yno hefyd y bu efe farw."

Ychwanega ein hysbysydd am dano: "Yr oedd y William Lewis yma yn ddyn gwrol iawn, ac heb ddim 'ofn dyn' arno. Cyfarfu unwaith â brawd o bregethwr, yr hwn mewn ymddyddan ag ef a adroddodd iddo y brofedigaeth a fu arno yn ddiweddar, trwy i ryw ŵr, uwch ei sefyllfa yn y byd na'r cyffredin, ei wahodd ef (y pregethwr) i'w dŷ. Yr oedd y boneddwr hefyd, dan rith caredigrwydd, yn medru archolli crefyddwyr trwy fath o wawd trahaus, neu gyfrwysdra bachellaidd. Aeth y pregethwr gydag ef i'w dŷ, ac yn mhen rhyw enyd cyfarchwyd ef gan y gŵr mawr, 'Yr wyt ti yn bregethwr;—gâd i mi dy glywed yn awr;—y testyn fydd, '*Cyllill a ffyrc!*' Ar y fath gyfarchiad, ac o herwydd y fath gais, gwywodd y truan o'i flaen, a rhwng gwylder a braw, ni allai prin roddi un atebiad iddo. Pan glywodd William Lewis am y peth, dywedodd, 'Gwyn fyd na chawswn i y cyfle yn dy le!—buaswn yn dangos iddo pa fodd yr oeddynt yn trin yr hen aberthau

* Ceitlen, neu yn ol y Saesneg, Smock-frock,—gwisg uchaf gweithwyr ar y tir.

seremoniol gynt, ac yn defnyddio eu cyllill a'u cigwaint tridant. Mi rowswn iddo gyllill a ffyrc, trwy gymhorth!'"

Ymddengys mai nid hir y bu William Lewis, ar ol profi awch y gwirionedd ei hunan, cyn iddo ddechreu ei gyhoeddi i eraill. Wedi bod dros ryw dymhor yn trigianu yn ei wlad ei hun, aeth i drigianu i Adwy'r-Clawdd, ardal gerllaw Gwrecsam, lle yr ymsefydlasai Methodistiaeth er yn foreu. Nid ydym yn sicr pa bryd y daeth William Lewis i drigianu yn yr ardal hon. Bu farw Dafydd Jones, y pregethwr a fuasai yno yn byw o'i flaen ef, yn y flwyddyn 1774, a sicr ydyw mai ar ol yr amser hwn rywbryd y symudodd William Lewis yno. Nid ydym yn sicr dros ba amser yr arosodd yno cyn dychwelyd yn ol i'w wlad. Pa fodd bynag, bu yno amryw flynyddau, ac nid oes betrusder na fu yn dra defnyddiol yno, ac mewn lleoedd eraill yn y parth hwnw o'r wlad. Deallwn hefyd fod William Lewis wedi aros ryw gymaint o amser yn Ninbych cyn myned i'w hen gartref; 'a dywed y traddodiad, mai yn y flwyddyn 1798 y gadawodd efe dref Dinbych; ac os felly, dychwelodd i'w wlad tua blwyddyn cyn i'r Parch. John Elias fyned yno i gartrefu.

Cyfrifid William Lewis, yn ei amser, yn un o'r pregethwyr enwocaf a feddai Mon. Yr oedd ganddo nerth corfforol tra mawr, a llais anarferol o rymus; ac nid hyn oedd y cwbl a feddai, ond yr oedd yn llawn gwres a difrifwch, penderfyniad, a gwroldeb. Yr oedd hefyd yn llawn mwy o athrawiaethwr na llawer o'i gydoeswyr. Medd Mr. Roberts, Amlwch, am dano, "Yr oedd William Lewis yn ŵr cadarn a nerthol; profodd driniaethau llymion yn ei ddychweliad at grefydd; ac wedi ei alw i bregethu, cyrhaeddodd enwogrwydd mawr yn fuan; enwogrwydd na allai y sawl a'i clywsent yn mhrydnawn ei fywyd yn unig, ddeall pa fodd y'i cyrhaeddasai. Teimlodd deau a gogledd Cymru rymusder ei weinidogaeth; ïe, perchid ef yn fawr gan Rowlands, Llangeitho, Dafydd Morris, a holl enwogion y deheubarth, yn ei ddydd." Mae yr ysgrifenydd hefyd yn cofio ei glywed yn pregethu unwaith tua'r flwyddyn 1813. Yr oedd ei lais y pryd hyny wedi tori, a gosodai penwyni arno wedd henafgwr yn tynu at 80 mlwydd oed. Deallwn iddo farw yn ardal Glasinfryn, Mon, yn y flwyddyn 1821, a chladdwyd ef yn mynwent Llanfair-llwyfo, sef yn y plwyf y ganesid ef.

Nodwedd arall ar y cyfnod hwn, neu ar y rhan fwyaf o hono, oedd, fod y wlad hon heb un cyfarfod misol ynddi. Crybwyllasom o'r blaen, yn hanes Aberffraw, am ddywediad Griffith Edward, o'r Clafdŷ, ei fod yn hŷn na chyfarfod misol sir Fôn. Oddiwrth y dywediad hwn, cesglir nad oedd yn Mon yr un cyfarfod misol yn y flwyddyn 1779; ond barna eraill mai nid cywir y syniad hwn. Fe allai mai syniad yr hen frawd a enwyd oedd, ei fod yn hynach fel *dyn*, ac nid fel *diacon*, na'r cyfarfod misol; os felly, rhaid i ni fyned tua 18 mlynedd yn mhellach yn ol na'r adeg grybwylledig; ac er fe allai nad oes sicrwydd i'w gael, o ddiffyg cyfnodau awdurdodedig, am sefydliad y cyfarfod misol yn y wlad, eto tueddir ni i farnu, oddiar amrywiol ystyriaethau, mai ar ol y flwyddyn 1760, yn hytrach nag o'i blaen, y rhodd-

wyd cychwyniad iddo. Ar y dechreuad cyntaf, nid oedd prin ddefnyddiau i'w ffurfio, na gwaith yn galw am dano. Aeth yr ugain mlynedd cyntaf heibio heb adeiladu un capel; ac am yr ychydig gynghorwyr ag oedd yn y wlad, nid oedd ynddynt nemawr gymhwysder i ffurfio dim o'r fath; a phrin y buasai eu nifer yn cael ei ystyried yn ddigonol i'w galw ynghyd. Crybwyllir, pa fodd bynag, am gymdeithasfa, y gyntaf, meddir, yn y wlad hon, yn cael ei chynal yn ysgubor Chwaen-hen, plwyf Llantrisant. Nifer y brodyr a ddaeth ynghyd y pryd hyny o bob gwlad, gogledd a de, oedd 12! Pa bryd oedd hyn, ni ddywedir; ond gellir dyfalu ei fod ryw enyd bach cyn adeiladu y capel cyntaf yn Llanrhyddlad; ac nid llawer cyn hyny chwaith, gan y dywedir fod Robert Jones, gynt o Rhoslan, ynddi. Y mater a fu dan sylw y brodyr yn eu cyfarfod neillduol y pryd hyny, oedd, 'A oedd pob un gwir argyhoeddedig gan Ysbryd Duw yn gwybod ei fod felly gyda sicrwydd? ac yn gwybod hefyd pa bryd, a thrwy ba foddion?' Dywedai amryw yn y cyfarfod yn gadarnhaol ei fod, ond Robert Jones a safai dros y gwrthwyneb. Ar hyn, bu dadl hirfaith iawn, hyd hanner nos neu bellach. Ni allai Robert Jones fod y pryd hyny ond dyn ieuanc, ac y mae yn debyg iddo orfod sefyll, ar hyn o bryd, yn erbyn amryw henach nag ef ei hun.

Yn y cyfnod hwn hefyd y profwyd mwyaf o erlid a gwawd. Yr oedd pob ffurf o grefydd ond yr un wladol yn gwbl ddyeithr i ynys Mon ar y pryd. Yr oedd anwybodaeth perffaith, ymron, yn gordoi y werin, a hawdd, gan hyny, oedd cyffroi eu rhagfarn yn erbyn pwy bynag a ymosodai ar eu hen arferion. Gellid dysgwyl hefyd y byddai llawer o'r offeiriaid yn flin ganddynt fod dynionach diddysg yn cymeryd arnynt orchwyl a berthynai yn unig i'w gwell. A hawdd ydyw dyfalu y gwnaent eu goreu i gyffroi rhagfarn y werin, ar un llaw, a gwrthwynebiad y boneddwyr, ar y llaw arall, yn erbyn yr ysgogiad. Eto, bu llai o erlid a baeddu ffyrnig nag a allesid ddysgwyl, wrth ystyried fod y wlad mor llwyr yn meddiant yr offeiriadaeth. Fe ddichon fod yr amddiffyniad a gafodd William Pritchard drosto, trwy i ddynion o ddylanwad mewn gwlad arall gymeryd ei blaid, ac erlyn ei erlidwyr, fel y bu gorfod ar rai o honynt ymadael â'u gwlad rhag ofn, yn foddion i ddofi gradd ar ffyrnigrwydd y creuloniaid. Gwelsom hefyd ddarfod i Mr. Bulkeley o'r Brynddu estyn ei aden dros y dyoddefwyr, a bygwth y mynai efe weled crogi un dynan a wnaethai ei hun yn hynod fel erlidiwr a baeddwr dyn gwell nag ef ei hun.*

Am y pregethwyr eraill ag oedd yn cydoesi ag Evan Griffith, nid oes genym ddim hanes, sef, Richard Hughes, Coedana; Richard Lewis, Mechell; Michael Thomas, Garnen-wen; Owen Hughes, Cefn-y-dderwen. Yr oedd y gwŷr hyn, neu y nifer amlaf o honynt, yn perthyn i'r cyfnod cyntaf, gan mai yn hwnw y treuliasant y rhan fwyaf o'u llafur, er i amryw o honynt gyrhaedd y cyfnod canlynol.

* Gwel hyn yn hanes Llanfechell.

Yr Ail Gyfnod. Yr ydym yn edrych ar hwn yn dechreu gyda'r amser yr aeth William Lewis allan o'r wlad, ac y daeth John Jones, Bodynolwyn, i mewn iddi,—tua'r flwyddyn 1780. Gwahaniaethai y cyfnod hwn oddiwrth yr un o'i flaen, trwy fod Methodistiaeth yn ymffurfio i wedd mwy rheolaidd a threfnus—cyfarfodydd misol yn cael eu cynal—capelau yn cael eu hadeiladu—rhagfarn y bobl gyffredin, a gwrthwynebiad y boneddwyr, yn lleihau. Ar ddechreu y tymhor hwn, nid oedd ond ychydig o gapelau wedi eu hadeiladu; yr oedd un yn Llangristiolus er's blynyddoedd; yr oedd un yn Amlwch, a chapel "Huddygl" yn Aberffraw. Yr oedd capeli bychain yn Llanrhyddlad a Niwbwrch; un arall yn Nghaergeiliog, neu yn fuan ar ol dechreu y cyfnod hwn, ac adeilad wedi ei drefnuso yn addoldy yn Nghaergybi. Dichon hefyd fod capel Llanfair wedi ei godi yn y tymhor hwn.

O'r flwyddyn 1780 hyd 1800 y cododd amryw bregethwyr eraill yn Mon, megys Owen Owens, Amlwch; John Edwards, Tre'r-dryw; Thomas Jones, Manuel Evans, a Richard Morris, Llanfair. Ystyrid Mr. Jones, Bodynolwyn, yn cadw lle mawr yn mhlith ei frodyr. Cyfrifid ef yn enwog mewn cywirdeb fel cymydog ac fel cristion; arferai y gair garwaf yn mlaenaf, ond odditan gerwinder ymddangosiadol, llochesai deimladau tyner. Dywedir ei fod yn un o'r dynion mwyaf ei hynawsedd at y truan a'r gorthrymedig. Yr oedd ei lais fel pregethwr yn groch a soniarus, ac ymgasglai torfeydd lluosog i'w wrando. Tua diwedd ei oes, ac wedi i Lloyd, Beaumaris, ac Elias, ddod i'r golwg, byddai ei lygad yn y cyfarfodydd misol arnynt hwy, am eu barn a'u cyfarwyddyd; ond efe fynychaf a osodai y mater gerbron, ac efe a wnai hyny mewn dull cadarn iawn—dull y gellid casglu oddiwrtho, mai prin yr oedd yn bosibl iddo gamsynied.

Yn ei ddyddiau ef hefyd yr adeiladwyd cryn nifer o gapelau yn y wlad; ond fe safodd yn gryf yn erbyn eu codi dan ddyled. Dywed un gohebydd, "*y byddai yn rhuo fel llew yn y goedwig*," yn erbyn rhoddi dyled ar y wlad; ac fe ymddengys ddarfod iddo lwyddo yn yr amcan hwn tra y rhoddwyd iddo fyw, ond wedi iddo farw, fod y wlad yn fuan wedi ymsuddo i ddyledion trymion, trwy godi adeiladau newyddion, a thrwy helaethu y rhai hen. Ar ryw gyfrif, yr oedd hyn yn destyn llawenydd; nid am fod dyled, ond am fod y cynulleidfaoedd yn cynyddu, a drysau newyddion yn ymagor, a gwaedd uchel yn cyfodi o bob cwr, "Dod le i mi, fel y preswyliwyf;" eto y mae yn bosibl fod rhy fychan o wyliadwriaeth, rhy fychan o ragddarbodaeth, a rhy fychan o arolygiaeth yn yr achos hwn, fel ag i ychwanegu y ddyled yn llawer mwy nag a fuasai raid. Ac fe ddysgwyd cymaint oddiwrth benbleth amgylchiadau dyledog capelau, ag yr ymosodwyd yn egniol, mewn tymhor diweddarach, i ddileu y ddyled yr aeth y tadau iddi, ac i benderfynu na chai yr oes nesaf ddim sail i achwyn ar yr un a'i blaenorodd am osod arnynt faich o'r natur yma rhy drwm i'w ddwyn. Yn hyn, fe wnaeth y brodyr yn Mon yn ganmoladwy iawn.

Bu farw Mr. Jones yn nghanol ei ddyddiau, cyn fod henaint nac un pall

wedi gwywo dim ar y cymeradwyaeth oedd iddo, nac anmharu dim ar ei ddefnyddioldeb.

Yn y cyfnod hwn hefyd yr oedd Mr. Jones, Llangan; Robert Roberts, Clynog; Mr. Charles, o'r Bala; Mr. Richardson, Caernarfon; a Mr. Jones, Dinbych, yn llewyrchu; a chan yr ymwelent oll yn eu tro â gwlad Mon, a rhai o honynt, gan mor gyfagos yr oeddynt yn preswylio, a gyniweirient yn fynych iddi, gweinidogaeth y rhai a ddefnynai fel gwlaw ar y ddaear, fe adfywiodd Methodistiaeth ynddi yn gyfatebol. Yr oedd y cyfarfodydd misol a chwarterol yn dra choronog gan arddeliad y nef; a diwygiadau grymus yn tori allan mewn gwahanol barthau o'r tir, nes oedd gwedd siriol ar y gwaith, wrth a welsid erioed o'r blaen. Yr oedd Seion yn llawen-fam plant.

Yn y cyfnod hwn y cychwynodd yr ysgol Sabbothol. Gwir ei bod yn ystod yr 20 mlynedd cyntaf ar ol ei chychwyniad boreuaf yn wanaidd ac eiddil; eto yr oedd tua diwedd y ganrif ddiweddaf wedi dechreu ymwreiddio yn y tir;—yr oedd ei gwerth wedi dechreu dyfod i'r golwg, ei goleuni yn dechreu chwalu y tywyllwch a orchuddiasai y wlad er ys oesoedd, a'i dylanwad yn ymlid ar ffo yn brysur yr hen ofer-gampau ynfyd yr oedd y teidiau diniwaid (!) yn ymhyfrydu cymaint ynddynt. Ymwelodd yr Arglwydd â gwahanol ranau o'r wlad ag adfywiadau grymus iawn; ond nid yr un, tybygid, mor gyffredinol a nerthol a'r un a gymerth le tua diwedd y ganrif ddiweddaf.

Gwelodd diwedd y ganrif 1700 ddynion nodedig ar faes Methodistiaeth yn Mon, yn enwedig yn mhlith yr henuriaid. Rhagorent lawer yn eu gradd a'u swydd ar y pregethwyr yn eu gradd a'u lle hwythau. Cyn dyddiau Elias, nid oedd cymhwysderau pregethwyr Mon ond prinion, mewn cydmhariaeth, oddigerth un neu ddau; ond yr oedd yn y wlad henuriaid rhagorol, megys Richard Williams, Pentre-bwäau; Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid; Owen Jones, Cwyrt; John Hughes, yr Allt; Griffith Edwards, Clafdŷ; Robert Williams, Llangefni; Owen Lewis, Fferam-isa; Thomas Owen, o'r Olgra; John Thomas, Llanfwrog; Edward Elias, Plas-y-glyn, ac amryw eraill. Yr oedd presenoldeb y gwŷr hyn mewn cyfarfodydd misol yn peri calondid tra mawr i'r sawl y byddai awenau yr achos yn eu dwylaw; ac yr oedd dylanwad eu cymeriad yn y wlad yn fath o gysgod i achos crefydd yn mhlith y Methodistiaid yn ynys Mon.

Cyn y tymhor yr oedd y gwŷr uchod yn blodeuo, yr oedd yr achos crefyddol yn cael llawer o swcr gan wragedd hynod o ran crefydd, synwyr, a medrusrwydd. Yr oedd hyn, gan mwyaf, pan oedd Methodistiaeth yn *faban;* ond wedi iddo dyfu, rhoddwyd ef yn fwy i ofal y *tadau.*

Yr ydym yn awr yn dyfod at y Trydydd Cyfnod yn hanes y sir. Yr ydym yn bwrw fod y cyfnod hwn yn dechreu gyda dechreuad y ganrif bresenol. Hwn ydyw cyfnod cynydd mawr Methodistiaeth yn Mon. "Pan ddaethum," ysgrifena Mr. Roberts, Amlwch, "i berthynas â chyfarfod misol sir Fon, fwy na deugain mlynedd yn ol, yr oedd yn perthyn i'r cyfundeb yn y wlad hon 24 o gapelau; pa rai sydd, erbyn heddyw, wedi eu hail-hadeiladu oll ond tri, a thybygaf fod yn y wlad 27 neu 28 o gymdeithasau eglwysig y

pryd hwnw, ac felly yr oedd amryw o honynt yn ymgynull mewn tai anedd neu mewn ysguboriau; erbyn hyn, y mae nifer y capelau a'r cymdeithasau yn 51, a 12 o ysgoldai heblaw hyny; yn y rhai hyn oll fe bregethir gair y bywyd ar ddydd yr Arglwydd, oddigerth un neu ddau."

"Oddeutu y fl. 1800," medd yr un gŵr, "yr oedd pregethu yr efengyl wedi darostwng rhagfarn y trigolion yn lled lwyr, oddieithr ychydig eithriaid, a hyny yn mhlith rhai gwŷr mawr a gwŷr eglwysig. Oddiwrth yr ychydig nifer yma, fe gododd erlidigaeth go chwerw yn rhyw barthau o'r wlad, ond dybenodd hyny yn fwy er darostyngiad ar yr erlidwyr, nag o rwystr i achos crefydd."

"Yr oedd hefyd hen arferion paganaidd a phabaidd yr oesau o'r blaen ar lwyr ddiflanu, fel na chlywid, bellach, son am nosweithiau i ddawnsio neu i chwareu cardiau; yr oedd ymladd ceiliogod, interludiau, a chwareu pel, troed neu law, ar ddydd yr Arglwydd, wedi cywilyddio allan o olwg, heb fod neb, ymron, a'u harddelwai. Eto nid oedd yr ysgol Sabbothol yma ond yn ei mabandod; dau neu dri, mewn eglwys, a geid i fod yn athrawon; ychydig hefyd a geid iddynt i'w dysgu; ond yr oedd y nifer fwyaf o'r aelodau eglwysig, ac eraill lawer yn cyrchu yn lluoedd o'r naill gŵr i'r wlad i'r llall i wrando pregethau, yn enwedig, pan y byddai cyhoeddiad rhyw rai a gyfrifid yn fwy eu henwogrwydd nag eraill, yn eu cyrhaedd. Dysgwylient am adegau o'r fath gyda syched rhyfeddol cyn eu dyfod, ac ymddyddanent am danynt ar ol iddynt basio, gyda hyfrydwch anghydmharol."

## RHOS-Y-BOL, NEU Y GORSLWYD.

Mae y lle hwn yn gorwedd o fewn dwy neu dair milldir i Lanerchymedd ar y ffordd i Amlwch. Mae yma gapel da a chynulleidfa luosog, eto nid ymddengys fod yr achos yn y lle hwn yn hen iawn, gan y dywedir nad oedd yma yn y fl. 1784, onid un ferch yn proffesu crefydd, sef Ellen Pritchard, o'r Glas-grug-isa', yr hon, ar y pryd, oedd yn aelod yn Amlwch. Yn fuan ar ol yr adeg grybwylledig, daeth un Richard Williams, yr hwn oedd yn aelod yn Lledtroed ar y pryd, i'r Glas-grug-bach i fyw. Nid oedd yr ardal, ar y pryd, ond anaml ei thrigolion mewn cydmhariaeth, ond tua'r fl. 1791 rhanwyd dwy fferm yn y gymydogaeth yn fân dyddynod, a'u gosod dan *leases* i'r bobl godi tai arnynt, a pharodd hyn luosogiad rhyfeddol ar y trigolion. Y cyntaf o'r dyfodiaid hyn yn proffesu oedd un John Pritchard, yr hwn a ddaeth yma o Lanerchymedd, a pharodd ei ddyfodiad, er lleied ynddo ei hun, gryfhad yn meddyliau y ddau eraill i geisio cael pregethu i'r ardal. Felly cymerasant dŷ anedd i gynal pregethu ynddo; a gelwir y tŷ hyd heddyw yn Gapel-bach.

Cryfhaodd yr achos, bellach, yn gyflym, a llwyddodd i'r fath raddau nes aeth y Capel-bach yn rhy fychan. Bellach, yr oedd dau o feibion Ellen Pritchard, John a William, ynghyda Thomas Jones, Pen-gwydd, a William Jones, o'r Gaer, wedi cydosod eu hysgwyddau dan yr arch. Eto nid hir y

bu yr achos yn ymwisgo fel hyn â llwyddiant, cyn i awel gref o wrthwynebiad ymosod arno. Adeiladwyd capel ar ryw ran o'r tir ag oedd wedi ei ddosranu; ond, trwy ryw amryfusedd neu gilydd, cafodd rhagfarn fantais i godi gwrthwynebiad. Dan ddylanwad rhyw wŷr eglwysig, meddir, gorchymynodd boneddwr yr oedd y cyfryw awdurdod yn ei law, dynu yr adeilad i lawr. Ac i lawr y tynwyd y capel a chludwyd ei ddodrefn, sef y pulpud a'r eisteddlecedd, i fynydd Paris, a gwnaed cais ar eu gwerthu mewn arwerthiad cyhoeddus. Ond pan oedd yr arwerthwr yn eu gosod i fyny i'w gwerthu, daeth amaethwr, yr hwn oedd yn byw yn y gymydogaeth, yn mlaen, ac a waeddodd yn groch, "Gwyliwch, bobl, a chymerwch ofal ar eich hoedlau, na chyffyrddwch â llestri y deml;—cofiwch Belsassar!" Ar hyn, dyrysodd yr arwerthiant, am na cheid neb a'u prynai, a gadawyd hwy i bydru yn y lle. At yr amgylchiad gofidus hwn y cyfeiria Mr. Roberts yn yr ysgrif o'i eiddo a roddasom uchod.

Yr oedd yn byw yn y gymydogaeth ŵr crefyddol, ond lled isel ei amgylchiadau; hwn a eiddigeddodd dros achos yr efengyl, wrth weled y difrod a wnaed, a phenderfynodd wneyd a allai tuag at wneuthur y camwri i fyny. Ei enw ydoedd Richard William Meredith. Hwn a ddaeth at un Mr. Williams, Treban, a chafodd ganddo le i adeiladu capel arall. Yr oedd anhawsder arall yn ei gyfarfod wedi cael tir, sef pa fodd y ceid cerig? Nid ellid dysgwyl y gymwynas gan y gŵr a orchymynasai dynu y capel arall i lawr. Ofnid yn fawr na cheid mo'r ffafr gan foneddiges arall, yr hon a allai, os mynai, symud yr anhawsder hwn oddiar y ffordd. Cafodd Richard William Meredith gan un Mr. Williams, siopwr o Lanerchymedd, fyned gydag ef at y wraig foneddig, sef Mrs. Llwyd, o Lwydiarth, ac wedi adrodd iddi ei drallod, a gofyn ei hynawsedd, efe a gafodd ei ddeisyfiad.

Bellach, ymosodwyd at godi yr adeilad newydd yn ddioed. Un diwrnod, pan oedd bachgen Henry Jones, o'r Pwll-coch, yn cario cerig ato, cyfarfu y goruchwyliwr ag ef, a gofynodd, "I ba le yr wyt ti yn cario cerig?" "I adeiladu capel newydd, syr, yn lle yr un a dynasoch chwi i lawr," oedd yr ateb. Goddefodd llawer o'r brodyr erlidigaeth dost tua'r adeg y collwyd y capel, ac yr adeiladwyd y newydd. Colynwyd y gwrthwynebwyr yn erchyll gan y gwarthrudd cyffredinol a dynasent arnynt eu hunain, a chan y siomedigaeth a'u cyfarfu yn eu hamcan, fel y dangosent lawer o barodrwydd i wasgu ar bawb o bleidwyr y Methodistiaid pan y rhoddid iddynt gyfleusdra, gan yr edrychent arnynt fel gwrthwynebwyr. Cafodd y crybwylledig John Pritchard yr hwn a ddaethai i'r ardal hon o Lanerchymedd, ei dynu gerfydd ei glust o renc y *Volenteers* yn Amlwch, am iddo esgeuluso dod yno y Sabboth i fyned i'r eglwys. Y rheswm a roddai y boneddwr a roes y sarhad hwn arno dros ei ymddygiad oedd, "Yr wyf yn deall dy fod ti yn un o ddysgyblion y proffwyd Elias." Yr oedd hyn tua dechreuad y ganrif bresenol.

Mae yn ymddangos mai lled isel a fu yr achos yn y capel newydd dros rai blynyddau; ac i hyn wasgu cymaint ar feddwl Richard Williams, Glasgrug-bach, nes iddo fyned at Mr. Elias i Lanfechell, i roddi pob beth i fyny

allan o'i ddwylaw, fel un wedi llwyr ddiffygio gyda'r gwaith, ac wedi digaloni gweled llwyddiant arno. Ond yn y fl. 1811-12, wedi hirnos dywyll, torodd gwawr ar yr achos, a chwanegwyd nifer mawr at yr eglwys. Ni fu dim ymweliad neillduol ar yr achos wedi hyn hyd y fl. 1822. Y flwyddyn hon, cynaliwyd cyfarfod misol yn y lle; a chan fod y gynulleidfa yn llawer mwy nag a gynwysai y capel, cynaliwyd y moddion cyhoeddus ar y maes gerllaw y capel. Yr oedd adfywiad neillduol y flwyddyn hòno, ymron, trwy yr holl wlad, a bu y cyfarfod misol yn foddion arbenig i ddwyn y cyffelyb adfywiad i gynulleidfa y Gorslwyd. Torodd ugeiniau allan i lefain, fel rhai wedi eu dwysbigo yn eu calonau, ac i ymofyn yn bryderus, "Beth a wnaent i fod yn gadwedig."

Erbyn hyn yr oedd y capel yn rhy fychan. Oherwydd ei godi gan dlodion, a hyny mewn adeg o gyfyngdra, nid oedd ar y gorau ond gwael yn gystal a bychan, ac wedi ei wneuthur yn y modd, ac o'r defnyddiau lleiaf eu cost. Un Sabboth wedi yr adfywiad crybwylledig dori allan, pan oedd y gynulleidfa yn y lle a'r gweinidog yn pregethu, rhoes y ddylath ar ei draws glec uchel, nes yr ofnodd y pregethwr a'r gwrandawyr fod nen y capel ar syrthio arnynt. Parodd yr amgylchiad hwn argyhoeddiad trwyadl ei bod yn llawn bryd chwalu yr adeilad ac adeiladu capel mwy a chadarnach yn ei le. Hyn hefyd a wnaed yn y fl. 1827.

Tua'r fl. 1849, bu chwanegiad mawr drachefn at yr eglwys, pryd y daeth tua 50 o rifedi i ymofyn am aelodaeth eglwysig. O hyny hyd yn awr, y mae gwedd gysurus ar yr achos, a nifer yr aelodau yn 120.

## TALWRN.

Yn yr ardal hon y preswylia y Peirchn. John Prydderch a Cadwaladr Williams; y mae yn gorwedd o fewn ychydig filldiroedd i Langefni yn nghyfeiriad Beaumaris. Nid yw Methodistiaeth ddim yn hen yn yr ardal hon; a chyn ei sefydliad, pryd nad oedd gwirioneddau yr efengyl yn cael eu pregethu, nac ysgol Sabbothol wedi ei chodi, yr oedd trigolion yr ardal hon, fel preswylwyr cymydogaethau ymddifaid eraill, yn isel eu moesau, a phob math o ofer-gampau, ac anfad arferion mewn llawn rwysg ar y Sabbothau.

Y modd y dygwyd Methodistiaeth i'r ardal hon oedd, ddarfod i rai teuluoedd ag oedd mewn undeb gael eu symud gan Ragluniaeth, o ardaloedd eraill, i'r gymydogaeth i fyw. Gan fod pedair milldir o ffordd gan y teuluoedd hyn i'w cherdded cyn y gallent gael eu breintiau crefyddol; daeth ar eu meddyliau wneuthur cais ar gael pregethu i'w cymydogaeth newydd, mor aml ag y gallent. Llwyddasant hefyd yn eu cais, a chafwyd oedfaon achlysurol i'r ardal y rhai a gynelid, weithiau mewn tai anedd, ac weithiau yn yr awyr agored. Yr oedd hyn tua'r fl. 1798. Yn mysg eraill daeth y Parch. John Elias yn y fl. 1799 i bregethu i'r ardal. Nid oedd, ar y pryd, ond dyn ieuanc, 25 ml. oed, a'i weinidogaeth yn gwreichioni yn danbaid iawn. Pregethodd y tro hwn ar y geiriau, "O herwydd na wneir barn yn erbyn gweithred

ddrwg yn fuan, am hyny calon plant dynion sydd yn llawn ynddynt i wneuthur drwg." Yr oedd ei weinidogaeth ar y pryd yn nerthol iawn, ac effeithiodd i beri dychryn ofnadwy ar amryw o'r gwrandawyr. Tua'r un amser hefyd sefydlwyd ysgol Sabbothol yn y fro. Cychwynwyd hon mewn amrywiol dai anedd yn eu cylch, ond buan y cynyddodd gymaint mewn rhif, nad oedd un tŷ anedd yn ddigon eang i gynwys eu deiliaid; a bu gorfod eu chynal allan "yn nghanol yr eithin mân a'r grug," pan y byddai yr hin yn caniatâu.

Pan y clywodd y diweddar Mr. John Jones, gynt o Dre-y-dryw, am yr anghyfleusdra yr oedd yr achos ynddo yn y Talwrn, cafodd ar ei feddwl roddi hanner erw o dir, sef rhan o dyddyn oedd yn feddiant ganddo yn y gymydogaeth, yn anrheg dros byth i'r achos, i adeiladu capel arno, yn nghyda £40 o arian i ddwyn yr adeilad yn mlaen. Fel hyn, rhyddhawyd y ffordd i gael addoldy ymron heb ei ddysgwyl, a hyn a fu yn y fl. 1805. Rhoes adeiladiad y capel ysgogiad grymus i'r gwaith yn ei flaen. Daeth lluaws y gymydogaeth i wrando iddo, ac ymunodd y mwyafrif â'r ysgol Sabbothol; ond nid oedd ond 12 neu 15 eto yn aelodau eglwysig. Nid hir, pa fodd bynag, y bu y gymydogaeth heb arwyddion hyfryd fod llaw yr Arglwydd yn gorphwys yn y lle. Ar amrywiol adegau fe ddug yr Arglwydd dystiolaeth i air ei ras, nes oedd nifer y dysgyblion yn amlhau o bryd i bryd; yn enwedigol yn y fl. 1813, bu yma adfywiad grymus iawn, yr hwn a barhaodd yn ei sirioldeb am ysbaid dwy flynedd. Chwanegwyd y pryd hwn at yr eglwys oddeutu 60 o rifedi, ac ni wrthgiliodd o honynt, meddir, ond un mab a thair merch. Yn y fl. 1852, ail-adeiladwyd y capel i'r maintioli presenol; ac erbyn hyn y mae yn perthyn iddo nid llai na 150 o aelodau eglwysig.

Yn nechreuad y ganrif hon hefyd, yr ymddangosodd, am y waith gyntaf, draethodau argraffedig yn erbyn y Methodistiaid yn neillduol, ac yn wir yn erbyn ymneillduwyr yn gyffredinol. Awdwr y traethodau hyn oedd, Periglor Llandyfrydog, Mon.* Ysgrifenwyd y cyntaf † yn Saesonaeg, a'r llall ‡ yn Gymraeg. Yr olaf hwn a ysgrifenwyd drachefn yn Saesonaeg.

Holl gynwysiad y traethodau hyn ydyw cais haerllug i osod i fyny yr hen ffol-ddychymyg o "*Olyniad Apostolaidd*," a haeru mai yn ngweinidogion yr eglwys wladol yn unig y mae yr olyniad hwnw yn gorwedd;—mai i'r esgobion meitrog, yr arglwyddi mein-we-llawesog, yn unig yr ymddiriedwyd yr awdurdod hwn; ac mai lladron ac ysbeilwyr ydyw pawb na ddelo i mewn drwy y drws hwn. Oddiar y sail hon, y mae yn hòni nad oes gan neb hawl i bregethu yr efengyl ond offeiriad y plwyf, ac mai sismaticiaid ydyw pawb eraill. Gydag ysgrifell wedi ei throchi mewn bustl, y mae yn pentyru enwau drwg ar ddynion cyfiawnach nag ef ei hun, ac yn arddangos gwenwyn ei ysbryd trwy eu drwgliwio, eu henllibio, a'u diystyru. Haerai mai oddiar anwybodaeth trwch, a balchder annyoddefol, yr oedd y dyb yn cyfodi, mai cymhwys neb i weini yn y cysegr ond a urddid gan esgob. Priodolai i'r

* Parch. T. E. Owen. † "Hints to Heads of Families." ‡ "Cynghor difrif Periglor i'w Blwyfolion."

Methodistiaid y dybenion mwyaf bradwrus i'r wlad ac i'r eglwys. Mynai i bawb gredu mai cefnogi brad a therfysg mewn gwlad ydoedd eu hamcan; mewn gair, yr oedd y cyhuddiadau mor noethion a disail, yn cael eu cyhoeddi mor haerllug a bustlaidd, fel ag i roddi argraff ar feddwl y neb a ddarllenai y traethodau, mai mwy ydoedd gwenwyn y cyhuddwr na bai y cyhuddedig. Yr oedd trigolion Mon, neu rhyw barthau, o leiaf, o'r ynys, er ys hanner cant o flynyddoedd yn gwybod pa fath oedd y Methodistiaid, o ran eu hathrawiaeth a'u dysgyblaeth, yn llawer gwell na Pheriglor Llandyfrydog. Yr oeddynt wedi gwrando eu pregethau, wedi sylwi ar eu bucheddau, ac wedi cael cynifer o brofion o'u hegwyddorion, fel nad oedd nemawr berygl i haeriadau mor ëofn a diachos a'r eiddo Mr. Owen effeithio arnynt, oddieithr i'w cylymu yn fwy wrth y sectariaid dirmygedig, a'u dyeithro yn fwy oddiwrth eu henllibiwr uch-eglwysaidd.

Fel prawf ychwanegol o'r rhagfarn a lochesid tuag at y Methodistiaid gan rai a ddylasent wybod yn well ac ymddwyn yn wahanol; ac fel enghraifft o'r moddion a ddefnyddid mewn malais i'w drwg-liwio, rhoddir gerbron yr hanesyn canlynol, wedi ei ddyfynu allan o gofiant y Parch. J. Elias. Adroddwyd yr hanesyn gan ŵr o'r enw John Davies, Caio, yr hwn, pan dygwyddodd yr amgylchiad, oedd yn filwr gyda *Militia* swydd Gaerfyrddin, y rhai oeddynt yn Dublin y pryd hwnw. Fel hyn y dywed:—

"Yn y mis Gorphenaf, 1800, dygwyddodd i'r diweddar Barch. John Parry, Caerlleon (yr hwn a breswyliai yr amser hwnw yn Nghaergybi), ddyfod trosodd i Dublin ar ryw neges, a chyfarfu, yn ddamweiniol, ag amryw o'r milwyr Cymreig ag oedd yno. Gofynodd iddynt a fyddent yn cael clywed pregethu yr efengyl; dywedasant wrtho y byddent, ac y byddai un o'r milwyr* yn pregethu iddynt yn Gymraeg. Yna efe a ofynodd a fyddai yn dda ganddynt gael pregeth gan ŵr dyeithr; gan ychwanegu, ei fod ef yn gwybod am un a bregethai iddynt. Atebent hwythau, y byddai hyny yn ddymunol iawn ganddynt. Ar hyn, daeth Mr. Parry gyda hwynt i'r filwrfa *(barracks)*; ac wedi ymddyddan ag ef, aethym i ofyn i flaenoriaid y capel Wesleyaidd, lle y byddem yn cael cenad o'r blaen i bregethu, a hwy a roisent ganiatâd yn rhwydd a siriol; a phregethodd Mr. Parry yno am ddau o'r gloch. Yr oedd y capel hwn yn Gravel Walk, yn gyfagos i Palitime-square; a chynelid moddion pregethu genym yno, am ddau o'r gloch prydnawn, bob Sabboth, ac unwaith neu ddwy yn yr wythnos, pryd y deuai cant neu ychwaneg o'r milwyr ynghyd. Wyth o'r milwyr oeddnyt gyda chrefydd pan ddaethant i Dublin; ond yr oeddynt yn un-ar-ugain pan ymadawsom oddiyno.

"Ar ol y bregeth hòno, gan Mr. Parry, gofynais iddo, onid oedd modd i ryw bregethwr ddyfod atom o sir Fon? Dywedodd yntau y gallai Mr. John Elias, a Mr. R. Lloyd ddyfod, ond i ni anfon llythyr i ofyn iddynt. Yn ganlynol, nyni a wnaethom felly; a chyn pen hir, derbyniasom lythyr oddi-

* Sef John Davies, Caio.

wrth Mr. Parry, yn hysbysu y byddai i Mr. Elias ddyfod trosodd ar y dydd a'r dydd, ac yn peri i ninau ei gyfarfod wrth y *pier*. Cyhoeddasid yr oedfa i fod am ddau o'r gloch, y diwrnod y daeth efe drosodd, a thri chyfaill gydag ef. Yr oedd o dri i bedwar cant o'r milwyr Cymreig yn ei wrando y tro hwnw; a daeth lluaws mawr o'r Wesleyaid hefyd i wrando arno; ac er nad oeddynt yn deall yr iaith a lefarai, tystient iddynt gael lles; canys yr oedd ei ddull pwysig, difrifol, a bywiog, yn effeithio yn fawr arnynt. Arosodd yno gyda ni dri diwrnod, gan bregethu bob dydd am ddau o'r gloch; a chadwodd *society* hefyd y ddau ddiwrnod diweddaf. Y nifer yn y gymdeithas hòno ydoedd wyth o filwyr; sef dau aelod gyda'r Annibynwyr, un gyda'r Bedyddwyr, a phump gyda'r Methodistiaid; a holodd Mr. Elias bob un o honom am ei brofiad ysbrydol o bethau crefydd. Yr oedd rhyw lewyrch tra nodedig ar y cyfarfodydd hyn, wrth iddo ein cynghori i fyw yn dduwiol, a'n cyfarwyddo pa fodd i ochelyd temtasiynau a phrofedigaethau. Bu y gatrawd yn aros yn milwrfa Dublin am tua blwyddyn o amser, yn cynwys oddeutu mil o wŷr.

"Wedi i Mr. Elias ddychwelyd i sir Fon, cododd rhyw offeiriad, a thri neu bedwar eraill, gynhwrf mawr yn y wlad hòno yn nghylch ei ddyfodiad drosodd i Dublin. Anfonodd Mr. Elias ataf yn erfyn am i mi yru iddo destynau y pregethau a draddodwyd ganddo, ynghyda chymaint o'r materion a fedrwn gofio. Anfonais inau yn ol ato ei ddymuniad, sef y testynau, penau y pregethau, &c; gan ddiolch iddo am y cynghorion gwerthfawr a roddasai i ni. Arwyddwyd y llythyr gan saith o honom. Y llythyr diweddaf a dderbyniwyd ar yr achos hwn, oedd yn mhen tua dwy flynedd wedi hyny, yr hwn a anfonwyd at yr Uch-gadpen *(major)* ag oedd yn llywyddu y gatrawd, yn hysbysu fod Mr. J. Elias a Mr. R. Lloyd, Beaumaris, yn y carchar. Galwodd y major arnom ni ato, sef pedwar neu bump o'r crefyddwyr, a gofynodd i ni pwy oedd wedi eu gwahodd i Ddublin. Dywedais inau mai myfi a wnaethai, ynghydag eraill o'm brodyr milwraidd. Gofynai, A oeddym yn eu hadwaen o'r blaen? Atebais ein bod. Yna efe a ofynodd, Pa beth oeddynt yn eu bregethu i chwi? Atebais, Mai pregethu Iesu Grist yn Geidwad i bechaduriaid yr oeddynt. Nid hyny oeddwn yn ei ofyn, meddai yntau, y mae achwyniad eu bod wedi dyfod yno i gynhyrfu y milwyr yn erbyn y llywodraeth; ac y maent yn awr mewn carchar am hyny. Dywedais wrtho nad oedd dim gwirionedd yn y fath achwyniad; ac y gwyddai efe fod corff y Methodistiaid yn fwy cywir a ffyddlon i'r llywodraeth na hyny. Dywedodd yntau, nas gwyddai; gan chwanegu y byddai raid i ni deithio canoedd o filldiroedd i brofi yr hyn a ddywedasom mewn llys cyfreithiol. Atebasom ninau ein bod yn foddlon i wneuthur hyny gyda'r parodrwydd mwyaf. Ni ddywedodd o ba le y derbyniasai y llythyr; ond yn unig fod y dynion yn garcharorion. Anfonais lythyr yn ddioed at Mr. Elias i'w gartref, neu ynte i'w yru ato i'r carchar, os ydoedd yno. Derbyniais atebiad oddiwrtho, yn hysbysu nad oeddynt yn y carchar, ond eu bod dan fygythiad yn mhen y naw niwrnod.

"Mewn canlyniad i'r cyhuddiadau disail a ddygid yn erbyn y Methodistiaid, yn gystal ag yn erbyn Mr. Elias a Mr. Lloyd, ysgrifenodd Mr. Charles, o'r Bala, amddiffyniad rhagorol i'r corff, yn Saesonaeg, yr hwn a elwid "*The Welsh Methodists Vindicated.*" Cyfansoddodd Mr. Thomas Edwards *(Twm o'r Nant)*, gân seugar a llem i'r offeiriad a flaenorai yn y gorchwyl, yr hon a genid yn y ffeiriau a'r marchnadoedd, trwy yr holl wlad, nes y towyd y gwrthwynebwyr â gwarth a chywilydd."

Ni wnaed dim mwy na bygwth y carchar ar y ddau bregethwr; nid, yn ddiau, o ddiffyg dygasedd yn y cyhuddwyr, ond o ddiffyg euogrwydd yn y cyhuddedig. Gresyn, ar ryw gyfrif, na roddasid y dynion diniweid hyn yn y carchar, ac na ddygasid yr achos gerbron y wlad yn y brawdlysoedd, modd y gwelid pwy, a pha fath rai, oedd y gwŷr a gynllwynent yn ddirgel yn erbyn y gwirion; ac y dynoethid eu hystrywiau dichellgar ar g'oedd yr holl deyrnas. Drwg genym ddeall fod gwŷr o'r un rhywogaeth yn fyw eto, y rhai, trwy ddilyn llwybrau eu tadau, ydynt yn cyflawni mesur eu hanwiredd. Ni ddywedir yn awr fod y Methodistiaid yn anffyddlon i'r llywodraeth, neu yn fradwyr i'w gwlad, ond drwg-liwir hwy trwy haeru eu bod yn *llochi drwgarferion y genedl.* Cyhuddir y Cymry fel rhai nodedig mewn trythyllwch a ffieidd-dra; fel rhai tra chwanog i chwiliena, twyllo, a lladrata, a bod y drygau hyn yn cael swcr oddiwrth ymneillduwyr yn gyffredinol, ac oddiwrth y Methodistiaid yn neillduol. Gwyddom yn dda o ba le y cyfyd yr achwynion hyn. Gwyddom hefyd er ein gofid fod drygau, ïe, drygau lawer, ynglyn â'n cenedl; drygau y byddai yn dra dymunol eu darostwng, a drygau, gobeithwn, na ellir dros byth gyhuddo ein cenedl o honynt. Gwyddom hefyd mai y gwŷr sydd barotaf i ddynoethi y genedl, ydyw y rhai a wnaethant leiaf tuag at ei diwygio, ac mai y rhai a ymdrechodd fwyaf i ddarostwng y drygau ydynt y rhai a gyhuddir o fod fwyaf yn eu llochi. Anhawdd iawn, wrth ddarllen ysgrifau y gwŷr hyn, ydyw peidio meddwl mai nid dygasedd at y drygau sydd yn eu cynyrchu, ond dygasedd at yr ymneillduwyr; ac mai eu darostwng hwy, yn fwy na darostwng y troseddau sydd mewn golwg. Pa fodd bynag, y mae hyn yn sicr, fod ymdrechion lawer wedi cael eu gwneuthur gan y Methodistiaid ac eraill, er ys blynyddoedd, i roddi terfyn i'r drygau a hanfodent cyn fod ymneillduaeth yn y tir; a thra y byddant yn ffyddlon i'r egwyddorion a broffesent, ni pheidiant ag ymegnio yn eu herbyn rhagllaw, gan obeithio y coronir eu hymdrechion â llwyddiant.

Wrth weled a chlywed honiadau cyffelyb yn cael eu gwneuthur megys o newydd, gan ddynion yr oes hon, sydd wedi eu bedyddio yn drwm i ysbryd a golygiadau Tractariaid Rhydychain; ac wrth ddeall yr ystrywiau a arferir, weithiau mewn gêwn a gwobrwy, ac weithiau mewn gwg a bygythion, i chwanegu dysgyblion, parod ydym i lawenhau, oni bai y teimlwn fod mwy yn y chware na lluosogiad sect. Sicr genym mai cryfhau ymneillduaeth a wna holl ystranciau diegwyddor o'r fath; a llawen fyddem wrth eu canfod yn amlhau, pe na bai genym ddim arall mewn golwg; ond credwn mai ein gofid ydyw fod gwirionedd yn syrthio yn yr heol; bod eneidiau dynion yn

cael niweid; a bod crefydd yr addfwyn Iesu yn cael ei harcholli. Oni bai hyn, meddwn, siriol fyddai genym glywed fod syniadau ac arferion Puseyaidd yn ffynu yn mhlith offeiriaid Cymru, gan mai y cyfryw bethau a fyddent y moddion mwyaf effeithiol, a ellid eu defnyddio, i ddyeithro y Cymry eto yn fwy llwyr, os yw hyny yn bosibl, oddiwrth yr eglwys wladol.

Ysgrifenodd Mr. Charles, o'r Bala, a Mr. Jones, o Ddinbych, mewn undeb â'u gilydd, amddiffyniad i'r Methodistiaid yn wyneb y cyhuddiadau a osodid yn eu herbyn. Nid oedd raid hyn gymaint o ran y werin, ag o ran boneddwyr y wlad, y rhai ni chawsent yr un fantais i adnabod y rhai cyhuddedig. Am hyny, ymddangosodd yr amddiffyniad yn Saesonaeg yn unig. Tua'r fl. 1802-3 y bu hyn.

Ond yr oedd anniddigrwydd a chwerwder y dosbarth gwrthwynebol yn brawf o'r fath sicraf fod yr achos a ddrwgliwient yn llwyddo. Hyn hefyd oedd y ffaith yn Mon, ar y pryd yr ymddangosodd y gwrthwynebiadau uchod. Un achos neillduol o'i lwyddiant oedd dyfodiad y Parch. John Elias i'r ynys i gyfaneddu; gweinidogaeth yr hwn, a fendithiwyd, i roddi ysgogiad anarferol i'r gwaith yn ei flaen. Mae yn angenrheidiol, gan hyny, fod bras-olwg yn cael ei roddi i'r darllenydd ar fywyd y gŵr hwn; ond gan fod cofiantau helaeth o hono wedi ymddangos drwy y wasg Gymreig a Saesonig, nid rhaid i ni ond cyffwrdd yn ysgafn â phrif-linellau ei oes gyhoeddus, (yr hyn a wnawn yn y bennod nesaf,) gan gyfeirio y darllenydd at y cofiantau argraffedig am hanes helaethach o hono.*

## PENNOD IX.

### OES Y PARCHEDIG JOHN ELIAS.

CYNWYSIAD:—

BOREU EI OES—EI DDYGIAD AT GREFYDD, A DECHREUAD EI WEINIDOGAETH—EI YMRODDIAD I GYRHAEDD GWYBODAETH—EI DDYFODIAD I FON—EI LAFUR A'I LWYDDIANT YNO—EI DDONIAU GWEINIDOGAETHOL—EFFAITH EI LAFUR AR Y CYFUNDEB—EI OLYGIAD AR Y NEILLDUAD—EI AFIECHYD A'I FARWOLAETH.

GANWYD John Elias yn y fl. 1774, yn mhlwyf Aberch, ger Pwllheli, swydd Caernarfon. Dygwyd ef i fyny gyda'i daid, yr hwn oedd hoff o hono, mewn moesoldeb a rhinwedd; dysgwyd iddo yn foreu ddarllen Cymraeg, a defnyddiwyd y medrusrwydd hwn i'w ymgydnabyddu, yn ieuanc, â'r Ysgrythyr Lân; nes oedd wedi ei ddarllen o'r dechreu hyd ganol llyfr Jeremiah, pan ydoedd ond saith mlwydd oed. Arferai fyned yn gyson gyda'i daid i eglwys y plwyf; a gwnaeth y gwirioneddau a ddarllenai ac a glywai o'r Bibl, argraffiadau dwysion ar ei feddwl yn ei ieuenctyd; yr oedd arswyd y farn, a digofaint yr Anfeidrol, yn fynych iawn yn aflonyddu ei gydwybod. Pan oedd tua 9 ml. oed, neu ychydig yn ychwaneg, clywodd son fod pregethwyr hynod o'r deheudir, a manau eraill, yn àchlysurol, yn pregethu yn y Pentre-ucha',

* Cofiant y Parch. John Elias wedi ei gyhoeddi ar annogaeth y cyfarfod misol Mon. "Memory of Rev. John Elias, by Rev. Edward Morgan, Vicar of Syston."

lle o fewn dwy filldir i'w gartref. Teimlodd awydd cryf gael eu gwrando, a llwyddodd gyda'i daid i ddyfod yno gydag ef. Ar rai achlysuron, pan y byddai nifer o bobl yn sefyll yn segur i ddysgwyl y pregethwr, annogai ei daid ef i ddarllen i'r bobl; ac unwaith, gwthiodd ef i bulpud y Pentre-ucha' i'r dyben hwnw, pryd y darllenodd, er mawr syndod i'r gwrandawyr, ran o bregeth Crist ar y mynydd. Yr oedd fod bachgen mor ieuanc yn medru darllen yn dda, yn beth rhyfedd y dyddiau hyny. Ond tra yr oedd yn darllen, daeth y gŵr dyeithr i mewn; yntau, mewn braw, a roes heibio ddarllen, gan ddisgyn ar frys o'r pulpud, a chymeryd ei le yn mysg ei gyd-wrandawyr.

Yr oedd yn y pregethau ryw ad-dyniad, a barai iddo sychedu am eu gwrando, er nad oedd eto yn alluog i ddeall ond ychydig o honynt. Nid oedd cwmni ieuenctyd anystyriol yn rhoddi iddo ond poen, ac ofnai ymwasgu at y crefyddwyr, gan ystyried ei hun yn rhy annheilwng; am hyny, fe fyddai lawer wrtho ei hunan wrth fyned i, neu wrth ddychwelyd o'r pregethau. Parhau yr oedd i wrando, a chynyddu yr oedd ei serch at foddion gras. Tarâwai, weithiau, wrth grefyddwr, a phrofai adeiladaeth rhyfeddol yn y gwmnïaeth, fel ag i sychedu fwyfwy i ymuno â'r crefyddwyr yn eu cyfarfodydd eglwysig; ond teimlad o'i anghymwysder a'i lluddiai. Dechreuodd gadw gweddi deuluaidd yn nhŷ ei rieni pan oedd tua 15 ml. oed, a phryd nad oedd yn aelod eglwysig. Clywsai lawer o son am Daniel Rowlands, Llangeitho, a mawr oedd ei awydd ef i gael ei weled a'i glywed, a thra yr oedd y dymuniad hwn yn fyw yn ei fynwes, troai yn achlysurol i gapel yr Annibynwyr, yn Mhwllheli, a chlywodd y gweinidog, y Parch. B. Jones, yn darllen, fel testyn ei bregeth, "Oni wyddoch chwi i dywysog, ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel." Yr oedd Daniel Rowlands wedi marw!—apostol Methodistiaeth Cymru wedi ei gymeryd ymaith!

Yr oedd cymdeithasfa y Bala, erbyn hyn, yn dechreu dyfod i enwogrwydd mawr, ac nid ychydig fyddai yr awydd yn mysg crefyddwyr yr oes i fyned i'r ŵyl flynyddol hòno. Yn y fl. 1792, aeth y llanc Elias yno; mwynhaodd y Gymanfa hòno i raddau anarferol, a dychwelodd yn fwy cysegredig ei feddwl i Dduw nag erioed. Bellach, yr oedd ei awydd i fod yn aelod eglwysig yn angherddol, a dechreuodd gynllunio pa fodd y gallai ddyfod i gymdeithas pobl grefyddol yn fwy. Yr oedd wedi ei ddwyn i fyny yn wehydd; a dychymygai, pe cawsai efe waith gyda rhyw wehydd crefyddol, y buasai hyny yn fantais fawr iddo, ac yn foddion, ond odid, i gael iddo aelodaeth eglwysig. Nid hir a fu cyn i ddrws o'r fath ymagor o'i flaen; arweiniwyd ef at bregethwr o wehydd, Griffith Jones, Ynys-y-Pandy, i weithio ei grefft. Yn y lle hwn yr aeth i'r eglwys, ac yn y lle hwn y dechreuodd bregethu.

Deallwyd yn bur fuan fod defnyddiau helaeth ynddo, a cherddodd y son am dano drwy yr holl ardaloedd. Derbyniwyd ef yn aelod o'r cyfarfod misol, gan roddi caniatâd iddo gynghori ei gyd-ddynion yn y manau y gelwid am dano, yn y fl. 1794, pan oedd yn 20 ml. oed. Nid oedd angenrheidrwydd rhoddi iddo helaethach *charter* nag iddo gael myned i'r lleoedd y gelwid am

dano, oblegyd yr oedd yr alwad am dano yn fawr iawn; ac er ei geryddu, gan rai, o fod yn teithio yn rhy bell, ac yn pregethu yn rhy aml, eto parhau yr oedd ei boblogrwydd, a chynyddu a wnai ei weinidogaeth mewn awch, dwysder, a defnyddioldeb. Penodwyd ef mewn Cymdeithasfa yn Llanfair Caereinion, yn ystod y daith gyntaf y bu ef yn y wlad hòno, i ddechreu un o'r oedfaon trwy weddi; hyny a wnaeth gyda'r fath ddwysder ac eneiniad, nes oedd mwy o son am weddi y bachgen o sir Gaernarfon, nag am un o'r pregethau a draddodasid yno.

Yr oedd, ar yr un pryd, yn ymwybodol ynddo ei hunan, yn fwy nag yr ymddangosai hyny i neb arall, o'r anfantais yr oedd dano, o ddiffyg dysgeidiaeth, neu wybodaeth gyffredinol. Gyda llafurio yn galed ei hunan, gwnaeth gais ar gael myned i'r ysgol; erthylodd ei gais cyntaf i gael myned i Manchester, ond llwyddodd wedi hyny i gael myned dan addysgiad y Parch. E. Richardson, Caernarfon; ac er na fu yn yr ysgol ond ychydig fisoedd, eto bu yr ychydig hyny o werth mawr iddo. Daeth yn fuan i ddeall Saesoneg yn dda, a gosodwyd ef ar ben y ffordd i gyrhaedd gwybodaeth gyffredinol trwy ei lafur ei hun. Diwygiwyd llawer arno o ran ei ddull a'i ystumiau wrth bregethu; a gwnaed ef, trwy hyny, yn gymhwysach i sefyll uwch ben, ac i gyfarch y cynulleidfaoedd mawrion a gyrchent i wrando arno.

Yn y fl. 1799, daeth i sir Fon i gartrefu, trwy briodi Elizabeth, merch hynaf Mr. Richard Broadhead, Tre'r-gof, Llanbadrig. Yr oedd hi yn byw yn Llanfechell, ac yn cadw siop yno; ac yno y bu Elias fyw hyd farwolaeth ei wraig, yn y fl. 1828. Yn y fl. 1830, priododd *Lady* Bulkeley, gweddw Syr John Bulkeley, Presaddfed, a daeth i fyw i'r Fron, ger Llangefni, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth.

Nid oes un amheuaeth na fu llafur cyhoeddus Mr. Elias, yn nghyda chyfodiad yr ysgol Sabbothol, yn mhlith y prif foddion a ddefnyddiodd yr Arglwydd i ddwyn y wlad hon i'r wedd sydd arni. Yn fuan ar ol ei ddyfodiad ef i'r ynys, fe chwanegwyd eraill at restr y pregethwyr yn y wlad,—gwŷr tra grymus, y rhai a weiniasent eu rhan tuag at hyrwyddo yr un amcan; sef y Peirch. Cadwaladr Williams; John Prydderch; William Roberts, Amlwch; y diweddar Barch. David Jones, Dwyran; a Mr. John Evans, Bodedern. Parodd hyn chwanegiad helaeth at adnoddau Methodistiaeth y wlad. Rhoddwyd dylanwad i'r pulpud mwy nag erioed. Sugnai gweinidogaeth Elias, yn enwedig, fawr a mân i'w wrando; ac yr oedd min ac awdurdod anarferol ar ei weinidogaeth, er deffroi dynion cysglyd a diofal, ac arafu dynion gwylltion ac anystyriol. Pa le bynag y cyhoeddid ef i bregethu, ymgasglai lluaws mawr i wrando arno; ac nid un dosbarth o bobl chwaith, ond pob dosbarth, ymron, yn y wlad. Heblaw aelodau eglwysig, a gwrandawyr cyson, y rhai a ddeuent o wahanol ardaloedd cylchynol i'r lle y dysgwylid ei fod ef yn pregethu, yr oedd lluaws o rai eraill na wrandawent ar neb, ymron, un amser, yn ymdyru i'r fan y byddai efe. Gwehilion y bobl, y rhai mwyaf diofal a dibris yn nghylch eu hachos tragywyddol, a ddeuent i wrando Elias. Y gwŷr mwyaf cyfrifol hefyd mewn ardal, y rhai a dybient yn ddarostyngiad

iddynt wrando ar y pregethwyr, blith draphlith, a arferent yn gyson ddyfod i wrando arno ef. A llawer iawn, yn ddiamheuol, o'r gwrandawyr camsyniol hyn, a ddaliwyd trwy ei weinidogaeth, ac a wnaed yn ddysgyblion ymroddgar a defnyddiol i Fab Duw.

Ar ddyfodiad Mr. Elias i wladychu i Fon, yr oedd llawer o hen arferion llygredig y wlad yn aros heb eu llwyr ddarostwng, er fod argoelion o wywdra arnynt wrth a fuasai yr olwg arnynt gynt. Eiddigeddai Elias yn angherddol mewn awydd am ddarostwng y cyfryw ormod rhysedd; i'r hyn orchwyl yr oedd ynddo neillduol gymhwysder. Adroddir hanesyn yn ei gofiant yn gwirio yr hyn a ddywedasom. Arferai trigolion Llanfair-yn-Nghornwy, ymgasglu at eu gilydd ar y Sabboth y Sulgwyn, i losgi nyth y gigfran; yr hon a arferai nythu bob blwyddyn, ar ysgythredd craig serth, a elwir y Gadair. Gwneid hyn, ar y dyb fod yn y nyth gywion ar y pryd. Rhwyment â thres haiarn, ryw swp dirfawr o eithin a grug, ac wedi ei danio, gollyngent ef i wared wrth gadwen, ac yna tynent ef i fyny at y lle; ac yn nghanol bonllefau y fintai, rhoddid y nyth ar dân, a llosgid y cywion a fyddent ynddo. Er saled difyrwch y gellid meddwl oedd i'w gael mewn amcan gwaeth na phlentynaidd, eto ymgasglai tyrfaoedd lluosog i'r lle; ac wedi arllwys eu creulondeb ar y gigfran a'i chywion, ymosodai yr ynfydion ar eu gilydd, a chan fytheirio llwon a rhegfeydd arswydus, rhuthrent y naill ar y llall, mewn ymladdfeydd gwaedlyd ac erchryslawn; a dybenid y diwrnod a'i ddifyrwch, mewn anwydau drwg, esgyrn briw, a gwelïau heb achos. Tua 40 ml. yn ol, penderfynodd Elias wneyd cais ar ddarostwng yr anfadrwydd uchod, trwy fyned i blith y bobl hyn a phregethu iddynt. Aeth yno, a dynoethodd y pechod o halogi dydd yr Arglwydd, mor llym; a chyhoeddodd waëau arswydlawn y gwirionedd yn erbyn pechaduriaid anedifeiriol, mewn dull mor ddifrifol a dwys, nes llenwi y bobl euog â dychryn ac â braw; a rhoddwyd heibio yr arferiad farbaraidd yn llwyr ac am byth.

Nid y tro hwn oedd yr unig un i Elias fod yn foddion i dynu hen gampau llygredig y Cymry i lawr. Cymerodd hyn le lawer gwaith, mewn gwahanol barthau yn Mon, ac mewn gwledydd eraill. Cynelid cyfarfod llygredig o'r fath ar dydd Iau Derchafael, yn ardal Pentir, sir Gaernarfon. Ar gais Mr. J. Roberts, o'r Castell, addawodd Elias ddyfod yno i bregethu y dydd o'r blaen. Fe ddaeth yn ol ei addewid, a phregethodd oddiar gareg-farch, ar ochr y ffordd, gyferbyn â'r fan yr arferid chwareu arno. Ei destyn oedd Josiah. vi. 26: "Melldigedig ger bron yr Arglwydd fyddo y gŵr a gyfyd ac a adeilado y ddinas hon, Jericho." Trwy y bregeth rymus hon, llanwyd y prif gampwyr â braw; yr hyn, yn nghyd a'r dygwyddiad o gwymp yr esgynlawr, a thoriad braich y prif gampwr, a fu yn foddion i ddyrysu y difyrwch y diwrnod hwnw, ac i'w ddiddymu o hyny allan.

Er nad oedd Mr. Elias, fel y crybwyllwyd, wedi cael ond ychydig o fanteision dysgeidiaeth yn ei ieuenctyd; ac er ei fod yn teithio llawer iawn ar Ogledd a Dê; yn ymweled yn fynych â Llundain, Liverpool, a Manchester; yn bresenol, ymron, yn holl gyfarfodydd misol Mon; ac er fod ei fywioliaeth

ef a'i deulu yn dybynu, yn fwyaf, ar y siop oedd ganddo, ac felly yr oedd ei amser yn cael ei lyncu i fyny i fesur mawr, o angenrheidrwydd, fel nad allai dreulio cymaint o amser a llawer un yn y llyfr-gell; eto y mae yn syn i ba raddau mor fawr y cyrhaeddodd ef wybodaeth gyffredinol. Yr oedd, nid yn unig, yn gyfarwydd mewn duwinyddiaeth, ond yr oedd hefyd wedi ymwthio i mewn i'r gwyddion a'r celfyddydau yn rhyfeddol. Rhaid oedd ei fod yn berchenog ar alluoedd cryfion, a rhaid hefyd oedd iddo arfer diwydrwydd a llafur anarferol, cyn y gallasai ddringo i'r rîs a gyrhaeddodd.

Teg ydyw cydnabod, a chyfiawnder â Mrs. Elias ydyw coffâu, ei bod hi wedi gwasanaethu i wneyd ei gŵr y peth a fu Ymgymerai â holl ofal a llafur y fasnach, gan mwyaf, arni ei hunan, a hyny yn ddirwgnach iawn; a thrwy hyny, cafodd yntau y fantais o dreulio llawer o'r amser y byddai gartref yn ei fyfyr-gell, yr hyn nis gallasai wneyd, oni bai ei llafur a'i ffyddlondeb hi.

Ofer ydyw i ni yn y gwaith hwn geisio ymhelaethu ar ei gymhwysderau gweinidogaethol. Mae ein gofod yn brin, a'n medrusrwydd yn brinach fyth. Yr oedd ei wedd, ei lais, ei ystum, ei aceniad, ac yn neillduol ei fater, yn gosod hynodrwydd arno. Yr oedd tân lawer yn ei natur; yr oedd difrifwch dwfn yn ei ysbryd; nerth a dymunoldeb yn ei lais; prydferthwch coronog yn ei wedd a'i ystum; a halltrwydd anarferol yn ei faterion. Ymddangosai llafur a gofal yn nghyfansoddiad ei bregethau; eto, yr oedd ei iaith yn rhydd a naturiol, fel un a ddefnyddiai iaith yn unig i ddangos ei fater. Rhaid ychwanegu hefyd, yr hyn, tybygem, oedd ei brif ragoriaeth, mai gŵr gwir grefyddol ydoedd; ei enaid wedi ei drwytho yn y gwirioneddau a draddodai, ac Ysbryd yr Arglwydd yn gosod ei sêl wrthynt; y ddau beth olaf hyn, yn anad dim, a wnaethant Elias yr hyn ydoedd. Prif nodwedd ei weinidogaeth, oedd eglurder a nerth. Yr oedd gweinidogaeth Elias yn weinidogaeth o ddifrif. Ni cheid ynddi byth ddim ag oedd fach na dim ag oedd ysgafn. "Yr oedd rhyw hynodrwydd yn ei ddawn ar bawb a glywais erioed," medd un gweinidog parchus am dano,—"yn ei bregethau nerthol, yn ei ddull difrifol, ac yn yr argraff a fyddai ei ymadroddion yn ei wneyd ar ei wrandawyr. Yr oedd yn feistr arno ei hun—yn feistr ar ei fater—yn feistr ar ei lais—yn feistr ar y gynulleidfa; ac yn wir, ar bob peth yr ymaflai ynddo."

Pregethodd yn nghyfarfodydd misol Mon, am 40 mlynedd olynol; a byth ni chlywid yr un traethawd ganddo ond unwaith ynddynt; y fath ydoedd amrywiaeth ac amledd ei bregethau. Cyrhaeddodd boblogrwydd anarferol. Dechreuodd ei boblogrwydd, ymron, gydag iddo ddechreu pregethu. Cynyddodd i raddau uwch, na neb arall yn Ngwynedd, o leiaf os nad yn Nghymru. Parhaodd yn ei boblogrwydd hyd ddiwedd ei oes. Meddai Mr. Richards, Tregaron, am dano, "Llawer gwaith y bu braidd ofn arnaf glywed ei fod yn dyfod trwy y wlad, gan gymaint y sŵn a fyddai am ei ddyfodiad, a phawb yn ymbarotoi gyferbyn ag ef, i'w bwyso a'i fesur, ewyllyswyr da a drwg. Yr oedd arnaf ofn rhag y buasai yn cael ei ddarostwng yn eu mysg, ac na fuasai yn ateb y dysgwyliad, fel braidd nad oedd flin genyf ei weled ef,

a'u gweled hwythau yn dyfod i'w wrando; ond erbyn eu dyfod hwy ac yntau yn nghyd, byddai yn dda iawn genyf, erbyn hyn, fod y ddau *barty* yno, a phawb yn cael mwy na'u dysgwyliad, ac yn myned adref, os nid wedi eu hargyhoeddi, o leiaf, wedi eu synu. Ni welais neb yn codi yr achos ag un bregeth yn ngolwg pawb, fel y gwnai efe."

Dywedasom o'r blaen fod ei weinidogaeth wedi ei choroni â llwyddiant anarferol. Ysgolion Sabbothol Mr. Charles, a gweinidogaeth John Elias, a fuont y moddion penaf i wneyd Cymru yr hyn ydyw. Nid oedd capelau Mon ond bychain ac anaml pan ddaeth ef i wladychu ynddi gyntaf; ac nid oes amheuaeth na fu ei lafur ef, a nerth rhyfeddol ei weinidogaeth, yn mhlith y prif foddion i ddeffroi y wlad i wrando; i ddarostwng arferion llygredig yr oes; i sefydlu ysgolion Sabbothol; i luosogi deiliaid yr eglwysi; i goroni cyfarfodydd cyhoeddus; ac i ddychwelyd pechaduriaid at Dduw. "Yn fy holl deithiau trwy Gymru," meddai y Parch. D. Charles, "ni chlywais am un gweinidog, ag y bu ei weinidogaeth mor gyffredinol fendithiol i ddychwelyd pechaduriaid, ag y bu yr eiddo Mr. John Elias. Bron yn mhob ardal, pentref neu dref, gellir cyfarfod â rhyw berson neu bersonau a briodolent eu troedigaeth i ryw bregeth o'i eiddo ef."

Ni chafodd cymdeithasau y Biblau a'r Traethodau erioed yr un a ddadleuai yn rymusach trostynt. Rhoes ei nawdd calonog a galluog dros gymdeithasau Dirwest a Diweirdeb. Cadwodd ei le yn uchel ac anrhydeddus yn mhrif gyfarfodydd y cyfundeb dros yr holl amser y caniatawyd iddo eu mwynhau. Ychydig o flynyddau ar ol i Mr. Elias ddyfod i sylw, cododd y cwestiwn, "Ai ni ddylid neillduo rhyw nifer o bregethwyr y cyfundeb i weinyddu yr ordinhadau o fedydd a swper yr Arglwydd?" Cwestiwn oedd hwn a barai deimladau cyffrous, o blaid neu yn erbyn, mewn llawer mynwes; a chwestiwn a fygythiai heddwch ac undeb y corff; yn neillduol yn y Deheudir, y rhan o'r wlad y preswyliai corff y clerigwyr ynddi, ac y teimlid eu dylanwad rymusaf. Gan ein bod eisoes wedi gosod ger bron brif amgylchiadau yr ysgogiad pwysig hwn, mewn rhan blaenorol o'r gwaith, nid ymhelaethwn, ddim mwy na chyfeirio yn fyr at y rhan a gymerth Mr. Elias ynddo.

Yr ydym eisoes wedi dyweyd mai nid hannerog a fyddai Mr. Elias mewn dim a gymerai mewn llaw; ac ni ellid dysgwyl i ŵr o'r fath benderfyniad meddwl ag ydoedd ef i fod yn glaiar yn hyn. Yr oedd Elias wedi bod yn pregethu am ysbaid 15 ml., ac wedi cyrhaedd llawn cymaint o ddylanwad yn ngynghorau Methodistiaeth a neb o'r lleygon yn Ngwynedd; ac nid rhyfedd fydd gan y darllenydd ddeall pa ochr i'r ddadl a gymerodd. Hysbys ydyw hefyd i'r sawl a'i hadwaenent y pryd hwnw, fod ei deimladau yn llai tyner tuag at yr eglwys wladol, nag oeddynt yn ei flynyddoedd olaf, am yr hyn newidiad yr achwynir arno gan rai, ac y canmolir ef gan eraill. Pa un bynag, ai gwell ai gwaeth oedd hyn, nid ein gorchwyl, ar hyn o bryd, ydyw penderfynu; ond ar yr adeg y cyfeiriwn ati, dilys ydyw ei fod yn llochi syniadau cryfion, ac yn fynych, yn defnyddio ymadroddion cryfion, o blaid y "neillduad;" ac yn erbyn y syniad, nad oedd un urddiad ar weinidogion yr efengyl yn ysgryth-

yrol, nac yn oddefol, ond yr un esgobaidd. Bu aml ymddyddan tŷn rhyngddo â Mr. Charles ar y mater hwn; ac nid oes amheuaeth na fu cyfodiad dynion, megys Elias, ac eraill cyffelyb iddo, mewn Gogledd a Dê, yn foddion arbenig i fantoli mor llwyr o blaid y neillduad. Yr oedd Mr. Jones, o Ddinbych, a Mr. Elias yn y Gogledd; a Mr. Ebenezer Morris yn arbenig yn y Dê, ynddynt eu hunain gymaint a llu o blaid yr ysgogiad; a diau genym, eu bod yn ymohebu â'u gilydd yn yr achos; ac ar yr un pryd, nid oedd dim a ewyllysient yn fwy, na dwyn y cyfnewidiad yn mlaen mewn modd esmwyth, heb archolli teimladau brodyr a garent mor fawr, ac heb achosi un ymraniad yn y cyfundeb. Gosodwn yma lythyr oddiwrth Mr. Elias at gyfaill iddo yn Liverpool, yn yr hwn y gwelir ei syniadau ar yr achos.

LLANFECHELL, TACHWEDD 26, 1810.

ANWYL FRAWD,

Cefais lythyr oddiwrth Mr. Ebenezer Morris ar ol cymdeithasfa Abertawe, yn rhoddi i mi hanes cysurus, eu bod yno wedi cydsynio â'r hyn y cytunwyd arno yn y Bala, yn nghylch chwanegu breintiau yr eglwysi. Gwnaed hyny yno (yn Abertawe) yn dawel iawn; hefyd, cydsyniodd corff y gymdeithasfa, heb gymaint ag un yn codi ei law i arwyddo ei anfoddlonrwydd. Bu tro hynod mewn rhaglunniaeth i gael hyn oddiamgych mor dawel: yr oedd yn fwy nag oeddid yn ei ddysgwyl. Clywodd y Parch. Rowland Hill am gymdeithasfa Abertawe, a bod y mater hwn i gael ei drin yno; cynhyrfwyd ei feddyliau fel y daeth o Bristol i Abertawe i'r gymdeithasfa; ac mae yn debygol mai yr Arglwydd a'i danfonodd, a'i fod wedi llwyddo ei ddyfodiad i raddau mawr. Cynygiodd rhai o'r offeiriaid (fel y gelwir hwy) gyfodi rhai gwrthddadleuon yn erbyn i'r corff gael y chwanegiad maent yn ei geisio i'w breintiau; atebodd Mr. Hill eu holl wrthddadleuon, ac a ddangosodd yr angenrheidrwydd i'r corff gael yr hyn y maent yn ei geisio. Dywedodd ei fod o ddygiad i fyny yn ffafriol i Eglwys Loegr; a'i fod eto yn caru y gweinidogion sydd yn pregethu yr efengyl ynddi; ond yn gymaint a bod y cyffredinolrwydd o'i gweinidogion yn gwadu'r athrawiaeth a dyngasent iddi gynt, fod duwiolion, o orfod, yn cilio oddiwrthi, ac nas gall plant Duw fyw ar ûs. Hefyd, dywedodd am yr enwog Mr. Whitfield, ei fod wedi colli yn fawr, eisieu gwneyd yn ei oes, yr hyn y mae ein corff ni yn ei geisio; pe gwnaethai felly, y buasai yn debygol i'r holl gorff fod yn un corff lluosog trwy y deyrnas; yn lle hyny, ei fod wedi rhanu yn llawer o ganghenau: a dywedodd y bydd ein corff ninau yn sicr o fyned yr un modd os na chaent eu gofyniad. Felly cytunwyd i adael i gymdeithasfa y Bala fyned a'r peth yn mlaen yn gyntaf, ac yna hwythau i ganlyn. * * * * *

Ysgrifenwch i'r Bala i geisio gan Mr. Charles neu Mr. Llwyd ddyfod atoch i weini yr ordinhadau; ac os na ddeuant, nid wyf yn meddwl y byddai yn bechod mawr i chwi geisio gan Mr. Jones, o Ddinbych ddyfod atoch. * * *

Wyf, eich cyfaill,

JOHN ELIAS.*

Afreidiol ydyw i ni chwanegu fod Mr. Elias yn un o'r wyth hyny a neillduwyd gyntaf yn y Gogledd; ac nid rhyfyg, tybygem, ydyw datgan na fu

* Trwy ddarllen yr hanes a roddir am y neillduad yn Cyf. I., tudal. 434-462, caiff y darllenydd eglurhad ar wahanol ranau y llythyr uchod.

urddiad erioed ar ddyn cymhwysach i'r swydd. Ond y mae yn rhaid i ni dynu ein sylwadau ar y gweinidog hynod hwn i ben, a chyfeirio ein darllenwyr eilwaith at y cofiantau argraffedig i gael hysbysiad helaethach am dano. Wedi llafur mor galed a difwlch, am gynifer o flynyddoedd, naturiol ydyw dysgwyl clywed am argoelion adfeiliad. Cawsai ysgegfa drom yn y fl. 1832, trwy gael codwm o gerbydau *(gig)* wrth fyned o Fronhaulog i'r Bala, pedair milldir o ffordd,—y fath ysgytiad a osododd ei ôl arno tra fu byw. Syrthiodd ar ei ben gyda rhuthr; bu yn hir megys un marw, ac yn analluog i ymadael â Bronhaulog am wythnosau. Teimlodd yn ddwys iawn pan gollodd ei hoffus gyfaill Mr. Llwyd, Beaumaris, yn 1834. Cawn ei fod yn cwyno yn drwm drachefn yn y fl. 1837, pryd yr oedd wedi gorfod teithio yn arafach, a phregethu yn anamlach. Yn y fl. 1839, bu drachefn yn garcharor dros rai misoedd, a hyny dan ddolur peryglus. Yn Ebrill, 1840, yr oedd yn pregethu ychydig drachefn, *unwaith* yn unig ar y Sabboth; ac er dadebru ychydig, yr oedd y cyfansoddiad yn llacio, ac amser ei ymddatodiad yn nesâu. Cafodd oerfel i'w draed yn y flwyddyn grybwylledig, ac erbyn ei diwedd yr oedd Mr. Elias yn cwyno yn drwm gan boen yn ei droed, ac weithiau, cymerai achlysur oddiwrtho i ddarogan canlyniadau angeuol a allent ddylyn. Parhau a wnaeth y gofid yn ei droed, nes ei garcharu yn llwyr i'w dŷ, ac yn raddol i'w wely, ac yn y diwedd i'w fedd. Felly, wedi pregethu yr efengyl am 47 o flynyddoedd, gyda llwyddiant anarferol, efe a hunodd yn yr Iesu, Mehefin 8ed, 1841, yn 67 ml. oed. Cludwyd ei weddillion o'r Fron i Lanfaes, ger Beaumaris, i'w gosod wrth ochr gweddillion ei hen gyfaill Mr. Llwyd. Ni welwyd, mae'n debyg, orymdaith angladdol erioed yn Mon o fath hon. Ar y ffordd tua Beaumaris yr oedd yr orymdaith yn filldir a hanner o hyd, ac yn cynwys tua 10 mil o bobl. Wrth fyned trwy y dref, tynasai pawb y lleni ar y ffenestri, a chauasai pawb eu siopau. Eiddigeddasai eglwyswyr, ac ymneillduwyr o bob enwad, i ddangos eu parchedigaeth i'w goffadwriaeth.

---

Wrth adolygu hanes Methodistiaeth yn Mon dros ysbaid y can' mlynedd diweddaf, y mae gwahanol syniadau yn ymgymhell i'n sylw. Allan o ddechreuad bychan, y mae yma, fel y gwelsom, bethau mawrion wedi tarddu. Bychan, yn wir, oedd y cychwyniad; gallesid meddwl mai tra hawdd a fuasai ei lethu. Fel y gareg a welodd Daniel yn cael ei thori o'r mynydd, "*Nid â llaw,*" y bu cychwyniad Methodistiaeth yn y wlad hon. "Nid â llaw," sydd ymadrodd yn dynodi mwy o *Dduw* nag o *ddyn*; mwy o drefniad rhagluniaeth y nef, nag o gynllun a chelfyddyd dyn. Nid llaw dyn a welwn yn nygiad yr efengyl yma gyntaf, pan oedd y clerigwyr oll, am a wyddom, yn berffaith ddiofal am eu gwaith a'u pobl; a'r preswylwyr, ymron oll, mor ddyeithr i'r Beibl ag oeddynt i'r Alcoran. Y pryd hyn, dechreuodd y llyfr santaidd ymliw â theulu Thomas Pritchard, o'r Tŷ-Gwyn. Nid o fwriad, na thrwy gynllun dynol y bu hyn; ac nid cymdeithas Genadol a anfonodd William

Pritchard, o Lasfryn-fawr, i Blas-pen-mynydd i fyw, ond rhagluniaeth ddoeth y nef. Defnyddiwyd offerynau, mae'n wir, ond yr oedd yr offerynau a ddefnyddiwyd yn gyfryw ag a barai na chai "un cnawd orfoleddu ger ei fron ef," yn tueddu i guddio balchder oddiwrth ddyn; ac i ddangos, fod godidogrwydd y gallu o Dduw ac nid o ddynion. Am y 30 mlynedd cyntaf, yr oedd y pregethwyr yn ychydig iawn eu rhif, ac yn fyr iawn eu dawn. Nid oedd gan yr un o honynt ddim o fanteision dysg na dawn, cyfoeth nac awdurdod. Yn unig yr oeddynt o gymeriad da, o ddyben cywir, ac o rodiad diargyhoedd. Eiddigeddent dros ogoniant Duw, a thros achubiaeth eneidiau dynion; cymhwysderau a roddwyd iddynt, "*Nid â llaw.*" Am lawer o flynyddoedd, nid oedd gan y tadau yr un addoldy i'w derbyn; ond yr oedd ambell i dyddynwr, wedi ei dueddu, yn ddiau gan Ysbryd Duw, yn awyddus i roddi lloches iddynt. Yr un Ysbryd hefyd, yn ddiamheuol, a barasai brydferthwch ar y dynion diaddurn hyn, ac a osodasai y fath awchlymder anarferol yn eu geiriau. Ymddangosant yn ddynion o ddifrif gyda'u gwaith. Pa mor fychan bynag oedd eu medrusrwydd, yr oedd eu gonestrwydd yn amlwg i bawb. Ymddangosai eu cywirdeb yn ngwedd eu hwynebau, yn sŵn eu lleisiau, ac yn helaethrwydd eu dagrau.

Bu dyfodiad John Jones, Bodynolwyn, i'r wlad i aneddu; ac yn ddiweddarach, dyfodiad John Elias, yn foddion arbenig i hyrwyddo y gwaith da yn mlaen. "Nid â llaw" ychwaith yr anfonwyd hwythau iddi. Nid cyfundrefn ddynol, ond goruchwyliaeth ddwyfol, a'u harweiniodd. Tua'r amser y daeth Elias i'r wlad, y torodd gwawr yr ysgol Sabbothol; sefydliad yr hon, yn cydweithredu â doniau helaethach yn y weinidogaeth, a barodd ysgogiad anarferol i'r achos yn ei flaen. Parhaodd i gynyddu nes llenwi yr holl wlad ymron â moddion gras; a chasglu y preswylwyr ymron oll i'w defnyddio. Pa sawl mil o ddynion a ddygwyd yn gydnabyddus â gwirioneddau y Beibl, yn y can' mlynedd diweddaf yn Mon, sydd anmhosibl ei wybod; ond nid gormod, tybygid, fyddai dyweyd, fod mwy o wybodaeth ysgrythyrol wedi cael ei chyfranu, a mwy o rym y gwirionedd wedi cael ei brofi, yn yr ysbaid hwnw, nag a gawsid yn ystod mil a saith gant o flynyddoedd a aethant o'r blaen! Gyda syndod a diolchgarwch y'n cymhellir i gydnabod, "BETH A WNAETH DUW!"

DIWEDD YR AIL GYFROL.

GWRECSAM: ARGRAFFWYD GAN R. HUGHES A'I FAB.

LIBRARY
15
JUL
1976
ONTO
OF
ITY

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

BX
8291
H84
1851
CYF.2
c.1
ROBA